



This is a digital copy of a book that was preserved for generations on library shelves before it was carefully scanned by Google as part of a project to make the world's books discoverable online.

It has survived long enough for the copyright to expire and the book to enter the public domain. A public domain book is one that was never subject to copyright or whose legal copyright term has expired. Whether a book is in the public domain may vary country to country. Public domain books are our gateways to the past, representing a wealth of history, culture and knowledge that's often difficult to discover.

Marks, notations and other marginalia present in the original volume will appear in this file - a reminder of this book's long journey from the publisher to a library and finally to you.

Usage guidelines

Google is proud to partner with libraries to digitize public domain materials and make them widely accessible. Public domain books belong to the public and we are merely their custodians. Nevertheless, this work is expensive, so in order to keep providing this resource, we have taken steps to prevent abuse by commercial parties, including placing technical restrictions on automated querying.

We also ask that you:

- + *Make non-commercial use of the files* We designed Google Book Search for use by individuals, and we request that you use these files for personal, non-commercial purposes.
- + *Refrain from automated querying* Do not send automated queries of any sort to Google's system: If you are conducting research on machine translation, optical character recognition or other areas where access to a large amount of text is helpful, please contact us. We encourage the use of public domain materials for these purposes and may be able to help.
- + *Maintain attribution* The Google "watermark" you see on each file is essential for informing people about this project and helping them find additional materials through Google Book Search. Please do not remove it.
- + *Keep it legal* Whatever your use, remember that you are responsible for ensuring that what you are doing is legal. Do not assume that just because we believe a book is in the public domain for users in the United States, that the work is also in the public domain for users in other countries. Whether a book is still in copyright varies from country to country, and we can't offer guidance on whether any specific use of any specific book is allowed. Please do not assume that a book's appearance in Google Book Search means it can be used in any manner anywhere in the world. Copyright infringement liability can be quite severe.

About Google Book Search

Google's mission is to organize the world's information and to make it universally accessible and useful. Google Book Search helps readers discover the world's books while helping authors and publishers reach new audiences. You can search through the full text of this book on the web at <http://books.google.com/>

Per. 14198 e. $\frac{285}{6}$









Y

TRAETHODYDD.

AM Y FLWYDDYN 1850.

LLYFR VI.

DINBYCH:

ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWDYD GAN THOMAS GEE.

LLUNDAIN: HUGHES, ST. MARTIN'S LE GRAND.

MDCCL.



DANGOSEG.

IONAWR.

	Tudal.
Coll Gwynfa	5
Dolenau y Gadwen	21
Cerddoriaeth Grefyddol y Cymry	35
Emyn Luther	45
Yr Eisteddfod Farddol	46
Ysgolion Parotoawl i'r Cymry	59
Siencyn Penhydd	67
"Pwy a ddeall daranau ei gadernid ef?"	88
Cyflawniad Prophwydoliaethau yn ugwyyddiadau yr Amser presennol	90
"Gwlad fy Nhadau"	107
Addyg y Llywodraeth	108
Pythefnos yn Llanwrtyd	111
James a Rees ar yr "Eglwys o Ddifrif"	125
Nodiadau ar Lyfrau	134

EBRILL.

Jones o Langan, a'i Amserau	141
Dyweyd y Gwir	163
Gwladgarweh	170
Dolenau y Gadwen	176
Butler ar Grefydd Naturiol a Dadguddiedig	192
Dinasoedd y Cynosoedd—Ninifeh	204
Gweddillion Barddonol Dewi Wyn	221
Cadwedigaeth yr Ysgrythyrau	223
Amddiffyniad yr Eglwys Sefydledig	235
Moddion Iachawdwriaeth	239
Dystryw Caersalem	254
Diwygiad Seneddol a Chyllidol	255
Hungari	261
Prynwch Dir	265

GORPHENAF.

	Tudal.
Daniel Rowlands, a'i Amserau	269
Dysgeidiaeth fel Cymhwysder i'r Weinidogaeth	290
Dinasoedd y Cynoesoedd—Ninifeh	295
Aflesoldeb yr Eisteddfodau presennol, a'r anghenrheidrwydd am foddion mwy effeithiol i goethi Iaith a Llenoriaeth Cymru	304
Cyfnewidwyr Hymnau	316
Adroddiad Dirprwywyr Iechyd ar Gladdfeydd	322
Dolenau y Gadwen	327
Cadwedigaeth yr Ysgrythyrau—y Testament Newydd	351
Gweddillion Barddonol Dewi Wyn	365
Ofn Marwolaeth	367
Mr. Johnes, Syr Thomas Phillips, a'r "Quarterly Review"	376
Beth a ddaw o'r Amaethwyr?	387
Nodiadau ar Lyfrau	392

HYDREF.

Thomas Foulkes	398
Masnach a'i Llwyddiant	414
Agwedd Foesol a Chrefyddol Cymru yn nechreuad y Diwygiad Methodistaidd	422
Greddf, Deall, a Rheswm	436
Cyfreithiau Lloegr yn achos Cymru	448
Y Nestoriaid	456
Dolenau y Gadwen	470
Y Regium Donum	495
Yr Amaethwr a'r Goruchwyliwr	507
Nodiadau ar Lyfrau	517

Y TRAETHODYDD.

COLL GWYNFA.

YR ydym wedi meddwl fwy nag unwaith am ysgrifenu traethawd ar athrylith Milton; ond nis buom hyd yn hyn, ac nid ydym eto, yn meddu ar ddigon o hyfdra i gymeryd y gwaith mewn llaw. Mor bell ag y mae parch iddo yn gymhwysder i draethu am dano, nid ydym yn foddolawn i roddi y blaen i Dr. Channing na Mr. Macauley, na neb arall. Yr ydym yn ei barchu fel dyn cywir, gwrol, diysgog yn ei ymlyniad wrth egwyddorion; yr ydym yn ystyried ei ysgrifeniadau rhyddieithol yn mysy y rhai mwyaf campus yn yr iaith Saesoneg; ac yn enwedig pan ddarllenom ei gyfansoddiadau barddonawl, nis gallwn lai na rhyfeddu fod y fath feddyliau mawrion wedi cael lle mewn enaid dynol. Bydd ei eiriau yn ein dilyn am ddiwrnodiau fel swn dyfroedd lawer, "fel llais o dragywyddoldeb." Er cymaint yw ein heiddigedd dros anrhydedd y Cymry, yr ydym yn gorfod teimlo, pe byddai rhagoriaethau yr holl feirdd Cymreig er dyddiau Taliesin wedi eu casglu ynghyd mewn un dyn, na fyddai hwnw yn haeddu ei gystadlu â John Milton. Ond un peth yw teimlo ei fawredd, a pheth arall yw medru dangos yn mha beth y mae y mawredd hwnw yn gynnwysedig. Y gorchwyl olaf hwn nid ydym yn anturio cynnyg arno: a rhaid i ni ddyweyd na welsom neb arall wedi llwyddo i'w gyflawni mewn modd boddlonawl. Er hyny, ni ddylid dibrisio y gallu i deimlo fod Milton yn ddyn mawr. Dyma ddawn nad oedd ond ychydig yn ei oes ef ei hun, ac nad yw pawb eto, yn ei meddu. Yr oedd ganddynt hwy ryw egsus, gan eu bod yn byw yn rhy agos ato i'w ganfod yn gyflawn: ond erbyn hyn, nid oes gan neb hawl i son am lēnyddiaeth os nad yw yn gwerthfawrogi barddoniaeth Milton. Nis gwyddom am well ffordd i ddyn adnabod ei hun na thrwy eistedd i lawr yn bwyllog i ddarllen "Coll Gwynfa." Os bydd yn blino arno yn fuan, dyna brawf ar unwaith ei fod yn amddifad o chwaeth. Nid yw eto yn alluog i ddosbarthu rhwng y drwg a'r da. Y mae heb erioed agor ei lygaid i weled anian. Ond drachefn, glyned i'w ddarllen trwy bob anhawdsder, ac os yw yn rhagori o ran ei gynneddfau ar greaduriaid direswm, fe ddaw mewn amser i weled prydferthwch ac ardderchogrwydd digyffelyb yn yr holl waith: oblegid y mae "Coll Gwynfa" yn un o'r llyfrau sydd yn gwella o hyd wrth ei fynych ddarllen; a dyna y prawf goreu o wir fawredd.

Fel pob dyn gwirioneddol fawr, y mae Milton hefyd, nid yn unig yn traddodi meddyliau mawrion, ond yn gwneyd hyny yn *hawdd*. Dichon

dyn cyffredin, trwy ymdrech dirfawr, wneuthur gorchwyl anghyffredin; ond y mae dyn cryfach yn gwneyd yr un peth gyda rhwyddineb. Yn ngwaith beirdd diweddarach, y mae gormod o *geisio* at effaith. Pan ddywedir rhywbeth nerthol, y mae yr *ymdrech* yn rhy amlwg. Yn lle myned ymlaen gyda'u gwaith yn dawel, y maent mewn cyffro parhâus, ac yn dangos rhyw egni annaturiol i dynu sylw yr edrychydd. Y canlyniad ydyw, fod meddwl yr edrychydd yn myned oddiwrth y gwaith at y gweithiwr; nid heb ryw gymaint o ryfeddod efallai ar y cyntaf wrth weled ei fywiogrwydd; ond nid hir y bydd cyn i'r teimlad hwn roddi lle i dosturi yn gymysgedig â graddau o ddirmyg. Y mae Byron yn llawn o'r ymdrech annaturiol hwn: y mae gormod o hono yn Young a Pollock: ac y mae yn rhaid addef nad yw Dewi Wyn yn rhydd oddiwrtho. Ond yn Milton nid oes un gair wedi ei roddi i mewn er mwyn effaith. Y mae yn amlwg nad oedd efe byth yn gofyn, pa fodd y mae hwn yn debyg o *ymddangos* oreu, ond pa fodd y mae yn debyg o *fod* yn oreu. Myned ymlaen gyda'i waith yn dawel y mae ef, heb ofalu am foddio neb ond ei Feistr mawr a'i gydwybod ei hun. Yn nghanol y dygwyddiadau mwyaf aruthrol, y mae yn meddiannu ei hun mewn hamdden a phwyll. Yn gyffelyb i ddesgrifiad Goethe o ddyn mawr, y mae yn myned rhagddo,

Fel gloew seren,
Yn y ffurfafen,
Heb brysuro,
Ac heb orphwyso,
Nes cyflawn orphen
Y gwaith ro'w'd iddo.¹

O ganlyniad, nid oes ynddo ef ddim annaturiol, dim o'r hyn a eilw y Saeson yn *spasmodic*. Os yw wedi cyflawni gwaith mawr, y mae wedi gwneyd hyny gyda llai o drwst nag a gedwir yn fynych ynghylch rhyw hanner dwsin o englynion difeddwl, difywyd, yn un o Eisteddfodau Cymru. Y mae yn symud y meini mwyaf yn Baalbek gyda'r un tawelwch a rhwyddineb a phe na byddent ond y ceryg llyfnion sydd gan y plant i chwareu â hwynt ar lân yr afon. Nid yw hyn yn cynnwys nad oedd ei waith yn costio llafur a gofal; ond yn hollol i'r gwrthwyneb. Trwy lafur dibaid y cyrhaeddodd y fath berffeithrwydd; ac ar ol ei gyrhaedd, nid yw yn rhoi heibio lafurio: er hyny, yn lle gwylltio yn y gorchwyl, a llethu dan y baich, y mae yn llafurio gyda hyfrydwech iddo ei hun, fel un sydd yn feistr ar ei waith. Un o elfenau hanfodol pob meistrolaeth yw cuddiad cryfder. Pan ddygir yr holl awdurdod i'r golwg, y mae o hyny allan yn colli ei dylanwad. Nid oes dim yn gorchfygu dyn â'i fawredd, ac yn effeithio yn hir ar ei deimladau, os na fydd ynddo ryw ddirgelwch. Y mae meddwl dyn yn hyn yn hawlio ei berthynas âg anfeidroldeb, ac yn ymyrhaedd yn barhâus trwy y gwledig at yr anweledig. Yr oedd Milton yn deall hyn yn dda; ac am hyny nid yw ar un achlysur yn dangos pen draw ei nerth. Nid yw un amser yn cymeryd y darlennydd hyd derfynau ei ymherodraeth, ac yn peri iddo droi yn ol oddiyno mewn somedigaeth,

¹“Wie das Gestirn,
Ohne Hast,
Aber ohne Rast,
Drehe sich jeder
Um die eigne Last.”

heb ddim ganddo mwyach ond dywedyd ynddo ei hun, Dyma gymaint a fedd hwn, dyma yr oll a all efe ei wneuthur. Er mor helaeth ac mor gyfoethog yw y golygfeydd a ledir o flaen ein llygaid, y mae yn gadael digon o le i'r dychymyg fyned rhagddo, ac yn ein gorfodi i deimlo fod mwy o'r golwg. O ran dim a allwn ni ei weled y mae ei allu yn annherfynol. Nid ydym yn dyweyd nad yw yn rhoddi ei holl nerth allan yn ei "Goll Gwynfa;" ond y mae yn gwneuthur hyny mewn cysondeb graddol, mewn rheol a threfn, er mwyn cyflawni ei waith, ac nid er mwyn ei weled gan ddynion. Yn lle gollwng yr holl agerdd i ruthro ar unwaith, nes chwalo y cwbl o'i amgylch yn yfflon, a pheri gwrthdarawiad yn ei erbyn ei hun, y mae yn ei gadw o fewn terfynau, a thrwy hyny yn effeithio yn fwy grymus.

Yn y golygiad hwn y mae tebygolrwydd rhyngddo ef a'r holl feirdd goreu, megys Chaucer, Spenser, Shakspeare, Cowper, a Wordsworth. Y maent oll yn ysgrifenu heb ddim gorchest annaturiol: ond yn mawredd y gorchwylion a gyflawnir ganddynt, y mae Shakspeare a Milton yn rhagori ar bawb. Pa un drachefn, ai Shakspeare ai Milton, yw y mwyaf, nid awn i geisio penderfynu. Y mae pob un yn anghymharol yn ei le ei hun; a diammhau nas gallasai y naill wneyd gwaith y llall. Efallai mai y gwahaniaeth amlycaf rhyngddynt yw yr un a ganfyddir yn fynych rhwng dau ddosbarth o dduwinyddion: y mae un yn fwy tueddol i edrych ar yr ochr ddynol i bob peth, a'r llall ar yr ochr ddwyfol. Mewn dawn i chwareu ar dannau calon dyn, ni fu neb erioed yn gydradd â Shakspeare. Yr oedd holl ddyfnderoedd y natur ddynol yn hysbys iddo, yn ei nwydau a'i serch- iadau, ei chariad a'i chas, ei hyfrydwch a'i thristwch, ei dymuniadau a'i hofnau; yn mysg pob graddau, ac yn mhob amgylechiadau. Yma y mae yn frenin heb un cystadleuwr. Y mae yn wir nad yw Milton yn ddisylw o'r rhyfeddodau diderfyn sydd o fewn cylch dynoliaeth. Y mae hyn yn annichonadwy i ddyn cywir. Y mae calon ddynol yn curo yn ei fynwes yntau, a hono yn galon eang, lawn o deimlad, rhy lawn i bawb ei hamgyf- fred. Wrth weled ei gyd-ddynion yn chwareu o'i amgylch, y mae fel dyn o feddwl difrifol, fel gwir Buritan, yn edrych arnynt gyda gwên serchog; ac nid yw gwên neb mor serchog a gwên dyn difrifol: ond nid oes ganddo duedd nac amser i ymgymysgu ond ychydig â hwynt yn eu llawenydd. Y mae ei fryd ef uwchlaw gwrthddrychau daearol; ac hyd nod pan y mae yn ymostwng i ddesgrifio bodau dynol; yn lle eu cymeryd yn hollol fel y maent, y mae yn eu codi i ryw fyd uwch na hwn, ac yn eu gwisgo â'r nodweddion hyny â pha rai y mae ei feddwl ef ei hun yn arfer cymdeith- asu. Ei ddyben mawr ef oedd "cyfiawnhau i ddynion lwybrau Duw." Ni chanwyd erioed ar destun mwy teilwng; ac ni chenir eto, tu yma i dragywyddoldeb, yn fwy teilwng o'r testun.

Onid fel y dywedwyd o'r blaen, nid ein hamcan y tro hwn yw ysgrifenu am Milton, namyn am y cyfieithiad o "Goll Gwynfa," gan Dr. Pughe. Nid ychydig oedd yr anturiaeth, gan nad oes un gair afreidiol yn Milton, mwy na chwyr afreidiol mewn crwybr; nac un frawddeg ychwaith heb fod yn llawn o fêl. Cyfeirir yn fynych at y cyfieithiad hwn fel un o brif orchestion y Cymry, ac awgrymir weithiau nad oedd y cyfieithydd yn llai ei athrylith na'r awdur ei hun. Nid yw yn ddiannmheul ychwaith a fydd pawb yn foddllawn i aros ar hyn; oblegid y mae genym ryw adgof i ni weled mwy nag un ysgrifenydd yn ceisio codi Dr. Pughe yn uwch na

Milton. Yn ngolwg pob dyn o synwyr nid yw hyn i gyd ond ffolineb a ffloreg digymysg. Un peth yw creu meddyliau, a pheth arall yw eu trosglwyddo, gyda llwyddiant mwy neu lai, o'r naill iaith i'r llall. Ond pa glod bynag sydd yn deilwng i *gyfieithydd* medrus, yr ydym yn ewyllysgar yn ei roddi i Dr. Pughe. Nid peth hawdd oedd Cymreigio y fath lyfr a "Choll Gwynfa;" ac nid canmoliaeth gyffredin yw dywedyd ei fod ef wedi cyflawni y gorchwyl, gan mwyaf, heb wneuthur cam â meddyliau mawrion Milton. Gwyddom fod rhai yn barnu y byddai yn dda ei ailgyfieithu o iaith Dr. Pughe i Gymraeg gyffredin: ac nis gallwn lai nag addef, pe buasai hyn wedi ei wneuthur ganddo ef ei hun, na fuasai genym ni y gwrthwynebiad lleiaf. Ni ddygwyddodd i ni erioed gyfarfod â neb a fedrai hysbysu pa le y cafodd yr athraw hybarch ei Gymraeg. Y mae yn ddilys mai nid gan ei fam anrhydeddus yn sir Feirionydd: ac y mae mor ddilys a hyny mai nid hon oedd iaith Taliesin ac Aneurin, na iaith y "Mabinogion," na iaith y "Bardd Cwsg." Dyma yr iaith Gymraeg ddiledryw, medd rhai. Nage, meddwn ninnau: Cymraeg ddiledryw pob oes yw yr iaith a arferid gan y Cymry yn yr oes hono, oddieithr mor bell ag y dygwyd i mewn gyfnewidiadau y rhai y gellir profi eu bod yn anghyson âg egwyddorion hanfodol yr iaith. Ond nid yw yr iaith hon wedi ei harfer mewn unrhyw oes; a phe buasai wedi ei harfer rywbryd cyn hyn, eto nid dyma Gymraeg yr oes hon. Crybwylla Dr. Pughe nad oes dim geiriau yn ei waith nad ydynt yn arferedig mewn rhyw ffurf neu gilydd yn rhyw barth o Gymru. Ond nid yn erbyn geiriau unigol yr ydym yn dadleu. Mae yn wir y dewisem roddi y blaen i'r geiriau a arferir yn *mhob* rhan o Gymru. Er hyny ni chwennychem i hen eiriau cryfion da fyned yn llwyr ar ddifancoll. Ond dadleu yr ydym yn benaf yn erbyn ei ddull ef o ffurfio ymadroddion. Y mae ei gystrawen yn anghymreigaidd. Ond dylem ychwanegu nad yw y gwahaniaeth gymaint mewn gwirionedd ag yr ymddengys ar yr olwg gyntaf. Na lwfrhaed y Cymro anghyfarwydd; ac fe ddaw cyn hir yn alluog i'w ddarllen gyda rhywyddineb a hyfrydwch.

Un anhawader arall ar ffordd y cyfieithydd oedd, fod Milton mewn lliaws o fanau yn gwneyd i'r sain ateb i'r synwyr. Yn yr holl fanau hyny, mae y cyfieithiad mor llwyddiannus ag y gallasai neb ddysgwyl. Er anghraiff, yn llyfr ii. llin. 879¹:—

MILTON.

"On a sudden open fly
With impetuous recoil and jarring sound
The infernal doors, and on their hinges grate
Harsh thunder, that the lowest bottom shook
Of Erebus."

PUGHE: tudal. 60.

"Trwy serth chwim agorynt gan
Chwyrn encil a chan drydar cras y pyrth
Uffernawl, ar eu col o rygnu croch
Daranau, hyd nas crynai isaf sawdd
O Abred."

Y mae "o rygnu croch daranau" yn gyfieithiad hapus o "*grate harsh thunder*." Pe darllenid y naill neu y llall yn nghlyw dyn anghyfarwydd â'r iaith, gallasai ddeall oddiwrth y swm pa beth oedd yn myned ymlaen.

¹ Yn yr holl yagrif hon, mae rhif y llinellau yn ateb i'r Saesneg.

Nid yw y rhan nesaf yn llawn cystal. Y mae Milton yn peri i'r darlennydd deimlo fod y cwbl yn ysgwyd, trwy fod y gair "shook" ar ddiwedd y llinell; ond y mae hyn wedi ei golli yn y cyfieithiad.

Drachefn:—

MILTON: llyfr ii. llin. 947.

"So eagerly the Fiend
O'er bog, or steep, through strait, rough, dense, or rare,
With head, hands, wings, or feet pursues his way,
And swims, or sinks, or wades, or creeps, or flies."

PUGHE: tudal. 62.

"Cymaint awch y Mallt,
Tros gors, tros allt, trwy gul, garw, dwys, neu daen,
Gan ddwyllaw, edyn, traed, canlynai ar
Ei hynt, a nofia, sodda, creinia, neu
Eheda."

Mae y geiriau unsill yn Milton yn dangos yr anhawderau yr oedd Satan yn myned drwyddynt ar ei daith o uffern; ac y mae hynny wedi ei gadw yn y cyfieithiad mor berffaith ag yr oedd yr iaith yn caniatáu.

Nodwn un anghraifft arall, yn llyfr ii. llin. 993:—

"For such a numerous host
Fled not in silence through the frighted deep
With ruin upon ruin, rout on rout,
Confusion worse confounded."

PUGHE: tudal. 64.

"Canys y fath dorf
Ni thawel ffoai trwy yr ergryn ddwfn
Gan ball ar ball, a ffwr ar ffwr ar ffordd
Tra thwrf tarf terfysg."

Na ddyweder mwy fod yr iaith Gymraeg yn annigonol i osod allan holl syniadau a theimladau y meddwl dynol.

Ymddangosodd cyfieithiad arall o'r llyfr cyntaf o "Goll Gwynfa" yn y seithfed cyflyfr o'r "Gwyllyedydd," wedi ei wneyd yn fanwl a medrus. Gan ei fod yn cadw yn nes at yr iaith gyffredin na Dr. Pughe, y mae yn dueddol i ni ei bleidio ef yn hytrach. Ond wrth gymharu y ddau â'u gilydd y mae rhagoriaeth Dr. Pughe yn rhy amlwg i'w wadu. Cymerwn llyfr i. llin. 44:—

"Him the Almighty Power
Hurled headlong flaming from th'ethereal sky,
With hideous ruin and combustion, down
To bottomless perdition; there to dwell
In adamant chains and penal fire,
Who durst defy the Omnipotent to arms."

PUGHE: tudal. 3.

"Ef lluchiai yr Hollalluawg fel fflam dân
Yn swrth o entyrch nwyfre der, gan ruthr
Dinystriad hyll a llachar losg i lawr
I aphwys coll, i drigaw yno mewn
Cadwynan o faen cellt a than o goeb,
A feiddiai wrthryn ar trwy hewiad drud
I Ner holl nerthoedd."

"GWYLLIEDYDD."

"Ef o'r entyrch fry
Mewn llosg dinystriol, trwy yr eang maith,

A fwriai 'r Hollalluog Dduw i lawr
 I waelod distryw, yno i drigo byth
 Mewn cadwyn anattodadwy, ac mewn tân
 Penydol, am anturio codi arf
 Yn erbyn mawredd y Goruchaf Dduw."

Mae cyfieithiad Dr. Pughe yn y fan yma, fel mewn miloedd o fanau eraill, bron yn berffiaith. Mae yr un yn y "Gwyliedydd" hefyd yn dda; ond trwy wanhau pob gair wrth ei drosglwyddo i'r Gymraeg, y mae wedi colli llawer o rym y meddylddrych. Y mae "lluchiai" yn well na "bwriai," "o entyrch nwyfre der" yn well na "o'r entyrch fry," a "cadwynau o faen cellt" yn well na "cadwyn anattodol." Y mae "gan ruthr dinystr- iad hyll a llachar losg" yn rhagorol fel cyfieithiad o "*hideous ruin and combustion*;" ond y mae wedi ei adael allan yn y "Gwyliedydd." Cawn yma hefyd brawf mor anhawdd yw newid sefyllfa un gair yn Milton heb niweidio yr ystyr. Ganddo ef, a chan Dr. Pughe ar ei ol, rhoddir y weithred yn gyntaf, sef lluchio Satan, ac yna yr olwg oedd arno pan yn cael ei luchio, sef yn fflamio. Ond prin y medrwn weled fod "fal fflam dân," gan Dr. Pughe, yn ateb i "*flaming*." Nid fel fflam dân yr oedd Satan yn disgyn pan luchiwyd ef gan yr Hollalluog o entyrch nwyfre, ond fel comet neu haul, yn *flamio* wrth ruthro, ac yn gadael llwybr tan- llyd o'i ol.

Ond ar y cyfan, nis gwyddom am un cyfieithiad mwy gorchestol na "Coll Gwynfa," gan Dr. Pughe. Gellid meddwl mai yn lled debyg i hyn, er nad yn hollol yr un fath, y buasai y gwaith yn dyfod o law Milton ei hun pe buasai yn ei ysgrifenu yn yr iaith Gymraeg. Nid yw bywyd a grym y gwaith gwreiddiol wedi eu colli wrth ei drawsblanu. Yn y cyffredin y mae y meddwl wedi ei roddi yn hynod o gywir; ac i fedru gwneyd hyn yr oedd mwy na gwybodaeth drwyadl o'r iaith Saesneg yn anghenrheidiol. Ond y mae yn ymddangos i ni fod y cyfieithydd mewn rhai manau wedi camsynied yr ystyr, a chymerwn genad i roddi ychydig anghreiffiau ger bron y darlennydd. Dichon mai ni sydd yn camgymeryd; pa fodd bynag, mae y peth yn werth ymchwiliad. Nid ydym yn dwyn yr anghreiffiau hyn ger bron er mwyn diraddio Dr. Pughe; ond am ei bod o bwys i ni wybod beth yw meddwl Milton yn mhob brawddeg, ac am y dymunem gynhyrfu pawb i farnu trostynt eu hunain, a mynu ei ddeall. Rhoddir y rhanau ammheüus o'r cyfieithiad mewn llythyrenau Italaidd; ac os bydd achos, rhoddir y llinellau rhagflaenol er mwyn gweled y cysylltiad. Cynghorem yr efrydydd ieuanc i wneyd cais ei hun ar y testun gwreiddiol cyn darllen cyfieithiad Dr. Pughe, na'r un rhyddieithol sydd yn ei ganlyn.

Llyfr i. llin. 690.

"Let none admire
 That riches grow in hell."

PUGHE: tudal. 26.

"Na *huffed* neb
 Yn uffern dyfu golud."

Arall mewn iaith rydd, yn cael ei gynnyg fel gwelliant:—

"Na ryfedded neb fod golud yn cael ei gynnyrohu yn uffern."

Pa beth oedd Dr. Pughe yn feddwl wrth hoffi fod golud yn tyfu yn uffern nis gwyddom. Troisom i'w Eirlyfr i edrych am oleuni ar y mater; ond yr unig eglurhad a rydd efe ar y gair *hoffi* ydyw, "*To delight in, or to love*."

Llyfr ii. llin. 220.

"This horror will grow mild, this darkness light,
Besides what hope the never-ending flight
Of future days may bring, what chance, what change
Worth waiting, since our present lot appears
For happy though but ill, for ill not worst,
If we procure not to ourselves more woe."

PUGHE: tudal. 37.

"Yr hylldra hyn
A hyn dywyllwch dudew ysgafnâant,
Ynghyd & pha ryw obaith deg a ddaw
O ddyddiau didranc drafn, pa chwaen, pa dro
A dâl ei araws, can y tardd i ffwrdd
Ein rhan gynwyddawl er mai sal, o sal
Nid salaf, os na cheisiwn rador gwae."

Arall:—

"Gan fod ein rhan bresennol yn ymddangos, o un ddedwydd er yn sal, eto o un sal nid y salaf."

Y meddwl ydyw, Er fod ein rhan yn ymddangos mewn cymhariaeth i un ddedwydd yn wael; eto wrth ei golygu fel un wael, nid hi yw y waelaf, oblegid dichon iddi fod yn waeth.

Llyfr ii. llin. 556.

"In discourse more sweet
(For eloquence the soul, song charms the sense)
Others apart sat on a hill retired."

PUGHE: tudal. 48.

"Mwynach mewn pwyllâd
(*Ffraethineb enaid synwyr yw, ei enwyn*
Yw cân) ar gil eisteddent ereill rai."

Arall:—

"Canys ffraethineb a swyna yr enaid, cân a swyna y synwyr."

Dyben Milton oedd dangos fod ffraethineb yn rhagori ar gerddoriaeth, gan fod y naill yn effeithio ar yr enaid, a'r llall yn unig ar y synwyr. Mae yn amlwg fod y perwyddiad "*charms*" i'w ddeall ar ol y gair "*eloquence*," ac y dylid cymeryd "*soul*" mewn cyflwr gwrthddrychol; fel pe dywedasid, "*For eloquence charms the soul, song charms the sense.*"

Llyfr ii. llin. 968.

"Ye powers
And spirits of this nethermost abyss,
Chaos and ancient night, I come no spy,
With purpose to explore or to disturb
The secrets of your realm, but by constraint
Wandering this darksome desert, as my way
Lies through your spacious empire up to light,
Alone, and without guide, half lost, I seek
What readiest path leads where your gloomy bounds
Confine with Heaven; or if some other place
From your dominion won, th' ethereal king
Possesses lately, thither to arrive
I travel this profound; direct my course;
Directed no mean recompense it brings
To your behoof, if I that region lost,
All usurpation thence expelled, reduce

To her original darkness and your sway
 (Which is my present journey), and once more
 Erect the standard there of ancient night,
 Yours be the advantage all, mine the revenge."

PUGHE: tudal. 63.

Chwi

Alluoedd ac Ysbrydion y fan hon
 Yr aphwys isaf, Tryblith a hen Nos,
 Nis doaf i chwilota na chyffroi
 Cyfrinion eich llywodraeth, ond o raid
 Yn crwydraw y diffeithwch cethin hwn,
 Gan fod fy ffordd ar draws eich eang wlad
 I wawl, ar goll, yn unig, heb rwyddâd
 I chwiliaw rwyddaf llwybr hyd wrth y Nef
 Y minia cudd fargodion hwn eich byd;
 Neu os rhyw arall fan, oddiwrthych chwi
 O drais y sydd yn meddiant brenin gwawl,
 Er cyrchu yno yr eangder hwn
 A deithiaf; rhwyddwch ar fy hynt; ac o
 Gyfrwyddaw ni bydd salw y dâl yn ol
 I chwi, y dalaeth hono os *collais*, pob
 Trawsfeddiant ynddi wedi cael ei roi
 I lawr, idd ei chysefin wyll ac idd eich rhwyg
Adferwch hi (hyn weithion yw fy nhaith)
 A *derchwch* eto yno faniar Nos;
 Y fudd doed oll i chwi, y dial i mi."

Arall:—

"O gyfrwyddaw ni bydd salw y dâl yn ol i chwi, os y dalaeth golledig hono (pob trawsfeddiant ynddi wedi cael ei roi i lawr) a adferaf idd ei chysefin wyll ac idd eich rhwyg (yr hyn yw fy nhaith yn awr), ac os derchafaf yno unwaith eto faniar Nos."

Mae y rhan flaenaf o'r dyfyniad hwn wedi ei gyfieithu yn ardderchog, mewn iaith ystwyth, *Gymreigaidd*: ond tua'r diwedd mae yr ystyr wedi ei newid yn hollol. Satan sydd yn llefaru: ond nid efe oedd wedi colli y dalaeth newydd, oblegid nid oedd erioed eto wedi ei meddiannu. Oddiar Dryblith a hen Nos yr oedd Brenin gwawl wedi ei chymeryd, fel y dywed Satan wrthynt yn y llinellau o'r blaen. Ond Satan ei hun oedd yn bwriadu ei hadferu, a dyrchafu yno faniar nos. Yn yr ymadrodd, "*if I that region lost,*" y mae "*I*" yn weithredydd, neu fel y geilw rhai ef, yn enwedigaethydd, i'r perwyddiad "*reduce*;" y mae "*region*" yn wrthddrych i'r un perwyddiad; a "*lost*" yn ansoddair; a'r cwbl i'w ddeall fel hyn, "*If I reduce that lost region, and erect there the standard of ancient night.*"

Llyfr iii. llin. 203.

"Man disobeying,
 Disloyal breaks his fealty, and sins
 Against the High Supremacy of Heaven,
 Affecting Godhead, and so losing all."

PUGHE: tudal. 75.

"O anuffddâu

Y Dyn, y tora yn anrodawl ei
 Warogaeth, ac y pecha wrth y Nef
 Uchafiaeth, ac y *Duwdawd o gyffroi*
 Yn colli oll."

Arall:—

"Yn ymgeisio at Dduwdod, ac felly yn colli y cwbl."

Mae yn hysbys i bawb sydd yn gwybod dim am Saesneg fod y gair "affect" yn dra mynych yn arwyddo uchelgeisio. Gellid tybied fod Dr. Pughe yn y fan yma wedi ymddiried y gwaith i ofal rhyw un oedd yn *affectio* pethau mawrion, er ei fod mor anghymhwys ag oedd swyddogion Cymdeithas y Biblau mewn un man, y rhai a ddywedent yn eu hadroddiad eu bod wedi anfon swm penodol i "Gymdeithas y Rhieni," sef i'r *Parent Society*.

Llyfr iii. llin. 290.

"His crime makes guilty all his sons; thy merit
Imputed shall absolve them who renounce
Their own both righteous and unrighteous deeds."

PUGHE: tudal. 78.

"Ei fai a wna
Yn euawg ei holl feibion; dy haeddâd
Yn *ammodedig* a ryddâa y sawl
A wadant iawn un modd eu haniawn ryw
Weithredoedd."

Nid ydym yn benderfynol yn collfarnu y cyfieithiad hwn fel un anghywir; oblegid nid yw yn iawn cyhuddo neb o anghywirdeb nes deall pa beth oedd efe ei hun yn feddwl wrth y geiriau a ddefnyddid ganddo. Dichon fod Dr. Pughe yn cymeryd "ammodedig" yn yr ystyr a roddir yn gyffredin i'r gair "cyfrifedig." Yn ei Eirlyfr y mae yn ei gyfieithu *covenanted*. Ond yr ydym yn galw sylw ato fel geiriad anarferol ac ammheus.

Llyfr vi. llin. 150.

"Ill for thee, but in wish'd hour
Of my revenge, first sought for thou return'st
From flight."

PUGHE: tudal. 167.

"I ti gwaeth, ond ar awr
Fy nial, *cyntaf ceisid*: canys ti
O ffo dychweli."

Arall:—

"Ti yr hwn a geisid yn gyntaf wyt yn dychwelyd o ffo."

Mae Dr. Pughe wedi gosod yr attalnodau yn wahanol: ond mwy tebyg fod "for" yn perthyn i "sought" nag i "return'st;" gan nas gellir gweled pa fodd yr oedd gwaith Abdiel yn dychwelyd o ffo yn rheswm dros yr hyn a ddywedir o'r blaen.

Llyfr vi. llin. 162.

"This pause between
(Unanswered lest thou boast) to let thee know."

PUGHE: tudal. 168

"Hyn o osteg rhwng (*na bod*
Atebiad rhag dy ffrost) er dy bwyllau."

Arall:—

"Rhag, os heb atebiad, i ti ymfrostio."

Y mae meddwl y cyfieithydd yn y fan yma eto yn aneglur: ond nid oes un ammheuaeth nad yr ystyr gwreiddiol yw, *Lest thou boast, if unanswered*.

Llyfr x. llin. 999.

"Then both ourselves and seed at once to free
From what we fear for both let us make short,

Let us seek Death, or he not found, supply
 With our own hands his office on ourselves.
 Why stand we longer shivering under fears,
 That show no end but death, and have the power,
 Of many ways to die the shortest choosing,
 Destruction with destruction to destroy."

PUGHE: tudal. 310.

"Ar unwaith yna i ryddâu,
 Ein hunain ac ein had rhag ofn oddiwrth
 Bob un, gwaith byr a wnawn, am Angeu ni
 A chwiliwn, neu nas ceffid, yn ei le
 Gwnawn gan ein dwylaw ni ein hun ei swydd
 Ef arnom: py tan ofnau safwn hwy
 I grynu, nas dangosant dawl ond marw,
 Pan allom farw lawer ffordd y fer
 Gan ddeuis, methu methiant trwy fwy meth?"

Arall:—

"Pan y mae genym allu, trwy ddewis y feraf o lawer ffordd i farw, i ddystrywio dystryw trwy ddystryw."

Mae yr argraffiadau cyffredin o Milton yn cytuno â Dr. Pughe, ac yn rhoddi attalnod ar ol y gair "*die*" yn y llinell olaf ond un, ond yn ei adael allan ar ddiwedd y llinell cyn hyny. Tuëddir ni, pa fodd bynag, i feddwl mai gwelliant fyddai newid lle yr attalnod; ac yn lle "*and have the power of many ways to die,*" i ddeall yr ymadrodd fel hyn, "*and have the power to destroy destruction with destruction, choosing the shortest of many ways to die.*" Yn yr ail llinell hefyd, gellid meddwl fod Dr. Pughe yn darllen "*from both;*" ond gwell yn ddiau yw "*for both,*" sef, *i ni a'n had.*

Llyfr xii. llin. 129.

"He leaves his Gods, his friends, and native soil,
 Ur of Chaldea, passing now the ford
 To Haran: after him a cumb'rous train
 Of herds, and flocks, and num'rous servitude;
 Not wandering poor, but trusting all his wealth
 With God, who called him, in a land unknown.
 Canaan he now attains: I see his tents
 Pitched about Sechem, and the neighb'ring plain
 Of Moreh: there by promise he receives
 Gift to his progeny of all that land,
 From Hamath northward to the Desert south
 (Things by their names I call, though yet unnamed)
 From Hermon east to the great western sea;
 Mount Hermon, yonder sea; each place behold
 In prospect, as I point them: on the shore
 Mount Carmel; here the double-founted stream
 Jordan, true limit eastward: but his sons
 Shall dwell to Senir, that long ridge of hills.
 This ponder, that all nations of the earth
 Shall in his seed be blest. By that seed
 Is meant thy great Deliverer, who shall bruise
 The serpent's head; whereof to thee anon
 Plainlier shall be revealed. This patriarch blest,
 Whom faithful Abraham due time shall call,
 A son, and of his son a grand-child leaves,
 Like him in faith, in wisdom, and renown."

PUGHE: tudal. 348.

"Gada efe yn llwyr
 Ei Dduwiau, ceraint, ei gynenid fro

Ur o Caldea, trwydda weithion ryd
 I Haran, ar ei ol amroego gordd
 Da blithion, defaid, a rhifedi mawr
 Gwasanaeth, nid o reidus grwydraw, ond
 Ymddiried ei holl olud gyda Duw,
 Gan hwn y gelwid, mewn diwybod wlad.
 Canaan cyrhaedda bellach; gwelaf ei
 Bebyllion amgylch Sechem hen, a bro
 Gyfagaws Moreh; o addewid y
 Derbynia yno odd y tir achlân
 Bodd iddei hil, o Hamath ogledd i
 Ddifeithwch deau (galwaf bethau wrth
 Eu henwau, er na enwid eto hwynt)
 O Hermon ddwyrain fan hyd i for mawr
 Gorllewin; mynydd Hermon, draw y mor,
 Pob man yn amlwg sylwa di, mal y
 Dangoswyf; mynydd Carmel ar y lan;
 Ac yma yr Iorddonen ddwyffrwd flaen,
 Iawn fin dwyr; ond ei blant preswylant hyd
 I Senir, hon hir drum o fryniau draw.
 Hyn synia, y bendithir yn ei had
 Cenedloedd daiar oll; meddylir wrth
 Yr had hwn dy Wareddydd mawr, hwn a
 Ysiga ben y sarff; o hyn i ti
 Datguddir yn y man amlycach wedd.
*Hwn gyndad mad, gan Abraham ffyddlawn mewn
 Iawn bryd, a elwir fab, ac odd ei fab
 Gadawa wyr, mal ef mewn ffydd, a bri."*

Arall:—

Y cyndad mad hwn, yr hwn y bydd oesoedd dyfodol yn ei alw Abraham ffyddlawn, a adawa fab, ac o'i fab gadawa wyr."

Eglur yw oddiwrth yr holl linellau blaenorol mai wrth y cyndad hwn y mae i ni ddeall Abraham. Braidd na feddyliem fod y cyfieithydd yn cymeryd "gan" am *sef*, fel yr arferir mewn rhai parthau o Wynedd. Ond pa synwyr yw dywedyd, "Y cyndad hwn a elwir fab" nis gwyddom. Diau fod y perwyddiad "*leaves*" i'w ddeall o flaen "*a son*."

Ond digon bellach: nid ein hoff waith mewn un modd yw nodi beiau; ac nid wrth chwilio am danynt y daethant i'r golwg, ond wrth ddarllen yn achlysurol. Gallasem hefyd enwi rhai manau y gadawyd allan ddarnau o Milton; megys llyfr x., llin. 899, lle y mae deg llinell heb ddim yn ateb iddynt yn y cyfieithiad. Ond gwell genym droi at yr ochr arall i'r ddalen; ac yr ydym yn rhwym o ddyweyd nad yw yr holl ddiffygion ond brychau bychain ac anaml mewn cymhariaeth i'r rhagoriaethau. Cawn yma ddyfynu rhai o geinion "Coll Gwynfa," am y bydd hyny yn gyflawnnder â'r cyfieithydd, yn gystal ag i wneyd Milton ei hun yn fwy hysbys i'r Cymry. Nis gwyddom yn iawn pa fodd i ddewis; ond y mae ein llygaid yn disgyn ar y disgrifiad o gyflwr Satan yn uffern, yr hwn a geir yn agos i ddechreu y ganiad gyntaf.

Llyfr i. llin. 50.

"Nine times the space that measures day and night
 To mortal men, he with his horrid crew,
 Lay vanquish'd, rolling in the fiery gulf,
 Confounded though immortal: But his doom
 Reserved him to more wrath; for now the thought
 Both of lost happiness and lasting pain
 Torments him; round he throws his baleful eyes,
 That witness'd huge affliction and dismay,

Mix'd with obdurate pride and steadfast hate :
 At once, as far as angels' ken, he views,
 The dismal situation waste and wild :
 A dungeon horrible on all sides round,
 As one great furnace flamed ; yet from those flames
 No light ; but rather darkness visible
 Served only to discover sights of woe,
 Regions of sorrow, doleful shades, where peace
 And rest can never dwell : hope never comes,
 That comes to all : but torture without end
 Still urges, and a fiery deluge, fed
 With ever-burning sulphur unconsumed."

PUGHE: tudal. 3.

"Naw o droion rhod

A dreigla i ddyniadon ddydd a nos,
 Efe ac ei giwed hagr, tan allu trech,
 Ymgreiniont yn y cau o dandde certh,
 Mewn syndawd er o anfarwoliion naws:
 Ond grym ei dynged pwysai i fwyau
 Y dig a haeddai efe ; can ymbwyllâa
 Yn awr am wynfyd a gollasid byth
 Ac am y boen a ddelai ; tafal wg
 Golygon mall, a welynt offid blwng
 A brow yn gyfred gan falchineb syth
 A thrylwyr gas : cybelled ag yw trem
 Engylion, sylwa efe ar unwaith ddull
 Y fangre amdrist, anial iawn a gwyllt ;
 Ofnadwy ffau yn ffamiaw amgylch oedd
 Fal eang ffwrn, ac eto nid oedd gwawl
 Y ffamiau hyn, ond amlwg wyll a braidd
 Ddangosai dremion gwae, trigfanau ing,
 A syn gyagodion och, lle mwy ni bydd
 Na thanc na gorphwya, gobaith mwy nis daw
 A ddaw i bawb ; ond nych heb arno dawl
 A rwysga, a llifeiriant tandde ffwch,
 O faeth ufeliar hylseg dillellad."

Mae y cyfieithiad yma, hyd y medrwn ni weled, yn berffaith ddifai: ac afreidiol yw sylwi fod y disgrifiad yn rymus a chyffrôus; oblegid y mae pob enaid yn teimlo hyny wrth ei ddarllen. Yn nesaf, edrychwn ar wel-edigaeth anghen. Llawer ymgais sydd wedi bod i ddangos rhyw ddelwedd o frenin y dychryniadau; ond y mae pawb bron, oddigerth Milton, yn ei wneyd yn wrthddrych dirmyg yn fwy na dychryn. Cof yw genym fod Professor Wilson yn sylwi ar y medrusrwydd gyda pha un y mae Milton yn tasfu aneglurder brawychus dros yr holl ddesgrifiad. Mor bell oddiwrth ei bersonoli, nid yw yn son am ddim mwy na llun : ond y mae yn cymedrofi hyny drachefn, ac yn ychwanegu, "Os llun y gellir galw yr hyn nad oedd iddo lun." Nis gŵyr yn iawn pa un oedd, ai sylwedd ai cysgod, "*for each seemed either.*" Yna mae yn defnyddio yr hen gymhariaeth Homer-aidd, "Du y safai fel nos." Ond yr oedd yn ysgwyd erohyll saeth : nid cysgod oedd hono. Nid oedd pen ganddo, ond yr hyn a ymddangosai yn ben : ac nid coron oedd ar hwnw, ond rhith breninol goron. Yna, pan ydym yn syllu mewn syndod ac arswyd ar y peth hyll aruthrol hwn, dyma ddadganiad disymwth, "*Satan was now at hand.*" Y mae Dr. Pughe wedi gwanhau y frawddeg hon trwy roddi "oedd" o flaen "Satan;" ac y mae cyn hyny wedi gadael allan y geiriau "*terrible as hell.*" Gyda hyn o

eithriadau, y mae wedi dyfod trwy y lle yma yn fuddygoliaethus. Ond dyma y cyfieithiad:—

Llyfr ii. llin. 666.

“ The other shape
If shape it might be call'd that shape had none
Distinguishable in member, joint, or limb,
Or substance might be call'd that shadow seem'd,
For each seem'd either ; black it stood as Night,
Fierce as ten Furies, terrible as Hell,
And shook a dreadful dart. What seem'd his head
The likeness of a kingly crown had on.
Satan was now at hand, and from his seat,
The monster moving onward, came as fast
With horrid strides, Hell trembled as he strode.”

PUGHE: tudal. 53.

“ Os llun y gelwir nad
Dosbarthus lun o gymal iddo oedd
Nac aelawd, neu y gelwir sylwedd fal
Pe cysgawd oedd ac fal y naill y llall;
Yn ddu fal nos y safai, poethach no
Deg ffroch o far, bygythiai erchyll saeth;
Hyn fal pe pen oedd iddo arno oedd
Cyffelyb i freninawl goron ferth.
Oedd Satan yma yn y fan, oddiar
Ei sedd y gwrthyn bryisiai gynted rhag
Ei flaen ar gamau anferth, Uffern a
Ergrynai gan ei drawd.”

Llawer ffordd sydd i geisio gwneyd araeth neu ddesgrifiad yn fawreddus. Y mae rhai yn amcanu at hyny trwy arfer geiriau mawrion, ac eraill trwy gyffelybiaethau gwychion. Y mae rhyw reswm gan y rhai olaf; oblegid y mae cyffelybiaethau yn brydferth a buddiol yn eu lle fel addurniadau; ond dylid gofalu am fod yno ryw beth gwerth ei addurno, ac na byddo yr addurn yn cuddio y meddwl tufewnol o'r golwg. Dylid cofio hefyd mai nid y wisg sydd yn *cyfansoddi* gwir fawredd. Fel prawf o hyn cawn ddyfynu rhan o araeth Satan pan ddisgynodd ar y ddaear gyntaf, un o'r darnau ardderchoaf yn “Coll Gwynfa;” ond nid yw yn cynnwys cymaint ag un gyffelybiaeth, nac un math o droell-ymadrodd o'r dechreu i'r diwedd,—dim ond mawredd hanfodol, noeth. Ffordd effeithiol i farnu teilyngdod cyfansoddiad, yw ei ddyosg o bob addurn, ac edrych pa faint o sylwedd fydd wedi hyny ar ol. Yn yr ymadrodd mwyaf mawreddus a fu erioed, nid oes dim ond “Bydded goleuni, a bu goleuni.” Yn rhai o feirdd/ac areithwyr goreu y Groegiaid, ni cheir un amser gyffelybiaethau hirfaith; dim ond cyfeiriad at ambell gymhariaeth mewn gair neu ddau wrth fyned heilio; a thueddir ni i feddwl mai dyma y cwbl sydd yn cydweddu â theimlad dwfn. Yn y cyfryw amgylchiad, nid oes gan y meddwl amser i olrhain cyffelybiaethau; er y dichon iddo gyffwrdd â hwynt fel yr hylif trydanol. Mewn cyffyrddiadau cymhariaethol fel hyn, nid oes neb mor hapus a Shakspeare. Y mae yn rhagori yn hyn hyd yn nod ar Milton. Mewn desgrifiad, o'r tu arall, y mae yn naturiol i ni chwilio am bob cymhorth i osod allan y meddwl, ac y mae yn rhydd i ni aros yn hwy gyda'r gyffelybiaeth. Felly yn y rhanau desgrifiadol, y mae Milton yn arfer cyffelybiaethau go faith; ac yn gosod holl gyfoeth hanesiaeth a gwybodaeth y byd dan deyrnged i'r perwyl. Ond pan yn adrodd teimladau dwysion, prin y mae yn caniatáu iddo ei hun gymaint a chyfeiriad at unrhyw gym-

hariaeth. Yn y dyfyniad a ganlyn, y mae Milton hefyd yn defnyddio y geiriau mwyaf dysym, yn yr hyn y dilynwyd ef gan y cyfieithydd. Ac y mae yn rhaid i ni ddyweyd am Dr. Pughe mai anfynych y mae yn troeddu trwy arfer geiriau rhy fawrion. Nid trwy ffurfio geiriau cyfansawdd y mae mor annealladwy, ond yn hytrach trwy ddadgyfansoddi yn ormodol. Ond yma y mae wedi gochelyd y ddwy ochr, ac wedi ymgadw yn lew at yr iaith gyffredin.

Llyfr iv. llin. 73.

“Me miserable ! which way shall I fly
 Infinite wrath, and infinite despair ?
 Which way I fly is Hell ; myself am Hell ;
 And in the lowest deep a lower deep
 Still threat'ning to devour me opens wide,
 To which the Hell I suffer seems a Heav'n.
 O then at last relent. Is there no place
 Left for repentance, none for pardon left ?
 None left but by submission ; and that word
 Didstain forbids me, and my dread of shame
 Among the Spirits beneath, whom I seduced
 With other promises and other vaunts
 Than to submit, boasting I could subdue
 Th' Omnipotent. Ay me, they little know
 How dearly I abide that boast so vain,
 Under what torments inwardly I groan,
 While they adore me on the throne of Hell !
 With diadem and sceptre high advanced,
 The lower still I fall, only supreme
 In misery ! such joy ambition finds.
 But say I could repent, and could obtain
 By act of grace my former state, how soon
 Would height recall high thoughts, how soon unsay,
 What feign'd submission swore ! ease would recant
 Vows made in pain, as violent and void ;
 For never can true reconciliation grow
 Where wounds of deadly hate have pierced so deep :
 Which would but lead me to a worse relapse
 And heavier fall : so should I purchase dear
 Short intermission bought with double smart.
 This knows my Punisher : therefore, as far
 From granting he, as I from begging peace.
 All hope excluded thus, behold, instead
 Of us outcast, exiled, his new delight,
 Mankind created, and for him this world.
 So farewell hope, and with hope farewell fear,
 Farewell remorse : all good to me is lost :
 Evil be thou my good ; by thee at least
 Divided empire with Heaven's King I hold,
 By thee, and more than half perhaps will reign ;
 As man ere long, and this new world shall know.”

PUGHE: tudal. 98.

“Mi truenus ! i ba le
 Rhag llid diddiwedd ac anobaith byth
 Y ffoaf ! y ffordd y ffowf Uffern yw ;
 My hun wyf Uffern ; ac yn isaf dwfn
 Bygythia isach dwfn gan lydan safn
 Fy ysu, Nef wrth hon yr Uffern a
 Oddefaf. Ynte O ymfeddalâa :
 Ai nid oes lle i edifeirwch, i

Faddeuant ddim ! ond trwy ymostwng nid
 Oes dim ; gwahardda traha y fath air,
 Ac ofni gwarth Ysbrydion isod a
 Dywysais trwy addewid arall wedd,
 O ffrostiaw y gorfyddwn Ner pob nerth.
 Iê mi, neud prin y gwyddont druted y
 Goddefaf ffrost mor wag, tan hyn tu mewn
 O nych yr wyf yn ochi, tra y mawraant
 Ar orsedd Uffern fi. A choron ar
 Fy mhen yn dderchafedig fry, fy syrth
 Yw isaf byth, goruchaf wyf ond mewn
 Trueni ; haedda trachwant y fath hoen.
 Ond edifaru pe y gallwn, ac
 Y gallwn gael trwy ddawn o rad y cynt
 Orsafiad ; cynted yr adalwai y
 Goruchder uchel frydan, cynted byth
 Y gwadid hyn a dyngai ffug warlad ?
 Adganai hawddfyd ofunedau nych,
 Mal oferion trais. Am nas gellir byth
 Gymmodi, lle y brathed clwyfau cas
 Angenawl ddyfined : hyn nis dygai fi
 Ond i adlithriad gwaeth a thrymach cwmp :
 Efelly drud y prynwn seibiant byr
 Er deufwy brwyn. Gwyr fy arteithydd hyn :
 Am hyny pelled efe o roddi, ac
 Wyf fi o ofyn hedd : mal hyn nad oes
 Mwy gobaith, llyna ni yn eillion a
 Gwaagaredigion, ei orhoffedd yn
 Ein lle yw Dyn, ac iddo y byd hwn.
 Yn iach aed gobaith bellach, ac yn iach
 Aed ofn ynghyd, yn iach pryderi mwy :
 Pob da i mi a golled : drwg bydd di
 I mi yn dda : o leiaf trwyot ti
 Y daliaf gyfranedig rwyg & Naf
 Y Nef, ie, trwyot ti, a hwyrach mwy
 No hanner tan fy rhwyg ; ac fal cyn hir
 Y gwybydd Dyn, a hwn y newydd fydd.”

Digona hyn i ddangos pa beth sydd yn wir fawreddus : ond edrychwn eto ar un anghraifft o'r *prydfferth*, lle y mae Milton yn desgrifio “ nos dawel yn dysdewi ; ” a chredu yr ydym y cytuna ein darllenwyr na fu dim erioed yn fwy darluniadol. Yn y cyfieithiad o hono, nid oes ond dau o feiau gwerth sylwi arnynt. Yn gyntaf, mae Milton yn dyweyd fod y cyflych-wyr yn gwisgo pob peth yn ei *lifrau* llwydion ei hun, fel arwydd fod y cwbl dan ei awdurdod, yr hyn sydd yn llawer mwy barddonawl na “ duddasai yn ei liw cynnesin bob rhyw beth.” Ac yn nesaf, y mae Milton yn darlunio “ dystawrwydd yn canlyn.” Nid oedd modd ei ddwyn i mewn yn fwy cynnil. Nid yw yn ei bersonoli yn amlwg ; ond y mae yn ddigon fel arweiniad i mewn i'r meddylddrych ardderchog a geir yn un o'r llinellau dilynol. Ac felly, ar ol son am yr eos yn canu trwy y nos ei thrydar eu, y mae yn ychwanegu fod Dystawrwydd yn lloni wrth ei wrandaw. Ni fu erioed feddylddrych mwy anturiaethus ; a diau y buasai yn disgyn yn rhy annysgwyliadwy, ac o ganlyniad yn annaturiol, oni b'ai fod meddwl y darlennydd wedi ei barotöi i'w dderbyn trwy y crybwylliad blaenorol. Y mae hyn wedi ei golli i raddau yn y cyfieithiad, gan mai nid yr un gair a roddwyd yn y ddau le am “ *silence*.” Ond ni chadwn y darlennydd yn hwy oddi-wrth Milton a'i gyfieithydd.

Llyfr iv. llin. 598.

"Now came still evening on, and twilight grey
Had in her sober liv'ry all things clad;
Silence accompanied: for beast and bird,
They to their grassy couch, these to their nests,
Were slunk, all but the wakeful nightingale:
She all night long her am'rous descant sung:
Silence was pleased. Now glowed the firmament
With living sapphires: Hesperus, that led
The starry host, rode brightest, till the Moon,
Rising in clouded majesty, at length
Apparent queen, unveiled her peerless light,
And o'er the dark her silver mantle threw."

PUGHE: tudal. 116.

"Dynesai weithion araul hwyr, a llwyd
Gyflychwyr a duddasai yn ei liw
Cynnenedid bob rhyw beth; canlynai taw.
Y milod idd eu gwâl, yr adar idd
Eu nyth, a gilient, ond yr eaws ffraw;
Hi canai trwy y nos ei thrydar cu;
Oedd llon tawelwch: weithion gloewai wybr
Gan lasar-feini byw: Ucheron a
Flaenorai lu serenawl, gwypaf oedd
O rawd, nes mewn cymylawg fri y lloer
Yn cwnu, yn frenines gain
Dynoethai hi ei mirain wawl, ar daen
Ei thoron arian bwriai dros y cudd."

Nis gwyddom pa fodd i ddiweddu yn well na thrwy ddyfynu un o gyf-eiriadau Milton at ei gyflwr a'i dywydd ei hun. Mae yn hysbys i'r rhan fwyaf o'n darllenwyr ei fod yn ddall pan yn cyfansoddi "Coll Gwynfa," ac yn cael ei anmharchu yn fawr gan yr Ucheleglwyswyr. Yn un o'i "*Sonnets*," y mae yn cysuro ei hun â'r ystyriaeth mai y rhai sydd yn dwyn yr iau yn fwyaf tawel sydd yn gwasanaethu Duw oreu, a'i fod Ef yn cyfrif fel ei weision, y rhai hyny nad ydynt yn gwneuthur dim ond sefyll a dysgwyl. Mewn un arall, y mae yn dyweyd nad yw yn colli un iota o galon na gobaith; ond ei fod o hyd yn dal i fyny, ac yn morio yn gywir yn y blaen. Felly yn "Coll Gwynfa," ar ol gorphen yr hanner cyntaf o'r gwaith, y mae yn nechreu y seithfed llyfr yn dadgan ei deimladau fel y canlyn:—

"Er mewn dyddiau drwg,
Mewn drygion ddyddiau bod, plith drygion o
Dafodau; mewn tywyllwch, ac aml byd
I fy amgylchu mewn unigder; nid
Er hyny unig, tra gofwi di
Fy nosawl hun, neu pan orliwia gwawr
Y dwyrain: eto twya di fy nghan,
Nyfedon, ac andawiad addas cais
I mi, er nad lliosawg."

Mwy o rai tebyg iddo a goder yn ein dyddiau ninnau. Os yw yn ormod dysgwyl am ei gyffelyb mewn dawn a gallu; nid yw yn rhyfyg i ni ben-derfynu ei ddilyn mewn uniondeb moesol, ac ymroddiad i ogoneddu Duw, yn fwy na rhyngu bodd dynion; ac yna gallwn goledd y grediniaeth y cawn rai addas i'n gwrandaw, "er nad lliosog."

DOLENAU Y GADWEN.

Yn hyn a fwrriadwn ei gymeryd mewn llaw, o dan y cyfenwad uchod—dolenau y gadwen—yw dangos nas gellir gwneyd allan olyniaeth apostolaidd rheolaidd, fel ag ei gosodir allan gan blaid o gryn ddylanwad yn Eglwys Loegr, a adnabyddir yn gyffredin wrth yr enw Puseyaid. Dywedant nad all fod gan neb gymhwysder nac awdurdod, yn ol ewyllys Duw, i gyflawni y swydd weinidogaethol, oddieithr iddo gael ei ordeinio gan esgob esgobaeth wladol; yr hwn ordeiniad, meddant hwy, sydd, trwy hawl ddwyfol, yn uwch gradd na henuriaid; a chan hyny, mai hwy yn unig sydd wedi eu gwisgo gan Dduw Dad ág awdurdod i ordeinio gweinidogion i'w eglwys; a bod yr awdurdod hon i ordeinio wedi deilliaw i'r esgobion hyn, yn llinell uniongyrchol—yn gadwen ddifwlch o ddolenau personol, o Grist a'i apostolion.

Y mae yr ysgrifenydd yn anwesu yr hyder mwyaf diammheul y gall brofi i'w ddarllenwyr—1. Nad oes brawf hanesiol o olyniant personol esgobion—nas gellir cael cadwen ddidor. 2. Fod apwyntiad llawer o'r esgobion, trwy y rhai y rhaid olrhain y gadwen ffug-apostolaidd hon, mor afreolaidd, fel y rhaid i'w holl awdurdod gael ei hafianhau a'i llygru, nes ei gwneyd yn hollol ddiwerth, pan ei cymherir ág awdurdod yr ysgrythyrau sanctaidd, a'r brif eglwys, ac yn enwedig Eglwys Loegr ei hun, yr hon a ofyn fod pob ymgeisydd am y weinidogaeth wedi ei gymhell yn fewnol gan yr Ysbryd Glan i gymeryd arno y weinidogaeth Gristionogol. 3. Fod y Testament Newydd, y brif eglwys, diwygwyr Eglwys Loegr, a'r holl dduwinyddion tramor eraill, yn amser y diwygiad, yn caniatáu ac yn dadleu dros gydraddoliaeth gallu neu awdurdod gweinidogion yr efengyl; ac yn hollol wadu uchraddoliaeth esgobion trwy hawl ddwyfol.

Y safle yr ydys yn ei gymeryd yw hyn—Fod yr athrawiaeth uchod—yr hon sydd yn cyfyngu gwaith y weinidogaeth Gristionogol yn y wlad hon i'r offeiriad esgobaethol, trwy hawl ddwyfol—yn anysgrhythrol ac yn amhrotestanaidd, ac yn llawn mor Babaidd a thrawsylweddiad, neu unrhyw athrawiaeth arall a gydnabyddir yn gyffredin ei bod yn gyfryw: nas gallasai y diwygiad fyth gael ei ddwyn oddiamgylch pe buasai y diwygwyr yn Buseyaid, na hyd yn nod Uchel-eglwyswyr; ac nas gellid ei amddiffyn ar eu hegwyddorion hwy. Mae yr athrawiaeth hon mor hanfodol Babaidd yn ei natur a'i thueddiad, fel y mae yn naturiol arwain ei hamddiffynwyr yn ol i Rufain; ac y mae pawb ag sydd yn ei dal yn fwy Pabaidd na Phrotestanaidd. Yn wir, y mae cysondeb yn gofyn iddynt fesur eu camrau yn ol i Rufain, a gwneyd eu heddwech â'u mam-eglwys mor fuan ag y byddo yn bosibl. Canys pa beth yw egwyddor benderfynol ac arbenigol Pabyddiaeth? Wel, *nad oes iachawdoriaeth allan o Eglwys Rhufain.* Dyma oedd dechreuad y chwil-lŷs, a'r holl erlidigaethau a'r creulonderau a arferodd yr eglwys hono tuag at bawb a feiddient wahan-iaethu oddiwrthi, trwy holl ystod ei gwrthgiliad. Poenydiwyd y corff o dan yr esgus o gariad at yr enaid; a thywalltwyd afonydd o waed i'r dyben o orfodi hereticaid, fel y galwent bob un a feiddiai feddwl drosto ei hunan, i ddychwelyd yn ol i fynwes eu mam-eglwys, fel y byddai eu

heneidiau yn gadwedig, trwy eu dirwasgu i ymwrthod â'u hereticiaeth: ond pan na ellid gwneyd hyny, torid hwy ymaith, rhag iddynt-lygru eraill â'u hesiamplau drwg.¹ Yn awr, gadewch i ni ofyn, yn mha beth y mae y Puseyaid a'r Uchel-eglwyswyr yn gwahaniaethu oddiwrth hyn? Dywedant hwy mai hwynt hwy yw yr unig weinidogion cyfreithlawn—mai lladron ac yspeilwyr yw pawb eraill—nad all eu gweinyddiadau fod o ddim bendith—mai er y gallant fod yn ddysgedig, dawnus, athrylithgar, a duwiol, a phroffesu cael eu cynhyrfu gan yr Ysbryd Glan i gymeryd arnynt swydd y weinidogaeth Gristionogol, eu bod er y cwbl yn ddiffygiol o awdurdod, oblegid nad ydynt yn ddolenau yn y gadwen o olyniaeth; ac am hyny, nad ydynt yn ddim amgen na "rhai yn cymeryd arnynt urdd sanotaidd." Fel hyn y maent yn gwadu cadernid pob ordeiniad gweinidogaethol ond yr eiddynt eu hunain, megys y mae Eglwys Rhufain bob urddau ond y rhai a rôir trwy ei hawdurdod hi. Felly y mae hi yn ymddwyn tuag at yr olynwyr, a phob eglwysi Protestanaidd, fel y maent hwy yn barnu am, ac yn ymddwyn tuag at, yr holl rai na ordeiniwyd yn esgobyddawl.

A ydyw Eglwys Rhufain yn dysgu nad oes iachawdwriaeth ond yn ei chyfundeb hi? Y mae y Puseyaid a'r Uchel-eglwyswyr yn haeru mai Eglwys Loegr yw yr unig eglwys yn y deyrnas hon "sy'n hollol sier fod ganddi gorff yr Arglwydd i'w roddi i'w phobl." Ac y mae ein Harglwydd bendigedig yn ein sicrhau mai oni fwytawn gnawd Mab Duw, ac oni yfwn ei waed, nad oes genym fywyd ynom (*Ioan* vi. 53). Ac os mai o ddwy-law gweinidogion ordeiniedig esgobawl yn unig y gallem ei gael, y mae yn canlyn nad oes iachawdwriaeth allan o undeb â'r Eglwys Wladol; a chan hyny, y mae y blaid hon, yn gyson ddigon, yn gwadu cadernid pob gweinyddiadau gan eraill, ac yn aml yn nacâu claddu y rhai a fedyddiwyd gan weinidogion eraill, gan eu gadael i "drugareddau digyfammod Duw." Gwir y caniatêir iddynt yr hawl o farnu trostynt eu hunain, a chydabyddir rhyddid cydwybod; ond gan gyfraith y tir y gwneir hyn, *ac nid gan blaid yr olyniant*. Arweinai eu hegwyddorion hwy, pe ceid hwy allan i'w canlyniad naturiol, fel y maent mewn gwledydd Pabaidd, ac heb oddefiad cyfreithlawn i bleidiau crefyddol—i holl ddychrynfeydd anoddefiad ac erlidigaeth Pabaidd; a hyny yn eithaf cyson â'u hegwyddorion—"Cariad at yr enaid yw enaid cariad." Ac os na allwn gael iachawdwriaeth allan o Eglwys Loegr, byddai yn gariad—yn weithred dda—ynddi ddynwared Mam-eglwys Rufain, trwy sefydlu chwil-lŷs, a dystyrwio cyrff hereticiaid, "fel y byddo eu heneidiau yn gadwedig yn nydd yr Arglwydd Iesu."

Nis gellir amddiffyn cynllun cadwen yr olyniant, heb ganiatâu fod Eglwys Rhufain yn wir eglwys; o leiaf trwy ddisgyniad, fel yr haera Dr. Hook a'i hoffeiriaid yn weinidogion Crist. Ond nid yw Eglwys Rhufain yn tueddu i dalu y moesgarwch yn ol; ac yn wir, pa fodd y gall? canys ar yr egwyddor hon, eglwys sismataidd yw Eglwys Loegr; ac ar yr un egwyddor y darfu i lawer o bersonau ofnus a gweiniaid, i fod ar yr ochr ddiogelaf, goffeidio Pabyddiaeth. Y mae anaglychiad Iago yr Ail, fel ag ei mynegir gan Esgob Burnet, yn eithaf cyfaddas i'n dadl bresennol:—"Efe a roddodd i mi," meddai yr esgob, "yr hanes canlynol am ei waith yn newid ei grefydd. Pan y diangodd o ddwylaw yr Iarl o North-

¹ "Cook's History of the Apostolical Succession." tudal. 185.

umberland, i'r hwn yr ymddiriedasai y senedd ofal ei ddysgeidiaeth, a'r hwn a ymddygodd tuag ato yn barchus iawn—cymerwyd pob gofal priodol, mor gynted ag yr aeth tros y môr, i'w ffurfio mewn ymlyniad diysgog wrth Eglwys Loegr. Ymhlith pethau eraill, *dywedwyd llawer am awdurdod yr eglwys, ac am y traddodiadau oddiworth yr apostolion, er cadarnhau esgobyddiaeth.* Felly pan ddaeth ef i sylwi fod mwy o reswm i ymostwng i'r *Eglwys Gatholig* nag i unrhyw *un eglwys neillduol*, ac y gellir cymeryd pob traddodiadau eraill ar ei gair hi, yn gystal ag yr oedd esgobyddiaeth yn cael ei derbyn yn ein plith ni—meddyliodd nad oedd y cam hwn yn fawr, ond fod yn *rhesymol iawn myned trosodd i Eglwys Rhufain.* A chan fod Dr. Steward wedi dysgu iddo gredu fod gwir, ond dirgeledig, bresennoldeb Crist yn y sacrament, efe a dybiodd fod hyn yn fyned mwy na hanner y ffordd i drawsylweddiad.¹ Mor naturiol yw hyn oll; ac mor hawdd yw ymsymud o olyniaeth eglwysig i Rufain.

Nid yw yr ysgrifenydd yn bwriadu dyweyd dim yma yn erbyn esgobyddiaeth, na'r sefydliad gwladol eglwysig fel y cyfryw. Yn erbyn yr haerriad o ddwyfol awdurdod esgobyddiaeth yn unig yr ymflwria, fel ag i'w hystyried o ganlyniad naturiol fel yr unig fodd cyfreithlawn o gyfleu iachawdwriaeth gras i blant dynion. Anwesa y meddwl y gall ddangos fod y diwygwyr yn cymeryd golwg gywir ar y pwnc o lywodraeth eglwysig, pan y dysgent nad oedd esgobyddiaeth, trwy awdurdod ddwyfol, yn urdd wahanol i henaduriaeth, “ond yn unig fel cyfansoddiad doeth o eiddo y swyddogion gwladol er llywodraethu yr eglwys yn well.” Pa mor bell y mae yr Uchel-eglwyswyr wedi ymadael oddiworth y golygiadau hyn, bydded i'w hysgrifeniadau dystiolaethu. Galluogodd y golygiadau hyn i'r diwygwyr ddal cymundeb âg eglwysi tramor, ac hefyd ganiatáu i'w gweinidogion esgyn pulpudau yr Eglwys Wladol yma.

Ond mor wahanol yw yn awr: nis gellid caniatáu hyd yn noŷ i Dr. Chalmers esgyn pulpud yr eglwys hon, er ei fod wedi hynodi ei hun mewn zel dros sefydliadau gwladol crefyddol trwy draddodi darlithiau yn ei hamddiffyniad. Iê, er ei fod ar ymweliad yn nhŷ gweinidog esgobaethol, nis gellid goddef iddo esgyn y pulpud; a phan ofynwyd iddo gan weinidog o enwad arall i ddefnyddio ei bulpud ef, barnodd y doctor yn ddoethach wrthod y cynnygiad, oblegid nad allai ei gyfaill offeiriadol ddyfod gydag ef i dŷ cwrdd. Yn sicr, y mae hyn yn brawf o ryw ddrwg na ddylai fod. Ni chaniatëid i'r doctor ddefnyddio y pulpud esgobaethol oblegid nad oedd yn yr olyniaid—nad oedd yn ddolen yn y gadwen—nad oedd yn weinidog awdurdodedig o efengyl Crist! Nid elai, ac ni chaniatëid i'r offeiriad wrandaw ei gyfaill mewn lle addoliad cyfundeb arall, oblegid eu bod oll yn sismaticiaid, a'u tai addoliad yn dai cyrddau anghyfreithlawn ac anawdurdodedig—yn unig yn cael eu gadael yn llonydd trwy Weithred o Oddefiad! Dyma un dyrswch mawr i'r hwn y mae yr athrawiaeth o awdurdod ddwyfol esgobyddiaeth ac olyniant yn arwain neu yn gyru ei phleidiwyr iddo.

Nis gall yr ysgrifenydd osod allan ei olygiadau ar y pwnc hwn yn well nag yn ymadroddion Eli Bates, yn ei lyfr rhagorol ar “*Christian Politics*”—gwaith y byddai yn dda iawn i'r Uchel-eglwyswyr pe gwnaent eu hunain yn adnabyddus o'i gynnwysiad. Testun un bennod a roddir

¹ “*History of his own Times.*” cyf. i. tudal. 275, 276.

mewn dull o ofyniad—"Pa fodd y safai yr Eglwys gyda pherffaith oddefiad:" o'n rhan ni, buasem yn dyweyd "perffaith ryddid;" ond ni a'i gadaw'n fel y cawsom ef—"perffaith oddefiad." Y mae yn sylwi; "Tybiwch fod eglwys yn rhoddi y flaenoriaeth benderfynol i lywodraeth esgobawl, heb ei hystyried yn anheggorol hanfodol i'w bodolaeth, ond yn tueddu yn well i'w lleshad; nid fel peth gwir anghenrheidiol, ond cyfaddas; a hyn yn benaf gyda golwg ar ei lleshad ei hun, heb benderfyniad dieithriad o berthynas i eglwysi eraill; y mae yn agos yn anmhosibl i flaenoriaeth wylidwrus fel yna achlysurow ymryson na digter. Ond os taera fod y cyfryw lywodraeth-drefn o *ddwyfol awdurdod*, a dadleu ei hawl i ddyddymu sacramentau a gweinyddiadau pob eglwysi eraill, rhaid iddi ddysgwyl cyfarfod â chilgwthiad. Ac ar y llaw arall, pe byddai i eglwys, ar gyfrif cystadleddiaeth (*parity*) ei gweinidogion, ddrychafu ei hun goruwch eglwysi eraill, ac edrych ar yr urdd esgobaidd, yn ei sefydliad gwreiddiol, fel rhywbeth Pabaidd ac anghristionogol, nis gallai lai, trwy y fath afrad, nac iselu ei hun yn ngolwg pob meddwl ystyriol a diragfarn."¹ Dyna, yn nghyfrif yr ysgrifenydd, yw gwir Brotestaniaeth, ac yn hanfodol i ryddid crefyddol, a chydnabyddiaeth eglur ac ysgrythyrol o hawliau cydwybod dyn i farnu drosto ei hun, yn sylfaenedig ar yr athrawiaeth ysgrythyrol o gyfrifoldeb dyn i Dduw. A chan y rhaid iddo "rodidi cyfrif drosto ei hun i Dduw," dylid caniatâu iddo ddefnyddio gwirioneddau dwyfol am ei iachawdwriaeth, a ffurfio ei farn ei hunan. Y mae Pabyddiaeth a gwŷr yr olyniant yn gwadu hyn, trwy fynu yr hawl i feddwl trosom, a'r holl awdurdod i weinyddu y gair a'r sacramentau. Yn hyn y mae y gwir wahaniaeth rhwng y ddwy gyfundrefn—dyma yw y gegendor mawr; a chan fod gan bob un ei safle ei hun—un y tu yma, a'r llall y tu acw—nis gallant gydgymysgu—y maent yn wrthdroedolion i'w gilydd; a phawb sy'n dadleu dros ddwyfol hawl, ac, fel o ganlyniad, *umig hawl* i weinyddu y gair a'r sacramentau, a thros gymundeb â hwy mewn trefn i feddiannu iachawdwriaeth—trwy ba enwad bynag y gallant gael eu gwahaniaethu gan ddynion, neu yn mha le bynag y gallant fod yn trigiannu, ydynt wrth-brotestanaidd.

Y mae yr athrawiaethau Pabaidd hyn, pa le bynag y ceir hwynt, yn profi o ba le y daethant trwy yr effeithiau y maent yn eu cynnyrchu, ac yn dangos nad ydynt yn ol duwioldeb. Y mae yn amlwg beth oedd ac ydyw eu heffeithiau yn y cyfundeb Pabaidd—y balchder, y gorthrymder, yr erlidigaeth, y creulondeb, y trais, a'r tywallt gwaed, a hynododd yr eglwys hono erioed, a ellir ei olrhain, yn uniongyrchol neu yn gasgliadol, i'r hollol awdurdod a fynir ganddi i feddwl tros, ac i lywodraethu cydwybodau dynion. Y mae yr un opiniwnau yn amlwg yn dwyn yr un ffrwythau yn hollol—yn arwain i'r un canlyniadau naturiol—cybelled ag y mae *amgylchiadau gwahanol* y pleidiau yn caniatâu, yn Eglwys Loegr. Edrycher, er esiampl, ar eu tueddiad rhwygol, eu cymeriad gwrthodedig, a'u tueddiadau Antinomaidd. Iaith eu hymddygiad ydyw—

"Teml yr Arglwydd ydym ni—
Paganiaid eraill oll."

Ac os nad ydyw eu cefnogwyr yn dywedyd wrth weinidogion eraill, "Sefwch draw! canys sancteiddiach ydym ni na chwi," y maent yn dywedyd,

¹ "Bates' Christian Politics:" tudal. 240, 241.

“Y mae genym ni awdurdod nad oes genych chwi—ffug-ordeiniad yn unig a gawsoch chwi—ymwthwyr ydych i'r swydd offeiriadol—nis gallwn ni ddal cymundeb â chwi; oblegid nid ydych yn canlyn gyda ni.” Pwy bellach yw y sismaticiaid? Yn ddiôs, y rhai sy'n gwrthod dal cymundeb â'r rhai sy'n bwrw allan gythreuliaid, a'r rhai y mae Duw yn arddel eu llafur, er nad ydynt yn canlyn gyda hwy.

Y mae gweithrediadau allanol yr athrawiaethau hyn i'w gweled yn eu gwaith yn nacâu hawl beddrod i'r rhai hyny sydd weinidogion cyfundebau eraill; ac y mae amgylchiadau felly yn dygwydd yn fynych mewn amryw barthau o'r deyrnas. Ond y maent hwy yn myned tuhwnt i Rufain ei hun, canys y mae y Pabyddion yn caniatâu *gwirioneddolroydd bedydd llëgyol*. Y mae Pabyddiaeth yn ystyried bedydd yn anhebgordd i iachawdwriaeth; ac am hyny yn caniatâu i unrhyw ddynd neu ddyndes, mewn achos o berygl, i'w weinyddu; eithr ein hapostolion ni a daerant dros anghenrheidrwydd bedydd er iachawdwriaeth, ac er hyny ni chaniatânt i neb ei weinyddu ond hwy éu hunain. Pwy a all ddarllen heb ofid lythyrâu Ficer Gedney at weinidog cyfrifol yn y cyfundeb Wesleyaidd, yn y rhai y gwelodd y gwr boneddig hwnw yn briodol, heb roddi iddo y cyffroad lleiaf, alw yr holl weinidogion, ond rhai yr Eglwys Wladol, yn “weinidogion uffern, a *mountebanks* ymneillduedig,” &c.: a'r hyn sydd yn hynotach fyth, ymddangosai fod ei esgob yn cyfiawnhau ei ymddygiad a'i eiriau, yn hytrach na'u cilgwthio—yr iaith wrthun uchod yn cael ei cheryddu yn debyg fel y ceryddodd Eli ei feibion!

Y mae y tybiau eithafol hyn yn arwain eu hamddiffynwyr i ddyrswch sydd weithiau yn boenus, a phryd arall yn warthus. Gwnai gwrthod hawliau claddedigaeth, oddieithr rhai a fedyddiwyd yn esgobaethol, gau allan Archegob Seeker o gladdedigaeth Gristionogol; canys gan un o'r rhai a alwyd gan Ficer G— yn “*mountebanks* ymneillduedig” y bedyddiwyd ef. Pe buasai yr archegob yn cael ei ddwyn i'w gladdu at Mr. E— buasai raid iddo wrthod darllen gwasanaeth y claddedigaeth uwchben prif esgob holl Loegr. Drachefn, sylwai Syr John Nicholls, yn ei ddyfarniad ar achos “Hemp yn erbyn Wicks,” offeiriad, “y buasai y rhybric, yr hon a ddadleuir gan rai offeiriad fel sail nacâu claddu plant na fedyddiwyd yn esgobyddawl, yn cau allan Iago i. a'i blant oddiwrth gladdedigaeth Gristionogol, yn ol trefn Eglwys Loegr.” Ac y mae yn awr lawer o offeiriad, y rhai sy'n feibion i Ymneilldŵyr, Methodistiaid Calfnaidd, a Wesleyaidd, y rhai na fedyddiwyd erioed yn esgobyddawl, y rhai, er y gadewir iddynt weinidogaethu yn yr Eglwys; a rhai o honynt mor'ddwn yn y dyb am eu holyniant, ac yn siarad mor ymfrostgar am awdurdod eu “heglwys apostolaidd” a Dr. Hook ei hun, neu y mwyaf Puseyaidd a *semi*-pabaidd o'r *lot*; er hyny nid oes ganddynt hawl i gladdedigaeth Gristionogol, cybelled ag y mae gwasanaeth a threfn yr Eglwys Sefydledig yn cyfansoddi hyny yn gywir yn ol eu hegwyddorion hwy eu hunain. Y fath ganlyniadau gwrthun a dirmygus sy'n tarddu o ddwyn allan i'w gweithrediadau naturiol eu hunain y tybiau—nid *semi*, ond *ultra*-pabaidd hyn! Yn wir, y natur mor wrthun fel nas gellir eu gweithio allan, pa mor olygus bynag y gall rhai dynion ymresymu ar hawl ddwyfol esgobyddiaeth, a gwendid ac afreoleidd-dra gweithrediadau gweinidogaethol pawb eraill, pa mor olygus bynag y gall ymddangos ar bapyr, nis gellir ei gario allan i weithrediad—ni weithia—y mae yn anhosibl ei effeithio yn drwyadl. Canys pwy

offeiriad a fuasai yn meddu y fath galedwch a nacâu claddu Iago I., neu ei fab Siarl y Merthyr (fel y geilw yr Eglwyswyr Siarl I.), neu Archesgob Secker—y ddau gyntaf yn benau gwladol, a'r olaf yn ben crefyddol Eglwys Loegr. "Os dywed neb wrthych," meddai y Dr. A. Clarke, "nad ydyw eich bedydd yn ddigonol neu gyfreithlawn, argyhoeddwch ef o'i gangymeriad, os gellwch, trwy ddangos iddo nad yw ei haeriad yn iawn.. Y mae eich bedydd chwi mor gyfreithlawn ac mor effeithiol i bob dyben Cristionogol a gwladol, ag ydyw yr eiddo Archesgob Caergaint. Dyma oedd ystyr ein cyfraith erioed mewn cyfeiriad at fedyddiadau yr Ymneilldŵyr; ond nid eglurwyd y meddwl hwnw yn llawn hyd o fewn ychydig flyneddau yn ol. Mi a wrandewais yr ymresymiadau yn Llys y Penadur (*Court of Arches*), ger gŵydd Syr John Nichol, yn achos Kemp v. Wickes, offeiriad, yr hwn a ballasai ganiatâu claddedigaeth Gristionogol i blentyn y cyntaf, yr hwn oedd Ymneilldŵyr; oblegid y mynai na chafodd fedydd Cristionogol, am ei fedyddio gan weinidog Ymneillduedig. Ond y barnwr dysgedig, gan chwilio arferiad ac athrawiaeth yr eglwys Gristionogol, o'r apostolion hyd yr ailbrawfiad diweddfaf o'r Litani, a brofodd fod yn mhob achos lle yr oedd dwfr yn cael ei ddefnyddio fel yr elfen, a'r enw sanctaidd Tad, Mab, ac Ysbryd Glan, yn cael galw arno yn y weithred o daenellu, neu drochi, fod yno fedydd wedi ei weinyddu i bob dyben a bwriad Cristionogol, heb ddim cyfeiriad neillduol at y person oedd yn gweinyddu; —fod yr eglwys bob amser yn casâu ailwneuthuriad neu fynychiad o fedydd, hyd yn nod lle yr oedd personau yn gweini a gyfrifid yn hereticiaid, pan y profwyd yn llawn mai dwfr a ddefnyddiwyd, a bod y person wedi ei daenellu, neu ei drochi, yn enw y Drindod byth-fendigaid. Yna efe a'i rhoddodd fel barn y llŷs, fod y cyfryw fedydd, wedi ei weinyddu gan weinidog Ymneillduedig, neu berson mewn ordeiniad sanctaidd, neu a gymerid fod mewn ordeiniad sanctaidd, yn fedydd effeithiol a chyfreithiol i bob bwriadau Cristionogol a gwladol. Dyma, gan hyny, yw athrawiaeth yr eglwys a'r wladwriaeth ar y pen hwn; a dyma oedd athrawiaeth y ddau erioed cyn yr ardystiad hwn; canys nid yw cyfreithiau Mr. James W—, na Rubric y brenin Iago, yn y "Llyfr Gweddi Cyffredin," yn ddim awdurdod gyfreithiol, ac o ganlyniad, yn deilwng o ddim parch, gyda golwg ar ypwnc mewn dadl. Y mae y gwrthwyneb yn athrawiaeth beryglus a gau, cyflawn annheilwng o ysbryd cariadus ac urddasol Cristionogaeth. Y mae yn beryglus, am y gall ddyrysu un o'r dadleuon gwladwriaethol pwysicaf a all ddyfod o flaen y cyffredin Brutanaidd.

"Mr. Thomas Secker, yr hwn a fu wedi hyny yn Archesgob Caergaint, ond yn fab i weinidog Ymneillduedig, a anwyd yn 1693, a fedyddiwyd yn ol dull yr eglwys hŏno, ac a fu yn efrynu mewn tair o ysgolion Ymneillduedig yn olynol, hyd nes oedd yn bedair ar bymtheg oed, pan yr aeth i Brifysgol Rhydychain, ac wedi hyny a ymunodd â chymundeb Eglwys Loegr. Yn 1732, efe a enwyd yn un o gapelwyr y brenin; yn 1733, efe a apwyntiwyd yn berson Sant Iago; Ionawr 5ed, 1734, efe a ddyrchafwyd i esgobaeth Caerodor; i Rydychain yn 1737; yn 1750, efe a newidiodd gorhawl (*prebend*) Durham a phersoniaeth Sant Iago, am ddeoniaeth Sant Paul; ac yn 1758, efe a enwyd ac a sefydlwyd i archesgobaeth Caergaint. Efe a weinyddodd yn ngladdedigaeth y brenin Sior II., ac yn nghyhoedd-iad y brenin Sior III., yr hwn a fedyddiodd efe pan oedd yn berson Sant Iago, a'r hwn, gyda'i frenines, a briododd, ac a goronodd, Medi 8fed, 1761;

ac ar yr 8fed o Fedi, 1762, efe a fedyddiodd Dywysog Cymru, ac amryw o blant eu Mawrhydi wedi hyny. Nid ydym yn clywed dim iddo erioed gael ei ailfedyddio. Os nad oedd ei fedydd yn Gristionogol, effeithiol, a chyfreithlawn, o ganlyniad nis gallasai fedyddio nac ordeinio; ond efe a wnaeth bob un o'r ddau. Yn awr, pe caniatem yr athrawiaeth anghristionogol a pheryglus nad oes un bedydd yn effeithiol neu gyfreithlawn, ond yr hwn a roddwyd gan offeiriad Pabaidd, neu offeiriad o Eglwys Loegr, yna canlynai yr anghenfleidd-dra a'r ffeidd-dra hyn:—nad oedd y brenin Sior III. yn gristion, canys efe a fedyddiwyd gan ddyn yr hwn na fedyddiwyd erioed ei hun; ac nid oedd yn frenin cyfreithlawn, canys efe a gysegrwyd gan ddyn nad oedd yn gristion! A chwanager at hyn oll, y mae y gwir ddilyniad yn yr Eglwys yn cael ei rwystro a'i dori, canys yr oedd holl fedyddiadau ac ordeiniadau Archesgob Secker, nid yn unig pan oedd yn llywyddu archesgobaeth Caergaint, ond hefyd pan oedd yn offeiriad gwledig, ac yn ddilydol Esgob Caerodor, ac yn Esgob Rhydychain, yn ofer ac anghristionogol; ac y mae yr holl urddasau uchel-eglwysig a ddisgynodd trwy y llinell hono yn ffugiol; ac y mae holl sefyllfa yr Eglwys Sefydledig yn ansafadwy a llygredig! Gwareded Duw ni rhag y fath athrawiaeth anghristionogol, ansanctaid, ac anghyfreithlawn."¹

Ond y rhan fwyaf gwrthwynebus o'r athrawiaeth hon yw ei thuedd Antinomaid. Y mae yr ysgrifenydd Pabaidd yn gwneyd gwahaniaeth rhwng sancteiddrwydd personol ac awdurdod weinidogaethol. Y mae yn osodiad ganddynt, "pa bryd bynag yr apwyntir dyn yn gyfreithlawn yn weinidog, na all heresi nac anfoesoldeb wneyd ei weinidogaeth yn ofer." Y mae yr ysgrifenydd Pabaidd eu hunain yn galw Stephan VI. y dyn mwyaf drygionus, a'i fod yn cael ei gyfrif yn rhif y pabau, rhag gadael bwlech yn y rhif—rhag colli dolen o'r gadwen.² Dywedant iddo chwanegeu pechod ar bechod, trwy gyfiawnhau ei ddrygioni mewn cymanfa—y melldithiai hyd yn nod y ceryg ef, ac y buasai yn well pe llabyddiasid ef â meini, na bod i Eglwys Rhufain gael ei hiselu trwy y fath warth; ddarfod i brif balas y pabau, yn y Lateran, syrthio i'r llawr, fel yn analluog i sefyll pan y siglwyd ei gonglau gan y fath erchyllwaith dychrynlyd, sef ei waith yn codi corff Formosus.³ "Ond eto," chwanager, "er fod y Pab Stephan yn ddyn mor ddrygionus, ni ddylai yr hereticiaid ein diystyru ni yn erbyn addewidion Crist, a wnaed trwy Sant Pedr i'w eglwys; canys nid oedd yr oll a ddywedodd neu a wnaeth Stephan yn erbyn Formosus ond gweithredoedd o wallgofrwydd neu ynyfdrwydd yn unig. Ond gan ei fod wedi ei wisgo yn gyfreithlawn â'r awdurdod Babyddol, nas gallasai gyfeiliorni ni erbyn ffydd na moesau da."⁴

Yr oedd Ioan XII. yn gawrffil mewn drygioni. Ni ddifwynwn ein papyr â darluniad o'i gymeriad; "ond er gwaethed oedd ei ddrygau ef," meddai awdur Pabaidd, "nis gallent niweidio na gwarthruddo y ffydd Babaid; canys yr ydym ni oll yn cydnabod St. Pedr, a gall ei olynwyr, wedi iddynt dderbyn yr addewid, gyfeiliorni mewn moesau, ond nid mewn ffydd."

Pa fodd y mae yr Uchel-eglwyswyr—gwŷr yr olyniant—yn ymdebygoli i

¹ "Dr. Adam Clarke's Letter to a Preacher."

² Efe oedd y pedwerydd pab ar ddeg ar ol y cant—dolen pedwerydd ar ddeg ar ol y cant, yn ol cyfrifaeth y Pabyddion, trwy ddechreu yn Pedr yr apostol.

³ "Cook's History of the Apostolical Succession:" tudal. 44.

⁴ "Howell's View of the Pontificate:" tudal. 178, 179.

Babyddiaeth yn hyn, a ellir ei weled trwy ddosraniad o bregeth a bregethwyd ar gysegriad eglwys newydd, gan urddasolwr o'r Eglwys Wladol, yn y flwyddyn 1809:—"Tr *swydd* apostolaidd y gwnaed yr addewid fawr hon (*Math.* xxviii. 18, 19). Hon, gan hyny, yw y *swydd* i'r hon y gwnaed addewid ein Harglwydd, y byddai efe *gyda hi bob amser hyd ddiwedd y byd*; gyda HI, hyny yw, nid felly, fel ag i ffurfio y *personau* a wisgir â hi yn arbenigol, ond fel ag i wneyd y *swydd ei hun yn effeithiol* i'r amcan mawr i'r hwn y cafodd ei sefydlu. Gall y gweinidogion fod yn anghymeradwy, ac er hyny fod yn offerynau anrhydeddus yn llaw Duw i gyfieo gwybodaeth achubol o'i wirionedd i filoedd. Nid sancteiddrwydd personol—nid hyd yn nod zel tros ogoniant Duw ac iachawdwriaeth dynion, a all wneyd unrhyw wasanaeth gweinidogaethol y *budd lleiaf*." Y mae Esgob Beveridge, yn ei bregeth ar y testun uchod, yn cymhwyso yr addewid at y *swydd apostolaidd*; ac ar y tir hwn yn amddiffyn gweinyddiadau gweinidogion drygionus.¹ Y mae Blunt hefyd yn ei "*History of the Reformation*," yn cyhuddo Wickliffe, "seren foreu y diwygiad," o gyfeiliornad, oblegid ei fod yn dal fod "drygioni yr offeiriaid Pabaidd yn halogi eu gweinidogaeth,"² ac yn dyfynu l *Sam.* ii. 17. i'w brofi—un o'r dyfyniadau mwyaf amherthynasol a allsedd fyth ei wneyd; canys y mae yn chwalu ei athrawiaeth, wreiddyn a changen. Canys am ddrygioni meibion Eli y digiodd Duw mor fawr, fel y torodd hwynt ymaith, ac y tystiolaethodd fod ei anrhydedd ef a'i achos yn gysylltiedig anwahanol âg ymddygiadau da ei weinidogion; "Canys," meddai efe, "fy anrhydeddwyr a anrhydeddaf fi, a'm dirmygwyr a ddirmygir;" l *Sam.* ii. 30. Hynod fod neb yn cymeryd achos meibion Eli i brofi fod Duw yn arddel gweinyddiadau dynion drygionus!

Y mae yn eglur fod y diwygwyr o dyb wahanol i Babyddion a phleidiwyr yr olyniant—oddiwrth y *canon* sy'n gofyn tystiolaethau o ymddygiad da yr ymgeisydd cyn iddo gymeryd urddau, ac y mae Erthygl xxvi. yn edrych yr un ffordd; canys, er ei bod yn dysgu "nad yw effaith ordinhad Crist yn cael ei thynu ymaith trwy ddrygioni y gweinidogion oddiwrth y rhai, trwy wir ffydd, sy'n derbyn yr unrhyw," eto, ymddengys mai at y rhai sy'n euog o ryw bechodau dirgelaidd y mae hyn yn gymhwysiadol, canys y mae yr erthygl yn gofyn "bod i weinidogion drwg gael eu *cyhuddo* gan y rhai a fo'n gwybod am eu troseddau; ac yn ddiweddfaf, wedi eu cael yn euog, trwy farn gyfiawn, gael eu diswyddo." Y mae y rhan ddiweddfaf o'r erthygl yn sicrhau yr ystyr y mae y rhan gyntaf i'w ddeall; ac yn wir, y mae y rhan gyntaf yn caniatâu fod drygioni y gweinidog yn guddiedig, canys prin y gellir meddwl y gall fod gan neb, â Bibl Duw yn ei law, *ffydd* yn ngweinyddiadau dyn drwg: canys dywed Duw am y drygionus, "Beth sydd i ti a fynegech ar fy neddfau, neu a gymerech ar fy nghyfammod yn dy enau? gan dy fod yn casâu addysg ac yn tafu fy ngeiriau i'th ol;" *Salm* l. 16—23. A thrachefn, dywed Duw, "A mi heb eu gyru hwynt, ac heb orchymyn iddynt: am hyny ni wnant ddim lles i'r bobl hyn;" *Jer.* xxiii. 32. Ac y mae yn eu rhybuddio i "ochelyd gau-brophwydi;" a'r safon wrth ba un y maent i gael eu profi yw, nid wrth ddolenau yr olyniant, ond "wrth eu ffrwythau yr adnabyddwch hwynt." Yn awr, â'r geiriau hyn o'n blaen, nis gallwn braidd ddysgwyl neu gredu y bendithia Duw

¹ "*Isaac's Ecclesiastical Claims*:" tudal. 152.

² "*Blunt's History of the Reformation*:" tudal. 89.

weinyddiadau dyn adnabyddus ddrygionus—nid oes grym i arferyd ffydd; ond os bydd gweinidog yn ddrygionus anadnabyddus i'w gynulleidfa, a hwy yn credu ei fod yn gywir, gallant yn hyderus ddysgwyl bendith Duw ar ei weinyddiadau, a chael budd ysbrydol trwyddynt. Yn y golygiad yna y mae cysondeb rhwng dwy ran yr erthygl a'u gilydd—y cwbl yn eglur; ond nid ar un tir arall.

Y mae rhai dyledswyddau yn perthynu i'r weinidogaeth Gristionogol nad yw yn bosibl i ddyn drygionus neu annychedig eu cyflawni. Sieryd yr apostol am ddyddanu y bobl “â'r dyddanwech y dyddanwyd ef ei hun gan Dduw.” Yn awr, gellir meddwl nad oes gan y gweinidogion drygionus hyn ddim dyddanwech oddiwrth Dduw, na chymdeithas âg ef; canys “yr hwn sy'n gwneyd pechod, o ddiafol y mae.” Swyddogol yw yr hyn oll sydd rhwng Duw a gweinidogion drygionus, yn sylfaenedig ar eu bod yn ddolenau yn nghadwen yr olyniant; canys Bellarmine, yn nghyflwyniad ei waith i Sixtus v., tra yr haera “ei fod yn *wir bab*, ac yn fier Crist ar y ddaear,” a addef wedi iddo farw ei fod wedi myned at ddiafol.¹ Pa fodd y gall y cyfryw weinidogion fod mewn gofid esgor ar bechaduriaid edifeiriol, “hyd oni ffurfier Crist ynddynt?” neu pa fodd y gallant hwy gydymdeimlo â'r credadyn yn ei orthrymder, a chysuro pobl Dduw? neu fod “yn addfwyn yn eu plith, fel mamaeth yn magu ei phlant.” Dynion, y rhai y mae eu calonau digyfnawd yn elyniaeth yn erbyn Duw—gweinyddiadau y rhai sydd oll o wneyd crefftwriaethol—yn troi dynion trwy weinyddiad y sacramentau—ailenedigaeth y rhai yw bedydd, a'r cymun yn drwydded i'r nefoedd! Y mae y tybiau hyn yn myned dan wraidd crefydd brofiadol, ac yn gwneyd “teyrnas nefoedd yn fwyd a diod,” yn ddefodau ac arferiadau, yn lle “cyfiawnder, tangnefedd, a llawenydd yn yr Ysbryd Glan.”

Drachefn, y mae y tybiau hyn mor wrthwynebol i reswm a phob cyffelybiaeth ag ydyw i'r ysgrythyr. Canys i beth y sefydlwyd y weinidogaeth Gristionogol? Wel, “i droi dynion o dywyllwch i oleuni, ac o feddiant Satan at Dduw”—i ddeisyf ar wrthryfelwyr gymmodi â Duw, ac i ymwrthod â'r traws-lywodraethwr sydd yn gormesu arnynt. A glywyd erioed am un brenin daearol yn defnyddio gelynyion—gwrthryfelwyr—a'u calonau yn llawn gelyniaeth tuag ato—deiliaid llywodraeth arall—yn negeseuwr drosto, i wneyd cytundeb yn ei enw â'i ddeiliaid gwrthryfelgar, a'u perswadio i gymmodi â'u penadur cyfreithlawn? O'r holl bethau ynfyd y bu breninoedd ynfyd neu ddrygionus, neu eu gweinidogion, erioed yn euog o hono, gallwn anturio dyweyd na buont erioed yn euog o'r fath anfad ynfydrwydd a gwallgofrwydd a hyn—y mae y dybiaeth yn rhy wrthun i'w hanwesu am fynyd. A ddarfu i'r pab ei hun roi hereticaid ar waith i droi Protestaniaid? A ddarfu i wŷr “Traethodau Rhydychain,” roi y rhai a anghredent eu hathrawiaethau i'w lledanu, ac i ennill dynion drosodd i'w ffydd? Nid ydys yn credu iddynt erioed wneyd y fath beth, ac ni a feiddiwn ddyweyd na wnant y fath beth byth ychwaith: ac eto arddangosir yr anfeidrol ddoeth Dduw fel pe mabwysiadai y dull hwn—fel pe cymerai ddeiliaid teyrnas y diafol yn negeseuwr drosto, a'u hanfon allan yn ei enw i ddeisyf ar eu cyd-ddeiliaid i gymmodi â Duw. Byddwn mor hyf a dyweyd fod hyn yn anmhosibl. Gan hyny, nid oedd Wickliffe a'r diwygwyr yn cyfeiliorni, eithr yn cyhoeddi y gwirionedd pwysicaf, pan ddysgent fod

¹ “Cook's History of the Apostolical Succession.” tudal. 97.

“drygioni personol y gweinidog yn difuddio ei weinyddiadau;” ac yr oedd-ynt yn gweithredu yn berffaith gyson â gofyniadau yr ysgrythrau sanctaidd, pan y cydnabyddent hawl Brenin Sion i “anfon gweithwyr i’w winllan;” a chan hyny yn gofyn fod i bob ymgeisydd broffesu “ei fod yn credu ei fod yn cael ei gynhyrfu gan yr Ysbryd Glan i gymeryd arno swydd y weinidogaeth Gristionogol.”

Y mae yn *gwestiwn pwysig* yn wir, pa un a all Eglwys Loegr, wedi cydnabod hawl Pen yr eglwys i alw gweithwyr i’w winllan, gyflawnhau ei hymddygiad yn neillduo dynion i’r weinidogaeth o’u mebyd, cyn y gall mewn un modd feddu sail i gasglu fod y Meistr mawr wedi, neu y gwna eu cynhyrfu yn fewnol i’r gwaith. Yn annedwydd iddi hi a’i gweinidogion, y mae ei hathrawiaeth a’i harferiad yn gwrthwynebu eu gilydd. Os yw *athrawiaeth* gwasanaeth yr ordeiniad yn iawn, y mae yr *arferiad* yn gyfeil-iornus. Y mae eglwysi eraill yn y wlad hon, sy’n dal yr un athrawiaeth ysgrythyrol—yn gofyn fod yr ymgeisyddion wedi eu dychwelyd at Dduw, ac yn profesu eu bod yn meddu galwad ddwyfol, cyn y derbynir hwynt i’w colegau, i’w dwyn i fyny i waith y weinidogaeth. Dyma bwnc sy’n perthynu yn bwysig i bob eglwys. Gwneler y weinidogaeth mor ddysgedig ac athrylithgar ag y gellir ei gwneyd, ond na thrawsyrer hi—na rodder dysgeidiaeth neu athrylith yn gyntaf, heb gymieriad ac heb dduwioldeb; ond bydded i dduwioldeb gael ei wneyd yn beth—yn gymhwysder anhegorol; canys ni all Pen mawr yr eglwys fyth alw gwrthryfelwyr yn genadau drosto; ni ddarfu iddo erioed, ac ni wna byth, ddefnyddio gelynyion i bregethu cymmod; ond ei offerynau, ei lestri etholedig a anrhydedda efe felly.

Yn olaf, gallwn sylwi, fod yr athrawiaeth hon yn symud, yn dystyriwio yr hen gloddiau terfynau. “Gochelwech gau-brophwydi,” meddai ein Harglwydd. Ond pa fodd yr ydym i’w gwahaniaethu? “Wrth eu ffrwythau,” meddai yr un awdurdod uchel—wrth “arwyddion apostol”—wrth fod “yn foddolawn mewn gwendid, mewn amharch, mewn anghenion, mewn erlidiau, mewn cyfyngderau, er mwyn Crist” (2 Cor. xii. 10); wrth fywyd sanctaidd, wrth fod “yn esiampl i’r ffyddloniaid, mewn gair, mewn ymarweddiad, mewn cariad, mewn ysbryd, mewn ffydd, mewn purdeb” (1 Tim. iv. 12); trwy lwyddiant yn eu llafur, trwy droi dynion o dywyllwech i oleuni; canys nid yw yr Arglwydd byth yn anfon gweinidog i ryfel ar ei draul ei hun; y mae yn adnabod ei lafurwyr, ac yn rhoddi iddynt sel i’w gweinidogaeth, ac eneidiau am eu llafur. Pan ammheuwyd awdurdod apostol y cenedloedd i bregethu yr efengyl, efe a bwysodd ar y gefnogaeth a dderbyniodd ei weinidogaeth gan ei Feistr mawr: “Chwychwi yw ein hepistol ni, a adnabyddir ac a ddarllenir gan bob dyn.” Ond cyfeiliornad oedd hyn oll, os yw yr olynwyr yn iawn; canys ymddengys nad ydym yn awr i farnu gweinidogion wrth eu ffrwythau, ond wrth eu bod yn ddolen yn nghydiad cadwen yr olyniant oddiwrth yr apostolion, yr hon gadwen nas gellir olrhain ei dolenu yn ddifylechau; ac yn wir, y mae braidd yn ormod hefyd i’w ofyn i ni roddi heibio “air sicrach y prophwydi,” mewn pwnc mor annhraethol fawr ag yw dewisiad arweinydd i’n heneidiau, ac ymostwng i ddim ond *ipsi dixit* rhyw wŷr fel Dr. Hook, ac eraill.

Dywed y doctor uchod “nad yw pob dyn sy’n gymhwys trwy ddysg, dawn, ac athrylith, yn meddu yr awdurdod i gymeryd arno y weinidogaeth Gristionogol—y gall llawer o ddynion fod yn gystal cyfreithwyr a’r

arglwydd ganghellwr, ond na allant weithredu fel y cyfryw heb eu hapwyntio gan eu penadur; ac wrth fyned trwy wlad dramor, y gallem fod yn gymhwys i weithredu dros frenines Lloegr, ond na wnai rhyw ymherawdwr tramor ein derbyn fel y cyfryw oni allem ddangos ein tyst-lythyrâu (*credentials*). Ac felly pa hawl sydd gan ddyn i weithredu fel cenadwr tros Dduw oddieithr i Dduw roi *commisiwn* iddo i weithredu felly?" Y mae hyn yna oll yn bur wir; yr ydym oll yn cytuno ar y pen hwn; ond y ddadl sydd am natur y tyst-lythyrâu. Nid ydym yn dadleu pa un a oes gan ryw ddyn hawl i weithredu fel cenadwr tros Dduw heb iddo roi *commisiwn* iddo—yr ydym yn cytuno âg Eglwys Loegr yma—nad oes gan un dyn hawl i weithredu fel gweinidog tros Dduw, nes iddo gael ei fewnol gynhyrfu gan yr Ysbyrd Glan i wneyd felly; ond dywed y doctor nad yw hyn oll yn ddigon, y rhaid iddo heblaw hyn, brofi ei awdurdod trwy ddangos *list*—dolenau cyd-iol, yn gwneyd un gadwen fawr ddiwleth o'r holl *gommisiwnau* a roddwyd o'r blaen—yr oll yn y cyfwng rhyngddo ef a Christ. Hyn yr ydym yn ei wadu, yn ei wadu *in toto*, oblegid ei fod yn wrthbrotestanaidd, yn dinstrio yr osodedigaeth Brotestanaidd mai y Bibl yn unig yw crefydd y Protestaniaid. Ac y mae chweched erthygl Eglwys Lloegr yn dysgu nad ydys yn gofyn bod i neb gredu "beth bynag ni ddarllenir ynddi (yr ysgrhythyr lân) neu ni ellir ei brofi wrthi, megys 'Articl o'r Pfydd,' na'i fod yn anghenrheidiol i iachawdwriaeth." Yn awr, yr ydym yn sicr nad yw y Bibl yn gofyn gan weinidog i brofi ei awdurdod yn y ffordd hono—gwyddom nas gall neb ei wneyd. Yr unig ffordd i'r gwŷr hyn brofi eu haerïad, mai hwyntwy yn unig sy'n hōni eu hawl a'u *commisiwn* trwy y *sianel* hon ydynt genadau Duw y nefoedd at bechaduriaid, yw profi yn eglur ddiammheuol mai y rhai sy'n hōni eu bod yn y gadwen yw yr unig rai ag y mae Duw yn ei gydnabod fel ei genadau, ac yn cymmodi â gwrthryfelwyr trwy eu gwasanaeth gweinidogaethol, yna ni bydd eu dull hwy o gael allan eu galwad ddim gwell nag eraill sy'n sicrhau eu hawdurdod trwy foddion mwy uniongyrchol ac ysgrythyrol. Tybier, er esiampl, fod rhyw ddynion mewn gwlad dramor yn haeru eu bod wedi eu hawdurdodi fel negeseuwyr gan frenines Lloegr, a bod i rywrai eraill wadu eu hawdurdod oblegid na ddeilliai eu hawdurdod mewn llinell o ddolenau didor trwy yr holl negeseuwyr, neu y cenadau a benodwyd o'r blaen er sylfaeniad y freniniaeth, tra yr haerai y cenadau eraill nad yw y *list* y cyfeirir ati yn werth dim, mai cruglwyth o ffugysgrifau anghyson yw y cwbl, mai os gellid eu gwneyd allan na throsglwyddai ddim awdurdod, oblegid fod llawer o'r cenadau wedi eu hapwyntio yn anghyfreithlawn—pa fodd y penderfynwn y ddadl rhwng yr ymrysonwyr hyn am awdurdod eu negeswriaeth? Wel, trwy chwilio eu gweithrediadau swyddogol, bid siwr. Os cawn allan eu bod yn ymohebu â'r llŷs gartref, a bod y rhai hyn y broffesai eu bod wedi derbyn eu hawdurdod oddiwrth y frenines a'r llŷs yn gydnabyddedig fel y cyfryw—sicrhâf hyn y pwne ar unwaith. Gallai y rhai hyn y hōnent fod ganddynt *list* o'r apwyntiadau er sylfaeniad yr ymherodraeth gredu ynddynt eu hunain, eu huchafiaeth, a'u hawdurdod ar eraill; ond gan y cyflawnid negeswriaeth yr anfoniad mor llwyddiannus trwy eraill, chwarddai y pobl am eu hynfydrwydd; a thra y byddai yr ymohebiaeth â'r llys gartref yn cael ei dwyn ymlaen yn gystal trwy y naill a'r llall, gadawent hwy i derfynu y ddadl am olyniant yn eu plith eu hunain, yr hyn a welent nad effeithiai ar eu hawdurdod. Yn awr, os na all "pobl y ffordd hon" brofi fod Duw y

nefoedd yn cyflawni ei arfaeth rasol trwy genadau yr olyniant, a thrwyddynt hwy yn *unig*, nid yw eu cadwen o ddolennau, hyd yn nod pe gellid eu casglu at eu gilydd oll heb golli un—nid yw, meddwn, yn werth dim; canys y mae yn amlwg fod cenadau sy'n profesu fod eu *commision* yn annibynol ar y *list* yn cael eu hanrhydeddu gymaint yn ffafr eu penadur ag eraill; canys anrhydeddwyd cenadau o'r Methodistiaid Calfaidd, Wesleyaidd, Bedyddwyr, ac Annibynwyr, â chymaint arwyddion o ffafr a chanmoliaeth y Penadur a chenadau yr olyniant. Gallant oll, trwy fendith Duw, gyfeirio at eglwysi a blunwyd trwy eu hofferynoliaeth, ac eneidiau luocdd wedi eu heinnill at Grist. Cludasant weinidogaeth y cymmod i amrywiol lwythau yn Ewrop, Asia, Affrica, ac America; a buont yn offerynnau anrhydeddus i droi tyrfaeodd oddiwrth wasanaethu eilunod mudion a gwageddau celwyddog, i wasanaethu y bywiol Dduw; ac y mae y Brenin wedi dyweyd wrthynt am farnu o berthynas i'w ffafr ef wrth y llwyddiant â pha un y gwelodd yn dda goroni eu llafur, "canys pa ddaioni bynag a wneir ar y ddaear, efe ei hun sydd yn ei wneyd," a chan nad yw yn anrhydeddu nac yn llwyddo yn fwy y rhai sy'n profesu derbyn eu galwad trwy yr olyniant nag eraill, y mae yn benderfynol eglur nad yw *Efe* yn rhoddi dim pwys ar yr olyniant.

Gan hyny, y mae yr olyniant apostolaidd yn gynnwysedig mewn parhâd o athrawiaeth, ysbyrd, profiad, zel, galwad dwyfol, ymarweddiad, a llwyddiant yr apostolion; canys da y sylwyd—"Nid all neb arall o weinidogion Crist, bydded eu cyrhaeddiadau a'u gradd yr hyn a fyddont, un amser hōni hawl gyflawn i'r arfreintiau goruchel a sanctaidd hyn. Y mae yr archesgob uchaf cybelled oddiwrth gyfartalwch â'r apostolion ag yw yr isaf o'r efengylwyr amdeithiol."¹ Ond y mae dynion dychweledig a ffyddlawn wedi eu galw gan Ben mawr yr eglwys, ac wedi eu cyfaddasu yn briodol i waith y weinidogaeth, ac yn cael eu cydnabod gan ryw gangen o'r eglwys weledig, pa un ai Methodistiaid Calfaidd, Wesleyaidd, Annibynwyr, Henaduriaethwyr, Bedyddwyr, neu Esgobaethwyr, yn ol ein tyb ostyngedig ni, wedi eu priodol awdurdodi yn ol ewyllys Duw, yn unol â'r ysgrhythrau, a'r drydedd ar hugain o erthyglau Eglwys Loegr, cyn belled ag y gall dyn farnu am ddyd, i bregethu sanctaidd air Duw, a gweinyddu y sacramentau yn y cyfundeb neillduol hwnw gan yr hwn y maent yn cael eu cydnabod felly; ac y mae gan yr Henaduriaethwyr hawl mor gyflawn i wadu urddiad yr Esgobaethydd ag sydd gan yr Esgobaethydd i wadu yr eiddo yntau. Gall y Trefnyddwr gyda yr un priodoldeb wadu ordeiniad yr Annibynwr, neu yr Annibynwr yr eiddo Trefnyddwr, cystal ag y gall yr Uchel-eglwyswyr wadu pob un o'r ddau; y maent oll yn gydradd â'u gilydd can belled ag y mae *cyflwr ac ammodau eglwysig* yn effeithio arnynt; ac os cynnyg y naill hunan-awdurdodi ar y llall, neu wadu cryfder eu hordeiniad a'u hawl i bregethu yr efengyl, y mae yn ymadael oddiwrth wir egwyddor Protestaniaeth, ac yn myned yn ol i Rufain, ac yn y peth hyn yn peidio a bod yn Brotestant, beth bynag a broffesa; canys un o'r cyfeiliornadau y *protestiodd* y diwygwyr yn eu herbyn oedd, hawl Eglwys Rhufain i gymeryd arni ei hun, ar draul cau pob un arall allan, yr awdurdod dros yr holl eglwysi, a gwrthod i eraill yr hawl i farnu trostynt eu hunain. Gan hyny, os bydd i'r eglwysi annibynol ddyfarnu yr henaduriaethol, a hōni iddynt eu hunain yn *unig*

¹ "Pregeth Ganmlwydd Jackson:" tudal. 22.

yr awdurdod i esbonio yr ysgrythyrau, gan alw eu hunain "Yr Eglwys," y maent yn chwareu y Pabydd—yn mabwysiadu yn hollol yr egwyddorion hyn yn erbyn pa rai y *protetiodd* y diwygwyr, a chan belled a hyny yn peidio a bod yn Brotestaniaid, ac yn yn troi yn Babaidd; yr un modd y byddai yn achos eglwysi o'r drefn Annibynol neu Henaduriaethol, pe byddai i ryw un o honynt hōni yr hawl iddynt eu hunain yn unig o fod yn farnwyr a dëonglwyr yr ysgrythyrau, a gwadu cymeriad ysgrythyrol pob gweinidogion, eglwysi, ac ordinhadau, ar na byddo yn unol â'u golygiadau hwy am lywodraeth a dysgyblaeth eglwysig.

Y mae gan bob un o'r eglwysi hyn hawl i feddwl mai eu hathrawiaethau hwy yw y mwyaf ysgrythyrol—mai eu dull hwy o weinyddu yr ordinhadau sydd fwyaf unol â meddwl yr Ysbryd, ac mai eu trefn hwy o lywodraeth eglwysig sydd fwyaf cydweddol â'r hen gynllun apostolaidd: gallant wneyd hyn ar egwyddorion Protestanaidd, yr hyn hefyd y mae cysondeb yn ei ofyn; ond pan y dechreuant ddieglwyseiddio cyfundebau eraill, a galw pob gweinidogion, oddieithr eu hunain, yn rhai "yn cymeryd arnynt urddau sanctaidd," "heb eu hordeinio," "dysgawdwyr diawdurdod," "ymwthwyr i'r weinidogaeth," gan wrthod rhoddi iddynt ddeheulaw cymdeithas, oblegid nad ydynt yn canlyn gyda hwy, ac yn eu gadael hwy a'u heglwysi i'r hyn a alwant yn "drugareddau digyfammod Duw"—pa beth bynag y gallant hwy alw eu hunain, y maent yn *worth*-brotestanaidd. Y maent, yn y pwnc pwyysig hwn o leiaf, yn cytuno â Rhufain, pa mor belled bynag y gallant wahaniaethu ar bynciau eraill.

Addefir yn rhwydd fod gan y dosbarth Esgobaethol o'r eglwys yn y wlad hon rai, ie, *lancer* o fanteision ar eraill; ond manteision gwladyddol neu dymmorol yn unig ydynt. Wrth fod yn gysylltiedig â'r llywodraeth, yn meddu gwaddoliaeth y llywodraeth, y mae ganddynt fantais nad yw eglwysi a gweinidogion eraill yn ei feddu: ond yn y pwnc o hawl oddiwrth Dduw i bregethu yr efengyl i bechaduriaid, ac i weinyddu sacramentau Duw ein Iachawdwr, nid oes ganddynt y gronyn lleiaf o awdurdod fwy na gweinidogion dosbarthiadau eraill o unionged eglwys Crist yn y wlad hon, sy'n galw eu hunain ar enw Pen mawr yr eglwys, a'r rhai a *gydnabyddwyd yn rheolaidd* yn ol arferiadau y cyfundeb neu y corff y byddont yn perthynu iddo, fel gweinidogion yr Arglwydd Iesu Grist, "gan ddynion sydd âg awdurdod cyhoeddus wedi ei roddi iddynt yn y gynulleidfa i anfon gweinidogion i winllan yr Arglwydd."¹ Pa un ai yn yr esgobion, fel yn Eglwys Loegr—yn yr henaduriaeth, fel yn Eglwys Scotland—yn y gymdeithasfa, fel ymhlith y Methodistiaid Calfinaidd—yn y gynulleidfa, fel ymhlith y Methodistiaid Wesleyaidd—neu yn y gynulleidfa eglwysig, fel yr Annibynwyr a'r Bedyddwyr—y byddo yr awdurdod yn ymorwedd, gall yr un a alwyd felly gan Dduw, ac a awdurdodwyd felly ar egwyddorion Protestanaidd a'r Testament Newydd, ddyweyd fel y dywedodd apostol mawr y cenedloedd pan yr ammheuwyd ei awdurdod ef i bregethu, "Ai gweinidogion Crist ydynt hwy? felly finnau;" *2 Cor.* xi. 23. Gall *rhai* o'r gweinidogion hyn fod yn fwy dysgedig, doniol, a defnyddiol—eraill yn llai felly; gall rhai fod yn fwy ffyddlawn nag eraill, gall rhai fod yn *emrocach* nag eraill, neu yn fwy hynod ac amlwg, fel ac yr oedd ymhlith yr apostolion; ond fel gweinidogion wedi eu gwir alw gan Dduw, a'u cymhwyso a'u hawdurdodi gan yr eglwys, y maent yn weinidogion Crist.

¹ Erthygl xxvi o eiddo Eglwys Loegr.

Yr ydys wedi bod yn rhy fynych yn dystion—yr ydys yn dyweyd hyn yn fwy o ran gofid na gelyniaeth—o geisiadau o liw hollol anghrefyddol a babilonaidd, yn cael ei wneyd gan yr olynianwyr zelog hyn i ddyeithrio aelodau cyrff eraill oddiwrth eu gweinidogion, y rhai a fuont yn foddion i'w dwyn i wybodaeth o'r gwirionedd. Y mae arnynt yn fynych fwy o ofn yr hyn a alwant yn *sism* na *phrechod*; am hyny y ceir mynych esiamplau eu bod yn fwy zelog i hudo aelodau y Methodistiaid, Wesleyaid, ac eglwysi eraill, i adael eu lleoedd addoliad eu hunain, ac i gyrchu dan, nid anfynych, eu gweinidogaeth ddiffygiol iawn eu hunain, ac felly “adeiladu ar sail un arall,” gan gael pobl barotach i aelodaeth deilwng na'r hen wrandawyr ar eu gweinidogaeth aneffrôedig hwy, nag i droi eu plwyfolion annuwiol o gyfeiliorni eu ffyrdd. Ac felly, tra maent mor uchel eu cwyn yn erbyn *sism*, y maent yn dangos eu bod eu hunain yn *sismaticiaid* o'r fath waethaf. Os bydd i'r hyn a ysgrifenyddyd roi peth cynnorthwy i'r cyfeillion a aflonyddir felly gan wŷr y gadwen, i roi rheswm paham y maent yn rhoddi y flaenoriaeth i'r weinidogaeth a arddelwyd gan Dduw er eu trôedigaeth a'u hiachawdwriaeth, ac felly eu diogelu rhag yr aflonyddwech hwn—bydd un dyben ysgrifenu hyn wedi ei ateb.

Gobeithio yr ydym ni, er ein bod wedi siarad yn gryf, na ddywedwyd dim mewn ysbryd a bair dramgwydd i neb. Ymdrechwyd i lefaru y “gwir mewn cariad.” Nid ydym wybodus ein bod yn coleddu teimlad cas tuag at undyn dan y nefoedd; ac os gwnaed sylwadau cryfion ar dybiau y rhai y gellir eu hystyried yn ngoleu y sylwadau hyny y blaid Babaidd yn Eglwys Loegr, yr oedd hyny oblegid y credir yn ddiysgog genym fod eu golygiadau yn llawn o'r canlyniadau gwaethaf, *yn ddiystriol i undeb yr Eghwys—yn dwyllodrus iddynt eu hunain—yn niweidiol i eneidiau dynion, ac yn adgas yn ngolhog yr Hollalluog Dduw*. Ond gobeithio yr ydym nad oes dim chwerwder yn yr hyn a ysgrifenyddyd; y mae tymher ddrwg ac achos drwg yn gysylltiedig â'u gilydd yn gyffredin, ac yn bradychu cydwybodolrwydd o wendid yr achos a amddiffynir.

Yn yr erthygl hon, cymerwyd cipolwg ar y gadwen ddychymyngol hon; y tro nesaf ni a chwiliwn bob dolen wrthi ei hun, fel y gwelom o ba ddefnydd, o ba *fettel* y gwnaed hwynt. Fel y mynegwyd o'r blaen, y mae y gadwen yn ddau cant a thriugain a phedair o ddolenau, heb gyfrif St. Pedr, canys bydd genym i chwilio a fu yr apostol hwnw erioed yn Rhufain, ac os ceir na bu ef yno erioed, yna y mae y gadwen yn ddiffygiol yn ei phen cyntaf—nid oes ganddi afael yn apostolion Crist, a chan hyny y mae yr holl gadwen yn syrthio, heblaw y ceir fod y defnyddiau o'r fath bydras, canerfas, a gwaelfas o bosibl, heb gymaint ag un o honynt yn ddiwall. Er fod y rhai cyntaf yn well nag eraill, yr oeddynt yn gwaethygu bob dolen, fel mai prin y dalient ynghyd o'r diwedd; a gwaith blinderus a fu asio a chydio rhai o'r dolenu yn y gadwen rywffodd, gan waethed defnydd oeddynt. Wedi yr elom dros yr holl res o un i un, gan eu chwilio yn fanwl, ni ryfeddem na bydd rhai yn cywilyddio cydio eu hunain mewn un modd â'r fath ddefnyddiau, ac yn chwilio am ryw hawl, awdurdod, a chymhwysder i'r weinidogaeth o ryw gydiad mwy uniongyrchol â Christ a'i apostolion, nag ar hyd y fath res gadwynog mor ammeŷus yn ei chysylltiad a'i defnyddiau.

CERDDORIAETH GREFYDDOL Y CYMRY.

A DDICHON da ddyfod o Nazareth? meddai anwybodaeth a rhagfarn gynt; ac, A ddichon gwerth llényddol ddyfod o Gymru? medd anwybodaeth a rhagfarn yn ein dyddiau ni. "Tyred a gwel," oedd yr ateb cyrhaeddgar a roddai yr Iuddew Galileiaidd, a "Thyred a gwel," yw yr unig ateb a wna y tro oddiwrth y Cymro gwladgarol. Blinir ni yn ddigon mynych gan hiliogaeth Dic Sión, o herwydd eu hanmharch anwybodus o iaith ac arferion ein cenedl, er mewn gwirionedd, nad ydynt yn deilwng o'r sylw lleiaf; ond blinir ni yn fwy wrth ganfod ambell Gymro hyddysg yn nghelfyddydau yr oes, a llényddiaeth cenedloedd eraill, ond yn lled ddi-barch o llényddiaeth ei wlad ei hun. Ond beiddiwn ddyweyd, mai yr unig achos yw am na ddywedwyd wrtho, neu ynte am nad ufuddhaodd i'r beiddiad, "Tyred a gwel." Y mae y bai na fyddai Ewrop y fynydd hon yn *capio* yn barchus i llényddiaeth ein cenedl, yn gorwedd yn gwbl wrth ein drws ni ein hunain. Dylasai, ar bob cyfrif, fod iaith a llényddiaeth Cymru yn nesaf at eiddo Groeg a Rhufain, yn mryd dysgedigion yr oes—y mae yn teilyngu hyny, ac mewn rhyw bethau yn haeddu y flaenoriaeth—a phechod gwarthus y Cymry o esgeuluso eu ceinion cenedlaethol eu hunain yw yr unig achos na fuasai Ewrop a'r byd dysgedig yn teimlo hyny. Ond na ddigalonwn—y mae llu ar y maes—a llu mwy, ni hyderwn, yn gloewi eu harfau, o blaid "Cymro, Cymru, a Chymraeg." Iechyd i'n calon yw gweled Cydffurfwyr ac Anghydfurfwyr Gwalia, yn cyduno i amddiffyn a meithrin llênoriaeth gyffredinol eu gwlad.

Ond awn bellach at ein testun. Nid oes dim yn ngweddillion dysgeidiaeth y Cymry, yn rhagori cymaint, efallai, a'u cerddoriaeth. Gellir dyweyd hyny, gyda'r hyder mwyaf, am eu cerddoriaeth gwladol a moesol,¹ yn gystal ag am eu cerddoriaeth grefyddol—er mai â'r olaf y mae a fynom yn y llinellau hyn.

Buasai yn ddifyr genym ddechreu adolygu cerddoriaeth ein cenedl yn moreuddydd ei Christionogaeth—yn yr ail, a'r drydedd, a'r bedwaredd ganrif, pan yr oedd Bangor-is-y-Coed yn ei gogoniant, a Morgan, trwy rym ei ddysg a'i athrylith, yn cynhyrfu ac yn synu y byd darllengar. Buasai yn adeiladol, er nad mor ddifyr, casglu y crybwyllion a'r ffeithiau gwasgaredig a geir trwy y canol-oesoedd tywyll, hyd y diwygiad mawr Protestanaidd. Ac yno buasai raid i ni eistedd am gryn amser i edrych dros y llyfrau a gyhoeddwyd yn Ffrainc a Germany, yn Ysgotland, ac eilwaith, yn Lloegr, er mwyn gwneyd chwareu teg â gwahanol genedloedd—ac oddiyma dylasem symud yn lled araf hyd y diwygiad Methodistaidd, yn amser y bardd mawr Cristionogol—Williams, o Bant-y-celyn. Ond cymerai adroddiad o'r daith, ar hyn o bryd, ormod o'n hamser, yn gystal ag o

¹ Gall y darlennydd weled prawf o hyn mewn darlith a draddodwyd yn ddiweddar, yn Crosby hall, Llundain, gan Ieuan Glan Alarch. Cyhoeddedig gan R. Mills, Llanidloes.

ddalenau y "Traethodydd." Gallwn sicrau i'n darlennydd ein bod wedi ei wneyd bob cam, ac wedi treulio llawer o oriau difyr uwchben hen lyfrau a hen lawysgrifau sydd bellach yn gannoedd o flyneddau oed, a hen donau ynddynt, pe buasai ein darlennydd cerddorol yn ein clywed yn ddystaw-fwngial (rhag deffroi y teulu) ambell un o honynt, buasai ei swyn yn gyru cwsg oddiwrtho yntau am noswaith, neu o leiaf, buasai yn breuddwydio am dani. Ond, fel y dywedwyd, nid ein hamcan ar hyn o bryd yw adrodd ein taith gerddorol dros oesoedd hanesyddol ein cenedl, ond yn hytrach, ddarlennydd hawddgar, a meddylgar o gwrs, gan dy fod yn darllen y "Traethodydd," ein hamcan yw adrodd ein syniadau, ar ol gorphen y daith, ac eistedd i lawr i fyfyrion ar gynneddau y tonau rhyfedd a restrir genym dan yr enw "Cerddoriaeth Grefyddol y Cymry." Wel, yn awr, y peth cyntaf a nodwn yw *symledd*. Wrth dôn syml, fel pob peth arall syml, yr ydym yn golygu, tŷn lan neu rydd oddiwrth bob addurn.

Y mae dau fath o symledd yn bod. Y mae un yn tarddu o anfedrusrwydd yr awdur, ac yn arwydd anffaeledig o dlodi y cyfansoddiad. Dyma ydyw nodwedd cyfansoddiadau rhai ieuanc fel awduron yn gyffredin, pa un bynag ai ieuanc ai hen a fyddont mewn dyddiau; a dyma nodwedd cyfansoddiadau rhai diaddurn pa mor hyned bynag y byddont fel awduron. Gan hyny tuag at godi uwchlaw y symledd dienaidd yma y mae eisieu dawn ac ymarferiad.

Felly y mae natur yn ein dysgu. Dywed doethineb yr hen Gymry mai un o gampau boneddig yw "bod yn baen ar yr heol"—hyny yw, y dylai ei gerddediad fod yn gyffelyb i gerddediad hardd yr aderyn hwnw. Ond fe w'yr pawb, fod yn rhaid i'r plentyn ddysgu cropian cyn y gall y llanc gyrhaedd ysgogiadau boneddigaidd y paen. Felly y mae mewn celfyddyd—fe gymer dipyn o amser cyn y gall y *prentis* roi ei waith o'i ddwyllaw yn y fath fodd fel nad ellir dyweyd mai *prentis* yw. Na, na, nid mewn diwrnod y gall godi uwchlaw y diffygion sydd ynglŷn bob amser â gwaith *prentis* ieuanc.

Y mae y symledd tlawd yma i'w gael yn mhob math o gyfansoddiadau—mewn adeiladaeth—mewn paentio—mewn rhyddiaeth, ac mewn barddoniaeth. Dyma bennill yn anghraifft:—

"Yr hwn sy'n dysgwyl teyrnas nef,
Ymwaded ef â'i hun;
Tan gyfiawn farn y gyfraith wiw
Colledig yw pob dyn."

Y mae y syniadau yn ddigon cywir ac ysgrythyrol, ond y maent yn cael eu hadrodd yn enbyd o anfarddonawl. Nid oes dim ynddo ond mesur ac acen; ac y mae yn syndod fod cynnifer o bennillion tebyg iddo yn ein llyfrau emynau ag sydd. Yr un modd y mae mewn cerddoriaeth. Tonau tebyg i'r pennill uchod oedd tonau cyntaf pob cenedl—a rhai felly oedd tonau Cristionogion y canrifau cyntaf yn gyffredin; a rhai felly hefyd yw nid ychydig o donau newydd a glywir yma a thraw yn ein haddoldai yn y dyddiau hyn. Ond nid tonau felly yw hen donau crefyddol y Cymry—nid oes braidd un y gellir dyweyd fod ôl bysedd *prentis* arni.

Y symledd arall yn tarddu o chwaeth gywir y cyfansoddwr, ac felly yn arwydd anffaeledig o gywirdeb a grym ei athrylith. Yn y cysylltiad yma y mae symledd yn sefyll mewn gwrthgyferbyniad â chwyddiaeth. Pan fo cyfansoddwr ieuanc wedi codi uwchlaw y symledd tlawd fu dan sylw, y

mae tuedd naturiol ynddo i redeg i eithafion yr ochr arall, a cheisio llanw ei waith âg addurniadau. Yn wir y mae tuedd yn mhob cyfansoddwr ieuanc i deimlo a chredu mai digon o addurn yw gogoniant pob cyfansoddiad. Y mae hyn yn beth naturiol i ddyn. Edrychwch ar eneth ieuanc wedi ei geni a'i magu mewn lle hollol fynyddig, yn myned am y tro cyntaf i'r dref yn ei gwisg wladaidd. Y mae yr olwg a gafodd tra yn y farchnad yn sicr o greu cyfnewidiad yn ei meddwl am harddwch gwisg, ac o ganlyniad yn sicr o godi awydd ynddi i wisgo yn fwy addurnedig. Y tro nesaf y gwelir hi yn y farchnad, odid fawr na fydd ysnodenau llydain o'r lliwiau mwyaf tanbaid, yn latheni o'i chwmpas, a phob peth arall yn gyffelyb. Ond ar ol iddi gynnwddu mewn oedran, ac ymarfer mwy â rhai fo yn meddu chwaeth gywir mewn gwisgoedd, un o fil na ddaw hi i weled a themlo nad yw harddwch gwisg ddim yn gynnwysedig mewn rhyw goegni felly. Hi rydd heibio yr ysnodenau, ac a wisga yn fwy syml a thacrus.

Yr un egwyddor hefyd sydd yn peri fod yr anghyfarwydd yn dewis lliwiau tanbaid mewn arlun yn hytrach na chywirdeb yn y gwaith. Gŵyr pawb fod y werin anwybodus yn cael eu boddhaul lawer mwy trwy ryw fath o arlun os bydd wedi ei liwio yn gryf, na thrwy y gwaith mwyaf campus os bydd y *canvass* wedi llwydo. Y mae hyn yn dangos fod y meddwl yn gofyn addysg a diwylliant cyn y gall gyrhaedd chwaeth gywir.

Y mae chwyddiaith yn bur debyg fel pe gwelid dyn bychan wedi ymwisgo mewn mantell fawr, a hōno yn cynnwys lliaws o blygion, a llawer o addurniadau arni—y mae y plant yn synu wrth yr olwg arni, a'r llanciau yn dymuno un debyg; ond y dyn o oedran addfetach yn gweu wrth goegni y gwr bach. Ac yn y diwedd y mae yn eu gadael heb i neb o honnynt gael golwg ar lun ei gorff gan faint ei fantell. Ond y mae symledd yn debyg i ddyn lluniaidd, â'i wisg wedi ei gwneyd yn gymhwys i'w *fitio*, ond heb ddim addurniadau arni; ac er ei bod yn rhagorol ei defnydd, ac yn lanwaith a thlws, eto y mae pawb yn anghofio y wisg o herwydd harddwch a chymesuredd y person sydd yn ei gwisgo. Ond, efallai, y canfyddwn hyn yn amlycach wrth ddefnyddio anghraifft. Chwyddiaith mewn rhyddiaith yw rhywbeth fel hyn:—"Ystyriwch am fynydd ddistadl lili y maes—pa fodd, dybygech chwi, y mae y llysiau gweinion hyny yn gallael tyfu? Llafurio nid ydynt yn gallu, ac nid ydynt yn medru nyddu. Ac eto, meddaf i chwi, nid oedd y brenin Solomon, pan yn eistedd ar deyrngader Jerusalem, â'r goron freninawl ar ei ben, a theyrnwialen euraidd yn ei law, wedi ei wisgo mor ogoneddus ag un o lili y las-ddol." Dyma y dyn bach wedi ei golli yn ei fantell. Ond symledd, o'r tu arall, yw hyn—"Ystyriwch lili y maes, pa fodd y maent yn tyfu; nid ydynt nac yn llafurio nac yn nyddu; eithr yr wyf yn dywedyd i chwi, na wisgwyd Solomon yn ei holl ogoniant fel un o'r rhai hyn." Dyma berson hardd tros ben mewn wisg dlws iawn.

Wel, y mae yr un peth yn gymhwys mewn cerddoriaeth, gyda hyn o wahaniaeth—mewn rhyddiaith a barddoniaeth nid yw y pwnc yn dibynu yn hollol ar yr iaith a'r dullwedd; gan hyny, pan fo drychfeddwl gwyh yn cael ei golli dan faich o eiriau chwyddedig, neu frawddegau conglog, gellir ei wisgo gan ryw un arall â gwisg fwy cyfaddas; ond mewn cerddoriaeth y mae y drychfeddwl a symudiad y seiniau (sef y geiriau a'r dullwedd) yn anwahanadwy; gan hyny pa dôn bynag ddaw yn gyfiawn i restr y chwydd-

isotli y mae yn anfeddyginiaethol. Er anghraifft, cymhared y darllenwyd y ddu a adnabyddir yn gyffredin wrth yr enw "Calcutta" a'r "Hen Ganfed Salm." Yr ydym yn enwi y gyntaf, nid am mai hi yw y waelaf o'r rhwng: na, y mae yn eynnwys teimlad, ac yn arddangos cryn lawer o ryw fetu o dalent, ond talent heb ei thylino i ffurf briodol. Y mae y rhan gyntaf hefyd yn fwy goddefol na'r rhan olaf.

Dyns nhw:—

CALCUTTA.



Dyna "Calcutta," ac y mae'n brawf nad oedd ei hawdur yn amddifad o athrylith, ond yn unig nad oedd wedi cyrhaedd y wybodaeth a'r chwaeth anghenrheidiol i gyfansoddi mewn dullwedd priodol a chywir. Ond mor wahanol yw yr "Hen Ganfed." Dyma hi:—



Parhad o'r "Hen Ganfed."

Dyna yr "Hen Ganfed," yn gymhwys fel y mae mewn hen lyfr sydd yn awr ger ein bron, wedi ei gyhoeddi ar y cyfandir yn nyddiau Luther a Calfn. Y mae wedi sefyll prawf, ac wedi ei chael yn llawn pwysau bellach er ys canrifoedd, ac a saif, yn ddiammhou, yn un o brif alawon eglwys Crist tra y bo y "bel daear yn blodeuo." A pha ryfedd? y mae mor syml a hardd ag ydyw natur ei hunan. Felly y mae y tŷnau Cymreig—y maent yn gyffredin yn eithaf syml; ond nid y symledd dienaidd y buom yn son am dano, ond symledd yn llawn o fywyd a theimlad. Nodwn un yn anghraifft—"Tyddewi." Y mae ei rhagoriaeth wedi tyau sylw bron bob awdur o fri, gyda hyn o gamgymeriad, eu bod oll yn ei phriodoli i Ravenscroft, pryd, pŵ buasent yn cael golwg ar lyfr yr hen awdur rhagorol hwnw, y cawsent ganfod mai hen gyfansoddiad Cymreig ydyw. Y mae yr hen lyfr yn awr ger ein bron, a chydnebydd Ravenscroft mai alaw Gymreig ydyw, ond ei fod ef wedi ei chynghaneddu i bedwar o leisiau. Y mae yn bur syml, wedi ei chyfansoddi bron yn unig o'r cyweirnod, ei drydydd, a'i bummed, y seiniau mwyaf naturiol yn yr wythawd. Dyma hi:—



Y nodwedd nesaf a nodwn yw *Awredd*. Ar ol i ni ddyweyd cymaint am symledd, rhaid i ni gofio wedi y cwbl nad ydyw ond rhawedd nacaeob; ond rhaid cael rhywbeth eadarnhaol i wneyd nodweddiad elodwiw. Y mae yn rhaid i ddyw fod yn lân oddiwrth feddwod, anwiredd, aflendid, &c., os myn fod o nodweddiad moesol; ond y mae yn rhaid iddo chwaneu at hyna ryw tiriweddau eadarnhaol cyn y bydd ei nodweddiad yn teilyngu parch. Felly y mae gyda phob math o gyfansoddiad. Tuag at ymgadw oddiwrth bob gwallau mewn chwyddiaeth, rhaid bod yn syml; ond tuag at fod yn

arwraidd, rhaid i'r cyfansoddiad gynnwys rhyw ragoriaethau. Po debycaf byddo unrhyw gyfansoddiad i natur, goreu oll ydyw. Gellid meddwl, ar un llaw, y parai symledd pob gwrthddrych i'r greadigaeth fod yn bur ddi-fias; ond ar y llaw arall, y mae y goleuni, y gwres, a'r bywyd sydd ynddi, yn llanw y cwbl âg *interest* diddarfod. Y safon, gan hyny, yw natur. Y mae pob cyfansoddiad a fo â mwy o addurn arno na natur yn chwyddedig; ac y mae pob cyfansoddiad fo heb fywyd natur ynddo yn dlawd. Gan hyny, symledd, goleuni, gwres, a bywyd natur, wedi eu cymhlethu yn briodol, sydd yn ffurfio cyfansoddiad perffaith.

Cyfansoddiad felly i raddau anghyffredin yw tónau y Cymry. Y mae eu symudiadau yn hynod o syml a hawdd eu canu, ond yn llawn o hoenus-rwydd a bywyd. Fel anghraifft, gallwn nodi y dôn "Bethel," yr hon sydd yn cael ei gwneyd i fyny bron yn gwbl o seiniau y cyweirnod, y trydydd, a'r pumed. Dyma hi:—



Y mae yr arwredd yma i'w wahaniaethu oddiwrth y dullwedd mawreddus,¹ gymaint ag yw y symledd naturiol i'w wahaniaethu oddiwrth y symledd difywyd y buom yn son am dano. Y mae y dullwedd arwraidd yn cynnwys symledd a bywyd natur, ond heb ei mawredd; tra y mae y dullwedd mawreddus yn cynnwys mawredd natur hefyd. Afon yn llanw ei gwely, ac yn rhedeg yn nerthol a gwastad, sydd yn olygfa o'r dullwedd arwraidd; ond afon wedi chwyddo yn gefnllif dros ei glanau, ac yn casglu pob peth o'i blaen, sydd yn olygfa o'r dullwedd mawreddus. Y mae y

¹ Os bydd hyny yn gymhortha i rai o'n darlledwyr ein caalyn yn wall, gallwn hysbysu ein bod yn defnyddio yr enwedigaethau uchod yn debyg fel y gwna y Saeson eu rhai cyfystyr hwy, sef dullwedd syml—*simple style*; dullwedd arwraidd—*noble style*; a dullwedd mawreddus—*grand style*.

dullwedd arwraidd o fewn cylch yr hyn sydd yn frair;¹ ond y mae y dullwedd mawreddus yn esgyn i wlad yr hyn sydd arddunawl.¹ Y mae yr holl greadigaeth yn dyfod dan un o ddau ddrychfeddwl, *mirieinedd* neu *ardduniant*. Y mae yn wir fod graddau yn y naill a'r llall, yr un fath, ag y mae graddau mewn lliw. Gall du, er anghraifft, fod yn ddu, a duach, a duaf. Felly hefyd gyda *mirieinedd* ac *ardduniant*. Golygfa frair yw gweled y fronfraith yn ehedeg yn ddigyffro dros y ddol; ond golygfa fireinach yw ei gweled yn disgyn ar y gangen ac yn pynio ei cherdd. O'r tu arall, golygfa arddunawl yw gweled yr eryr yn hofran uwch y cymylau fel brenin holl adar y nefoedd; ond golygfa fwy arddunawl yw ei weled yn disgyn i ganol y cymylau, y mell, y taranau, ac yn lleu ei aden dros y graig i amddiffyn ei gywion. Felly hefyd y ddwy gynneddf dan sylw. Symledd natur a bywyd natur a wna fireinedd; symledd natur a mwy o fywyd a wna fireinedd uwch; ond symledd natur yn llawn o fywyd a wna fireinedd o'r gradd uchaf. Y mae y cyntaf yn fuffio y dullwedd syml; ond yr ail a'r trydydd yn benaf sydd yn cyfansoddi y dullwedd arwraidd. Ac hyd yma y mae cerddoriaeth y Cymry yn cyrhaedd—nid oes un Cymrō eto wedi cyrhaedd y dullwedd mawreddus, oddieithr un, y diweddar R. Mills. Ond ni chawn ei ganlyn ar hyn o bryd.

Ond na feddylid yr anghyfarwydd mai cerddoriaeth o'r ail radd yw cerddoriaeth grefyddol y Cymry, am nad yw yn cyrhaedd y dullwedd mawreddus; na, y mae yn gymhwys yn y lle y dylai cerddoriaeth grefyddol fod. Y mae a fyno y dullwedd mawreddus fwy â'r deall nag â'r galon; ond y dullwedd arwraidd mwy â'r galon nag â'r deall. Neu yn hytrach, y mae yn rhaid i'r meddwl gael llawer o addysg cyn y gellir *gwir* fwynhau y dullwedd mawreddus mewn dim; ond y mae y dullwedd arwraidd yn cyrhaedd pawb, ac yn gwella pawb fel eu gilydd. Fel anghreiffiau o hyd, gallwn nodi y tri chyfansoddiad mwyaf arddunawl a welodd y byd eto yn y celfyddydau awengar. Cymerer i ddechreu, ragbaentiadau (*cartoons*) Raphael. Nid oes neb gwybodys a ammheua am fynyd eu bod yn benigamp; ond nid pawb sydd yn canfod eu godiogrwydd. Fe farnai mi—oedd fod mwy o ragoroldeb yn narluniau llyfrau ysgolion plant nag sydd yn y rhai llwydion rheiny. Yn wir nid yw y paentiwr *ieuanc* yn canfod eu gwychder. Rhaid iddo efrydu, a meddwl, a gweled, fis ar ol mae, a blwyddyn ar ol blwyddyn, cyn cyrhaedd tir i ganfod yn iawn eu rhagoriaeth rhyfeddol. Felly y mae efo "Coll Gwynfa" Milton. Y mae yn well gan y werin ambell i faled na'r bryddest orgampus hono. Ie, nid holl ganmolwyr y penbardd sydd yn ei ddeall. Heb son am gymhwysderau i'w feirniadu, beiddiwn ddyweyd nad oes dim un o gant o ddarllenwyr Milton yn alluog i ganlyn eheddiadau ei awen anturiaethus o'r ddaear i'r nefoedd; o amser i dragywyddoldeb, ac o wynfa i drueni. Gellir dyweyd yn gymhwys yr un peth am "Fessiah" Handel, y cyfansoddiad cerddorawl mwyaf arddunawl a welodd wyneb haul erioed. Y mae yn wir fod llawer ynddo i foddhau y werin, yn neillduol pan fo digon o nerth a medrusrwydd i'w ddadgan; ond pwy sydd yn canfod llinell awenyddol y cyfansoddiad, ac yn canlyn yr awdur o olygfa i olygfa trwy y gwahanol drawsgyweiriadau, i sylwi sut y mae yn dadblygu y drychfeddyliau ysplenydd? Ah! ha! nid

¹ Yn yr ystyr yr ydym yn defnyddio y geiriau uchod, y rhai Seisnig cyfystyr yw *beautiful* a *sublime*.

oes un o fil o gerddorion yr oes. Ac y mae hyn yn profi fod eisiau diwylliad mawr i'r meddwl cyn y gellir mwynhau cyfansoddiadau arddunawl.

Ond nid felly y mae efo y dullwedd arwraidd—y mae pob cyfansoddiad yn hwnw yn taro pawb fel eu gilydd. Y mae ardeb da o unrhyw berson yn boddâu y celfyddydwr fel y werin—y mae barddoniaeth Cowper yn boddâu y bardd dysgedigaf gymaint a'r gwladwr, a'r "Hen Ganfed Salm" yn boddâu y cerddor mwyaf penigamp lawn cymaint a'r gynnulleidfa gyffredin. Wel, dyna fel dylai cerddoriaeth grefyddol fod. Peth i bawb yw crefydd; ac y mae dullwedd pethau crefydd i fod yn gyfaddas i bawb. Nid oes dim i fod yn isel a gwael, na dim i fod uwchlaw y bobl. Dullwedd cywir yw fod y cwbl yn tueddu i cangu y deall, ac i wellâu y galon. Perfffeithrwydd cynllun yn hyn yw pregethau Crist. Nid oes dim sydd yn arddunawl ynddynt; y maent yn eithaf syml; eto yn llawn o oleuni, bywyd, a nerth; mewn gair, y maent yn berffaith fireinedd. Wel, yr un peth ag yw pregethau Crist mewn rhyddiaith, yw ein tónau ninnau mewn cerddoriaeth. Y mae y rhan fwyaf o honnynt yn odidog dros ben.

Y nodwedd nesaf a nodwn yw *duwioldeb*. Nid oes eisiau i ni brofi yn y lle yma nad yw athrylith a chrefydd yn wahanadwy. Y mae yn wir mai crefyddwyr yw prif awduron y byd yn mhob celfyddyd awengar. Tan ddylanwad fydd yn y gwir Dduw neu y gau dduw y cynnyrchwyd yr holl weithiau anfarwol a welodd y byd eto. Ar yr un pryd, nid yw *pob* cyfansoddiad athrylithgar yn grefyddol. Ië, cydnabyddwn ymhellach fod llawer darn yn y gwahanol gelfyddydau awengar yn llawn o awen, ond hono fel y mae gwaetha'r modd, sydd yn tueddu yn naturiol i lygru y galon. Y mae hyn yn eithaf cyson i ni ystyried nad yw awen yn ddim arall ond y ddawn o amlgu y syniadau a'r teimladau trwy gyfrwng geiriau mewn barddoniaeth, trwy gyfrwng lliw mewn paentio, careg mewn cerfiaeth, a swm mewn cerddoriaeth. Y mae yr awdur, gan hyny, yn trosglwyddo y teimlad cryfaf fo ar y pryd yn ei fynwes ei hun. Os moesol fydd ei deimladau, moes fydd ei aweniaeth; ond os anfoesol a llygredig, tuedd felly fydd yn ei aweniaeth.

Yn awr, gellir rhestru holl deimladau da y fynwes i dri dosbarth—gwladol, moesol, a chrefyddol. Y mae teimladau gwladol dyn yn perthyn iddo fel aelod cymdeithas ddaearol; y mae'r teimladau moesol yn perthyn iddo fel creadur rhesymol; ac y mae'r teimladau crefyddol yn perthyn iddo fel creadur cyfrifol. Gwrthddrych y rhai cyntaf yn benaf yw eu gwlad a'u cenedl, gwrthddrych yr ail yw y greadigaeth, a gwrthddrych y trydydd yw Duw. Nid yw y rhai olaf yn dinystrio y rhai blaenaf—nid yw crefydd neb call yn dinystrio ei wladgarwch; na, y mae cylch dyledswyddau dyn yn un sydd yn galw, mewn amserau priodol, ei holl deimladau i weithrediad. Yn wir, y mae yr holl dduwion sydd wedi bod yn fendith i'r byd—sydd wedi *actio* eu rhan ar chwareufwrdd eu hoes, wedi byw a marw tan ddylanwad y grediniaeth fod eu teimladau gwladol, moesol, a chrefyddol, wedi deilliaw oddiwrth un tad—sef Duw.

Yn awr, gan mai iaith y teimladau yw cerddoriaeth, ymddengys yn amlwg y gellir eu dosbarthu yn naturiol i'r rhestr a enwyd; ac er mwyn hyny yn well, nyny a roddwn anghreiffitiau mewn barddoniaeth.

"Ymosod trwy rymuswaith—a ddylem
I ddal ein hen famiaith
Na rown yn hwy'n tir na'n biaith
Is triniad un estroniaith.

Llefed, dadseintied y sawl—sy'n hōni
 I'w bur wytheni-waed brythonawl
 Oes y byd o hyd heb dawl—i'n hiaith fad
 A mawr gariad y Cymry gwrawl.

Eiddigedd gorseddogion—mwy ddelo
 Am ddal ein hiaith wiwlon;
 Boed brig ein pendefigion,
 A'u copâu hwy'n capio i hon.

E bery ei haehos mewn bri uchel,
 A gwyr o urddas a geir i'w harddel;
 Y dyn a esyd i'w gwneyd yn isel
 O'i gwir ogoniant a gorwag anel—
 Hwnw a gallf cyn y gwel—hyn, ei osod
 Yn eigion tywod yn ddigon tawel.

Pau ddel archangel i erch yngan
 I'r byd ei araeth drwy'r bodeirran;
 Egyr uwch Cymry ei gân—yn Gymraeg
 Ei chu a'i henaeg wech ei hunan."

Dyna farddoniaeth wladol, gan yr awenydd campus Glan Geirionydd. Y mae yn cynhyrfu ein teimladau i'r byw; ond nid ein teimladau moesol, ac nid ein teimladau tuag at Dduw; ond ein teimladau fel Cymry—y teimladau anfarwol a fagwyd ynom gan Gymry a Chymraeg.

Eilwaith, dyma gân i'r Eos:—


"Pan guddio nos ein daear gu
 O dan ei du adenydd,
 Y clywir dy delori mwyn,
 A chor y llwyn yn llonydd;
 Ac os bydd pigyn dan dy fron
 Yn peri i'rh galon guro,
 Ni wnei, nes toro gwawrddydd hael,
 Ond canu a gadael iddo.

A thebyg it' yw'r Feinir war,
 Sydd gymhar gwell na gemau;
 Er machlud haul, er hullo bro
 A millwn o gymylau;
 Pan dawo holl gysurwyr dydd,
 Hi lyna yn ffyddlonaf;
 Yn nyfnder nos o boen a thrais
 Y dyry lais felusaf.

Er dichon fod ei chalon wan
 Yn delwi dan y dullid,
 Ni chwyna i fino ei hanwyl rai—
 Ei gwen a guddia i gofid;
 Ni phall ei chan drwy'r ddunos fatth
 Nes gweled gobaiith golau,
 Yn t'wnu megys llygad aur,
 Drwy bur amrantau'r borau."

Wedi yr anghreiffiau yna o'r wladol a'r foesol, deun yn awr at y grefyddol. Ond yma y dymunem ddyweyd, ein bod yn rhestru pob tōn o duedd grefyddol dan y pen moesol, ag nad yw yn dyfod i fyny a'r dull-wedd a'r teimlad duwiol fo yn ei chymhwysio yn dōn i'r addoliad. Yr un fath a chyda barddoniaeth. Byddai yn hawdd nodi cannoedd o ben-llion o duedd eithaf grefyddol, ac eto ddim mor briodol i'w canu yn yr addoliad cyhoeddus. Felly yn gymhwys y mae efo cerddoriaeth. Y mae

yn ddigon hawdd i'r anghyfarwydd dynu y llinell rhwng y dosbarth gwladol a'r addoliad, a rhwng y rhestr flaenaf yn y dosbarth moesol; ond y mae lliaws i'w rhestru dan y pen moesol nad ellir tynu y llinell rhyngdynt a'r rhai a elwir genym yn grefyddol, heb gryn dipyn o ymarferiad a gwybodaeth; ac nid allem wneyd chwareu teg â'r pwnc, na dim yn debyg, heb roddi un ysgrif gyflawn at hyny. Ymfoddlonwn ar hyn o bryd i ddyweyd mai dyben pob tŷn grefyddol yw dwyn y galon i deimladau addas i addoli Duw; a pha erddygan bynag nad yw yn gwneyd hyny, nid yw yn deilwng o'i chanu yn yr addoliad. Wel, ni fu swrn o dŷnau erioed, mewn un wlad, yn meddu mwy o'r teimlad yma na thŷnau crefyddol y Cymry. O! y gallu rhyfedd sydd ynddynt i godi y serchiadau oddiar wrthddrychau daearol i wlad well! Y maent yn gymhwys fel y grawnwin a gafodd Israel yn yr aialwch gynt—yn codi hiraeth dirfawr am y Ganaan, trwy y rhagflas o'i danteithion. Byddai dethol anghraifft yn anhawdd; nid o herwydd prinder, ond am eu bod oll mor llawned o hono. Anturiwn, sut bynag, un o'r rhai hynaf, ar emyn i Williams; sef Llanelwy:—



“Na foed fy mywyd bellach mwy

Yn eiddo im' fy hun;

Ond treulio fy mynyddau i gyd

Yn glod i'm Harglwydd cun.

Dymanwn yma dreulio 'm hoese

O fore hyd brydnawn,

Lle cawn i wylu cariad pur,

Yn ddagrau melus iawn.

Darfydded dydd, darfydded nos,

Fel mynydd bach o'r awr,

Tra b'wyf yn caru, a rhoi 'mhwys,

Ar fynwes f' Arglwydd mawr.”

Ddarllenydd—dyna i ti anghraifft o dalent a duwioldeb yn cydrodio law yn llaw! Gwyn fydd na fyddai teuluoedd Cymru, yn gystal a chynnulleidfaoedd Cymru, yn ymarfer mwy â chynnyrchion campus eu cenedl eu hunain, yn lle canu a chwareu *trash* er mwyn *apio* y Saeson. Magai hyny well beirdd a cherddorion, yn gystal a gwell crefyddwyr.

O! fel y buasai llygaid ein darllenydd cerddorol yn gloewi, a'i galon yn ymchwyllo, pe buasem yn treulio cyfran o'n hysgrif i arganmawl cynnyrchion Handel, neu ryw un cyffelyb, a'r dadganiad sydd arnynt mewn llawer man. Yn wir, buasem yn cydfwynhau yr hyffrydwch âg ef. Beth, ai peth bach yw clywed pum cant o gantorion a chwareuwyr yn dadgan

y "Messiah" gyda grym a medrusrwydd bron uwch-ddaearl? Na, ni o'r arddangosiadau cywiraf, yn y byd hwn, o fawredd y côr nefol sydd â'u telynau aur yn eu dwylaw ac yn canu cân Moses a chân yr Oen. Ddarllen-ydd, clywsom hwy â'n clustiau, a beiddiwn ddyweyd ein bod yn gallu gwir fwynhau y wledd ddanteithiol. Gwyddem am bob drychfeddwl—canlyneb bob symudiad—sylwem yn fanwl sut y cyflawnid pob trawsgyweiriad; a chymaint oedd y dylanwad ar ein holl enaid fel mai bridd y medrem ymattal rhag ymuno â hwy erbyn cyrhaedd y *Grand Halleluiah*. Ond, Gymro anwyl, er mor effeithiol oedd hyn, clywsom ganu mwy swynol—do, mwy swynol na holl gydderddi mawr Llundain gyda'u gilydd—canu, yn mha un y dadblygid holl ddrychfeddyliau, ac y teimlid holl ddyllanwadau emynau goreu Williams, a'r tŷnau goreu Cymreig; canu, meddwn, oedd yn alltudio pob teimlad croes i ysbrydoliaeth o'r meddwl, ac yn llenwi y fynwes â thangnef gwynfa. A gawn ni ddyweyd i ti yn mha le? Na, ni ymattaliwn ar hyn o bryd. Ond gall pob eynnulleidfa trwy Gymru, gydag ychydig o lafur a doethineb, fyned a gwneuthur yr un modd.

EMYN LUTHER.

Eine feste Burg ist unser Gott,
Ein gutes Wehr und Waffen;
Er hilft uns frey aus aller Noth,
Die uns jetzt hat betroffen.
Der alte böse Feind,
Mit Ernst ers jetzt meint;
Gross Macht und viel List
Sein grausam' Rüstzeug ist;
Auf Erd'n ist nicht seins Gleichen.

Mit unsrer Macht ist Nichts gethan,
Wir sind gar bald verloren:
Es streit' t für uns der rechte Mann,
Den Gott selbst hat erkoren.
Fragst du wer er ist?
Er heisst Jesus Christ,
Der Herre Zebaoth,
Und ist kein ander Gott,
Das Feld muss er behalten.

Und wenn die Welt voll Teufel wär,
Und wollt' n uns gar verschlingen,
So fürchten wir uns nicht so sehr,
Es soll uns doch gelingen.
Der Fürste dieser Welt,
Wie sauer er sich stellt,
Thut er uns doch Nichts;
Das macht er ist gericht't,
Ein Wörtlein kann ihn fällen.

Ein cadarn Dwr yw Duw a'i rad,
Ein tarian a'n hamddiffyn;
Efe a'n gwared rhag pob brad,
Er maint yw lliid y gelyn.
Hen frenin uffern ddu
A ddaeth â'i ffyrnig lu;
Mewn nerth a dichell mawr,
Mae'n ymarfogi 'n awr;
Ni fedd y byd ei gydradd.

Gwan lewyrch ddaw o allu dyn,
Mewn trallod blin mae'n diffodd:
Ond drosom mae'r addasaf UN,
A Duw ei hun a'i trefnodd.
Pwy yw? medd calon drist;
Ei enw yw Iesu Grist,
Llywiawdwr lluoedd nef,
Ac nid oes neb ond Ef,
A lwydda yn yr ymgyrch.

A phe b'ai'r byd yn ddiafiaid oll,
Yn gwylid i'n trafynau,
Ni raid i'n hyder fyn'd ar goll,
Nis gallant ein gorohfygu.
Tywysog y byd hwn
Sy'n llawn cynddaredd, gwn;
Ond niwed o un rhyw
Nis gall;—ei ddedfryd yw,
Mai gair ein Duw a'i trecha.

¹Cyda nebydd Johnson, ua o'r tri ymwelwr bythgofadwy, na ohlywodd efe erioed gystal canu cynulleidfaol, oddieithr yn Germany, ag a glywodd yn nghapel y Methodistiaid yn Llanidloes—ond nid oedd yn ddigon haelfrydig i hysbysu hyny yn ei "Adroddiad."

Das Wort sie sollen lassen stahn,
 Und keine Dank dazu haben;
 Er ist bey uns wohl auf dem Plan
 Mit seinem Geist und Gaben.
 Nehmen sie uns den Leib,
 Gut', Ehr', Kind, und Weib,
 Laas fahren dahin;
 Sie haben's kein Gewinn,
 Das Reich Gottes muss uns bleiben.

Y gair er gwaethaf Uffera gref
 Un fnyyd nid yw'n oedi;
 Ond llwyddo wna amcanion Nef,
 Bys Duw sydd yn mynegi.
 Ein bywyd rhown yn rhwydd,
 A gwraig a phlant o'n gwydd;
 Yn hir nis caem hwynt mwy,
 O'n cael ni elwant hwy;
 Ond dinas Duw a erys.

YR EISTEDDFOD FARDOL.

HEN sefydliad yw yr EISTEDDFOD FARDOL a ddisgynodd i ni o'r oesoedd Derwyddol. Ei ddyben a'i ddefnydd ydyw cadw trefn a dosbarth ar gerdd dafod a cherdd dant, hyfforddi dysgyblion, a rhoddi graddau i ymgeiswyr teilwng a ddangosont eu medrusrwydd wrth farn gorsedd; yn fyr, doddi cefnogaeth ac addysg ac urddau i wŷr wrth gerdd. Perthynai i swydd Bardd gynt amryw ddyledswyddau heblaw cyfansoddi cerdd, a rhoddi addysg barddonol, fel y dengys y Triad canlynol:—"Tair awgrym gwybodau a fuant ar arfer o'r dechreuad gan genedl y Cymry, cyntaf o'r tair herwydd braint a bonedd yw awgrym Gair ac Ymadrodd, sef llythyr. Ail awgrym, Erddigan, sef goslef ac arwest. Trydydd awgrym, Rhif. A chyfrinach yw cadwedig ar lafar Gorsedd Beirdd Ynys Prydain o'r dechreuad; a Thydain Tad Awen a'i trefnes gyntaf yn gelfyddyd fannog ar wybodau doethineb, ac efe hefyd a drefnes awgrym celfyddyd erddigan arwest, herwydd lafar, a thant, a megin." Er fod tywyllwch hanesiaeth yn ychwanegu mewn cyfartalwch i bellafedd hynafiaeth gyda golwg ar y sefydliad hwn, yn gystal a'r dosbarth o lēnyddiaeth a ddiwyllir drwyddo yn fwyaf neillduol; eto, y mae ar gof a chadw rai hysbysion dyddorol o hynafiaeth mawr. Y cyntaf, meddir, o genedl y Cymry, a droes ei sylw at gerdd dafod, ac a gyfansoddodd gân, oedd Gwyddon Ganhebon. Ymhellach, dywed y Trioedd, "Tydain Tad Awen a wnaeth drefn a dosbarth gyntaf ar gŵf a chadw cerdd dafod a'i pherthynasau: ac o'r drefn hono y dychymygid breinniau a defodau dosbarthus ar feirdd a barddoniaeth Ynys Prydain gyntaf." Eilwaith, "Tri chyntefigion beirdd ynys Prydain, Plennydd, Alawn, a Gwron, sef oeddynt y rhai hynny a ddychymmygynt y breinniau a'r defodau sydd ar feirdd a barddoniaeth, ac nid oedd arnynt ddosbarth drwyddedawg, ac nid oedd iddynt na breinniau na defodau namyn a gaid o addwynder a syberwyd yn nawdd gwlad a chenedl cyn amser y tri hyn; a rhai a ddywedant mai yn amser Prydain ab Aedd Mawr y buant; ac eraill a ddywedant mai yn amser Dyfnwal Moel Mud ei fab y buant; ac yn rhai o'r hen lyfrau gelwir ef Dyfnfardd ab Prydain."

Ymddengys mai yr Eisteddfod neu yr Orsedd, fel y gelwid hi gynt, oedd y cyfrwng trwy ba un y byddai yr athrawon pencerddiol hyn yn cyfranu addysg, breinniau, a thrwyddedogaeth i'w dysgyblion; a chedwir i mewn eu henwau hyd heddyw yn nghyhoeddiad Eisteddfod, yn debyg i'r "John Doe a'r Richard Roe" yn ein hofferynau cyfreithiol; a dywedir y byddant yn wyddfodol yn gysylltiedig â rhyw olyniaid byw o'r un urdd a hwynt, er

mwyn cydweithredu yn ngweinyddiad barn ac urddau yr eisteddfod. I ba raddau y diwylliwyd Cerdd Dafod yn ystod llywodraeth y Rhufeiniaid ar y deyrnas hon, nid yw yn dra hysbys; ond ar ol ymadawiad y galluoedd estronol hyn â'r wlad, ymddengys i'r genedl ymgymeryd cryn lawer â barddoniaeth, oblegid cyfododd amryw brif-feirdd, gorchestol dros ben, agos yn yr un oes, yn fuan ar ol hyn; y rhai y mae eu bri yn debyg o barhau tra y parhao ein hiaith a'n oenedl. Yn y bummed ganrif blodeuai Merddin Emrys, o waith yr hwn, modd bynag, nid oes ond ychydig iawn, os dim, ar gael. Cyfrifid ei fod, heblaw yn fardd gwych, yn ddewin mawr hefyd, ac y mae ei enw yn uchel yn ngwahanol ieithoedd Ewrop fel hen ddaroganydd tra chyfarwydd. Geilw estroniaid ef Merlin neu Merlinus Ambrosius. Yn y chweched ganrif cyfododd amryw o feirdd godidog, sef Aneurin Gwawdrydd, neu fel y gelwir ef weithiau Aneurin Mychdeyrn Beirdd (*Aneurin the Monarch of Bards*), Taliesin Ben Beirdd, Merddin Wylt neu Merddin ab Morfryn, Llywarch Hen, Afan Ferddig, bardd Cadwallon ab Cadfan, ac eraill; ac y mae twysgen o weithiau amryw o'r rhai uchod ar gael eto. Tua'r cyfnod hwn sefydlwyd

CADER FARDONOL CAERLLEON AB WYSG

dan nawdd y brenin Arthur; a'r prif-feirdd a eisteddynt yn y gader ben-cerddiol hon oeddynt, yn mysg eraill, rai o'r enwogion uchod. Er fod Llywarch Hen yn fardd godidog o awen ac anian, eto tybir nad oedd yn yr urdd farddawl, am ei fod yn arwain bywyd milwraidd, yr hyn ni chan-iatâi Rheolau Gorsedd y Beirdd iddo wneyd, gan y rhwymid pob un o'r urdd i "gadw heddwch a thangnefedd, ac i beidio a dwyn noeth arf yn erbyn neb:" am yr un rheswm dywedir ddarfod i Afaon mab Taliesin, yr hwn oedd fardd gorchestol, ymddihatra o'r urdd farddawl er mwyn ymladd dros ei wlad, ac am dano dywed y Triad fel hyn:—"Tri tharw câd Ynys Prydain, Elmur ab Cibddar, Cynhafal ab Argoed, Afaon ab Taliesin Ben Beirdd, y rhai hyn oeddynt dri bardd; ac nid oedd dim a arswydent mewn câd ac ymdrech, eithr rhuthrent rhagddynt heb ofn anghu." Arwyddair cader Caerlleon ar Wysg oedd, "Y gwir yn erbyn y byd, yn enw Duw a'i dangnef." Trefnwyd gan y penceirdd a nodwyd ddsbarth ar gerdd dafod mewn cysylltiad â'r gader hon, yr hon ddsbarth a elwid "Ddsbarth y Ford Gron;" sylwedd pa un, dybygid, oedd adolygiad ac ardrefniad perffeithiach ar freiniau, defodau, a chelfyddyd y beirdd, trwy yr hyn y cadwyd yr hyn oedd deilwng o'r hen ddysg flaenorol, ac yr awdurdodwyd y cyfryw ychwanegiadau newyddion ag a fernid yn awen-bwyll ac anghenrheidiol. Nid yw, efallai, yn hawdd penderfynu beth oedd ansawdd ac eangder y ddsbarth hon, ond y mae i'w ddeall fod gan y Cymry, er cyn ôf, naw gorchan neu naw cyhydedd ar arfer; a mesurau a arferid yn dra ohyffredin gan y cynfeirdd oeddynt y Triban Milwr a Thraethodyn. Dengys yr anghreiffitiau canlynol ychydig, efallai, o ansawdd "Ddsbarth y Ford Gron:—

"Yfeis i o win a médd y MORDAI,

Mawr maint i weywr,

Ynghyfarfod gwŷr,

Bwyd i eryr erysmygai,

Pan gryssie! CYDYWAL cyfddwyreai

Awr, gan wyrdd wawr cyn i dodai,

Aessawr ddellt am belt a adawai,

Parau rhu rwygiad, dygymwynat
Ygohât blaen bragat briwini."

O'r "Gododin," gan Ancuria Gwawdrydd.

Eto:—

"Afallen bren bren y sydd fad
Nid bychan dy lwyth sydd ffrwyth arnad
A minnau wyf ofnawg amglawg am danad
Ehag dyfod y coedwyr coed gymwynad
I gladdu dy wraidd a llygru dy hâd
Fal na thyfo byth afal arnad
A minnau wyf gwyllt gorthryfiad
Im cathrudd cythrudd nim eidd dillad
Neu'm rhoddes GWRDDOLER tlynnu yn rhad
Ac yntau heddyw fal na band."

O'r "Afallenau," gan Myrddin.

Eto:—

ELPHIN deg, taw ath wylu,
Na chabled neb yr eiddo;
Ni wna les drwg obeithio;
Ni wyl dyn ddim a'i portho;
Ni bydd coeg gweddi Cynllo;
Ni thyr Duw ar a addawo;
Ni chaed yng Nghored Wyddno
Eriod cystal a heno."

O "Ddyhuddiant Elphin," gan Taliesin Ben Beirdd.

Eto:—

"Ystafell CYDDYLAN jstywyll heno,
Heb dân heb deulu
Hidyl mau yd gynnw!

Ystafell CYDDYLAN am gwan ei gweled
Heb dded heb dân

Marw fy Nglyw, byw my hunan!

O "Farwnad Cynddylan," gan Llywarch Hen.

Ymchlenegys mai hoff sesur Llywarch Hen oedd y Triban Milwr. Gwelwn hefyd fod yr un mesur yn gysylltiedig â chwe' ban treigledig o'r gwahanol bwrif godofnau oerdd dafod yn gwneyd y pennill anghraifft uchod o'r "Cristionogol." Dywedir i Taliesin ychwanegu pedwar neu bump o fesurau newyddion at yr hen rai oeddynt yn arferedig er ys oesoedd cyn cof: ac yn eu mysg sawrwy o'r mesurau a gyfrifir hyd y dydd hwn yn ddymunolaf a mwyaf melusgerdd, megys Toddaid, Gwawdodyn, ac Englyn.

Wedi marw y brenin Arthur, aeth y "Ford Gron" dan nawdd Urien Rheged, ac eraill; a dirywiodd y gader yn fawr am rai oesoedd olynol.

GADEB TALIESIN.

Y bardd y gelwir y gader hon ar ei enw, er ei fod yn un o'r rhai mwyaf cyfarwydd yn nghyfrinion y Derwyddon, oedd hefyd yn un o'r Tri phrif-bardd Cristionogol Ynys Prydain, fel y gwelir wrth y Triad canlynol:—
"Tri phrif-bardd Cristionogol Ynys Prydain: Merddin Emrys, Taliesin Ben Beirdd, a Merddin ab Madog Morfryn." Dywedir iddo fod yn ddyngyfi i Cattiwg Ddoeth ym Morganwg am ryw yspaid; dywedir hefyd iddo fod yn bardd i'r Tywysog Urien Rheged. Nis gwyddom pa un a gondemnid ein huncan-lyb, ai peidio, pe ei cyfrifem fel peth tebygol ddar-fod i gader Caerllon-ar-Wyng, wedi iddi ddyfod dan nawdd Urien Rheged, gymeryd yr enw uchod, yn enwedig gan fod Taliesin yn ŵr mor gymeradwy yn ei lŷn, ac mor uchel ei gyrhaeddadau yn gystal yn mysg y beirdd a'r Derwyddon ac yn athrawiaethau purach y grefydd Cristionogol.

Pa fodd bynag, bu cader farddonol o'r enw uchod, yr hon yn ddiammhou oedd o nodweddiad mwy arbenig Gristionogol na'r un arall, gan y gelwid hi hefyd "Cader Bedydd," ac nid oedd i neb gael braint Athraw ynnddi ond a fyddai wedi ei fedyddio i'r ffydd yn Nghrist; a'i harwyddair oedd, "Da'r maen gyda'r efengyl." Y mae yn hyfryd i ni ymsyniaw ddarfod i'n hynafiaid mor foreuol, gysegreu yr orsedd farddol Gymreig at wasanaeth yr efengyl, a dybenion crefydd Crist.

CADER TIR IARLL.

Hon hefyd oedd hen gader farddonol o fri mawr gynt. Braidd na ddealleem wrth ddarllen ei hanes, mai enw arall yn unig oedd ar brif gader Ynys Prydain, sef "Cader Caerlleon-ar-Wysg." Mewn amser, unwyd Cader Taliesin â hi, a bu yn gader dra blodeuog ac effeithiol yn niwyllyd cerdd dafod am lawer o oesoedd: o bryd i bryd cynnyrchwyd gan ei beirdd enwog ac ymchwilgar lawer o ddosbeirith gwelläol ar gerdd hyd ddechreuad yr unfed ganrif ar bymtheg.

CADER GERAINT FARDD GLAS.

Geraint Fardd Glas oedd yn byw yn y nawfed ganrif, a dywedir ei fod yn brif gynghorwr i Alffred y brenin Seisnig clodfawr, dan yr enw *Asserius Menevensis*. Sefydlodd gader farddol yn Llandaf, a'i harwyddair oedd, "Duw a phob daioni." Dan nawdd y gader hon yr ymddengys i'r cynghaneddion ddyfod gyntaf i arferiad, oblegid yn amser y cynfeirdd ni roddid fawr o sylw ar gynghanedd mewn caniadaeth: cymaint a ofelid am dano oedd, odliad ac aceniad. Ond wedi sefydlu Cader Geraint, rhoddwyd barn ac awdurdod gorsedd ar y cynghaneddion. Ymddengys, modd bynag, wrth weithiau beirdd yr oesoedd dilynol, nad oedd y gynghanedd, yn y dechreu, ond tra anmherffaith, ac mai graddol iawn y cyrhaeddodd i'w chaethiwed manol a rhwymddolenog presennol. Perffeithiwyd hi o oes i oes, gan y beirdd, hyd ganol y bedwaredd ganrif ar ddeg, pryd y cafwyd gorsedd a chader farddol, dan nawdd y canmoledig Ifor Hael, Arglwydd Maesaleg, yn y Wennallt; ac yma y gwnaed deddf a dosbarth ar y cynghaneddion. Yn y pennill canlynol, a gymerwyd o un o ganiadau y ddeuddegfed ganrif, a elwir "Yr Hirlas," o waith Owen Cyfeiliog, canfyddwn mai ychydig iawn oedd y bardd hwnw yn ei wneyd o ddefnydd o'r gynghanedd:—

"Dywallaw di'r corn argynfelyn,
Anrhydeddus, feddw, o fëdd gorewyn,
Ac o'r mynni hoedl hyd un bliwyddyn,
Na ddidaw! i barch, can nid perthyn,
A dyddwe i Ruffudd waywruddelyn,
Gwin a gwydr goleu yn ei gylchyn," &c.

Yn niwedd y bedwerydd ganrif ar ddeg, tarawn wrth gyfansoddiadau yn cynnwys cynghanedd, rai o honynt, cyfartal o ran cywreinrwydd, braidd, i'r anawdd bresennol sydd ar farddoniaeth gaeth Cymru, megys Awdl i Myfanwy o Gastell Dinas Bran, yn yr hon y cawn yr englyn canlynol:—

"Llunialis wawd, ddefawd ddifan, traul ofer,

Nid trwy lafur bychan:

Liliw bery cynnar pen Aran

Lloer bryd, lwys fryd o Lys Frân."

Hywel ap Einion Lygliw.

GORSIEDD ABERFFRAW.

Yn nechreu y ddeuddegfed ganrif darfu i'r Tywysog Gruffydd ab Cynan droi ei sylw at adnewyddu ac adgyweirio defodau a breiniau gwŷr wrth gerdd dafod a cherdd dant; ac ni thybiem lai na byddai yn ddyddorawl ddigon doddi yma rai dyfyniadau o ystatyd Aberffraw, ag ydynt yn dynodi swyddau a graddau y beirdd:—"Llyma ystatyd y gwyr wrth gerdd dafawd a ddodes Gruffydd ab Cynan, tywysawg Gwynedd a brenin Aberffraw, er trefn ar brydyddion ac eraill o wŷr wrth gerdd dafawd; pob un herwydd braint a grâdd. * * * * * Tri bardd caw y sydd, prif-fardd, posfardd, ac arwyddfardd. * * * Nid rhydd i neb fyned yn brydydd nag ymarfer â chelfyddyd o swydd gwr wrth gerdd dafawd, namyn a radder ac a freinier mewn eisteddfod unwaith yn y tair blynedd, o fewn Llŷs y Tywysawg yn Aberffraw yn Mon, modd ag y mae yn Llŷs Tywysawg Mathrafal, o drefniad Bleddyn ab Cynfyn, Tywysawg Powys; a nawdd nad elo neb yn ŵr wrth gerdd dafawd, ond a elo drwy genad y Tywysawg neu Arglwydd y Cyfoeth, a thrwy rôdd cenedliad athraw abl, o radd awdurdodawl a gwarantedig, yn gyfreithiawl ym marn eisteddfod.
* * * * *

Tair gwasaw cerdd dafawd y sydd o wasail defodedig parth pwys y gelfyddyd, a braint a gradd eisteddfod ddefodawl.

1. *Prydyddiaeth*.—Ac ar brydydd y mae prydu a chynnal côf am âchoedd a phriodasau fel y b'ont deilyngol; a chôf am weithredoedd anrhydeddus tywysogion ac uchelwyr, a phop cof gwlad a chenedl, a chymeryd atynt ddysgybllion i'w dysgu yn wŷr wrth gerdd dafod, yn ddefodawl ac yn ddyledus, parth braint a chelfyddyd y gwyr wrth gerdd dafawd.

2. *Teulînoriaeth*.—Ac ar deulûr y mae cynnal iaith y Prydeiniaid, a'i darllen a'i hysgrifenu yn gyfiawn, a phob cof teulu, a phob dosbarth gwlad, a digrifau, ac ymdystyniaw, a phrydu gordderchwragedd heb serthedd, a chanu gan erfyniad da yn deuluaidd heb ryfawr ymbil ar ei gerdd.

3. *Clerworiaeth*.—Ac ar glerwr y mae ymsenu, a dyfalu a dynwared, a gwaradwyddaw man y gwedd hyny, a lle dêl yn eisteddfod sefyll a wna, gan ni ddylai glerwr eisteddfa ynddi.
* * * * *

Sef yw pencerdd, bardd wedi yr ennillo gader * * *

Nid rhydd i amgen gwr wrth gerdd dafawd gadeiriauw gymeryd dysgybllion ato; ac nid rhydd iddo amgen nag un dysgybl ar unwaith; ac nid rhydd i ddysgybl gymeryd ato a gwneuthur dysgybl arall.

Ni ddylid gradd i ddysgybl, namyn o radd cenedliad Athraw mewn Eisteddfod, a chyda hyny cenad y Tywysawg neu Arglwydd y Cyfoeth y b'o ynddo, a hyny lle y dywetto yr athraw o bencerdd ar ei air o gydwybod y gellir prydydd o hono. Ac ni ddylid eisteddfod namyn yn Llŷs y Tywysog a hyny unwaith yn y tair blynedd."

Terfynir yr hen *Ystatyd* hon gyda sicrhâd ddarfod iddi gael ei "thynu yn ddosbarthus o'r hen drefnau, a'r hen ddefodau aarhydeddus a fuant gynt ar feirdd a phrydyddion, a phob gwyr wrth gerdd dafawd, a phob gwyr wrth gerdd dant cenedl y Cymry er yn oea oesoedd." Bardd Gruffydd ab Cynan oedd Meilir, a dyma ei ddull ef yn prydyddu:—

"Yfeis gan deyrn o gyrn eurawg
Arfed faedd feiddiad angad weiniauwg

Yn Llys Aberffraw er ffaw ffodiawg
 Bôrn o du Gwledig yn lleithawg
 Eilwaith ydd euthum yn negessawg
 O leufer lliw camawn iawn dywysawg
 Bu fêdd sur gylchwy yn fodrywawg
 Torresid gormes yn llyngessawg
 Gwedi tonnau gwyrrd gorewynnawg
 Dyphuthynt eu seirch meirch rhygynawg."

EISTEDDFOD PEN RHYS.

Cynnelid yr eisteddfod hon dan nawdd y cadflaenor gwrolwych Owen Glyndwr, ac ymgynullai ynddi feirdd cadeiriawg Tir Iarll a Morganwg (dywedir mai cader y Bardd Glas oedd dechreu cader Morganwg). Yn yr eisteddfod yma, adolygwyd yr hen ddosbeirth, sef eiddo y "Ford Gron" a "Thir Iarll," &c. gan eu puro a'u hadgyweirio er cadw ar arfer ddosbarth a defodau cyntefig Beirdd Ynys Prydain, ynghyd â'r chwanegiadau cymhenbwyll a diledryw a wnelsid hyd yn hyn at yr unrhyw trwy athrylith beirdd urddasol, a than nawdd gorseddau cyfreithlawn.—Cyflwynwyd i'r eisteddfod awdl i Fair Wen gan Wilym Tew, bardd cader Tir Iarll; fel cynnyrch neu anghraifft o'r mesurau awdurdodedig y pryd hyny ac er cynt. Fel yr oedd y Cymry yn flaenorol i'r cyfnod yma dan orthrwm mawr er ys talm trwy ymrysonau oddi mewn ac ymosodiadau oddi allan, felly ar ol hyn chwanegwyd eu gorthrymder a'u caethiwed, a bu llwyr wahardd ar eisteddfod a defodau beirdd, yn gystal a breiniau eraill, fel yr aeth dysg a barddoniaeth a annosbarth a gwywdra dirfawr. Nid annyddorol fyddai nodi wrth derfynu ein sylw ar Eisteddfod Pen Rhys, y cynnwysa yr awdl gynnrych a grybwyllwyd, o gyfansoddiad Gwilym Tew, *now ar hugin* o fesurau.

EISTEDDFOD CAERFYRDDIN.

Yr oedd hon yn un o'r eisteddfodau mwyaf pwysig a gynnaliwyd erioed. Cynnwysa yr hanesion am dani amryw wrthddywediadau, nad yw yn bur hawdd eu cysoni. Ymddengys i ddwy eisteddfod gael eu cynnal yma o fewn ychydig flyneddau i'w gilydd yn nechreu yr hanner olaf o'r bymthegfed ganrif; a gellid tybied ddarfod i ysgrifenwyr gymysgu gweithrediadau y naill âg eiddo y llall. Mewn nodiadau o eiddo Dafydd Ddu o Eryri, cawn yr hysbysrwydd a ganlyn:—"Dafydd ab Edmwnd a ennillodd yr eisteddfod fawr yn Nghaerfyrddin yn y flwyddyn 1450 neu 1451. Yn yr eisteddfod hono yr ymneillduodd beirdd Morganwg oddiwrth feirdd Gwynedd, o herwydd rhoddi o Dd. ab Edmwnd iddynt fesurau newyddion anadnabyddus i feirdd Morganwg. Fel hyn yr ysgrifennodd Llywelyn Siôn, o Langewydd, yn ei ragymadrodd i lyfr "Cyfrinach Beirdd Ynys Prydain," neu Ramadeg prydyddol beirdd Morganwg:—"Ar ol hyny (sef ar ol amser Einion Offeiriad, Edeyrn Dafod Aur, &c.) y gwnaethpwyd barn a gwelliant ar fesur a chynghanedd, gan Ddafydd ab Edmwnd yn Ngorsedd (eisteddfod) Caerfyrddin, a chael yno farn a dosbarth newydd ar gerdd, yr hon a elwir Dosbarth Caerfyrddin (neu Ddosbarth D. ab Edmwnd), ac y mae ar arfer gan y rhan fwyaf o feirdd Ynys Prydain yr awr hon, eithr Gwilym Tew, a Ieuan ab Hywel Swrdwal, a Ieuan Gethin ab Ieuan ab Lleison a roddasant nag a gwrtheb ar y ddosbarth hono, am nad oedd, meddynt, yn tyfu o gyf-iawn ansawdd a phwyll Cerdd Dafod, &c. &c." Mewn nodiadau o eiddo y diweddar enwog fardd a hynafiaethydd, Iolo Morganwg, yn lyfr "Cyf-

rinach Beirdd Ynys Prydain," a enwyd eisoes, dywedir fel hyn drachefn:—
 "Nid Dafydd ab Edmunt a ddiwygiodd y gynghanedd, eithr Llawdden a'i
 diwygiodd yn eisteddfod gyntaf Caerfyrddin, dan nawdd Gruffudd ab Ni-
 colas, a chyda Llawdden yr oedd Gwilym Tew a Law yn y gwaith; bu eraill
 hefyd, ond Llawdden oedd y blaenor, &c. &c."

Yn niwedd y dywededig "Gyfrinach Beirdd." &c. yr ydym yn cael hen
 ysgrif yn mherthynas i Eisteddfod Caerfyrddin wedi ei thynu fel y rhag-
 nodir o lyfr Antoni Powell o Dir Iarll: prin y gallem ofni y blinai y dar-
 llenydd pe rhoddem ger ei fron un dyfyniad go hir o honi, gan nad mor
 ddyddorawl ydyw:—"A Llawdden Fardd, gwr o Landeilo Tal y Bont, yng
 Ngwyr, ar ucha diwarnod yn Abermarlais gyda ei gâr a'i gyfrin Gruffudd
 ab Nicolas, dyma glerwr yn dyfod i'r Neuadd, dan enw Bardd, a chân mol-
 iant o'r fath ag oedd i Ruffudd, a mawl iddo am ddyrgau na ddaeth erioed
 ar ei feddwl eu gwneuthur, a'u galw yn gampau gwrolion, a Gruffudd a
 roddes y ddyrif yn llaw Llawdden; Llawdden a'i darllenodd, a Saesoneg
 oedd, ac ar ol ei darllain efe a gânt yr englyn a gilyn:—

Pob gair crâs diras pob Dyri—goegiaith
 Pob gogan a brynti,
 Pob drewdod, pob diriedi,
 Ei gludo a wnaed i'n gwlad ni.

Gruffudd.—Gwir yw hyny, a pha fodd y gellir amgen?

Llawdden.—Yn ddigon hawdd a'i gellir; galwer am eisteddfodau a
 chadeiriau dan osteg a rhybudd undydd a blwyddyn, fal y bu gynt er
 newyddu hen Wybodau Llythyr a Cherdd Dafod Cenedl y Cymry, a chad-
 arnhau braint wrth gerdd dafod; ag yna ceir gweled mai bach y bydd dif-
 fyf awen a chydwybod.

Gruffudd.—Ni channiatteir hynny gan gyfraith y Brenin y dydd
 heddyw;

Llawdden.—Gwneir, pe'i ceisid yn gyfiawnbwyll gantho;

Gruffudd.—F'allai hyny, eithr pa le'r gobaith?

Llawdden.—Lle gennyh chwi, f' Arglwydd, os y chwi a'i cais; ag, os
 ei geisio a wnewh, mi a ddaroganaf i chwi lwyddiant, a bôdd efei calon.

Gruffudd.—Mi a'i ceisiasf.—Efe a'i ceisiodd ag a'i casas; a gwarant a
 braint diogelwch dyfod a dychwel, dann nawdd llythyr cynhwys y
 brenin, ys ef Harri Sant o Winsor; ar unfed flwyddyn ar hugain o'i goron-
 iad ef, cynnal yr eisteddfod fawr gyntaf yng Nghaerfyrddin, a galw a ellid
 eu cael yn feirdd a phrydyddion yno, a gwleddau iddynt; a'r dderbyn, yn
 groesaw bonheddig i fonheddig; pareh Neuadd i bob gwr wrth gerdd
 dafod, a rhoddion, a gwisgoedd sidan i bob un, a march a nobl ari i bob
 un, a'i wleddau'n rÿdd, a'i le tÿ yn rhad, a hynny hyd yn mhen o'ffnod
 deugain diwarnod. A Llawdden o Dir Gwyr, &c. a Gwilym Tew o Dir
 Iarll, a Dafydd Nanmor a gaed yn oreuon eu gwybodau a'u hawen.

* * * Bu'r eistedd yn Neuadd Llys y Brenin, a Gruffudd ab Nicolas
 yn farnwr, a'r tri phrydydd dan eu henwau ym mraint a'brawen cadeiriog
 o bencerddiaid, a phan rodded a wnaethant ar ddangos, goreu ar heni
 wybodau cerdd dafod a'u hen fesurau, a defodau amherodion Ynys Prydain,
 a defodau'r Ford Gron y barnwyd Gwilym Tew, a goreu ar wybodau a
 defodau Llysoedd y Tywysogion y barnwyd Dafydd Nanmor, a chyntaf
 ei orchest ar fesurau cerdd dafod: a goreuon o'r hen ddefodau y casad
 dosparth y Ford Gron fal ag y bu gan yr Amherawdwr Arthiur yng

Nghaerlleon-ar-wysg. * * * A gwedi'r dangos dodwyd yr Eisteddfod ar osteg a rhybydd undydd a blwyddyn o flwyddyn i flwyddyn hyd penn y tair; ac o dair blynedd i dair blynedd hyd ym mhenn y naw mlynedd, ac yn hynny cyrchu braint cyfallwy! a'r ddegfed flwyddyn cynnal ail Eisteddfod fawr Caerfyrddin, lle ennillodd Dafydd ab Edmwnd y Gadair arian am ei orchestion a ffernid yn oferbyyll celfyddyd gan Feirdd Morganwg, a Llawdden yn Bencerdd Cadeiriog, a gafodd y 'Fwyall aur' am ei wellhâd ar y Cynghaneddion, ys ef ni bu achos gwellhau arnynt ymhellach fyth wedi hynny. Ac yn yr Eisteddfod hono Beirdd Morganwg a ddodasant eu gwrthneuw yn erbyn Dosparth Pedwar Pennill ar hugain Dafydd ab Edmwnd a freinniwyd dan warant Cadair yno, o achos bod gorfodrif Beirdd Gwynedd yn'ormes ar Feirdd Talaith Dinefwr, a rhai Penedigaeth Morganwg, ac o hynny allan aeth Cadair Morganwg ar ei phenn ei hunan ym mraint Beirdd Ynys Prydain, ag yn ei chessail 'Dosparth y Ford Gronn,' &c. &c. * * * Wedi cyrchu braint cyfallwy fal y dywedwyd, nid oedd rhaid llythyr cynnwys y Brenin ym mhellach ar Gadair Talaith Dinefwr, gan ei bod yn Gadair agored :- ag o cyrhaeddwyd hyn o fraint ymroddwyd i drefnu Deddf ac Ystatut yn nessaf ag a allwyd yn ol hen Ystatutau Arthur Amherawdwr ag eraill penn y naw mlynedd, herwydd a ddoded ar Lawdden, a hynny a ddoded gantho ar Osteg a Rhybudd undydd a blwyddyn o flaen yr ail Eisteddfod. &c.-----"

Awgryma Iolo Morganwg, mewn nodiad yn "Nghyfrinach Beirdd," &c., tudal. 223, mai Llawdden a drefnodd y ddeddf a elwir "Ystatut Aberffraw," dyfyniadau o'r hon a roddasom eisoes, yn eisteddfod gyntaf Caerfyrddin, yn nesaf ag a allwyd yn ol hen ystatutau Arthur.

Gwelwn mai canlyniad yr eisteddfod fawr hon, yn Nghaerfyrddin, fu llwyr ymraniad yn mysg y beirdd gyda golwg ar ddwy ddosbarth o fesurau: beirdd Morganwg yn glynu yn ddiysgog wrth yr hen ddosbarth, neu fel y gelwir hi hefyd y ddosbarth gysefin; a beirdd Gwynedd yn cofseidlo dosbarth newydd Dafydd ab Edmwnd gyda brwdfrydedd mawr, gan alw yr hen yn ddosbarth y cwn, dosbarth y moch, &c. Efallai y cawn aehlysur i wneyd rhai sylwadau cymhariaethol ar y ddwy ddosbarth hon, ynghyd â rhagoriaeth y naill ar y llall, pan ddelom i draethu ychydig am Eisteddfod Caerfyrddin, yn 1819.

EISTEDDFOD GYNTAF CAERWYS.

Y pencerdd yn yr eisteddfod hon oedd Tudur Aled: a bu yma eilwaith adolygu ar y ddosbarth farddawl, pryd y cadarnhawyd rheolau Dafydd ab Edmwnd, megys y cawn yn yr hysbysiad canlynol :-

"Llyma bedwar mesur ar hugain Cerdd Dafod, modd ag au doded ar ddosparth gan Dafydd ab Edmwnd yn yr ail Eisteddfod fawr yng Nghaerfyrddin, oed Crist 1461, a honn a elwir *Dosparth Caerfyrddin* ag a gonffirniwyd yn gadair Cerdd Dafod i holl Wynedd a Phowys yn Eisteddfod gyntaf Caerwys yn Sir y Fflint, ag a drefnwyd o gyttundeb Syr William Gruffydd a Syr Robert Salbri drwy bresennol gynghor Gruffydd ab Ieuan ab Llewelyn Fychan, a Theodor Aled, Bardd Cadeiriog, a cher bron Rhisiart ab Hywel ab Ieuan Fychan, Ysgwier; a llawer o Foneddigion a Doethion eraill, yr ail dydd o fis Gorphenaf yn y bymthegfed flwyddyn o goronedigaeth HARRI YR WYTHFED, ag oed Crist 1524," &c. Gwel "Cyfr. Beirdd," tudal. 223.

1850.]

Tudur Aled oedd nai fab chwaer, meddir, i Dafydd ab Edmwnt, i'r hwn yr oedd hefyd yn ddysgybl barddonawl.

AIL EISTEDDFOD CAERWYS.

Cynnaliwyd yr eisteddfod hon mewn ufudd-dod i orchymyn breninol, yn y flwyddyn o oed Crist 1568. Efallai yr esgusodid ni pe dodem yma, yn ei ffurf wreiddiol, y *commission* breninol, yr hwn sydd fel y canlyn (byddai yn ymarferiad digon buddiol i'r beirdd ieuaine ei gyfieithu) :—

“ By the Queen,

ELIZABETH, by the grace of God, of England, France, and Ireland, Queen, Defender of the Faith, &c. To our trusty and right well beloved Sir Richard Bulkeley, Knight, Sir Rees Griffith, Knight, Ellis Price, Esq., Dr. in Civil Law, and one of our Council in the Marchesse of Wales, William Mostyn, Ieuen Lloyd of Yale, John Salisbury of Rhug, Rice Thomas, Maurice Wynne, William Lewis, Pierce Mostyn, Owen John ap Howell Fichan, John William ab John, John Lewis Owen, Morris Griffith, Symmd. Thelwal, John Griffith, Ellis ap William Lloyd, Robert Puleston, Harri ap Harri, William Glynn and Rees Hughes, Esqrs. and to every of them Greeting,

WHEREAS it is come to the knowledge of the Lord President, and other our Council in our Marchesse of Wales, that vagrant and idle persons naming themselves *Minstrels*, *Rythmers*, and *Bards*, are lately grown into such *intolerable Multitude* within the Principality of North Wales, that not only Gentlemen and others by their *shameless Disorders* are oftentimes disquieted in their Habitations, but also the *expert Minstrels and Musicians* in *Tonge and Cuninge* thereby much discouraged to travaile in the Exercise and Practice of their Knowledge, and also not a little hindred (of) Livings and Preferment; the Reformation whereof, and the putting these People in order, the said Lord President and Council have thought very necessary; And knowing you to be men of both wisdom and upright Dealing, and also of experience and good knowledge in the Seyence, have appointed and authorized you to be Commissioners for that purpose; And forasmuch as our said Council of late travailing in some part of the said Principality, had perfect understanding by credible Report that the accustomed Place for the Execution of the like Commission hath been heretofore at *Cayroes* in our County of *Flynt*, and that William Mostyn, Esq. and his Ancestors have had the gift and bestowing of the *Sylver Harp* appertaining to the *Chief of that Faculty*, and that a *Year's Warning* (at least) hath been accustomed to be given of the *Assembly* and Execution of the like Commission; Our said Council have therefore appointed the Execution of this Commission to be at the said Town of *Cayroes*, the Monday next after the Feast of the Blessed Trinity which shall be in the year of our Lord 1568. And therefore We require and command you by the authority of these Presents not only to cause *open Proclamation* to be made in all *Fairs, Market Towns*, and other *Places of Assembly* within our Counties of *Aglere*, (*Angleterre*), *Carnarvon*, *Meryonydd*, *Denbigh* and *Flynt*, that all and every Person and Persons that intend to *maintain* their *Living* by name or colour of *Minstrels*, *Rythmers*, or *Bards*, within the *TALATHE OF ABERFFRAW*, comprehending the said five shires, shall be and appear before you the said Day and Place

to *show* their *Learnings* accordingly: But also that you, twenty, nineteen, eighteen, seventeen, sixteen, fifteen, fourteen, thirteen, twelve, eleven, ten, nine, eight, seven or six of you, whereof you the said Sir Richard Bulkely, Sir Rees Griffith, Ellis Price, and William Mostyn, Esqs. or three or two of you to be of the number; to repair to the said place the Days aforesaid, and calling to you such *expert Men* in the said *Faculty* of the *Welsh Musick* as to you shall be thought convenient, to proceed to the execution of the premises, and to admit such and so many, as by your wisdoms and knowledges you shall find *worthy*, into and under the *Degrees* heretofore (*in use*) in semblable sort to *use, exercise, and follow* the *Sciences* and *Faculties* of their *Professions*, in such decent order as shall appertain to each of their *Degrees*, and as your Discretions and Wisdoms shall prescribe unto them: Giving streight Monition and Commandment in our Name and on our Behalf to the rest not Worthy, that *they return to some honest Labour and due Exercise*, such as they be most apt unto for Maintenance of their Living, upon pain to be taken as *sturdy and idle Vagabonds*, and to be used according to the Laws and Statutes provided in that Behalf; letting you with our said Council look for Advertisement, by Certificate at your hands, of your doings in the Execution of the said Premises; forseeing in any wise, that upon the said Assembly the Peace and good Order be observed and kept accordingly; ascertaining you that the said William Mostyn hath promised to see Furniture and Things necessary provided for that Assembly, at the Place aforesaid."

Given under our Signet at our City of Chester, the twenty third of October in the ninth year of our Reign, 1567."

"Signed

Her Highness's Counsaill
in the Marchesse of Wales."

Mewn canlyniad i'r cyhoeddiad uchod, dengys yr hysbysnod a ganlyn beth a wnaethpwyd yn y flwyddyn 1568.

"KNOW all Men by these Presents, that there is a Congress of Bards and Musicians to be held in the Town of Caerwys in the County of Flint, on the twenty sixth day of May in the tenth year of the Reign of her Majesty Queen Elizabeth, before Ellis Price, Esquire, Doctor of the Civil Law, and one of her Majesty's Council in the Marches of Wales, and before William Mostyn, Piers Mostyn, Owen John ap Howel Vaughan, John William ap John, John Lewis Owen, Morris Griffith, Simon Thelwal, John Griffith Serjeant, Robert Puleston, Evan Lloyd of Iâl, and William Glynn, Esquires.

And that We the said Commissioners by virtue of the said Commission, being her Majesty's Council, do give and grant to SIMWNT VYCHAN, Bard, the *degree* of PENCERDD; and do order that Persons receive and hospitably entertain him in all Places fit for him to go and come to receive his Perquisites according to the Princely Statutes in that Case made and provided.

Given under our hands in the year 1568."

Yr oedd Simwnt Fychan, yr hwn a raddiwyd yn bencerdd yn yr eisteddfod hon, yn fardd tra godidog a dysgedig. Trefnodd ddosbarth gynnill-bwyll ar gerdd dafod, yr hon a gafodd farn ac awdurdod yr eisteddfod i'w chadarnhau a'i chymeradwyo. Nid yw ei ddosbarth ond yr un o ran

siywedd a dosbarth Caerfyrddin; ni chynnwyas ond aeth golofn cerddu a phedwar mesur ar hugain, cyfunryw ag eiddo Dafydd ab Edmwnd a Thadur Alod. Cyfansoddodd hefyd awdl, ar y pedwar mesur ar hugain, fel anghraifft, yr hon a ddangoswyd yn yr eisteddfod. Ei thestun oedd y "Piers Mostyn," a enwir yn y commisiwn uchod. Dyry yn ei ddosbarth addysg helaeth yn mherthynas i'r beiau a ddylid eu gochel, a chynhwylliadau synwrlawn ar briod ansawdd, a theithi caniadaeth. Galwyd ei ddosbarth yn "Ddosbarth Beirdd Gwynedd." Gwelir mewn hanesion eraill i William Lleyrn, ac un neu ddau arall, dderbyn gradd pencerdd yn yr eisteddfod hon; ac yn mysg y dysgyblion pencerddiol, cawn William Cynwal, Hugh Lleyrn, Lewis Menai, ac eraill.

GORSIEDD BEWPYR.

Gorsedd Bewpyr, yn Morganwg, a gynnaliwyd Llun, Mawrth, a Mercher y Sulgwyn, yn y flwyddyn 1681, dan nawdd Syr Rhisiart Basset, Marchog; a than osteg a rhybudd un dydd a blwyddyn, fel arferol. Y penceirdd yn yr eisteddfod hon oeddynt Charles Bwttwn, Ysw., a Dafydd o'r Nant, ac Edward Dafydd o Fargam; yr olaf a barotoisai grynoded o'r hen ddosbarth, erbyn yr eisteddfod, yr hyn y buasai amryw o brif feirdd Morganwg wrtho er ys llawer iawn o flyneddau. Ymddengys i'r ymneilldriad a gymerodd le yn Nghaerfyrddin, ar gyfrif dosbarth D. ab Edmwnd, greu llafur ac ymdrech mawr yn meirdd Morganwg i olrhain yr hen ddysg gysefin ar fardoniaeth, a thrwy hyn i lawer o athrawon dysgedig wneyd eu rhan, o oes i oes, yn olynol, tuag at ddwyn hen ddosbarth beirdd Ynys Prydain ar adfer. Yn mysg y rhai penaf o'r beirdd dysgedig ac eiddgar hyn, enwir Meirig Dafydd, Dafydd Llwyd Mathew, Dafydd Benwyn, ac yn arbenig Llywelyn Sion, olynwr yr hwn yn y gwaith canmoladwy oedd Edward Dafydd o Fargam, a'i ddosbarth ef, yr hon a geir yn gryno yn llyfr "Cyfrinach Beirdd Ynys Prydain," a farnwyd yn yr orsedd hon yn gyfiawn, herwydd prif ansawdd Cerdd Dafawd, ac arfer beirdd Ynys Prydain, ac a gadarnhawyd mewn canlyniad drwy awdurdod gyfreithlawn.

Yn ystod yr ail ganrif ar bymtheg, a'r ddeunawfed, bu dysbeidiad ar gynnal eisteddfodau, o leiaf yn yr un rhwysg ag y cynnelid hwy gynt, a gellir yn gyfiawn nodi y bedwerydd ganrif ar bymtheg fel cyfnod adfywiad yr eisteddfodau, adfywiad dysg, breiniau, a defodau y Cymry, ac adfywiad nawdd, rhwysg, ac effeithioldeb eu sefydliadau cyntefig.

EISTEDDFOD CAERFYRDDIN (1819).

Soniwyd yn flaenorol am y *siam* a gymeredd le yn mysg y beirdd yn achos dosbarth barddonawl D. ab Edmwnd, a dosbarth Morgawg. Yn Eisteddfod Caerfyrddin, yn y bedwerydd ganrif ar bymtheg, meddym iaethwyd y rhwyg a wnaed yn yr eisteddfod a gynnaliwyd yn yr un lle, yn y bymthegfed ganrif: a gwnaethpwyd deddf i gyfreithloni y naill ddosbarth yn gystal a'r llall, fel na byddai mwyach ratoriaeth ar yr un mwy na'i gilydd, ond eu gadael at ddewisiad y beirdd, a chymeradwyo yn unig y gorau ei synwyr, a'i awen, a'i gelfyddyd, ar y naill neu'r llall yn ddiwahaniaeth. Beth yw yr achos fod y beirdd, yn gyffredinol, wedi cymeryd gan lleied o fantais oddiwrth y ddeddf hon; sydd ddirgelwch. Efallai, yn un peth, mai anhysbysrwydd am dani, ac am ansawdd ei gweithrediadau, ynghyd â'r amgylchiad o fod yr hen ddosbarth yn llawer dycethrach i'r cyffredin na dosbarth Caerfyrddin, yw yr achos. Yn y

rhan fwyaf o'n gramadegau, a llyfrau eraill, y ddosbarth newydd a ddygir; a dyma y ddosbarth a fabwysiadwyd gan yr athrawon barddonawl oll, braidd, fel nes gellid dysgwyl i'r beirdd ieuaino ddewis yr hen, oddieithr iddynt ymarfer synwyr annibynol a diduedd i farnu a dethol drostynt eu hunain, yr hyn pe gwnaent, diammhau y canfyddent yn fuan mai llawer iawn "gwel yw yr hen." Er mwyn rhoddi ychwaneg o gyhoedduarwydd i'r ddeddf oleubwyll hon, dodwn hi yma ger bron ein darllenwyr.

Ar ddyddiau Mercher, Iau, a Gwener, sef y seithfed, wythfed a nawfed o Orphenaf, pan oedd oed Crist un mil wyth gant a phedair ar bymtheg, y cyaneiliwyd Eisteddfod ar Wyr-wrth-Gerdd Dafawd a Thant o fewn Cyfoeth Tref Caerfyrddin, yn Nhalaith Dyfed, dan osteg a Rhybudd cyfreithlawn, a than nawdd Gwlad a y Gwir Barchedig Tomas, Arglwydd Esgob Ty Ddewi, er dŵyn o yr encudd a'r difiant eilwaith Farddoniaeth gyssefin a gwybodau Cymreig eraill; a rhoddi trwydded i bawb a geisient addysg, a nawdd, a grâd, a thrwyddedogaeth, yn mraint Beirdd Ynys Prydain; ac yno yn erwynebol Iolo Morganwg, Eliezer Williams, Daniel Ddu o Geredigion, Dewi Silin, Robert Nantglyn, Hywel Glandwr, Gwilym Morganwg, ac eraill gyda hwynt, yn Feirdd wrth Ffaint a Defawd Beirdd Ynys Prydain.—

At yr Eisteddfod hon ymhlith pethau eraill a ddarweiniwyd dan ystyriaeth, y barnwyd yn unfryd unllais, heb nag na gwrtheb na llaw na thafawd,—Bod y rheithiadau Cerdd a freinniwyd yn Eisteddfod Caerfyrddin, yn y flwyddyn 1451, dan enw y *pedwar mesur ar hugain* yn clyngu Awen Bardd o fewn llyffetheiriau rhy gaethion; a Bod, yn rhy fynych o yr achaws, synwyr a rhwyddineb iaith yn cael eu hoffrwm ar allawr gwagorchest egwanbwyll a diansawdd. Herwydd hyn—Barn yr Eisteddfod hon ydyw—Bod o hyn allan Ryddid i Feirdd Ynys Prydain gyfansoddi Caniadau ar y mesurau mwyaf teilwng a chyfaddas idd eu testynau; ac na byddo rhacllaw wahaniaeth o barth teilyngdod i ei rôddi i fesurau yr un *Ddosparth* na'r *Hen* na'r *Newydd*, ragor neu uwch eu gilydd; ond bod Urddiant Cerdd neu Awdl i gael ei farnu wrth gymmhwylliadau synwyr a phwyll, a chynganedd rywiawg a diledryw, yn hytrach nag wrth amrywiaeth mesurau.

“*Calon wrth galon.*”

A barnu yn ddiuedd rhwng yr hen ddosbarth a'r newydd ar gerdd dafod, hyny yw, rhwng y ddosbarth gysefin a dosbarth D. ab Edmwnd, ymddengys, dybygem, fod y flaenaf yn rhagori o ddigon ar yr olaf.—Yn gyntaf, yn *naturioldeb* ei hawsawdd, lle y cynnwysa *naw* gorchan, neu *naw* cyhydedd, yn amrywio o bedair-sill i ddeuddeg-sill, ynghyd â rhyddid i amrywio pifer y banau yn y pennillion a wneleu o bob un o'r colofnau hon. Yn y gwnai natur ddygymmod â theirsill mwy nag â theirsill ar ddeg yn golofn cerdd; nid da y goddefai, ar y llaw arall, ei chyfyngu yn ortodogol i ddeg-sill. O'r prif golofnau hyn tyf yn naturiol drachefn bymtheg golofn, neu fesurau adlaw, y rhai nid ydynt amgen na phymtheg *modd* o amrywio y *naw* gorchan yn eu gosodiad mewn pennill. Gwna y rhai hyn, gyda'r gilydd, nid *pedwar pennill* ar hugain, ond *pedwar ansawdd* ar *hugain*, o ba rai y gellir treiglo amrywiadau aneirif, braidd, o bennillion a mesurau, yr hwn ryddid a elwir yn *nod braint* y mesur, a'r holl amrywiadau hyn, un ac arall, yn dŵyn arnynt, nod gwreiddiol yr ansawdd o ba

un y treiglwyd hwynt, yr hwn, o herwydd hyny, a elwir yn *nod anghen* y mesur. Felly nid oes na sillau mewn ban, na banau mewn pennill, nad ellir yn gyfreithlawn ymarfer lliaws o amrywiadau arnynt *tra* y cadwer *nod anghen* y pennill, sef cydberthynas cyfartal ei holl ranau. Yn ail, rhagora yr hen ddosbarth yn ei *chelfyddgaroch*, lle y deillir ei holl gangenau o ychydig o brif ansoddau, y caniatëir iddynt eu llawn gyloch o dyfiant, ac y gellir eglur drefn a dosbarth ar y cwbl yn gyson â'r elfenau cynrywiol. Yn drydydd, ac yn arbenicaf, rhagora yn ei *rhyddid*, yr hyn a ddangoswyd eisoes yn yr amrywiaeth dirfawr a ellir ar bob un o'r mesurau heb droseddu rheolau y ddosbarth mewn un modd, tra y cadwer y nod anghen dywededig. Er anghraifft, gwelir yn "Nghyfrinach y Beirdd" dri ar ddeg ar hugain o foddau ar Huppynt, tra nad oes yn nosbarth D. ab Edmwnd ond dau fodd arno; a'r un peth a ellir ddywedyd am y mesurau eraill i raddau mwy neu lai.

Ceir yn llyfr "Cyfrinach Beirdd Ynys Prydain," a fynych grybwyllasom yn yr ysgrif hon, ac o'r hwn y tynasom lawer o'n hysbysrwydd am amryw bethau, gyflawn addysg, hyfforddiad, ac athrawiaeth ar y ddwy ddosbarth; ac o efrydu y llyfr rhagorol hwnw deuai ein beirdd ieuainc yn llawer amgen cyfansoddwyr, dybygem, nag y buant hyd yma wrth ddilyn mor fanwl goeg-fesurau diansawdd D. ab Edmwnd. Mae yn beth nodedig fod y beirdd Cymreig, yn yr oes hon, yn rhedeg o un eithafed i'r llall, o gaethiwed cyfyng y pedwar mesur ar hugain i bearhyddid digynghanedd a diodl y mesur a elwir yn bryddest. Deillia yr annosbarth yma, efallai, oddiwrth beidio mabwysiadu yr hen gyfundrefn gysefn fel safon ein prydyddiaeth, yr hon ar yr un pryd ag y gofyna gynghanedd ddiledryw, a ganiatâ hefyd unrhyw amrywiad o fesur a allo meddwl y bardd ddychymgu neu ei awen chwennyech.

Byddai yn dra dymunol cael dosbarth ddiwygiedig, mwy seml, a goddefol o ymeangiad na'r holl hen ddosebeirth, eto yn ddeilliedig o'r hen elfenau cysefn, ac yn gynnwysedig o ddetholion o'r cyfryw hen fesurau ag ydynt fwyaf poblogaidd a chymeradwy wrth farn ac archwaeth yr oes ddiwylliedig hon; a chael barn ac awdurdod eisteddfod i gyfreithloni yr unrhyw, yn ol braint a defod Ynys Prydain. Er y bu caniaadaeth Cymru, yn y cyn-oesoedd, yn *ddigymghanedd*, neu yn foelawdl, fel ei gelwid, eto nid oes genym, mae'n debygol, unrhyw anghraifft o'r cyn-oesedd na'r canol-oesoedd o gerdd Gymreig *ddiodl*.

Rhyw fath o goeg-chwareu anghyfreithlawn a niweidiol, feddyllem, âg urddas gorsedd farddol, yw y dull sydd yn rhy gyffredin o gyfranu graddau. Mae lle i ofni y derbynir llawer i mewn i'r urdd farddonawl nad ydynt yn medru ond ychydig ar y gelfyddyd, chwaithach meddu dim o'r awen ddiledryw; a bod yn Nghymru dderwydd-feirdd urddol, wedi derbyn graddau eisteddfodol, yn nghysgod pa rai yr esgynant i orsedd y pencerdd, heb erioed gyrhaedd y cymhwysiad gofynol o fod yn feirdd cadeiriog, na rhoddi prawf yn y byd erioed o'u medrusrwydd yn rhanau is y wyddoreg na'r gelfyddyd; dim ond eu bod yn derbyn yr urdd mewn moes-gydnabyddiaeth o ryw gymwynasgarwch o'r eiddynt i'r sefydliad, ac er boddio rhyw fympwy plentynaid a amlygant ar y pryd.

Os buddiol parhau yr hen sefydliad hybarch o "Eisteddfod Gwŷr wrth Gerdd," mabwysiadder ei hen arwyddeiriau gwychion—"Y gwir yn erbya

y byd"—“Yn ngwyneb haul a llygad goleuni”—ynghyd â “Da'r maen gyda'r efengyl”—gyda llawn ymroad i gadw yn fanwl at eu hystyr yn yr holl weithrediadau a ddygir ymlaen ynddi.

Gan na weithredwyd unrhyw gyfnewidiad o bwys yn yr eisteddfodau dilynol i un Caerfyrddin, yn 1819; ac na wnaed amgen na'u cynnal er cefnogaeth gyffredinol i farddoniaeth a llênnyddiaeth ein gwlad, ni thymbiem yn anghenrheidiol dyfod ymhellach ymlaen mewn sylw arnynt yn ol cyllun yr ysgrif hon nag y daethom, ac felly terfynwn yma.

YSGOLION PAROTOAWL I'R CYMRY.

LLE byddo llawer o fwg fe fydd peth tân, a lle byddo llawer o swm fe ddysgwylir, ac yn ddiâu fe ddylai fod peth sylwedd. Nid oes un diffyg medr yn y byd yn Nghymru ydyw creu a chadw swm. Nid oes un diffyg medr a dawn i gyfodi llwch. Pe na byddai eisieu dim ond siarad, ysgrifenu, dadleu, cadw cyfarfodydd cyhoeddus, a theithio er gwella cyflwr cymdeithasol, addysgiadol, moesol, a chrefyddol Cymru, ni fuasai yno er ys talm un alwad am bresennoldeb, dylanwad, ac ymdrechion diwygwyr. Digon da ar les llawer achos teilwng yn y Dywysogaeth pe buasai y bobl a'u harweinyddion wedi cadw yn ol ran o'u zel a'u nerthoedd ar gyfer gweithredu, yn lle eu gwastraffu ar eiriau. Buan y cyffrôir y Cymro, a chan fuaned a hyn y syrth marweidd-dra arno drachefn. Nid annhebyg ydyw i gornant mynydd-dir. Gorlifa hwnw ei geulanau, a chan ruo a rhaiadru, tarana ei hêr i bob rhwystr, a hyrddia y cyfan o'i flaen. Trwst ei chwynn-rediad a rwyga ddystawrwydd y cymydd. Ond yn mhen ychydig oriau, treulia ei hun allan, a phedia ei groohlef. Ar ffwrst bu y llanw, ac yn ebrwydd bu y trai. A chwedi yr elo y llifeiriant heibio, nid oes dim ar ol ond mangoed a llaid.

Mae digon o swm a son wedi bod am addysg yn Nghymru yn ystod y pedair blynedd diweddf. Mai hi yn llawn bryd bellach i edrych am sylwedd. Mae hi yn rhyhwys i droi addewidion a bygythion yn weithredoedd. Nid ydym yn dysgwyl y cyflawnir yn yr oes bresennol holl obeithion a phrophwydoliaethau cyfeillion brwdfrydig addysg; ond yr ydym yn dra hyderus y bydd cyflwr addysgiadol y Dywysogaeth yn llawer amgenach na'r peth ydoedd o'r blaen, mewn canlyniad i'r sylw sydd wedi cael ei alw eisoes at y mater gorbwysig hwn.

Rhaid *prof* i'r Cymry werthfawrogrwydd addysg, cyn y ceir ganddynt wneyd ebyrth ac ymdrechion digonol er ei mynu i'w plant. A dylai y rhai sydd wedi derbyn dysg ystyried y da neu y drwg a wneir i eraill yn ol y defnydd a wnant hwy o'u manteision. Gellir rhoddi anair i ddysg fel i grefydd, trwy ei chamdefnyddio ac ymddwyn yn annheilwng o honi. Gwyddom am amryw gymydogathau lle mae nifer o ddynion ieuainc wedi cael dysg oblegid fod rhyw un neu ddau wedi dyfod ymlaen yn y byd trwy ei eymhorth. Os dygwyrddda un mab amaethwr neu gelfyddydwr mewn ardal ddyfod i lanw sefyllfa gyfrifol yn y byd trwy offeryniolaeth

dysg, mae hysg yn annogaeth i eraill idd ei rhoddi i'w plant. Mae pob un a wnelo ddefnydd da o ddysg yn offerynol er ei chael i'w eraill; ac y mae y rhai sydd yn gwneuthur camddefnydd o ddysg yn rhwystro eraill i'w chyrhaedd. Nid ydyw y dynion sydd yn arfer defnyddio fel rheswm dros beiddio costio i osod eu plant mewn ysgolion, y posibilrwydd iddynt wneuti camddefnydd o ddysg, yn ystyried y gallant gamddefnyddio yr arian ag y mae y rhieni yn ommedd gwario ar eu dysg er mwyn bod yn alluog i'w gadael iddynt yn eu testament diweddfaf. "Gwell," meddai Franklin, "i'r rhieni dywallt cynnwysiad eu pwrs arian i ymenyddiau nag i logellau eu plant." Gellir camddefnyddio dysg ond nis gellir ei gwario a'i cholli. Os eyll yr annysgedig ei arian, nid oes ganddo wedi hyn ond ei alluoced wostorol i ddiwynu arnynt am ei fywioliaeth; ond am yr hwn sydd yn berchen dysg, mae ganddo rhyngddo a'r gwaethaf, nid yn unig ei sefodau ond ei ymenydd. Mae cannoedd lawer yn nhrefydd a dinasoedd Lloegr, ag sydd wedi colli eu holl dda bydol, ond yn medru ennill eu bars yn gysurus wedi y cyfan, heb suddo i sefyllfa llafurwyr cyffredin, oblegid eu bod yn feddiannol ar ddysg. Purion peth ydyw i dad adael pob i ddydyn yn ei ewylls i'w feibion John a William, ond buasai gwario rhenti y ddau ddydyn ar eu dysg yn debyg o sicrhau iddynt fwy o log blyneddol yn ol llaw na swm unedig y rhenti. Mae lluoedd o ddynion wedi gwneyd mwy o arian o'r ychydig ugeiniau punnau a wariwyd ar eu dysg, nag a allasant byth wneyd a'r symiau hyny yn unrhyw ffordd arall. Yr oedd gwybodaeth o'r ieithoedd Ffrancaeg ac Almaenaidd yn werth cyflog o fil o banau mewn bhwyddyn i'r diweddar aelod o'r senedd dros Coventry, pan yr ydoedd y bdeair ar hugain oed, tra y buasai cyflog o gan' punt neu chwech ugein; y fwyddyn, y swm uchaf ag a allasai ddysgwyl derbyn pe dygwyddasai fod yn anwybodus o'r ieithoedd hyny. Nid ydyw fod rhyw ychydig bersonal wedi dygwydd llwyddo yn y byd heb dderbyn ond ychydig fanteision dysgeidiaeth yn gwanhau dim ar nerth y rhesymau ag yr ydym yn awr yn ddwyn ymlaen dros roddi dysg i blant; oblegid tystia y personau hyny eu hunain y buasant wedi bod yn llawer mwy llwyddiannus pe derbyniasent fanteision dysgeidiaeth. Ac na sonier am y posibilrwydd o gamddefnyddio dysg, neu fod yr annysgedig weithiau yn gwneuthur yn well na'r dysgedig fel rhesymau dros beiddio rhoddi cymaint ag a ellir o ddysg i blant; oblegid gell dyn gamddefnyddio un peth a phob peth, ac nid ydyw camddefnyddio beth yn un prawf nad ydyw y peth hwnw yn dda yndo ei hun. Ar yr un tir, ni ddylai rhieni adael eu meddiannau i'w plant, oblegid medru eu gallant eu camddefnyddio.

Nid ydym yn ystyried fod eisieu dwyn ymlaen un egsawsd dros ysgolion enu yn y modd hyn. Golygw'n mai addysg fyddol sydd yn eisieu fwyaf o lawer ar blant y Cymry; ac o ganlyniad, rhesymau bydol a arferwn i'r bymhell rhieni i'w chyfranu i'w plant. Mwy cydweddol a'n chwaeth a'r teimladau fuasai cymeryd uwch tir, a dangos yr anghenheidrwydd a'r dysmunokdeb o feddu dysg er ei mwyn ei hun; ond yr ydym yn gorfod sefnd ein bod yn byw mewn byd lle y mae y rhan lleocaaf o'r trigelion yn gorfod defnyddio eu dysg yn hytrach fel offeryn i ennill eu bara beunyddiol; ac os eu haddasu i gyflawni eu dyledswyddau fel dinasyddion bydol, nag fel ffrwydonell mwyniant meddyliol a deallwriaethol.

Cyn byth y sefydlir yr Nghymru ysgolion o am gwerth, rhaid i'r Cymry ddysgu talu am yr hyn fyddo yn werth talu am dano. Eisieu cael pob peth

yn *chad* sydd ar y Cymro, heb feddwl mai pethau salw fynychaf ydyw pethau rhad; ac nas geill dynion goneat ddim cynnyg nwyfau da ond am a dalent. Hyd yn hyn, nid ydyw y Cymry eu hunain wedi dangos dim tebyg i ysbryd anturiaethus; ac y mae eu syniadau culfeddwl a hunanol wedi luaddias dynion o anturiaeth i'w gwasanaethu. Y peth cyntaf braidd bob amser a ofyn y Cymro ynghylch unrhyw beth a gynnygir iddo, ydyw, Beth mae e yn gostio?—nid, Beth y dâl e? Os na thelir yr ysgolfeistri Prydeinaidd y'r haelionus a rheolaidd, try y cyfryw rai o honynt ag sydd yn berehen cynneddfau cryfion, ac yn ysgolêigion cyffredin da, at ryw alwedigaeth arall, gan adael eiddiol a gwehilion y bobl i addysgu y to sydd yn cyfodi i fyny. A phrin y credwn ni y bydd llawer o lewyrch ar yr ysgolion Prydeinaidd mewn ugeiniau o ardaloedd gwledig, hyd nes bydd plant amaethwyr a rhyddfeddianwyr wedi derbyn mwy o ddysg nag y maent hyd yn hyn wedi ei dderbyn; oblegid fel y mae pethau yn bod yn bresennol, nid oes braidd neb yn y cyfryw gymydogeaethau ag sydd yn addas i gydweithredu â'r ysgolfeistr. Pa ddyben a etyb ffurfio pwyllgor o ddynion anwybodus ac aufedrus er goruwchlywyddu pethau amgylchiadol ysgol? Byddant yn llawer mwy o rwysr nag o gymhorth i'r ysgolfeistr. Nis gwyddem am fwy ffolineb na gosod dynion diddysg ar bwyllgorau. Tybiant y dylent wneyd rhywbeth, ac wedi iddynt gael eu gwisgo, ys dywedai Shakspeare, mewn ber awdurdod, maent yn hōni yr hawl o gyhoeddi eu barn ar nifeni o bethau ag nas gwyddant ddim yn y byd am danynt. Pe byddai ond dwsin, neu hanner dwsin, o amaethwyr wedi derbyn dysg canolig dda yn byw yn mhob cymydogeaeth, byddai rhyw obaith y gellid sefydlu a dwyn ymlaen ysgolion dyddiol llewyrchus yn y wlad: ond yn absennoldeb y cyfryw, yr ydym yn dra sier y cyferfydd ysgolfeistri â chymaint o bethau i'w llwfrhau a'u digalonni ag a bâr iddynt dasfu eu galwedigaeth anrhydeddus i fyny, ac ymaflyd mewn rhyw un arall mwy sier ei thaledigaeth. Yr oedd gwell ysgolion, a mwy o honynt, er ys blyneddau yn ol, yn Nghymru, ar gyfer plant amaethwyr cyfrifol a rhyddfeddianwyr nag sydd yn bresennol. Nis gwyddom am gymaint ag un yn awr o werth son am dani yn yr holl Dywysogaeth ar gyfer y dosbarth pwysig a lliosog hwn.

Ysgol *ieithyddol* ydyw sefydliad addysgiadol Llanymddyfri. Mae eymeriad uchel yr Archddiacon Williams fel ysgolfaig ac addysgydd yn ddigon o wystl, ni a feddyllem, yr etyb yr ysgol dan ei ofal ddysgwyliadau ei sylfaenydd yn gystal a'r cyhoedd yn gyffredin. Ysgol ydyw hi ar gyfer y rhai sydd yn amcanu dyfod yn ysgolêigion *ieithyddol*. Yr oedd mawr eisiau y cyfryw ysgol yn Nghymru, ac y mae dosbarth digon lliosog yn y wlad i'w llanw; ac ni a obeithiwn yr arbedir bywyd yr archddiacon hyd byddo o leiaf wedi argraffu ei ddelw a'i argraff arni.

Ond nid ysgol ydyw hi ar gyfer plant amaethwyr a masnachwyr. Nid eymaint yw yr anghen am ddysgu y Lladin a'r Groeg i fachgenyn Cymreig a fyddo yn bwriadu myned yn amaethwr neu yn fasnachwr. Yr hyn sydd fwyaf anghenrheidiol iddo ef, yw Saesoneg, rhifyddiaeth, mesur, fferylliaeth, amaethyddol, ynghyd âg amaethyddiaeth ei hun, fel ei dygir ymlaen yn Lloegr a'r Alban, cybelled ag y caniatâ y gwahaniaeth yn ansawdd y ddatrys ynghyd â'r hinsawdd yn Nghymru i hyn gael ei wneyd? Nid ydyna mewn un modd yn anghofio fod *mathematical master* yn Ysgol Llanymddyfri. Dylid ei hystyried hi, dybygem, fel ysgol ar gyfer, yn benaf, y rhai sydd yn bwriadu ymaflyd yn un o'r galwedigaethau dysgedig. Fel y cyff-

cyfryw, mae iddi ei lle ei hun, a'r lle uchaf yn ddiau fel sefydliad parotoawl i'r prifysgolion. A chyn byth y llwyddwn ni i sefydlu prifysgol *Cymreig*, rhaid cyfodi nifer o ysgolion cyffelyb i eiddo un Philips, yn Llanymddyfri, yn gystal a llawer o rai parotoawl i'r rhei'ny, heblaw sefydlu ysgolion ar gyfer meibion amaethwyr a masnachwyr : neu, fe ellid yn hawdd wneyd yr olaf yn ysgolion parotoawl i'r rhai ieithyddol i gynnifer o'r llanciau a fwrriadant, cyn gorphen eu cwrs addysgiadol, i gyrhaedd cydnabyddiaeth â ieithoedd Groeg a Rhufain.

Yn awr, ni a awn rhagom i roddi brasddarluniad (nis medrwn wneyd rhagor yn bresennol) o'r cyfryw ysgol ag y mawr hoffem ei gweled yn cael ei sefydlu yn uniongyrchol yn rhywle yn y Dywysogaeth. Ni a olygwn fod rhyw ddau ddyn anturiaethus a gwladgarol yn rhentu un o'r palasai gweigion ag y mae amryw o'honynt idd eu cael yn Nghymru, ac yn gwneuthur y cyfryw gyfnewidiadau yn, ac oddeutu yr adeilad, ag a'i gwna yn lle cyflës er derbyn llanciau a dynion ieuainc i letfa ynddo a derbyn eu dysg. Bydd yn ofynol i un o'r meistri fyw yn y tŷ; ac arno ef a'i gymhars (dylai y cyfryw fod yn wr priod) y disgyn holl ofal, llywyddiad, a threfnidaeth deuluaidd y sefydliad. Dysegwylid iddynt weithredu fel penau y teulu, a chymeryd eu prydiau bwyd gyda'r ysgolëigion. Eu dyledswydd fyddai gwylio dros ieched, cysur corfforol, moesau a moesoldeb y rhai a oesodid dan eu gofal. Byddai cyfleusdra gan fechgyn gwledig, mewn ysgol o'r fath ag yr ydym ni am sefydlu, a than lywyddiad personau priodol, i ddysgu llaweroedd o bethau ag nad ydynt mewn ystyr gymdeithasol o lai pwys na gwybodaeth o rifydddeg a gramadeg. A fyddai dysgu i fechgyn Cymreig gwrs o foesau da ac ymddygiadau boneddigaidd o ryw niwed iddynt? Oni fyddai eu trin a'u trwsio, a thrwy hyny eu haddasu i fyned i gymdeithas eu gwell, yn gymwynas ac yn garedigrwydd â hwynt? Onid ydyw anwybodaeth o arferion cymdeithas gyfrifol wedi lleihau dylanwad a defnyddioldeb llawer un ag nad oedd yn ddiffygiol mewn synwyr a gwybodaeth? Nid oes eisieu helaethu ar y mater hwn.

Gellid rhanu gwaith yr ysgol rhwng y ddau feistr, yn y wedd ganlynol. Dysgai y meistr fyddai yn byw yn y tŷ, Saesoneg, yn ei gwahanol gangenau i'r ysgolëigion, a dysgai y meistr arall iddynt holl gangenau *mathematics* ymarferol. Amcan y blaenaf fyddai galluogi y bechgyn Cymreig i siarad ac ysgrifenu Saesoneg can rhwydded a rhigled a Sais addysgedig. Nid gorchwyl hawdd fydd hyn, ond gellir ei gyflawni mewn llawer llai o amser nag a dybir, ond dilyn cynllun priodol. Mewn ychwanegiad at hyn, dysgid iddynt rifo a mesur unrhyw beth a ddygir o'u blaen. Fe ddylid dysgu iddynt, nid yn unig i weithio yn ol y rheolau fydd yn y gwahanol lyfrau, ond fe fydd yn ofynol esbonio iddynt y rhesymau ar ba rai y mae y rheolau eu hunain wedi cael eu sylfaenu. Ac mewn ychwanegiad at hyn oll, dylid ymdrechu cyfranu iddynt gymaint o wybodaeth ymarferol gyffredinol ag a fyddai yn alluadwy yn ystod yr amser y byddai yr ysgolëigion dan hyfforddiad. Dyledswydd arbenig y meistri fyddai eu dysgu i feddwl ar bob mater a ddygid ger eu bron, ac i ffurfio barn annibynol ar bob pwnc. Byddai yn gwbl mor anghenrheidiol i wella a choethi eu chwaeth, a magu ynddynt duedd sefydlog at ddarllen, ac at ddarllen llyfrau sylweddol. Ac uwchlaw pob peth, byddai yn anheborol anghenrheidiol i ddysgu iddynt wir ddybenion bywyd a dysgeidiaeth, ynghyd â rhwymedig-athau ychwanegol y sawl fyddo wedi derbyn manteision addysg i wasan-

aethu Duw a'u cenedlaeth. Ni olygwyr y dylid dysgu crefydd yn ffarfio, ac ar amserau penodedig i'r ysgolëigion, ond yn hytrach yn anuniongyrchol yn ol fel y byddo amgylchiadau yn gwahodd ac yn annog y meistri i wneyd. Gweinyddai y meistr cartrefol fel offeiriad yn ei dŷ ei hun, a chyflawnai y ddyledswydd deuluaidd hwyr a boreu. Byddai fel math o weinidog crefyddol neu fugail ysbrydol i'r ŵyn dan ei ofal. A golygu y gellid cael tŷ cyfaddas yn agos i dref, dyledswydd y meistr cartrefol fydd myned â'r ysgolëigion yno i addoli unwaith y dydd, gan adael i bob un fynychu y lle addoliad perthynol i'r enwad â pha un y dygai ei rieni neu ei wareheid-waid gysylltiad : ac yn yr hwyr i'w ffurfio yn ddosbarthau Biblaidd, er mwyn esbonio iddynt yr ysgrythyrau.

Yr ydym am gysylltu âg ysgol o'r fath hyn wrteithiad tyddyn o dir, er mwyn rhoddi cyfleusdra i feibion amaethwyr i weled â'u llygiaid gynnyrchion gwelliadau amaethyddol. Nid ydym mor ffiof a meddwl y gellir gwneyd daear Cymru mor doreithiog a daear Lloegr; a gwyddom o'r goreu fod y cyfryw Saeson a Scotiaid ag a amaethasant yn Nghymru, gan dybied hyn, wedi tori yn llaprau, y ran liosocaf o honynt : ond ar yr un pryd, yr ydym yn eithaf sicr fod yn alluadwy i ychwanegu toraethrwydd y ddaear i raddau helaeth trwy fabwysiadu cynnifer o welliadau amaethyddol Lloegr a'r Alban ag a dery hinsawdd Cymry ac ansawdd ei daear. Ar eu daear eu hunain, ac nid ar ddaear y Saeson, y mae i feibion amaethwyr Cymreig i weled prawfiadau gwelliawwl yn cael eu gwneyd. Os danfonir mab i amaethwyr Cymreig i Goleg Amaethyddol Cirencester, neu ryw un arall yn Lloegr, bydd llawer o'r prawfiadau ag oedd yn llwyddiannus ar ddaear y Sais yn atwyddiannus ar ddaear Cymru, pan ddaw yr amser iddo eu gwneyd ; a'r canlyniad fydd ei somi, ei ddigaloni, a'i wneyd yn agored i wawd a dirmyg y cyfryw rai o'i gymydogion ag oeddynt hwyrfyddig i greu y gellid gwella *dim* ar eu dull hwy o drin y ddaear. Dylai meibion amaethwyr Cymreig weled prawfiadau yn cael eu gwneyd ar ddaear mor gydradd o ran ansawdd ag fyddo yn bosibl â'r ddaear ag y byddont hwy eu hunain yn debygol yn ol llaw o'i gwrteithio. Dylai y ddaear, i'w gwrteithio mewn gysylltiad â'r ysgol dybiedig, fod o ansawdd ganolaidd—rhwng y fath oreu a'r fath waethaf, er mwyn peidio camarwain yr amaethwyr ieuainc. Bydd yn hawdd iddynt felly fwrw y gwahaniaeth, ond cael gweled prawfiadau yn cael eu gwneyd ar ddaear o'r fath hyn. Oddentu tair blynedd yn ol, cynnygiodd boneddig a meistr tir yn y Deheudir, *fil* o bunnau er mwyn sefydlu coleg amaethyddol ar gyfer meibion amaethwyr *Cymreig*. Ni a obeithiwn, er na chafodd ei gynnygiad ar y pryd y derbynaiad a haeddasai oddiwrth y sawl a ddylasent ei eilio, nad ydyw wedi oeri yn ei zel dros welliadau amaethyddol, a'i fod mor barod ag erioed i roddi arian, a benthg ei enw a'i ddyllanwad, er cefnogi sefydliad cyffelyb i'r un ag yr ydym yn ceisio yn y papyryn presennol ei fras-ddarlunio.

Pe ymrwymai meistri tiroedd yn Nghymru i fod yn gyfrifol am *rent* y tyddyn, ynghyd â chyflog i'r hyfforddwr amaethyddol, gwnaent nid yn unig gymwynas annhraethol âg amaethwyr Cymru, ond gosodent fwy na llôg triphlyg yn eu llogellau eu hunain am y symiau a danysgrifient tuag at gynnalïaeth y cyfryw sefydliad. Byddai *rychu* daear Cymru, a dim yn ychwaneg, yn sicr o ddyfod a miloedd o bunnau y flwyddyn i ddwylaw y perchenogion.

Gwaith y meistr amaethyddol fyddai darlithïaw ar fferylliaeth amaeth-

yddol, an ar wahanol, gangenau amaethyddiaeth ymarferol, yn gyntal a llywyddu yn bersonol bob gwelliadau a phrawfiadau a wneid ar y tir. Nid oes dim at weled *experiments* yn oel eu gwneid. Da ydyw dyag, llyfr, ond gwell weithiau ydyw dyag llygad. A byddai cyayltu, gwrteithiad y ddaear a dysgu llyfrau yn amrywiaeth adfywiol i foddyliau, ac yn iechyd i gyrrif yr ysgoleigion. Math o adnewyddiad nerth fyddai troi allan o'r tŷ i'r meusydd.

Ond mae yn rhaid i ni yn awr ddyfod at y rhan fwyaf anghysurus o'n pwnc, set y *gost*. Yn ymyl y draul, er lleied ydyw, ofnwn y cyll ein cyallun ei holl deilyngdod; ond colled neu heidio, gofynol ydyw i ni ddywedyd pa gymaint a fydd. Wedi bwrw yn ofalus bob math o draul cyaylltiedig a sefydliad o'r fath, yr ydym yn barnu y gellid (ond oael deg ar hugain o ysgoleigion) roddi bywd, dysg, tân a goleu, golchad, papur, inc, defnydd (*use*) y llyfrau anghenrheidiol tra yn yr ysgol, ynghyd ag un pâr o ddillad, am 35p. y flwyddyn. Byddai y fywioliaeth yn sylweddol a da, a chai y plant eu gwala o fwyd iachus maethawl... Hwyrach y rhyfedda y darlennydd ein bod yn cyfrif pâr o ddillad ymhlith yr *items*. Mae genym resymau dros hyn.—Yr ydym yn credu yn *philosophy*, dillad. Ystyriwn mai anghenrheidiol ydyw cyfnewid ysgolblant yn allanol ac yn dumeinol. Yr ydym am i hogyn gwledig, wrth fyned i ysgol anghofio ei fywyd a'i arferiadau blaenorol. Newidiem ei wisgoedd, gan gredu gyda Dr. Dwight, nas gall dyn fod yn *stockguard* yn ei ddillad goreu. Gair sydd ddiagon i'r doeth, ac â'r annoeth nid oes a wnelom yn bresennol. Byddai un pâr o ddillad o'r cyfryw ddefnydd ag a fyddem yn ystyried oeu ar gyfer yr ysgoleigion yn ddiagon i bara blwyddyn iddynt ac arbedai hynny lawer o draul i'r rhieni; oblegid y mae prynu digon o ddillad gweddus i fachgenyn gwledig i fyned i ryw ysgol gyfrifol mewn tref, yn Nghymru, ac yn enwedig yn Lloegr, mewn ychwanegiad at eu dyag a'u byrddlad, yn costio mwy iddynt nag a gostiai yn ein hysgol dybiedig ni. Heblaw hynny, yr ydym yn ystyried mai peth anhobgorol mewn ysgol ydyw sefydlu cydraaddoldeb amgylchiadol. Ni ddylai fod un gwahaniaeth rhwng ysgoleigion, tra yn yr ysgol, ond yr hyn a dardda oddiar dalentau, diwydrwydd, a nodweddiad. Mae llawer o ysbryd argfwyddiaethu ac erlid ymhlith ysgolblant. Medrant boenyddio eu gilydd yn arswydus. Mae eisieu gofalu am deimladau plant yn dyn heb fod mewn amgylchiadau o'r fath oreu. Mae ofn dyfodiad y dydd Sabboth ar fachgenyn yn yr ysgol oddi cartref, os nad ydyw ei ddillad cyntal a'i gydysgollegion. Mae llawer un wedi dyoddef erlidigaeth ar ei fynediad i ysgol oblegid defnydd cyffredin neu wneuthuriad gwledig ei wisgoedd. Dylid nhwystro y bachgenyn ag y mae ei rieni mewn amgylchiadau da rhag gwneuthur, ymddangosiad rhodregar, a dylid diogelu y bachgenyn ag y mae ei rieni mewn amgylchiadau canolig rhag teimlo yn anghysurus yn nghymdeithas y cyfoethog. Tuag at gynyrcu hyn, gyna *grwg uniwrs*, ac o'r un defnydd, fwy nag a wyr nac a ddeall neb ond ysgolblant eu hunain. Yr ydym yn llefaru oddiar brofiad. Cofio yr ydym saw yr hogan las a gwyn a'r llodrau pali. Trech profiad na rhestr o resymau. Pe sefydlid y cyfryw ysgol ag yr ydym wedi cynnyg rhoddi amfinell o honi yn mherfedd mynyddau Cymru, nid oes arnom un ofn berau y medrai plant Cymreig gyrrhaed gwybodaeth, gywir o'r iaith Saesneg, ond i'r mair cartrefol febyssiadu mesurus priodol, yn llawn can gynted ac mewn

ysgol yn hghafol Lloegr. Digon tebyg na chreda rhywrai ni; ond gwyddom beth ydym yn ei ysgrifenu, ac yr ydym yn foddhawn i'w wneuthur y prawf gofynol er gwirio ein haeriad. Gall Cymro ag fyddo wedi dysgu Saesoneg yn drwyadl ddydysu yr iaith yn well ac yn gynt i Gymro nag y medr Sais wneyd; oblegid nis dichon y Sais ddeall y rhesymau pahani y tamsynia y Cymro fel y geill un o'r cydwladwyr. *Cyfeithu* yn llythrenol i'r Saesoneg wna y Cymro ar y cyntaf, yn lle defnyddio ymadroddion cyfatebol y Sais. Nid ydym yn meddwl y geill Sais esbonio y gwahanlaeth rhwng "shall" a "will" i'r Cymro yn gystal ag y medr y Cymro addysgedig wneyd. Dylai pwy bynag a ddydysgo iaith newydd i arall fod yn feistr nid yn unig arni hi; ond ar iaith yr arall hwnw hefyd. Mae yn anghenrheidiol iddo ddeall priod-ddull pob un o'r ddwy, a gwybod y geiriau a'r ymadroddion cyferbyniol a chyfystyr fydd ynddynt. Cyn y gellir dyweyd fod dyn yn deall Saesoneg, rhaid iddo nid yn unig arfer geiriau Saesoneg, ond y mae yn ofyniol iddo eu harfer yn yr ystyr a gysyllta y Sais â hwynt. Nid oes dim—ond *starad*—at *gyfansoddi* mewn unrhyw iaith er mwyn ei meistrolli.

Nid ydym yn gwadu nad oes llawer o fanteision i'w cael mewn ysgolion yn Lloegr; ond y mae yno hefyd luocedd o brofedigaethau ag y tybiem y gellid gwaredu ysgol Gymreig oddiwrthynt. Mae y plant yn ysgolion Lloegr yn cysgu ddau yn yr un gwely, ac yn gyffredin y mae amryw welyau yn yr un ystafell; a chan fod pob math o gymeriadau mewn ysgol gyhoeddus, mae pethau yn cael eu dyweyd a'u gwneyd, yn absenoldeb yr athrawon, ag nas beiddiwn ni wneyd un cyfeiriad atynt yn nhudalennau y "Traethodydd." Yn yr ysgol ag y dymunem ni ei gweled wedi cael ei sefydlu, ystyriem yn beth anheggorol anghenrheidiol ar les moesoldeb yr ysgoleigion i bob un o honynt gael ystafell-wely yn gyfangwbl iddo ei hun. Mae peth ofnawdy o lygredd a drygioni yn yr ysgolion goreu—pa faint mewn ysgolion lle nad oes gofal digonol yn cael ei gymeryd i warehod y plant rhag drygau a phrofedigaethau? Hwyrach ein bod yn cynnyg ar beth nis gellir ei gyrhaedd; ond ein hamcan ydyw dwyn da Lloegr i Gymru, heb, os yn bosibl, ei drwg; ac nis gwyddom am well ffordd i sicrhau hyn nag i ryw bersonau cyfarwydd â Lloegr sefydlu ysgol Saesoneg o'r fath a ddarluniasom, yn rhyw gwr o Gymru.

Ditaygu a chasau Cymru ydyw yr hyn y mae y Cymry eu hunain yn agored i'w wneyd pan groesant Glawdd Offa gyntaf, ac nid oes fawr awydd ar nemawr o honynt ddychwelyd i'w gwlad eu hunain. Mae eisteu cyfodi a gwella y Cymro yn ei wlad ei hun; a chredu yr ydym mai ei gydwladwyr wedi eu haddysgu a wnant oreu o bawb. Can dioleh i'r dysgedig Archddiacon Williams am ddechreu ar y gwaith. Dysged y "wlad a'i macodd" ei barchu, ei ryfeddu, a'i garu am hyn.

Pa un a lwyddir neu beidio i sefydlu yn Nghymru y fath ysgol a'r honi yr ydym wedi ceisio ei darlunio, a pha un a darewir wrth bersonau addas a digon anturiaethus i osod y fath sefydliad ar droed, a pha un, os gellid tardw wrth y cyfryw bersonau, y byddai iddynt dderbyn oddiwrth eu cydwladwyr y mesur hwnw o gefnogaeth ag a fyddai yn anghenrheidiol er eu galluogi i fyned rhagddynt,—mae un peth yn sicr ac anwadawdy—sef, fod mawr eisieu ysgol o'r fath, ie, a *chwisia* o'r fath, yn y Dywysogaeth, y fynydd bresennol. Fe gellid sefydlu y cyfryw ysgol, a phe byddai iddi lwyddo, dymunol iawn fyddai trefnu rhyw fesurau er cynnorthwyo y meistri'r roddi dysg i feibion gweinidogion tlodion ar delerau isel a rhad. Mae dirfawr

anghen am fath o Lewisham yn Nghymru ar gyfer plant gweinidogion yr efengyl. Mae y llanciau Cymreig ag sydd yn cael eu dwyn i fyny yn Lewisham yn costio mewn dillad, llyfrau, trafaelu yn ol ac ymlaen yn amser y gwyliau, bron gymaint i'w rhieni ag ai at hanner eu cynnal mewn ysgol yn Nghymru; ac nid i draul fach yr aeth eu rhieni wrth eu gosod yn yr ysgol. Byddai casgliad blyneddol bychan oddiwrth bob cynulleidfa, ynghyd â thanysgrifiadau isel, ond rheolaidd, yn ddigon i greu *fund* er galluogi gweinidogion tlodion i osod eu plant mewn ysgol dda heb ond y peth lleiaf o gost iddynt. Pallai amser i ni ddyweyd y cyfan sydd arnom chwant i wneyd mewn ffordd addysgiadol i wlad ein genedigiaeth. Mae yn rhyhwyr cyfodi ysgol dda a phwrpasol ar gyfer merched Cymru.

Nid oes un rhwystr ond annheimpladrwydd y Cymry eu hunain o werth addysg er lluddias ein cynllun i gael ei ddwyn oddiamgylch, a'n dysgwyliaidau mwyaf brwdfrydig a'n gobeithion uchaf gael eu cwbl gyflawni. Nid eisieu ymenydd, ond dysg, sydd ar y Cymro. Mae meddwl am yr hyn allai y Cymry fod, pe derbynient ddigon o addysg briodol a sylweddol, yn ennyn ynom awydd didor am eu dyrchafu i'r gorsafon a ddylent lanw ymhlith cenedloedd y ddaear. Yr oeddynt hwy gynt yn ddysgedig, tra nad oedd eu cymydogion, y Saeson, ond barbariaid anwareiddiedig. Gwr o Gymro, o Dyddewi, fu yn cynnorthwyo brenin y Saeson i sefydlu prifysgol Rhydychain. Bu Cymru unwaith yn llawn o sefydliadau addysgiadol. Mae yn rhaid iddi ddihuno ac ymysgwyd o'r llwch, neu ynte fyned yn ddim neu yn llai na dim ymhlith gwledydd y byd. Os nad ymdrecha i roddi addysg i'w meibion, nid oes yn eu haros ond gweini i genedl estronol fel "cymynwyr coed, ac yn wehynwyr dwfr." Eisoes mae y Sais yn turio ei mynyddoedd, ac â'u trysorau yn prynu ei dyffrnoedd. Eisoes mae y Cymry bron yn estroniaid *goddefedig* yn eu gwlad eu hunain. Ni a obeithiwn yr agorant eu llygaid mewn pryd, ac y gwnant bob ymdrech ac aberth er rhoddi addysg i'w plant; ac yna eu bai hwy fydd hi os na welir rhai o honynt yn y mân yn eistedd yn llysoedd breninoedd, ar orseddfeinciau barnwyr, ac yn nghadeiriau athrawon prifysgolion Ewrop. *Cymru a FU*: mae yn llawn bryd dyweyd, *Cymru a FYDD*.

OLYSGRIFEN.—Ein dyledswydd yw parhau i annog y Cymry i ymdrechu yn mhlaid dysgeidiaeth: ond afreidiol yw sylwi fod hyn yn waith digon torcalonus pan na byddo arwyddion fod ein llafur yn debyg o ddybenu mewn rhywbeth heblaw siarad. Yr hyn sydd eisieu bellach yw gwneyd, ac nid dyweyd. Ac nid ychydig yw ein hyfrydwech wrth ddeall fod ysgol ar y cynllun uchod i gael ei dechreu yn fuan, nid ar bapyr, ond yn wirioneddol a gweithredol, gerllaw Llanymddyfri, dan lywyddiad y Parch. James Rhys Jones, o Kilsby. Nid yw Mr. Jones yn dygwyydd perthyn i'r un blaid grefyddol a ni; ond ni chaiff unrhyw wahaniaeth o'r fath yma ein rhwystro i ddymuno ei lwyddiant, ac i roddi y ganmoliaeth wresocaf i'r anturiaeth. Gwyddom ei fod yn awr mewn sefyllfa gysurus, fod ganddo gynulleidfa barchus, a'i fod yntau yn barchus yn eu golwg: ac o'n rhan ni, nis gallwn weled pa beth a ddichon ei gymhell i ddychwelyd i Gymru, oddieithr cariad at ei wlad, ac awydd am wneyd daioni i'w gydgenedl. Mae yn amlwg nad oes dim yn fwy anghenrheidiol y dyddiau hyn nag ysgolion da i blant amaethwyr Cymreig, a hyny yn eu gwlad eu hunain. Yn awr, dyma i

ehwi gynnyg teg, Gymry mwynion. Gobeithiwn na adewch iddo fethu o ddiffig cefnogaeth. Am gymhwysderau-Mr. Jones at y gwaith, ni a fedd-
yliem nas gall fod un amhueaeth.

SIENCYN PENHYDD.

Y MAE yr enw uchod mor adnabyddus yn Morganwg ag yw haul, ser, a phlanedau : a diammhau genym fod Cymru yn gyffredin, yn enwedig yr hen bobl, yn hynod gyfarwydd â chymeriad Apostol Penhydd. Wrth fyned o Gastellnedd i'r Maesteg, ychydig tuhwnt i le a elwir Pontrhydyfen, yr ydym yn dringo gallt, ar hyd fyrdd trëog, garw, ac anhygyrch, i ben clogwyn o fynydd diffaeth ac anniwlliedig. Oddiyno canfyddir amryw fryniau a dyffrynoedd bychain, wedi ymfurfio yn debyg i ben a chyrn yr hydd; o herwydd paham, y mae yn debygol, y galwyd y tŷ, gan ein hynafiaid, yn *Benhydd*. Yn nghanol y bryniau bychain hyn, mewn ychydig o bant, y gwelir yr amaethdŷ hynafiaethol:—ei furiau isel, a'i agweddiad gostyngedig, sydd yn ymddangos fel pe byddai yn ymostwng i'r llwch, i'r dyben i roddi mantais i'r mynyddau cylchynawl i dafu eu hadenydd cysgödlawn drosto. Er cyflmed yw cyfnewidiadau amser, ac mor ddirfawr yw gwelliadau yr oesoedd, y mae hen dŷ Penhydd wedi ymgadw at ei ffurf gyntefig, wrth ychydig neu ddim cyfnewidiad er ys canrifoedd rai. Er cymaint o gyfnewidiadau sydd wedi bod ynddo o bryd i bryd, nid oes nemawr i'w weled arno.

Nid ydym yn gwybod am ddim perthynol i'r tŷ hwn amgen rhyw dai eraill yn y gymydogoeth, ond yn unig mai hwn yw lle genedigol y gwrthddrych sydd dan sylw. Y mae llawer o leoedd anenwog ddigon ynddynt eu hunain, heb fod dim lleol nac amgylchiadol i'w dyrchafu i sylw y cyffredin; ac eto yn eu perthynas â lleoedd genedigol a hanesyddol rhyw bersonau penodol, y maent yn dragywyddol gofiadwy. Cyfarfyddiad rhyfedd Jacob â Duw, a'r cyfammod fu rhyngddynt yno, a wnaeth Bethel yn hynod ar ddalenau hanesyddiaeth. Y mae hynodrydd mynyddau Moriah yn fwy yn yr amgylchiadau perthynol i aberthiad Isaac na'u cyfansoddiad naturiol. Ni bydd darfod â son am yr Aipht, Mynydd Sinai, yr anfalwch, y Môr Coch, yr Iorddonen, Canaan, mewn cysylltiad â had Abraham a goruchwyliaethau Duw tuag atynt. Y mae Bethlehem wedi cyrhaedd enwogrydd diderfyn trwy holl ymherodraethau y Goruchaf, i fyny ac i lawr, fel lle genedigol Ceidwad y byd. Bydd son byth am Fynydd Tabor mewn cysylltiad â'i bregethau, yr ardd mewn cysylltiad â'i weddiâu, a phen Calfaría mewn cysylltiad â'i angeu. Pwy fusasai yn clywed am fedd newydd Joseph o Arimathea oni buasai i Dywysog y bywyd orwedd yno? Ei esgyniad hefyd i'r nef o Bethania a geidw y lle hwnw mewn tragywyddol fri. Y mae Paul yr apostol wedi enwogi Tarsis, yn gymaint mai yno y ganwyd ef, a chanol y ffordd i Damascus i sylw yr oesoedd olynol, am mai yno yr achubwyd ef. Y mae genedigaeth Luther wedi dwyn Mansfeld i oleuni ysplenydd; y mae hen gastell Wittenberg yn denu sylw yr oesoedd, lle y bu efe yn cyfieithu yr ysgrythyrau, ac yn taflu y corn inc at ben y

cythraul, llun yr hwn, meddant, sydd ar y mur hyd heddyw. Nid oes dim gwycheder mewn modd yn y byd yn Llangeithio a Llangan, ac eto coffir hwynt byth mewn cysylltiad â gweinidogaeth danbaid Rowlands, a pher nefoleidwrwydd efenglydd Llangan. Felly, ni buasai son am Benhydd : ond gorweddasai yn ddstaw rhwng y brynau oesawl, yn anadnabyddus i bawb ymron, oddigerth y plwyf y perthyna, oni buasai taw yno y trefnodd Rhagluniaeth ddwyfol i wrthddrych ein cofiant gychwyn ar fodolaeth diddiwedd. Mor swynol ydyw yr hen annedd-dŷ i'r teithwyr Methodistiaidd ! Wrth basio, braidd y gallwn dynu ein golwg oddiarno. Ar ol myned heibio ymhell, yr ydym mewn profedigaeth i attal y ceffyl yn ei fynedfa, a thro'i ein wynebau yn ol i syllu arno o'r newydd, fel pe byddai rhywbeth ar do a muriau yr hen amaethdŷ. Nid oes dim yno : ond eto y maes yn dwyn i'n cof, gyda bywiogrwydd a theimlad rhyfeddol, holl neillduolrwydd y dyddiau gynt, y sonia ein tadau gymaint am danynt, ynghyd â chymeriadau y dynion rhyfeddol y bu Duw gyda hwynt.

Pan y cymerwn olwg adolygiadol ar bethau, er ys can' mlynedd yn ol, neu ragor, y pryd yr oedd Methodistiaeth Galffinaidd yn nghudd yn nghroth tragywyddoldeb, mewn dygn dywyllwch i bawb ond i'r Hwn sydd yn gweled y "diwedd o'r dechreuad, ac er cynt yr hyn ni wnaed eto," yr oedd tywyllwch dudew ar wyneb y dyfnder. Y Bibl ydoedd lyfr anadnabyddus ac anghyfarwydd i'r cyffredin, ac heb neb braidd yn gallu ei ddarllen pe buasai yn gyrhaeddadwy. Yr oedd un lled fawr yn mhob Eglwys plwyf, yr hwn a ystyrid yn llyfr at swyno yn fwyaf neillduol, a'r offeiriadon yn trin y gelfyddyd o swynyddiaeth. Tybid am bawb oedd wedi dysgu Lladin, y gallent drwy offerynoliaeth y Bibl wneyd â'r byd bron fel y mynont. Nid rhyfedd oedd clywed fod Mr. Jones, o'r persondŷ, wedi doddi Twm, Tŷtywareh, i sefyll ar ei ben ar dop y simnai, a phob ymdrech wedi bod yn afwyddiannus i'w gael o'r fan hono nes i'r gŵr parhodedig ddyfod â'r llyfr i'w ryddhau o'i benyd. Treulid y Sabbothau mewn chwaraeyddiaethau a difrifwch onawdol gan ieuentyd yr oes, a chyfarfyddai yr hen bobl fethedig â'u gilydd, yma ac acw, wrth eu ffyn, ac yn mhob llun, goreu y gallont, i siarad am eu campau gynt. Yr oedd chwaraeu pêl ddydd Sul, o foreu hyd yr hwyr, yn enbyn yr hen Eglwys, a'r offeiriadon hybarchus yn fynych yn cadw cyfrif rhwng y pleidiau, ac yn cael rhan o'r cŵrw ar ddiwedd y daplas am eu gwasanaeth. Wrth weled y fath agwedd ofnadwy ar Gymru, yr "ennynwyd tân" yn rhai personau, a "llefarasant â'u tafodau." Dyma y cyfnod y tafiwyd y baban Methodistiaidd allan o groth tragywyddoldeb i feusydd amaethyddol Cymru, "heb lygad yn tostaruo wrtho." Gwelodd Duw, er hyny, "ei amser yn amser serchogrwydd ; lledodd ei aden drosto, a chuddiodd ei noethni; tyngodd hefyd iddo, ac aeth i gyfammod âg ef." Pan yr oedd rhyw lais dystaw fel hyn yn dechreu swnio, a thrydar ansoniarus, fel pe byddai rhyw gornant yn sio, ac mewn ymdreohfa ddiarbed am dori allan oddi rhwng y glenydd, ar y 16eg a Fedi, 1752, y ganwyd Siencyn.

Nid oedd neb, ar a wyddom ni, yn meddwl fod Duw wedi daanfon y bachgen hwn i'r byd at un pwrpas uwch na bugeilio da a defaid ar hyd y mynyddau a'r clogwyni cymydogaethol, byw yn hen, a marw yn gyfoethog, wedi talu i bawb eu gofynion. Ond yr oedd Llywydd nef a llawr, wrth bob tebyg, wedi rhagweled pethau gwell iddo, a "phethau ynglŷn wrth iachawdwriaeth." Yn bugeilio a thrin y ddaear y bu am flyneddau, yn

hollol ddfeddwl am enaid, a byd dddarfod. Er hyzy yr oedd rhywbeth yn y boeagen hwn yn wahanol i fechgyn eraill, er yn annuwel. Tyfodd i fyay yn ddyan lled amibynol, hynod o arw ac anniwylledig. Nid oedd yn prisio am neb, mawr na bach, gwreng na boneddig; dyn na diafol; ymlaen yr ai Siencyyn drwy y tew a'r teneu. Dyn blewog, mynyddig, a Chymroaidd yr olwg arno ydoedd, ynghylch pump troedfedd a naw modfedd o byd. Oni b'zi fod y Goruchaf yn rhyfeddol yn y cwbl, buasem datr brosfedigaeth i feddwl ei fod wedi camsynied wrth ddeuwis creadur fel hwn at bwmpas mor fawr. "Cafwyd ef mewn lle anial, mewn anialwch gwag efohyll; arweiniwyd ef o amgylch, a pharodd iddo ddeall, a chadwodd ef fel canwyll ei lygad." Er mor arw ei ymddangosiad, cafordd hwn drugaredd. Ychydig yw y wybodaeth sydd ar gael yn bresennol am ddechreuad ei grŷfydd, ynghyd â'r dull y dygwyd hyay yn y blaen ar ei feddwl. Nis gwyddai ef ei hun pwy oedd y pregethwr a fu yn offeryn i'w achub. Yr oedd rhyw ddyan dweithar yn dygwydd bod yn pregethu yn y gymydeogaeth, naa gwelodd Siencyn ef gynt na chwedl yn, i'w adnabod, y pryd y dygwyd y gwarioedd adref at ei feddwl, ac y bu rhyw ymgynhyriad rhyfeddol yn holl ymherodraeth feddyliol y llanc. Yr oedd yn ymddangos fel pe buasai y bendro wedi ei gymeryd; ymddangosai yn rhyfeddol o hurt. Bryddiau eraill byddai fel tarw gwyllt mewn magl, yn rhue ac yn gwingo, fel pe byddai am dori y cadwynau, a diane o olwg dymion. Yn yr amser hwn yn oedd i'w lawer o farnau yn ei gylch, a pheth a ddeuai o hono. Byddai rhai yn tybied mai effaith gwres yr haf yn mhioethder y cymanaf diweddar oedd wedi effaithio arno; eraill yn meddwl taw anhwyldeb y cylla ydoedd, ac yn codi yn ddot i'r ymennydd; a' eraill yn golygu mai rhyw arwyddlen dechreuol o'r typhus fever ydoedd, yr hon oedd yn haddamlus yn y wlad. Yn gymaint a bod barnau yn amrywio cyntaith ynghylch y dolur, yr oedd ynt yn amrywio hefyd, wrth bob rheswm, lawr ym mair ynghylch y feddygmaeth. Mr. oedd rhai am ei waedu, etall am roi *straight jacket* am dano; a'r cyfryw oedd yn lled dybio mai rhywbeth am grŷfydd oedd arno, oedd ynt am ei dafu i eigion y môr. Bid a' fyne, nid oedd yr un feddygmaeth i'r llanc. Dolur oedd hwn; nid yn y cyffwrdd ond yn yr ysbyrd; a' ba ddolur nid oedd ond ychydig yn y wlad y pryd hwn yn deall ei natur.

Yr oedd ambelli offeiriad da yn dechreu ymddangos yr amser hwn, gan bregethu yr efengyl yn loer ac awdurdodol y rhai, wedi hyry, a' orfuant ymadael â'r eglwysiaid gwladol, a myned i'r "prif-fyrdd" o'r caeau. Un o'r cyfryw oedd y diweddan Barch. Mr. Davies, Castellnedd; yr hwn oedd yn dawol, gwresog, a dawms iawn yn ei ddydd. Ymadawodd ef â'r Eglwys Wladol, a phregethodd ymhlith y Methodistiaid hyd ddiwedd ef o'w o'w. Tra yn oedd Siencyn yn y dwymyn ddyrchrynedig a' nodwyd, efe a aeth un dydd Sul i Eglwys Mihangel i'w randaw Mr. Davies. Hwn oedd y berson bahboth bythgofiadwy y dygwyd ef trwy weinidogaeth y gwr parchedig uchod i ryfeddol oleuni yr efengyl. Fywynodd arno wawrddydd amherfynol, haal yr hwn sydd yn llawyrch yn dda'baid ar ei ben tra yn ydym ni yn agrifenu y llinellau hyn, a' Me'n'i bydd nes byth f'reddf terfyn ar ei orwycheder. Aeth blyneddau hebio yn chwyrn, heb fod rhyw swm mawr am dano widdi hyn, ac eto yf oedd rhyw hynodrwydd ynddo yn wahanol i ddynion eraill. B' weddianu cy'n hir a' ddaeth yn destun siarad y gymydeogaeth, ynghyd â'r manau y ydoedd yn arferol o gyroftu iddynt

i weddio o gylech y tŷ a'r tyddyn, hwnt ac yma. Yr oedd chwarel y tu oefn i'r tŷ, ac y mae yno eto am hyny, yr hon sydd wedi ei thragywyddol enwogi, fel ystafell neillduedig Shanco i ymgyfathrach â Duw. Clywid ef gan waith yn y maenglawdd hwn yn ymdrech lawlaw â'i Arglwydd am ddiangfa i'w enaid, ynghyd â thrin llawer o faterion eraill hefyd rhyngddo a'i Arglwydd. Pan y byddai rhywbeth pwysig ar ei feddwl, collid ef yn sydyn o blith y teulu; ac i'r chwarel yr elai. Cyn hir, pan y collid ef, yr oedd pawb wedi dyfod i ddeall yn mha le y ceid ef. O dipyn i beth fel hyn, daeth Shanco a'r chwarel yn ddiareb ymhlith y teulu. Yr oedd yr Iesu a gardd Gethsemane yn lled gyfarwydd â'u gilydd. Byddai y dysgyblion, ar ol ei golli, yn barnu yn deg am y tir y ceid gafael arno, "canyys mynych y cyrchasai efe yno." Dyfrhaodd hi â'i ddagrau lawer tro, ac anadlodd yn ei hawyr bereiddiaeth sawr na holl flodau y byd llysiuol. Yr oedd rhywbeth yn debyg yn ngweddiau Cyfryngwr y Testament Newydd yn yr ardd â gweddiau hen bechadur Penhydd yn y chwarel. Yr oedd y ddau yn hynod syml a thaer. Gweddiau heb eu bath oedd rhai yr ardd. "Efe mewn ymdrech meddwl, a weddiodd yn ddyfalach." Rhai go debyg iddynt oedd rhai y chwarel. Nid ydym yn ammheu nad oedd rhai y chwarel lawn cystal, bid a fyno, a rhai goreu y pulpud.

Adroddir am dro go ryfedd ynghylch gweddi y chwarel yn tori clun yr ŷch. Cynnelir ffair Llandaf yn wastad ar ddydd Llun, yr hyn sydd yn ei gwneyd yn dra anghyflêus i'r rhai sydd ymhell, ac yn achosi llawer o gychwyn ar y Sabboth. Yn y sefyllfa hon yr oedd brodyr Siencyn un tro, a phenderfynasant gychwyn â'r ychain ar ddydd Sul. Bu cryn ddadl ynghylch hyn rhyngddo ef a'i frodyr; yr oedd ef yn dyweyd y gallasant gychwyn ar ddydd Sadwrn, a gorphwys dros y Sabboth; ac yr oedd hyny yn eu golwg hwythau yn draul fawr; ac i arbed hyny, mynent gychwyn ar y Sabboth. "Credwch fi," ebe yntau, "y bydd mwyr o draul arnoch am dori y Sabboth a phechu yn erbyn Duw." Ond, beth bynag, i bant yr aeth Thomas ei frawd â'r ychain tua'r ffair, ac i bant yr aeth yntau tua'r chwarel, a'i galon yn llawn zel dros Dduw a'i ddydd. Y mae rhai yn dyweyd ei fod yn gweddio yno am i Dduw dori clun un o'r ychain, a'u hattal y waith hon rhag myned. Pa fodd bynag, wrth y Rhyd, heb fod ymhell isawn oddiwrth y tŷ, dyma un o'r ychain yn owympo, ac yn tori ei glun yn ddau getyn. Mor gynted ag y gwelodd Thomas yr anffawd, crochlefodd yn y fan, "Y mae Shanco yn y chwarel yn gweddio." Rhedodd adref, a chafodd fod y weddi yn y chwarel a'r ŷch yn tori ei glun ar yr un pryd.

Wedi bod fel hyn yn cydfyw â'i frodyr am beth amser, y peth rhyfeddaf erioed, swynwyd ei ysbyrd haiarnaidd gan degwch merch. Yr oedd pawb ag oedd yn gydnabyddus âg ef, pan yn ystyried ei feddwl annibynol, ei ffordd swta a diserech, yn synu yn aruthrol pa sut y meddyliodd am forwya, ac hefyd beth a allasai fod ynddo ef a ddaedai forwyn i feddwl am dano yntau. Yr oedd efe ymhell, dybygem, o fod y peth hwnw a elwir "*the ladies' man*." Ond dyna; beth wyddom ni am faterion fel hyn? Onid yw yn ddigon i bob un edrych at ei amgylchiad ei hun, a phenderfynu gyda y ddiareb Gymreig, "Nid oes yr un barcud heb farcutan?" Wedi i Siencyn gael ei daro â'r haint hon, nid oedd na byw na bywyd iddo nes rhoi terfyn disymwth i weddwod mewn "glân briodas." Merch un John Lewis, o blwyf Mihangel, oedd y ddynes a ddarfu neidio gyda Siencyn i'r byd priodasol. Aethant i Aberafon am dipyn, y lle hefyd y ganwyd mab iddynt,

Mehefin 27ain, 1786, a galwyd ei enw Thomas ; yr hwn sydd fyw yn awr, ac yn trigiannu o fewn chwech neu wyth milltir i'w gymydogoeth enedigol, mewn lle a elwir Skêr, ar làn y môr, yn amaethwr go fawr. Yr oedd ei dad yn bur hyderus y caffai y bachgen hwn ras ; a byddai yn arfer dyweyd y gwyddai efe yn ddigon da yr achubid ef. Fe ddichon ei fod ef wedi cael rhywddineb a hwylusdod mawr wrth roddi ei achos i Dduw lawer gwaith, ac yn penderfynu oddiwrth hynny fod Duw yn rhoi drws agored iddo, ac yn gwrandaw ei weddiau ar ran y llanc. Tybygem, er hynny, ei fod yn arfer gormod o eonder wrth sicrhau y peth oddiwrth y cyfryw deimladau. Yr oedd yn ddyledswydd arno ef i weddio dros ei blentyn, a gallasai Duw roi cysur a gwyneb siriol arno ef fel dyn yn cyflawni ei ddyledswydd yn onest, pa un a oedd yn meddwl achub y bachgen ai peidio. Y peth tebycaf o wrandawiad y gweddïau hynny, a fuasai gwelod y baohgen yn gweddio drosto ei hun, ac yn byw yn dduwiol. O Aberafon, lle yr aeth wedi priodi, y symudodd i dyddyn bychan a elwid y Goetre, yn mhlwyf Margam, gerllaw hen gapel (neu ysgubor yn hytrach) y Dyffryn, lle y treuliodd weddill ei oes.

Wrth drin y byd, teithio, ac ymgymysgu yn mhob sut â dynion, yr oedd yn dyfod yn fwy adnabyddus beunydd, a'i hynodrwydd yn myned yn destun siarad cyffredinol ; canys nid hynod mewn rhyw un peth ydoedd, ond yn mhob peth. Nid oedd ei edrychiad fel dyn arall. Gallasech feddwl ei fod yn wallgof ; yn cerdded mor ddihafarch a brysiog, fel petai wedi ei annos gan gŵn drwy y baw a'r llaca : ei lygaid yn ffiamio yn ei ben, ac yn edrych fel dyn am ffoi o olwg preswlyddion daear. Yr oedd, ar gefn cefyl, yn debyg ryfeddol i'r dychymyg sydd genym am *berpetual motion*, mewn gweithrediad o hyd : pwt o chwip yn ei law, yn curo beunydd a dior-phwys, a'i goesau mawrion a gwynaidd yn ysparduno yn ddibaid o'r pryd y cychwynai hyd nes y disgynai. Yr oedd ei holl agweddiad yn awgrymu fod rhyw frys annhraethol arno i fod ar ben ei daith, gyda ei fod yn cychwyn. Yr oedd yn eglur i bawb, bid a fyno, fod arno lawer mwy o frys na'r cefyl, a bod yr enaid rhesymol oedd yn marchogaeth yn llawer mwy cyflym yn ei symudiadau na greddf yr anifel ag oedd dan y baich a'r fflangellau. Yr un fath fyddai gyda rhyw orchwyl o waith ; yr ydoedd yn weithiwr digyfelyb ; gwnai gymaint a dau gweddol. Gweithiodd yn galed gyda ei dyddyn drwy ei oes, a chasglodd gryn lawer o gyfoeth. Byddai yn codi oriau o flaen pawb yn y tŷ, ac yn myned i'r ysgubor i ddyrnu ; ac yno dyrnai yn ddiarbed, fel pe buasai yn ddig wrth yr ŷd, y gwellt, a'r ewbl, nes y byddai yn chwys a tharthi i gyd. Wedi hynny, efe a elai at y "Bibl cam," fel ei gelwid, yr hwn oedd wedi camu wrth ei gadw ar ryw bethau ochrog yn yr ysgubor, a darlennai dipyn ar hwnw, ac, efallai, gweddio ; a chyn y diwedd mewn brwydr boeth â rhai o brif elynion y tywyllwch ; a chwi a glywsech swm y rhyfel weithiau ymhell. Fel hyn y byddai yn dyrnu celyn, darllen eilwaith getyn, gweddio efallai wedi hynny, nes y delai yn bryd i'r tylwyth godi : yna äi i'r tŷ, galwai ar bawb, pwtiai y tân yn dda, a gorweddai ar ei hyd ar yr aelwyd o'i flaen am ryw gymaint eilwaith. Fel hyn, medd efe, yr ydoedd yn prynu yr amser.

Nid ydys yn gwybod yn iawn pa bryd y dechreuodd bregethu ; oblegid yn y dyddiau hynny, nid oeddynt yn ymlynedig wrth un ffurf benodol, ond yn dechreu "dyweyd tipyn" o flaen hwn a hwn, wrth fyned gydag ef y Sabboth o gartref. Byddai rhai yn myned ar daith gyda rhyw bregethwr,

i ddechreu yr oedfaon, ac i fod yn wasanaethgar yn mhob peth y byddai yr anghen; y pryd y byddent yn cymeryd y cyfleusdra i esbonio y bennod, rhoi gair o gynghor, ac yn y blaen o dipyn i beth i gymeryd testun a phregethu, ac yn dyfod yn bregethwyr fel yna, yn hollol ddifwriad a damweiniol. Llauer un yn y modd hyn, wedi cychwyn i'r daith yn ddyn anghyhoedd, a ddychwelai yn bregethwr newydd o'r *mint*, er mawr syndod i'w hen gymydogion. Yr oedd yn rhywbeth fel creadigaeth—rhyw godiad buan i fodolaeth. Byddai rhai, wedi dechreu fel hyn, yn gadael y pregethu am dymmor eilwaith, ac yn cychwyn ati wed'yn yn wyneb rhyw gynhyrfiad newydd, fel y mae yn anmhosibl dywedyd y dydd o'r mis y dechreuodd llauer o honynt ar y gorchwyl o bregethu. Ond eglur yw hyn, aeth Siencyn yn bregethwr rywbyrd; canys y mae pobl yn fyw ac yn iach yn awr a'i clywsant ddegau o weithiau. Nid oes nemawr o'i ddywediadau wrth bregethu ar gael yn bresennol; ei ddywediadau personol a chyfrinachol ydynt amlaf. Yn fynych yr ydym wedi clywed yr hen bobl yn disgrifio ei ddull a'i ymddangosiad yn y pulpud, yn enwedig ar ol iddo dwymno ychydig yn y gwaith. *Coat* o frethyn llwyd ydoedd yn wisgo haf a gauaf, oerni a gwres, a siaced wlanen, neu fwmbas o wlan o waith y tŷ; het gwerth hanner coron âg ymyl anferthol o fawr iddi, rhywbeth tebyg i'r hen badellau pres a allasech eu gweled ganddynt er ys llauer dydd at hilio llaeth iddynt. Tynai ei het, bid siwr, yn mhen cetyrn wedi myned i'r pulpud, nid yn union: canys yr oedd yn dyosg ei *goat* fawr yn gyntaf. Yn nghof yr ychydig bobl ag sydd yn awr yn weddill gan anghy, a'i gwelsant ac a'i clywsant, yr ydoedd yn hen, ei wallt yn wyn, ac yn lled hir, ac yn cwmpo ar ei ysgwyddau, yn hynod dderwyddol ei ymddangosiad. Y mae y beirniaid yn meddwl na fu dafn erioed o olew gwallt ar ei ben ef, ond ei fod yn Nazaread o groth ei fam oddiwrth hyn. Ni byddai fawr o werthu ar *Macassar Oil*, pe byddai pawb fel yr hen dad Siencyn; ac yn wir, yr ydym yn coelio y byddai crib ddadrys yn ddigon yn mhob plwyf rhwng yr holl blwyfolion, pa faint bynag allai ei boblogaeth fod. Tynnu ei fysedd drwy ei wallt y byddai efe, a hyny yn gyffredin yn groes i'r grân, nes y byddai fel gwrych mochyn, yn y gwrthwyneb i gyd. Yn ngwres y foment, wrth bregethu, byddai ei ddwylaw yn ei wallt yn o aml, y mae yn debygol heb yn wybod iddo, yn ei godi yn grych i'r làn, a hwnnw yn ffwch-an mor echrydus, nes yr oedd rhyw olwg bron annaeareol arno. Buasai llauer un yn barod i benderfynu mai y gwr drwg ei hunan ydoedd, oni b'ai fod ei ben yn wyn.

Wrth yr hanes sydd genym am ei bregethau, gallwn gasglu eu bod yn gymhariaethol, a llauer o'r cymhariaethau hyny yn bur gartrefol. Dichon fod rhai yn ddigon ysgafn a chellweirus wrth eu gwrandaw, ond yr oedd ef yn eithaf difrif wrth eu dyweyd, a bod yn siwr i chwi. Yr oedd clwyd, ac y mae eto, ar gefn y mynydd rhwng Penhydd a Llangynwyd. Clwyd y Bryn-mawr y gelwir hi, yn yr hon y rhoed y bach uchaf i lawr, a'r llall tuag i fyny, i attal dynion drygionus i'w thafu oddiar y bachau. Wrth bregethu ar y cyfammod gras, dywedodd, fod y cyfammod hwnnw, "yr un peth a Chlwyd y Bryn-mawr, un bach i fyny a'r llall i lawr, fel nas gallasai Satan na neb arall ei dafu byth o'i le. Y mae un bach i fyny gyda Duw, a'r llall i lawr am ei bobl; fe saif cadarn sail Duw; yr Arglwydd a edwyn y rhai sydd eiddo ef." Wrth bregethu ar y testun, "Rhaid i ni ddal yn well ar y pethau a glywsom," yr oedd yn annog y

gwrandawyr i ddal y testun bid a fyddo, fod hwnw yn sier o fod yn bur, beth bynag am y llall. "Fe allai fod yma lawer," eb efe, "yn cwyno fod eu cof yn bur ddrwg, nas gallent gofio nemawr mewn modd yn y byd. Taw â dy gelwydd; nid ar dy gof y mae'r bai; tydi sydd yn ei lanw â phethau eraill; pethau drwg, bydol, a brwnt, fel nad oes dim lle i bethau da. Mi warantaf dy fod yn cofio yn burion am beth y gwerthaist yr hen gaseg wen yn ffair Llandaf, er ys tair neu bedair blynedd yn ol; chwech neu saith punt onidê? Iê, yn siwr: 'dyw hyny ddim wedi myned allan o'th gof eto. Yr wyt yn cofio pob peth, ond efengyl." Dygwyddodd fod yn yr oedfa hono hen wr ag oedd yn ateb i'r desgrifiad uchod, yn gymaint a'i fod wedi gwerthu caseg wen tua'r amser, ac yn agos i'r pris dywededig, yn ffair Llandaf. Ar y twyn o flaen hen gapel Dinaspowys, wedi dyfod allan o'r cwrdd, wele yr hen wr yn dechreu rhoi tafod enbydus i rai o'r crefyddwyr am ddyweyd wrth y pregethwr am dano ef a'r gaseg, gan nad oedd neb ond hwn a hwn i ddyweyd; ac mai hwy oedd y diawliaid penaf am glecs a chelwydd ag oedd yn rhodio y ddaear. Meddylwyd mai y peth goreu oedd ffoi gyntaf galleid oddiwrth effeithiau anffodus y bregeth hon, a gadael yr hen frawd i ofal rhagluniaeth ddwyfol. Wrth bregethu ar ostyngeddwydd, dywedai fod y gras hwn yn cynnyddu fel cynffon buwch, tuag i lawr o hyd, "A wyt ti yn dy adnabod dy hun?" eb efe, ryw dro ar ei bregeth. "Wel yn wir wn i ddim pa sut yr ydwyf i ddeall. Mi ddywedaf wrthyf: os na welaist dy hun cyn ddued a'r diawl, welaist ti ddim o dy hunan eto." Ni a welwn oddiwrth yr engreiffiau hyn a'r cyffelyb, ei fod ef yn hollol ddieuog o fod yn dynwared Arglwydd Chesterfield mewn dim; a phwy bynag a ddywedo hyny, y mae yn sier o fod yn dra chamsyniol. Nid oedd y gair "boneddigeiddrwydd" wedi cyrhaedd Penhydd a'r Goetre yn y dyddiau hyny; clywsom ei fod wedi dyfod hyd Abertawe ychydig cyn ymadawiad Siencyn a'r byd. Nid oedd y Cymry ddim yn addfed i'r fath bethau ychwaith; y mae Duw yn cymhwyso dynion at yr oes y maent yn byw ynndi; ac ni thâl dynion un oes ddim llawer at y llall ychwaith. Adroddir am offeiriad yn pregethu yn Llundain, yr hwn oedd yn rhy foneddigaidd i ddyweyd y gair *uffern* yn nghlyw pobl mor barchus ag oedd yn ei wrandaw. Wrth son am bechod, dywedodd, ei fod yn arwain i'r man ag yr oedd boneddigeiddrwydd yn gwahardd iddo enwi y lle. Yr ydym yn coelio yn ddilys nad oedd yr un berthynas rhwng hwn a'r hen Penhydd. Wrth edrych ar ddull llawer o'r tadau, y maent yn ymddangos i ni yn lled ryfedd; ac eto y mae yn rhaid cyfaddef fod Duw yn eu harddel a'u hamddiffyn yn anghyffredinol. Oni buasai hyny, dirmygasid hwynt fel y ffyliaid penaf yn fyw. Dyma oedd yn yr prydferthu, ac yn tmi eu ffordd yn y blaen, gan roddi taw ar elynion crefydd, a chreu arswyd ar y dynion caletaf yn eu gwydd.

Yr oedd pregethau y patriarch o Penhydd, ebe hen bobl y Dyffryn, yn cael eu cyfansoddi gan mwyaf rhwng yr olyn galch a hen gapel y Dyffryn; rhywbeth rhagor nag ergyd careg. Fel hyn yr oeddynt yn dwym o'r tân heb gael amser i oeri unwaith. Barna rhai o'r hen breswlyddion byth am y dyn nad yw yn cael ei bregeth o gyloch y mesuriaeth hyn i'r pulpu, nad yw wedi ei alw oddiuchod. Galwant Fy. Ewythr Siencyn yn dyst ar y mater yn y fynydd; a chan gauad eu dynau, a siglo eu penau mewn siddigedd, sanetaidd, penderfynant yr achos drwy ei dafu i'r llŷs hynafiaethol, ag oedd mewn grym pan eu ganwyd hwy. Gyda phob parch i

farnau yr hen dadau, y dymunem ddyweyd, fod yr amser yn cyfnewid yn chwyrn, a llawer o bethau newydd yn dyfod i'r golwg gyda hyny, fel y mae yn eglurach beunydd na ddylid bytholi unrhyw ddull na threfn nad yw o ysbrydoliaeth ddwyfol. Yr oedd Siencyn yn orael ei oes ymron; ond pe buasai yn byw hyd yn awr, y mae yn gwestiwn genym, na fuasai wedi gorfucheddu ei ddefnyddioldeb. Y mae pob peth y bywyd hwn yn symud yn fuan, i roddi lle i rywbeth mwy perffaith, nes y bydd perffeithrwydd o'r diwedd wedi llyncu y cwbl i fyny i dragywyddol sefydlogrwydd. Yr ydym yn gweled o hyd fod Duw yn hynod ddoeth, wrth newid preswylwyr y byd mor aml: oni b'ai hyny byddem ar draws ein gilydd yn mhob hewl o hyd. Y mae yr hen a'r ieuanc yn methu cytuno; ac oni b'ai gras attaliol, fel ei gelwir, yr ydym bron yn meddwl yr elai yn frwydr boeth.

Yn awr, ni a adawn y pregethu, ac a ddeuwn at brif bethau y patriarch, sef ei ddywediadau cyfrinachol a chymdeithasol. Y mae yn gofus genym glywed hen bregethwyr a gydoesodd gryn lawer âg ef, yn adrodd am y cymdeithasau rhyfeddol ag oedd yn y Dyffryn yn yr amseroedd hyny. Yr oedd Siencyn, meddant, Daniel o'r Constant, Wil y gwehydd, a Richard James, ynghyd âg amryw eraill, yn cwrdd gyda eu gilydd yn wastad. Dechreuai un o honynt adrodd rhywbeth, fe allai, o'u teimladau y diwrnod hwnw, neu sylw ar ryw ran o'r Bibl; cymerai y nesaf ato y sylw, ac yn y blaen, o un i'r llall yn ddiorphwys, fel tân gwyllt yn ffagi mewn gwellt. Y mae yn gofus genym glywed yr hen weinidog parchus, Mr. Richard James, wedi iddo heneiddio a methu gyda yr achos, yn adrodd dan wylo, fel gwlaw y cynauaf, yn rhyw ddafnau breision a ffirwythlawn ryfeddol, am hen *societies* y Dyffryn, yn amser y gwroniaid a enwyd uchod. "Yr oedd yn union," eb efe, "fel pe tafesid pel i do, a'r hen fechgyn yn dechreu twymno, a chwareu drwy eu gilydd gyda chyflymdra bachgenaidd, heb neb yn blino. Wedi iddi gael to unwaith, nid oedd yn colli amser i syrthio i'r llawr; yr oedd un neu y llall yn ei gafael hi o hyd. Byddai Wil y gwehydd yn taflu pel i do yn lled fynych, a Siencyn, â'i walt ffwch a'i lygaid eryraidd, yn codi ac yn ei tharo yn ol gyda grymusder mawr; gyda hyny, byddai yn llaw Daniel o'r Constant, yr hwn a'i gwasanaethai i bwrpas: felly, o un i un, y chwareuent, weithiau, hyd hanner nos; a'r benywod, er nad oeddynt yn dyweyd dim yno, yn curo eu dwylaw ynghyd, ac yn dybenu mewn banllefau o fawl." Fel hyn yr oedd yr hen bobl yn tyngu eu cymhariaethau oddiwrth yr hen gampau yr oeddynt wedi eu harferyd yn eu hieuentid, â'r rhai yr oedd pawb yn adnabyddus o honynt. Yn hyn yr oeddynt yn enwog ac yn ganmoladwy, canys felly y llefarwyd yr ysgrhythrau, gan eu cymhwysu yn brydferth a syml at ddealltwriaeth y gwaelaf ei amgyffredion, fel na raid i neb fod yn golledig o eisieu eu deall. Yr oedd rhyw bregethwr wedi dyweyd yn ddiweddar fod yr iachawdwriaeth yn debyg i'r *solar system*, ac yr oedd Modryb Siân, o'r Tŷ hen, mewn gofid mawr, yn methu gwybod beth oedd y *system* hōno. Yr ydoedd yn gwybod tipyn am iachawdwriaeth; ond am yr un hyny nis gwyddai hi ddim. Aeth at William o'r Felin, dyn go gall yn nghyfrif y Cwm, i ymholi ychwaneg o barth y pwnc. Cauodd William ei lygaid, rhwbiodd ei ddwyllaw, a gwnaeth wyneb echrydus o gewcog; ond wedi y cwbl, daeth allan o'i ddwfn fyfyrddod gan gyffesu fod y *systemous* hyny y tuhwnt i'w amgyffredion ef yn rhywle. Fel hyn, cuddio yr iachawdwriaeth wnawd,

yn lle ei hegluro, a pheri llawer o drafferth i'r boblach yn ddiachos. Pe buasai y duwinydd dyfnddysg yn dyweyd ei bod yn debyg i rôd y felin, a'r dwfr oedd yn ei throï, ynghyd â chant o bethau eraill ar hyd y llawr yma, buasai William, ar lan y dwfr, mor gryfed a Samson, a Siân, yn ei *bedgovan* coch, yn deall cystal a neb. Yn wir, yn hyn, bid a fyno, yr oedd yr hen dadau yn drech na'r *modern preacher* o'r hanner. O brysur, yr oedd *set* o bobl go ryfedd, fel *dynion*, ac fel dynion *duwiol*, i gael y pryd hyny yn y Dyffryn. Rhaid yw cyffesu fod llawer o gnawd a ffolineb ynglŷn â'r hen bobl dda: nid efengyl i gyd oeddynt hwythau ychwaith. Y mae tuedd mewn llawer i son am eu disynwyrdeb fel hynodrwydd crefyddol; ac am y pethau beius oedd ynddynt fel eu duwiolfrydigrwydd mwyaif. Yr ydym yn tueddu i wneyd goddefiadau mawrion am anfanteision y personau, a nodweddiad yr amserau yr oeddynt yn byw ynddynt, eto yr ydym yn rhwym o geisio gwahaniaethu rhwng cnawd ac ysbryd yn y cwbl. Byddai llawer o bethau a ganmolid y pryd hwnw, yn warthruddedig yn awr; a phe dywedid llawer o'r pethau wrth ddynion yn bresennol, a ddywedwyd y pryd hwnw, cyfrifid hyny, i'r dywedwr, yn berffaith addasrwydd i Fedlam. Ond, y mae "amser i bob peth, a phob peth yn brydferth yn ei amser." Bu amser yn Nghymru, pan nad oedd pregethu yn fawr peth, oni allai y pregethwr ganu y bregeth o'r dechreu i'r diwedd. Byddai rhai yn methu dechreu canu yr amserau hyny cyn tua chanol y ddarlith, o ganlyniad, ni chai y rhan gyntaf ond ychydig o wrandawriad; eithr pan y deuai y pregethwr yn agos i swm y llythyren G, yr oedd yr holl glustiau yn agored i swm y beroriaeth. Eithr, erbyn heddyw, nid yw hyny fawr peth gan y bobl; canys nid oes ryw lawer, ar a wyddom ni, yn *chantio* y gwasanaeth yn Nghymru yn awr; y mae yr arferiad wedi myned i gwt y garthen.

Rhaid dyweyd, fod yr oes yr oedd y Patriarch o Benhydd yn byw, yn hynod anamaethyddol, ac yn wir, nid oedd y Patriarch ei hun fawr gwell; am hyny yr oeddynt yn taro eu gilydd yn hyfryd. Yn ddiammhau genym, bu yn hynod yn ei ddydd, ac o les annhraethol i grefydd, yr hyn sydd eglur hyd y dydd hwn. Yr oedd bachgenyn ieuanc yn dyfod i'r eglwys, am y tro cyntaf, wrth yr hwn y dywedodd Siencyn, "Fy machgen i, myn Grist i dy galon; yr un man ei fod yn dy boced ag yn dy ben." Merch ieuanc, yn y Pil, oedd yn dyfod i mewn pan oedd ef yn dygwyydd bod yn bresennol. Dywedodd William Thomas wrtho mai merch Siencyn y *tiler* ydoedd. "Ho," ebe yntau, "merch Siencyn; yr wy'n nabod dy dad, y merch fach i, yn burion; y mae e wedi treio pob crefyddau sydd yn ein gwlad ni yma, ac yn ffaelu yn mhob man. Tyred ymlaen, y merch fach i, a gwrandaw fi yn dyweyd wrthyt, Cais well crefydd na chrefydd dy dad, onidê byddi gan y diawl un o'r diwarnodiau nesaf yma." Wrth un dyn, dywedodd, "Yr wyt fel yr yspwng (*sponge*), yn cymeryd y owbl i mewn. Dod di hwnw yn y dŵr, yn y cwrw, y llaeth, y bustl, neu'r gwenwyn, fe gymer ei lonaid o bob peth. Yr wyt tithau yn ddyn pob man, a phob peth; y capel, y dafarn, 'does dim gwahaniaeth beth." Yr oedd gwraig bur gyfrifol, mewn man, yn dyweyd ei theimlad crefyddol yn y cynnulliad eglwysig, ac yntau yno. Wedi tipyn o siarad ynghylch y mater, oododd Siencyn, a dywedodd wrthi, "Slwt wyt ti, slwt wyt ti: y mae ffynnon loew fel yr amber yn y cae wrth y tŷ; ond, am ei bod yn ychydig yn nes, i bwl y domen yr wyt ti yn myned, lle y mae y gwyddau a'r hwyaid a'r

moch a'r cwbl, am ddŵr i yfed, a dŵr i wneyd *tea* a phob peth." Meddwi yr ydoedd wrth hyny, fod ffynnon iachawdwr iaeth yn yr ymyl, ond fod pydwed toredig Eden ychydig yn nes ati, ac mai i hōno yr oedd hi yn ymgyrehu am fywyd. Fel ag y bydd pethau yn dygwydd yn rhyfedd weithiau, yr oedd ffynnon hyfryd iawn yn y cae o flaen tŷ y wraig foneddig, a phwll y domen wrth y cefn yn yr ymyl, a chymerodd yr holl gwbl yn naturiol; ac ymadawodd â'r eglwys o herwydd y sarhâd a roddodd yr hen ŵr blewog iddi. Yn wir, rhaid dyweyd mai cyfarchiad lled fras i wraig foneddig oedd ei galw yn *slwt* y peth cyntaf, heb un rhagymadrodd yn y byd fel yna.

Yr oedd dwy wraig, yn perthyn i'r Dyffryn, wedi dygwydd ymrafaelion yn ddychrynlyd, a myned yn dân poeth at eu gilydd, yn anmhosibl ei ddiffodd; a phob un o honynt wedi cael y cam mwyaf erioed oddiar ddwy-law y llall. Llauer llwybr a gymerwyd, o bryd i bryd, i geisio eu heddychu, ond po fwyaf y ceisid gwneyd hyny mwyaf cyndyn yr oedd y benywod yn myned, nes yr oedd yr holl le wedi terfysgu; un yn mhlaidd Siani, a'r llall o blaid Peggi, ac yn y blaen. Ar un noson, galwyd hwy eill dwy yn y blaen, i ymddyddan â hwy, ac i geisio gwneyd heddych. Yr oedd llauer yn dyweyd wrthynt, y fath beth dymunol oedd heddych yn mhob man, ac yn hynod efengylaidd yn eu hannog hwythau at hyny. Ond ofer oedd yr holl gynghorion; nid oedd dim y fath beth yn y byd a gallu eu cymmodi; yr oedd ynt yn myned i'r natur greulonaferioed, ac yn uchel adrodd y fath gam oedd pob un o honynt wedi gael oddiar law y llall. Wedi iddi fyned i'r pen hwnt fel hyn, gofynodd rhywun, "Siencyn Tomas, oes dim ar eich meddwl chwi i ddyweyd?" "Nac oes, yn gyhoeddus, am a wn i," eb efe; "ond y mae genyf air i ddyweyd wrth bob un o honynt, yn ddirgelaidd, ar eu penau eu hunain." Gyda hyny, cododd i fyny, a dywedodd, "Dewch gyda fi eich dwy i gael dyweyd wrthyhych." I bant gydag ef yr aethant am y cyntaf; ac i ben y twyn, o flaen y capel, yr awd gyda eu gilydd. "Dyna," eb efe wrthynt, "yw eich lle chwi eich dwy; y fileiniaid cleog; cerddwch i wneyd heddych, a pheidiwch a dyfod yn agos yma, nes y byddoch wedi ei wneyd hefyd;" ac i bant âg ef i'r *society*, gan gloi y drws ar ei ol. Yn mhen rhyw gymaint, dyma lais trydar ac wylo wrth y ddor, y benywod wedi gwneyd heddych, ac yn curo am ddyfod i mewn, gan addaw, cyn agor y drws, nad ymrafaelient byth ond hyny. Felly y terfynodd Siencyn y ddaid hon mewn byr amser. Hen Siân o Gwngwynai, druan, a arferai yn aml iawn gael rhyw hwyl yn yr oedfaon; nid oedd nemawr yn pasio nad oedd Siân yn cael tipyn o awel, fel y dywedent. Yr oedd Siencyn yn ammheu nad efengyl i gyd oedd yn cynhyrfu yr hen wraig, ond ei bod yn gwaeddi weithiau heb wybod am beth. Rhyw dro yr oedd ef yn pregethu, a Siân yn gwaeddi yn iawn. Yn y *society*, ar ol y bregeth, "Dywed di, dipyn, Siân," eb efe, "yr wyt ti yn cael llauer yn yr oedfaon yma, dylai fod genyt ti gryn lawer i ddyweyd wrthym." Ond rhywfodd nid oedd gan y chwaer fawr i ddyweyd wedi y cwbl. "Gwyddost ti beth," meddai, "yr wyt yn uniawn fel gâst hela Wil Herbert; y mae Wil yn gwaeddi nerth ei ben ar yr aelwyd weithiau, *Fox*, *fox*, a'r hen âst yn ymysgwyd ac yn agor fel pe b'ai yr helfa fwyaf erioed, pan nad oes yno genaw yn agos, na thraul un prfyn garw o gylch y lle. Y mae arnaf ofn, Siani, dy fod dithau yn gwaeddi heb draul yn aml. Gwaedda a fynot, os bydd traul, ond heb draul 'does dim mewn gwaedd."

Yr oedd rhyw Fari yn anferthol o ymrafaelgar, yn perthyn i'r Dyffryn; hi oedd y feistres am dafod drwg yn y rhestr tai lle yr oedd hi yn byw: ac nid oedd hi byth yn hapus heb bwt o ffrac cyn machlud haul bob pryd-nawn. Yr ydoedd yn bur hoff o'r peth a elwir yn Gwent a Morganwg, "Clwb té." Y dull y cynnelir y clybiau hyn yw, drwy ymgynnulliad o amryw o ferched Efa at eu gilydd, un yn dyfod â thê, y llall deisen, un arall âg ychydig *frandi* neu *gin* i'w roi ynddo, ar yn y blaen fel yna. Cynnelir y gymdeithas yn nhŷ un o'r aelodau, a'r gorchwyl sydd yn myned yn y blaen fwyaf, ebe hwynt wrthym ni, yw ymdrin ychydig mewn ffordd gyfeillgar a dystaw â materion y gymydogeath. Bydd y rhan fwyaf o bethau fel hyn, perthynol i bobl eraill, yn dyfod dan sylw y cyfarfod; a phob un wedi dybenu yr hanesyn yn dyweyd, "Er mwyn dyn, peidiwch a dyweyd wrth neb arall; cedwch e yn *secret*." Yr oedd Mari, deg i un, â'i llaw yn go ddwfn yn y fasnach hon, a'i thafod hefyd yn rhedeg yn gyflymach o lawer na'r *express* ar y *Great Western*. Wel, yr oedd pawb o honynt, drwyn yn nhrwyn, yn addaw gadael y cwbl yno ar eu hol, heb son am ddim byth mwych. Ond, rhywfodd, erbyn dranoeth, byddai y glec yn dechreu cerdded, hanes y clwb yn dyfod allan yn raddol, a phawb yn sibwrdd o dŷ i dŷ, fel y gallasech feddwl fod swm llawer o ddyfroedd yn eich clustiau, ac ystormydd o wynt, gwlaw, a tharanau ar ymdori. O brysor, rhyngoeh chwi a ninnau, nid oedd y gawod ddim ymhell, pan y byddai rhyw arwyddion fel hyn yn ymddangos. Byddai aml un o honynt fel hyn wedi gollwng y gath o'r cwd, a thyna lle y byddai yr holl gymydogeath yn ceisio hela hōno drwy y drain a'r dyrysni, welsoch chwi erioed siwt beth. A byddai yn dygwydd fod gan y Fari grybwyllledig gyfran helaeth yn mhob helynt. Yr un anhapusrwydd, o ganlyniad, oedd yn yr eglwys o'i phlegid. Mari oedd Fari mewn byd ac eglwys. Yr oedd Siencyn wedi ei derfysgu drwyddo lawer gwaith yn achos hon, ac yn enwedig mewn rhyw derfysg go ddiweddar a ddygwyddodd. Pa fodd bynag, ar ol y derfysg uchod, noson y cwrdd eglwysig cyntaf, dyma Mari yn taro i mewn mor dâl a neb. Cynhyrfodd Siencyn yn yr olygfa arni; cododd i fyny, cauodd ei ddwrn, tarawodd ei droed yn erbyn y llawr, a chrochlesodd, "Mari, Mari, cerdda i maes o'r *society*; y *jack* y *lantern* uffernol, gwaith arwain pawb i ddyryswech ydwyf, y ffordd y cerddi." Felly y gorfu i hon gymeryd y traed, ac i bant â hi ar hyn yna. Fel hyn y byddai efe yn gweinyddu y peth a elwir yn ddygyblaeth eglwysig yn dra aml, a hyn yn ateb y dyben lawn cystal a rhyw ffordd arall, os nid gwell yn fynych, yn yr amserau hyn.

Yr oedd gwraig dew, olygus, a lled annibynol yr olwg arni, wedi d'od i'r cyfarfod neillduol un noson, a Siencyn yntau yn pendrymu yno ar ben ei ffon. Yn mhen rhyw gymaint, cododd ei ben, ac edrychodd yn hyll yn wyneb y wraig, gan ddywedyd, "Magi, Magi! Magi o'r lle a'r lle, onite?" "Iê," ebe hithau. "Beth yr wyt ti yn fofyn yma?" "Fy lle yn y *society*," oedd yr ateb. "Dy le yn y *society*! O, ai ê? Dewch yn y blaen, hawyr," meddai, "gyda eich gilydd, a phob a *handspike*, i gael ei throï i'r pwll lifio, i edrych a ellir taro *line* arni yn rhywle." Meddyliodd y fenyw druan, ar gynhyrfiad y foment, fel yr oedd yn ddigon naturiol, eu bod ar fedr ei lifio yn blanciau at rhyw bwrpas; ond yn ngwyneb ail ystyried, yr oedd yn beth amlwg nad oedd cnawd ac esgyrn ddim yn rhyw ddefnydd cymhwys yn y byd i'r seiri. Eto wrth siarad yn y blaen, daethant i ddeall

eu gilydd yn well tua'r diwedd. Er fod llawer o bethau cyrnig, annoeth hefyd, yn fynych yn ei ddull, eto yr oeddynt yn y cyffredin yn effeithio lleshad. Yr oedd pethau yn gweddu iddo ef, na fuasai gwiw i neb arall eu cynnyg.

Y mae yn amlwg fod ynddo ofal mawr am iachawdwriaeth dynion. Byddai yn hel ar ol y bobl wedi bod yn ymddyddan â hwy, yn enwedig mewn ffordd geryddol, i edrych pa effaith gafodd yr ymddyddanion ar eu meddyliau, ac i geisio eu hachub yn mhob medd rhag syrthio i ddyrswch ac annybdod. Yr oedd yn dygwydd, un tro, bod un o'r cyfeillion wedi llithro i ryw fai, a Siencyn ac eraill yn ei geryddu yn yr eglwys. Beth bynag, nid oedd y brawd ddim yn eithaf ystwyth, ac yr oedd yn ymddangos fel pe na buasai y cerydd yn felus, a'r brodyr hwythau yn golechi arno hyd y gallent, ac yn ceisio cael ganddo lyneu y pelenau bron o'i an-fodd. Fel yna yr ymadawsant o'r diwedd, heb wybod yn y byd beth a ddeuai o'r brawd claf, yn gymaint nad oedd dim argoel, hyd yn hyn, am un effaith ddymunol. Boreu dranoeth, yn blygeiniol iawn, dyma Siencyn yn cymeryd ei lawffon—rhyw bastwn cam, garw, ydoedd, tebyg iawn i'r dyn—ac i bant âg ef yn groes i'r perthi a'r caeau, yn chwys ac yn darth bob tipyn bach, ac yn edrych fel llew rhuadwy. Canfyddodd rhai o'r cymydogion ef yn rhedeg ar firwst, a meddylasant ei fod yn ymofyn y meddyg at un o'r teulu, neu rywbeth, ac yr oeddynt yn gwaeddi, un yn awr, a'r llall yn y man, ar ei waith yn pasio y tai, "Siencyn Tomos, a oes rhywbeth y mater?" "Un o frodyr y Dyffryn," ebe yntau, "sydd yn glaf; buom yn rhoi pills iddo neithiwr, ac yr wyf yn myned i edrych a ydynt wedi gweithio ai peidio; os nad ydynt, yr wyf yn ofni ei fod wedi marw; y mae *all over* arno:" a ffordd âg ef, â'i anadl yn ei ddwrn, yn y blaen. Yr oedd y bobl yn hanner gwylltio o eisieu gwybod pwy oedd yn nhagfa marwolaeth yn y gymydogiaeth; a thyna lle yr oeddynt yn edrych ar eu gilydd, yn plethu dwylaw, ac yn holi pob un oedd yn myned heibio, os gwyddent hwy. Ond, wele Siencyn yn cyrhaedd tŷ y brawd, a'i gyfarchiad cyntaf oedd, "Ai byw hwn a hwn heddyw?" Cafodd fod y cyfaill yn fyw, ond yn glaf iawn: yr oedd y pelenau, fel y dywedai yntau, yn gweithio, ac yn peri poen dirfawr. Wedi gweled fod y moddion wedi effeithio yn dda, gweinyddodd Doctor Penhydd ryw botel mwy cysurol a chyfnerthol, a gwell-iodd y brawd yn dda iawn. Dyna lle yr oedd Siencyn yn canu y fuddygoliaeth ar bechod wrth ddychwelyd; "Ni a ennillasom ein brawd; cadwasom enaid rhag angu, a chuddiasom liaws o bechodau."

Yr ydoedd yn cadw cyrddau eglwysig lle bynag y byddai: ac nid oedd y bobl yn ymddangos eu bod wedi ei fwynhau yn gyflawn, heb iddo gadw *society* gyda hwynt. Meddylid hefyd ei fod yn adnabod dyn drwyddo wrth ei weled, a siarad âg ef yohydig. Y mae yn ddiammhau ei fod yn llygadgraff a synwyrlym iawn; yn treiddio cryn lawer i gymeriad y natur ddynol. Ond tebyg iawn fod y bobl yn myned yn rhy bell ynghylch ei wybodaeth yn yr ystyr yna, canys priodolent iddo y peth nesaf at anfael-edigrwydd. Ar y cwbl, yr oedd ei amcan yn bur gywir, ac nid yn aml y camsyniai o'r nód. Yr oedd rhyw fachgen ieuanc yn dyfod i'r gymdeithas mewn man lle yr oedd Siencyn yn bresennol fel gŵr dyeithr ar ei daith. Wedi ymddyddan cryn lawer â'r llane yn ol ac ymlaen, cododd Siencyn Tomos yn hynod ysgapwrth, a dywedodd wrtho, "Barcut wyt ti, barcut wyt ti, yn ymofyn rhyw ysglyfaeth; a phan y csi di hyny, eymeri aden,

a bant â thi oddiyma i rywle." Trôdd y peth allan yn hollol fel y dywedodd, er na wyddai efe nabod y bachgen o ddynion y byd, na chlywed erioed am ei hanes, cyn y foment hōno. Yr oedd merch berthynol i'r eglwys yn ngolwg y gŵr ieuano; wedi iddo gael gafael ar hōno, a phriodi, gadawodd y grefydd i arall. Mewn cyfarfod misol, yn Castellnedd, hyd yr ydym yn cofio, yr oeddid yn ymddyddan â brawd lled anghyson gyda'i grefydd; weithiau yn bob peth, a phrydiau eraill yn ddim. Dywedodd hwn a'r llall lawer wrtho, ac am gryn amser, heb fod dim neillduol yn tycio. O'r diwedd, gofynwyd i'r patriarch o Benhydd, a oedd dim ar ei feddwl ef. "Na wn i, yn siwr," ebe yntau, "beth sydd i ddyweyd yn y byd wrtho. Mi ddywedaf i chwi beth," eb efe, o'r diwedd, "y mae yn y factory wla'n offeryn echrydus o ddanneddog, y maent yn galw *devil* arno. Y mae yn chwalu y gwla'n yn ysgarthion, a'i chwilfrio yn llaprau oddiwrth ei gilydd, i'r dyben o'i weithio o newydd yn rhyw ffurf newydd. A wyddoch chwi, y mae yn rhaid doddi y brawd hwn rhwng dannedd y diawl, ei ladd wrth odre Sinai, ei falu yn ysgarthion, a'i dynu gymmal oddiwrth gymmal; nid oes dim sut beth a'i adgyweirio; rhaid ei wneyd i gyd o'r newydd." Yr unig beth a allwn ni ei roddi ar bapyr yw y geiriau; y mae yr effeithiau yn dianc arnom. Dywedir fod yr effeithiau yn anghymharol yn y cyfarfod, ac iddynt barhau ar y brawd yr oeddid yn ymddyddan âg ef hyd y bedd.

Byddai Siencyn a Satan yn cwmpo i maes yn bur aml; weithiau yn yr ysgubor, y caeau, wrth gerdded yr heol, ac yn fynych ar gefn y ceffyl. Clywid ef o getyn o ffordd mewn ffræ dychrynllud â rhyw un, ac â'r tafod casaf, mwyaf bawlyd a brwt, ag oedd bosibl ddychymygu. Galwai ryw un yn *rascal*, *scoundrel*, y bredych, y twyllwr, y lleidr, ac felly yn y blaen. Byddai pobl ddyeithr a ddygwyddai ei glywed mewn syndod, ond y lleill oedd yn bur gyfarwydd â'i arferion. Yr oedd yr hen frawd yn bwrw pob bai ar gefn y diafol, pa un a oedd yn ei haeddu ai peidio. Pan y byddai rhyw demtasiwn yn dyfod i'w feddwl o rywle, byddai y ffon i fyny yn erbyn Satan yn y fynydd, ac yntau yn ceisio cynllunio rhyw lwybrau i ymddial arno am ei boeni. Yr oedd yn myned unwaith at gyhoeddiad, ac yr oedd y ceffyl oedd ganddo y pryd hyny yn dygwydd bod yn go deneu, fel y bydd ceffylau pregethwyr yn gyffredin. Yr oedd yn myned heibio hen chwarel, ac yno saethodd profedigaeth oddiwrth ddiabol, medd efe, yn ei gymhell i dafu yr hen geffyl i mewn i'r chwarel, i dori ei wddf, a dyweyd mai *slipo* a wnaeth wrth fyned heibio: "Cei geffyl newydd gan dy frodyr, pan glywiant am yr anhap; y maent yn ddigon abl." Bu meddwl y patriarch mewn dirfawr boenau yn y brofedigaeth ddyeithr hon; ond trwy ras attaliol, gorohfygodd y brofedigaeth, a dangodd yr anifel â'i einioes yn ysglyfaeth heibio y pyllau a'r chwarelau. Wedi i'r ystorm fyned heibio, yr ydoedd yn methu deall beth i wneyd mewn ffordd o ymddial ar ddiabol. Safodd gryn tipyn, ac ystyriodd. Daeth yn sydyn idd ei gof fod gwylmabsant yn y gymydogoeth, lle yr ymgynnullai yr holl wlad i yfed a dawnsio am nosweithiau cyfain. Yr oedd yn tynu yn hwyr y pryd hyn, ond taag yno fe aeth. Wedi nesu at y tŷ, clywai yr holl le yn gynghanedd a dawnsio. Galwodd wrth y tŷ, a daeth yr hen dafarnwr allan; gofynodd iddo am le i ddodi ei geffyl yn yr ystabl, ond nid oedd dim lle iddo gan geffylau y meibiantwyr. Edrychodd Siencyn ar y tafarnwr, yn ofnadwy o lewaidd, a gofynodd, "A oes *license* genyt ar dy dŷ?" "Oes,"

oedd yr ateb. "Dod fy ngheffyl i mewn, ya y fyayd, onite mi dy dacl di." Cafodd y tafarnwr beth braw ac arswyd, a thrôdd rai o geffylau y meibantwyr allan i gael lle. Wedi hyny, aethant ill dau tua'r tŷ, y pryd y clywai yr hen apostol y llamddawnsio mwyaf arswydlaun uwch ei ben ar y llofft, nes oedd y lle yn crynellu bob tipyn. Tynodd ei het, a thrôdd ei glust i fyny at y swm, rywbeth tebyg fel y gwelsoch hwyad ar y taranau; tynodd ei fysedd drwy ei wallt, ac edrychodd yn annaeinol ar y tafarnwr, yr hwn oedd mewn peth arswyd eisoes, a gofynodd, "A ydyw y diawl gyda thi yn y tŷ yma?" "O! nac ydyw, syr, dawns sydd yma." "Dawns, ai ê? dawns! O, wel, cânt ddawnsio ar eu penau yn y pwll yna yn fuan!" Rhedodd y tafarnwr i fyny i'r llofft mewn braw a dychryn, a dywedodd fod consurwr yn y tŷ, ac y byddai rhyw ddyrgfyd mawr yn syrthio yn fuan. "Y mae y dyn hysbys sydd ar y llawr wedi dyweyd y byddwch yn sefyll ar eich penau yn y pwll, oddieithr i chwi ymadael yn fuan. Ffowch, a gwnewch y goreu o'ch traed." Gyda hyn, dyma rai o'r merched yn dechreu ysgrechian, a'r dyrysawch mwyaf yn syrthio ymhlith byddin y diafol, pob un yn ffoi megys am ei einioes i'w gartref; a llawer o honynt yn dyweyd eu bod yn gweled rhyw anghenflod echrhydus yn rhedeg yn gyfochrog â hwynt bob cam. Wedi dianc o honynt drwy ddrws y cefn, daeth y tafarnwr i'r gegin at Siencyn, yn bur ddychrynedig. "Wel," ebe yr hen Benhydd, "a oes bara a chaws genyt yn y tŷ?" "Oes," oedd yr ateb. "Dere âg ef i'r bwrdd yma. Yn awr," eb efe wrth y tafarnwr, "rhaid i ti ofyn bendith arno." "Myfi, syr—nis gofynais i fendith erioed." "Gofynaist ti fendith erioed! y filain, beth yw dy oedran di?" Hyn a hyn. "Ac heb ofyn bendith ar dy fwyd eto! Pa bryd yr wyt ti ar fedr dechreu? Y dyn," meddai, gan edrych yn ei lygaid fel llew, "rhaid i ti ofyn bendith y foment hon." Y dyn, yn ddychrynedig, a waeddodd, "O Dduw, beth a wnaf?" "Dyna," ebe Siencyn, "efallai y gwna hyn yna y tro yn awr; gofyn di yn fynych i Dduw beth a wnei, ac fe a ddywed wrthyti, fe allai, o'r diwedd." Aeth i weddi ei hun wedi'n, gan ddiolch i Dduw am y gonowest ar ddiabol, ar ei dir ei hun. "Ha, ha," eb efe wrth fyned adref, "mi dy ffitiais di, Satan; ennillaist ti fawr yn mhrofedigweth yr hen geffyl."

Yn Morganwg, yn enwedig yn y dosbarthiadau gweithfaol, yr oedd y bobl yn gyffredin yn cadw y peth a alwant "Cwrw bach." Rhywun ya gwneyd awr yn ei dŷ oedd hyny, er mwyn gwneyd rhyw swm i fyny gogyfer a'r rhent, neu wedi amser gwasgedig mewn cystudd, &c. Yr oedd hyn wedi myned yn arferiad gyffredinol bron gan bawb, ac yn hynod o lygredig. Yr oedd-ynt yn myned yno i wneyd lles i'r teulu, ac o ganlyniad, tybiai pawb mai eu dyledswydd oedd yfed oymaint ag oedd yn bosibl: a'r hwn a dreuliai fwyaf o arian a gyfrifid yn fwyaf anrhydeddus ar yr amgylchiad. Mewn rhan arall o'r tŷ, byddai rhyw bymtheg neu ugain o'r rhywogaeth deg yn ymddifyru gyda y clwb tê, er dangos eu serchogrwydd a'u cydymdeimlad hwythau â'r teulu adfydus. Yr oedd y fan hon, fel yr awgrymwyd o'r blaen, yn llys anhyfryd iawn i neb gael trin ei achos, yn bersonol, teuluol, neu amgylchiadol. Beth bynag yn y byd oedd yr *Inquisition*, a'r *Star Chamber*, nid oedd sefyll ger eu bron hwy yn rhyw lawer mwy annymunol na syrthio rhwng pymtheg neu ugain o dafodau menywod y pryd y byddai un neu'r llall yn eich blingo o hyd. Byddai rhai o newyddiaduron y glec yn dyfod allan â hanes y cyfarfod dranoeth, yn foreu, fel yr ydoedd, yn

trof yn drybylog tua'r Constant yn dra aml : ac nid oedd dim posibl deall ar rai amserau, dan ba graig y gallech gael cysgod "rhag cynhen tafodau." Dygwyddodd un noson, pan oedd Siencyn yn pasio rhyw dŷ, fod yno "gwrw bach;" a chlywai orchwylion y cwrdd gwlyb yn myned yn y blaen yn dra hwylus. Meddyliodd ynddo ei hun beth a wnai. Safodd, a meddyliodd, "Shwt y gallaf roddi ergyd ar ben y bwystfil?" Yr oedd rhywbeth yn dyweyd o'i fewn, "Cerdd i mewn, Shanco." I mewn fe aeth o'r diwedd, idd eu canol hwynt; tynodd ei het, ac edrychodd o'i amgylch, nes oedd sylw y cyfarfod yn hollol arno. Yna dywedodd wrthynt, "Byddwch yn uffern bob siol, cyn pen fawr amser, wrth ei dilyn hi yn y blaen fel hyn." Yr oedd y bobl wedi arswydo, a chwant ffoi pe medrent; ac i'r rhan fwyaf o honynt yr ydoedd Siencyn yn berffaith adnabyddus. Yn nghanol y cwbl, dyma efe yn dywedyd, "Gweddiwn." I weddi fe aeth, gan weddio gyda y fath nerth anorchfygol, nes oedd pawb bron yn efrydd yn y lle. Bid a fyno, cawsant nerth i fyned oddiyno i gyd cyn i'r weddi ddarfod, canys nid oedd yno neb ond ei hunan pan gododd oddiar ei liniau. Fel hyn y torwyd i fyny y rhialtwch yma. Yr oedd Satan yn gorfod ffoi yn annhrefnus o flaen eadfridog Penhydd. Ennilodd lawer buddygoliaeth ar ddiabol mewn ffordd go ryfedd cyn hyn, a diammhau genyf iddo golli rhai hefyd. Yr ydoedd, fel y nodwyd o'r blaen, yn foreuwr mawr; byddai yn codi o flaen pawb yn wastad, yn enwedig yn yr haf wrth drin y braenarau a chalchu. Byddai y cert a'r ceffylau wrth yr odyng galch oriau cyn bod y calchwyr na neb yno; byddai wedi llanw, fe allai, a dyfod eilwaith erbyn bod y bobl yn dechreu ymgysgu yn gyffredin tuag yno. Prynu calch wrth fesur yr oeddynt wrth yr odyng; y cert yn cynnwys hyn a hyn o fesur. Beth bynag; ryw foreu, yr oedd yn llanw y cert wrtho ei hun, heb neb gerllaw, pawb yn gorwedd yn dawel o "dan rwymanu adferedigol natur—cwsag peraroglaidd," ac ymddangosiad Phœbus heb ddadblygu mantellau y nos, a'i roddi i gadw hyd dywyllwch nosawl eilwaith; y pryd hyny yr oedd Siencyn mewn ymdrech dirfawr â diafol yn mhíben yr odyng. Yr oedd llu satanaidd, medd efe, yn ymosod yn ddiarbed arno, gan ei demtio i lanw hyd y daliai y cert, i gael ennill ychydig yn y mesur. Yr oedd yntau yn ymdrech yn erbyn y brofedigaeth, gan hōni mai lladrad oedd hyny, a bron yn rhy wan. "Na," ebe Satan, "'does dim eisieu ei alw yn lladrad, ond yn 'fesur go dda.'" Llanwodd y cert; ond rhag fod mwy nag arferol, penderfynodd fyned i ben y gertwyn a thafu peth o hono i lawr, fel y byddai yn sicr o fod llai yn hytrach na mesur. Hyn a wnaeth, ac i bant âg ef. Wedi myned i ben y rhiw, rhwng yr odyng a'r cae, attaliodd y wêdd, rhoddodd gareg o dan yr olwyn yn daclus, i'r ceffylau gael gorphwys, ac i weddi fe aeth. Yn mhen ychydig, gwelid ef ar ben y bryn yn troi ei het oddeutu ei ben, ac yn gwaeddi "Buddygoliaeth, buddygoliaeth! concwest ar holl allu y tywyllwch! Haleluia! Yr wyf yn gallu pob peth, trwy Grist, yr hwn sydd yn fy nerthu." Wedi hyny i bant âg ef eilwaith at y ceffylau a'r calch.

Ryw dro, yr oedd gwas cymydoges iddo yn myned âg ychain i ffair Castellnedd dros ei feistres, a phenderfynodd yntau i anfon rhai hefyd, ac aethant gyda'u gilydd tua'r ffair. Yn rhywle tua hanner y ffordd, dechreuodd Siencyn bendrymu ac oeheneidio, gan ymddangos yn brudd iawn; ond cyn i'r dyn gael amser i ofyn dim iddo, gwelodd ef yn troi pen y ceffyl yn ol, yn rhoi y chwip a'r yspardyn iddo, gan waeddi, "Gwna y goreu o dy

fferdd, ac o'r ychain, Wil; dyma fi yn ffoi o swm y byd." Galwodd hwnw ar ei ol, gan ddywedyd, "Yn enw dyn beth yw'r mater arnoch? i ba le yr 'yoh ch'i yn myn'd?" "Y mae digon y mater fachgen; y mae ffair Castell-nedd wedi llanw nghalon cyn fy mod hanner y ffordd yno; a beth fydd fy hynt ar ol myn'd iddo?" A chan ysparduno a chwipio, i bant fe aeth fel dyn gwyllt, gan adael rhwng rhagluniaseth a phob canlyniad. Yr oedd yn ddigon o bregeth, ebe hwynt wrthym ni, i weled Siencyn yn marchogaeth. Byddai ar led i gyd, yn ymysgwyd a chicio fel pe buasai am fyned o flaen y cefyl a'i adael filltir neu ddwy ar ol cyn diwedd yr yrfa. Yn yr agwedd hon un diwrnod, yn brysio at ei gyhoeddiad, y cyfarfyddai â'r boneddwr oedd yn olygwr ar y lle yr ydoedd yn byw. Cyfarchodd y boneddwr ef, "Yn enw dyn, Siencyn, ble'r 'ych chwi yn myn'd, gan yru mor ddychrynllyd." "Ah!" ebe yntau, "pe gwelit ti y cebustr damniol yna sydd am dy wddwg, ti yrit dy hun i rywle am dy fywyd." Cyfarchiad go ryfedd i ŵr boneddig, onidê; eto, oddiwrth Siencyn yr ydoedd yn pasio yn ddiberygl; eithr nid gwiw oedd i neb arall fyned yn y blaen fel yna. Yr oedd mor hawdd i'r Ethiop newid ei groen, a'r lleopard ei frychni, ag oedd ysgeru Siencyn a'i hynodrwydd oddiwrth eu gilydd. Y gwir yw, pe buasai bosibl gwneyd hyny, nid Siencyn Benhydd mohono mwyach.

Heb fod ymhell oddiwrth y fan yr ydoedd yn byw, y mae lle a elwir Taibach Aberafon; man pur enwog am weithfaoedd copr. Mewn cysylltiad â'r gwaith uchod, yr ydoedd wedi myned yn dra helbulus rhwng y meistriaid a'r gweithwyr. Y diweddaf yn ymofyn ychwaneg o bris, a'r cyntaf yn nacâu hyny. Safodd y gweithwyr allan. O'r diwedd cymerwyd gafael ar rai o honynt gan y golygwyr, i'w gwneuthur yn esiampl, am esgeuluso y ffwrneisiau, a thrwy hyny achosi colledion dirfawr i'r perchennogion. Carcharwyd un yn Abertawe, ac yn y diwedd trosglwyddwyd ef i'r *press-gang*, y rhai oedd yn y dref yr amser hono. Yr oedd pawb drwy y gymydogiaeth yn trydar yn drwm am dynged y bachgen, wrth feddwl fod y fath ganlyniad wedi dygwydd ag i beri iddo ymadael â'i wlad. Erbyn hyn yr oedd pawb yn dechreu edrych yn brysur ar yr amgylchiad, a cheisio dyfeisio beth oedd idd ei wneyd. Llauer o'r bobl fawrion a ddanfonasant ac a ddaethant at y gwr boneddig i ddymuno arno adael i'r llanc ddyfod yn rhydd, gan fod ar ei law ef i wneyd hyny. Er yr holl ymdrech i gyd, methwyd a chael un tro yn y byd arno; yr ydoedd yn parhau yn ei gyn-ddeiriogrwydd yn ddiymmod. Wrth weled pob peth fel hyn yn methu tycio, a'r amser yn agosáu i'w ddanfon ymaith, yr oedd y perthynasau bron yn ymdori gan ofid, ac yn wir, y cymydogion yn lled drybylog. O'r diwedd, cafodd rhai ar eu meddyliau i fyned at Siencyn Tomas, i'r Goetre, i ddeisyf arno ef, yn enw pob daioni, fyned at y gwr boneddig yn achos y bachgen. O brysur, dacw y patriarch yn ufuddhsu i fyned yn bur ddi-orchest. Yr oedd y boneddwr ac yntau yn eithaf adnabyddus â'u gilydd, ac yn byw yn lled gymydogol. Dacw ef yn myned, boed a fyddo, tuaŷ yno ar ffrwst, â ffon hir fawr yn ei law, yn ddigon o ddwy, ac yntau yn cydio yn rhywle tua'i chanol. Dychymygwn ein bod yn ei weled y mynyd hwn yn chwythu a thynffaglu ar draws y caeau, yn wyllt a hanner call yr olwg arno. Wele ef wrth ddrws y tŷ yn curo yn ddiarbed. Agorwyd, a chafodd y boneddwr yn y tŷ. Tynodd ei het, gwasgodd hi yn deisen dan ei gesail, a chyda'r ffon yn y llaw arall, a'i walt fel blew gafr yn y gwrthwyneb i gyd, yn yr agwedd hono i mewn i'r parlaur fe aeth, gan sefyll fel post ar ganol

y parth, ei lygaid yn serenu yn ei ben, a'i holl ddullwedd yn arwyddo fel pe mai dyn ydoedd wedi dianc y boreu hwnw o'r gwallgofdy, ac heb wybod pa le i fyned nesaf am gysgod. Gyda hyn, tarawodd y llawffon yn erbyn y llawr, gwasgodd yr hen het gyda yr ysgydwad, a dywedodd wrth y boneddwr synedig, "Yr wyt ti wedi ei gwneyd hi yn daclus o'r diwedd; danfon bachgen cymydog o wlad ei enedigaeth. Beth yw dy feddwl di? Ni ymedy y cleddyf â dy dŷ di byth; fel y gwnaethost y gwneir i tithau, a bod yn siwr i ti hefyd." Yn rhagluniaethol i bregeth y patriarch, erbyn ei fod yn darfod yr ystori, dyna rywun yn cwmpo o'r llofft, dros y grisiau, i lawr i'r gwaelod fel taranau; gyda hyny yr oedd y forwyn yn gwaeddi, "Och fi! y mae y plentyn wedi cwmpo a thori ei wddwg!" Gellweh feddwl erbyn hyn fod y tŷ yn derfysg drwyddo draw, ac yn benbleth i gyd, a phawb yn rhedeg ar draws eu gilydd at odre y grisiau. Ond, cafwyd fod y plentyn wedi ymdaro yn well na'r dyagwyliad. "Wel," ebe Siencyn, wedi i'r mwstwrff ddechreu ymdawelu, "'dyw hyna ond cychwyn ar ofdiau o fewn y tŷ hwn, os na ddanfoni am y bachgen adref." A thyna Siencyn i bant gyda'i ergyd, heb ddyweyd, Dydd da i chwi, na dim yn y byd. Y boneddwr mewn braw a redodd ar ei ol, gan waeddi, "Siencyn, fe gaiff ddyfod adref, beth bynag fo yn y byd." Felly y bu; danfonwyd yn union am dano adref er costio cryn dipyn i'w gael yn rhydd. Ni a welwn fod hynodrydd Siencyn Tomas, a choelgrefydd yr oes, yn cyfarfod â'u gilydd, nes effeitholi yn hynod yr amgylchiadau hyn.

Y mae yn ymddangos taw dyn meddylgar iawn ydoedd yn ei ffordd; byddai bob amser fel yn suddedig mewn dwfn astudiaeth. Pa un ai marchogaeth, cerdded, neu yn gwneyd rhyw orchwyl y byddai, nid oedd yn siarad ond ychydig, eto yr oedd yn ymddangos fel pe byddai ar goll mewn meddylgarwch. Adroddir am dano yn teithio o oedfa i oedfa, un Sabboth, gyda dyn ieuanc yn y weinidogaeth, yr hwn a arferai fod gydag ef rai gweithiau; tua hanner y ffordd yr oedd y cwbl wedi myned yn ddystaw rhyngddynt, ac yntau fel pe buasai wedi myned i golli mewn dwys fyfyrdod. Yn sydyn, heb un rhagymadrodd, gwaeddodd allan, "Bu farw Phil." "Phil! pwy Phil yr ydych yn feddwl, Siencyn Tomas?" ebe y cyfaill. "Y bachgen hurt!" ebe yntau, "ond Philip Morgan, o'r lle a'r lle." "O, do yn wir," medd y cyfaill, "mi glywais." "Wel," ebe yntau, "fe ddiangodd byth, mi goeliat. Do, fe ddiangodd; ond nid o herwydd ei fod yn bert mwy na thi a minnau. Eithr efe a wyddai beth oedd ffaelu a byw yn y fan draw, a'i symud i'r fan hyn; dyna fu am ei fywyd ef." Gyda hyny, gwaeddodd yn groch allan, "O am fyned trwodd o farwolaeth i fywyd!" Nid oes dim yn eglurach na'i fod mewn ymdrafodaeth cyson â chrefydd, ac â byd didranc. Pan y disgynai rhywbeth cryf ar ei feddwl yn moddion gras, byddai yr olwg yn ofnadwy arno, gan waeddi a rhuo nes yr oedd yr holl le yn crynu ger ei fron. Un anghraifft o lawer a gawn goffa yn bresennol. Yr oedd cyfarfod yn y Dyffryn, nis gwyddom yn iawn pwy oedd yn dygwydd bod yn pregethu; bid a fyno, yr oedd effeithiau anarferol yn disgyn ar y bobl. Arferai Siencyn eistedd mewn eisteddle y naill ochr i'r pulpud yn hen gapel y Dyffryn. Yr oedd y gair yn effeithio arno nes yr oedd yn ymdroi, yn ymdrafod, ac yn ysgwyddo; crafai ei ben nes yr oedd ei wallt gwyn yn fflwesynt annyben, a'i lygaid yn danlyd yr olwg aranynt. Gyda hyny, daew ef yn neidio dros y *seaf* i ganol y dynion, gan waeddi yn ddiarbed, "Satan, cymer fi yn awr; dywedaist ganwaith mai ti fuasai fy

mherchen; dere yn awr, cymer fi heddyw, y diafl, os beiddi. Halelulia! Ni chei di ddim o honof byth. 'Duw yw yr hwn sydd yn cyflawnhau; pwy yw hwn sydd yn damnio? Y mae yn ddiogel genyf na all nac angeu, nac einioes, &c. fy ngwahanu i oddiwrth gariad Duw, yr hwn sydd yn Nghrist Iesu fy Arglwydd.'

Hyd yn hyn, nid ydym wedi dyweyd nemawr am ei ddywediadau mewn cyfarfodydd misol a chymdeithasfaoedd, yn y rhai y cymhellid ef yn fynych i lefaru. Yr ydoedd yn ffyddlawn iawn mewn teithio i'r cyfryw gyfarfodydd, a byddai o fendith fawr ynddynt yn gyffredin. Nid oeddynt y pryd hyny ond bychain iawn; ychydig o bregethwyr, a rhai offeiriad, yn ymuno â'u gilydd i geisio dwyn achos crefyddol yn y blaen mewn dull mwy perffaith, yn eu tyb hwy, nag oedd yn Nghymru yr amser hwnw. Yn eu cyfarfodydd yr oeddynt yn dra effeithiol yn aml; cyfarfyddent yn Ysbryd yr Arglwydd, yn llawn tân nefol o gariad at eu gilydd, ac at eneidiau dynion. Yr oedd y peth nesaf i fod yn anmhosibl i'r cythraul ddodi ei fys i mewn rhyngddynt heb ei losgi, gan mor gysylltiedig oeddynt â'u gilydd. Yr oedd rhyw undeb sanctaidd yn cael ei fagu yn y teimladau hyn, fel yr oeddynt yn siarad â'u gilydd fel plant wedi eu magu ar yr un aelwyd: ac wrth eu gilydd y siaradent, nid y tu cefn i'w gilydd. Cyfrifid Siencyn yn gampus yn yr ymddyddanion hyn, gan ei fod yn wrol i ddyweyd ei feddwl, ac yn ddiuedd yn ei holl ymwneyd â dynion. Mewn cyfarfod o'r fath yma, yr oeddynt yn siarad â dyn ieuanc yn y weinidogaeth, yr hwn oedd yn lled anystwyth, a phur falch ei ymddangosiad. Yr oedd hwn a'r llall yn dyweyd amryw o gynghorion wrtho, ond nid oedd yn debyg ei fod yn ymgymeryd yn wych â hwynt. Yr oedd fel llawer, mae'n debyg; yn tybied mai ffyliaid gan mwyaf oedd yr hen bobl, a'i fod ef yn gwybod ei hun fwy na hwynt oll gyda eu gilydd. "Siencyn Tomos," ebe ryw un, "a oes gyda chwi ddim i ddyweyd?" "Mi ddywedaf i chwi," meddai; "rhaid i chwi dynu y gwalch drwy y simnai, cyn y gwnewch ddim byth âg ef." Yr ydoedd yn dyweyd wrth rhyw ddyn ieuanc oedd yn dechreu pregethu tua'r Pil, fod yn rhaid ei dynu ef *dair* gwaith drwy y simnai cyn dechreu dyweyd dim. Mawr y mae amser yn newid pethau! Yn wir, fe allai, pe clymid ynghyd simneiau fy ewythr Siencyn, a cholegau yr oes hon, a thynu pregethwyr trwy y naill a'r llall, y byddai gwell dynion i'w cael, ac y cyfarfyddid yn nes tua'r canol yn rhywle. Darlith bob yn ail yn y *lecture-room* a'r simnai, a allai fod o les annhraethol. Byddai y naill yn rhoi gwybodaeth o bethau yn gyffredinol, a'r llall yn gweini addysg neillduol ar hunanadnabyddiaeth. Rhaid yw dyweyd nad yw y dyn hwnw ddim yn gampus mewn gwybodaeth sydd heb adnabod ei hun.

Adroddir hanes cyfarfod misol yn Llantrisant, y bu ein hen gyfaill yn dyweyd ychydig o'i brofiad ei hun; a byddai gyda hyn, fel pob peth arall, yn dra gwahanol i ddynion eraill. Dechreuwyd y cyfarfod gan Mr. Richard James, ac awd yn y blaen wedi hyny, gan gymhell eu gilydd i ddyweyd heb enwi neb. Yn fud fel hyn y buont am gryn dro. Ebe rhyw ddyn ieuanc, "Siencyn Tomos, beth a wnawn fel hyn?" "Dim am wn i," meddai yntau, "ond gwastraffu amser." "Wel," ebe y gwr ieuanc, "gofynwch rywbeth i mi, a minnau a ofynaf i chwithau wedi hyny, i gael y cyfarfod yn y blaen." "Nid folly," ebe yntau, "mi ddywedaf fi dipyn yn gyntaf. Mi a wnaethum *band* (cronfa ddwfr) yr wythnos ddiweddaf, tua phedair troedfedd o ddyfnder, ac y mae firwd dda o ddwfr yn rhedeg iddo a throsto;

digon o fodd i'r anifeiliaid gael dwfr, ac i'r gwyddau a'r hwyaid i nosio. Yna ml a eisteddais, ac edrychais, ac a ymffrostiais, gan ddywedyd wrthyf fy hun, O, ho! yr wyf yn ddech na'm cymydogion o lawer, canys y mae fy *mhond* dwfr i yn loew, a'u *pondydd* hwy i gyd yn frwnt a thomlyd. Ond ar fyr enyd, clywn lais dystaw yn dywedyd, 'Ai ê, Shanco? mi dy ffitia di yn awr.' A pheth a wnaeth y gwr, dybygech? Gyru mochyn trwy fy *mhond* a wnaeth, nes ydoedd yn llaid i gyd o'r gwaelod i'r wyneb, heb un man gloew i'w weled yndo: ac ar hyny, darfu fy ymffrost; a dywedais, 'Wel, wel, darfu fy llafur.' 'Does dim sydd well na chael firwd gref o ddwfr ffynnon i olchi fy *mhond* a minnau.' Mae yn debyg fod y patriarch wedi teimlo awydd gref i wneyd cronfeydd o ddyledswyddau a gweithred-oedd dynol, a'u cadw yn gyflêus wrth bwys, fel na fuasai arno ryw drafferth fawr i gyrchu dwfr, ac fel hyn yn ystyried esmwythder crefyddol. Yr oedd yn ymddangos yn bur loew nes gyru y mochyn drwyddo; ond wrth ei aflonyddu, dangoswyd ei fod yn llawn budreddi yn y gwaelod. Y mae profedigaethau yn cymysgu y dwfr, sydd yn ymddangos yn weddol risial-aidd, nes ei fod yn lled frwnt rai gweithiau, ie, yn rhy frwnt i ddim yfed o hono. Yr unig ffordd, yn nhyb yr hen frawd, oedd cadw firwd gref o ddwfr ffynnon Calfaria i redeg yn gyson am ei draws ef a'i ddyledswyddau, i'w cadw yn bur.

Mewn arall o'r cyffelyb gyfarfodydd, wedi hir ymddyddan â blaenor, gofynwyd i Siencyn Thomas ddyweyd rhywbeth wrtho. Yntau a gododd, a dywedodd, "Yr wyf yn deall nad yw dy ddiodyd di mor flasus ag y bu hi; a pha beth yw yr achos, dybygit ti? Yr oedd hen wraig gynt yn byw yn mhlwyf Ystradfellte, mewn tŷ bach ar ymyl y ffordd, lle y byddai llawer o drafaelu heibio tua'r calch, ac yn gwerthu diod i'r sawl a alwai. Yr oedd yn yr arferiad o ddarllaw ei hunan gartref, ac wedi cael gair mawr ei bod yn cadw diod dda iawn. Os byddai rhywbeth yn rhagori, dywedai y bobl ei fod cystal a diod Modryb Bess o'r Ystrad. Y llanciau oedd yn yr arferiad o deithio yn ol ac yn y blaen tua'r calch y ffordd hono, a alwent wrth fyned heibio yn lled aml am ddracht o ddiodyd; ac ar ol yfed damper, galwent yn gyffredin am un arall, gan fel yr ydoedd mor dda. 'Modryb,' ebe hwynt, 'y mae eich diod mor dda, ni a fynwn damper eto.' Yn mhen enyd, meddyliodd yr hen wreigan mai haws a llai trafferthus o lawer fyddai iddi brynu casgen o ddiodyd; ac felly hi a brynodd gasgen o *borter*. Dyma y llanciau yn dyfod wedi hyny, i gael dracht yn eu syched: profi y ddiodyd, gwneyd clem, edrych i mewn i'r damper, a chymeryd dracht eilwaith, cyn dyweyd dim. 'Hach, modryb,' ebe hwynt, yn y diwedd, 'nid diodyd o'ch gwaith chwi yw hon. Ffarwelwch, ffarwelwch, modryb.' Deallodd yr hen wraig, er ei cholled, erbyn hyn, ei bod wedi camsynied." Ar hyn efe a drôdd at William, ac a ddywedodd, "Frawd, berwa dy ddiodyd yn dy dŷ dy hunan gartref, ac na ddyro o flaen dy frodyr a dy chwiorydd ond y peth y gwyddost sydd yn ymgeledd a meddyginiaeth i dy enaid dy hun. Unwaith yr äi di i *ddelo* mewn *porter*, bydd dy ffryns yn troi eu cefnau arnat." Dro arall, mewn ymddyddanion â'r blaenoriaid, yr oedd yr hynaf a'r blaenaf o honynt yn achwyn ar ei sychder a'i syrthni gyda hi, ac yn ymddangos fel pe buasai wedi colli tir yn ei ysbryd gyda chrefydd, oddiwrth y peth y gwelwyd ef. Torodd Siencyn allan yn danbaid, gan ddywedyd, "Jack, Jack, hoga dy gryman: hoga dy gryman, Jack. Ti yw y medelwr blaenaf yn y fan hyn, er's llawer blwyddyn bellach; ac yn

wir, chwareu teg, medelwr go dda hefyd. Ond yn awr, y mae'r peth yn wahanol; y mae bwlech yn dy gryman. Eto mi dy gynghoraf di i fyned â dy gryman i'r maen y bu'm i wrtho y boreu heddyw; fe ddaw hwnw f'g ef i awch eto." Yna, gyda llais dyrchafedig, gwaeddodd, "Jack, hoga dy gryman, onidê fe ddaw Arglwydd y fedel i dy droi oddiar y grwn, am dy fod ar y ffordd i fyned yn y blaen." Dywedir fod yn anmhosibl darlunio effeithiau y dywedriad uchod ar y brawd ei hun, ac ar y cyfarfod yn gyffredinol. Yr ydoedd fel pe gwefrasai yr Hollalluog bob enawd.

Danfoniad ef bron yn wastad i ymweled â'r eglwysi ar bob achos o bwys; a byddai ei wasanaeth yn dra effeithiol y rhan fynychaf i ateb y dyben amcanedig. Amryw flyneddau cyn diwedd ei oes, daeth brawd â chŵyn i mewn i gyfarfod misol y sir, fod yr achos mewn un man yn hynod adfeiliedig, ac yn gwywo bob dydd; nad oedd yno fawr o bregethu wedi bod yn y misoedd diweddaraf, na nemawr o ymgais ynddynt am ragor, ac os na edrychid atynt yn fuan, ei fod yn debyg o fyned i'r dim. Gwrandawodd pawb yn astud ar y cŵyn galarus, a chwedi bod gosteg am ychydig, dywedodd rhywun, "Y mae cyhoeddiad Hwn a hwn yno heno, a pheth pe b'ai un o'r brodyr eraill yn myned gydag ef, a galw *society* yn ol, i geisio eu hadferu hwynt?" Yna yr hen ŵr parchus, William Tomos o'r Pil, a atebodd gydag awdurdod, gan alw ar Siencyn Thomas, "Siencyn, y mae yn rhaid i ti fyned yno: a'n gweddi ninnau oll a gaiff fyned i'r nef am lwydd ar dy fynediad." Felly efe a ufuddhaodd, a thuag yno yr aeth. Ar ol yr oedfa gyhoeddus, galwyd ar yr eglwys i aros yn ol, a dechreuwyd rhoddi y peth ger bron gan y gwr oedd gydag ef; ac yntau yn gorwedd ar ei hyd ar y fainc. O'r diwedd, dywedodd ei gyfaill, "Dewch, Siencyn Tomos, codwch at eich gwaith." Yntau a gododd gyda hyn, dan ymysgwyd, ac edrych oddiamgylch, fel pe buasai y bendro arno; a chan sefyll â'i bwys ar ben ei ffon, ar ganol y tŷ cwrdd, "Hawyr, beth yw'r mater arnoch? Rhôd dda yw'r rhôd, dwfr da yw'r dwfr; pahan na thry y rhôd, hawyr?" Aeth yn fud am ychydig, gan edrych yma a thraw. "O," meddai, yn sydyn, "mi welaf shwt y mae y rhôd yn pallu troi; ar y cafn tyllog yna y mae y bai; y mae y dŵr yn myned i gollu; 'does dim posibl iddi droi." Yna, dechreuodd alw y bobl wrth eu henwau, canys adwaenai hwynt oll. Galwodd yn gyntaf y blaenor, "Dafydd, Dafydd y teilwr onite? nage; Dafydd y ffermwr, y ffermwr mawr; ie, y melinydd; gwerthu cân wrth y sachau. Pa le y mae'r grefydd? Gwir y dywedwch; bron yn anghof, bron yn anghof. Y byd, y fasnach, wedi llyncu y grefydd o'r golwg." Yna fe drôdd at hen foneddiges, "Mrs. Hon a hon, yr hen wraig foneddig dduwiol, ac anwyl gan bawb; pa le y mae hi? Yn soddi yn ngofalon y byd y mae hithau: mŵn haiarn yn y graig, a llawer o bethau eraill. Pa le y mae *Miss* Hon a hon? y fereh foneddig ffyddlawn gyda chrefydd; ie, a fu felly, ond beth yn awr? O! caru cnawdol, hwn yn lanach, a'r llall yn gyfoethocach. Beth am fater enaid? Gwir iawn, bron yn anghof. Catrin, Catrin, tydi sydd yna, onitê? A ydywif yn camsynied? Catrin?" "Iê," ebe hōno. "Iê, ei chorff hi," ebe yntau, "ond pa le y mae ei henaid hi? Ah! wedi boddi, yr wyf yn ofni, mewn cybydd-dod." Fel yna yr aeth dros bawb, yn fyr, yn ei ffordd hynod ei hun, gan ddywedyd pethau lled bwrpasol wrthynt oll. Wedi rhoi gwers bersonol i bob un, cododd ei lef yn sydyn, a gwaeddodd, "Dihunwch, bobl! bobl; y mae Mab Duw yn dyoddef yn y lle hyn yn awr yn ei enw o'ch plegid chwi. Dihunwch,

dihunwch drwy ras, onidê fe'ch dihunir â barn." Ar hyny, dacw ef yn syrthio i lawr ar ei ddeulin, ac yn gweddïo am i'r nefoedd roddi yr Ysbryd Glan i bawb ag oedd yn y fan, i adferyd yr achos a diwygio y bobl gydag ef. Erioed ni chlywyd y fath daerni, ac effeithiau yn gydfynedol, ebe hwy; syrthiodd yr un ysbryd ar bawb yn y tŷ, nes nad oedd dim ond gweddïo, ac wylo yn eu plith, yn fenyw ac yn wryw. O hyny allan, llwyddodd Duw yr achos yn y fan hðno, a derbyniwyd tua deg ar hugain o aelodau newyddion yn bur fuan. Cododd Duw hefyd fab i'r blaenor uchod i waith y weinidogaeth, yr hwn sydd wedi bod yn un o addurniadau penaf Methodistiaeth yn Morganwg hyd y dydd hwn.

Nid oedd yr un duedd yn ein hewythr Siencyn, i alw am dân o'r nef i ddifa neb, pa gynddrwg bynag y byddent; eithr ymdrechai yn ddiffino am yr Ysbryd Glan, i achub pawb oddiwrth eu pechodau. O herwydd ei duedd gymmodlawn, a'i lwybr rhyfeddol o lwyddiannus at heddychiad pleidiau mewn ymrafael, gelwid ef, "Siencyn Tomos y tangnefeddwr." Byddai yn llwyddo, rywfodd, i wneyd heddwch, ar ol i bawb eraill fethu. Adroddir am amgylchiadau yn Nghaerphili, tra anghysurus. Yr oeddynt oll, trwy hir ymrafaelio, mewn ffræ â'u gilydd, yn ddiwahan: ac wrth geisio gwneyd i fyny, yr oedd y fflamau yn cynneu yn waeth. Bu y Parch. Mr. Jones, Llangan, yno droiau, ac eraill; ond nid oedd dim yn tycio. Anmhosibl ymron oedd cael taw ar dafodau yr ymrysonwyr, os unwaith y dechreuid ymddyddan am y mater. Yr oedd y rhan fwyaf wedi penderfynu bod eu hachos yn anfeddyginiaethol, ac na fuasai dim yn rhoi taw ar eu tafodau ond angeu. Beth bynag, yn rhyw gyfarfod misol, wedi adrodd yr hanes, a chanu y gloch uwch eu penau, dywedodd rhywun am anfon Siencyn yno, fel y feddyginiaeth olaf. Wedi cymhell cryn lawer arno, ufuddhaodd i fyned. Yno yr aeth; a dywedodd gryn lawer am yr annuwioldeb o gynnal i fyny ymrafaelion yn y blaen, ynghyd â'r afiwydd a'r dinystr yr oedd hyny yn ei ddwyn ar grefydd. Ond er y cwbl, yn dân gwyllt yr aeth pawb, gan ddyweyd i gyd ar unwaith, a phawb yn cael y camwri mwyaf oddiar ddwyllaw eu gilydd. Aeth Siencyn, â'i ffon yn ei law, i gerdded i fyny ac i lawr ar hyd y capel, a chan godi ei olygon tua'r nef, a tharo y llawffon yn erbyn y llawr, gofynodd, "Arglwydd, ai dy ddyweddi di yw hon?" Tynwyd sylw y bobl oddiwrth y glec at Siencyn, a thawsant, gan edrych oll arno: yntau yn cerdded ar firwst, gan ofyn, "Arglwydd, ai dy ddyweddi di yw hon? Lladd hi!" eb efe. Yna, fel pe atebasai rhywun, "Na wna." "Gwerth hi ynte!" "Na wna." "Gwâd hi!" "Na wna." Yna cododd ei lais, a dywedodd, "Hi gostiodd yn rhy ddrud i mi; gwerth fy nwyfol waed yw hi. Pa fodd y rhoddaf hi i fyny, a pha fodd y gadawaf hi ychwaith?" Yna syrthiodd i lawr, a gweddïodd yn effeithiol dros ben, a Duw yn ddiammhau yn tywallt ei Ysbryd mewn modd anghyffredin, nes oedd y bobl, pan gododd oddiar weddi, yn foddfa o ddagrau, ac yn cofleidio eu gilydd yn un cwlwm, gan waeddi am faddeuant. Felly y terfynwyd y ffræ hon mewn perffaith dangnefedd a chydweithrediad. Nid dyn plaid oedd Siencyn, ond dyn Duw oedd efe, yn ymdrech nid i gario y fuddygoliaeth, ond dyfod â phob plaid at yr Arglwydd, a'u gadael yno.

Mor ddiffas yw terfyn yr hanes! Y mae yn tafu rhyw fantell dywell dros ein golygon, yn cuddio ein gwrthddrych dyddorol mewn cwmwl tew, annhreiddiadwy i olygon dyn, ac yn argraffu ar ein meddyliau brudd-

der marwol, heb ddim genym i ddyweyd, wrth weled yr haul yn suddo islaw y terfyngylch, ond gwaeddi, "Ein tadau, pa le y maent hwy?—Dyn a drenga, a pha le y mae?" Ar y chweched ar hugain o Ragfyr, un fl wyth gant a saith, bu farw Siencyn Tomos, ac efe yn un mlwydd a thri-ugain oed. Y tu cefn i hen Eglwysdŷ Mihangel, mewn o gwmpas chwe' troedfedd o hyd, a thair o led, y mae gweddillion yr hen wron Siencyn yn gorwedd yn ddystaw. Yr ydym yn rhyfeddu os yw yr holl enaid a'r holl feddwl oedd yn ei ysgogi at bethau mor orwych yn y byd yn cael ei gynnwys mewn cylch mor fach. O! ein Harglwydd, nid yn y bedd y mae ein tad i gyd; a'r rhan sydd yno, a ddaw i'r làn ryw ddydd a ddaw. Buom pwy ddydd yn edrych ar fedd y prophwyd, uwch ben yr hwn ein llanwyd â choffadwriaeth am yr amserau sydd wedi myned heibio. A chyn hir, *Wedi myned heibio*, a fydd y cwbl am danom ninnau yma. Wedi ei gerfio ar y cofadaill llwydaidd, y mae yr ysgrifen ganlynol:—"Er cof am Jenkin Thomas, o'r Goetre, plwyf Margam, yr hwn a ymadawodd â'r byd hwn, Rhagfyr 26, 1807, yn 61 mlwydd oed. 'Cymerwch atoch holl arfogaeth Duw, fel y galloch sefyll yn y dydd drwg, a chwedi gorphen pob peth sefyll.'

Mawr elw im' fu marwolaeth,—Fe nodwyd
Im' fynediad helaeth,
I fuddiol etifoddiaeth
Fal y lli o fel a llaeth."

Wel, dyna ehn hanes ni yn darfod, lle y mae tragywyddoldeb y trancedig yn dechreu.

"PWY A DDEALL DARANAU EI GADERNID EF?"

Pwy ddeall daranau cadernid Duw 'r nefoedd?
Pwy olrhain ei lwybrau? pwy draetha 'i fawr nerthoedd?
Gan ŵr o wlad Us y rhoed y gofyniad;
Ond heriwn holl anian i roddi atebiad.
Mynega di, *ddaeor*, os gelli gael allan,
Daranau cadernid y Duwdod ei hunan:
"Ah! gormod yw 'r gorchwyl, nis gallaf oddiwrtho;
O flaen ei gadernid fy seiliau sy'n siglo.
Cyn gwawrio dydd amser, draw, draw, yn y dechre,
Pryd nad oedd un defnydd i'w ganfod yn unlle,
Ag un gair o'i enau fe greodd fy sylwedd,
Fe'm crogodd ar ddyddim, fe'm trefnodd yn rhyfedd!
Fel pelen fe'm tafodd i'r dirfawr cangder,
I deithio fy nghylchdaith â rhyfedd gyflymder.
Trwy rym ei air "BYDDED" y ffurfiwyd mynyddau,
A'r rha'n a orchuddiwyd â choed a gwyrddlysiau:

Do, llanwodd fy wyneb â myrdd o drigolion ;
 Y morfarch a'r morfil a nofiant fy eigion !
 Na ! traethu cadernid y Perydd anfeidrol
 Nis gallaf—'rwy'n tewi !—pa iaith sy ddigonol ?"
 Ti *ddyn*, tyred allan i ateb yr holiad,
 Ac na fydd lwfr-galon, ond derbyn f' apeliad :
 " Ust ! na ! mae yn holiad nas gellir yn gyson
 Ei ddeall na'i ddirnad byth, byth, gan feidrolion !
 Os sylwaf i'w hanfod, mae 'n llawn o ddirgelwch,
 Os tremiaf i'w orsedd, mae 'n nghanol tywyllwch !
 Yn ol, os ymdeithiaf i chwilio ei oedran,
 Rhaid gadael bro rheswm—dychymyg â ei hunan ;
 O'r golwg disgyna dros glogwyn serth amser,
 Olrheinia bell fanau 'r anhygyrch cangder.
 Ond wedi hir ymdaith nes darfod o'i gallu,
 Draw, draw, yn y cefnfor, Ah ! wele, mae 'n boddi !
 Tróf eilchwyl at reswm, 'r ol colli dychymyg,
 Am oed yr Anfeidrol âg ef gwnafl ymgynnyg :
 Ond d'rysu mae rheswm, a synu 'n aruthrol,
 A dywed am dano, ' Y mae yn dragwyddol !'
 Beth yw tragwyddoldeb ni feddaf ddarluniad
 Ond enw ar gyfnod heb iddo amseriad ;
 Beth yw anfeidroldeb nis gallaf byth ddirnad
 Ond enw ar allu heb iddo derfyniad.
 Canfyddaf ryw dremyn o'i allu tragwyddol
 Yn creu ac yn cynnal y cread aruthrol.
 Ond gwanaidd ac eiddil yw'r cyfan ganfyddir
 I ddangos gwir nerthoedd y 'DUW NID ADWAENIR.'
 Fel hyn, gan ei fawredd, wyf yn ymddyrysu ;
 Gan rym anfeidroldeb fy neall sy'n pallu."
Angelion y nefoedd ! mynegwch *choi* allu
 Y Duw Hollalluog, mae dyn wedi methu.
 " Ni ddichon meidrolion byth ddirnad ei fawredd,
 Na cherub na seraph amgyffred ei nerthedd.
 Am allu 'r gair 'Bydded' yn creu gallwn gofio,
 Pan hyrddiwyd miliynau o fydoedd i deithio.
 Yn eglur canfyddwn ryw heirdd gyfundraethau
 Yn filoedd o filoedd ar wasgar drwy 'r gwagle ;
 Mil myrddiwn o heuliau a'u gosgordd blanedau
 Yn britho ardaloedd y maith uchelderau.
 Gallwn olrhain y rhai'n â chyflymder aruthrol ;
 Ond byth ni chanfyddwn holl waith y Tragwyddol !
 Er cymaint ein gallu, er maint ein gwybodaeth,
 Ni welwn byth derfyn i'w faith ymherodraeth.
 Canfyddwn gymhariaeth rhwng byd a thywodyn,
 A gwelwn raddoliaeth rhwng môr a dyferyn :
 Ond gradd a chymhariaeth ddiflana 'n dragwyddol
 Rhwng Ior a'i weithredoedd—'r Anfeidrol a'r meidrol !
 Os ydyw *meidroldeb* yn drysu meidrolion,
 Beth wna *Anfeidroldeb* ? fe'u bawdd yn ei eigion !

Er cymaint gwybodaeth a gallu nefolion,
 I nerthoedd y DUWDOD nid ym ond ynfydion!"
 O gadarn Jehofa! pwy ddichon dy ddirnad?
 Rhy fyr yw ein deall a'n holl amgyffrediad.
 O! ddyfnder ar ddyfnder! mewn dyfnder y boddir
 Y cread yn nghefafor y "DUW NID ADWAENIR!"

CYFLAWNIAD PROPHWYDOLIAETHAU YN NYGWYDDIADAU YR AMSER PRESENNOL.

CORUS gan ein darllenwyr ddarfod i ni, yn un o'n rhifynau blaenorol, osod ger eu bron grynodedb' o brif ddygwyddiadau y flwyddyn hynod, 1848, gydag adduned i ddychwelyd atynt drachefn i gymeryd ail olwg arnynt yn ngoleuni rhanau o "Ysgrythyr y gwirionedd." Yn ol yr adduned hono, nynt a ymdrechwn y waith hon gael allan a dangos pa rai o brophwydoliaethau yr ysgrythyr a ddaliant berthynas uniongyrchol â'n hoes a'n hamser ni, ac a gyflawnir yn y dygwyddiadau a gymerant le yn y byd o'n hamgylch. Ni ddichon i un meddwl a deimla barch i'r Bibl fel llyfr dwyfol, edrych yn ddifater a diofal ar y peth hwn. Drwy gymharu gorchwyliaethau rhagluniaeth ddwyfol â phrophwydoliaethau y gair dwyfol, y sierhëir yn ein meddwl y gwirionedd pwysig a chysurlawn, mai y Duw a lefara wrthym yn yr ysgrythrau, a lywodraetha arnom yn ei ragluniaeth. "Llwyr noethwyd dy fwa, yn ol llwon y llwythau, sef dy air di." Gweinydda y Duw mawr ei lywodraeth ar y byd, yn ol y gair a lefarodd wrth y byd. Cydweithia ei holl orchwyliaethau fel Duw rhagluniaeth er dwyn i ben a chyflawni yr hyn oll a ddywedodd fel Duw ein hiachawdwriaeth yn yr ysgrythrau.

Wrth edrych ar orchwyliaethau Duw yn ngoleuni ei air hefyd, y mae Cristionogion i wybod a deall yr amser—eu hamser eu hunain, a dyledswyddau eu hamser; rhwymedigaethau eu hoes a'u tymmor. Beiai Iesu Grist yr Iuddewon yn llym am esgeuluso hyn. Dannodai iddynt eu bod yn sylwi ar wynebpryd y wybren, ac yn deall arwyddion y tywydd, ond nad oeddynt yn deall "arwyddion yr amserau," pan y gallasant, "ie, o honynt eu hunain" ddeall y naill yn ogystadl a'r llall, ond cymhwyso yr unrhyw sylw ac ystyriaeth at bob un fel eu gilydd. Yr oedd lleferydd y prophwydi am Grist, ac arwyddion a rhyfeddodau ei ymddangosiad yn y cnawd, a nodwedd a gweithredoedd Iesu o Nazareth, yn cyfateb mor gyflawn eglur i'w gilydd, fel yr oedd yn llawn mor hawdded iddynt ei adnabod ef fel y Messia addawedig, ag oedd iddynt adnabod a deall y tywydd wrth "wynebpryd y wybren;" neu, gallasant "adnabod arwyddion yr amserau" mor hawdded ag yr adnabyddent arwyddion yr hin. Dengys drachefn mai yr anystyriaeth o hyn a fu yn un achos mawr o'u dymchweliad a'u gwasgariad fel gwladwriaeth a chenedl. "Am nad adnabuost amser dy ymweliad." "Canys y rhai oedd yn preswyllo yn Jerusalem, a'u tywysogion, heb adnabod hwn, a lleferydd y prophwydi, y rhai a ddarllenid bob Sabboth, gan ei farnu ef a'u cyflawnasant." Yr oedd lleferydd y prophwydi

am dano, yn cael eu darllen iddynt, a'u darllen ganddynt yn barhaus, ond nid adnabuant ef yr hwn y darllenid am dano. Cyflawnasant leferydd y prophwydi, trwy wrthod a chroeshoelio y Gwaredwr yn ddiarwybod iddynt eu hunain, yn nghanol y moddion a'r manteision gwybodaeth goreu a allasant gael; ac wrth hyny, cyflawnasant hefyd fesur eu hanwiredd eu hunain, a thynasant y farn a'r dinystr yn gawod ofnadwy am ben eu gwlad a'u dinas.

Gallwn ninnau hefyd fod yn euog o'r un amryfusedd, a bod heb adnabod ein hamser, gwaith, a dyledswyddau ein hoes, drwy ddifaterwch ac esgeulusdra i graffu ar arwyddion neu amgylchiadau ein hamser yn ngoleuni y prophwydoliaethau hyny o'r ysgrythyr a gyflawnir yn y cyfryw amgylchiadau; a thrwy hyny, o anghenrheidrwydd, syrthiwn yn fyr o fod yn ddynion i'n hoes, ac o wasanaethu ein cenedlaeth ein hunain, trwy ewyllys Duw, ac o'r dedwyddwch a'r mwynhad meddyliol ac ysbrydol sydd yn hyny.

Rhaid i ni ddeisyf ar ein darllenwyr fod yn ymarhous wrthym a chaniatâu i ni ymdroi ychydig ar ein llwybr cyn ymaflyd yn ein pwnc. Yr ydym yn nesáu i dir cysegredig, a dylem ddyosg ein hesgidiau, gwylio ar ein traed, ac ymsymud gyda chamrau gofalus ar hyd-ddo. Collodd llawer gwr craffus a chyfarwydd ei ffordd, ac aeth ymhell ar grwydr i anialwch a dyrysni, wrth geisio cyfarchwilio meusydd prophwydoliaeth. Ymaflai y naill a'r llall mewn prophwydoliaeth, gan ei chymhwyso at wrthddrych na pherthynai iddo, efallai. Rhagnodent amser ei thymp, neu ei chyflawniad; ond erbyn i'r amser ddyfod, safai y brophwydoliaeth yn ol, a gadewid y deonglyddion a'r deongliadau druain mewn somedigaeth a chywilydd: ond nid y brophwydoliaeth oedd yn methu, "cans gan ddyfod hi a ddaw, ac nid oeda." Hi a dywallt ei chyflawniad ar ei gwrthddrych priodol yn ei hamser priodol ei hun. "Haws i'r nef a'r ddaear ballu, nag ydyw i un iod nac un tipyn o honi fethu."

Y mae lliaws mawr o brophwydoliaethau yn yr ysgrythyrau na ellir eu camgymhwyso a'u camddeongli yn y modd hwn, gan eu bod yn nodi eu gwrthddrychau neillduol erbyn eu henwau priodol; megys y rhai hyny am Babilon, Ninife, a llawer o ddinasoedd a gwledydd eraill. Ond y mae dosbarth arall o brophwydoliaethau, yn *desgrifio* eu gwrthddrychau, heb eu henwi. Dodant enwau cyfriniol neu benthyciol weithiau arnynt, a dynodant eu cynneddfau a'u nodweddau. Rhoddant eu nodau a'u delweddau allan, fel y gellid eu hadnabod drwy sylwi a chymharu: ac os, wrth ddal gwrthddrych tybiedig yn ngwyneb prophwydoliaeth o'r fath hon y ceir ynddo ef yr holl nodau a'r delweddion hyny, yna, ni a allwn ddywedyd wrtho, "Tydi yw y gwr." 'Atat ti y mae bwa y brophwydoliaeth hon yn annelu, a rhaid mai i'th galon di y trywana ei saeth, pan y gollynger hi oddiar y llinyn yn y cyflawniad.' A'r dosbarth hwn o brophwydoliaethau y bydd a wnelom yn benaf y waith hon.

Dylid crybwyll hefyd, fod i lawer iawn o brophwydoliaethau y gair, ystyr-iaeth ddeublyg; a chan hyny, *gyflawniad* deublyg. Lleferid llawer o bethau am Dafydd, Solomon, a Hezecia, a gyflawnid mewn rhan ynddynt hwy, ond yn llawnach a pherffeithiach yn Nghrist. Prophwydoliaethau Esay a Jeremiah am gwmp a dinystr Babilon a edrychant ymbellach na'r hen ddinas hono yn Caldea gynt, at gwmp a dinystr Babilon gyfriniol y Testament Newydd. Yn eu hystyr lythyrenol, edrychent ar y flaenaf yn unig; ac yn yr ystyr hono yn hollol, hwyrach, y deallid hwy gan y prophwydi eu hunain: ond yr oedd iddynt ystyriaeth gyfriniol a dirgeledig ar y pryd, yn ngolwg

Ysbryd y brophwydoliaeth. Cawsant eu cyflawniad *llythyrenol* yn ngoresgyniad a difrodol yr hen Babilon briodol, a chânt eto eu cyflawniad *cyfriniol* yn nghwmp ac anrheithiad y Babilon gyfriniol. Dysgodd *Ysbryd* y brophwydoliaeth y prophwyd apostolaidd yn y Dadguddiad, i roddi yr enw Babilon (yn gyfriniol), ar wrthddrych y brophwydoliaeth; a rhagfynegu ei ddinystr yn ymadroddion y prophwydi hyny am ddinystr Babilon briodol.

Y mae cyflawniad prophwydoliaethau y Bibl yn brawf sier a diymmod o ddwyfoldeb y llyfr—yn brawf ag sydd yn dyfod yn eglur i'n synwyrâu naturiol, a'r unig un o'r profion y sydd yn ein cyrhaeddyd ni yr oes hon, yn y modd hwn. Tery y rhai a alwn yn *brofion mewnol* ein *dyn* tumewnl neu ysbrydol yn unig. Egwyddorion neu ysbryd y llyfr a gyfansoddant y dosbarth hwn o brofion natur oruchel a sanctaidd ei athrawiaethau a'i dystiolaethau, ei ddsygeidiaeth ysbrydol, a'i duedd ymarferol—ei feddyliau yn uwch na meddyliau dyn, fel y mae y nefoedd yn uwch na'r ddaear—purdeb a symledd ei orchymynion a'i reolau—ei gymhwysder a'i addasrwydd i gyflwr, anghenion, ac amgylchiadau moesol pob dyn, yn mhob man, ac yn mhob oes, ac oll yn deilwng o urddas, nodwedd, a doethineb y Bod anfeidrol;—profion i'r deall a'r gydwybod ydynt. Y dosbarth arall, y *profion amgylchiadol*, neu allanol, ydynt yn ddwy gangen, sef y gwyrthiau a gyflawnid gan Moses a'r prophwydi, Crist a'i apostolion, fel seliau o wirionedd a dwyfoldeb y ddsygeidiaeth a gyhoeddent yn enw Duw i ddynion, ynghyd â chyflawniad y prophwydoliaethau, neu, y rhagfynegiadau am bethau i ddyfod a draddodent. Apelia y profion hyn at synwyrâu corfforol dynion, fel y gwna y lleill at eu galluoedd meddyliol. Am y gangen gyntaf—gwyrthiau, darfyddai tymmor eu tystiolaeth gyda pherffeithiad gair y dystiolaeth, neu gyflawn roddiad ewyllys dadguddiedig Duw i'r byd. Yr oeddynt yn hollol anghenrheidiol i gadarnhau y gair pan oedd yn cael ei gyhoeddi gyntaf i'r byd, ac yr oedd yr un mor anghenrheidiol eu terfynu hefyd pan gwblhëid y dystiolaeth. Buasai parhad gwastadol o honynt yn ddinystriol i'w hancan a'u dyben, canys ni allasant fod yn brofion pe buasent yn bethau cyffredinol pob oes. Buasent yr un mor werthfawr i bob oes, y mae yn wir, fel gweithredoedd o gymwynasgarwch, megys adferiad golwg i ddeillion, ac iechyd i gleifion, &c.; ond collasant eu grym fel profion o ddwyfoldeb Cristionogaeth, o herwydd eu cyffredinrwydd; ac felly, buasai y golled foesol o'u parhad yn fwy na'r ennill tymmorol o hyny—ac aberthu y dyben mawr i un llai fuasai hyn, gan mai eu prif ddyben ydoedd i fod yn dystion ger bron synwyrâu dynion o ddwyfoldeb dysygeidiaeth dynion sanctaidd Duw. Yr un modd yn gymhwys yr ymddyga dynion gyda'u gorchwylion hwythau. Tra byddo adeiladaeth yn cael ei chodi, gwelir llawer o glwydi o'i hamgylch, y rhai ydynt yn wasanaethgar i'r adeiladwaith; ond wedi gorphen y gwaith o adeiladu, tynir y clwydi ymaith; darfu tymmor eu gwasanaeth, ac ni byddant o ddefnydd yno mwyach, ond yn hytrach yn anurddiant, ac ar y ffordd. Yr oedd cychwaith cywrain a threulfawr i'w weled o amgylch adeilwaith pont *Brittania*, ar y *Menai*, ychydig o fisoedd yn ol; ond erbyn hyn, y mae oll wedi ei dynu oddiwrth ei gilydd a'i symud: bydd y bont yno yn gofadaill i oloesau llawer, o ddyfais ac ysbryd anturiaethus yr oes hon, ond ni welant hwy ddim o'r cychwaith a osodid i fyny i ddwyn yr adeiladaeth ymlaen. Felly y gwyrthiau, cychwaith neu glwydi. oeddynt i wasanaethu dros dymmor adeiladaeth teml y

dadguddiad dwyfol. Y mae y deml yn aros byth yn berffaith a chyfan, ac erys hyd derfyn yr oesau, ond dodid y cylchwaith o'r neilldu pan berffethid yr adeilad. Oferedd fyddai i'r eglwys Gristionogol ddysgwyl am adferiad doniau gwrthiol mwyach, wedi y darfyddai tymmor priodol eu gwasanaeth: yr oeddynt hwy i *beidio*, *pullu*, a *disflanu*; a nod anffaeledig o hereticiaid a gau-brophwydi, ydyw yr honedigaeth o feddu ar y doniau hyny mwyach.

Yr ydym yn edrych ar y dyb am adferiad yr Iuddewon yn ol i wlad Canaan hefyd yn hollol o'r un natur a'r llall. Y mae yn eithaf eglur i bob meddwl ystyriol fod dyben mawr moesol ac ysbrydol neillduad y genedl hono, a'i dygiad i wlad Canaan, y cau o'i hamgylch, ynghyd â'r holl sefydliadau perthynol iddi, wedi eu hateb am byth. Nid oes anghen am dani yn genedl neillduedig mewn gwlad neillduedig mwyach. Wedi ymddangosiad Crist yn y cnawd, a chyflawni ynddo ef yr holl gysgodau fel eu gwrth-ddrychnod a'u sylwedd, dodid y cwbl heibio; tynid cylchwaith yr aberthau, a'r deml, y seremonïau a'r defodau cnawdol a osodais hyd amser y diwygiad, ymaith; a gwasgerid y genedl i fysg holl genedloedd y ddaear. Eu dychwelyd yn ol i Ganaan eto fyddai dileu yr efengyl, mewn effaith, er adgyweirio Iuddewaeth. Swm a sylwedd ysbryd goruchwyliaeth yr efengyl ydyw, "nad oes nac Iuddew, na Groegwr, enwaediad na dienwaediad, barbariad na Scythiad, caeth na rhydd; ond Crist yn bob peth, ac yn mhob peth." Nid oes neb i gael ei adnabod yn ol y cnawd o hyn allan. Byddai eu hadferu yn ol fel cenedl i wlad Canaan drachefn yn gwrthdaraw ac yn dyddymu yn hollol yr addadganiadau efengylaidd hyn, ac adeiladu drachefn yr hyn a dynodd Crist, trwy yr efengyl, i lawr—cyfanu eilwaith yr hen ganolfur gwahaniaeth hwnw a ddattododd efe—adnabod yr Iuddew drachefn yn ol y cnawd. Ac os dychwelir hwynt yn ol eto i'r wlad hono, a Jerusalem, fel cenedl neillduedig, rhaid iddynt gael teml, ac allor, ac offeiriad; ac aberth hefyd; a'r diwedd ydyw, rhaid iddynt gael Messiah arall. Ac am hyn oll y dysgwylant hwy hefyd. Heblaw hyn oll, nid oes cysgod o sail i'r dybiaeth yn y Testament Newydd. Credwn yn ddilys, pe gwir olygid y prophwydoliaethau hyny yn yr Hen Testament, ar y rhai y seilia yr adferwyr Canaaneaidd eu credo, fuasai dychweliad yr Iuddewon fel cenedl i wlad Canaan, y rhoddaisid, o leiaf, ryw awgrym am hyny yn y Testament Newydd. Sonir llawer am eu dychweliad fel cenedl o gaethiwed eu hanghrediniaeth at Gristionogaeth, yn y modd mwyaf eglur a phendant ynddo, ond dim yn gair am eu dychweliad yn ol i wlad Canaan.

Cyflawniad prophwydoliaethau ydyw yr unig brawf gweledig i ni o ddwyfoldeb yr ysgrhythrau. Pan welom bethau yn dyfod i ben yn hollol fel y rhagfynegid am danynt yn y Bibl, gannoedd a miloedd o flyneddau yn ol—pethau nad oedd ddichonadwy i neb ond yr Hollwybodol eu gwybod heb iddo ef eu dadguddio, rhaid i ni gredu fod y llyfr wedi ei roddi drwy ysbrydoliaeth Duw.

Y mae yr amser y byddo dygwyddiadau hynod a phwysig yn cymeryd lle yn y byd, yn adeg y dylid talu sylw neillduol i brophwydoliaethau y gair. Y mae llef yn y dygwyddiadau hyn megys yn dywedyd, "Ceisiwch allan o lyfr yr Arglwydd, a darllenwch." Naturiol ydyw ymofyn a ydyw "Llyfr yr Arglwydd" ddim yn rhag-grybwyll am y fath amser ac amgylchiadau? Ac os ydyw, yn mha le, a pha fodd? pa beth a ddywed am y canlyniadau? a pha gyfarwyddiadau a rydd gyda golwg arnynt? "Pan weloch y ffeidd-

dra anrheithiol a ddywedwyd trwy Ddaniel brophwyd, wedi ei osod yn y lle sanctaidd, y neb a ddarlenco, ystyried; yna y rhai a fyddont yn Judea, ffoant i'r mynyddoedd," ebe Iesu Grist wrth ei ddysgyblion. Dysgai hwy fel hyn i gadw golwg ar ddygwyddiadau yr amser, ac ar y prophwydoliaethau a gyfeiriai at yr amser a'r dygwyddiadau, a dysgu oddiwrth hyny beth fyddai eu doethineb a'u dyledswydd.

Yn awr, tybiwn fod rhai o'r pethau pwysicaf a ddywedwyd trwy Ddaniel brophwyd, ac Ioan apostol, yn cael eu cyflawni ar y ddaear yn y blyneddau diweddaf hyn, a'i bod gan hyny yn dymmor priodol iawn i alw sylw neillduol at y prophwydoliaethau hyny. Pan ofynai Daniel ei hun esboniad ar y weledigaeth a gafodd, dywedid wrtho, "Dos, Daniel, canys cauwyd a seliwyd ar y geiriau hyd amser y diwedd." Dygwyddiadau amser ydynt i agoryd llyfr y brophwydoliaeth, ac i ddatod ei seliau ef. Drachefn, craffer ar y modd y mae Llyfr y Dadguddiad, unig lyfr prophwydoliaethol y Testament Newydd, yn cael ei gyflwyno i sylw:—"*Dadguddiad Iesu Grist, yr hwn a roddes Duw iddo ef, i hysbysu i'w wasanaethwyr y pethau sy raid ddyfod i ben ar fyrder; a chan anfon trwy ei angel, efe a'i hysbysodd i'w wasanaethwr Ioan, yr hwn a dystiolaethodd air Duw, a thystiolaeth Iesu Grist, a'r holl bethau a welodd. Dedwydd yw yr hwn sydd yn darllen, a'r rhai sydd yn gorandaw geiriau y brophwydoliaeth hon, ac yn cadw y pethau sydd yn ysgrifenedig ynddi: canys y mae'r amser yn agos.*" Gwelodd Ysbryd y brophwydoliaeth y buasai i ysbryd diogi a difrawch geisio ym-egsodi rhag y drafferth o geisio deall ystyr delweddau cyfeiriol ac arwyddluniol y weledigaeth, drwy hōni mai llyfr i'r dysgedig yn unig i'w chwilio a'i fyfyrio fyddai y llyfr hwn; ac am hyny, gofalodd am ddodi yr arysgrifen hon uwch ben porth y weledigaeth, er annogaeth a chalondid i bob un fyned i mewn i'w hystafelloedd i graffu a sylwi drosto ei hun, a chyhoeddi bob un o'r cyfryw yn ddedwydd. Y rheswm a rydd dros hyn ydyw, fod "*yr amser yn agos,*" sef amser cyflawniad y pethau a ragbortreiaid yr y brophwydoliaeth.

Y mae yn deilwng o sylw bod y ddau a brophwydasant fwyaf am amgylchiadau y dyddiau diweddaf, yn dwyn cryn lawer o gyffelybrwydd i'w gilydd mewn llawer o bethau, sef Daniel ac Ioan. Daniel oedd yr unig un a gyfenwid yn *amwyl* o brophwydi yr Hen Destament. "Daniel ŵr anwyl." "Mi a ddaethum i fynegu i ti am dy fod yn anwyl," &c. Gelwid Ioan, "y dysgybl yr hwn yr oedd yr Iesu yn ei garu," ac yn y llefariaeth gyffredin, y *dysgybl amwyl*. Yr oedd Daniel y *prophwyd* anwyl, a Ioan y *dysgybl* anwyl, ill dau yn alltudion o'u gwlad, pan gawsant eu gweledigaethau. Ymddangosodd yr un Person goruchel yn yr un agwedd ogoneddus ac ardderchog i'r ddau, a dangosodd yr un pethau iddynt trwy yr un cyffelyb arwyddluniau.

Bellach, yr ydym yn barod i ymaffyd yn y peth a olygem fel ein nod penodol y waith hon. Yn gyntaf peth, rhaid i ni geisio cael allan ac adnabod gwrthdrysych neillduol y prophwydoliaethau perthynol i oruchwyliaeth y dyddiau diweddaf hyn; ac yna, dal dygwyddiadau y dyddiau yn wyneb y prophwydoliaethau hyny, er gweled pa un a allwn briodoli y dygwyddiadau yn gyflawniad o honynt ai peidio.

Nyni a ddechreuwn ynte gyda rhagfynegiad hynod yr apostol Paul, am godiad a dinystr y *dyn pechod*, yn ei ail lythyr at y Thessalonïaid. Bu camgymeriad y Thessalonïaid o feddwl yr apostol yn ei lythyr cyntaf yn

mherthynas i *ddydd Crist* yn achlysur iddo, mewn rhan, i ysgrifenu ei ail lythyr atynt, er unioni y camgymeriad hwnw. Sicrhâi iddynt na ddeuai y *dydd hwno* "nes dyfod ymadawiad yn gyntaf," sef dirywiad mawr a chyffredinol yn yr eglwys Gristionogol oddiwrth ffydd a buchedd efengyl-aidd. "*A dadguddio y dyn pechod, mab y golledigaeth.*" Dynodir ef, nid wrth enw priodol ond cyfeiriol—enw a arwyddai ei natur, ei ysbryd, a'i wir nodwedd. Yna rhydd y brophwydoliaeth ei delweddau a'i nodau neillduol, fel y gellid ei adnabod pan ddadguddid ef:—"*Yr hun sydd yn gwrthwynebu, ac yn ymddyrchafu goruwch pob peth a elwir yn Dduw, neu a addolir, hyd onid yw efe megys Duw, yn eistedd yn nhemi Dduw, ac yn ei ddangos ei hun mai Dduw ydyw.*" Onid iawn, gan hyny, y gelwir ef "y dyn pechod." Y mae ei ysbryd a'i nodweddau yn gyfryw, fel y gellid meddwl fod pechod ei hunan o'r diwedd wedi ymgnewdoli, ac ymddangos yn y natur ddynol. "*Yr hwn sydd yn gwrthwynebu*" ydyw.—Gwrthwynebw'r mawr yr efengyl—peiriant wedi ei ddyfeisio gan Satan o bwrpas i wrthdaraw a gwrthsefyll efengyl Crist, a Christionogaeth bur. Bydd hwn yn cynnwys ynddo ei hun holl erchyllt eilun-addoliaeth y byd, a mwy. "*Ymddyrchafu goruwch pob peth a elwir yn Dduw neu a addolir.*" Ffughonai iddo ei hun mwy o briodoliaethau bod anfeidrol nag a briodolai y cenedloedd erioed i yr un o'u heilunod. A gwnai hyn, nid mewn rhyw gongl dywell o'r ddaear, ond yn nheml, yn eglwys y Duw byw ei hunan. Arddelwari awdurdod yno uwchlaw i yr eiddo Duw yn ei air. Cymerai arno "newid amserau a chyfreithiau," athrawiaethau a threfniadau yr eglwys, gan "ei ddangos ei hun," yn mhob ystyr, "mai Duw ydyw." "Ac yr awr hon, chwi a wyddoch yr hyn sydd yn attal, fel y dadguddier ef yn ei bryd ei hun." Dyma awgrym eto am y pryd y byddai iddo ddyfod i'r golwg yn gyhoeddus. Yr oedd rhywbeth yn ei *attal* i godi ei ben pan oedd Paul yn ysgrifenu; ni ddywed yr apostol yn eglur pa beth oedd yn attal, ond gadawai i'r Thessaloniaid ddyfalu. Ni buasai yn ddoeth a diogel iddo ei enwi y pryd hwnw, ond megys awgrymu. Yr hyn a attaliai ydoedd y llywodraeth wladol Rufeinig o ran y peth oedd yr amser hono. Pagan-aidd ydoedd o ran ei chrefydd sefydledig. Yr oedd eilun-addoliaeth yn grefydd osoddedig y llys a'r awdurdod, a Christionogaeth yn gondemnedig gan y cyfreithiau, a Christionogion yn fynych dan erlidigaethau llymion. Felly, tra fyddai y llywodraeth wladol yr hyn oedd y pryd hwnw, byddai yn attalfa i'r *dyn pechod* ymddyrchafu yn gyhoeddus. "Yn unig yr hyn sydd yr awr hon yn attal, a etyl nes ei dynu ymaith." Tynwyd yr attalfa hwn ymaith yn nechreuad y bedwaredd ganrif, pan newidiodd y llywodraeth wladol Rufeinig ei chrefydd. Newidiodd Satan ei ryfelldull yn erbyn yr eglwys Gristionogol yn y cyfnod hwn. Wedi bod am dri chan' mlynedd yn lladd ac yn llarpio y saint fel draig, drwy offerynoliaeth y llywodraeth baganaidd, a gweled na allai lwyddo yn y ffordd hono, a'i bod yn myned yn ddiareb gyffredinol, bod "gwaed y saint yn hady i'r eglwys," ac "o lwech un merthyr y cyfodai cant o gyffeswyr;" efe a benderfynai gynnyg ar lwybr arall i'w dinystrio. Yn awr, wele y llywodraeth wladol yn nwyllaw Cystenyn Fawr, yn ymgynnewid ar unwaith o ran ei hagweddiad tuag at yr eglwys. Trodd ei chleddyf, yr hwn oedd wedi tewychu ar gig y saint, ac yn feddw ar ei gwaed, i'r wain yn ddisymwth. Trodd ei gwyneb-pryd, a fuasai yn gwisgo cymylan duon o wg a chynddaredig tuag ati am dri chan' mlynedd, i ymddangosiad o sirioldeb a charedigrwydd mawr!

Estynodd ei llaw am gymmod a heddwch tuag at y "briodasferch, gwraig yr Oen." Dywedodd wrthi mewn effaith ac ymddygiad ei bod yn edifarhau am yr holl gamwri a wnaethai â hi. Ei bod hi—y llywodraeth, yn awr wedi newid ei barn yn hollol. Bod yr awdurdod wladol wedi penderfynu rhoddi llythyr ysgar i briod ei ieuenetid, sef eilun-addoliaeth, a chymeryd Cristionogaeth yn briod ei fynwes, sef yn grefydd sefydledig yn ei lle, os cydsyniai hi (yr eglwys Gristionogol) â hyny. Addawai ei hanrhydeddu a'i chynnysgaethu â'i holl olud bydol—y caffai farchogaeth yn yr ail gerbyd, meddiannu tetmlau, gwaddolion ac urddas offeiriadaeth yr hen grefydd sefydledig, ar yr ammod iddi roddi i fyny ei hannibyniaeth ysbrydol, a chydnabod yr ymherawdwr yn ben iddi, a'i awdurdod ef yn oruchaf arni yn mhob peth. Cydsyniodd hithau yn rhwydd iawn â hyn oll; ac wele yr hon a ddyweddiad "megys morwyn bur i Grist," yn tori ei chyfammod âg ef, ac yn myned i buteinio gyda breninoedd y ddaear! Ond ar y diwrnod tywyll a du hwnw, cafwyd ychydig enwau y rhai ni halogasant eu dillad, ond a safasant yn ffyddlawn yn nydd y prawf tanlyd, sef y Donatistiaid, fel eu gelwid: dygasant hwy eu tystiolaeth yn gyhoeddus dros eu Brenin, gan wrthod dyfod yn blaidd yn y cyfammod hwn â'r awdurdod wladol, ac ysgwyd eu dwylaw rhag derbyn gwobr y llygredigaeth.

Yn awr, dyma effeithiau gweithrediad "dirgelwch yr anwiredd," yn dechreu dyfod i'r amlwg. Buasai yr anwiredd yn gweithio mewn dirgelwch yn yr eglwys o ddyddiau yr apostolion hyd yn awr, ac yr oedd erbyn hyn yn barod i dori allan, ond eisieu amser cyfaddas oedd arno, a dyma yr amser a'r cyfesuadra wedi dyfod. Hanfod yr anwiredd hwn yn ddiâu ydoedd yr ysbryd *ymddyrchafu* ac ymawdurdodi y sonid am dano o'r blaen. Canfyddai llygad craff yr apostol y naws afiach hwn mewn eglwysi a gweinidogion yn ei amser ef. Hwn ydoedd y *pab bach* y dywedai yr enwog Luther ei fod "yn mol pob dyn." Yr oedd sefyllfa leol yr eglwys yn Rhufain yn fantesiol i *dirgelwch yr anwiredd* i esgor ar y *dyn pechod*. Rhufain ydoedd brifddinas y byd y pryd hwnw. O'i genau hi y derbyniai teyrnasocedd y ddaear eu cyfreithiau. Mawrygai dinasyddion Rhufain eu hunain ar y cyfrif hwn, ac ystyrient eu bod hwy yn fwy urddasol ac anrhydeddus na phreswylwyr dinasoedd eraill, o herwydd gogoniant llywodraethol eu dinas. Ymgyfranogodd yr eglwys Gristionogol yn Rhufain o'r ysbryd daearol a chnawdol hwn; a dechreuai feddwl ei bod hi, fel eglwys yn y brifddinas, yn deilwng o ryw anrhydedd ac urddas uwchlaw eglwysi eraill, a bod ei hesgob neu ei gweinidog hefyd yn deilwng o gael y lle blaenaf mewn anrhydedd a dylanwad yn mysg ei frodyr, neu y dylasai yr eglwys yn Rhufain gael edrych arni a'i pharchu fel mam gan yr eglwysi eraill, a'i gweinidog adrych fel pab (*tad*) gan yr holl esgobion. Yr oedd yr unrhyw ysbryd yn cydymweithio mewn gweinidogion ac eglwysi eraill, ond gan esgob ar eglwys Rhufain yr oedd y fantais oreu, o ran sefyllfa, i ennill yr oruchafiaeth. Fel hyn yr oedd "dirgelwch yr anwiredd" wedi lefeinio yr eglwys Gristionogol yn gyffredinol, ac wedi daearoli a chnawdoli ei hysbryd i raddau pell iawn cyn i'r awdurdod wladol ddechreu gwenu arni. Bu y "*pab bach*" yn hir yn ei bru yn cael ymddywng arno, nes y daeth yn bab mawr o'r diwedd. I'r un ddamnedigaeth y syrthiodd Eglwys Rhufain yn union ag y syrthiasai Adda iddi. Cenedlodd y pab mawr cyntaf, sef Satan, bab bychan yn ein rhieni cyntaf â'r ymadroddion hyny, "Chwi a fyddwch megys duwiau," a than ddylanwad yr ysbryd hwn

i *ymddyrchafu*, a bod megys duwiau, y syrthlasant i gyflwr o drueni a cholledigaeth. Yr un modd yn union y syrthiodd yr eglwys Gristionogol yn gyffredinol, ac Eglwys Rhufain yn neillduol. Yr oedd yr eglwys hono pan oedd Paul yn ysgrifenu ati, a'i *chlod drwy yr holl fyd*—ei ffydd a'i ffirwythau yn taenu eu peraroglau drwy y ddaear. Ond pan aeth i ymddyrchafu ac ymawdurdodi, syrthiodd o'i gogoniant a'i hurddas, a daeth yn "fam puteiniaid a ffeidd-dra y ddaear."

Dychwela yr apostol drachefn at ei neillduolion a'i nodau, fel y gellid bod yn sicr o hono pan y gwnelai ei ymddangosiad—"Sef yr hwn y mae ei ddyfodiad yn ol gweithrediad Satan, gyda phob nerth ac arwyddion a rhyfeddodau gau." Y mae yn deilwng o sylw fel y mae y Gwrth-grist yn cael ei ddesgrifio yn y brophwydoliaeth hynod hon am dano, mewn cyffelyb ddull o lesaru, ac a arferir gan yr un apostol mewn manau eraill, wrth son am y Gwardedwr a'r efengyl;—"Duw a ymddangosodd yn y cnawd;" "y dyn pechod," neu pechod a ymddangosodd yn y cnawd hefyd. "Dirgelwch duwioldeb," a "dirgelwch yr anwiredd." "Duw ei hun yn cyd-dystiolaethu trwy arwyddion a rhyfeddodau ac amryw nerthoedd a doniau yr Ysbryd Glan," gyda chyhoeddiad cyntaf yr efengyl i'r byd; ac yma, amgylchynid dyfodiad "yr hwn sydd yn gwrthwynebu—y dyn pechod," yntau, gan "weithrediad Satan, gyda phob nerth ac arwyddion a rhyfeddodau gau." Satan ei hun yn cyd-dystiolaethu â'r peth a godid ganddo o bwrpas i wrthdaro Cristionogaeth, ac achub ei deyrnas rhag y dystryw cyffredinol a fygythiai yr efengyl arni. Megys mewn dwfr, y mae wyneb yn ateb i wyneb, felly y mae yr Eglwys Babaidd yn ateb i ddesgrifiad y brophwydoliaeth dan ein sylw. Y hi, ac nid neb ond y hi, a raid fod yma mewn golwg.

Yn ngweledigaeth y pedwar bwystfil yn Daniel, *pen. vii.*, desgrifir yr un gwrthddrych, drwy yr arwyddlun o "gorn bychan" yn cyfodi yn mysgr cyrn eraill y pedwerydd bwystfil. Yn eglurhad yr angel o'r weledigaeth i'r prophwyd, amlygir mai arwyddluniau o bedair o freniniaethau (sef Caldea, Persia, Groeg, a Rhufain) oedd y pedwar bwystfil. Cymerasai y prophwyd sylw neillduol o'r pedwerydd bwystfil (arwyddlun yr ymherodraeth Rufeinig), o herwydd yr agweddiad mwy ofnadwy oedd arno na'r lleill; a holodd yn fanylach yn ei gylch.—"Yna yr ewyllysiais wybod y gwirionedd am y pedwerydd bwystfil, yr hwn oedd yn amrywio oddiworthynt oll, yn ofnadwy ianwn, a'i ddannedd o haiarn, a'i ewinedd o bres; yn bwyta ac yn dryllio, ac yn sathru y gweddill â'i draed: Ac am y deg corn oedd ar ei ben ef, â'r llall yr hwn a gyfodasai, ac y syrthiasai tri o'i flaen; sef yr hwn yr oedd llygaid iddo, a genau yn traethu manwrhydri, a'r olwg arno yn arwach na'i gyfeillion. Edrychais, a'r corn hwn a wnaeth ryfel ar y saint, ac a fu drech na hwynt; hyd oni ddaeth yr Hen Ddihenydd a rhoddi barn i saint y Goruchaf; a dyfod o'r amser y meddchannai y saint y freniniaeth. Fel hyn y ddywedodd efe; Y pedwerydd bwystfil fydd y bedwaredd freniniaeth ar y ddaear, yr hon a fydd amrywio oddiworth yr holl freniniaethau, ac a ddiſa yr holl ddaear, ac a'i sathr hi, ac a'i dryllia. A'r deg corn o'r freniniaeth hon fydd deg brenin, y rhai a gyfodant: ac un arall a gyfyd ar eu hol hwynt, ac efe a amrywia oddiworth y rhai cyntaf, ac a ddarostwng dri brenin. Ac efe a draetha eiriau yn erbyn y Goruchaf, ac a ddiſa saint y Goruchaf, ac a faddhol newidho amseroedd a chyfreithiau: a hwy a roddir yn ei law ef, hyd amser ac amseroedd a rhan amser. Yna yr eistedd y farn, a'i lywodraeth a ddygant, i'w dyfetha ac i'w dystrywio hyd y diwedd!"

Yn ngoleuni esboniad yr angel o arwyddluniau y weledigaeth, gwelwn ei hystyr yn berffaith eglur. Yr oedd pob bwystfil yn cynrychioli breniniaeth, a'r deg corn ar y bwystfil olaf yn arwyddo deg o freniniaethau, neu ymranïad y gallu Rhufeinig i ddeg o freniniaethau annibynol; ac felly yn union y dengys hanesyddiaeth ddarvoud dygwydd, pan oresgynid y talaithiau ac y dryllid y fufr ymherodraethol o lywodraeth. Yn awr, wedi rhaniad¹ yr ymherodraeth Rufeinig i ddeg o freniniaethau, yr oedd y corn bychan i wneyd ei ymddangosiad:—ysbryd a nodweddu yr hwn a ddesgrifir yn fanwl a gofalus; a chyfateba yn hynod, o ran sylwedd, i ddesgrifiad yr apostol o'r "dyn pechod." Dynoda y brophwydoliaeth hon *amser* ei ymddangosiad yn fwy penodol na yr eiddo yr apostol. Arwydda Paul mai o fewn yr ymherodraeth Rufeinig y dadguddid ei "ddyn pechod" ef, ac mai wedi tyniad ymaith yr hyn oedd "yn attal" y pryd hyny, sef y sefydliad gwladol o eilun-addoliaeth fel crefydd, y deuai i'r golwg. Yr un yw maes prophwydoliaeth Daniel hefyd: a dywed hi ymhellach mai wedi rhaniad yr ymherodraeth i ddeg o freniniaethau, y byddai i'r corn bychan godi i fyny; ac ymhellach, dynoda ystod tymmor ei rwysg o'i ymddangosiad cyntaf, hyd ei doriad ymaith—sef "amser, amserau, a rhan amser:" ond cawn ddychwelyd at hyn eto.

Crybwyllir yn Daniel, *pen.* viii., am gorn bychan arall, o'r un cyffelyb ysbryd a chynneddfau a'r llall a fu o dan ein sylw. Yr oedd hwn i godi o fysg cyrn y bwch geifr. Ymherodraeth Groeg, wedi y torid y corn mawr, sef Alexander, a chodi "pedwar o rai hynod yn ei le ef, tua phedwar gwynt y nefoedd," sef rhaniad ymherodraeth Alexander i bedair o freniniaethau, dan lywyddiad pedwar o brif flaenoriaid ei fyddinoedd. Dywedir am y "corn bychan" hwn, iddo "dyfu yn rhagorol tua'r deheu"—yr Aift; a "thua'r dwyrain"—Persia ac America, y rhai a ddarostyngid ganddo; "a thua'r hyfryd wlad," sef Judea. "Aeth yn fawr hefyd hyd at lu y nefoedd," sef pobl Dduw, a "bwriodd i lawr rai o'r llu, ac o'r ser, ac a'u sathrodd hwynt;" hyny yw, erlidiodd a dyfethodd lawer o honynt. Ymfawrygodd hefyd hyd at dywysog y llu yn erbyn Duw ei hun a'i deml; "a dygwyd ymaith yr offrwm gwastadol oddiarno ef, a bwriwyd ymaith le ei gysegr ef." Attaliai y boreuol a'r hwyrol aberth, a rhoddwyd iddo lu yn erbyn yr offrwm beunyddiol o herwydd camwedd:" hyny yw, cafodd y gallu hwn, ei oddef i gyflawni y drygau anrheithiol hyn, o herwydd *camwedd* pobl Dduw, i fod yn gerydd arnynt er eu dychwelyd a'u diwygio.

Rhoddir desgrifiad pellach a manylach o'r corn bychan hynod hwn, yn eglurhad yr angel, yn niwedd *pen.* viii.; a thrachefn yn *pen.* xi., lle y dywedir, "A'n brenin a wna yn ol ei ewyllys ei hun, ac a ymddyrfachaf, ac a ymfawryga uwchlaw pob duw; ac yn erbyn Duw y duwiau y traetha efe bethau rhyfedd, ac a lwydda nes diweddu'r digder; canys yr hyn a ordeiniwyd a fydd," &c.

Y mae delweddu y corn bychan Groegaidd, a'r eiddo y corn bychan Rhufeinig yn hollol gyffelyb i'w gilydd yn mhob peth; yr oedd y blaenaf, gan hyny, yn gynddelw o'r olaf. Cytuna esbonwyr, yn unfrydol bron, mai Antiochus Epiphanes, brenin Syria, a olygir wrth y corn bychan, yn *pen.*

¹ Y sawl a ewyllysio hysbysiad manwl am y dygwyddiadau hyn, darlledod "Gibbon's Rise and Fall of the Roman Empire."

viii. a'r *brenin* yn *pen. xi.*; ac y mae holl hanes yr anghenfil hwnw yn cyfateb yn berffaith â'r rhagnodion prophwydoliaethol. Ond yr oedd cylch dylanwad a thymmor rhywysg hwnw yn llawer cyfyngach a byrach na'r eiddo y llall. "Yna y chywais ryw sant yn llefaru, a dywedodd rhyw sant arall wrth y rhyw sant hwnw oedd yn llefaru, Pa hyd y bydd y weledigaeth am yr offirm gwastadol a chamwedd anrhaith, i roddi y cysegr a'r llu yn sathra? Ac efe a ddywedodd wrthyf, *Hyd ddeuy fil a thri chant o ddiwrnodau*; yna y purir y cysegr." Sef cynnifer a hyny o ddyddiau priodol; yr hyn a wna tua chwe blynedd a thri mis: ac felly yn union y dengys hanesyddiaeth y bu y cysegr yn Jerusalem yn anrhaith a mathra, a gwasanaeth beunyddiol y deml dan attaliad, drwy drais y brenin hwnw, hyd oni phurwyd y cysegr, ac yr adferwyd y gwasanaeth a'r addoliad dwyfol drachefn gan Judas Maccabeus.

Gallu gwladol ydoedd y corn bychan cyntaf, o ran ei hanfod briodol, ond gallu *eglwysig* oedd yr olaf, yn ei godiad cyntaf, ac hyd oni "thynwyd o'r gwraidd dri o'r cyrn cyntaf o'i flaen ef;" sef tair o'r deg breniniaeth a godasant o'r ymherodraeth Rufeinig, fel y sylwyd o'r blaen; ac y rhoddwyd y tair breniniaeth hyny i'r corn bychan, fel yr unwyd gallu gwladwriaethol at y gallu eglwysig a drawshonasai cyn hyny; a thrwy hyny, cafodd awdurdod a mantais i weithio ei hunan allan yn berffaith-gwbl, drwy wneuthur "rhyfel ar y saint."

Daeth i'r golwg gyntaf fel *corn bychan*, fe dybir, tua'r flwyddyn 606, pan ymarddelwodd Esgob Rhufain awdurdod a dylanwad cyhoeddus ar ac uwchlaw ei frodyr; ac y cyhoeddwyd ef yn esgob cyffredinol eglwysi cred, gan Phocas, ymherawdwr y Ffrancod. Tyfodd yn raddol i wyfwy o faint-ioli a chryfder, gan ymhyffhau yn ei honiadau trāawdurdodol ar y gweinidogion a'r eglwysi, hyd nes daeth yn *gorn mawr* yn mhen tua chant a hanner o flyneddau wedi hyny, sef tua'r flwyddyn 758, pan y tynwyd tri o'r *cyrn cyntaf o'i flaen ef*, neu, y *darostyngodd dri brenin*; ac y cafodd dair breniniaeth yn Itali yn dywysogaeth wladol dan yr enw *etifeddiaeth Pedr*, yr hon a roddid iddo ar y cyntaf gan Pepin, ymherawdwr y Ffrancod, ac a gadarnhawyd iddo drachefn gan Charles Fawr, mab Pepin.

Cyfwedda y bwystfil a welodd Ioan yn codi o'r môr (*Dat. xiii*), yn gwbl oll, o ran ei brif ddelweddau, â'r "corn bychan." Rhoddodd y ddraig i hwnw "ei gallu a'i gorseddfainc, ac awdurdod mawr—a rhoddwyd iddo ef enau yn llefaru pethau mawrion a chabledd, a rhoddwyd iddo awdurdod i weithio ddau fis a deugain. Ac efe a agorodd ei enau mewn cabledd yn erbyn Duw, i gablu ei enw ef, a'i dabernacl, a'r rhai sydd yn trigo yn y nef. A rhoddwyd iddo awdurdod ar bob llwyth, ac iaith, a chenedl."

Y peth nesaf i ymofyn iddo ydyw, yr *amser* a nodir fel tymmor parhad ei rwyng a'i awdurdod. Rhoddir ef mewn tri dull gwahanol o gyfrifiad,— "Amser, amseroedd, a rhan amser—" dau fis a deugain"—a "mil dau gant a thriugain o ddyddiau;" a rhoddir ef yn y naill ddull a'r llall amrywiol weithiau. Yr un tymmor, a'r un faint o dymmor, a arwydda y tri. "Amser" ydyw blwyddyn; "amseroedd," dwy flynedd; a "rhan amser," hanner blwyddyn. A chyfrif yn ol y drefn flyneddol hon, gwna felly dair blynedd a hanner; a chyfrif fesur y misoedd, gwna y tymmor ddau fis a deugain; ac wrth y dyddiau, gwna fil dau gant a thriugain o ddiwrnodau. Dengys yr esboniedydd craffus hwnw, Fleming, yr hwn a gyhoeddodd ei waith gorchestol ar "Gyfodiad a Chwmp y Babaeth," yn 1701, y tuhwnt

i bob ammheuaeth, mai cynnifer o flyneddau a gynnwysa tair blynedd a hanner o ddyddiau, ydyw meddwl y brophwydoliaeth, a'r ddau fis a deugain yr un modd; ac mai blyneddau lleuadol ydyw blyneddau prophwydoliaeth bob amser. Blwyddyn lleuadol ydyw deuddeng mis o ddeng niwrnod ar hugain yn mhob mis; yr hyn a rydd dri chant a thriugain o ddyddiau iddi, yn lle tri chant a phump a thriugain, ac ychydig oriau, yn ol ein blwyddyn ni. Tair blynedd a hanner o'r cyfrif lleuadol a wna fil dau gant a thriugain o ddyddiau; a dau fis a deugain o fisoedd lleuadol a wna yr un faint yn union—fel hyn:—

	360 amser
	720 amseroedd
	180 hanner amser
Tair blynedd a hanner, o dri chant a thriugain o	—
ddyddiau i'r flwyddyn, a wna	- - 1260 o ddyddiau.
	42
	30
A dau fis a deugain o ddeg niwrnod ar hugain	—
i'r mis, a wna	- - - - - 1260 o ddyddiau.
	—

Yna, a chyfrif pob diwrnod am flwyddyn, ystod parhad, bywyd, ac awdurdod y “corn bychan,” o'i gyfodiad i fyny hyd ei doriad i lawr; a'r bwystfil, o'i godiad o'r môr hyd derfyniad ei rwysg—ydyw un fil dau gant a thriugain o flyneddau.

Pe gallef fod yn sicr pa bryd i ddechreu cyfrif, ni byddai anhawsdra i benderfynu ynghylch *amser y diwedd*. Erys y cyfrinedd, gan hyny, rhwng y ddau gyfnod a fu dan ein hystyriaeth, sef, pa un a ydym i ddechreu cyfrif y mil dau gant a thriugain o flyneddau yn y flwyddyn 606, pan gyhoeddodd Ymherawdwr Phocas Boniface III. yn esgob goruchaf a chyffredinol, ai ynte o'r flwyddyn 758, pan unwyd y gallu gwladol â'r un eglwysig yn mherson y Pab Paul I., drwy gyflwyniad tair breniniaeth yn Itali yn deyrnas iddo, ac yn feddiant yr eglwys, gan yr Ymherawdwr Pepin. Os ydym i ddechreu cyfrif yn y cyfnod blaenaf, yna rhedai y mil dau gant a thriugain o flyneddau i'r pen (a chyfrif yn ol blyneddau lleuadol, sef blyneddau y brophwydoliaeth) yn y flwyddyn fyth-hynodol 1848. Ond os yn y cyfnodiad olaf yr ydym i ddechreu y cyfrif fel gwir amser y brophwydoliaeth, rhydd hyn estyniad o gant a hanner o flyneddau ymhellach i oes y bwystfil, ac ni therfyna hyd y flwyddyn 2000. Doethaf i ni ydyw peidio dywedyd dim yn benderfynol ar y mater. Ond rhaid i ni ddywedyd y tueddir ni yn gryf at y cyfnod cyntaf, gan yr ymddengys i ni mai dyna y pryd y torodd y corn allan i'r golwg yn amlwg a chyhoeddus, a'i fod yn wrthddrychnod y brophwydoliaeth fel “corn bychan” cyn iddo gael awdurdod a llywodraeth wladol mewn enw a ffurf i'w feddiant. Oblegid yr oedd iddo enau yn traethu “mawrhydri a chabledl,” ac yr oedd wedi ymfawrygu ac ymddyrechafu llawer, ymhell cyn hyny. Yn y flwyddyn 608, dwy flynedd ar ol cyhoeddi Esgob Rhufain yn esgob goruchaf a chyffredinol cred, gan Phocas, darfu i'r Pab Boniface IV. gyhoedd arddel ac awdurdodi eilun-addoliaeth, drwy gysegru y Pantheon, yn Rhufain, yn deml addoliad y Forwyn Fair a'r holl saint. Yn y flwyddyn 666, drachefn,

ordeiniodd y Pab Vitalian, fod i'r addoliad cyhoeddus yn yr eglwys gael ei gyflawni yn yr iaith Lladinaidd yn unig. Fel hyn, ni a welwn fod y corn yn bodoli yn yr amser hwn, a'i fod wedi agoryd ei enau, ac yn "traethu mawrhydri a chabledd" yn groew a rhugl ddigon. Ymddengys fod iddo "enau yn traethu mawrhydri a chabledd" cyn fod ganddo "awdurdod i wneuthur rhyfel ar y saint." Derbyniodd yr awdurdod hon yn mhen cant a hanner o flyneddau wedi iddo ddyfod yn gorn neu yn allu eglwysig, trwy roddiad y tair breniniaeth iddo gan Pepin, fel y nodwyd eisoes, pryd y daeth yn gorn coronog, i wisgo y *tiara*, neu y gorn driphlyg. Yn awr, cafodd awdurdod wladol i'w alluogi i wasgu ei drawder eglwysig ar ddyinion, ac i wneuthur rhyfel ar y saint, am ei gwadu, a gwrthod ymostwng iddi. Tueddir ni, gan hyny, i olygu, nad rhagflaenor yr Anghrist, neu y dyn pechod, fel y tybiai rhai, ydoedd Boniface III., yr hwn a gyhoeddwyd yn esgob goruchaf a chyffredinol yn 606, ond fod y dyn pechod ei hun wedi ymddangos yn ei wir hanfod a'i ddelw, er nad yn ei lawn nerth y pryd hwnw; a'n bod i ddechreu cyfrif y mil dau cant a thriugain o ddyddiau, neu flyneddau, yn y fwyddyn hono. Dealedd ein darllenwyr nad ydym yn cymeryd arnom sicrhau y peth yn benderfynol, ond yn unig fod ein meddwl yn *gogwyddo* yn gryf i'r golygiad.

Yn y brásnodion a wnaethom ar rai o'r prophwydoliaethau ynghylch lle ac amser cyfodiad ac ymddangosiad y dyn pechod—y corn bychan—y bwystfil, &c. a delweddau priodol yr anghenfil hwn,—a dâl o honom Eglwys Rufain gyferbyn a hwy, yn ei hysbryd ei chynneddfau a'i delweddion hithau, meddyliem i ni ei chanfod a'i hadnabod yn anffaeledig fel gwrth-ddrych y prophwydoliaethau hyny, ac mai y hi a raid ei fod, neu nad ymddangosodd erioed eto ar y ddaear. Ac os nad ymddangosodd cyn hyn, nid all byth ymddangos, oblegid y mae yr amser nodedig wedi hen fyned heibio; fel, os na chyflawnwyd y prophwydoliaethau hyny am ddadguddiad y dyn pechod, ac ymddangosiad y corn bychan, cyn yn awr, ni ellir eu cyflawni mwyach, gan fod eu cyfnod rhagnodedig wedi pasio. Ond y maent wedi eu cyflawni yn llawn a hollol. Cymerodd yr holl ddygwyddiadau perthynol i'r ymherodraeth Rufeinig, a ragfynedig yn y prophwydoliaethau, le, hyd eithaf ystyr pob llythyren ac iota o honynt. Y mae hanesyddiaeth yr ymherodraeth, yn ei chyfodiad a'i chwymp, yn wyrthiau hollol gyfatebol i'r gweledigaethau prophwydoliaethol, a hanesyddiaeth Eglwys Rufain, hithau, yn ei nhodwedd Pabyddol, yn cyfateb yn yr un modd hefyd i ragddesgrifiadau yr unrhyw o'r dyn pechod, y corn bychan, a'r bwystfil.

Ein gorchwyl yn y lle nesaf, fydd cymharu y dygwyddiadau pwysig a hynod a fu dan ein sylw o'r blaen, â'r prophwydoliaethau am gwymp a dinystr y *dyn pechod*, er gweled i ba raddau y maent yn cyfateb i'w gilydd, mor belled ag y gellir gweled a barnu yn bresennol. Fel y rhagfynedig y cyfodiad amrywiol weithiau, a thŵy amrywiol arwyddluniau, yn y gair sanctaidd; felly hefyd rhagfynedig y cwmp, ac yr awgrymid yr amser y cymerai le, fel y cawsom achlysur i sylwi o'r blaen. Dan yr arwyddluniau o agoriad seliau, a thywalltiad phiolau y saith pla diweddfaf, yn y Dadguddiad, gosodir allan, mewn rhan fawr, y gwahanol orchwyliaethau mawrion a ddygai yr Arglwydd yn ei ragluniaeth ar y byd er darostwng a dinystrio y gelyn mawr hwn i'w achos a'i bobl. Wrth gymharu y desgrifiad o ganlyniadau agoriad y chweched sel â chanlyniadau tywalltiad y seithfed phiol, tueddir ni i feddwl yn gryf, eu bod yn golygu yr un amser

a dygwyddiadau yn hollol. "Ao mi a edrychais, pan agorodd efe y chweched sel, ac wele bu daeargryn mawr; a'r haul aeth yn ddu fel sachlen flew, a'r lleuad aeth fel gwaed. A ser y nef a syrthiasant ar y ddaear, fel y mae y ffygysbren yn bwrw ei ffygys gleision, pan ei hysgydwer gan wynt mawr. A'r nef a aeth heibio fel llyfr wedi ei blygu ynghyd; a phob mynydd ac ynys a symudwyd allan o'u lleoedd. A breninoedd y ddaear, a'r gwŷr mawr, a'r cyfoethogion, a'r pencapteniaid, a'r gwŷr cedŷrn, a phob gŵr caeth, a phob gŵr rhydd, a ymguddiasant yn yr ogofŷydd, ac yn nghreigiau y mynyddoedd," &c. Drachefn, ar dywalltiad y seithfed phiol, "Yr oedd lleisiau, a tharanau a mellt; ac yr oedd daeargryn mawr, y fath ni bu er pan yw dynion ar y ddaear, cymaint daeargryn ac mor fawr. A gwnaethpwyd y ddinas fawr yn dair rhan, a dinasoedd y cenedloedd a syrthiasant, a Babilon fawr a ddaeth mewn cof ger bron Duw, i roddi iddi hi gwpan gwin digofaint ei lid ef. A phob ynys a ffôdd ymaith, ac ni chofwyd y mynyddoedd." Adgofia ein darllenwyr ein sylwadau y tro o'r blaen yn mherthynas i'r ddaeargryn fel arwyddlun o chwyldroad gwladwriaethol, a'i bod i'w deall felly bob amser y sonir am dani yn mhrophwydoliaethau y Dadguddiad. Y mae y disgrifiadau uchod o ganlyniadau agoriad y sel a thywalltiad y phiol yn gryffon ac ofnadwy iawn. Benthycir gwrth-ddrychau y greadigaeth anianol i bortreadu sefydliadau gwladwriaethol. Wrth yr haul, golygir rhyw bennaeth neu frenin; y lleuad, a arwydda y bendefigaeth ac urddasolion y llys; y ser, awdurdodau a swyddogion y llywodraeth; y nef, y ffurflywodraeth. Wrth fod yr haul yn myned "yn ddu fel sachlen flew," y deallir, y byddai i ryw bennaeth neu frenin golli ei goron a'i awdurdod, ei urddas a'i ogoniant breninol. "Y lleuad yn myned yn waed," a arwydda gwmp a darostyngiad y bendefigaeth, mewn canlyniad i ddimchweliad yr orsedd. Syrthiad y ser, a olyga fod swyddogion gosodedig y llywodraeth yn colli eu lleoedd, eu swyddau, a'u hawdurdodau. "Y nef yn myned heibio fel llyfr wedi ei blygu ynghyd," a olyga, fod y ffurflywodraeth yn cael ei doddi heibio a'i chyfnwid yn hollol. Dilynir naturiaeth yn fanwl a chywrair yn yr holl ddesgrifiad. Dywed amryw dystion o ddaeargrynfâau mawrion, bod yr haul yn ymddangos fel mwdwl du, a'r lleuad fel tywarchen o waed, yn y ffurfafen; a'r ser megys pe byddent yn syrthio yn gawodydd drwy yr awyr; a'r holl nefoedd fel pe yn ymblygu ac yn ymrolio ymaith, a'r mynyddoedd a'r bryniau fel yn neidio ac yn dianc i ffordd.

Wedi hyn, dodir heibio y dull portreadol neu gyffelybol o lefaru, a dywedir, fod "breninoedd y ddaear, a'r gwŷr mawr," &c., yn ffoi ac "yn ymguddio yn yr ogofŷydd, ac yn nghreigiau y mynyddoedd." Y mae canlyniad tywalltiad y seithfed phiol yr un yn hollol o ran sylwedd a'r un uchod; ychwanegir, i'r ddinas fawr gael ei gwneuthur yn dair rhan, &c., ac i Babilon Fawr ddyfod mewn cof ger bron Duw, i roddi iddi hi o gwpan llid ei ddigofaint ef.

Yn awr, cymharer dygwyddiadau 1848 â'r disgrifiadau prophwydoliaethol dan sylw, er gwelod y cyd-darawiad tra nodedig sydd rhyngddynt a'u gilydd. Y peth cyntaf yw "mellt a tharanau a lleisiau," terfysgoedd ac ymrsonau poethlyd ac ofnadwy; yna, "daeargryn fawr, y fath ni bu er pan yw dynion ar y ddaear," &c., chwyldroad gwladwriaethol digyffelyb o ran ei gyffredinolrwydd a'i effeithiau; a diau nad oes yn hanes chwyldroadau gwladwriaethol yr oesoedd, anghraiffit o un mor gyffredinol ac

ofnadwy a'r un yn 1848. Ysgydwodd hwnw holl wladwriaethau Ewrop yn gyfan, i raddau mwy neu lai. Yn nesaf, "A'r haul a aeth yn ddu fel sachlen flew." Barnai llawer o hen esbonwyr prophwydoliaethau y Dadguddiad, mai wrth yr haul, y golygir, breniniaeth Ffrainc yn neillduol, yr hon fu am oesoedd yn brif gynnalïaeth ac achles i'r Babaeth a Phabyddiaeth. Yr oedd y brenin a deyrnasai yn Ffrainc, yr amser yr oedd Fleming yn ysgrifenu ar y Dadguddiad, yn 1700, yn defnyddio yr haul yn arwyddlun ei freniniaeth. Ond pa un bynag ai fod brenin Ffrainc, yn neillduol, yn cael ei bwyntio allan gan y brophwydoliaeth dan arwyddlun yr haul neu beidio, ai ynte arwyddlun cyffredinol o benaeth neu frenin unrhyw wlad ydyw,—canlyniad cyntaf toriad allan y chwyldroad, yn 1848, ydoedd i haul fyned yn ddu fel sachlen flew, sef i frenin y Ffrancod, Louis Philippe, gollï ei goron, ei orsedd, a'i awdurdod freninol. Yr oedd y bore byth-gofiadwy hwnw, Chwefror 24ain, 1848, yn cyfodi fel haul yn ei lawn ddysgleirdeb; tywynai yn ei lawn ogoniant breiniolhyd y prydawn, pan y torodd y ddaeargryn fawr allan, a'i taflodd ef o'i gylchrod,—ac a ddymchwelodd ei orseddfainc o awyr wladwriaethol Ewrop i'r llwch, ac a'i llosgodd wedi hyny yn fwg a lludw. Aeth y *lluad*, y bendefigaeth, fel gwaed; terfysgwyd a diraddiwyd hi; collodd ei lliw a'i llewyrch; dyddymwyd ei hurddas a'i theitlau. Collodd holl swyddogion yr orsedd eu llywodraeth, eulleoedd, a'u dylanwad. Aeth "y nef heibio fel llyfr wedi ei blygu ynghyd:" cyfnewidiwyd y llywodraeth wladol o ran ei hegwyddorion a'i ffurf. Cyhoeddwyd Ffrainc yn werin-lywodraeth, a threfnid fod i gymdeithasfa wladwriaethol gael ei hethol, gan yr holl ddeithiaid gwrywaidd o oedran a nodwedd priodol. Yn ganlynol, desgrifir helaethiad y chwyldroad a'i effeithiau i ac ar deyrnasocedd a phenaduriaid eraill. "A breninoedd y ddaear a'r gwyr mawr," &c., "a ymguddiasant yn yr ogofeydd." Ac fel hyn, yn hollol, y dygwyddodd mewn canlyniad i ddymchweliad gorsedd a breniniaeth Ffrainc, fel y dangoswyd eisoes. Erioed ni welwyd cynnifer o benaduriaid, a phendefigion o bob graddau, yn ffoi ac yn ymguddio o'r blaen. Nid oedd Louis Philippe a Guizot, a'u teuluoedd, ond rhagredegyddion i'r wlad hon i liaws mawr a'u dilynasant yn fuan o wledydd a theyrnasoedd eraill. "A gwnaethpwyd y ddinas fawr yn dair rhan." Wrth y "ddinas fawr," golygwn y gallu gwladwriaethol Pabaidd yn Ewrop. Y gallu hwnw oedd yn achlesu ac yn cynnal Pabyddiaeth i fyny yn y gwledydd hyny—yn gorthrymu cyrff a chydwylbodau dynion—yn attal taniad yr ysgrythyrau ymhlith y bobl; gwnaethpwyd y gallu hwn, ag oedd o'r blaen yr un a'r unrhyw o ran sylwedd, yn rhanedig o ran ei ffurf a'i egwyddorion llywodraethol i raddau. Yn Ffrainc, cyfnewidiwyd ei ffurf a'i egwyddorion gwreiddiol yn hollol, a dygwyd ef i'r un gweriniaethol. Mewn gwledydd eraill,¹ cyfnewidiwyd ef o'r ffurf unbenaethol i'r un cyfansawdd o benaduriaeth a gweriniaeth, yn gyffelyb i ffurfwodraeth Prydain Fawr. Yn y lleill, arosodd hyd yma y peth oedd o'r blaen, sef unbenaeth; ac fel hyny, "gwnaethpwyd y ddinas fawr yn dair rhan," ac y "syrthiodd dinasoedd y cenedloedd"—sefydliadau gwladwriaethol y teyrnasocedd hyn, lawer o honynt, ac y siglwyd ac y terfysgwyd hwynt oll i raddau mawrion. Ac yn olaf o'r cwbl, "Babilon fawr a ddaeth mewn cof ger bron," Duw, &c. Y Babaeth ei hunan, neu yr

¹ Megys Prwsia ac eraill, yr hon er ei bod yn llywodraeth Brotestanaidd mewn enw, nid oedd yn rhagori nemawr ddim, mewn llawer o bethau, ar y galluoedd Pabaidd.

Eglwys Babaid. Dodir ei thrychineb hi yn olaf o'r cwbl yn nesgrifad y brophwydoliaeth; a'r olaf ydoedd o ddygwyddiadau y fwyddyn. Ffôdd Louis Philippe o Paris (y cyntaf o ffôedigion y fwyddyn 1848), ar y 24ain o Chwefror; yn nechreu y tymmor, ac ar y 24ain o Dachwedd, yn niwedd y fwyddyn, y ffôdd y pab, yr olaf o'r ffôedigion, o Rufain. Drachefn, ar y 30ain o Ragfyr canlynol, y dydd olaf ond un o'r fwyddyn, taniwyd cant ac un o fagnelau, oddiar gastell St. Angelo, yn Rhufain, i daranu yr hysbysiad pwysig i'r ddinas fawr, i Itali, i Ewrop a'r byd, bod llywodraeth wladol y pab, neu y Babaeth, wedi ei dymchwelyd i'r llwch, wedi parhau o honi am yn agos i un cant ar ddeg o flyneddau! Cenedi cloch eglwys St. Michael, yn y ddinas, yr hon na chenid un amser, ond yn unig ar yr achlysur o farwolaeth pab, i hysbysu yn awr, nid marwolaeth y pab, ond marwolaeth y Babaeth. Aeth y dinasyddion ymlaen mewn rhwysg a gorfoledd, gan ddilëu pob arwyddion ac arwyddluniau o awdurdod wladol y pab oddiar yr adeiladau cyhoeddus; a dadganasant Rufain yn werinlywodraeth, yn nghanol bloeddiadau cyffredinol o lawenydd a chymeradwyaeth! Tarawodd y dygwyddiadau pwysig hyn holl Ewrop â syndod. Disgynent yn "genllysg fel talentau mawrion," ar yr awdurdodau Pabaid yn neillduol. Wedi dyfod ychydig atynt eu hunain o'r terfysg a'r braw, dechreuent gydymosod a chydymgyngori ynghylch y moddion a'r dull goreu i adferu *ei sancteiddrwydd* yn ol i'w awdurdod: a diau na chyflwyna hanes cynghorau holl oesoedd y ddaear y fath ddrych o bendroni, ymddyrsu, ymrwystro, ac aflwyddo, ag a ddengys y cynghor hwn. Os "ynfydwyd barnwyr," ac os "dygwyd calonau penaethiaid pobl y ddaear" erioed, fel y "orwydrent mewn anialwch heb ffordd," gwnaed hyn yn awr. Y cytundeb cyntaf oedd, fod i Hispaen gymeryd y gorchwyl mewn llaw: addawai hithau yn ewyllysgar a llawen y gwnaethai. Ond ar hyn, rhuthroedd yr hen flaenor milwraidd dewr, Cabrera, i'w thiriogaethau, a chododd wrthryfel yno yn mhlaid Don Carlos, yr hwn a fygythiai yn drwm ddymchwelyd llywodraeth y frenines am beth amser: felly rhwymwyd dwylaw Hispaen i fyny fel na allent ddwyn dim i ben. Yna edrychid ar Awstria; ac er cymaint oedd awyddfryd yr hen ddraig ysgymun hōno i gyflawni y wasanaeth hwn o drawsdr a ffeidd-dra, yr oedd ganddi fwy na digon o waith yn ei thaleithiau ei hunan, y rhai oeddynt ferw gwyllt drwyddynt o derfysg a gwrthryfel. Wedi hyn, gofynid i lywodraeth Ffrainc gymeryd y gorchwyl; ond ni feiddiai hōno, gan gywilydd, y pryd hwnw, wregysu ei ehleddyf, ac ymosod ar Rufain, am ddilyn yr esiampl a roddasai hi ei hun o'i blaen; er y teimlai y llywydd, a'r rhan fwyaf o'i weinidogion, yn bur awyddus i'r gwaith. Wedi hyn, drachefn, cytunid fod i Naples a Sardinia, dwy gymydoges agosaf y pab, uno eu galluoedd er ei adferu. Addawsant wneuthur; ond cyn cychwyn cam, syrthiasant allan â'u gilydd, ac ystrancient, ac felly terfynodd y llith hon.

Yna, dyma y gair yn dyfod fod Ffrainc wedi penderfynu ymosod ar yr anturiaeth, ac yn parotōi ati: diwedd yr un wythnos drachefn, wele y newydd o Paris fod y Gyndeithasfa Wladwriaethol yn penderfynu na byddai a wnelai Ffrainc â'r mater! Teflid y peth yn ol i Hispaen eilwaith; dywedai hithau bod ganddi yn awr ddeng mil o wyr yn barod i'w hanfon: yn union wedi hyn, hysbysai na allai hebgor ond pum mil, bod terfysgoedd ~~----~~ tori allan yn Catalonia. Addawai anfon y pum mil hyn yn ddiode; ond ~~----~~ ddi edrych, yr oedd ei llogell mor wag o arian, fel na allai ddwyn y

draul! O'r diwedd, er ei gwarth a'i chywilydd bythol, cymerodd llywodraeth Ffrainc y gwaith mewn llaw, ac anfonodd ei llongau i ymosod ar ei chwaer, ie, ei phlentyn ei hun mewn ystyr: gwerin-lywodraeth ieuanc, wanaidd; ond anrhydeddus Rhufain, yr hon oedd yn dechreu blodeuo a ffrwytho yn hyfryd dan weinyddiaeth ddoeth, gyfiawn, a grymus, yr enwog Joseph Mazzini; i ymosod, meddwn, ar y werin-lywodraeth deilwng hon, a hyny yn mhlaid y llywodraeth drawsaf a mwyaf gorthrymus a felldithiodd ac a warthruddodd y ddaear erioed. Dysgwyliai y Ffrancod fynedfa rwydd i mewn i'r ddinas, ac na fyddai raid iddynt ond dangos eu hunain o'i blaen, er dychrynu y Rhufeinwyr i ymstyngiad; ond yn hyn fe'u siomwyd yn dost. Cawsant lawer curfa galed, a bu raid anfon lleng ar ol lleng o filwyr i adgyfnerthu y fyddin, cyn y gallasant gymeryd y ddinas; ac ni chymerasant hi o gwbl mewn gwirionedd, canys pan welodd y Rhufeinwyr mai oferedd fuasai gwrthwynebu yn hwy, rhoddasant y ddinas i fyny ar ammodau; ac felly, yn lle gogoniant, medodd Ffrainc warth a gwaradwydd yn Rhufain yn mhob ystyr.

Bellach, gallasem ddisgwyl gweled y pab yn dychwelyd yn ei ol i'w lys a'i awdurdod; ond na, y mae yn dyrysu eto. Ceisiai llywodraeth Ffrainc ganddo lacio peth ar efynau ei lywodraeth, a chaniatáu rhyw gymaint o ddiwygiadau gwladwriaethol i'w ddeiliaid; ond mynai yntau fynd yn ol yn hollol rydd ac annibynol i wneuthur fel y mynai. Erfyniai Ffrainc yn ostyngedig arno i ystwytho tipyn er ei mwyn hi, fel y caffai gochl i'w thafu dros ei hymosodiad diweddar ar Rufain—ei bod wedi ymrwymo yn gyhoeddus ger bron Ewrop i ddiogelu rhyddid i'r Rhufeinwyr ar ei adferiad. Ymddangosai yntau fel yn gwrandaw ac yn ystwytho; gyda hyny, dyna Awstria a Naples yn sisial yn ei glust, ac yn ei droi drachefn, a thyngai ei sancteiddrwydd nad äi yno byth, oni chaffai yr holl awdurdod i'w law ei hun a'i gardinaliaid fel o'r blaen. Yn y cyfamser, yr oedd gweinidogion ei drawsder (y cardinaliaid) y rhai a ddychwelasant yn ol i Rufain wedi i'r Ffrancod feddiannu y ddinas, yn llywodraethu â llaw gref yno, ac yn tywallt eu creulonderau dreigaidd ar bob grudd, rhyw, ac oedran a ddrwgdybid ganddynt eu bod yn gyfeillion rhyddid. Adferwyd yr hen chwil-lys uffernol a ysgydwasai gwerin-lywodraeth Mazzini ymaith, a chwareuai hwnw ei hen ystranciau melldigedig drachefn; ac yn mysg yr aberthau a syrthient i'w safn, yr oedd Dr. Achilli, offerriad Pabaidd enwog gynt, ond yr hwn a argyhoeddaisid o dwyll Pabyddiaeth, ac a ymwrthodasai â hi, ac yn rhymmor y werin-lywodraeth a aethai i Rufain yn oruchwyliwr dros y Fibl Gymdeithas. Ond pan dybygid fod pob maen tramgwydd wedi ei symud oddiar ffordd y pab i ddychwelyd yn ol, a phan oedd yntau wedi gadael ei loches yn Gaeta, ar y bwriad hwnw, dyma lythyr hynod llywydd gweriniaeth Ffrainc at un o swyddogion y fyddin yn Rhufain, yn tystio yn gryf ac yn groew, na oddefai Ffrainc i'r Rhufeinwyr gael eu gorthrymu yn y modd hwnw, ac y mynai fufflywodraeth a ddiogelai eu rhyddid iddynt—na chaffai neb le i ddywedyd fod Ffrainc yn tynu ei chleddyf i'r dyben i yspellio un genedl o'i hiawnderau cyfiawn, &c. Tarawodd hwn y pab a'i gardinaliaid fel taranfollt. Pan ddangosid y lythyr i'r hen dad druan, plethai ei ddwylaw; a chodai wyn ei lygaid i fyny fel un wedi ei daraw gan barlus mud. Dyma hi wedi dyrysu eto. Pan ddaeth y Gymdeithasfa Wladwriaethol yn Paris ynghyd, cymerodd lythyr y llywydd yn achos Rhufain dan ei hystyriaeth; llwyddodd y gweinidog-

ion i gael pleidlais yn y gymdeithasfa i ddodi y llythyr hwnw heibio fel peth dirym : a dyma wawr ar achos y pab unwaith eto, a dechreuai ym-galonogi i ddychwelyd. Ar hyn, llywydd Ffrainc, wedi ei gythruddo gan waith ei weinidogion yn dirymu awdurdod ei lythyr, a'u diswyddodd, ac a alwodd wyr eraill i'w gynghor yn eu lle. Dyma hi yn tywyllu eto. Pa fodd bynag, tybid na buasai y llythyr wedi ei ddirymu unwaith gan bleidlais y gymdeithasfa yn sefyll yn fwgan ar ei ffordd mwyach, efe a benderfynai o ddirifir ddychwelyd yn bur fuan. Anfonid cenadau oddiwrth y cardinaliaid o Rufain ato, i erfyn arno brysuro, ac atebodd yntau y dychwelai yn ddioed. Gyda bod y cenadau yn troi oddiwrtho tua Rhufain, gyda y newydd hwn, dyma newydd arall yn ei gyrhaedd yntau o Paris, fod blaenor y fyddin Ffrengig yn Rhufain i gael ei newid, ac un oedd yn neillduol o anghymeradwy ganddo ef (y pab) wedi ei benodi i'r swydd ! Dyma hi yn dyrysu eto : oedodd ei ddychweliad drachefn hyd rywbryd—“A hyd pa gy'd, pwy a'i gwyr ?” Y mae yr holl bethau rhyfedd hyn yn llefaru rhywbeth. Onid yw llaw Duw yn amwng iawn yn yr holl oruchwyliaeth dra hynod hon ? Oni ellir dywedyd yn eithaf priodol yn iaith y prophwyd Daniel—“Y farn a eisteddodd, a'i lywodraeth a ddygant oddiarno.” Fel yna y mae yr achos yn sefyll pan ydym yn ysgrifenu. Gallai y dychwel yn ol i Rufain rywbryd, ac am ryw dymmor, a gallai y bydd wedi dychwelyd yno cyn y caiff ein darllenwyr y “Traethodydd” hwn i'w dwylaw ; ond byth ni bydd yno mwy y peth oedd o'r blaen. Y mae y bobl wedi darfod âg ef am byth o ran eu teimladau. Torodd yr aelodau eu hunain y pen oddiar y corff, a thafasant ef ymaith, gan ddywedyd, “Ni raid i ni wrthyt.” Gellir ei osod yn ol â'r cleddyf, a rhoddi rhyw fath o glud i'w ddal yno am enyd ; ond byth ni red na gwaed, na gwres, na bywyd, o'i galon iddo mwy. Darfu i'r Ffrancod hefyd yn eu hymosodiad ar Rufain, er ceisio adferu ei arglwyddiaeth dymmorol, roddi marwol archoll i'w awdurdod ysbrydol. Pan welodd y bobl eu dinas yn cael ei dryllio, eu meddiannau yn cael eu dinystrio, a'u gwyr yn cael eu dyfetha, er adferu ei drawder tymmorol, aethant i ffieddio ei grefydd a'i drawder ysbrydol hefyd : ac i ddial ar hono, dechreuasant argraffu a thaenu yr ysgrhythrau. Gallwn ddywedyd wrth derfynu, “Bys Duw yw hyn.” Efe a roddodd yn nghalonau y galluoedd hyn oll i wneuthur ei ewyllys ef, yn ddiarwybod iddynt eu hunain.

Meddyliem ni yn sier fod yr amgylchiadau hyn oll yn cynnwys cyflawniad tra amwng a hynod o'r prophwydoliaethau a fuant dan ein sylw. Pa un a ydynt i gael cyflawniad mwy helaeth eto, yn mhen rhyw dymmor i ddyfod, nid awn i geisio penderfynu yn awr. Nid yw goruchwyliaeth 1848 wedi ei gorphen eto, ac nid oes neb a w'yr yn awr pa bryd ac yn mha beth y terfyna.

Chwennychasem sylwi ar amryw o brophwydoliaethau eraill, a ellir eu cymhwyso gyda phriodoldeb neillduol at amgylchiadau y dyddiau hyn, a gwneuthur amryw gasgliadau ymarferol oddiwrth y cyfan ; ond rhaid i ni ymattal, gan ddarfod i'r erthygl hon redeg i feithder mawr eisoes. Ni a derfynwn gan alw ar holl garedigion yr efengyl i gydlawenhau uwch ben yr holl oruchwyliaeth ryfedd hon. “Deuwch, gwelwch weithredoedd yr Arglwydd, pa anghyfnedd-dra a wnaeth efe ar y ddaear.” “Efe a farnodd y buten fawr, yr hon a lygrodd y ddaear â'i phuteindra.” Ofer fydd llafur y holl garedigion yn ceisio ei meddyginiaethu. Cymerai caredigion yr hen

Fablon gynt driagl i'w dolur hi, ond yn ofer. "Ni a lahasom Babilon," meddent, "ond nid aeth hi yn iach; gadewch hi, ac awn bawb i'w wlad; canys ei barn a gyrhaedd i'r nefoedd, ac a ddyrchafwyd hyd yr wybrau." Nid annhebygol ydyw, y terfyna holl ymdrechion cogfeddygon y Babilon Rufeinig yn y cyffelyb fodd. Os ydyw *amser ei dyrnu* hi wedi dyfod, ofer fydd llafur holl freninoedd, a'r rhai a fuont fyw yn foethus, ac a buteiniasant gyda hi, i'w dal i fyny—syrth y cynnorthwywyr a'r cynnorthwyedig; "canys dydd Arglwydd y lluoedd sydd ar bob balch ac uchel, ac ar bob dyrchafedig, ac efe a ostyngir, &c. Yna yr iselir uchelder dyn" (y dyn pechod, yr hwn fu yn hir yn ymddyrchafu), "ac y gostyngir uchder dynion" (ei gyfeillion a'i gynnorthwywyr), "a'r Arglwydd yn unig a ddyrchefir yn y dydd hwnw. A hwy a änt i dyllau y creigiau, ac i ogofâu llychlyd, rhag ofn yr Arglwydd, a rhag gogoniant ei fawredd ef, pan gyfode efe i gynhyrfu y ddaear."

“GWLAD FY NHADAU.”

Hoff yw gan rai gael rhwysg a bri, Gorhaeidd Ior a'i lleinw hi:—
 A thyru aur a pherlau, I fyny o'i thrigfanau,
 A llwybro gwledydd fwy na rhif:— O enau myrdd y derch bob dydd
 Mil hoffach genyf finnau Ei glodydd Ef yn ddiau,—
 Gael tawel fyw mewn syml fwynhad, Rhyw dawel hedd, a llon fwynhad,
 Rhwng bronnydd "gwladfy nhadau." A geir yn "ngwlad fy nhadau."

Mae llawer gwlad mewn uchel fawl Caf draw, wrth fyn'd o le fy nhrig
 Am ddidawl ryfeddodau; Hyd frig ei thâl fynyddau,
 A llawer un, pe teithiwn hi, Fugeiliaid gwâr yn gwylio 'n llon
 Hyfrydweh imi roddai: Eu gwynion ddiadellau;
 Rhyw fwynder gwell, er hyny, sydd Heb wyllfil ffrom i lunio brâd
 Yn nedwydd "wlad fy nhadau." Trwy dawel "wlad fy nhadau."

Ei hawel iach, ei llwyni llawn, Trwy 'r frodir werdd ar fore haf,
 'A'i bywlawn bêarogiau— I löni claf deimladau,
 A'r aeron per, crogedig, sy Ceir seiniau gwych hyfrydlawn gân
 Yn llenwi ei pherllanau; O fin ei glân lancesau,
 Y rhai'n, a llon ragorion gant, Wrth odro 'n llen y blithion dda
 Hynodant "wlad fy nhadau." Ymddyga "gwlad fy nhadau."

Pe bae i dynged flin fy nwyn Ar ael ei bronnydd, O mor wych
 O awel fwyn ei brynau, Yr edrych ei rhaiadrau,
 I sengi bröydd estron dir, Yn ffrydiau gwynion tua 'r pant
 Nes treulio hir flyneddau; Pan ruthorant draws y creigiau;
 A mynych ddeigrin llaith, mi wn, A melus ddwr ffynnonau gant
 Y cöfiwn "wlad fy nhadau." Ddiodont "wlad fy nhadau."

<p>Ei llawlen werdd a fritha 'r haf A'i holl hygaraf dlysau ; A chynnyrch llawn ei llwytho wna, Nes y llifeiria ffrydiau O laeth a mel, mil gwell na gwin, Trwy iesin " wlad fy nhadau."</p>	<p>Pan ddel i ben fy ymdaith fêr Trwy amser a'i ofidiau, O fewn ei llwch, O rhodder fi ! I gysgu 'm hirion oriau : Hŷn dawel gaf mewn hedd di-frac Yn mynwes " gwlad fy nhadau."</p>
<p>Yn danllwyth gwyllt rhoir dawn ei beirdd Wrth lwybro ael ei bryniau, Pan dremiant draw ei glynoedd heirdd A'u tonawg yd yn chwarau, A rhoddion hael y dwyfol Dad Yn hulio " gwlad eu tadau."</p>	<p>A phan ddaw bloedd yr angel mawr I alw pawb o'u beddau, Caf eegyn fry mewn nefol wawr O ddulawr ei phriddellau, A melus ganmawl cariad rhad Pan ffamia " gwlad fy nhadau."</p>

ADDYSG Y LLYWODRAETH.

[Y MAE awdur yr ysgrif ar Addysgiant yn ein rhifyn diweddfaf wedi anfon i hysbysu ei fod yn foddllawn i adael yr ysgrif hono fel y mae i farn y wlad, heb ychwanegu dim ati. Ond derbyniasom y llythyr a ganlyn oddiwrth awdur yr ysgrif a ymddangosodd yn y rhifyn am Gorphenaf.

Yr ydym yn deall fod yn anghenrheidiol hysbysu mai fel gohebiaethau y mae y ddwy ysgrif ar Addysgiaeth wedi ymddangos, ac nad yw y "Traethodydd" yn gyfrifol am y syniadau sydd ynddynt. Gallaisid meddwl y buasai pawb yn gweled hyn; ond y mae anwybodaeth a dwluni rhai dynion bron yn ddiderfyn. Y mae iaith y "Traethodydd" ar bob pwnc yn unfurf o'r dechreu hyd heddyw; ond yr ydym, er mwyn tegwch, yn rhoddi lle yn achlysurol i lythyrau oddiwrth ohebwy, megys yr Amddiffyniad i'r Eglwys Sefydledig yn ein rhifyn diweddfaf. Ac ar y tir hwn y rhoisom gyfie i'r ddwy ochr ysgrifenu ar y pwnc o Addysgiaeth.—GOL.]

AT OLYGYDD Y "TRAETHODYDD."

Sra,

Drwy rai o'r dygwyddiadau sydd ar droiau yn drysu yr amcanion cryfaf, ni welais y "Traethodydd" diweddfaf am fis cyflawn ar ol ei gyhoeddiad. Yr wyf wedi treulio mis arall i ystyried pa un a ddylaswn ateb yr ysgrif ar "Addysgiaeth" ai peidio. Wedi cryn fyfyrnod, yr wyf wedi dyfod i'r penderfyniad y byddai ei hateb yn wastref ar amser, yn bla ar amynedd, ac yn ddirmyg ar reswm.

Pe y canfyddaswn yn yr ysgrif dan sylw, gyfrifon teg, hysbysiadau cywir, darluniadau didwyll, syniadau cyson, ac ymresymyadau priodol, buaswn yn eu hateb ar unwaith, er nad yw yn cynnwys un mymryn o brawf y *dylai* y llywodraeth gyfranu addysg i'r deiliaid. Ond ni chynnwys y deg tudalen ar hugain ddim o'r fath. Cyfrifon anghywir, hysbysiadau disaill, darluniadau ffugiol, penbleth o anghysonderau, a chruglwyth o haeriadau dibrawf, ydyw y cyfan a welodd yr awdur yn dda ei ddodi ger ein bron. Y mae yn achwyn ar enllib, ac yn enllibio ei hunan. Beia ar anghysondeb, ac ymgorddeda yn ei anghysonderau ei hunan. Achwynna ar ddarnguddio oddiwrth y werin, tra y mae ef ei hun yn cwblguddio, ac yn eagusodi y gwaith. Y mae yn Ymneilldŵr cyson, ac eto yn addaf hawl i llywodraeth i *orchymyn* darllen y Bibl mewn ysgolion. Y mae ymron

syrthio i lewyg wrth son am addysg grefyddol fel rhan o ymarferiadau ysgol ddyddiol; ond os derbynia rhyw ysgol arian y llywodraeth, y mae yn foddllawn iddi ddarllen y Bibl a gweddlo. Y mae yn ceisio dangos y bydd yr ysgolfeistr yn elyn i'r gweinidog, ac y bydd y gweinidogion a'r pwyllgorau yn orthrymwyr ar yr ysgolfeistr. Y mae addysg grefyddol, yn ol ei farn ef, yn ddiraddiad ar y Bibl; ond ymdrecha gelu y *rhaed* darllen y Bibl yn mhob ysgol cyn y cynnorthwyr hi gan Bwyllgor y Cynghor ar Addysg. Mae y "*Principality*" a'r "Amserau" yn cael eu cludo ar draul y llywodraeth, meddai ef; ond y mae yn anghofio fod y papyrau hyn yn talu ceiniog o doll am, bob copi a anfonir drwy y llythyrdoll, ac am ugeiniau na anfonir. Nid yw yn cofio eu bod heblaw hyny yn talu 25p. y cant o doll ar y papyr, a 1s. 6c. o doll ar bob hysbysiad o'i mewn. Y mae yr awdur am saith mil o ysgolion yn Nghymru a Mynwy, a sieryd fel pe bae yr Ymneilldŵyr i gynnal pob un o honynt. Pwy sydd i godi pob ysgoldy, i gynnal pob athraw, i brynu pob darlun, ac i roddi yr *un peth a chreff* yn llaw pob plentyn! Y mae pob plentyn drwy y wlad, gwreng a boneddig, mud a byddar, dall ac anafus, cloff ac annhwyllus, claf a chlywus, i fod am ddeddeng mlynedd yn yr ysgolion hyn ol yr ymresymiad, a hyny ar draul yr Ymneilldŵyr. Yn enw dyn, Mr. Golygydd, beth sydd i ddyfod o ysgolion yr Eglwys? A ydyw yr holl foneddigion, masnachwyr, ac amaethwyr yn myned i roddi eu plant mewn ysgolion cyffredin ar draul yr Ymneilldŵyr drusin? Pwy, *mewn difrif*, a wnaeth Ymneilldŵaeth yn gyfrifol am addysg y genedl? Yr oeddwn i, dyn a'm helpo, yn arfer meddwl mai rhieni oedd yn gyfrifol am addysg eu plant. Profed eich gohebydd fod *hasol* gan y llywodraeth i ymyraeth âg addysg eu deiliaid, ac yna, ymresymir âg ef. Cofied mai y pwnc mewn dadl ydyw, *a ddyllai addysg fod yn rhydd neu ofodol?* Nid oes neb am ddadleu âg ef nad yw *rhyw fath* o addysg yn well na *dim*. Nid oes neb yn ei ammheu na byddai yn *fantais* i'r Cymry wybod Saesoneg, er yr ymddengys ei fod yn anghofio os oes cannoedd o Saeson mewn lleoedd da yn Nghymru, fod mil oedd o Gymry mewn lleoedd da yn Lloegr. Peidied a gwneyd bwgan o'r cledrffyrdd. Cofied yr addysgir pob dosbarth yn ol ei sefyllfa gymdeithasol, ac yr ymgoda teilyngdod yn wastad i'w le priodol ei hunan. Nid oes greadur a ddywed air yn erbyn addysgu y Cymro, ond i hyny gael ei wneyd mewn ffordd onest. Os bydd Morganwg a Mynwy cyn hir yn brif fasnachle fwnaidd Ewrop, y mae yn debyg mai nid ysgrifenywyr a goruchwylwyr fydd holl Gymry y wlad y pryd hwnw. Bydd eisiau y glŵywr, y mwawyr, a'r gwŷr tân, fel yn bresennol. Bydd ganddynt deuluoedd i'w cynnal, a thebyg mai nid heb lafur y cynnellir hwy. Ni bydd perygl iddynt newynu os na ddeallant y Groeg a'r Lladin. Nid yr un peth sydd yn cadw Cymro yn Lloegr rhag newynu, ag sydd yn cadw Sais yn Nghymru. Cedwir y Cymro gan ei deilyngdod a'i fedr, ond dygir y Sais i Gymru a chedwir ef yno am fod ei feistriaid yn Saeson. Byddai yn werth i'r bobl dyner galon a ofnant newyn yn Nghymru, os na dderbynr arian y llywodraeth, gofio hyn. Rhaid i addysg pob gwlad ddiabynu ar ei sefyllfa weithiol a chymdeithasol, ond ymddengys fod pleidwyr addysg y llywodraeth yn anghofio hyn. Soniant am adelladau mawrion a theg, ac addysg bendefigaidd, heb gofio mai yr addysg briodol i bob dosbarth ydyw yr hyn a'u cyfaddas at ddyled-swyddau dyfodol bywyd. Rhagrith felddigidig ydyw darlunio i ddiodion gweithwyr a mân-amaethwyr ein gwlad, y galluoga cynllun addysg y llywodraeth i'w plant gyrhaedd urddas a chyfoeth drwy ddyfod yn ddysgybl-athrawon, ac ysgoligion y frenines. Nid oes *gobaith* o hyn, ond i un o bob pump ar hugain; ac o'r nifer hwn bydd mwy na'r hanner na ddeuant byth yn ysgoligion y frenines. Pan y lledanir gau-obeithion fel hyn, y mae yn bryd i bob dyn efelychu Cromwel, a dywedyd, "Syr Harry Vane! Syr Harry Vane! Yr Arglwydd a'm gwaredo i rhag Syr Harry Vane." Yn ol cynllun bresennol y llywodraeth, gellir dewis pedwar o ddysgybl-athrawon, neu is-athrawon o bob cant o ysgoligion. Ond a oes rhywun mor ffol a dysgwyl y bydd i'r cyfryw nifer gael derbynriad yn "ysgoligion y frenines? Beth a wneid â hwy? Pa ley ceid plant iddynt i'w haddysgu ar ol gadael yr ysgol athrawol? Os dywedir y dderbynr hwy i wasanaeth y llywodraeth, pa hyd y byddai y llywodraeth heb lanw i fyny yr holl swyddau y gall benodi personau i'w llanw? Yr ydyw yn meddwl mai tuag wyth mil (8,000) ydyw nifer y cyfryw swyddau, ac ni byddai y nifer a fyddai yn wag bob blwyddyn ond megys dim rhwng cynnifer. Wedi treulio eu hamser nes bod yn ddwy- ar bymtheg neu ddeunaw mlwydd oed, ac heb gyrhaedd yn ysgoligion y frenines, na derbyn swydd gan y llywodraeth, beth a ddaw o'r dysgybl-athrawon? Ni waant y tro yn ysgolfeistriaid, oblegid ni allent dderbyn cymorth y llywodraeth heb fod mewn ysgol athrawol, a pha fodd y gallent ymgystadlu â'r ysgolfeistriaid a fu ynddynt, ac a gynnorthwyr gan y llywodraeth! Mae y cynllun hwn mor sier o dafu addysg i ddwy-

law y llywodraeth ag un o drefniadau gormesol y Cyfandir. Analluoga yr ysgolfeistri annibynol i ennill eu bywioliaeth, crea au-obeithion yn mynwesu miloedd, sioma hwynt yn y dull creulonaf, gan eu gadael heb alwedigaeth, ac mewn oedran samhriodol i ddsygu un gelfyddyd. Dwg holl drethi y deyrnas i ddyllanwadu yn erbyn ysgolion rhydd. Etyl gystadleuaeth, yr hyn bob amser sydd yn diogelu rhagoroldeb. Dywedaf â dau air i weithwyr Morganwg a Mynwy beth ydyw addysg y llywodraeth — *siop y camni* ydyw. *Siop* i dori pob masnachwr annibynol. *Siop* i werthu siwgr y gellir ei brynu yn mhob lle arall am chwe' cheiniog y pwys, am *saith* ydyw. *Siop* i werthu caws naw ceiniog y pwys am ddeg ceiniog a thair fyrling ydyw. *Siop* i wneyd y meist'r yn ormeswr, a'r gweithiwr yn gaethwas ydyw. Gwn o'r goreu nas gall ysgolion rhydd ymgystadlu âg ysgolion y llywodraeth, ac onid yw hyny yn ormes? Hawdd dwyed wrth bleidwyr addysg rydd am fyned ymlaen yn eu dull eu hunain, ond pa fodd yrânt amlaen tra y byddo cyllid y deyrnas, a dylanwad y llywodraeth yn eu herbyn? Pe y gofynasid i Metternich am y llwybr effeithiolaf i gadarnhau a lledanu gormes, nis gallasai gynyg gwell hwn. Hen gan ydyw dwyed y gellir ymwrthod â'r cynllun hwn neu arall, os na bydd yn gweithio yn foddhaol. Na! nid mor hawdd ar ol cylymu bywioliaeth miloedd wrtho. Hawdd, yn ol yr un resymeg, fyddai i offeiriad Efenyglaid Eglwys Loegr droi allan o honi, yn lle ymlynu wrth ei hailenedigaeth yn y bedydd; ond yr ydym yn gweled mai nid felly y mae. Hawddach lladd y wiber yn ei babandod nag yn ei llawn faintioli. Gwell ymwrthod â chynllun drwg o'r dechreuad, nag ymdrechu ymysgwyd a myned allan fel cynt, pan y bydd wedi eillio cydnuau ein nerth.

Yr wyf fi yn dadleu nad oes gan y llywodraeth *hawl* na *chymhwysder* i ymyraeth âg addysg. Ni waeth i mi, o gaslyniad, pa gynllun a arfero, o ran *egwyddor*. Yr wyf yn rhwym o wrthwynebu pob un—am y rhaid fod ei *egwyddor* yn *ddrwg*. Nid oes rwyman arnaf, gan hyny, i sylwi ar yr hyn a ddywedir am addysg y llywodraeth ar y Cyfandir, neu yn yr America. Eto gellid meddwl nad ymfrostitai un dyngarwr lawer o addysg y Cyfandir. Beth ydyw ei ffrwythau? Anfyddiaeth waedldy a chabledus yn Ffrainc. Mewn teyrnasoedd eraill yr ydym yn gweled gwaed y deiliaid yn mwydo y ddaear, eu hymenyddiau yn ei gwrteithio, eu hesgyrn yn ei gwynu, a'u cnawd yn ymborth i fwystfild acadar y nefoedd. Y mae braidd yn rhy ddiweddar i alw Cymru i ganu mawl am effeithiau y fath addysg! Os ydyw addysg rydd wedi methu cyrhaedd pawb, y mae addysg y llywodraeth wedi cyfarfod â'r un methiant. Y mae "profiad chwe' mil o flyneddau," yn uchel gyhoeddi mai gelyn rhyddid, gwareiddiad, a chrefydd ydyw addysg y llywodraeth yn mhob oes, ac o dan bob amgylchiad.

Un gair am bum cant punnau Mr. Coventry Williams. Pwy a'u derbyn? A oes neb a gymer drugaredd arno? Y maent yn dân ysol yn ei logell. Daeth yn un swydd i'w cynnyg yn Abertawe. Cymbellodd hwy â'i ben a'i dafod ei hun i Ysgol Elusenol Gypreig Llundain. Ond nid oes neb yn eu derbyn, a bydd melldith ei wlad ar gopa walltog y neb a gyffyrddo â hwy. Gwerth cymeriad y genedl ydynt. Wedi ein duo a'n henllibio ger gwydd teyrnasoedd cred, dyma Mr. Coventry Williams yn cynnyg i ni bum cant o bunnau! Bydded ei arian gydag ef i —.

Nid oes gan y llywodraeth *hawl* i ymyraeth âg addysg, ac am hyny ni *ddylai* wneyd. Nid oes ganddi *gymhwysder* i ymyraeth, ac am hyny nis *gall* wneyd, heb wneuthur drwg. Os dylai ymyraeth âg addysg *un* dosbarth o'r deiliaid, dylai ofalu am addysg pob dosbarth, gan fod yr un berthynas rhyngddi a'r cyfan. Mae yn amddiffyn pob dosbarth, ac yn cosbi pob dosbarth fel eu gilydd, ac am hyny, dylai addysgu pob un fel eu gilydd. Nis gall addysgu y bobl ond ar *eu trawl eu hunain*, gan nad oes gan y llywodraeth arian ond a goda oddiar y deiliaid trwy drethi a thollau. Y mae y boneddigion a dosbarthiadau canol ein gwlad yn rhoddi addysg i'w plant, am fod ganddynt fodd i wneyd hyny. Y mae llawer o'u gweithwyr heb fodd am fod eu trethi yn rhy drymion. Y ffordd oreu ydyw symud y trethi, a rhoddi modd yn eu dwylaw, ac yna hwy a ofalant am eu plant fel eraill. Os oes ganddynt foddion, ond yn eu treulio mewn oferedd, byddai yn anghyfiawnder eu cynnwrthyo. Fel hyny yr ydym yn gweled fod pob dadl dros ymyriad y llywodraeth yn ddiwerth. Nis gall byth gael ei sefydlu heb droseddau yn erbyn egwyddorion cyfiawnder a rhyddid. Gosodir y gareg sylfaen mewn gormes, a sicrhëir maen pen y gongl mewn traia.

Gallwn ddywedyd ychwaneg, ond nid wyf yn gweled hyny yn anghenrheidiol. Yr wyf yn ymddiried egwyddorion ac ymresymiaidau fy ysgrif ar "Addysg y Llywodraeth" yn y "Traethodydd" am Orphenaf diweddar i farn y wlad. Nid wyf yn meddwl y bydd iddi deimlo oddiwrth yr ysgrif yn eich rhifyn diweddar, yr hon sydd mor amddifad o rym mewn cyfansoddiad ag ydyw o wirionedd mewn darluniadau.

Cymharer y ddwy ysgrif yn deg a diduedd, ac yr wyf yn hollol foddllawn i edrych ar y canlyniad. Gwn mai hawdd denu dynion wrth gynnwng arian iddynt; gwn hefyd mai "Cadarn ac anorchfygol yw y gwirionedd."

Diau genyf y daw yr adeg pan y gwel ein cydwladwyr yn gyffredinol mai eu cyfeillion hwy, a chyfeillion tegwch a rhyddid, ydyw cyfeillion addysg rydd. Yr ydym am addysgu y bobl, ond nid ar draul eu rhyddid a'u diraddiad. Yr ydym yn gymaint dros lyfrgelloedd, llyfrau, ysgolion, ac addysg, a'n gwrthwynebwy, ond yr ydym am ddwyn y pethau hyn oddiamgylch ar egwyddorion cyson & dybenion llywodraeth ac iawnderau dyn. Amser a ddengys ein cywirdeb a'n llwyddiant.

Ydwyf, Syr,

Yr eiddoch yn ffyddllawn,

AWDUR YR YSGRIF AR "ADDYSG Y LLYWODRAETH."

Rhag. 1af, 1849.

PYTHEFNOS YN LLANWRTYD.

"YN amser gwynfyd, bydd lawen; ond yn amser adfyd, ystyria; Duw hefyd a *wnaeth y naill ar gyfer y llall*, er mwyn na chai dyn ddim ar ei ol ef." Cynnwys *rhan* o'r geriau hyn o eiddo y Pregethwr, yn ein tyb ni, ddeddf, yr hon a orfydd i ni gyfenwi yn ddeddf *ad-daliad iawinol*, oblegid nas gwyddom yn bresennol am un gair Cymreig *unigol* ag a fynega yr oll a ddeall y Sais wrth y gair *compensation*. Cysgodir yr un egwyddor, ni a fedd-yllem, gan y ddiareb hono—"Ni ddaw drwg i un, na ddaw da i un arall." Golygwn fod y *drwg* a ddaw i ryw un yn cael ei osod ar gyfer y *da* blaen-orel ag oedd wedi dyfod iddo, ac i fod y "da a ddaw" i un arall yn cael ei osod ar gyfer y *drwg* blaenorol ag oedd wedi dyfod iddo yntau. Neu, a golygu plant Adda fel un teulu, nid ydyw yr hyn a *ddygywydd*, o herwydd amgylchiadau neillduol ar y pryd, fod yn ddrwg i un aelod o'r teulu, yn cael ei adael i fod felly i aelod *arall*. I hwnw try allan yn dda trwyadl. Felly, os oes *drwg* yn dyfod i ryw un aelod neillduol, nid oes ond *da* yn dyfod i'r teulu fel teulu. Os na ddaeth da i Domos, fe ddaeth i Dafydd ei frawd.

Cynnyrch gweithrediadau y ddeddf dan sylw ydyw *cyfartalwch* neu *gydbwysedd*: ac mae cyfartalwch yn ddiâu yn un o ddeddfau Natur a Rhagluniaeth. Mae y Creawdwr mawr wedi cyfranu ei ddoniau â llaw haelionus a chyfartal, i bob creadur, yn ol ei radd a'i sefyllfa yn llechres bodolaeth. Gellir yn hawdd gyfrif am bob eithriad *ymddangosiadol* (oblegid ni chredwn fod un wirioneddol idd ei chael) trwy gyfeirio at weithrediadau y ddeddf a esyd "y naill [beth] ar gyfer y llall." Dynodir teyrnasoedd Natur a Rhagluniaeth â llawer mwy o gydbwysedd a gwastadrwydd nag a ymddengys ar yr olwg gyntaf. Nid ydyw Awdur Rhagluniaeth wedi rhoddi pob peth i un wlad, ond y mae wedi rhoddi ei rhan i bob gwlad. Mae hinsawdd, ac mewn canlyniad i hyny, anghenrheidiau gwahanol wledydd, wedi penderfynu natur a helaethrwydd rhoddion y Creawdwr iddynt. Pe buasai adnoddau unrhyw wlad neillduol yn ddigon lliosog ac amrywiol idd ei gwneyd yn Baradwys, neu yn Gosen, i feibion dynion, byddai eu drygioni hwy eu hunain yn ddigon o rwystr ar y ffordd i hyny gymeryd lle tan

y mil blyneddau. Mae *gormodedd* o ryw un peth mewn un wlad yn taro *diffyg* gwlad arall o'r peth hwnw. Mae *gormodedd*—mwy nag sydd eisieu ar y trigolion—o eidionau, defaid, ac yd yn sir Henffordd, ond nid oes dim glo ynddi : mae gormodedd o lo yn sir Forganwg, ond nid oes yno ddim chwarter digon o ymborth er cynnal y glôwyr. Mae pob gwlad yn anghenrheidiol i ryw wlad arall, ac o ganlyniad, y peth doethaf all meibion dynion wneyd, ydyw peidio rhyfela â'u gilydd. Ac mae yn ddigon tebygol taw ysbryd *masnachol* Lloegr fydd yr offeryn, ac hwyrach y *prif* offeryn, a ddefnyddia Rhagluniaeth er llethu ysbryd rhyfela. Mae trefniadau Natur a Rhagluniaeth yn dysgu dibyniaeth y teulu dynol ar eu gilydd wrth fyned trwy y byd presennol. Ac fel mae gwareiddiad yn myned rhagddo, a chyfoeth yn cynnyddu, mae anghenrheidiau (dychymyngol neu wirioneddol) dynion yn myned yn fwyfwy lliosog, a'u dibyniaeth ar eu gilydd yn cael ei ychwanegu i'r un graddau. Mae llawer rhwng *digon* hen wreigan wledig Gymreig a'r frenines. Mae yn wir nad ydyw yr olaf, wedi y cyfan, ddim yn cyrhaedd uwch tir na byw ; ac mae y flaenaf yn medru gosod ei throed ar hwnw : ond pe byddai i'r mawrion a'r cyfoethogion fyw fel y tlodion, byddai miloedd ar filoedd o'r dosbarth gweithyddol mewn amryw wledydd heb *fara* iddynt eu hunain a'u plant. Nid ydyw y sidan, y pali, a'r plu, ynghyd â'r meini gwerthfawr, a lluoedd o bethau eraill, yn anheborol anghenrheidiol er *cynheru* cyrff boneddigesau a phendefigesau, ond mae torf lliosog o'u cydgreaduriaid yn ennill eu bywioliaeth wrth barotoi y cyfryw bethau ar eu cyfer.

Mae y ddeddf o osod y naill beth ar gyfer y llall, idd ei chanfod drwy holl natur. Mae llyisiau, blodau, coedydd, ac anifeiliaid y maes, ynghyd âg ehediaid y nefoedd, a physg y môr, yn ddarostyngedig iddi. Cofiaŵn ychydig anghreiffiau. Nis gallwn ddyfod âg esiampl o bob dosbarth ag ydym newydd enwi. Cymerai hyny ormod o amser a gormod o le ar hyn o bryd. Rhaid i ni ynte i ddethol ychydig allan o niferi. I rai coedydd, megys y winwydden, ni roddwyd ond un briodoledd, ond mae hono yn ddigon o ddawn iddi. Nid ydyw dda i ddim ond dwyn ffrwyth. Nid ydyw y *pren* o un defnydd ond at danwydd, ac nid rhyw lawer yn y ffordd hono. I goedydd eraill, rhoddwyd ffurfiau prydfferth a theg yr olwg arnynt, ond ni ordeiniwyd mo honynt i fod o'r un gwasanaeth i ddyn ag ydyw y ffynnidwydd, y deri, a'r ynn. Mae y ddaear yn llawn, nid yn unig o bethau at wasanaeth dyn, ond yn llawn o bethau *addurniadol*. Nid oedd eisieu blodau er cynnal natur dyn, ond yr oedd eu heisieu er addurno a phrydfferthu gwyneb y ddaear. Mae Duw wedi darparu, nid yn unig ar gyfer dyn fel dyn y bwytaŵr, dyn yr yfwr, a dyn y gwisgwyr, ond ar gyfer dyn fel perchen dychymyg, a gallu i dderbyn mwyniant o'r puraf oddiwrth syllu ar yr hyn sydd fawreddog a phrydfferth mewn natur. Ac yr ydym bron a chredu fod rhai dynion yn ateb yr un dyben yn y byd meddyliol a dealltwriaethol ag ydyw y blodau yn ateb yn y byd llysieuol—sef ei wisgo â harddwch ac â thlysi. Onid math o flodau amryhiw peraroglus ydyw amryw o'n beirdd, ynghyd â dynion cyforiog o arabedd ac ysmaldod di-niwed ?

Rhai blodau a gynnysgaethwyd â ffurfiau o'r harddaf ynghyd â lliwiau ysplenydd, ond dim sawyr. Er boddhau y llygad yn unig y bwriadwyd hwynt. Gan eraill mae yr arogl pereiddiaf, ond gwisg allanol ddigon canolog. *Plu goreuredig* sydd gan adar Deheubarth America, ond nis medrant *garnu*.

Aderyn o olwg a hatriad cyffredin iawn ydyw yr eos, ond pa un o'r teulu asgellog fedr delori cân fel y medra hi? A pha berchen clust at beroriaeth all anghofio yr effaith a gynnyrchid gan ei thonau perlesmeiriol, fel ag eu clywid yn cael eu tywallt allan mewn rhyw goedwig neillduedig wrth fin afon ar noswaith dawel oleu-leuad?

Gwelir yr un ddeddf yn mys g creaduriaid y maes. Trwsgl ond grymus ydyw y cawrfil; clic ar ei glun ydyw y cadnaw. Amddiffyn un ei hun trwy ei nerth, a'r llall trwy ei gyfrwysdra. Mae i bob un ei ddawn ei hun. Mae yr un ddeddf idd ei gweled ymhlith creaduriaid rhesymol. Fe'i canfyddir yn null ffurfiaid y corff, yn gystal ag yn y galluoedd â pha rai y cynnysgaethir yr enaid. I un, rhoddir gwyneb hardd, ond corff bychan di-olwg. Ar un wyneb mae llygad ysplenydd, ond trwyn a genau eithaf hyll. Gan un mae corff a gwyneb tlws a hardd, ond dim ond y mymryn lleiaf o *feddwl*. Gan arall, mae gwyneb a chorff hagr ac afluoniaidd, ond enaid angelaidd.—“Llawer *teg* drwg ei ddefnydd; a llawer hagr *hygar* fydd.” Byddai Curran yn arferol o ddyweyd nad oedd wedi derbyn dim oddiwrt h ei dad ond ei gorff corachaidd lled chwith, tra yr ystyriai ei hun dan rwyrau idd ei fam am y talentau gorwych a feddiannai. Treuliodd Byron brydnawn yn nghymdeithas y dyn hynod hwn a Madame de Stâel ar un achlysur: synai at alluoedd y ddau, ond dywedai eu bod mor ofnadwy o hyll yr olwg arnynt, fel y rhyfeddai i'r fath feddyliau ysplenydd i ddodi fyny mewn anneddau mor druenus o wael.

Mae yr un ddeddf idd ei chanfod yn *amgylchiadau* dynion. Mae llawer mwy o *gydraddoldeb* gyda golwg ar ddedwyddwch gwahanol ddynion nag ydys yn feddwl. Ni ddylid barnu pethau wrth yr olwg allanol a geir arnynt. Dibyna dedwyddwch ar ugeiniau o bethau heblaw cyfoeth. Mae *cas* yn ddigon i ddiffasu yr “ÿch pasgedig,” a *chariad* a esyd flas ar “bryd o ddail.” Mae gan y boneddig sydd yn byw wrth odre y llechwedd draw ei dai a'i diroedd, ei balas a'i erddi, ei aur a'i arian, ei feirch a'i gerbydau, ei weision a'i forwynion—mewn gair, y mae ganddo bob peth a allai calon chwennyh, ond nid oes ganddo iechyd; a mwy chwennyhadwy ydyw sefyllfa un o'i weithwyr, yr hwn a welir yn bwyta ei damaid sych ganol dydd, dan gysgod perth, ar ddiwrnod gwyntog yn nghanol y gauaf. Mae gruddiau hwn yn wridgoch, a'i aelodau yn rymus, ac y mae iechyd yn dawnsio trwy bob gwythien yn ei gorff. Priododd cyfaill i ni etifeddes oddeutu blwyddyn yn ol, a llongyfarchid ef gan bawb o'i gydnabod a'i geraint ar yr achlysur. Ond beth ydyw ei sefyllfa heddyw? Mae ei dad wedi gorfod rhoddi i fyny ei swydd, ac yn erwydro o fan i fan, gan geisio iechyd—mae ei fam yn y gwallgofdŷ, tra mae ei galon yntau ei hun yn friw, a'i aelwyd yn unig, oblegid claddu “gwraig ei ieuencid.” Mae niferi o'i gymydogion llai cyfoethog yn llawer mwy dedwydd nag ef heddyw. Os penau y mynyddoedd ydyw y cyntaf i dderbyn pelydrau yr haul yn y boreu, ar benau y mynyddoedd hefyd, dylid cofio, y cura y dymhestl drymaf pan fydd y cymydd yn llechu yn glyd wrth eu godreion. Os gorwyh yr olwg ar y cedrwydd uchelfrig ar gopa Hermon, ar y cedrwydd uchelfrig hefyd y disgyn pwys y curwlaw, ac yr arllwys yr ystorm ei lliidiogrwydd, tra yr ymgysgoda y myrtwydd yn y pant anamlwg cysgodol. Mae y sawl sydd yn sefyll ar uchelfanau cyfoeth, gallu tymmorol, clod neu hynodrwydd, yn gorfod talu trethi trymion nas gwyr yr anghyhoedd ddim am danynt. Os cyfoethogwyd Milton â pherson mor hardd fel ag y gelwid ef yn *Miss Milton* pan

ydoedd yn efrydydd yn y brifysgol, ac os mewn ychwanegiad at hyn y cynnysgaethwyd ef âg un o'r meddyliau mwyaf ysblynydd, toreithiog, a choethedig ag a fu yn meddiant dyn erioed, eto yr oedd "ar gyfer" y doniau hyn goll ei olygon, a dwy o wragedd o'r melldigedicaf a rwmwyd erioed mewn priodas â gwr. Byron, yntau, yr un modd a dderbyniodd oludodd pob math o ddoniau, ond "ar eu cyfer" yr oedd y troed *glubb*, neu y peth nesaf at hyn, yr hwn a wenwynai y cyfan.

Ond yn yr ysgrythyr y cyfarfyddwn ni â'r esiampl fwyaf hynod a tharawiadol o weithrediadau y ddeddf o osod "y naill (beth) ar gyfer y llall." "Fel na'm tradyrchefid gan odidogrwydd y dadguddiedigaethau," meddai Paul, "rhoddwyd i mi swmbwl yn y cnawd, cenad Satan i'm cernodio, fel na'm tradyrchefid."

Rhyw feddyliau cyffelyb i'r rhai ag ydym newydd gynnyg rhoddi amlygiad iddynt a redent i'n bryd un prydnewngwaith tesog yn mis Gorphenaf diweddf, a ni yn eistedd ar ddernyn o graig, ac yn edrych i lawr ar gŵm clyd Llanwrtyd. Oddigerth ychydig o leiniau o bob tu i'r afon Irvon, mae ansawdd y ddaear yn nghymydogoeth Llanwrtyd yn eithaf tlawd a didoraeth, ac nid oes dim gobaith y gwellëir hi tra parhau y dull truenus presennol o'i hamaethu. O'r Bylchau Duon—sef y fan y gwahenir siroedd Caerfyrddin a Brycheiniog oddiwrth eu gilydd—hyd Langammarch—pellder o wyth milltir—nid oes gan mwyaf ond mawndir diffryth, oddieithr ambell faes neu ddernyn o faes yma a thraw. Bob ochr i'r ffordd dramwy, mae ugain o erwau ag nad ydynt yn werth coron y cyfar. Ni wiu dyweyd wrth y trigolion y gellid ac y dylid gwneyd rhywbeth yn rhagor o'r ddaear nag y maent hwy a'u tadau wedi arfer wneyd o honi. Mae miloedd o erwau o ddaear yn dwyn porfeydd gwelltlog yn bresennol yn swydd Lincoln, ag nad oeddynt ond mawndir trwyadl ychydig flyneddau yn ol. Gellir porfela eidion ag a bwysa bedwar ugain ar ddeg y chwarter ar un cyfar, am ugain wythnos. Yr oedd y fawnen yn bum troedfedd o ddyfnder. Mae y rhan fawnog (gynt) o swydd Lincoln yn agos i'r môr Allmaenaidd, ac o herwydd gwastadrwydd y ddaear cafwyd llawer o drafferth, ac awd i lawer o gost wrth ei sychu, yr hyn ydoedd y peth cyntaf a wnawd. Wedi hyny, aredid y ddaear, a llosgid y cwysi, a heuid erfin. Yr un modd y gwneid yr ail, y drydedd, a'r bedwaredd flwyddyn. Erbyn hyn yr oeddid wedi cyrhaedd y clai. Dyben llosgi y fawnen oedd cael gwared o honi, a dyfod at y clai. Pan nad oedd ond tonen deneu o'r fawnen heb ei llosgi, gwasgerid llwythi o glai ar hyd y wyneb i'r dyben o'i chylymu a'i bwyta i fyny. Mae y rhan hño o sir Aberteifi ag sydd yn gorwedd rhwng Tre Taliesin a'r môr yn dwyn tebygolrwydd neillduol i'r rhan fawnog (gynt) o sir Lincoln. Nid oes un anhawsdra i gael gwared o'r fawnen gan y ceir hi braidd bob amser yn gorphwys ar y clai. Ond nid pobl Llanwrtyd ydyw y dynion i ddyweyd rhyw bethau fel hyn wrthynt. Nid ar ffrwst y talant hwy un sylw i un gwelliant amaethyddol, tra mae ganddynt y mynyddau cylchynol i borthi eu defaid arnynt. Hawddach, a llawer mwy difyr gwaith, yn enwedig yn yr haf, ydyw bugeilio ar gefn ceffylau bach Eppynt, ac yn swm cyfarthiadau hanner dwsim o gŵn. Nis gallasem lai na meddwl wrth edrych ar dlodi y ddaear o gwmpas Pont-rhyd-y-ferau am yr *iaon* mae y trigolion wedi dderbyn am hyny yn y mynyddoedd a frithir yn awr gan eu diadellbedd, ac yn y ffynnonau rhinweddol roddwyd iddynt, ynghyd â'r cwm tlws yn

yr hwn y tarddant. Buasai ysbryd anturiaethus y Sais wedi gwneyd ffynnonau Llanwrtyd, Llangammarch, Llanfair Muallt, a Llandrindod, yn hir eyn hyn yn ffynnonellau cyfoeth mawr i breswylwyr cantrefi Buallt a sir Faesyfed. Nid oes dim yn hawddaoh na gwneyd hyn yn awr, ond i ddyndion o'r iawn fath gymeryd y peth mewn llaw. Mae niferi o'r meistri tiroedd yn Nghymru yn sefyll yn eu goleu eu hunain. Nid annhebyg ydynt i'r ci yn y preseb: ni wnaï hwnw na phori y gwair ei hun na gadael i'r fêch ei bori. Felly hwythau. Ni wnant werthu y tiroedd ar ba rai mae y ffynnonau hyn yn tarddu, ac ni wnant un ymdrech i wellâu y llefydd, a'u cymhwyso er derbyn mwy ac uwch ymwelwyr. Nis gwyddom pa bryd y dysg y Cymrod fod yn anturiaethus. Os na roddwyd i'r Cymry ond mynyddau, onid ydyw y rhai hyn yn fil mwy gwerthfawr na dyffrynoedd breision y Sais? Gyru ei braidd i flewyna ar hyd fynyddoedd Mynwy a Morganwg a wnaï'r hen amaethwr Cymreig diymgais; eu turio a dwyn allan eu trysorau wna wŷr i amaethwr Saesoneg, o sir Gaerefrog, ac â hwy adeilada ei gastell tyrog, ac efe a freniniaetha ar y mynydd-dir. O fryniau diffrwyth, serth, cethin, mae y Sais wedi gwneyd digon o arian i bwrcasu hen etifeddiaethau y Dywysogaeth. Dengys "*Heraldic Visitation of Wales*," gan Lewys Dwnn, gynnifer o hen balasau Cymru sydd wedi myned yn adfeiliau, yn gystal a pha gynnifer o'r hen foneddigion cyntefig sydd wedi llwyr ddfilanu. Tra yr oedd rhai o gynnrychiolwyr teuluoedd hynaf ac anrhydeddusaf Cymru yn difyru eu hunain gyda'u cwn, eu cardiau, a'u cân, eu dawns a'u gordderchwagedd, ac yn gwario eu tiroedd ar bob math o oferedd, yr oedd rhyw Sais, tua Nant-y-glo, yn codi yn foreu ac yn dilyn hyd yr hwyr gyda'i fasnach; ac yn mhen ychydig flyneddau, wela'r olwyn fawr yn rhoddi tro, a dyeithr-ddyn yn dyfod yn arglwydd ar dreftadaeth un o ddisgynyddion hen dywysogion Cymru. Mae y rhan fwyaf o'r boneddigion—er tloted ydyw y mwyafrif o honynt yn Nghymru a Lloegr—yn ei hystyried hi yn warth i fod dim a wnelont hwy â masnach yn unrhyw ffordd. Ystyriant taw llaw wên fasw heb erioed *wneyd* dim ydyw gogoniant boneddig. "Bendigedig," meddai Carlyle, "ydyw y gweithiwr, a'i ogoniant ef ydyw ei law fawr lydan, galed, gyrnog." Hawyr anwyl! onid ffirwyth hunanymwadiad a chwys rhywrai ydoedd dechreuad a sylfaen yr etifeddiaethau helaethaf yn y byd? Ac onid oes chwys rhywrai yn gymysgedig â'r rhenti ag y mae y meistri tiroedd yn dderbyn bob hanner blwyddyn? Ac onid oes yn rhaid i lawer iawn o ddwyllaw fod yn gyrnog cyn y geill yr ychydig ddwyllaw fod yn deg ac yn ganaidd? Beth feddyliai y darlennydd am haerllugrwydd a ffroenuchelder Arglwydd D. pan ofynai—fel un o'r telerau ar ba rai yr oedd Syr J. G. i gael ei ferch—iddo roddi heibio ei weithiau haiarn. Ond ni fu y gwr hirben cân wirioned a gwneyd unrhyw fath beth; ac ar ol hyn priododd â boneddiges ag oedd yn arglwyddes yn ei hawl ei hun, ac nid oes dim llawer o amser er pan bwrcasodd Syr J. ystâd, yn swydd D., yn werth wyth ugain mil a phump. Gwyddai y gwr yn dda pa un oedd debyg o fod fwyaf ennillfawr iddo—y gweithiau haiarn neu ynte ferch Arglwydd D. Ond i ddychwelyd at Lanwrtyd. Pe gwneid dim ond cyfiawnder â'r lle hwn, nid ychydig ugeiniau o ddyndion cyffredin Cymreig fyddai yn cyrchu yma, ond cannoedd o Saeson arianog. Gan y Sais mae'r arian, a chanddo ef hefyd mae y galon i'w gwario. Sierhaer i'r Sais ei gysuron, ac efe a dâl yn haelionus a dirwgnach am danynt. Ni wyddys dim am Llanwrtyd, ac nid oes dim

cyfeiriad at ddwfr y ffynnon yn un "*Medical Chart*." Mae Graham yn coffáu am wahanol ffynnonau meddygol yn Lloegr, ond nid oes air o son am y rhai Cymreig. Y peth cyntaf a ddylid wneyd fyddai gyru am Herapath o Gaerodor, yr hwn ydyw y fferylludd dosranawl (*analytical chemist*) penaf yn y deyrnas, er mwyn dosranu y dyfroedd. Yr ail beth ddylid wneyd fyddai cael rhyw feddyg poblogaidd yn Llundain—megys Dr. Marshall Hall—i ymweled â'r lle, er mwyn rhoddi ei farn ynghylch hinsawdd yr ardal. Y trydydd peth ddylid, fyddai cyhoeddi rhestr o ddarluniadau pin a phwyntel o olygfeydd y gymydogaeith, ynghyd â llyfryn bychan yn rhoddi hanes y gwahanol wrthddrychau a'r manau yn yr ardaloedd cylchynol ag y byddai yn werth i ddyeithriaid i ymweled â hwy. Yn nesaf, dylid adeiladu nifer o lety-dai cyflës a helaeth er derbyn ymwelwyr. Dylai fod hefyd nifer o ferlynod bychain neu asynod cyfrwyedig yn barod wrth alwad y rhai fyddai am fyned allan i farchögaeth, a dylai fod dau neu dri o arweinyddion er tywys yr ymwelwyr i wahanol lefydd yn yr ardaloedd cymydogaeithol. Dylai fod yma hefyd *newsroom* a llythyr-dy, ynghyd âg amryw bethau eraill ag nas gallwn yn awr aros idd eu henwi. Nis gwyddom am un man ac sydd wedi cael cymaint o gam a Llanwrtyd o herwydd diffyg ysbryd anturiaethus. Mae Awdur natur wedi rhoddi amlinell ardderehog, ac nid oes yn eisieu ond rhyw ddyd o ben a phwrs idd ei llanw i fyny. O bob tu i'r afon Irvon, mae y llefydd hyfrytaf yn y byd i adeiladu lletydai. Ni hoffem ar un cyfrif weled *rhestr* o honynt yn yr un man; ond un yma a'r llall draw, er mwyn britho ac addurno godreon y llechweddi, a sicrhau iddynt oll ddigonedd o awyr iachus, ynghyd â neillduedd. Mae meddwl am yr hyn ellid wneyd o ffynnon a chwm Llanwrtyd wedi peri i ni lawer gwaith chwennych meddiant o ryw ychydig filoedd o arian. O bentref Pont-rhyd-y-fferau i Abergwesyn—pellder o bum milltir—gellid heb fawr draul wneyd y ffordd gerbyd wastataf ar wyneb y ddaear, a byddai gyru ar gefyl neu mewn cerbyd ar hyd lan Irvon, a rhwng y creigiau a'r clogwyni a grogant uwch ei phen, yn hyfrydwch nad anghofid yn fuan gan ddyinion a dreuliant eu hoes yn ngwastad-diroedd neu drefydd a dinasoedd Lloegr. Byddai cael cipolwg, wrth yru heibio, ar *Swiss cottage* yma a thraw yn y cwm, yn nythu dan gysgod craig neu glogwyn, ac yn gylchynedig gan dewgoed amryliw, yn ychwanegiad mawr at fwyniant dyn o chwaeith a llygad i weled y teg a'r prydfferth mewn golygfeydd naturiol. Ac mor swynol fyddai llais cân a thonau telyn yn nglustiau rhyw bererin meddylgar wrth rodiana ar hyd y cwm yn mrig yr hwy.

O fewn pellder digon hygyrch o Lanwrtyd mae niferi o fanau ac y byddai yn werth ac yn hyfrydwch i'r ymwelydd eu gwled. Nid oes ond pedair milltir i Gwm Cnyffied; a chlod a thlws ydyw hwnw tuhwnt i allu neb idd ei ddarlunio. Mae ei ddyfnder, ei goedydd, ei neillduedd, yn ei wneyd y man mwyaf chwennychadwy a dymunol i ddyn o duedd fyfyrar a phruddaid. Mae "hen gapel Ystradffin," ac ystafell Twm Sion Catti, o fewn chwe' milltir i'r ffynnon. Mae y creigiau mawrion o gwmpas y lle hwnw yn sicr o dynu sylw y *geologist*, a'i dalu am y drafferth o ymweled â hwynt; a bydd pawb o duedd farddonawl yn sicr o gael eu boddhu â'r golygfeydd amrywiol a gorwyh a geir ar bob llaw, tra y gorphwys llygad yr hwn a gâr Anghyddfurfiaeth Gymreig ar "yr hen gapel" yn y pant, ar lán Tywi, fel y gwrthddrych mwyaf cysegredig yn yr holl le. Nid aethom

erioed heibio i'r fan heb dalu ein gwarogaeth i enw a choffadwriaeth Daniel Rowland.

Nid amhriodol fyddai rhoddi hanes byr o'r amgylchiadau dan ba rai y cafwyd allan ffynnonau Llanwrtyd, Llangammarch, a Llanfairmuallt. Ac y mae yn rhaid i ni ddyweyd ychydig am rinweddau ffynnon Llanwrtyd. Mae amryw resymau yn peri i ni wneyd hyn. Iddi hi, dan fendith Rhag-luniaeth, yr ydym dan rwymau am iachad oddiwrth glefyd ag a fygythiai un amser i'n gyru i'r gwallgofdŷ neu i'r bedd. Yn ol traddodiad hen bobl ag oedd yn byw yn Llanwrtyd oddeutu dechreu y ganrif bresennol, ymddengys fod defnydd wedi cael ei wneyd o'r "Ffynnon lân," fel ei gelwid, er gwella y llwg (*scurew*) rai canrifau yn ol, a digon tebyg taw y traddodiad hwnw a barodd i Theophilus Evans, ficer Llangammarch, ac awdur "Drych y Prif Oesoedd," wneyd prawf o honi. Ni wyddys yn bresennol pa un ai yfed y dwfr, neu ynte ymolchi ynddo a wneid gynt neu beidio—digon tebyg mai yr olaf oedd yr unig ddull a gymerid i'w ddefnyddio, oblegid dywedir taw gweled broga yn nghanol y ffynnon, ac yn edrych yn iachus a llon a wnaeth i'r ficer benderfynu yfed ei dwfr, gan yr argyhoeddid ef ar unwaith nad oedd dim elfenau marwol ynddo, onidê, buasai wedi lladd y broga. Digon tebyg ei fod wedi ymolchi yn y ffynnon cyn hyny. Yn y fan, dechreuodd yfed y dwfr, a pharhaodd i'w yfed trwy weddill ei oes, a derbyniodd lesâd mawr; ond yr oedd y llwg wedi cymeryd y fath afael yn ei gyfansoddiad fel nad oedd yn alluadwy i unrhyw foddion byth ei gwbl iachau. Bob yn dipyn, aeth son am rinwedd y ffynnon o gwmpas, ac yn mhen amser, adeiladwyd tŷ bychan uwch ei phen, ynghyd âg un llety-dŷ cyffêus er derbyn ymwelwyr. Ond nid oes fawr o ychwanegiad wedi cael ei wneyd byth wedi hyn. Mae yn wir i Ddôl-y-coed gael ei helaethu, ac i ddau neu dri o dai cyffredin dda i gael eu cyfodi yn Mhont-rhyd-y-fferau, ond dyna i gyd. Pe dygwytddai ond deugain o ymwelwyr ddyfod i'r lle yn ddisymwrth ar ryw noswaith yn yr haf, nis gwyddom pa le y gellid eu lletya. Pan ddygwytddo fod yn haf sych a thesog, mae y tai ar dori gan gynnifer sydd ynddynt. Nid ydyw ddim yn rhyw galedi mawr i'r sawl sydd yn derbyn arian am letya y dyeithriad; ond mae bod y tai yn orlawn o bobl yn fater o'r pwys mwyaf i ddynion gwanllyd eu hiechyd. Gwrthweithredir effeithiau da y dyfroedd ac awyr y mynyddoedd, os byddys yn gorfod treulio y nos mewn tai cynnwys. Nid *menagerie* ddylai llety-dŷ fod yn y boreu, ond annedde iachus a chyfaddas ar gyfer creaduriaid rhe-symol.

Er rhoddi i'r darlennydd ddrychfeddwl o sefyllfa pethau yn Llanwrtyd, nid oes eisieu ond dyweyd nad oes dim cymaint a llythyrdŷ yn y lle; ac yn wir, nid oes un *post* rhwng Llanymddyfri a Llanfairmuallt—pellder o dair milltir ar hugain. Mae yr holl wlad rhwng y ddwy dref hyn, yn gystal a rhwng Tregaron a Threfcastell, heb yr un *post*. "Isaac ddwy geiniog" a'i gymhares ydyw unig genadau y frenines rhwng Llanwrtyd a Llanymddyfri yn yr haf; ond yn y gauaf, nid ydyw hyd yn nod y *pedestriaid* ffydd-lawn hyn yn cymeryd eu teithiau wythnosol, chwaithach tridiwrnodol. Nid ydyw diffygion y lle yn effeithio y mymryn lleiaf ar feddyliau y trigolion. Maent hwy eu hunain yn eithaf cysurus; o ganlyniad, pa eisieu sydd i ddy-eithriaid gythryblu eu hunain yn eu cych? Mae hwyrffrydigrwydd y Cymro uniaith, yn enwedig i gefnogi dygiad i mewn unrhyw welliadau cymdeithasol, wedi costio mwy iddo nag y mae ef yn dybied, ac yn fodd-

lawn i gredu. "Och fi! fe wna y tro; fe wnaeth y tro cyn fy ngeni i— a phaham na wnaiff e'r tro i finnau?" Dyna iaith y Cymro yn rhy aml, pan geisir ganddo newid a gwella ei ffyrdd. Mae arnom awydd am iddo ar-wain bywyd dyn ac nid bywyd ei. Yr ydym am iddo ddefnyddio ei ymen-ydd er ennill ceiniog, yn lle gwasgu ei fol ac yspeilio ei gefn, wrth geisio gwneyd hyny, fel yn bresennol. Gwyn fyd na ddysgai fasnachu wrth ffydd yn gystal ag wrth olwg. Prin y cawn ni ganddo agor un law i ymadael â swllt, er ei wario ar welliadau, os na fydd i ni ar yr un pryd osod yr han-ner coron ennill yn y llaw arall.

Llafurwr tlawd yn y gymydogoeth, a gafodd allan ffynnon Llangam-march, a than yr amgylchiadau canlynol. Un prydawn Sabboth, yr oedd wedi colli ei fochyn, ac aeth allan i chwilio am dano; ac ymhlith manau eraill, aeth i wely yr afon Irvon, yn yr hon nid oedd braidd ddim dwfr, oblegid sychder o hir barhad. Tynwyd ei sylw at ffynnon a darddai yn ngwely yr afon, ac mewn lle yr arferai fod yn gryn ddofn yn y gauaf. Tueddwyd ef i yfed o honi, a chafodd fod blas halen arni. Gwnaeth y peth yn hysbys idd ei gymydogion, a defnyddiwyd moddion i ddiogelu llygad y ffynnon rhag cymysgu â dwfr yr afon, mewn amser dyfodol. Pladurwyr, wrth ladd gwair, a gafodd allan ffynnon Llanfairmuallt. Wele draed trwsogl lafurwyr cyffredin yn tori y seliau oddiar ddirgelion natur! Dygwyddiadau yn ymddangosiadol ydyw llawer iawn o'r darganfyddiadau sydd wedi, ac yn cael eu gwneyd yn y byd anianyddl. Yn ddamweiniol, braidd, y tarewir weithiau wrth yr esboniad iawn ar ymddangosiadau ag oedd wedi pensyfrdanu athronyddion am oesoedd. Goddefer i ni wneyd sylw neu ddau yn y fan hon. Gan nad ydym yn cymeryd arnom ein bod yn ddigon dysgedig a medrus i ddeongli y prophwydoliaethau sydd heb gael eu cyflawni, nis gallwn ddyweyd pa bryd y gosodir terfyn ar y byd. A golygu fod y ddaear wedi ei rhoddi i ddyinion, nid yn unig er mwyn cynnyrechu yr hyn sydd anghenrheidiol er cynnal eu natur, ond ei bod wedi ei rhoddi iddynt hefyd, fel un o'r cyfrolau mawrion ag y mae y Bod Mawr wedi gyhoeddi, a'r hon y maent idd ei hastudio, ai tybed y llosgir y gyf-rol cyn i'r myfyrwyr feistroli cynnwysiad y tudalen diweddafynddi? Onid meddyliau Duw sydd wedi cael eu hysgrifenu ar y gyfrol, ac onid braint yn gystal a dyledswydd y teulu dynol fel teulu ydyw ymdrech eu deall? Gwelir meddwl y Goruchaf mewn natur, a'i galon yn y Bibl. Mae Pont Menai yn ddigon o amlygiad o feddwl Telford, ond rhaid edrych am ba fath galon oedd ganddo i ryw le arall. Ond i ddychwelyd at ffynnon Llan-wrtyd. Nid oes ond ychydig ffynnonau yn Ynys Prydain o'r un natur a ffynnon Llanwrtyd. Mae un yn Moffat, yn yr Alban—un arall rymus iawn yn Harrowgate, yn swydd Gaerefrog, ac y mae un o ffynnonau Leamington a gynnwys dwysged o'r *sulphur* yn gymysgedig â'r halen. Mae ychydig o'r *sulphur* hefyd yn un o'r dyfroedd yn Llanfairmuallt, ac y mae ffynnon â rhyw dipyn o *sulphur* ynddi yn Llandrindod. Rhag y llwg, nid oes dim at ffynnon Llanwrtyd. Mae hi hefyd yn llawer gwell er cyffroi yr afu na'r *calomel* peryglus, gan nad yn mha ffordd bynag y parotöir ef. Cyffry yr afu pan fyddo y *calomel* wedi llwyr fethu. Gwyddom hyn drwy brofiad. Felly, ddarllenwyd anwyl, os wyt yn cael dy flino gan ddiffyg traul bwyd, dos i Lanwrtyd ar unwaith. Dos yno unrhyw amser o'r fwyddyn. Ni waeth pwy dymmor, ond bod yr haf yn fwy hyfryd, a mwy o fanteision a chyfeusderau idd eu cael yn Llanwrtyd dlawd yr haf na'r gauaf. Buom

ni yno yn nyfnder y gauaf, pan oedd hi yn rhew ac yn eira, a derbyniasom lesad, am yr hwn y mae yn anmhosibl i ni fod yn ddigon diolehgar. Effeithia y dwfr hefyd yn rhyfeddol ar yr arenau. Yn ymyl y Ffynnon lân, fel ei gelwid gynt, mae pistyll main main o ddwfr haiarn (*chalybeate water*). Hwn gryfâ dy *nerves* di, ddarllenwyd anwyl, ac a'u tantia, os ydynt wedi llaesu a myned allan o gwair. Buana rediad dy waed, a rhydd i ti nerth cawr yn lle dy eiddilweh. Yf o hono, hyd nes teimlot dy hun ar fin penddotian, ac yna rho heibio. Mae yfed o'r ddwy ffynnon, a chrwydro ar hyd y llethri o gwmpas Llanwrtyd, yn dra sicr o roddi archwaeth at fwyd i'r hwn sydd wedi ei gwbl golli. Nid oes a fynom â chymysgedd yr apothecari, ac â pheleni Worsdell a Morrison: can gwell genym dderbyn i'n genau ddyfroedd ffynnonau Llanwrtyd, fel y rhedant allan o'r hen beiriau mawrion dan waelod y mynydd cyfagos, lle parotbir cyfferiau meddygol yn un o *laboratories* natur ei hun.

Yr ydym yn synu na fyddai rhyw feddyg yn ymweled yn rheolaidd bob dydd â'r ffynnonau hyn, yn gystal a rhai Llangammarch, Llanfairmuallt, a Llandrindod, er mwyn cyfarwyddo yr ymwelwyr pa un o'r dyfroedd, yn gystal a pha gymaint y maent i wneuthur defnydd o hono. Mae physygyr yn perthyn i ffynnon Harrowgate, a gesyd pob claf ei hun dan ei ofal, tra byddo yn yfed y dwfr. Mae y rhan fwyaf o'r rhai sydd yn ymweled â Llanwrtyd, heb wybod i ba beth y mae y ffynnon da heblaw iachau y llwg; a gwelsom amryw yn yfed y dwfr haiarn ag nad oedd yr un mymryn o'i eisieu arnynt. Ni ddylid yfed nemawr ddim o'r dyfroedd rhwng boreufwyd a thê. Rhwng hyn y swper gellir yfed dau neu dri o wydreidiau. Mae saith neu wyth gwydraid yn eithaf digon cyn boreufwyd. Crea y dwfr archwaeth annaturiol at ymborth, ac ni ddylid ar un cyfrif fwyta agos gymaint ag y teimlir tuedd i wneyd. Yr oedd rhai dynion yr haf diweddaf yn yfed cymaint a deugain gwydraid yn ystod y dydd. Yr oedd yn drugaredd fod eu llestri wedi eu cylchu yn dda. Buom yn ceisio dangos i'r creaduriaid gwirion eu ffolineb, a gosodasom esiampl dda o'u blaen, ond buasai llawn cystal i arbed ein nerth—potio ei hochr hi wnaent hwy trwy gydol y dydd. Mawr mor hoff ydyw y Cymro o gael cymaint byth ag allo am ei geiniog, pe byddai ond gwenwyn. Y ffordd i dderbyn lles gwirioneddol a pharhaus oddiwrt h ddyfroedd Llanwrtyd, ydyw eu hyfed yn y boreu pan yn ymprydio, a chynnifer o wydreidiau ag ydym wedi enwi; ac yna ar ol boreufwyd, myned i gerdded ar hyd y brynau cymydogaelthol am dair neu bedair awr. Ar ol ciniaw, dylid gorphwys am awr neu ddwy, ac yna eler allan eilwaith i gerdded, ac na ddychweler i'r tŷ tan amser tê. Mae rhiolwyr y sefydliadau *hydropathic*, o Preissnitz i waered hyd at y diweddaf o honynt, yn gwneyd i'r afiachus fyned allan i farchogaeth neu gerdded am oriau bob dydd. Eisieu awyr iachus, a digon o ymarferiad beunyddiol, ydyw yr achos o fwy na hanner yr afiechyd sydd yn y byd. Ond yn lle gwneyd fel hyn, mae y bobl yn Llanwrtyd yn eistedd y rhan fwyaf o'u hamser yn y tai ac ar hyd yr heolydd; a difyrant eu hunain trwy chwiffo tybacco ac âdrodd chwedlau, neu ynte ddadleu ar, yn gyffredin, faterion ddigon uwchlaw eu hamgyffred. Dylid gwneyd y defnydd goreu o'r dyfroedd ac o'r awel deneu lem iachus a ysguba dros y brynau o gwmpas y ffynnon, os ydys am adferu yr iechyd. Nid oes un ddadl ychwaith nad ydyw cymdeithas siriol yn gymhorth mawr i'r afiachus i wella; ac ystyriwn fod dyn o dymher lon lawen, ac yn berchen ar y dawn o adrodd yn effeith-

iol ambell chwedl ddiffyr ddintwed o wasanaeth mawr mewn lle o'r fath, gan y gyr y pruddglwyf ar ffo, ac y cynorthwya y claf i symud ei feddyliau oddiar ei anhwylddeb, yr hyn ydyw hanner y gamp yn y gelfyddyd o wella dynion. Nid oes iechyd perffaith ond lle byddys yn gallu gollwng yn gwbl anghof gyflwr y corff. A chan nad ydyw gwir athroniaeth iechyd yn beth ag y mae y werinos yn ddeall, maent mewn perygl o gamddeongli amryw bethau a ddywedir ac a gyflawnir gan y rhai sydd wedi ei wneyd yn fater myfyrdod ac ymchwil. Mae pranciau, pystyled, rhedeg, chwerrthin, chwareu, a chrwydro ar hyd y rhodfëydd a'r llethri o gylch y ffynnon, yn gwbl mor anghenrheidiol er adferu iechyd, ag ydyw yfed ei dyfroedd. Nis gwyddom am unrhyw fanau lle mae dynion cyffredin anwybodus yn fwy agored i gamddeall cymeriad eu callach a'u gwybodusach, ac hwyrach hefyd eu duwiolach, nag mewn lleoedd cyffelyb i Lanwrtyd. Nid oes wyliau ond i'r hwn sydd gynnefin â gwaith. Nis gwyr yr oferddyn, neu yr hwn sydd yn arfer dilyn ei orchwylion yn yr awyr agored, yr effaith a gynnyrchir gan ychydig ddyddiau o hamdden ar ysbryoedd dynion ag y mae eu galwedigaethau yn eu cyfyngu i'r un man, ac yn aml i'r un ystafell, trwy gydol y flwyddyn. Maent fel ysgolblant, pan newydd gael eu gollwng allan o'r ysgoldy, neu ar ddechreu gwyliau yr haf. Maent bron allan o'u cof gan y teimlad o ryddid ac ysgafnder a brofant. Yr oedd ychydig nifer o'r cyfrywersonau yn y ffynnon ar yr un amser a ni yr haf diweddaf, ac yr oedd yn syn fel y camddeallid eu cymeriad gan greaduriaid rhagfardd a chulfeddwl. Myfyrwyr celyd oeddynt bob yr un; a phan yn eu cartrefleoedd, gwyddom fod eu hymenyddiau yn cael eu tasgu a'u trethu i'r eithaf; a phe buasai y penbyliaid ag oedd yn ammheu eu synwyr a'u duwioldeb yn gorfod gweithio hanner chwarter mor galed, buasai wedi myned yn wegil haul arnynt er ys talm am damaid beunyddiol o fara. Ond nid ydyw golygiadau na dywediadau dynion o'r fath yn effeithio y mymryn lleiaf ar feddwl y gwir athronydd—medr ef, ys dywedai Coleridge, edrych arnynt fel bodau perthynol i rywogaeth arall. Difyrant ef, ond nis medrant ei gythryblu neu aflonyddu arno. Yr ydym beunydd yn cyfarfod â dynionach ag na wnaem ar un cyfrif gydnabod bodolaeth, chwathach dedfrydau eu barn-lysoedd. Golygwn ein hunain uwchlaw cylch eu barn hwy. Os rhaid i ni orfod caniatáu i ddynion ein mesur a'n pwyso, i'n cydraddolion yn unig yr ymddiriedir cyflawniad y cyfryw orchwyl. Y ffordd feraf a lleiaf trafferthus o fyned trwy y byd, ydyw ymdrechu gwneyd yr hyn sydd iawn, a mynu rhyddid mewn pethau dibwys. Beth fyddai byd, a pheth fyddai bywyd pe byddai yn ddyledswydd ar ddyn i gyfyngu arno ei hun, a chwtoigi neu estyn ei hun er mwyn boddhau creaduriaid ag nad oes ganddynt na chalon na meddwl? Rhwymau rhesymol a chrefyddol ddylai rwymo enaid dyn, ac nid hen raffau coelgrefydd a rhagfarn. Yr ydym ni ein hunain yn ddi-gon boddllawn i bawb gael eu gwala o ryddid i gyflawni pob peth onn PECHOD; a'r rhyddid a lawen ganiatawn i eraill, ni a'i mynwn i ni ein hunain. Mae y ddiareb, "A fyno barch bid gadarn," yr un mor wirioneddol yn awr ag erioed. Ac y mae arnom chwant tafu un frauwdeg ar lun diareb, a dyweyd, "A fyno ryddid, a gâ ryddid." Profed dyn ei fod yn ddyn pan fyddo rhyw orchwyl i gael ei gyflawni ag a ofyn am ddyn—profed ei fod yn ddoeth, pan fydd eisieu doethineb—ei fod yn berchen calon pan fyddo galwad am ddangos tynerwch—ei fod yn wybodus pan fyddo galw am esboniad ar ryw bwne dyrys—a'i fod yn Gristion, mewn

gweithredoedd, ac nid mewn siarad—ac efe a gâ gymaint o ryddid ag sydd yn eisieu ar ddyd synwrol. Profwyd i foddlonrwydd rhyw greadur rhag-farnllyd yn Llanwrtyd, y gallai pregethwr fod yn ddyd o synwyr, dysg, dawn, a duwioldeb, er gwisgo hogan liain a het wellt ar y tes mawr yn nyddiau y cŵn. Nid mater bach oedd hyn. Ni wyddys gymaint sangwyd ar feddwl y creadur trwy wthio hyn o wirionedd i mewn; ac nis gellir dyweyd yr effaith gâ y gwirionedd hyn ar yr hen bethau â pha rai yr oedd wedi dodrefnu ystafelloedd ei benglog. Ni wyddys pa chwyldroad a gynnyrchwyd ymhlith yr hen ddrychfeddyliau a arferent lywodraethu ei feddwl gan y drychfeddwl newydd hwn. Nis gellir cyfrif y delwau a daflodd i lawr ac a ddrylliodd. Rhywbeth cynhyrfus a chwyldroadawl iawn ydyw drychfeddwl ieuanc, newydd, grymus.

Dirmygwn y dyn—canys pwy ddygywddo fod—ag a ymostwng i ragfarnau afresymol, gan weini iddynt a'u porthi. Gwell a doethach gwasanaeth i ddyinion a chrefydd ydyw dangos yn mha bethau y mae gwir dduwioldeb yn gynnwysedig, yn hytrach na chalonogi meithriniaid golygiadau anghywir a gwrthun ar fater mor anfeidrol bwysig. Mae Cymru mewn mwy o berygl oddiwrth gamolygiadau ynghylch crefydd nag hwyrach oddiwrth un peth arall. Gofaler am y dynion ieuainc darllengar sydd yn tyfu i fyny, rhag iddynt fyned yn anffyddwyr wrth ganfod mwy o bwys yn cael ei osod ar "y mint a'r anis" nag ar bethau mawrion y gyfraith. Mae yn wir y dylai y cryf gyd-ddwyn â'r gwan—ac onid ydyw hyn yn cael ei wneyd genym beunydd? Ond mae yn llawn cymaint dyledswydd ar y fam i ddygu i'r plentyn i gerdded ei hun, ag ydyw arni "ei ddwyn ar ei dwylaw (mewn man garw) rhag taro ei droed wrth gareg." Ei dyledswydd ydyw gwneyd y gwan yn gryf, ac nid ei gadw yn ei wendid. Ein dyledswydd ninnau ydyw cryfhau meddyliau dynion fel y gallont ddwyn eu beichiau eu hunain, yn lle gorfodi y cryf eu dwyn hwy a'u beichiau. Mae y gweiniaid bob amser ar y ffordd, ac y mae natur ac athroniaeth yn ein dysgu taw y gymwynas fwyaf allwn wneyd â hwy, yn gystal ag â ni ein hunain, ydyw arfer pob moddion er eu cryfhau. Mae yr oes yr ydym yn byw ynddi yn gofyn am wŷr arfog; ac y mae digon o waith gan bawb gwŷr arfog i wneyd heblaw dwyn gweiniaid ar eu hysgwyddau.

Ni fuasai yn anhawdd ysgrifenu papyryn hirfaith ac nid annifyr ar y *dull* y treuliasom ein pythefnos yn Llanwrtyd, pe caniatasai rhai rhesymau i ni ymasfyd yn y fath orchwyl. Buom yn ddiwyd dros ben, a gwnaethom y goreu o'n hamser, a chadwasom at y nod oedd genym mewn golwg wrth ddyfod i'r He—sef sefydlu ein iechyd. Weithiau chwareuem â phlant, a phryd arall daliem ben rheswm â hen wrageddos. Ymdrochem yn yr afon—boldesem ar y llethri—canem yn y coedydd, a chrwydrem ar hyd benau y bryniau, gan borthi ein llygaid a'n dychymyg â golygfeydd natur. Gwnaem gydwybod o gysuro yr iselfeddwl a'r pruddglwyfus. Ymdrech- asom gadw ein llygaid a'n clustiau yn agored tra fuom yn y ffynnon, ac yr ydym yn meddwl i ni ychwanegu ein gwybodaeth o'r natur ddydol. Na thybied neb sydd yn yr arferiad o fynychu lleoedd fel Llanwrtyd y gwas-treffir yr amser a dreulir yno. Dysgodd cyfaill i ni lawer iawn yr haf diweddfaf wrth glywed y bobl gyffredin yn cyhoeddi eu barn am eraill ag oedd radd neu ddwy uwchlaw iddynt o ran amgylchiadau, a'r cyldoedd y troent ynddynt. Yr oedd ei olwg yn ddigon dirodres a gwylaidd i guddio ei dymher athronyddaid, ac ni thybiai y diniweidiaid fod gwr mor lygad-

graiff a myfyrgar yn gwrandaŵ arnynt. Tynai hwynt i siarad am y peth hwn a'r llall, ac nid difyrwch bychan a gafodd am ei drafferth. Eu barn gydunol am un o'r ymwelwyr oedd, ei fod allan o'i synwyrâu; a phan fynegwyd hyny wrtho yntau, dywedodd wrth ein cyfaill llwynogaidd am roddi pob cefnogaeth i'r cyfryw dyb, gan y galluogid ef, dan ei chysgod, i ddyweyd a gwneyd ryw nifer liosog o bethau ysmala diniwed, am y rhai ni chymerid y drafferth o'i alw i gyfrif. Un boreu, yr oedd tŵr o bobl o gwmpas rhyw ddyn, ac erbyn myned o hyd clyw iddo, cafwyd allan mai esbonio rhinweddau y ffynnon yr oedd idd ei wrandaŵyr. Yr oedd yn trin ei fater mewn dull go oleu a chyda llawer o rwyddineb ac awdurdod; ac yr oedd, fe allesid casglu oddiwrth y sylw a delid iddo, feddyliau gryn uchel gan y gynulleidfâ am dano, ac yr oedd ar ddyfod yn orael ac yn awdurdod iddi, pan, yn anffodus ar lef poblogrwydd y llefarwr, y gofynwyd cwestiwn, yn dra disymwth, gan ryw un, a chan i'r esboniwr fethu ei ateb, ac i ryw ddyn oedd yn sefyll y tuallan i'r cylch o ryfeddwyr ei ateb, trôdd y gwrandaŵyr eu gwynebau ar unwaith oddiwrth y llefarwr cyntaf, ac ymgasglasant o gwmpas y gwr oedd wedi llwyddo i ateb y gofyniad. "Nis gallawn," meddai ein cyfaill wrthym, ar ol adrodd yr hanes, "lai na gweled yn y dull yr ymddygid tuag at y dyn y modd y trîna y lliaws eu harweinyddion penaf, os ceir allan nad ydynt yn gwybod pob peth." Mae i bob ci, ys dywedai y Sais, ei ddydd. Hwyaf ei dafod a'i raff y pia hi. Y fynyd y ceir allan nad ydyw dyn yn fwy na rhyw ddyn arall, y fynyd hõno y derfydd a bod yn wron ac yn orael, ac y sudda o'r golwg ymhlith y lliaws gwerinosaid.

Dygwyddodd fod yn Llanwrtyd yr un pryd a ni amryw bersonau ag y teimlem y dyddordeb mwyaf ynddynt, er y gwahaniaethent yn fawr oddiwrth eu gilydd. Lletyai rhai o honynt yn yr un tŷ â ni, a chyfranasant lawer iawn tuag at ein mwyniant. Nid oriau ofer ac anadeiladol a dreuliasom wrth yr hen bŵll llif yn nghanol pentref Pont-rhyd-y-fferau, lle yr arferai rhyw nifer fechan etholedig o gyfeillion gyfarfod unwaith y dydd am yr wythnos gyntaf o'n harosiad yn y ffynnon. Y *central figure* oedd y Parch. H. G., yr hwn a ollyngai allan drysorau ei feddwl cyfoethog a choethedig, er mawr ychwanegiad gwybodaeth y cylch bychan a'i cwmpasai. Gwyddom nad anghofia *rhais* oedd yn wyddfodol ei ostyngeddwrwydd a'i ddull dirodres. Nis gallasant lai na chyferbynu y dyn mawr-feddwl gostyngedig hwn â thylwyth eiddilaidd, bychain, ond trâarglwyddiaethol, eraill.

Yn Dol-y-coed, lle gwrsyllem, oblegid fod castell ein hen gyfeilles Nansi yn rhy lawn, cyfarfuom âg ychydig gymeriaid gryn hynod a gwreiddiol. Ond ni oddefwn i hyd yn nod nerth y brofedigaeth i'n gadael i gynnysgaethu y darlennydd â'r darluniau a dynasom o honynt pan yn eu cymdeithas. Gan ei bod yn gryn ddiweddar arnom cyn cychwyn o Llanymddyfri, methasom a chyrrhaedd Dol-y-coed hyd nes oedd hi yn dipyn o'r nos, a chan ein bod wedi marchogaeth amryw filltiroedd yn ystod y dydd, ni wnaethom ein hymddangosiad ar foreufwyd boreu dranoeth hyd nes oedd y cwmpeini bron gorphen y gorchwyl pwysig a hyfryd o dori eu hympryd. Adwaenem amryw o honynt, gan mai ni oedd wedi eu perswadio i ymweled â Llanwrtyd, ond yr oedd yno ychydig nifer o ddyeithriaid. Mae yn drugaredd ar y cyfryw achlysuron fod gweithrediadau y meddwl yn anwledig; oblegid y mae pob dyn yn ffurfio rhyw farn am ddyn arall y fynyd

ei canfyddo. Gwneir hyn wrth yr olwg, a chyn i'r dyn gael cyfleusdra i wneyd unrhyw ddadguddiad o hono ei hun. Nid barn cariad yn aml ydyw y farn gyntaf ag ydym yn ffurfio am ein cydgreauriaid. Barnu dynion ydyw y peth cyntaf ydym yn wneyd pan welom hwynt gyntaf. Gogleisid ni yn fawr wrth ddal ambell un yn gymeryd cipolwg lladradaidd arnom wrth lymeitian ein *coffee* a bwyta ein brechdan. Yr oedd yn ddigrif iawn i sylwi ar yr ymdrech ag oedd yn cael ei dwyn ymlaen rhwng dymuniad i ymddwyn yn foneddigaidd ac awydd boddloni cywreinrwydd. Yr oeddym ninnau yn llawn cymaint dan ddyllanwad yr un teimlad ag eraill o'n hamgylech. Tafem olwg ar y gwyddfodolion, nawr ac eilwaith, a gofynem gwestiwn i'r rhai ag yr oeddym am iddynt wneyd rhyw amlygiad o honynt eu hunain. Teimlem fod presenoldeb gan ryw nifer fechan ag oedd yn bresennol. Dim ond gan ychydig iawn o'n cydgreauriaid y mae presenoldeb. Rhywbeth Mesmeriaidd ydyw. Gwyddom trwy brofiad beth ydyw ei deimlo. Nid anghosiwn byth yr effaith a gynnyrchwyd ar ein meddwl y fynydd y daeth yr athrylithfawr a'r swynawl Mr. M., o L., i ystafell lle yr oeddem unwaith yn dygwydd eistedd. Llanwodd y fan â'i bresenoldeb, a phan yr ymadawodd â'r tŷ boreu dranoeth, teimlem nad oedd ond y gwagder mwyaf ar ei ol. Fel y *dydd* ydyw presenoldeb rhai i ni, ac fel y *nos* eu habsenoldeb. Gwyddom beth ydyw myned i bob rhan o'r tŷ a'r ardd ar ol i rai personau ymadael â ni, gan geisio yn ofer gasglu gweddillion dylanwad y presenoldeb ag oedd wedi bod yn ein swyno. Yr oedd gweled rhyw greadur cyffredin o ddyn neu ddynes hyd yn nod yn eistedd yn y gader lle yr arferent hwy eistedd, yn fath o dramgwydd anhawdd ei faddeu. Nid oes ddadl, feddyliem, nad oes gallu neu ddyllanwad Mesmeriaidd gan rai personau. Y fynydd y deuant i mewn i ystafell neu leoedd cyhoeddus, nid oes yn ddichonadwy cadw y llygaid oddiarnynt, ac y mae hyd yn nod yr olwg gyntaf arnynt yn ein cynhyrfu ni ar unwaith. Nid oes ammheuaeth nad oedd gan amryw o'r hen bregethwyr poblogaidd gynt yn Nghymru fesur helaeth o'r dylanwad hwn. Peth cwbl naturiol ydyw, ond nis medrwn ei esbonio. Gwyddom yn ddiagon da beth ydyw ei deimlo.

Un person a dynodd ein sylw poenus y waith gyntaf y cyfarfuasom â'r lletŷwŷr, yn Dol-y-coed, wrth y bwrdd. Nid y gallu swyngyfareddol ag yr ydym wedi son am dano a barai i ni deimlo yr anhawsder o dynu ein llygaid oddiarno. Sylwasom ei fod hefyd yn wrthddrych o ddyddordeb pruddaidd a phoenfawr i'r boneddigesau, o ba rai yr oedd yn agos i ddwsin yn bresennol. Bradychai ei wyneb llwyd, teneu, ynghyd â'i beswch cau, natur yr afiechyd oddiwrth yr hwn y dyoddefai. Yr oedd y darfededig-aeth wedi ymafnydd ynddo, a chan mai meddyg ydoedd, gwyddai, fel Keats gynt, lawer gormod ynghylch natur ei anhwylddeb i allu bod yn dawel ei feddwl, eto ymdrechai fod yn siriol: a chan ei fod yn wr o ddysg ac o ymddygiad gwir foneddigaidd, ynghyd âg o dymher naturiol wresog a charedig, yr oedd yn ei allu a'i ewyllys i wneyd pob peth ag oedd yn bosibl iddo er dedwyddu pawb o'i gwmpas. Cymro glân glöew o sir Gaerfyrddin ydoedd, ond wedi treulio y rhan fwyaf o'i oes yn Lloegr. Nid ydoedd dros ddeuddeg neu bedair ar ddeg ar hugain mlwydd oed, ac yr oedd ganddo wraig a baban tri mis oed. Meddyliem am y rhai hyny bob tro y clywem ef yn pesychu. Treuliasom lawer o'n hamser yn ei gyfeillach, a chan ei fod wedi gweled llawer ar y byd, ac yn ddyngwybodus

a siaradus, profasom ef yn gydymaith dyddanus a dyddorol dros ben. Nis anghoflwn byth ei garedigrwydd a'i foneddigrwydd. Yn ei ymyl, ar giniaw, eisteddai gwraig weddw o H., ag oedd wedi colli ei gwr o'r un clefyd ag oedd wedi ymafyd yn ein cyfaill; ac yr oedd gwlyio gwedd yr un fwyn dyner-galon hõno, wrth edrych arno, yn gweini i ni hyfrydwech o'r pruddeiddiaf. Bob tro ei clywai yn pesychai, ymddangosai fel pe trywan-esid ei chalon â phicell, a chasglai yn ddiarwybod iddi y deigr yn yn nghil ei llygaid tyner caredig, ac edrychai arno gyda chymaint o dosturi a chydymdeimlad, tra y bradychai yr olwg absennol (am fynyd), a siglad pruddaidd ei phen, fod adgofion ingawl wedi eu dihuno, a bod ei chalon wedi cael ei briwo o'r newydd, wrth ganfod mor adgas iddi effeithiau yr un clefyd ag oedd wedi ei hamddifadu hi o briod, a'i phlant o dad.

Yr oedd yn dda genym am lawer ag oedd yn Llanwrtyd yr un pryd a ni, ond ni wnawn gynyng eu darlunio. Digon iddynt hwy ydyw i ai ysgrifenu eu henwau mewn llythyrenau breision ac annilëadwy ar dudalen ein cof, ac i ni roddi iddynt y lle tyneraf a gwresocaf a fedd ein calon. Yr oedd yn ein bwriad, wrth ddechreu y papyryn presennol, anrhegu darllenwyr y "Traethodydd" â darluniau rhyw nifer fechan o frodorion gwreiddiol a chyntefig cwm Llanwrtyd, ond nis gallwn wneyd hyny yn bresennol. Mae gweddw oedranus yn byw yn y cwm ag sydd yn cofio clywed "yr hen Williams o Bant-y-celyn" yn pregethu yn eglwys Llanwrtyd, pan ydoedd yn gurad yn yr eglwys hõno. Pan ofynasom iddi, pa fath bregethwr ydoedd, atebodd, "Dywedai lawer o *sense* weithiau, a llawer o ddwli bryd arall." Bydded hysbys i'r darlennydd taw *Methodist* ydyw hi. Yn ei hymyl mae yn trigo hen wr tâl penllwyd a dreuliodd lawer noswaith gyfan i foliannu a neidio, yn amser y diwygiad nerthol a fu ar grefydd yn Nghymru, er ys oddeutu hanner can mlynedd yn ol.

Nis gallwn ymatal rhag roddi hanes byr am un o blant anffodus yr awen, yr hwn a fagwyd yn nghwm Llanwrtyd. Nid aethom erioed heibio i'r ddõl islaw pentref Pont-rhyd-y-fferau, heb gofio mai yn rhodio yn chwarian a myfyrar ar hyd-ddi y gwelsoim ni y bardd ddiweddaf. Bachgen tlawd ydoedd, a theiliwr wrth ei alwedigaeth. Yr oedd yr olwg arno yn ddyddorol dros ben. Talcen uchel—llygaid duon llawn—trwyn cam prydfeth—gwallt du—croen tywyll-ddu—a ffurf dlws i'w ryfeddu. Gallesid yn hawdd ei gymeryd am un o'r Italiaid. Ei wyneb oedd o arddangosiant mor amrywiol a swynol fel y gallasem edrych arno gydag hyfrydwech am oriau. Gwnaeth broffes o grefydd. Cyfodwyd ef i fod yn bregethwr. Ennillodd boblogrwydd. Yr oedd ei ddrychfeddylliau yn wychion anghyffredin, tra yr oedd yr iaith yn mha un eu gwisgid yn wir farddonol a chyfoethog. Traddodai ei bregethau mewn dull ag a rwymai bob clust wrth ddrws ei enau. Bu am dymmor yn cadw ysgol yn un o gapeli y Parch. D. Davies, Pant-teg; a chyhoeddodd ef a Mr. Davies gasgliad bychan o emynau. Gwelir y *bardd* yn nghyfansoddiadau brodor Llanwrtyd. Ennillodd wobr neu wobrau yn Eisteddfod Aberhonddu, a thalodd Daniel Ddu *iddo* y *compliment*, ar yr achlysur, o ddyweyd y gallasai gyfansoddi mwy o farddoniaeth mewn wythnos nag allasai Goronwy Owain gyfansoddi mewn mis. Daeth i enwogrwydd. Profodd i foddlonrwydd pawbeifod wedi ei gynnysgaethu â galluoedd ardderchog. Cymerwyd sylw neillduol o hono gan offeiriad haelionus a chyfoethog yn nghymydog-aeth Llanwrtyd, Ymadawodd âg Ymneillduaeth, ac aeth i Ystradmeurig,

ar gost ei noddwr, er mwyn parotï ei hun ar gyfer gwelni wrth allor yr Eglwys Sefydledig. Bu yno am yspaid o amser. Dysgai a welai, ac aeth ei gynnydd yn amlwg i'w athraw a'i gydfyfyrwyr. Yr oedd llwybr dyrchafiad yn agored o'i flaen. Yr oedd ei obeithion a'i ddysgwyliadau yn uchel, ond yn ddisymwrth goddiweddwyd ef gan brofedigaeth. Gadawodd Ystradmeurig, un prydawn, heb ddyweyd gair wrth neb, ac yn nyfnder y nos, cyrhaeddodd ardal Llanwrtyd, ac aeth i mewn——gomedd ein pin adrodd manylion ei gwyp. Myneged muriau un o gelloedd tywyll castell Trefaldwyn y rhelyw pruddaidd a thorcalonus. Dydd ei brawf a ddaeth, ond gan nad ymddangosodd ei noddwr yn ei erbyn fel erlynydd, gollyngwyd y carcharor yn rhydd. Trôdd ei wyneb tua Merthyr Tydfil. Ailymaflood yn ei grefft. Cyfieithiodd "*Hervey's Meditations*" i'r Gymraeg, a chyflawnodd ei dasg gyda medrusrwydd digymhar, a golygwn fod y cyfieithiad yn tra rhagori ar y gwaith gwreiddiol. Mae'r iaith yn ysplenydd a barddonol. Clafyohodd y cyfieithydd. Dychwelodd i Lanwrtyd i—*faro!* Cymerai arno yn nechreu ei glefyd ammheu gwirionedd Cristionogaeth. Ychydig amser cyn marw, dymunodd weled y Parch. D. Williams, o Lanwrtyd, ei hen weinidog gynt; ond yn lle gyru am dano ar unwaith, gofynwyd iddo a fuasai dim yn well ganddo weled un o bobl y Bont; ond cyn i bobl y Bont (Methodistiaid), i ba rai y perthynai ei dad, na phobl y Gelynos (Annibynwyr), gael amser i ymweled âg ef, yr oedd ei ysbryd wedi cymeryd ei daith i'r pellderau anfeidrol tudraw i'r llên. Claddwyd ef yn mynwent Llanwrtyd, ac er cywilydd i'w berthynasau, nid oes cymaint a dwy droedfedd o gareg i nodi'r fan lle gorwedd gweddillion marwol yr athrylithlawn, ond syrthiedig ac annedwydd, Dafydd ap Gwilym Buallt!

JAMES A REES AR "YR EGLWYS O DDIFRIF."

[*Yr Eglwys o Ddifrif.* Gan y Parch. J. ANGELL JAMES: *gyda Rhag-draethawd*, gan y Parch. HENRY REES. Dinbych: cyhoeddedig gan Thomas Gee.]

BYDDAI yn drugaredd fawr i lawer o bobl gredu mai nid tafod ond "*Uaw* y diwyd a gyfoethoga. Yn mhob llafur y mae elw; ond o eiriau gwefusau nid oes dim ond tlodi." Nid yw dymuniadau da a dwylaw yn mhlêth yn cynnyrchu dim gorchestion. Gyda phob celfyddyd, ac yn mhob anturiaeth, y dynion egniol yw y rhai a welir yn ddynion llwyddiannus. Ac felly y mae gyda chrefydd. Sichëir i ni am deyrnas nefoedd, mai nid siaradwyr, ond "treiswyr sydd yn ei chipio hi." Yr oedd y prophwydi, yr apostolion, a diwygwyr crefyddol pob oes, y rhai a droisant lawer i gyfiawnder, yn myned ymlaen gyda gwaith eu Harglwydd yn benderfynol, ac â'u holl egni: nid oeddynt yn gwneuthur cyfrif o ddim, os gallent lwyddo yn eu gorohwyliaeth bwysig. Yr ydym yn addef mai gras penarglwyddiaethol Duw sydd yn gwneyd yr efengyl yn effeithiol i achub pechaduriaid; eithr nid yw efe yn rhoddi y cynnydd heb i Paul blanu ac i Apolos ddyfrhau. Ar lafur, ac nid ar ddiogi, y rhydd y Goruchaf ei fendith. Nid ydyw

eglwys Dduw o ddifrif am lwyddiant os nad yw o ddifrif mewn llafur. Mynych yr ymholir, Pa bryd y bydd y Milblyneddau yn dyfod i mewn? Ai nid yw yr amser dedwydd wrth y drws? Ond y gwirionedd heddyw am y tymmor bendigaidd hwnw ydyw hyn:—nid yw yr eglwys Gristionogol eto yn addfed iddo. Pa fodd y mae swper neithior yr Oen heb ddyfod? Wele, ei wraig ef sydd heb ei pharotöi ei hun. “*Yr hym sydd eisieu—a'r cyfan sydd eisieu, dan fendith Duw, tuag at ddychwelyd y byd, at Iesu Grist, yw—Gweinidogaeth Ddifrifol, ac Eglwys o Ddifrif.*” Felly y dywed Mr. James yn niwedd y llyfr sydd ger ein bron; a'r anghenheid-rwydd anhebgorol i'r eglwys fod o ddifrif, a brofir yn gadarn, ac a gymhwysir yn wresog trwy yr holl lyfr.

Gwnaethom nodiad byr mewn rhifyn blaenorol i alw sylw ein darllenwyr at y llyfr hwn ar ymddangosiad y rhifyn cyntaf o hono. Yn awr, dyma y llyfr i gyd, y traethawd a'r rhagdraethawd, yn gyhoeddedig: ac yr ydym yn barnu nas gallwn wneuthur gwasanaeth gwell i achos gwir grefydd na chynghori profeswyr yn mysg pob dosbarth o eglwys Crist yn Nghymru i brynu y llyfr hwn ar frys, ei ddarllen yn drwyadl ac yn ddyfal, ac ystyried ei gynnwysiad yn ddwys, gan fod yn ffyddlawn i roddi ei gyfarwyddiadau mewn gweithrediad.

Mae Mr. James o Birmingham yn cael ei gydnabod fel un o'r pregethwyr mwyaf poblogaidd, ac un o weinidogion cymhwysaf y Testament Newydd, yn Lloegr. Llafuriodd yn ddiffin ac yn llwyddiannus gyda'r weinidogaeth efengylaidd am yn agos i hanner canrif; ac y mae ei barch a'i gymeradwyaeth yn myned fwyfwy yn barhäus. Fel awdur crefyddol y mae yn dra enwog: ysgrifennodd liaws o lyfrau rhagorol, y rhai a gawsant ledaniad helaeth, ac a wnaethant les dirfawr. Os na chyfrifir Mr. James yn ddyn mawr iawn, y mae pawb yn addef ei fod yn ddyn da iawn. Os nad yw yn perchen darfelydd neu ddychymyg bywiog, mae yn hawdd gweled ei fod yn wr o synwyr cryf, ac o sylw eang a manwl, a chanddo iaith oleu a grymus a deniadol i draethu ei syniadau. Nid yw yn ymgeisio at feddyliau gorddwfn a gwreiddiol, ond tybygid mai ei holl amcan ydyw, mynegu “pethau buddiol” mewn dull buddiol. Yn mhob llyfr o'i eiddo, ni a welwn fod “ei galon yn berwi allan beth da;” o herwydd calon ydyw sydd yn llosgi mewn cariad at Dduw ac at ddynion. Y mae ei ddau lyfr diweddar, “*Earnest Ministry*” a'r “*Church in Earnest*,” yn llyfrau gwir gyfaddas i'n hamserau, ac wedi bod eisoes yn dra bendithiol i alw gweinidogion, ac aelodau eglwysig, o'u crwydriadau ysbrydol, atynt eu hunain, ac at eu Duw. Hyfryd yw genym weled yr hen wyliedydd Cristionogol ar y muriau, mor ddyfal ag erioed; ei lygaid heb dywyllu, ond yn ddiattreg yn canfod y perygl o ba gŵr bynag y delo, a'i anadl yn dal allan yn wych i udganu mewn udgorn, er rhybuddio y dinasyddion.

Mewn rhai rhanau o'r “Eglwys o Ddifrif,” mae yr awdur yn cyfeirio yn benodol at yr Eglwysi Cynnulleidfaol neu Annibynol; eithr nid yw y cyfeiriadau hyn yn feithion, ac nid oes ynddynt ddim sydd yn dramgwyddus i enwadau eraill. Ond y mae materion y llyfr, a'r corff o hono, yn gymhwys i Gristionogion yn gyffredinol, pa enw bynag a roddir arnynt gan ddynion. Yr oedd ar y Cymry gymaint o anghen a'r Saeson am y fath lyfr a hwn. Nis gallwn ddychymygu am unpeth a allai fod yn gymaint bendith i'n cenedl, ag i'r eglwys yn Nghymru ateb yn llawn i'r enw, “Eglwys o Ddifrif.” Onid oes yn y Dywysogaeth liaws mawr o

broffeswyr sydd yn dywedyd yn eu hymddygiad eu bod gyda'r byd o ddifrif, a chyda chrefydd o ddefod—fod y naill yn ddewisiad ganddynt, a'r llall yn orfodiad arnynt? Gwnaeth y cyhoeddwr, gan hyny, weithred dda i'r wlad a'i magodd trwy ddwyn allan “Yr Eglwys o Ddifrif” yn Gymraeg. Grefyddwyr Cymru! gwerthfawrogwch y llyfr hwn sydd wedi ei estyn atoch: darllenwch, darllenwch, ac ad-ddarllenwch ef, nes eich trwytho yn ei ysbryd; ac yna gallwn ddysgwyl am addoliad llawn o fywyd, a phroffes lawn o weithredoedd.

Am y cyfieithiad, yr ydym yn barnu ei fod cystal ag y gallesid dymuno; y mae yn eglur ac yn rhwydd; heb eiriau isel ar un llaw, na rhai anghynnefin ar y llaw arall. Hwyrach y gallasem nodi allan ryw ddwy neu dair o linellau lle y methwyd cyflëu meddwl yr awdur yn gywir yn y cyfieithiad hwn; ond nid ydyw hyny ond peth y gellir ei gyfarfod agos yn mhob cyfieithiad; ac fe ŵyr y Cymry yn dda ddigon fod “gwehilion i'r gwenith.” Cymerer yr holl gyfieithiad drwyddo, ac ni phetruswn ddywedyd ei fod yn un fyddllawn a chanmoladwy; ac felly yn tra rhagori ar y rhan fwyaf o'r cyfieithiadau sydd yn eu cynnyg eu hunain i'n cydwladwyr yn y dyddiau hyn. Tybygem mai cryn orchest yw iawn gyfieithu ysgrifeniadau Mr. James, gan fod ei froddegau yn fynych yn lled hirion a chymhlethedig. Gallwn ddywedyd oddiar wybodaeth bersonol mai nid gan gwac na phrentis o gyfieithydd y trowyd yr “Eglwys o Ddifrif” i'r Gymraeg, ond gan ysgrifenydd athrylithgar a medrus, ac un profedig mewn gweithredoedd llênnyddol. Mae eisieu i gyhoeddwyr llyfrau yn Nghymru fod yn fwy gofalus nag y maent, lawer o honynt, rhag cefnogi crach-gyfieithwyr, y rhai sydd yn anhyddydg hyd yn nod yn nghystrawen yr iaith Gymraeg, ac nad oes ynddynt ddim yn gymhwysder at y gwaith yr ymaflant ynddo oddigerth eu digywilydd-dra. Fe dybygid y gallai yr egwyddor o hunanles, heb son am ddim arall, ddyngu y wers hon i'n cyhoeddwyr.

Y mae y “Rhagdraethawd” yn ychwanegiad buddiol a gwerthfawr at y llyfr gwreiddiol: mae yn gwasanaethu yn effeithiol i gyfaddasu traethawd Mr. James i'r Cymry, a'r Cymry i'r traethawd. Bu ein cyfai, Mr. Gee, yn ffodus iawn yn ei ddewisiad a'i gaffaeliad o'r Parch. Henry Rees at y gorchwyl o gyflwyno yr “Eglwys o Ddifrif” i'w gydgenedl. Gŵyr pawb ag sydd yn gwybod rhywbeth am Mr. Rees, ei fod ef yn bregethwr o ddifrif, heb ddim ffugiol yn ei fater nac yn ei ddull: y mae ei bregethau— a phwy ni ŵyr mai rhai digymhar ydynt?—yn dyfod o'r galon, ac yn amcanu am y galon; ac fel hyn mae ei ddifrifoldeb ei hun yn ei wneyd yn addas i argymhell difrifoldeb ar eraill. Y mae efe hefyd yn un sydd yn llygadu yn graff ar “arwyddion yr amserau,” yn eu cysylltiad â chrefydd yn gyffredinol, ac â chrefydd yn mysy y Cymry yn neillduol. Y mae yn wir eiddigus dros lesiant goreu ei genedl, ac wedi ennill hawl yn mhob ystyr i orchymyn y gwrandaewiad dyfalaf oddiwrth bob Cymro. Nis gallwn ddywedyd mwy am y Rhagdraethawd na'i fod yn deilwng o'i ysgrifenydd; gellwch ganfod ei enaid ynddo; a phe na byddai dim ond hyn o gynnyrch ei ysgrifell ar gael yn yr oesoedd a ddêl, fe welid ar unwaith, gan ein hólleswyr, mai nid dyn o feddwl cyffredin oedd Henry Rees, ond mai “tywysog a gŵr mawr yn Israel” ydoedd. Yr hyn sydd yn coroni cyfansoddiadau Mr. Rees ydyw, eu bod yn gyfuniad o nerth a harddwch. Cawn gan lawer un dlysi iaith, ond heb fater sylweddol, fel y ddellw gŵyr, yr hon sydd yn edrych yn wech, ond na all ddal dim

dirwasgiad; a gallwn gael gan arall wirioneddau gwerthfawr, ond mewn ffurf ddidrefn, megys mynor pur heb ei gaboli; eithr cawn ragoroldeb o ran defnydd a ffurf gan Mr. Rees. Nid ydyw yn gadael ei athrylith i redeg yn ddilywodraeth, fel yr asyn gwylt yn yr anialwch; ond mae ei feddyliau bywiol yn cael eu harneisio yn brydferth, a'u gyru wrth awenau, fel y meirch yn ngherbydau Pharaoh. Yn ei bregethau, ac felly hefyd yn ei ysgrifeniadau, mae ei faterion a'i ymadroddion, ei bethau a'i eiriau, yn ddigon coeth i'r archwaethau mwyaf diwylliedig, tra y maent ar yr un pryd yn ddigon syml ac eglur i'r cyrhaeddiadau iselaf. Yn wir, byddai yn fuddiol iawn i bregethwr ac ysgrifenydd ieuanc sylwi ar Gymraeg Mr. Rees, yn gystal ag ar eiddo ei frawd dawnus, y Parch. William Rees. Y mae yn *dda bur*, fel y dywed pobl sir Feirionydd, heb ynddi ddim gwael na rhodresgar. Yr ydym yn cyfrif y ddau frawd yn ddedwydd, nid yn unig yn eu hamgyffredion cynnwysfawr, a'u drychfeddyliau grymus, ond hefyd yn eu galluogrwydd i ddwyn allan o drysorau ein hen iaith ddigyffelyb y fath eiriau mor briodol, mynegol, a dealladwy ag a ddefnyddir ganddynt ar bob mater a gymerant mewn llaw. Ac felly yn y Rhagdraethawd sydd dan ein sylw, mae y pynciau pwysig a ddygir ger bron yn cael eu gwisgo â'r geirweddad mwyaf priodol.

Yr ydym ni, ynghyd â lliaws yn y Dywysogaeth, yn mawr hyderu y cawn weled Mr. Rees yn dyfod allan yn fwy egniol nag erioed ar faes awduriaeth. Y mae efe wedi ei wneyd yn ddyd i'w genedl, ac nid i droi yn unig mewn cylchoedd llëol. A thrwy yr argraffwasg efe a allai wasanaethu ei genedlaeth yn gyffredinol, ac ar unwaith. Nid ydym heb wybod am amledd a phwysigrwydd ei orohwylion gweinidogaethol, a bod rhyw alwadau arno yn ddibaid; ond pe byddai iddo fynu hamdden oddiwrth bethau eraill i barotï cyfrol i'r wasg yn awr a phryd arall, nid oes neb a all ddyweyd pa gymaint o ddaioni a wnelai drwy hyny. "Nid yw ysgrifeniadau duwinyddion," ebai yr hen Baxter, "ddim amgen na phregethiad yr efengyl i'r llygad, megys y mae y llais yn ei phregethu i'r glust. Mae gan bregethu lleisiol y flaenoriaeth mewn cynhyrfu y serchiadau: yn y ffordd yma mae y llaeth yn dyfod gynhesaf o'r fron. Ond y mae gan llyfrau fwy o fantais mewn pethau eraill. Gellwch gael pregethwr medrus i'w ddarllen, pryd na byddo genych ond un gwael i'w wrandaw. Gall pregethwyr gael eu dystewi neu eu halltudio, ond bydd eu llyfrau genych wrth law; a gellwch gadw llyfrau yn rhatach na chadw pregethwyr. Os caiff pregethau eu hanghofio, dyna hwy wedi eu colli; ond gallwn ddarllen llyfr drosodd a throsodd nes iddo ymsefydlu yn ein cof; ac os anghofiwn ef, gallwn droi ato drachefna pan y mynom. Ac fel hyn y mae llyfrau da yn drugaredd fawr i'r byd." Mae y wasg yn ein hamser ni yn fil dwysach ac èangach ei dylanwad nag yr ydoedd yn amser Baxter, ac yn debyg o fyned yn fwy felly yn barhäus; ac ni ddylai swyddogion crefydd anghofio hyny.

Gallasem, a dymunasem, ddywedyd ychwaneg yn y fan hon am Mr. Rees, ond mae yn ddigon tebyg y bydd rhywrai yn barod i'n beio am ddywedyd cymaint. Cewch ddyweyd y daioni a fynoch am brophwydi meirw, ond gwylwch atoch rhag canmawl prophwydi byw. Ond yr ydym yn tybied ein bod ni, er y pryd y cychwynasom y "Traethodydd," wedi talu mwy na digon o warogaeth i'r gormod neisrwydd yma. Mae yn llawn bryd i ni bellach ddechreu gwneyd cyfiawnder â phersonau yn gystal ag â phethau, a thalu parch "yn wyneb haul a llygad goleuni" i berchenogion yr

eneidiau mwyaf a goraf a fedd ein gwlad, y rhai ni dderfydd eu dylanwad pan y derfydd eu hoese. Trowch i gylhgyhoeddiadau y Saeson, a chwi a gewch weled pob corach o lônorydd neu dduwinydd yn cael ei ddwyn i sylw; a pham y rhaid i ni fod yn rhy yswil i gydnabod cewri Cymru? Y mae genym ryw gynnifer o ddyinion mawr yn mysg ein holl enwadau crefyddol; ac yr ydym yn meddwl y byddai yn orchwyl difyr ac adeiladol i ryw George Gilfillan gymeryd ei bin i'w portreâu.

Y mae Mr. Rees, unwaith a dwywaith, wedi cyhoeddi ei olygiadau ar “Weinidogaeth Ddifrifol,”—nis dywedwn ar hyn o bryd yn mha le;—ac yn awr, wele ef, mewn cysylltiad â thraethawd Mr. James, yn mynegu ei feddwl am “Eglwys o Ddifrif.” Pe darllenid rhanau o lyfr Mr. James, ac o Ragdraethawd Mr. Rees, yn olynol mewn cyfarfodydd eglwysig, gan wneuthur sylwadau arnynt, yr ydym yn credu y gallai hyny effeithio yn dda ar broffeswyr a phroffeswragedd; ac y mae yn ddiammheu genym y gellid gwneuthur llawer peth gwaelach mewn cynnadleddau Cyfarfodydd Misol a Chymanfaeodd Chwarterol neu Flyneddol, na darllen detholranau o'r “Eglwys o Ddifrif.”

Cynnwysiad y Bennod Cyntaf ydyw, “Y Dybenion sydd i'w cyflawni trwy yr Eglwys tuag at y Byd.” Ar y pwnc hwn y mae Mr. Rees yn gwneuthur y sylwadau tra phriodol a ganlyn:—

“Er profi yr anghenheidrwydd am gael yr eglwys o ddiffrif, mae yr awdur, yn y lle cyntaf, yn dangos yr amcanion sydd gan yr Arglwydd i'w cyflawni trwyddi hi yn y byd. Yr eglwys yw trysordŷ a chenad y gwirionedd. Gosodwyd hi i fyny ar y ddaear i'r dyben o gadw gwirioneddau dwyfol yr efengyl, ac i'w gwneud yn hysbys i'r holl genedloedd. Nid oes un grefydd yn osio bod yn grefydd y byd yn y dyddiau hyn ond Cristionogaeth. Mae pob cyfundraeth arall o grefydd, nid yn unig â rhywbeth lleol yn eu sefydliadau, cymhwys yn unig i wlad eu genedigiaeth, ond y maent yn methu byw hyd yn nod yn y gwledydd hyny, yn yneb cyfnewidiadau, gan gynnwdd gwbyodaeth ac amaethiad yn mysg y trigolion. Ond am Gristionogaeth, mae ei sefydliadau yn gymhwys i bob gwlad. Hi a oresgynodd y byd ar ei mynediad allan yn y dechreuad; ac y mae wedi goroesi cyfnewidiadau teyrnasoedd—cyd-deithio â phob gwbyodaeth arall, ac yn wir eu helpio ymlaen. Er bod ei hathrawiaeth goruwch, i.e., yn groes, i reswm cnawdol, eto y mae yn cyfateb i anghen pechadur, ac felly mae esiamplau yn mhob oes o bob math ar ddyinion wedi eu dwyn i'w chydgosfeidio, yr hyn sydd yn profi (ar wahan oddiwrth yr addewidion am hyny) fod yn bosibl, i.e., yn debyg i'r grefydd yma fyned yn grefydd yr holl ddaear.

“Wrth son er hyny am ddychweliad y byd at Gristionogaeth, nid ydym yn dirnad ond ychydig am y peth. Mae yr amcan yn anfeidrol: fe'i nodir fel peth hynod am Grist ei hunan, na phalla efe, ac na ddigalona, hyd oni osodo farn ar y ddaear. Wedi deugain mlynedd a mwy o lafur cenadol, nid yw nifer y rhai cadwedig ond megys dim eto, tra y mae trigolion y ddaear o'r ochr arall, megys yr Aipht pan oedd ei llwch yn bryfed, i'w canfod o dan holl ffeidd-dra eu llygredigaeth yn cwhwan ar ei hwyneb yn aneirif. Mae yn llawn bryd, gan hyny, i'r eglwys gael ei gwneud yn ddiffrifol yn ei gwaith. Prin y cred rhai, fe wyddia, mai drwy egni cenadol y cyrhaeddir y fath amcan o gwbl. Am y cymdeithasau i'r perwyl hwn, ag sydd ar droed yn awr, mae llawer, gystal ag awdur y gwaith hwn, yn dechreu ammheu nad yw y rhai'n, yn y wedd bresennol arnynt, pa fodd bynag, ddim yn debyg o fod o hir barhad. Nid yw yr eglwys eto yn ei hymdrechion cenadol ond megys bachgen. Pan ddelo yn wr, ac i roi heibio ei phethau bachgenaidd, y mae yn bur debyg y bydd sefydliadau clogyrn-sidd, rhwysgiawr, a chostus, yr oes hon, yn cael eu newid am rai mwy syml ac apostolaidd eu hysbryd a'u cyfansoddiad. Bydd llai o ddyon, a mwy o Dduw; llai o rwysg yr esgynlawr, a mwy o ddefosiwn yr ystafell; llai o gynhyrfu ac ndganu gyda chaepliadau, ac ar yr un amser mwy o waith yn cael ei wneyd, a mwy o ymaberthu gwirfoddol a dystaw ar ran Cristionogion i deyrnas Crist, pa bryd bynag y delo yr eglwys o ddiffrif. Prysuod Duw hyny yn ei amser. Ar yr un pryd, ein dyledswydd ni yw arfer y moddion sydd yn ein cyrhaedd, a gweddio yn daer am i'r rhai'n neu eraill gael eu gwneuthur yn effeithiol hyd oni byddo yr amcan gogoneddus wedi ei

gyrhaeddyd, a'r addewid wedi ei chyflawni, 'Y ddacae a fydd llawn o wybodaeth y Arglwydd, megys y mae y dyfroedd yn toi y mor.'

Cawn yn yr Ail Bennod, "Sylwadau ar yr Epistolau at Saith Eglwys Asia—Dat. i. ii. iii.—i'r dyben i ddangos Natur Difrifoldeb mewn Crefydd." Mae y bennod hon yn treiddio i'r byw, at galon crefydd ysbrydol. Cyfyd yr awdur ryw wers neu wersi ymarferol oddiwrth bob un o'r llythyrau at Eglwysi Asia; a chymhwysa hyny yn gyfeiriol at ein heglwysi yn y dyddiau hyn. Un addysg sydd ganddo oddiwrth hanes yr eglwys yn Pergamus, ydyw, "mor anfodhaol yn ngolwg Iesu Grist yw cymundeb anhur;" ac wrth sylwi ar hyn efe a ddywed,—

"Y mae derbyn neu oddef dynion ansanctaidd yn aelodau yn ein heglwysi yn ddirywiad dirfawr ar eglwys Crist, yr hon a fwriadwyd i fod yn 'gynulleidfa y ffyddloniaid,' a chymundeb y saint. Mor dwys y ceryddodd yr apostol eglwys Corinth gynt am gadw yn eu plith yr aelod godinebus; ac mor awdurdodol y gorchymynodd efe ei droi ymaith. Gadael pechaduriaid nodedig yn nghyfundeb yr eglwys yw y cydymffurfiaid mwyaf dychrynllyd & pechod a ellir ei gyflawni yn ein byd ni; canys felly dygir awdurdod eglwys Crist i amddiffyn y troseddwr ac i lunio esgus dros ei fai. Y mae gan rai personau gymaint o wrthwynebrwydd i ddiarddel aelod annheilwng, am unrhyw drosedd, ag sydd gan un anafus i roi ei aelod i'w thori ymaith oddiwrth ei gorff—ond rhaid gwneuthur hyny; y mae diogeliad bywyd y corff, yn gystal a'i gysur, yn galw am hyny. Yn ngwyneb cwympiadau disymwth, ac am unwaith, a phan y byddo teimlad dwys yn ymddangos, a chyffes ddiffuant yn cael ei gwneuthur, dylid arfer cryn dynerwch: ond pan y bo y pechod yn fawr a chyhoeddus, a'r gydwybod wedi caledu, byddai dangos trugaredd y pryd hyny yn deyrnfradwriaeth yn erbyn Crist, trwy lochesu gelynyon yn ei deyrnas ef, y rhai sydd mewn efaith yn ceisio ei dymchwelyd hi. Y mae yr eglwys yn gwmwl o dystion i'r anghenrheidrwydd am sancteiddrwydd yn gystal ag i'w ragoroldeb; ag y mae pa beth bynag a dueddo i wanhau ac i wahanu y dystiolaeth hōno yn gwneuthur anhraethol ddrwg i foesoldeb Cristionogol, ac yn rhoi sarhad dirfawr i'r Hwn a fu farw 'i'n puro ni iddo ei hun, yn bobl briodol, awyddus i weithredoedd da.' Pa bryd bynag y byddo yr eglwys yn pallu dwyn tystiolaeth i sancteiddrwydd, y mae yn ymadaw a'r gwasanaeth a roddwyd iddi, ac nid yw mwyach yn dyst dros Grist. Os rhaid iddi ymollwng i'r naill ochr neu i'r llall, dylai fod i du llymder mewn dysgyblaeth, yn hytrach na thynwch; o herwydd gwell ychwanegu hyny at gosbedigaeth aelod fyddo wedi troseddu, nag i'r holl eglwys gael ei llychwino a'i hanafu fel tyst dros sancteiddrwydd."

Eglwysi Cymru, yn mysg pob enwad! gwrandewch ar y sylwadau hyna, a gweithredwch yn gyfatebol. Fe glybuwyd rhai—nid dynion goreu eu henwad, bid siwr—yn myntumio yn haerllug "gerllaw y pyrth, yn mhén y dref," mai hwynt-hwy yn unig oeddynt iawn a chyson ddilynwy'r Crist a'i apostolion, a'r rhai hyny yn goddef trwy y blyneddau yn eu cymundeb ddynion a elwid gan y byd yn ddiotwyr a meddwon. Och! ai peth fel hyna yw tebygolrwydd i'r "Sanctaidd hwnw!" Mae yn anhosibl i'r cyfryw gynulleidfa fod yn "Eglwys o Ddifrif."

Darlener yn benodol sylwadau Mr. James ar eglwys Laodicea, lle y dengys fod "clauarineb yn yr eglwys Cristionogol yn agwedd adgas gan Iesu Grist; yn gyflwr y gellir bod ynddo heb adnabyddiaeth o hono, nac ammheuaeth am dano gan y sawl fyddo ynddo; ac yn debyg o gael ei genedlu gan lwyddiant bydol." Wrth eu tryddarllen, nis gallwn beidio dychrynu rhag "Cristionogaeth lygredig," yr hon sydd "yn llawer mwy ffaidd gan Dduw nag anfyddiaeth cyhoeddus."

Mae y Drydedd Bennod yn golygu Difrifoldeb "yn benaf gyda golwg ar Grefydd Bersonol." Dengys beth ydyw crefydd bersonol, a nodu y perlygl o esgeuluso ei meithriniad oddiwrth amgylchiadau yr amserau hyn. Ai nid yw y sylwadau canlynol yn rhy gymhwys i ni yn Nghymru, megys iddynt hwy yn Lloegr?

"Yr ydym yn byw mewn oes brysur iawn, pan nad yw dynion yn cael ond ychydig iawn o amser i weddio yn y dirgel, i ddarllen yr ysgrhythrau ac i fyfyrto. *Efallai na bu erioed can lleied o weddio yn y dirgel gan broffeswyr ag sydd yn awr.* Ni esgeuluswyd yr ystafell ddirgel erioed yn fwy gan y corff mawr a alwant eu hunain yn Cristionogion. Y mae lle i ofni mai rhyw ymadroddion byrion, brysiog, yn cael eu sibwrdd heb y difrifwch a'r ystyriaeth a weddai, neu ryw ffurf o weddi fer a ddyagwyd ar dafod leferydd ac a adroddir nos a boreu, yw yr holl weddïau dirgel y mae rhai yn eu hoffrymu i Dduw. Wrth fyned i'r dirgel i weddio y meddylir—fod dyn yn neillduo rhyw le ac adeg briodol i gyfarfod â Duw, ac yno yn tywallt yn rhydd ac yn helaeth i'w giustiau Eif, holl ofalon, a thristwch, a dymuniadau, a phechodau calon lwythog a chydwybod derfysgld; ie, y mae yn cynnwys mwy, y mae yn arwyddo gweithred plentyn mabaidd yn myned i ymddyddan â'i Dad nefol, ac i gyflwyno ger ei fron, ei fawl a'i ddiolchgarwch, a'i gariad, ac i eiriol âg ef dros y rhai oll sydd yn cyfranogi yn ei weddïau. Y mae yn rhy amlwg mai ychydig iawn mewn cymhariaeth sydd o ymarfer a'r weddi ddirgel yn y dyddïau bydol a daearol hyn. Y mae Cristionogion yn byw gormod yn y cyhoedd, i fod yn fynych yn yr ystafell ddirgel. Ai nid yw hi felly? atebed y darllenwyd. Beth a ddywed dy ystafell ddirgel a'th gwybod di? Beth yw y dystiolaeth a ddygir yn dy *erbyn*? O! broffeswyr! beth meddwch; ai nid ydych chiwi yn attal gweddi, ac yn llunio pob math o esgusion am ei hegeuluso? Pa fath ysbrydolrwydd a thymher nefolaidd a ellwch chiwi ei ddysgwyl, sydd yn parhau i esgeuluso yr ystafell ddirgel?"

Nis gallwn ymattal yma heb ddyfynu rhai llinellau allan o sylwadau effrôus Mr. Rees ar y mater hwn:—

"Mae yn bosibl i eglwysi etifeddu athrawiaeth a threfnaiadau da oddiwrth oes mwy ysbrydol na hwy eu hunain, a theimlo yn zelog drostynt, fel hynodrwydd eu sect a phethau a dderbyniasant oddiwrth eu hynafiaid, ie, a myned rhagddynt hefyd gyda'n hoed eu hunain mewn anturiaethau newyddion, hyd oni byddo eu gweithredoedd diweddaf yn fwy na'r rhai cyntaf, ac yn fwy o bosibl na'r eiddo eu tadau hefyd,—ac eto, er y cyfan, bod afiechyd wedi ymafelyd yn y cyfansoddiad, ac yn dirgel weithio oddi-mewn, ag sydd yn peryglu yn fuan ddarostwng yr holl wyneb teg a gwridog yma o dan lesni angu a llygredigaeth. Ah! pa le y mae y serchiadau nefol, y purdeb calon, a'r ansawdd rasol hono ar y meddwl ag sydd yn cadw yr enaid gyda Duw yn Nghrist a than farweiddiad i bob peth arall! A ydych chiwi yn dywedyd y dichon fod amhariaeth ar y pethau hyn yn nghanol cymaint o egni crefyddol? Ydym, ddarllenwyd! ac yn dywedyd mwy na hyn—y dichon hyd yn nod i'r egni yma ei hunan achlysuero yr amhariaeth hwnw, a dwyn crefyddwyr yn ormod oddiwrth yr ymarferiadau mwyaf priodol i'w meithrin, megys myfyrdodau ysbrydol a gweddïau dirgel. Mae yn wir nad yw y naill ran o ymarferiadau duwioldeb ddim o anghenheidrwydd i ddrygu y llall. Ond mae yn bur bosibl, er hyny, fod cynhyrfadau cymaint o gyfarfodydd cyhoeddus, a'r holl ymdrafodaeth yn nghylchoedd cyffredin crefydd, a'r cyfan wrth eu bod mewn cysylltiad âg achosion da, yn ymddangos i'r meddwl fel zel dduwiol—wedi effeithio, mewn undeb âg eraill o demtasiynau yr oes, i ddwyn Cristionogion yn ormodol oddiwrth eu mater eu hunain, ac i esgeuluso yr achosion pwysig sydd i'w trin yn unig rhwng yr enaid a Duw.

"Fe fu amser pan oedd Cristionogion yn esgeuluso eu dyledswyddau cymdeithasol, ac yn dianc o'r byd i'w celloedd, dan rith, o leiaf, amaethu eu heneidiau eu hunain. Yn awr, mae y fantol, meddyliem, wedi troi y ffordd arall. Ac os oedd yr Arglwydd yn eu galw hwy gynt o'n cuddfeydd dirgel at eu dyledswyddau cyhoeddus, hwyrach ei fod yn ein galw ninnau yn awr o'n cylchoedd cyhoeddus i edrych yn fwy gartref. Ei orchymyn mewn rhan, ysgatfydd, i'r eglwys yn ein dyddïau ni ydyw—'Dos i'th ystafell; cau dy ddyrean arnat, a gweddïa ar dy Dad yr hwn sydd yn y dirgel.' Heblaw edrych ar y byd fel maes dy lafur, dos i'th dŷ ac at yr eiddot: edrych am ddarpar moddion gwybodaeth i'th blant a'th gymydogion: cofia fod yr eglwys, y weinidogaeth, a'r oes sydd yn codi, yn teilyngu dy sylw; a gwylia rhag wrth gadw gwinllanoedd eraill y byddi yn cwyno eto pan yn rhy ddiweddar, 'Fy ngwinllan fy hun ni's cedwais.'"

Y Bedwaredd Bennod a drinia Ddifrifoldeb "mewn Ymegniadau Personol ac Ymdrechïadau Uniongyrchol am Iachawdwriaeth Eneidiau." A'r Bummed am Ddifrifwch "mewn Crefydd Deuluaid." Ond nis gallwn ond enwi y materion pwysig hyn. Pwnc y Chweched Bennod yw, "Diwyd-

rywydd Cristionogion fel Aelodau Eglwysig." Yn mysg yr amrywiol ddyledswyddau eglwysig yr annogir iddynt, yr oedd yn dda genym weled yr eglwysi yn cael eu galw i sefydlu a chefnogi ysgolion dyddiol.

"Y mae y cri am 'ADDYSG' yn adseinio dros ein gwlad; a chri ardderchog yw hefyd. Y mae y llef i'w chlywed yn y cyfrin-gynghorfa a'r senedd, yn y pulpud ac ar yr ar-eithfwrdd, yn y ddinas boblog, ac yn y pentref gwladaidd tawel. Y mae y wasg trwy bob dull a modd yn cadw y floedd i'fyny, ac yn llenwi y wlad âg adain y gair nerthol hwnw 'ADDYSG!' Y rhai olaf o bawb a ddylai Cristionogion fod i adael i'r llef hon ddystewi; hwynt-hwy sydd i fod yn flaenaf i dywallt coleuni a bywyd i'r lliaws dirfawr o'u cyd-ddynion tywyll ac anwybodus, a phrofi yn amlwg fod eu crefydd hwy yn casáu y tywyllwch. Rhaid i bob eglwys gael ei hygol ddyddiol—ac ystyrier hi ymbell ar ol ei hoese, ac yn ddiffygiol iawn yn ei hofferynau i ddiwygio ac addysgu, os na bydd dosbarth o drigolion y fan dan addysg ganddi, nid yn unig mewn meosau, ond mewn gwybodaeth gyffredinol. Os bydd un gynnulleidfa yn esgeuluso hyn, edrycher arni gyda syndod a gwarthruddiad, fel un nad yw yn deall arwyddion yr amserau nac yn clywed llais Duw a'i gwlad yn galw arni i ddiwreiddio y troseddau a'r melldithion sy'n hlaguro oddiwrth anwybodaeth a llygredd, trwy rinweddau a bendithion addysg dda a gwerthfawr. Yn y cydymgais mawreddig sydd wedi cynhyrfu yr holl enwadau crefyddol am addysgu y bobl, ystyried pob eglwys ei bod yn fyr iawn o'r difrifolrwydd a weddai fod ganddi, os na bydd iddi ran a chyfran yn y gorchwyl anrhydeddus hwn! Rhaid i'r bobl gael eu dysgu!—hwy a ddylent gael eu dysgu!—a chânt eu dysgu hefyd!—a'r unig ymryson yn ein plith ni fyddo, pwy a wna y gwaith hwn oreu a mwyaf effeithiol."

Yn y "Rhagdraethawd," y mae y pwnc o addysgiant y genedl yn cael ei wasgu yn y modd dwysaf ar grefyddwyr Cymru. Mae yn ddrwg genym nas gallwn gyfleu i'n darllenwyr holl sylwadau Mr. Rees ar y testun arbenig hwn. Dyma ran o honnynt:—

"Mae amgylchiadau yn debyg o'n gorfodogi i ymafyd yn ein gwaith, neu adael y maes i eraill. Yr ydym yn byw mewn amseroedd difrifol: fe ellid meddwl y byddai yn anhosibl i un eglwys fyw ynddynt yn hir, ond yr eglwys o ddifrifol gyda'i dyledswyddau. Mae dynion meddylgar o bob dosbarth yn troi eu sylw yn fwy at ansawdd y werin, ac y mae yr alwad am ysgolion iddynt yn myned yn uwch o hyd. Dysgeidiaeth ydyw y bach y mynai pob plaid ei osod yn nhrwyn y lesiathan didoriad yma, er cyhaeddyd eu hamcanion trwyddo, a'i gymeryd yn was tragwyddol iddynt eu hunain. Nid oes fawr o ddsad nad yw y dynion sydd yn edrych ar wybodaeth gyffredinol fel yr unig feddyginiaeth i archolllion cymdeithas yn gamsyniol; mae eu tyb am dani yn llawer rhy uchel. Ofer er hyny ydyw gwadu ei buddioldeb. Mae yn rhaid i'r gwaith gael ei wneyd; a'r ffordd debycaf i wybodaeth gyffredinol a gwybodaeth grefyddol gael eu cadw bob un yn eu lle priodol, a fyddai i grefyddwyr ymafyd yn egniol yn y gorchwyl. O! na byddai yn bosibl i ddynion da, Eglwyswyr ac Ymneilldŵyr, yn lle ymdaeru pwy a gaiff ei wneyd, tra y mae pawb ar yr un pryd yn ei esgeuluso, i ymuno â'u gilydd i'w gyflawni!

Mae yr eglwys yn Lloegr, wrth bob arwydd, yn dechreu ei brwydr gyda choelgrefydd a philosophi anghristaidd. Yno y mae dynion, cyfoethog o bob gwybodaeth ond yr un uchaf, yn cario dylanwad mawr ar laweroedd. Ond y mae Cymru eto yn meddiant Cristionogion. A'r ffordd fwyaf effeithiol, gellid meddwl, i gadw y meddiant hwnw ganddi, ac i'w chadarnhau yn egwyddorion y Bibl, yn gyda y dyrchafu a gwella ei meosau, ydyw rhoddi gwell addysg i blant y genedl, a'i roddi hefyd trwy ddynion yr adnabod yr efengyl. Mae llawer dros flyneddau eu mebyd yn gwbl ddiymgeledd o ran eu meddyliau. Obligid, mae y bregeth uwchlaw eu galluoedd; ac y mae yr addysg deuluaidd ar lawr; ac am yr Ysgol Sabbothol, a bwrw ei bod hi yn effeithiol, a'r plant yn mhob man yn ddelliaid o honi, nid yw hi ddim yn cael ei chynnal ond am ddwy awr unwaith bob saith niwrnod. Pwy a ddywed fod hyny yn ddigon i blentyn? Mae yn ofynol i'w addysg ef fod yn llin ar lin, a gorhymyn ar orchymyn: ei athraw mewn mantais i adnabod ei dymherau, ac i ffurfio ei garacter trwy ei sefydlu mewn arferion da a gwrthweithio llygreddigaeth ei feddwl fel y byddo yn ymddangos; yr hyn, tybygem, sydd yn ddigon i brofi y dylai plentyn fod o dan ddysgyblaeth ar hyd yr wythnos. O eisieu hyn, mae llawer yn tyfu i'fyny yn dra anwybodus a diddeall, ac yn para felly er bod yn swm gweinidogaeth yr efengyl dros

eu hoës. Edrychwch arnynt yn y gynnulleidfa : tra mae y craffus a'i lygaid yn gloewi, a doethineb megys yn llwyrchu ei wyneb, y maent hwy â dylini yr estrys yn gorphwys ar eu hwynebpryd. Nid yw y dyn ddim wedi ei wneyd yn feddylgar erioed : mae ystyr gyffredin ymadroddion y Bibl o ganlyniad yn para yn ddeythr i'w feddwl ; ac am hyny maent yn treiglo heibio i'w glust o Sabbath y Sabbath yn gwbl ddefaith, fel y dwfr dros agsell yr aderyn. Mae yn wir fod argyhoeddiadau llymion yn codi ambell un o'r syfrdandod yma ; ac yn hyny, mae Ysbryd yr Arglwydd yn rhoddi i'r pechadur, nid yn unig yr hyn a allasai rhieni ac athrawon estyn iddo—sef y ddawn o fod yn feddylgar—ond mwy, ac annhraethol fwy nag a ddichon dyn gyfranu."

Gydwladwyr anwyl ! credwch yr hyn a ddywed Mr. James a Mr. Rees : RHAIID i ohwi ymröi " o ddifrif " at addysgu y genedl sy'n codi. Melldith y Cymry yn mhob cenedlaeth ydoedd myned i ymryson â'u gilydd, yn lle cydgario eu hachosion ág un ysgwydd. Ac felly y maent i raddau mawr gyda phwnc yr ysgolion dyddiol. Pe *gwnaent* fwy, hwy a *daerent* lai. Ni phertllyn i ni yma ddywedyd dim am y priodoldeb na'r priodoldeb o dderbyn cynnorthwy y Llywodraeth at ein hysgolion ; mae ein cyfeillion wedi cael darllen " y ddwy ochr i'r ddalen " mewn rhifynau blaenorol, ac y maent, yn ddiôs, yn alluog i farnu drostynt eu hunain. Ond y mae yn rhaid i ni gael dywedyd fod y rhai sydd yn siarad ac yn ysgrifenu yn erbyn cymhorth y Llywodraeth, yn rhwym o rodli pob geiuen a feddant ar waith i sefydlu " ffordd dra-rhagorol " i gynnal ysgolion dyddiol, neu ynte o syrthio yn gyflawn i warth annileadwy. Yr oedd yn berffaith ddiffas genym ddarllen hanes Cymanfaoedd, lle yr ydoedd hyn a hyn o Weinidogion yn penderfynu mai niweidrwydd yw derbyn dim oddiwrth y *Government Grant* at Addysg, ac yn gorphwys ar eu hanathema hwn, heb wneyd un penderfyniad tuag at hwyliuso Addysg. Er mor drystfawr oedd clindarddach tanwydd eu zel, yr oedd yn darfod cyn berwi dim ar grochan eu cymwynasgarwch. Dadleuwn, ac na weithredwn am ychydig amser eto, ac ni a gollwn yr adeg, fel Ymneilldŵyr, am byth.

Mae y ddyledswydd o gynnal gweinidogaeth yr efengyl, hefyd, yn cael ei gwasgu at gydwybod yr eglwys, gan Mr. James, mewn modd tra phwysig a chymhwysiadol. Os oedd y wers ganlynol yn anghenrheidiol i grefyddwyr Lloegr, y mae yn berthynol, yn wir, i aelodau eglwysig Cymru :—

" Nid oes ond ychydig o bethau ag y mae ysbryd haelionus yr oes hon yn gwybod ac yn gofalu llai am danynt, na chynnalïaeth gysurus a chyffaddas y weinidogaeth gartref ; ac o ganlyniad, nid oes ond ychydig o rai mewn swyddau yn cael cynnalïaeth mor wael a'r gwyr hyny, ar y rhai, yn llaw Duw, y dibyna holl achos efengyleiddio y byd.

Y mae ysgrifenyddion cymdeithasau, cenadon at y paganiaid, ac ysgolfeistriaid, yn cael gwell tâl, a darpariadau helaethach yn cael eu gwneyd er eu cysur, na phregethwyr efengyl ogoneddus y bendigedig Dduw. Y pregethau a draddodir yw y pethau rhataf o bob peth rhad yr oes radlawn hon. Eto daeth bendithion annhraethadwy i ran lliaws mawr trwy y pregethau hyn : mewn llawer amgylchiad, bu *un* o honynt yn aml yn foddion i ddychwelyd rhai at Dduw, a'u cyfoethogi ág iachawdwrïaeth dragwyddol ; danynt y cafodd llawer ymadael â beichiau o ofalon ag oedd yn eu llethu i'r ddaear ; eraill a achubwyd o afael temtasiynau a fuasant yn eu dinystrïo yn y byd hwn a'r hwn a ddaw ; a lliaws mawr a waredwyd rhag ofn marwolaeth, ac a nerthwyd i fyned i'w ffordd dan gann, i.e, hyd yn nod trwy'r dyffryn tywyll ei hunan. Do, fe wnaed hyn oll yn fynych trwy un bregeth ! Beth gan hyny a ddywedwn am *holl* bregethau blwyddyn neu oes ? Meddyliwch am hyn, a dywedwch a ydyw deg swllt neu bunt yn y flwyddyn yn ddigon o dâl i ddyn sydd yn difa ei nerth a'i oes trwy fyfyrïo a llafurio er gallu cyfranu y fath fendithion a'r rhai hyn ? Ai nid y nesaf peth i wyrth yw bod dyn yn nerthol, yn fywiog, ac o ddifrif yn ei weinidogaeth, a'i feddwl ar yr un pryd wedi ei lethu i'r llawr dan ofal am fara i'w denlu, gan ar yr un pryd ddarpar pethau gonest yn ngolwg pob dyn ? Grïstïonogion ! y mae arnoch eisieu i'ch gweinidog *reddeg* yn fyrrd y gorchymynion a roddes Duw iddynt ; am hyny, trwy eich haelioni, tynewch oddiaro y baich nas gall efe prin *gerdded* na *sefyll* dano ! Yr ydych yn cwyno fod

ei bregethau yn weinion a gwael; ai nid eich bai chwi ydyw ei gadw mor wael yn ei giat ddillad a'i gwpwrdd, fel ag y bu gorfod iddo dreulio yr amser a dreuliasai yn ei fyfyrgeill i ymdrechgu cael bara i'w rai bach, yr hwn a ddylasech chwi ei estyn iddo? Os mynwn gael eglwysi o ddifrif, mi a wn yn dda ddigon fod yn rhaid i ni gael gweinidogion o ddifrif; ond hefyd, os rhaid i ni gael gweinidogion diwyd a difrifol, rhaid i ni gael eglwysi haellionus. Yr hyn sydd eisieu, yw cael darpariadau gogyfer a'n gweinidogion, heb fod mor helaeth ag i fod yn demtasiwn i ddiogi moethus, ac eto yn ddigon i'w codi uwchlaw pryderwch."

Ni thycia ddim i'n heglwysi na'n diaconiaid gau eu llygaid rhag gweled eu dyledswydd yn y mater hwn. Nid peth wedi ei adael at eu hewyllys hwy ydyw, ond y mae mor wirioneddol yn ordeiniad oddiwrth Iesu Grist ag ydyw bedydd, neu swper yr Arglwydd. Ei orchymyn ef ydyw, ar i Gristionogion gyfranau pob peth sydd anghenrheidiol er cynnalieath a chysur eu haddysgwyr crefyddol. "Cyfraned yr hwn a ddysgwyd yn y gair, â'r hwn sydd yn ei ddygu yn mhob peth da." Ac onid yw ansawdd bresennol pethau, o ran byd a chrefydd, yn Nghymru, yn dywedyd yn uwch-uwch yn ein clustiau, mai ein rhwymedigaeth flaenaf gyda golwg ar ein casgliadau a'n cyfraniadau yw gofalu am y weinidogaeth gartrefol? Ofer i ni ddysgwyl cael gweinidogaeth deilwng i'r oes, os na roddwn gynnalieath deilwng i'r weinidogaeth.

Materion y Pennodau eraill ydynt, "Y Pethau sydd yn tueddu i nycho Difrifwch mewn Crefydd — Cymhelliadau i Ddifrifwch — Esiamplau o Ddifrifwch—Y Moddion sydd i'w defnyddio er cyrhaedd gradd uwch o Ddifrifwch—Diwedd glo, yn cyfeirio at Ansawdd yr Eglwys yn y Mil Blyneddau." Mae ein terfynau yn gwarafun i ni fyned ymhellach, ac am hyny rhaid i ni roddi i fyng yn swta heb ddywedyd dim ar faterion y buasai yn ddymunol genym ymhelaethu arnynt. A gawn ni gyfeirio sylw neillduol ein darlennyddion at nodiadau Mr. Rees ar iawn drefniad yr Ysgol Sabbothol, ar ddarpar dynion i'r weinidogaeth, ar gyfrifoldeb aelodau cyfoethog, ac ar y bai o ymbriodi â'r digred? Unwaith eto, dywedwn—Darllenwch yr holl lyfr drwyddo; ystyriwch yr hyn y mae yn ei ddywedyd; a'r Arglwydd a roddo i chwi ddeall da i weled eich dyledswyddau, a chalon awchus i'w gwneuthur.

NODIADAU AR LYFRAU.

EISTEDDFOD ABERFFRAW.—YR AWDLAU AR Y GREADIGAETH. [Ni ddaeth yr un o'r rhai hyn eto i'n llaw, oddigerth Awdl Mr. Ambrose. Ond y mae Mr. Ebenezer Thomas, "Y Prif Feirniad," wedi bod mor hynaws a chaniatäu i ni gyhoeddi ei feirniadaeth ef ar yr holl Awdlau: ac nid ychydig yw ein llawenydd fod genym y fath anrheg i'w chyflwyno i'n darllenwyr.—GOL.]

Beirniadaeth Ebenezer Thomas (Eben Fardd) ar y Cyfansoddiadau a anfonwyd i Eisteddfod Aberffraw. 1849.

TESTUN Y GADER, "Y GREADIGAETH."

DOSBARTHWYD y cyfansoddiadau cydymgeisiol yn ol eu teilyngdod beirniadol; y rhifnodau yn mhob dosbarth ellir eu hystyried i ryw radd fechan fel dangosyddion o deilyngdod eymhariaethol yr amrywiol gyfansoddiadau.

- Dosbarth I.—1. "Addolwr." 2. "Gwalchmai ab Meilyr." 3. "Nicander."
 ,, II.—1. "Creadur." 2. "Archadeiladydd." 3. "Ab anian a'i Duw."
 4. "Un ar ei daith yn nhir y de."

Dosbarth III.—1. "Llawdden." 2. "Credadyn." 3. "Thanasius."

IV.—"Creadur bach."

Annosbarthadwy, fel barddoniaeth weddol:—"Shabot."

1. "Shabot."—Nodwyd yn "rhy ddiweddar." Y gwir enw heb ei gelu. Llawn o dŵr mesur, ac ar y cyfan yn gyfansoddiad mŵr israddol ag i fod yn annheilwng o unrhyw sylw beirniadol. Cynnwysa 102 o linellau.

Dosbarth IV.—A gynnwysa un ymgeisydd—"Creadur bach." Ymestyna y caniad hwn i tua 210 o linellau. Y mae o nodweddïad isel, dŷsbryd; y meddwl yn fâs, a'r ardfrefniad yn amherffraith.

Dosbarth III.—1. "Llawdden." Mae prydyddiaeth dda yn y caniad hwn. Cynnelir i fyny gynghanedd pur dda; yr ymadroddion ydynt dlyision a bywiog. Gwneir dosraniad trefnusol o'r Caniad i saith ddosbarth, yn cyfateb agos i'r saith niwrnod cyntaf. Geiriau llanw a ymlusgant i mewn weithiau, megys,

"Ym mola mir, rŵydd cwmwl mawreddog." &c.

Dygwydda hefyd beth gramadegaeth anghywir, megys "Hwy graffai'n fanwl," &c. "Hwythau ddwyreai." Cyfynga ei hun yn ormodol at hanes noeth y greadigaeth, heb ei gwisgo â bywyd a thynnerwch cig a gwaed barddonol, megys.

2. "Credadyn."—Rhagflaenir y caniad hwn â'r hyn a eilw yr awdur, "Dangoseg," faith a dysgedig, yn arddangos llawer o gydnabyddiaeth â natur, ac â naturiaethwyr, yn enwedig â mwngloddiau. Mae yn dechreu gyda'r tywyllwch tryblythiol—sylwa ar oleuni fel cyntafanedig y greadigaeth—neidia i'r pedwerydd dydd, pan osodwyd i fyny "oleuadau rhagluniaeth"—yna cyfeiria at Adda ac Efa yn eu paradwys ddodrefnedig, ac ymwrendy ar gydgan ser y boreu; yna â ymlaen mewn dull ymresymiadol, gan ddangos cryn lawer o annibyniaeth meddwl—

"Heb chwim, oes dim mewn damwain?
Nac oes, medd rhai;—w'ych o'r rhai'n."

Mae y caniad yn hytrach yn rhy fyr (tua 280 o linellau) i wneyd cyfiawnder â'r amrywiol bethau y cyfeirir atynt yn y "ddangoseg;" nid yw ond ychydig o helaethiad ar yr olaf, anghyfartal yn ei ranau. Mae nodiad llafurfawr wedi ei rwngosod yn nghanol y caniad, ar "Asgwrn clun cawr" cloddianol. Tra yn chwilio llyfr natur am ei bodau bywiol, mae yn ymdroi enyd gyda meilionos (*animalcule*)—yn cyfarch rhai o honynt yn ddigrifol. Greddfau *gŵr a gwraig* y magiod sydd ddesgrifiad ysmala. Wedi cyfeirio at y metteloedd gwerthfawr, aur, arian, haiarn, &c., mae yn dyfod at agerdd. Deil allan nad yw hwn yn beth newydd, oblegid yr oedd daeargrynffâu a llosgfalau bob amser yn cael eu hachlysuero ganddo.

"Hen Etna a Hecla oedd,
A llawer un alluoedd,
Yn dangos agerdd dynged,
Cyn i Watt gwennu i wêd."

Noda yr awdur anrwyf feiau yn ei waith ei hun; ond ymddengys yn obeithiol fod diwygiadau diweddar yn cyfreithloni rhai, a chyndyn betrusa ynghylch gwir feiarwydd y lleill.

"Ac yn afonydd heigiau gynnifer,"

sydd anghraifft o rai o'i amryfuseddau cynghaneddol. Ei ddull sydd ansefydlog a mympwyol.

3. "Thanasius."—Cyfansoddiad gweddol, o tua 368 o linellau. Tua'r drydydd ran o'r hwn nid yw sawr amgen nag ailadroddiad o hanes ysgrythyrol y greadigaeth. Y drydedd ran arall, neu o gylch hyny, a drina am greadigaeth Adda ac Efa—eu cyflêad yn Mharadwys—enwi yr anifeiliaid, a'r Sabboth. Mae y gweddill o'r caniad yn fwy perthynasol i'r testun. Awgryma nodyn ymyl-dalenol o eiddo yr awdur, ynghyd âg ansawdd tufewinol y darn ei hunan, iddo gael ei gyfansoddi ar frys. Mae cynghaneddion cyffredin a sathredig yn rhy llosg ynddo, megys,

"Pob peth yn ddifêth dda."
"————— blodau blýdd."

"Band ethawl bendithion."
 "Afalau — felus."
 "Llwyni — llannerch."
 "Harddwch — urddas."

Prin y gwahaniaetha—"Wele Addaf gyntaf gŵr," oddiwrth linell Dewi Wyn, sef, "Dacw Addaf gyntaf gŵr." Yr anghreiffiau uchod, ac efallai rhai eraill o gyffelyb natur, ellir eu canfod o fewn cylch 15 linell olynol, a gwasanaethant fel esiampl a gymerwyd ar antur o ganol y pentwr.

Dosbarth II.—Yn y dosbarth hwn cyfarfyddwn â thalentau o radd uchel iawn, trysorfa ddirfawr o wybodaeth wyddorol a chyffredinol, grym meddyliol mawr, a chasgliad gwerthfawr o hysbysrwydd difyrus a defnyddiol. Mae yn cynnwys prydyddiaeth dlôs, yr hon, gan wasgaru, yn awr a phryd arall, wreichion tanbaidd o dân awenyddol, sydd yn bywioli yr holl ddosbarth â dysgleirdeb prydfwrth athrylith.

1. "*Creadur*."—Awdl o'r hyd anghyffredin o agos un cant ar bymtheg o linellau, gyda lliaws o nodiadau, yn cynnwys yr hysbysrwydd gwerthfawrocaf ar yr amrywiol destunau y cyffyrddir â hwynt yn y cyfansoddiad hirfaith. Byddai nodi allan holl ragoriaethau darn môr hir yn gofyn mwy o le ac amser nag a ellir yma ganiatáu at hyny. Cymerir sylw neillduol o'r pum gair creadigol—"Bydded," "Casgler," "Egined," "Heigied," "Dyged." Mae rhai linellau tlysiion i'r goleuni, ar ddiwedd y dydd cyntaf. Desgrifir yn dra phrydfwrth yr olygfa baradwysaidd, ynghyd â dedwyddwch ein rhieni cyntaf, &c. &c. Ond heb dynu dim oddiwrth ei theilyngdod cyffredinol, nid yw ond teg dywedyd, nas gellir ei rhestru, gyda golwg ar farddoniaeth bur, ond yn unig fel cyfansoddiad ailraddol. Mae yn llawn o gynghaneddion sathredig, megys,

"Dorau y gorddyfnderoedd"
 "Gwir felus a gorfoledd."
 "Hurdo ——— harddwych"
 "Adwyth anhydyn ———"
 "——chloddiaw — choluddion"
 "Dolydd ——— deiliog"
 "Ollwng ——— allan"
 "——— blodau blŷdd," &c. &c.

Cynnwysa yr awdl gryn lawer o ansoddeiriau amhennodol, yn ymddangos fel wedi eu bathu yn unig i hwyluso ffurfiad y cynghaneddion; megys, "orodwmp," "hygain," "lwysgad," "dwlwedd," "dulraith," "gulwys," "dufrad," &c. Dygwyrdd ynddi hefyd rai cynghaneddion beius, megys,

"Eglur hygain ddisgleirgyloch"
 "——— dyrchu"
 "Drwy drochion ———"
 "Edrychai y sarph dorchog," &c.

Ymdrôa yr awdur yn ormodol gyda manylion bychain, ac y mae ei amrywiol restrau o lysiau, milod, ser, a chyfseriadau, yn gwneyd i fyny yn hytrach ryw bentwr anghyfaith ac anfarddonol o enwau dyrys. Ymddangosai fod dwyn i mewn i'r awdl, y cwmp, y melldithiad, dydd y farn, a dyddymiad pob peth, yn amherthynasol i'r testun.

2. "*Archadeiladydd*."—Mae yr awdl hon eto yn ymestyn i tua 1007 o linellau, ynghyd â 52 o linellau yn ychwanegol, yn gwneyd i fyny Emyr Adda ac Efa yn Mharadwys. Y tuallan iddi sydd wedi ei wychu â chynlluniau destlus, ac â gaddurn-lythyrenau yn gymysg o amryw liwiau dillynaidd, y rhai a arddangosant ysgrifddawn a chywreinerwydd penigamp yr ysgrifenydd: y cyfan wedi ei rwymo yn fawreddus mewn cás morocco gwych, ac aur lythyrenog. Ond gan nad ellir cymeryd y tlysi allanol hwn, sydd mor glodfawr i chwaeth celfyddgar yr awdur, i mewn i'r cydymgais am ragoriaeth barddonol, rhaid i ni edrych i mewn i deilyngdod y cyfansoddiad noeth. Mae gan y bardd newydd-deb yn ei gynllun.

Ar ddechreu creadwriaeth pob dydd, mae yn dwyn i mewn y geiriad ysgrythyrol o'r "Bydded" dwyfol, heb ei droi i brydyddiaeth, oddieithr yn yr anghraifft gyntaf, i ddangos y gallai wneyd felly; ac ar ddiwedd pob dydd dodir i mewn yn gyffelyb ranau deholedig o'r Ysgrythyr Lân, fel yn cael eu cydganu gan angelion, er clodfori yr amlygiadau beunyddiol o allu a mawrhydi creadigol. Nis gellir, fe allai, dyweyd dim yn erbyn y cynllun hwn gyda golwg ar yr ardrefniad uchod; hwyrach yr ystyria rhai ef yn wellâd. Mae yr awdl, ar lawer golwg, yn un dlos iawn, ac weithiau yn brydferth o farddonol—mae bywiogrwydd yr awen yn amlwg drwyddi oll; eto, prin y gall ddyfod ymlaen o'r dosbarth ailraddol o farddoniaeth, am y rhesymau canlynol a'r cyffelyb:—fel yr awdl flaenorol mae ynddi ormod o gynghaneddion sathredig neu *ail law*; megys, "Dolydd deiliawg," "Blodau blydd," "Arnynt—addurno," "Felus orfoledd," "—au, gwau gwynt," "Frodri hyfrydawl," "Geinion gogonedd," "Miloedd gymmlau," &c. Anurddir ei geiriadaeth yn fawr â llaws o hen eiriau an-nestlus, megys, "ardum," "beidiawg," "gwynaeth," "oglawg," "fad-ûch," "gwalaeth," "echur," "elaeth," &c.

Mae ynddi hefyd amryw feiau cynghaneddol: megys,

"O osglai 'n prysur gasglu"
 "A gwiwddwys y gweddiâi"
 "Yma gerails am ragorion"
 "Menyw deg mwyn yw dy dôn." &c.

Gellid ymhellach nodi amhriodoldeb ymddangosiadol mewn ymadroddion, megys,

"Aur a ffôd i'w oreu ffau"
 "Oddiar fochau y ddaear feichiawg"
 "Er lles genir"———. &c.

Braidd nad ellid edrych ar y ddwy linell ganlynol, a'u cyffelyb, fel yn cynnwys gormod o ryddid gydag enw Duw:—

[i Adda.]

"Yn gain gawr gyda gwên gu,
 Duw anwy! / gan dywynnu."

Hefyd y mae'r chwaeth yn ammhêus yn y llinellau dilynol,

"——— Ysbryd Glân
 Jehofah yn cwhwfan."

Mae rhyfeddu llygaid *duon* Adda a llygaid *gleision* Efa, a desgrifio Adda pan yn rhodio o amgylch, fel hyn,

"Rheda! a neidia! 'n nwydwyllt,
 Yn abl gawr mal *ebol gwyllt*."

yn tramgwyddo yn hytrach nag yn boddio chwaeth cywir, a phrin y mae yn cyfateb yn dda yn yr un awdl, i'r ddwy linell brydferth ganlynol i'r haul,

"Oes blaned mor ysblenydd
 Yn sawr Duw a Nêr y Dydd?"

Nodwedd cyffredinol y cyfansoddiad hwn yw anystwythdra ymadroddol, fel pe byddai mesur ac iaith yn croesi eu gilydd, heb gryn ymdrech i wneyd iddynt gytuno ynghyd. Heblaw hyny, yn mhen ychydig linellau uwchlaw 500, gadewir y testun yn gwbl, a chymhwysir y gweddill i gyd, yn cynnwys tua 450 o linellau, at Adda ac Efa yn Mharadwys.

3. "*Ab Anian a'i Duw*."—Awdl o tua 785 o linellau, yn cynnwys barddoniaeth dda, a chynghanedd ragorol. Mae yr ysgrifenydd, wedi cyfarch yr awen, yn dechreu ei awdl gydag adeilwaith anianyddol dyn—yr enaid dynol. Yn y fân, y mae yn cwmpo i mewn â darganfyddiadau daeardraith gyda golwg ar ddull-weddiad cyn-Addafal (neu cyn-Foesennol) y ddaear—milod cloddianol—llosg-falau, &c. Yna y mae yn troi at waith y chwe' diwrnod. Wedi hyny, cychwyna allan, yn nghymdeithas ei awen, i daith ardderchog o amgylch y glôb, gan ymweled yn olynol â phob gwlad dan haul, braidd; a chymeryd sylw o'u hamrywiol nodweddion anianyddol. Ar ol gorphen ei ymdaith ddaearol, mae yn dyrchafu ei olygon i'r nefoedd; ond fel un wedi blino i raddau, ac fel yn cael ei

ddyrysu gan amgylchedd anfesuroi yr eangder diderfyn, y mae yn dirwyn i fyny ei awdl gyda thua 46 llinell i symio i fyny y dosbarth wybrenol o'i destun. Mae rhod yr awen yn yr awdl hon yn eithafol o hirgrwn; nid oes, fe allai, fawr lai na thua 700 o linellau yn cael eu treulio i dramwy o'r parth pellaf oddiwrth y testun, gyda chynffon oleu o rywbeth fel daearyddiaeth anianyddol, tra y mae yn prysuro trwy y parth agosaf ato gyda'r cyfnynder aruthrol o tua 46 llinell, ar y gyfran fwyaf mawreddog o'r holl destun. Buasai chwyldroad mwy cylochol yn ddymunol; ond ar yr un pryd, y mae yr awdl yn ddyddorol ac addysgiadol.

4. "*Un ar ei dath yn nhir y dē.*"—Mae yr awdl hon tua 550 o linellau o hyd, yn gyfansoddiad gweddol, gydag ond ychydig o ddiffygion mydryddol; y cynghaneddion ydynt at eu gilydd wedi eu clymu yn dda, er y ceir amryw o rai lled sathredig yn wasgaredig trwy yr awdl: megys,

"Yn ei gwymb yn gwenu"

"Yn Arglwydd a phen eurglod"

"Oll tania mewn goylltineb." &c.

Mae ynddi nifer o eiriau cyfansawdd o ffurfiad gwael, fel geiriau llanw at gyfleusdra y gynghanedd, megys, "mawr-rad," "draglwys," "ga'lyn," "du-lwyd," "bywlwyd," "bywdardd," "húdd-hwyr," &c.

Mae gan yr ysgrifenydd rai meddylddrychau tlyson ynghylch y coed yn estyn ar led eu cangenau fel yn awyddus i gael eu cynnysgaethu â'r dawn o lais i foliannu eu Creawdwr, cyn iddynt gael eu poblogi âg adar peroriaethol; hefyd yr awyr yn hiraethu am gael gweinyddu at gynnorthwyo anadliad anifeilaidd, &c.

Y mae agos hanner yr awdl hon ar y tymmorau, &c., yr hyn sydd gyfartaledd rhy fawr yn ddiâu, pan ystyriom mai "*Y greadigaeth*" oedd ei brif a'i briodol destun; a chwaith nid yw y llanw barddonol yn rhedeg yn uchel ynddi.

Dosbarth I.—Mae y dosbarth hwn yn ddyddorol dros ben: yma gwelwn y fflnonnig *Gastalaidd* bur, a'i bwrlymiadau yn chwerrthin mewn cyflawn gyd-chwaraeuaeth difyrus, a'i gofer grisialaidd yn cyfranu bywyd a grym i'r holl ddosbarth: yma mae gorllanw Barddas yn llifo mewn treiglodonau cryfion, ac yma mewn gwahanol raddau o gynnarwch, yr ydym yn cael blodau tecaf barddoniaeth yn eu prydfferthwch cynhenid. Eto, nis gellir llai na sylwi am y "*dangosiad allan*" o'r gwahanol ddarnau, y medrusrwydd a'r chwaeth a amlygir yn eu hamrywiol ardefniadau a'u geiriadaeth, ynghyd â nodweddion eraill o bwys hanfodol, eu bod yn gyfryw ag i arddangos gwahanol raddau o berffeithrwydd yn y cyfansoddiadau.

3. "*Nicander.*"—Awdl dlos, o tua 736 o linellau, yn eilfyddu yn ei chynllun a'i chyfansoddiad symledd ardderchog anian: mynai yr awen ymddangos, fel pe buasai mewn cynfodoliaeth angelaidd, wedi dilyn ysoggiadau dirgelaidd, a gweled damlygiadau olynol y grym creadigol.—Mae yr awdur yn myned ymlaen yn ofalus, yn nhrefn fanol ysgrhythrol y chwe diwrnod, yr un modd ag amryw o'i gydymgeiswyr. Yn niwedd y dydd cyntaf, y mae yn gwneyd cryn sylw o'r cyt-tarawiad rhwng bod y dydd hwnw yr un a'n *Dynosul* ni; ar yr ail ddydd, y mae yn rhoddi ei Amen gwresog gyda'r gair,

"Poed ffurfafen yn nennu."

Ac ar unwaith dyma,

"Awyr o gylch dŵr ac âr

Pais dew o gwmpas daear."

Mae dadymyddiad y mynyddoedd, bryniau, a gwastadeddau o'r dyfroedd yn cael ei ddesgrifio yn dra thlws, mewn dull naturiol a difyrus: wedi hyn, dygir i'n sylw yr haul a'r lleuad yn rheoleiddio y tymmorau, ac yn achosi ad-ddychwel-iadau y gwyliau arbenig, megys y *Pasc*, y *Sulgwyn*, a'r *Nadolig*; disgyna y cerbydwr heulog i ymoeri yn y llanw gorllewinol, pan y mae y lloer wylaidd gyda goegordd o sêr llachar yn gwneyd eu hymddangosiad, a'u lluniau yn cael eu had-lewyrchu o'r dyfroedd islaw. Cynnygia y bardd ymuno â hwynt yn eu cydgan o foliant, ac amlyga obaith Cristionogol am fod ei hunan ryw ddydd wedi ei wisgo â gogoniant mwy ysplynydd, ymhell, bell, uwchlan eu rhodau dysglær: yn fuan y mae yn darganfod y morfil fel penrhyn pell, ac yn awr y mae oodiad

haul yn rhoddi awen i'r ehedydd, a'r sêr yn ysbrydoli yr eos beroriaethol. Daw y chweched dydd i mewn gyda chwareuad telynau y nef, yntau brenin y goedwig, "di fath yn ysgwyd ei fwng," sydd yn awr yn dyfod i'r golwg: o'r diwedd, dyma deml anian wedi ei gorphen, a felfed Paradwys wedi ei danu hyd ei llawr a'i hallorau, ei lampau nefol wedi eu goleu; ond pa le y mae yr offeiriad? Yn yr amser priodol, dyma atebiad yn y "Gwnawn ddyd,"

"Eneidiol briddyn ydyw
O lain o dir ar lun Duw!"

Gellid nodi allan rai beiau yn yr awdl hon, o gyffelyb natur i'r rhai a nodwyd eisoes mewn eraill. Ceidw yr ysgrifenydd at ei destun yn fwy manwl na rhai o'r cydymgeiswyr eraill.

2. "*Gwalchmai ab Meilir*."—Mae yr awdl hon tua 958 o linellau o hyd, yn oruchel a mawreddus yn ei dychymygiad—yn wreiddiol a pherffaith, braidd, yn ei chydgadwyniad cynganeddol—mae ei rhaiadriol prydyddol yn angherddol ac arddymchwelog, fel yr eiddo Dewi Wyn. Syniadau uchel a arderchogant yr awdl; a chydabyddiaeth cywir ac eang â gwyddor ac athroniaeth sydd yn gosod urddas ar yr holl gyfansoddiad.—Yr achosion a ymddangosant fel yn milwrio yn erbyn iddi gymeryd y flaenoriaeth yn y dosbarth hwn, ydynt, ryw naws o dywyllni, yn mha un yr anhuddir hi weithiau, ynghyd â chwanegiad ati o bynciau amherthynasol i'r prif destun. O'r math olaf, gellid enwi "Dirywiaeth Dyn," a'r "Greadigaeth Newydd;" ac fel anghraifft o'r blaenaf, gallem ddyfynu y llinellau canlynol:—

"Ban anwyd mebyn ini,
Ar y llawr yn ngwely 'r lli,
Adwaenid morwyn dyner,
Aeth i'w swydd o blith y sêr;
Sef lloer y nen bob ennyd,
Yn ol greddf i siglo 'i gryd,
Hoffa 'r fraint a phery frf,

I wylid uwch ei wely;—
I'w grymus ddengar rwmyn,
Sai' y tarth fel gwregys tyn,
Mae 'i lanw gwyllt ymlaen ac ôl,
Yn rhediad angenrheidiol,
I rywiogaeth yr heigiau,
A'i buro 'i hun i barhau."

Er y gall y meddylddrych yn y llinellau uchod fod yn wir fawreddus a thlws; ac er y galluogir ni, efallai, trwy arddull awgrymol yr ymadroddion i wneyd allan yr ystyr, eto, y mae rhywbeth o ansawdd ddammegol yn nghyfansoddiad a ffurf y brydyddiaeth; mae rhyw dawch cyffelyb yn gorwedd ar ranau eraill o'r awdl.

1. "*Addohor*."—Mae hon yn awdl ysplenydd, yn cyrhaedd i tuag 818 o linellau. Dechreuwa gydag ymsyniad crefyddol o fawrhydi annibynol, a gogoniant hanfodol y Dugdod. Golygiad cynnwysfawr a chyffredinol o'r bydysawd creadigol, gyda Duw oll yn oll. Tuedda i fabwysiadu y ddamcaniaeth ynghylch pobl-giad yr amrywiol fydoedd wybrenol—mae yn troi ei sylw yn fwy neillduol i'r ddaear—yma difyrir ni â thlws odliad ar yr annhbrefn tryblithol, ynghyd â lletytibiaeth am y tebygolrwydd ei fod yn effaith dialedd dwyfol tywalltedig ar âl (*race*) wrthryfelgar flaenorol—gwahaniad goleuni a thywyllwch—enciliad drwg ysbrydion i'r olaf—yr awyrgylch, a chymhwysiad manwl ei ranau elfenol—rhuthr cyffredinol y dyfroedd i'r môr—sigl-ergydd ofnadwy yn gweithio i fyny y mynyddoedd, bryniau, &c.—cydymuniad ynysoedd i ffurfio cyfandiroedd—rhaiadrau yn hollti y creigiau yn enciliad brochwyllt a byrbwyll y dyfroedd—diaspad swfnfawr yr adsain (*echo*)—y gair "*egined*" yn cael ei roi allan—yr effaith uniongyrchol ar wyneb y ddaear, yn cael ei egluro trwy y disgrifiad mwyaf tryloew a phrydferrth—*brenin y dydd* yn ei gerbyd mawreddus yn olwyno y ffurfafen—yn canfod ei ddelw ysplenydd yn ddarluniedig ar fynwes y dyfnder—ymdreigliad araf y brif-dôn orllewinol i hebrwng yr archdeyrn wybrenol i'w ystafell wely forawl—yna y lloer-frenines yn gwneyd ei hymddangosiad pendefigawl, gyda gosgordd o sêr arianaid yn arwain y cydgor awyrol. Yr anifeiliaid—y morfil fel ynys fyw (mae barddoniaeth yn ngeiriau unigol yr ysgrifenydd hwn; i.e. mae yn gwilychu ei bin yn ngwlith *Helicon*, ac yn llinellu ei ymadroddion disgrifiadol yn ogleisiol o gymhwys):

"Ymloewai 'r paen amlwiog,
Ygydwai 'i aden mewn rhwysg godidog."

“ Y droedweog *ydd,”
 ———“ Y twrci chwyddog,”
 ———“ Y golomen symudliwiog,”
 ———“ Yr hwyaden fôr-droediog.”

Môr-adar a ddesgrifir yn fywiog a tharawiadol yn eu greddfau a'u harferion, yn gystal a'r adar eraill, megys yr eryr :

Yr estrys,

“ Balch oedd o'i blu chwyddog.”

Yr alarch,

“ Addolai 'i hardd ddelw ei hun.”

Y gwenoliaid,

“ Fel arf dur yn gwanu 'r gwynt.”

Yr adar perorol,

“ Ag eofndra ysgafndroed,
 Yn chwareu rhwng cangau 'r coed.”

Ac O!

———“ Mal dwsmel
 Yn llys yr awel oedd llais yr eos.”

Y llew yntau,

“ Ysgydwai 'i fwng cysgodol— a rhodiai 'n
 * Greadur brenhinol. * * *

A

“ Hithau 'r afr ar lethr hyfryd,
 Oedd lawen uwchben y byd ;
 Daliai ei thraed, dilithr oedd,
 Yn yfed gwynt y nefoedd.”

A'r fuchh,

“ Yn y gwair hir yn gorwedd,
 Yn mwynhau ei rhan mewn hedd,
 Cilgnoi heb gyffroi ei phryd,
 Yn dawel iawn a diwyd.”

Yna mae y bardd yn tlws ddychymygu holl natur fel telyn newydd ei thantio, heb un bod deallol i reoleiddio ysgogiadau hunan-chwareuol ei llinynau—i wneyd i fyny am y diffyg hwn, dygir ymlaen y DYN—ei ddelw ddwyfol yn y fan yn cyffroi casineb ysbrydion maleisus—gwbidaith angelaidd i weled y bod newydd—syndod sisialog yr ymwelwyr nefol. Maent yn ymdroi i gael golwg arno yn addoli—yn dychwelyd i'r nef, ac Eden a'i rhyfeddodau yn brif destun y cydymddyddan angelaidd.

Wedi rhoddi awgrym am y tymmorau, a rhai ymddangosiadau awyrol, ynghyd â sylw prysur, ond tlws, ar feini gwerthfawr a mwneion, terfynir yr awdl gyda mawl i'r Creawdwr hollalluog, yn null “ Ti Dduw a folwn.”

Mae tynerwch cynhes yr ymadroddion, tlynsni desgrifiadol yr iaith, llyfnder rhedegog y gynghanedd, ynghyd â'r olyniad destlus o ddelweddiad bywiog a ddangosir yn yr awdl hon, yn cyduno, yn fy marn ostyngedig, ond gonest i, i roddi yr hawl i'w hawdur athrylithgar yr anrhydedd arbenig o eistedd yn NGHADER FARDDONOL ABERFFRAW yn 1849.

Gallai fod ychydig o gynghaneddion yn yr awdl hon heb eu plethu yn y ffurf mwyaf rhwymgaeth a osodir allan mewn rhai o'r Rheolau Barddonol Cymreig ; ond nid oes dim gwastraff na llanw, dim nad yw yn ganiatadwy, yn enwedig pan ystyriom ragoriaeth uwchraddol y meddwl barddonol tlws sydd yn rhedeg trwy y cyfansoddiad.

Gwelir yn y prif gyfansoddiadau yn y dosbarth cyntaf rai o'r gwendidau a nodwyd yn yr awdlau israddol yn yr ail a'r trydydd dosbarth, ond y mae eu cyfartaledd yn llawer llai yn y blaenaf na'r olaf, tra y mae y rhagoriaethau barddonol yn amlhau cymaint yn y blaenaf, ag i wneyd i fyny, mewn mesur mwy neu lai, yn ol gwahanol deilyngdod y cyfansoddiadau, am unrhyw fangolliadau a ganiatâwyd i aros ynddynt.

Y TRAETHODYDD.

JONES O LANGAN, A'I AMSERAU.

Yr ydym wedi hen ryfeddu bellach na byddai ymhlith holl lyfrau Cymru, lyfr o'r enw "Hanes Bywyd y Parch. David Jones, o Langan." Diau y dylasai fod, ac y dylasai erbyn hyn fod wedi myned trwy ryw hanner dwsin o argraffiadau. Pa beth yw yr achos o'r diffyg hwn? Gallem briodoli y ffaith i'r achos hwn, yr achos arall, neu yr achos acw; ond ni byddai hyny amgen na gwastraffu amser, a llafur, a phapyr, ac inc i ddim dyben. Ond y mae dau beth yn ddigon amlwg; yn gyntaf, Fod Mr. Jones yn deilwng o gofiant wedi ei argraffu mewn llythyrenau aur ar ddalenau arian, ac wedi ei gyfansoddi gan yr athrylith penaf yn ngwlad Gwalia: ac yn ail, Nad oes gofiant iddo o un math i gael yn Gymraeg, ond rhyw bedair tudalen mewn cyhoeddiad misol, anghyhoeddus o'r fath anghyhoeddusaf. Na feddylied neb wrth yr hyn yr ydym yn ei ddywedyd, ein bod ni yn tybied y gallwn wneuthur perffaith gyfiawnder â choffadwriaeth Jones o Langan. Nid ydym yn dychymygu y gallwn ni ar hyn o bryd gyflenwi diffygion deugain mlynedd, a gosod ei goffadwriaeth ar yr un tir a phe buasai rhyw feddwl galluog wedi cymeryd at y gorchwyl yn mhen tair wythnos wedi ei gladdedigaeth. Nid oes genym fwy na mwy o hyder yn ein galluoedd; ond gwyddom pe buasem wedi bod yn byw am ddeng mlynedd ar y gwastadedd rhwng mynydd Eglwys Fair a chastell Penllin, ar amser y cyrchu mawr i Langan—pe buasem wedi clywed yr hen dad parchedig yn adsain yr hen eglwys rai ugeiniau o weithiau—pe buasem wedi cydfarchogaeth âg ef a Thomas Dafydd, Thomas Siôn o'r Splot, Thomas Jones o'r Picad, a William Thomas o'r Prys, o'r gymdeithasfa, a chlywed eu hymddyddanion ar y ffordd; y buasai genym well mantais. Ond "fel y mae," gwnawn ein goreu i roddi mwy o wybodaeth am hanes a chymeriad Mr. Jones o flaen ein darllenywyr, nag y mae y rhan fwyaf o honynt yn ei feddiannu eisoes, ac wrth hyny gyfodi colofn i'w goffadwriaeth ef mewn man ag y bydd yn ddiogel rhag syrthio i ddyddyndra yn yr oes hon na'r nesaf.

Yr oedd Mr. Jones yn un o'r dynion hyny ag y bydd dynolryw yn chwennych clywed am, a gwled, o bydd bosibl, le eu genedigiaeth. Mawr yw y twrf a wneir ynghylch genedigaeth rhai pobl; gellid meddwl wrth y llawenyachu, y gwledda, y swm, y saethu, a'r canu clych, fod sicrwydd diammheuol wedi ei gael o rywle fod y gŵr newydd eni i fod yn adgenedlydd i'r dynol deulu—yn burwr y byd o bob gofid a gwae.

Anfynych, er hyny, y mae y rhai y llawenythir cymaint ar eu genedigaeth yn troi allan yn destunau llawenydd mawr yn eu bywyd; pryd y mae ambell un arall a aned mewn cwbl ddystawrwydd, heb i fagnel na chloch na nemawr o ddynion, heblaw ei fam a'i hymddug, a'i dad yr hwn a'i cenedlodd, ac ychydig gyfeillion, gael gwybod ei fod yn y byd, wedi gwneyd y fath rymusder ar y ddaear nes y mae dynion yn gofyn, O ba le y daeth hwn? Pa le y ganed ef? Pa bryd? Dywedwch y mis, y dydd, yr awr, os yw bosibl? Gellid meddwl fod y byd yn hanner edifarhau na buasai wedi myned i'r bwthyn bach lle yr anadlodd gyntaf, i'w roesawu; ac felly fod arno awydd gwneyd iawn am y dystawrwydd swrth a gadwodd ar ddydd ei enedigaeth.

Ganwyd Mr. Jones mewn amaethdŷ o'r enw Aberceiliog, yn mhlwyf Llanllueni, sir Gaerfyrddin, ar wastadedd hyfryd glan yr afon Teifi, yn y flwyddyn 1735; ond pa fis, nis gwyddom. Ymddengys na fu iddo ond un brawd ac un chwaer. Tebygol yw fod ei rieni yn meddu rhywfaint o dda y byd presennol, oblegid cawn eu bod yn bwriadu cyflwyno un o'u meibion i wasanaeth yr "Eglwys." Ond nid ar Dafydd y disgynodd y dewisiad, ond ar ei frawd hŷn nag ef; hwnw oedd i fod yn offeiriad: yr oedd Dafydd i fod yn ffarmwr. Ond rhyw ddiwrnod, cymerodd damwain le, a dyrysodd y trefniant. Syrthiodd Dafydd i ganol pair o laeth berwedig; meddylwyd y byddai farw; o'r braidd y diangodd y gwan o safn marwolaeth; ond gwellhaodd yn raddol, er iddo fod am flyneddau yn analluog i symud braidd. Trosodd hyn y dewisiad eglwysyddol oddi-wrth y brawd hynaf ato ef: o hyny allan, Dafydd oedd i fod yn offeiriad, a'r llall yn ffarmwr, ac felly y bu. Arosodd creithiau y llosgiad ar ei gefn hyd ddydd ei farwolaeth. Arferai ddywedyd, "Y mae nodau achos fy ngalwedigaeth ar fy nghefn." Hyfryd yw gweled fod rhywfaint o wybodaeth grefyddol yn teulu hwn; ni a obeithiwn fod gwir grefydd ei hunan yno. Pan oedd Dafydd wedi hen ymboeni o herwydd yr anffawd o syrthio i'r pair, ar un diwrnod gwthiodd ei fam ef oddiwrthi mewn modd chwareugar, gan ddywedyd, "Yr wyf wedi blino dy fagu di, druan tlawd." Atebodd yntau yn dawel, "Pan yw fy nhad a'm mam yn fy ngwrthod, yr Arglydd a'm derbyn." Ymaffodd ei fam ynddo, gwasgodd ef at ei mynwes, a dywedodd, "Am y gair yna, mi a'th fagaf tra fyddot." Nid peth cyffredin iawn yn Nghymru er ys mwy na chan' mlynedd yn ol, oedd plentyn mor gyfarwydd â gair y bywyd. Rhaid fod y rhieni wedi cyfranu rhywfaint o addysg grefyddol i'w plant, onidê ni fuasai yn gwybod fod y fath adnod i'w chael. Rhaid fod ei feddwl yntau yn bur gyflym, cyn y gallai ei chymhwyso mor briodol. Onid yw ffyrdd rhagluniaeth yn ffyrdd rhyfeddol? Edrychwch ar yr eiddil gwan yn cael ei godi o'r pair berwedig! Gwrandewch ei lais cwynfanus oer! Braidd na roesawid angeu, er mai efe yw brenin braw, i ryddhau yr un bychan o'i boenau angerddol! Y mae agos yn bryd ymofyn am amwisg! Pwy sydd i wneyd yr arch? Pwy i dori y bedd? Pa ddiwrnod y bydd yr anghladd? Arosweh! y mae heb farw eto. Ond pwy allasai feddwl, wrth weled yr egwan yn chwareu rhwng dau fyd, y byddai iddo ef wneyd y fath gyffro trwy y gwledydd? Ai hwn sydd i wneyd anialweh Morganwg i fiodenau fel rhosyn? Ai dyma y gŵr y ca

"Llundain boblog, fâlch, derfysglyd,
Glywed llais ei bibell ef?"

Ac felly,

“Wybod fod yn Nghymru
Un yn llawn o ddoniau 'r nef!”

Iê, dyna y gŵr. O fy Nuw! y mae dy “ffyrdd yn y môr, a'th lwybrau yn y dyfroedd mawrion!”

Am ddyddiau mebyd ac ieuenetid Mr. Jones, nis gellir dywedyd dim. Y mae ei holl gyfoedion er ys hir amser wedi myned i orphwys i briddellau y dyffryn. Y mae enw y gŵr a gyfranodd elfenau cyntaf dysgeidiaeth iddo yn anadnabyddus. Y cwbl a allwn ei ddyweyd ar y pen hwn yw, ddarfod iddo dderbyn hyny o addysg athrofaol a gafodd yn athrofa Caerfyrddin, a chael ei urddo i guradaeth Llanafan fawr, sir Frycheiniog, oddeutu y flwyddyn 1758. Ymddengys iddo ef, fel llawer eraill, ymafyd yn ngwaith y weinidogaeth, heb deimlo erioed ei bwys annhraethadwy. Nid oedd wedi derbyn gweinidogaeth y cymmod, nac ychwaith wedi derbyn y cymmod ei hunan, pan aeth i ddechreu dywedyd wrth eraill, “Cymmoder chwi â Duw.” Dechreuodd ei weinidogaeth yn y cnaud; ond trugaredd annhraethol iddo ef, a thrugaredd i gannoedd heblaw, ydoedd, na chafodd barhau felly. Achubwyd ef. Bu yntau yn offeryn i achub llaweroedd.

Nis gwyddom, ni wŷr un dyn a welsom ni, pa hyd y bu Mr. Jones yn gwasanaethu yn Llanafan. Oddiyno symudodd i guradaeth yn Ngwynedd. Byr fu ei arosiad yno. Cawn ef yn mhlwyfi Trefethin a Caldicot, sir Fynwy, yn y flwyddyn 1760. Yma y cafodd ei ddwyn i ddwyn y gwirionedd, ac y darfu y gwirionedd ei ryddhau. Yma y dechreuodd bregethu, nid am damaid o fara, ond er mwyn achubiaeth eneidiau colledig, a gogoniant ei Arglwydd mawr. Y moddion a fendithiwyd er ei druedigaeth, oedd darllen rhyw lyfr o waith yr enwog Flavel; yr hwn yn ei fywyd a drodd lawer i gyflawnder, ac wedi marw oedd yn llefaru eto, ac a lefarai mor effeithiol, nes bod yn offerynol i wneyd gwas cyflog person annuwiol Trefethin yn fugail ffyddlawn ar ddefaid yr Iesu bendigedig. Ymddengys fod pob peth yn myned yn y blaen yn gysurus rhwng Mr. Jones a'i feistr, y person, hyd oni chymerodd y cyfnewidiad hwn le; ond wedi iddo gael gras, a dechreu byw a phregethu o ddiffrif, nid oedd ddaioni mwyach. Yr oedd bod yn annuwiol yn gymhwysder anhegborol i'r swydd oruchel o gurad Trefethin yn y dyddiau hyny. Pan gollodd Jones ei annuwioldeb, collodd heddwch ei beriglor, a gorfu iddo fyned ymaith. Aeth oddiyno i blwyf yn agos i Gaerodor, enw yr hwn nis gallasom ei gael; ond yr oedd yr un rhwystr ar ei ffordd ef yno. Yr oedd yn rhy dduwiol, yn rhy lafurus, yn rhy ddiffrifol; ni chafodd orphwys yn y fan hono. Cawn ef wedi hyny yn swydd Wilts, a thyma y man diweddaf y cawn ei hanes cyn iddo ymsefydlu yn y lle y daeth yn enwog ynddo—y lle a enwogwyd ganddo, a'r lle a fydd mewn cysylltiad â'i enw hyd foreu y farn, beth bynag am wed'yn—Llangan, neu fel y geilw gwŷr Morganwg ef, Llangana.

Wle ni wedi myned dros dair blynedd ar ddeg ar hugain o einioes Mr. Jones, dair gwaith yn fyrach, saith gwaith yn fasach, nag y dymunase. Carasem allu desgrifio dadblygiadau ei feddwl am y blyneddau hyn. Carasem gydchwareu âg ef ar y weirglodd yna o flaen Aberceiliog. Rhoddwn ein gair oi fod yn hogyn bach mor ddiniwed ag a ddarfu erioed dafu pêl. Carasem gydymdrochi âg ef yn afon Teifi ar ddiwrnod gwresog. Carasem

wylled ei ymdrechion a'i wersi cyntaf yn yr ysgol, a chlywed ei floedd fuddugoliaethus wedi concwerio y *multiplication table*. Carasem ei weled yn eistedd ar ei ystôl fechan, yn nghegin Aberceiliog, gan rwbio congl arffedog ei fam rhwng ei ddwyllaw bychain, a chan edrych yn ei llygaid, yn adrodd iddi fel yr oedd newydd wneyd yr un peth i gawr o air pumsillafog ag a wnaethai Dafydd gynt i Goliah. Hoff fuasai genym roddi braslun o rai o'i bregethau yn Trefethin. O! pe gallasem dafu ein hunain yn ol bedwar ugain a deg o flyneddau, a'i wrandaw am bedair gwaith cyn iddo gael gras, pan oedd yn pregethu "yn ddoniol ond nid yn dduwiol," a'i wrandaw drachefn bum waith wedi iddo gael gras, a thafu ein hunain i'r fan hon wedi hyny i roddi hanes y ddau bregethu o'th faen di, ddarllenydd mwyn! Ond y mae mur mawr anhosiablwydd rhyngom ni a hyn oll—ni fyddwn fymryn gwell o guro ein pen yn ei erbyn; ni syfl o'i le mwy na chraig Penllin. Caled yw gwingo yn erbyn y symbylau.

Ymddengys i Mr. Jones ddyfod yn gydnabyddus âg Iarles Huntingdon, pan ydoedd yn Wilts, neu fe allai cyn myned o hono yno. Yr oedd llygaid yr "etholedig arglwyddes" hon ar ffyddloniaid y tir; a phan welai hi â'r cadarn nerthol, hi a'i cymerai o dan ei noddod, ac a edrychai am faes cyfaddas i'w ymadferthoedd. Yr oedd yr efengyl wedi dwyn Iarles Huntingdon i gydnabyddiaeth â'r Arglwyddes Charlotte Edwin, perchenog etifeddiaethau helaeth yn Morganwg; a thrwy ddylanwad y gyntaf, cyflwynwyd bywioliaeth Llangan i Mr. Jones gan yr olaf. Wele ef bellach wedi ei ryddhau o tan orthwrwm personiaid, bid a fyddo. Ni buasai rhoddi tro dros gân Moses yn anhriodol iddo y pryd hyn.

Gadawer i ni cyn myned ymhellach gymeryd golwg ar agwedd y maes a syrthiodd fel hyn i'w ofal. Sefydlwyd ef yn Llangan yn y flwyddyn 1768. Gwel rhai cyfarwydd â hanesiaeth grefyddol Cymru fod y diwygiad Methodistaid wedi dechreu rhyw dair blynedd ar ddeg ar hugain cyn hyny. (Y mae yn deilwng o sylw mai yn y flwyddyn y ganed ef y torodd y diwygiad hwn allan.) Yr oedd Daniel Rowlands wedi dechreu tafu ffaglau tân, a Llangeitho wedi myned yn Jerusalem yn hir cyn hyn. Yr oedd deg o weinidogion yr Eglwys Sefydledig, ac yn eu plith Salmydd Cymru, wedi dyfod allan i gynnorthwyo y diwygiad bump ar hugain o flyneddau cyn hyn. Yr oedd cymdeithasfa gyffredinol gyntaf y Methodistiaid wedi ei chynnal yn Watford, llai nag ugain milltir o Llangan, cyn bod D. Jones wedi llwyr wellhau o'r ymdrochiad yn y pair laeth. Yr oedd tân y diwygiad wedi rhedeg trwy y rhan fwyaf o Ddeheudir Cymru cyn iddo ef gael ei alw yn offeiriad. Ond erbyn yr amser hwn, yr oedd llaweroedd wedi gadael eu cariad cyntaf; llawer wedi gwadu y ffydd a myned ar ol chwedlau. Yr oedd dynion wedi gwneyd pethau rhyfedd gan rym teimladau. Teimlai pawb agos yr un fath, ac felly cydument a chydweithient; ond llaesodd eu teimladau, ac aethant i edrych am gredoau. Dewisodd un y gredo hon am ei bod yn newydd, un arall y gredo acw am ei bod yn gywrain, ac aethant i gwympto i maes â'u gilydd. Torodd Antinomiaeth, Neominiaeth, Sandemaniaeth, a Sabeliaeth allan yma ac acw trwy yr holl gyfunde. Yr oedd y cyntaf a'r olaf o'r rhai hyn wedi ymddangos yn nghymydogiaeth Llangan, ac wedi peri blinder.

Yr oedd capel wedi ei adeiladu mewn pentref o'r enw Aberthyn, o fewn i filltir i'r Bontfaen, a phedair milltir i Llangan, yn y flwyddyn 1749;—pedair ar bymtheg o flyneddau cyn dyfodiad Mr. Jones i'r gymydogiaeth.

Adeiladwyd y capel hwn yn benaf gan y Methodistiaid; ond nid ganddynt hwy eu hunain. Cynnorthwyd hwy gan Annibynwyr, y rhai, er bod llawer o honynt yma a thraw ar hyd y wlad, nid oedd ganddynt un lle o addoliad eu hunain. Bu y Methodistiaid a'r Annibynwyr yn cydaddoli yn y capel hwn hyd y flwyddyn 1780, pryd y tynwyd ef i lawr ac yr adeiladwyd un arall yn ei le. Fel hyn y dywed yr hanes a ddanfonodd cyfaill atom: "Dechreuwyd tynu hen gapel Aberthyn i lawr, Ebrill y 3ydd, 1780; gosodwyd sylfaen y capel newydd ar ddydd Sadwrn, yr 8fed o'r un mis; ac agorwyd ef ar yr 20fed o Awst yn yr un flwyddyn." Ymddengys i'r ddwyblaidd fyned yn y blaen, gan gydaddoli yn y capel newydd hyd y flwyddyn 1796. Rhy brin y gellid galw eu hundeb yn "undeb efengylaidd;" clywsom un a arferai wrandaw yno yr amserau hyny, yn dywedyd fod yno gryn hwyliau yn fynych, ond nad oeddnt un amser yn myned i'r hwyl ar unwaith. Nis gallai pregethwr Methodistiaid ar ei eithaf gael yr un "Amen" o enau yr Independiaid; a phan y byddai y gweinidog Independaidd yn pregethu, yr oedd y Methodistiaid yn foneddigaidd dawel. Rhaid i ni gyfaddef fod hanes yr amserau hyny yr orchuddedig gan lawer o niwl; ac y mae cryn anhawsdra ar hyn o bryd i'w chwalu. Cyn dyfodiad Mr. Jones i Langan, teimlid anghyfleusdra o ddiffyg rhai i weinyddu yr ordinhadau o fedydd a Swper yr Arglwydd yn rheolaidd. Yr oedd bagad o offeiriaid wedi troi allan i gynnorthwyo y diwygiad, ond yr oedd y rhan fwyaf o honynt yn byw yn y pellafocdd; deuent weithiau ar daith trwy y wlad, ond nid mor fynych ag y dymnasai y cyfeillion gael y fraint o gymuno. Ymddengys nad oedd prinder neillduol am bregethwyr; ond cynghorwyr oeddnt druain, ac nid gweinidogion. Pryd hyn penderfynwyd neillduo pedwar o'r cynghorwyr yn ol y drefn Annibynol, i gynnorthwyo yr offeiriaid yn ngweinyddiad yr ordeiniadau. Neilldwyd Mr. David Williams o Lys-y-fronydd, yn Aberthyn, un arall yn y Groeswen, un arall yn Watford, ac un arall yn sir Fynwy. Pregethai y gweinidogion hyn yn nghapelau y Methodistiaid; ond *gweinidogion Independaidd* oeddnt er y cyfan. Parhaodd Mr. Williams i weinidogaethu yn Aberthyn hyd ei farwolaeth. Teithiodd amrywiol weithiau trwy y Gogledd a'r efengyl dragywyddol ganddo. Dyoddefodd erlid tost lawer gwaith. Dywedir ei fod gyda ffyddlondeb mawr wedi "dysgu ffordd Duw yn fanylach" i Mr. Jones, pan ddaeth efe gyntaf i Langan; ymdrechodd ymdrech deg, gorphenodd ei yrfa ar y 5ed o Fai, 1792, wedi pregethu deg a deugain o flyneddau. Y mae yn awr wedi cael coron cyfiawnder.

Yr oedd lefain drygionus yn gweithio yn Aberthyn yn hir cyn marwolaeth Mr. Williams. Aethai rhai o'r aelodau yn Antinomiaid penrhyddion, tra y dangosai mwy o honynt duedd at Sabeliaeth. Ond wedi ei farwolaeth ef, torodd yr ystorm allan. Daeth y Sabeliaid allan i gyhoeddi eu barnau, ac nid digon ganddynt hyny, ond ceisasant fyned a'r capel. Yr oedd un Mr. Jones o'r Twyn i bregethu yn Aberthyn ar foreu Sabboth, ond pan ddaeth efe a'r gynnulleidfa yno, cawsant y drws yn glbedig yn eu herbryn. Yr oedd yr agoriadau gan un o'r frawdoliaeth Sabelaidd, yn y Bontfaen. Anfonwyd i'w ceisio, ond gwrthododd yntau eu rhoddi. Erbyn hyn, nid oedd ond un o ddau beth i'w wneyd; naill ai pregethu yn yr awyr agored, neu fynu ffordd i mewn. Dewiswyd yr olaf. Cydunai William Thomas o'r Prysg, Mr. Pritchard o Dol-y-garn, a Morgan Dafydd

o Lantridddy, tri o ddyinion cyfrifol, a'r cyntaf yn flaenor, i dori y drws a sefyll y canlyniadau. Felly y drws a dorwyd, ac i mewn y rhuthrodd y gynulleidfa, gan waeddi, "Llwyddiant i'r gwir:" ac aeth Mr. Jones i'r pulpud i bregethu y gwir. Yr oedd ymhlith y blaid Sabeliaidd ŵr ieuano pur ddoniol, o'r enw Thomas William, adnabyddus wedi hynny fel awdur casgliad o gyfansoddiadau barddonawl, yr hwn a alwyd ganddo "Dyfoedd Bethesda." Nid bach fu yr helynt yn Aberthyn, pan dorwyd allan yn gyhoeddus un ar byrtheg ar hugain o Sabeliaid ar un boreu Sabboth. Gweinyddid y ddysgyblaeth gan un Mr. Davies o Langattwg, yr hwn y pryd hwnw oedd weinidog y lle. "Fe ddywedodd Jenkin Jeremiahdyna fe o fy mlaen," meddai y gweinidog, "nad oedd Iesu Crist yn Fab Duw cyn ei eni o Fair." "Yr wyf yn ei wadu yn dy wyneb," meddai Jenkin mewn lliid dychrynllyd. Ar hyn, aeth yn derfysg gwyllt drwy y lle. Dacw W. Gryffydd o'r Prysg yn codi ei sffon globen fawr ar y gallery ac yn gwaeddi, "Tarewch ymenydd y gigfran ddu." Y diwedd a fu, gorfu ar y Sabeliaid ymadael, ac adeiladasant gapel yn nes i'r môr: galwasant hwnw Bethesda; a bu y Thomas William uchod yn fugail arnynt am flyneddau lawer. Y mae yr hen dô wedi myned i ffordd yr holl ddaear erbyn hyn, ac y mae yn dda genym ychwanegu fod y gweinidog parchus, yr hwn sydd yn Bethesda yn awr, yn pregethu yr athrawiaeth sydd yn ol duwioldeb.

Wedi bwrw ymaith y Sabeliaid, yr oedd dwy elfen yn aros yn Aberthyn eto: y Fethodistaidd a'r Annibynol. Cydunent â'u gilydd i fwrw ymaith y blaid gyfeiliornus, ond methasant gyduno beth i wneyd nesaf. Yn mhen rhyw gymaint o amser, cauwyd y drws yn erbyn yr Annibynwyr. Bygythiasant ei dori, ond ni feiddiasant. Buont yn siarad am ymgyfreithio, ond nis gwnaethant. Ymadawsant yn dawel, ac adeiladasant gapel iddynt eu hunain mewn lle arall. Pa un a oedd Annibynwyr y Groeswen a Watford yn fwy glewion, neu Fethodistiaid y lleoedd hyn y fwy llwfr, neu hawl yr Annibynwyr i'r ddau le olaf hyn yn fwy cyfiawn nag i'r Aberthyn; nis gwyddom. Ond gwyddom y canlyniad. Cadwodd yr Annibynwyr y Groeswen a Watford, a chadwodd y Methodistiaid feddiant ar Aberthyn. Cymaint a hyn, ac y mae hyn yn ddigon, feddyllem, am felusderau a manteision cynulleidfaoedd cymysg. Yr oedd dynion llygredig eu meddwl, heb fod y gwirionedd ganddynt, wedi dechreu cyndyn ddadleu yn hir cyn dyfodiad Mr. Jones i'r wlad, er mai yn mhen bagad o flyneddau wedi hynny y torodd y rhyferthwy mawr at ba un y cyfeiriasom allan: ond cafodd efe fyw i weled y gwirionedd yn buddygoliaethu, a chyfeiliornwyr a dadleuwyr, naill ai wedi eu troi neu wedi eu dystewi. Ond i ddychwelyd.

Nid oedd crefydd ond isel a gwael, ac nid oedd y rhai a'i ceisient ac a'i caent ond tra anaml, cyn dyfodiad Mr. Jones. A phan byddo crefydd yn isel bydd pechod yn uchel. Yr oedd y wlad yn gorwedd mewn drygioni: Ffeiriau, gwylmabsantau, nosweithiau llawen, y bel droed, y bel law, a'r bando, oeddynt yn myned â holl ieuencyd y wlad tua'r tragwyddol was! Yr oedd ymladdfeydd dynion, ac ymladdfeydd ceiliogod, yn bethau beunyddiol y dyddiau hynny. Y mae y golygfeydd arswydol a gwaeddyd a welid bob amser, prydawn y pummed ar hugain o Awst, ar fynydd cyfagos i Langan, lle y cynnelid ffair flyneddol, yn maeddu dychymyg, ac yn gyru desgrifiad i gardota. O! hen feini mawrion mynydd Eglwysfair, pe

gallech ond dwyn tystiolaeth am y drygau y buoch yn ddigon agos atynt i'w gweled, y gweithredoedd ysgeler a gyflawnwyd rhwng eich agenau, pa sawl calon a grynai! pa sawl wyneb a gasglai barddu! Ond y mae eich Crëwr wedi gweled y cwbl. Ceir clywed pethau rhyfedd yn cael eu cyhoeddi pan ddaugduddio y ddaear ei gwaed, ac na chuddia mwy ei lladdedigion. Ond y mae y darlun eto heb ei berffeithio. Y mae ein darlennydd yn gweled diffyg ynddo. Y mae yn dechreu gofyn, Onid oedd yr eglwys yno o'i flaen ef? Onid oedd yno offeiriad? Onid oedd eglwysi yn y plwyfau cylchynol? Onid oedd offeiriad yn y rhai hyny? Wele, ein cyfaill, rhaid ateb dy ofyniadau er mor dew y maent yn disgyn. Yr oedd yr eglwys yno yn hir o'i flaen ef. Yr oedd yno offeiriad hefyd. Ond O! rhyfedd! Yr oedd hefyd offeiriad yn y plwyfi cylchynol; ond Och! "Deillion oeddynt y gwyllyddion hyn—cwn mudion oeddynt heb fedru cyfarth." Am offeiriad y plwyf nesaf i Langan y canodd Sianco Shon¹ yr euglyn a ganlyn, yr hwn a ddaedganwyd wrth yr ychain gannoedd o weithiau yn Morgannwg, dyma 'fe—

"Y 'ffeiriad ffol uffernol,
Siwd achub hwn ei bobol?
Sy'n methu cadw dydd o saith,
Heb ddilyn gwaith y diafol."

Fe allai mai y goreu o offeiriad y rhan hono o'r wlad yn yr amserau hyny oedd y Parch. J. Walters, person llandochan, yr hwn a breswyliai o fewn i bedair milltir i Langan. Ond yr oedd efe yn fwy enwog fel ieithydd nag fel efenglydd. Pregethai yn ffyddlawn yn eglwys ei blwyf, ond ymddengys fod ei weinidogaeth yn ddiffygiol o'r enaint efengylaidd hwnw sydd yn gwneuthur i fywy hanfod pregethu Crist. Crybwyllwyd mewn rhifyn blaenorol o'r "Traethodydd," sef yn hanes "William Howell," ddarfu llosgi llawer o lyfrau ac ysgrifau perthynol iddo ef, wedi marwol-aeth ei fab Henry. Y mae yn ein meddiant "Ddwy Bregeth," o eiddo Mr. Walters, a achubwyd rhag y dinystr y pryd hwnw gan un o'r llosgwyr eu hunain. Y testun yw *Ezec.* xviii. 31. "Y bregeth gyntaf yn cynnwys galwad ar bob pechadur i ddychwelyd at Dduw am faddeuant. A'r ail bregeth, trwy ysgrythyrau a thrwy resymau diymwad yn profi na dderyw i Dduw trwy un arfaeth neu ordinhad gynamserawl luniaethu dynion yn anochel i ddinystr a cholledigaeth tragwyddol." Ysgrifenydd y bregeth olaf o bwrpas i chwalu duwinyddiaeth Geneva fel chwalu mwlwg; ond er y bwgwth mawr, diangodd hono heb gael anaf yn y byd yn yr ysgarmes. Gwnaeth yr offeiriad parchus anferthlun o ddyn gwellt, ac iddo freichiau hirion mawrion, a choesau byrion bychain, a thrwyn bachog cam, gymaint a ehryman Gwyddel, a galwodd ef John Calvin. Eisteddodd wed'yn yn ei gader freichiau i watwar ei greadur ei hun. Ceisiai ddangos i'r eilun dilun, y fath beth afresymol ac anysgrhythrol ydoedd y fath anghyfartalwech aelodau. "Edrych ar dy drwyn," meddai, "ai dyna y fath drwyn oedd gan Adda, tybed? Rhag dy gywilydd!" Wedi myned y'n y blaen fel hyn nes blino, rhoes y tipyn gwellt ar dân, gan dybed ei fod wedi cloffi Calfiniaeth am byth. Ond gallwn sicrhau ein darllenwyr fod y "pum pwnc" yn cael eu dal yn eu purdeb, hyd y dydd heddyw, yn y fangre lle y preswyliai y pregethwr parchedig.

¹ Jenkin John.

Mor fawr y drugarodd a ddygodd ddyrn fel Mr. Jones i ardal o'r fath yna! Dyna fan, fel "tir Zabulon a thir Naphthali, wrth ffordd y môr, tuhwnt i'r Iorddonen, mor dywyll a Galilea y cenedloedd. Y bobl oedd yn eistedd mewn tywyllwch a welsant oleuni mawr, no i'r rhai a eisteddant yn mro a chysgod angeu y cyfododd goleuni." Clybuwyd rhyw swm dycithr yn eglwys Llangana. Swm yr efengyl dragywyddol ydoedd. O! yr hen adeilad! Pa bryd y clybu dy furiau moelion y fath beth o'r blent? Dechreuodd y bobl dyru at eu gilydd, gan ofyn, Pa both yw hyn? Dechreuodd y rhai y cyffyrddasai yr Arglwydd â'u calonau ymgasglu yno o holl gyrau y wlad. Buan yr aeth Llangan yn ail i Langeitho. Yr hen eglwys, fel y dywed un o farwnadwyr Mr. Jones,

"A drow'd yn dy cariad i'r brodyr o'r bron;
Caw'd llawer gwledd felus a hwylna yn hon."

Y mae yn anhawdd rhoddi i'n darllenwyr ddrychfeddwl cywir am flogrwydd y cynnulliadau yno, yn enwedig ar y Sabbothau misol, pan ddela i y brodyr at eu gilydd i wneyd cofiadwriaeth am anget ein Gwaredwr mawr. Clywsom un dyn yn dywedyd fod ei dad ac yntau wedi dyfod o bellder mawr yno ar un Sabboth pen mis, i ymholi am anifel oedd wedi myned ar goll, am fod "dynion idd eu gwledd yno o bob part o'r wlad." Dengys hyn ar unwaith mai y fan y gollid cyfarfod â mwyaf o bobl o bob part o'r wlad, yn yr amserau hynny, oedd Llangana.

Yn awr y mae genym orchwyl o'n blaen. A pha fodd i'w gynnwys?

"Na foed genym amgen nag awen yn awr,
A doed ysbrydoliaeth yn helaeth i lawr."

Tyred gyda ni, ddarllenydd hoff, ni a eisteddwn ynghyd ar ben y maen mawr, yna ar gopa cribog mynydd Eglwysfair. Y mae yn foreu Sabboth hyfryd! A weli di ar dy law aswy, rhyngot a'r deheu-ddwyrain, hen adeilad fawr eddog, braidd yn ganfyddadwy o herwydd y coed a'i hamgylchiant. Dyna gastell Penllin. Edrych eto ar dy law ddeheu, ryw bedair milltir i'r gorllewin, ti a weli dref fechan ar wastadedd pur hyfryd. Dyna Penybont-ar-Ogwr. Edrych yn awr rhag dy flaen. Yn union rhyngom a'r deheu, ar waelod y gwastad odditanom, ti a weli y pentref bychan annwyl, gwsgaredig yna; a braidd rhyngom âg ef, ond yn hytrach yn fwy i'r gorllewin, eglwys fechan ddigon gwael yr olwg, heb fod iddi yr un gloch ddy, ond rhywbeth tebyg i sinnai, a thwll yn hono, a chloch, yn awn, yn hon na chlywem hyd y fan hon, tincied ei heithaf. Dyna Llangana. Dyna y fan y bydd Mr. Jones yn pregethu ac yn cyfranu heddyw, a dyna lle bydd yn ei gyfarfod dyrfa fawr. Aros enyd; ti gei eu gwledd yn ymgasglu. Ust! dacw rai o'honynt yn dechreu dyfod. Edrych ar dy gyfer, ti a weli lonaid yr heol serth acw sydd yn disgyn o gopa y Filtir Aur tua Llangana llawer ar feirch, a mwy ar draed. Pobl y Wig, Llanfisa, Ty'r croes, a Threngolwyn ydynt, yn ymdywallt tua Llangan. Edrych eto rhyngom a chasell Penllin, dacw dyrfa yn ymarllwys oddiar y croesheolydd tua dyfyrn Llangan. Edrych eto ar dy ddeheulaw; y mae yr heol fain wastad yna o Dyle y rôd, heibio i Langrallo a Melin y mur hyd Dreoes, yn frith o ffrithion; ffordd yna y daw pobl Penybont, Trelalas, Pil, Llangynwyd, Margam, ac Aberafon. Y mae rhai o'honynt yn dyfod o Gastellnedd, ac o'r ffordd uwchlaw, ac hyd yn nod o Langyfelach, y Goppa, ac Abertawy. Ond bellach, gad i ni ddisgyn i'r gwastadedd—awn rhagom i Llangan.

rhyw, "gynghorwr" yn anereh y gynnulleidfia yn ysgubor y persondy am naw o'r gloeh. Ni bydd Mr. Jones yn yr eglwys dan hanner awr wedi deg, Daew wr teneu trwynllym, llygadgraff, yn sefyll ar yr ystôl. Y mae yr olwg arno yn dy argyhoeddi ar unwaith nad ydyw wedi bod yn yr athrofa, ac y mae ei ddull o ymadroddi yn dangos nad yw erioed wedi astudio na gramadeg na rheithiorea. Ond y mae rhyw nerth yn ei eiriau—y mae rhyw wreiddiokder yn ei ddrychfeddyhau—y mae rhyw swyn yn ei lais yn dangos ei fod yn rhywbeth tuhwnt i'r cyffredin. Dyna Edward Coslett, gôf wrth ei alwedigaeth, ond pregethwr wrth ei swydd, a'r pregethwr Methodistaidd gonau yn sir Fynwy, meddai efe ei hunan. Ei reswm dros ddywedyd hyn ydoedd, nad oedd yr un pregethwr Methodistaidd ar hyn o bryd yn sir Fynwy ond ei hunan. Gofynnodd Mr. Jones iddo, wedi ei brandaw yn pregethu mewn rhyw fan, pa le yr ydoedd wedi astudio y bregeth hono. "Lle na ddarfu i chwili astudio yr un erioed, syr," meddai yntau. "Ond pa le, Ned?" ychwanegai Mr. Jones. "Rhwyng y tân a'r einion," oedd yr ateb. Barnai rhai dynion mai dyna paham yr oedd pregethau E. Coslett mor wresog neu mor *danlyd*, fel y dywedent. Ond wedi'r cwbl, nid yw efe namyn "cyngtori tiocyn," Mr. Jones sydd i *bregethu* yn yr eglwys. Gan hyny, i'r eglwys â ni. Daew Mr. Jones yn esgyn y pulpud bychan. Edrychwn arno am fynyd. Nid yn fynych y ceir cyfle i weled dyn mor brydferth. Y mae yn rhy dâl i'w alw yn fychan; yn rhy fyr i'w alw yn dâl—llydai ei ysgwyddau, praff ei fraich, goleu ei wallt, llawn ei fochgernaw. Y mae ei aeliau bwaog, ei lygaid mawrion duon dysglar, ei drwyn mawr cam, a'i wesusau serchog, yn dangos eu bod yn preswlyio yn nghymydogoeth cyfoeth o synwyr cyffredin, a byd o natur dda. Ond wele, y *mae* yn dechreu darllen; "Pan ddychwelo yr annuwiol oddiwrth ei ddrychion," &c. Ymddengys fel pe byddai mewn brys i ddybenu. Llythra y geiriau, y gweddiau, ar llythiau ar ol eu gilydd dros ei wesusau fel y ceffnllif gwyllt. Cyn ein bod yn dysgwyl, dyna Amen y gwasanaeth gusoddedig. Yn awr am y weddi ddifyfyr, y canu, a'r bregeth. Y mae y cyntaf yn dangos cydnabyddiaeth y gweddiwr â'r hyn sydd o fewn y llen. Gallir bod yn sicr ei fod wedi bod yn y nef neithiwr, gan mor hawdd y mae yn myned yno heddyw. Y mae y canu fel swm dyfroedd lawer; "dyfroedd yn rhuthro dros greigiau Lodôr." Nid oes arno ryw drefn ardderchog; ond y mae yr ysbryd yn ardderchog, a'r hwyl yn hyfyd: a'r yr enaith y mae yn annesgrifiadwy. Rhoddem rywbeth am gael clywed canu o'r fath unwaith eto.

Ond dyna y canu yn dybenu, a'r bregeth yn dechreu. Y mae dystawrwydd fel eiddo y bedd yn teyrnasu trwy yr adeilad gorllawn. Y mae pob dyn fel pe byddai wedi anghosio fod un rhan yn perthyn i'w gyfansoddiad ond llygad a chlust, a chalon. Y mae y pregethwr yn dechreu fel pe byddai yn penderfynu rhoddi llawn waith i'r tri. Y mae meddyliau ei galon yn ymgydwallt yn ffrydlif gyson—mor gyflym, mor ddiraffferth, nes peri i ti dybied fod cartrefe ei feddwl yn nhafod ei enau. Y mae ei eiriau yn ddetholedig, ei lais yn soniarus; y bobl yn credu ei fod yn bregethwr heb ei ail. Y mae y pethau hyn yn fanteisiol i gynnrychu y teimlad a wele ac a glywi yn ymdanu trwy y dyrfa. Ond nid hyn yw y cwbl: nid yna mae cuddiad ei gryfder. Y mae bywyd yn mhob gair—y mae nerthoedd yn mhob brawddeg—y mae yn gwaeddi, ond y mae yr Ysbryd tragyddol wedi dywedyd wrtho eisoes pa beth i waeddi.—*Y mae y pregethwr*

yn credu fod pob gair a ddywed yn wirionedd tragywyddol. Y mae yn teimlo pwys annhraethol pob brawddeg a lithra dros ei wefus: eu pwys annhraethol iddo ef ei hunan—eu pwys annhraethol i bob enaid byw o'i flaen! Dyn newydd ei gipio o'r dwfr, newydd ei waredu rhag boddi, newydd gael ei osod yn y cweh—yn gwaeddi, Bâd! bâd! ar y soddedigion sydd o'i amgylch, yw efe. Wrth ddyweyd ei bregeth y mae yn dyweyd ei galon. Dywed am ddagrau, a chwys, a gwaed, a chroes, ac angeu ein Gwardwr, â'i gariad anfeidrol yn berwi ei enaid. Sieryd am adgyfodiad y meirw, a'r farn dragywyddol; a thra yn siarad, teimla ei hun ar derfynau y byd anweledig, ac y mae ei wrandawyr yn teimlo yr un modd. Y mae y chwys a'r dagrau fel yn rhedeg gyrfâ tros ei ruddiau glandeg, ae y mae cawod o ddagrau yn gwlychu llawr yr hen eglwys. Ond dyna y bregeth yn dybenu. Rhyfedd mor fyr; ond hynod mor felus. Dyna y pregethwr yn eistedd yn foddedig mewn chwys. Dyna y gwrandawyr am y waith gyntaf oddiar pan ddechreuodd yn edrych ar eu gilydd, ac yn gweled afonydd o ddagrau.

Ond nid yw y cwbl drosodd eto. Y mae y bwrdd wedi ei lodu; y mae y dyrfa cyn ymadael yn bwriadu gwneyd oof am farwolaeth eu Hiechawdwr mawr. Aros i weled y diwedd. Darllena y gweinidog y gwasanaeth arferol, ond nid yw yn gorphawys ar hyny. Ni welir un argoel ei fod am arbed ei gorff; y mae nerthoedd yr aberth yn llenwi ei enaid. Nid yw y geiriau arferol, "Corff ein Harglwydd Iesu Grist," &c. yn ymddangos fel wedi pylu wrth eu hadrodd drosodd a throsgodd—mwyhau y mae eu nerth—dyfnhau y mae eu hargraff ar y pregethwr ei hunan! pa fyrychaf eu dywed. Ymwthia trwy y dorff, ireiddia hwynt â'i ddagrau, gwlych hwynt â'i chwys, cynhyrfa hwynt drwyddynt draw â'i eiriau melusion. Yn awr, dyna ddernyn o hymn—yn awr dyna bwnc o athrawiaeth—yn awr dyna waeddolef annynwaredol am angeu'r groes—yn awr y mae

"Jones fel angel yn Llangan
Yn udganu'r udgorn mawr."

A thyna

"Dorf mewn twymn serchiadau,
Yn dyrchafu uwch y llawr."

Dyna wreichion y bregeth wedi myned yn fflam angerddol. Rhaid i ti bellach ymdaro trosot dy hun, gyfaill. Nis gallwn ddesgrifio ychwaneg. Y mae ein pwyntyl wedi syrthio; y mae y dyrfa wedi myned i'r hwyl; yr ydym ninnau wedi myned i'r hwyl hefyd. Pwy ddichon beiddio? Bendigedig! Bendigedig byth!

Ond wele, nid yn Llangan yr ydym ni yn y diwedd; ond yma, yn y fan hon. Hanner can' mlynedd yn rhy ddiweddar i weled y lle hwn yn ei ogoniant; rhyw eilun amherffaith o'r peth a welom ni ar ein hynyd! O! na chawsem weled y peth ei hunan. O ddiffyg hyny, fe allai fod y bras-ddarlun uchod mor debyg iddo a dim a elli daro wrtho am enyd o amser.

Gwir yw y gall fod dynion mewn hwyliâu yn yr oedfaon heb fod sawl o grefydd yn eu calonau. Nid yw yn beth amhosibl fod ambell un yn myned i hwyliâu yn eglwys Llangan, ac yn myned i hwyliâu par wahanol yn y Bont-faen y dydd Mawrth canlynol. "Ni bu gweithr heb yr awr." Dichon fod ambell un hefyd yn cael ei gario ymaith gyda ffrwd y dyrfa i ryw deimladau anghyffredin, ac eto heb wybod na deall yn iawn am ba beth y

teimlai. Clywsom am un; yr hwn wedi bod yn gwrandaw Mr. Jones yn pregethu am Grist yn bwrw allan y lleng cythreuliaid, a ofynai i gymydog wrth fyned adref pa faint oedd lleng; atebai hwnw eu bod yn rhywbeth garw o filoedd. "Wel, wel," meddai yntau, "mae yn rhaid eu bod yn llai na llygod bach." Ond atollwg, a ydym ni yn yr "oes oleu hon," yn berffaith rydd oddiwrth gymeriadau o'r fath yma? A yw pob un sydd yn amlygu teimlad ar y Sabboth (yn y dull newydd boneddigaidd o'i amlygu) yn byw yn weddus i'r teimlad hwnw trwy yr wythnos? A yw ein holl wrandawyr, ie ein holl broffeswyr ni, yn deall pob pregeth y maent yn ei chanmawl, neu yn ei chondemnio? Os addefwn y gwir, rhaid i ni ateb y ddau ofyniad yn nacael. Nid sŵn oedd y cwbl yn Llangan. Yr oedd y gwirionedd yn cael ei draddodi yn eglurhad yr Ysbryd a nerth—yr Arglwydd yn dwyn tystiolaeth i air ei ras—praid Crist yn cael eu porthi—laweroedd o bechaduriaid yn cael eu troi at gyflawnder—a phechodau gwaethaf y wlad yn gostwng eu penau.

Ni ddarfu i ni erioed weled dyddlyfr Mr. Jones. Nid ydym yn gwybod eifod yn cadw un; yr ydym yn tra thueddu i greu nad oedd. Nis gallwn ddilyni ei hanes yn fanwl, manwl, fel y rhydd y papyrâu hanes symudiadau ei Mawrhydi. A phe gallem, nis gwnelem; byddai y drafferth yn fwy na'r badd. Ond y mae rhai o amgylchiadau ei fywyd—y mae rhai anghreiffidiau o helaethrwydd ei lafur, yn teilyngu sylw arbenig; ac at y rhai hyn, er mwyn peidio a bod yn afresymol faith, y cyfyngwn ein sylwadau.

Nid oedd Mr. Jones, fel ambell filwr, yn cadw o fewn ei gastell, heb saethu at neb ond gelynyon a feiddient o fewn cyrhaedd ei fagnel. Cariodd ef y frwydr i ganol gwersyll y gelynyon. Elai allan yn nerth Duw byddin- oedd Israel;—bloeddiat i'r gad, ymladdai, buddygoliaethai. Dywedasant eisoes, fod gwylmabsantau yn bethau arferol yn yr amserau hyn; ac yn mhliith manau eraill cynnelid un bob blwyddyn yn Llanbedr-ar-fynydd, lle oddeutu pum milltir i'r nogledd o Llangan. Hwn ydoedd prif "fabsant" y wlad. Yma yr ymgynnullai cannoedd o ieuencyd Morganwg, i yfed, meddwi, dawnsio, ymladd: a pha beth mwy? Edrych *Eph. v. 12*. A gwaeth na'r cwbl, dydd yr Arglwydd ydoedd "dydd mawr" yr ŵyl fell-digedig hon. Penderfynodd Mr. Jones wneyd ymdrech er rhoddi pen ar y cynnulliad pechadurus. Mae yn debyg ei fod wedi pregethu yn ei erbyn yn Llangan, ond nid digon hyny. Ar un Sabboth aeth i'r gwylmabsant ei hunan—aeth yno i bregethu Crist. Rhoddodd ergyd marwol ar unwaith i'r ŵyl bechadurus; a mwy na hyny, trōwyd y "mabsant" yn gymanfa: parhaodd i fyned yno i bregethu ar y Sabboth hwnw am *deleng mlynedd ar hugain!* Parhaodd Llanbedr am yr holl flyneddau hyny yn lle cynnulliad pobloedd; nid i'r gwylmabsant mwy, ond i wrandaw yr efengyl dragywyddol: "Efe a wthia dy elyn o' th flaen, ac a ddywed wrthy, Dyfetha ef." Gwthiodd Duw y gelyn o'i flaen ef y cynnyg cyntaf; penderfynodd yntau ei ddyfetha ef. Pe gadawsai ef ar unwaith, buan y cyfodasai drachefn gyda nerth adnewyddol; ond parhaodd Mr. Jones i guro nes ydoedd wedi llwyr farw—nes oedd y tŷ a arferent gyrchu i'r mabsant wedi heneiddio, a thŷ arall wedi cyfodi o' rai na wyddent am dano.

Unwaith, wrth ddychwelyd adref wedi bod yn pregethu, tarawodd wrth fittai o oferwyr, wedi ymgynnull er mwyn y difyrwch creulawn o ymladd celloed: Trodd atynt, cyfarchodd hwynt yn garedig, a dywedodd yn

sêrchog, "Y mae genyf newyddion da ryfeddol i chwi, bobl bach, os byddwch can fwyned a gwrandaw; cewch fyned yn y blaen â'ch gwaith wed yn os byddwch yn dewis." Wedi eu gorchfygu gan ei sirioldeb, atebasant, "Caiff y gŵr boneddig wneyd fel y myno." Ar hyn dechreuodd ddyweyd wrthynt am eu heneidiau anfarwol, am gariad y Gwardwr mawr, ac am anghau a groes; a disgynodd nerth Duw gyda ei ddywedyd. Tarwyd y fintai fawr â syndod—gollyngasant y ceiliogod i fyned lle y mynent, anghofwyd y chwareu; anghofwyd pob peth ond y testun mawr o'ddiar ba un y llefarai y gŵr dyeithr. Wedi iddo ddybenu dyweyd y newyddion da, nid oedd neb yn meddwl am fyned yn y blaen â'r gwaith y daethant yno o blegid; aeth pob un i'w gartref yn dawel, a llawer un, mae yn debygol wedi cael calon newydd.

Rhy fechan ydoedd eglwys Llangana, rhy fechan ydoedd sir Forganwg i gynnwys "sain ei udgorn ef." Toithiodd Ddeheu a Gogledd. Toithiodd Gymru a Lloegr. Yn awr y mae yn adsain eglwys Llangana, monument a chwbl; yn y man y mae yn eithafion y Gogledd yn ymyron â dynion, y rhai, y pryd hwnw, nid oeddynt nemawr gwel na phagamiaid mewn eiliad braidd, dyna fe yn nghapel *Spa-fields*, Llundain, yn cyhoeddi gair y deyrnas, nes y mae y Saeson yn gofyn, "Beth yw hyn?" Toc dyna fe eto yn neuadd fawr castell St. Donat's, hen ardfref y Stradlings, yn chwythu yn yr udgorn mawr. Ac nid pregethu a theithio ydoedd ei holl lafur. Sefydldd ysgolion, adeiladodd gapelau, a theithiodd y gwledydd i gasglu arian atynt. Nid aeth nemawr o weithiau i Loegr heb fyned i ddeiseb gydag ef i geisio arian. Ni chrosodd yr Hafren nemawr o weithiau tua i gartref, heb swm o arian y Saeson gydag ef; nid iddo ei hunan, ond at ryw ysgol, rhyw gapel, neu ryw achos crefyddol neu ddyngarol neu gilydd.

Yn y flwyddyn 1775, saith mlynedd wedi ei ddyfodiad i Llangana, prynodd ddyw:erw o dir yn Mhencoed, tua thair milltir i'r gogledd o Llangana. Adeiladwyd yno gapel, yr hwn a ystyrir yn un mawr dros ben yr amser hwnw, âg ystabl rhagorol i geffylau y pregethwyr o'r tu cefn iddo, a fflad helaeth i geffylau y gwrandawyr. Rhanwyd y gweddill o'r tir yn ddau o gaeau, neu berci, fel eu gelwir yn sir Aberteifi; un i gael porfa i geffyl y pregethwr yn yr haf, a'r llall i gael gwair iddo erbyn y gauaf. Adeiladwyd tŷ gwir gysurus, fel y gallai y pregethwr ei hunan, druan, gael lle i guddio ei ben. Dyma Salem. Gwyddom na bydd gan neb o'n darllenwyr ag ydynt wedi bod yno unwaith, yr un gwrthwynebiad i fyned yno eto. Nis gwyddom am un man â mwy o bob peth sydd yn tueddu i beru i ddyn deimlo yn gysurus o gartref, na Salem y Methodistaid yn sir Forganwg. Ond nis gellid cael yr holl bethau hyn heb arian, a llawer o arian; ond gadawer rhwng Jones a hyny. Gosododd bobl Llundain o dan drefn i Fethodistaid tlodion Morganwg. Ni adawodd lonyddwch iddynt nes oedd Salem yn ddiddyled. Yr oedd Mr. Jones yn bencampwr yn y gelyddyd o *gasglu*. Efe oedd ben i gael arian at bob achos. Os byddai rhyw ddyn truan, yn sir Forganwg, neu un o'r siroedd nesaf ati, wedi cael colled ar dir neu ar fôr, trwy dân neu ddwfr, neu rywbeth neu bob peth; cyfeiriai ei gamrau tua Threains, preswylfod Jones o Llangana. Yr oedd Mr. Jones yn rhy gyfrwys i gymeryd ei dwyllo gan bob erwydryn; ond pan welai wir wrthddrych elusen, dychlamai ei galon dosturiol: ac unwaith yr ymgymera i ef âg achos unrhyw ddyn, gallai hwnw benderfynu fod pob

peth yn dda. Yr oedd Mr. Jones yn ŵr boneddig drwyddo draw, ond nid oedd yn gyfoethog; yr oedd ei enaid ef yn byw uwchlaw casglu cyfoeth iddo ei hunan; eto yr oedd yn berchen ar y fath ddyllanwad, fel y gallai heri i gyfoeth dynion eraill redeg yma neu acw lle y cyfeiriai â'i fys. Teimlai dynion nas gallent beidio a rhoddi ar ol gwrandaw ei anerchiad ef, bydded yr achos y peth a fyddai. Y mae llawer o chwedlau pur ddirgrifol yn cael eu hadrodd am dano yn ei gysylltiad â chasgliadau. Cymerer un neu ddwy yn esiampl. Pan yn casglu unwaith yn un o gapeli y briffddinas, dygwyddodd fod yno Gymro yn gwrandaw. Gollyngai y pregethwr holl ffwd ei hyawdledd â'i arabedd ar draws y bobl, er mwyn eu cynhyrfu i toddi. Teimlai y Cymro y cwlm oedd rhyngddo â'i arian yn dattod yn gyfym; yn y man, heb allael ymattal yn hwy, gwaeddodd yn iaith ei fam, "Jones, Jones, anwyl, ymatteliwch, da chwi; peidiwch a gwasgu yn dyn-ach eto, onidê bydd raid i mi roddi y cwbl a feddaf, ac ni bydd genyf fyrling i'm cario adref." Dywedir iddo, dro arall, yn yr un ddinas, ddefnyddio hanes Pedr yn bwrw ei fach i'r môr, ac yn cael y pysgodyn â darn o arian yn ei eneu, i bwrrpas. Boreu dranoeth, curai gwas boneddiges gyfoethog wrth ddrws ei lety, gan adael basged yno i Mr. Jones. Erbyn ei hagoryd, welê bysgodyn, a llythyr yn ei enau, yn cynnwys ysgrif am ddeg punt. Yr oedd Mr. Jones yn gweled llaw yr Arglwydd yn yr amgylch- iad, mor amlwg ag y gwelai Pedr hyny yn ei amgylch- iad ef.

Gwir yw y gair, "Nid yw y gwas yn fwy na'i arglwydd. Os erlidias- ant i hwy a'ch erlidiant chwithau hefyd:" ebe ein Hiachawdwr mawr wrth ei ddysgyblion. Cafodd Mr. Jones ei ran o erlidiau. Tarawodd rhywun y Bibl o'i law pan yn pregethu mewn man yn Ngogledd Cymru. Yr unig sylw a wnaeth Jones ar y weithred falseisus, ydoedd, "Och! druan, ti a darewaist dy farnwr!" Pan yn pregethu mewn man, arall, ymgasglodd torf o ddynion drwg o'i amgylch, dygasant y llyfr sanctaidd o'i ddwyllaw trwy drais, ac wedi poeni cryn lawer arno yntau, dywedasant wrtho, y cai tyned i'w ffordd ond iddo addaw peidio dyfod yno i bregethu byth mwyach. "O na," ebe yntau, "nis gallaf wneuthur hyny; nid oes yr un addewid yn perthyn i chwi nac i'ch tad." Ond dyoddefodd erlidiau o natur bur wahanol. Yr oedd boneddwr yn byw yn ei blwyf, yr hwn oedd yn dda anfoddlawn fod cymaint o bobl yn dyfod ynghyd i Langan, ac yn "dryllio yr eglwys." Cafodd Mr. Jones hwn yn elyn chwerrw, Gwyddom enw y boneddwr hwnw, ond ni chaiff le ar ein papyr. Gwyddom pwy gafodd ei gyfoeth wedi ei farw, ond nis gwyddom pa le y mae wedi myned erbyn heddyw. Mwy na thebyg hefyd yw fod rhai o foneddigion y plwyfau cymydogoethol yn cefnigau wrth boblogrwydd yr offeiriad Methodistiaidd. Anfonwyd achwyniadau unwaith ac eilwaith yn ei erbyn at yr esgob; ei fod yn pregethu heb yr un llyfr—fod pobl o blwyfau eraill yn dyfod i'w wrandaw i Langan, a'i fod yn pregethu yn afreolaidd yma a thraw dros wyneb yr holl wlad. Ni ddarfau i'w arglwydd- iaeth dalu sylw i'r achwyniadau yma am gryn amser, ond gorfodwyd ef o'r diwedd i'w alw i gyfrif. "Mr. Jones," ebe fe, "mae yn ddrwg genyf orfod dywedyd wrthyf fod achwyniadau i'ch erbyn wedi dyfod i'm clust- iau; dywedir wrthyf eich bod yn pregethu mewn lleoedd anghysegregid." "Naddo, erioed, fy arglwydd," meddai yntau: "pan y rhoddes Mab Mar ei droed ar y ddaear, darfu iddo *gysegru* pob modfedd o honi; oni buasai hyny, yr wyf yn ofni na wnai unrhyw gysegriad o eiddo eich arglwyddiaeth ddaioni yn y byd." Ar ol rhyw gymaint o ymddyddan car-

iadus, ymadawsant; ac aeth Mr. Jones yn y blaen fel arferol. Y gwirionedd yw, nid oedd yr esgob da (Shute Barrington) yn chwennyth ei attal; ond da fuasai ganddo pe buasai y lleill o fugeiliaid ei esgobaeth yn fwy tebyg iddo. Nid bychan oedd syndod rhai o'r erlidwyr, wrth weled Mr. Jones a'r esgob yn rhodio yn mreichiau eu gilydd ar ol y "cerydd." Ond symudwyd Dr. Barrington i esgobaeth Salesbury, a gosodwyd Dr. Watson yn ei le ar esgobaeth Llandaf. Adnewyddwyd yr achwyniadau yn erbyn y pregethwr ffyddlaw, a gwnaed pob ymdrech i lanw meddwl yr esgob newydd â rhagfarn yn ei erbyn. Ymddengys iddo yntau lwyf benderfynu gwneyd iddo ymgadw o fewn ei blwyf, neu ei ddysgyblu yn ol y gyfraith. Ond wedi iddo gael cyfle i'w adnabod yn well, newidiodd ei feddwl. Galwodd ef o'r neilldu ar ddydd ymweliad yn y Bentfaen, a dywedodd wrtho, fod yn rhaid iddo ymgadw o fewn ei blwyf ei hun: nad oedd rhyddid iddo ymyraeth â phlwyfau dynion eraill, nes ei fod wedi cael sail gadarn i greu fod pob enaid yn ei blwyf ei hunan wedi ei achub. Atebodd Mr. Jones yn ostyngedig, ei fod yn teimlo rhwymedigaeth arno i gydsynio â'r cymhelliadau taerion a ddylifent ato o blwyfau lle yr esgeulusai yr offeiriaid eu dyledswyddau; a lle yr oedd y trigolion yn marw o eisieu gwybodaeth. "Os fély," ebe yr esgob, "rhaid i mi gymeswd mesurau i'oh attal." "Gellwch wneyd hyny, fy arglwydd," atebai Mr. Jones, "ond nis gallaf fi newid fy mhenderfyniad." Yr esgob, yn synu wrth weled y fath wroldeb digyffro, wedi ei gysylltu â'r fath ostyngid-rwydd boneddigaidd, a ofynodd a oedd ganddo denlu. "Oes, fy arglwydd," meddai yntau; "y mae genyf wraig a thri o blant." "Wel," ebe ei arglwyddiaeth, yr hwn erbyn hyn oedd wedi ei orchfygta, wedi newid ei wedd, ac wedi newid ei lais, "Mr. Jones bach, nis gallaf mewn modd yn y byd feddwl am eich niweidio; ond y mae offeiriaid plwyfau P——h ac Ff—— yn wrthwynebol dros ben i'chwi; gwnewch hyn ar fy nghais, peidiwch a mayned i'w plwyfau hwy." "Gwnaf, fy arglwydd!" ebe yntau; a chadwodd ei air.

Ond fe ofynir, "Paham yr arosai Mr. Jones mewn caethiwed o'r fath? Paham y cymerai ei rwymo fel hyn â rheffynau esgobaethol rhag rhyned i'r plwyf hwn neu y plwyf arall? Paham na chymerasai fesur a fuasai yn taflu pob plwyf o led y pen o'i flaen ar unwaith? I ba beth yr arosai dyn o'i fath ef mewn cysylltiad âg eglwys wladol—âg eglwys yri mha neu yr oedd iddo gynnifer o etynion, gan ba rai y dyoddefai gymaint o ened-igaeth? Wele gapel Salem, adeilad eangach a llawer mwy cyfleus nag eglwys fechan Llangan, wedi ei godi yn yr ymyl. Paham nad aethai i hwnw, a gadael esgobyddiaeth a'i holl rwyman am byth? Aethai i'r holl wlad allan fel un gŵr gydag ef—buan y buasai yr eglwys yn wag fel bynt; buasai ei enw yntau yn llawer uwch trwy Gymru a Lloegr. nag y mae yn awr, er uchred yw; gan hyny, paham na buasai ar unwaith yn ymneilldud?" Wele, ein cyfaill, y mae dy ofyniadau, dy haerionau, dy sylwadau, dy resymau, a dy gasgliadau, yn disgyn am ein elustiau fel cawod genillysg. Yr wyt yn peri i mi feddwl am Dafydd o'r Twyn, yr hwn, wrth glywed ei daid yn adrodd hanes taith Tomos o Bencyrn i Llundain ac yn ei ol, a ofynai mewn syndod, "Paham y treuliodd Tomos gymaint o amser mewn myned a dyfod? Paham na buasai yn teithio gyda y *rainbow*," meiddi Dafydd. "Bwytaodd Mrs. S. L—— ei boreubryd yn Llundain, ac yr oedd yma eyn gostwng haul." Nid oedd Dafydd yn ystyried i'r *railway*

fod gryn drwgain mlynedd cya dyfod i fodolaeth wedi i Tomos druan ddybenu ei daith. Ond chwaraeu teg iddo; yr oedd agerddlongau ac agerddgerbydau wedi dyfod yn bethau cyffredin, pan agorodd efe ei lygaid gyntaf ar y byd. Gelli dithau, ein cyfaill, fod wedi syrthio i'r un camsyniad a Dafydd o'r Twyn. Y mae llawer o bethau wedi dyfod yn bethau beunyddiol erbyn hyn na freuddwydiai neb am danynt yn nyddiau Jones o Langan. Gadawodd y "ddwy fil" long eglwysyddol y llywodraeth ar ddydd gŵyl Bartholomeus, am fod y brenin a'i gynghor yn mynu ei llywio hi yn erbyn eu cydwobodau hwy. Gadawodd y Methodistiaid hi am fod y bara ar ei bwrdd hi yn llwyd ac yn afiachus. Nid ydym yn credu y gadawsid hi gan yr hen ymneilldŵyr, pe cawsent ei llywio hi yn ol eu cydwobod. Ac nid ydym yn credu y gadawsid hi gan yr hen Methodistiaid, pe cawsent ynddi gyflawnder o fwyd iachus i'w heneidiau newynog. Peth mwy diweddar, feddyliem, yw siarad am ei gadael *oblegid mai llong y llywodraeth yw*. Gwyddom fod miloedd yn y llongau ymneillduol nad elent ar ei bwrdd hi ar un cyfrif, am mai llong y llywodraeth yw. Ond pur anaml hyd yn hyn yw y rhai sydd wedi ei gadael hi a dyfod atom ni oblegid y rheswm hwn yn unig. Anaml yw y rhai a'i gadawsent pe buasai pob peth yn gyfan hyd at hynny. Yr oedd pobl yr hen amser yn credu fod y gyfundraeth yn dda, ond bod rhyw ddrygau wedi damweinio disgyn arni; nid oedd yn eu tyb hwy ond eisieu symud y rhai hynny, a thyna bob peth yn dda. Ond erbyn hyn yr ydys wedi darganfod fod y drygau hyn yn tyfu o'r gyfundraeth ei hunan, ac o ganlyniad y parhânt hwy tra y pery hithau.

Heblaw hyn, yr oedd Mr. Jones yn eglwyswr o gydwobod. Glynodd wrth yr eglwys drwy bob tywydd, am ei fod yn credu mai hynny a ddylasai ei wasauthur. Pwy all ei feio am hyn? Yr oedd yn ystyried ei ganlynydd, nid yn ymneilldŵyr, ond yn eglwyswr. Ac nid oedd efe yn unig yn y golygiad hwn. Nid bach fu syndod rhai o'r Methodistiaid eu hunain pan ddechreuwyd eu galw yn *Dissenters*. Dangosodd holl ymdrech- iadau Mr. Jones mai ei brif ddyben oedd achub eneidiau dynion. Er mwyn hyn y teithiai, y pregethai, ac yr adeiladai dai cyrddau. Tai cyrddau, cofier, nid capelau mo honynt y pryd hwnw. Golygai yr addol- dai hynny yn lleoedd cyffus i ddynion heb urddau eglwysig i bregethu ynddynt. Ond yr oedd yn ystyried y pregethwyr hynny, yr aelodau, a'r cynulleidfaoedd, y tai cyrddau, a'r cwbl, yn rhanau o'r "Eglwys." Dyma wraidd ei wrthwynebiad i neillduad gweinidogion ymhlith y Methodistiaid. Gwelai yn y symudiad hwnw *ymadawiad*. Gwelai mai trwy hynny y byddai y Methodistiaid, yn lle bod yn rhan o'r Eglwys Wladol mwy, yn gorf newydd o Ymneilldŵyr. Gwelai y byddai y llafur a roddasid allan i helaethu yr Eglwys yn dybenu mewn cryfhau rhesi Ymneillduath. Yr oedd yn barnu yn gydwobodol mai gwell i achos gwir grefydd fuasai iddynt barhau ynglŷn wrth yr Eglwys. Nis gwyddom yn sicr pa beth fuasai ein barn ni y pryd hwnw, pe buasem yn gymhwys yn yr un amgylch- iadau ag efe. Ond fel yr ydym, rhaid i ni ddyweyd ein bod yn credu ei fod yn camsynied. Eithr yr ydym yn cydwobodol gredu mai ar ei ben yr oedd y bai, ac nid ar ei galon. Buasai Methodistiaeth wedi dybenu yn Nghymru er ys tro bellach, pe na chymerasid y llwybr a gymerwyd, ac ni buasai yr Eglwys nawy poblogaidd nag y mae.

Ond er ei fod yn Eglwyswr o galon ac egwyddor, pell oedd o feddwl

fod, holl ddaioni y byd wedi ei gyfyngu i'r blaidd, y perthynai efe iddi. WYr oedd yn ddigon craff ei lygad, ac yn ddigon diduedd i'r waled, ac yn ei blaidd ei hun, ac yn ddigon diragfarn i gydnabod ac i werthfawrogi'r holl wedd mewn pleidiau eraill. Ymgymysgai â dynion da perthynol i pleidiau ymneillduol; ymhyfrydai yn eu cyfeillach, cydweithredai â hwy yn gywiol, a phregethai mewn capelau ymneillduol mor rhydd ac mor rhwydd nag y pregethai yn y llan. Daeth allan yn un o'r gyntaf, nerth brach a chalon, o blaidd Cymdeithas Genadol Llundain. Yn ail gyfarfod cyffredinol y gymdeithas hono, nodwyd arno ef i bregethu ar ei rhan yn un o gapelau mwyaf y biffiddinau ar y 13eg o Fai, 1796, dan arddyn i'r ffinaf gyntaf o genadau heddi gael eu hanfon allan i Ynysydd Môr y De. Ffugiodd iddiad o'r cyfarfod pwysig hwn yn awr ger ein brôn. Gwener y 17th ganlyn yndo ar bregeth Mr. Jones. "Ar ddydd Gwener, cyhenwyd ein cyfarfodydd cyhoeddus â phregeth ragorol gan y Parohedig Mr. Jones, o Langan. Y mae ei ddall a'i ysbryd ef yn rhy adhabyddus i wneuthur unrhyw gannoliaeth oddiwrthym ni yn anghenrheidiol." Cyhoeddwyd y bregeth hon yn y gyfrol gyntaf o'r "Missionary Sermons," yr hon a osododd cyfyll caredig yn ein dwylaw. Gosodwn y talffyrdd canlynol o honi o faen ein darllenwyr. Bydd yn rhyw gymhorth iddynt i ddeall "ei ddull a'i ysbryd." A dichen y sylwadau rhagorol a gynnwys wneyd argraff ddaionus.

"LLWYDDIANT MAWR TRWY FODDION GWEINIAD.

Ar Arglwydd a ddywedodd wrth Gideon, Rhy liosog yw y holl eidd gyda th' a mi roddi y Midianiaid yn eu dwylaw; *Bara, xii. 2.*

"Wrth edrych o'm hamgylch ar y fath gynulleidfa fawr o'm cydgyfarfod, nid gallaf lâl na ehofio amgylchiad a gymerodd le yn Nghymru rai blyneddau yn ol. Ffawddwyd cyngorwr (oblegid dyna fyddwn ni yn galw pregethwr lleys), penaf yn cyngorwr gonest a syml-galon i bregethu mewn cymdeithasfa fawr, yn mhreueidddeb llawer o weindogion helaethach eu gwrebodaeth, a mwy eu talentau nag eidd. Galwodd cyfyll ef o'r neilldu, a gofnodd iddo, "Pa fodd yr ydych yn teimlo, a wyf frawd, yn ngwyned yr amgylchiad hwn? A ydych yn meddwl, mewn Gwirf, y gallwch sefyll i fyny rywant, ac agoryd eich genau ger bron y fath gynulleidfa fawr? Ei ateb oedd, "Frawd, yr wyf yn awr yn mynd i bregethu Crist wedi ei groesdhecho i'r holl bobl yma fel i un pechadur." Yr un modd y dichen fy Arglwydd mawr fy nghynnorthwyo innau i ddywedyd ychydig bethau cydweiddol â'i ewyllys yn niwedd y dyfais fawr a pharchedig hon."

Wedi cyffwrdd yn fyr â dyben y cyfarfod, hwnw, amcan gymdeithasol cenadol, ynghyd â'r bendithion gwerthfawr a ddeilliant oddiwrthyrnt i drigolion tywyll-leoedd y ddaear, y mae y pregethwr yn disgyn yn dawel ar ei destun fel y canlyn:—

"Ac yn awr y mae yn ymddangos ei fod wedi dyfod i ran y prifyn gwast-hau i sefyll yn y faa yma, i wneyd ymrech tuag at gynhyrfa y gweraill i' gychwyn y blaen, o dan faner hellorhfygol y groes, ac i osod eich cynllun gogoneddus anagiat lesau eneidiau mewn gweithrediad, heb gymeryd eich digalonni gan ffrwyddoedd o anhawserau ac anhabygionethau a allant fod ar eich ffordd; ond gan fod yna hawderna yn hyn, mai yr un peth gan eich Meistr dwyfol yw dwyn yn y blaen ei fwrddiad yn y byd trwy foddion gweiniad a thrwy foddion nerthol. Y mae y gwirionedd mawr hwn yn cael ei ddyegu gan y rhan o'r ysgrythyr sydd yn awr dan ein sylw. Y mae gennyng hysur anghraifft nodedig o hyn yn sefydliad crefydd yr Iesu yn y byd. Nid oedd yr offerynau a gymerodd Duw yn ei law i'r dyben hwnw ond gwael ynddynt: ea hysur, a' y fath wrthgyferbyniad sydd rhyngddynt, mewn un ystyr, â'r cwmiol tyatlon sydd ger fy mron yn awr.) Nid rhai wedi eu magu yn ysgol A then oeddynt, nid pebl ddoethon gwlad Groeg; ond pysgodwyr tlodion ac anlythyrenog Galilea; ac eto gorchfygasant llawer o genedloedd byd, a gwnaethant iddynt blygu i athrawiaeth y groes.

'Wels Gideon fyr tien ddytnwry yn cael ei batatdi gan law yr Arglwydd at ymgymeriad aawr-igwareddigath. Erael nidsin ormes y Midianiaid, y rhai a ddsethent i fyny fel ceiliogod rhedyd, gan ddifaru o'u blaen; heb adael Luaniaeth a Israel i llawd o lawr y tir. Ymddangosodd angyl iddo tra yr oedd yn dymu. Fel hyn y gwelais yr Arglwydd yn yr amserau gynt. Fe allai fod rhai o honoch yn barnu ei fod yn ddoethaeth yr awr. Gidon eith bod. Gynt, cymerodd Moses a Dafydd oddiar of y deid, i lleuoedd ar yr hestr, yr apostolion oddiwrth eu rhwydau, a Phaul; maen debyg, oddiwrth ei heb yll i'w oedd y diafol yn goddef iddo aros gyda ei waith, ond yr wyf yn oello fod llawer o'riau yn cael eu treulio yn hapus yn nghymdeithas yr archddiaid.' Fel hyn yr oedd yr Arglwydd yn ei ddoethineb yn gwneyd yn yr hen amserau.

Yn Arglwyddiaid yedroheiddas Gideon. Dribenes Bern. vi. 14. Ymddengys ddr hyn a ddywedais Gideon yn yr adnod aenorol fyned i galon ei Dauw, aq eise a ddywedodd. 'Dos yn dy rymusdra yma.' Pa rymusdra? adn. 12. 'Yr Arglwydd sydd gyda thi.' Hyn oedd ei rymusdra. 'Dos yn hyn, a gwna yr Midianiaid fel y gwneithose ar y gwenith wrth y gwinwryf; dyrna hwynt yn dda; a dinystria hwynt. Nid ofna o'ys h' h' wrust yu' fan dymu; a' dda a waredi Israel o law y Midianiaid.' Ond i'w phia, heb llawer, Arglwyddid nid oes genyf na dynion nac arian, ja fy abeulu sydd dlawd yn Manasseh. 'Yr oedd ganddo feddyliau isel am dano ei hun, ond nid oedd nawr gwaeth o' hyny - y mae gwir werth bob amser yn wylaidd. Ond wele yma er h'ogoniant yma yr ynddengys ei nerth.' A ddywedodd yr Arglwydd wrth of, 'Dda y byddiaf i gyda thi.' Dyna gystal a byddin o' ffinyau.

Yn ymddengys ddr hyn a ddywedais Gideon yn yr adnod aenorol fyned i galon ei Dauw, aq eise a ddywedodd. 'Dos yn dy rymusdra yma.' Pa rymusdra? adn. 12. 'Yr Arglwydd sydd gyda thi.' Hyn oedd ei rymusdra. 'Dos yn hyn, a gwna yr Midianiaid fel y gwneithose ar y gwenith wrth y gwinwryf; dyrna hwynt yn dda; a dinystria hwynt. Nid ofna o'ys h' h' wrust yu' fan dymu; a' dda a waredi Israel o law y Midianiaid.' Ond i'w phia, heb llawer, Arglwyddid nid oes genyf na dynion nac arian, ja fy abeulu sydd dlawd yn Manasseh. 'Yr oedd ganddo feddyliau isel am dano ei hun, ond nid oedd nawr gwaeth o' hyny - y mae gwir werth bob amser yn wylaidd. Ond wele yma er h'ogoniant yma yr ynddengys ei nerth.' A ddywedodd yr Arglwydd wrth of, 'Dda y byddiaf i gyda thi.' Dyna gystal a byddin o' ffinyau.

Yn ymddengys ddr hyn a ddywedais Gideon yn yr adnod aenorol fyned i galon ei Dauw, aq eise a ddywedodd. 'Dos yn dy rymusdra yma.' Pa rymusdra? adn. 12. 'Yr Arglwydd sydd gyda thi.' Hyn oedd ei rymusdra. 'Dos yn hyn, a gwna yr Midianiaid fel y gwneithose ar y gwenith wrth y gwinwryf; dyrna hwynt yn dda; a dinystria hwynt. Nid ofna o'ys h' h' wrust yu' fan dymu; a' dda a waredi Israel o law y Midianiaid.' Ond i'w phia, heb llawer, Arglwyddid nid oes genyf na dynion nac arian, ja fy abeulu sydd dlawd yn Manasseh. 'Yr oedd ganddo feddyliau isel am dano ei hun, ond nid oedd nawr gwaeth o' hyny - y mae gwir werth bob amser yn wylaidd. Ond wele yma er h'ogoniant yma yr ynddengys ei nerth.' A ddywedodd yr Arglwydd wrth of, 'Dda y byddiaf i gyda thi.' Dyna gystal a byddin o' ffinyau.

Ni a welwn y llwyb a gymerwyd i leihau byddin Gideon. Yr oedd diwrnod cyntaf y prawf yn amser dedwydd i bob llwfrddyn ofnus, a darfu iddynt ei fwynhau yn hyfryd. A darfu i'r rhai fionydd ddiog fwynhau yr ail mor hyfryd a hyny. Y cymeriad o'vintaf; adn. 5. a ddiengys nerth meddwl, ac ewillysgarwch eaid, i wneyd rhywbeth i'w gwasanaethu Daw—cynnwys benderfyniad calon ddiysgog i wneyd rhywbeth dros yr Arglwydd. Yr oedd pob un o'r lleipwyr hyn cystal a ddyweyd, 'Dyferyn bach trwy gymorth fy llaw, a fwrdd a mi tua'r maes.' Ond a'u y lleill, y rhai a ymos-tyngasant ar eu gliniau i yfed, ymddengys nad oedd amynw hwy newawr o ofal am lwyddiant y dydd. Bechgyn am ymryth ffurfiol! Meddyhiad nad oedd gnt yn ddyrnu eu penau sawr ynghylch y Midianid: cael draeth dda i'w byfed, a thipyn o orplawys- dda i'w haelodau blinodig oedd eu pwnc hwy. Nid oedd eisien y cyfryw rai yn y gwasanaeth; ac er cyrar nid bychan iddynt, cawsant fyned tuag adref.

Felly y bobl a gymemant fwyd yn eu dwylaw, a'u hudgryn. Wrth hwy ymddengys iddynt fyned i'r frwydr heb arfau, o leiaf nid oedd arfau yn eu dwylaw; yn un llaw yr oedd eu bywd, yn y llaw arall yr oedd yr udgryn; gan hyny, y mae yn awlwg fod y fuddgoliaeth a ennillwyd y diwrnod hwn yn gwbl oddiwrth yr Arglwydd. Fel hyn y mae eia Daw ai yn arddel ac yn bendithio moddion gwainiaid, er mwya ein calonni ni i fyned yn y blaen yn wrol yn ei nerth ef, pan fyddom yn gwneuthur rhywbeth gyda ei achos ef.

Yr wyf yn gobeithio y gweithia yr Arglwydd trwoch chwi, fy mrodyr, yn y cyfryw fodd ag y byddoch yn methu peidio a chanfod ei law nerthol ef yn gwasgawd y cyrwyddo eich camrau, yn y cynllun sydd o'ch blaen. O ! y fath gysur a ddryr hynny a'ch eneidiau tlodion ! O ! y fath foddlonrwydd ! Y mae ymddibynu gormod ar foddion tebygol yn dra naturiol i ddyn syrthiedig. Y fath esiamplau dychrynllyd o hyn a gawn yn Goliah a Senacherib ! Teimlai Saul yn somedig wrth ymddangosiad y llanc Dafydd ; ond nid hir y bu y llanc heb derfynu y mater ag ef. Bydded i chwi gael llywyth llong o'r fath lanciau. Hwy a chwythant yn yr udgyrn ; peidiwch a goliau am y piserau. Os deunw i'r Testament Newydd, buan y gwelwch anghraifft ofidus o ormod hyder mewn gallu dynol yn Pedr. 'Pe gwadau pawb di,' meddai, 'ni h wadwn i di byth, byddaf farw gyda thi yn hytrach.' Chwi a wyddoch pa fodd y dygwyddodd ; a phan sed i drin y mater rhyngddo ef a'i Arglwydd trugarog, gofynnwyd iddo, 'Simon, mab Jonah, a wyt ti yn fy ngharu i yn fwy na'r rhai hyn ?' Y mae yn ateb yn wylaidd, 'Yr wyf yn dy garu di ; ond mewn gwirionedd, daf i byth i'n goriau gyferbyn ag un cristion ond hyn, oblegid yn awr yr wyf yn gwledd nad wyt ti ddim, heb dy gymhorth dwyfol di.' Y mae llawer o honoriau yn rhy debyg i Phylip ar ddechreu gwledd, yn yr hon yr oedd gallu y darparwr i lewyrchu yn ogoneddus. 'Gwerth dau can' ceiniog,' meddai, 'o fara nid yw ddigon fel, y gallu pob un gael ychydig ;' ac fel Andreas, yr hwn y mae ei reswm cnawdol yn gofyn, 'Pa beia yr hyn rhwng cynnifer ? Ond gadawer i'r dyria eistedd i lawr mewn ffydd, a hwy a gant lawr ddigon ; a chewch chwithau gasglu mwy yn y diwedd nag a ddwydd i'r fan yn y dechreu.

Y mae yr ymresymu cnawdol yma yn fynych yn poeni y cristion gwan. Y mae fy nghalon anghrediniol fy hun fy nhemtio boreu heddyw i barotol *popgun*, *popgun*, ar fy nghynorthwy presennol ; ond meddyliais ar yr un pwy, os na allwn ei drin yn weddus, y buaswn yn debyg yn yr un sefyllfa a bechgyn a ddefnyddiant gormod o dan eu ceseiliau, i'w helpu i nofio, y rhai os gadewir iddynt lithro yn rhy isel, ydychi yn dymchwelyd y llanc a'i sodlan i fyny ; a thyns fe, yn lle nofio, yn suddo ac yn marw. Gan hyn, gollyngaf fy hun i drugaredd y ddn, gan orphwys yn hyderus ar yr addewid hōno o eiddo ein Harglwydd bendigeidig, 'Wele yr wyf fi gyda chwi bob amser hyd ddiwedd y byd.'

Anhawdd yw rhyfeddu a chanmawl gormod ar y brwdfrydedd duwiol sydd yn llenwi eich calonau gyda'r gwaith daionus hwn ; ond cofiwch, rhaid i'r gwaith gael ei goroni gan edrychiad amyneddgar at Dduw, a dysgwiliad yn y llwch am ei fendith ef. Fel y symudo y cwmwl, felly yr ymddengys eich llywyddiant chwithau. Y mae eich rhagredm (*prospect*) presennol yn debyg i gwmwl bychan Elias. Yr wyf yn gosyngedig obeithio y bydd iddo cyn hir ymdanu dros Tahiti, a'r holl ynysydd, a chymyrychu y fath gawd o eneidiau gwerthfawr i'r Iesu, ag a leinw eich genau a' chwerthin, a'ch tafod a' channu.'

Ond cofiwch, gwaith ffydd y rhaid i hyn fod ; ffydd wedi ei seilio ar yr addewid, 'Gofyn i mi, a rhodaf y cenedloedd yn etifeddiaeth i ti, a therfynau y ddacau i'n feddiant.' Rhaid i chwi gael ffydd at y gwaith. Ni ddylem gymeryd ein dyrchafu yn ormodol gan debygriaethau dynol, ac ni ddylem lwfrhau ychwaith yn ngwyneb annhebygriaethau. Gwaith ffydd yw dyfetha y rhai hyn fel yr ydym yn myned yn y blaen, a phan ddelom at droed y mynydd, dylem edrych i fyny a dywedyd, 'Pwy wyt ti y mynydd mawr ? o flaen Zorobabel y byddi yn wastadedd.' Nid oes berygl un amser oddiwrth ymddiried yn Nuw gyda moddion annhebyg a gwael. Yma y gorwydd y perygl, sef yn nhuedd barhaus calon dyn i ddysgwyl mwy oddiwrth foddion mawrion nag oddiwrth y Duw mawr. Mater hawdd yw i ddyn weddio, 'Dyro i ni, heddyw ein bara bennyddiol' pan fyddo ei dŷ yn llawn o anghenrheidiau a danteithion ; ond dyna'r dyn sydd yn ennill calon y Goruchaf, yr hwn a fedr weddio fel hyn pan na byddo tamaid yn y tŷ erbyn y pryd nesaf. Pan fyddo eisieu gwneyd gwaith neillidol, fe edrych Duw allan iddo ei hun am offerynau neillidol ; ni byddant, fe allai, yn ateb i'n dysgwiliadan culion ni, ond byddant yn gymhwys i ddaingos ei allu mawr ef. — ac fe gaiff y gwaith ei wneuthur."

Wedi traethu yn rhagorol ar ffydd, ac adrodd mewn modd hapus rai o'r gorchestion rhyfeddol a gyflawnodd yn Nghanaan a Chymru, yn yr amserau gynt, ac mewn amserau diweddarach, y mae y pregethwr wrth "dynu at y diwedd" yn troi i anerech y rhai oeddynt yn yngydwyo i'r gwaith cenadol.

"Yn awr, am air neu ddau wrth y rhai sydd wedi penderfynu cyflwyno eu oll i'r ymgyddiad hogoneddus hwn, y rhai ydynt yn gadael eu cyfeillion a'u perthynasau ar ol, ac yn mynd allan i bellafocdd byd a'r genadwri fawr.

Yn gyntaf oll, pe buaswn yn un o'r "rhai y mae eu gwaith ar y môr," buaswn yn smeddi rhoddi i chwi ddesgrifiad llawn o'r Hong a ddylai gael ei defnyddio; ond ni wnaiff ymgyais o'r fath namyn dadguddio fy anwybodaeth yn y gelfyddyd hon. Pe buaswn yn w'r ieuanc pedair ar hugain oed, buaswn yn begian am gael fy nerbyn i'r cwmpeini hapus. Ond yr wyf yn gostyngedig erfyn ar y cadben da i fyndu y rhan werthfawr a ganlyn o'r ysgriflythyr, wedi ei hargraffu mewn llythyrenau breision ar y man mwyaf amlwg o'r prifhwylbren. 'Nac ofna, canys yr ydwyf fi gyda thi : na hysrhâ, canys myf i'w dy Dduw,' a rhaid i'r llongwyr ei darllen bob boreu cyn eu boreu-fwyd.

Am y cadben, y mae ei gymhwysderau ymbell tuhwnt i'm deall i; modd bynag, ni bydd iddo ddigid wrthf, os erfyniaf ar fy Meistr mawr ei anrhegu â stormcoat dda gysurus; meiddiaf ddyweyd ei fod yn dygwyl cryn lawer o ystarmydd yn ystod ei fordaith fawr; dymunwn ei bod wedi ei gwneyd i fyny o'r defnyddian a ganlyn:—fydd Noa, addaf ynder Moses, doethineb ymron gymaint a'r eiddo Solomon, ysbryd anorchfygol Zorobabel, nesoteidd-dra Essai, fel y caffo y gymdeithas feunyddiol a'r Brenfa sydd goruwch y ser; hawddgarwch Ioan, gostyngeddrwydd Pedr, wedi ei nithio yn dda, a phenderfyniad Paul. Wedi ei wisgo yn hon (er fe allai yr ymddengys yn dra thebyg i siaced Joseph), té foris o gylch y ddaear, a'r Iesu yn ei galon, a'r efengyl yn ei law.

Am y cenadau, y mae genyf air atynt hwy. Cadwer hwy yn ysgol y prophwydi a'r apostolion dros yr holl fordaith, a bydded y Pedwerydd yn y ffwrnes yn rasol sefyll ar ei deulaw, i'w cyfarwyddo, i'w cynnal, a'u cysuro. Yn ei amser doeth a bendigedig ei hun, bydded iddo ganiatáu iddynt gyrhaedd y tira ddymunant; a phan ddechreuont siarad am Iesu a'i groes yn y byd newydd, O! bydded i Ysbryd y gwirionedd, yr hwn a arddelodd weinidogaeth yr apostolion ar ddydd y Pentecost, fendithio yn helaeth eu llafur hwythau, er dychweliad miloedd lawer.

Nis gallaf ond cyfiwro y Hong a'i chynnwysiad i ofal tiron ac amddiffyniad Pilot Noa. Cofiwch, y mae Duw Israel yr un yn awr a phan y danfonodd ei ddysgyblyon ar y cyntaf i'r holl fyd. Y mae ei ras a'i allu yr un, ac fe fydd gyda chwi yn mhob ystarm, ac fe'ch dwg yn y diwedd i'r hafan ddymunol. Bydded i heddwch a chydgoriadau, yn felus llywodraethu ar y llywodraethwyr gartref. Bydded i'r cyfarwyddwyr gael eu cyfarwyddo gan Ysbryd y Duw byw.

Yt oedd yn dda genyf glwyed o enau duwinydd dysgedig yn mis Medi diweddaf fod hen ddallbleidiaeth, o'r diwedd, wedi marw, ac wedi ei gladdu. O'm calon, fy anwyf frodyr, yr wyf yn dymuno llawenydd i chwi o'r tro hapus; ond Och! gyda galar yr wyf yn hysbysu i chwi y newydd gofidus—y mae ei ddrychiolaeth yn rhodio yn Nghymru dlawd. Garw na buasech yn ei anfon i waered i'n plith mewn cnawd a gwaed, yna gallasem fod cyn hyn wedi dal aflonyddwr ein heddwch; ond fel y mae, nid oes genym obaith yn y byd y byddwn yn abl i wneuthur hynny byth; oblegid y mae y diweddwr Mr. Edmund Jones wedi dyweyd nad oes bosibl dal, clymu, na charcharu drychiolaethau. Deued hi arnom ni fel y delo; gobeithio o'm calon na fydd iddo groesi yr Hafren i aflonyddu Cristionogion da yn Lloegr byth ond hynny.

Ond rhaid i mi derfynu, gyda dymuno deng mil o fendithion ar y gweinidogion a'r bôneddigion cysylltiedig a'r genadaeth wir ganmoladwy hon. A phe buasai fy llogell i yn werth siarad am dani, buasai i chwi lawn roesaw i wneyd a hi fel y gwnaeth y dorth haidd i'r babel yn ngwersyll Midian, ei throï wyneb i waered, a'i siglo yn dda i'r drysoriaf gyffredinol. Yma nis gallaf lai na sylwi, fod ein sefydliad yn un o'r pethau gorau a'i oed, i brofi o ba ddefnydd y mae ein pobl fawria wedi eu gwneyd. Gweithiwr hwynt yn dda, fy nghyfeillion tei'wng, a rhodded yr Arglwydd i chwi gyfran helaeth o'u duwiau aur, oblegid gwelaf fod eich calonau gonest yn penderfynu eu defnyddio i'r dybenion goreu. Yn awr, i Dduw Dad, yr hwn a garodd bechaduriaid thodion, i Dduw Fab, yr hwn a brynodd bechaduriaid thodion, ac i Dduw Ysbryd Glan, yr hwn sydd yn cymhwyso yr efengyl at galonau pechaduriaid thodion, y byddo cloddyd yn dragywyddol. Amen ac Amen."

Gwel e'm darllenwyr; nad oedd Mr. Jones ei hun wedi ysgrifenu y bregeth hon. Ysgrifenydd hi gan ryw wrandawr mewn llaw fer, mae yn

debygol.¹ Rhwng yr ysgrifenydd hwnw, a'n cyfieithiad ninnau, gall ddy-gwydd fod y dyfynion uchod wedi colli cryn dipyn o ddeiw y pregethwr. Gwyddom y dywed rhai o'n darllenwyr, a gafodd y pleser o'i glywed ei mai dau beth pur wahanol i'w gilydd yw darllen y pigion hyn a gwrandaw gair o enau gŵr ei hunan; eto, hyderwn y gwelir yma yn bur eglur rai o lin-ellau ei gymeriad. Ond pe buasem wedi llwyddo i gael hyd i un o'i breg-ethau goreu, air yn ngair, fel y darfu iddo ei thraddodi, rhy brin y gallasai hyny roddi disgrifiad cyflawn o'r fath bregethwr ydoedd. Nid oes ffordd wedi ei dyfeisio eto, i argraffu nac arlunio, pethau mwyaf nerthol yr areithfa.

Yr ansoddair a gysylltid yn gyffredin â Mr. Jones fel pregethwr, ydoedd, *toddedig*. Felly y dywed y bardd crassus o Bant y celyn am dano, yn ei farwnad penigamp i Daniel Rowlands, yr hon a gyfansoddwyd gan yr hen Williams, ychydig fisoedd cyn ei farwolaeth. Mae yn cyfarfch Nathaniel, mab Rowlands, gan ddywedyd,

"Bydd yn dad i'r *Association*,
 Ac os teimli 'th fod yn wan,
 Ti gai help gwir efengylwr,
 Dafydd onest o Langan,
 Dawdd y ceryg â'i ireidd-dra,
 A thrwy rym ei fengyl fwyn,
 Wna i'r derw mwyaf caled
 Blygu yn ystwyth fel y brwyn."

Y Parch. John Owen, yn ei "Goffad am y Parch. Daniel Rowlands," a ysgrifena, "Hynod dodeddig oedd gweinidogaeth Jones o Langan; ond nid oedd i'w gymharu â Rowlands." Cyfrifid Rowlands yn ddi-gysyllt mewn dyfnder a grymusder gan liaws y Methodistiaid. Gwynt nerthol yn rhuthro ar ei wrandawyr oedd ei bregeth ef; per awel yn eu awyng oedd pregeth Jones. Yn apostol Llangeitho, yr oedd y "llef o'r nef fel llef dyfroedd lawer, ac fel llef taran fawr;" ond yn efengylwr Llangana, yr ydoedd "fel llef telynorion yn canu ar eu telynuau." Sylw Robert Jones, yr henadur synwrygall o Roslan, yn "Nrych yr Amseroedd" am wrthdarych ein buchdraeth ydoedd, "Mr. David Jones, o Langan, a fu yma lawer tro yn hyfryd chwareu tannau telyn auraidd yr efengyl, nes y byddai llawer credadyn llwfr yn barod i lamu o lawenydd." Coffeir yn anghraifft neillduol am dano yn gŵneyd "i'r derw caled blygu fel y brwyn," (fel y canai Williams) yn Llanbedr Dyffryn Clwyd, gerllaw Rhuthyn. Yr oedd Mr. Jones yn pregethu allan ar y ffordd, a daeth haid o erlidwyr o dref Rhuthyn yno, gan feddwl aflonyddu y pregethwr, a rhwystro yr oedfa. Yn flaenor arnynt, yr oedd creadur o gigydd corffol ac ymladdgar. Tostin

¹ Mae yn ymddangos y byddai Mr. Jones yn pregethu yn lled ddifyfyr, neu o'r hyn lleiaf, heb lawer o ragbarotoadan manylaidd. Yr oedd ei galon mor gynnes, ei ysbryd mor barod, a'i ddawn mor rhwydd, fel nad oedd ar ei bregeth oren eisieu wythnos o astudiaeth. Mae amryw sydd eto yn fyw yn caio am dano mewn Cymdeithasfa yn y Bala, yn pregethu yn odiaeth oddiar *Luc* xiv. 17: "Pob peth yn barod." Wrth ddechreu pregethu, dywedai, "Yr wyf er ys rhai wythnosau bellach wedi bod ar gyhoeddiad trwy siroedd y Gogledd yma: ac wedi myned trwy fy holl bregethau; treuliais hwy oll, a daethwn i'r *Association* heb yr un bregeth. Ond erbyn i mi fmed i'w wlad y dim, wele, wele, y mae ganaf non pars. Oafis dastun â digon yddo—y pob peth yn barod." Ac ymlaen âg ef, heb ball gair, na gwendid mater, â'i athrawlaeth yn defnydd fel gwlaw, nes mwydo yn hyfryd yr holl gynnulleidfa.

y bregeth ydoedd y geiriau hyny a ddywedodd swyddogion yr arch-offerwr iad am Grist, "Ni lesarodd dyn erioed fel y dyn hwn." Yr oedd gwedd foneddigaidd, dull serchus, a geiriau melusion y pregethwr; yn rhywng y bechgyn glewion i wrandaw, ac yn ei diffwytho i' erlid; a gorfu i'r ogydd mawr waeddi allan ar ganol y bregeth, "Myn —, ni lesarodd dyn erioed fel tithau chwaith; ni welais ddyn erioed o'r blaen yn gallu fy meistroli mor deg."

Ni zaid i ni haeru, ac ail haeru, fod Mr. Jones yn ddyrn mawr. Y mae ei boblogrwydd trwy Gymru a Lloegr—y dylanwad helaeth oedd ganddo ar y cyfundeb Methodistiaidd yn Nghymru, a'r parch a'r flaenoriaeth a roddid iddo gan weinidogion enwocaf ei oes ef yn Lloegr, yn dywedyd digon ar y pen hwnw. Ond goddefer i ni ddyweyd, er mor uchel y safai yn meddylliau dynion eraill, ei fod yn ddyrn bychan yn ei otwg ei hun. Yr oedd ei enaid wedi ei addurno a gostyngeddwydd dileddyw. Tybia'r rhai o'i gyfeillion yn Morgânwg, fod ei weinidogaeth yn llaf gwresog a nefolaidd, pan ddychwelai adref o'i ymweliadau a'r brifddinas, na phan ddychwelai o Ogledd neu Orllewin Cymru. Anturiai rhai o honynt i "gyngori tipyn" arno ar y pen hwnw; derbyniai yntau eu cynghorion yn addfwyn a gostyngedig. Nid rhyfedd yn y byd fod y gwladwyr diniweid yn myned i dybio peth o'r fath. Yr oedd efe yn ymgymysgu â "dynion mawr" yn y brifddinas, ac yn cael ei barhau a'i ddyrchafu ganddynt; a barnent hwy fod tuedd yn hyny i beri i ddyrnion feddwl yn fawr am danynt eu hunain: meddylient mai effaith felly a gai peth o'r fath arnynt hwy, o ganlyniad penderfynent ei fod yn cael effaith felly arno yntau. Os byddwch wedi bod yn agos at y crochanau, fe fyn rhai dynion eich bod wedi dwyn rhywfain o'r paradu, dywedod eu llygaid yr hyn ddywedont. Yr oedd Mr. Jones yn ddigon gostyngedig i ddal ei ddyrchafu gan enwogion y gwledydd, heb benwanu i ac i ddal darlithiau ei gyfeillion syml gartref ar ostyngeddwydd, heb ddigio. Fel pob dyn gwir ostyngedig, arall, yr oedd yn cael rhyw frwydrau, enbydus â human. "Pan fyddwyf yn curp yr hen adyn yn dda," meddai, "yr wyf yn ei deimlo o fy mewn mor gryf ag erioed. Nis gallaf ei gymharu i ddin ond i ddylluan, yr hon, er ei chael i'r llaw, sydd yn ymladd hyd angen, gan gnoi a chrafu ar wastad ei chefn." Umpaith wrth bregethu mewn cymdeithas, methodd a chael cystal hwy i'r brawd a bregethasai o'r flaen ef: boreu dranoeth yn y gymdeithas neillduol, testun yr ymddyddan oedd "human." Gofynwyd ei feddwl ef i'r mater, "Yn maru i" ebe yntau, "yw mai human yw y peth mwyaf diffaeth o dan y nefoedd. Prip y gallaf agor fy ngenau gan ei ystwr. Nis se wedi bod bron a fy lladd i oddiar ddôc—y mae yn ymderfysgu, yn gweni, yn gwylltu, ac yn diflasu, achos i mi ffiaflu a phregethu cystal a fy mrawd.—Ewch yn y blaen, fy anwyl frodyr, curweh yr hen adyn yn dda, ffangellwch a marwhewch ef, i edrych a fydd iddo ostwng ei ben, a thwra a son." Uawarta, pan yn myned i bregethu i Gaerodor, penderfynodd ddel human gartref ar ei ol. Croesodd yr Hafren heb yr hen gydymaith poenus, a chafodd y pleser o bregethu yno am un Sabboth hebdo; ond ar ddiwedd yr oedfa, cyhoeddodd rhywun fod "Y Parchedig Mr. Jones, Langan, a bregethu." &c. A chan ei fod wedi dywedyd yn mha le, a phia byddai wedi yr hen lanc a adawsai gartref gydag ef yn ddelus yn y pulpud. Yr oedd Mr. Jones yn feddiannol ar y peth a cilw y Saeson intense pwy. Ei adnabyddiaeth drwyddt o ddirwg ei galon ei hun, a'i gymdeithas

barhaus â'r Tad, a'i Fab ef Iesu Grist, oedd dargelwch ei nerth, ei enwog-
rwydd, a'i lwyddiant mawr. Nid oedd y nerthoedd a ganlynai ei weisid-
ogaeth namyn ffrwyth dagrau a theimlad na welai neb ond y Duw
hollbresennol. "Fy anrhydeddwyr a anrhydeddaf fi."

Bu Mr. Jones yn briod ddwywaith. Nis gwyddom pa bryd yr ym-
briododd â'i wraig gyntaf. Nis gwyddom ychwaith i ba deulu y perth-
ynai hi; ond gwyddom ei bod yn wraig rinweddol a ddiwl iawn. Bu yn
ymgeledd gymhwys iddo am lawer o flyneddau. Yn ei orthymdeiraa a'i
symudiadau, cyn dyfod i Langan, yn ei dywydd a'i drafferthion yno, caf-
odd gysuron fil yn nghymdeithas ei anwyl *Sina*. Bu hi farw mewn llawn
hyder fydd ar y 5ed o Awst, 1792, yn driugain mlwydd oed.

Ni chafodd briodi eilwaith heb gyfarfod â somedigaethau. Yn y
flwyddyn 1793, bu ar bwynt priodi âg un Miss Read, merch i'r enwog
feddyg Read, o Bontymael, yn agos i Bontypool, am yr hwn y canodd
Williams o Bant y celyn mor hyfryd. Ymddengys fod dydd y briodas
wedi ei benodi. Bu cymdeithasfa yn Nghaerfili ynghylch yr amser hwn;
meddyliai yntau briodi dranoeth, a dyfod adref o'r gymdeithasfa â Mrs.
Jones gydag ef. Ond er ei fawr syndod, pan aeth i ymddyddan â'r fon-
eddiges, cafodd ei bod wedi llwyr newid ei meddwl—ni fynai briodi ar un
cyfrif yn y byd. Dywed rhai o'r brodyr ag oeddynt yno ei fod "yn ym-
ddangos yn dra isel ei ysbyrd ar giniaw." Pa ryfedd? Ond ni chafodd
y tro gofidus ei rwystro i bregethu yn ardderchog yn y gymdeithasfa. Ei
destun oedd *Ruth* i. 16: "Dy bobl di fydd fy mbobl i, a'th Dduw di fy
Nuw innau." Dywed chwaer Miss Read mai hon oedd un o'r pregethau
rhagoraf a glywodd ganddo ef erioed. Mewn llythyr a ysgrifiodd yn
mhen ychydig fisoedd ar ol yr amgylchiad hwn at y foneddiges isuanu,
dywed, "Er eich bod wedi bod yn Orpah i mi, yr wyf yn gobeithio y gallu-
ogir chwi gan ddwyfod ras i fod yn Ruth i fy anwyl Arglwydd; oblegid yr
wyf yn hyderu yn ostyngedig, eich bod wedi eich priodi am byth âg efe." Yn
mhen rhyw gymaint o amser, priododd foneddiges grefyddol a elyfrifol
a breswyliai yn Manorowen, yn agos i Abergwaun, sir Benfro. Manorowen
fu ei breswylfod o hyny allan, ond parhaodd i ddyfod yn fisol i Langan
hyd ei farwolaeth.

Bu iddo dri o blant o'i wraig gyntaf, dau fab a merch. Yr oedd un o'i
feibion yn offeiriad parchus a chymeradwy. Am y llall, ysgrifennai yn un
o'i llythrau, "Y mae Dan yn Mhenybont, ac hyd yn hyn yn afluwyddian-
nus;" ac yn Mhenybont, ac yn afluwyddiannus, y bu hyd ei fedd. Priododd
ei ferch un Mr. Lewellyn, tyddynwr cyfrifol, a mab iddi hi yw y tra
Pharchedig Ddr. Lewellyn, Deon Tyddewi, a phrifathraw Coleg Dewi
Sant. Boed bendith Duw ei daid ar ei ben ef byth.

Ond dyddiau Mr. Jones a nesasant i farw; a rhyfedd mor ddigyffro y
gwynebai frenin y dychryniadau. "Ni frysia yr hwn a gredo." Dengys
yr ymddyddan canlynol rhwng ei gorff a'i enaid, yr hwn a ysgrifiodd yn
ymyl marw, pa beth oedd agwedd ei feddwl pan dynai i llyn cysgod angeu.
"ENAID. Ffarwel, fy hen gydymaith, babell bridd. Yr wyf yn myned
adref i dŷ fy Nhad, i fod bob amser yn bresennol gyda'r Arglwydd, yr hwn
a'm pwrcasodd â'i werthfawrocaf waed! O y fath bleser! Ni chaf mwyach
fy mlino gan bechod a gofid, na chan faglau y gelyn dichellgar! O y fath
lawenydd fydd hwn! Fe fydd yn llawenydd annhraethadwy a gogoneddus."
"CORFF. Ffarwel, enaid bendigedig. Yr wyt ti yn myned i dragywyddol

haptusrwydd! "O blygfa anwyl! Ni welodd Moses oddiar ben Pisga ddiu tebyg iddi. Ond rhaid i mi aros ar ol, oblegid hyd yn hyn nid wyf ond creadur gwael a llygredig. Rhaid i mi basio eto trwy lwybr budr a chul; ond caf ddyfod i fyny yn y man, a byddaf yn wahanol iawn i'r peth wyf yn awr! Felly y dywed fy mendigedig Waredwr; 1 Cor. xv. 42—44. A! O! cawn gwrdd eto y pryd hwnw. Hapus gyfarfod! Cwrdd heb ymadael mwy! Byddaf pryd hyn yn gydymaith addas i ti i breswyllo gyda mi am byth. Byddaf yn dabernacl dysglaer a gogoneddus i ti breswyllo yn of oesau diif tragywyddoldeb; ie, byddaf yn nerthol, yn ysbrydol, yn gyflym, ac yn abl eyduno â thi yn mofiant fy Naw byth bythoedd. O feddwl hyfryd! Y mae yn fy ngorchfygu yn lân." Yr oedd y gŵr hwn yn marw mewn heddwch âg efe ei hunan, oblegid fod heddwch hyfryd rhyngddo a'r nef.

Pregethodd yn Nghymdeithasfa Llangeitho ddechreu mis Awst, 1810. Ei destun oedd *Ioan* vi. 55: "Canys fy nghinawd i sydd fwyd yn wir, a'm gwael i sydd ddiol yn wir." Dywedir fod miloedd yn hyfryd fwynhau y wled am yr hon y llefarai. Dyma y tro diweddaf y cafodd gyfarfod â'i frodyr ar y ddaear; y mae llawer o honynt erbyn hyn wedi myned ato i'r nefedd. Wrth ddychwelyd adref, pregethai yn y Capel newydd, sir Benfro, oddiar *Essay* i. 18: "Deuwch yr awr hon ac ymresymwn, medd yr Arglwydd, pe byddaf eich pechodau fel ysgarlod, ânt cyn wyned a'r eira; pe cochent fel porphor, byddant fel gwlan." Hon oedd ei bregeth olaf. Cafodd ddybenu ei weinidogaeth gan gyhoeddi cyfoeth maddeuol ras.

Cyrhaeddodd Manorwen ddydd Gwener y 10fed o Awst. Teimlai fod ei ymadawiad gerllaw. Ymwelwyd âg ef ddydd Sadwrn gan y Parch. T. Harries (yn awr o Abertawy). Yn ystod yr ymddyddan âg ef, tynodd allan ei logell-lyfr, a darllenodd *Essay* xlv. 24: "Diau yn yr Arglwydd, medd un, y mae i mi gyflawnder a nerth." Yr oedd wedi ysgrifenu yr adnod felus hon ar ei lyfr oddiar y dydd Iau blaenorol. "Hon sydd genyf, anwyl Harries," ebe fe, "ac y mae yn ddigon i fy nerthu i wynebu y byd arall wrthi fy modd." Yn y prydnewn, dywedwyd wrtho, fod y cyfeillion wedi ei gyhoeddi i bregethu yn Woodstock dranoeth. "Y maent yn éon iawn arnaf," meddai yntau; "ond nid yn fwy felly na'r groesaw; os byddaf yma amcanaf fyned tuag yno." Nos Sadwrn, dywedai wrth un o'r morwynion, "Lettice fach, y mae yma loned y tŷ o weision lifrai y nef wedi dyfod i gyrcu fy enaid tuag adref. Os tarewi wrth rai o'u hesgyll hwy, paid a chymeryd ofn, da merch i." Cyn toriad y wawr, boreu Saboth y 12fed o Awst, 1810, yn bymtheg a thriugain mlwydd oed, bu farw, a dygwyd ef gan yr angelion i fynwes Iesu.

DYWEYD Y GWIR.

OFNI yr ydym nad yw y testun byr, ond pwysig uchod, wedi cael y sylw a deilynga gan ysgrifenyddyr a dysgawdwy'r y bobl. Pan mae y prophwyd Zecharia yn anerch Israel yn enw ei Dduw, dywed, "Fel hyn y dywed yr

Arglwydd, *Dywedoch y gwir bob un wrth ei gymydog.* Pan mae Paul o'r carchar yn Rhufain yn ysgrifenu llythyr at yr Ephesiaid, dyfynna ymadrodd yr Arglwydd, gan eu hannog i ddyweyd y gwir bob un wrth ei gymydog.

MAE GAN DDYN LAWER O BETHAU I'W DYWEYD.

Dyma ei brif nodweddau. Hyn yn benaf a'i gwahaniaetha oddi wrth yr anifeiliaid. Maent hwy yn deuluoedd, ond nis medrant gymdeithas. Fel dynion. Mae y praid yn ddiadellau, a'r colomenod yn heidiau; ond nid ydym yn deall fod gohebiaeth rhwng y naill haid a'r llall. Nid yw adar Cymru byth yn anfon anerth at adar Eloegr, nac adar Lloegr byth yn anfon newyddion at adar Ffrainc a'r Germani, nac adar Ffrainc a'r Germani byth yn anfon newyddion at adar America. Pan y mae Britan y goedwig yn marw ar lân un o afonydd De Affrica, neu pan mae tywysog yr adar yn trengu rhwng clogwyni yr Alpau, nid yw y newyddion galarn byth yn cyrhaedd clustiau y llewod a'r eryrod a gedwir yn garcharorion yn agerdd Prydain. Mae y march yn gyflymach na dyn, a'r behemoth yn gryfach na dyn; ond ni fedrant hwy siarad ac yntresymu fel efe. Mae llawer o anifeiliaid yn tra rhagori ar ddyn o ran geneuau i archwaethu, ffronau arogli, clustiau i gtywed, a llygaid i weled; ond mae rhyw bellerau a'u fesuradwy rhwng eu tafodau hwy a dyfod i fyny a thafod dyn. Gall y blaidd a'i ddannedd lofruddio oen, rhwygo a bwyta ei gnawd, a llusg y gweddill i'w ffau; ond nis medr a'i dafod ddyweyd anwired fel dyn. Gall tafod dyn, yn gystal a thwylo, ddyweyd rheswm, ei ddyweyd yn eglur, wrth bawb, ac yn mhob man.

Mae ganddo beth i'w ddyweyd yn ei deul. Prif fendithon teuluaidd ydnt bwyd, diod, dillad, tân, gwely, iechyd, a chymdeithas. Ni bwrta y chwe' pheth olaf ddim heb y cyntaf, sef bwyd. ac adyn truenus fyddaf meddiannydd y chwe' pheth cyntaf; heb yr olaf, sef cymdeithas. Mae gan y gŵr rywbeth i'w ddyweyd wrth y wraig, a'i wraig rywbeth i'w ddyweyd wrth y gŵr. Mae gan y rhieni rywbeth i'w ddyweyd wrth eu blant, a'r plant rywbeth i'w ddyweyd wrth eu rhieni, ac wrth eu gilydd. Mae gan y meistriaid rywbeth i'w ddyweyd wrth eu gweision, a'r gweision rywbeth i'w ddyweyd wrth eu meistriaid, ac wrth eu cydweiniadogion. Mae llawer iawn o gysuron ac adeiladaeth teuluoedd yn deillhaw o'u hymddyddanion. Gallant ymddyddan wrth weithio, ac y mae ganddynt adegau i ymddyddan wedi gorphen llafur y dydd. Mae un aelod o'r teulu yn cyfrantu gwylodaeth i'r llall, heb ei yspeilio ei hun, ac yn arllwys doethineb i lestr ei fraidd; heb waghai ei un ei hun.

Mae gan ddyn beth i'w ddyweyd wrth ei gymydogion. Cwyna ymfudwyr o eisieu cymydogion yn mharthau anghysbell America, a lleoedd eraill. Y cysur penaf a' ellir ddysgwyl oddiwrth gymydogion yw cymdeithas. Mae un heddyw yn mhen uchaf y cwm yn clywed newydd, ac yn ei hebrwng i'r llall, nes iddo adseinio hyd y pen isaf. Mae yfory im arall yn mhen isaf y cwm yn clywed newydd, ac yn ei hebrwng i'r llall; nes iddo adseinio hyd y pen uchaf. Mae un cyfaill wedi cael cynllun newydd i drin ei faes, esbonia ef i'w gymydog, gan ddadgan ei ragoriaethau. Mae un arall mewn gofid, ac arllwysa ei galon i breswlydd y tŷ nesaf, a dywed hwnw am ryw falm i wella ei glwyfau.

Mae gan ddyn beth i'w ddyweyd wrth ei gydgenedl. Mae rhyw o fathas gan genedl y Cymry a chenedloedd eraill i ddyweyd eu meddybau i'w gilydd nag a fu. Ni wyddai De a Gogledd ond ychydig iawn am eu

gilydd ddau gan mlynedd yn ol. Byddai cenadwr yn awr a phryd arall yn wneud o gan i gam o'r naill i'r llall gan ddwyn gyda hwy ambell newydd a glywent ar hyd y ffordd. Anfonid llythyr i'r un perwyl, a thelid swllt am gludiad hwnw. Ond yn awr y mae y llythyr doli wedi ei ostwng i geiniog, a'r cludiad yn llawer cyflymach. Mae gan y Gogledd ei "Amserau," a'r De ei "Principalities." Mae gan y Gogledd ei "Carnarvon Herald," a'r De ei "Carnarthen Journal." Mae gan y Gogledd ei "Dyst Apostolaidd," a'r De ei "Seren Gomer." Mae gan y Gogledd ei "Draethodydd," ei "Ddysgedydd," ei "Drysorfa," ei "Eurgrawn," ei "Gronni," a'i "Geiniogwerth," ac y mae gan y De ei "Ddiwygiwr," ei "Drysorfa Gymmuleidfaol," ei "Dywysydd," a'i "Haul." Mae y wasg wedi rhoddi benthyg ei genau a'i thafod iddynt, a'r agerdd wedi eu dwyn ar ei hadenydd, wyneb yn wyneb. Trosglwyddant newyddion i'w gilydd bob mis, bob wythnos, a phob dydd. Mae y pethau rhyfedd a gymerant le yn a'r Benfro yn eithaf yn adnabyddus yn sir Fflint; ac y mae y pethau rhyfedd a ddygwyddant yn Môn yn cael eu hadrodd yn Morganwg yn mhen ychydig o'r iau. Mae pethau yn cymeryd lle mewn trefydd na wyddai y rhai a breswylant o fewn dwy filltir ddim am danynt, ac na wyddasai preswylwyr y trefydd eu hunain ddim am danynt, oni buasai y wasg.

Mae gan ddyw beth i'w ddyweyd wrth genedloedd y daear. Mae y Gwyddelod, a'r Ysgotiaid, yn dyweyd eu meddyliau i'r Sais, a'r Sais yn dyweyd ei feddwl iddynt hwythau. Mae yr hyn a gymer le yn Dublin, neu yn Edinburch, yn cael ei ddyweyd yn Llundain yn mhen ychydig o'r iau, ac yn mhen ychydig fynyddau os defnyddir yr *electric telegraph*. Mae yr hyn a ddywedir yn Saesneg yn mhrifddinas y deyrnas hon, heddyw, yn cael ei ddyweyd yn Ffrengig, yn mhrifddinas Ffrainc nos yfory. Mae yr hyn a ddywedir yn iaith Lloegr yn senedd Prydain hono yn cael ei ddyweyd mewn amrywol isithoedd yn holl senedd-dai Ewrop cyn pen yr wythnos. Mae gan y Brydeiniaid lawer iawn o bethau i'w dyweyd wrth yr Americanaid, a'r Americanaid lawer iawn o bethau i'w dyweyd wrth ynt hwythau, ac mewn llai na pythefnos trosglwyddant eu meddyliau i'w gilydd. Ni bydd Brenines Prydain, neu Arglwydd Palmerston, ei gwemidog tramor, ddim yn hir yn anfon gair at Ymherawdwr Rwsia a China, neu braf weidog Twrci. Mae cydweithrediad yr argraffwasg y llythyr doli geiniog, yr agerdd, a'r *electric telegraph*, wedi dwyn yr holl fyd yn gymydogion i fyw yn swm ei gilydd, ac i gyfeillachu. Gellir anfon newydd, a'or gynted, ac yn rhatach i'r brifddinas, nag y gellir anfon at y cymydog a breswylai yr ochr arall i'r bryn.

Mae gan ddyw beth i'w ddyweyd wrth Dduw. Bu gan Dduw beth i'w ddyweyd wrth ddyw. Mae wedi ei ddyweyd yn y Bibl. Dywedodd y gwir bob gair, bob iod, a phob tipyn. A haws i'r "nef a'r ddaear fyned heibio nag yw i un tipyn o'r gyfraith ballu." Byddai yn haws gan Dduw ddileu y nefoedd, a difodi y ddaear, na rhoddi nodyn anghywir uwch ben i wrth ysgrifennu cyfraith ei enau. Mae gan ddyw hefyd beth i'w ddyweyd wrth Dduw. Gymdeithasa, âg, ef ar ei ben ei hup, a phan yn y gyfeillach neillduol. A i siarad â Duw mewn gweddi weithiau i'r ystafell ddirgelaid, weithiau at yr allor deuluaidd, a phryd arall i'r cyfarfod gweddio. A'r ohebiaeth rhyng nefoedd a daear, rhwng Duw a phechadur, yw y ryfeddaf a agorwyd erioed.

MAE EIN GWLAD YN EIN HOBŌ YN EDRYCHWEN A'RACH A'R DDYWEYD Y GWIR. Os edrychw

Ar anwiredd ein masnach. Darlennasom y dydd o'r blaen ym y "*Church Magazine*," draethawd nerthol iawn, gan frodor o Ruthyn, ar "*The Adulteration of Food*." Profai fod braidd yn amhosibl pwrcau amhym duniaeth yn y brifddinas heb ei fod wedi ei lygru. Gwerthir yno beth dan yr enw peillid heb nemawr lwychn o flawd ynddo! A gwerthir yno gamnobddio alwyni o'r hyn a elwir blaeth, heb nemawr ddafn o hono wedi dyfod oddi wrth y fawch! Ac y mae y rhan amlaf o'r defnyddiau a anferir i gymytsgu y pethau hyn yn niweidiol i iechyd! Mae yr hyn a ddywedir ysgrifenydd y traethawd am lygriad tē, coffi, sugr, &c. &c., yn ddigon i yru dyn i ymgyfammodi āg ef ei hun, na fwyty, damaid byth heb ei dderbyn yn uniongyrchol o law rhagluniaeth, dros iddo fyned ati hi i breswyllo ymhlith y coed. Gwir nad oes yma *ddyweyd* anwiredd, ond *gwnar. et.* yr hyn sydd gam pellach mewn drygioni. Nid gwir i gyd a ddywedir mewn masnachdai, bob ochr i'r cyfnewidfeinciau, nac ar ein heolydd ddiwrtoddu ein marchnadoedd. Mae genym ddiobarth o ddymion wedi ymwertho i anwiredd, yn marchnata yn y creadur prydferth y dywed Job am dano, "Dychryn ydyw ardderohgrwydd ei froen. Ei draed a gloddiant yn y dyffryn, ac efe a lawnycha yn ei gryfdr." Buom ym dychymygu fod y meirch yn plygu eu penau mewn cywilydd wrth gael eu *tywys* ym llaw eu masnachwyr i'r farhynadle. Dywedant anwiredd am ychydig o bres, gan wneyd y llw difrifolaf mai gwir yw. Nid ofnant ddim ond y gyfraith. Mae y pethau hyn yn peri i ni lefain, O! anwiredd ein masnach!

Anwiredd ein llysoedd barn. Ebai Solomon, "Mi a welais dan hatl le cyflawnder, yno yr oedd anwiredd." A'r hyn a ddywedai mab Dafydd am ei ddyddiau ef ellir ei ddyweyd eto am ein dyddiau ni: "Gelwir y tyet ymlaen, rhoddir y Bibl yn ei law, a chan gusanu hwnnw, gwna hŵ y dywed y "gwir, yr holl wir, a dim ond y gwir," a chwanaega, "felly, oyanorthwyed Duw fi." Ond aml yr anghofir y llŵ mewn awydd i ennill y ddafl. Mae dadleuwr cyflogedig, a'r mwyaf doniol yn y llyso, yn sefyll i fyny. Mae dolenau ei wig wren brydferth yn chwareu ar ei ysgwyddau. Anfer ei holl fedr i ddangos fod y gwir fel hyn, pan y gŵyr ei fod fel arall. Mae boneddwr arall o'r un swydd ac ymddangosiad yn cyfodi ar ei ol; ac a holl nerth ei hyawdledd yn ceisio profi fod y troseddwr mor ddfai a'r plantyn sugno, pan, fe allai, y mae wedi cyfaddef wrtho ei euogrwydd!

Anwiredd yr argraffoasg. Gan mai siarad yw unig alwedigaeth hon, a'i bod yn cario ei thwyll mor bell, yn ei wasgaru trwy gyanifer o wledydd, ac yn ei drosglwyddo i'r oesoedd a ddaw, mae ei hanwireddau yn lliosocach ac yn fwy pwysig na'r eiddo neb arall. Weithiau, dywed anwir digymysg, bryd arall dywed un ochr y gwir, heb ddyweyd yr holl wir. Mae y naill mor niweidiol a'r llall. Mae cymysgu twyll â gwirionedd yn debyg i gymysgu gwenwyn â'r ymborth danteithiol, er mwyn denu y byd i'w llyâu. Mae y wasg weithiau yn cael ei hudo yn ddarwybod i gamdystiolaethu; ac felly yn cael ei gwneyd yn offeryn diniwed i gario twyll; bryd arall twylla o'i bodd am elw, er dial, neu er mwyn cynnal plaid. Mae rhai o newyddiaduron Lloegr ac America yn ddiareb am eu twyll. Ni ellir credu gair a ddywedant. Onid y papyrâu amlaf eu derbynwyr yn y brifddinas yw y rhai a gyhoeddir ar y Sabbothau, a wadant y Bibl, a ammheuant anfarwoldeb yr enaid, a byd arall, ac a daerant ei fod Ef yn gelwyddog?

Anwiredd ymddyddanion cyffredin. Mae yn ddigon anhawdd gwybod y gwirionedd am y dygwyddiad hynotaf yn ein hymyl! Tybia lluoedd fod ganddynt hawl i ddwyn argraffiad newydd o bob hanes, gyda chwaneigiad o'u heiddo eu hunain. Dywed un fel hyn, a thera y llall fel arall. Nid yw mathru cymeriadau, na chlwyfo teimladau, ond o fychan bwys yn ngolwg mwyafrifo adroddwyr chwedlau. Os drwg fydd y newydd, cymerant arnynt deimlo chros y cyhuddedig, ac er hynny gwnant ef yn waeth nag a fyddai raid. Maent yn debyg i Pilat, yr hwn "gan olchi ei ddwyllaw, a wnaeth âg-ef-gam." Ar ddiwrnod teg, yn y gwanwya, o ardal a adwaenom yn dda, cychwynodd ugeiniau gyda eu gilydd i'r America. Aethant i ben eu taith yn llwryddianus; ond y newydd cyntaf a gyrhaeddodd eu perthynasau a'u cymydogion oedd, fod llestr wedi dyfod i Liverpool yn hysbysu fod y llong wedi suddo, a'r ymfudwyr oll wedi eu colli! Yn mhen ychydig wythnosau, aeth swm trwy'r ardal fod llythyr yn y tŷ a'r tŷ yn sierhau eu bod wedi croesi, ond bod y rhan liosocaf o honnynt wedi marw o'r pla, a'r gweddill wedi dyrysu eu synwyrâu, ac yn y gwallgofdŷ! Ni all anwireddau fel hyn gael eu cyohwyn yn y Gorllewin pell, a ohwyddo fel pelen eira wrth ymdraiglo ar draws y Môr Werydd i Brydain; ond rhaid eu bod wedi eu llunio yn bwrpasol gan ryw un yn y gymydogiaeth.

Anwiredd ein pethau sanctaidd. Onid oes lle i gasglu fod cannoedd o anfyddwyr yn y deyrnas yn gwneyd llŵ, er mwyn elw, eu bod yn credu y "deugain Erthygl ond un?" Dywedant wrth ddyinion mai gwir bob gair yw y llyfr bendigedig, tra y gŵyr Duw a'u cydwybodau hwythau nad ydynt yn credu yr un sill o hono. Gellir cymhwyso at lawer, ymadroddion Pedr wrth Ananias, "Pa ham y llanwodd Satan dy galon i ddywedyd eelwydd wrth yr Ysbryd Glân? Ni ddywedaist gelwydd wrth ddyinion ond wrth Dduw." Nid bob amser y dywedir y gwir yn yr ystafell ddirgel, wrth yr allor deuluaid, yn y cyfarfod gweddi, y cyfeillachau crefyddol, a'r pulpudau! O! anwiredd ein pethau sanctaidd!

Nid yw y pethod yma yn cael ei ddynodi â gwarth fel eraill. Mae y llofrudd, y heidr, a'r godinebwr yn ymguddio; ac os ceir gafael arnynt, plygant eu penau. Gellir weithiau wneyd i'r cablwr, y torwr Sabbothau, a'r meddw, wrido; ond os medr yr anwireddus, drwy ei dwyll, ennill ei amean, ymfrostitia yn ei orchest. Bryd arall mae yn anhawdd iawn cael gafael ar y troseddwr. Mae y naill yn taflu yr anwiredd i'r llall, a phawb yn ei wadu. Bu gan y dorf law yn ei wneuthuriad, ac y mae pob un yn ei ddiarddel. Mae llunio anwireddau yn debyg i adeiladu tŵr Babel. Nid oes neb all roddi ei fys ar yr euog, a dyweyd—Hwn a'i gwnaeth. Mae rhai yn cynllunio, eraill yn eludo defnyddiau, eraill yn tori y sylfaen, eraill yn caboli y meini, ac eraill yn goruwchadeiladu. Mae yr holl frawdoliaeth yn y bai, ac nid oes yr un o honnynt yn euog. Os dysgwylir anrhydedd, medr pawb ei hōni, ac os ofnir gwarth medr pawb ei wadu.

MAWR YW Y NIWED O BEIDIO DYWEYD Y GWIR, NEU O DDYWEYD ANWIREDD.

Mae yn dyrysu cymdeithas. Prif anrhydedd dyn yw ei fod yn medru dyweyd ei feddwl wrth eraill; ond os na ddywed y gwir mae ei ogoniant penaf yn dyfod yn warth. Ac nid oes dim yn fwy dirmygedig yn y llaid na'r pethau prydfertaf yn eu lle. Gwell i gymydogiaeth gyfan gael ei tharo â mudandod, na chael ei gollwng i ddyweyd anwiredd. Pa beth sydd gasach na phetruso wrth bob newydd, heb wybod yn y byd a ydyw yn

wirionedd, na pha faint o hono sydd felly? Am hwy, pob llawer y cyfandir, o'r India, a'r America; a gonfod dyweyd ar ol danllen y newyddiadur, Nis gwna a fedrai ei gredu! Clywed heddyw fod hwydr wedi ei hmyladd yn yr India, a Lloegr wedi small heb gollu nomaith o waed; ond clywed yr wythnos nesaf fod miloedd wedi eu lladd! Clywed y mis yma fod brenines Madagascar wedi marw, crybwyll am ei thmacedigath o hupudau; ond clywed y mis nesaf ei bod yn fyw! Nid oes neb fedr ddostranu hanes, a thynu y gwir oddiwrth yr anwir. Pan mae y byd yn llawn twyll, gwna y gwirionedd yn ddiwerth. Gwell bod heb wybod dim na gwybod y cwbl, ac heb wybod pa beth sydd wirionedd. Ni ddywedwn ai bod fel hyn, ond y mae paidio dyweyd y gwir wrth ein cymydog yn arwain i hyn.

Mae anwiredd yn ym cymydogath. Mae rhai yn gwneud chwedlau, rhai yn eu cario, ac eraill yn eu derbyn. Cynghora Paul Timothy'n beidio a'u derbyn. "Gad heibio halogedig, a gwrachoidd, chwedlau." Wrth gario newyddion drwy y gymydogath yr canllai rhai eu bara. Os na bydd newyddion i'w cael, cymerant eu cenad i'w gwneuthur: ac os na fyddant wrth eu bodd, ac yn ddigol o bwysau, cyfnewidiant hwy, a chwaneगत atynt. Mae y rhai a dderbyniant y newyddau hyn mewn masnach yn fwy dirmygedig a niweidiol na derbynwyr a gwerthwyr eiddo lladrad. Bu llawer o sôn y blyneddau a oethant heibio am ffaglwyf, sef pobl ddrwg yn myned o amgylch yn y nos i roddi eiddo eu cymydogion ar dân. Math o ffaglwyf yw y rhai a ddarlunir. Moesol, ond hyspogl yw y gwreigion a ddygir, a moesol yw yr hyn a losgir. Rhoddasant heddwch llawer cymydogath ar dân—mae yn llosgi er ys deugain mlynedd, ac nis gwyddom a ddiffodda hyd ddydd brawd. Gwneuthurwyr llawer ardal yn bentwynion tân, ac yn bentwr o Indw. Pe yr ymadasai cyfraith y tir mewn troseddwyf moesol, buasai llawer sydd a'u traed yn rhyddion, wedi eu halludio am weddill eu hoed. Ond y mae Duw a faru am droseddau fel hyn.

Mae anwiredd yn felltith deulwaid. Fe allai neiddarfa heb trwy pasodd y ddogor gadw mwy o weision a mprwynion na'r brenin Dafydd; ond ni fynai neb a arferai ddyweyd anwiredd. "Ni thrig yn fy ngolwg yr un a ddywedo gelwydd." Ni chai neb eiriol drosto. Nid oedd na hyawddedd man, nac addunedau y troseddwr, fedrai lwyddo er iddo gael aros diwrnod yn hwy yn ngwasanaeth y brenin. Cai fyned ymaith fel y gyrrir y blaidd o blith yr ŵyn, fel y symudir gwenwyn o gyrhaedd y plant, neu fel y cadwir tân rhag cyffwrdd â llen y gwely. A buasai yna dda i lawer gweithu yn ddwyn yn debyg i Dafydd.

Mae anwiredd yn loches i ddyrgau eraill. Mae'n hwy yn meddwl yn guddio yn nghysgod hwn, fel y gwnaeth Adda ac Efa ymhlith y canau yn ardd. Pan tadodd Cain ei frawd, oesiodd ym guddio yn nghysgod ei anwiredd; gwadodd, gan ofyn, "Ai oedwad fy mrawd ydychi?" Mae y canllad, y lleidr, a'r llofrudd, yn meddwl ym guddio yn nghysgod hwn.

Dyma faint o drygau eraill a gresnai lloedd wrth eu cyflwyni oif yaf fod ganddynt hyd yr hon. Ond er mor deg a sidnaidd yw ochr allan y fantell aml y rhwygir hi yn y byd hwn, nes daw ei hochr chwth i'r golwg, ac y gadguddir ei gwarth a'r ffeidd dra sydd oidi tani.

Llysoedd anwiredd: bobodau eraill yn ei emw. Anwiredd y geilw gair Duw yr holl drygau wedi eu crynhoi ynghyd. "Yn weled ag anwiredd y cadau ar y plant." "Madded fy anwiredd, canys tiawr yw?" "Efe a ddryllwyd am ein hamwireddau ni," &c. Mae cadwyn o'fynyddau yn myned wrth enw yr uchaf o'honynt. Gelwir mynyddau Ffland yn Moel-faniar, mynyddau Arfon yn Wyddfa; mynyddau Switzerland yn Alpau, a'r gadwyn anferth sydd yn Neheudir America yn Andes. Ac felly mae y gair yn galw pob pechod o dan yr enw anwiredd. Fel y llyticir enwau yr holl hentydd yn yr afen, yr holl aberoedd yn yr Hafren, a holl afonydd De America yn yr Amazon; felly yn y Bibl cawn fod anwiredd yn llyncu enwau pechodau y byd oif yn ei enw ei hun.

Mae anwiredd yn dwyn gwog y nef ar y wlad. Pan y byddai Duw yn ffangelfu cenedl, neu yn sefnu ar wlad, dywedai ei fod yn gwneuthur hyn ym ei haniwireddau. Pan yn ostitnawl Israel, dywed, "Pobl ni ddywedant gelwydd." Nesodd Dafydd at Dduw er mwyn cael gwybod pwy bedd ei gyfeillion, a gofynodd, "Arglwydd, pwy a drig yn dy babeli; a phwy a bresywllir yn fynydd dy sancteiddrwydd?" Ebe yntau, "Yr hwn a ddywed wir yn ei galon; ni ddyrchafodd ei feddwl at wagedd, ac ni thynodd i dwylo."

Mae anwiredd y dyn ei hun yn ei attal i greu eraill. Mae dyn drwg yn dueddol i feddwl fod pawb fel yntau. Tybia y dirwestwr sydd yn anffydallawn yw'r mynydd fod pawb fel efe ei hun. Mae y gŵr sydd yn myned yr iulbudau i ddarllen neb i adrodd cyfansoddiadau pobl eraill, yn meddwl nad oes neb gwreiddiol yn yr oes hon; a phrin y cred lleidr fod neb yn onest; ac ni chred y belwyddog fod neb yn eirwir, hyd yn nod Duw ei hun. "Dy dafod a gybbletha ddichell. Eisteddaist a dywedaist yn ebyn dy fraidd, rhoddaist enllib i fab dy fam." Hyn a wnaethost; a mi a dewanis; tybiaist dithau fy mod yn gwbl fel ti dy hun." Nid yw y belwyddog wedi atfer cred i ei ymadroddion ei hun; ac felly mae yn naturiol iddo beidio a chredu Duw, na chredu yn Nghrist.

Chwelon yr ymfydrwydd o geistio dyweyd anwiredd wrth Dduw. Gall yr ymfydrwydd ei fod yn ennill rhywbeth wrth dyweyd anwiredd yn y farchnad, yn ei fasnachedd, ac mewn llysoedd barn. Ond pa gysgod elw sydd mewn dyweyd anwiredd wrth Dduw yn ein cyflawniadau crefyddol? "Yr hwn sydd yn chwilio y calonau a' wyr beth yw meddwl yr Ysbryd." Nid oes modd celu o'i wydd ef. Mae yr un sydd yn twylllo yma yn debyg i blant yn a' dybia ei fod yn ymguddio drwy roddi ei law ar ei lygaid. Mae anwiredd masnach yn ddrwg; mae anwiredd llysoedd barn yn waeth, mae anwiredd y wasg yn waeth fyth, ond y mae anwiredd ein pethau sanctaidd yn fil gwaeth na'r un o'honynt. I ba le bynag yr awn i dwyllo, peidiwr myned i'r gyfeillach grefyddol, at yr allor deufnaidd, nac i'r ysfaell ddfgelaid.

Ddirodd fodd y farn i amlygu y gwir. Adeg fydd hon i bob gweithred ddyfod o'i loches, a dyosg ei mantell. Mae yn hawdd genym ddy-chwyngu mae dydd fydd hwn i edrych ar yr haul yn duo, y loer yn coch,

y ser yn syrthio, y meirw yn cyfodi, y ddaear yn llosgi, a' y mof yn berwi, &c. Ond pethau amgylchiadol y dydd fydd hyn: "Adeg y wybod y gwir am bob peth fydd y dydd hwnw. Ca y rhai a gafodd gam yna yr uniafwr yno. Cyfaddefir yno yr hyn a wadwyd yma. Nid oes neb yn hoff addef yr hyn ddarfu unwaith wadu, yn enwedig ger gwydd tyrfâ fawr." Ond rhaid gwneyd hyny yno. Nid yn unig gwna y Barnwr ddywedyd y gwir, ond gwasgiry y twyllwr i addef y gwir. Y gwir, a'i enau ei hun, yr hwi unwaith a gelwyd, fydd yn peri i'w wyneb lasu, a'i liniau ymguto. Wele, dywedwn bob un gyda'r prydydd—

"Am wirionedd boed fy llafur,
Am wirionedd boed fy llafur,
Nid oes unpeth ond gwirionedd
Saif o flaen ei frawdle Ef:
Gwir wrth fyw, a gwir wrth farw,
Sydd yn drysor gwerthfawr drud;
Arglwydd grasol, o' th drugaredd,
Rho wirionedd in' i gyd."

GWLADGARWCH.

CLYWSOM ddywedyd lawer gwaith, fel y mae gwaetha'r modd, gan benna teuluoedd wrth eu plant, os byddent yn awyddus am wybodaeth, "I'w beth yr ymboeni di, fy machgen, gyda rhyw bethau fel yna? pa lesad yw i ti ddyrysu dy ymenydd gyda llyfrau, a dysgu isithoedd? ni byddant o un cymhorth i ti i drin tir, nac i fasnachu, a thi eiddi fyned i'r neioedd yn burion hebdynt." Dyma oiriau a glywsom lawer gwaith yn Nghymru: Drachefn, dywed llawer gŵr ieuanc nad oes ganddo bas ar wybodaeth, ond yn unig dilyn rhyw oferedd, neu ynte gasglu arian. "Nid yw pethau fel yna o ddim gwerth i mi; y maent yn burion i rai sydd yn cael eu bywiolaeth wrthynt; ond nid oes genyf fi amser i'w dreulio arnynt, ac ni byddant o un dyben i mi. Ni wnant ond tynu fy sylw oddiwrth bethau mwy anghenrheidiol—pethau a ddaw â rhywbeth i mewn," &c. "A os eir at lawer o bobl arianog i ofyn eu cymhorth at ysgolion ac athrofaau, hwy a atebant eu bod hwy wedi gwneyd heb fawr o ddysg eu hunain, a'u plant; ac nad ydynt yn ei weled yr rheswm i gostio i'roddi dysg y dledion i'w codi yn uwch na'u sefyllfa; mai dyna eu barn hwy ar y peth. Os dywedir wrthynt fod gwybodasth yn deilwng i bob peth, ac yn cymhwys dynion i gyflawni holl ddyledawyddau bywyd yn well; dywedant nas gallant weled hyny, ond mai yn unig porthi balehder y mae yn eu tyb hwy. Os dywedir wrthynt hefyd am lyfrau, neu rai o'r cyhoeddiadau gwerthfawr sydd i'w cael yn bresennol, "O!" meddynt, "y mae genym ar eisoes llyfrau lyfrau nag ydym yn ddarlên, ac ni atebant un dyben i ni; hebllaw hyny y maent yn rhy ddrud o lawer—deunaw, a dau swilt, a phum swilt, a'r lyfrau! Onid yw yn wastraff ar arian?" Rto bydd yr un bobl yn talu pum swilt, a saith swilt am gadael gwddf, a phum punt am ddilledyn, a'r a chwech am gadach hogell; prisiau uchel am y brethyn teg, a'r sctan

gogeu, i addurno y corff; ac yn cymeryd byd, da helaethwch beunydd; ond y mae ychydig sylltau am foddion gwybodaeth i addurno y meddwl—y rhan benaf o'r dyn—yn cael eu hystyried yn ormod o lawer. Rhaid i'r owbl fod yn dda i'w fwyta, i'w yfed, neu i'w wisgo, cyn y byddont yn gymeradwy gyda hwy.

Ond trwy drugaredd, nid y fath yma yw pawb sydd yn Nghymru y dyddiau hyn chwaith. Na, y mae yma lawer o fath arall. Y mae yma rieni awyddus am addysg dda i'w plant, a dynion ieuainc yn llosgi gan awydd am bob gwybodaeth, er eu bod yn methu gwybod pa le i droi eu gwynebau am dani yn aml, na pha fodd i'w chael. Ac y mae rhai dynion cyfoethog yn wladgarwyr mwyafrwywir a haelionus yn hyn: rhai awyddus am wneyd lles i eraill, yn gystal a'i dderbyn eu hunain—rhai yn dangos gwladgarwch Cristionogol; a gwynfyd pe gwleam lawer yn ychwaneg o'r rhai hyn: pobl argyhoeddedig o wir werth addysg, a pharod i gynnorthwyo y wlad i'w chael. Dyma ein testun presennol. Ac O! na fedrem ddyweyd rhywbeth arno a gynhyrfai gydymdeimlad dwfn ar y pwnc.

Y mae llawer o swm am addysg ar bob llaw; a'r argraff gyffredinol sydd yn awr yn gweithio ei ffordd yw, fod yn rhaid cael ychwaneg o foddion addysg i Gymru, a hwnw yn llawer rhagorach o ran ei natur na dim fu o'r blaen: y mae pawb yn cytuno yn hyn. Y mae yn bryd i ddechreu gweithio o ddirif bellach, a mynu addysg ryw ffordd neu gilydd. Os na wna y bobl eu hunain ryw ymdrech rymus ar yr egwyddor wirfoddol, ein barn ydyw fod dosbarth lliwsog yn ein gwlad a'i derbyn yn ddiolchgar ryw ffordd arall. Ond nis mynem er dim i ymdrechiau gwirfoddol gael eu hehgos trwy wariaw efferyniolaeth peimannol arall; oblegid ar yr egwyddor wirfoddol, fwy neu lai, dybygem ni, y mae hywyd ac enaid pob addysg yn ymddibynu yn y diwedd. Os na welir ei gwerth yn gymaint fel ag i wneyd ymdrechiau dau, gorehestol i'w chyrrhaedd, ac os na chedwir eithaf cyfrifoldeb rhwng yr athraw a'r dyfgybl, rhwng yr ysgolion a'r wlad, fe syth y swbl yn swan i ryw ffurfioldeb difwyd.

I'r ydym yn meddwl eia bod yn caufod gwawr dydd mwy gogoneddus yn anwyddion yr amserau—yn yr awydd am daenu gwybodaeth yn fwy cyffredinol, am gefndgi oelfyddyd, helaethu masnach, dileu pleidgarwch, a chael sefydliadau mwy rhydd, a meithrin syniadau cyffed mewn tangder a'r byd cyfan. Na fydded i'r ysbryd hwn ddiiflana heb wneuthar rhywbeth teilwng o'r oes a'i cynnyrchodd. Y mae oesoedd a aethant heibio yn esiamplau i ni mewn llawer o bethau; ac er cywilydd i ni y gallir dywedyd fod hyd yn nod paganiaid a Phabyddion wedi rhagori arnom mewn llawer ystyriaeth. Nid yw dyng a chelfyddyd yn wir, mwy na'r byd ei hun, ddina yn bethau mor newydd ag y meddylir yn aml, fel y dengys gwaith hen awilwyr Groeg a Lladin. Am gelfyddyd, y mae yn amlwg oddiwrth hen ulion Ninesaid, fod yddynt bethau teilwng o sylw, nid yn unig y "adinas sawr iawn o daith tri diwrnod," ond teilwng o sylw Groeg hefyd, fel hysawr o gaurifoedd wedi hyny. Nid oes dim rhyw agendor mawr rhyngddynt a gwaith Phidias ei hun. A phwy deithiwr a allodd sefyll erioed i edrych ar gysgodau hirion y colofnau sydd eto yn addurno Athen, pan y mae yn haul yn machludo yn mayg llewyrchiadau tyner eu gogoniaf amrydiw, heb deimlo cynhyrfadau athrylith y bobl enwog a'u cyfododd? Fwy all edrych ar hen fagwrydd y Colosseum, yn eu hurddas mawrhydol a wisgwyd am danynf gan amser, neu dda fantell y nos, ac

wrth oleu y lleuad, heb droi gyda theimladau dwfn o barchedigaeth at fawredd aruthrol y dynion ag y maent yn dwyn ar gof i ni eu hadfeiliad a'u ewymp? Felly bydded i ninnau weithredu fel ag i beri i oesoedd dyfodol ryfeddu wrth edrych ar ryw arwyddion arosol o enwogrwydd ein gwlad a'n cenedl. Oblegid y mae chwyldroadau yn perthyn i amser—y mae terfyn i fod ar bob peth daearol—diwedd i bob enwau, ac urddas, a chyfoeth, a phob mawredd daearol—ond y mae rhywbeth annherfynol yn perthyn i ddyn, a rhyw ddymuniaid canmoladwy ynddo am anfarwoli ei oes trwy goffâu yr hyn sydd anfarwol o'i fewn.

Cofiw'n hefyd nad oes gwir fawredd, gallu, na rhinwedd yn bod heb wrteithio cynneddfau goreu y natur ddynol; ac y mae yn ddyledsdydd ar lywodraethau i gydnabod hyn, ac ar y bobl i edrych am ei ddwyn ymlaen. Yn mysg y dosbarth anwybodus, yn ddiau, y mae mwyaf o afradloniaid a drwgweithredwyr yn bod. Y mae meddwl haelfrydig a goleuedig yn debycach o gydnabod bai a'i adael, na'r meddwl pwl, hurt, cyfyng, di-deimlad, yr hwn sydd yn ceisio gorphwysdra iddo ei hun mewn cyffelyb dywyllwch a gwendid. Y mae athrylith ac awen yn tueddu i fyny tua'r nefoedd, a chan ysgwyd pob sorod daearol oddiwrth ei hedyn, y mae yn ymddysgleirio fel y mae yn esgyn at ffynnonell doethineb, gwirionedd, a goleuni. Y mae ein coelbren ni, trwy drugaredd, wedi syrthio mewn amser ag y mae mwy o gydnabod gallu moesol gwybodaeth nag a fu erioedd, a mwy o'i choleddu oblegid ei dylanwad ymarferol, ac nid o herwydd ei gwerth fel meddiant personol yn unig. Y mae sefyllfa Prydain yn mysg cenedloedd y ddaear y fath ag sydd yn galw am ryw orchestion penodol i gynnal i fyny ei chymeriad. A pha beth yw gogoniant uchaf Prydain ond ei rhagoriaeth mewn gwareiddiad a moesau? Clod Pericles oedd iddo adeiladu y Parthenon, a'i fod yn amddiffynwr ac yn noddwr Phidias; ond yr oedd ei ymddygiad at Cimon, a llygredigaeth cyffredin ei fywyd, yn duo ei gymeriad. Ymfrost Augustus oedd iddo gael Rhufain yn briddfeini, a'i gadael yn farmor; eto nid oedd ei glod ef ond rhyw orchudd i guddio ei weithredoedd bradwriaethus yn ei ieuencid. Balchder Lorenzo oedd iddo addurno Florence, cefnogi celfyddyd, ac adfywio llênnyddiaeth, bod yn gyngorwr i dywysogion, a barnu rhwng teyrnasoedd, bod yn gyfaill i Politian, Mirandola, a Michael Angelo; ond nid adferodd i Florence ei rhyddid a anrheithiasai, a chefnogodd anfoes y bobl trwy ei esiamplau drwg ei hun. Os oedd teyrnasiad Louis XIV. yn urddas i llênnyddiaeth Ffrainc, ac yn gefnogaeth i bob dawn a chelfyddyd, er hyny yr oedd efe yn diraddio llênnyddiaeth drwy y gweniaith oedd yn ei ofyn, ac yr oedd yn darostwng y celfyddydau drwy eu defnyddio i goffâu y rhyfeloedd yr oedd ei uchelgais ef wedi achosi, ac athrylith eraill wedi eu hennill. Ond y mae ein sefyllfa a'n hoes ni fel cenedl yn gofyn i ni wneyd nid yn unig cystal ag eraill a fu o'n blaen, ond yn llawer gwell, ac oddiar ragorach dybenion. Dylem fod yn wladgarwyr, nid o falchder fel Pericles, nac o gyfrwysdra fel Augustus a Lorenzo; ond o uwch dybenion, ac mewn dull mwy anrhydeddus. Yr oedd yn weithred anrhydeddus yn ngolwg Napoleon i osod â'i law ei hun y goron a ennillasai ar ben ei briod; ond byddai yn llawer mwy anrhydeddus i ryw wladgarwr Cymreig goroni ei wlad â buddygoliaeth hiedychol gwybodaeth ar anwybodaeth ac anfoes; ac y mae buddygoliaethau moesoldeb yn fwy mawreddog a gogoneddus na buddygoliaethau Austerlitz a Waterloo. Mae yr amser yn dyfod pan y telir mil mwy o barch i

goffadwriaeth amddiffynwyr gwybodaeth a rhyddid yn ein gwlad, nac i holl wroniaid milwrol y byd. Dyma y gwladgarwch penaf, os nid yr unig wladgarwch, a'r tebycaf o dynu bendith y nefoedd arnom, i roddi parhad i'w effeithiau.

Yn awr, beth yw yr achos fod can lleied o'r Cymry mewn swyddau o urddas yn ein gwlad, ac yn rhagori yn y celfyddydau a'r gwyddorion? Ai anghymhwysder naturiol ydyw, neu ddiffyg dysg a gwybodaeth, neu ynte a oes rhyw hawlfraint gan y Saeson i deyrnasu arnom a'n cadw fel isafiaid iddynt hwy yn mhob peth? Tybiwn mai esgeulusdra y genedl ei hun ydyw i raddau mawr. A phawb sydd yn gwir garu eu gwlad, ac yn dymuno ei llwyddiant, bydded iddynt ddyfod allan i gynnorthwyo yn effeithiol y sefydliadau sydd genym eisoes at roddi dysg i'r genedl, ac i ychwanegu rhifedi y cyfryw sefydliadau ar frys, fel y gallo y Cymro ddal i fyny gydymdrech anrhydeddus â'r Sais ac eraill, yn lle cilio o'u blaen yn mhob sefyllfa, masnach, a chelfyddyd. A oes neb eto o foneddigion gwir Gymroaidd ag sydd yn caru llwyddiant eu gwlad a'u cenedl a ddaw allan fel Thomas Phillips, noddwr y sefydliad yn Llanymddyfri, i sefydlu rhai cyffelyb yn amlach drwy y wlad? A oes neb yn y Dywysogaeth eto am wneyd iddynt eu hunain enw mewn gwaith mor dda, ac am anfarwoli eu cenedl hefyd trwy ei chynnysgaethu â'r unig foddion sydd arnynt eisieu yn bresennol i'w gosod ar ogyfuwch tir ag un genedl dan yr haul? Diau nad oes diffyg athrylith a thalentaau yn ein mysg; a bod genedl fantais ar eraill yn ansawdd ein haddysg grefyddol. Ai nid pan oedd crefydd fwyaf ei bywyd a'i grym yn Lloegr, yr ymddyrchafodd y wlad i annibyniaeth meddwl, enwogrwydd llênnyddol, rhyddid, a llwyddiant masnachol, mwy nag un genedl fu o'i blaen? Paham na byddai felly ar Gymru? Onid oes rhyw anghysondeb yn rhywle? Beth yw ffrwyth yr holl gynhyrfaadau crefyddol a welsom yn Nghymru? Onid oes eisieu gwled rhagor o gariad a gweithredoedd da yn ei ganlyn—rhagor o wladgarwch Cristionogol yn cael ei ddangos tuag at y trigolion? Oni fu Cymru yn ddyledus am ei diwygiadau crefyddol mawrion, a'i llyfrau crefyddol, i ddynion o ddysg, fel Charles o'r Bala, Williams o Bantycelyn, Rowlands o Langeitho, a'u cyffelyb? Ac os ydyw yn ddyledus i wŷr o ddysg am gymaint o'i breintiau, pa fodd na ddangosai ei chydabyddiaeth trwy ddwyn i fyny gyfryw ddynion drachefn, a darparu moddion addysg yn helaeth, i edrych a wel yr Arglwydd fod yn dda godi y fath ddiwygwyr eto? Pa ymdrechladau a wneir gan yr Ymneilldŵyr efo hyn? A ydynt yn ystyried yr hyn sydd wedi ei wneyd yn ddigon? Nac ydynt, gobeithio. A oes yn eu mysg ddim personau a all roddi eu cannoedd a'u miloedd at achosion addysg? A adawnt hwy i Eglwyswyr fyned o'u blaen yn hyn? Na wnant, gobeithio, rhag cywilydd. Tybiwn fod digon o lwydd a bendith wedi bod ar eu llafur eisoes gyda eu hathrofaïau i'w cefnogi i fyned ymlaen yn fwy haelionus.

Yr hyn sydd arnom ei fawr eisieu yn bresennol yw manteision addysg dymmorol, fel na byddo raid i ni roddi lle i'r Saeson, na chywilyddio arddel ein gwlad; a defnyddio ei hadnoddau i'n mantais ein hunain. Yr oeddem ni, yr haf diweddaf, yn myned o Lundain i sir Fôn, ac ar y ffordd o Gaer i Fangor, yr oeddem yn cael ein temptio i feddwl fod y Cymry i gyd wedi dianc i rywle, a gadael eu gwlad i'r Saeson; oblegid Saeson oedd o hyd yn llywodraethu o amgylch y ffordd haiarn yn mhob man. Yn y cerbyd hefyd, yr oedd amryw bersonau yn dyfod o Lundain ar y pryd i

osod eu hunain mewn masnachau ar hyd ymyl y ffordd; yr oedd dau o honynt yn myned i un o brif drefi sir Gaernarfon i'r dyben hyny. Os gofynid pwy oedd yn byw yn y palasau ar hyd ymyl y ffordd, Saeson, neu ryw estroniaid oeddynt bron i gyd. Pwy sydd yn meddiannu ac yn llywodraethu ein gweithfaoedd yn y De a'r Gogledd? Saeson, ac estroniaid. A dyma fel y bydd cenedloedd eraill yn cael y blaen arnom yn y cwbl, ac yn myned a'n gwlad i gyd o'n dwylaw yn fuan, oni chydymdrechwn â hwynt, ac oni feithrinir mwy o ysbryd cyhoeddus, anturiaethus, a chenedlaethol yn ein mysg.

Gwelir mai yr hyn y ceisiwn alw sylw ein darllenwyr ato yn benaf y tro hwn, yw yr anghenrheidrwydd am gyfleusderau addysg i ddynion ieuainc wedi tyfu i fyny, nid i blant yn unig. Dynion ieuainc o'r canol a'r iselradd yn enwedig. Dyma y dosbarth sydd dan fwyaf o anfanteision, fe allai, yn ein gwlad. Y mae ambell i Gymro wedi dringo rhiwiau serth enwogrwydd a defnyddioldeb drwy ei lafur blin a'i ddyfais ei hun; a mawr yw y parch sydd yn ddyledus iddynt. Ond gwyddom mai trwy gymhorth eu cyddynion y mae y rhan fwyaf yn gallu cyrhaedd dysg a defnyddioldeb. Nid ydym mewn un modd am leihau ymdrech personol, na gosod dysgreidiaeth ar dir isel. Dymunem yn hytrach weled pawb ag a allo yn gorfod talu yn ddrud am dani—byddent yn debycach o'i gwerthfawrogi; ac nis gellir dysgwyl cael athrawon da am gyflog isel. Ond ar yr un pryd, y mae yn hysbys fod ugeiniau o ddynion ieuainc talentog yn ein gwlad heb gymaint a modd ganddynt i gynnal eu hunain yn yr ysgol, chwaithach talu am eu dysg—dynion ieuainc parod i wneyd pob aberth, parod i ddyoddef hyd yn nod eisieu eu bara beunyddiol er mwyn cyrhaedd gwybodaeth; rhai ydynt yn treulio eu nosweithiau mewn darllen a myfyrto, yn lle cysgu, ac yn gweithio yn galetach y dydd i geisio arbed rhyw gymaint o arian i'w gwario drachefn am addysg a llyfrau. A oes neb a dosturia wrth y fath yma? Onid o blith y cyfryw rai y mae llawer, os nid y rhan fwyaf, o enwogion y byd wedi cyfodi? Ond y mae llawer wedi colli eu hiechyd, tori eu calonau, a marw o herwydd y newyn eneidol hwn.

“Y mae'r gemau a'r perlau puraf, goren 'u lliwiau is y llo'r,
Dan y tdnau 'n gudd rhwng creigiau, yn nyfnderoedd mawr y môr;
Ac mae'r blodau teca'u lliwiau, lle nas gwelir byth mo'u gwawr,
Ac yn taenu 'u peraroglau, lle na sylwa neb mo'u sawr.”

Y mae genym rywbeth yn rhagor, cyn terfynu, i osod ger bron ein darllenwyr, teilwng o'u sylw, fel anghraifft nodedig o gydymdrechiad, a gwladgarwch diffuant o blaid addysg i'r werin. Y mae yr hyn a ganlyn wedi ei gyfieithu o “*Chambers' Journal*” am Mehefin, 1849:—

“ATHROFA Y BOBL (*People's College*) YN SHEFFIELD.

Mae y gair *college* yn cael ei gysylltu yn ein meddwl â rhyw adeiladan mawrion, addysg ddard, a phob rhyw fanteision cyfatebol. Ond rhaid i'r fath sefydliad a enwir uchod fod ar delerau tra gwahanol cyn y byddo yn cyfateb i amgylchiadau y ‘bobl’—y dosbarth ag sydd hyd yma wedi methu cael tori eu syched am wybodaeth wrth y ffynnon ddrudfawr. A gwelwn pa fodd y mae y ‘*People's College*’ yn Sheffield yn ateb y dyben hwn.

Mewn sefydliadau a elwir *Mechanics' Institutes* (y rhai a fwriadwyd i'r dosbarthiadau gweithiol) nid oes dim ond y cangenau elfenol o wybodaeth yn gyffredin yn cael eu dysgu, megys darllen, ysgrifennu, rhifyddiaeth, &c. Y mae y gweithiwr, gan hyny, ar ol myned dros y pethau hyn, yn cael ei dafu yn ol ar ei adnoddau ei hun. Nid oes un sefydliad ar ei gyfer ef, lle y gall dderbyn hyfforddiant yn y cangenau uwch o wybod-

seth, yn cyfateb i'w amgylchiadau; ac os ceisia fyned ymhellach ymlaen yn llwybr addysg o gwbl, rhaid iddo wneuthur hyn gartref, ac yn nghanol llawer o rwystrau ac anfantelision. Oddeutu saith mlynedd yn ol, darfu i foneddwr, yr hwn oedd ar y pryd yn weinidog gyda'r Annibynwyr yn Sheffield, gymeryd at ei ystiriaeth y diffyg hwn yn addysgiaeth y wlad; ac wedi darlith barotoawl, agorodd sefydliadau o'r fath i'r bobl, gan ei alw *People's College*, yn mha un, heblaw yr addysg a roddir yn gyffredin i grefftwyr, yr oedd dosbarthiadau i ddyysgu gramadeg, mesuronïaeth (*mathematics*), rheosymeg (*logic*), cyfansoddi (*composition*), areithyddiaeth, &c., heblaw Groeg a Lladin, ac ieithoedd eraill diweddarach.

Yr oedd y sefydliad hwn mewn gwirionedd yn ysgol berthynol i'r gweinidog ei hun; ac aeth trwy amryw brofedigaethau ag sydd yn dygwydd i anturiaethau o'r fath: ac yn y cyfamser yr oedd Mr. Bayley yn ei dwyn ymlaen ei hun yn bersonol, gyda chyn-northwy rhai o'r efrydwyr penaf fel is-athrawon. Ymddengys, modd bysug, i'n gohebwyr, i'r hwn yr ydym yn ddyledus am yr hanes yma, fod yn amlwg nad yw y dosbarth gweithiol ddim mor ddifater ag y meddylir eu bod am y cangenau uchaf o wybodaeth, nac yn eu tybied yn anghyrhaeddadwy iddynt. Cafodd Mr. Bayley wedi hyn alwad i fyned i Lundain gan gynulleidfa oedd mewn eistieu gweinidog ar y pryd, a gadawyd yr athrofa i ymdaro drosti ei hun.

Yn awr, dyma y rhan fwyaf dyddorawl o'r hanes. Ymgyfarsa y prif-efrydwyr â'u gilydd i ymgynghori pa beth i wneyd: yr oeddynt i gyd yn unfrydol a chryd eu barn fod yr athrofa yn hynod o gymhwys i roddi addysg i'r isganol a'r iselradd o bobl. Mewn gair, penderfynwyd gan y dynion ymroddgar ac ymdrechgar hyn i ddwyn y gwaith ymlaen eu hunain; a chefnogwyd hwynt mor zelog gan y bobl, fel ag y derbyniwyd dros gant o enwau meibion a merched ieuainc ar unwaith: yr oedd hyn chwe' mis yn ol, ac y mae yn cynnyddu yn raddol, nes ydyw y nifer yn bresennol yn gant a phedwar ugain yn wythnosol.

Yn awr, sylwed y darlennydd ar hyn, oblegid yn hyn y gorwedd prif ddyddordeb y peth. Y mae yr athrofa yn parhau o hyd i fod dan lywyddiaeth deuddeg o'r efrydwyr yn unig, y rhai a ddewiswyd yn bwyllgor i'r achos, ac y mae y personau hyn mor hunanymwadol yn eu llafur, fel y maent, nid yn unig yn rhoddi eu hamser a'u dawn am ddim at wasanaeth y sefydliad, ond hefyd yn talu yr un peth a'r efrydwyr eraill, sef chwe' cheiniog yr wythnos, a swllt y chwarter. Hyn yw y cwbl o'r draul at gynnal yr athrofa—ni dderbyniwyd cymaint ag un swllt erioed fel rhodd; ac heblaw y deuddeg hyn, ni bu yr un athraw arall ganddynt, ond yn unig un boneddwr ag sydd yn dysgu Ffrancaeg a'r Ellmynaeg.

Er mwyn cael drychfeddwl am y rhywogaeth o bobl ag sydd yn dwyn ymlaen y sefydliad hunangynnalol a hunanlywodraethol hwn, dyma awgrym am eu gorchwylion beunyddiol, sef y cyfeisteddod llywyddol ac athrawol:—*one master shoemaker, one steel refiner, two brushmakers, one banker's clerk, one tailor, one grinder, two fender-makers, one caster, one cooper, one ironmonger*. Mae y rhai hyn oll yn hŵr-weithwyr, oddigerth y crydd a'r ysgrifydd ariandyol. Y mae ein gohebwyr yn un o'r cyfeisteddod, Mr. Isaac Jackson, gwrychellydd (*brushmaker*), ac y mae ef yn terfynu ei lythyr fel hyn:—'Fy unig amcan yn yr hysbysiad hwn yw rhoddi cyfleusdra i chwi i arfer eich dylanwad i gymhell pobl ieuainc trefydd eraill, i fyned a gwneyd yr un modd. Yr hyn a wnaed yn Sheffield a ellir ei wneuthur mewn manau eraill hefyd.'

Y dull mwyaf effeithiol i arfer dylanwad mewn peth fel hyn, yw yn unig ei wneyd yn gyhoeddus. Yr ydym ni erioed wedi sefyll dros wir urddas ac annibyniaeth y dosbarth gweithiol: a thyma anghraifft hynod o'r adnoddau sydd yn feddiannol ganddynt yn eu mysg eu hunain. Bu amser pan ag y buasid yn cyfrif y fath beth ag athrofa i'r bobl, fel yr hon a ddesgrifwyd uchod, yn freuddwyd ofer, a phenboethni gwag; ac felly y buasai mewn gwirionedd, tra byddai y fath grediniaeth yn ffynu. Ond er gwaethaf yr ymgeisiadau ffol a wnaed lawer gwaith i ddarbwylllo y llafurwyr nad allant wneyd dim o honynt eu hunain, eu bod yn golledig heb ofal tadol cyfoeth ac awdurdod, ymddengys fod argyhoeddiad iachus yn cymeryd lle yn eu meddyliau fod yn rhaid iddynt hwy eu hunain ymladd eu ffordd ymlaen, a gweithio allan eu tynged. Yr ydym yn gobseithio y taenir hyn ar led, ac y bydd i'n darllenwyr adsain y naill i'r llall, ac iddynt eu hunain, eiriau ein gohebwyr—'Yr hyn a wnaed yn Sheffield a ellir ei wneyd eto mewn manau eraill hefyd.'

Dyma y cwbl ag oedd yn "*Chambers' Journal*" ar y mater hwn. Ond y mae genym ni ryw Beth yn ychwaneg i'w ddyweyd ar y pwnc erbyn hyn. Dywedodd y golygwyr parchus mai y dull mwyaf effeithiol iddynt hwy i

arfer eu dylanwad oedd rhoddi cyhoeddusrwydd i'r hanes a gawsant o Sheffield. Y mae eu geiriau wedi eu gwirio, oblegid dygwyddodd i'w cyhoeddiad clodwied ddyfod i law gŵr boneddig gwladgarol yn Itali, yr hwn oedd wedi myned yno o dref Norwich, er mwyn ei iechyd; ac wedi iddo ddarllen yr hanesyn uchod, cynhyrfwyd ei deimladau gwladgarol gymaint fel yr anfonodd fil o bunnau (1000*p.*) yn uniongyrchol i'r Parch. R. S. Bailey, F.S.A., i Lundain, gyda dymuniad iddo sefydlu "*People's College*" yn Norwich, ei dref enedigol ef, ar yr un cynllun a'r sefydliad yn Sheffield, ond fod iddo gyflogi athrawon galluog arno. Y mae hyn wedi ei wneyd, a'r "*People's College*" yn Norwich yn bresennol mewn llawn waith a llwyddiant. Dyma foneddwr gwir urddasol. A oes neb o'r fath yn Nghymru ag y gallwn ninnau anturio ei anerch yn ngeiriau "yr hwn oedd yn myned o amgylch gan wneuthur daioni," a dywedyd, "*Dos ditheu a gona yr un modd?*"

DOLENAU Y GADWEN.

Yn ein herthygl flaenorol, yr hon a ystyriem fel rhagymadrodd, ni a gymerasom olwg gyffredinol ar y gadwen ryfedd hon—yr olyniad apostolaidd. Cymerasom gipdrem arni, fel y mae wedi ei gosod wrth ei gilydd, gan y dyn pechod, yn ddau gant a thriugain a phedair o ddolenau, heb gyfrif Pedr; canys methasom weled fod y gadwen hon yn bachu yn y "gareg" hōno o gwbl. Ond gan fod y Pabyddion, y Puseyaid, a'r Uchel-eglwyswyr, y rhai oll sy'n cydymddadleu dros olyniad apostolaidd, yn haeru mai Pedr oedd esgob cyntaf Rhufain, byddai yn briodol i ni ddechreugydag ef, ar ei ben ei hun, cofier; ac odid na wnawn allan i eithaf bodlonrwydd nad yw efe i'w gyfrif yn un o'i dolenau, ond yn nychymyg—yn ymenyddiau dyrasedig yr holl Babyddion a Hanner-Pabyddion Lloegr a Rhufain.

Simon Pedr, *alias* Cephas, a anfonwyd gan yr apostolion eraill, gyda Ioan, o Jerusalem i Samaria, i gynnorthwyo Philip, yr hwn oedd yno yn pregethu Crist (*Act.* viii. 14). Yno y daeth i adnabyddiaeth â, ac y gwrthwynebodd Simon Magus, ac oddiyno efe a ddychwelodd i Jerusalem (*actn.* 25). Yna efe a aeth ar led i ymweled a chadarnhau yr eglwysi; ac yn ei ffordd, daeth i Lyda (*pen.* ix. 32), lle yr iachaodd Eneas o'r parlys, ac oddi yno i Joppa, lle y cyfododd Tabitha o farw yn fyw, ac wed'yn a arosodd yno lawer o ddyddiau gyda Simon, barcer. Yno y cafodd y weledigaeth am y llenllian, a'r creaduriaid glân ac aflan ynghyd (*pen.* x). Oddiyno, trwy gyfarwyddiad neillduol yr Ysbryd, efe a aeth at Cornelius, yr hwn, gyda'i deulu a'i gyfeillion, a fedyddiwyd ganddo; wedi hyny efe a ddychwelodd i Jerusalem yr ail waith (*pen.* xi. 2). Yno, wrth gael ei holi am ei waith yn myned at y cenedloedd, y mae yn rhoddi atebion boddhaol. Wedi hyny, y mae yn cael ei gymeryd a'i garcharu gan Herod Agrippa, ond yn cael ei ryddhau gan angel (*pen.* xii. 3—17). Nid ydym yn cael dim o'i hanes mwy, hyd nes y cawn ef yn y cyngor yn Jerusalem

(pen. xv. 7). Oddiyno efe a aéth i Antiochia, lle y mae yn cael ei geryddu, yn ei wyneb, gan Paul, am ei ansefydlogrwydd (pen. xvi. 30; Gal. ii. 14). Iba le yr aeth ar ol hyny nid yw yr ysgrythyr yn mynegu—yn unig y mae genym ddau epistol o'i eiddo; y cyntaf, fel y tybir, o Babilon; a'r ail, yn yr hwn y mae yn crybwyll am epistolau Paul, fel y rhai y gellid, o gamddeall, wneyd camddefnydd o honynt; ac nid ydym yn deall iddo adael ar ei ol ddim ychwaneg na'r ddau epistol hyn, yr hyn sydd yn gryn ddadl yn erbyn cydiad y gadwen ynddo ef.

Dyna grynodeb byr o hanes Pedr, cybelled ag y mae Actau yr Apostolion, &c., yn ein gwarantu i'w gasglu. Yn awr, yr ydym yn gwneyd haeriad, sydd yn bwysig iawn i wŷr y gadwen—*na fu Pedr erioed yn esgob, o leiaf yn Rhufain*—yr hyn a brofw'n. Dywed Archesgob Cranmer, "Nid yw yn sicr i St. Pedr erioed fod yn Rhufain."¹ "Y mae y dysgedig iawn Flaccius," meddai Powell,² "yn tystio ei ammheuaeth, a fu Pedr erioed yn Rhufain; a'r dysgedig Zanchius, a diwygwyr enwog eraill, wedi dangos digon i wneyd i bob ymofynydd diragfarn ammheu ar y pwnc." Dywed y Parch. T. H. Horn, yn ei "*Introduction to the Critical Study of the Scriptures*,"³ fod St. Paul wedi ymadael o Rufain yn gynnar yn y flwyddyn 63, pryd yr oedd yn amlwg nad oedd St. Pedr wedi cyrhaeddyd yno; canys pe buasai y ddau wasanaethwr enwog hyn i Grist wedi cyfarfod á'u gilydd yn y ddinas hõno, buasai St. Paul yn crybwyll am dano yn rhai o'i epistolau a ysgrifennodd yno tua diwedd ei garchariad."⁴ Yr Epistol at y Rhufeiniaid a ysgrifennwyd, fel y tybir, oddeutu y flwyddyn 58, yr hon oedd y bedwerydd i'r Ymherawdwr Nero. Yn niwedd yr Epistol hwn y mae yr apostol yn anerch Epenetus, Mair Andronicus, Junia, Aplias, Urban, a nifer eraill, wrth eu henwau (pen. xvi. 1—15). Yn awr, nis gallwn dybio am fynydd, pe buasai Pedr yn Rhufain, y pryd hwnw, y buasai ei enw ef yn cael ei adael allan o'r rhestr; ac eto, yn ol yr ysgrifennwyr Pabaidd, nid yn unig yr oedd yn Rhufain y pryd hyny, ond yn esgob yr eglwys hefyd. Yn sicr, y mae yn anmhosibl llyncu y tamaid hwn o gegin y Pab; canys buasai yn sarhad adael enw Pedr allan o restr mor liosog o anerchiadau—myned heibio iddo ef, a chofio am eraill lawer islaw iddo! Nis gallwn feddwl y buasai ei "anwyl frawd Paul" yn euog o'r esgeulusdra hwn chwaith.

Ond yn ychwanegol at y rheswm hwn, gallwn sylwi yn ngeiriau Dr. A. Clarke, "Fod holl rediad yr Epistol at y Rhufeiniaid yn gwneyd yn rhesymol meddwl nad oedd y Cristionogion yno, hyd yn hyny, wedi cael y budd o bresennoldeb ac addysgiadau St. Pedr. Ysgrifennodd St. Paul bedwar neu bump o epistolau yn ystod ei ddwy flynedd o garchariad yn Rhufain, yr hyn a dybir a ddiweddodd yn ngwanwyn y flwyddyn 63, sef y rhai hyny at yr Ephesiaid, Philipiaid, Colosiaid, a Philemon, yn y rhai nid yw gymaint a chrybwyll am St. Pedr, ac nid oes dim ohwaith yn cael ei ddywedyd ag y gellid casglu oddiwrtho iddo ef fod erioed yn Rhufain."⁵

Gellir ymresymu yn erbyn y gred i Pedr fod yn Esgob Rhufain, nid yn unig oddiwrth rediad yr Epistol at y Rhufeiniaid, fel y sylwa Dr. Clarke,

¹ "Burnett's History of the Reformation:" llyfr ii., O.C. 1534.

² "Apostolical Succession:" tudal. 107.

³ Cyf. ii. tudal. 490.

⁴ Cyf. ii. tudal. 608. nod. Argraffiad cyntaf.

⁵ "Rhagymadrodd i Epistolau Sant Paul."

ond hefyd, ac yn enwedig, oddiwrth yr amddiffyniad a welodd yr apostol yn anghenrheidiol ei wneyd dros ei waith yn peidio ymweled â Rhufain:—“Ni fynwn i chwi fod heb wybod, frodyr, i mi yn fynych arfaethu dyfod atoch, ond fe'm lluddiwyd hyd yn hyn” (*pen. i. 13*). Pe buasai Eglwys Rhufain wedi cael ei hanrhydeddu â llafur apostol mor enwog a Phedr, ni buasai anghenrheidrwydd i'r ysgrifenydd wneyd y fath amddiffyniad, ac ni buasai chwaith yn gyson â'r gostyngaidrwydd hwnw oedd mor amlwg i'w weled yn nghymeriad yr apostol. Ond ymddengys nad oedd Rhufain, hyd y pryd hwn, wedi cael ei hanrhydeddu â gweinidogaeth neb o'r apostolion; a thra thebygol fod rhyw ddynion anffafriol i Gristionogaeth wedi awgrymu fod y campwyr hyn yn yr achos Cristionogol wedi cadw eu hunain heb ymweled â Rhufain, rhag ofn i'r efengyl, yr oeddynt hwy yn ei phregethu, fod yn analluog i ddal i'r ymchwil mawr, a beirniadaeth lem y fath ddysgedigion ag oedd yn mhrifddinas yr ymherodraeth. Arweiniodd hyn yr apostol i sicrhau yr eglwys, yn nechreu ei lythyr, mai nid o ddiffyg tuedd, eithr o ddiffyg cyfleusdra, yr oedd heb ymweled â hwynt o'r blaen; ond nid allasai fod sail i'r fath awgrymiad a hwn, pe buasai Pedr wedi pregethu yr efengyl yn Rhufain; ac ni buasai anghenrheidrwydd am ddim fel amddiffyniad gan Paul, ei fod heb ymweled â Rhufain yn gynt.

Ond y mae yn eglur nad oedd Pedr yn Rhufain yn amser merthyrddod Paul yno, yr hyn, yn ol y prif draddodiad, a gymerodd le ar y 29ain o Fehefin, 66. Gan fod yr apostol yn deisyf ar Timothëus ddyfod ato cyn y gauaf (2 *Tim. iv. 21*), y mae yn debygol i'r epistol hwn gael ei ysgrifenu yn mis Gorphenaf neu Awst, 65. Nad oedd Pedr wedi bod yn Rhufain cyn hyn sydd amlwg oddiwrth gŵyn yr apostol—“Yn fy ateb cyntaf ni safodd neb gyda mi, ond pawb a'm gadawsant.” Yn awr, ni allasai yr apostol ddyweyd hyn os oedd Pedr yno ar y pryd, oddieithr i ni dybied i Pedr fod yn euog o lwfrdra gwael a gwrthgiliad, tebyg i'r un y bu yn euog o hono pan y gwadodd ei Arglwydd. Os dywedir mai at “amddiffyniad cyntaf” Paul y mae hyn yn cyfeirio, pan y dygwyd ef ger bron Nero y waith gyntaf, yn y flwyddyn 62 neu 63, dengys nad oedd Pedr yn Rhufain yr pryd hyny; ac y mae y geiriau canlynol yn profi nad oedd yno yn awr:—“Bydd ddiwyd i ddyfod ataf yn fuan; canys Demas a'm gadawodd, gan garu y byd presennol, gan fyned i Thessalonica; Crescens i Galatia; Tutus i Dalmatia; *Luc yn unig sydd gyda mi:*” 2 *Tim. iv. 9—11*. Nid allasai yr apostol ddyweyd, “*Luc yn unig sydd gyda mi,*” pe buasai Pedr, apostol yr enwaediad, yn Rhufain. Gan hyny, gallwn anturio dyweyd, heb ofni ein gwrthddywedyd, na fu Pedr yn Rhufain cyn merthyrddod Paul, tua'r flwyddyn 66.

Yn ychwanegol at y tystiolaethau a roddwyd genym yn y dechreu, yn erbyn y dybiaeth fod Pedr wedi bod erioed yn Esgob Rhufain, gallwn enwi Scaliger, Salmasius, Frederick Spanheim, ac eraill. Amddiffynwyd yr un tu i'r ddadl yn gadarn gan Cave, Esgob Pearson, Le Clerk, Basnage, ac yn enwedig gan Lardner, yr hwn a ddangosodd yn eglur na fu Pedr erioed yn Esgob Rhufain. Y mae y dyb fod Pedr wedi bod yn esgob yn Rhufain, yn cael ei gwrthbrofi yn anatebadwy gan Dr. Barrow, yn ei “*Draethawd ar Uwchafiaeth y Pab,*” yr hwn a gynnwys y gyfrol gyntaf o'i waith.¹

¹ Gwel “*Horne's Introduction:*” cyf. ii., tudal. 608., n6d.

Taera y Pabyddion y bu Pedr yn esgob yn Rhufain tua phedair ar ddeg neu bymtheg o flyneddau, pan yr ysgrifennodd Paul ei epistol at yr eglwys hño; ond yn sicr, nis gellir credu hyn. Fod i epistol mor llawn, yn cynnwys swm a sylwedd y grefydd Grigionogol, ac hefyd amddiffyniad nad oedd ef ei hun wedi ymweled â'r ddinas hño, yr hyn yn sicr a fuasai yn bell o'i le, os bu "apostol yr enwaediad" yn weinidog sefydlog iddynt gyhyd o amser; ac yn terfynu gyda nifer o anerchiadau at bersonau anghyhoedd—aelodau yr eglwys, yn wrywod a benywod—tra na ddarfu *umcaith* gymaint ag *emci* Pedr, yr esgob—sydd, gallwn ddyweyd, heb yr ofn lleiaf o gael ein gwrthddywedyd, yn anmhosibl, yn enwedig pan gymerom i ystyriaeth arferiad y dyddiau hyny, pan y byddai bugeiliaid yr eglwysi yn cael eu parchu a'u hanrhydeddu yn ol eu teilyngdod gan bobl eu gofal. Y saith epistol at eglwysi Asia anfonwyd at y saith angel neu brif fugeiliaid yr eglwysi hyny. Ac er i epistolau Barnabas, Ignatius, Clement, a Pholycarp, gael eu hanfon at wahanol eglwysi, y mae cyfeiriad arbenigol a mynych yn cael ei wneyd yn mhob un o honynt at yr esgob. Dywed Ignatius, wrth ysgrifenu at y Smyrniaid, "Gwelwch am eich bod yn dilyn eich esgob fel Iesu Grist, y Tad. Na fydded i neb wneyd unrhyw beth perthynol i'r eglwys ar wahan oddiwrth yr esgob. Lle bynag y byddo yr esgob, yno bydded y bobl hefyd. Ond nid yw yn gyfreithlawn bedyddio na gwneyd cariad-wledd heb yr esgob."¹ Pan gymerom y pethau hyn oll i ystyriaeth, gallwn, tybygem, ddywedyd yn hyderus, nad oedd yn bosibl fod Pedr yn Rhufain, yn enwedig yn esgob yno, pan ysgrifenyd yr Epistol at y Rhufeiniaid. Ac y mae yr un sylwadau, agos gyda'r un grym hefyd, mewn cyfeiriad at yr Epistolau at Timothëus, a'r eiddo Paul at yr Ephesiaid, &c., y rhai a ysgrifennodd pan yn Rhufain.

Na fu Pedr erioed yn Esgob Rhufain sydd eglur, ac y mae yn ddadleuadwy a fu efe yn Rhufain o gwbl. Y mae llawer o enwogion o bob tu. Braid y tueddem ni, er hyny, i dybied y bu; er na bu ond ychydig amser cyn ei farwolaeth, pan oedd yr eglwys wedi cael ei ffurfio e'r llawer o flyneddau, ac mewn sefyllfa flodeuog, pryd yr oedd yn rhaid iddo ei chael yn gyflawn yn ei swyddogion. Ac nis gallwn dybied am fynyd y buasai yn diswyddo llywodraethwyr yr eglwys er mwyn cymeryd y llywodraeth arno ei hun. Diammhau, fel brawd ar ymweliad, y derbyniasid ef yn llawen, a buasai ei dyb yn cael llawer o bwys yn nhrefniadaeth amgylchiadau yr eglwys yn ystod yr amser byr y gallasai fod yn eu plith rhwng ei ddyfodiad yno a'i ferthyrdod. Y mae cydsyniaeth llais hynafiaeth yn tystio i Pedr ddyoddef merthyrdod yn Rhufain, ac nid oes sail ddigonol i wadu hyn. Mae yr hyn a fu agos yn grediniaeth gyffredinol yn mhob man, gan agos bawb, o—a dyweyd y lleiaf—amser boreu iawn hyd yr amser presennol, ar y pwnc hwn, yn debyg iawn o fod yn wir. "Nid yw achos Protestaniaeth," meddai Milner, "mewn anghen am gymhorth ammhenaeth afresymol. Y mae hanes merthyrdod Pedr yno yn gorphwys ar sail ddigon cref; sef, cydsyniad llais hynafiaeth."² Nid oes dim yn fwy cyffredin, wrth geisio ysgoi un eithafedd, na rhedeg i eithafoedd gwrthwynebol. Y mae y Pabyddion, y Puseyaid, a'r Ucheleglwsywyr, mewn trefn o gynnal eu tyb hoff o olyniant apostolaidd—o gadwen ddidor o

¹ "Wake's Epistle:" tudal. 116.

² "Milner's Church History:" cyf. i., tudal. 60.

esgobion, yn gafaelyd yn Pedr, yn Rhufain—wedi rhoddi Pedr yn aghafwr esgobol yr eglwys hōno am bump ar hugain o flyneddau, am yr hyn nid oes ganddynt gysgod o awdurdod; ac y mae rhai Protestaniaid wedi eilio i'r eithafedd arall: ond, fel y mae yn gyffredin, rhwng y ddau eithafedd y mae gwirionedd i'w gael. Yr ydys yn gwadu, yn groes i'r Pabyddion, fod Pedr wedi bod yn esgob yr eglwys hōno; er y gallwn, yn ddiaberygl, ganiatāu—gydag agos gydsyniad gyffredinol hynafiaeth—idde ymwedol & Rhufain ychydig amser cyn ei farwolaeth, ac yno seio y gwirionedd d'i waed.

Y mae llywod-ddysg fydol eglwysig yn dyfod i mewn i'r apostoliaeth. Yr ydym yn casglu hyn, nid am fod disgyriad y pabau yn yr Eglwys Orllewinol yn fwy sicr neu yn fwy cywir nag eraill, eithr yn fwy hynod. "Os na ellir olrhain yr olyniant trwy y pabau," meddai Isaac, "nis gellir ei gwneyd allan o gwbl; oblegid nid oes olyniant rheolaidd o esgobion o'r apostolion hyd yr amser presennol mewn un eglwys arall."¹ Ond ym-ddengys Dr. Hook—cawr mawr y blaid Ucheleglwysig neu Babaid—yn awyddus iawn i'w berswadio ei hun a'i ddarllenwyr, nad oddiwrth Eglwys Rhufain y mae Eglwys bresennol Lloegr yn disgyn, ond mai Eglwys Rhufain sy'n disgyn oddiwrthi hi. Meddai efe, "Eglwys Loegr, yr eglwys hōno i'r hon yr ydym ni yn perthynu, yw yr hen eglwys gatholig; yr hen a blannwyd yn wreiddiol yn y wlad hon; ond nid cynt na'r ddoeddegfed flwyddyn i Elizabeth, wrth wrandaw ar gynghorion y pab, y darfa iddynt, y catholicaid, adael yr eglwys, a furio sect newydd, oddiwrth yr hon y mae yr *ymneilldiwyr Pabaid presennol* wedi disgyn. Cosier yn wastadol mai y Pabyddion Saesoneg a *ymwahanodd oddiwrthym ni, ac nid nym oddiwrthym hwy*—nid nym a aeth allan oddiwrthym hwy, eithr hwy oddiwrthym ni. Hwy a adawsant Eglwys Loegr, oblegid y meddyliaant ddarford i eu hesgobion ddiwygio gormod—dyfod yn rhy Brotestanaidd." Ond beth, gellir gofyn, yw dyben y *doctor* yn hyn oll? Wel, i gadw yn glir, pe gallasai, oddiwrth "olyniant pabau," a pherswadio ei hun a'i ddarllenwyr, mai y diwygwyr, beth bynag, ydoedd sylfaenwyr Eglwys Loegr; "canys," meddai efe, "ni wna dim ond anwybodaeth eithaf eiarad am danynt hwy fel sylfaenwyr—sefydlwyr neu blaawyr Eglwys Loegr *oeddynt esgobion*, a ordeiniwyd gan esgobion eraill, yn hollol fel y mae yn awr—y mae y rhestr wedi ei chadw yn ofalus a rhagluniaethol o'r dechreuad. Yr esgobion a'u hordeiniodd hwy a ordeiniwyd gan esgobion eraill, ac felly yn ol i'r apostolion, y rhai a ordeiniasant yr esgobion cyntaf, a hwythau wedi eu hordeinio gan Grist." Haeriad disail hollol yw mai "esgobion a ordeiniwyd gan esgobion eraill" oedd y dynion hyny a fuont yn offerynau anrhydeddus i blannu Cristionogaeth yn yr ynys hon, canys dywed Dr. A. Clarke, fod "hen gerfiad wedi rhoi achos i rai dysgedigion gredu, mai gan foneddiges Gristionogol o'r enw Pompenia, gwraig Plantius, un o faeslywyddion yr ymherodraeth Rufeinig, y dygwyd yr efenngyl gyntaf i Brydain." Y mae hyn, a dyweyd y lleiaf, yn eithaf tebygol; neu gallasai gael ei dwyn gan ryw enciliwr tlawd erlidiedig am nodded yma; canys y mae yn deilwng o sylw, fod yr efenngyl wedi lledanu ymhall ac agos trwy hyny yn yr oes apostolaidd. Yn gyson & hyny y sicrhau ni o

¹ "Ecclesiastical Claims."

² "Sermon on 'Hear the Church.'"

berthynas i'r erledigaeth o achos Stephan—"I'r eglwys oedd yn Jerusalem gael ei gwasgaru ar led, ac hyd gwledydd Judea a Samaria, ond yr apostolion—A'r rhai a wasgarwyd a dramwyasant gan bregethu y gair:" *Act. viii. 1-4*. Drachefna, dywedir, "A'r rhai a wasgarwyd o herwydd y blinder a godasai ynghylch Stephan a dramwyasant hyd yn Phenice, a Cyprus, ac Antiochia, heb lefaru y gair wrth neb ond wrth yr Iuddewon yn unig. A'r rhai o honynt oedd wŷr o Cyprus ac o Cyrene, y rhai oedd wedi dyfod i Antiochia, a lefarasant wrth y Groegiaid, gan bregethu yr Arglwydd Iesu. A llaw yr Arglwydd oedd gyda hwynt: a nifer mawr a gredodd, ac a drodd at yr Arglwydd:" *Act. xi. 19-21*.

Ond dywed Dr. Hook, fod rhestr dolenau y gadwen wedi eu cadw "yn ofalus a rhagluniaethol;" ond gan na welodd yr athraw dysgedig yn dda dyna allan y gadwen, a'i dangos i ni ddolen yn nolen, a chan na welodd yr un o'n croniciwyr, hen na diweddar, yn briodol ddyweyd eu bod hwy wedi ei gweled, rhaid i'r *doctor* a'i bleidwyr oddef i ni ddyweyd na allwn gymeryd ei air noeth ef ar y fath bwn, yn enwedig gan ei fod ef yn sylfaenu cyfreithlonrwydd ei weinidogaeth ef a'i frodyr ar eu bod yn ddolenau yn y gadwen. Diau os yw y gadwen yn ddiror a difwlch ganddynt, y dylent ei dwyn allan, er boddlonrwydd, i ammheuwyr; ac yr ydym yn tuaddu i dybio pe gwyddent yn mha le i'w chael, y caem hi, fel y dangosid i ni eu bod hwy wedi eu hanfon gan Grist, a bod ganddynt hawl i weithredu yn ei anw. Os na allant hwy, y Puseyaid a'r Uchel-eglwyswyr, ei dwyn allan, o esgob i esgob, neu o archesgob i archesgob, yn Eglwys Loegr, rhaid i ni ei dilyn ar hyd olyniant y pabau yn Eglwys Rhufain; ac os hōno yw y gadwen y maent hwy yn cydio eu perthynas weinidogaethol â'r apostolion, y mae iddynt gyflawn roesaw o hōno, gyda'i holl rŵd, ei chaner, a'i budreddi. A rhaid mai dyna yw ei llinell, oblegid y rheymau canlynol.

Yr oedd yr esgobion Brytanaidd wedi eu tori ymaith, neu ymgorffori yn llinell yr esgobion Rhufeinig yn fuan wedi i'r Pab Gregory anfon Awstin, y mynach, i'r wlad hon. Canys pan na allai gael yr esgobion Brytanaidd i'w gydnabod ef fel eu huwchradd, na chydsynio i gadw y Pasg fel yr oedd Cristionogion Rhufain yn gwneyd, na mabwysiadu traddodiadau Pabaidd eraill ag yr oeddynt hwy yn eu harferyd, "torodd ei ysbryd awdurdodol allan," medd Milner, "a thystiodd gyda bygythion, os na dderbyniant heiddweh gan eu brodyr, y byddai raid iddynt ddysgwyl rhyfel oddiwrth eu gelynyon; ac os na phregethent air y bywyd i'r Saeson, y dyoddefent farwolaeth oddiar eu dwylaw." Yr un fath hefyd yw yr hanes a ddyru Bede, yr hanesydd mynachaid, yr hwn a chwanea, "fod pethau wedi dygwydd fel y rhagddywedodd Awstin." Pa can belled yr oedd gan y prophwyd ei hun law yn nghyflawniad ei brophwydoliaeth, y mae dadl ymhllith haneswyr. Pa fodd bynag, yn fuan wed'yn ymosododd Ethelbert, brenin Northumberland ar y Brytaniaid, gyda byddin gref, ac nid yn unig a ddystrywiasant y milwyr, ond hefyd a labyddiasant y mynachod diarfaeu, y rhai wedi treulio tri diwrnod mewn ympryd ac addoliad, oeddynt wedi cyfarfod mewn maes ychydig bellder oddiwrth y fyddin, i weddio am lwyddiant i'w cydwladwyr yn erbyn y gormeswyr. Lladdwyd oddeutu deuddeg cant o'r mynachod diamddiffyn hyn; a chyflawnwyd prophwydoliaeth Awstin fel yna. Nid yw haneswyr Brytanaidd yn petruso cyhuddo y prelad uchelfrydig hwnw, ddarfod iddo gymhell Ethelbert i ddwyn oddi-

amgylch yr ymosodiad. Y mae Esgob Jewell, wrth amddiffyn ei amddiffyniad, yn dadleu y pwnc yn deg a llawn; ac wedi dwyn amryw hen ysgrieffeuwyr ymlaen fel tystion, y mae yn terfynu trwy ddywedyd, "Ymddengys oddiyma ddarfod i Awstin, nid yn unig gynneu y rhyfel creulawn hwn, ond ei fod hefyd yn fyw ac yn bresennol yn y fyddin." Pwy bynag a fu yn achos o'r lladdfa greulawn hon, y mae yn wiredd diwad ddarfod i'r esgobion Brytanaidd a'r Eglwyswyr gael eu tori ymaith yn gyffredinol, a'r ychydig a ddiangodd a orchfygwyd ac a lyncwyd i'r gadwen Babaidd, fel y mae yn anmhosibl i'r Dr. Hook, na neb arall o urddasolion eglwysig Lloegr i olrhain eu hawdurdod oddiwrth yr apostolion, ond ar hyd cadwen y pabau.¹

Drachefn, yn y fuddygoliaeth Normanaidd, darfu i'r gorchfygwr, yr hwn oedd yn ofni ymddiried yn yr esgobion Saesoneg, ddiswyddo llawer o honynt, a llenwi eu hesgobaethau âg eglwyswyr a ddaeth trosodd i Ffrainc gydag ef; y rhai i bob bwriad ac amcan oeddynt yn aelodau o'r cyfundeb Pabaidd, ac yn ddarostyngedig i awdurdod a llywodraeth eglwysig y pab o Rufain. "I gyflawni hyn yn rhwyddach," meddai Henry, "efe a gytunedd â'r pab i anfon cenadau i Loegr, i reoli amgylchiadau yr eglwys, yr hon a haerai efe oedd yn annhrefnus iawn. Darfu i ddau oruchwyliwr y pab, Ioan a Phedr, dau gardinaliaid, a Hermanfride, Esgob Sion, gynnal ymgynghorfa o offeiriad Saesonig, yn mhresennoldeb y brenin, yn Winchester, yn nyddiau y Pasg, A.D. 1070, yn yr hon y cafodd Stigand, Archesgob Canterbury, Agelmere, Esgob Norwich, ac amryw o aelodau Seisonig eu diswyddo ar liaws o wag esgusion. Mewn cynghorfa arall, a gynnalwyd yn Windsor, yr un flwyddyn, ar y Sulgwyn, cafodd Agelric, Esgob Chichester, a rhai chwanaeg o'r abadau Saesonig eu diswyddo; ac arferwyd y fath greulondeb, fel y dychrynodd Esgobion Lincoln a Durham gymaint fel y gadawsant eu hesgobaethau, gan ffoi i Scotland. Erbyn hyn, trwy y diswyddo, a'r encilio, a marwolaethau llawer o esgobion Saesonig, yr oedd llawer o brif uchelswyddau yr eglwys yn wag, y rhai a gyflawnwyd gan berthynasau, cyfeillion, a chydwladwyr Pabyddol y brenin tramor hwn—y gorchfygwr. Gwnaed Langfranc, abad Leon, a Thomas, canon Bayleux, yn Archesgobion Canterbury ac York, tra y rhoddwyd Walkelin, Walkerine, Herefact, Stigand, Pedr, Herman, a Bemegius, oll yn Normaniaid, ar esgobaethau Winchester, Durham, Norwich, Chichester, Litchfield, Salisbury, a Lincoln."²

Yn sicr, gwaith ofer a fyddai ceisio cael olyniant, ond yn nghadwen y pabau; canys dywed Henry wrthym, ddarfod i'r archesgobion hyny "*fyned i Rufain y flwyddyn gyntaf ar ol eu hapwyntiad i'w hesgobaethau, i dderbyn eu ffyn crwca,*" neu mewn geiriau eraill, i gydnabod eu hymostyngiad i'r pab, ac eu bod yn dal eu swyddau o tano ef. Er mor chwithig y gall fod i deimlad yr Ucheleglwydwyr, rhaid iddynt, naill ai rhoddi i fyny eu hawl yn yr olyniant, neu foddloni i gydnabod fod y gadwen yn cael ei gwneyd i fyny o babau Rhufain, ar hyd cannoedd llawer o flyneddau, am y rhai y dywed Howell, ac yntau hefyd yn offeiriad, fod llawer o honynt yn "anghenflod echrslonaf mewn natur," ac am y rhai y dywed "Homiliau ein Heglwys," eu bod "yn meddiannu ysbrydoliaeth diafol yn hytrach nag ysbrydoliaeth Duw." Mor wahanol yr oedd yr ysgrieffeuwyr uchod yn

¹ "Milner's Church History:" cyf. iii., tudal. 61, 2.

² "Henry's History:" cyf. iii., tudal. 180.

siarad am y pab a Phabyddiaeth i'r hyn y mae llawer o Eglwyswyr ein dyddiau ni. "Nid oedd y duwinyddion hyny oedd cyn y diwygiad," meddai Dr. Hook, "yn ymlynu wrth gyfeiliornadau Rhufain *yn euog o heresi*, canys yr oeddynt yn athrawiaethau ag yr ydym ni (er y diwygiad) wedi ymwrthod â hwy, oddiar gyfeiliornad mewn gweithred yn unig. Tybiasent hwy eu bod yn athrawiaethau dadguddiedig, a chan hyny darfu iddynt hwy, mewn ffydd, yn ostyngedig eu derbyn; ninnau, o'r tu arall a sierhasom nad oedd yr athrawiaethau hyn wedi eu dadguddio, a chan hyny, trwy yr un ffydd, a'u gwrthodasom hwy; felly y mae, mai yn ol yr un egwyddor y darfu i aelodau Eglwys Loegr weithredu, cyn ac wedi y diwygiad. Dywedent hwy, ac yr ydym ninnau yn dyweyd yr un peth yn hollol, beth bynag sydd wedi eu dadguddio, na wnawn ni amheu ond credu. Ond am y peth ynddo ei hun, pa un a ydyw yr athrawiaeth hon neu arall wedi ei dadguddio, yr oeddynt hwy yn llai gofalus na ni yn awr—ni, y rhai ydym, fe allai, yn cyfeiliorni o du gormod gocheliad."¹ Gyda y fath gydymdeimlad serchiadol y mae y duwinydd Protestanaidd hwn yn llefaru am gyfeiliornadau y Pabyddion. Y mae yn tueddu i feddwl ei fod ef ei hun yn cyfeiliorni agos gymaint a hwythau, canys os "oeddynt hwy yn llai gofalus na ni," fel ag i ganiatâu addoliad delwau, trawsylweddiad, cymundeb âg un rhyw yn unig, cyffesu yn y glust, gwasanaeth mewn iaith ddeyithrol, &c., hyny a fu oblegid iddynt hwy feddwl fod yr holl "athrawiaethau hyn wedi eu dadguddio," ac yn ffurfio rhan o'r dadguddiad a roddodd Duw i ni. Ninnau, trwy ryw *hap locus*, a gawsom "sierwydd nad yw yr athrawiaethau hyn yn ddadguddiedig; ac felly yn ol yr un egwyddor ag oedd yn effeithio arnynt hwy i'w derbyn, yr ydym ninnau yn eu gwrthod." Yr unig wahaniaeth, yn ol addefiad Dr. Hook, rhyngddo ef a'r Pabyddion yw, eu bod hwy yn "llai gofalus nag yr ydym ni yn awr," yr hyn nad yw ond cyfeiliornad amgylechiadol mewn opiniwn. Tybient hwy fod yr holl athrawiaethau uchod yn ddadguddiedig, ac am hyny hwy a'u derbyniasant hwy ar ffydd noeth—*druain dduwiolion diddichell!* Gwelwn nad yw y gwahaniaeth rhwng yr Ucheleglwyswyr a'r Pabyddion yn wahaniaeth egwyddor, ond amgylechiad—yr un egwyddor yn llywodraethu y ddwyblaid; ac y mae y Puseyaid mor barod i gymeryd rhan o'r bai, os bu bai hefyd, ac ydynt i roddi y bai ar y Pabyddion, "canys, meddai efe, "yr ydym ni, fe allai, yn cyfeiliorni o du gorofal;" ac felly, os na bu y Pabyddion yn llawn mor ofalus ag y dylasant fod, wrth addef yr athrawiaethau o drawsylweddiad, ac eraill, buom ninnau, fe allai, yn rhy ofalus. Os ydynt hwy wedi addef gormod, yr ydym ninnau yn addef rhy fach; os buont hwy yn rhy grediniol, buom ninnau ry amheuol. A dyma yr athrawiaeth sy'n cael ei phregethu yn y capel breninol, gan gapelwr Protestanaidd, yn nghlyw Brenines Brydain a'i theulu! Dim rhyfedd, pan y mae y gwahaniaeth rhwng Protestaniaid a Phabyddion yn cael ei wasgu i ddim ond "cyfeiliornad amgylechiadol yn unig," fod y Pabyddion yn llawenychu yn hyn fel arwydd ffafriol i ddychweliad Eglwys hereticaidd Lloegr i fynwes ei mam-eglwys Rhufain, a bod iddi gael ei chefnogi i ddwyn allan ei holl nerthoedd i ddwyn ei phlentyn crwydredig yn ol.

Yn awr, ni a ddarnodwn beth o Homiliau Eglwys Loegr, y rhai, y dywed yr erthyglau, a ddarfu i'r Puseyaid a'r Ucheleglwyswyr roddi eu dwylaw

¹ *Sermon*: tudal. 6.

wrthynt, yn tystio eu bod yn cynnwys "athrawiaethau duwiol a iachusol, ac anghenrheidiol i'r *amserau hyn*;" a'r rhai y mae y gweinidogion i'w darllen yn "ffyddlawm ac eglur yn yr eglwysi, fel y deallo y bobl."¹

Y mae yr Homili ar Wrthryfelgarweh yn rhoddi darluniad ofnadwy o'r "cyfeiliornadau amgylehiadol" hyn, a gyflawnwyd gan y pabau—y rhai, trwy "anwybodaeth o air Duw, trwy yr hyn y cadwasant bawb, yn neillduol y bobl gyffredin, a'u gweithio i ddwyn oddiamgyleh yr holl bethau hyn (gwrthryfel); gan wneyd iddynt gredu fod pob peth a ddywedent hwy yn wir, a phob peth a wnaent yn dda ac yn dduwiol; a bod dal fel hwynt yn mhob peth, hyd yn nod yn erbyn tad, mam, tywysog, gwlad, a phawb, yn hollol rinweddol." "Ac yn yr anwybodaeth hon y cadwodd esgobion Rhufain bobl Dduw; yn enwedig trwy gadw oddiwrthynt air Duw, a'i gadw tan orchudd tafodiaith ddeythr; a rhag i'r bobl ddyfod i wybod gormod, ni chaent gymaint o air Duw a'r Deg Gorchymyn, yn llawn a pherffaith; gan dynu oddiwrthynt yr ail orchymyn, ac felly yn bradychu eu hannuwioldeb a'u cysegr-ladrad." Trodd esgobion Rhufain anwybodaeth y bobl i'w mantais eu hunain, canys am *gonfirmio* archesgob i dderbyn am ryw gerpyn, dim gwerth deuddeg ceiniog, gynnifer a hyny o goronau aur; ac i esgobion eraill i dderbyn arian lawer am eu *bulls*, yr hyn sydd yn *simoniaeth* yn wir: â phethau fel hyn y mae esgobion Rhufain wedi gorlifo Itali a Germani âg afonydd o waed Cristionogion, a dywalltwyd gan ddeiliaid anwybodus gwrthryfelgar—"fel nad oes wlad o fewn cred, nad yw hi trwy y moddion hyn a'r cyffelyb wedi ei lliwio â gwiaed ei deiliaid, y rhai a gynhyrwyd gan esgobion Rhufain i wrthryfel."

Dyma siamplau o "gyfeiliornadau amgylehiadol," i'r rhai y syrthiodd y pabau; ac nis gallwn lai na synu wrth y gwahaniaeth sydd rhwng iaith yr Homiliau a'r eiddo Dr. Hook, a'r Puseyaid, os nad yr Uchel-eglwyswyr hefyd; a rhai o honynt yn hoffi cael eu galw yn "offeiriad efengylaidd" bid siwr! Y maent yn hollol groes i'w gilydd—yn yr Homiliau, y mae cyfeiliornadau y Pabyddion yn cael eu dynoethi yn hyf—y pab yn cael ei alw yn "bechod, yn farwolaeth, ac yn ddiadol;" a chyfeiliornadau Eglwys Rhufain yn cael, nid eu hystyried yn "gyfeiliornadau amgylehiadol," neu o ddygwyddiad yn unig, ond "heresiau damniol;" a'r eglwys sydd yn eu dal hwynt yn "hen buten fudr, aflan;" yr hon nad yw gan y Puseyaid ond fel dyn heb olchi ei wyneb, ac Eglwys Loegr yn gwahaniaethu oddiwrthi, fel y mae dyn wedi golchi ei wyneb yn gwahaniaethu oddiwrth ddynt heb olchi ei wyneb; tra y mae yr Homiliau yn ei gosod allan mor annhebyg i eglwys Crist "ag yw y buten aflanaaf a ffeiddiaf a welwyd erioed," i wryf bur a difrycheulyd.

Yn awr, gwelir nad oes gan bobl y gadwen un ffordd i olrhain ei dolenau, ond trwy ollymiant y pabau. I'r dyben i olrhain y pabau, byddai raid i ni hefyd olrhain arfaethau, cynghorau, a chymantfaeodd a gynnalwyd yn eu hamserau, ynghyd â'r *bulls* a anfonasant allan yn achlysturel: ond digon a fydd i ni yma gyffwrdd â'u hysgrifeniadau neillduol, y gwyddys yn dda mai yr eiddynt hwy ydynt; a chymeryd y rhyddid o dafu rhyw nodau neu sylwadau eglurhaol a welom yn anghenrheidiol eu chwaneu i waelod y ddalen. Gan i ni wadu, a hyderwn brofi, na bu Pedr erioed yn esgob yn Rhufain, rhaid i ni gan hyny ddechreu yn y ddolen nesaf ato;

¹ Erthygl xxxv.

ac i'r dyben i chwilio a barnu defnyddiau y gadwen, y mae yn anghenrheidiol ei chymeryd yn ddosbarthiadau, yn ol eu hansawdd, gan ei bod yn gwahaniaethu yn fawr er gwaeth bob ryw nifer o ddolenau. 1. Esgobion da—deuddeg ar hugain. 2. Archesgobion a Phatriarchiaid gweddol,—dri ar ddeg ar hugain. 3. Nimrodiaid gormesol—deunaw ar hugain. 4. Sodomiaid moethus—deugain. 5. Swyngyfareddwyr Aiphtaid—deugain. 6. Dinystrwyr gwancus—un a deugain. 7. Babiloniaid anfeddyg-inaethol—un a deugain. Ond

Yn gyntaf, Esgobion da, y rhai a ddilynasant eu gilydd yn y drefn ganlynol, am y tri chan' mlynedd cyntaf wedi yr apostolion ;

1. Linus, o.c. 68, brodor o Tuscany, yr hwn a enwid gan Paul yn niwedd ei ail Epistol at Timothëus, *pen. iv. 21.* Dywedant hwy fod Pedr wedi penodi Clement i'w gader ; ond i hwnw yn wylaidd ei rhoddi i Linus, yn ol cyfarwyddiad Duw, fel na roddid siampl ddrwg i yr un pab i ddewis ei olynwr wedi hyny.

2. Anacletus, o.c. 70, Atheniad, medd rhai, a ddilynodd Linus ; dywed eraill mai Cletus, Rhufeiniad ; a throant yr Anacletus hwn yn ddolen ar ol Clement. Dywed eraill o honynt, mai yr un yw y ddau ; ond fod y Cristionogion Rhufeinig yn ei alw yn Cletus, a'r Groegiaid yn ei alw yn Anacletus—nid oes dim sicrwydd yma.¹ Dyma y pryd y torodd allan yr

¹ Gwelsom na bu Pederioed yn Esgob Rhufain, ac nas gallai ddarfod iddo ymweled a'r ddinas hono, hyd ychydig amser cyn ei farwolaeth. Pwy oedd Esgob Rhufain ? Meiddiwn haeru, nad oes neb ar y ddaear a'i ddyweyd : ac yr ydym yr un gymaint ar goll i gael allan pwy oedd yr ail, y trydydd, na'r pedwerydd, nag yn mha drefn yr oeddynt yn dilyn eu gilydd. Y mae y dolenau wedi dyrysu a chymysgu yn y cychwyniad. "Ymddengys ei fod wedi ei friadol benodi gan anfeldrol ddoethineb," meddai Milner, "Hanesineth Eglwysig," (*"Church History," vol. i. p. 58*) "i'r hanesiaeth cyntaf am Eglwys Rhufain fod yn amherffaith iawn, fel y dyrysid ymarddelwad balch o awdurdod gyffredinol, yr hwn a hawliwyd gan ei hegobion dros gynifer o oesoedd. Os yw llinell neu ddwy yn yr efengylan, o berthynas i agoriadau Pedr, wedi cael eu gwneyd yn sail y fath ymarddelwad uchel yn ei olynwyr tybiadol i'r esgobaeth, pa faint fasant y ymfroestle pe bumai ei lafar yn Rhufain mor gyhoeddus eglur ag y bu'r eiddo Paul mewn llawer o eglwysai eraill ?"

Yn ol pob tebygolrwydd, cafodd yr efengyl ei phregethu yn Rhufain, yn foreu iawn ; yn dra thebygl gan rai o'r "dyaithriaid o Rufeinwyr (*Act. ii. 10*), y rhai oeddynt yn Jerusalem ar ddydd y Pentecost, pan y tywalltwyd yr Ysbryd Glan i lawr mor wyrthol, fel y dygwyd miloedd i wybodaeth achubol o'r gwirionedd. Yn ol pob tebygolrwydd, yr oedd rhai o'r "dyaithriaid o Rufeinwyr" yn gynnwysedig ymlith y rhai a wnaed yn gyfranogion o ras Duw mewn gwirionedd ; y rhai, pan ddychweasant adref, a dystiolaethasant y pethau mawrion a glywsant ac a welsant yn Jerusalem, gan gymhell yr iachawdriaeth hono i eraill, yr hon y gnaed hwy yn ddedwydd gyfranogion o honi ; a thrwy fendith Duw ar dystiolaeth y "tystion hyn," dygid eraill i geisio iachawdriaeth, a'u gwneyd yn gyfranogion o'r un werthfawr fydd. Y mae yn sicr i'r efengyl ledanu yn helaeth iawn yn yr oes apostolaidd, trwy offeryniolaeth Cristionogion anghyhoedd, y rhai a deithiant ar fasnach neu a wasgarwyd trwy lymder yr eriedigaeth, gan ddwyn dystiolaeth i ras Duw pa le bynag yr äent. "Y mae yn ffaith hynod," meddai Mr. Goode, yn ei bregeth o fizen Cymdeithas Genadol yr Eglwys, yn 1888, "yr hwn sy'n tellyngu ein sylw ni yn y dyddiau hyn o ymarddelwadau wtresgar, fod hyd yn nod y cenanad cyntaf ar led y byd (ar yr eriedigaeth a gyfododd yn achos Stephen) yn gyfryw yn ol amgylchiadau yr achos, na allent fod yn ddeddu commisiwn arbwaigol i'r perwyl hwnw : ond a anfonwyd allan gan Dduw, heb na gwahaniaeth na rhagoriaeth i'r cynaaf, 'A'r rhai a wasgarwyd a dramwyasant, gan bregethu y gair,' (*Act. viii. 4*), ac ardeitoda Duw eu llath, 'A llaw yr Arglwydd oedd gyda hwynt ; a nifer mawr a gredodd, ac a drodd at yr Arglwydd.'

Pwy bynag a fu yn offerynu anrhydeddus i ddwyn yr efengyl i'r ddinas ymherodrol, (Rhufain) y mae yn sicr y cymerodd hyny le yn dra boreu ; canys yr oedd mewn cyflwr

ail erledigaeth o dan Domitian, yr hwn a achosodd i Ioan gael ei dafu i lestr o olew berwedig, a'r hwn, wedi ei waredu rhag y niwed lleiaf yn y tro, a alltudiwyd i Ynys Patmos.

blodauog yn 58, pan ygrifenodd yr apostol ei lythyr ati, ac yr oedd wedi tynnu sylw cyffredinol; canys "yr oedd eu ffydd yn gyhoeddus yn yr holl fyd;" *Rhef.* i. 18. er nad oes yr un tipyn o brawf fod yr un apostol wedi ymweld â Rhufain, ond prawf i'r gwrthwyneb. Gan na allwn sicrhau pa fodd, a chan bwy, na pha bryd, y dygwyd yr efengyl i Rufain neu y ffurfiwyd yr eglwys yno, nis gallwn ychwaith gael allian i bwy yr ymddiriedwyd ei gofal gyntaf. Y mae tystiolaeth y tadau ar hyn yn hollol gymysglyd. Dywed Ireneus ddarod i Linus gael ei wneyd yn esgob yn Rhufain, gan Paul a Phedr, ac Anacletus ar ei ol ef, a Clement ar ei ol yntau. Dywed Tertullian mai Clement oedd esgob cyntaf Rhufain, ar ol Pedr. Tystia Eusebius, mai Linus oedd Esgob Rhufain, ar ol Paul a Phedr: ac mai Pedr oedd esgob cyntaf Antiochia. Drachefn, mai Enodias oedd esgob cyntaf Antiochia. Dywed Jerome i Pedr eistedd yn Rhufain bum' mlynedd ar hugain, hyd y ffwyddyn ddiweddaf i Nero. A thrachefn, mai Ignatius oedd trydydd esgob Antiochia, ar ol yr apostol Pedr. Haera Damasus, esgob Rhufain, i Pedr ddyfod i Rufain yn nechreu teyrnasiad Nero, ac eistedd yno bum mlynedd ar hugain. Er hyn, ni theyrnasodd Nero ond pedair blynedd ar ddeg; ac efe, yn ol tystiolaeth gydanol hynafiaeth, a roddodd Pedr i farwolaeth. Dywel Origen, iddo ef ddarllen yn ngwaith rhyw ferthyr, mai Ignatius oedd ail esgob Antiochia, ar ol Pedr. Tystia Epiphaneus i'r ddau, Pedr a Phaul, fod yn esgobion Rhufain.

"Y mae yr estiamplan hyn yn profi, fod y tadau, pa mor cirwir hynag, a pha mor foddhaol bynag eu tystiolaethau am bethau a gymerasant tei yn eu goiwig eu hunain, er hyn yn derbyn hanesion traddodiadol yn ddiogel iawn; ac eu bod yn credu llawer o'r pethau, a gymerasant tei cyn eu hamser hwy, heb wirionedd na phrawf." *Dwight's Theology* : vol. v. p. 137.

Dywed Archezog Wake, awdurdod yr hwn a ddylai bwysu llawer, gyda y rhai hyn a ddadleuant yn ystyfnig dros yr olyniant personol, am Clement. "I bwy yr oedd ef yn ddilynwyr, neu pa bryd y gellid amseru ei ddyfodiad ef i'r gofal mawr, sy'n bwnc, tybiwyf, na chydunir byth arno gan ddygedigion. Os gallasai rhywun benderfynu y pwnc hwn tuhwnt i dddad, buasai yn ddiuos wedi ei wneyd i'r rhai o'n cenedl ein hunain, y rhai, gan iddynt chwilio yn ddiweddaraf, gyda'r holl ddiwydrwydd ag oedd bosibl iddo, fel na bu neb cymhwysach i'w benderfynu. Ond gan eu bod yn cydanghytuno—wedi eu holl ymdrechriadau i benderfynu y mater—y mae yn dangos y rhaid fod rhyw un o honynt yn camgymeryd; felly diammhau genyf y cyflawn foddha y rhai oll a ystyriasant y cymeriad uchel a gawsant yn gyflawn, yn gystal am ddyg a barn, yn y fath hyn o ymchwiliadan, eu bod yn byncian anhenderfynol; ac y gellir dyweyd nad oes gan y neb a wna oraf arnynt, ond ceisio yn dda ar bwnc rhy anhawdd i neb, mor bellled a hyn, ei benderfynu yn eglur." *Wake's Epistles of the Apostolic Fathers* : Rhag. tudal. 48.

"Ffug gan mwya," meddai Howel, "yw deddf epistolau y pabau, yn enwedig am y saith canrif gyntaf; y canonau a'r cyngorau gau a thybiadol a wthiwyd ar y byd gan olgyddion, yw y prif arfau a pha rai y mae y cewri hyn yn amddiffyn eu huchafiaeth, a llawer o athrawiaethau eraill. Cafwyd allan ffugiaeth rhai o'r epistolau hyn gan Dr. James, yn ei '*Treatise of the Corruptions of the Scriptures, Councils, Fathers,*' &c., yr un modd Cook, yn ei '*Census Scriptorum Veterum,*' &c.; a ganfu llawer o ddyll duwiol ynddynt; a chadarnhaodd Dr. Comber, na theilyngant grediniaeth, trwy resymau diymwad, can bellled a'r pum canrif gyntaf."—*Pontificate*.

"Y mae rhai yn cyfrif Linus yn gyntaf," meddai Bingham, "yna Anacletus, yna Clement; eraill yn dechreu gyda Clement, ac yn ei gyfrif ef yn gyntaf mewn trefn ar ol Pedr."—*Ant* : llyfr. i., pen. 9.

Sylwa Esgob Stillingfleet, yn ei "*Irenicum,*" tudal. 322, fod yr "olyniant Pabaidd mor gymysglyd a'r Tiber ei hun; canys dyma Tertullian, Rufinus, a llawer eraill, yn rhoddi Clement yn nesaf at Pedr; Ireneus ac Eusebius yn rhoddi Anacletus o'i flaen ef; Epiphaneus ac Opatas, yn rhoi Anacletus a Cletus; Augustinus a Damasus, gyd ag eraill, yn gwneyd fod Anacletus, Cletus a Linus—oll o'i flaen. Pa ffordd a gawn i ryddhau ein hunain o'r dyrysych hwn, fel ag i ddyfod i ryw sicrwydd? Yn sicr, os yw cadwern yr olyniant yn methu yma, lle y mae arnom fwyaf ei heisio, nid oes genym nemawr achos i binio ein ffydd wrthi—am sicrwydd unrhyw ffurf neillduol o lywodraeth eglwysig yn nyddiau yr apostolion, ag a ellir ei gaaglu trwy gynnorthwy cofnodau

3. Clement, o.c. 92, yr hwn, meddant, ddylasai ddilyn Pedr, pe buasai ei bleidlais ef yn ei sicrhau; ond yn awr, efe yw y drydedd ddolen. Mynant mai efe a ddosbarthodd Rhufain yn blwyfau, ond nas bu yn alluog i gael lle diddos iddo ei hun rhag cael ei alltudio gan yr ymherawdwr Adrian. Cydnebydd Paul ef fel ei gydlafurwr yn *Phil.* iv. 3. Diammhou iddo gymeryd gwell gwaith arno ei hun na gwneyd offerenau, gwisgfeydd, a rhyw seremoniau felly, megys y mae Lambert Gunter wedi eu *cobbio* ynghyd a'u tadogi arno o dan yr enw Clementiaid, y rhai ydynt ddeg llyfr o'r Addefiadau, gyda chrynodeb o honynt, yn cynnwys pererindodau a gweithred-iadau Pedr; wyth ychwaneg o gorfforiaethau yr apostolion; heblaw deg canon a phedwar ugain, yn cael eu priodoli iddynt hefyd; a phump o epistolau arfaethol, o'r un rhyw. Er y pryd hyny, y mae ei Epistol at y Corinthiaid, am yr hwn y sieryd yr hynafiaid gymaint, wedi dyfod i'r goleu; a'r hwn a roddwyd allan gyntaf, gyda llawer o sylwadau dysgedig

y brif eglwys. Rhaid i ni yn gyntaf glirio o'r ffordd bob gwall, dyrswch, pleidiaeth, a thywyllwch, cyn y gellir cael allan o honynt yr hyn yr ydys yn ei ymofyn."

"Nid yw yr olyniant yn yr un o'r eglwysi a enwyd, megys Jerusalem, Antiochia, Alexandria, nac Ephesus," meddai yr un ysgrifenydd, "mor eglur ag y mae yn anghenrheidiol;" ac wedi nodi y gwall, efe a sylwa—"Cymaint a hyna i ddangos mor bell y mae y prawfiadau egluraf o olyniant esgobion o'r amserau apostolaidd yn argyhoeddiol i unrhyw ddyn o reswm" ("*Irenicum*:" tudal. 301).

Byddai yn hawdd iawn lliosogi y prawfiadau hyn i unrhyw bellod, ond ni a arbedwn amynedd ac amser ein darllenwyr—dim ond ychwanegu, ddarfod i Esgob Pearson brofi fod Linus wedi marw o faen Pedr, a chan hyny, nad oedd yn bosibl iddo ei ddilyn ef. Dywed Cabassute, ysgrifenydd Pabaidd dysgedig hanes y cyngorau, fod "yn gwestiwn ammhëus iawn o berthynas i Linus, Cletus, a Clemens, pa un o honynt a ddilynodd Pedr." "Y mae yr un dyrswch," meddai Dr. Comber, "am y pab nessaf. Y mae ffuglyfr y pabau yn rhoddi Cletus ar ol Linus, ac yn rhoddi i ni amryw fuchdraethau am Cletus ac Anacletus, yn eu gwneyd o wahanol genedlaethau, ac yn babau ar wahanol amserau, gan roddi Clement o'u blaen. Er hyn profa Esgob Pearson nad yw y rhai'n ond dau enw ar yr un dyn; ond y mae nodau golygwyr Pabaidd y cyngorau yn ceisio cyfiawnhau y ffuglyfr Pabyddol, trwy haeru yn hyf fod Ignatius (yr hwn oedd yn cydoesi ag Anacletus), Irenæus, Eusebius, St. Augustine, ac Optatus, oll yn camgymeryd, neu oll wedi eu camarwain gan eu hailysgrifenydd, y rhai a adawsant Cletus allan. Ond cred pob darlennydd diragfarn fod y camgymeriad yn y ffuglyfr Pabyddol yn hytrach, yr hwn nad yw ond pentwr o anghysonderau, ac yn y "Merthyrtraith," a'r "Llyfr Gweddi Pabaidd," y rhai sy'n eu dall-ddilyn, yn hysgrifedig, yr hon sy'n hen dadan enwog. Gall pob dyn weled ynydrwydd Idgyl yn na bu erioed mewn bod yn wirioneddol; canys nid yw Cletus ond byrhad o'r enw Anacletus" ("*Forgeries of Councils*:" rhan i).

Y mae y tystiolaethau hyn yn eithaf digonol i brofi cywirdeb yr haerriad "nad oes sicrwydd i'w gael yma," ac nad yw dolenau y gadwen yn werth dim—na ellir gwneyd cadw'n o'r dolenan, lle y maent mor gymysglyd a dyrys hyd yn nod yn y dechreu. I'r fath gyfyngder y mae gwyr yr olyniant—Rhufain a Lloegr—yn cael eu gyru, am rywbeth i roddi iddynt ryw ffug-awdurdod dros weinidogion eraill, pan y gafaelant mewn peth mor wael a phwdr ag yw olyniant apostolaidd, neu gadwen ddidor yn cyrhaseddyd o'r apostolion. Y mae yn methu hyd yn nod yn y dechreu—nid oes gymaint a bach i'w sicrhau, na chymaint a dolen y gellir dwyed am dani ei bod yn ei lle. "Mae y dybiaeth mai y pab yw unig olynwr St. Pedr," meddai Esgob Jewel, "fel pe byddai yn dwyn yr Ysbyrd Glan yn ei fynwes—ac felly na allai gyfeilliorni—yn ffugiaeth wael, yn gwynt. I eneidiau duwoli y mae gras Duw yn addawedig, ac i'r rhai a ofnant Dduw, ac nid yn gysylltiedig a chadeiriau a chadwyni." Y diweddar ddyagedig ac enwog Dr. A. Clarke, wrth lefaru am olyniant ddidor, a sylwa, "Byddai yn well i'r hwn a apelia at hyn am ei awdurdod fel gweinidog Cristionogol, eistedd i lawr nes iddo ei gwneyd allan; a bydd hyny tua'r calends Groegaidd nessaf"—hyny yw, ni ddaw byth i ben.

gan Mr. Patriok Young, Rhydychain, 1633. Er maint teilyngdod mawr y dyn hwn, efe a gondemniwyd i godi marmor yn chwaraelau Môr Euxine, ac wedi hyny a foddwyd yno gydag angor am ei wddf.

4. Evaristus, Bethlemaid, o.c. 110. Nid oedd yn arswydo cymeryd y lle, os coeliwn Ciaconius; yr hwn, er hyny, gallwn dybio a dreuliodd ei amser yn well nag ymddadleu ynghylch y fath bethau ag a roddir arno. Dywedir iddo gael tori ei ben.

5. Alexander, o.c. 113, Rhufeiniad o dan Aurelian: dywedir mai efe a ddygodd i mewn yr afrllad, a'r dwfr sanctaidd, er puro eneidiau dynion, a gyru ymaith ddiafliaid; ar yr hyn y traddododd y tad Busdrakes ddarllith ddirgrifol iawn.

6. Sixtus, o.c. 130, yr hwn sydd yn dyfod yn ol ein hanes awdur-dodol ni i'r chweched lle; yr hwn a eilw y Groegiaid yn Chrystus, er ei fod yn Rhufeiniad. Dywedir iddo anfon un Peregrine, offeiriad, yn ol ei gais ei hun, i fod yn esgob ymhlith y Gauls. Dywedir i Acwila a Phiscilla, wedi cael eu halldudio o Rufain gan Claudius, *Act. xviii.*, aros ac oesi hyd amser y dyn hwn. Dywedir hefyd mai Acwila a gyfeithodd yr Hen Destament, yn nesaf ar ol y LXXII., ond prin y deil hyn brawf. Sixtus, wedi marw yn ferthyr, a adawodd y gader i

7. Thelesphorus, o.c. 139, mab i angorydd, (wedi ei genedlu mewn priodas, gobeithio) yr hwn a sefydlodd y Grawys, oddiwrth hen draddodiadau côf ar ol yr apostolion.

8. Hyginus, o.c. 150, yr Atheniad, mab i philosophydd, ei olynnydd, a ddechreuodd wledd bedydd, ac a osododd Justin Ferthyr i wneyd ei amddiffyniad, tra yr oedd ef yn gwneyd cardinaliaid, fel y dywed Ciaconius.

9. Pius, o.c. 154, o Aguillac, yr hwn a sefydlodd gadw y Pasg ar ddydd yr Arglwydd, yr hwn y cafodd Humes, ei frawd, yr hwn, meddent, oedd awdur llyfr o'r enw y "Gweinidog," ei gyfarwyddo gan angel i berswadio pawb i'w wneyd.

10. Anicetus, o.c. 165, y Syriad, wedi dyfod yn ei le, a ddygodd i mewn yr arferiad o eillio corynau yr offeiriad. Yn ei amser ef y cyfarfu Polycarp, Marcion yn Rhufain, ac a ddywedodd yn ei wyneb mai efe yd-oedd cyntaf-anedig y diafol.

11. Soter, o.c. 175, Campaniad. Dywedir am dano ei fod yn ddyn gonest iawn, ac iddo ordeinio fod i briodasau gael eu gweinyddu ⁿⁱ ~~ni~~ y hoeddus, a thrwy gydsyniad y rhieni.

12. Ebenchereus, o.c. 188, Groegwr, at yr hwn yr anfonodd ein brenin Lucius, Helvanus, a Macluanus, i erfyn arno anfon rhai gweinidogion ffydd-lawn, er addysgu ei ddeiliaid ymhellach mewn Cristionogaeth. Yntau a anfonodd Fugacious a Damianus gyda llythyrâu at y brenin, yn y rhai y dywed, y gallai efe, fel ficer Crist, benderfynu pob materion crefyddol yn ei deyrnas ef. At y pab hwn hefyd y dywedir i Trenens gael ei anfon oddiwrth eglwysi Ffrainc, i benderfynu rhyw bethau ammhêus, y rhai a dastwyd i mewn i'w plith gan hereticiaid, y rhai oeddynt y pryd hyny yn codi i fyny yn mhob man.

13. Victor, o.c. 195, Affricaniad gwresog, yr hwn a gymerodd fwy o rwysg arno ei hun, gan fod tymhestl yr erledigaeth yn awr drosodd; efe a esgymunodd yr esgobion dwyreiniol, am beidio cadw y Pasg yr un dydd ag ef. Gwrthwynebwyd hyn gan Polycrates o Ephesus, ac Ireneus o Lyons, a'r holl esgobion dwyreiniol, mewn ymgynghorfa yn Palestina, yr

hwn a ddadlueai dros draddodiad Ioan a Phylip, yr apostolion, megys y gwnaent hwy yn y Gorllewin dros yr hyn a gawsant oddiwrth Pedr a Phaul. Penderfynwyd yr ymryson hwn yn Nghynghorfa Nice, pryd yr ennillodd yr Eglwys Orllewinol ei phwnc; a galwyd y rhai na chadwent y Pasg ar y Sul yn *Quartadecimani*. Wedi i Victor—buddygoliaethwr—fod felly yn fuddygoliaethus, efe a adawodd y gader i

14. Zephirinus, o.c. 203, Rhufeiniad. Efe a newidiodd gwpanau coed y cymun am rai o wydr, oblegid, fel yr hoff-dybiai rhai, na wnai gwaed gwerthfawr Crist ymfwydo iddynt, fel y gallai i'r coed. Efe a gerddai yn droednoeth, i debygoli i Grist, ac a'i gwnaeth ei hun, yn llythyrenol, yn "eunuch er mwyn teyrnas nefoedd." Yr oedd yn gymedrolwr mewn dadl rhwng Proclus, penaeth y *Cataphrygians*, a Cius oedd yn amddiffyn y gwirionedd, ac a anathameiddiodd Tertullian, a phawb a safai yn ei erbyn.

15. Calixtus, o.c. 221, o Ravenna, a ddilynodd, ond ni feiddiodd fod mor hyf, oblegid yr erlidigaeth drom o dan Serverus. Er hwy, dywedir gan rai mai efe a benododd y pedair gŵyl a gedwir yn ein plith hyd y dydd-hwn. O'r diwedd efe a ddyoddefodd ferthyrdod greulawn.

16. Urban, o.c. 227, Rhufeiniad, a ganlynodd, am yr hwp y dywed "Llyfr y Paban," iddo droi y llestri sanctaidd yn rhai o arian, yr hyn a ellid dybio yn orchwyl o gryn anhawsder yn yr amser babaraidd hwnw, o dan y bwystfil Heliogabalus. Cafodd Origen y driniaeth fin, trwy gyd-syniad y dyn hwn, o gael ei esgymuno gan Demetrius o Alexandria; ond efe ei hun a ddyoddefodd ferthyrdod; felly hefyd,

17. Pontianus, o.c. 233, ei olynwr a'i gydwladrwr, yr hwn a brofodd o'r un fath gwpan yn ynys Sardinia, lle yr oedd wedi ei alltudio, gan adael ei le i

18. Anterus, o.c. 238, Groegwr, yr hwn a ofalodd ar fod i weithredoedd a choffadwriaethau y merthyron gael eu cof-gadw gan gofiaduron galluog; a chafodd ef ei hun ei ychwanegu at eu nifer trwy ormes Maximinus.

19. Fabian, o.c. 238, Rhufeiniad, a gymerodd ei le trwy etholiad an-nysgwyliadwy wedi ei achlysuero trwy i golomen sefyll ar ei ben. Dywedir iddo fedyddio y ddau Phylip, oedd ymherawdwyr, ac adferu Origen i gymundeb yr eglwys. Efe a ddyoddefodd o dan Decius, yn y seithfed erledigaeth.

20. Cornelius, o.c. 254, Rhufeiniad, a gymerodd ei le, ond nid heb wrthwynebiad oddiwrth Novatus, offeiriad o Rufain, yr hwn a gyhuddodd Cornelius o heresi, oblegid derbyn o hono, ar eu hedifeirwech, y rhai a syrthiasant i eilun-addoliaeth, yr hyn na oddefai y Novatiaid. Parhaodd plaid y Novatiaid yn hir i ddewis pab yn olynol o honynt eu hunain, hyd amser Celestinus, pryd y torwyd hwynt ymaith. Bu llawer o lythrau rhwng y Cornelius hwn a St. Cyprian, yn y rhai y mae Cyprian mewn modd cyfeillgar yn ei alw yn frawd.

21. Lucius, o.c. 256, Rhufeiniad, a gymerodd y lle yn ngwres yr erlidigaeth, o'r hwn yr alltudiwyd ef, ond a ddychwelodd yn ol yn fuan: ar hyn y mae Cyprian yn ei groesawu mewn llythyr caredigol. Bu yr un ymygyfeillach rhwng Cyprian a'i olynwr

22. Stephan, o.c. 258, yr hwn yntau oedd Rufeiniad, yr hyn a ymddengys oddiwrth eu cydepistolau, er eu gwahaniaeth mewn barn o berthynas i ailfedyddio y rhai a fedyddiwyd gan hereticaid. Tybiai

Cyprian hyny yn briodol, ond ni oddefai Stephan y fath beth. Am hyn—gan ei fod yn dwyn pethau yn rhy awdurdodol—y ceryddwyd Stephan gan Firmilian. Efe a ferthyrwyd gan Valerian, gan adael ei esgobaeth i

23. Sixtus II., o.c. 261, Atheniad, yr hwn a gefnogwyd yn zelog gan St. Lawrence, nes iddo gael ei rostio ar gridill am ei benderfyniad. Oblegid llymder yr erlidigaeth oedd yn ffynu y pryd hyny, darfu i un, Paul, ffoi o Alexandria; ac efe oedd y cyntaf i ymgynnyg ar fywyd meudwyol, ac ysgrifenyd ei fywyd gan St. Jerome. Y mae llyfr o bedwar cant a deg ar hugain o ymadroddion, yn y drydedd gyfrol o “Lyfrfa y Tadau,” yn cael ei briodoli i'r dyn hwn; ond cafwyd allan mai gwaith Sixtus y Pythagoriad ydyw. Ei gydwladwr,

24. Dionysius, o.c. 261, a'i dilynodd ef. Yn amser hwn y dyoddefodd Cyprian ferthyrddod; a Phaul, o Samosata, a boenodd yr eglwys gyda'i falchder a'i heresi, yr hwn y darfu i Dionysius ei wrthwynebu hyd eithaf ei allu. Dywedir hefyd iddo ddychwelyd Trephonia, gwraig yr Ymherawdwr Decius, a Cyrilla, ei merch, ynghyd â chwe' mil a deugain eraill, at Gristionogaeth.

25. Felix, o.c. 273, Rhufeiniad, a ddaeth ar ei ol ef, ond ni chafodd yntau well amser; er y dywed rhai iddo adeiladu eglwysi a phenodi aberthau ar allorau y merthyron. Cafodd brofi merthyrddod ei hunan, ac felly hefyd ei olynwr,

26. Eutichianus, o.c. 275, y Tyscaniad, yr hwn y dywedir iddo gladdu tri chant a dau a deugain o ferthyron â'i ddwyllaw ei hun. Dywedir hefyd iddo fendithio grawnwin a ffa, a ffrwythau eraill, ar yr allor, a chladdu merthyron mewn amwisgoedd porphor.

27. Gaius, o.c. 283, o Dalmatia. Yr oedd ef yn gâr i'r Ymherawdwr Dioclesian, ond ni fu dim gwell arno oblegid hyny, na'i frawd Gabinius chwaith, merch yr hwn, Susannah, a ddylasai briodi Galerius, yr ymherawdwr, yn ol penodiad Dioclesian, ond hi a wrthododd yn benderfynol, er i hyny gostio iddi ei bywyd.

28. Marcellinus, o.c. 298, y Rhufeiniad, a ddilynodd Gaius. Efe, rhag ofn, a offrymodd beraroglau i Mars; rhai a ddywedant i Isis a Vesta hefyd, am yr hyn y cafodd ei holi gan ymgynghorfa Seusane; ond efe a edifarhaodd yn fuan, ac a geryddodd y gorthrymwr yn ei wyneb, ac a fu farw yn ferthyr. Ei gydwladwr, agos o'r un enw,

29. Marcellus, o.c. 304, a ddilynodd, ac a safodd allan yn barhaus yn erbyn Maximinius, y gorthrymwr, am yr hyn y dyfarnwyd ef i gadw bwystfilod mewn marchdy a wnawd o dŷ Lucina, gweddwr, yr hon, o resyndod, a'i croesawodd. Oddiyno efe a ddysgodd trwy ei ysgrifeniadau y rhai nad allasai trwy ei bregethau, nes iddo ddybenu ei ddyddiau yn y lle drygsawrus hwnw. Efe a olynwyd gan

30. Eusebius, o.c. 310, Groegwr, yn amser Maxentius: mor chwerw a neb o'r lleill. Ni chydabyddai Theodorus na Marcellus yr Eusebius hwn yn bab; ond y mae Optatus, Augustine, Eusebius, ac eraill, yn gwneyd. Dywed rhai mai yn ei amser ef y cafwyd hyd i groes Crist yn Jerusalem, gan un Judas, Iuddew, yr hwn, ar hyny, a drôdd yn Gristion; ond dywed eraill mai Helen (Elen), mam Cystenyn, oedd yr un a gafodd afael ar y deryn gwerthfawr hwnw. Wedi llawer o dristwch a dyoddefiadau efe a adawodd ei le i

31. Miltiades, o.c. 312, Affricaniad, yr hwn hefyd a elwid Milchiades.

Yn ei amser ef y cafodd Cwstenyn fuddygoliaeth fawr ar Maxentius, yr hwn a foddodd yn y Tiber, trwy gwmpiad y bont. I'r pab hwn y rhoddodd Cwstenyn dŷ Plantius Lateranus, wedi iddo gael ei ddifrio gan Nero, a'r hwn sydd yn sefyll hyd y dydd hwn wrth yr enw Palas Lateran. Gwnaed ef hefyd yn farwr y ddadl nodedig Affricanaidd rhwng Cecilianus, Esgob Carthage, a Majorinus, y Donatistiaid, o berthynas i rodai y Biblau i fyny i'w llosgi. Ond dywed eraill iddo ef ei hun farw yn ferthyr fel ei holl flaenafiaid.

32. Sylvester, o.c. 315, Rhufeiniad, yr hwn a gyrchwyd o fynydd Soracte (lle yr ymguddiasai rhag erlidigaeth), i fod yn bab. Dywedir gan rai mai efe a fedyddiodd Cwstenyn, er y dywed Eusebius mai gan Eusebius o Nicomedia y cafodd ei fedyddio, yr hwn yn ebrwydd a iachawyd o wahanglwyf, ac a adeiladodd St. Pedr, yn Rhufain, gan gloddio y sail ei hunan, a dwyn ymaith ddeuddeg basgedaid yn llawn o ddaear ar ei ysgwyddau ymherodrol ei hun, mewn anrhydedd i'r deuddeg apostol. Darfu iddo wed'yn, ar awgrymiad y pab hwn, adeiladu lawer o eglwysi eraill, y rhai a gysegrwyd mewn anrhydedd i seintiau a merthyron. Efe hefyd a fynodd gadw Dydd yr Arglwydd yn lle y Sabboth Iuddewig. Y mae ei gyfraniadau, a'i haelioni eraill, fel ag eu gwneir i fyny gan Ciaconius, yn anghredadwy. Efe a benododd fod i Sylvester wisgo coron o aur, ond efe a ymfoddlonodd ar feitr Phrygiaidd. Yn ei amser ef y cynnaliwyd ymgynghorfa fawr gyffredinol gyntaf Nice yn erbyn Arius. Bu Sylvester farw mewn tangnefedd a henaint da; ac ynddo ef y dybenodd y darn cyntaf o'r gadwen—y darn goreu—yr esgobion da.¹

Am yr yspaid hwn—y rhifres hyn o ddolenau y gadwen—gallwn ofyn, A ydyw olyniant sydd yn methu hyd yn nod yn y cychwyniad yn rhywanrhydedd i'r neb a'i hdnant. Yr oedd dirgelwch yr anwiredd yn dechreu gweithio yn Victor, pan yr esgymunodd Eglwysi y Dwyrain am wahan-iaethu o berthynas i amser cadw y Pasg. Yr oedd gwallgofrwydd ac ynfydrwydd rhai o honynt yn amlwg, a hyny yn ol eu hanesion hwynt eu hunain. Os cawsom cymaint o drafferth i gael gafael yn y dolenau—a methu bod yn sier eto—a hyny yn yr amser goreu—agosaf i'r oes apostolaidd—pa beth a pha fath ddolenau a fyddant erbyn y taflwn olwg ar ddolenau y darn nesaf, a'r nesaf wedi hyny? Os oeddynt o fettel mor rydlyd y pryd hyny, fel mai prin y gallasem eu cydio ynghyd, a methu yn hollol gael bach apostolaidd i'w cydio, mor leied o anrhydedd yw i'n Heglwyswyr hñni eu perthynas â'r fath haid, na'u cydiad â'r fath gadwen lygredig! Ni a adawn y tro hwn eto, fel y gallo ein darllenwyr hwythau gael hamdden i dremio ar y dolenau cyntaf hyn o'r gadwen, a pharotoi eu meddyliau i gael golwg ar ddarn gwaeth o lawer y tro nesaf.

¹ M. Prideaux, M.A., "Introduction for Reading all sorts of Histories." 1672.

BUTLER AR GREFYDD NATURIOL A DADGUDDIEDIG.

HYDERWYN nad yw ein darllenwyr wedi anghofio yn llwyr sylwedd y ddwy erthygl a ymddangosasant yn barod¹ ar y llyfr ag y mae ei enw uwch ben yr ysgrif hon; ac at yr hwn nid ydym yn teimlo ein hunain mewn anghen am un esgusawd dros alw eu sylw drachefn. Ni a dybiem na raid i ni betruso wrth ddywedyd, fod y ddysgyblaeth iachusol a weinyddir i'r meddwl, o fyfyrío y llyfr hwn yn drwyadl, yn annibynol ar werthfawrogrwydd ei gynnwysiad, yn fwy na digon o dâl am unrhyw lafur, pa mor fawr bynag, a gymerir i'w feistrolí; tra ar yr un pryd y mae ei resymau cedyrn ac anorchfygol o werth amhrisiadwy i'r cristion ymofyngar, trwy eu bod yn ei alluogi i beri i "bob anwiredd" anffyddol "gau ei safn," ac i roddi atebiad buddygoliaethus i'r gwrthddadleuon a ddygir ymlaen yn erbyn y grefydd hono, o'r hon y mae yn tynu ei holl gysur yn y byd hwn, ac ar yr hon y mae yn seilio ei holl obaith am fywyd a dedwyddwch yn yr hwn a ddaw.

Yn yr erthygl flaenaf, neu yr un ragarweiniol, amcan yr hon ydoedd parotól y meddwl i ddeall yr holl lyfr, eglurwyd natur yr ymresymiad oddiwrth gyfatebiaeth, ynghyd â'r lle penodol y mae yn ei ddal ymhlith y prawfiadau o wirionedd y grefydd Gristionogol, fel yn is-wasanaethgar i'r profion uwch a mwy uniongyrchol hyny, ar y rhai y mae ei gwirionedd yn gorphwys. Yn yr ail, rhoddwyd crynodeb o gynnwysiad y ddwy bennod gyntaf yn y llyfr; yn y rhai y mae ein hawdur yn defnyddio cyfatebiaeth i brofi nad oes dim yn afresymol, nac yn annhebygol yn yr athrawiaeth o hanfodiad yr enaid mewn sefyllfa ddyfodol, ar ol ei ysgariad a'r corff; nac ychwaith yn yr athrawiaeth o weinyddiad gwobr a chosb yn y sefyllfa hono, yn ol ein hymddygiadau yn y fuchedd hon. Y mae y tebygolrwydd o wirionedd yr athrawiaeth olaf hon yn cael ei ddangos, trwy ddwyn ymlaen brofion uniongyrchol o oruchwyliaeth bresennol natur, fod dynolryw yn y fuchedd hon yn ddeiliaid yr hyn a ellir ei alw yn *Llywodraeth naturiol* Duw dros ei greaduriaid rhesymol; yn yr hon y mae efe wedi cysylltu gwobr â'r naill ddosbarth o weithredoedd, a chosb â'r llall, ac wedi ein cynnysgaethu ninnau â gallu i ragwled y cysylltiad yma, yr hyn sydd yn gwneuthur i fyny y syniad o lywodraeth; a'r hyn sydd yn peri ein bod dan ei lywodraeth Eif yn awr, mewn ystyr mor fanwl a phriodol ag yr ydym dan lywodraeth ein deddfwyr gwladol, ac yn yr un ystyr ag y mae plant yn ddarostyngedig i'w rhieni, a gweision i'w meistriaid. Ac, wedi profi yn y bennod o'r blaen y tebygolrwydd y bydd yr enaid yn hanfodi mewn sefyllfa ddyfodol, y mae yn dyfod a chyfatebiaeth i mewn yma i ddangos, o ran dim a ellir ei brofi i'r gwrthwyneb, y gall y llywodraeth hon o eiddo Duw dros ei greaduriaid rhesymol fod yn ymestyn i dragwyddoldeb—fod yn bosibl y byddant yno yn sefyll mewn perthynas â Duw byth fel eu Llywodraethwr, ac yn ddeiliaid gweinyddiad uwch a pherffeithiach o wobrwon a chosbau oddiwrtho ef yn y byd hwnw, yn ganlyniad eu hymddygiadau yn y byd hwn. Dyma gynnwysiad y ddwy bennod gyntaf o'r "*Analogy.*" Ein hamcan ydyw myned ymlaen i roddi ger bron ein darllenwyr grynodeb

¹ Gwel "*Traethodydd.*" llyfr iv, tudal. 91—100, a 351—361.

mor fyr a chynnwysfawr, ac ar yr un pryd mor eglur ag y gallom, o'r ymresymiad sydd yn gynnwysedig yn y pennodau dilynol; lle y mae yr egwyddor o gyfatebiaeth yn cael ei chymhwyso at athrawiaethau eraill crefydd—a'r cwbl yn myned i brofi, nas gellir dwyn ymlaen yr un wrthddadl yn erbyn y gyfundrefn ddwyfol o grefydd a ddadguddir yn y Bibl, nad ydyw yn milwrio yn hollol gyda'r un grym yn erbyn trefniant presennol natur a rhagluniaeth, ac yn erbyn yr oll o orchwyliaethau Duw ag sydd yn dyfod o dan ein sylw ni yn y fuchedd hon, ac yn dwyn perthynas â dyn fel deiliad amser.

PENNOD III. Mater y bennod hon ydyw *Llywodraeth Foesol Duw.* Wrth lywodraeth foesol Duw y golygir, y llywodraeth hono o'i eiddo ef dros ei creaduriaid rhesymol a chyfrifol, yn yr hon y mae yn ymddwyn tuag atynt yn ol haeddiant eu gweithredoedd, trwy wobrwyo y da a chosbi y drwg. Profwyd yn y bennod o'r blaen, fod dynolryw yn bresennol yn ddeiliaid llywodraeth benodol o eiddo Duw—llywodraeth mewn ystyr mor bendant a'r eiddo brenin ar ei ddeiliaid, rhieni ar eu plant, neu feistriaid ar eu gweision; yn gymaint a'i fod ef yn eu gwobrwyo ac yn eu cosbi am eu gweithredoedd. Ond y mae yn amlwg nad yw hyn, o hono ei hun, yn ddigonol i benderfynu dim gyda sicrwydd mewn perthynas i nodweddiad moesol y Llywodraethwr, nac uniondeb ei lywodraeth. Y mae hyn yn profi fod llywodraeth; ond nid yw yn profi fod y llywodraeth hono yn un uniawn. Y mae yn profi fod "Duw ei hun yn farnwr;" ond nid yw yn profi fod y Barnwr hwnw yn un cyfiawn. Oblegid y mae llywodraeth foesol yn gynnwysedig nid yn unig mewn gwobrwyo a chosbi y deiliaid am eu gweithredoedd—yr hyn a ellir ei wneyd gan y gormesdeyrn mwyaf anghyfiawn, ond mewn gwobrwyo y da a chosbi y drwg—mewn "talw i bob un yn ol ei weithred" oddiar ystyriaeth o ansawdd foesol y weithred hono, fel yn dda neu yn ddrwg. A pherffeithrwydd llywodraeth foesol ydyw, fod y gweinyddiad hwn yn cael ei wneyd gyda golwg ar ei holl ddeiliaid, mewn cyfartaledd perffaith i haeddiant neu ddrwghaeddiant eu gweithredoedd. Yn awr, un o'r athrawiaethau a ddysgir i ni gan grefydd ydyw, fod dynolryw yn ddeiliaid y gyfryw lywodraeth a hon—fod y "Brenin tragywyddol, anfarwol, ac anweledig" yn un ag sy'n caru "cyfiawnder, ac yn casâu anwiredd," ac y bydd efe yn sicr o wobrwyo y naill, a chosbi y llall; ac er, yn nghanol yr annhrefn mawr sydd yn ffynw yn bresennol yn y byd, fod rhagoriaeth rhinwedd i raddau dan lèn, eto y bydd y llywodraeth hon o eiddo Duw yn ymaddfedu i berffeithrwydd ar feusydd äng tragywyddoldeb, wedi y symuder yr holl "drangwyddiadau" o'i deyrnas ef—y bydd yno bawb yn derbyn o "ffrwyth ei weithredoedd ei hun;" y bydd y cyfryw ag sydd yn awr "yn hau i'r cnawd" yno yn "medi llygredigaeth," a'r rhai sydd yn "hau i'r ysbryd" yno yn "medi bywyd tragywyddol"—y bydd saneteiddrwydd byth yn fuddygoliaethus, a phechod wedi ei ddarostwng a'i wisgo â gwarth a dirnyg tragywyddol.

Ac amcan y bennod hon ydyw, ymholi i ba raddau y mae cyfatebiaeth natur yn dwyn tystiolaeth i wirionedd yr athrawiaeth yma. Y mae ein hawdur yn y bennod yn gwneuthur ymchwiliad i weinyddiad goruchwyliaeth bresennol Duw tuag at y byd, ac i gwrs cyffredinol natur, i edrych a oes yma ddim awgrymiadau lled bendant a dealladwy wedi eu rhoddi gan yr "Unig Benaeth, Brenin y breninoedd, ac Arglwydd yr arglwyddi" i dystio i'w creaduriaid pa un ai o blaid rhinwedd y mae efe, ai ynte drygioni.

Math o glust-ymwrandawiad ydyw â goruchwyliaeth Duw tuag at y byd yn nghyfansoddiad natur a chymdeithas, i edrych a oes yma, yn nghanol trwst ac anhrefn y fuchedd gymysglyd ac amherffaith hon, ddim rhyw "lais dystaw main" yn glywadwy trwy y cwbl, yn dyfod allan o enau yr "Hwn sydd yn eistedd ar yr orseddfaine," yn dywedyd, mai "da fydd i'r cyflawn," ond mai "gwae yr anwir, drwg fydd iddo." Mewn gair, y cwestiwn i'w benderfynu ydyw, Ai nid ydym wedi ein cynnysgaethu â phroffion mwy neu lai eglur, yn y rhan hono o oruchwyliaeth Duw ag sydd yn dyfod o dan ein sylw ni yn y fuchedd hon, fod y cyfryw lywodraeth foesol eisoes wedi ei sefydlu? Y mae yn anghenrheidol i'r darlennydd sylwi yma, fod ein hawdur yn addef nad yw y llywodraeth ddwyfol ag yr ydym ni yn cael ein hunain dani yn y fuchedd hon, o'i chymeryd wrthi ei hunan, yn berffeithrwydd llywodraeth foesol. Nid perffeithrwydd mewn graddau yw yr hyn a ddadleuir drosto, ond perffeithrwydd mewn natur. Nid yw ei bod hyd yn hyn yn amherffaith mewn graddau, mewn un modd yn peri nas gall fod yn cyfranogi o natur wir foesol. Y mae yn eithaf posibl i lywodraeth gyflawn fod yn dyfod i'r golwg yn bresennol i ryw raddau, a hyny i raddau digonol i roddi sail gref yn y meddwl i ddsyngwyl y bydd iddi gael ei dwyn i orpheniad, a'i gweithio allan i'r gradd hwnw o berffeithrwydd ag ein dysgir ni gan grefydd y bydd iddi gael, er nas gall hyn ddyfod i'r golwg, hyd nes y byddo i fwy o'r oruchwyliaeth ddwyfol gael ei hamlygu, nag sydd yn bosibl yn y fuchedd hon. Ac amcan y benod hon ydyw, gwneuthur ymchwiliad i ba raddau y mae hyn yn bod: i ba raddau, yn annibynol ar y natur foesol ag y mae y Creawdwr wedi ein cynnysgaethu â hi, a'r syniad naturiol sydd genym o hono ef fel llywodraethwr cyflawn ei greaduriaid, i ba rai y rhoddes efe y natur yma—i ba raddau, yn annibynol ar hyn, y mae egwyddorion ac egin llywodraeth foesol dros y byd yn ganfyddadwy yn awr, yn nghanol yr holl gymysgedd a'r anhrefn sydd yn ffyn ynddo. Ac os ceir yn yr ymchwiliad hwn broffion o lywodraeth foesol eisoes wedi ei sefydlu gan y Goruchaf dros y byd, nis gall dim gyflawnhau ffoledd a gwrthuni yr ymddygiad o droi draw gydag anghrediniaeth a diystyrwch oddiwrth dystiolaeth y grefydd hono, yr hon sydd yn ein dysgu y bydd deddfau y llywodraeth hon yn teyrnasu yn fuddygoliaethus yn nhragywyddoldeb; ac y bydd yr hyn nad yw i'w weled yn awr ond yn yr egmyn, wedi ymagor ac ymestyn i'w lawn dŵf yn y byd hwnw ag y mae *perffeithrwydd* yn un o'i briodoliaethau.

Y mae y boddlonrwydd a'r tawelwch meddwl hwnw sydd yn ganlyniad naturiol bywyd rhinweddol, ynghyd â'r anesmwythder a'r dychryn sydd yn canlyn gyrfa o ddrygioni, wedi cael ei ddwyn ymlaen yn fynych fel anghraifft o lywodraeth foesol wedi ei sefydlu mewn natur—anghraifft o honi wedi ei chasglu oddiwrth brofiad, a chwrs bresennol pethau. Ond y mae Butler, yn ei arafwch a'i gynnildeb arferol, yn gwrthod cymeryd y fantais o'r ystyriaeth yma i'w defnyddio fel rheswm dros wirionedd yr hyn a amcenir ei brofi ganddo. A hyny, medd efe, am ei fod yn orchwyl anhawdd i bwyso a chlorianu pleser a phoen, y naill gyda'r llall, a'r naill gogyfer â'r llall, yn y fath fodd, fel ag i ddyfod i benderfyniad, gyda dim manylrwydd, o'r graddau mwy o hyfrydwech sydd yn gysylltiedig â rhinwedd nag â drygioni. Ac yn wir, nid yw yn beth amhosibl, yn nghanol anhrefn dirfawr y byd presennol, i amgylchiadau gymeryd lle, yn y rhai y bydd y mwynhâd yn llai o ochr rhinwedd nag o ochr drygioni, hyd yn nod

gyda golwg ar y rhai hyny sydd wedi treulio eu hoes o'u hieuenctid i fyny yn ddiargyhoedd, ac yn fwy fyth gyda golwg ar y rhai hyny sydd wedi bod yn rhedeg am beth amser yn ffyrdd pechod, ac ar ol hyny wedi dychwelyd a dliwygio. Meddylw'n am un o'r dosbarth olaf hwn fel anghraifft; y mae yn ddyn sydd â'i dueddiadau halogedig wedi eu hennyn, ei allu naturiol o hunan-lywodraethiad wedi cael ei anmharu trwy arferion llygredig, a'i chwantau aflywodraethus o'i amgylch fel cynnifer o fwystfilod rheibus yn rhuo am eu hysglyfaeth; pwy all ddyweyd pa mor hir y gall y cyfryw un fod, cyn dyfod i deimlo mwy o hyfrydwch a boddhad wrth fwynhau effeithiau daionus bywyd o rinwedd, nag o anhawsderau a chroesau a hunanymwadiad yn y gwaith o groeshoelio ei chwantau? Er hyn i gyd, y mae ein hawdur yn tystio ei fod ymhell oddiwrth addef ei fod yn beth amheüus pa un ai o ochr rhinwedd ai ynte drygioni y mae mwyaf o fwynhad yn y byd hwn: ond hyd yn nod pe yr addefid hyn, eto y mae dechreuad, ac egwyddorion, a hadau goruchwyliaeth gyfiawn i'w gweled mewn natur, y tuhwnt i bob dadl, ond i ni ymofyn yn fanwl am danynt. Ac i brofi y gosodiad hwn, y mae y gweddill o'r bennod yn cael ei ddefnyddio.

I. Gan fod profiad yn ein dysgu fod dynolryw yn bresennol yn ddeiliaid llywodraeth benodol o eiddo Duw, yn yr ystyr a eglurwyd yn y bennod o'r blaen, y mae yn ddiâu ei fod yn gwestiwn teilwng o ystyriaeth, ai nis gall y llywodraeth hono fod yn un foesol? Gan ei fod ef yn dadguddio ei hun i ni yn y cymeriad o lywodraethwr, a oes genym sail i benderfynu nas gall efe fod yn llywodraethwr cyfiawn ac uniawn? Y mae ffeithiau sydd yn dyfod o dan ein sylw bob dydd yn nghwrs bresennol pethau, yn sefydlu y gwirionedd hwn y tuhwnt i bob dadl, fod y Bod Goruchaf yn llywodraethu dynolryw yn awr trwy oruchwyliaeth gwobrwyon a chosbau, yn gyson â rhyw reolau sefydledig o weinyddiad; a chan hyny, y mae yn rhesymol iawn i ni ymholi, Pa sail sydd dros dybied na bydd iddo ef yn y pen draw wobrwyo a chosbi ei greaduriaid yn ol y rheol benodol hon, sef fel yr ymddygont yn rhesymol neu yn afresymol, yn rhinweddol neu yn ddrygionus?—oblegid y mae fod i ddedwyddwch neu drueni dyn gael ei benderfynu wrth y rheol hon, yn beth ag sydd yn syrthio i mewn yn llawer mwy â'n syniadau naturiol ni am bethau, na bod i hyny gael ei benderfynu wrth unrhyw reol arall pa bynag. Y mae cyfansoddiad y meddwl y mae ein Creawdwr wedi ein cynnysgaethu ni âg ef, yn peri y byddai ei waith yn gwobrwyo ac yn cosbi gweithredoedd wrth unrhyw reol arall, yn beth llawer mwy anhawdd rhoddi cyfrif am dano. Y mae yn ymddangos ynte, nas gall y dysgwyliaid hwnw ag y mae crefydd yn ei godi yn y meddwl, y bydd i'r cyfiawn, ar y cyfan, fod yn ddedwydd, a'r drygionus yn druenus, mewn un modd gael ei gyfrif yn ddychymyg ffol a disail; yn gymaint ag nad ydyw yn ddim mwy na dysgwyliaid y bydd i drefn o lywodraeth, sydd eisoes wedi dechreu, gael ei chario ymlaen, hyny yw, y drefn o wobrwyo a chosbi gweithredoedd; a'i chario ymlaen hefyd yn ol rheol benodol, ag sydd yn ymddangos yn anocheladwy i'n meddyliau ni yn fwy naturiol nag unrhyw reol arall, sef y rheol hono o gyfiawnder ag sydd yn "talu i bob un yn ol ei weithred," trwy wobrwyo y da a chosbi y drwg.

II. Y mae yn deilwng o sylw fod tawelwch, boddlonrwydd, a lliaws o fanteision allanol, yn ganlyniadau naturiol yr ymarferiad o gallineb, a

phwyll, a gofal yn ein hymdriniaeth â'n hamgylchiadau tymmorol yn y byd hwn; tra y mae ar y llaw arall liaws o anfanteision a gofidiau yn sicr o ddeilliaw o afradlonedd, ac esgeulusdra, ac ymddygiadau ffîol ac anystyriol. Yn awr, y mae y pethau hyn yn brofion o uniondeb yr egwyddorion hyn ar y rhai y mae cyfansoddiad natur wedi ei sylfaenu: ac y mae fod y Goruchaf yn llywodraethu y byd trwy ddeddfau cyffredinol a sefydlog fel hyn, ac wedi ein cynnysgaethu ninnau â galluoedd i ddeall ac i edrych i mewn i'r cyfansoddiad hwn o'i eiddo ef, ac i ragweled canlyniadau da neu ddrwg ein hymddygiadau—y mae y pethau hyn yn awgrymiadau pendant fod rhyw fath o lywodraeth foesol wedi ei sefydlu; awlegid, gan fod cyfansoddiad pethau y cyfryw a hyn, y mae yn canlyn yn anghenrheidiol, fod callineb a ffîolineb, y rhai ydynt yn cyfranogi o natur rhinwedd a drygioni, yn sicr o gael, megys y maent yn cael yn awr, y naill ei wobrwyo, a'r llall ei gosbi.

III. Yr ydym yn gweled fod gweithredoedd drygionus, yn ol trefn naturiol pethau yn y byd hwn, yn cael eu cosbi i raddau mawr fel yn niweidiol i *gymdeithas*. Ac heblaw y gosbedigaeth a weinyddir yn weithredol o'u plegid ar y cyfrif hwn, y mae ofn a dychryn yn meddiannu y cyfryw ag sydd yn troseddau deddfau eu gwlad, rhag cael eu dal a'u dwyn i afael y gyfraith a droseddasant; ac y mae yr ofn hwn ei hunan yn fynych yn gosbedigaeth nid bechan. Ac hefyd, y mae yr ofn a'r arswyd naturiol hwnw sydd yn foddion i attal dynion rhag cyflawni y cyfryw droseddau, yn dystiolaeth bendant o eiddo natur yn eu herbryn. Yr ydym yn gwybod fod rhyw ddrygau penodol, ag sydd yn fwy uniongyrchol na rhai eraill, yn milwrio yn erbyn bywyd cymdeithas, megys twyll, celwydd, anonestrwydd, creulondeb, a'r cyffelyb. Pe goddefid i dwyll ac anghyfiawnder, er esiampl, ffynu mewn cymdeithas, yr effaith anocheladwy fyddai dinystrio pob ymddiried rhwng pleidiau a'u gilydd, yr hyn sydd yn hanfodol i fasnach, a phob ymdrafodaeth o eiddo dynion y naill â'r llall. Yr un modd am anonestrwydd: pe gadewid i'r drwg hwn ddiane yn ddigosb, ebrwydd y darfyddai am bob diogelwch mewn meddiannau; a'r canlyniad fyddai llwyr ddadymchweliad y cyfansoddiad gwladol. Y mae yn ymddangos ynte fod yn anhebgorol anghenrheidiol i fywyd a hanfod cymdeithas, fod i'r cyfryw ddrygau ag sydd yn eu natur yn ddinystriol iddi, gael eu cosbi fel y cyfryw, ac o ganlyniad y mae y cyfryw gosbedigaeth mor naturiol a chymdeithas ei hunan; ac y mae yn anghraiff o fath o lywodraeth foesol eisoes wedi ei sefydlu mewn natur, ac yn cael ei rhoddi mewn gweithrediad parhaus. A chan mai goruchwyliaeth rhagluniaeth neu lywodraeth Duw ydyw cwrs naturiol pethau, er ei fod yn cael ei gario ymlaen trwy offerynoliaeth dynion, y mae y cyfan a ddywedwyd yma yn y diwedd yn dyfod i hyn—fod dynolryw yn cael eu hunain yn bresennol wedi eu gosod ganddo ef yn y cyfryw amgylchiadau ag y maent yn gyfrifol am eu hymddygiadau; ac yn fynych yn cael eu cosbi, ac weithiau eu gwobrwyo, o dan ei lywodraeth ef, i'r graddau ag y byddont yn foddion i niweidio, neu ynte i lesoli cymdeithas.

Pe allai y gwrthddadleuir yma fod gweithredoedd da, a'r cyfryw ag ydynt yn llesol i gymdeithas, yn fynych yn cael eu cosbi, megys mewn erlidigaethau, ac amgylchiadau eraill; a bod gweithredoedd drwg, a'r cyfryw ag ydynt yn niweidiol i gymdeithas, weithiau yn cael eu gwobrwyo. I hyn y mae Butler yn ateb, yn y lle cyntaf, nad yw mewn un modd yn anghen-

rheidiol, nac o ganlyniad yn naturiol, fod i weithredoedd drwg gael eu gwobrwyo a rhai da eu cosbi, yn yr un ystyr ag y mae yn anghenrheidiol, ac am hynny yn naturiol, fod i'r blaenaf gael eu cosbi, a'r-olaf eu gwobrwyo. Ac yn nesaf, nad yw gweithredoedd da byth yn cael eu cosbi, oddiar yr ystyriaeth o'u bod yn llesol i gymdeithas; na rhai drwg byth yn cael eu gwobrwyo oddiar yr ystyriaeth o'u bod yn niweidiol i gymdeithas. Ac o ganlyniad, y mae y gwirionedd hwn yn aros yr un—fod Awdur natur wedi trefnu ar fod i weithredoedd drwg gael eu cosbi, oddiar yr ystyriaeth o'u bod yn niweidiol i gymdeithas, a'i fod wedi rhoddi dynolryw dan fath o anghenheidrwydd i'w cosbi, mor wirioneddol ag y mae efe wedi trefnu ac wedi ei wneuthur yn anghenrheidiol ar fod i'w bywyd naturiol gael ei gynnal trwy ymborthi.

IV. Y rheswm nesaf a ddygir ymlaen gan ein hawdur dros wirionedd y gosodiad a amcenir ei brofi ganddo, ydyw, fod rhinwedd, yn nghwrs naturiol pethau yn y byd hwn, yn cael ei wobrwyo *fel y cyfryw*; a drwg yn cael ei gosbi *fel y cyfryw*. Hynny yw, y mae rhinwedd yn cael ei wobrwyo, nid yn unig oddiar yr ystyriaeth o'i fod yn llesol i gymdeithas, neu am fod unrhyw fantais allanol yn deilliaw o hono, ond *am ei fod yn rhinwedd*; a drwg yr un modd yn cael ei gosbi *am ei fod yn ddrwg*, yn annibynol ar bob ystyriaeth o'r niwed a'r anfanteision a all fod yn gysylltiedig âg ef: ac y mae hyn eto yn anghraifft, neu yn esiampl, nid yn unig o lywodraeth, ond o lywodraeth foesol, wedi ei dechreu a'i sefydlu; moesol yn yr ystyr fanylaf, er nad yn y gradd hwnw o berffeithrwydd, ag y mae crefydd yn ein dysgu i'w ddysgwyl. Fe allai fod gofyniad tebyg i hyn, yn ymgynnyg yn y fan yma i sylw y darlennydd meddylgar:—"Os ydym i'gredu ei bod yn ddeddf sefydlog yn ngoruchwyliaeth bresennol y Goruchaf tuag at ddynolryw yn y byd hwn, fod rhinwedd yn cael ei wobrwyo, a drwg yn cael ei gosbi, pa fodd y mae yn dygwydd, mewn cynnifer o amgylchiadau, fod mwynhad yn gysylltiedig â drygioni, a phoen â rhinwedd? Pe meddyllem am y meddwyn, er esiampl: y mae yn rhaid ei fod ef yn derbyn mwynhad, a hynny i raddau helaeth, yn ei ymarferiad llygredig â'r diodydd meddwol; oblegid y mae yn aberthu lliaws o'i gysuron eraill, mewn trefn i gyrhaedd y mwynhad hwn. Dacw ein arall yn ei drachwant at gyfoeth, yn defnyddio moddion twyllodrus ac anghyfiawn i ddwyn ymlaen ei fasnach; y mae ei olud yn cynnyddu bob dydd, a chysuron bywyd yn amlhau o'i amgylch yn yr helaethrwydd mwyaf; tra y mae ei gymydog mwy cydwybodol sydd yn bywyn ei ymyl, yn gorfod ymladd â thlodi ac anghen, ac anhawsderau aneirif, wrth ddilyn llwybrau rhinwedd a gonestrwydd. Pa fodd y gellir rhoddi cyfrif am hyn, os nad ydyw rhinwedd yn cael ei gosbi, a drygioni yn cael ei wobrwyo?" Ni a feddyllem fod yr anhawsder hwn yn cael ei symud mewn modd tra boddhaol, trwy wahaniaethiad manwl a phrydferth a wneir yma gan ein hawdur, rhwng y gweithredoedd eu hunain, a moesolrwydd y gweithredoedd hynny. Un peth yw y weithred, peth arall yw moesolrwydd y weithred hono—ei daioni neu ei drygioni. Y mae yr hyfrydwch a'r gofid yn yr anghreiffiau uchod, yn tarddu o'r gweithredoedd eu hunain; ac nid oddiwrth eu hansawdd foesol, fel yn dda neu yn ddrwg. Y mae y pleser a fwynhêir gan y meddwyn yn moddhad ei chwant, yn dyfod iddo oddiwrth y weithred noeth yn unig: y fynyd y mae yr ystyriaeth o natur foesol y weithred hono yn dyfod i gyffyrddiad â'i feddwl, y mae y melusder yn cael ei chwerwi, a'r mwynhad yn darfod. Ond yr ydym yn tybied nas

gallwn wneyd dim yn well yma, na rhoddi ger bron ein darllenwyr gyfleithiad llythrenol o'r deryn hwn; fel y gall y cyfryw o honynt ag sydd yn andnabyddus â'r llyfr, weled anghraifft o ddull Butler yn ysgrifenu, ac hefyd fel y caffont fantais deg i ffurfio barn drostynt eu hunain ar ei feddwl yn y lle hwn:—

“Mewn trefn i weled hyn yn fwy eglur, rhaid i ni wahaniaethu rhwng gweithredoedd eu hunain, a'r ansawdd hwnw a briodolir iddynt, yr hwn a alwn yn rhinweddol neu yn ddrygionus. Y mae boddhad unrhyw chwant naturiol ynddo ei hun, yn rhwym o gael ei ddilyn & hyfrydwch; ac y mae chwaneigiad cyfoeth a meddiannau, yn mha ddull bynag y gwneir ef, yn chwaneigiad moddion neu ddefnyddiau mwynhad. Y mae y weithred hono gan hyn, trwy yr hon y mae unrhyw chwant naturiol yn cael ei boddhau, yn cynnyrchu hyfrydwch neu fantais, wedi ei dyosg oddiwrth bob ystyriaeth o foesolrwydd y cyfryw weithred. O ganlyniad, y mae y pleser neu y fantais yn yr amgylchiad hwn yn deilliaw oddiwrth y weithred ei hunan; nid oddiwrth foesolrwydd, hyn yw rhinwedd neu ddrygioni y weithred, er iddi fe allai fod yn rhinweddol neu yn ddrygionus. Er esiampl, mae dyweyd fod y cyfryw weithred neu ymddygiad wedi cynnyrchu y cyfryw fwyntiant neu fantais, neu ddwyn oddiamgylch y cyfryw anfantais neu boen, yn beth hollol wahanol i ddyweyd, fod y cyfryw effaith dda neu ddrwg yn ddyledus i rinwedd neu ddrygioni y cyfryw weithred neu ymddygiad. Yn y naill amgylchiad, gweithred wedi ei dyosg o bob ystyriaeth foesol a gynnyrchodd ei heffaith; yn yr amgylchiad arall, oblegid fe ymddengys fod y cyfryw amgylchiadau, moesolrwydd y weithred—y weithred o dan ystyriaeth foesol, hyn yw, ei rhinwedd neu ei drygioni, a gynnyrchodd yr effaith.”

Y mae effeithiau uniongyrchol rhinwedd a drygioni ar y meddwl a'r teimlad yn esiamplau o'r manteision ag y mae rhinwedd fel y cyfryw yn eu dwyn i'r rhinweddol, ac o'r anfantaision y mae drygioni fel y cyfryw yn eu hachosi i'r drygionus. Y mae anesmwythder, terfysg, a dychryn meddwl, yn ganlyniadau naturiol gweithredoedd drygionus. Nis gellir gwadu nad oes yn y bywyd hwn, i raddau helaeth, “drallod ac ing ar bob enaid dyn sydd yn gwneuthur drwg.” Y mae y gofid tumewinol hwnw yn y fynwes sydd yn tarddu o deimlad o euogrwydd, yn rhyw anesmwythder ag sydd yn cyfodi yn naturiol oddiar waith y dyn yn edrych ar ei ymddygiad fel peth allan o le, afresymol a beius—hyn yw, drygionus i raddau mwy neu lai; ac y mae yn amlwg fod hwn yn deimlad hollol wahanol i'r un sydd yn cyfodi oddiar yr ystyriaeth o fod wedi derbyn colled neu niwed. Ar y llaw arall, y mae teimlad tumewinol o ddiogelwch a thangnefedd, a meddwl yn gallu archwaethu a mwynhau gwahanol gysuron bywyd, yn ganlyniadau naturiol diniweidrwydd a rhinwedd; ac yn ychwanegol at hyn, y mae teimlad o hunanfodddhad, hyfrydwch, ac hyd yn nod lawenydd calon yn dilyn yr ymarferiad cywir o diriondeb, haelioni, a chymwynasgarwch.

Heblaw hyn hefyd, y mae yn deilwng o ystyriaeth, fod pob dyn da a rhinweddol yn dueddol i gymeryd plaid dynion da a rhinweddol, fel y cyfryw, ac i osod eu gwyneb yn erbyn dynion drygionus, fel y cyfryw, a'u bod yn gwneyd felly i raddau helaeth; ac y mae lliaws o fantaision ac anfantaision yn rhwym o ddeilliaw o'r ffafr a'r gwrthwynebiad hwn. Y mae gweithredoedd rhinweddol hefyd yn fynych yn cael eu gwobrwyo â manteision ac anrhydedd cyhoeddus; megys graddau anghyffredin o'r rhinweddau o gyflawnder, ffyddlondeb, haelioni, gwladgarwch, a'r cyffelyb; ac y mae hyn yn cael ei wneyd oddiar yr ystyriaeth o'u bod yn rhinweddol. Ac y mae yn dygwydd yn fynych, fod gwarthrudd, a lliaws o anfantaision allanol, ac weithiau hyd yn nod marwolaeth ei hunan, yn ganlyniadau cyhoeddus drygioni, fel y cyfryw. Er esiampl, y mae y teimlad sydd gan

ddynolryw yn erbyn anghyfiawnder, gorthrymder, a thrais, yn ychwanegol at y teimlad neu yr ofn o drueni, wedi bod, yn ddi-ddadl, yn offerynol i ddwyn oddiamgylch chwyldroadau, ag sydd heddyw yn sefyll allan gydag arbenigrwydd yn hanesyddiaeth y byd. Oblegid, y mae yn amlwg, fod trawsineb a chamwri yn cael eu gwrthwynebu gan ddynion, oddiar yr ystyriaeth o'u bod yn eu natur yn feus; ac y maent yn ymddial o'u herwydd, os gallant, nid yn unig oddiar y syniad eu bod wedi derbyn niwed trwyddynt, ond eu bod wedi derbyn cam. Ac ar y llaw arall, y mae dynolryw yn gyffredin yn dueddol i gydnabod ac i ad-dalu gweithredoedd o gymwynasgarwch a wneir iddynt, nid yn unig am eu bod wedi bod yn achlysur o ddaioni iddynt hwy eu hunain; ond oddiar yr ystyriaeth fod y cyfryw gymwynasau yn dangos dybenion tirion a charedig, a theilyngdod yn y neb a'u gwnaeth. Yr ydym yn gweled ynte, heblaw effeithiau uniongyrchol rhinwedd a drygioni ar feddyliau dynion eu hunain, fod cwrs y byd, ar y cyfan, yn troi i fesur mawr ar y cymeradwyaeth neu yr anghymeradwyaeth o honynt, fel y cyfryw mewn eraill. Yn mhob oes o'r byd, ymhlith pob cenedl o ddynion, ac yn mhob gradd a sefyllfa, y mae rhinwedd a gweithredoedd da, fel y cyfryw, yn ennill pleidlais gyffredinol dynolryw; tra ar y llaw arall, y mae drygioni, fel y cyfryw, yr un mor gyffredinol yn cyfarfod â gwrthwynebiad a chondemniad gan lais unedig pob gwlad, oes, a chenedl. Ac y mae y pethau hyn yn eglur ddangos fod dynolryw, yn bresennol, yn yr ystyr fanylaf, yn ddeiliaid llywodraeth foesol o eiddo Duw. Y mae fod y Creawdwr wedi ein cynnysgaethu â natur foesol, yn brawf teg ein bod o dan ei lywodraeth foesol; ond y mae ei fod ef wedi ein gosod yn y cyfryw sefyllfa ag sydd yn rhoddi i'r natur hon, megys, le i weithredu, ac yn yr hon y mae yn anocheladwy yn gweithredu—hyny yw, trwy ddylanwadu dynolryw i ymddwyn yn y fath fodd, fel ag i ffafro a gwobrwyo rhinwedd, ac i wrthwynebu a chosbi drygioni; y mae hyn yn brawf arall ac ychwanegol o'i lywodraeth foesol ef; oblegid y mae yn anghraifft o honi. Y mae y cyntaf yn brawf y bydd iddo ef yn y diwedd, mewn modd effeithiol, bleidio a gwobrwyo rhinwedd: y mae yr ail yn esiampl o'i waith yn ei bleidio ac yn ei wobrwyo yn awr i ryw fesur.

Nid yw y darlennydd i gasglu oddiwrth y sylwadau blaenorol, fod ein hawdur yn golygu, nad ydyw yn ymddangos fod dedwyddwch a thrueni yn nghwrs naturiol pethau yn cael eu gweinyddu wrth reolau eraill, heblaw yr ystyriaeth o haeddiant neu ddrwghaeddiant personol. Gallant weithiau gael eu gweinyddu mewn ffordd o ddysgyblaeth. Y mae yn bosibl i'r rhesymau doethaf a goreu fod dros i'r byd gael ei lywodraethu trwy ddeddfau cyffredinol, y rhai ydynt yn peri nas gall y cyfryw weinyddiad cymysgedig lai na chymeryd lle; ac hefyd dros fod i'n hapusrwydd a'n trueni gael ei roddi yn ngallu ein gilydd, i'r graddau ag yr ydym yn gweled eu bod. Ac megys ag y mae y pethau hyn yn peri fod rhinwedd yn y cyffredin yn cael ei wobrwyo, a drwg ei gosbi, fel y cyfryw; felly hefyd, y maent yn fynych yn peri—nid fod rhinwedd yn cael ei gosbi, a drwg ei wobrwyo fel y cyfryw, yr hyn sydd yn anmhossibl; ond y maent yn peri fod llwyddiant yn dyfod i ran rhai dynion, er yn ddrygionus, a gorthrymder i rai eraill, er yn gyfiawn; a'r hyn sydd yn waeth fyth, y maent yn peri fod rhai gweithredoedd yn cael eu gwobrwyo, er yn ddrygionus, a rhai eraill yn cael eu cosbi, er yn rhinweddol: cofier mai er eu bod, acnid am eu bod, yn rhinweddol neu yn ddrygionus. Ond nid yw hyn oll yn

alluog i foddi llais natur yn ngoruchwyliaeth rhagluniaeth, yr hwn sydd yn dwyn tystiolaeth eglur dros rinwedd, gyda golwg ar ei wahaniaeth oddiwrth, a'i ragoriaeth ar ddrygioni. Y mae cyfansoddiad ein meddwl y fath ag sydd yn ein harwain yn naturiol i bleidïo y naill ac i wrthwynebu y llall, oddiar yr ystyriaeth o'u gwahanol haeddiannau; ac y mae hyn yn brawf diymwad mai felly y bwriadodd natur iddi fod: onide buasai "Duw y gwirionedd," mewn effaith, wedi dywedyd celwydd wrthym yn nghyfansoddiad ein natur. Ac nid yw yr annhrefn hwnw sydd yn y byd, trwy yr hwn y mae rhinwedd a drygioni yn cael ymddwyn tuag atynt yn groes i haeddiant y naill a'r llall, ond yn cyfodi oddiar y gwrthdroad a'r camddefnyddiad o dueddiadau sydd wedi eu planu yn ein natur gan y Creawdwr i ddybenion doeth a da. Y mae yr oll o'r ystyriaethau hyn gan hyn yn dangos i ni, fod genym dystiolaeth benderfynol o eiddo yr Hwn sydd yn eistedd ar orsedd y greadigaeth, yn dywedyd wrthym ar ba ochr y mae efe —tystiolaeth dros rinwedd, ac yn erbyn drygioni. I'r graddau ag y mae dyn gan hyn yn ffyddlawn i rinwedd, i gyfiawnder a gwirionedd, i uniondeb a daioni, yn mhob amgylchiad, i'r graddau hyn y mae efe yn sefyll o blaid y llywodraeth ddwyfol, ac yn cydweithredu â hi. Ac y mae rhyw foddlonrwydd dirgelaidd, a theimlad o ddiogelwch yn cyfodi yn naturiol o hyn i'r cyfryw ddyn, a gobaith hyderus, ac ar seiliau da, y bydd cyfiawnder rywbryd yn teyrnasu, ac anwiredd wedi ei lwy'r a'i dragwyddol orchfygu.

V. Y mae y gobaith hwn yn cael ei gadarnhau, gan yr ystyriaeth o duedd naturiol rhinwedd, yr hwn sydd yn ganfyddadwy yn awr mewn natur, er nad yw eto wedi dyfod i weithrediad cyson a pherffaith; ac y mae hyn yn dangos fod rhywbeth gwir foesol yn nghyfansoddiad hanfodol natur. Y mae yn ol natur pethau duedd mewn rhinwedd a drygioni i gynnyrchu yr effeithiau-da a drwg a grybwyllwyd yn barod, i *raddau mwy* nag y maent yn awr yn weithredol yn eu cynnyrchu. Er esiampl, fe wobrwyd ac fe gosbid dynion da a drwg, fel y cyfryw, i raddau llawer mwy nag y gwneir yn awr, oni b'ai fod cyfiawnder yn fynych yn cael ei ysgoi trwy ddichell a chyfrwysdra, a bod gwir gymeriad dynion yn fynych heb ei adnabod; ac fel hyn, y mae y rhai a bleidiant rinwedd ac a wrthwynebant ddrygioni yn cael eu hattal rhag gwneuthur hyn yn fynych, trwy ryw achosion damweiniol. Y mae fod rhinwedd a drygioni yn meddu y cyfryw duedd a hon, yn wir, nid yn unig gyda golwg ar *bersonau*, ond hefyd ar *gymdeithas*. Mewn gymdeithas, y mae gallu, trwy fod o dan lywodraeth rhinwedd, yn cynnyddu yn naturiol, a chando duedd i orchfygu gallu gwrthwynebol heb fod o dan ei lywodraeth; megys ag y mae gallu, trwy fod o dan lywodraeth rheswm, yn cynnyddu, a chando duedd i allu gorchfygu gallu anifeilaidd. Y mae lliaws o greaduriaid direswm yn meddu ar nerth cyfartal, neu fwy, na'r eiddo dynion; ac y mae yn bosibl fod swm yr oll o nerth y greadigaeth ddireswm yn fwy na'r eiddo dynolryw; ond er hyn, y mae rheswm yn rhoddi i ni y fantais a'r oruchafiaeth arnynt, fel ag y mae dyn yn cael ei gyfrif yn arglwydd y greadigaeth. Ac nid oes neb yn ystyried y cyfryw oruchafiaeth fel peth damweiniol, ond fel peth ag y mae tuedd naturiol mewn rheswm i'w ennill.

Ond fe allai nad ymddengys yn llawn mor eglur ar yr olwg gyntaf, fod rhinwedd yn meddu y cyfryw duedd a hon: gan hyn, ni a edrychwn pa fodd y mae yr achos yn sefyll gyda golwg ar reswm; oblegid fe addefa pawb fod y cyfryw duedd i ennill y fantais a'r oruchafiaeth yn briodol i

reswm. Tybier, ynte, bod dau neu dri o ddyinion yn meddu ar y deall cryfaf a mwyaf coethedig, yn cael eu cyfarfod ar wastadedd noeth ac agored â deg cymaint o nifer o fwystfilod rheibus; a wnai eu rheswm hwy sierhau iddynt yr oruchafiaeth, yn y fath ymdrechfa anghyfartal? Etyb pawb, na wnai. Y mae yn canlyn ynte, nad yw yn bosibl i allu, er bod yn gysylltiedig â rheswm, ac o dan ei lywodraeth, lwyddo i orchfygu gallu gwrthwynebol, er nad yw ond un anifeilaidd, heb fod y naill yn dwyn rhyw gyfartalwch i'r llall. Gallwn dybied am amgylchiadau eto, yn y rhai y gallai pethau eraill, heblaw anghyfartalwch mewn rhifedi, fod yn foddion i attal gallu rhesymol rhag gorchfygu un anifeilaidd. Gallai undeb a chydweithrediad yn mysy g y creaduriaid direswm, a'r diffyg o hyny ymhlith y rhai rhesymol, fod yn foddion i beri i'r blaenaf orchfygu, er i gyfartalwch fod rhwng eu rhifedi. Gallai hefyd ryw gydgyfarfyddiad damweiniol o amgylchiadau ffafriol i'r blaenaf, sierhau iddynt yr oruchafiaeth ar yr olaf; er i undeb a chydweithrediad fod ymhlith y naill yn gystal a'r llall. Y mae yn ymddangos ynte, y gall fod yn hanfodol anghenrheidiol i reswm gael amser digonol, ynghyd â lle priodol a chyfleusderau teg i weithredu, cyn y gall ennill yr oruchafiaeth ar nerth anifeilaidd. Ond er hyn i gyd, nid oes dim yn fwy amlwg na bod tuedd i orchfygu fel hyn yn naturiol i allu dan lywodraeth rheswm, er y gall fod yn anghenrheidiol i ryw ammodau penodol gael eu cyflawni, mewn trefn i'r duedd hon allu dyfod i weithrediad.

Yn awr, y mae gan rinwedd y cyffelyb duedd mewn cymdeithas, i ennill goruchafiaeth, ac i gasglu grym ychwanegol, yn mha ystyr bynag yr ystyriom y grym hwn fel moddion diogelwch; pa un ai trwy wneuthur daioni cyffredinol yn amcan i bob aelod o'r gymdeithas, ai ynte trwy wneuthur pob un yn ddyfal ac yn wyliaidwrus i ddefnyddio y moddion mwyaf effeithiol i gyrhaeddyd y daioni hwn, ac i ddwyn pob un yn ffyddlawn i wneuthur ei ran ei hun i'w ddiogelu, ai ynte trwy uno gwahanol aelodau y gymdeithas gyda'u gilydd, ac felly ychwanegu ei nerth, a hyny yn neillduol trwy offerynoldeb gwirionedd a chyflawnder. Y mae tuedd naturiol mewn rhinwedd i ddwyn oddiamgylch y daioni a'r diogelwch hwn mewn cymdeithas. Yn awr, a golygu fod y byd anweledig a goruchwyliaethau anweledig rhagluniaeth mewn unrhyw fodd yn gyfatebol i'r hyn sydd yn weledig ac yn ymddangos i ni—fod y ddwy ran, yr un sydd yn y golwg, a'r un sydd allan o'r golwg, yn cyfateb i'w gilydd, a'r ddwy ynghyd yn gwneuthur i fyny un trefniant mawr a chyfunryw; yna, y mae yn canlyn, fod yn rhaid fod gan allu o dan lywodraeth rhinwedd y cyffelyb duedd naturiol i ennill goruchafiaeth ar allu heb fod o dan ei lywodraeth yn mhob man drwy y greadigaeth, ag sydd gan reswm i orchfygu gallu anifeilaidd yn mhob man drwy y greadigaeth. Ond, er hyn i gyd, mewn trefn i rinwedd allu buddygoliaethu, ac iddo allu cynnyrchu yn weithredol yr hyn y mae ganddo duedd i'w gynnyrchu, y mae yn rhaid i'r unrhyw bethau gydgyfarfod ag a ddangoswyd oedd yn anghenrheidiol i'w cael mewn trefn i reswm allu gorchfygu. Y mae yn rhaid i ryw gyfartalwch fod rhwng nerth naturiol y gallu hwnw sydd o dan lywodraeth rhinwedd, a'r un sydd heb fod: y mae yn rhaid cael, mewn ystyr, faes teg o ymdrechfa—chwareu-fwrdd digon mawr ac eang, ynghyd â manteision a chyfleusderau priodol i'r holl rai rhinweddol ymgysylltu â'u gilydd, i gydymdrechu yn erbyn gallu diddeddf, ac i gydfedi o ffrwythau llafur. Fe allai yn wir fod genym

sail i gredu, nad ydyw yr anghyfartalwch rhwng y da a'r drwg mor fawr, hyd yn nod yma ar y ddaear, fel nad oes gan y blaenaf ddigon o allu naturiol i orchfygu, i raddau mawr, pe byddai amgylchiadau yn caniatâu i'r gallu hwnw gael ei uno a'i gydgasglu. Oblegid, y mae llawer llai o allu, o dan lywodraeth rhinwedd, yn ddigonol i orchfygu llawer mwy, heb fod o dan ei lywodraeth. Ond, pa fodd bynag; y mae yn anmhosibl i ddyinion da ar wyneb y ddaear ymuno â'u gilydd; ac un rheswm am hyn ydyw, ymhlith pethau eraill, am nas gallant ddyfod i wybodaeth sier a digonol o nodweddiadau eu gilydd. Ac y mae cwrs adnabyddus pethau yn y fuchedd hon, yn enwedig byrdra einioes, yn rhwystro i rinwedd gael llawn chwareu teg i weithredu ar lawer o gyfrifon eraill. Y mae y duedd naturiol o eiddo rhinwedd, ag y büwyd yn son am dani, er ei bod yn wirioneddol, eto yn cael ei *hattal* rhag dyfod i weithrediad yn y fuchedd bresennol; ond fe all yr holl rwystrau hyn gael eu symud mewn sefyllfa ddyfodol. Y mae rhinwedd, ar y ddaear (i fenthyca ffugur duwinyddol), mewn ystâd filwriaethus; ac y mae lliaws o amgylchiadau anffafriol yn peri ei fod yn aml yn cael ei orchfygu: ond gall y bydd yn ymdrechu gyda mwy o fantais rywbyrd ar ol hyn, ac y bydd iddo ennill buddygiaeth lwyf, a dyfod i fwynhad o'i wobrwyon cyfreithlawn mewn rhyw sefyllfa ddyfodol. Er ei fod yma yn anadnabyddus i fesur mawr, ac yn cael ei esgeuluso, a'i ddirmygu, a'i orthrymu, eto gall fod yn nhragywyddoldeb feusydd digon eang a pharhaol, a chyfaddas yn mhob modd arall, i roddi iddo ddigon o le i weithredu, ac i beri i'w ganlyniadau naturiol ddyfod allan mewn gweithred a gwirionedd. Y mae crefydd a'r dadguddiad dwyfol yn ein sicrhau y cymer hyn le; ac y mae y sylwadau a wnaethpwyd yn barod yn dangos fod cyfatebiaeth natur, gyda llais eglur a phenderfynol, yn dwyn ei dystiolaeth o blaid y gwirionedd yma.

Yr ydym yn ofni ein bod er ysmeityn wedi gosod amynedd ein darllenywyr dan dreth drom; ac yn awr, cyn eu gadael, yr ydym yn gofyn eu caniatâd i osod ger eu bron dri neu bedwar o sylwadau byrion, mewn ffordd o gasgliad (chwedl rhywrai) "oddiwrth yr hyn a ddywedwyd," â'r rhai y mae Butler yn diweddgloi y bennod hon; y rhai a ddygir ymlaen i ddangos pa fodd y mae ymresymiad y bennod yn gadarnhad i'r dysgwyliaid ag y mae crefydd yn ei godi yn y meddwl, y bydd y llywodraeth foesol hon o eiddo Duw yn y fuchedd dragywyddol yn cael ei chario allan i berffeithrwydd, ac yn gadarnhad i'r profion cyffredin ac adnabyddus a ddefnyddir dros wirionedd yr athrawiaeth hon.

Yn gyntaf. Y mae y gwahanol brofion a ddygwyd ymlaen yn nghorff y bennod hon o oruchwyliaeth foesol wedi ei sefydlu yn y byd, yn dangos, nad yw Awdur natur yn ddifater gyda golwg ar rinwedd a drygioni, ac nad ydynt yn bethau diwahaniaeth yn ei olwg Ef. Y mae y cwbl ynghyd yn gwneyd i fyny dystiolaeth benderfynol ac anocheladwy o'i eiddo Ef, o blaid y naill ac yn erbyn y llall.

Yn ail. Y maent yn dangos na fydd cyflawniad a pherffeithiad yr oruchwyliaeth hon yn y byd a ddaw, lle bydd y Brenin Goruchaf yn "talu i bob un yn ol ei weithred," trwy wobrwyo rhinwedd a chosbi drygioni, yn beth gwahanol yn ei natur, ond yn unig yn ei raddau, i'r hyn a brofir genym ni dan ei lywodraeth bresennol yn y byd hwn. Ni bydd ond yr hyn sydd yn awr yn *duedd* wedi addfedu i *weithrediad*. Ni bydd ond *gorpheniad*

y llywodraeth foesol hõno, *egwyddorion* a *dechreuad* yr hon ydynt i'w canfod yn awr y tuhwnt i bob dadl yn nghyfansoddiad a chwrs presennol natur.

Yn drydydd. Y mae bod rhinwedd a drygioni yn cael eu gwobrwyo a'u cosbi yn awr, i ryw raddau, yn rhoddi sail gref i obeithio y *gallant* gael eu gwobrwyo a'u cosbi i raddau *mwy* rhagllaw. Y mae yn wir nad yw hyn o hono ei hun yn sail ddigonol i gredu y *bydd* iddynt gael eu gwobrwyo a'u cosbi i raddau mwy, yn hytrach na llai.—Ond,

Yn olaf. Y mae genym sail ddigonol i gredu hyn, pan yr ystyriom wahanol dueddiadau rhinwedd a drygioni. Oblegid, y mae y tueddiadau hyn yn hanfodol, ac wedi eu sylfaenu yn natur pethau; tra nad yw'r attalfeydd a'r rhwystrau iddynt ddyfod i weithrediad, mewn un modd yn anghenrheidiol, ond yn unig yn ddamweiniol.

Ar y cyfan, ymddengys fod math o lywodraeth foesol wedi ei sefydlu; y mae rhinwedd a drygioni yn naturiol yn cael eu gwobrwyo a'u cosbi fel yn niweidiol i gymdeithas, ac hefyd yn uniongyrchol fel y maent yn rhinwedd ac yn ddrygioni. Nid yw y syniad o drefniant moesol o lywodraeth gan hyn yn un ffugiol, ond yn un naturiol; oblegid y mae yn ymgynnyg i'n meddyliau yn yr ystyriaeth o gyfansoddiad a chwrs presennol natur, ac y mae y llywodraeth hon wedi dechreu dyfod i weithrediad eisoes, yn yr esiamplan a nodwyd yn barod. Ac y mae y pethau hyn i'w ystyried fel tystiolaeth o eiddo Awdur natur, dros rinwedd ac yn erbyn drygioni; ac y maent yn gefnogaeth gref i'r dybiaeth y bydd iddynt gael eu gwobrwyo a'u cosbi ar ol hyn; ac y maent hefyd yn rhoddi sail i obeithio ac i ofni y bydd y wobr a'r gosb yn cael eu cario allan i raddau mwy a pherffeithiach nag y maent yn awr. A'r effaith a ddylai y cyfan o'r ystyriaethau hyn ei chael arnom, ydyw ein harwain ymlaen gyda "gwylder a pharchedig ofn" o gyntedd nesaf allan crefydd naturiol i gysegr crefydd ddadguddiedig—ein harwain gyda llawenydd a diolchgarwch, oddiwrth y myfyrdod o'r dadguddiad a roddes Duw o hono ei hun mewn natur a rhagluniaeth at ddadguddiad uwch a pherffeithiach yr efengyl hõno, trwy yr hon y mae "bywyd ac anllygredigaeth wedi eu dwyn i oleuni"—ac i ofni a chrynu wrth dystiolaethau y llyfr dwyfol hwnw, yr hwn sydd yn dywedyd wrthym, mai "yr Arglwydd cyfiawn a gâr gyfiawnder"—fod "digofaint Duw" eisoes "wedi ei ddadguddio o'r nef yn erbyn pob annuwioldeb ac anghyfiawnder dynion"—ac yn y dydd hwnw, pan y bydd y llen yn syrthio dros chwareufa y ddaear, pan y bydd hanes y byd yn cael ei symio i fyny, a'i holl annhrefn dirfawr yn cael ei derfynu a'i uniawni—y bydd iddo Ef "ddyfod gyda myrddiwn o'i saint i wneuthur barn yn erbyn pawb, ac i lwyr-argyhoeddi yr holl rai annuwiol." "Yr hwn sydd yn dyfod a ddaw, ac nid oeda."

DINASOEDD Y CYNOESOEDD.

NINIFEH.

“Anrheithiwyd Ninifeh, pwy a gwyna iddi?”—NAHUM.

[*Nineveh and its Remains.* By AUSTEN HENRY LAYARD, Esq. D.C.L. 2 vols. 8vo. London: John Murray. 1849.]

“ER ein bod o’n babandod yn gynnefin âg enwau Ninifeh ac Assyria, ac er eu bod yn gysylltiedig â’n hargraffiadau boreuaf, sydd yn ddeilliedig o’r ysgrythyrau sanctaidd,” medd Mr. Layard, “er hyny, pan y gofynom i ni ein hunain beth yr ydym yn wirioneddol yn ei wybod am danynt, dyna y pryd yr ydym yn canfod ein hanwybodaeth o barth y cwbl a berthyna i’w hanesiaeth, ac hyd yn nod i’w sefyllfa ddaearyddol. Y mae yn wir,” medd efe, “yn un o’r ffeithiau mwyaf hynod mewn hanesyddiaeth, fod brudiau ymherodraeth mor nodedig am ei chadernid a’i gwarder wedi eu llwyr gollu, a bod sefyllfa dinas mor hyglod am ei maintiolaeth a’i mawrwychedd wedi bod yn destun o ammheuaeth am oesoedd; ac fe allai nad yw yn ddim llai hynod bod darganfyddiad damweiniol wedi ein tywys i obeithio y gellir adferu y brudiau hyn, a chael allan i foddlonrwydd sefyllfa y ddinas.” Y mae yn wir bod crybwylladau am Assyria i’w cael yn y Bibl, ynghyd â phrophwydoliaethau pwysig am gwmp a dinystr Ninifeh,—y dystawrwydd a’r anghof tragwyddol yr oedd ei rhwysg a’i mawredd i ddisgyn iddynt: ond y brenin cyntaf a goffhëir ydyw Pul, yr hwn a deyrnasodd rhwng wyth a naw can’ mlynedd cyn y cyfnod Cristionogol, ac oddeutu dwy ganrif cyn cwmp yr ymherodraeth; o ganlyniad rhaid mai efe oedd agos yr olaf o’r olyniad maith o freninoedd, y rhai, fel yr addefir yn gyffredinol, a deyrnasasant dros y gyfran fwyaf o Asia. Sonir yn amlach am y breninoedd diweddaraf yn y Bibl; gan fod eu buddygoliaethau ar yr Iuddewon, y rhai a ddygwyd yn gaeth ganddynt i Assyria, yn eu dwyn yn barhäus dan sylw. Y mae yn wir hefyd fod awdwyr paganaid yn rhoddi hanesion am Ninus, a Semiramis, a Sardanapalus; ond y mae y rhai hyny yn llawn o chwedleuau anhygoel am orchestion gorddynol yr ymhyfyrdai hen ysgrifenwyr eu priodoli i’r gwroniaid y mynent eu hanrhydeddu. A gellir barnu ymhellach nad yw yr hanesion y maent yn eu rhoddi ond tra phrin, pan y cofir fod deg cenedlaeth ar hugain wedi myned heibio rhwng dyddiau Ninus a rhai Sardanapalus.

Y crybwylliad cyntaf am Ninifeh yw yr un a geir yn *Gen.* x. 11, lle y dywedir i Assur fyned allan o wlad Sinar (neu fel y darllena rhai yn ol fel y mae ar ymyl y ddalen, i Nimrod fyned allan i Assyria) ac adeiladu Ninifeh. Wedi hyn yr ydym yn colli golwg arni hyd amser Jonah (yr hwn oedd yn oesi rhwng 810 a 785 cyn Crist) pryd yr oedd wedi cynnyddu gymaint nes myned “yn ddinas fawr iawn o daith tri diwrnod,” a nifer ei thrigolion yn “fwy na deuddeng myrdd o ddynion, y rhai ni wyddent ragor rhwng eu llaw ddeheu a’u llaw aswy.” Os yw y farn gyffredin yn gywir, fod yr ymadrodd olaf yma yn cyfeirio at y plant, yr oedd nifer ei thrigolion yn chwe’ chan’ mil, a chymeryd bod y plant, yn ol

y dull arferol o gyfrif poblogaethau, yn cyfansoddi y bummed ran o'r trigolion. Wrth ystyried maintiolaeth y lle y safai y ddinas arni, ni ddylid dychymygu fod y tai ynddi wedi eu hadeiladu yn glòs wrth eu gilydd yn debyg i'r tai yn Llundain a dinasoedd eraill Ewrop. Ni fuasai y tir y mae Llundain yn sefyll arno yn cynnwys y drydedd ran o'r trigolion sydd ynddi yn awr pe buasai wedi ei hadeiladu yn debyg i'r dinasoedd dwyreiniol; oblegid—

“Y mae yr arferiad sydd yn bod yn y Dwyrain er yr amser boreuaf o gau y merched mewn ystafelloedd ar eu penau eu hunain ar wahan oddiwrth eu gilydd, yn gwneuthur bod tŷ ar ei ben ei hun i bob teulu, bron yn beth anheborol.¹ Mae yn debygol ei fod bron yn beth mor anghyffredin yn amser y freniniaeth Assyriaidd i gael mwy nag un tylwyth yn byw dan yr un tŷ, os na fyddent yn perthyn yn agos iawn i'w gilydd, megys tad a mab, ag ydyw yn bresennol mewn dinas Dyrchiaidd. Ymbellach, yr oedd gerddi a thir aredig yn gaeudig o fewn muriau y ddinas. Yn ol Diodorus a Quintus Curtius, yr oedd digon o le tufewn i Babilon i godi ŷd er cynnalïaeth yr holl drigolion mewn amser o warchae, heblaw gerddi a pherllanau. Oddiwrth ymadrodd Jonah, fod yno anifeiliaid lawer, fe ellir casglu fod yno borfeydd iddynt hefyd. Mae llawer o ddinasoedd y Dwyrain, megys Damascus ac Ispahan, wedi eu hadeiladu fel hyn; y mae rhifedi eu trigolion yn dra anghydfarth â maint y lle a safant arno, pe cyfrifid hwynt yn ol y rheolau a gymhwysir at ddinasoedd Ewropaidd. Y mae yn fwyaf tebygol fod Ninifeh a Babilon yn gyffelyb iddynt yn hyn.”

Adroddir hefyd ei bod wedi ei hamgylchu â muriau can' troedfedd o uchder, mor lydan fel y gallai tri cherbyd basio eu gilydd ochr yn ochr, ac ymddiffynid hi gan bymtheg cant o dyrau, pob un o ba rai oeddynt yn ddau can' troedfedd o uchder.

Er i'r Arglwydd arbed y ddinas fawr hon ar ei hedifeirwch a'i hymostyngiad trwy bregethiad Jonah, ni pharhaodd yn hir yn y cyflwr gobeithiol hwn. “Ymadawodd ei mwynder fel cwmwl y boreu, ac fel y gwllith boreuol;” oblegid yn fun wedi hyny yr ydym yn cael y prophwyd Nahum yn cyhoeddi “baich Ninifeh,” ac nid yn unig yn rhagfynegu ei llwyr ddinystyr a'i dymchweliad (yr hyn a gymerodd le yn mhen cant a hanner o flyneddau wedi hyny) ond hefyd yn darlunio yn yr iaith mwyaf mawreddus a chyffroawl y dull y deuai hyn i ben. “Canys tra yr ymddyrsont fel drain, a thra y meddwoŋt fel meddwon, ysir hwynt fel sofr wedi llawn wywo:” *Nahum* i. 10. Y Mediaid, o dan Arbaces, wedi derbyn hysbysiad gan nifer o fradgilwyr am yr esgeulusdod a'r meddwdod oedd yn ngwersyll y Ninifeaid, a ymosodasant arnynt yn annysgwyliadwy yn y nos, ac a'u gorchfygasant; ac wedi cymeryd meddiant o'u gwersyll, a ymlidiasant cybelled a'r ddinas, hyny o filwyr a lwyddasant i gyrhaedd yno. “Pyrth y dwfr a ymddettyd, a'r palas a agorir:” *Nahum* ii. 6. Dywed Diodorus am hen brophwydoliaeth oedd mewn bod “na chymered byth mo Ninifeh, hyd oni throai yr afon yn elynes iddi;” ac yn y drydedd flywyddyn o'r gwarchae, dyfroedd yr afon, trwy eu bod wedi codi yn uchel mewn canlyniad i'r gwlawogydd parhäus, a orlifasant ran o'r ddinas, fel y dymchwelwyd ugain ystad o furiau y ddinas. Yna y brenin (Sardanapalus),

¹ Yr ydym yn deall oddiwrth Lyfr Esther, mai y cyfryw oedd yr arferiad ymhlith yr hen Bersiaid, er fod y gymdeithas rhwng merched a dynion yn llawer mwy helaeth nag wedi lledaniad Mahomedaniaeth. Yr oedd boneddigesau hyd yn nod yn cael eu derbyn i wleddoedd cyhoeddus, a derbyniont ddyethriaid yn eu hystafelloedd eu hunain, tra yr arferent breswyllo mewn math o *harem* ar wahan oddiwrth anneddau y dynion.

yn dychymygu fod y brophwydoliaeth wedi ei chyflawni, a bod yr afon wedi troi yn elynes i'r ddinas, a bentyrodd fygedorth (*funeral pile*) mawr yn ei balas, ac wedi casglu ynghyd ei holl olud, ei ordderchadon, a'i eunuchiaid, efe a osododd y palas ar dân; ac felly llosgwyd ef a hwythau, y palas a'r cwbl, gyda'u gilydd. Daeth y gelyn i mewn drwy yr adwyau a wnaethai yr afon, a chymerasant yr ddinas. Felly, cyflawnwyd yn llythyrenol eiriau yr Arglwydd trwy enau ei brophwyd, "A llifeiriant yn myned drosodd y gwna efe dranc ar ei lle hi:" *Nahum* i. 8. Y mae Nahum hefyd yn addaw ysglyfaeth fawr o arian ac aur; a dywed Diodorus ddarfod i Arbaces gario ymaith lawer iawn o dalentau o aur ac arian i Ecbatana, dinas freninol y Mediaid. Rhagddywedai Nahum (i. 8; a iii. 15), y dinystrid y ddinas trwy ddwfr a thân, ac ni a welwn yn yr hanes a rydd Diodorus mai felly y bu. Parhaodd Ninifeh i fod yn brifddinas Assyria hyd y flwyddyn cyn Crist 625, pan y cymerwyd hi drachefn gan y Mediaid o dan Cyaxeres. Dywed Strabo iddi adfeilio yn fuan wedi dymchweliad y freniniaeth Assyriaidd gan y Mediaid; ac y mae yr hanes hwn yn cael ei gadarnhau drwy y ffaith nad oes un crybwylliad am dani yn hanes Alexander Fawr, er ei fod wedi bod yn agos iawn, os nad aeth dros y fan lle y safai, cyn brwydr Guaganella, yr hon a ymladdwyd yn y gymydog-aeth hōno, pryd y trosglwyddwyd teyrnwialen y dwyrain i ddwyllaw y buddygoliaethwr hwnw. Dywed Lucian yn benodol, yn yr ail ganrif o'r cyfnod Cristionogol, fod Ninifeh wedi cael ei distrywio mor llwyr fel nad oedd dim olion o honi i'w canfod, ac na wyddid yn mha fan y safasai. Y mae agos i dair mil o flyneddau wedi myned heibio er pan y clybüwyd "sŵn y ffrewyll, sŵn cynhwrf olwynion, a'r march yn prancio, a'r cerbyd yn neidio, a'r marchog yn codi ei gleddyf gloew, a'i ddysglaer waewffon," yn heolydd Ninifeh. Y mae yn awr "yn wag, a gorwag, ac anrheithiedig." "Y ddinas hoew, oedd yn trigo yn ddiotal, a aeth yn anghyfannedd, ac yn orweddfa anifeiliaid;" ac hyd yn ddiweddar yr oedd hyny o adfeilion a adewsid o honi yn gladdedig o dan grugiau anelwig a bryniau glaswelltog.

Hir yr erys Duw cyn taro,
Llwy'r y dial pan y delo."

Er mwyn cael rhyw ddychymyg o'r fan, bydded i ni ddychymygu ein bod yn Mosul, dinesig ar lān yr afon Tigris. Wedi croesi drosodd i'r ochr ddwyreiniol, gwelir yno bedwar o grugiau anferthol, y rhai yn ol y farn gyffredin a ffurfient bedair congl y muriau allanol. Crugiau Kouyunjik a Khorsabad i'r gogledd, a Karamles a Nimroud i'r deheu, a nodant derfynau y ddinas. Ffurfiant gogyfartalred (*parallelogram*) am ddeunaw milltir o hyd gyda glanau yr afon, a deng milltir o led i fyny tua mynyddoedd Assyria. Crug Kouyunjik sydd, yn ol mesuriad Mr. Rich, yn dri a deugain o droedfeddi o uchder, a mil chwe' chant ac unarddeg a phedwar ugain o droedfeddi o amgylchedd; ei ochrau ydynt serth, ond y mae ei ben yn wastad. Bu Mr. Rich yn cloddio peth yn y fan hon, ond ni ddaeth o hyd i ddim oddigerth ychydig ddarnau o lestri pridd, priddfeini a llythyrenau cunffurfiedig (*cuneiform*) arnynt, a pheth olion o adeilad. Dywedai y trigolion wrtho fod amryw luniau cerffiedig o ddynion ac anifeiliaid wedi cael eu cloddio allan oddiyma ychydig cyn ei ddyfodiad ef yno, y rhai a barasant gymaint o ryfeddod, fel y daeth holl drigolion Mosul allan i'w gwelod. O'r diwedd, cyhoeddwyd mai eilunod yr anffyddwyr oeddynt; gan hyny,

y Mahomedaniaid, fel dysgyblion ufudd a ffyddlawn, a'u dinystriasant mor llwyr fel na lwyddodd Mr. Rich i gael gafael ar gymaint a thelchyn o honynt. Gosodwyd cymaint ag a gasglasai Mr. Rich ei hun yn y *British Museum*, ac yr oedd caes prin tair troedfedd ysgwar, yn cynnwys, hyd yn ddiweddar, yr holl olion a ellid eu cael, nid yn unig o'r ddinas fawr Ninifeh, eithr hefyd o Babilon ei hunan!

Y mae hyn yn grynodeb o'r cwbl a wyddid gyda sicrwydd am Ninifeh a'i holion; ac mor fawr yw y cyferbyniad rhwng darluniad yr hanesydd o'i gorwychder, a'r un a rydd y teithiwr o'i hagwedd bresennol! Ond bellach y mae yn hwy'r bryd i ni droi at Mr. Layard a'i lyfr dyddorawl. Yn 1838, fe ymddangosodd yn y cyhoeddiadau Ffrancaidd hanesion am y llwyddiant oedd yn coroni llafur M. Botta, y trafnodwr (*consul*) Ffrancaidd yn Mosul, yr hwn oedd yn cloddio i grug Khorsabad ar draul llywodraeth ei wlad. Hyn a ennynodd awyddfyd Mr. Layard (yr hwn a fuasai yn ymweled a'r lle o'r blaen) i gymeryd yr un gorchwyl mewn llaw; ac yn wir ni allesid cael neb cymhwysach i'r gorchwyl. Gellir canfod yn hawdd wrth ddarllen ei waith dyddorawl, er fod ei ddull o ysgrifenu yn hynod o syml a di-addurn, fod Mr. Layard yn ŵr dewr, zelog, ac ymroddgar. Gan nad oedd yn perchen digon o foddion i gario y gwaith ymlaen ei hunan, dywedodd Syr Stratford Canning, y cenadwr Brytanaidd yn llys Caer-eysteny, wrtho ei fod yn ewyllysgar i ddwyn y draul ei hun am yspaid; ac felly i haelfrydedd y boneddig hwn y mae i ni ddiolch am y casgliad gwerthfawr o hynafiaethau Ninifeaidd sydd yn addurno *museum* ein teyrnas. Wedi cael llythyrau at yr awdurdodau yn Mosul, ymadawodd Mr. Layard o Gaer-eysteny yn mis Hydref, 1845. Croesodd fynyddoedd Pontus a gwastad-diroedd èang Usun llak mor gyflym ag y gallai brysfieirch ei gario, disgynodd o'r iseldiroedd i ddyffryn y Tigris, ac wedi carlamu dros wastadeddau Assyria cyrhaeddodd Mosul. Cyfwynodd ei llythyrau i'r llywodraethwr yno, yr hwn a ddarluniai fel y canlyn:—

“Nid ymddangosodd Mahommed Pasha yn un ond a gyfatebai i'w dymher a'i ymddygiad. Yr oedd natur wedi gosod rhagrithio allan o'i gyrrhaedd. Un llygad ac un glust oedd ganddo: yr oedd yn fyr a thew, wedi ei greithio àg ôl y frech wen, yn annillynaidd o ran agwedd, ac yn greg o ran llais. Cyrhaeddasai yr anair am dano le ei lywodraeth o'i flaen ef ei hunan. Ar ei ffordd adnewyddasai yr hen arferion a'r gormesau daionus hyny yr oedd ysbryd diwygiadol yr oes wedi eu goddef i syrthio i adfeiliad. Mynai mewn modd arbenig gael y taledigaeth a elwir *disto parassai* (yn llythyrenol, dant arian), neu yr iawn mewn arian a godir oddiar bob pentref lle y byddo gŵr mor urddasol yn cael ei letya, am dreulid ei ddannedd wrth gnoi yr ymborth yr ymostynga i'w dderbyn gan y trigolion. Ar ei ffordd i Mosul yr oedd wedi darbywilo y prif Aghas, y rhai a ffoisent o'r dref ar ei ddynesiad iddi, i ddychwelyd i'w cartrefleoedd; ac wedi gwneuthur arddangosiad defodol o lwon ac ardstyion, efe a dorodd eu gyddfau er dangos gymaint a ellid ymddibynu ar ei air. Am amser fy nyfodiad, y trigolion oeddnt mewn cyfiwr o ddychryn ac anobaith. Yr oedd hyd yn nod ymddangosiad teithiwr damweiniol yn arwain i obaith a lledaniad hybsysiadau ar hyd y dref, yn ddystaw, am ddiswyddiad y gormeswr. Gwyddai y gormeswr am hyn, a dyfeisiodd ffordd i brofi beth oedd teimladau y trigolion tuag ato. Un prydawn, cymerwyd ef yn ddisymmwth yn glaf, a chariwyd ef i'w *harem* bron a marw. Boreu dranoeth, yr oedd y palas yn nghauad, a'r gweinyddion a atebent yr ymholiadau a wneid trwy ystumiau anegrlu na ellid rhoddi ond un esboniad arnynt. Ammheuson y Mosuliaid a roddasant le yn raddol i lawenydd cyffredinol; ond, ar ganol dydd, y llywodraethwr, yr hwn a roddasai ei ysbwywr

ar hyd y dref, a ymddangosodd yn y farchnadfa yn ei lawn iechyd. Ofn cyffredinol a afaelodd yn y trigolion. Syrthiodd ei ddialedd yn benaf ar y rhai oeddynt yn perchen eiddo, ac wedi gallu dianchyd yn hyn rhag ei reibuarwydd. Maeddwyd ac yspeiliwyd hwynt, dan yr esgus eu bod wedi llejanu chwedlau yn niweidio ei awdurdod. Nid oedd y pentrefydd a'r Arabiaid wedi dyoddef llai na thrigolion y dref. Arferai y Pasha roddi ei addysgiad i'r rhai a anfonid i gasglu arian, mewn tri gair, "Ewch, dinystriwch, bytwêch;"¹ ac nid oedd ei oruchwylwyr, yn y cyffredin, yn fyr o weithredu yn ol ysbryd ei eiriau. Y llwythau yr oedd wedi ymosod arnynt a'u hyspeilio, a ddialent ar y minteioedd a'r teithwyr, ac a ddifrodent y tiroedd diwylliedig yn y Pashalaeth. Y pentrefydd oeddynt anghyfanedd, a'r ffyrdd yn anhygyrch a pheryglus iawn."

Gellir canfod yn hawdd oddiwrth hyn, nad y gorchwyl hawddaf yn y byd ydoedd trin y fath adyn creulawn a diegwyddor a hwn. Yr oedd yn awyddus iawn i gael gwybod beth oedd neges ein teithiwr; ond pa fodd bynag, ni lwyddodd yn ei amcan am beth amser. Wedi cael ychydig arfau yn ddirgel, aeth Mr. Layard i Nimroud. Yr oedd gydag ef Mr. Ross, marsiandwr Saesoneg yn Mosul, a dau eraill, gweision. Cymerodd Awad, penaeth y Jeneshiaid, i'w wasanaeth, a chyflogodd chwech o Arabiaid eraill. Dechreuasant gloddio y crug mwyaf, yr hwn oedd o fewn taith ugain mynyd i bentref Aifa. Buont yn dra llwyddiannus y diwrnod cyntaf, oblegid diorchuddiasant ddeg o lechau mawrion, y rhai a ffurfient nen ystafell, i'r hon yr oedd mynedfa yn y pen ogledd-orllewinol. Yr oedd argraffiadau cunurffiedig (*cuneiform*) ar ganol y llechau, y rhai oeddynt wedi cadw yn hynod o ffres a da. Wedi iddynt gloddio i ochr y crug, daethant o hyd i fŵr ar yr hwn yr oedd cyffelyb argraffiadau; ond yr oedd y llechau hyn wedi bod mewn gwres mor danbaid nes yr oeddynt wedi darn-holli, ac yn barod i syrthio yn dipian. Dranoeth, ail-ymosodwyd ar y gwaith, a chwasant bump o ddynion ychwanegol, y rhai a ddaethant yno i weithio yn y rhagolwg o gael cyflog rheolaidd. Daethant o hyd i addurniadau o ifori âg olion goreurd arnynt, ac yr oedd llun dyn mewn gwisgoedd llaesion ar un o honynt. Heblaw hyn, cawsant dramwyfëydd i ystafelloedd eraill, ynghyd â phentyrau o ologed, y rhai a brofent fod yr adeilad wedi cael ei ddinystrio gan dân.

"Awad, yr hwn a goled dai ei dybiau ei hun o barth gwrthddrych fy ymchwiliadau, a phrin y gallai foddloni ei feddwl eu bod wedi eu cyfyngu at lechau yn unig, a gasglodd ynghyd yr holl friwion o eurddalenau a allai eu cael yn y malurion, ac wedi fy ngalw o'r neilldu mewn modd dirgel a chyfrinachol iawn, efe a'u tynodd hwynt allan wedi eu sypio mewn darn o bapyr budr. 'O Bey,' meddai, 'Wallah! Y mae eich llyfrau yn eu lle, ac y mae yr Ewropëaid yn gwybod yr hyn sydd ddirgeledig oddiwrth y gwir grediniwr. Dyma yr aur yn ddigon sicr, a rhynged bodd i Dduw, nynt a'i cawn ef i gyd cyn pen nemawr ddyddiau. Yn unig na ddywedwch ddim am dano wrth yr Arabiaid yna, oblegid asynod ydynt, ac ni allant ddal eu tafodau. Fe ddaw y peth i glustiau y Pasha.' Yr oedd y Sheikh yn sŵn iawn, ac yr un mor someidig befyd, pan yn haelionus yr anrhagais ef â'r holl aur a gasglasai, ynghyd â'r cwbl a fedrai ddyfod o hyd iddo ar ol hyn. Gadawodd fi gan fwgial, 'Yui Rabbi.' ac ymadroldion crefyddol eraill, ac yn methu dirnad yn lân beth oedd gwrthddrych y gweithrediadau rhyfeddol hyn."

Barnodd Mr. Layard ei bod yn llawn bryd iddo yn awr i ddychwelyd i

¹ I feyta arian, hyn yr. i fyne arian yn anghyfreithlawn. neu trwy yspeilio, sydd ymadrodd cyffredin yn y Dwyraia.

Mosul, i ddyweyd wrth y Pasha am natur a gwrthddrych ei ymchwiliadau. Erbyn cyrhaedd yno, cafodd y dref yn llawn cynhwrf o herwydd ystrywiau y Pasha, y rhai a adroddasom o'r blaen. Yr oedd y Cadi hefyd wedi tafu ei gareg i'r goelcerth trwy ledanu celwyddau am y *consul* Brytanaidd, fel yr oeddid am ddystrywio ei dŷ, a chyflawni amryu weithredoedd anfad eraill. Wedi llongyfarch y Pasha ar ei adferiad buan o'i afiechyd, yr hyn a dderbyniodd gyda threm hylig o foddhad, efe a gyfeiriodd at ymddygiad y Cadi a'r cynhwrf yr oedd yn ei achosi.

“A ydyw y dyhiryn yma,” meddai y Pasha, ‘yn tybied fod ganddo *Sheriff* Pasha (y llywodraethwr nesaf o'i flaen ef) i ymdrin âg ef, fel fod yn rhaid iddo ef godi terfysg yn y dref? Pan oeddwn yn Siwas fe geisiodd yr Ulema yno gyffroi y bobl o herwydd fy mod wedi cyfyngu ar gladdfa. Ond mi a wnaethum iddo fwya baw! Wallah! Mi a gymerais bob beddfaen, ac a adeiletais furiau y castell â hwynt.’ Ffugiai nad oedd yn gwybod am fy ngwaith yn cloddio yn Nimroud; eithr wedi hyn, yn tybied y gallai fy euog-brofi o dwyll yn fy atebion i'w ofyniadau ynghylch swm y trysorau a gawswn, efe a gymerodd o'i ysgrif-gist ddarn o bapyr mor fudr a'r un a ddangosasai Awad i mi, yr yr hwn yr oedd gronynau anweledig o'r bron o aur-ddalenau. Dywedodd mai blaenor y fyddin yn Selamyiah a'i dygasai iddo, yr hwn oedd wedi bod yn gwylio fy ngorchwylion yno. Awgrymais iddo y dylai osod goruchwylwr i fod yn bresennol yn Nimroud cyhyd ag y byddwn yn gweithio yno, i gymeryd gofal o'r holl fetteloedd gwerthfawr a ellid eu cael. Addawodd ysgrifenu at y swyddog milwraidd ynghylch y mater, ond ni chynnygiodd yr un gwrthwynebiad i mi i fyned ymlaen â'm gwaith.”

Ar ol hyn dychwelodd Mr. Layard yn ol i Nimroud lle yr oedd ei ddyinion yn parhau i weithio, a chyflogodd ychwaneg o weithwyr, nes yr oedd ganddo ddeg ar hugain o bobl yn cloddio yno. Gan fod yr Arabiaid yn parhau i yspeilio yn y gymydogeaeth, efe a symudodd o Naifa i Selamyiah, er y byddai ganddo dair milltir i'w teithio yn ol ac ymlaen bob dydd at ei waith. Teimlai yn someidig hyd yn hyn, gan ei fod yn methu dyfod o hyd i ddim cerfiadaeth. Yr oedd yr Arabiaid wedi dyfod i'r un ysbryd ag yntau, ac yn gweithio â'u holl egni; ond o'r diwedd, ar yr 28ain o Dachwedd, cyflawnwyd ei ddysgwyliadau, a daeth o hyd i fâsddelwadau (*bas-reliefs*). Un llech a ddarluniai frwydr, gwelid milwyr yn saethau â bwâu, cerbydau rhyfel yn cael eu tynu gan feirch wedi eu trwsiadu yn addurnwch; y arall a ddarluniai ddinas gaerog yn cael ei gwarchae, gwelid milwyr ar y tyrau yn gollwng eu saethau, eraill yn ergydio ceryg i lawr dros y muriau, tra yr oedd y gelynion yn ceisio dringo i mewn ar hyd ystolion, rhai yn ceisio gosod y fan ar dân, ac eraill yn ymdrechu gwrthio y ceryg allan o'r sylfeini.

Yn hwyr y diwrnod, pan yr oedd Mr. Layard yn myfyrio ar y pethau a welsai, daeth penaeth y milwyr ato, ac a'i hysbysodd ei fod wedi derbyn gorchymyn o Mosul i attal y gwaith. Aeth Mr. Layard dranoeth yno i ofyn yr achos o hyn. Cymerodd y Pasha arno nad oedd efe erioed wedi rhoddi y fath orchymyn, ac addawodd anfon llythyr at Daoud Agha, yn gorchymyn iddo gynnorthwyo yn y gwaith, yn hytrach na'i luddias. Dywedodd yr anfonai y llythyr hwn ar ei ol ef, gan nad oedd yn chwenych ei gadw ef yno. Wedi dychwelyd yn ol, adroddodd wrth Daoud Agha am ei lwyddiant yn ei neges; ond oddeutu canol nos daeth y gŵr hwn ato i hysbysu fod dyn wedi dyfod yno gyda gorchymyn pendant oddiwrth y Pasha i beidio goddef Mr. Layard ar un cyfrif i fyned ymlaen

â'i orchwyl. Hyn a barodd iddo fyned yn gynnar drasoeth i Mosul i ym-
ofyn yr achos o hyny. Pan ddaeth at y Pasha,

"Mi a ddeallais gyda dwys ofid,' meddai hwnw wrtho, 'ar ol eich ymad-
awiad ddôe, bod y crug yr ydych yn cloddio ynddo wedi cael ei arfer yn gladdfa
gan y Mahomedaniaid, a'i fod wedi ei orehuddio â'u beddau; yn awr, chwi a
wyddoch ei fod yn beth gwaharddedig yn ol y gyfraith i affonyddu beddrod; ac
y mae y Cadi a'r Mufti wedi bod gyda mi eisoes ynghylch y mater.' 'Yn y lle
cyntaf, atebais innau, 'gan fy mod yn lled hysbys o'r crug, mi a allaf sicrhau
nad oes dim beddau wedi eu hafonyddu; yn ail, ar ol y wers ddoeth a grymus
a roddasoch yn Siwas, ni fyddai beddfeini yn ddim yn y byd ar fy ffordd i.
Rhynged bodd i Dduw, y mae y Cadi a'r Mufti wedi derbyn addysg oddiwrth y
wers a roddasoch i Ulema drwg-foesawg y ddinas hônô.' 'Yn Siwas,' meddai
yntau, gan ddeall fy mwrriad yn union, 'yr oedd genyf Mahomedaniaid i'w trin,
ac yr oedd *tanzimat*¹ yno; ond yma nid oes genym ond Kurdiaid ac Arabiaid;
ac Wallah! y maent yn anifeiliaid. Nid oes modd i mi adael i chwi fyned
ymlaen; chwi yw fy nghyfaill goreu a mwyaf mynwesol; pe dygwyrddai rhyw
beth i chwi, gymaint fyddai y gofid a ddyoddefwn! Mae eich bywyd yn werth-
fawrocach na hen feini; heblaw hyny, fe fyddai y cyfrifoldeb ar fy mhen i.'
Wrth gael fod y Pasha yn benderfynol i attal fy ymchwiliadau, cymerais arnaf
fy mod yn cydsynied â'i ateb; a dymunais am i *Cavaas* perthynol iddo ef gael
ei anfon gyda mi i Nimroud, gan fy mod yn dymuno gwneuthur darluniad o'r
cerfiadau, a chopio yr argraffiadau a ddiorchuddiasid eisoes. Cydsyniodd â hyn,
a gorchymynodd i swyddog fyned gyda mi."

Wedi i Mr. Layard ddychwelyd yn ei ol, cyfaddefodd Daoud Agha
wrtho, fod y Pasha wedi gorchymyn iddo ef ddwyn beddfeini yno o'r pen-
trefydd cylchynol, a'i fod ef a'i filwyr wedi bod ddwy noswaith yn brysyr
wrth y gorchwyl. "Nyni a ddinystriasom fwy o wir feddrodau gwir gred-
inwyr," meddai, "wrth wneuthur rhai fflugiol, nag a allasech chwi eu di-
fwyno rhwng Sab a Selamyiah. Yr ydym wedi lladd ein hunain a'n meirch
wrth gario y meini melledigedig hyny." Parhaodd Mr. Layard i gadw
nifer fechan o ddynton ar waith o hyd, a daethant o hyd i amryw luniau
anferthol, ac argraffiadau mewn llythyrenau mawrion ar gefnau y llechau
y cerfiasid y luniau hyn arnynt. Nid oedd ganddo ddim amheuaeth
erbyn hyn, nad oedd ystafelloedd mawrion yn gladdedig dan y crugiau; o
ganlyniad, efe a ysgrifennodd at Syr Stratford Canning, i ddeisyfu arno
geisio gorchymyn oddiwrth y llywodraeth Dyrcaidd, yn gwahardd i neb
ymyraeth âg ef yn ei ymchwiliadau. Aeth i Mosul ar y 18fed o Ragfyr,
lle yr oedd yr holl drigolion mewn gorfoedd o herwydd diswyddiad ei hen
gyfaill, y Pasha. Pan aethai cyfieithydd y *Consulate* ato ar ryw orchwyl,
efe a'i cafodd yn eistedd mewn ystafell adfeiliedig, i'r hon y disgynai y
dwfr yn ddirwyrstr. "Fel hyn y mae," meddai yr hen Pasha, "gyda chre-
aduriaid Duw. Dôe, yr oedd yr holl gŵn hyn yn cusanu fy nhraed;
heddyw, y mae pawb a phob peth yn disgyn arnaf; hyd yn nod y gwlaw!"
O herwydd bod yr hin yn attal ychwaneg o gloddio am dymmor, aeth Mr.
Layard i Bagdad, i ymgynghori â *Major Rawlinson* ynghylch mudiad y
cerfiadau, ac amryw bynciau eraill. Ar ei ddychweliad i Mosul, yr oedd
pob peth wedi cyfnewid yno: y rhai a ffoisent i'r mynyddoedd a'r diffaeth-
wech rhag gormes yr hen lywodraethwr, a ddychwelasant yn ol; ac er fod
y tymmor wedi cerdded ymhell, yr oedd pobl y wlad yn brysyr yn hau,

¹ Y drefn ddiwygedig a ddygasid i mewn i'r rhan fwyaf o daleithiau Twrci, ond yr hon oedd heb gyrrhaedd eto i Mosul a Bagdad.

gan eu bod yn awr yn meddu gobaith o allu casglu eu cynauaf mewn heddwch a llonyddwch. Ac, meddai,

“Nid oedd y cyfnewidiad a gymerasai le yn ngwyneb y wlad, yn ystod fy absenoldeb yn ddim llai hynod na'r un a gymerasai le yn nghyflwr gwladychol y dalaeth. I mi yr oedd y ddau yn hyfryd a boddhaol. Yr oedd y gwlawog-ydd a ddiagynasant yn ddibaid er diwrnod fy ymadawiad i Baghdad, wedi prysuro tyfiant y gwanwyn. Nid oedd y crug mwyach yn bentwr cras a diffrwyth; ei arwyneb a'i ochrau oeddynt yn orchuddiedig â gwyrdlesni. O ben y pig-adail, yr oedd fy llygaid yn gweled, ar y naill law, wastadedd llydan, yn cael ei gylchynu gan y Tigris a'r Zab; ac ar y llaw arall, gwelid gwlad isel, donawg, yn cael ei therfynu gan fynyddoedd crib-eiryawl Kurdistan; ond nid y diffaeth-wch gwag a diffrwyth y gadawswn ef fis yn ol, ydoedd efe mwyach; yr oedd y tirwedd wedi ei ddilladu â gwyrdlesni, pebyll duon yr Arabiaid a frithent wastadedd Nimroud, a'u preiddiau lliosog a borent ar y bryniau hirbell. * * * Yr aradr a agorasai ei rhychau ar y crug, ac yr oedd yd wedi ei hau uwch pal-asu breninoedd Assyria.”

Gan fod Cadi Mosul yn parhau yn ei ymdrechïadau i gyffröi y trigolion yn ei erbyn, deisyfodd Ismael Pasha ar Mr. Layard i beidio a chloddio dros ychydig nes yr elai y cyffro heibio, yr hyn a wnaeth i raddau, trwy gadw dim ond ychydig o ddynion at y gwaith. Cymerodd fantais o'r seibiant yma i ennill cyfeillgarwch y Sheikh Abd-ur-rahman. Ymwelodd â'i wersyll, ac anrhegodd ef â gwisg sidan, sugr, coffi, &c. ac addawodd yntau na yspeilïai ac na finai ef mwyach. Wrth ddychwelyd o wersyll y Sheikh hwn un boreu, canfyddai ddau Arab perthynol i'r llwyth yn carlamu nerth y carnau. Pan ddaethant i fynu ato, safasant, a llefasant,

“Brysiwch, O Bey, brysiwch at y cloddwyr, oblegid daethant o hyd i Nimrod ei hunan. Wallah, y mae yn rhyfeddol, ond y mae yn wir! Yr ydym ni wedi ei weled â'n llygaid ein hunain. Nid oes yr un Duw ond Duw: ac wedi i'r ddau uno yn yr ymadrodd crefyddol yma, carlamasant ymaith, heb ddyweyd gair yn rhagor, tu a'u gwersyll. Pan y cyrhaeddais yr adfeilion, disgynais i'r clawdd newydd; a chefais y gweithwyr, y rhai a welsent fy nyfodiad eisoes, yn sefyll gerllaw pentwr o fasedgi a mentyll. Tra y dynesai Awad, ac y gofynai am anrheg i ddathlu yr achlysur, yr Arabiaid a dynasant ymaith y gysgodlen a godasant ar frys, ac a ddiguddiasant ben anferthol wedi ei gyflawn gerfio allan o fynorglai y wlad. Yr oeddynt wedi diorchuddio rhan o'r ddelw, ond yr oedd y rhan arall o honi eto yn gladdedig yn y ddaear. Gwelais ar unwaith fod yn rhaid bod y pen yn perthyn i lew neu darw asgellog, cyffelyb i rai Khorsabad a Persepolis. Yr oedd wedi cadw yn hynod o dda. Darluniad y wyneb ydoedd dawel, er hyny yn fawreddig, a chynlluniad y wyneb a ddangosai wybodaeth celfyddgar na allsed ei ddysgwyl mewn gwaith mor hen. Yr oedd tri chorn i'r cap, ac yn annhebyg i'r teirw penddynol a gawsid hyd yn hyn yn Assyria, yr oedd yn grwn, ac heb yr un addurn ar ei dop. Nid oeddwn yn rhyfeddu bod yr Arabiaid wedi synu ac arswydo wrth weled y ddrychiolaeth hon. Nid oedd anghen am ddychymygu llawer i ddwyn y tybiau rhyfeddaf i'r meddwl. Y pen anferthol hwn, wedi ei gau gan henaint, yn codi fel hyn o ganol y ddaear, a allasai yn iawn berthyn i un o'r bodau arswydus hyn a ddarlunir yn nhraddodiadau y wlad, fel yn ymddangos i farwolion, yn eagyn yn arafaid o annwn. Un o'r gweithwyr, wedi cael cipolwg ar yr anghenfil, a dafasai ei fasedg i lawr, ac a redasai i Mosul, cygynted ag y gallai ei draed ei gario. Deallais hyn gyda thristwch, gan fy mod yn dysgwyl y canlyniadau. Tra yr oeddwn yn arolygu symudiad y pridd oedd yn parhau i lynu wrth y cerfiad, ac yn rhoddi cyfarwyddiadau am i'r gwaith fyned ymlaen, clywid sŵn marchogion, a chyda hyn, Abd-ur-rahman yn cael ei ddilyn gan hanner ei lwyth a ymddangosasant ar fin y clawdd. Cygynted ag y cyrhaeddasai y ddau Arab y pebyll, ac yr hysbysas-

ant am y rhyfeddodau a welsent, neldiasai pawb ar gefn ei gaseg, a marchogasant at y crug i foddloni eu hunain ynghylch gwiredd yr adroddiadau anhygoel hyn. Pan welsant y pen, gwaeddasant, 'Nid oes yr un Duw ond Duw, a Mohammed yw ei brophwyd?' Ni ellid llwyddo i gael gan y Sheikh i ddisgyn i'r clawdd am beth amser, er darbwyllo ei hun mai darn o faen oedd yr eilun a welai. 'Nid gwaith dwylaw dynion ydyw hyn,' meddai, 'am y rhai hyn y mae y Prophwyd, tangnefedd iddo! wedi dyweyd eu bod yn uwch na'r gobalwydd (*date-tree*) uchaf; dyma un o'r eilunod y darfu i Noah, tangnefedd iddo! eu melldithio cyn y diluw.' Yn y farn yma, yr hon oedd effaith chwiliad manyl-aid, y cydsyniai yr edrychwyr."

Mewn coffadwriaeth o'r achlysur, lladdwyd defaid, a darparwyd gwledd, o'r hon y cyfranogodd yr holl Arabiaid oddiamgylch, a threuliasant y rhan fwyaf o'r nos mewn dawnsiau. Eithr y newydd am hyn, fel y gallasid dysgwyl, a achosodd gynhwrf nid bychan ymhlith trigolion Mosul. Aeth y Cadi a'r Mufti at y llywodraethwr; ac ar ei ddymuniaid, peidiwyd a chloddio mwy nes y tawelai y cyffro. Yn y cyfamser, ymwelodd Mr. Layard âg adfeilion hynod El Hathar. Ar ei sfordd yno, daeth i wersyll y penaeth Arabaidd nodedig, Sofuk; ac fe allai na fyddai yn annifyr gan ein darllenwyr gael darluniad o dylwyth Arabaidd:

"Ar amser ein hymweliad, yr oedd Sofuk yn ŵr i dair o wragedd, y rhai a ystyridd fel yn meddu hawl neillduol ar ei serch a'i nodded parhaus; oblegid un o wendidau Sofuk, naill ai oddiar ddymuniaid i argraffu syniadau o'i fawredd a'i gadernid, neu oddiar hoffder at y cyfnod cyntaf mewn bywyd priodasol, ydoedd i gymeryd gwraig newydd bron bob mis; ac ar ddiwedd yr amser hwnw i'w hysgaru, a'i phriodi hi i un o'i weinyddion. Yr oedd y dyn dedwydd fel hyn yn byw mewn melfis parhaus. O'r tair boneddiges a ffurfiert ei *harem* yn awr, y benaf ydoedd Amsha, yr hon a ganmolid am ei harddwch a'i gwaedoliaeth, yn nghanladau holl Arabiaid y diffaethwch. Merch ydoedd i Hassan, penaeth y Tai, llwyth a olrheiniai ei darddiad i'r gorhenedd pellaf. Cymerasai Sofuk hi trwy drais oddiar ei thad, ond yr oedd bob amser wedi ymddwyn tuag ati gyd a'r parch mwyaf. O herwydd ei gradd a'i harddwch, enmillasai y titl o 'Frenines y diffaethwch.' Ei llun, yr hwn a ellid ei olrhain yn hawdd trwy y chryst teneu a wisgai, yr un fath a gwragedd Arabaidd eraill, ydoedd ffurfiad i phrydferth. Yr oedd yn dal o ran maintiolaeth ac yn deg o ran gwedd. Ei gwynebpryd ydoedd reolaidd. Yr oedd yn harddach na chyffredin; a chan yr Arabaidd yr oedd yn berffaith, oblegid yr oeddynt wedi treulio pob dyfais o fewn eu gallu i gwblhau yr hyn yr oedd natur wedi ei ddechreu. Ei gwefusau oeddynt wedi eu lliwio yn ddulas—gwneid i aelïau ei llygaid gyfarfod eu gilydd uwch ei thrwyn trwy eu lliwio âg *indigo*; ei gruddiau a'i thalcen a ysmotid â berthfanau (*beauty spots*); blew ei hamrantau oeddynt wedi eu duo â *kohl*; ac ar ei bronau a'i mynwes y gellid gweled lluniau blodau ac addurniadau dychymygod, y rhai oeddynt yn cael eu cario yn dafnodwaith a rhwydwaith dros ei holl gorff. Yr oedd clustdlws anferthol o aur yn hongian oddiwrt bob clust, y rhai a gyrhaeddent hyd ei gwasg, ac a derfynent mewn tafleuau o'r un metel, y rhai oeddynt wedi eu cerfio a'u haddurno â phedwar o feini gwerthfawr. Ei thrwyn hefyd a addurnid â modrwy aur anferthol, wedi ei gwychu â gemau o faintioli mor fawr fel ag i guddio ei genau, ac yr oedd yn rhaid eu symud pan y byddai y foneddiges yn bwyta. Rhesi trymion o gleiniau, darnau o gwrel, a gem-feini gwerthfawr, a grogent oddiar ei gwddf; modrwyau arian a amgylchent yn llac ei harddynau a'i fferau, ac a drystient yn uchel pan rodiai. Tefid mantell ffras brithesog dros ei chrysglas pan elai allan o'r babell, a rhwymid cadach cyffredin am ei phen. Yn ei thyluaeth, hi a unai y cynneddfau breninesol a theuluol, ac yr oedd y cwbl yn cael eu dwyn ymlaen gydag ystyriaeth ddyladwy at gynnilddeb. Yr oedd y llen fawr o frethyn o flew geifr, yr hon a ffurfiar y babell, yn cael ei ddal i fyny gan ddeuddeg neu bedwar ar ddeg o bolion, ac yr oedd yn

hollol agored ar un ochr. Gan ei bod wedi ei chwbl neillduo i'r gwragedd, nid oedd dim terfynau ynddi, fel sydd yn mhabel yr Arab cyffredin, yr hwn sydd yn gorfod neillduo cornel i dderbyn ei westeion. Rhwng y polion canol, yr oedd sachau o flew geifr wedi eu gosod yn glôs at eu gilydd, ac yn llawn *rice*, *yd*, haidd, coffi, &c., â'u geneuau yn agored. Taenasiid carpedau a chlustogau arnynt, ac ar y rhai hyn y gorweddaid Amsha. Yr oedd oddeutu hanner cant o lawforwnion o'i hamgyleh, yn eu crwcd ar y llawr, i gyd naill ai yn gwyllo y peiriau llydain; yn crasu bara ar y dalenau haiarn oedd wedi eu poethi ar y marwor, neu yn ysgwyd y crwyn oedd yn llawn llaeth ac yn crogi oddiwrth dri pholyn, yr hwn a gorddent yn y dull yma, er mwyn cael ymenyn. Braint y wraig benaf ydyw darparu y ciniaw i westeion ei gŵr, yn ei phabell ei hun. Y tânau oeddnt yn gynneu ar bob llaw, a anfontent i fyny gwmwl, yr hwn a grogai yn drymlyd o dan lèni y babell, ac a fuasai er ys talm wedi pylu pob llygaid llai dysglæra na rhai Amsha. Fel y byddai y merched yn galw am gyflenwadau, hi a godai gornel ei charped, dattodai eneuau ei sachau, a rhanai eu cynnwysiad. Yr oedd pob peth yn myned drwy ei dwylaw hi. Er mwyn dangos ei hawdurdod a'i huchafiaeth, hi a arllwysai ffrwdlif o ddfiriad ar ei llawforwnion, y rhai y mae yn rhaid fy esgusodi rhag ceisio eu cyfieithu. * * * * *

Ei phlant, tri o fechgyn bychain noethion, wedi duo gan yr haul a'r llaid, a'u haddurno â chynffon hir yn crogi o'u coryn, a ymdreiglent yn y lludw neu ar y glaswellt. Yr oedd Amsha, fel y dywedais, yn meddu rhan yn serchiadau, er nad oedd o habell Sofuk—oblegid meddai pob tylwyth ei babell ei hun—gyda dwy eraill; Atoniah, nid oedd hon fawr yn ol iddi o ran harddwch personol; a Ferrah, yr hon o ran ei dechreuad oedd yn gaethforwyn o Yezidih, ac heb feddu yr hawl leiaf i gael ei chyfrif yn hardd. Yr oedd Amsha, pa fodd bynag, yn dal ei llywodraeth o hyd, ac ni allai y lleill eistedd i lawr yn ei gŵydd heb ei chenad. Iddi hi yr ymddriedid agoriadau y fwyd-gell—a chaniatau bod gan Sofuk fwyd-gell ac agoriadau—ac nid oedd yr un apeliad oddiwrth ei hawdurdod ar bynciau perthynol i deuluaeth."

Rhaid i ni addef fod y dyfyniad hwn yn faith, yn rhy faith, fe allai, ond gan ei fod yn rhoddi darluniad mor fywiog o arferion teuluaid plant y diffeithwch, ni allem ymattal rhag ei osod o flaen y darllenwyr. Y mae yn ddiogel genym yr esgusoda y rhan decaf o'n darllenwyr ni am roddi un dyfyniad pellach, sef o'r dull y bydd yr Arabiaid yn cymeryd iddynt eu hunain wragedd, ac yna ni a awn ymlaen gyd â'n pwnc.

"'Ya Bej' (O Arglwydd), meddai Dathan, un o lwyth Sofuk, a anfonasid i hebrwng Mr. Layard, 'nid yw yr Arab yn meddwl am ddim ond dau beth, rhyfela a charu; am ryfela, O Bej, y mae pawb yn deall hyny; gan hyny, ni a ymddyddanwn am garu;' a soniai mewn iaith wresog am lendid y gwryfyon Arabaidd, a'r gwobrwyon gwerthfawr a addawent i'r neb a hynodai ei hun wrth yspeilio neu ymladd. Yna, dywedodd wrthyf am eu dull yn caru, a'r modd y byddai carwr yn hysbysu ei gariad. Bydd serchiadau Arab yn cael eu rhoddi yn fuan ar ryw eneth a ddenai ei fryd wrth iddi basio, pan yn dwyn dwfr o'r ffynnonau, neu yn symud i borfeydd newydd. Nid oes dim cyffelyb i sydynrwydd ei gariad, ond ei wresogrwydd yn unig. Bydd yn barod i farw drosti, ac y mae naill ai yn ymroddi i gampau gorwyllt, neu i feddyliau pruddglwyfus. Ni fydd y wryf, neu wrthddrych ei serch, yn gwybod am y teimladau a gyffroisai. Y carwr, gan hyny, a geisia wneuthur y peth yn hysbys; ymddyddana âg un o'i pherthynasau, neu ryw aelod o'r llwyth a fyddo yn cael derbyniad i *harem* y babell lle byddo hi yn trigo; ac wedi sicrhau ei gyfrinach trwy lŵ, addefa ei gariad, ac erfynia ar ei gyfrinachwr i geisio cyfleusdra iddo gael ei chyfarfod. Os cydsynia hwn i siarad â'r ferch, el ati pan fyddo ar ei phen ei hun, ac wedi tynu i'fyny flodeuyn neu laswelltyn, dywed wrthi, 'Cymerwch eich llŵ, yn enw yr Hwn a wnaeth y blodeuyn yma, na ddadguddiwch chwi byth wrth neb y peth yr wyf fi yn myned i'w ddyweyd wrthyh.' Os na fydd yn dueddol i dderbyn

anerchiadau carwr, hi a wrthyd, ac a el ymaith, ond ni ddadguddia byth wrth neb yr hyn a gymerasai le; neu os bydd i'r gwrthwyneb, hi a etyb, 'Yr wyf yn tyngu wrth yr Hwn a wnaeth y ddalen a ninnau,' ac yna fe drefna y dyn y fan a'r pryd y bydd i'r ddau gyfarfod. Anaml, os byth, y bydd y llŵn a gymerir dan yr amgylchiadau hyn yn cael eu tŏri. * * * * Ni ddichon i'r drefn o briodi, a'r egeuludra â pha un yr ymddygir at y gwragedd lai na bod yn niw-eidiol yn eu canlyniadau. Os bydd Arab yn amimheu ffyddlondeb ei wraig, ac yn cael profion eglur o hyny, geill ei lladd yn y fan; ond yn y cyffredin, efe a ddewisa yn hytrach gelu ei warth oddiwrth y llwyth, gan y dygai y cyhuddiad hwn waradwydd arno ei hunan. Weithiau, bydd yn ei hysgaru, yr hyn a ellir ei wneuthur, drwy adrodd deirgwaith ryw ffurf benodol. Bydd gan y wraig fwy o achos i ofni ei pherthynasau, y rhai yn gyffredin a'i rhoddant i farwolaeth, am ddwyn enw drwg, fel y dywedant, ar ei theulu."

Dychwelodd Mr. Layard i Mosul, a phrysuodd i Nimroud, ac yn fuan daeth llywodraethwr newydd, o'r enw Tahyar Pasha, i'r dalaeth, yr hwn a ddarlunir fel hen ŵr boneddig cyfiawn a haelfrydig, a thra hysbys yn llythraeth a hanesiaeth ei wlad. Daeth llythyr hefyd oddiwrth Syr Stratford Canning, yn awdurdodi Mr. Layard i fyned ymlaen â'r gwaith. Bu hyn yn gefnogaeth nid bychan iddo, oblegid ni chafodd ei flino gymaint ar ol hyny. Wedi dewis nifer fechan o weithwyr cyfarwydd, dechreuodd gloddio yn yr un man ag o'r blaen, a daeth o hyd i lawer o gerfiadau llewod a phenau dynion iddynt, darluniadau o'r brenin yn hela, dinas yn cael ei gwarchae, &c. Yr oedd y lliwiau arnynt, yn enwedig y glas a'r coch, mor ddysglaer a phan y gosodwyd hwynt gyntaf (*Esac.* xxiii. 14, 15) ond yr oeddynnt yn gwywo yn fuan wedi eu dwyn i'r awyr agored. Ond gan y bydd genym i roddi darluniad manylach o honynt yn fuan, ny ni a'u gadawn yn bresennol. Tra yr oeddynnt yn eu gwneuthur yn barod i'w symud ymaith, ymwelodd Tahyar Pasha, y llywodraethwr newydd, a gosgodd o'i swyddogion, â'r cloddiadau, a bu yno am ddau ddiwrnod.

"Wrth weled y cerffdelwadau, dadganodd ei syndod gymaint a'r Arabiaid, ac nid oedd ei dybiau ynghylch natur y gwrthdychau a ddarlunid yn nemawr fwy rheymol na rhai meibion y diffeithwch. Yr oedd y llewod pen-ddynol anferthol yn peri cy-maint o arswyd ag yr oeddynnt o ryfeddod i'w ddilynwyr. Adseiniol yr ymadrodd, 'Nid oes yr un Duw ond Duw' ar bobllaw. 'Eilunod yr anffyddwyr yw y rhai hyn,' meddai un mwy gwybodus na'r lleill. 'Gwelais lawer o rai cyffelyb iddynt pan oeddwn yn Italia gyda Reaschid Pascha, y cenadwr. Wallah, y maent ganddynnt yn eu holl eglwysydd, a bydd y Papas (offeiriad) yn penlinio ac yn llosgi canwyllau o'u blaen.' 'Na, fy oen,' meddai Twrc henach, a mwy profiadol, 'mi welais eilunod yr anffyddwyr yn eglwysydd Beyoglu, y maent wedi eu gwisgo mewn amryw lliwiau, ac er fod gan rai o honynt esgyll, nid oes gan ddim o honynt gorff a chynffon ci; dyma waith y Jin, y rhai y darfu i Solomon sanctaidd, heddwch iddo i eu melldithio, a'u carcharu dan eu sel.' 'Mi a welais rai tebyg iddynt yn siopau eich meddygon a'ch eillwyr,' meddwn innau, gan gyfeirio at y delwau adnabyddus, hanner merch a hanner llew, a welir mor gyffredin yn marchnadleceodd Caerysteny. 'Na ato Dpw,' meddai y Pasha, 'dyma yr arwyddluniau cysegredig y llefara y gwir gredinwyr yn barchus am danynt, ac nid cywreinwaith yr anffyddwyr.' 'Nid oes yr un anffyddiwr yn fyw,' meddai y peiriannydd, yr hwn yr edrychid i fynt ato fel awdurdod ar y pynciau hyn, 'yn Frangistan nac yn Yenghi Duma (America) a llai wneuthur dim yn debyg i hwn acw; gwaith y Majus (doethion y Dwyrain) ydynt; ac y maent i gael eu hanfon i Loegr, i ffurfio porth i balas y frenines.' 'Duw a fellldithio yr anffyddwyr a'u holl weithredoedd,' meddai rhaglawn y Pasha; 'y pethau a ddel o'u dwylaw sydd yn dyfod oddiwrth Satan; fe ryngodd bodd i'r Hollalluog iddynt fod yn fwy cywrair a galluog na'r gwir gredinwyr yn y byd yma, fel y byddo eu cosbedigaeth hwy a gwobr y ffydd-loniaid yn fwy yn y byd nesaf.'"

Daeth yr hin mor boeth, ac icchyd Mr. Layard mor wael, fel ag i wneuthur

yn anghenrheidiol iddo fyned i hinsawdd mwy tymherus; o ganlyniad, penderfynodd fyned i fynyddoedd y Tiyari, i ymweled â'r Cristionogion Caldeaid yno. Y mae ei hanes mor ddyddorawl fel yr ydym yn dra an-ewyllysgar i'w adael allan, ond gan y cymerai ormod o le yn bresennol, ni awn heibio iddo, gan fwrriadu cygynted ac y cawn hamdden i ddychwelyd a rhoddi crynodeb o hanes am y Cristionogion hynod hyn, y rhai a ellir eu galw yn Brotestaniaid Asia. Ar ei ddychweliad i Mosul, cafodd lythyrâu o Loegr yn ei aros yno, yn hysbysu fod Syr Stratford Canning wedi trosglwyddo y cwbl a gaffai yn y cloddiadau i'r llywodraeth Frytanaidd, a bod y llywodraeth wedi caniatâu swm o arian er dwyn ymlaen y cloddiadau yn Nimroud, a manau eraill. Er nad oedd y swm ond bychan, eto penderfynodd Mr. Layard ei ddefnyddio yn y ffordd oreu, a'i wneuthur i fyned can belled ag y gallai. Yr oedd anghen mawr arno am ddarluniedydd, trwy fod llawer o'r cerfiadwaith yn rhy ddrylliog i'w symud; ond gorfu iddo gymeryd y gorchwyl hwn arno ei hun, heblaw arolygu yr holl weithwyr, a phacio i fyny y rhai a ddalient eu symud. Wedi cyflogi nifer o'r Arabiaid, hanner cant o'r Nestoriaid Caldeaid a'u teuluoedd, naddwr marmor celfydd, saer, &c., efe a ymosododd ar y gwaith drachefn; ac yn awr yr oedd ei lwyddiant yn gymhesur â'i ymdrechadau. Pan roddasai i fyny ei waith oddeutu y Nadolig, wyth o ystafelloedd oeddynt wedi eu diorehuddio; ond erbyn diwedd mis Ebrill daethai o hyd i wyth ar hugain o ystafelloedd êang, a'r cwbl o honynt yn llawn o gerfiadau.

“Yr oedd y bâsddelwadau yn rhai o'r dyddordeb mwyaf. Darlunient ryfel- oedd y brenin, a gorchfygiad cenedl estronol. Gwelid y brenin a'i filwyr mewn rhyfel â'i elynion o dan gastell gelydol. Saif mewn cerbyd, wedi ei ddilladu yn orwych, ac yn cael ei dynu, fel arferol, gan dri o feirch wedi eu hamwigo yn geinwch. Y mae yn gollwng saeth yn erbyn y gwarchaudegion, neu yn erbyn rhyfelwr, yr hwn sydd eisoes wedi ei archolli, ac yn syrthio allan o'i gerbyd, un o feirch pa un sydd wedi cwmpo i lawr. Y mae gweinydd yn amddiffyn corff y brenin â tharian, a cherbydwr yn dal yr awenau, ac yn gyru y meirch yn eu blaen. Gwelir rhyfelwr wedi syrthio o gerbyd y gelyn, ac y mae bron dan draed y meirch. Uwch y brenin, darlunir ei nawdd-dduw, cyffelyb i'r rhai yn Persepolis, ar lun dyn asgellog, mewn cylch, ac yn gwisgo cap corniog, tebyg i'r llewod a'r teirw, a phenau dynion iddynt. Yn debyg i'r brenin, y mae yntau yn gollwng saeth, ond bod ei phen yn dair fforchog. Y tu ol i'r brenin y mae tri cherbyd, y cyntaf sydd yn cael ei dynu gan dri o feirch, un o ba rai sydd yn prancio ac un arall yn cwmpo—yn hwn mae y rhyfelwr wedi ei drywanu gan saeth, ac fel pe byddai yn erfyn am arbediad ei fywyd. Mae dau ryfelwr yn y cerbydau eraill, un yn gollwng saethau, a'r llall yn llywio y meirch, y rhai sydd ar garlam. Y mae baner yn mhob cerbyd—yr arwyddlun ar un ydyw bwäwr, â chap corniog ganddo, heb esgyll iddo, ac yn sefyll ar darw; ac ar y ddwy arall dau darw, gefn yn nghefn. Yn ngwaelod y fasddelwad gyntaf, y mae llinellau tônog, i ddynodi afon neu ddwfr, ac y mae sypiau o goed yma ac acw ar y ddau. Mewn gwahanol ranau darlunir dynion yn ymladd â'u gilydd, neu yn ladd y gelynyon; a thri o gyrff wedi eu torfynyglu uwch y prif luniau yn yr ail fasddelwad a arddangosant y lladdedigion. Ar ranau uchaf y ddwy lech ddilynol, yr ydoedd y dychweliad ar ol y fuddygoliaeth. Yn mlaen yr orymdaith y mae amryw ryfelwr yn cario penau dynion, ac yn eu taflu wrth draed y buddygoliaethwyr. Dau o beroriaethwyr a chwareuant ar offer tant, neu fath o delynau. Dilynir hwy gan y rhyfelwr a welwyd yn y llechau blaenorol, yn ddiarfog yn awr, yn dal eu llum- anau o'u blaen, ac uwch eu penau y mae eryr yn ehedeg gyda phen dyn yn ei grafangau. Y brenin sydd o'r tu ol iddynt, yn cario bwa mewn un llaw, a dwy saeth yn y llall—y dull y darlunir ef mor aml ynddi yn y cofadeilau Assyriaidd,

a thebygol fod hyn yn dynodi ei fuddygoliaeth ar ei elynion. Uwch ei gerbyd y mae y duw arlywyddawl, yn dal bwa hefyd yn ei law. Yn lle yr ail ryfelwr, yr hwn a gariol y darian yn y rhyfel, cymerir ei le yn awr gan eunuch yn codi huanlen (*parasol*) uwch ben y brenin; mae y trydydd rhyfelwr yn parhau i ddal awenau y meirch, y rhai a dywysir gan feirchweision yn sefyll wrth eu penau. Tu ol i gerbyd y brenin y mae marchogwr yn arwain march arall wedi ei dacu yn wych.

Ar ol yr orymdaith yr ydym yn cael castell a phabell y brenin buddygoliaethus. Arddangosir llawr-gynllun (*ground plan*) y castell trwy gylch wedi ei ddostrau yn bedwar dosran cyfartal, a'i amgylchu gan dyrau a murganllawiau. Darlunir dynion yn mhob dosran yn eglur, yn coginio ac yn darparu gwledd; deil un ddfad, tra mae y llall yn ei thori i fyny; ymddengys un arall yn pobi bara. Amrywiol gawgiau a llestri a safant ar ystolion, ac y maent oll yn hynod o ran harddwch eu lluniau. Cynnelir y babell gan dri o bolion neu golofnau; ar ben un o honynt y mae y cornyn ffawydd—yr arwyddlun sydd i'w gael mor aml mewn cerfiadwaith Assyriaidd, ar y lleill y mae darluniau o'r *ibex* neu afr y mynydd. Maent wedi eu llunio yn hynod o dda, a'u cerfio yn ofalus. Y defnydd, sidan neu wlanen mae yn debygol, â'r hwn y mae pen uchaf y babell wedi ei gorchuddio, sydd wedi ei addurno yn orwych, a'i ymylu âg ymylwc o gornynau ffawydd bob yn ail âg addurn arall a geir yn fynych yn mrwydwaithy gwisgoedd ac addurniadau yr ystafelloedd. O dan y nenlen y mae marchwas yn glanhau march, tra mae eraill yn rhwym, yn ymborthi wrth gafn. Saif eunuch yn nrws y babell, i dderbyn pedwar carcharor, y rhai, â'u dwylaw wedi eu rhwymo y tu ol iddynt, a ddygir ato gan ryfelwr â helm bigfain ar ei ben. Uwch ben y rhai hyn y mae dau lun hynod, o ffurf ddynol, â phenau llewod ganddynt. Deil un fflangell, neu garai yn ei law ddeheu, a gafaela â'r aswy yn ei ên isaf. Y mae dwylaw yr ail ar i fyny, ac yn mhleth. Gwisgant grysau yn disgyn hyd benau eu gliniau, ac y mae croen yn disgyn o'u pen, dros eu hysgwyddau, hyd eu sferau. Y mae dyn arall gyda hwynt wedi ei wisgo mewn crys cwtâ, ac yn codi ffon â'i ddwy law. Y pedwar cerffidelwad nesaf a ddarluniant frwydr, yn yr hon y mae y brenin, y ddau ryfelwr â'u llumanau, ac eunuch, mewn cerbydau; a phedwar rhyfelwr, ac eunuch yn eu plith, ar feirch. Mae y gelynyon yn ymladd ar eu traed, ac yn gollwng eu saethau yn erbyn eu hymlddwydr. Eryrod a gyhwanant uwch ben y buddygoliaethwyr, ac y mae un o honynt eisoes yn ymborthi ar gorff marw. Gwelir y duw asgellog yn y cylch eto uwch ben y brenin. Mae y bäsddelwadau hyn wedi eu cerfio yn hynod o dda, yn enwedig yr un a gynnwysa y marchogion.

Y gyfres nesaf o fäsddelwadau a gynnwysant dri darlun—castell yn cael ei warchae, y brenin yn derbyn carcharorion, a'r brenin a'i filwyr yn croesi afon. Y blaenaf a lanwai y dosbarth isaf o'r tair llech. Y mae y rhan fwyaf o'r castell yn nghanol y bäsddelwad. Y mae tri thŵr i'r castell, a gwelir amryw furiau, y naill y tu ol i'r llall. Y mae canllawiau ongllog ar eu penau hwynt i gyd. Y gwarchaewyr a ddygasant hyrddyr (ynghlyn wrth dŵr symudadwy, yr hwn a wnaed o helyg plethedig, mae yn debygol) i fyny at y mur allanol, o'r hwn y mae llawer o feini wedi eu ffwriadu eisoes, ac yn syrthio i lawr. Y mae un o'r gwarchauedigion wedi llwyddo i ddal yr hyrddyr wrth gadwen, ac y mae yn ceisio ei godi i fyny, neu ei symud o'i le; tra y mae dau o'r ymosodwyr yn ceisio ei ddal i lawr â bachau, wrth y rhai y maent yn crogi. Mae un arall yn taflu tân (gwelir olion o'r paent coch eto ar y cerfiad) oddiuchod ar y peiriant, a'r gwarchaewyr a geisiant ddiffodd y fflamau trwy dywallt dwfr arno allan o ddwy bib sydd yn y tŵr symudadwy. Dau ddyn mewn arfwisgoedd cyflawn a geisiant ddadysyllaenu y muriau â rhywbeth tebyg i waewffyn, ond bod eu penau yn bwl; tra yr ymddengys fod dau eraill wedi dyfod o hyd i ffordd ddirgel i'r castell. Y mae tri o'r gwarchauedigion yn syrthio i lawr o'r castell, ac ar un o'r tyrau y mae dwy ddynes yn rhwygo eu gwallt, ac yn estyn eu dwylaw allan yn y weithred o erfyn trugaredd. Y mae y gelyn eisoes yn dringo i'r ymosodiad, ac y mae dringysgolion wedi eu gosod yn erbyn y muriau. Un ochr i'r castell, saif y brenin,

yn gollwng saeth, ac yn cael ei amddiffyn gan darian, yr hon a ddelir gan ryfelwr mewn cyflawn arwisgoedd. Dau eunuch a weinyddant iddo; un yn dal gwlawlen, a'r llall ei gawell saethau a'i berlysg (*mace*). Y mae rhyfelwr y tu ol iddo yn arwain ymaith ddwy wraig a phlentyn yn gaeth, ac yn gyru tri bustach, rhan o'r yspail. Darlunir y gwragedd yn tynu eu gwallt. Yr ochr arall i'r castell y mae dau yn penlinio, un yn gollwng y saeth, a'r llall yn ei amddiffyn â tharian. Y tu ol iddynt y mae y prifswyddog yn gollwng saeth, ac amddiffynir yntau hefyd gan darian milwr arall. Dilynir ef gan dri o filwyr eraill; mae y cyntaf yn penlinio, a dau o'r tu ol mewn cyflawn arwisgoedd yn eu sefyll, un yn camu ei fwa, a'r llall yn codi tarian. Ymddangosant fel pe baent wedi gadael eu cerbyd, yn yr hwn y mae y cerbydwr yn parhau i sefyll o hyd. Delir penau y meirch gan ddau farchwas, ac y mae dau ryfelwr o'r tu ol i'r cerbyd, a phob un yn cario bwa a berlysg. Y tri bäsddelwadau dilynol a arddangosant y brenin yn derbyn caethion. * * * * Saif dau gerbyd arall tu ol i gerbyd y brenin, a cherbydwr ar ei ben ei hun yn mhob un; y maent yn pasio dan fur castell, ar yr hwn y mae merched yn ymddyddan yn llawen; mae yn debygol eu bod yn edrych ar yr orymdaith, neu yn ymddyddan ynghylch yr ymgyrch.

Y tri bäsddelwadau eraill—y mynediad trwy yr afon, ydynt yn hynod ddyddorawl a chywrair. Yn y cyntaf darlunir cwch â cherbyd ynddo, yn yr hwn y mae y brenin. Dalia ddwy saeth mewn un llaw, a bwa yn y llall. Saif eunuch o flaen y cerbyd, yn ymddyddan â'r brenin, ac yn cyfeirio â'i law ddeheu at ryw wrthddrych yn y pellder, fe allai mai at amddiffynfa y gelyn. Y mae eunuch arall tu ol i'r cerbyd, yn dal bwa a berlysg. Llusgir y bäd gan ddau ddyn yn noethion, y rhai sydd yn rhodio ar y tir sych; ac y mae pedwar o ddyinion yn rhwyfo y bäd. Y mae un rhwyf â phen llydan gwastad iddi, wedi ei dodi trwy raff, yr hon sydd wedi ei rhwymo wrth bin praff, ac a ddefnyddir i lywio ac i yru y bäd ymlaen ar yr un pryd. Y mae yn beth hynod, mai dyma y dull a arferir yn awr gan drigolion Môsul pan groesant y Tigris, hwyrach mewn llestri mwy anghelfydd na'r rhai a arferid ar yr afon dair mil o fynyddau yn ol. Cerbydwr, yn sefyll yn y llestr, a ddeil gebystyr pedwar o feirch, y rhai sydd yn nofio draws yr afon. Y mae dyn noeth yn cynnal ei hun ar groen wedi ei chwythu—dull o nofio sydd mewn bod eto yn Mesopotamia. Yn wir, gallai y tri bäsddelwad, oddieithr y brenin a'r cerbyd, ddarlunio golygfa a ellir ei gweled bob dydd ar lanau y Tigris, yr hon yw yr afon, mae yn debygol, a ddarlunir yma. Darlunir y dwfr trwy y llinellau tönog sydd yn llenwi wyneb y llech. Ar y llech nesaf, y mae dau gwch llai; yn y cyntaf, y mae gwely y brenin, a chostrel neu lestr mawr; ac yn y llall gerbyd gwag: rhwyfir y ddau gan ddyinion yn eistedd wyneb yn wyneb, wrth eu rhwyfau. Y mae pump o ddyinion (dau o ba rai sydd yn tywys meirch) yn nofio ar grwyn. Darlunir dau bysgodyn yn y dwfr. Ar y drydedd lech darlunir y cychwyniad—gwelir dnyion yn gosod dau gerbyd yn y bäd, yr hwn sydd ar ymadael oddiwrth y lân; mae dau ryfelwr, un yn meddu cynnalydd, a'r llall heb yr un, yn nofio drosodd; a dau eraill yn chwythu ac yn rhwymo i fyny grwyn i nofio arnynt. Y tu ol iddynt, ar y tir sych, saif tri o ddyinion, swyddogion, mae'n debygol, yn arolygu yr hyn sydd yn myned ymlaen; un o honynt, yr hwn sydd eunuch, a ddeil ffangell yn ei ddeheulaw, yr hon, fe allai, a ddefnyddid fel yn nyddiau Xerxes, i gadw y milwyr at eu dyledswydd, a'u hattal rhag dianc trosodd at y gelyn."

Yr oedd un o'r ystafelloedd wedi ei gwaghau mewn rhan, er bod y muriau eto yn hanner guddiedig. Rhoddwyd nifer o'r Arabiaid ar waith i arloesi y lle, a chafwyd darnau o'r rhyfelwisgoedd a ddarlunid ar y parwydydd, ond yr oeddynt wedi rhydu gormod i ddal at eu gilydd. Casglwyd casgliadau o honynt, a dygwyd hwynt i Loegr. Syrthiasai pedair o'r llechau i'r llawr o'u lleoedd yn y mur, a chafwyd darnau o lestr alabaster, &c. danynt, ond yr oeddynt oll wedi myned yn chwilfriw. Yr oedd llythyr-enau ar rai o'r llestri tebyg i'r rhai a geir ar gofadeladau Babilonia a

Phœnicia, a barnai Mr. Layard mai hwn oedd y dull arferol o ysgrifenu, a bod y llythyrenau cunffurfiedig wedi eu neillduo at argraffiadau cysegredig a choffadwriaethol. Yn nghanol y crug hwn y daeth Mr. Layard o hyd i un o'r pethau hynotaf a mwyaf dyddorawl a gafodd yn ei holl ymchwiliadau. Yr oedd wedi cloddio ffos oddeutu hanner can' troedfedd o hyd, ac wedi bod yn gweithio yno am ddiwrnodau heb ddyfod o hyd ond nesaf peth i ddim, ac felly yr oedd rhwng dau feddwl pa un a äi ymlaen â'r gwaith yn y fan hono ai peidio. Gan fod achos yn galw arno i fyned i Mosul, cyfarwyddodd y gweithwyr beth i'w wneuthur tra y byddai efe yn absennol. Ond gyda ei fod wedi cychwyn, daeth Arab ar ei ol yn dymuno arno ddychwelyd. Wedi myned at y clawdd, cafodd fod y gweithwyr wedi dyfod o hyd i gogolofn oddeutu chwe' troedfedd a hanner o hyd. Yr oedd yn gorwedd ar ei hochr ddeg troedfedd dan y ddaer.

"Disgynais (meddai) yn awyddus i'r ffos, a synais wrth ymddangosiad hynod a hynafiaeth amlwg y gogolofn hon. Codasom hi i fyny, a thrwy gynnorthwy rhaffau, llugasom hi yn fuan o'r adfeilion. Yr oedd ei phedair ochr wedi eu cerfio, ac yr oedd arni yn gwbl ugain o fâsgerfiadau bychain, ac uwchlaw iddynt, o danynt, ac yn eu canol, y mae argraff o 210 o linellau. Yr oedd y cwbl yn y cadwraeth goreu, prin yr oedd llythren o'r argraff yn ddiffygiol. Y darluniau arni oedd mor lym ac eglur a phe cerfiesid hwy ychydig ddyddiau yn ol. Darlunir y brenin arni ddwywaith, yn cael ei ddilyn gan ei swyddogion, a charcharor wrth ei draed. Ei benswyddog a'r eunuchiaid a ddygant i mewn ddynion yn tywys anifeiliaid, a phethau eraill, yn deyrnged, ar eu hysgwyddau ac yn eu dwylaw. Yr anifeiliaid ydynt y cawril, y *rhinoceros*, y camel Bactriaidd, neu yr un a dau grwmach, teirw gwyllt, llew, carw, a gwahanol rywiau o eppaod. Ymhlith y pethau sydd yn cael eu cario gan y rhai a ddygant deyrnged, gellir nodi ysgythr-ddannedd cawrilod, gwargobrau (*shawls*), llestri o fetteloedd gwerthfawr, firwythau, a barau o fettel, neu goed gwerthfawr. Gellir casglu yn naturiol, gan hyny, oddiwrth natur y bâsgerfiadau, fod y golofn wedi ei chodi i goffâu goresgyniad India, neu ryw wlad yn y dwyrain o Assyria, ac ar gyffiniau y feisynys Indiaidd. Ymddengys fod y brenin y coffeir ei weithredoedd arni o'r un enw a'r un a enwir ar y tarw canol."¹

Heblaw y golofn yma, cafwyd amryw bethau hynod eraill yn yr un ys-tafell, megys merchwibfil (*sphinx*), darnau o briddfeini cerfiedig, llestri pridd, beddgistiau, &c., ond nid oedd modd gwneuthur fawr ddefnydd o honynt. Yr oedd yn amlwg oddiwrth y tomenydd o ologsed fod yr adeilad wedi cael ei ddinystrio trwy dân, yr hwn a losgasai y cerfiadau gymaint fel yr peddynt yn troi yn llwch ar y cyffyrddiad cyntaf.

Yr ydym yn awr wedi dilyn yr awdur trwy y rhan fwyaf o'r helynt, a chan y dysgwylwn gael cyfle pellach i roddi hanes manylach am yr hynafiaethau, fel y maent yn dwyn cysylltiad âg arferion gwladol a theuluaid yr hen Assyriaidd, ac â'r ysgrythyrau sanctaidd, rhaid i ni yn awr ganu yn iach i'w gyfeillach ddyddorawl, wedi crybwyll am ei drafferth yn parotdi yr hynafiaethau i'w trosglwyddo i Loegr. Ei orchwyl cyntaf ydoedd gwneuthur math o gludar i'w dwyn i lawr at lân yr afon. Er nad oedd hon, fel y gellid dysgwyl, ond rhyw beiriant tra anghelyfdd ac anhylaw, eto, yr oedd yn destun o ryfeddod cyffredinol, ac yr oedd trigolion Mosul yn myned yn lluoedd i edrych arni.

"Pan ledanwyd y newydd ei bod ar fyned trwy y pyrth, ac i gael ei llusgo dros y bont, yr oedd holl orchwyllion y dref wedi sefyll. Cofiaduron ac ysgrifen-

¹ Mae y golofn hon yn awr yn y *British Museum*.

ydd y palas wedi gadael eu *divans*, a'r gwarchlu eu swyddau; yr oedd y marchnadleoedd yn weigion, a hanner y trigolion a ymgynnullasant ar lán yr afon i weled symudiadau y gertwyn. Dau fual, a nifer o Galdeaid ac Arabiaid bloeddgar yn eu cynnorthwyo, a wthiasant yr olwynion dros bont o gychod braenedig. Ymddangosai y dorf fel wedi eu llwyr foddloni yn yr olygfa. Bu y gertwyn yn destun o ymddyddan cyffredinol yn Mosul, nes y derbyniwyd teganau plant yno o Ewrop—cwn yn cyfarth, llam-ddelwau (*puppets*), y rhai a barasant gyffro newydd, ac a lanwasant hyd yn nod y rhai mwyaf difrifol o'r offeiriaid â syndod at ddysegeidiaeth a doethineb yr anffyddwyr."

Daeth lliaws o drigolion Naifa a Nimroud i gynnorthwyo yn y gwaith o symud y teirw, ac wedi gwneuthur pob darpariadau anghenrheidiol,

"Disgynodd y tarw yn raddol, y Caldeaid yn ei ategu â chynnalbyst. Yr oedd yn fynyd o bryderwch mawr. Sŵn tabyrddau a phibau gwichsain y peroriaethwyr Kurdaidd a chwaneget y trwst a'r annhrefn a achosid gan ryfelloedd yr Arabiaid, y rhai oeddynt yn hanner gwallgof gan y cynhwrf. Taffasant ymaith eu holl wisgoedd o'r bron, eu gwallt hirllaes a chwifiai yn y gwynt, a gwneant yr ystumiau rhyfeddaf wrth hongian wrth y rhaffau. Y gwagedd a ymgyrasant ar lethrau y cloddiau, a thrwy eu hysgrechiadau dibaid, a'u *taklehl* clustdreiddiol, chwanegent at benboethni y dynion. Wedi cael y tarw unwaith mewn ysgogiad, nid oedd yn bosibl mwyach i gael gwrandsawiad. Yr oedd fy moeddiadau uchaf yn cael eu boddi yn y lleisiau anghydsain hyn. Ni allai y ffangelbau o grwyn yr *hippopotamus* a ddefnyddiai y Cawasiaid, na'r priddfeini a'r talpiau o dyweirch a pha rai y ceisiwn dynu sylw y rhai mwyaf trystfawr o'r fintai, wneuthur yr argraff leiaf. Ymaith yr aeth y tarw yn ddigon disigl cyhyd ag yr ategid ef gan y cynnalbyst, ond fel yr oedd yn dyfod yn nes at y rholiau, ni ellid defnyddio y cynnalbyst mwyach. Y rhaffau a ymestynent fwyfwy, trwy eu bod wedi sychu gan y gwres; gwichient, a thallent lwch i fyny wrth ymestyn. Taffwyd dwfr arnynt, ond yn ofer, oblegid torasant i gyd ar unwaith, pan yr oedd y cerfiadwaith o fewn pedair neu bum troedfedd i'r rholiau. Taffwyd y tarw i'r llawr; y rhai a ddalient y rhaffau, wrth gael eu rhyddhau fel hyn yn ddisymwth, a ddilynasent eu esiampl, nes yr oeddynt yn rholio y naill ar draws y llall yn y llwch. Dystawrwydd a ddilynodd y moeddiadau. Rhuthrais i lawr i'r cloddiau, yn dysgwyl cael y tarw yn ddrylliau. Byddai yn anhawdd darlunio fy moddlonrwydd pan y cefais ei fod yn gorwedd yn union yn y fan y dymunaswn ei osod, ac heb dderbyn dim niwed! Cyn gynted ac y gallodd yr Arabiaid sefyll ar eu traed, ac y gwelsant y canlyniad o'r ddamwain, neidiasant allan o'r cloddiau, a chan gipio gafael yn nwyllaw y gwagedd oedd yn edrych arnynt, ffurfiasant gylch mawr, a chan oernadu eu rhyfelloedd gyda nerth dauddyblyg, dechreusant ddawnsio fel pethau hanner gwallgof. Y peroriaethwyr a leisiant â'u holl egni, ond yr oedd eu peroriaeth yn cael ei foddli yn moeddiadau y dawns-wyr. Cyfranogodd hyd yn nod Abd-ur-rahman yn y cyffro, a chan dasfu ei fantell i un o'i weithwyr, mynodd flaenori yn y ddawns. Ofer fuasai ceisio rhoddi attaliad ar y gweithrediadau hyn. Dewisais yn hytrach adael i'r dynion fino eu hunain, yr hyn yn fuan a fyddai y canlyniad, wrth ystyried maint yr ymdrech a'r yni a ddangosid gyd ag aelod a gwddf, ac ni fu hyn yn hir cyn cymeryd lle."

Wrth ddychwelyd adref, yr oedd penboethni Abd-ur-rahman wedi oeri ychydig, a rhoddi lle i ystyriaethau a myfyrdodau moesol.

"‘ Rhyfeddol! rhyfeddol! Nid oes Duw ond Duw, a Mahomed yw ei brophwyd,’ meddai, ar ol gosteg faith, ‘ yn enw y Goruchaf, dywedwch wrthyf, O Bey, beth yr ydych yn ei wneuthur â'r meini yna? Gynnifer o godau wedi eu gwario ar y cyfryw bethau! A ydyw yn bosibl, fel y dywedwch, fod eich pobl chwí yn dysgu doethineb oddiwrthynt, neu a ydynt, fel y dywed ei barchedigaeth, y Cadi, i fynyed i balas eich brenines, yr hon gyda'r lleill o'r anffyddwyr, a addolant yr

eilonod hyn? Am ddoethineb, ni ddysga y delwau hyn mohonoch i wneuthur gwell cylyll, neu welleifiaw, neu liain cotwm, ac yn ngwneuthuriad y pethau hyny y mae y Saeson yn dangos eu doethineb. Ond mawr yw Duw! mawr yw Duw! Dyma feini sydd wedi bod yn guddiedig byth er dyddiau Noah, tangnefedd iddo! Fe allai eu bod dan y ddaear cyn y diluw. Yr wyf fi wedi byw ar y tiroedd hyn am flyneddau. Fy nhad, a thad fy nhad a osodent eu pebyll yma o'm blaen i; ond ni chlywsant erioed am y delwau hyn. Am ddeuddeg cant o flyneddau y mae y gwir gredinwyr (a moliant i Dduw, gyda hwy yn unig y mae gwir ddoethineb) wedi bod yn preswyllo yn y wlad hon, ac ni chlywodd yr un o honynt erioed son am balas tan y ddaear. Ac ni clywodd ychwaith y rhai a aethant o'u blaen. Ond wele, dyma Ewropead, o daith pellder llawer o ddyddiau yn dyfod, ac yn cerdded i fyny yn union at y fan; ac yn cymeryd ffon (ac ar yr un pryd yn egluro ei ddesgrifiad â blaen ei waewffon), ac yn gwneuthur llinell yma a llinell acw. Yn y fan hon, meddai, y mae y palas; acw, meddai, y mae y porth, ac yn dangos i ni y pethau sydd wedi bod drwy ein bywydau dan ein traed, heb i ni wybod dim am danynt. Rhyfeddol! rhyfeddol! ai trwy lyfrau, ai trwy ddewiniath, ai trwy eich prophwydi, yr ydych chiwi yn dysgu y pethau hyn? Llefawrch, O Bey, mynegwch i mi ddirgelwch doethineb."

Ar ol llawer o boen a thrafferth, llwyddodd Mr. Layard i drosglwyddo ei gasgliadau o hynafiaethau nes eu cael i nofio i lawr y Tigris, a chyrrhaeddasant y wlad hon trwy Bombay. Pan yr oeddynt yn y lle olaf, bu rhywrai mor anonest a diegwyddor ag agor y cistiau, ac heblaw lladrata llawer allan o honynt, rhoddasant y lleill yn ol mewn modd mor esgeulus, fel yr oedd llawer o'r cerfiadwaith wedi myned yn ddrylliau erbyn iddynt gyrrhaeddyd Lloegr, a chafwyd llawer o anhawsdra a thrafferth yn eu asio a'u doddi yn ol wrth eu gilydd. Ni allwn derfynu yn awr mewn geiriau mwy cymhwys na'r rhai y mae Mr. Layard yn eu defnyddio i ddarlunio ei feddwl, pan yn syllu ar y delwau mawrion a ffurfient byrth ystafelloedd y palasau.

"Arferwn syllu am oriau ar yr arwyddluniau aneglur hyn, a myfyrio ar eu hanesyddiaeth. Pa ffurfiau ardderchocach a allai wysio y bobl i demlau eu duwiau? Pa gyffelybiaethau mwy goruchel a alliesid ei benthycu o natur, gan ddynion a geisient (heb feddu goleuni crefydd ddadguddiedig) gorffoli eu dirnadaeth am ddoethineb, gallu, a holl-bresenoldeb y Duw Goruchaf? Ni allent hwy gael amgenach cysgod o synwyr a gwybodaeth na phen dyn; o nerth, na chorff llew; o holl-bresenoldeb, nag adenydd aderyn. Nid oedd y llewod asgellog, penddynol hyn, ddim yn lluniau ofer, yn tarddu yn unig oddiar ddychymygon; yr oedd eu hystyr yn ysgrifenedig arnynt. Trwy y pyrth yr oeddynt yn eu gwyllo, breninoedd, offeiriad, a gwroniaid a ddygasent aberthau i'w hallorau, ymhell cyn i ddoethineb y dwyrain dreiddio i Groeg, a chynnysgaethu ei *mythology* â chysgodau a gydnabyddid er's talm gan yr addolwyr Assyriaid. Gallent fod yn gladdedig, a'u hanfodiad yn anadnabyddus cyn sylfaeniad y ddinas oesol. Am bum canrif ar hugain, yr oeddynt wedi bod yn guddiedig oddiwrth lygad dyn, ac yn awr yr oeddynt unwaith drachefn yn sefyll allan yn eu mawrhydi cyntefig. Ond mor wahanol yr olygfa oedd o'u hamgylch! Moethusdra a gwarder cenedl alluog a roddasai le i druenusarwydd ac anwybodaeth ychydig o lwythau hanner barbaraid. Golud temlau, a chyfoeth dinasoedd mawrion a ddilynasid gan hen adfeilion a sypiau annelwig o bridd. Uwch y neuaddadau lle y safent, fe yrasid yr aradr, a'r yd a gyhwfanai yno yn awr. Mae gan yr Aipht gofodeiladau mor hynod ac mor rhyfeddol, ond y maent hwy wedi sefyll allan trwy yr oesoedd i dystio am ei gallu a'i henwogrydd boreuol; tra na ddaethai y rhai a safent yn bresennol o'm blaen allan ond hyd yn awr i dystio bod "Asur wedi bod yn gedrwydden yn Libanus, yn deg ei changau, a'i brig yn cysgodi, ac yn uchel ei huchder, a'i brigyn rhwng y tewfrig. . . . Ym-

ddyrchafasai ei huwchder goruwch holl goed y maes, a'i cheinciau a amlhasant, a'i changenau a ymestynasant o herwydd dyfroedd lawer, pan fwriodd hi allan. Holl ehediaid y nefoedd a nythent yn ei cheinciau hi, a holl fwystflod y maes a lydnent dan ei changenau hi; i.e. yr holl genedloedd lliosog a eisteddent dan ei chysgod hi: ond yn awr, 'Ninifeh sydd yn anghyfnannedd, ac yn sych fel diffeithwch, a diadellau a orweddant yn ei chanol hi, holl anifeiliaid y cenedloedd; y pelican a'r dyllian a letyant ar gap y drws, eu llais a gân yn y ffenestri, ac anghyfnannedd-dra sydd yn ei gorsingau!"

GWEDDILLION BARDDONOL DEWI WYN.

Trwy hynawsedd Ellis Owen, Ysw., o Cefnymeusydd, cawsom yr hyfrydwch o gyfleu ger bron ein darllenwyr, amryw fisoedd yn ol, rai o weddillion barddonol Dewi Wyn. I'r un boneddwr yr ydym yn ddyledus am yr emynau canlynol, o waith yr un Bardd; heblaw amryw eraill, y rhai a fwriedir i ymddangos mewn rhifynau dyfodol.—GOL.

EMYN AR RAGOROLDEB YR YSGRYTHYRAU.

Mae gwaith y greadigaeth fawr
Drwy'r ddaear lawr a'r nefoedd,
Yn dadgan teg ogoniant Duw
A'i allu gwiw ar gyhoedd.

Ond uwch ei enw mawr bob modd
Mawrhaodd air y cymmod;
Hwn sydd yn hollol eglurhau
Priodolaethau 'r Duwdod.

Y Goron deg a gar ein Duw,
A'i berlau yw'r efengyl:
A'r trysor sanctaidd yma sydd
Mewn llestri pridd pur eiddil.

Mae gair yr iachawdriaeth rad
Yn wir ddadguddiad dwyfol,
Uwch law goleuni natur gaeth,
A'r holl ddsygeidiaeth ddynol.

Er fod gweddillion dwyfol ddeddf
Drwy gynneddf dyn drygionus,
Yr haul a'r lloer a'r ser yn llu
I'w ddsygu yn ddiessgus.

Euogrwydd ac effeithiau 'r clwy'
Yn cynneu drwy 'r gydwybod;
'Does ond y gair yn dangos lawr,
Ac aberth llawn dros bechod.

Mae gweinidogaeth genau Duw
I ddynolryw 'n wir rëol;
Sy'n eglurhau 'r cyfammod rhad:
Hen fwriad lor anfarwol.

Ei ras a'i gariad mawr didrai,
Ei natur a'i ddoethineb;
Dirgelwch oedd mewn arfaeth dda
Er dyddiau trag'wyddoldeb.

EMYN AR YSBRYDOLIAETH YR YSGRYTHYRAU.

Boed in'i gyd un fryd fawrhau
'R ysgrifeniadan odiaeth,
A ddaeth trwy ysbrydoliaeth Duw;
Can's dilya yw'r dystiolaeth.

Rhyw lythyr yw'r ysgrythyr gref
A ddaeth o'r nef i'r ddaear;
At ddynion ffyddlon Duw 'n ddiffael;
Prophwydi Israel hawddgar.

Angelion gynt o'r nef a fu
'N gweinyddu yn ogoneddus;
Yn olaf daeth Anwyfâb Duw
At ddynolryw 'n ddaionus.

1850.]

Mae yr ysgrythyr yn sicrhau
Ei geiriau oll yn ysbryd;
I'r byd fe dystiodd Mab y Dyn
Eu bod bob un yn fywyd.

Efengyl sy'n cyfeirio 'n llon
At feirwon ei lleferydd;
A thrwy ei hysbryd gwerthfawr hi
Y creir ni o'r newydd.

Awdurdod hon a'i llwydd nid llai
Ei heffaith a'i chysondeb,
Cwblhad ei haddewidion clir
Sy'n profi ei gwir ddwyfoldeb.

R

Mae mesur dirmyg eglwys Duw
Ar linell wiw 'r ysgrythyr,
Certh rym a rhwyg gcrthymwyr hon
A chamrau hirion aerwyr.
Tra fo rhyfeloedd yma a thraw
Na chym'rwn fraw nag arswyd,

Pe byddai 'r greadigaeth gref
Y byd a'r nef yn yagwyd.
Cawn fuddygoliaeth, helaeth hoen,
Drwy waed yr Oen a laddwyd :
A chwymp pob gelyn sy'n nesau,
Y Bwystfâl a'r gau-brophwyd.

EMYN AR ABERETH CRIST.

Y brwnt euog bry' condemniol a du
Mewn camwedd trwy drosedd tra drwg,
Rhyddhäwyd ffordd wiw it' ddyfod at Dduw,
A'i gael heb ddigofaint na gwg.
Can's ganwyd in' gu dda Frawd oddi fry
Mor bur o ran natur a'r Ne',
A hwnw un prydawn, i'r ddeddf a rodd
iawn,
Dyoddefodd y llid yn ein lle.

Bodlondeb dilyth, cyflawnder oedd fyth,
Cyflawnwyd ei eithaf i'w wydd;
Anrhydedd llawn rhoed i'r ddeddf yn ddioid;
Gan gadw 'r trosseddwr trwy'r swydd.

Offrymu'i gorff rhad, i'r ddeddf er rhyddhad,
Yn ddiwedd aberthau y byd;
I'n deddfie Oen Duw a waedodd yn wiw!
Gan lyncu'r cysgodau i gyd.

Daeth damniol farn Duw ar holl ddynolryw,
O'r camwedd yn Eden a wnaed :
Trwy haeddiant yr Iawn, y deuoedd y dawn,
Sef bywyd tragwyddawl trwy'r gwaed.

Ei werthfawr lân oes, dros lawer drwy loes
A roddodd yn bridwerth ar bren ;
Iawn arno yn ol yr arfaeth a'r rhol,
Yn ddfifeth daeth pob peth i ben.

Oddiar ei fedd ef, gan angel o'r nef
Fe dreiglwyd, symudwyd y maen,
Er prawf i bob rhyw, ei dderbyn gan Dduw:
Tyr'd, euog trwmlythog, ymlaen.

Gwahoddiaid o heddi, i bawb yn y bedd
Yw galwad efengyl fy Ion !
A'i moddion da 'n awr gurlenwed y llawr,
Trwy'r nefoedd adseinied y son.

Y CYFAMMOD TRAGIWDYDDOL.—EMYN.

Rhyfeddod a fawdd fy nheimlad yn hawdd,
Wrth ganfod trefn hynod Tri 'n Un ;
Ardderchog ffordd ddoeth, Duw 'n achub
dyn noeth,
Trwy rym ei ddeheulaw ei hun.

Pan welwyd ni oll drwy gamwedd ar goll,
'E wawriodd trugaredd yn gu ;
Cyn seiliaid y byd, i'n pryau mewn pryd,
Rhyw lunio cyfammod a fu.

Ewyllys Duw Ior, a'i ras megys môr,
A'i gariad cynhyrfiol ei hun ;
Doethineb, daeth hon, a'r brif-ffordd ger
bron ;
I arllwys maddeuant i ddyd.

Cyfyngwr caed fry, oedd deg i'r ddau dŷ ;
Ac ynddo 'r ddwy natur yn un ;

Tra'gwyddol Fab Duw, a brawd dynolryw ;
Gwnaeth gymmod a heddwch ei hun.

Drwy farw o'i fodd, gwir aberth a rodd,
Iawn cyflawn dros ddynion i Dduw ;
Gan hyny mewn heddi, er gwaethed ein
gwedd,
Trwy waed y cyfammod cawn fyw.

Moliannu dilyth yn beraidd fydd byth,
Am haeddiant dyoddefaint Duw-ddyn :
Cydbyncio diboen, i Dduw ac i'r Oen,
Gan chwareu y tânau 'n gytûn.

Adgoffa mawr gur, ei ddyndod dan ddrur,
Sydd wastad ddyddanwch i Dduw ;
A sylfaen i'r saint, gwir brofiad o'u braint ;
Mai 'r Hwn a fu farw sydd fyw.

ANNOGAETH I IEUENCTYD I FOLIANNU DUW.

Drigolion Ston, gwiwlan saint,
Sy'n cadw'r broffes fawr ei braint ;
Yn maethu 'ch plant yn ofn Duw nef,
Yn ngwir athrawiaeth ei air ef.

Chwychwi yw deiliaid gwir Fab Duw,
Dan ei lywodraeth nefol wiw ;
O'ch gwirfodd oll gwnewch ufuddhau,
I gario 'i sanctaidd groes a'i iau.

Pob un o'ch dyledswyddau sydd
I'ch gwir ddyddanu trwy 'ch holl ddydd :
A'r uchaf a'r ddifyraf yw
Moliannu dwyfol enw Duw.

Doed holl amgyffrediaidau dyn,
Ei nwydau a'i gynneddau 'n un ;
I gyd i ddwyn cynnorthwy 'n hyn,
I'w lais i ganmol Iesu gwyn.

Daioni mawr fod Duw 'n mhob man,
I wrando gweddi 'r enaid gwan ;
Ond derfydd y ddyledswydd lân,
Ond un drag'wyddol ydyw 'r gân.

Hyfforddi a chynghori ynghyd,
Yn llwyr a berthyn oll i'r byd ;
Ond mawl a diolchgarwch gwir
Sydd megys teyrnged a gais Duw.

Mae hardd addoliad y gwir Dduw
Yn fraint oruchaf dynolryw ;
Ond mawl mewn gorfoleddawl fias
Sydd i goroni moddion gras.
Mae 'n hyfryd teithio 'r dwfr a'r tân,
Wrth reol yr ysgrythyr lân ;
Ond canu 'n llon, sy 'n codi 'n llef
Mewn dymuniadau am y nef.
Gall fod caledwch un yn cloi,
Neu 'n gyru effeithiau 'r gair i ffoi :

Ond wrth egori pyrth y gân,
Bydd dagrau 'n gwlychu gruddiau glân.
O lenctyd Cymru, boed ein cais
I arfer ein melysber lais,
I'r Hwn a'n carodd ni, rai cas,
Fu 'n marw drosom o'i rad ras.
O parotöed Ysbryd Duw,
Gynneddfau ein heneidiau 'n wiw ;
I ganu 'n llithrig ág un llef,
Nes bo'm mewn hiraeth am y nef.

EMYN O'R LXXVII. SALM.

Duw trugarha a dwg ni 'n rhydd,
Gan ein bendithio ni bob dydd ;
Dy wyneb a dywyno heb wg,
Ar enaid trist truciniaid drwg.

Mal yr adwaener dy ffordd di
Yn dirwyn ar ein daear ni,
A'th iachawdwriaeth rasol ddrud
Ymhlith holl bobloedd pell y byd.

O Dduw ! mollianned yn ddilyth,
Dy anwyl bobl dy enw byth.

Boed i'r cenedloedd lawenhau,
Gan fod yn hyfryd i'th fwynhau ;
Can's ti a ferni bobl y byd,
Yn uniawn, gyfiawn oll i gyd.

O Dduw ! mollianned yn ddilyth,
Dy anwyl bobl dy enw byth.
Ac yna 'r ddaear hawddgar rhydd
Ei ffrwyth ; dan fendith Duw hi fydd.

Bendithia ni & gwllith y nef,
Terfynau'r ddaear ofnant Ef.

CADWEDIGAETH YR YSGRYTHYRAU.

TRUGAREDD neillduol o eiddo Duw i'r byd, oedd rhoddi rheolau ffydd ac ymarweddiad mewn ysgrifen, ac nid eu hymddiried i gael eu trosglwyddo i waered trwy draddodiad o'r naill oes i'r un olynol. Mae yr olaf yn fwy darostyngedig i lygriad na'r blaenaf. Annigonolrwydd traddodiad i gadw crefydd yn ei phurdeb a brofwyd yn eglur yn hanes y cynoesoedd, ac yn cnewedig yn hanes boreuol yr Iuddewon. Yn oesoedd cyntaf y byd yr ydoedd gan draddodiad lawer o fanteision i'w gadwraeth ragor oesoedd diweddarach ; yr ydoedd dynion y pryd hyny yn dra hirhoedlog, yn cael gweled eu hiliogaeth yn lliosogi yn ddirfawr—yn genedlaethau cryfion : ac felly yr ydoedd ganddynt yr awdurdod a berthyn i'r hen o ddyddiau, a'r parch a berthyn i rieni oddiwrth eu plant, i sicrhau cadwraeth yr hyn a draddodid oddiwrthynt yn bur a dilwgr. Gallasai dau ddyn drosglwyddo gwirioneddau crefydd i waered o Adda i Abraham. Dyma gyfnod maith yn cael ei lenwi gan ddau ddyn ; ac eto yn ystod y cyfnod hwnw yr ydoedd traddodiad yr ychydig bethau yn mha rai yr ydoedd crefydd yn gynnwys-edig, gwedi llygru i'r fath raddau, fel ag yr ydoedd yn anghenrheidiol eu diwygio trwy ddraguddiad o'r nefoedd i Abraham.

Yr un modd hefyd am ddechreuad egwyddorion y grefydd Iuddewig, sef y ddeddf a roddwyd ar Sinai. Yr oedd amgylchiadau ei rhoddiad y rhai mwyaf rhyfeddol a dychrynadwy ag a fu erioed ; yr ydoedd y ddeddf ei hun mor fer, a'r amgylchiadau mor hynod, fel ag yr ydoedd yr hawddaf o bob peth i'w throsglwyddo trwy draddodiad. Yr ydoedd hefyd lawer o ddefodau a gwyliu gwedi eu gosod iddynt ymarfer â hwy, a'r rhai hyny

â thuedd uniongyrchol ynddynt i'w chadw mewn coffadwriaeth. Yr ydoedd y manteision mwyaf ag oedd yn ddichonadwy yn yr oruchwyliaeth hõno i sierhau purdeb y traddodiad hwnw. Yr ydoedd prif gyflawniadau eu crefydd i gael eu gweinyddu mewn un lle penodol, a chan un llwyth neillduedig o'r genedl—trigolion un wlad fechan ac o'r un iaith hefyd oeddynt. Ond er fod yr holl bethau hyn, a rhagor, yn cydgyfarfod yn fanteisiol i sierhad cadwraeth egwyddorion y grefydd Iuddewig yn ddilwgr yn eu traddodiad o un oes i'r llall, eto ni welodd yr Arglwydd yn oreu eu hymddiried i hyny; ond efe a ysgrifennodd â'i fÿs ei hun y deng air deddf, ac a orchymynodd i Moses ysgrifenu mewn llyfr yr holl ddeddfau a'r barnedigaethau. Ac yn awr, y mae yr hyn oll a addefwn ac a broffeswn ni yn ddadguddiad o feddwl Duw i ddyinion—yr oll a roddwyd ganddo yn rheol ffydd ac ymarweddiad iddynt—gwedi ei osod mewn ysgrifen, a hyny er ys agos i ddeunaw cant o flyneddau bellach. Ac y mae purdeb a gwirionedd ein crefydd yn ymddibynu cryn lawer, pa fodd bynag, ar gadwedigaeth a throsglwyddiad yr ysgrifeniadau hyn yn ddilwgr yn eu disgyniad i waered atom o oes i oes. Eu bod gwedi eu cadw a'u trosglwyddo felly, ydyw yr hyn yr amcenir ei ddangos yn y llinellau a ganlyn.

Wrth gadwedigaeth yr ysgrythyrau y meddylir, nid yn unig, nac yn benaf, gadwraeth yr oll a ysgrifenydd trwy ddwyfol ysbrydoliaeth rhag myned ar ddifancoll, ond hefyd awduriaeth dilyys (*genuineness*) y llyfrau a ystyrir yn awdurdodedig neu ganonaidd genym, ac a gyfansoddant y gyfrol sanctaidd;—sef ddarfod iddynt gael eu hysgrifenu gan y dynion y rhai y mae eu henwau wrthynt, a'u trosglwyddo i ni mewn cyflwr dilwgr—mewn cyfryw gyflwr ag i ateb y dybenion a chynnyrechu yr effeithiau a fwriedid iddynt yn eu rhoddiad cyntaf. Nid oes a wnelom ni yma â phrofi eu dwyfoldeb—cymwrwn hyny yn ganiataol; er, ar yr un pryd, y bydd rhai pethau a ddygir ymlaen genym yn myned ymbell y ffordd hõno. Gofynol a theg ydyw peidio gofyn mwy na llai, mewn ymchwiliad am brofion i awduriaeth a phurdeb ysgrifeniadau yr Hen Destament a'r Newydd, na'r hyn a ofynir yn amgylchiad pob ysgrifeniadau hynafiaidd eraill. Pwysy y ddau fath yn yr un glorian, profer hwy yn yr un ffwrnes, a dios yw y daw yr ysgrythyrau allan yn drymach ac yn burach yn y canlyniad na'r un llyfr arall ag sydd yn honi canrifoedd o hynafiaeth.

Mae y Bibl, sef yr Hen Destament a'r Newydd, yn cynnwys chwech a thriugain o lyfrau gwahanol, y rhai a ysgrifenydd mewn gwahanol oesoedd o fewn cylch cyfnod o fwy na phymtheg cant o flyneddau. Yr ydoedd pob un o'r llyfrau hyn, pan eu cyhoeddwyd gyntaf, yn gyfrol ar ei ben ei hun, neu o leiaf, yr ydoedd ysgrifeniadau pob awdur ar wahan oddiwrth y lleill. A phe buasant gwedi eu gadael yn y ffurf neillduedig hõno hyd heddyw, gan gael eu trosglwyddo i waered i ni yn gynnifer a hyny o gyfrolau yn lle yn un, ni buasai eu hawdurdod a'u defnyddioldeb o herwydd hyny yn ddim llai. Nid yw eu casgliad ynghyd yn un gyfrol ond peth er mwyn cyfleusdra yn unig. Ac oddiar hyn fe ymddengys fod anghenrheidrwydd ar bob un o'r llyfrau hyn am ei brofion priodol ei hun i gyfreithloni ei hawl i'r lle a feddianna yn y gyfrol sanctaidd, yn gystal ag y mae anghenrheidrwydd am brofion cyffredinol dros awduriaeth a dilysrwydd yr holl Fibl fel un llyfr. Ond y mae yn canlyn oddiar hyn, ar yr un pryd, pe y gellid profi fod rhyw un neu nifer o'r llyfrau hyn yn ffigiol

ac annyls, ni byddai hyny yn effeithio y gradd lleiaf ar gymeriad y llyfrau eraill a gynnwys y Bibl. Pob un a ddwg ei faich ei hun ar yr ochr yna i'r pwnc. Pwy bynag a gymero arno y gorchwyl o geisio dadymchwelyd gonestrwydd yr ysgrythyrau yn y cyfanswm o honynt, rhaid iddo brofi, nid yn unig fod y llyfr hwn neu arall yn dwyllodrus, ond profi hyny am bob llyfr a gynnwysant ar ei ben ei hun.

Yr hanes cyntaf a gawn am gadwraeth yr ysgrythyrau ydyw, ddarfod i Moses, gwedi iddo ysgrifenu geiriau y gyfraith hyd eu diwedd hwynt, sef pum llyfr Moses, orchymyn iddi gael ei gosod ar ystlys yr arch: "A phan ddarfu i Moses ysgrifenu geiriau y gyfraith hon ar lyfr, hyd eu diwedd hwynt, yna y gorchymynodd Moses i'r Lefiaid y rhai oedd yn dwyn arch cyfammod yr Arglwydd, gan ddywedyd, Cymerwch lyfr y gyfraith hon, a gosodwch ef ar ystlys arch cyfammod yr Arglwydd eich Duw, fel y byddo yno yn dyst i'th erbyn;" *Deut.* xxxi. 24—26. Ac ymddengys i lyfr Josuah gael ei roddi yno at lyfrau Moses cyn hir ar ol hyn: "A Josuah a ysgrifennodd y geiriau hyn yn llyfr cyfraith Duw;" *Jos.* xxvi. 26. Canys yr ydoedd cynnwys y llyfr hwn yn dwyn perthynas âg amgylechiadau cyhoeddus y genedl yn gystal ag ysgrifeniadau Moses. Megys ag yr oedd y naill yn cynnwys cyfreithiau a deddfau gwladol ac eglwysig, yr oedd y llall yn cynnwys rhaniad y wlad rhwng y llwythau. Yr ydoedd rhandir pob llwyth a'u terfynau yn cael eu nodi allan yn fanwl ynddo, fel ag yr ydoedd yn gwasanaethu yn fath o drosglwydd weithred-diol i'r genedl. Ac felly cafodd ei roddi i gadw mewn lle diogel yr un modd a'r gyfraith. Felly hefyd ni gawn Samuel yn gosod rhyw gyfran o'i ysgrifeniadau yntau, sef cyfraith y deyrnas, i'w diogelu yn yr un modd: "Yna Samuel a draethodd gyfraith y deyrnas wrth y bobl, ac a'i hysgrifennodd mewn llyfr, ac a'i gosododd ger bron yr Arglwydd;" *1 Sam.* x. 25. Wrth ei waith yn ei osod ger bron yr Arglwydd yn ddiammhau y meddylir, ei osod yn, neu wrth, yr arch, yn y lle sancteiddiolaf. A phan ysgrifened y llyfrau eraill, diammhau y byddai y dynion sanctaidd a gynhyrfid gan yr Ysbryd Glan i'w hysgrifenu, yr un mor ofalus am roddi copiau o'r eiddynt hwythau i'w cadw yn y lle sanctaidd. Ac felly yn raddol fe ffurfiwyd llyfrgell helaeth yn y fan hono, o'r hon y cymerwyd y llyfrau a wnant i fyny gyfrol yr Hen Destament. Yn *2 Cron.* v. 4—5, cawn hanes symudiad yr arch a llestri y cysegr o babell y cyfarfod i'r deml; ac y mae yn dra thebygol i lyfr y gyfraith hefyd, a'r llyfrau eraill, a allasant fod gwedi eu hysgrifenu a'u gosod yno yn flaenorol i hyn, gael eu dwyn i fyny yr un modd, a'u gosod yn y gafell sanctaidd yn y deml. Yr ydoedd Moses gwedi rhoddi llyfr y gyfraith o tan ofal yr offeiriad, meibion Lefi, a henuriaid Israel, gan orchymyn iddynt am iddo gael ei ddarllen, yn mhen pob saith mlynedd, yn ngwydd Israel, pan ddeuent i ymddangos ger bron yr Arglwydd yn y lle a ddewisai efe, ar ol eu myned dros yr Iorddonen i feddiannu y wlad (*Deut.* xxxi. 9—13). Ac un o'r cyfreithiau perthynol i ddyledswyddau brenin, pan osodid y cyfryw swyddogaeth, oedd, "A phan eisteddo ar deyrngader ei freniniaeth, ysgrifened iddo gopi o'r gyfraith hon mewn llyfr, allan o'r hwn sydd ger bron yr offeiriad y Lefiaid. A bydded gydag ef, a darllened arno holl ddyddiau ei fywyd; fel y dysgo ofni yr Arglwydd ei Dduw, i gadw holl eiriau y gyfraith hon, a'r deddfau hyn, i'w gwneuthur hwynt;" *Deut.* xvii. 18—19. Yr hyn bethau ydynt yn profi fod copi o'r gyfraith, sef llyfrau Moses, i gael ei gadw yn y cysegr ger

bron yr offeiriad. A thra naturiol ydyw casglu fod ysgrifeniadau y prophwydi eraill i fod yno hefyd, fel y crybwyllwyd yn barod am ysgrifeniadau Josuah a Samuel.

Bu agos i gynysgrif llyfrau Moses fyned ar goll yn ystod teyrnasiad annuwiol Manasseh ac Amon; ond yn nheyrnasiad y brenin duwiol Josiah, fe'i cafwyd gan Hilciah, yr archoffeiriad, ymhlith malurion y deml yn rhywle wrth gyweirio ei hagenau (2 *Cron.* xxxiv. 15). Ond nid yw yn rhesymol tybied nad oedd copiau eraill o'r gyfraith yn nwyllaw y genedl, yn enwedig yn meddiant personau ag oedd yn ei pharchu; oblegid nid yw yn debygol nad oedd llawer o'r cyfryw ddyonion i'w cael y pryd hwnw yn gystal ag yn amser Elias, pryd yr oedd yno fwy na saith mil o rai na phlygasant eu gliniau i Baal. Yr hyn a ymddengys oddiwrth yr hanes yw, nad oedd y brenin ieuanc ei hun wedi gweled y llyfr o'r blaen, a'i fod yn anwybodus o'i gynnwysiad, hyd oni chafodd ei ddarllen y pryd hwn iddo; ac nid rhyfedd fuasai hyny pe buasai y wlad yn llawn o gopiau, oblegid un annuwiol iawn oedd Amon, ei dad. Ond tra yr ydoedd y copi yn y deml gwedi ei gamgyflëu gan ryw un diofal yn ei glych, neu ei gladdu ymhlith ei hadfeilion, mae genym sail i gredu fod llawer o gopiau eraill o honi i'w cael ar y pryd. Yn 2 *Cron.* xvii. ni gawn hanes ddarfod i Jehosaphat, yn y drydedd flwyddyn o'i deyrnasiad, anfon Lefiaid ac offeiriad i ddysgu yn ninasoedd Judah:—"A hwy a ddysgasant yn Judah, a chyda hwynt yr oedd llyfr cyfraith yr Arglwydd; felly yr amgylchasant hwy holl ddinasoedd Judah, ac y dysgasant y bobl." Yr ydoedd llawer o honynt, ac nid yw yn debyg mai yn yr un ddinas y byddent oll yn dysgu, ond yn wasgaredig bob yn un neu ddau ar hyd y dinasoedd; ac os felly, yr oedd yn rhaid fod ganddynt amryw gopiau o'r gyfraith, ac nid un rhyngddynt. Ac hefyd, mae eu bod yn myned â'r gyfraith ar hyd y wlad, i'w dysgu i'r bobl, yn amser diwygiad ac adferiad ar grefydd, yn lled awgrymu beth allasai fod yr adferiad yn amser llwyddiant a heddwch. Yr oedd hefyd yn y wlad ysgolion y prophwydi gwedi eu sefydlu, mae yn debyg, er dyddiau Samuel; ac y mae yn dra thebyg fod gan y rhai hyny gopiau o'r gyfraith ac o ysgrifeniadau y prophwydi eraill ag oedd gwedi ysgrifenu ar y pryd.

Cafodd cynysgrif Moses, a phob un arall ag oedd yn nghadw yn y deml, naill ai eu dyfetha neu eu cymeryd ymaith i Babilon gyda'r pethau cysegredig eraill, mae yn debyg, pan y llosgwyd hi gan Nebuchodonosor. Ond nid ydym i gredu, ar yr un pryd, ddarfod i bob copi ag oedd i'w gael o honynt fyned ar goll yn yr amgylehiad hwnw, a chael eu hadferu yn wyrthiol gan Ezra ar ol y dychweliad o Babilon. Er fod hyn gwedi bod yn cael ei gredu gan yr Iuddewon, a rhai o'r tadau Cristionogol, ymddengys nad yw namyn chwedl wrachiaidd, gwedi ei seilio, dybygid, ar yr hyn a ddywedir yn llyfr Esdras (2 *Esdr.* xiv. 20—38), yr hyn ni chydsaf mewn un modd â ffeithiau ysgrythyrol. Oblegid ymddengys fod y gyfraith, a rhai o'r prophwydi, gan Daniel, yn Babilon; ac y mae yn cyfeirio at Jeremiah yn enwedigol:—"Yn y flwyddyn gyntaf o'i deyrnasiad ef, myfi Daniel a ddeallais wrth lyfrau rhifedi y blynyddoedd, am y rhai y daethai gair yr Arglwydd at Jeremi y prophwyd:" *Dan.* ix. 2. Mae yma yn cyfeirio at *Jer.* xxv. a xxix. Mae y crybwylliad byr yna yn un tra phwysig, yn gymaint a'i fod yn rhoddi ar ddeall i ni yn amlwg fod y prophwydi diweddaf yn meddiannu ac yn astudio ysgrifeniadau y rhai

blaenorol; ac felly yn profi fod ysgrifeniadau prophwydi un oes yn wrth-ddrychau gofal a sylw prophwydi yr oes ganlynol. Ac hefyd, fe elwir Ezra, ar ei gychwyniad i fyny o Babilon, yn “ysgrifenydd cyflym yn nghyfraith Moses.” Sonir hefyd, a hyny cyn ei fynediad i fyny, i'r offeiriad a'r Lefaiad, gwedi adeiladu yr ail deml, gael eu trefnu i wasanaeth Duw yn ol ysgrifen llyfr Moses (*Ezra* vi. 18). Ond pa fodd y gallent wneyd hyny oni b'ai fod ganddynt *ysgrifen* y llyfr ar y pryd? Yr ydoedd hyn yn agos i driugain mlynedd cyn mynediad Ezra i fyny i Jerusalem, fel y gellir canfod wrth gymharu *Ezra* vi. 15. a'r vii. 1—8. Mae hyn yn profi yn amlwg nad aeth yr ysgrifeniadau sanctaidd ar goll yn y chwalfa a'r difrod hwnw fu ar y genedl a'r deml. Heblaw pum llyfr Moses, a Llyfr Josuah, yr ydoedd llyfrau Job, Barnwyr, Samuel, Ruth, Salmau Dafydd, y Croniclau ag oedd yn cynnwys hanes breninoedd Judah ac Israel, a'r holl brophwydi a brophwydasant yn flaenorol i'r caethgludiad, gwedi eu hysgrifenu a'u lledanu, mae yn debyg, hefyd i raddau mwy neu lai, yn nwyllaw y genedl, cyn eu symud i Babilon. Ysgrifenydd prophwydoliaethau Ezeziel a Daniel, fel y bernir, yn ystod y caethiwed, a phrophwydoliaethau Haggai a Zechariah tua'r ail flwyddyn o deyrnasiad Darius Hystaspis, yn mhen dwy flynedd ar bymtheg ar ol i Cyrus roddi cenad i'r Iuddewon fyned i fyny i'w gwlad. Llyfr Esther a ysgrifenydd naill ai gan Ezra neu Mordecai, a llyfr Nehemiah ganddo ef ei hun.

Cytuna y rhan fwyaf, yn Iuddewon a Christionogion, ag sydd yn hyddysg mewn hanesiaeth Iuddewig, mai Ezra a gasglodd ynghyd lyfrau yr Hen Destament, gan eu gosod yn y drefn y maent ynddi yn bresennol. Mae yn dra thebyg ei fod wrth y gorchwyl o ysgrifenu ac adolygu yr ysgrythyrau tra yr oedd yn Babilon. Canys fe ddywedir ei fod yn ysgrifenydd cyflym yn nghyfraith Moses, pan yr ydoedd yno; ac fe'i gelwir ef hefyd gan y brenin, yn ei lythyr, yn “Ezra yr offeiriad a'r ysgrifenydd; sef ysgrifenydd geiriau a gorchymynion yr Arglwydd, a'i ddeddfau i Israel,” ac yn “ysgrifenydd deddf Duw y nefoedd.” Yr ydoedd yn cael ei adnabod gan y brenin fel un medrus yn nghyfraith yr Arglwydd—fel un yn y gwaith o'i hysgrifenu a'i hastudio, oblegid dywed yn yr un llythyr fod “cyfraith ei Dduw yn ei law”—yn ei law, mae yn debyg, i'w hysgrifenu a'i dwyn i Jerusalem. Dywedir iddo gael awdurdod oddiwrth y brenin i chwilio y llyfrgelloedd breninol am ysgrifeniadau yr Iuddewon, y rhai a allasant fod gwedi cael eu dwyn i waered ymhlith yr yspail gyda'r gaethglud; a bernir gan rai mai ei ddyben yn myned i Jerusalem oedd i ymofyn am ysgrifeniadau neu gopiau a allasai fod yn nwyllaw y rhai a aethant i fyny yn amser Cyrus.

Yr hyn a wnaeth Ezra, fel y bernir yn gyffredin, mewn perthynas i'r ysgrythyrau oedd—1. Casglodd ynghyd gymaint a allasai gael o gopiau, neu adysgrifau o'r llyfrau, ag oedd wedi eu hysgrifenu y pryd hwnw, a thrwy eu cymharu â'u gilydd, diwygiodd bob beiau a allasai fod gwedi ymlusgo i mewn iddynt trwy ddiolfalwch neu gamsyniadau yr adysgrifwyr. 2. Ychwanegodd mewn amryw fanau yr hyn a ymddangosai yn anghenrheidiol er gwneuthur y meddwl yn fwy cyflawn: megys y bennod olaf yn llyfr Deutoronomium, yr hon a rydd hanes am farwolaeth Moses, ynghyd âg amryw nodiadau eraill, ac sydd o ddyddiad diweddarach nag oes yr awdur ei hun. 3. Cyfnwidiodd hen enwau lleoedd ag oedd gwedi myned allan o arferiad, gan roddi rhai diweddarach a mwy cynnefin yn eu

lle ; megys, Dan yn lle Lais, yr hyn oedd enw y lle ar y cyntaf (cymharer *Gen.* xiv. 14, â *Barn.* xviii. 29). A Hebron hefyd yn lle Ciriath-Arba (*Gen.* xxiii. 2), a'r cyffelyb. 4. Ysgrifennodd y cwbl mewn llythyr-enau Caldeaid, am eu bod y pryd hyny yn fwy adnabyddus i'r Iuddewon na'r Hebraidd, pa rai, ynghyd â'r iaith, a gollasant yn Babilon, yn ystod eu caethiwed. 5. Gosododd yr holl lyfrau yn eu trefn briodol. Ac yn ychwanegol at hyn, bernir gan lawer mai efe a ysgrifennodd ddau lyfr y Croniel, os nad dau lyfr y Breninoedd hefyd, gan eu talfyru o groniciâu breninoedd Israel a Judah, y rhai oeddynt lyfrau meithion iawn, gwedi eu hysgrifenu gan wahanol bersonau, ar y pryd ag y byddai yr amgylchiadau yn dygwydd. Beth bynag am hyny, mae awdur y llyfrau hyn yn cyfeirio yn fynych at lyfrau eraill, o ba rai, fel y gellid yn naturiol gasglu, y cafodd ef yr hanesion a'r ffeithiau a rydd ynddynt.

Barna rhai nad oedd y casgliad hwn a wnaed gan Ezra, yn cynnwys yr holl lyfrau a wnant i fyny gyfrol yr Hen Destament, ac na chauwyd i fyny y canon hyd amserau Simon y Cyfiawn ; yr hyn ydoedd tua chan' mlynedd yn ddiweddarach nag Ezra ; ac mai efe a ychwanegodd ato lyfrau Ezra, y ddau Groniel, Nehemiah, Esther, a Malachi. Priodolir y gwaith o orphen casglu ac adolygu llyfrau yr hen Destament i Simon y Cyfiawn, ac nid i Ezra, oddiar y dybiaeth mai ar ol amser Ezra yr ydoedd Malachi yn byw, ac yr ysgrifennodd ei brophwydoliaeth ; ac oddiar fod y llyfrau a nodwyd yn son am amgylchiadau diweddarach na'i amser ef. Yn l *Cron.* iii. 19—24, fe ddygir achau meibion Zorobabel i lawr can belled ag amser Alecsander Fawr, fel y gellir casglu oddiwrth rifedi y cenedlaethau yno, yr hyn oedd fwy na chan' mlynedd yn ddiweddarach nag Ezra. Ac yn *Neh.* xii. 12, fe sonir am Jadua yr archoffeiriad fel gwedi bod, ac am Darius y Persiad. Mae yn rhaid fod y nodiadau yna gwedi eu rhoddi i mewn gan ryw un ar ol amser Ezra. A chyda golwg ar Malachi, ymddengys yn dra thebygol ei fod ef yn prophwydo tuag amser llywodraethiad Nehemia ; oblegid ni a'i cawn yn cyfeirio at yr un fath amgylchiadau yn hollol ag a gawn yn hanes Nehemiah. Cymharer y naill lyfr â'r llall, ac yn neillduol *Neh.* xiii. 23—28, â *Mal.* ii. 11 ; a *Neh.* xiii. 10, 11, â *Mal.* iii. 8. Dywed yr Iuddewon fod synagog fawr o chwech ugain o aelodau i'w chael yn amser Ezra, a bod llawer o'r rhai duwiolaf a dysgedicaf o'i haelodau yn cynnorthwyo Ezra yn y gorchwyl o gasglu ac adolygu yr ysgrythyrau, ac hefyd mai Simon y Cyfiawn oedd yr olaf o'r rhai a berthynent iddi. A'r hyn sydd yn fwyaf tebyg, fe allai, ydyw i'r ysgrythyrau fod yn wrthddrych sylw a gofal gwyr y synagog hon ar ol dyddiau Ezra, hyd amser Simon y Cyfiawn ; ac na chyfododd yr un prophwyd ar ol Malachi. A phan ddarfu am brophwyd allan o Jerusalem, ac o blith y genedl, nid oedd dim a ysgrifennwyd gwedi hyny yn cael ei ystyried o gyfuwch awdurdod a'r ysgrifeniadau blaenorol ; ac felly nid oeddent yn wrthddrychau yr un fath ofal a sylw.

Yn awr, y peth nesaf i ymofyn yn ei gylch yw, A fu yr Iuddewon yn ffyddlawn a gofalus am eu cadwraeth o hyny allan, trwy eu cadw yn ddi-lwgr, heb rodai atynt, na thynu oddiwrthynt yr hyn ni ddylent ? Ai yr hyn oeddynt y pryd hwnw ydynt yn bresennol ? Ac i benderfynu hyn yn foddhaol, rhaid dwyn ymlaen dystiolaethau ysgrifennwyr y Testament Newydd, yn gystal ag ysgrifennwyr boreuol eraill. Wrth ymofyn profion o'r Testament Newydd o blaid yr Hen Destament, nid cymeryd Bibl yn unig i brofi Bibl ydyw hyny ; ond yn gymaint a bod y Bibl yn cynnwys amryw

lyfrau—yn waith gwahanol awduron mewn gwahanol oesau—dyfod âg ysgrifenwyr a chyfansoddiadau un oes i brofi rhai oes arall ag oedd wedi myned heibio, ydyw. Yr ydym wedi ymddwyn mewn rhan felly gydag ysgrifeniadau ac awduron llyfrau yr Hen Destament eu hunain, trwy ddwyn y naill ymlaen i roddi tystiolaeth yn achos y llall o honynt. Mae hyn yn ganiataol gyda phob dosbarth o ysgrifeniadau cyffredin; ac nis gwyddom am yr un rheswm dros beidio ei ganiatáu gydag ysgrifeniadau a broffesant ddwyfol ysbrydoliaeth.

Gwedi i'r ail deml gael ei gorphen, a chanon yr ysgrythyrau gael ei sefydlu a'i gau gan Ezra, ac eraill, gan fod yr arch ag oedd yn y deml gyntaf wedi myned ar goll yn ei dinystr hi, mae yn dra thebygol i arch gael ei gwneyd drachefn, i gadw copi o'r ysgrythyrau yn lle sancteiddiolaf y deml hōno. Ac er cadarnhad i'r dybiaeth yna, mae Josephus, yr hwn ag oedd yn llygad-dyst o orfoledd buddygol Titus yn Rhufain ar ol dychwel-yd o ddinystr diweddaf Jerusalem, yn dywedyd hefyd fod llyfr y gyfraith yn cael ei ddwyn, ymhlith yspeiliau eraill y deml, yn yr orymdaith yno. Ac fe ddywed hefyd na chafodd llyfr y gyfraith ei osod yn y deml a adeiladwyd gan Vespasian i dduwies Heddwch, gyda'r llestri aur, a'r offerynau eraill a ddygwyd o deml Jerusalem. Ac oddiar hyn, ynghyd â phethau eraill, y grediniaeth gyffredinol ymhlith dysgedigion ydyw, ddarfod i gopi o'r holl ysgrythyrau canonaidd, neu awdurdodol, gael ei osod yn nghysegr sancteiddiolaf y deml, fel y byddai hwnw i apelio ato, os byddai unrhyw achos am hyny, yn mhob dadl ynghylch darlleniadau ammheŷus yn y copiau cyffredin. Ac fel hyn yr ydoedd y gwahaniaeth amlwg yn cael ei gadw rhwng y llyfrau ysbrydoledig a'r rhai apocryphaidd. Epiphanius, yr hwn oedd yn byw yn y pedwerydd canrif Cristionogol, ac yn enedigol o Palestina, a ddywed am lyfrau yr Apocrypha, "Er eu bod yn ddefnyddiol a buddiol, nid oeddynt yn cael eu rhestru gyda'r ysgrythyrau, ac am hyny ni chawsant eu rhoddi yn arch y cyfammod." Damaseenus hefyd, yr hwn oedd yn byw yn yr wythfed ganrif, ac yn frodor o Damascus, a ddywed am yr ysgrifeniadau apocryphaidd, "Pa mor dda a phrydferth bynag oeddynt, nid oeddynt yn cael eu rhestru gyda'r ysgrifeniadau canonaidd, ac ni chawsant eu gosod yn yr arch." Yr ydoedd hyn yn gosod llinell amlwg o wahaniaeth rhwng ysgrifeniadau y prophwydi a phob rhai eraill, ac yn arwyddo y parch oedd gan yr Iuddewon i'w llyfrau ysbrydoledig, a'r gofal oedd ganddynt am danynt. Fe ymddengys yn dra thebyg mai oddiwrth yr amgylchiad yna, y daeth y llyfrau canonaidd i gael eu galw wrth yr enw *Testament (endiatheetos)*, am eu bod yn cael eu gosod yn, neu wrth, arch y cyfammod; a'r ysgrifeniadau eraill eu galw wrth yr enw *Apocrypha*, am eu bod yn cael eu caud allan o, neu oddiwrth yr arch (*apo-cryptas*). Tybir oddiar seiliau lled gryfion mai hyn oedd yr arferiad wedi, yn gystal a chyn y caethiwed Babilonaidd. Ac ymddengys yn gwblhad manwl a threfnus iawn o'r ymddiried ag oedd wedi ei roddi i'r Iuddewon fel gwarcheidwaid oraclau Duw, yr hyn, fel y dywed Paul, ydoedd un o'r rhagoriaethau a berthynent i'r Iuddewon: "O herwydd darfod ymddiried iddynt hwy am ymadroddion Duw."

Mae y dybiaeth hon yn cael ei chadarnhau ymhellach hefyd oddiwrth yr hyn yw arferiad yr Iuddewon hyd y dydd heddyw yn eu synagogau, lle y mae ganddynt gopi o'r gyfraith yn nghadw mewn lle cysegredig—mewn arch, neu gist fechan i'r perwyl liuw. Mac yn dra thebyg hefyd fod y

dull hwn yn cael ei arferyd ganddynt yn holl synagogau eu gwlad tra y buont ynddi, os nad mewn miloedd o'u teuluoedd hefyd, gan ddyinion ag oeddynt mor zelog dros gyfraith eu gwlad ac arferion eu hynafiaid. Yr ydoedd yr arferiad hwn yn sicrhau diogelwch, awduriaeth, a phurdeb ysgrythyrau yr Hen Destament, mewn modd digyffelyb yn hanesiaeth yr un genedl arall ar y ddaear gyda'u hysgrifeniadau cenedlaethol. Yr oeddynt hwy wedi eu neillduo oddiwrth genedloedd eraill y ddaear, a hyny, ymhlith pethau eraill, i'r dyben o gadw a throsglwyddo yr ysgrythyrau sanctaidd i genedlaethau diweddarach y byd, ar y rhai y daeth terfynau yr oesoedd.

Nid yw o gymaint pwys yn mha ffurf yr oedd y llyfrau hyn pan y cauwyd i fyny y canon—pa un ai yn un gyfrol, ai ynte yn amryw o gyfrolau, yr oeddynt ar y cyntaf. Mae yn dra thebyg eu bod yn dair cyfrol, o leiaf; sef y Gyfraith, yn cynnwys pum llyfr Moses; a'r Prophwydi, yn cynnwys yr holl lyfrau hanesyddol a phrophwydoliaethol, o Joshua i Malachi; a'r Psalmau, neu yr ysgrifeniadau sanctaidd (*Hagiographa*), yn cynnwys Llyfr y Salmau, y Diarebion, y Pregethwr, a'r Caniadau. Mae genym brofion lled amlwg o'r dosbarthiad triphlyg yna o honynt yn nyddiau ein Hiachawdwr, oblegid y mae efe yn cyfeirio at yr holl ysgrythyrau am dano ef fel yn gynnwysedig yn y Gyfraith, y Prophwydi, a'r Salmau (*Luc* xxiv. 44). Mae y Salmau yn myned am yr oll o'r llyfrau sydd yn yr un dosbarth ag ef; a hyny, fe allai, am ei fod y cyntaf mewn trefn, neu ynte am yr ystyridd ef yn fwy pwysig na'r lleill, o gymaint a'i fod yn fwy prophwydoliaethol na hwy. Ond beth bynag am hyny, nid oes lle i amhheu nad oedd yr oll o ysgrythyrau yr Hen Destament yn gwneyd i fyny y tri dosbarth yna, ac fe'u cydnabyddir yn yr ysgrythyrau eu hunain. Am y cyntaf o honynt, ni gawn brofion o hono fel rhan neillduedig; ac ar ei phen ei hun o'r ysgrythyrau, hyd yn nod yn y rhanau eraill o'r Hen Destament; ac yn y Newydd ni a gawn brofion helaeth iawn o barthed iddi hi a'r ddwy arall, megys yn y llyfydd canlynol; *Math.* v. 17; a ix. 13; a xxii. 40; *Luc* xx. 42; a xxiv. 44.

Ymddengys nad y rhanau deddfol yn unig o lyfrau Moses a feddylid wrth y gyfraith gan ysgrifenyddwr y Testament Newydd, ond ei rhanau hanesyddol hefyd, canys cyfeirir atynt o dan yr enw *deddf* am ffeithiau hanesyddol. Yn *Galat.* iv. 21—26, mae yr apostol yn dwyn i mewn hanes Agar a'i mab i argyhoeddi y rhai oedd yn ewyllysio ymgyfiawnhau yn y ddeddf, trwy eu galw i wrandaw pa beth a ddywedid wrthynt gan y ddeddf ei hun. Gellid casglu hefyd fod yr Hen Destament yn gyfangwbl yn cael ei gynnwys weithiau o tan yr enwad, y *ddeddf*, neu y *gyfraith*. Ymddengys fod yr ymadrodd "Mi a ddywedais, Duwiau ydych" (*Ioan* x. 34), wedi ei gymeryd o'r Salmau (lxxxii. 6), ac eto fe ddywed Iesu Grist ei fod yn ysgrifenedig yn y gyfraith. Ac yn *Ioan* xii. 34, cawn y dyrfa yn dywedyd eu bod wedi "clywed o'r ddeddf," yr hyn oedd raid eu bod wedi ei glywed o'r Salmau (*Sal.* lxxxix. 36). Ac yn *Ioan* xv. 25, mae Crist yn cymeryd geiriau o'r Salmau (cix. 36) ac yn eu cyfrif yn ysgrifenedig yn y gyfraith. Fel yna, byddai yr enw a roddid ar y cyntaf i un ran benodol o'r ysgrythyrau, yn mhen amser yn cael ei gymhwyso at yr oll o honi. Yr un modd hefyd gellir cael llawer o ddyfyniadau yn y Testament Newydd yn cael eu cyfrif i'r gyfraith, y rhai nad ydynt i'w cael ond yn y prophwydi yn unig. Felly yr ydoedd yr holl ysgrythyrau yn myned weithiau tan yr enw "y gyfraith."

Ond mynych iawn y ceir pum llyfr Moses, yn neillduedig ac ar wahân oddiwrth yr ysgrythyrau eraill, yn cael eu nodi allan wrth yr enw, *y gyfraith*, a *llyfr y ddeddf*. Ceir ef felly yn aml yn yr Hen Destament. Cymerer yr ychydig anghreiffitiau hyn allan o lawer a ellid gyfeirio atynt:—*Jos.* i. 7, 8; 1 *Bren.* ii. 3; 2 *Bren.* xiv. 6; 1 *Cron.* xvi. 37—40; *Ezra* iii. 2; *Nehem.* viii. 8, 14; *Diar.* ix. 11, 13. I'r un perwyl cymerer y rhai a ganlyn o'r Testament Newydd:—*Marc* xii. 19—26; *Luc* ii. 23; *Ioan* i. 45; *Act.* xv. 21; *Rhuf.* x. 5; 1 *Cor.* ix. 9; *Gal.* iii. 10. Yr ydoedd llyfrau Moses yn cael eu hadnabod fel yna wrth yr enwau uchod gan wahanol ysgrifenyddwyr o ddyddiau Joshua, ei olynnydd uniongyrchol, i lawr hyd ddyddiau Crist a'i apostolion.

Gallasem fod i raddau yn anmhenderfynol ynghylch cadwraeth bur a chyflawn yr Hen Destament oni b'ai fod yr oll a gyfrifid yn ysgrythyrau, ac a gynnwysid yn y dosbarthiad triphlyg uchod, wedi derbyn cadarnhad yr Arglwydd Iesu a'i apostolion. Yr ysgrifeniadau ysbrydoledig a wahaniaethid gan yr Iuddewon oddiwrth bob rhai eraill, trwy oesod rhyw neillduolrwydd yn yr enw pan y sonient am danynt. Cysylltent naill ai bannod neu ansoddair â'r gair *ysgrifeniadau*, neu *ysgrythyrau*, i wahaniaethu eiddo y prophwydi oddiwrth bob ysgrifeniadau cyffredin. Yr ydoedd ysgrifeniadau eraill i'w cael ar ryw faterion neu gilydd, ond galwent y rhai ysbrydoledig, "*yr ysgrifeniadau*," neu "*yr ysgrythyrau*," ac "*yr ysgrifeniadau sanctaidd*." Yr ydoedd y sturf yna ar yr enwau yn dynodi dosbarth penodol o ysgrifeniadau yn y fath fodd fel nad oedd perygl camsynied pa rai a feddylid wrthynt, dim mwy nag sydd i ninnau gamsynied pa lyfr a feddylir wrth yr enw "Y Bibl" a'r "Ysgrythyrau." Yr oeddynt yn cael eu hadnabod felly gan yr Iuddewon ar wahân oddiwrth bob llyfrau eraill. Ac wrth yr enwau neillduol yna, yr oeddynt yn cael eu hadnabod gan yr Hrglwydd Iesu a'r apostolion. Yr oeddynt hwy yn defnyddio yr enw, *Yr ysgrythyr*, neu *yr ysgrythyrau*, heb unrhyw eglurhad neu ddarnodiad arall o honynt; nid oeddynt yn synied fod y perygl lleiaf iddynt gael eu camddeall at ba ysgrifeniadau y cyfeirient. Yr ysgrifeniadau hyny a ddeallid gan yr Iuddewon yn gyffredinol wrth "*yr ysgrythyrau*;" y rhai hyny hefyd a ddeallid gan Grist a'i apostolion wrth yr un enw. Ac yn awr mae y ffaith fod yr Arglwydd Iesu a'i apostolion yn cydnabod yr un pethau a'r Iuddewon yn ysgrythyrau, yn brawf diyuwad, mor bell ag y mae prawf hanesyddol yn myned, fod yr Hen Destament wedi ei gadw yn ddilwgr a dilys hyd eu hamser hwy.

Pan y byddai yr Arglwydd Iesu yn dywedyd wrth yr Iuddewon, "Chwiliwch yr ysgrythyrau," "Oni ddarllenasoed chwi erioed yn yr ysgrythyrau?" "Yr ydych yn cyfeiliorni am na wyddoch yr ysgrythyrau," "Pa fodd ynte y cyflawnid yr ysgrythyrau mai felly y gorfydd bod?" "A'r ysgrythyr nis gellir ei thori," ac ymadroddion cyffelyb, nid ydoedd yn gweled dim anghenrheidrwydd rhoddi unrhyw eglurhad pa ysgrifeniadau a feddyliai, yr hyn yn ddiammhau a fuasai yn anghenrheidiol pe buasai efe yn golygu wrth "yr ysgrythyrau" ryw ysgrifeniadau amgen i'r rhai a olygyent hwy wrth yr un enw, a'r rhai ag oedd mewn arferiad cyffredin ganddynt. Yr un modd pan yr oedd Paul yn dyweyd am yr Iuddewon "ddarfod ymddiried iddynt am ymadroddion Duw," neu, am yr efengyl, ei bod wedi ei rhagaddaw "yn yr ysgrythyrau sanctaidd," ac, "yr holl ysgrythyr sydd wedi eu rhoddi gan ysbrydoliaeth Duw;" mae yn rhaid nad.

oedd yn golygu dim ond yr hyn a gyfrifent hwy yn ysgrythyrau; canys pe buasai yn meddwl am ryw ysgrifeniadau gwahanol, diau y buasai yn gwneyd hyny yn ddealladwy iddynt—annheg ynddo fuasai peidio. Felly mae genym dystiolaeth Crist a'r apostolion yn profi mai yr hyn a gyfrifid gan Iuddewon yr oes hðno yn ysgrythyrau oedd y gwir ysgrythyrau. Mae yn debyg fod yr olaf o lyfrau yr Hen Destament wedi ei ysgrifenu er ys agos i bedwar cant a hanner o flyneddau cyn i'r cyntaf o lyfrau y Testament Newydd gael ei ysgrifenu.

Ac heblaw hyny, ni byddai yr Arglwydd Iesu, un amser, yn ol o geryddu a beio yr Iuddewon am eu hanufudd-dod i'r ysgrythyrau, ac am eu cam-ddeongliad o honynt; ond ni ddarfu iddo gymaint ag unwaith roddi yr awgrymiad lleiaf eu bod wedi bod yn anffyddlawn a diofal yn eu cadwraeth o honynt. Ni a'i cawn yn eu beio am wneuthur gorchymyn Duw yn ddirym trwy eu traddodiad eu hunain, ac yn dynoethi eu cam-esboniadau o'r ysgrythyrau, yr hyn sydd brawf eglur y buasai yr un mor barod i ddannod iddynt, pe buasant yn euog o wneuthur cam â hwynt trwy eu cyfnewid, rhoddi atynt, neu dynu oddiwrthynt yr hyn na ddylasant. Ond yn lle hyny mae ef a'r apostolion yn cyfeirio at yr ysgrythyrau oedd ganddynt hwy fel rheol ddifeth, a'r ysgrythyr nas gellid ei thori, ac yn ei defnyddio i'w ceryddu a'u hargyhoeddi. Ar sail y prophwydi, ysgrythyrau yr Iuddewon eu hunain, yr ydoedd yr apostolion yn adeiladu egwyddorion yr oruchwyliaeth newydd, ac ar y rhai hyn yr oeddynt yn sefyll i ddadymchwel yr hen oruchwyliaeth yn ngwyneb ymlyniad yr Iuddewon wrthi.

Yn awr, dyma ni wedi ceisio dilyn ysgrythyrau yr Hen Destament o'u cychwyniad, a'u cael yn bur a chyflawn, feddyluem, yn nechreuad yr oruchwyliaeth Gristionogol. Ond yr hyn sydd yn aros eto i'w benderfynu ydyw, Pa lyfrau oedd yn cyfansoddi y gyfrol, neu y cyfrolau hyny a gynnwysent yr ysgrythyrau y pryd hwnw? Meddyluem nad oes lë i ammheu eu bod oll yn gynnwysedig yn y tri dosbarth a nodwyd, sef, y Gyfraith, y Prophwydi, a'r Salmau; ond pa rai oeddynt y llyfrau a gyfansoddent y rhai hyn? Ai y rhai sydd genym ni yn bresennol, heb na mwy na llai, oeddynt? Ni ddarfu i Iesu Grist na'i apostolion roddi i ni yr un llechres o'r llyfrau a gyfansoddent yr ysgrythyrau hyny a berchid ac a fawrygid ganddynt hwy a'r Iuddewon fel gair Duw. Mae yn wir ddarfod iddynt ddyfynu amryw o honynt o dan enwau yr awduron; a gallem brofi yn lled sicr hefyd ddarfod iddynt naill ai dyfynu ymadroddion neu hanesion, a chyfeirio at yr oll o honynt, ond un llyfr, mewn modd mwy neu lai uniongyrchol. Maent wedi defnyddio rhai o honynt yn helaeth iawn, gan gyfeirio atynt mewn modd mor amlwg ag i ddwyn tystiolaeth mor benderfynol o'u plaid a phe buasant yn eu nodi allan wrth eu henwau priodol. Llyfr Esther ydyw yr unig un nad oes rhyw gyfeiriad ato yn y Testament Newydd. Ac heblaw hyn, ceir llawer iawn o gyfeiriadau yn y naill o lyfrau yr Hen Destament at y llall hefyd; mwy o lawer, mae yn debyg, nag a geir mewn nemawr o hen lyfrau eraill at eu gilydd. Ac y mae yn deg i hyny gael yr un lle a phwys fel prawf o awduraeth a dilysrwydd yn achos yr ysgrythyrau ag y mae yn gael yn achos llyfrau cyffredin. Ni ddylid eu hamddifadu o'r fantais hðno oddiar eu bod wedi eu gosod o fewn cloriau yr un gyfrol, oblegid nid ydynt, er hyny, yn peidio a bod yn waith gwahanol awduron. Felly ni ddylai yr amgylchiad o'u bod wedi eu cyfneu yn yr un gyfrol yn bresennol, gael ei oddef i effeithio dim ar rym y dystiolaeth a ddygant, y naill yn mhlaidd y llall.

Ond mewn trefn i ni gael gwybodaeth fanylach ar y pen hwn, rhaid i ni fyned i faes arall, amgen nag ysgrifeniadau yr apostolion, i ymfyn am dano. Mae Josephus, yr hanesydd Iuddewig, yn rhoddi mantais i ni benderfynu, yn lled ddfifeth, pa lyfrau a gynnwysid yn yr ysgrythyrau Hebr-eaidd yn ei amser ef. Ac nis gallasant fod wedi cyfnwid dim pan oedd ef yn ysgrifenu, o'r peth oeddynt pan oedd yr apostolion yn ysgrifenu, oblegid yr oedd yn gydoeswr â rhai o honynt, os na fu yr apostol Ioan fyw ar ei ol ef. Mae yn wir nad ydyw ef yn enwi y llyfrau, ond y mae yn rhoddi eu nifer, ac yn eu disgrifio yn y fath fodd fel nad oes berygl camsynied llawer yn eu cylch. Yn ei lyfr yn erbyn Apion, efe a ddywed, "Nid oes genym ni liaws aneirif o lyfrau yn ein plith yn anghytuno â'u gilydd, ac yn gwrthddywedyd y naill y llall (fel sydd gan y Groegiaid), dim ond dau ar hugain o lyfrau, yn cynnwys hanes yr holl amserau a aethant heibio, y rhai a wir gredir genym eu bod yn ddwyfol. Ac o'r rhai hyn, pump a berthynant i Moses, yn cynnwys ei gyfreithiau, a hanes dechreuad dynolryw, ac o hyny hyd ei farwolaeth ef. O farwolaeth Moses hyd deyrnasiad Artaxerxes mab Xerxes, brenin Persia, y prophwydi, olynwyd Moses, a ysgrifenasant mewn tri ar ddeg o lyfrau. Y pedwar llyfr arall a gynnwysant hymnau i Dduw, a rheolau ymarweddiad er gwasanaeth i ddyinion." Yr ydym ni yn cyfrif pedwar ar bymtheg ar hugain o lyfrau yn bresennol yn yr Hen Destament; ond y mae y rhai hyn oll yn gynnwysedig yn y dau ar hugain uchod. Bernir i Ezra, ac eraill, fu â llaw ganddynt mewn casglu ac adolygu yr ysgrythyrau, gyfleu yr oll o'r llyfrau o tan y rhifedi uchod. Pa rai a feddylid wrth bum llyfr Moses sydd amlwg. Y tri ar ddeg a ysgrifenydd gan y prophwydi, a ddaeth ar ei ol ef, a gymerant i mewn, Josuah, Barnwyr yn un â Ruth, dau lyfr Samuel yn un, dau lyfr y Breninoedd yn un, Esaiah, Jeremiah yn un â Galarnad, Ezeziel, Daniel, y deuddeg prophwydi lleiaf yn un, Job, Ezra a Nehemiah yn un, Esther a dau lyfr y Croniel yn un. Y pedwar arall ydynt y Salmau, Diarebion, y Pregethwr, a'r Caniadau. Yr hwn drefniad sydd yn dwyn yr oll o honynt i mewn o tan ddau ar hugain o nifer. Ac felly yr ydoedd yr Hen Destament yn cynnwys yr un faint o nifer, a'r un llyfrau y pryd hwnw ag sy'n bresennol, ond yn unig fod yr Iuddewon yn eu trefnu yn wahanol, i ateb, mae yn debyg, i rifedi llythyrenau eu hiaith.

Fe ddywed Josephus, ymhellach, "fod eu hanesyddiaeth hwy wedi ei ysgrifenu o amser Artaxerxes i waered yn dra manwl, ond na chafodd ei ystyried o gyfuwch awdurdod a'r rhai blaenorol, oblegid nad oedd olyniaeth difwlch o brophwydi ar gael yn y cyfnod hwnw." Dywed hefyd, fod eu parch mor fawr i'r llyfrau a ysgrifenydd yn flaenorol i hyny, "fel nad oes neb," meddai, "yn ystod yr holl oesoedd a aethant heibio wedi meiddio rhoddi dim atynt, tynu oddiwrthynt, na gwneuthur un math o gyfnewidiad ynddynt; ond y mae yn beth hollol naturiol i bob Iuddew, a hyny o'i febyd, i edrych ar y llyfrau hyn fel yn cynnwys athrawiaethau dwyfol; ac ymlynu wrthynt, ac hyd yn nod i farw drostynt yn ewyllysgar, os bydd achos am hyny," yr hyn hefyd, yn ol ei dystiolaeth ef, a wnaeth llawer o honynt yn hytrach na gwneuthur dim a dafiai amharch ar eu llyfrau cysegredig. Wrth eu hanesiaeth, ag oedd wedi ei ysgrifenu er amser Artaxerxes, mae yn debyg y golygai Josephus, lyfrau y Maccabeaid, o ba rai y cafodd ef lawer o'r hanesiaeth, ynghyd â llyfrau eraill a gynnwysir yn yr Apocrypha. Pe byddai lle yn caniatâu, gallasem ddwyn ymlaen liaws mawr o dystiolaethau ar y pen hwn o lyfrau yr Apocrypha;

mae y llyfrau hyn yn llawn cyfeiriadau at lyfrau yr Hen Destament. Ysgrifenydd hwynt yn y cyfnod rhwng Artaxerxes, y Persiad, sef yr hwn y sonir am dano yn llyfr Esther, a'r cyfnod Cristionogol.

Heblaw hyn, yn amser Ptolemy Philadelphus, brenin yr Aipht, tros ddau cant a hanner cyn y cyfnod Cristionogol, cafodd ysgrythyrau yr Hen Destament eu cyfieithu i'r iaith Roeg, yr hwn gyfieithiad a elwid, y Deg a thriugain (*Septuagint*). Ac mae hwnw wedi ei drosglwyddo i waered hyd yma, ar wahân oddiwrth y Bibl Hebraeg, ac yn cynnwys yr un llyfrau yn hollol ag sydd yn ein Biblau ni, a'r un Hebraeg.

Mae genym hefyd dystiolaethau rhai o'r hen dadau Cristionogol, a ddygwyd i fyny yn y grefydd baganaidd, y rhai, pan goffeidiasant Gristionogaeth, oeddynt fanwl iawn yn eu hymchwiliad mewn perthynas i ysgrythyrau yr Hen Destament; ac y mae firwyth ymchwiliad rhai o honynt ar gael heddyw. Melito, Esgob Sardis, yr hwn oedd yn blodeuo tua chanol yr ail ganrif, a drafaeliodd i Judea, o wir ddyben i foddhau ei hun ar y pen hwn; ac y mae ei lechres ef o lyfrau yr Hen Destament gwedi ei chadw yn "Hanesiaeth Eglwysig Eusebius," oddiwrth yr hon y gwelir mai yr un llyfrau yn hollol oedd ynddo y pryd hwnw ag sydd ynddo yn awr. Yr ydoedd Eusebius yn blodeuo tua diwedd y drydedd, a dechreu y bedwaredd ganrif. Ychydig yn ddiweddarach na Melito, tua dechreu y drydedd ganrif, yr ydoedd Origen yn blodeuo; a chawn lechres ganddo yntau o honynt, yr hon sydd yn cytuno yn berffaith â'n Biblau ni; oddieithr ei fod ef gwedi gadael allan y prophwydi lleiaf heb eu henwi, yr hyn na allasai fod yn ddim amgen na gwall aufriadol o'i eiddo ef, neu ei ysgrifenydd, am fod digon o broffion eraill oddiwrth ei ysgrifeniadau ef ei hun, o'i fod yn ystyried y llyfrau hyn yn rhan o'r ysgrythyrau sanctaidd. Ac heb eu rhoddi i mewn, nis gellir gwneud y nifer a nodir ganddo ef ei hun yn y fan hōno yn gyflawn. Yr ydoedd yn hawdd eu gadael allan o'r rhestr yn anfwriadol, o gymaint a'u bod yn cael eu cymeryd yn un llyfr y pryd hwnw. Ar ol ei amser ef, mae genym dystiolaethau Athanasius, Cyril, Augustine, Jerome, Ruffin, a chymantaf oedd Laodicea a Carthage. Mae pob un o'r rhai hyn gwedi gadael llechres o lyfrau yr Hen Destament, y rhai a dderbynid yn eu hamser hwy, a'r rhai hyny yn cyfateb yn berffaith i'r hyn ydynt yn ein Biblau ni yn bresennol.

Peth arall sydd yn brawf mor benderfynol ag un eto, fe allai, o fod ysgrythyrau yr Hen Destament yr un yn bresennol ag oeddynt yn yr oes apostolaidd yw, fod y llyfrau hyn gwedi ac yn cael eu derbyn a'u parchu gan yr Iuddewon a'r Cristionogion—dw y blaidd ag sydd wedi bod hyd yma mor wrthwynebol i'w gilydd, fel nad oedd yn ddichonadwy, feddylid, gwneuthur yr un cyfnewidiad o bwys ynddynt gan y naill blaidd, heb i hyny gael ei ganfod a'i gondemnio gan y blaidd arall. Ond nid yw hanes yr holl oesoedd, er dechreuad Cristionogaeth hyd yn awr, yn son dim am un ymgais o'r fath, gan un o'r ddwy blaidd hyn. Ac yn awr, erbyn dwyn yr holl bethau hyn at eu gilydd—ac y mae llawer yn ychwaneg i'w cael—meddyliem nad oes gan yr un llyfr hynafaidd arall y fath broffion dros ei awduriaeth, ei burdeb, a'i ddilysrwydd, ag sydd gan ysgrythyrau yr Hen Destament.

AMDDIFFYNIAD YR EGLWYS SEFYDLEDIG.

AUDI ALTERAM PARTEM.

AT OLYGYDD Y "TRAETHODYDD."

SYR—Yr wyf yn cydnabod eich hynawsedd yn nghyhoeddiad y llythyr a anfonais atoch o'r blaen, ac yr wyf am wasgu ar eich natur dda i roddi lle i'r llythyr hwn drachefn, er ei fod yn groes o ran ei egwyddorion i'r "Traethodydd."

Yr wyf yn gorfod edrych ar y rhifyn am Hydref diweddar, ar y cyfan, yn un rhagorol, yn enwedig yr ysgrif ar Addysgiaeth; ac yr wyf yn gorfod rhyfeddu fod yr Ymneilldŵyr yn condemnio mesur mor dda er cyfranu addysg i blant tlodion. Credu yr ydwyf, nas gall y Cymry roi addysg briodol i'r werin heb gymhorth y llywodraeth. Y mae digon o ffeithiau er profi hyn. Y mae yr Ysgolion Brytanaidd yn diflanu y naill ar ol y llall, er yr holl foli fu arnynt. Y mae hyn yn profi naill ai fod yr athrawon yn analluog i'w gwaith, neu ynte fod yr egwyddor wirfoddol yn rhy wan i ateb y dyben.

Y mae yr ysgrif, yn yr un rhifyn, ar yr *egwyddor wirfoddol*, ar y cyfan, yn ymddangos yn rhesymol, ond y mae eisieu edrych ar bob peiriant yn gweithio cyn cymeryd trafferth i ganu ei glod. Addefaf yn rhwydd fod pethau mawrion wedi eu gwneyd trwy gyfraniadau a elwir yn wirfoddol; ond fe ddichon mai llai o wirfoddolrwydd nag a dybir sydd yn bod yn fynych. Hysbyswyd fi gan fasnachwr parchus, fod y fath daeru di-ildio yn fynych gan gasglyddion, fel y bydd ef yn rhoi er mwyn cael llonydd. Pa faint o wirfoddolrwydd sydd yn hyn? Yr wyf yn deall fod y naill blaid yn casglu oddiar y llall at eu hachosion eu hunain, ac na fynant eu gommedd: a ydyw hyn yn wirfoddol? Yn wir, yr wyf fy hun wedi gorfod rhoddi er mwyn cael llonydd; i.e., a rhoddi at daenu egwyddorion sydd mor anghymeradwy genyf fi ag yw egwyddorion ein Heglŵys gan yr Ymneilldŵyr. Clywais fod gweinidog poblogaidd yn ymfrostio yn gyhoeddus fod ei gasglyddion ef wedi tynu arian o *boceid* y person. Y llywbr a arferir ganddynt weithiau yw gweniaith: ac nis gwn pa fodd i'w desgrifio yn well nag yn ngeiriau Aristophanes:—

“Ουτος καταγνοος του γεροντος τους τροπους,
ὁ Βυρσοπαφλαγων, ὑποπεσων τον δεσποτην
ηκαλλ', εθωπευ', εκολακευ', εξηπατα.”

Ond nid ainfynych y maent yn troi yn lled chwerw, os na roddir gwrandawriad buan i'w cais.

“Λιτει, ταραττει, δωροδοκει, λεγων ταδε,
ει μη μ' αναπεισειε', αποθανεισθε τημερον.
ημεις δε διδομεν.”

Yr wyf yn edrych ar lawer o gasglyddion yn *sturdy beggars*. Gwir na feddant awdurdod cyfraith, ond y mae ganddynt ddigywilydd-dra wedi ei berffeithio. Hyd oni newidwr y dull, na sonier am yr egwyddor wirfoddol. Yr wyf yn deall fod rhai yn myned ymhell o'u hardaloedd i gasglu at godi capelau, meddant; ac ni fynant nacâd: a chlywais fwy nag unwaith mai nid hollol onest y mae pawb o'r cyfryw yn ymddwyn. Nid yw y pethau hyn yn canmawl yr hyn a elwir yn egwyddor wirfoddol. Hysbyswyd fi yn ddiweddar i weinidog fyned o swydd D—mor bell ag i'r Iwerddon i gasglu at ei gapel. Dymunol fyddai genyf weled ysgrif yn y "Traethodydd" gan awdur yr erthygl ar yr egwyddor wirfoddol, ar gyfreithlondeb a gogoniant y fath ymddygiad. Er pob ymdrech a dyfais yr Ymneilldŵyr i gasglu arian, y mae'n ymddangos fod diffygion mawr yn eu trefn, pe byddai yn drefn hefyd; ac er yr holl erlid a dirmygu sydd ar ein heglŵys, y mae yn amlwg i bob dyn diduedd ei bod yn rhagori ar sefydliadau dinawdd yr Ymneilldŵyr.

Dangosais yn fy llythyr o'r blaen nad yw ein Heglŵys yn waeth na'r Ymneilldŵyr, a bod yr Ymneilldŵyr yn euog eu hunain o'r pethau a gondemniant ynom ni. Ond

yn awr, gyda'ch cenad, syr, mi ymhyfaf i ddywedyd fod ein Heglwys yn rhagori. Y mae pyrth uffern wedi ymosod arni yn mhob gwedd, eto y mae yn sefyll yn gadarn. Nis gallwn lai na theimlo wrth ddarllen y "Traethodydd" diweddar, pan y mae un ysgrifenydd mewn gwawd yn ei galw yn "hen fam." Y gwir yw, y mae Cymru a Lloegr wedi ei chael yn "hen fam" dda a gofalus. Hi yw yr "hen fam" fu yn golofn a sylfaen y gwirionedd am oesau. Pan wyrodd Sosiniaeth a Sabeliaeth yn yr athrawiaeth, yr oeddi hi yn cadw y gwirionedd am Berson Crist a'i aberth hollddigonol yn ddilwgr; a phan y mae rhai yn awr yn mysg enwadau ymneillduol yn gwadu dwyfol gyfryngiad yn nygwyddiadau amser, y mae ein heglwys, yn ei gweddiau, yn cydnabod llywodraeth yr Hollalluog Dduw ar bob elfen, pla, a haint. Gan hyny, nid wyf yn rhyfeddu fod y rhai sydd yn gwibio o'r naill bwnc i'r llall yn casau sefydlogrwydd ein "hen fam Eglwys." Y mae yr Eglwys wedi bod yn ofalus i sefydlu addysg grefyddol yn mhob plwyf; y mae ganddi yn mhob ac i bob plwyf addoldy ddyled. Onid yw hyn yn drefniant manteisiol ac ardderchog? Y mae darpar hefyd tuag at gynnal addysgwyr y bobl ac nis gall neb gau ei safn, na'i newynu allan. Y mae wedi gofalu am ddyndysgedig i fod yn athraw yn mhob plwyf, fel y mae y plwyf-olion yn gorfod edrych arno fel y blaenaf o ran dysg a gwybodaeth yn eu plith. Ni feddylodd ein Heglwys erioed am roi dnyion yn y weinidogaeth heb eu haddurno & dygeidiaeth addas. Y mae yn gofyn fod ei hofferiaid yn ddyion o ddwygiad da i fyne, fel y gallont gymdeithasu & phob graddau, ac fel y gallont fod yn arweinyddion cymhwys i'w plwyfolion yn mhob peth. Y mae y gweinidog plwyfol yn gymhwys o ran dysg a medr i lywyddu yn holl gyfarfodydd y plwyf, ac y mae yn alluog i ysgrifenu unrhyw beth drostynt yn Saesoneg neu yn Lladin; ac onid yw yn dra gwerthfawr fod ein Heglwys yn gofalu am sefydlu dyn o'r fath yn mhob plwyf? Gofelir hefyd am fywiolaeth iddo: y mae yn y plwyfydd dai cyfaddas, ynghyd âg ychydig o dir, a chyflog penodig; canys y mae ein Heglwys yn credu ymadroddion Duw trwy St. Paul, "fod y rhai sydd yn pregethu'r efengyl i fyw wrth yr efengyl," ac, "nad yw'r hwn a alwyd i fod yn filwr i ymrwystro & negeseuau y bywyd hwn."

Barn ein Heglwys yw fod yn anmhosibl i weinidog yr efengyl ymyraeth & r' byd heb ymrwystro i raddau. Yr wyf yn edrych ar y ddarpar hon yn brawf o deimlad Cristionogol a synwyr ein hynafiaid. Yr oeddynt hwy am roddi ufudd-dod cydwytbodol i holl oasodidau yr Arglwydd Crist, Pen a Brenin yr eglwys, ac yn penderfynu sefydlu crefydd ar dir mor gadarn ag y gallent, gan ofalu am ryddhan eu hathrawon oddiwrth bob gofal, ond y gofal am eneidiau eu plwyfolion. Bai y gweinidog yw os na ofala am eneidiau ei bobl, ac nid gwall y sefydliad; canys y mae yn anmhosibl i ddynd Duw gael ei osod mewn sefyllfa fwy manteisiol. Gall draddodi yr holl gynghor, gall argyhoeddi yn llym, heb ofni cael ei gosbi yn ei amgylchiadau am ddywedyd y gwir; gall fod bob amser gartref gyda ei braidd, gall roddi ei amser i alw yn eu tai, i ymweled & r' cleifion, ac i ymddyddan am grefydd, gall ymboeni yn y gair a'r athrawiaeth, gan nad yw dan orfod neu rywmau i ymyraeth & maes neu fafnach, na theithio y gwledydd er mwyn cael tamaid o fara. Y mae gan ein Heglwys sefydliadau er cyfranu addysg, ac y mae ganddi waith a chyflog i'r rhai a addysgir; ac y mae hyn am yr oes, os na chollant eu lle trwy weithredoedd o annuwioldeb. Nid oes gan ungrw allu i'w rhywystro at eu gwaith, na chadw eu cyflog oddiarnynt; onid yw hyn yn dda, fe yn dda iawn, mewn adeg mor ddigrefydd, mewn oes mor anwadal, ac yn mysg dnyion mor ariangar, y rhai y mae yn anhawdd cael dim o'u llaw ond yr hyn ellir ei godi trwy gyfraith?

Yr wyf yn tybied y bydd llawer o ddarllenwyr y "Traethodydd," sydd yn ceisio byw ar ewylllys da eu cynulleidfaoedd, yn barod i addef gwirionedd fy sylwadau. Ysgrifenydd hen weinidog yn ddiweddar at bregethwr ieuane, fel y canlyn, ac fe ddygwyddodd i'w llythyr ddyfod i'm llaw, eithr mi a gelaf yr enwau ar y pryd:—"Anwyl frawd.—Deliwch afael yn eich gorchwyl, ac os gelwir arnoch i roi gair o gynghor ar y Sabboth, gwnewch; ond peidiwch a gollwng dim o'ch llaw. Peidiwch ag ymddried i addewid undyn, nac yn gymdeithas; o herwydd nid yw tori addewid am gyflog i bregethwr yn cael ei ystyried yn bechod. Os bydd ef yn myned i ddyled ac yn methu ei thalu, buan y torir ef o'i swydd; ond nid oes na cherydd na chyfraith i'w rhoddi ar y rhai sydd yn peidio talu eu haddewidion iddo ef. Gan hyny, edrychwch arnoch eich hun, a'ch teulu. Gwae fi i mi wrando ar ddyion, a gadael fy ngalwedigaeth ar eu cais. Y maent wedi bod yn waeth wrthef nag y bu Laban wrth Jacob. Mae fy nghalon wedi bod am ugeiniau o ddiwrnodau fel careg. Cymerwch hyn o grybwylliad oddiwrth un sydd wedi profi yr hyn a ddywed, ac oddiwrth un sydd yn dymuno eich hapusrwydd." Yr wyf yn cadw y rhan fwyaf torcalonus o'r llythyr uchod; ond os goroesaf ei ysgrifenydd mi a'i gwnaaf yn gyhoeddus, ynghyd â sylwadau ar yr

holl amgylchiadau hynod a nodir ynddo—yr addewidion a wnaed i'r ysgrienydd, a'r tori fu arnynt. Nid oedd dychymyg yn fy nghalon fod y fath annhrefn, ac anghyfiawnder, a thwyll, a thori addewidion, gyda'r egwyddor y dadleuwr cymaint drosti, nes daeth y llythyr uchod i'm llaw. Nis gallaf ryfeddu fod diaconiaid a gweinidogion Ymneillduol yn dwyn eu meibion i fyny i'r Eglwys Sefydledig.

Gwn y bydd rhai yn barod i ddywedyd, Onid yw yr egwyddor wirfoddol wedi codi capel neu ddau yn mhob cymydogeaeth? Yr wyf yn addef hyna, ac yn gwybod fod rhai o'r tai cyrddau yn wychion yr olwg arnynt. Ond, ai ni fuasai yn well fod llai o'r hanner o houynt, a bod gweinidogaeth addas a chyson yn y rhai hyn? Nid yw ein Heglwys erioed wedi codi addoldŷ heb sefydlu un i flaenori yn yr addoliad, a gofalu am weinidog a chynnaliddeiddo. Eithr yr ydych chwi yn rhuthro i godi capel, a chasglu cynnulleidfia, heb ofalu dim am un i fod yn fugal arni. Y mae hwn yn anhrefn, nad oes ei fath yn holl wledydd cred, am a wn i, ond yn Nghymru. Pan drodd yr Eglwys Rydd yn Scotland allan, ymroddodd i gasglu trysor tuag at godi addoldai, a chael tai a chyfflog i'r gweinidogion. Ond y mae Ymneilldduwr Cymru yn adeiladu, yn ailadeiladu, yn paentio, ac yn gwychu, ac eto yn dra chyffredin heb fugeiliaid yn rhwym i ofalu am y rhai sydd yn dyfod i'w corianau. Ymddengys i bob dyn sylwgar fod ganddynt fwy o ofal am y coed a'r ceryg, a elwir ganddynt yn dŷ i Ddau, nag sydd am yr enidiau anfarwol sydd yn ymgynnull o fewn y muriau, ac onid hwy a ofalent am ddyinion cymhwys i'w porthi a gwybodaeth ac â deall. Yr oedd rhai gwyr deallus mewn cyfeillach yn ddiweddar yn gwneyd gwawd o bobl oedd wedi codi capel hardd a chostfawr iawn, ond yn analluog i gynnal moddion gras yn gyson. Dywedai un, "Y maent yn methu rhoddi saith awllt yn yr wythnos at gynnal y weinidogaeth, ac y maent yn llawn cynddaredd at y pregethwyr am eu bod yn gwrthod rhoddi eu hamser i'w gwasanaethu yn rhad."

Yn wir, syr, chwi a ryfeddech pe byddech yn gwybod y sylw sydd ar weithrediadau yr Ymneilldduwr yn y cych yr wyf fi yn troi ynddo. Nis gallaf lau na theimlo wrth glywed crefydd yn cael ei gwawdio. Ond eto, yr wyf yn hollol gredod fod llawer o wall-gofrwydd gyda chodi capeli, a'u haddurno, pan nad oes un ddarpariaeth at gynnal gweinidogaeth ynddynt. Y mae'r pethau hyn, syr, yn peri i mi fawrhau ein sefydliad eglwysig gwladol. Gyda ni, y mae yn rhaid i'r praidd dalu am amser a gwasanaeth eu bugail, ac nid yw yn ddichonadwy iddynt ei dwyllo na'i orthrymu. Mae trefn ein Heglwys yn ffurfio cysylltiad agos rhwng y gweinidog a'i gynnulleidfia. Maent hwy, yn ol y gyfraith, i gyfrannu iddo ef eu pethau cnawdol, ac y mae yntau i gyfannocdu gyda hwy, ac i fod bob amser yn eu mysg, i ymweled a'r cleifion, ac i bregethu yr efengyl iddynt. Ac onid yw y cysylltiad hwn yn tueddu at fod yn fuddiol? Y mae yn tueddu i'w cysylltu mewn cariad at eu gilydd. Ond yn aml gyda yr Ymneilldduwr, nid yw serch y gweinidog yn cael rhedeg allan trwy ymweled a phorthi ei bobl; ac nid yw serch y bobl yn cael rhedeg allan trwy gyfrannu at ei gynnaliddeiddo yntau. Fel hyn, nis gall y gynnulleidfia na'r gweinidog deimlo rhwymedigiaeth i'w gilydd, na chariad neillduol at eu gilydd. Y maent yn gweled gwynebau eu gilydd, ond y mae yn anhosibl iddynt, yn ol eich dull chwi, deimlo yn serchog y naill at y llall. Y mae difyg y cysylltiad hwn yn annhrefn dirfawr. Yn mha le y cewch hanes eglwys heb weinidog? Onid oedd Timotheus yn ei swydd fel esgob i osod henuriaid yn mhob dinas? Onid oedd gan bob un o Eglwysi Asia ei hangell? Onid oedd gan bob eglwys ei dysgawdwr a'i phorthwr yn yr oesoedd boreuol? Ac yr oedd yr holl ddiwygwyr yn cadw yn ofalus at y ffurf a sefydlodd Crist a'i apostolion. Eglwys heb weinidog sydd beth anysgrhythol, ac yn beth nas gellir ei gael mewn hanesyddiaeth. Gwn fod rhai o honoch yn dewis galw eich gweinidogion yn esgobion, ond y mae llawer o honynt yn olygwyr heb fod ganddynt neb i olygu drostynt. Y maent yn cael eu galw yn fugeiliaid, ond bugelliaid ydynt heb braidd. Meiddaf ddywedyd yn hyf, nad oes gan y nifer liosocaf o'ch gweinidogion hawl gyfreithlawn i olygu dros yr un o'ch eglwysi, nac i ymyraeth a'u hachosion. Y mae eich blaenoriaid, neu eich "arglwyddi ddiaconiaid," yn uwch mewn hawl, wedi eu dewis gan yr aelodau; ond nid yw eich gweinidogion wedi eu gosod yn rhôlaid mewn cysylltiad ag un gynnulleidfia. Nid oes gan y naill ddim hawl ar y llall. Gall y gweinidog fyned i'r fau a ddewisa, a gall y diaconiaid wneyd ag yntau fel y dewisant. Pa fath annhrefn! Nid wyf yn gwybod am ddyinion ar y ddaear yn y fath sefyllfa a rhai o weinidogion yr Ymneilldduwr yn Nghymru. Gelwir hwynt yn weision, ond y maent yn gwasanaethu heb wybod pa faint a gânt am eu gwasanaeth. Y mae hyn yn cael ei adael at gydwybod un arall, yr hwn a all fod yn gybydd, neu yn ddynd dwl, heb wybod nemawr am draul dillad a llyfrau a thŷ dyn cyhoeddus. Ac mi a glywais ei fod yn drosedd i bregethwr ofyn pa

faint a gaff am ei lafur a'i amser, a'i fod yn wrthddrych gwg os achwyna ei fod ar ei golled. Os gwir hyn, mae ei gyflwr yn druenus.

Y mae yn ymddangos i mi y byddai yn well i holl ddysgawdwy'r crefydd dderbyn eu cyflog o law y llywodraeth; ac os byddai rhyw anfaiteision ynglŷn â hyn, y byddai y manteision yn fwy. Byddai hyn yn ddiogelwch rhag ymosodiadau dynion drwg eu hegwyddorion, neu ansefydlog eu meddyliau, a byddai yn dawelwch mawr i'r meddwl, yn lle bod dan faich o ofnau a gofalon. Y mae genyf fi brofiad fod gwaith y weinidogaeth yn ddigon o bwys heb faich o ofalon bydol. Fe allai fod rhai yn barod i ddywedyd fod y drefn a ganmolir genyf yn rhoddi mantais i ddynion drwg, os gallant gael bywoliaeth, i fyw yn enw gweinidogion Crist, er fod eu bywyd cyffredin yn profi nad ydynt o osodiad Crist. Yr wyf yn addef fod drwg yn cymeryd mantais oddiwrth y pethau goreu, ac oddiwrth y sefydliadau puraf. Mae annuwiolion yn troi gras ein Daw ni yn drythyllwch: ond ai priodol rhoi y bai ar ras? ai gwell fyddai peidio pregethu gras? Nid iawn yw condemnio ein Heglwys, am fod rhai dynion diras wedi cymeryd mantais ar ei darpar rhagorol. Os oes rhai annheilwng wedi cael cynnaliseith ynddi, y mae miloedd o rai rhagorol y ddaear wedi cael modd trwy ei darpariadau i ymroddi yn gwbl i waith eu Harglwydd, ac i wasanethu eu cenedlaeth. Yr oeddant yn gallu rhoi eu holl amser a'u holl feddwl i'r gwaith y galwyd hwy iddo. Onid yw ysgrifeniadau yr esgobion hybarch, Hall, Usher, Reynolds, Butler, Beveridge, Leighton, Hopkins, Horne, Wilson, ac eraill, a'r gweinidogion enwog, South, Romaine, Milner, Scott, Hervey, Newton, Robinson, Simeon, Richmond, Bridges, Bickersteth, a llaweroedd gyda hwy, o fri mawr gan yr Ymneilldwy'r? a'n Heglwys a'u gosododd mewn sefyllfa fanteisiol i allu ymroddi yn gwbl at efrydian a llafurwaith cysegredig. Nid oes dim yn fwy arteithiol i mi na gweled dynion o feddyliau anghyffredin wrth orchwylion ag y gallai dynion o'r meddyliau lleiaf eu cyflawni, neu weled dynion o dalentau ac ysbrydoedd ymroddgar yn cael eu llethu gan ofalon a thodi; ac y mae y ddau beth yma i'w gweled yn Nghymru y dyddiau hyn. Rhaid gan hyn fod yr egwyddor wirfoddol naill ai yn rhy ddall i weled neu ynte yn rhy wan i weithredu yn deilwng. Yr wyf yn clywed fod rhai wedi cael dysgeidiaeth uchel, ac yn meddu doniau ardderchog, yn gorfod myned i'w meusydd pentrefol. Nid yw hyn yn canmawl yr egwyddor wirfoddol yn ddfiau. Y mae yn rhaid fod diffyg yn yr egwyddor, neu ynte nad yw yn cael ei gweithio allan yn deg: ac yr wyf yn casglu fod yr ymddiried ynddi yn darfod; canys y mae llawer o feibion y dynion hyn sydd yn ceisio byw arni yn Lloegr yn myned at y gyfraith, neu yn dyfod i'r Eglwys. Dymuno yr wyf ar y rhai sydd yn molli cymaint arni ystyried y pethau hyn.

On dfe ddywedir fod dynion teilwng yn sicr o gael cynnaliseith, ac mai teg yw i eraill ddyoddef. Eithr yr wyf yn gwybod digon am yr Ymneilldwy'r i wrthbrofi yr haerid. Y mae y nifer fwyaf o'm perthynasau yn Ymneilldwy'r, ac yr wyf wedi darllen cofiaint amryw o honynt, ac y mae fy nghalon wedi teimlo lawer gwaith wrth weled y cyfyngderau yr aeth rhai trwyddynt wrth ymroddi yn gwbl at y gwaith o bregethu; ac wrth weled eraill am chwe' diwrnod yn gorfod trin y byd, ac ar y Sabboth yn esgyn i'r pulpud i ddysgu y bobl, trwy geisio egluro y gair, heb gael amser i ymboeni yddo. Nid wyf yn gwadu na ddarfu i Dduw yn nechreu diwygiadau wneuthur pethau rhyfedd trwy ddynion o'r fath; ond wedi i gynulleidfaeodd gael eu sefydlu, onid rhyfyg yw dysgwyl bendith heb gydymffurfio â holl osodiadau y Goruchaf? Os gwnaeth Duw bethau mawrion yn Nghymru trwy ddynion anlythyrenog a dynion yn gorfod dilyn eu galwedigaethau trwy yr wythnos, y mae yn annhriodol dysgwyl iddo wneyd felly mwy, pan y mae y cynulleidfaeodd wedi dyfod i amgylchiadau ag y gallant roddi dysg a chynnaliseith i'w hathrawon. Fe beiddod y manna ar ol i Iarael fyned i Ganaan; yr oedd yn rhaid iddynt yno lafurio fel dynion eraill, neu farw o newyn. Peidiodd y gwyrtiau ar ol i grefydd gael ei sefydlu gan yr apostolion; yr oedd yn rhaid i ddysgawdwy'r crefydd lafurio am wybodaeth fel dynion eraill, neu syrthio yn ddfudd i'w gwrandawr; ac yr wyf yn barnu fod yn iawn i'r Methodistiaid gredu fod oes y gwyrtiau wedi darfod arnynt hwythau. Maent yn awr, yn wir, yn ymroddi i roddi dysg i'w pregethwyr ieuainc; ond, a oes ganddynt ryw drefn er rhoddi gwasanaeth a chynnaliseith iddynt ar ol eu dysgu? Gellid meddwl eu bod yn ddigon dysgedig i lafurio y ddaear, neu i bwyso sugr, a mesur lleiniau, heb eu hanfon i athrofa.

Goddefwch i un sydd yn eich caru er mwyn eich tadau a hunasant, pe rai oddynt (dylech gofio) yn parchu yr Eglwys yn fawr, ac i un sydd yn sylwi ar eich holl ysgrifeniadau—goddefwch, meddaf, i mi ddywedyd fy marn. Yr wyf yn credu y bydd yr athrofaiau yn fwy o golled i chw'i nag o ennill, os na ofelwch am y gwyr ieuainc ar ol

iddynt orphen eu tymmor yn yr ysgol; oblegid fe'u hanghymhwysair i fyw fel eich hen bregethwyr, ac fe fydd rhywrai yn Lloegr neu rywle yn galw am danynt, neu hwy ymroddant i fyned tros y môr. Y mae yn anghenrheidiol eu bod yn rhywbeth heblaw dynion cyn yr arosant yn eich plith. Fe ddywedir yn ddannodus fod yn amhosibl diwygio yr Eglwys Sefydledig; ond y mae yn ymddangos i mi fod rhyw amhosiblwrwydd ar eich ffordd chwithau i ddiwygio. Yr wyf yn deall, oddiar glywed, fod rhyw ddisbarth o'ch pregethwyr yn wrthwynebol i ddiwygiad, a hyny oddiar eu bod yn arfer teithio, gydag ychydig, meddir, o bregethau poblogaidd; canys nid hwyrach y byddai yn waeth arnynt os cytunech â'r drefn reolaidd. Ac mi a glywais fod rhai yn eich plith yn dra grwgnachlyd, am fod ambell un yn cael ei sefydlu, a chyflog yn cael ei benodi iddo. Yn hyn yr wyf yn gweled gwendid eich cyfundebau; y maent yn agored i ddylanwad cenfigen, a phwy a all sefyll o'i blaen? pryd y mae ein cyfansoddiad ni yn diogelu dynion teilwng rhag ei ruthriadau. Onid yw eich pregethwyr yn agored i gael eu cosbi yn eu hamgylchiadau os dygwyrdd iddynt anffodloni rhywrai mawr yn eich plith? Clywais am bregethwr yn fy nghymydogeath a ddygyddodd fod yn onest wrth Mr. —, a'r canlyniad a fu i Mr. — allu dylanwadu er attal cynnalieath y truan, fel y gorfu iddo ef a'i deulu oddef llawer iawn. Y mae'r pethau hyn a'r cyffelyb yn peri i mi edrych ar y drefn wirfoddol, fel ei gelwir, o gynnal crefydd yn wan, anniogel, a pheryglus i'r rhai sydd yn ymddibynu arni. Un-iawn y dywedodd y Parch J. A. James, o Birmingham, a phwy yn fwy cymhwys i dystiolaethu am eglwysi Ymneillduol? "Beth," medd efe, "yw diacon mewn rhai o'n cynulleidfaoedd Ymneillduol? Noddwr y fywioliaeth, Bibl y gweinidog, a blaidd y praidd. Yn fynych y mae yr aelodau ymneillduedig," medd yr un gwr teilwng, "yn caru eu gweinidog yn anwyl â'u gwefusau, ond yn ei gasu mor drwyadl â'u llogeiau. Maent yn ymddwyn ato fel yr ymddygir at fwystfilod gwylltion, ac yn ei gadw yn oestynedig trwy ei gadw yn dlawd."

Wrth derfynu fy llythyr, yr wyf, syr, yn dywedyd yn hyf, fod ein Heglwys yn rhagori yn ei darpariaeth tuag at roddi addysg i'r werin a chynnalieath i'r addysgwr. Mae yn gofalu am weinidogaeth gyson i'r plwyfau tlotaf; pan y mae llawer o gynulleidfaoedd tlodion yn cael eu gadael yn dra amddifaid gan Ymneilldúwyr Cymru. Y mae yr Eglwys yn gofalu am weinidog dysgedig i'r plwyf tlawd, yn gystal ag i'r plwyf cyfoethog; ac y mae genym gronfa wladol er cynnorthwyo lleoedd gwir tlodion. A all y rhai sydd yn ein colffarnu ni yn barhaus ymfroestio mewn pethau fel hyn? Onid yw eu cynulleidfaoedd tlodion ar hyd y wlad ar lewygu, o herwydd na allant roddi cymorth teilwng i bregethwyr doniol? Ond yr ydym ni yn gofalu am eneidiau y tlodion yn gystal ag eneidiau y cyfoethogion. Y mae llawer iawn o bethau yn rhagor ar fy meddwl ag y byddai yn fuddiol i'r Ymneilldúwyr eu hystyried. Ond nid da gormod o ddim.

Yr eiddoch,

VINDEX.

MODDION IACHAWDWRIAETH.

"Am hyny ffydd sydd trwy glywed, a chlywed trwy air Duw."—*Rhufeiniaid* x. 17.

MAE pethau mawrion weithiau yn dyfod trwy bethau bychain. Yr ydym yn gweled hyny yn fynych mewn natur; ac yn ei ganfod hefyd yn y byd celfyddydol. Gwelwyd darganfyddiadau neu ddyfeisiau mawrion yn dyfod i'r amlwg oddiar achlysuron a thrwy foddion distad iawn. Gweled afal yn syrthio i lawr oddiar gangen y pren a barodd i Syr Isaac Newton wneyd ymchwiliad am yr achos o hyny—paham y syrthiai i lawr i'r ddaear mwy nag y diangai ymaith i'r awyr?—a'r canlyniad a fu, iddo gael allan y deddfau pwysig hyny mewn natur a elwir Deddfau Pwys a Thyniad. Yr ydym yn gweled pethau cyffelyb yn nhrefn rhagluniaeth Duw tuag at y byd. Dyrchafiad Joseph yn llywydd ar wlad yr Aipht, yr hyn a fu yn foddion i

gadw yn fyw bobl lawer, a ddygwyd ymlaen trwy gadwen o amgylchiadau distadl iawn. Yr oedd fod ei dad yn gwneuthur iddo siaced fraith yn un ddolen yn y gadwen, ac felly yr amrywiol amgylchiadau eraill. Y mae hyn i'w weled hefyd yn nhrefn iachawdwriaeth. Mae yma bethau mawrion yn cael eu dwyn ymlaen trwy foddion distadl. Mae y pethau mwyaf yn dyfod trwy ffydd, a ffydd yn dyfod trwy glywed.

Mae ffydd yn llanw lle mawr mewn crefydd. Y mae iddi swyddogaeth o'r pwys mwyaf yn ein hiachawdwriaeth. Trwy ffydd y cyfiawnhëir dyn gyda Duw; a thrwy ffydd y mae dyfod i heddwch Duw; *Rhuf.* v. 1. Heddwch Duw ydyw y cwbl at sicrhau dedwyddwch tragwyddol dyn. Trwy ffydd y mae cymdeithasu â Duw. Ffydd sydd yn gweled yr Anwel-edig. Ni ddichon fod cymundeb rhwng ein meddyliau â Duw ond trwy ffydd. Ffydd sydd yn uno yr enaid â Christ. Undeb ffydd ydyw yr undeb ysbrydol hwnw. Ffydd o du y pechadur, a'r Ysbryd o du Crist, a wna yr undeb i fyny. Mae y credadyn yn Nghrist trwy ffydd, a Christ yn y credadyn trwy ei Ysbryd. Trwy ffydd yr ydym yn derbyn o gyflawnder Crist. Ffydd sydd yn cymhwyso gwaed Crist at y gydwybod; trwy ffydd y tynir rhinwedd o angu y groes. Ffydd, medd John Bunyan, yw y tusw isop sydd yn taenellu gwaed Crist ar gydwybod pechadur. Ffydd ydyw effaith uniongyrchol argyhoeddiad yr Ysbryd: ffydd a gyfrifr, gan hyny, yn ffrwyth yr Ysbryd. Mae yr Ysbryd yn argyhoeddi o wirionedd a phwys tystiolaethau y Bibl, a thrwy hyny mae y galon yn cael ei dwyn i deimlo cynnwysiad y gwirioneddau hyny. Argyhoedda o ddrwg pechod, nes dwyn yr enaid i alaru o'i herwydd; ac argyhoedda o wirionedd tystiolaeth Duw am ei Fab, nes ennill y galon i ymddiried yndo. Ffydd sydd yn diffoddi picellau tanllyd y fall. Mae yn darian i ddiogelu yr enaid rhag temtasiynau y gelyn. Mae ffydd yn adnabod ei ddichellion ef; amhosibl yw iddo dwyllo ffydd: mae ffydd yn gweled gwenwyn ei gynnygion, ac yn edrych i'w canlyniadau tragwyddol. Ffydd sydd yn gorchfygu y byd yn ei wêg ac yn ei wên. Mae ffydd yn galluogi yr enaid i ddibrisio y byd, i edrych arno yn fychan a dibwys, trwy ddwyn y meddwl i gydnabyddiaeth â byd uwch na hwn—â byd mwy—â byd ysbrydol a thragywyddol ei barhad—byd yr ymddengys y byd yma yn ei ymyl yn fychan, a'i holl helyntion ond fel chwareu plant. I feddwl yn cymdeithasu â byd tragwyddol, nid ymddengys cyfoeth y byd hwn yn werth sychedu am dano, na'i barch yn werth rhedeg ar ei ol; ac nid ymddengys ei drueni ychwaith yn werth gruddfan o'i blegid. I enaid yn edrych trwy ffydd i fyd arall, nid ymddengys dyoddefiadau yr amser presennol hwn yn werth eu cyffelybu i'r gogoniant a ddadguddir yno. Trwy ffydd y mae cael hawl i fywyd tragwyddol. "Y rhai sydd o ffydd, a fendithir gydag Abraham ffyddlawn," neu Abraham ffyddiog. Maent yn sefyll yn yr un hawl i'r addewid ag Abraham, yr hon addewid a wnaethpwyd, nid i berson neillduol, neu i genedl, ond i gharacter neu gymeriad moesol, sef i ffydd. Y mae pawb sydd o'r un ffydd ag Abraham, yn sefyll ar yr un hawl ag ef i addewid bywyd tragwyddol. "Yr hwn sydd yn credu i'r Mab, y mae ganddo fywyd tragwyddol."

Ni a welwn, gan hyny, fod ffydd yn llanw lle mawr yn ein hiachawdwriaeth; ond er hyny mae ffydd yn dyfod trwy foddion distadl iawn—"trwy glywed," neu wrandawriad pregethiad yr efengyl. Ac os daw ffydd trwy glywed, daw pob peth arall trwy glywed. Nid yw ffydd byth yn dyfod i

mewn yn waglaw; nid yw byth yn dyfod heb ei Christ yn ei deheulaw—heb iachawdwriaeth ddiagonol gyda hi. Nid yw ffydd wedi ei bwriadu i ddiwallu cyflwr y pechadur wrthi ei hun; nid ydyw yn gyfaddas i hyny; swydd ffydd yw tynu i mewn bethau eraill, gwell na hi ei hun; ei gwaith hi ydyw derbyn Crist yn Iachawdwr, a defnyddio yr iachawdwriaeth sydd ynddo. Mae ffydd fel yr afonydd mawrion yn y prifddinasoedd; megys yr afon Thames yn Llundain. Nid yw yr afon yn gyfaddas i ddiwallu y ddinas wrthi ei hun: rhaid i'r dinasyddion gael llawer o bethau heblaw dwfr at eu cynnal. Ond y mae yr afon yn trosglwyddo i mewn bob peth sydd yn anghenrheidiol i ddiwallu y trigolion. Od oes dim gwell na'u gilydd yn y ddwy India, rhaid i'r hen afon Tafwys gael teimlo ei bwys, a'i gario i mewn i'r briffddinas. Felly y mae ffydd yn tynu i mewn bob peth sydd yn anghenrheidiol ar gyflwr y pechadur. Od oes un gras yn nghyfoeth y Duwdod, rhaid i ffydd gael ei gario i mewn i gyflwr y truan. Od oes un fendith yn nghyflawnder Crist, gyfaddas i anghen pechadur, myn ffydd gael gafael arni, a'i chymhwyso at yr anghenrhaid. Od oes dim rhinwedd yn ngwaed y groes, myn ffydd ei gael a'i anfon at y gydwybod. Ei swydd hi ydyw cyflawni yn hollol anghen y tlawd yn nghyflawnder Duw ei hun. Er hyn oll, mae ffydd a'i holl ganlyniadau mawrion yn dyfod *trwy glywed*—trwy y moddion sydd yn ein cyrhaedd, ac yn aml yn ein dwylaw—trwy wrandaw yr efengyl. Mae rhyw fath o wrandaw na ddemnir neb byth a'i gwnelo—"gwrandaw fel y byddo byw yr enaid." Edrychwn yn ddirifol am i'n gwrandawriad o'r efengyl ateb ei ddyben mawr.

Mae amryw o bethau yn dyfod dan yr enw ffydd yn y Bibl. Dawn i wneuthur gwyrthiau a elwir yn ffydd. "Pe b'ai genych ffydd megys gronyn o hâd mwstard, chwi a ddywedech wrth y mynydd hwn, Symud oddiyma draw, ac efe a symudai; ac ni bydd dim anmhosibl i chwi;" *Mat.* xvii. 20. "A phe b'ai genyf yr holl ffydd, fel y gallwn symudo mynyddoedd, ac heb genyf gariad, nid wyf fi ddim;" *1 Cor.* xiii. 2. Rhoddwyd yr enw ffydd ar y ddawn hŏno, am fod yn rhaid i'r rhai oedd yn ei meddu weithredu rhywfath o ffydd yn ngallu Duw yn nghyflawniad y gwyrthiau hyny. Yn enw Duw, neu yn enw Crist, y byddent yn gwneuthur gwyrthiau. Nid yw y ffydd hon yn anghenrheidiol arnom ni. Mae yn wir pe buasem yn ei meddu, a medru trwyddi fywchau y meirw, a iachâu clefydon wedi i'r holl feddygon fethu, y gwnaethem sŏn mawr am danom ein hunain yn ein bywyd. Mae yn ddiâu y buasem yn holl bapyrâu newydd Ewrop cyn pen dau fis. Ond ni buasai y cyfryw ffydd yn werth dim tuag at farw. Mae genym hanes rhai yn dyfod ger bron y Barnwr, ac yn hŏni eu bod wedi gwneuthur gwyrthiau lawer yn ei enw, ac yntau yn addef wrthynt nas adnabu efe mohonynt erioed. Rhodded yr Arglwydd i ni y peth mawr hwnw a baro iddo ef ein hadnabod y dydd hwnw. Mae y ffydd hon wedi colli o'r byd yn ein dyddiau ni. Gorphenodd ei gwaith. Dyben y gwyrthiau ydoedd profi dwyfol anfoniad Moses ac eraill o'r dynion sanctaidd a ysgrifenasant y dadguddiad o feddwl Duw i ni, ynghyd â dwyfol anfoniad y Messiah a'i apostolion. Y mae dynion sydd yn galw eu hunain yn Cristionogion, yn hŏni yn y dyddiau hyn eu bod yn meddu y doniau gwyrthiol. Nid ydym yn arfer dywedyd na meddwl yn isel am y gwahanol bleidiau Cristionogol sydd yn nhywysogaeth Cymru; mae yn hawdd i ni estyn deheulaw cymdeithas i'n gilydd, er ein bod yn gwahaniaethu

yn ein barnau am ryw bethau dibwys, ond i ni gael lle i farnu am ein gilydd ein bod yn gydwybodol a gonest, ac yn adeiladu ein crefydd ar y sylfaen a osododd Duw. Ond am y rhai hyn sydd yn hōni iddynt eu hunain y ffydd wyrthiol, y mae yn anhawdd eu pasio heb eu dirmygu. Mae yn rhaid eu bod yn dwyllwyr bwriadol. Nid yw yn bosibl na wyddant nad oes ganddynt mo y doniau gwyrthiol. Pa fodd y maent yn alluog i ddyweyd eu bod yn meddu dawn wyrthiol, a hwythau heb wneyd gwyrth erioed? Pe buasem yn tybio ein bod yn meddu y fath ddawn, buasem yn gyntaf yn cilio i fynydd wrthym ein hunain, ac yn gwneuthur gwyrthiau, cyn meiddio dywedyd ein bod yn gallu hyny. Nid dyweyd eu bod yn meddu dawn wyrthiol y byddai Crist a'i apostolion; gwneuthur y wyrth y byddent hwy, a gadael i'r wyrth ddywedyd. Pe caem ninnau y wyrth gan y dynion hyn, ni a'i credem hi. Ond y mae yn rhaid fod eu honiadau yn gwrthwynebu eu cydwybodau. Gwelsom hanes am anffyddiwr yn teithio trwy Daleithiau Cyfunol America i ledanu ei gableddau. Dygwyddodd ei fod unwaith ar ei daith yn myned dros un o lynoedd yr America. Cyfododd ystorm fawr ar y llŷn. A phwy oedd un o'r rhai cyntaf i weddio ar Dduw am waredigaeth ar y llŷn, ond yr anffyddiwr. Wedi iddo gael y llàn, safodd ar yr heol drachefn i gyhoeddi ei gableddau; ond methodd ei dyrfa ei oddef, a lluchiasant ato y baw a'r ceryg. Yr oeddynt yn ei wrandaw yn dawel nes y gwelsant ei fod yn siarad yn groes i'w gydwybod; canys wele y dyn, oedd newydd fod yn gweddio ar yr Arglwydd i'w waredu pan ar y llŷn, yn awr yn gwadu y Duw hwnw ar yr heol. Mae y dyn sydd yn gwneyd twyll bwriadol, trwy ddyweyd yn groes i'w gydwybod ei hun, yn haeddu ei ddirmygu, yn gystal a thosturio wrth ei drueni.

Ffydd arall a elwir gan dduwinyddion yw ffydd hanesiol: math o gyd-syniad â gwirioneddau y Bibl, ac er hyny yn gydsyniad noeth a diffryth, heb gynnyrchu ymorphwysiad ar Grist am fywyd, nac ufudd-dod i'r gwirionedd yn yr ymarweddiad. Mae llawer yn meddu y ffydd hon yn ein mysg ni yn Nghymru; ac y mae yn well bod yn meddu hon, na bod heb-ddi; oblegid mae y ffydd hon yn rhoddi i'r gwirionedd radd o awdurdod ar y gydwybod, ac yn peri iddo gyffwrdd yn ysgafn â'r serchiadau, nes y mae y gair yn cael ei dderbyn trwy lawenydd, gyda hyfrydwch. Mae y pechadur yn sefyll mewn gwell gobaith am y ffydd achubol, trwy fod yn meddu y ffydd hanesiol. Mae yn fwy gobeithiol o fod yn cydsynio â'r Bibl, na phe buasai yn ei wadu.

Ond y ffydd sydd dan ein sylw ni yn awr—y ffydd sydd yn dyfod trwy glywed, a chlywed trwy air Duw—yw ffydd achubol, yr hon sydd yn effaith argyhoeddiad mwy trwyadl na'r llall, ac yn cynnyrchu ymorphwysiad ar Grist mewn calon, ac ufudd-dod i'r gwirionedd mewn buchedd. Am fod ufudd-dod yn hanfodol i ffydd achubol, y ceir ffydd yn fynych yn cael ei galw yn ufudd-dod i'r gwirionedd; *Act. v. 32; 1 Pedr i. 22; Rhuf. vi. 17.* Eithr ein hamcan yn y traethawd hwn, ydyw sylwi ar ffydd yn ei chysylltiad â'r gair. Gallwn nodi dau gysylltiad rhwng ffydd â'r gair. Mae y gair yn sylfaen ffydd, ac y mae hefyd yn foddion ffydd.

Mae y gair yn sail ffydd. Y gair sydd i'w gredu er iachawdwriaeth. Nid ydym yn meddwl wrth ddyweyd felly, fod iachawdwriaeth wedi ei chysylltu â chredu rhai pethau sydd yn y gair, megys credu rhanau hanesiol y gair. Gall un gredu gwirionedd yr hanesion ysgrythyrol, ac er hyny fod heb gredu i iachawdwriaeth. Rhaid credu athrawiaeth ein iachawdwriaeth,

neu yr hyn yn briodol a elwir yr efengyl. Yr athrawiaeth am gymeriad Duw, trueni dyn, person a swydd y Cyfryngwr, &c.—rhaid credu y gwirioneddau hyn, a'u credu am mai Duw a'u tystiolaethodd. Nid oes neb teilwng o'i gredu am bethau tragywyddol ond Duw. Gallwn gredu ein gilydd am bethau bychain y ddaear. Pe dygwyddai i ni gael ein twyllo gan ein gilydd am y pethau hyny, ni bydd y twyll o ganlyniad mawr. Ni allai effeithio ar ein sefyllfa dragywyddol, o leiaf i'r twylledig; gallai hyny i'r twyllwr, os yn fwrriadol yn gwneyd y twyll. Ond mae yr achos sydd yn cael ei benderfynu yn y grediniaeth o ffordd iachawdwriaeth o'r fath bwys, fel y byddai yn rhyfyg ymddiried i neb am dano, ond i'r Hwn y mae yn anmhosibl iddo fod yn gelwyddog. Ffydd yn Nuw yw ffydd achubol. Credu i Dduw yw credu i iachawdwriaeth; o herwydd nid yw gwir ffydd yn ymddiried yn neb arall. Nid yw yn ymddiried yn ngwybodaeth neb ond yr Hwn sydd berffaith-gwbl o wybodaeth, nac yn ffyddlondeb neb ond yr Hwn sydd anghyfnewidiol. Nid yw gwir ffydd yn troi i'r oesoedd tywyll i ymofyn am y gwirionedd. Nid yw byth yn gofyn, Beth a ddywed y Tadau? Beth a ddywed Tertullian, neu Origen, neu Cyprian, neu Chrysostom, neu Augustine, neu Ambrose? Na! nid y ffordd yna y mae gwir ffydd yn ymofyn am y seiliau i bwysio arnynt yn angeu. Pa beth a ddywed yr Arglwydd? yw holiad gwir ffydd. "At y gyfraith ac at y dystiolaeth; oni ddywedant yn ol y gair hwn, hyny sydd am nad oes oleuni ynddynt," pe byddent y Tadau. Mae achos diddiwedd dyn o'r fath bwys, fel y byddai yn rhyfyg cymeryd tystiolaeth creadur i hyderu arni. Mae gobaith bywyd tragywyddol mor fawr, ac mor werthfawr yn ei wrthddrych, fel y byddai tystiolaethau yr holl creaduriaid yn rhy fychan o sierwydd am dano. Byddwn yn arfer edrych am gadernid yn y sail, a fyddo yn gyfatebol i bwys yr adeilad. Ni byddwn byth yn barnu yn ddoeth gosod adeilad pwysfawr iawn ar sail egwan. Wele, dilynwn y rheol hon gyda'n hachos tragywyddol, ac ni a wrthodwn dystiolaeth pawb yn sail i'n ffydd, ond yr eiddo Ef, yr hwn sydd ei hun yn graig dragywyddol, a'r holl anghyfnewidioldeb yn preswlyio ynddo. Am danom ein hunain, buom yn meddwl pe cawsem dystiolaeth mil o angelion glân am y ffordd i ddedwyddwch tragywyddol, ac heb genym ddim i grogi ein heinioes arno yn angeu ond cywirdeb angel—dim genym i'w deimlo rhyngom a neidio i warth tragywyddol, ond gair angel—yn ddiâu, byddai arnom arswyd anturio i dragywyddoldeb felly. Cyfnewidiol yw y creadur: arswydem y gallai ei anwybodaeth, er heb ynddo un ddichell, ein camarwain, ac i ninnau gael ein somi am y cwbl sydd werthfawr. Ond ni a fyddwn yn meddwl ein bod weithiau yn gweled y fath gadernid yn nhystiolaeth Duw, fel yr anturiam i dragywyddoldeb, beth bynag ydyw, heb ofn—heb deimlo dim, na meddwl fod dim i'n cynnal rhag suddo i drueni bythol, ond gair ein Duw. Os cawn grogi ein henaid ar un adnod o'r Bibl, byddwn ddiogel byth.

Perthynas arall rhwng ffydd a'r gair ydyw, fod y gair yn foddion ffydd. Mae ffydd yn dyfod "trwy glywed." Mae llawer o dystiolaethau eraill, er yn wirionedd, yn ddiffygiol o brofion i argyhoeddi o'r gwirionedd. Ond nid yw felly yma. Mae tystiolaeth yr efengyl wedi ei hamgylchynu â phroffion oddi allan, ac wedi ei chyfoethogi â phroffion oddifewn iddi ei hunan, i argyhoeddi pob meddwl diduedd. Y profion tufewnol yn unig sydd yn ateb dyben gyda y rhan fwyaf. Dyna y profion sydd wedi eu

cyfaddasu at amgyffredion y rhan liosocaf o ddynolryw, y rhai sydd yn analluog, o herwydd anwybodaeth, i dderbyn y profion allanol. Cyfaddasrwydd y gair i chwilio y galon, ac i'w thawelu, a'i gyfatebiad perffaith i lais neu dyst tufewdol y fynwes, sydd yn effeithio argyhoeddiad gyda y rhan fwyaf.

Bellach, o hyn hyd ddiwedd ein hysgrif, ni a sylwn yn fwy penodol ar y gair fel moddion ffydd. Y mae yn gymaint felly, a bod pawb sydd heb ffydd, yn bod felly oddiar ragfarn at y gair, neu ddyeithrwech iddo trwy ddfifaterwch, neu esgeuluso ei ddefnyddio yn y modd y cyfarwyddir yn y gair ei hun, neu ynte oddiar fod yn amddifaid o hono. Y mae genym lawer o ffeithiau am ddynion oedd yn anffyddiaid penderfynol, eto trwy ymroddi i ddarllen y gair, wedi cael eu hargyhoeddi, heb un moddion arall.

Mae anghenrheidrwydd mawr yn y dyddiau hyn, gyfarwyddo y genedl pa fodd i gael ffydd. Y mae y pregethwyr presennol, a'u tadau o'u blaen, wedi traethu llawer ar natur ffydd, a'i heffeithiau, a'i hawdur; ond fe allai iddynt fod yn rhy brin yn dysgu eu gwrandawyr pa fodd i'w chael. Mae gan y Parch. William Gurnall bennod ar natur ffydd, ac ar ei heffeithiau, &c.; ond nid yw yn gadael y pwnc heb roddi pennod hefyd i ddangos pa fodd y mae i'r anghredadyn ymofyn am ffydd. Pa fudd i ni a fyddai cael sicrwydd fod mynydd o aur dilin draw yn Jupiter? Gwell fyddai i ni gael hanes hanner wns yn rhywle ar y ddaear lle y gallem ei gael. Naill ai na ddywedwch wrthym am Geidwad, neu dywedwch wrthym hefyd ei fod mewn cyfle i ni ei gael; dywedwch ei fod yn sefyll wrth ein drws, ac yn curo, ac ni a fyddwn ddiolchgar am hanes felly. Pa fuddioldeb fyddai dangos iachawdwriaeth yn y lleuad i bechadur sydd ar y ddaear, yr hon na byddai yn bosibl iddo gael gafael arni? Gwyddom am ardaloedd yn Nghymru, lle yr oedd y pregethwyr ymron i gyd wedi ymroddi i ddangos i'w gwrandawyr pa fodd y syrthiodd dyn, a pha fath yw yr iachawdwriaeth sydd yn Nghrist, ond na byddent byth yn gweled y Gwaredwr yn ddigon agos at y pechadur fel ag i feiddio eu cymhell i droi ato a chredu yndo. Os credu a fyddai y pwnc, egluro natur ffydd a fyddai y bregeth, ond heb roddi dim annogaeth na chyfarwyddyd i neb ymofyn am dani. Ni allent weled yn addas, yn gydunol â'u hegwyddorion, i gyhoeddi yn wyneb y dyrfa, "Edifarhewch, a chredwch yr efengyl." Ond wedi hyny, daeth y weinidogaeth yn fwy ymarferol; rhoddid yn fynych annogaethau a chyfarwyddiadau i ymofyn am grefydd; a'r effaith a fu dychweliad lluoedd o bechaduriaid at yr Arglwydd. Edrychwn ar y llwyddiant a fu yn y blyneddau diweddfar ar yr ymdrechion o blaid dirwest, a chawn arddangosiad o natur gyffelyb. Bu ein tadau yn ymdrechu i argyhoeddi y genedl o'r pechod o feddwod. Byddai rhai o honynt yn taranu uwch ben y bai hwn, yn fwy nerthol ac effeithiol ar y pryd, fe allai, nag y gallodd neb yn y pedair blynedd ar ddeg diweddfar. Ond er hyny cynnyddu yr oedd meddwod yn mysig y genedl dan yr holl felldithion ofnadwy. Paham yr oedd y fath weinidogaeth danllyd yn aflwyddiannus? Yr ydym yn barnu mai o ddiffyg dysgu neu gyfarwyddo y gwrandawyr am y ffordd i ochel meddwod. Yr oeddynt heb wybod y ffordd eu hunain. Nid ydym yn meddwl wrth ddywedyd felly, eu bod hwy yn yfed yn anghymedrol, ond nad oeddynt yn deall y ffordd ddiogel i feddwyn droi yn sobr. Yr oeddynt yn caniatâu mesurau bychain o'r diodydd meddwol, eithr yn gwahardd

yn groch fesurau mawrion; heb ddeall neu heb ystyried y cysylltiad sydd rhwng mesur bychan a mesur mawr. Peth nesaf i anmhosiblwrwydd ydyw i ddyw wedi arfer meddwi, ymattal rhag cymeryd gormodedd o'r diodydd meddwol, os unwaith y caiff eu harchwaethu. Yr oeddynt hwy yn gwahardd meddwdod, ac yn cenadu yr hyn oedd yn ei sierhau—yn condemnio yr effaith, ac yn cyfiawnhau yr achos. Felly o ddiffyg dysgu y genedl i ochel meddwdod, yr oedd yr annogaethau grymus i sobrwydd yn syrthio i raddau mawr yn ddi-effaith. Mae graddau o'r un peth, fe allai, wedi achosi i weinidogaeth yr efengyl fod yn llai llwyddiannus nag y buasai heb y diffyg a nodwyd; sef, traethu llawer ar natur gwir grefydd, ar gwmp dyn, ar drefn cyfiawnhad, &c., ac esgeuluso annog pechaduriaid i ymallyd mewn crefydd ymarferol, a'u cyfarwyddo at foddion iachawdwriaeth, yr hyn sydd yn gorwedd mor amlwg yn y Bibl, ac i'w gyfarfod yn llawer mynychach, nag eglurhau pynciau.

Hwyrach fod dysgawdwy'r crefyddol weithiau yn cario rhai gwirioneddau yn rhy bell, fel ag i ymddangos yn erbyn y gwirionedd a ddygir dan sylw. Pan yn egluro graslonrwydd yr iachawdwriaeth mewn dull anochelegar, dichon fod yr eglurhad yn tueddu i adael argraff o'r fath a ganlyn ar ryw feddwl halogedig fyddo yn gwrandaw,—“Gan fod yr iachawdwriaeth o ras, fel yr ydwyf yn clywed, yr ydwyf yn casglu ac yn penderfynu na waeth i mi pa fodd i ymddwyn. Byddaf, yn ol y desgriafiad yna, mewn cystal gobaith am iachawdwriaeth yn y tafarn dŷ ag yn yr addoldŷ; o herwydd o ras y mae, ac nid yw gras yn edrych ar ddaioni yn y gwrth-ddrych.” Mae yn wir fod iachawdwriaeth o ras hollol; ond mae mor wir a hyny mai gras sanctaidd ydyw gras Duw. Mae yn ras nad yw byth yn edrych yn ysgafn ar bechod—gras sydd yn gwgu ar bob anwiredd—a gras sydd yn rhedeg allan trwy foddion. “Yn mhob man lle y rhoddwyf goffadwriaeth o'm henw, y deuaif atat, ac y'th fendithiaf.” Onid wyt ti, O Arglwydd, yn bendithio o ras? gan hyny ni waeth i ti pa le i fendithio. Oni all gras redeg i'r chwareudŷ, a bendithio yno? Na, medd Duw, fy nhrefn i ydyw, dyfod i fendithio lle y rhoddwyf goffadwriaeth o'm henw.

Digonorlwydd yr iachawdwriaeth sydd yn cael ei gario weithiau i eithafion, fel ag i adael allan yn hollol foddion iachawdwriaeth. Pan y caiff y gwirionedd fod Iesu Grist yn myned ar ol y gyfrgolledig hyd oni chaffo efe hi, ei adael yn anwyliadwrus ac yn hannerog, y mae y meddwl hwnw sydd yn arfer troi gras Duw i drythyllwch yn tynu casgliad felly—“Gan fod y Bugail da yn myned ar ol y golledig nes ei chael, nid yw yn ddim gwahaniaeth gan hyny i mi fod yn y dafarn mwy nag yn yr addoliad; byddaf mewn cystal gobaith yn nhŷ y buten ag yn y chwareudŷ; onid yw y Ceidwad yn medru y ffordd i'r manau hyny fel i'r cyfarfod gweddi?” Mae yn wir fod y Ceidwad yn myned ar ol y golledig nes ei chael; ond nid yn y dafarn y mae yn arfer cymeryd gafael ynddi; nid yn y puteindŷ y mae yn arfer cofleidio pechadur; ond yn yr ymarferiad âg ordinhadau sanctaidd gras. Trwy glywed gair Duw y mae ffydd yn dyfod. Yn ei rodfeydd y mae y Brenin wedi ei rwymo. Mae iddo rodfeydd penodol, sef moddion gras ac ordinhadau yr efengyl; y mae i'w gael yno yn wastadol; gan hyny, os mynem ei gyfarfod, ymfynwn am dano yn ei rodfeydd.

Dylanwad yr Ysbryd hefyd sydd yn cael ei ddangos weithiau mewn

modd rhy ffatriol i lygredigaeth y galon. "Tywallt dy Ysbryd, Arglwydd," meddai un ar weddi; "ni wneir dim yma nes i ti dywallt dy Ysbryd." Gall fod y cyfryw frawd yn meddwl yn ddiniwed; ond nid ydyw ei eiriau yn gywir, na wneir dim heb y tywalltiad. Wrth y tywalltiad o'r Ysbryd, yr ydym yn deall dylanwadau grymus—dylanwadau anarferol—dylanwadau yn cynnyrchu diwygiadau mawrion. Mae dyweyd na wneir dim heb y tywalltiad yn rhedeg i eithafion. Y mae preswyliaid yr Ysbryd gyda ni pryd na byddo y tywalltiad. Mae "llaw yr Arglwydd yn gorphwys yn y mynydd hwn." Pe yr attaliai Ysbryd Duw ei orchwyliaeth yn llwyr, collid gwir dduwioldeb o'n mysg. Nis gall y saint barhau yn sanctaidd heb ddylanwad yr Ysbryd ar eu calonau. Onid yw y saint yn demlau i'r Ysbryd Glan? onid ydynt yn breswylfod i Dduw trwy yr Ysbryd? Ac y mae ffydd yn dyfod trwy glywed i galonau llawer ar yr amser tawel hwn. Y fath ddull o weddio sydd yn tueddu i osod cynllun i'r Arglwydd weithio. Nid ydym ni heb ddymuno gwled eto bethau grymus ac anghyffredin gyda'r efengyl; ond nid oes gan neb sail i benu y dull a'r graddau i'r Arglwydd weithio. Erfyniwn arno achub pechaduriaid yn y dull a welo ef yn dda. Gwnaed pethau mawrion yn Ngogledd Cymru ar ol y tywalltiad mawr a fu er ys deg ar hugain o flyneddau yn ol. Mae ein heglwys wedi dyblu yn eu nifer, a'u gwrandawyr wedi lliosogi yn gyfatebol ar ol hyny; ac nid ydym yn deall fod duwioldeb ymarferol yn is yn awr na'r pryd hyny. Gwenith da, cryf, yw y gwenith gauaf, ac yn y cyffredin mae yn oreu. Gwelsom lawer dan effeithiau grymus yn nyddiau y tywalltiad, ac yn fuan wedi hyny eu holl fwynder yn ymadaw fel y gwllith boreuol; a gwelsom lawer yn dyfod i arddel Crist, heb allu hōni pethau mawr—mewn ofn a gwlyder yn penderfynu myned ar ol Iesu Grist, er heb sicrwydd eu bod wedi eu gwir argyhoeddi—ac y mae, y rhai hyn heddyw yn golofnau yn nheml yr Arglwydd. Dichon fod eisieu i ni ystyried fod yr Arglwydd yn newid ei ddull yn gweithio at yr amseroedd, fel y mae yr amaethwr yn newid ei orchwyliaeth yn ol y byddo amgylchiadau yn galw. Gyda chenedloedd anrwybodus, dyeithr i grefydd, mae yn fynych wedi rhoddi dylanwadau nerthol ac anarferol i'w cyffrōi; ond cenedl wedi hir ymarfer â moddion gras a drinir yn wahanol. Gweithia trwy ymrysoniadau dystaw ei Ysbryd ar eu meddyliau trwy y gair, ac ni chânt ond hyny. Os gwrthodant hyny, efe a'u rhydd i fyny i'w trachwantau eu hunain. A'r golygiad hwn y cytuna y ffeithiau fod Duw wedi gadael gwledydd cyfain, megys Ffrainc, Asia Leiaf, a gwledydd eraill, lle y bu crefydd bur yn blodeuo am amser maith. Cenedl wedi ei breintio yn uchel, sydd mewn sefyllfa y rhaid iddi ufuddhau i gymhelliadau Ysbryd Duw trwy y gwirionedd neu eu diffodd a'u pechu ymaith. Mae gwadu cymhelliadau Ysbryd Duw ar feddyliau dynion trwy y gair, neu eu dangos yn ddi-ddiben a dibwys, neu fod heb weled llaw yr Arglwydd yn gweithio yn y ffordd hon, yn tueddu i gefnogi cyndynrwydd calonau llawer o wrandawyr yr efengyl. Y golygiad fod yr Ysbryd yn cael ei dywallt fel y gwlaw ar y ddaear, ar bob lle heb wahaniaeth, sydd yn dyfod yn erbyn y dystiolaeth fod ffydd yn dyfod trwy glywed gair Duw. Mae y gwlaw naturiol, yn wir, yn disgyn ar bob lle, heb adnabod na môr na mynydd, na chraig na dyffryn; mae yn disgyn lle nad oes ei anghen fel ar y lle y mae yr anghen mwyaf am dano. Ond nid felly yn hollol y mae y gwlaw graslawn. Nid yw byth yn disgyn ond lle mae ei anghen; nid yw yn disgyn ar bob lle yn

ddiwahaniaeth. Yn y tywalltiad mawr a welsom, nid oedd y cawodydd ffirwythlawn y pryd hyny yn disgyn yn y dafarn fel yn yr addoldy; nid oedd y gwlaw maethlawn yn y dyddiau hyny yn disgyn ar y rhedegfêydd a'r dawns-gyfarfod fel ar y gymanfa efengylaidd. Na! ar fynydd Sion yr oedd y gwlaw graslawn yn disgyn. Yr athrawiaeth oedd yn defnyddu fel gwlaw; fel gwllithlaw ar irwellt, ac fel cawodydd ar laswellt. Lle byddo enw yr Arglwydd yn cael ei gyhoeddi, y disgyn y cawodydd. "Hwynt hefyd ac amgylchoedd fy mryn a wnaif yn fendith," medd yr Arglwydd; "a gwnaf i'r gwlaw ddisgyn yn ei amser; cawodydd bendith a fydd. A rhydd pren y maes ei ffirwyth, a'r tir a rydd ei gynyrech."

Y golygiad fod yr Ysbryd yn gweithredu yn hollol annibynol ar ddim o du y pechadur—nad all unrhyw agwedd ar y pechadur effeithio dim tuag at ei gael na thuag at ei attal, sydd yn cael ei gario yn rhy bell gyda llawer, fel ag i filwrïo yn erbyn y gwirionedd ysgrythrol am foddion iachawdwriaeth. Wrth glywed hyny mae y pechadur calon-galed yn tynu y fath gasgliad,—“Gan nad yw fy ffyrdd yn effeithio dim tuag at benderfynu fy sefyllfa dragywyddol, mae i mi gystal gobaiith am ddylanwad yr Ysbryd wrth ymarfer â gwlybyroedd meddwol ag wrth ymarfer â'r Bibl ac oedfaon crefyddol.” Eithr mae yn amlwg oddiwrth yr ysgrythrau fod rhyw agwedd ar bechaduriaid ag sydd yn tristau Ysbryd yr Arglwydd, ac yn ei ddiffodd. Sonir am bechaduriaid yn gwrthwynebu yr Ysbryd Glân. Ac y mae Duw yn sicrhau mai o'i anfodd y mae efe yn rhoddi bechaduriaid i fyny, ac yn gofyn pa beth oedd i wneuthur yn ychwaneg nag a wnaethai efe iddynt tuag at eu dychweliad, ac yn tystio mai eu pechodau a barodd iddo guddio ei wyneb oddiwrthynt, fel na chlywo eu llefau. Mae rhyw agwedd neillduol yn mha un na cheir Ysbryd yr Arglwydd byth. Yr agwedd hòno ar y galon sydd yn cadw y pechadur draw oddiwrth foddion iachawdwriaeth, sydd yn ei gadw hefyd allan o gyrhaedd dylanwadau yr Ysbryd, oblegid nid yw yr Ysbryd yn gweithredu ond drwy y moddion.

Anallu dyn sydd yn cael ei osod allan gan rai fel ag i sefyll yn anghyson â'r pwnc o fod y gair yn foddion ffydd. Darluniant bechadur yn analluog, fel y marw yn y bedd, yn mhob ystyr. Mae yn wir fod cyffelybrwydd rhwng y farwolaeth ysbrydol a'r farwolaeth naturiol; ond y mae gwahaniaeth hefyd; ac fe allai fod cymaint o anghenrheidrwydd i ni ddeall y gwahaniaeth a deall y cyffelybrwydd. Marwolaeth naturiol sydd yn hollol esgusodol; nid ydyw Duw yn beio y corff marw yn y bedd am fod yn farw: ond mae y farwolaeth ysbrydol yn cael ei beio; nid esgusodol mohoni. Mae y marw naturiol yn hollol analluog i arfer unrhyw foddion tuag at ei fywhad o feirw: os bywhëir ef, rhaid i hyny gael ei wneuthur trwy weithrediad digyfrwng gallu Duw. Ni all fod moddion a chymhwysder naturiol ynddo i fywhau y marw. Ond am y marw ysbrydol, mae efe yn meddu gallu a chymhwysder i ymafyd mewn moddion o ordeiniad Duw, ac a fendithir ganddo trwy ddylanwad ei Ysbryd i fywhau y marw. Ennill y galon i Dduw ydyw y bywhad ysbrydol, a gwneir hyny trwy air y gwirionedd. Rhaid i'r pechadur, er yn farw ysbrydol, ymafyd yn moddion y bywhau. Gelwir yr esgyrn sychion i wrandaw gair yr Arglwydd cyn i'r anadl ddyfod a bywyd i mewn iddynt. Cafodd y prophwydo effaith arnynt cyn i'r anadl ddyfod. Casglodd asgwrn at ei asgwrn; gwisgwyd hwy â gïau ac â chroen. Pe buasai y farwolaeth ysbrydol yn ateb yn hollol i farwolaeth naturiol, ni buasai dyn yn ei gyflwr natur yn gyfaddas

wrthdrrych i'w berswadio, ei gymhell, a'i argyhoeddi. Dywed y Dr. Owen, "Mae rhyw bethau yn ofynol oddiwrthym ni mewn ffordd o ddyledswydd, y rhai ydynt o fewn cylch eich galluoedd naturiol; maent yn ofynol fel rhagbarotoad i'r adenedigaeth." Fel hyn y mae ymwneuthuriaid allanol â moddion gras: "ffydd sydd yn dyfod trwy glywed." Nid oes gan bechadur allu i gyfnewid ei galon o hono ei hun, ond y mae ganddo allu i ymafyd yn y moddion a ordeiniodd Duw i'w chyfnewid; ac y mae Ysbryd Duw yn arfer, ac i'w ddysgwyl i, weithredu bywyd trwy y moddion yn yr ymarferiad o honynt. Trwy esgeuluso y moddion y mae pechaduriaid yn esgeuluso iachawdwriaeth. Nis gellir na derbyn nac esgeuluso iachawdwriaeth ond trwy ddefnyddio neu esgeuluso y moddion. Yn y moddion y mae iachawdwriaeth wedi dyfod i'n hymyl—wedi dyfod i'r cyfle i ni ei derbyn neu ei gwrthod; ac ymddygiad y pechadur at y moddion sydd yn penderfynu ei sefyllfa dragywyddol. Yr hwn sydd yn gwrandaw geiriau Crist, ac yn eu gwneuthur, a gyffelybir i ŵr doeth a adeiladodd ei dŷ ar y graig; a'r hwn sydd yn gwrandaw heb wneuthur sydd fel un yn adeiladu ar dywod. Mae yr Arglwydd yn ei air yn dadleu yn fynych â phechaduriaid ei fod wedi cynnyg gwardedigaeth i'w rhan trwy roddi y moddion; *Essay* xlviii. 17, 18; *Ezec.* xxiv. 13; ac yn rhoddi ar ddeall fod y cwbl o'i du ef wedi ei wneyd yn hyny; *Essay* v. 1—5; ac os byddai y moddion yn anffeiithiol i'w dychwelyd, nad oedd ganddo ddim ychwaneg i'w wneuthur ond eu rhoddi i fyny a'u dyfetha; *Essay* vi. 9—12.

Edrychir gan rai ar weinidogaeth annogaethol neu ymarferol yn tueddu at droi dylanwadau yr Ysbryd o'r neilldu, neu argraffu ar feddyliau y gwrandawyr nad oes anghenrheidrwydd am danynt. Nid ydyw annog pechaduriaid i edifarhau, credu, gweddio, ac arddel Crist, yn ymddangos iddynt yn cydsefyll yn briodol â'r golygiad fod dylanwadau yr Ysbryd yn anghenrheidiol i gynnyrchu y pethau a nodwyd. Hyn hefyd sydd yn tarddu oddiar ddiffyg deall, neu ddiffyg ystyried, fod y weinidogaeth yn foddion y mae Ysbryd Duw yn gweithredu trwyddi argyhoeddiad, edifeirwch, a ffydd. Yr ydym yn addef fod anghenrheidrwydd am egluro a chadarnhau athrawiaethau mawrion yr efengyl; ond dylent gael eu cymhwyso oll yn annogaethau i sancteiddrwydd. Gellir traethu ar egwyddorion crefydd yn y fath fodd ag i osod y gwrandawyr i feirniadu y pynciau hyny, heb un tuedd na chymhwysder yn y cwbl i ddyfod â meddwl y pechadur at ei achos ei hun. Eglurhadaeth fanwl a philosophaidd ar natur cariad ac Grist a gynnyrcha ysbryd beirniadu y mater, a beirniadu y cyfansoddiad ar y mater, heb neb yn meddwl am ymarfer y cariad, na dim tuedd yn yr holl draethu i greu awydd yn enaid pechadur i weddio am i'r cariad gael ei dywallt yn ei galon. Pa beth a duedda yn fwyaf i gynnyrchu edifeirwch? ai traethu yn fanwl ar natur edifeirwch? Byddai yr apostolion yn cymeryd yn ganiataol fod eu gwrandawyr yn deall ei natur: llefaru y byddent hwy yn ngwyneb y dyrfa, "Edifarihewch, canys nesaodd teyrnas nefoedd." Ni byddent yn treulio amser i egluro natur ffydd, ond cymarent yn ganiatäol fod y gwrandawyr yn dirnad beth oedd natur credu, a dywedent wrthynt yn hyf, "Credwch yr efengyl." Ai traethu ar anallu dyn i gredu ac i edifarhau, neu ar yr anghenrheidrwydd am ddylanwadau yr Ysbryd i'w cynnyrchu, yw y moddion cymhwysaf i ennill pechaduriaid i gredu ac edifarhau? Ni byddai Crist a'i apostolion byth yn gwneuthur sylw ar hyny cyn annog pechaduriaid i gredu: byddent hwy yn eu hannog i gredu ac edifarhau fel pe gallasant hyny yn y fan,

gan gyhoeddi y pwys mawr o hyny fel cymhelliad digonol. "Cred yn yr Arglwydd Iesu Grist, a chadwedig fyddi." "Yr hwn nid yw yn credu i'r Mab a ddamniwyd eisoes." Bu gweinidogaeth Pedr ar ddydd y Pentecost yn foddion i ddychwelyd miloedd i edifeirwch a ffydd i'r gwirionedd. Ond ar ba beth y traethai efe y pryd hyny? Ai dyweyd a wnaeth y dylent edifarhau, ac er hyny nas gallent, a bod mawr berygl i'w hedifeirwch fod yn un deddfol, &c.? Na: pe cymerasai y fath gynllun, busent heb edifarhau eto, mae yn debygol. Traethu a wnaeth Pedr mai dawn yr Ysbryd oedd y wyrth yr oeddynt yn ei gweled, yr hyn oedd wedi ei ragfynegu gan y prophwyd Joel, ac yna mynegai iddynt mai yr Iesu oedd y Crist, neu y Messiah addawedig trwy y prophwydi, a'u bod hwythau wedi ei groeshoelio, a bod yr Iesu a groeshoeliasant hwy i'w gael iddynt gan Dduw yn Arglwydd ac yn Grist; ac ar glywed hyny hwy a ddwysbigwyd yn eu calonau. Gellir traethu ar drueni dyn heb ddim tuedd yn y cwbl i'w argyhoeddi o fai. Egluro bai mawr ei wrandawr a wnaeth Pedr, a hwy a ddwysbigwyd. Cyhoeddi cyfaddasrwydd Crist yn Waredwr, a'i barodrwydd i dderbyn y penaf o bechaduriaid, a duedda i ennill calon y pechadur i ymddiried ynddo. Y weinidogaeth sydd ar un llaw yn agor drws llydan o flaen pechadur yn ymofyn am iachawdwriaeth, ac ar y llaw arall yn taranu mellidhion cyfiawnder Duw mewn ysbryd dwysdeimladol uwch ben y pechadur rhyfygus, hono yw y weinidogaeth lwyddiannus.

Rhai a ddesgrifant ffydd yn egwyddor o ras wedi ei phlanu yn y galon trwy weithrediad yr Ysbryd yn annibynol ar foddion? Pa fodd y gall fod yn y galon dueddiad at Grist yn annibynol ar adnabyddiaeth o'r dadguddiad o hono? Nid yw yr Ysbryd yn gweithredu ond trwy y gwirionedd; mae yn goleuo y deall trwy ei athrawiaeth, ac yn ennill yr ewylls trwy ei annogaethau. Y gair yw yr egwyddor a blenir yn y galon trwy yr Ysbryd; *Mat. xiii. 23.* Y gair yw yr hâd sydd yn ffrwytho; *Iago i. 21.* Y gair sydd yn cael ei impio yn y galon; *1 Pedr i. 23.* Y gair yw yr hâd sanctaidd sydd yn aros yn y credadyn; *1 Ioan ii. 14, 15; a iii. 9.* Mae yr efengyl yn cael ei nodi yn fynych fel tystiolaeth; tystiolaeth mai yr Iesu yw y Crist, ac ddarfod i Dduw roddi i ni fywyd tragwyddol ynddo ef. Dyben uniongyrchol pob tystiolaeth ydyw peri crediniaeth i wirionedd yr hyn a dystiolaethir. Yn foddion crediniaeth y bwriedir pob tystiolaeth; a hyn yw dyben tystiolaeth yr efengyl gyda phawb sydd yn ei darllen neu yn ei chlywed. Ioan "a ddaeth yn dystiolaeth, fel y tystiolaethai am y Goleuni, fel y credai pawb trwyddo ef;" *Ioan i. 7.* "Yr hwn a'i gwelodd, a dystiolaethodd—fel y credoch chiwi;" *Ioan xix. 35.* Dyma oedd dyben gwyrthiau Crist; cadarnhau y dystiolaeth i argyhoeddi y byd i gredu ei gwirionedd; *Ioan x. 36—38.* Dyben ysgrifenu y gair oedd i fod yn foddion i ennill crediniaeth dynion. "Y pethau hyn a ysgrifenyd fel y credoch chiwi." "Yr holl ysgrhythyr sydd wedi ei rhoddi gan ysbrydoliaeth Duw, ac sydd fuddiol i athrawiaethu, i argyhoeddi." Argyhoeddi yw cynnyrchu crediniaeth i'r gwirionedd yn y meddwl. "Hyn yw gwaith Duw, gredu o honoch." Hyn yw y cwbl y mae Duw yn ei ofyn yn awr oddiwrthym. Credu a'i ffrwythau yw yr oll o grefydd. Os gofynir cariad, fydd a weithia trwy gariad. Os gofynir gobaith, "ffydd yn wir yw sail y pethau yr ydys yn eu gobeithio." Os gofynir ufudd-dod, oddiar fydd y tardd hyny; ac am hyny y gelwir ufudd-dod efengylaidd yn "ufudd-dod ffydd." Ac y mae y ffydd hon yn dyfod trwy air Duw.

Mae ffydd yn dyfod trwy y gair yn y darlleniad o hono. "Bydded

llyfr y gyfraith hon ger dy fron yn wastad, a darllen ynddo holl ddyddiau dy fywyd." Pa effaith sydd i'w ddysgwyl oddiwrth hyny? "Fel y dysgech ofni yr Arglwydd," yr hyn sydd yr un peth a ffydd. "Chwiliwch yr ysgrythrau; canys ynddynt hwy yr ydych chwi yn meddwl cael bywyd tragywyddol;" ac nid oes fywyd tragywyddol heb ffydd. Darllen yn llyfr y prophwyd Esaiah yr oedd yr eunuch, a hyny a fu yn foddion ei ddychweliad. Darllen hen Fibl a fu yn foddion i argyhoeddi Martin Luther. Nid oedd gweinidogaeth gyhoeddus bur i'w chael ar y ddaear y pryd hyny, medd rhai; ond, trwy i Luther ddarllen y Bibl, argyhoeddwyd ef o'i drueni fel pechadur, a dadguddiwyd i'w feddwl addasrwydd yr iachawdwriaeth yn Nghrist; a gwelodd dwyll a llygredigaethau Pabyddiaeth yn yr un goleu; a dyna ddechreuad y Diwygiad Protestanaidd, effeithiau yr hwn sydd yn fyw heddyw trwy Ewrop a thros y byd. Darllenasom hanes am ŵr boneddig oedd yn byw ar gyfandir Ewrop, er ys dau can' mlynedd yn ol, yr hwn oedd yn meddu Bibl ac yn ei gredu. Yr oedd cyfreithiau Pabaidd wedi eu cyhoeddi i wahardd y Bibl, ac i roddi i farwolaeth bawb y ceid Bibl yn ei feddiant, a phawb a'i darllenai. Ond y gŵr boneddig a nodwyd a gadwodd ei Fibl, er ei fod yn gwybod ei fod trwy hyny yn peryglu ei fywyd. Arferai ei ddarllen yn ei deulu bob dydd; a bu hyny yn foddion i'w holl blant gael y ffydd yn Nghrist. Wedi i'r plant dyfu i fyny a myned yn benau-teuluoedd, byddai raid i'r Bibl fyned ar ei daith yn ddiorphwys ac yn rheolaidd trwy eu teuluoedd bob un, i gael ei ddarllen yn mhob teulu bob dydd. Bu hyn yn foddion i'r holl wyrion gael eu dychwelyd i'r ffydd, ac yr oeddynt hwy yn nifer mawr. Wedi i'r wyrion drachefn fyned yn benau-teuluoedd, byddai raid i'r hen Fibl fyned ar ei daith trwy deuluoedd yr ŵyrion yr un modd. Gadawodd y Bibl y ffydd ar ei ol yn nghalonau yr orwyrion; fel, yn mhen dau cant o flyneddau, yr oedd y Protestaniaid wedi dyfod yn ddigon lliosog yn y gymydogoeth hono i droi yr offeiriad Pabaidd o'r plwyf, ac i alw un Protestanaidd yn ei le; canys yr oedd y gyfraith erbyn hyn wedi dyfod i ganiatáu hyny. Mae darllen llyfrau eraill yn planu egwyddorion y llyfrau hyny yn meddyliau dynion; ac y maent trwy ymarfer llawer â hwy yn cyfranogi o'u hysbryd. Edrychwch ar y gŵr ieuanc yn dechreu darllen llyfrau anffyddol. Trwy fynych ddarllen ynddynt, un o fil na bydd ef cyn hir wedi yfed eu hysbryd gwenwynig, pa un sydd yn wir ddinystriol i bob rhinwedd. Yr hwn sydd yn darllen llawer ar y newyddiaduron, gan ymroddi i hyny, buan y daw i'r golwg fod y cyfryw un yn teimlo pwys mawr yn mhob ysgogiad seneddol, ac yn teimlo yn ddwys dros rai opiniwnau gwladol. Mae ei bapyr newydd, trwy ei fynych ddarllen, yn sicr o'i lusgo o ran ei ysbryd i mewn i fasnach y byd, ac i mewn i'r dadleuon seneddol, nes y teimla y pethau hyny yn dra phwysig. Darllenwn ninnau lawer ar y Bibl; fe fydd yn sicr o'n lusgo allan o'r byd yma o ran ein meddwl a'n hysbryd; ysguba ni ymaith i fydd arall, nes y byddo raid i ni deimlo pwys yn y pethau a berthynant i'n heddwch tragywyddol. Trwy ddarllen a myfyrio yn y gair dwyfol y dygir ein meddyliau i agor masnach â byd ysbrydol, â'r byd lle mae pobpeth yn fawr ac yn bwysig. Y cyffyrddiad lleiaf â'r gair sydd wedi rhoddi meddwl llawer pechadur ar ryw gyfeiriad ennillfawr. Mae y meddwl yn elfen gyflym; rhed ymhell mewn amser byr; fe red i'r byd tragywyddol ond iddo gael ei osod ar y cyfeiriad hwn. Mae trydaniaeth yn rhedeg gyda'r cyflymder mwyaf, ond rhaid iddo gael y gadwen i

lywodraethu ei gyfeiriad. Cadwen yw y gair i roddi cyfeiriad i'r meddwl at Dduw—at y farn—at nef ac uffern—at Grist; gofalwn am ddyfod yn fynych i gyffyrddiad âg ef. Cyfarwyddwn ein meddwl at wrthddrychau ardderchog y gwirionedd, y rhai a osodant brydferthwch ac ardderchog-rwydd ar yr hwn a gynnalio gymundeb â hwy. Trwy ffydd i'r gwirionedd, newidir ni i'r unrhyw ddelw, o ogoniant i ogoniant, megys gan Ysbryd yr Arglwydd. Gŵr duwiol a duwinydd mawr oedd yn byw yn Lloegr yn ddiweddar, a ddywedai wrth ei gyfeillion, yn agos i angeu, fod ganddo gynghor o bwys mawr i'w adael iddynt ar ei ol—cynghor oedd wedi ateb yn dda iddo ef ei hun dros ei oes grefyddol—cynghor na fethai lwyddo i ddwyn ei galon i deimlo pethau yr efengyl pan y byddai yn fwyaf di-deimlad. “Pan y byddwn,” medd efe, “yn teimlo fy nghalon yn galed a marwaidd, arferwn yn gyntaf syrthio i weddi ger bron yr Arglwydd am fendith ar ei air; yna, gydag ystyriaeth o fawredd, awdurdod, a phwys mater y Bibl, agorwn ef gyda gwylder, a darllenwn ryw gyfran. Mi a ddarllenwn gyda dysgwyliaid wrth yr Arglwydd; darllenwn gan wrandaw beth a ddywedai yr Arglwydd wrthyf fi fy hun; ac ni welais y moddion distadl hwn yn aflwyddiannus i ddwyn fy nghalon i deimlo yn briodol.” Nid yw cydwbyod yn ymostwng i un awdurdod arall ond awdurdod y Bibl. Galleu adrodd ein bod ein hunain o ran ein meddwl wedi bod, yn ngwyneb profedigaethau chwerveron, yn y fath derfysg a chynhwrf afreolus, fel y môr yn dygyfor, fel nas gallem gael un rhêol arno. Er i ni droi i ddarllen gwaith awdwyr da a duwiol, i sylwi ar gyfran a fwriadesid gan yr ysgrifenywyr i dawelu enaid terfysglyd mewn profedigaeth, ni byddai i hyn ddim awdurdod arnom. Ond pan yr edrychem i'r Bibl, ac y gwrandawem ar ei leferydd ef, llefarai fel un âg awdurdod arnom; ceryddai y gwynt a'r môr nes peri tawelwch mawr; adwaenai y dymhestl ei lais.

Mae ffydd yn dyfod trwy y gair yn yr ymddyddanion am dano. Ymddyddanion ysgrythyrol, trwy ddwyn y meddwl ar y gair, sydd wedi bod yn foddion iachawdwriaeth i filoedd. Mae ymddyddanion ysgrythyrol rhwng y rhieni a'r plant yn foddion o ordeiniad Duw, a hyn a fendithiwyd ganddo er iachawdwriaeth miliynau. “Ni chelwn rhag eu meibion, gan fynegu i'r oes a ddel foliant yr Arglwydd, a'i nerth, a'i ryfeddodau y rhai a wnaeth efe. Canys efe a sierhaodd dystiolaeth yn Jacob, ac a osododd gyfraith yn Israel, y rhai a orchymynodd efe i'n tadau eu dysgu i'w plant; fel y gwybyddai yr oes a ddel, sef y plant a enid; a phan gyfodent, y mynegent hwy i'w plant hwythau.” Pa ddyben sydd i hyn oll? pa fudd neu effaith sydd i'w ddysgwyl? Y fwyaf o'r holl fendithion. “Fel y gosodent eu gobaith ar Dduw, heb anghofio gweithredoedd Duw, eithr cadw ei orchymynion ef; ac na byddent fel eu tadau, yn genedlaeth gyndyn a gwrthryfelgar, yn genedlaeth na osododd ei chalon yn uniawn, ac nad yw ei hysbryd ffyddlawn gyda Duw;” *Salm lxxviii.* 4—8. Dyna y ffydd achubol a'i ffrwythau; a'r moddion o honi ydyw mynegu cyfraith yr Arglwydd gan y rhieni i'r plant. Trwy ymddyddanion crefyddol, dybygid, y derbyniodd Timotheus ffydd. Yr oedd y ffydd ddiffuant wedi trigo yn nghalon ei nain a'i fam; a thebygol ydyw mai trwy ymddyddanion crefyddol rhwng y nain a'r ŵyr, a rhwng y fam a'r mab, y llithrodd y ffydd i lawr i galon Timotheus. Mae ymddyddanion crefyddol “yn dda i adeiladu yn fuddiol, ac yn peri gras i'r gwrandawyr.” Y fam ar yr aelwyd yn adrodd hanes Joseph, a hanes Dafydd yn lladd y cawr, a hanes genedigaeth,

yr hwn yr oedd Ioan Fedyddiwr a Ioan y dysgybl anwyl wedi cydgyfarfod. Yr oedd gweinidogaeth y ddau mewn nerth: yr oeddynt ill dau hefyd yn gewri mewn meddwl a gras. Nid oedd gan Harris ddigon o deimladau tyner y ddynoliaeth i beri i ni ei garu: y teimlad ger ei fron fyddai parchedig ofn. Ond yr oedd Rowlands yn ennill parch ein deall a serch ein calon ar unwaith. Yr oedd y naill yn ymresymydd a'r llall yn fardd. Pregethai y ddau ddychrynfeydd Duw; ond gwnai Rowlands hyn yn fwy toddiadol na Harris. Efe hefyd oedd Mercurius y diwygiad. Yr oedd mawredd Harris yn fwy cysylltedig â'r amseroedd na mawredd Rowlands. Gwnaeth yr amserau hyny lawer dyn bychan yn fawr. Yr oedd enaid pawb wedi ei gynhyrfu: ac nid yw yr hyn a wna enaid pan mewn agwedd felly, mwy na'r hyn a wna y corff pan mewn agwedd gyffelyb, i'w gymeryd fel prawf o'i wir allu. Sylwa Dr. Johnson am Dr. Dodd, nad cymhwys ydyw cymeryd y llythyr a ysgrifennodd at y brenin o'r carchar, pan wedi ei gondemnio i farw, yn brawf o'i allu meddyliol, oblegid fod y dyn y pryd hwnw yn fwy nag ef ei hun: felly yr oedd cynhwrf yr oes hono yn gwneuthur dynion yn fwy na hwynt eu hunain. Y mae tystiolaeth Harris am dano ei hun yn rhoddi lle i ni gasglu mai nid ychydig oedd dylanwad yr amgylchiadau cynhyrfus i'w wneuthur yr hyn ydoedd. Nid oedd ei bregethau ond cynnyrchion moment y traddodiad: dywed eu bod yn cael eu rhoddi iddo heb y rhagfyrriad lleiaf. Diau fod Rowlands yn pregethu yn fynyeh felly: eto ei arfer oedd darparu yn ofalus at y pulpud: a mawr fyddai ei boen os na byddai ganddo fodd i ymddangos ger bron y bobl. Cofiai mai addaw cadw yn y ffyrdd y mae yr Arglwydd, ac felly nis bwriai ei hun i lawr o ben pinael rhyfyg; ond fel y prophwyd gynt, äi at yr Arglwydd i ofyn "Beth a waeddaf?" cyn myned at y bobl i waeddi. Nid ydoedd ei bregethau oblegid hyn yn dyfod yn llai uniongyrchol oddiwrth Dduw; ond tebycach ydoedd eu bod bob amser yn dân sanctaidd, gan eu bod wedi eu cymeryd yn ofalus oddiar allor y cysegr. Gwir yw fod tân Duw yn y dyddiau hyny yn disgyn ar thuserau rhai eraill nad oedd yn gwneuthur hyn; ond y mae yn ofnus fod tân dyeithr yn amlach yn eu thuserau hwynt nag yn thuser Rowlands. Teimlai yntau fel Harris mai o Dduw yr oedd ei ddigonedd; gwyddai mai yno yr oedd cuddiad ei gryfder: os na byddai arwyddion o bresennoldeb yr Arglwydd yn ei ordinhadau, nid bychan fyddai ei drallod. Pregethodd ei fab, unwaith, yn Bristol, pryd yr oedd yntau yn un o'r gwrandawyr: ni chafodd y rhyyddineb arferol: daeth Rowlands i'w lety dan ddywedyd, "Marw! marw!" "Pwy sydd wedi marw?" meddai ei letywraig;" yr ateb oedd, "Y mae pawb yn farw." Nis gallai bregethu ei hun, os na byddai Ysbryd Duw, fel awyr iach yn llanw y lle. Pan oedd offeiriad a bregethai o'i flaen mewn cymanfa, wedi cael oedfa galed, galwodd Rowlands ar bregethwr oedd yn hynod mewn gweddi, i ofyn am yr anadl nefol i buro yr awyrgylech foesol, cyn iddo ef ddechreu; yr hyn a wnaeth yn y geiriau hyn, "Arglwydd Iesu, er mwyn dy waed a'th ing, gwrandaw fi. Y mae dy weision wedi bod yma yn ceisio nithio y prydawn ddoe, a'r boreu heddyw hefyd; ond yn ofer, Arglwydd, nid oes yr un anadliad o'r gwynt nefol wedi chwythu ar y cyfarfod hwn. Gwynt, Arglwydd! Gwynt, Arglwydd grasol!—y mae y gwynt yn awr, fel bob amser, yn dy law di. Amen." Cafodd pawb brawf cyn ymadael o'r lle fod y weddi wedi ei gwrandaw. Ond er fod Harris a Rowlands, fel Paul a Barnabas, yn

gydweithwyr; eto fel hwythau bu raid iddynt ymadael. Yr oedd dadl rhyngddynt er ys peth amser; ac yn 1751, daeth y ddadl i benderfyniad yn Nghymanfa Llanidloes. Safodd Rowlands ar yr adwy, a barnodd yn gywir: ond y mae y nos a ddilynodd yr ymranïad hwn, sef un mlynedd ar ddeg heb ddiwygiad, yn brawf fod pob ochr wedi colli eu lle. Er fod y naill blaidd yn gywirach yn eu barn na'r llall, fe allai nad oedd ond ychydig o wahaniaeth rhyngddynt o ran tymher eu hysbryd. Awgryma Williams yn ei "Farwnad" i Harris, fod rhywbeth a fynai blaenoriaeth y corff â'r ymryson.

"Ffarwel, Harris, darfu heddyw
A chwennychu bod yn ben."

Ond paham y soniwn ni am eu beiau? y maent eill dau heddyw yn ddi-feius ger bron Mab y Dyn.

Nid oedd Rowlands yn fwy fel pregethwr nag ydoedd fel Trefniedyŷdd. Nid ydyw Methodistaeth eto yn ddim ond y pren bychan a blunwyd gan Rowlands wedi tyfu i'w nerth. Bu llawer cyfnewidiad er ei ddydd ef; ond nid oeddynt ond y cyfnewidiadau sydd yn cymeryd lle mewn plentyn wrth dyfu yn ddynt; a'n barn ostyngedig ydyw nad oes arnom eisieu cyfnewidiadau mor fawr fel ag i dori y cysylltiad rhwng Methodistiaeth yr oes hon a Methodistiaeth yr oes ddiweddaf. Y mae pob peth a ystyriwn yn wallau yn gyfryw a ellir eu symud heb ddinystrïo y cyfansoddiad gwreiddiol. Wedi i'r dysgyblion amlhau, sefydlodd ef a Harris, y mae yn debyg yn ddiarwybod i'w gilydd, y cymdeithasau neillduol, yn y flwyddyn 1736 neu 1737; y "Seiat brofiad," fel ei gelwid: a gobeithio yr ydym na wawria y dydd ar Gymru, na bydd gan ei chrefyddwyr hi brofiad i'w adrodd, a "seiat" i wneuthur hyny. Yn 1740, sefydlodd Harris a Rowlands y gymdeithasfa. Cynnaliwyd y gyntaf yn sir Forganwg, yn yr hon yr oedd Whitfield yn gymedrolwr; a phenderfynwyd yno mai efe, os byddai yn bresennol, a fyddai yn gymedrolwr ynddynt oll, a Rowlands yn ei absenoldeb, a Harris oedd i fod yn ysgrifenydd. Nid oes gwybodaeth fod Whitfield ond yn y gyntaf. Bu Rowlands yn gymedrolwr am hanner can mlynedd; a phrawf diymwad o fawredd ei synwyr a'i ras ydoedd, iddo eistedd yn benaf mor hir ymhlith ei frodyr, heb i neb chwennychu ei le. Nid gwas wedi myned i deyrnasu ydoedd, onidê buasai y ddaear yn cael ei chynhyrfu lawer gwaith yn ystod yr amser maith yna. Medrai y gelfyddyd hapus o beri i bawb deimlo y deyrnwialen heb ei gweled. Diau mai nid iawn ydyw i'r un gwr fod bob amser yn ben mewn eglwys henaduriaethol, lle y proffesir cydraddoldeb rhwng y gweinidogion; ac os ceisir gosod hyn yn rheol mewn eglwys felly, bydd yn sicr o achosi gwrthryfel. Mewn eglwys esgobawl y mae yn wahanol: yno proffesir gwahaniaeth swyddol; felly ni theimlir gwrthdaraŷiad pan ymddygir yn gyson â'r broffes: ond os proffesir cydraddoldeb, ac ymddwyn yn wahanol i hyn, bydd gwrthryfel yn sicr o ddilyn. Eisteddodd Calfin yn gymedrolwr Henaduriaeth Geneva tra y bu byw; ond cynghorai ei gydweinidogion ar ei wely angyu i beidio gadael i neb ddilyn ei esiampl; eto yr oedd eu gwaith hwy yn ei oddef, ac yn ei ethol hefyd, i wneuthur peth oedd yn anghyson â'r cyfansoddiad, yn brawf o fawredd y dyn. Felly yr ydoedd am Rowlands, er, fe allai, nad oedd ef ddim wedi ffurfio yr un cynllun yn ei feddwl am drefn eglwysig, ac nad ystyriaf y cynghorwyr yn gydradd âg ef ei hun; ond yr oedd dros ugain o offeiriaid yn fynych yn y gym-

deithasfa y rhai oeddynt gydradd âg ef o ran swydd: gan hyny, y mae iddo gael blaenoriaeth mor hir yn brawf ei fod yn mhob ystyr yn deilwng o honi. Yn 1747, sefydlodd y cyfarfod misol, yr hwn oedd i ateb yr un dyben i'r sir ag yr ydoedd y gymdeithasfa i'r holl siroedd. Fel hyn, yn ddiarwybod iddo ei hun, sefydlodd yr esgobaethwr hwn eglwys henaduriaethol.

Wedi i Rowlands lafurio yn y modd hwn am wyth mlynedd ar hugain fel gweinidog o Eglwys Loegr, trôwyd ef allan o honi, oblegid ei fod yn euog o'r pechod dirfawr hwnw o geisio achub eneidiau y tuallan i'w muriau hi. Pan ddarllenwn waith Eglwyswyr yn dywedyd, mai yr unig fai a ellir ei roddi yn erbyn Griffith Jones, Llanddowror, ydoedd ei waith yn pregethu y tuallan i'w eglwys ei hun yn yr awyr agored;—pan y darllenwn i Williams, Pant y celyn, Rowlands, Peter Williams, a Charles, o'r Bala, gael eu bwrw allan o'r Eglwys am bethau cyffelyb—y mae yn gofyn pob gronyn o gariad sydd genym i'n hattal i ofyn, Eglwys i bwy ydyw hon? ai eglwys i'r Hwn a bregethai lle bynag y cyfarfyddai â dynion, ar y môr neu ar y mynydd? Olynwyr pwy ydyw ei gweinidogion hi? Ai olynwyr Paul, a Phedr, a Philip, y rhai a bregethent yr Iesu mewn diffeithwch i eunuch, yn nghanol delwau i'r Atheniaid, ac yn nhŷ anghysegredig Cornelius yr milwyr? Ai mwy gwerthfawr muriau unrhyw adeilad nag eneidiau anfarwol? Esgeuluser yr eneidiau, nid oes neb a feia am hyn; ond os pregethir yr Iesu mewn lle anghysegredig, fe bechir pechod nad oes aberth drosto. Fel y dywedodd un o'r tadau Methodistaidd wrth un oedd wedi bod yn euog o bechu yn erbyn yr awdurdodau hyn, "Pe buasit yn pechu yn erbyn yr Arglwydd, fe faddeuasid i ti; ond gan mai yn erbyn y p—d, ni faddeuir i ti nac yn y byd hwn na'r hwn a ddaw." A lled ddigrifol, wedi ei droi allan, ydyw clywed Eglwyswyr y dyddiau hyn yn ei arddelwi, gan roddi yn esgus dros waith yr esgob yn ei dori allan gyfadd-efiad ei olynwr ei fod wedi camgymeryd. Ond y cwestiwn ydyw, a ymddygodd y neb a'i torodd allan yn groes i reolau ei Eglwys? Dywedwn yn ddiogfn, naddo, ond iddo gadw llythyren y gyfraith. A'r pwnc i'r dosbarth hwn ei ystyried ydyw, A ydyw Eglwys sydd â'i chyfreithiau mor groes i gyfraith Crist yn un y dylent hwy aros ynddi?

Y maent yn ofalus iawn i ddwyn ymlaen dystiolaeth Rowlands wrth ei fab o blaid yr Eglwys, sef ei annog i beidio ei gadael, oblegid fod diwygiad mawr i gymeryd lle ynddi. I beidio sôn fod y ddau beth yn anghyson, paham yr ânt i'r boen o geisio rhoddi esgus cloff dros yr esgob pan y mae cyfaddefiad Rowlands yn cyfiawnhau yr esgob. Ond nid yw y dystiolaeth hon yn profi dim ond profi mor araf y mae goleuni yn dyfod i mewn i'r meddwl dynol, ac nad ydyw geiriau mwy nag ymddygiadau diwygwyr i'w cymeryd yn dystiolaeth ar ddim heb ystyried yn gyntaf beth oedd gwaith eu hoed. Y maent oll yn dechreu drwy alw pechaduriaid at Dduw—cael defnyddiau eglwys heb feddwl dim am ffurf eglwysig. Nid oedd un meddwl yn mynws Luther yn y dechreu am ymadael âg Eglwys Rhufain; yn hytrach ei diwygio hi ydoedd ei amcan, heb feddwl fod y gwallau mawr oedd ynddi yn rhanau hanfodol o honi, ac nid yn bethau damweiniol. Ond ar ol ei fwrw allan, gwelodd yn raddol mai hi ei hun ydoedd y gwallau hyny, a bod yn anmhosibl symud y naill heb symud y llall. Bu agos i Melancthon werthu y diwygiad er mwyn cadw undeb âg Eglwys Rhufain. Nid ydym yn gwybod i'r un o'r Eglwyswyr a sefydlasant Fethodistaeth ddyfod o'r Eglwys oddiar argyhoeddiad meddwl fod

cysylltiad y cyfryw â'r wlad yn anysgrhythrol; ond daethant allan am na chaniatâid iddynt fod mewn cysylltiad â hi, ac hefyd ddefnyddio pob adeg a gaent i rybuddio pechaduriaid i ffoi rhag y llid a fydd: pe goddefasid iddynt wneuthur hyny ni buasent yn meddwl am ymadael, mwy nag y buasai Luther yn meddwl am ymadael âg Eglwys Rhufain pe goddefasid iddo yntau bregethu mai trwy ffydd y cyfiawnhêir dyn gyda Duw. Ond yr oedd ymadaewiad âg Eglwys Rhufain yn nhuedd yr athrawiaeth yna, er nad oedd Luther yn canfod hyny yn y dechreu; felly ni ddarfu i'r pab wrth ei esgymuno ef a'i ganlynwyr ond prysuro peth a fuasai yn cymeryd lle o hono ei hun mewn amser. A phe buasai yr esgob heb dori Rowlands allan, fe allai y gallasai efe farw yn ei mynwes hi; ond yr oedd ymadaewiad â hi yn natur yr ysgogiad a gychwynwyd gan Rowlands. Yr oedd yn rhaid i Fethodistiaeth ymadael â hi yn hwyr neu yn hwyrach: a da oedd iddynt wneuthur y pryd y gwnaethant. Ac os na welodd ef fod y gwallau sydd yn Eglwys Loegr yn hanfodol i'w chyfansoddiad hi, fel y gwelodd Luther am wallau Eglwys Rhufain, yr achos o hyn oedd, nad ydyw y gwallau hyn mor fawrion, ac felly mor amlwg, yn y naill ag ydynt yn y llall. Yr oedd anghydfurfwyr yn nyddiau y Puritaniaid, fel y mae yn awr; ond yr oedd y rheswm a roddent hwy dros eu hanghydfurfiaeth yn dra gwahanol i'r hwn a roddir dros anghydfurfiaeth y dyddiau hyn. Nid cysylltiad yr Eglwys â'r wladwriaeth a barai i'r Puritaniaid ei gadael, ond y pethau a ystyrient hwy yn Babaidd a berthynent i ddefodau ei gwasanaeth hi. Y mae anghydfurfwyr y dyddiau hyn yn ymneillduo oblegid anysgrhythroldeb cysylltiad eglwys â gwlad. Eto y maent yn blant yn mhob ystyr i'r anghydfurfwyr cyntaf; a phe buasai y rhai cyntaf yn fyw buasent hwythau yn anghydfurfwyr heddyw am yr un rheswm a'u plant. Os oeddynt yn casâu y ffrwd am ei bod yn chwewr, buasent ond cael amser i'w holrhain i'w ffynnon, yn casâu hõno hefyd oblegid yr un peth. Os gadawodd Rowlands yr Eglwys er ys can' mlynedd yn ol, am nad allasai gael pregethu Crist a pherthyn iddi, buasai yr un Rowlands yn ei gadael yn y dyddiau hyn oddiar weled mai ei chysylltiad hi â'r llywodraeth oedd y ffynnon oedd yn chwewri ei holl ffrydiau. Ymddygodd Rowlands, fel y Puritaniaid, i fyny at oleuni ei oes. Nid oedd goleuni wedi ei roddi y pryd hwnw ond ar y drwg oedd yn yr Eglwys; y mae goleuni yn awr wedi ei roddi ar yr achos o hono, a diau y buasai yr un egwyddor ag a'i cymhellodd ef i ymddwyn i fyny at oleuni gwanaidd yr oes hono yn ei gymhell i ymddwyn i fyny at oleuni cryfach yr oes hon. Am hyny, cymered Eglwyswyr eiriau Rowlands, os mynant, yn ddadl i brofi y dylai y Methodistiaid ddychwelyd i'r Eglwys. Cânt hwythau gymeryd gweithredoedd Rowlands yn ddadl dros eu hymneillduaeth.

Rhag i neb feddwl ein bod, wrth ddywedyd y pethau hyn, yn angharedig ac yn anniolchgar i Eglwys Loegr, nid ydym yn anghofio mai i'w gweinidogion a'i haelodau hi yr ydym yn ddyledus am y Bibl i'n hiaith. Yr oedd Salisbury, Morgan, a Parry, yn perthyn iddi hi. Nid ydym yn anghofio mai un o'i hofferiaid hi a ysgrifennodd "Lyfr y Ficer," yr hwn oedd Ioan Fedyddiwr y dyddiau gynt. Gwyddom mai un o'i gweinidogion hi oedd Griffith Jones, yr hwn a fraenarodd Gymru i dderbyn yr had da. Gwyddom mai un o'i haelodau hi a fu yn offeryn i argyhoeddi peraid ganiedydd Cymru. Gwyddom mai oddiar fwa un o'i hofferiaid hi yr aeth y saeth i galon Rowlands. Addefwn yr holl bethau hyn fel yr addefwn mai i fynachod Eglwys Rhufain yr

ydym yn ddyledus am gadw gwybodaeth, ac yn enwedig am gadw y Bibl yn y byd trwy yr oesoedd tywyll. Ond nid yw hyn yn ddigon o reswm dros i ni gymeradwyo yr eglwys hono : felly nid yw yr holl gymwynasau hyn a wnawd i Gymru gan weinidogion Eglwys Loegr ddim yn ddigon o reswm dros i ni gymeradwyo ei phob peth hi ; ac yn wir, y mae y pethau yn fynych yn hytrach yn myned yn erbyn yr Eglwys, oblegid ei harfer hi yn yr oes hono oedd troi o'i chymundeb y rhai a wnaethant y pethau ar gyfrif pa rai y mae hi yn y dyddiau hyn yn gofyn ein parch a'n cariad.

Treuliodd Rowlands saith mlynedd ar hugain yn llafurus yn ngwinllan ei Arglwydd ar ol ei ymadawiad â'r Eglwys. Ar ol un mlynedd ar ddeg o guddiad wyneb yr Arglwydd, y flwyddyn cyn ei ymadawiad bu un o'r diwygiadau mwyaf nerthol a welodd Cymru erioed. Yr oedd yr Arglwydd yn parotōi ei was drwy hyn erbyn dydd ei brawf. Wedi gwasanaethu ei genedlaeth yn ffyddlawn yn ol ewyllys Duw, bu farw yr 16eg o fis Medi, yn y flwyddyn 1790. Ond bu farw yn ei waith ar ddydd Sadwrn, cyn Sabboth pen mis, pan oedd y miloedd wedi ymgynnull gan ddysgwyl iddo bregethu iddynt yn ol ei arfer ; ond, ar awr y bregeth, gadawodd y gwaith i fyned at ei wob ; ac felly, yn lle traddodi pregeth newydd, fe seliodd holl bregethau ei oes â'i angeu. Tystiai wrth farw mai y Crist a bregethodd yn ei fywyd oedd ei obaith yn angeu. "Yr wyf yn marw," meddai, "yn bechadur tlawd, gan ymorphwys yn llwyr a hollol ar Achubwr croes-hoeliedig am fy nghymeradwyaeth gyda Duw." Yr ydoedd wedi gweled saith o ddiwygiadau grymus yn ei oes, y rhai a gymerent le bob saith mlynedd (oddieithr yr un a enwyd eisoes), ac felly yn y flwyddyn deg a deugain—blwyddyn y Jubili—derbyniwyd ef i'r wlad nad rhaid iddi wrth ddiwygiad, am fod yno bawb yn berffaith.

Y mae yr hen batriarch yn ei fedd, ond nid cyfiawnder âg ef a fyddai i ni derfynu heb ddywedyd un gair am ymgais sydd mor anfoneddigaidd ag ydyw yn anghristionogol, a wnawd, gan ryw un dienw, yn y "*Quarterly Review*," mis Medi diweddf, i dynu yr hen sant oddiar y pinacl y mae Cymru yn anfrydol wedi ei osod arno. Yr oedd y Methodistiaid wedi cronicleo llawer am Rowlands, ond ymddengys fod y ffaith, a hŏno yn un o'r pwys mwyaf—yn un a effeithia ar bob un arall—heb ei darganfod hyd y flwyddyn ddiweddf. A hon ydyw, fod Rowlands yn anhapus yn ei berthynas briodasol, ac oblegid hyny ei fod yn yfed, yr hyn a eilw ei gyhuddwr yn *deep consolation*, cysur cryf, o ryw bydew gwaharddedig ; ac i ddyfroedd hwn, medd efe, yr oedd nerth ac awdurdod ei bregethau i'w briodoli. A pha beth dybygech chwi oedd hwnw ? Dim yn amgen na phydew ffaith Bachus. Mewn geiriau eglur, yr oedd Rowlands yn feddwyn. Yn mhydew Bachus yr oedd yn cael dyddanwoch cryf i'w ysbryd yn wyneb profedigaethau teuluol—yn yr un fan yr oedd yn cael y nerth hwnw i siarad fel dyn ac awdurdod ganddo hyd nes yr oedd y cynulleidfaoedd yn delwi ger ei fron. Ni ddywedwn mai llefaru oddiar brofiad personol y mae y cyhuddwr hwn, ac mai yn nyfroedd Bachus y mae ef ei hun yn boddi y cof am yr anghydfod a all fod yn dygwydd weithiau ar ei aelwyd ;—ni ddywedwn, pan y bydd ef yn dylanwadu ar ei gynulleidfa (oblegid nid ydyw heb dalent), mai wedi ei ysbrydoli gan Bachus y bydd y pryd hyny. Ond os hyn sydd yn rhoddi nerth mewn pregethu, onid dyeithr ydyw na byddai diwygiadau yn cymeryd lle yn amlach o fewn i furiau Eglwys Loegr ? Ond a ydym ni i greu hyn am Rowlands ?—dyn

yr oedd Arglwyddes Huntingdon yn ei ystyried yn gymaint o gristion ag ydoedd o bregethwr—dyn yr oedd John Evans o'r Bala, na fedrai dderbyn wyneb neb, yn methu cael iaith i ddangos ei gymeradwyaeth o hono—dyn yr oedd Williams o Bant-y-celyn, yr hwn oedd ar y blaen fel cristion profiadol ei oes, yn ei ystyried yn ffrainc cael eistedd wrth ei draed—dyn yr oedd Charles o'r Bala, nad oedd gan neb frycheuyn ar ei gymeriad, yn ei alw yn dad yn yr Arglwydd, ac yn gweled ei wyneb fel pe gwelsai wyneb Duw,—a ydyw yn debyg y buasai y dynion mawr a'r dynion da hyn yn rhoddi y parch hwn i feddwyn? Ac oni wyddai y cyhuddwr fod y Methodistiaid wedi tori eu cysylltiad â Nathaniel Rowlands oblegid ei feddwdod? Ai tebyg ydyw y buasai y dynion a ddiarddelodd y mab am y bai yn goddef y tad ynddo, ac nid yn unig yn ei oddef, ond yn ei gadw yn nghysegr sancteiddiolaf eu meddwl? Ac oni ddarllenodd ef yn hanes Rowlands am yr offeiriad hwnw a siaradai lawer am grefydd, gan fyw yn anghyson â hi—pan yn sôn wrth Rowlands am ryw gymydogoeth dywell i'r hon yr oedd yn eglur fod arno ef eisieu cael ei anfon i bregethu, dywedodd Rowlands yn ei ddull llym wrtho, "Syr, yr wyf yn cofio amser pan oedd ein derbyniad a'n croesaw yn lled wael. Teithiem ar ein merlod dros y mynyddoedd i bregethu yr efengyl, heb ddim i'w fwyta ond bara a chaws o'n llogellau, na dim i'w yfed ond dwfr o'r ffynnon. Os caem ychydig laeth enwyn mewn rhyw fwthyn, ystyried hyny yn beth mawr. Ond, yn awr, syr, y mae ganddynt eu *tea* a'u *brandy*; ac yr ydwyf wedi camgymeryd yn fawr os nad ydych chiwedi wedi cael gormod o'r *brandy*. Ymaith, Satan, ymaith oddiwrthyf!" gan arwyddo yr un peth â'i law ag a ddywedai â'i dafod. Os oedd Rowlands yn euog o'r un bai ei hun, rhaid ei fod yn rhagrithiwr wedi ei berffeithio, gan y medrai geryddu fel hyn. Yn nghymydogoeth Llangeitho yr oedd yr offeiriad hwnw yn byw. Os oedd Rowlands yn euog o'r bai, rhaid ei fod yn wybyddus yno. Ai tebyg ydyw y buasai yr euog yn derbyn y cerydd, a'r ceryddwr ei hun yn euog o'r un peth? Ond i selio yr oll, nid rhaid i Rowlands, mwy na'r apostol Paul, wrth dystiolaeth neb dynion. Ei lythyr canmoliaeth ydyw y Cymry. Beth bynag sydd wedi peri i'w gyhuddwr anghredu mai apostol (fel y dywed) ydoedd, y mae yn Nghymru fyrddiynau o brofion fod arwyddion apostol wedi eu gweithredu ganddo. Yr oedd rhagfarn ddall yr Eglwys Iuddewig yn ei hattal i weled Messiaeth Iesu Grist, a gall yr un peth attal rhai yn y dyddiau hyn i ganfod arwyddion apostol mewn un nad ydoedd yn ol i'r apostolion penaf. Ymresymiad y dyn a anesid yn ddall â'r Iuddewon, dros Fessiaeth Iesu Grist ydoedd, nad ydyw Duw yn gwrandaw pechaduriaid. Y mae yr un nerth ynddo mewn perthynas i Rowlands. Y mae Duw Dad wedi ei selio drwy wneuthur gweithredoedd mor nerthol drwyddo: ac nid ydyw Duw yn gwrandaw pechaduriaid. Nid all Rowlands ddim bod yn gristion cyffredin, nac ychwaith yn bechadur bychan. Y mae naill ai yn gristion mawr ai yn bechadur mawr: os pechadur, y mae yn rhaid priodoli y pethau rhyfedd a gyflawnwyd drwyddo fel y priodolai yr Iuddewon wyrthiau Mab Duw i'r diafol; ond os ydyw y cyhuddwr yn meddwl gwneuthur hyn, byddai yn dda iddo gofio mai y pechod yn erbyn yr Ysbryd Glan ydyw priodoli gwaith Ysbryd Duw i'r ysbryd drwg, rhag iddo, wrth wneuthur hyny, ei gyflawni. Os ydyw yn priodoli y gweithredoedd nerthol i Ysbryd Duw, yna rhaid fod Rowlands yn gristion mawr, oblegid nad yw Duw yn gwrandaw pechaduriaid.

Y mae amseroedd Rowlands wedi myned heibio, ac oes arall wedi codi; ond nid ydym yn credu y llwyr ddarostyngir Cymru heb i nerthoedd y byd a ddaw ddisgyn eto yn gyffelyb fel y gwnaethant yn y dyddiau gynt. Ond ni oddef ein terfynau i ni ymbelaethu dim ar hyn. Ni a drôwn ymaith dan ddywedyd wrth ŵr Duw, y caiff lonydd i gysgu yn dawel yn ei fedd, ac y gofalwn na chaiff neb, hyd y gallwn ni, ei amharchu. Bendigedig yw dy weddillion, apostol Cymru! Ni a fendithiwn Dduw am yr hyn a wnaeth trwyddot; ni a ddilynwn ol dy draed, ac a erfyniwn am i ddeuparth o'th ysbryd ddisgyn ar weinidogion Cymru. Hiraethwn am weled un o'th ddyddiau pryd yr oedd yr Ysbryd Gŵan yn syrthio ar bawb oedd yn clywed y gair. Y mae yr had a heuaist ti yn Nghymru yn parhau i dyfu: ac er fod y gweision a elwaist ti i'r winllan wedi myned adref, y mae plant y gweision hyny yn parhau eto; a hyderu yr ydym y pery eu plant hwythau i fod yn had a fendithiodd yr Arglwydd ddyddiau y ddaear.

DYSGEIDIAETH, FEL CYMHWYSDER I'R WEINIDOGAETH.

MAE yn debyg mai nid llawer a geir yn Nghymru y dyddiau hyn yn ddigon hyf i sefyll yn gyhoeddus o blaid yr hen ddywediad Pabaidd, mai "maximaeth duwioldeb yw anwybodaeth." Ond er ei bod wedi myned yn ormod o'r dydd i'r hen goel-grefydd yma ddyfod allan yn amlwg, y mae lle i feddwl ei bod eto yn llechu yn ddirgelaidd mewn lliaws o hen gilfachau tywyll. Os yw gwybodaeth i raddau wedi gorchfygu y wlad, nid yw y trigolion wedi ymgymmodi yn llwyr â'r gorchfygwyr. Arferir llawer iawn o wrthwynebiad goddefol (*passive resistance*), ac nid oes dim prinder ar awgrymiadau anfoddog. Cewch glywed rhai yn lled-hôni mewn conglaau nad oes dim yn iawn er pan ddaeth yr ysgolion yma i'r wlad. Y mae pob peth yn myned o chwith. Nid yw yr haul yn goleuo, na'r ddaear yn rhoddi ei ffrwyth, fel o'r blaen. Ac y mae y bai i gyd ar yr ysgolion. Ond yn benaf mewn cysylltiad â gweinidogaeth yr efengyl y mae y rhagfarn yma yn gweithredu. Prin y caniatëir gan rai eto y dylai gweinidog yr efengyl fod yn fwy dysgedig na dyn arall; ac y mae llawer sydd yn addef hyn mewn geiriau yn mhell oddiwrth deimlo a gweithredu yn gyfatebol i'w bwysfawrogrwydd.

Y mae hen reswm "pysgodwyr mor Galilea" heb ddarfod o'r byd eto. Os pregethwyr annysgedig a ddewisodd Crist ar y cyntaf, pa anghen am ddisgeidiaeth yn yr oes hon? Mae y bobl sydd yn ymresymu fel hyn yn gofalu am adael dysgybl Gamaliel allan o restr yr apostolion. Os yw yr apostolion yn rheol i ni, yr un mor gywir fyddai dadleu y dylai pob pregethwr fod mor ddisgedig a'r apostol Paul. Ond yr ydym yn eithaf boddllawn i gyfarfod â hwynt ar eu tir eu hunain. Gadewch Paul allan, os mynwech chwi; a chyfyngwech y ddadl at y lleill yn unig. Nid awn ychwaith i ymdroi oddiamgylch y doniau gwyrthiol: eithr cymerwn yn

ganiataol y dylai pregethwyr yr oes hon fod yn debyg i apostolion cyntaf Crist yn eu sefyllfa gyffredin yn unig, heb un olwg ar eu cymhwysderau goruwchnaturiol. Yn awr, gadewch i ni edrych pa fodd yr ydym yn sefyll. Nid ydym yn gwadu nad oeddynt, mewn cymhariaeth i'r Rabiniaid Iuddewig, yr "wŷr anlythyrenog ac annysgedig." Er hyny, mae yn eglur fod yr apostolion, amryw o honynt o leiaf, os nad pawb, yn deall *tair o ieithoedd*. Iaith gyffredin yr Iuddewon yn y dyddiau hyny oedd yr Aramaeg, yr hon oedd, nid yn gangen, ond yn iaith wahanol oddiwrth yr Hebraeg, er fod perthynas lled agos rhyngddynt. Dyma y iaith a elwir y Syriaeg yn 2 *Bren.* xviii. 26. Ac yr ydym yn cael oddiwrth yr hanes yn y lle hwnw, fod cymaint o wahaniaeth rhwng y ddwy, fel yr oedd y bobl gyffredin, er eu bod yn gwybod y naill, yn analluog i ddeall y llall. Ond wedi y caethiwed, y Syriaeg, neu yr Aramaeg, oedd tafodiaith arferedig y genedl. Heblaw yr iaith hon, mae yn ddiau fod y rhan fwyaf o'r apostolion yn gyfarwydd âg ysgrifeniadau Moses a'r prophwydi yn yr Hebraeg. Fel prawf, galleu grybwyll nad ydynt bob amser yn dilyn cyfieithiad y Deg a thriugain yn y dyfyniadau a roddir ganddynt allan o'r Hen Destament. Prawf arall yw y darlenniadau cyhoeddus a chyson yn y synagogau, yr hon arferiad sydd yn para yn mysg yr Iuddewon o'r amser hwnw hyd heddyw. Ac yn ychwanegol at hyn oll, yr oeddynt yn alluog i ysgrifenu yn ramadegol a deallus yn iaith y Groegiaid. Dyma y cynllun y mae gwrthwynebwyr dysgeidiaeth yn dadlu drosto. Byddai yn dda genym wybod pa fodd y maent erbyn hyn yn ei hoffi. Yn ol eu rheol hwy eu hunain, ni ddylai neb gael dechreu pregethu heb fod yn gyfarwydd mewn tair o ieithoedd. Yr oedd y Groeg i'r Iuddewon, yn yr oes hono, yr un peth ag yw Saesneg i'r Cymry yn y dyddiau hyn. Felly yn ol y rhai sydd yn dadleu dros y cynllun hwn, er i ni adael Paul allan o'r rhestr, ac er i ni beidio son dim am y fantais oedd ganddynt trwy eu bod yn meddiannu doniau gwyrthiol, ni ddylai un Cymro gael ei dderbyn fel pregethwr heb ei fod yn medru ysgrifenu yn gywir, ac ymddyddan yn rhwydd, yn yr iaith Saesneg. Ac nid hyn yn unig, ond heblaw Cymraeg a Saesneg, mae yn rhaid iddo feddu gwybodaeth fanwl o ryw iaith arall. Pa un yw hono i fod, gadawn iddynt hwy benderfynu. Os bydd neb yn teimlo ein bod yn cymeryd golwg rhy arwynebol ar y pwne, dylent gofio mai nid ein rheswm ni ydyw hwn, ond eiddo y rhai sydd yn gwrthwynebu dysgeidiaeth. Rhaid cyfarfod â phawb ar ryw dir cyffredin cyn y gellir dechreu ymresymu. Ond ofer yw son wrth y rhai hyn am les dysg, fel y mae yn eangu y meddwl ac yn coethi yr archwaeth; ofer yw agor o'u blaen y mwngloddiau o gyfoeth, a'r bydoedd o brydferthwch, sydd yn ysgrifeniadau y Groegiaid a'r Rhufeiniaid yn yr hen oesoedd, a llawer o'r Saeson mewn oesoedd diweddarach. Fel atebiad anffaeledig i'r cwbl, dywedant yn ebrwydd nad oedd yr apostolion yn ddynion dysgedig. Purion; dyma ni o'r diwedd wedi cyfarfod â hwynt ar y tir a ddewiswyd ganddynt hwy eu hunain: a thybied yr ydym yr addefant o hyn allan nad oes ganddynt fymryn o hawl mewn troedfedd o hono, ac mai eu doethineb yw rhoddi i fyny bob esgus o feddiant sydd ganddynt ynddo, heb ychwaneg o wrthwynebiad.

Y mae gwrthwynebwyr dysgeidiaeth drachefn yn dadleu fod yr Arglwydd wedi llwyddo llawer o ddynion annysgedig yn Nghymru. Barnant fod y rheswm hwn yn anffaeledig. Galleu ddwyn ar gof iddynt mai dynion

dysgedig oedd Dr. Morgan, ac Edmund Prys, a Ficer Prichard, a Griffith Jones o Landdowror; ac mai dynion dysgedig oedd Harris, a Rowlands, a Williams o Bant-y-celyn, a Dr. Lewis, a Charles o'r Bala. Ond byddai hyn i gyd yn ddieffiaith; oblegid y mae rhai pobl na fedrant, neu na fynant, edrych ond yn uochrog. Pe dywedech wrthynt am lu o enwogion, y rhai y bendithiodd Duw eu dysgeidiaeth i fod yn lles annhraethol i Gymru, y mae ganddynt un ateb wrth law i gyfarfod â'r cwbl: "Dynion annysgedig oedd Christmas Evans a John Elias." Yn awr, os rhaid iddynt sylwi yn unig ar un ochr, yr ydym yn barod i ymresymu â hwynt ar y tir hwn eto; a beiddiwn ddywedyd yn hyf mai *nid* dyn annysgedig oedd Christmas Evans, ac mai *nid* dyn annysgedig oedd John Elias. Dichon na fu y gwŷr hyn am yspaid maith mewn ysgolion: ond yr oedd-ynt er hyny trwy lafur dibaid wedi cyrhaedd graddau helaeth o ddysg. Buasai yn fantais fawr iddynt yn ddiau pe cawsent dreulio y rhan foreuaf o'u hoes mewn ysgolion. Buasai eu gwybodaeth fel hyny yn fwy manwl a chywir, a buasant yn ei chyrhaedd yn llawer haws a chyflymach. Mewn effiaith, buasant yn byw rai blyneddau yn hwy, oblegid buasant yn dysgu yn fuan ac yn rhwydd yr hyn a gostiodd iddynt fwy na chymaint arall o amser a llafur. Addoŷr yn rhwydd gan gyfeillion, yn gystal a gelynyon dysgoidineth, nad oes un swyn mewn ysgolion i roddi addysg i ddyn ieuanc yn annibynol ar ei ymdrech ef ei hun. Yr oll a broffesant ei wneuthur yw *cynnorthwoyo*. Dyn dilafur nis gall ddyysgu mewn ysgol; a dyn llafurus sydd sicr o ddyysgu mewn amser pe b'ai heb un ysgol. Ond y mae yr olaf yn rhwym o foelchio ei hun â llawer o lafur a fuasai yn afreidiol pe cawsai well manteision. Y mae weithiau yn ymboeni am ddiwrnodau uwchben anhawsder y buasai athraw yn ei esbonio mewn ychydig fynyddau. Bryd arall y mae yn llawenhau yn y dyb ei fod wedi cael allan ryw ddarganfyddiad newydd, am ei fod yn newydd iddo ef, er ei fod yn hysbys i eraill er ys cannoedd o flyneddau. Bryd arall y mae yn tafu y cwbl heibio mewn digalondid, ac yn treulio misoedd o'i amser gwerthfawrocaf yn llwfr a difywyd. Trwy lafur fel hyn yr aeth Christmas Evans a John Elias yn ddynion dysgedig. Mor bell oddiwrth feddwl fod dysgeidiaeth yn afreidiol fel cymhwysder i weinidogaeth yr efengyl, yr oeddynt hwy yn gweled cymaint o werth ynddi fel y llafuriasant am dani trwy anfanteision mwy na chyffredin. Gellid dywedyd yr un peth am weinidog poblogaidd arall sydd yn awr yn fyw, enw yr hwn a ddefnyddir yn fynych, ond yn groes iawn i'w duedd ef ei hun, fel esgusawd dros anwybodaeth. Ni fu erioed fwy camsyniad. Yr ydym yn addef nad yw ei wybodaeth ieithyddol yn dra helaeth; o leiaf, dyna yw ei dystiolaeth ef ei hun: ond nid yw hyn namyn un gangen o ddyysgeidiaeth. Mewn gangenau eraill, gwyddom ei fod er ei holl anfanteision yn ysgolaig trwyadl. Ac er, fe allai, nad yw yn deall ond y nesaf i ddim o'r iaith Saesneg, y mae, trwy holi rhai eraill, a hyny ar bob adeg gyfleus, wedi dyfod yn fwy cyfarwydd nag y meddylid yn *nglymnycs* y llyfrau goreu a fedd y Saeson. Mewn gair, nid hawdd fyddai cael neb addasach i brofi dynion ieuaine mewn amryw gangenau o wybodaeth gyffredinol, ynghyd â "*Butler's Analogy*," neu Jonathan Edwards "ar yr Ewyllys." Rhaid iddo faddeu i ni am ddywedyd cymaint a hyn, gan ei fod ef yn anfwriadol wedi achlysuru llawer iawn o ddrwg yn Nghymru, trwy fod ei enw yn cael ei ddefnyddio gan bobl segur a diffrywth i gyfiawnhau anwybodaeth. Nis gwyddom a

oes rhyw anghreiffiau eraill ai peidio. Ond os oes, ni phetruswn ddyweyd, un ai fod yr anghreiffiau, fel y rhai uchod, yn anghywir, neu ynte nad yw y dynion hyny yn haeddiannol o le uchel yn mysg cymwynaswyr y Cymry.

Ond er ein bod yn credu na chyrrhaeddodd neb enwogrwydd parhaus fel gweinidogion yr efengyl, heb fod yn meddu graddau helaeth o wybodaeth gyffredinol, nid ydym yn dadleu na fu llawer dyn annysgedig ac anwybodus yn ddefnyddiol mewn cylchoedd bychain. Ac y mae hyn yn peri i ni arafu wrth feddwl am gynnyg dyageidiaeth fel ammod hanfodol cyn y caiff neb ganiatâd i ddechreu pregethu. Y prif gymhwysderau yw rhagoriaeth mewn duwioldeb a synwyr cyffredin. Ni wna dysg ddim heb y rhai hyn; ond gwariant hwy, ac y maent eisoes wedi gwneyd llawer, heb ddysg. Er hyny, fe allai, mai nid gormod fyddai dyweyd am hen bregethwyr Cymru, na fu cymaint ag un o honynt yn ddefnyddiol, nad oedd yn awyddus ac yn llafurus, *hyd eithaf ei allu*, i gyrhaedd gwybodaeth. Yr oedd gan y tlotaf o honynt lyfrgelloedd cyflawnach na degau o bregethwyr yr oes hon: ac nid siarad am eu llyfrau yr oeddynt, ond eu darllen nes eu deall, a'u darllen eilwaith nes eu cofio. Pe buasent byw yn y dyddiau hyn, mae yn rhesymol meddwl y buasent mor llafurus a neb i chwilio am ddysgeidiaeth. Os oeddynt yn defnyddio pob mantais oedd yn gyrhaeddadwy iddynt yn yr oes hono, gallwn gasglu y buasent gyda'r paroddrwydd mwyaf yn defnyddio pob manteision ychwanegol sydd i'w cael yn yr oes hon. Erbyn hyn y mae amgylchiadau wedi newid; y mae yr anghenheidrwydd am wybodaeth yn llawer mwy, ac y mae y cyfleusderau i gyrhaedd gwybodaeth wedi lliosogi yn gyfatebol. Y mae amryw ysgolion i ddysgu Saesneg yn mhob sir; a phe dygwyddai fod dyn ieuanc yn analluog i fyned i'r ysgol, y mae amrywiaeth o lyfrau rhadlawn ar elfenau y gwyddorion a'r celfyddydau i'w cael yn yr iaith Gymraeg. Nid oes mwyach yr un esgus dros anwybodaeth: ac os gwelir ymgeisydd am y weinidogaeth yn anwybodus mewn daearyddiaeth, hanesiaeth, seryddiaeth, anianyddiaeth, a gwybodaethau cyffredin eraill, y mae hyny yn brawf digonol ei fod yn amddifad o ysbryd darllen, ac mae lle cryf i ofni nad oes ganddo un dyben uwch yn ei ymgais am bregethu na mantais i fyw yn segur. Mae yn hen bryd anghefnogi dynion o'r fath hyn. Dylid sefyll yn wrol, a siarad yn eglur ar y mater. Nid yw ond oferedd eu danfon i'r ysgolion ar ol iddynt ddechreu pregethu, gan ddysgwyl y gwneir y diffyg i fyny mewn rhyw lwybr gwyrthiol. Os dilafur oeddynt cyn dechreu, dilafur a diffwrth y fyddant wedi hyny mewn ysgol a choleg, ac felly y maent yn debyg o aros am weddill eu hoes. Cyn iddynt ddechreu y mae eu profi, nid yn gymaint er mwyn gwybod pa faint y maent eisoes wedi ei ddysgu, ond i gael allan a oes ynddynt ysbryd llafurio. Os yw yn rhy anhawdd penderfynu ar un gradd penodol o wybodaeth gyffredinol fel ammod i'r weinidogaeth, mae yn ddiammheuol fod *tuedd llafurus* yn anheborol anghenrheidiol. Dyma ammod a ddylai gael ei osod o flaen pob ymgeisydd, a dylai yr eglwysi fynu dynion addas i'w brofi yn ddiarbed nes cael boddlonrwydd ar hyn o bwnc.

Y mae un wybodaeth, pa fodd bynag, y dylai pob un heb wahaniaeth fod wedi cyrrhaedd graddau helaeth o honi cyn dechreu pregethu. Ar y mater hwn, nid y duedd i gasglu yn unig yw yr ammod, ond pa faint a gasglwyd eisoes—nid y llafur yn unig, ond y llwyddiant hefyd. Yr hyn

yr ydym yn cyfeirio ato, yw gwybodaeth o'r Bibl. Dylai yr ymchwiliad ar y pen hwn fod yn fanwl ac yn faith. Mae galw dyn i ddysgu crefydd i eraill, ac yntau ei hun yn anneallus yn llyfr Duw, yn anghysondeb gwarthus. Wrth sôn am wybodaeth o'r Bibl, yr ydym yn meddwl yr holl Fibl, ac nid rhan o hono. Gellid dysgwyl i bob un sydd yn edrych ymlaen at waith y weinidogaeth fod yn berffaith gyfarwydd yn naearyddiaeth y Bibl, a hanesyddiaeth y Bibl, ynghyd â hanes y Caldëaid, y Persiaid, y Groegiaid, y Rhufeiniaid, a'r cenedloedd eraill y sonir am danynt yn yr ysgrythyrau, ac yn enwedig hanes yr Arglwydd Iesu Grist. Dylid ei holi yn yr Hen Destament a'r Newydd, yn nghyfreithiau Moses a phregethau Crist, yn ysgrifeniadau y prophwydi a'r apostolion, ac yn hanes yr ysgrifenywyr. Os dywedir nas gellir cael amser i hyn oll, yr ydym yn ateb, mai nid gwaith i'w orphen mewn un cyfarfod, nac mewn un dydd, yw profi dyn sydd yn meddwl am fod yn weinidog yr efengyl. Na feddylier ein bod yn erbyn chwilio i mewn i ddaliadau athrawiaethol yr ymgeisydd. Yr ydym yn addef fod hyn o'r pwys mwyaf; ac yr ydym yn golygu fod hyn yn gynnwysedig yn yr hyn a ddywedwyd uchod. Ond nid ydym mewn un modd yn gallu amgyffred fod gan neb hawl i gau allan ranau eraill o'r Bibl. Os yw yr "holl ysgrythyr wedl ei rhoddi gan ysbrydoliaeth Duw," onid yw y rhanau hanesyddol o'r Bibl yn deilwng o sylw yn gystal a'r rhanau athrawiaethol? Nid ydym yn foddllawn i dafu diystyrwch ar "un iod nac un tipyn" o air Duw. Yn lle pleidio y naill ran yn fwy na'r llall, yr ydym yn dadleu y dylai yr ymchwiliad fod mor gynnwysfawr nes rhoddi boddlonrwydd llwyr o barth gwybodaeth yr ymgeisydd yn yr holl Fibl: ac nid ydym, wrth hynny, yn gofyn dim ond yr hyn y ddihon pob dyn yn Nghymru ei gyrhaedd trwy ddiwydrwydd, ond nid heb ddiwydrwydd.

Gyda gradd o wylder yr ydym yn cyflwyno yr ystyriaethau hyn i sylw eglwysi Cymru. Ni fuasai dim yn peri i ni lefaru ond teimlad o bwysfawrogrwydd y pwnc. Y mae yn ymddangos i ni nas gellir ei esgeuluso yn hwy heb ddinystrio effeithioldeb, a defnyddioldeb, ac urddas y weinidogaeth. Iē, ni phetruswn ddywedyd fod arholiad o'r fath a nodwyd yn anghenrheidiol fel moddion i rwystro dynion i ymafyd yn y gwaith o bregethu oddiar ddybenion gau. Nid yw hyn yn cael ei ddiogelu mewn un gradd trwy eu gorfodi i fyw ar gyflogau bychain; oblegid yr oll a wneir wrth leihau y gyflog yw symud y brofedigaeth o ddosbarth uwch i ddosbarth is, a themtio y rhai mwyaf anwybodus yn lle y rhai mwyaf doniol. Os dymunir boddlonrwydd am gywirdeb yr ymgeisydd, edrycher a oes ynddo ddigon o alluedd a phenderfyniad meddwl, ac ysbryd llafur, i ennill ychwaneg, pe dewisai, mewn rhyw lwybr arall. Mae y mater hwn hefyd yn dwyn perthynas hanfodol â sefyllfa grefyddol yr holl Dywysogaeth. Pe rhoddid ar ddëall i ieuentyd ein gwlad, nad oes un o honynt i feddwl am bregethu heb fyned dan arholiad trwyadl yn ysgrythyrau yr Hen Destament a'r Newydd, buan y gwelid golwg newydd ar Gymru. Effeithiai y cyffrawd ar yr Ysgolion Sabbothol, ac ar addysg deuluaid. Onid yw yn bryd i ni ymafyd yn y gorchwyl, a hynny yn egniol? Os oes holi i fod cyn derbyn i'r weinidogaeth, y mae eisieu gofalu am iddo fod yn rhywbeth mwy na ffurf. Gyda'r gwaith hwn, fel pob gwaith arall, dylem fod o ddifrif.

DINASOEDD Y CYNOESOEDD.

NINEFEH.

"Anrhelthiwyd Ninfeh, pwy a gwyna iddi?"—NARUM.

[*Nineveh and its Remains.* BY AUSTEN HENRY LAYARD, Esq. D.C.L. 2 vols. 8vo. London: John Murray. 1849.]

YN ein rhifyn diweddaf ni a gymerasom fras olwg ar antur a llafur Mr. Layard, o'i ddyfodiad i Mosul hyd ei gychwyniad yn ol i Lloegr; ac os mwynhaodd ein darllenwyr hanner y dyddordeb wrth ddarllen ei hanes ag a gawsom ni wrth ei ddwyn ger eu bron, barnwn ein hunain wedi ein cyflawn wobrwyo am ein trafferth. Ni bu tymmor arosiad Mr. Layard yn Lloegr yn faith, ond dychwelodd yn ol i faes ei lafur mor gynted ag y gallai; a derbynir hanesion o dro i dro oddiwrtho ef a'i gymdeithion. Y mae yn ddrwg genym gael fod yr un achos ag o'r blaen, sef diffyg arian, yn parhau i'w luddias yn ei ymchwiliadau; ac fe fydd yn warth oesol i ni fel gwladwriaeth fod y fath grintachrwydd yn cael ei arfer tuag ato. Yr hyn a ganlyn yw yr hanes awdurdodedig diweddaraf a dderbyniwyd oddiyno. Ysgrifenyd ef gan y Cadben S. Erskine Rolland, yr hwn sydd yn awr yn cynnorthwyo Mr. Layard yn ei ymchwiliadau.

"Treuliais y deuddydd neu dri cyntaf yn Mosul, yn chwilio y cloddiadau yn Kouyunjik, lle y mae llechau o'r newydd yn cael eu dwyn i'r goleu bob dydd. Darganfyddwyd dau darw newydd anferthol, a dwy ddelw ddynol o faintioli cawraidd tra yr oeddwn i yno, wrth fynedfa pyrth y ddinas; a dadguddiwyd hefyd y palmant wrth y porth, wedi ei farcio gan ol olwynion cerbydau. Gadewais fy ngwraig dan ofal Mrs. Rassam, ac aethum gyda Mr. Layard daith diwrnod i bentrefydd Baarshekah, Bamyaneh, ac i grug Khorsabad. Cymerasom filgwn gyda ni, a daliasom saith o ewigod crychgyrn (*antelopes*). Wedi ein dychweliad, aeth fy ngwraig a minnau a'n gweinidogion ar glwydfadau, ac a nofiasom i lawr y Tigris mewn saith awr i'r pentref bychan hwn, Nimroud, y fan y cloddiwyd ynddo gyntaf, gan anfon ein cyfreidiau a'n meirch ar hyd y tir. Yr ydym er y pryd hwnw wedi bod yn byw yn ei dŷ ef yma; er nad yw mewn gwirionedd yn ddim amgen na bwthyn o glai, ond y mae wedi doddi ffenestri gwydr, byrddau, &c., a'i wneuthur mor gysurus ag y gallai.

Y mae Layard wedi gosod mintai o weithwyr o dan fy arolygiaeth, ac wedi caniatâu i mi gloddio lle y mynaf. Yr wyf yn cloddio pydewau ar bob llaw, ac nid wyf heb obaith o ddyfod o hyd i ystafelloedd tanddaearol, y rhai y mae yn ddilys genyf a raid fod yma. Mewn un man, yn llawer is na'r cofadeiladau a gafwyd eto, y mae bwa o briddfeini, rhwng dau fur o briddfeini, wedi cael eu diorchuddio; y mae hwn yn ddyrus-beth i ni oll. Darganfyddiad mawr arall ydyw mur anferthol o'r gwaith maen mwyaf ffurfiol, o fewn y pegadail (*pyramid*) o briddfeini. Y mae y gweithwyr yn ymdrechu tori mynedfa iddo, ond o anghenrhaid ni allant fyned ymlaen ond yn araf iawn, ddim dros ddwy droedfedd neu dair yn y dydd. Ond y mae y darganfyddiad mwyaf a wnaed er pan ddechreuwyd gyntaf i droi y pridd yma heb gael ei adrodd eto. Eithr mi a hysbysaf am dano yn ei dro. Rhaid i chwi gofio fy mod wedi dechreu fy llythyr ar ddydd Nadolig, a'm bod yn parhau i ysgrifenu fel y byddaf yn cael hamdden i hyn.

Ionawr 3ydd, 1850.—Ar yr 28ain o Ragfyr, fe gychwynodd Layard a minnau, a'n gweision gyda ni, ynghyd â dau neu dri o benaethiaid Arabaidd, i ymwelod â

Tai, ar yr ochr arall i'r afon Zab. Nyni oedd yr Ewropeaid cyntaf a ymwelsant â'r wlad hono. Teirawr o garlamu a'n dygodd ni o Nimroud i lanau yr afon, yr hon sydd mor dren a dofn a'r Tigris, ac agos mor lydan hefyd; ond gan ei bod yn ymranu yma yn bedair cainc, fe ellir ei rhydio. Gyda gryn anhawsdra nyni a niwasom ein meirch drwyddi, gan wlychu ein hunain yn fawr. Y mae genym dri gwrthddrych mewn golwg yn ein hymweliad yma—yn gyntaf, i ymweled â chrug Abou Sheeta, yr hwn a ymddengys fel yn cynnwys dinas gladdedig; yn ail, i ffurfio cyfeillgarwch rhwng dau benaeth cydymdynol; ac yn drydydd i wneuthur cymmod rhyngddynt hwythau a'u gelynnion anghymmodlawn, y Jebours; yr hyn a hyrwydda lafur dyfodol Layard yn fawr. Ein hymweliad cyntaf ydoedd i wersyll yr Hawar, yr hwn a ystyrir gan yr holl Arabiaid, hyd yn nod gan rai diffaethwch mawr Africa, fel yr uchaf ei waedoliaeth a'r mwyaf urddasol yn eu plith. Mae yn debygol mai efe yw y gwr â'r âch hynaf yn y byd, a chyfrifa ei achyddiaeth yn llawer pellach nag amser Abraham. Cefnogir ef yn ei hawliau i'r benaduriaeth gan y rhai mwyaf urddasol o'r llwyth, tra y mae ei gydymgeisiwr, Teras, yn cael ei gefnogi gan y Tyrciaid, a'r rhan fwyaf o'r Tai. Ei frawd, y dyn harddaf a welais i erioed, a ddaeth allan i'n cyfarfod gyda chant o wyr meirch, y rhan fwyaf o ba rai a ddaethant i'n gwersyll y diwrnod o'r blaen, i'n hyspello. Carlamasant fel pethau gwallgof o amgylch y gwastadedd, yn ysgwyd ac yn chwyrnellu eu gwaewffyn hirion, ac yn gwaeddi eu rhyfelfoedd, ac a'n gosgorddasant ni gyda rhwysg mawr i wersyll y Sheikh yr hwn a safai i'n derbyn. Ni welais ddyn mor luniaidd erioed; y mae yn un hynod o hardd, er ei fod yn hen ac yn dyoddef llawer gan afiechyd. Y mae yn gawraidd o ran maintiolaeth—yn chwe' troedfedd a phedair modfedd o leiaf, a chan sythed a phinwydden. Yr oedd ei babell yn un helaeth iawn, yn llwyth tri o gamelod; â phebyll y gwragedd ar y naill law iddi, ac un y meirch ar y llall, i gyd o dan yr un gorchudd. Gosodwyd matiau a chlustogau ar lawr y babell, ar y rhai yr eisteddodd Hawar, Layard, a minnau, ei frawd, ei ewythr, a phendefigion y llwyth yr un modd, tra y safai y lleill mewn hanner cylch wrth y drws. Hebyg hela hardd a safai ar ei glwyd yn y canol. Cyfranogasom o goffi wedi ei berlysiesiu, trinasom y gorchwyl y daethom yn ei gylch, a chiniawasom yn y babell ar gig defaid, *pumpkins*, a laeth sur, wedi eu mwydferwi ynghyd. Wedi i ni gyfranogi o hono, y gweddill o'r llwyth a fwytasant; eisteddai nifer benodol o ddynion i lawr gyda'u gilydd, codai pob un pan fyddai wedi cael ei ddiwallu; a math o oruchwylwr y wledd a enwai y neb fyddai i'w ddilyn. Nid oedd dim ffwddan ac anweddeidd-dra. Wedi ciniaw, adroddodd pawb ei weddiau. Anfonasom ein pebyll o'n blaen, ond yr oeddynt wedi gwlychu yn fawr ar y ffordd, a gosodasom hwy i fyny yn glws wrth un y Sheikh. Dranoeth, fe newidiodd y gwersyll ei sefyllfa. Anaml y gwelais sefyllfa mwy ardebaidd. Pabell y Sheikh a dynwyd i lawr yn gyntaf, a'r orymdaith hirfaith o gamelod llwythog, marchogion, asynod, a gwartheg, a gyraeddent can belled ag y gallai y llygaid ganfod. Yr oeddwn yn cyfrif fod yno oddeutu dwy fil o ddynion, gyda'u camelod, eu meirch, a'u gwartheg. Ymwelsom â Teris, y Sheikh gwrthwynebol, gan gymeryd gyda ni frawd yr Hawar: derbyniwyd ni yn groesawus, er nad gyda'r un moesgarwch urddasol.

Tra yr oeddyd ni ymaith, yr oedd y gweithwyr wedi agor ffos lydan, yn ol cyfarwyddyd Layard, er mwyn dangos i'm gwraig ryw lech benodol a gladdasai, ac wrth wneuthur hyny, diorchuddiasant dri chrochan copr anferthol o faintoli, a dysglau mawrion o fettel. Layard a symudodd y pridd yn ofalus o un crochan oedd wedi ei lenwi o hono, a chafodd hyd i amrywiaeth o addurniadau o ifori, pen bwyell o haiarn, a pheth afrifed o nwyddau eraill, nas gallaf eu henwi yn awr, gan fy mod wedi addaw cadw cyfrinach. Layard a symudodd ymaith gyn-nifer ag a allai o honynt, ac a orchuddiodd y lleill â phridd. Dyma y darganfyddiad mwyaf pwysig o lawer o'r un a wnaed eto. Y mae wedi eu gosod hwynt dan fy ngofal i, a rhoddodd gyfarwyddiad y gweithwyr i mi, gan fod yn rhaid iddo fyned i Mosul i wneuthur darpariad er symudiad y ddaau lew anferthol, yr harddaf a gafwyd eto, y rhai, yr wyf yn coelio, a fyddant ar eu ffordd i Loegr

yn mhen mis neu ddau. Wedi hyny, nyri a groeswn y Zab, â'n pebyll gyda ni, ac a dreuliwn ein hamser weithiau yn hela, a phryd arall yn cloddio.

Ni ellwch ffurfio yr un dychymyg am yr anhawderau sydd gan Layard i'w cyfarfod, na'r yni, dawn, dyfal-barhad, a'r callineb, â pha rai y mae yn eu gorchfygu; nac ychwaith y ffieldra odiaeth a'r natur dda â pha rai y mae yn trin y gwahanol bobl y mae a wnelo â hwynt. Yn y lle cyntaf, nid oes ganddo ddim ond ei amcan i'w hyfforddi yn ei ymchwiliadau; y mae mewn gwirionedd ac yn llythyrenol yn ymbalfalu yn y tywyllwch, a dichon i bob math o drysorau claddedig fod o fewn ei gyrhaedd, tra mewn canlyniad i'r swm bychan iawn o arian a roddwyd iddo, y mae yn analluog i wneuthur dim yn debyg i iawn ymchwiliad, ac yn gorfod cloddio ffosydd bron fel ar antur.

Ion. 6ed.—Ddoe, nyri a symudasom dros ddeg ar hugain o addurn-gawgiau (*vases*), meiliau, a dysglau, wedi eu boglynu a'u cerfio yn y modd mwyaf hardd, rhai tarianau a chleddyfau, o ba rai nid oes ond y curiau yn aros, gan fod y llafnau heiyri wedi rhydu ymaith, ac addurngawg marmor bychan. Y mae y cwpanau, y dysglau, a'r addurniadau o ryw gymysgedd anadnabyddus o fettel-oedd, ond y maent i gyd wedi eu crestenu gymaint gan gopr dadansoddedig a chrisialedig, ac mor freuol fel nas gellir eu trin yn ein dwylaw heb fawr berygl; ac y mae Mr. Layard yn eu hanfon adref yn y cyflwr y cafodd hwynt.

Treuliais wyth awr ddoe yn eu crafu hwynt â'm dwylaw allan o'r clai, am fod y gorchwyl yn beth rhy dyner a manwl i oddef hyd yn nod i gylllell gael ei harfer. Bu fy ngwraig yn brysur ar y gwaith drwy y nos yn eu pacio hwynt i fyny. Gallwn lawenhau fod y genedl Frytanaidd yn awr yn meddu casgliad heb ei gyffelyb o'r cyfryw bethau, ac y mae eu gwerth yn annhraethadwy. Y mae yr addurniadau a'r cerfiadau ar yr addurngawgiau yn dynodi cyflwr uchel iawn o warder. Nid y lleiaf cywrair o'r darganfyddiadau ydyw amryw gannoedd o fotymau *mother-o-pearl* hollol gyffelyb i'n botymau crysau ni."

Heblaw y'r hanes hwn a roddasom, yr ydym yn cael crybwylladau mynych, o bryd i bryd, yn y newyddiaduron am lwyddiant Mr. Layard a'i gymdeithion yn eu hymchwiliadau am olion y ddinas fawr Ninifeh. Yn ol yr hanesion diweddaraf y maent wedi dyfod o hyd i orsedd y brenin. Nid oes dim ol tân arni, ac y mae wedi ei gwneuthur gan mwyaf o ifori, âg addurniadau o aur. Y mae arni olion o gylchleni brethyn, ac y mae yr edaf aur â'r hwn yr oeddynt wedi eu gwnio a'u brodio yn aros eto. Y mae llong wedi eu hanfon o Bombay i geisio llwyth o'r cerfiadau a'r olion eraill sydd wedi eu casglu, ac y mae yn awr ar ei thaith i Loegr.

Yn y cyfamser ni a ymdrechwn ddangos fel y mae y darganfyddiadau a wnaethpwyd eisoes, nid yn unig yn profi cyflawniad llythyrenol o brophwydoliaethau Ezeiel a Nahum o barth dymchweliad Ninifeh, ond fel y maent hefyd yn tueddi y eglurhau rhai ymadroddion a ymddangosent hyd yn hyn yn dywyll yn y prophwydoliaethau hynny. Cynnorthwyr ni yn fawr yn y gorchwyl hwn gan y cyfeiriadau aml y mae Mr. Layard ei hunan yn ei wneuthur at yr ysgrythyr; a dengys ei fod "yn foneddigeiddiach" na'r rhan fwyaf o deithwyr diweddar; a gellir dywedyd am dano ef fel y dywedodd St. Paul am Timotheus gynt, fod y ffydd ddiffuant ynddo, yr hon a drigodd yn gyntaf yn ei daid, y Dr. Layard, ac yn ei dad, a diamhau genym ei bod ynddo yntau hefyd.¹

"Y mae y geiriau sydd yn Ezeiel yn darlunio y tufewn i'r palasau Assyr-iaidd, yn cyfateb mor hollol, ac yn esbonio gymaint ar gofodeiladau Nimroud a

¹ Y mae Mr. Layard yn hanu o deulu Protestanaidd pendeigaid yn Ffrainc, yr hwn a ffôdd i Loegr yr amser y dirymwyd *Edict Nantes*. Ei dad, yr hwn oedd fab i'r Parchedig Dr. Layard, Deon Bristol, a lanwai swydd wladol uchel yn Ceylon, a bu yn ddiwyd a ffyddlaw iawn wrth y gwaith o ddisbarthu yr ysgrythyrau ymhlith y cenedloedd pagan-aidd yno.

Khorsabad, fel y maent yn teilyngu sylw neillduol yn y fan hon. Y mae y prophwyd, wrth ddangos y llygredigaethau a ymlusgasant i gyfundrefn grefyddol yr Iuddewon, a'r arferion eilunaddolgar a fenthyciasant gan y cenedloedd y dygasid hwy i gysylltiad â hwynt, yn amlygu dylanwad yr Assyriaid yn y modd canlynol:—'Gwelodd wŷr wedi eu llunio ar y pared, delwau y Caldeaid wedi eu llunio â fermilion, wedi eu gwregysu â gwregys am eu llwynau, yn rhagori mewn lliwiau am [wisgoedd] eu penau, mewn golwg yn dywysogion oll, o ddull meibion Babilon yn Caldea, tir eu genedigaeth' (*Ezec.* xxiii. 14, 15). Fe gofir fod Ezeziel yn prophwydo ar lán yr afon Chebar, pa un ydoedd ai yr afon a elwir Chabour gan yr Arabiaid (Chaboras y Groegiaid), yr hon sydd yn rhedeg trwy wastadeddau Mesopotamia, ac yn disgyn i'r Euphrates, ger Karkemish (Circesium) neu un arall o'r un enw sydd yn codi yn mynyddoedd Kurdistan, ac yn uno â'r Tigris uwch Mosul, diammhau ei bod yn nghymydogoeth Ninifeh. Yn yr adnodau a ddyfynwyd, y mae y prophwyd yn cyfeirio at gyfnod o flaen dinystr olaf y briffddinas Assyriaidd, amgylchiad y mae yn eithaf tebygol ei fod ef yn llygad-dyst o hono, gan mai y dyddiad a briodolir yn gyffredinol i'w brophwydoliaethau ydyw 593 cyn Crist, dim ond tair blynedd ar ddeg ar ol y goresgyniad Medo-Caldeaid. Prin y dichon fod ammheuaeth nad oedd wedi gweled y gwrthddrychau y mae yn eu darlunio—y lluniau wedi eu cerfio ar y pared a'u paentio. Y mae cyffredinoldeb llw coch a welir yn adeilion Khorsabad, a phenwisgoedd cywraïn a thra addurnedig breninoedd Khorsabad a Kouyunjik, yn cael cyfeirio atynt yn amlwg. Y mae y dystiolaeth a roddir yn y modd yma o hanfodiad y cofadeiladau hyn cyn dinystr Ninifeh, wrth ei gymeryd mewn cysylltiad â darluniad y prophwyd ar ol hyny o gyflawn gwmp a dinystr y ddinas (*pen.* xxxi), yn brawf diymwad, pe byddai yn ofynol, fod yr adeiladau hyn mewn bod cyn goresgyniad y Persiaid."

Wrth sôn mewn lle arall am y cerf-ddelwau a ddaeth o hyd iddynt, y mae Mr. Layard yn gwneuthur y sylwadau canlynol:—

"Ar gofadeiladau boreuaf yr Assyriaid, un o'r cysgod-ddelwau mwyaf cysegr-edig ydyw y llun dynol â phen eryr neu futur iddo. Nid yn unig y mae i'w gael mewn maintioli cawraidd ar y muriau, neu yn gwylied pyrth yr ystafelloedd, ond y mae yn cael ei ddarlunio yn barhaus ymhlith y lluniau ar y gwisgoedd brodiog. Pan y dygir ef i fewn yn y modd yma, ceir ef yn gyffredin yn ymdynu âg anifeiliaid *mythic* eraill, megys y llew neu y tarw pen-ddynol, ac ymddengys ei fod bob amser yn y darluniadau hyn fel y buddygoliaethwr. Gellir casglu oddiwrth hyn ei fod yn gysgodlun o'r Duw Goruchaf, neu o un o'i briodoliaethau. Y mae darn o'r oraclau Zoroastriaidd, a gadwyd gan Eusebius, yn dadgan mai 'Duw yw efe, yr hwn y mae iddo *ben hebog*. Efe yw y cyntaf, anifiaadwy, anghenedledig, anrhanedig, heb ei gyffelyb, cyfranwr pob daioni, anlygredig, y goreu o'r daionus, y doethaf o'r doethion; efe yw tad uniondeb a chyfiawnder, hunanddysgol, anianyddol a pherffaith, a doeth, ac unig luniwr athroniaeth gysegredig.' Gellir unoli y llun hwn hefyd â'r duw Nisroch,¹ yn athenl pa un y lladdwyd Senacherib gan ei feibion; oblegid y mae y gair Nisr yn arwyddocau eryr, yn yr holl ieithoedd Semitaidd. Weithiau y mae pen yr aderyn hwn wedi ei osod wrth gorff llew. * * * * Y mae yllewod a'r teirw penddynol asgellog, y ffurfiau mawreddus hyny a wyliant byrth y tmlau Assyriaidd, yn nesaf yn teilyngu sylw. Nid yn unig y maent i'w cael fel cerfiadau ar eu penau eu hunain, ond yn gyffelyb i'r lluniau â phenau eryrod, y maent yn cael eu dwyn i mewn yn barhaus i'r lluniau brodiedig ar y gwisgoedd. Y mae yn haeddu sylw, pa bryd bynag y darlunir hwy, pa un ai yn ymdrechu â dyn, neu gyd â'r llun â phen eryr iddo, ymddangosant fel yn cael eu gorchfygu. Yn aml gwelir llun dyn yn eu crogi hwy yn yr awyr gerfydd eu traed ol, neu yn eu

¹ 2 *Bren.* xix. 37. Josephus a eilw y ddelw hon *Arascus*; *Esay, Asarak*; y Deg a Thriugain, *Μεσσάχ*.

taro hwy â gordd. Yr wyf eisoes wedi anturio crybwyll y meddylddrych yr oedd y ffurfiau hynod hyn wedi eu bwriadu ei ddwyn i'r meddwl—unant y galluoedd deallol a naturiaethol mwyaf; ond y mae yn sicr fod eu sefyllfa, gyda chyfeiriad at arwyddluniau cysgodol eraill, yn dynodi i arddoldeb yn yr archlwysiaeth (*hierarchy*) nefolaidd. Er fod *andro-sphynx* yr Aiphtiaid yn gysgod o'r brenin, prin y gallwn feddwl ei fod felly ymhlith yr Assyriaid; oblegid yn y cerfiad yr ydym yn cael fod hyd yn nod y llun â phen eryr, gorchfygwr y llew a'r tarw penddynol, yn gweini i'r brenin. * * * Y mae yn ddiammheuol fod rhyw ystyr dirgeledig yn perthyn i'r holl luniau hyn. Yr oeddynt yn arwyddol yn arddangos naill ai priodoliaethau y Duwdod, neu ryw arddangosiad neillduol yn natur. Eithr ni allaf, yn bresennol, ddyweyd beth oedd arwyddocâd yr un o honynt; ac ni allaf benderfynu dim ynghylch y lluniau dynol asgellog sydd i'w cael mor aml ar adeiladau Assyriaidd. * * * Ni ddichon i'r tebygolrwydd rhwng y lluniau arwyddocaol a ddarluniais, â rhai a welodd Ezeziel ei ei wel-edigaeth, lai na tharo i feddwl y darlennydd. Gan fod y prophwyd wedi gweled y palasau Assyriaidd, gyda'u delwau tywyll, a'u haddurniadau gorwych, y mae yn dra thebygol ddarfod iddo, pan yn ceisio cysgodi rhai priodoliaethau dwyfol neillduol, ac i ddarlunio y gogoniant dwyfol, ddewis ffurfiau ag oeddynt nid yn unig yn hysbys iddo ef, ond hefyd i'r bobl a anerchai—caethion fel ei hunan yn ngwiad Assyria. Yr oedd y rhai oedd heb eu llygru hyd yn nod gan y ffurfiau allanol eilun-addoliaeth, yn ceisio am gyffelybiaethau i osod allan y meddylddrych am y Duw Goruchaf. Gwelodd Ezeziel yn ei weledigaeth gyffelybrwydd i bedwar peth byw, a chanddynt bedwar wyneb, pedair aden, a dwylaw dyn tan eu hadenydd ar eu pedwar ystlys. Eu hwynebau oeddyntrai dyn, llew, ych, ac eryr. Yn eu hymyl yr oedd olwyn, ymddangosiad yr hon oedd "fel pe buasai olwyn yn nghanol olwyn." Fe welir mai y lluniau a ddewiswyd gan Ezeziel i eglurhau ei ddesgrifiad—y dyn, y llew, y tarw, a'r eryr—ydynt yn union y rhai a geir yn barhaus ar y cofadeiladau Assyriaidd fel cysgodluniau crefyddol. Geill yr "olwyn yn nghanol olwyn," a grybwyllir mewn cysylltiad â'r ffugyrau cysgodol, fod yn cyfeirio at y cylch asgellog, neu yr olwyn, yn darlunio yn Nimroud y Duw Goruchaf. Y mae y cyferbyniadau hyn yn rhy nodedig i beidio a haeddu sylw; ac y maent yn sicr yn tywys i'r casgliad fod y cysgodluniau a ddewiswyd gan y prophwyd wedi eu deillio oddiwrth y cerfiadau Assyriaidd."

Cyn gadael y cerffdelwau hynod hyn, nis gallwn ymattal rhag rhoddi ger bron ein darllenwyr un dyfyniad allan o waith yr hybarch a'r dysgedig Faber, yn ei hanes am ddechreuad eilun-addoliaeth. Y mae ei sylwadau yn rhai hynod iawn, yn enwedig pan y cofir eu bod wedi eu hysgrifenu fynyddau lawer cyn bod sôn am y darganfyddiadau rhyfeddol yn Nimroud. Amcan Mr. Faber ydyw profi nad oedd eilun-addoliaeth ar ol y diluw yn ddim amgen na llygriad o'r gwir addoliad patriarchaidd cyn-ddiluwiaidd, a bod yr eilun-addoliad yma yn cyfeirio at y cerubiaid yn Mharadwys. Ymddengys i ni fod y darganfyddiadau hyn yn myned ymhell iawn tuag at gadarnhau ei dybiaeth. Gan adael allan osodiadau cyntaf ei ymresymiad, ny ni a osodwn i lawr yma gymaint ag sydd yn dwyn perthynas â'n pwnc:—

"Fel hyn, ar y naill law, rhaid fod Noah a'i deulu yn eithaf hysbys o ffurf y cerubiaid, ac hefyd o'u harferiad yn ngwasanaeth crefyddol yr eglwys cyn-ddiluwiaidd; ac ar y llaw arall, naill ai yn ystod bywyd y patriarch hwnw, neu yn yr oes nesaf ar ol ei farwolaeth, rhaid fod y gyfundrefn hono o eilun-addoliaeth sydd wedi ymdaenu gyda chymaint o unfurfiaeth dros wyneb yr holl ddaear, wedi dechreu yn yr oes oddylifol, oddeutu cyfnod adeiladaeth Babel. Y mae y wybodaeth, gan hyny, o'r arwyddluniau cerubiaidd wedi cael ei dwyn i lawr yn oesrestrol hyd godiad cudd-dduwiaeth (*mythology*) paganaidd ar ol y diluw. Yn awr, yr oedd y cerubiaid yn cael eu harfer yn addoliad y gwir Dduw; ac yr

oeddynt yn uno, mewn un arwydd cyfansawdd, ffurfiau dyn, tarw, llew, ac eryr. O ganlyniad, pan gododd eilun-addoliaeth i fyny ymhlith pobl ag oedd yn rhaid eu bod yn hysbys o ffurf y cerub, y peth mwyaf tebygol yw, yr arferent yn addoliad eu heilun-dduwiau, yr un arwyddluniau ag oeddidi wedi cael eu gwneuthur yn hybarch trwy eu cysegriad er's maith amser i addoliad Duw. Y mae y ffaith yn perffaith cydweddu â'r dybiaeth yma. Yn mhob rhan o'r byd y mae y tarw, y llew, yr eryr, a dyn, wedi cael eu cyfrif yn arwyddluniau cysegr-edig. Rhaid fod yr hybarchedd unfurfiol hwn wedi deillio o un dechreuad cyffredinol; ni ellir cael yr un tarddiad cyffredinol hwnw ond yn yr amser pan yr oedd holl ddynolryw yn ffurfio dim ond un gymdeithas; ni ellir gosod hanfodiad yr un gymdeithas hono yn ddiweddarach nag amser adeiladaeth y tŵr; o ganlyniad, ni ellir priodoli addoliad cyntaf yr arwyddluniau hyny i oes ddiweddarach nag un Nimroud; ond rhaid fod ffurf y cerubiaid arwyddol yn dra adnabyddus yn yr oes hono, oes a hynodwyd trwy ddechreuad y gyfundrefn *mythological*, yr hon a gariwyd wedi y gwsgariad i bob talaeth o'r byd. Gan hyny, gan fod gwir batriarchiaeth a dechreuad eilun-addoliaeth yn cyfarfod fel hyn yn gydamserol—gan fod yn amlwg fod yr olaf yn llygriad o'r blaenaf—gan mai y tri dull anifel ag oedd yn ffurf cyfansawdd y cerub ydynt yn union y tri sydd yn gyffredinol wedi cael eu parchu gan y cenedloedd o'r amseroedd cynaraf—ni welaf fi pa fodd y gallwn ni yn rhesymol ochel y casgliad, pa fodd bynag yr oedd y paganiaid yn cymhwyso yr arwyddluniau o'r tarw, y llew, a'r eryr, eu bod wedi cael eu benthyca yn y lle cyntaf, oddiwrth yr anifeiliaid hyn fel yr oeddynt wedi eu cydgysylltu â'u gilydd yn ffurf y cerubiaid."

Yn awr, nynt a adawn y prophwydi eraill, ac a gyfeiriwn ein sylw yn unig at brophwydoliaethau Nahum. Yr oedd Nahum yn brophwyd perthynol i'r deg llwyth; a ganwyd ef, yn ol barn Jerome ac eraill, yn Elkesi, yn Galilea. Geilw ei hun yn Nahum yr Elcosiad. Y mae pentref o'r enw Elcosh yn aros eto, yr hwn sydd o fewn taith teirawr i Mosul, ac a gyfannedd gan Nestoriaid. "Cynnwys," medd Mr. Layard, "yn ol traddodiad tra chyffredinol, feddrod Nahum y prophwyd. Perchir y lle yn fawr gan y Mahometaniaid a'r Cristionogion, ond yn neillduol gan yr Iuddewon, y rhai a gadwant yr adeilad mewn cyweiriad, ac a ymgasglant yma yn niferoedd mawr ar rai tymmorau penodol o'r flwyddyn." Anrhydeddir ef yn neillduol gan yr Iuddewon, am mai efe a fonfonyd i gyhoeddi cwmp dinas ardderehog Ninifeh. Dechreua ei brophwydoliaeth trwy ddadgan triniaethau yr Arglwydd tuag at ei elynion a thuag at ei gyfeillion hefyd. Ac yn y bedwaredd adnod ar ddeg, y mae yn myned ymlaen i fanylu ar ddinystr "dinas y gwaed."

"Gwnaf dy fedd" (*adn.* xiv). Gellir dywedyd yn wir fod holl rwyg a mawredd Assyria wedi eu claddu er's talm; eithr oni ellir cael ystyr dwysach i'r ymadrodd pan y dygir i'r meddwl y crugiau mawrion sydd wedi bod i'w gweled yn awr er's pum canrif ar hugain ar y gwastadedd lle gynt y safai y ddinas? Onid ydynt yn debyg i feddau mewn mynwent?—yn "feddau" ymherodraeth Assur?

Dywedir hefyd yn yr un adnod, "Toraf o dŷ dy dduwiau y gerfiedig a'r dawed ddelw." Yn awr, er y gellir golygu y geiriau hyn fel rhagfynegiad cyffredinol am ddinystr eilun-addoliaeth Assyria yr un pryd a'r deyrnas—y tefid gwarth a dirmyg ar y duwiau hyny na allent amddiffyn na gwared eu haddolwyr; eto y mae ychwaneg o bwys a grym yn cael eu rhoddi iddynt, pan y canfyddir fod y brenin, yn ol barn Mr. Layard, yn preswyllo mewn teml, ac hyd yn nod yn cael ei addoli megys duw; a bod y deml neu y palas breninol yn llawn o gerffdelwau. "Y mae yn debygol,"

meddai, “fel y sylwais o’r blaen, fod preswylfod y brenin ar yr un pryd yn deml, a thybid ei fod yntau ei hun, naill ai wedi ei gynnysgaethu â phriodoliaethau dwyfol, neu yn cael ei olygu fel cysgod o’r prif dduw a ddangosir drwy y cerfiadau. Y mae y lluniau asgellog, hyd yn nod yr un â’r pen eryr, yn gweini iddo ef. Ymddengys ei holl weithrediadau, pa un ai mewn rhyfel neu heddwch, fel yn gysylltiedig â’r grefydd wladol, a chredid eu bod oll o dan nodded ac arolygiaeth y duwdod. Pan ddarlunir ef mewn rhyfel, y mae y llun asgellog yn y cylch yn hofian uwch ei ben, yn annelu ei fwa uwch ei ben, neu yn cydfuddygoliaethu âg ef. Y mae ei ymdrechadau â’r llew, neu anifeiliaid arswydus eraill, nid yn unig yn dangos ei wroldeb a’i fedr, ond ar yr un pryd yn cysgodi ei nerth a’i ddoethineb goruchel.”

Ar ol hyn, y mae y prophwyd yn rhoddi darluniad mawreddus o warchaead y ddinas, ynghyd â disgrifiad o’r milwyr. “Tarian ei wŷr grymus a liwiwyd yn goch, ei wŷr o ryfel a wisgwyd âg ysgarlad; y cerbydau fyddant gyda lampau tanllyd y dydd y byddo ei arlwy, a’r ffynnidwydd a ysgydwir yn aruthrol.” Sylwasom o’r blaen (*tudal.* 214) ar gyffredinol-rwydd y lliw coch ar y cerffdelwadau, a dywed Mr. Layard ei fod yn rhagori ar un yr Aipt. Byddai tarianau y milwyr yn cael eu gwneuthur o grwyn teirw wedi eu lliwio yn goch, a gwisgid y milwyr mewn dillad o ysgarlad dysglaer. “Y cerbydau fyddant gyda lampau tanllyd.” Mae yn debygol fod y geiriau hyn yn cyfeirio at y pladuriau o ddrur gloew a roddid yn echyl cerbydau rhyfel, y rhai a fyddent yn debyg i dân pan fyddai y cerbydau yn cael eu gyru yn ffrom, ac “yn cynddeiriogi yn yr heolydd.” Er fod cerbydau rhyfel yn bethau oeddynt yn perthyn i bob cenedl; eto, y mae yn amlwg fod gan Assyria ryw ymfrost neillduol ynddynt; oblegid nid oes braidd yr un basddelwad na welir amledd o gerbydau wedi eu llunio arni. “Y ffynnidwydd a ysgydwir yn aruthrol.” Nid yw yr ymadrodd yma, fe allai, ddim mor amlwg ar y cyntaf, ond trawsenwad yw am waewffyn y milwyr yn y cerbydau. A chan fod y cŵn ffawydd i’w weled yn aml yn nwyllaw y lluniau ar y cerfiadau, ac yn addurn ar yr adeiladau yn y bâsddelwadau, y mae yn debygol fod gan y prophwyd gyfeiriad neillduol at y pren hwn, fel yr un yr arferai yr Assyriaid i wneuthur eu gwaewffyn o hono.

Wrth edrych ar y dinystr a’r anghyfannedd-dra oedd i ddyfod ar warthaf y ddinas ddiogyfrydedig, y mae y prophwyd yn gofyn, “Pa le y mae trigfa y llewod, a phorfa y cenawon llewod? lle y rhodiai y llew, yr hen lew, ac a nid oedd a’i tarfai! Y llew a ysglyfaethodd ddigon i’w genawon, ac a dagodd i’w lewesau, ac a lanwodd âg ysglyfaeth ei ffau, a’i loches âg yspail.” Y mae priodolrwydd a grym neillduol yn y geiriau hyn, fel y maent yn cael eu rhoddi yn ofyniad i brifddinas Assyria. Fe glybüwyd sŵn y llew yn nghoedwigoedd a mynyddoedd y tir hwnw, yn gwneuthur iddynt grynu gan ei ruadau; ac fel hyn yr oedd wedi dyfod i fod yn hoff addurnlun gan y Ninifeaid. Heblaw y delwau â phenau llewod iddynt, y mae y bâsddelwadau yn cynnwys darluniadau o heliad llewod yn eu holl rwyg cyffrowl. Y mae eu dodrefn hefyd wedi eu haddurno â lluniau y llew; mae llun llew ar wain eu cleddyfau, a cherfir coesau eu troedfeinciau ar lun palf llew. Cafwyd un ar bymtheg o ddelwau llewod bychain o bres yn un o’r ystafelloedd, a thybiai Mr. Layard eu bod yn cael eu defnyddio fel pwysau yn eu clorianau. Yn gwybod eu hoffder at y llun

hwn, ac fel yr ymfrostient eu bod eu hunain fel llewod ymbllith y cenedloedd, tueddwyd Nahum i gymeryd cymhariaeth oddiwrth eu hoff addurnlun, pan y galwodd eu dinas yn "drigfa y llewod." Y mae yr Arglwydd yn chwaneu ymbhellach, yn y drydedd adnod ar ddeg, "Wele fi yn dy erbyn, medd Arglwydd y lluoedd; a mi a losgaf ei cherbydau yn y mwg, a'r cleddyf a ddifa dy lewod ieuainc; a thoraf ymaith o'r ddaear dy ysglyfaeth, ac ni chlywir mwy lais dy genadau." Y mae yr ymadrodd olaf yma yn cadw i fyny y gyffelybiaeth—er cymaint fu cryfdwr llew Ninifeh, a'r maint fyddai ei arswyd ar y cenedloedd o amgylch, ni chlywir mwyach lais ei ruad. Y mae ei phechod wedi ei goddiweddyd; am hyny, "Gwae ddinas y gwaed"—y ddinas oedd yn barhaus yn llarpio ei gelynyion—"a'r ysglyfaeth heb ymado." Fe fu pobl etholedig Duw unwaith yn ysglyfaeth iddi—y deg llwyth a ddygwyd yn gaeth—ond yn awr y mae yr Arglwydd yn dial eu gwaed, ac yn talu y pwyth i'w gelynyion.

Wedi crybwyll yn y modd yma am bechodau Nimifeh, y mae y prophwyd yn myned drachefn i ddarlunio ei gwarchae a'i dinystr. "Sŵn y ffrewyll, a sŵn cynhwrf olwynion, a'r march yn prancio, a'r cerbyd yn neidio. Y marchog sydd yn codi ei gledddyf gloew, a'i ddysglaer waewffon" (*pen. iii., adn. 2, 3*). Llawer gwaith y bu heolydd y ddinas hõno yn adseinio gan branciad y meirch yn ymbarotol i'r frwydr, a thrwst olwynion y cerbydau rhyfel yn ymbryuro allan i'r gwastadedd i gyfarfod y gelynyion. Yn wir, y mae y dyfyniad a roddir yn nechreu yr erthygl bresennol, yn dyweyd fod õl olwynion y cerbydau i'w gweled eto! Ac y mae y bäsddelwadau ar y parwydydd fel pe baent yn dwyn y cwbl ger gwydd ein llygiaid eto. Wrth edrych ar y rhai hyn, yr ydym fel pe byddem yn gweled y cerbydwr yn defnyddio y ffrewyll, a braidd na allem ddechymygu ein bod yn clywed trwst olwynion y cerbydau. Dengys y bäsddelwadau awydd-fryd y meirch fel y maent yn cael eu gyru ymlaen; ac nid oes dim i'w canfod yn amlach ar y rhai hyn na'r march a'r marchogwr. Ac yr oedd Caldea erioed yn nodedig am ei meirch a'i marchogion. Dywed Ezeziel am ei "dugiaid a'i thywysogion," eu bod "o wŷr ieuainc dymunol i gyd, yn farchogion yn marchogaeth meirch." At y meirch a'r marchogion hyn y cyfeiria Hosea (*pen. xiv. 3*): "Ni all Assur ein hachub ni; ni farchogwn ar feirch;" ac am danynt hwy yr ysgrifennodd Habacuc (*pen. i. 8*), "A'i feirch sydd fuanach na'r llewpardiaid." Yn y darluniadau, fel y gellir canfod yn y desgrifiad o honynt yn y rhifyn o'r blaen, y mae y marchogion yn gyffredin bob yn ddau, un yn tynu yn ei fwa, a'r llall yn dal awenau y meirch; ac y mae Mr. Layard yn rhoddi canmoliaeth mawr i luniau y meirch. Dywed eu bod wedi eu tynu i'r byw, ac o'r fath ragoraf. Y mae y boen a'r drafferth, meddai, "a gymerwyd gyd â'r marchwisgoedd, yn dangos hoffder yr Assyriaid at feirch, a rhydd y cerfiadau esiamplau hynod o'r addurniadau cywrain â pha rai yr arferent eu gwychu."

Ond er yr holl rwyg a'r mawredd yma, ac er cymaint oedd eu hymffrost yn eu meirch, a'u hyder yn eu cerbydau, y mae y prophwyd yn hysbysu y deuai dydd o gelanedd arnynt, dydd y byddai eu lladdedigion mor aml fel y tripiant wrth eu cyrff hwynt; ac yn yr hwn ni allai eu meirch eu hachub, na'u cerbydau eu gwaredu. Yr oeddynt i gael eu gosod yn ddirmyg i'r holl genedloedd, ac ni byddai a dosturiai wrthynt. "Wele, fi i'th erbyn, medd Arglwydd y lluoedd, a dadguddiaf dy odre ar dy wyneb, a gwnaf i genedloedd weled dy noethni, ac i deyrnasocedd dy

warth. A thafaf fflaidd bethau arnat, a gwnaf di yn wael, a gosodaf di yn ddrych" (*pen.* iii. 5, 6). Beth yw y cloddiadau diweddar, ond "dad-guddiad ei godre?" ac onid yw cenedloedd yn gweled ei noethni? Addurnir *museums* Prydain a Ffrainc â gweddillion o balasau Ninifeh. Yn y modd yma, y mae y teirw asgellog, a'r duwiau pen eryrol yn cael eu dangos i bawb, bychain a mawrion, a ddeiwant fyned i edrych arnynt, yn nwy brifddinasoedd y cenedloedd mwyaf urddasol ymhlith teyrnasoedd y byd. Onid yw gwarth Ninifeh wedi cael ei wneuthur yn hysbys i bawb? ac onid yw yn wirionedd i'r llythyren ei bod wedi cael "ei gosod yn ddrych?"

Crybwylla y prophwyd hefyd amryw weithiau, y byddai i dân gael ei ddefnyddio yn ninystr y ddinas. "Tân a ysodd dy farau"—"yna y tân a'th ddifa." Y mae Mr. Layard yn barhaus yn sôn am effeithiau tân ar y llechau a'r defnyddiau yno.¹ Yr oedd llawer o'r cerfiadwaith a'r llechau yn tori yn deilchion pan y ceisid eu symud ymaith, drwy eu bod wedi eu calchlogi gan wres. Dywed ar un achlysur, "Yr oedd yn amlwg yn awr bod adeiladau mawrion yn y crug, ac er bod rhai wedi cael eu dystyriwio gan dân, eto yr oedd eraill wedi dianc rhag y cydlogiad." Cwyna yn un o'i lythyrau diweddar, fod llawer o'r cerfiadau wedi cael eu niweidio gymaint gan dân, fel mai prin y goddefent eu symud. Credir hefyd fod y trigolion wedi llosgi llawer o honynt er's caurifoedd, er mwyn eu gwneuthur yn galch!

A dyma gyflwr Ninifeh! y ddinas y bu ei "rhai coronog fel locustiaid, a'i thywysogion fel ceiliogod rhedyn mawr!" Prophwydasai Zephaniah hefyd am Ninifeh, "Efe a wna Ninifeh yn anghyfannedd, yn sych fel y diffeithwch." A pheth a ddywed Mr. Layard? "Crwydrai y llygad dros ddiffeithdir crâs a diffwrwyth, ar draws yr hwn yn achlysurol yr ysgubai y corwynt, gan lusgo gyd âg ef gwmwl o lwch." Fel y mae y brophwydoliaeth wedi cael ei chyflawni i'r llythyren! Pa olygfa a allasai fod yn fwy llwm—pa ddinas yn fwy "gwag, a gorwag, ac anrheithiedig" na Ninifeh, fel y darlunir hi gan ein teithiwr mewn lle arall?—"Yr oedd y *jackals* wrth y miloedd ymhlith yr adfeilion; tra ar droau y byddai y ddylluan yn anfon allan ei hoernad alarus. Ein tân a dafiai ffam welw ar y crug mawr, yn gwneuthur iddo ymddangos yn debyg i fynydd rhyngom a'r awyr, yn dadgan adfeiliad dyn yn gystal a natur."

Ac yn awr, onid oes llais eglur i'w glywed yn y pethau hyn? Onid yw yr Arglwydd fel yn ceryddu yr anffyddwyr a'r "gwatwarwyr sydd yn rhodio yn ol eu chwantau eu hunain, ac yn dywedyd, Pa le y mae addewid ei ddyfodiad Ef?" Onid yw fel yn galw i fyny grugiau gwastadedd Nimroud, fel cynnifer o dystion i lefaru o blaid ei ffyddlondeb i'w air? Ac onid yw ar yr un pryd yn nerthu ffydd y rhai sydd yn credu yn ngwirionedd ei addewidion? Oblegid os yw y cwbl a ragddywedwyd am Ninifeh wedi cael eu cyflawni yn ffyddlawn, yn wirioneddol, ac yn llythyr-enol, a balla un gair a ddaeth allan o'i enau Ef? Mor sicr a bod Ninifeh wedi dyfod yn "wag, a gorwag, ac anrheithiedig," am mai yr Arglwydd a'i llefarodd; mor sicr a hyny y bydd "i'r anialwch a'r anghyfanneddle lawenyachu o'u plegid, ac y bydd i'r diffeithwch hefyd orfoleddu a blodeuo fel rhosyn." "Yn wir, yr wyf yn dyfod ar frys. Amen. Yn wir, tyred Arglwydd Iesu."

¹ Gwel ein rhifyn diweddar, *tudal.* 208.

**AFLESOLDEB YR EISTEDDFODAU PRESENNOL, A'R
ANGHENRHEIDRWYDD AM FODDION MWY
EFFEITHIOL I GOETHI IAITH A LLEN-
ORIAETH CYMRU.**

YN ol pob hanesion sy genym ar gof a chadw am ddefodau yr hen Gymry gynt, yr oedd eu holl lenoriaeth yn gyfyngedig o fewn cyffiniau yr hyn a elwid Barddas; a barna rhai fod y dysgawdwyr yn dri dosbarth, Derwyddon, Beirdd, ac Ofyddion. Dywedir hefyd mai gorchwyl arbenigol y derwydd oedd dysgu crefydd i'r bobl; mai gwaith penodol y bardd oedd gweini mewn llys barn, cofrestru achau tywysogion a goreugwyr y genedl, canu mawl y rhyfelwyr, y pendefigion, a'r duwiau; ac mai parthddysgeidiaeth neillduol yr ofydd oedd meddyginiaeth, dewiniaeth, a cherddoriaeth. Y sawl a wahaniaethant y swyddi fel hyn, a dybiant mai urdd derwydd oedd y barchediac ac uchaf yn y frawdoliaeth, yna bardd, ac yn olaf ofydd: ond dadleua eraill, ar gadarnach seiliau, fe allai, fod bardd a derwydd yn yr hen amserau yn eiriau cyfystyr, a'u swyddi yn gyfunrhyw, ac nad oedd ofyddion yn amgen na dysgyblion ac ymgeiswyr am urddau, tebyg i efrydwyr mewn colegau yn yr oes hon. Hyn sy ddilys, fod y derwyddon oll yn feirdd, os nad oedd y beirdd cyflawn urddedig oll yn dderwyddon. Tybir y cadarnhêir y syniad yna yn y dyfyniad canlynol, "Derwydd yw bardd wrth bwyll, ansawdd, a gorfod; ac ei swydd yw athrawiaethu."—*Barddas*. Gan hyn, ystyrir derwydd a bardd, yn y traethodyn hwn yn gydras, gyfystyr; ac ymddengys mai fel hyn y golygai Caisar hwynt.

Dywedir fod y derwyddon a beirdd yn dra enwog mewn duwinyddiaeth, athroniaeth, meddyginiaeth, a chelfyddydau eraill; neu yn ngeiriau Caisar, eu bod "yn dadlu llawer, ac yn dysgu yr ieuencyd mewn amryw bethau perthynol i'r ser a'u mudiadau, maintiolaeth y ddaear, effeithiau anianyddol, ac ynghylch gallu ac awdurdod y duwiau anfarwol.

O herwydd uchelfri derwyddon Ynys Prydain mewn dysgeidiaeth, anfonid gwŷr ieuainc o Ffrainc, a manau eraill, yma i efrydio; ac mor amrywiol, manwl, a dyrys oedd y gwyddianau a ddysgid iddynt, fel y byddent am yspaid hirfaith yn myned drwy yr holl gylchddysg; a dywedir mai ucheled oedd dysg derwyddon yr ynys hon yn nghyfrif y byd yr amser hwnw, fel, pan gyfodai dadleuon o bwys, hyd yn nod yn mysg dysgedigion Athen, mai yma yr anfonid am benderfyniad; ac â hyn y cytuna geiriau Caisar, "Yma y cyrcha pawb sydd â dadleuon rhyngddynt, ac a ymostyngent i'w penderfyniadau. Meddylir i'r sefydliad (derwyddol) gael ei ddechreuad yn Brydain, ac yn awr, y sawl a ddymunant gael gwybodaeth fanylach yndo a deithiant yno am ddysg."

"Mae un penaeth ar yr holl dderwyddon," medd Caisar, "yr hwn sydd yn meddu awdurdod arbenigol yn eu plith. Pan fyddo y penaeth hwn farw, os bydd i ryw un ragori ar y lleill, dewisir ef yn ei le; ond os bydd amryw ymgeiswyr, ymdrechir am y flaenoriaeth trwy gyfrwng arfau." Y penaeth hwn a elwid gan y Cymry, *Archdderwydd*, ac weithiau *Dryw*; a phreswyliai yn gyffredin, medd hanesion, yn Ynys Môn, mewn lle a elwir

ar ei enw hyd heddyw, *Tre'r dryw*; a chyfanneddai derwyddon, beirdd, ac ofyddion gerllaw iddo, mewn lleoedd a elwir wrth eu henwau, *Bod drudan*, *Tre'r beirdd*, a *Bodowyr*.

Yr oedd y beirdd a derwyddon yn traddodi eu holl ddysg a'u hathrawiaeth ar bob pwnc, fel y cesglir, mewn mydr; a chadarnhêir hyn gan Caisar:—"Dysgir hwy (dysgyblion) i adrodd nifer lliosog o bennillion, fel y bydd rhai yn aros dan eu dysgyblaeth am ugain mlynedd; ac ystyriant fod gosod y pethau hyn mewn ysgrifen yn anghyfreithlawn." O herwydd yr yspaid hirfaith o amser sy wedi treiglo er's oes y gwir dderwyddon, ac oblegid eu gofal eiddig hwythau dros ddirgelu eu cyfrinion rhag y werin, prin y gellir dysgwyl i nemawr o'u daliadau ddisgyn yn ddilwgr hyd atom ni; ond bernir, medd Carnhuanawc, "fod yr hen gyfansoddiadau yn y mesur a elwir Englyn Milwr, yn dangos y dull yn mha un y corffolent y derwyddon eu haddysgiadau cyffredinol; ac ysgatfydd y dichon ambell ban neu ymadrodd fod mor hen a'r oesoedd derwyddol." Dyma ychydig anghreiffiau o'r hen Englyn Milwr, o waith rhai o'r beirdd hynaf sydd ar gael; a gwelir bod y pennill, yn gyffredin, yn cynnwys sylwedd y wers yn y ban olaf:—

"Diaspad wererif yar van kaer,
Hyd ar Duw i dodir,
Gwnawd gwedi traha tranc hir.

A glyweisti a gant Avaon,
Fab Taliesin gerd govyon;
Ni chel grud gystud calon.

Ystafell Cynddylan ys tywell heno,
Heb dân, heb ganwyll,
Namyn Duw, pwy a'm dyry pwyll?

Eiry mynydd, rhudd rhedyn,
Gorchwiban gwynt uwch ewyn;
Goreu canwyll pwyll i ddyn."

Oblegid mai ar ganiad, yn debyg i hynyna, y trosglwyddai y beirdd a derwyddon eu holl athrawiaeth ar bob pwnc, fel y sylwyd eisoes, i'w dysgyblion ac i'r werin, gellir casglu yn deg oddiwrth hynny o'u hanes sydd ar glawr, ddarfod i'w holynwyr, er's oesoedd, yn dra chamsyniol hefyd, dybied mai barddoniaeth oedd prif ddysgeidiaeth y derwyddon: mewn geiriau eraill, bod ein hynafiaid yn talu mwy o sylw o lawer i blisgyn dysg nag i'r cnwullyn, i'r wisg nag i'r corff sylweddol. Er bod y fath dyb yn sarhad noeth ar gymeriad y derwyddon dysgedig, ac yn hynod o ddisail hefyd, eto, ymddengys mai yr amcandyb plentynaid yma ydyw prif sail yr holl eisteddfodau barddol y ceir hanes am danynt. Rhyw faldordd diwerth a diddiwedd ynghylch "dosbarth cerdd dafod," "y mesurau," "y naw gorchan," "y cynghaneddion," "y corfanau," a chant a mil o blisgach disylwedd eraill, mewn cymhariaeth i *wir wybodaeth*, a geir yn hanes yr Eisteddfodau, er's amser Cader Farddonol Caerlleon ar Wysg, yn y chweched ganrif, hyd Eisteddfod Freiniol Aberffraw, yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae gwirionedd ein haerriad i'w weled yn eglur oddiwrth yr hanes cyflawn a roddwyd am yr hen eisteddfodau yn y "Traethodydd" am Ionawr diweddfaf, *tudal*. 46; ac â hyn y cydsaf y dyfyniad cyfieithedig canlynol o waith y Dr. Pughe;—"Gwedi cwmpo o Farddas braidd i lwy'r ddifanocoll, *prydyddiaeth* ydyw yr unig nodwedd a

gadwyd, wrth yr hyn yr adnabyddir yr hen *fardd* gan werin yr oes bresennol; am hyny nid ystyriant hwy ef mewn un golygiad ond fel *prydydd* yn unig." Buasai yn bur ffodus i lenoriaeth Cymru y dydd heddyw, pe nas adnabyddasai neb ond y werin Gymreig "yr hen *fardd* ond fel prydydd yn unig;" ond y gwir ydyw, ysywaeth, nad yw gwŷr yr eisteddfodau, o oes i oes, y rhai a fynant gael eu hystyried yn "noddwyr y Gymraeg," yn "dderwyddon, beirdd, ac ofyddion," yn adnabod yr "*hen fardd*," un mymryn gwell nag y mae'r werin yn ei adnabod; mae ffirwyth eu gweithredoedd yn profi nad ydynt hwythau yn edrych arno "ond fel prydydd yn unig." Mae y gwirionedd amlwg yma yn drychineb o'r mwyaf ar lenoriaeth ein gwlad, ac yn warth dihafal i ni fel cenedl—mae yn llawer teilyngach o'r enw "*Cyrtafan y Beirdd*," na'r eiddo dychymygol y bardd Gray, dan Edward y Cyntaf, yn nghastell Caerathrwy.¹

Mae yn eithaf amlwg nad oedd mydr y derwyddon a chynoeswyr cenedl y Cymry, mwy na'r eiddo rhyw genedloedd eraill, yn cynnwys dim cynghanedd, yr hyn, pondigrbywyll! a eilw'r Cymry er's oesoedd bellach, *barddoniaeth*. Pa gynghanedd sy mewn pethau fel hyn, a ganai yr hen Gymry gynt?

"Seithenin saw di allan, ag edrych
Virdre varanres mor maes Gultneu rhytoes.
Cyddyylan calon milgi
Pan ddiagynai yn mhymhelri cād,
Celanedd a laddai."

Cyffelyb i hyna oedd *cynghanedd* y beirdd Cymreig am oesoedd lawer. Ffaith anhyblyg ydyw, nad oedd barddoniaeth ar y dechreu yn gwahaniaethu braidd ddim oddiwrth ryddiaith, ond o ran mydr yn unig; a dilys nad ystyriai y derwyddon a'r cynfeirdd mo'r cyfryw yn ddim amgen na *gwisg* i ddilladu eu duwinyddiaeth, seryddiaeth, athroniaeth, meddyginiaeth, cyfreithiau, croniclau a hanesion, &c. Ac onid ydyw yn sarhad o'r mwyaf arnom ni fel cenedl, ein bod wedi treulio oesau meithion o'n hamser, a gwario miloedd ar filoedd o'n harian yn yr eisteddfodydd, y cymdeithasau Cymreigyddol, &c., i bwytho ac i glytio hen wisg dysgeidiaeth ein tadau, ac i chwareu efo hi, "fel plant mewn pistyll," heb fod genym braidd ddim o'r corff sylweddol mewn gafael—nemawr ddim llenoriaeth cenedlaethol, gwerth gan estroniaid dysgedig dreulio amser i ddysgu ein hiaith er ei mwyn? Dylasem ystyried mewn pryd nad oedd gosod allan y gwyddorau a'r celfyddydau mewn mydr, ond dull a arferid pan oedd gwybodaeth yn ei babandod—pan oedd yr un dyn yn adeiladu y *bwthyn* y cyfanneddai ynddo, yn saernio yr aradr a'r ôg a'r sawl y trina'i ei dir, yn gwneyd ei fwa a'i saeth, ac yn rhuthro i'r frwydr, pan fyddai achos am hyny, yn erbyn ei elyn. Dylid cofio hefyd nad y Cymry yn unig oedd yn arfer gwisgo eu dysg mewn mydr pan mewn cyflwr hanner gwareiddiedig, eithr mai dyma ddull cyntefig y nifer liosocaf o genedloedd y ddaear; ond fe allai mai y Cymry yn unig a fuont yn ddigon ffol i droi holl nerth eu hathrylith i blethu geiriau—i "ateb cydseiniaid a newid llafariad," gan esgeuluso i raddau gwarthus wybodaethau eraill sy'n dyrchafu cenedl yn ngolwg dysgedigion y byd. Mae yn amlwg wrth hanesion yr holl genedloedd, fel y cynnyddent mewn gwybodaeth a dysg, y rhoddent heibio eu dull babanaidd o draddodi eu holl wybodaethau mewn mydr, gan ddewis

¹ Beaumaris.

rhyddiaith fel dull manylach a chywirach i drosglwyddo eu duwinyddiaeth, eu gwladychddydg, a'u celfyddydau eraill i'w holoeswyr, a neillduo barddoniaeth fel celfyddyd ar ei phen ei hun; a thrychineb mawr i lenoriaeth Gymreig oedd, yn fuasai ein cenedl ninnau yn gwneuthur yr un modd, yn lle treulio eu holl amser a'u talentau i chwareu efo'r plisgyn disylwedd a elwir *cynghanedd*.

Dywed Caesar yr ymgyfarfyddai y derwyddon "ar amser nodedig o'r flwyddyn mewn lle cysegredig ar gyffiniau y Carnwtes, ardal a saif, fel y tybir, yn nghanol gwlad Gâl." Er mai cyfeiriad sydd yma, yn ddiau, at dderwyddon y Cyfandir, eto, o herwydd mai gan dderwyddon Prydain yr oedd holl dderwyddon Ewrop yn cael eu cyfarwyddo, os nad eu llywodraethu, fel yr awgryma Caesar ei hun, a chan y bernir y byddai archdderwydd Tre'r dryw, neu genadon oddiwrtho, yn gynnrychiol yn yr holl brif gymanfaoedd derwyddol yn mhob man, gellir casglu yn deg fod yr un defodau yn arferedig ganddynt yn mhob gwlad a theyrnas. Cynnalient eu cymanfaoedd, yn ol pob tebygrwydd, yn flyneddol, tan yr awyr agored, ar eu gorseddau ceryg, yn y cromlechau a'r maengylchoedd, sef y temlau derwyddol; a thybir bod ganddynt gymanfa fawr arbenig, unwaith bob tair blynedd, lle y rhoddid dedfryd derfynol ar bob pwnc dadleuol, gan nad oedd un llys uwch i apelio ato. Hwyrach mai syrth o'r cyfarfodydd uchelfreiniog hyn yw yr eisteddfodau a'r gorseddau barddol diles a lithrasant o oes i oes hyd atom ni.

Bellach, mae'n llawn bryd i ni ymofyn a ydyw yr Eisteddfodau presennol yn effeithiol i goethi iaith a llenoriaeth Cymru? Mae yn eithaf amlwg mai yr hyn sy'n anheborol anghenrheidiol er ateb y dyben yma ydyw *llyfrau Cymraeg* ar y gwyddorau a'r celfyddydau, ar Ieithyddiaeth, ar Athroniaeth naturiol a moesol, ar Rifyddiaeth a Mesuronïaeth, ar Seryddiaeth, ar Fordwyaeth, ar Hanesyddiaeth hen a diweddar, ar Fasnachaeth a Chyfnewidiadaeth, ar Fwnai a Bancian, ar Drefnidiaeth deuluol a gwladol, ar Wladychddydg, ar Lyfryddiaeth, ar Ddacadryddiaeth a Daeareg, ar Anianaeth, Milodiaeth, ac Adaryddiaeth, ar Amaethyddiaeth a Garddwriaeth, ar Goginiaeth a Dilladaeth, ar Allofyddiaeth a Goberwaith, ar Fedyginiaeth a Llaysiaeth, yn fyr, ar bob gwybodaeth fuddiol ac ymarferol a dueddo i wneyd un yn ddefnyddiol fel dyn a dinesydd. "Rhywbeth," fel y dywedwyd wrthym yn ddiweddar mewn llythyr, "o werth i'r Cymry yn gyffredinol—i'r genedl, sy'n eisieu; ac nid rhywbeth i foddhau y sawl sy ganddynt ddigon o ddysg i ddeall, a digon o arian i brynu llyfrau mewn ieithoedd eraill."

Yn awr, a ydyw yr Eisteddfodau yn diwallu'r Cymry â llyfrau Cymraeg buddiol ac ymarferol i'r genedl Gymreig? Hwyt-hwy ddiwallu y genedl â llyfrau Cymraeg! Pa lyfrau Cymraeg gwerth eu darllen a'u myfyrio gan y Cymry a gyhoeddwyd erioed gan Eisteddfod? Ni cheir dim cymaint ag un o'r fath nodwedd, hyd y cofir, yn mysg eu holl gynnrychion. Mae yn wir i'w twyll a'u pleidgarwch achlysuero, fwy nag unwaith, i'r Cymry gael cynnyrchion lled wych; ond gŵyr pawb nad i'r Eisteddfodau y mae diolch am yr rhai hyn. Y gwir yw mai rhai o brif nodweddion yr Eisteddfodau ydyw—gwario mwy ddeng waith o arian am denti, a chiniawau, a chwrrw, a chanu, a dawnsio, a firilion anffuddiol a ffol, rhy liosog i'w henwi, nag a roddant am lenoriaeth o fath yn y byd; rhoddi testunau allan, a pheri cynnyrchu cyfansoddiadau heb fod o ddim budd ymarferol i'r

genedl, a pheidio talu un ddimai at argraffu y cyfryw, yr hyn, fe allai, yw eu bai lleiaf, gan na fydd eu cynnyrchion, yn gyffredin, yn werth eu darllen; gwyro barn, ac arfer pob twyll llenorol, "yn ngwyneb haul a llygad goleuni," gan roddi y gwobrau i etholedigion y pwyllgorau a'r beirniaid am gyfansoddiadau y bydd hyd yn nod arnynt hwy eu hunain gywilydd eu gwled yn ngwyneb y rhai a wrthodant! rhoi mwy na hanner eu gwobrau, yn fynych, am draethodach a chanŷon Seisnig, a dwyn ymlaen eu gorchwylion braidd oll yn Saesneg; cyhoeddi eu gloddestau—llawer addasach enw arnynt nag eisteddfodydd—dros bedryfan byd, a gwahodd beirdd a llenorion tlodion a llafurus "Cymru benbaladr" iddynt, a'u gyru adref wed'yn yn wagfol, gwaglogell, a somedig; a gwneyd hyn i gyd, a mil mwy, *yn enw llenoriaeth Gymreig*, gan lefain, "Oes y byd i'r Iaith Gymraeg!" Ar fyr, maent yn gwirio i'r llythyren, yr hyn a ganodd hen Fardd Nantglyn i un o'r gloddestau hyn:—

"Wfft rhag deddf Gwent eisteddfod—o hel beirdd
I hulo bwrdd parod;
Rhoi hufen gweren y gôd,
Sis gethin i Sais gathod.

Rhoi'r mēr iach wiwber a chweg—a'r arian
Am weryru Saeaneg;
Prin gwnaeth Honddu dalu'n deg,
O barth anian Brythoneg.

Y brasder tēg chwēg a chwyrn—a yrodd
I iro crach febgryn;
Beirdd Cymru 'n ol canu y cyrn,
Cul rwyg yn cael yr esgryn."

Byddai profi yr holl wirioneddau hyn, ac ugeiniau eraill a ellid nodi, am afesoldeb a chamdwybethau Eisteddfodydd, yn llawer rhy faith ar hyn o bryd; ond gŵyr pob un sy'n arfer darllen eu hanes, er "Eisteddfod Fawr Caerfyrddin," yn 1450, hyd "Eisteddfod Freiniawl Aberffraw," 1849, eu bod yn wirioneddau ansyfladwy am danynt oll, braidd yn ddiethrad. Rhoddwn ychydig anghreiffiau o ymddygiadau rhai o'r eisteddfodau hynotaf a gynnaliwyd, allan o ugeiniau y ceir eu hanes yn y gwahanol fisolion, &c.

Dechreuwn ar Eisteddfod Fawr Caerfyrddin, 1450, neu 1451. Nis gwyddom ar y ddaear, yn awr, pa faint o arian a wastraffwyd yn hon; ond gwyddys iddi barhau *tri diwrnod ar ddeg*, o leiaf; ac mai'r prif orchwyl a wnaed ynddi oedd cyfyngu awen Cymru o fewn "hualau Dafydd ap Edmwnd," a thrwy hyny wneyd rhwygiad rhwng beirdd De a Gwynedd, a barhaodd dros dri chant a hanner o flyneddau, sef hyd y flwyddyn 1819; ond y gwir yw na waeth i'r Cymry mo'r llawer pa mor fyrion na pha mor hirion fyddo "hualau cerdd dafod;" canys nid yw yr holl gynnyrch barddonol sydd ar gael, a gyfansoddwyd yn ol "rheolau braint a defawd," er's amser Gwyddon Ganhebon hyd Awdl Nicander, pe yn un bwrnel efo'u gilydd, yn ddim i'w cymharu, o ran budd ymarferol i'r genedl yn gyffredinol, & Salmaw Emwnt Prys, a Hymnau Williams Pant-y-celyn. Pa fodd bynag, mae ychydig bethau yn "Ystatud Ieuan Llawdden" teilwng o sylw pob dyn. Dyma ddernyn a allai fod o fudd ymarferol arbenig i "Feirdd a Chrachfeirdd," yn neillduol, ar ddyddiau eu Heisteddfod Farddol:—

“Hefyd, gorchymyn i bawb nag ymwnelout ág arferoedd rhodiaid neu grwydriaid, ac nad elont i *Dafarnau*, a chornelau cuddiedig diorffordd, i *ddiota*, nag i chwareu cardiau, neu ddisiau, neu unrhyw chwareu anghyfreithlawn arall, am arian, nag am dda yn y byd; ac o gwnant, pawb yn swyddog arnynt, a dwyn a fo yn eu pyrsau, a’i roi yngoleuad yr eglwys. Hefyd, na ddygont ac na chanlynont na sinau na rhigymau gwaradwyddus, nag un cyfryw â hyny; na gwatwar, na dynwared, na chablu, na dychymmyg celwydd, na’i ddywedyd ar ol arall; nag yspiau, na dwyn athrawd, a chwedlau argywedus, dan boen ffîn a charchar, a cholli pob da wrth gerdd. Hefyd, na wnelont gynhen, na ffrayau, na thwyll, na lladrad, na murn, nag un anllywodraeth arall, cynllwyn ac ymganlyn â lladron, a dirieidwyr, ac eraill annosparthus ar gamp ac ymddwyn, dan boen ffîn a charchar; canys gwŷr wrth gerdd a ddylaint ddwyn arferion daionus a molianus, ac ymadroddion hawddgar, heddychlawn, a charedig, ac ufudd a gwasanaethgar; ac i bawb o gyweiriaid y brenin a’i swyddogion, ymddwyn yn ddosparthus, a’u cynnal, a’u cadarnhau ymhob ffyddlondeb dyledus, a doddi drych da i bawb, fal y gwedda i wŷr wrth drefn celfyddyd, a gwybodau llesawli doethineb. * * * Hefyd, nad elai (gŵr wrth gerdd) ar wyl na gwymlabsant o’r tŷ y delai iddo gyntaf tra parhai y wlêdd yno, heb genad gŵr y tŷ, neu wahoddiad gan arall, dan boen colli ei radd a’i glera, a’i roi wrth oleuad yr eglwys; ac os brwysga (meddwa) yn y wlêdd, colli ei radd. Hefyd, os gwna leteiaeth, neu unrhyw anysberwyd arall, am wraig neu forwyn, lle y dêl, neu ymganlyn â phuteiniaid, a benywod anllywodraethus, dwyn ffîn a charchar, a cholli ei glera hyd yn mhen saith mlynedd.”

Mae yn resynus meddwl fel y mae yr Eisteddfodau presennol wedi esgeuluso pob peth, braidd, oedd deilwng, gwladgarol, ac ymarferol yn nghynnulliadau barddol eu hynafiaid, fel nad oes ganddynt erbyn hyn nemor ddim o’u gweddillion ond yr us a’r cibau. Pe buasai cyfreithiau moliannus Ystatud Llawdden mewn grym yn ystod yr Eisteddfodau diweddar, y fath nifer o’r beirdd a’r crachfeirch a fuasant yn myned adref o honynt wedi bod “dan ffîn a charchar,” â’u pyrsau yn weigion ar ol i “bawb fod yn swyddog arnynt;” canys arferiad cyffredin “gwŷr wrth gerdd,” yn ystod yr eisteddfodau y dyddiau hyn, yw myned i “dafarnau a chornelau cuddiedig, diorffordd, i ddiota a brwysga, ac ymddwyn yn anllywodraethus.” Yn wir, mewn tafarnau y mae y nifer amlaf o’r “Cymreigyddion”(?) yn cynnal eu cyfarfodydd; a’r tafarnau, fel y gwŷr pawb, sy’n cael

“Y brasder tég, chwég, a chwyrn”

sydd ar Eisteddfodau yr oesau hyn; ac o ran dim budd sydd yn deilliaw oddiwrthynt i’r genedl Gymreig, mae yn llawn bryd ysgrifenu ICHABOD uwch eu penau mewn llythyrenau penigol; ac i’r holl Gymry ddywedyd, “Pa ran sydd i ni mewn Eisteddfodau? nid oes i ni etifeddiaeth yn meibion Dafydd ap Edmunt. O Gymry! ewch i’ch pebyll.” Ond, y pwnc dan sylw, ydyw, Beth a gynnrychodd “Eisteddfod Fawr Caerfyrddin,” yn amser Gruffydd ab Nicolas, *er coethi Iaith a Llenoriaeth Cymru?* Mae yr ateb yn fyr ac amlwg—DIM.

Yr Eisteddfod nesaf y dywedir ychydig am dani, ydyw, yr un “a gynnalwyd yn Nghaerfyrddin, yr 8fed, 9fed, a’r 10fed o Orphenaf, 1819.” Yn

ol adroddiad awdurdodol yr Eisteddfod, "swm yr arian a gafwyd i gynnal y Gymdeithas," oedd, *P.340 6s.*; ond dywedir yn "Seren Gomer," *Gorph. 28ain, 1819, t.d. 235*, fod swm "y cwbl oll," yn *P.472 13s. 6c.* Yn awr, mae yn bryd gofyn, Pa ffrwyth a gafodd y genedl ar y swm golygus yma? Nid ydym yn gwybod i un ddimai o honynt gael ei rhoi at ddwyn traul argraffu dim oll a ddanfonwyd i'r Eisteddfod; a chymaint ag oedd yn fuddugol yn yr Eisteddfod hono sydd ar gael yn "Awen Dyfed"—llyfryn pur ddrud—ydyw "Awdl ar farwolaeth y godidog Flaenawr milwrol, Syr Thomas Picton, gan Gwallter Mechain;" ac un englyn o waith yr un awdur, "ar y Delyn Newydd-dant;" ac "Awdl ar Farwolaeth y Frenhines Siarlot, gan Guttyn Peris." Dyma yr holl gynnyrch buddugol (?) a gafodd y Cymry, fel ffrwyth y *P.472 13s. 6c.* a wariwyd yn Eisteddfod Caerfyrddin, yn 1819! Mae yr awdlau yn dangos i'r awdwyr gymeryd gofal neillduol i osod y cydseiniad, &c. yn gyson â rheolau Dafydd ap Edmwnd; a bod y beirdd a'u cyfansoddasant yn meddu cryn athrylith; ac y maent yn eithaf, o'r fath ag ydynt, ar a wyddom ni, i ddi-fyru y sawl sydd ganddynt ddigon o amser segur i'w dreulio efo y fath bethau; ond o ran dim lles ymarferol a ddeillia i'r genedl yn gyffredinol oddiwrthynt, ni fuasai waeth eu claddu gyda'r Campdraethiadau a ddygwyd ymlaen i'r eisteddfod hono, na'u cyhoeddi fel y gwnaethpwyd. Diau i'r Cymry fel cenedl gael llawer mwy o les oddiwrth aml draethodlyn grôt a dimai, nag a gawsant oddiwrth y ddwy awdl a'r englyn crybwylledig, a gostiasant dros *bedwar cant a hanner o bunnau!*

Heblaw hyn oll, dechreuodd "ewin fforchog" *camfeirniadaeth* ymddangos yn bur amlwg mor foreu ag yn yr eisteddfod hon; canys yn lle rhoi y wobr i R. ab Gwilym Ddu o Eiflon, yr hwn a'i pioedd, am yr englyn newydd-bleth ac awenyddol yma,

"Peiriant i gerddor parawd—areithfa
Yr wythfys a'r ddwyfawd;
Tery eithaf tri wythawd,
Eurlaes gorff yn arllwys gwawd,"

rhoddwyd y tegan i'r Parch. Walter Davies, Periglor Manafon, am yr englyn anawenyddol hwn:

"Plethiadau tannau tynion—y Delyn
I'r dilesg feddylion,
Odlau saint yw adlais hon,
Llais yn fawl llys nefolion;"

am yr hwn y gofyna R. ab Gwilym Ddu, "Onid cynghanedd sathredig, a meddyliau cyffredin ac arwynebol, ac nid pur briadol i'r testun sydd yma?" "Pa fodd, attolwg," eb efe ymhellach, "y cydsyniodd (Iolo Morganwg) i farnu *gwobrow newydd* am *hen linell* wedi ei mynych sathru cyn geni Gwallter nac Iolo? sef, 'Plethiadau tannau tynion;' gellir dyfynu ei swm a'i sylwedd o agos bob hen rigymlen." O herwydd y gamfeirniadaeth adgas yma, canodd Pedr Fardd fel hyn:

"Englyn i'r Delyn wnai 'r Du,
A gorchest oedd ei gyrchu.
Eu rhwb arno rho 'i beirniaid
Yn Nghaerfyrddin, blin fu 'r blaid.
O annoeth fodd yn 'wyth fawd'
Wrth ethol yr aeth 'wythawd,'

Gwyltio ar barch Gwallter bert,
A throi heibio waith Robert.
Ond beirdd clau, cynlluniau llon
Yw Dafydd¹ a Du Eifion.
* * *

“Bwrn ydynt i'r beirniadon ;
Cofus, arawydus yw 'r son.”

Fel hyn, aeth Eisteddfod Caerfyrddin, am y flwyddyn 1819, heibio yn warthruddedig o herwydd ei phleidgarwch ; ac heb wneyd *dim at goethi iaith a llenoriaeth Cymru*.

Awn heibio i liaws o fân eisteddfodau a gynnaliwyd ar ol hon, at “*The Royal Denbigh Eisteddfod, held in September, 1828.*” Mae cyfrif trysor-ydd yr eisteddfod yma yn dangos i P.1354 15s. 11c. o arian gael eu casglu ati. Dyma ddigon o arian i goethi cryn lawer ar iaith a llenoriaeth Cymru, pes iawn ddefnyddiasid hwynt ; ond nid yr hyn a allasid wneyd ydyw ein pwnc, ond yr hyn a wnaed : ac nis gall un Cymro gwladgarol edrych ar hyny heb wrido ac eiddigeddu ; canys o'r holl swm o dros dri chant ar ddeg a hanner o bunnau a wariwyd yn Ninbych dan rith dyrchafu llenoriaeth Gymreig, ni chafwyd ond un traethodyn bychan “Ar Anghen-rheidrwydd Cyfraith i gynnal Moesau Da,” a ddichon fod o ddim budd i'r genedl yn gyffredinol ; ac o ran dim a wnaeth yr eisteddfod, ni fuasai hwnw na dim arall a ddanfonwyd iddi, byth yn cael gwisg argraffyddol am dano. Edr. “*The Gwyneddigion Preface,*” p. v. A chyn y gall neb feddiannu y traethodyn telediwr crybwylledig, rhaid talu tua chwe swllt am y llyfr a'i cynnwysa—“*The Gwyneddigion*”—cynnwysiad yr hwn, oddieithr y traethawd a nodwyd, nid yw yn werth chwe ffyrlling i'r Cymry fel cenedl ! Mae y barddoniaeth a ddanfonwyd i'r Eisteddfod hon yn ddigon tlos a lled gywreinbleth ; ond y mae llawer peth tlws heb fod yn fuddiol ; ac am rywbeth o fudd i genedl y Cymry yr ydym ni yn ymofyn.

Y nesaf a gaiff sylw byr genym, ydyw, “*The Royal Eisteddfod, held at Beaumaris, on Tuesday 28th, Wednesday 29th, Thursday 30th, and Friday 31st, August, 1832.*” Swm y casgliadau at yr Eisteddfod wastraffus yma oeddynt P.1104 16s. 4c. ; ond er maint y swm, aeth y *balls*, y *concerts*, a'r holl wagedd cydfynedol â'r Eisteddfod mor ddrudion, fel yr oedd y pwyllgor neu yrwrai mewn dyled erbyn diwedd y pedwerydd dydd, o naw punt a phedwar ugain a chwe swllt a grôt ! Ni roddodd yr Eisteddfod ryfedd hon, mwy na'i chwirydd, un ffyrlling at gyhoeddi y cynnyrchion buddugol nac anfuddugol ; ac o'i rhan hi, ni fuasai y Cymry byth yn gweled un linell a ddanfonwyd iddi, pe buasai hyny yn rhyw golled iddynt : a phan gyhoeddodd gwladgarwr o Lundain y cyfansoddiadau buddugol, &c. yr oedd y llyfr yn llawer drutach na'r cyffredin o'i faint—dim llai na saith swllt a chwe cheiniog ; ac er hyny, dywedir mai rhy brin y diangodd y Cymro haelfrydig heb fod yn golledwr, gan mor ddiwerth oedd y llyfr yn ngolwg y wlad ! Rhoddodd pwyllgor yr Eisteddfod hon ddau destun allan, y gallasai traethodau iawn arnynt, yn iaith y wlad, fod o ddifyrwech a buddioldeb neillduol i'r genedl ; sef Ynys Mon, ac Amaethyddiaeth.

¹ Dewi Wyn o Eifion, tlws teilwng yr hwn, am ei awdl yablenydd ar Elusengarwch, a roddwyd

“I'r Dryw bach drwy bleidiach blin !”

sef i E. Hughes, Person Bodfarri, yn Eisteddfod Dinbych, Hydref 6ed, 1819.

Ysgrifenydd traethawd pur ddyddorol ar y testun olaf, yn Gymraeg lân, gan —; a “rhoddwyd canmolïaeth iddo mor felus a’r mel, ac mor lithrig ag olew; ond rhoddwyd y tlws a’r wobr i fab y prif ddoethawr; a gwnaed pob ymdrech gan awdurdodau yr Eisteddfod i luddias yr — i gyhoeddi ei draethawd. Dadleuent yn hyf, weithiau, mai eiddynt hwy ydoedd—erfynient yn daer bryd arall am ei gael, oblegid dichon y caent arian o waddol rhyw Eisteddfod, i gyhoeddi rywbyrd rhyw ddarnau o hono. A gorfu i’r awdur ysgrifenu bedair gwaith at yr awdurdodau am dano—ac nid ceiniog oedd y llythyrdoll y pryd hyny—a galw ar ol hyny draw draw yn nhŷ yr ysgrifenydd i ddadlu am ei gael; ac o’r diwedd, wedi hir ddysgwyl, daeth gyda y post, a chryn draul ar ei ol, a chafodd ei argraffu. Yn mhen hir oes ar ol hyny, drwy lawer o gymhelliad, ac wedi i’r awdur gael pob hamdden i’w adolygu, y medrwyd cael traethawd y wobr i wyneb y goleuni: ac yn wir nid rhyw gampus iawn ydyw yn y diwedd.” Am y traethawd gwobrwyol hwn, dywedodd aelod pwyllgor Eisteddfod wrthym yn ddiweddar, nad ydyw yn werth dwy geiniog; a hwyrach mai o herwydd hyn y cynnygia Eisteddfod Freiniol Rhuddlan wobr o ddeg punt ar hugain am draethawd eto ar Amaethyddiaeth. Am y traethodau ar Ynys Mon, a ddanfonwyd i’r Eisteddfod hon, yn Saesoneg y maent; ac am hyn nis dichon iddynt fod o ddim budd i genedl y Cymry; a phe buasent yn Gymraeg, gwŷr pob llenor a’u gwelodd, y buasai cyfieithiad da o’r “*Mona Antigua*” yn llawer mwy dyddorol na’r goreu o honynt. Dyma ranau o ffyrdd Eisteddfod fofstfawr Caerathrwy; a barned y wlad pa les a wnaeth er coethi iaith a llenoriaeth Cymru. Am y Farddoniaeth, mae yn gyffelyb i gynnyrchion yr Eisteddfodau yn gyffredin—yn cynnwys digon o glec, a chryn swrn o ddefnyddau barddonol; ac y mae yn eithaf i ddefnyddu dynion sydd yn meddu amser, chwaeth, a medr i ddarllen y fath gymhenbleth, ac heb dueddiad ynddynt i ddarllen a myfyrio pethau mwy pwysig ac adeiladol.

Am un Eisteddfod eto y soniwn yn bresennol, sef yr un or-rwysgfawr “a gynnellid yn Nghastell Caerdydd, ar yr 20fed, 21ain, a’r 22ain o Awst, 1834, dan lywyddiaeth yr Anrhydeddus Ardalydd Bute, yr hwn, ar ol i ddefodau arferedig y cyfryw achlysur gael eu cyflawni gan Mr. Taliesin Williams, *alias* ab Iolo, a gyfarchai y gwyddfodolion lhosawg a destluswedd âg araeth ragorawl i’r perwyl, (yr hon ni oddef ein terfynau i ni ei hadrodd,) gan ddiweddu gyda’r arwydd-wers—

“Oes y byd i’r Iaith Gymraeg.”

Swm yr arian a gasglwyd at hon, oedd P.2512 16s. 0c. Mae adroddiad syml o’r dull gwarthus y gwariwyd y swm aruthrol yma, a godwyd yn enw llenoriaeth Gymreig, yn fwy grymus na dim arall a ellir ddechymygu. Yr holl wobrau a roddwyd oeddynt tua P.200. O’r swm yma, rhoddwyd tua P.81 am draethodach a chanŷon Seisnig. Rhoddwyd P.523 13s. 5c. at glaf dai, ac nid at lenoriaeth Gymreig; a gwariwyd yr holl weddill, o fwy na dau gan ar bymtheg o bunnau am fwydydd a diodydd, am ganu a dawnsio, &c.; ond ni roddwyd un geiniog, hyd y gwyddom, at gyhoeddi y cyfansoddiadau o’r fath ag oeddynt. Mae yr ychydig linau a’r ffugyrau uchod yn llefaru cyfrolau yn erbyn dull gwarthus yr eisteddfodau o wario y miloedd punnau arian a gyfodir oddiar y wlad dan lefain, mewn rhith, “Oes y byd i’r Iaith Gymraeg.” Yr oedd rhai testunau digon dyddorol

gan yr Eisteddfod hon ; megys, 1. Derwyddon Ynys Prydain. 2. Amrywiadau yr Iaith Gymraeg. 3. Amaethyddiaeth a Garddwriaeth boreuol Cymru. 4. Y manteision cynnyrchedig oddiwrth gadwraeth yr Iaith Gymraeg ; a Nodweddu Cenedl y Cymry. Ond, ysgrifenydd yr olaf yn Saesneg ; nid oedd ymgeiswyr am yr ail a'r trydydd ; ac am yr "Awdl ar Dderwyddon Ynys Prydain," a gafodd dlws y gader, gwerth 5*p.*, a gwobr o 15*p.*, nid oes ynddi na chynghanedd, nac iaith, na delfrydau, gwerth i neb dreulio mynyd byth o amser uwch ei phen, oddieithr er gweled o herwydd pa fath sothach y gwaria'r eisteddfodydd filoedd o bunnau o arian a ddylent gael eu rhoddi yn ol pob cyflawnder a thegwch, heb son am wladgarwch, at goethi iaith a llenoriaeth Cymru. Heblaw hyn oll, os gwir i'r pwyllgor roddi *ugain punt* i hen Fardd Nantglyn (coffa da am dano) am beidio canu eu cnul, bu'r Eisteddfod ragrithiol wastraffus hon yn foddion, nid yn unig i beidio cynnyrchu dim ei hunan er lles y Cymry, ond i attal rhagddynt ffrwyth awen ffraethlem yr awenydd godidog hwnw. Wft i ddeddf Caerdydd Eisteddfod!

Yr amser a ballai i ni son am Eisteddfodau Caerwys, Gwrecsam, Gwydd-grug, Caerynarfon, Aberhonddu, Llynlleifiad, Llundain, Abergenni,¹ &c., hyd Eisteddfod Freiniol Aberffraw, anghlod yr hon sy'n hysbys bellach dros bedryfan byd. Maent oll yn dwyn yr un ddelw—oll yn gwneyd yr un faint o les i genedl y Cymry a'u gilydd, sef yw hyny—dim yn y byd ; yn wir, ofnir eu bod yn waeth na diles—eu bod yn llygru'r cenedl.

Mae yn resynus—yn wirioneddol resynus, meddwl bod cynnifer o filoedd ar filoedd o bunnau wedi eu gwario môr ddiles ac ofer—digon o arian i roddi llyfrau mawrion a champus, ar bob cangen o wybodaeth fuddiol, mewn Cymraeg lân loew, yn nghyrhaedd pob bachgen o Gymro yn yr holl Dywysogaeth—digon o arian wedi eu gwastraffu, *yn enw Cymraeg*, ag a ddyrchafasent ein llenoriaeth yn gydradd, yn ol ein nifer, â'r eiddo Albaniaid a Saeson ; ac i wneyd ein hiaith yn werth i holl lenorion y byd ei dysgu er mwyn ei thrysorau. Mae'n resyn ein bod yn gwario y fath symiau mawrion, yn yr eisteddfodau, i *ddim* ond er gweini tipyn o *sport*, am ddiwrnod neu ddau bob blwyddyn neu amlach, i *estron genedl!* Ai tybed, mewn difrif, fod rhyw ynfydrwydd cynnwynol yn dreftadaeth dragywyddol i ni fel cenedl?—bod geiriau yr apostol Paul gynt, wrth ein hynafiaid, yn gymhwys atom byth a hefyd? sef—"O! y Galatiaid ynfyd, pwy a'ch llygad-dynodd chwi, fel nad ufuddhæech i'r gwirionedd?"

Gydwladyr hoffusol, ein llawenydd a'n coron,—mae y byd oll o'n hamgylch yn myned yn ei flaen yn gyflym ; mae pob cenedl wareiddiedig dan haul yn ymddyrchafu mewn gwybodaeth a dysg—yn ymloewi yn y gwyddorau a'r celfyddydau—yn effeithio diwygiadau grymus a moliannus yn mhob dim er ymgoethi ac ymwellhau ; tra yr ydym ni, cenedl y Cymry, a ymfrostiwn bod ein talentau mor fawrion, a'n hathrylith mor gyrhaedd-bell a'r eiddo un genedl dan y nef, yn chwareu fel plantas efo "chynghaneddion a mesurau"—plisg a chibau dysgeidiaeth ein hynafiaid—ac yn gwastraffu miloedd o bunnau yn flyneddol er eu mwyn yn ein heisteddfodau diles a llygredig. Gadewch i ni ymddeffröi, ac ymddattod o "hualau" ein hynafiaid ;—bydded i holl wir lenorion y Dywysogaeth ymuno â'u brodyr, a phenderfynu, fel un gwr, fyndu diwygiad yn yr eisteddfodau, costied a

¹ Abergavenny.

gostio, neu droi cefn arnynt ar unwaith ac am byth—peidio eu porthi âg un linell o ffrwyth yr awen Gymreig : nid awen i gleician cydseiniad a newid llafariad a feddylir, cofier, ond awen i gynnyrchu cyfansoddiadau teilwng ar y gwyddorau a'r celfyddydau—awen i ddyrchafu y genedl mewn gwir wybodaeth—awen i godi ein hiaith a'n llenoriaeth i sylw y byd llenyddol. Peidiwn a bod môr ffol a thafu ein gemau cenedlaethol i gael eu troi a'u trafod, eu llurgunio, eu sathru, a'u gwrthod gan ryw grach *aristocrats* llenorol, nad ydynt yn malio dim ynom ni na'n hiaith, nac yn meddu na doniau na gwybodaeth i brisio a barnu ein llenyddiaeth.

Bydded i holl lenorion gwladgarol Cymru ymuno yn un gymdeithas rymus a gweithredgar, a fyddo yn effeithiol i roi gwyneb newydd ar lenoriaeth ein gwlad—cymdeithas y byddo ei haelodau yn alluog i gynnyrchu gweithion ar y gwyddorau a'r celfyddydau y byddo yn werth i Saeson, Albaniaid, a Ffrancod, ddsygu yr iaith Gymraeg er eu mwyn—cymdeithas a fyddo yn effeithiol i godi trysorfa helaeth er cynnorthwyo awdwyr rhyglyddol i gyhoeddi eu cyfansoddiadau yn rhad, ac i gael gwobr deilwng am eu llafur hefyd ; a chymdeithas y byddo nodwedd llenyddol ei haelodau yn rhy werthfawr yn eu golwg hwy a'r wlad, i'w aberthu yn anystyriol ar allorau twyll llechwraidd, pleidgarwch sectarol, a rhagfarn bersonol. Os rhaid i'r Eisteddfodau a'r Cymreigyddion (?) presennol gael myned ymlaen yn eu hynfydrwydd, heb geisio ymddiwgyio nac amcanu at ddim ond cadw trwr, er cael arian boneddigion gwladgarol i'w gwario am oferedd, dan rith-floeddio, o flwyddyn bwygilydd—"Oes y byd i'r Iaith Gymraeg! Oes y byd i'r Iaith Gymraeg! Oes y byd i'r Iaith Gymraeg!!!" a hwythau yn gwneyd dim at estyn ei hoes, ond yn hytrach yn prysuro ei thranc, gadawed pob llenor eu heisteddfodau iddynt hwy yn anghyfanedd, ac ymuned â'i holl frodyr llenyddol i ffurfio cymdeithas a roddo brawf i'r byd fod ei haelodau yn ddynion o awen, a dysg, ac o wybodaeth a gwladgarwch, ac nid creaduriaid dylion yn cadw swm, fel deiliaid yr Eisteddfodau, heb gynnyrchu dim er coethi yr iaith a dyrchafu'r genedl.

Ffurier y gymdeithas dan sylw yn ddioed, a galwer hi—"Cymdeithas Llenorion Cymru," "Eisteddfod Llenorion Cymru," neu ryw enw arall a ddangoso ei natur a'i hamcan. Dewiser rhyw fancer cyfrifol a rhyw foneddwr gwladgarol arall yn drysoryddion iddi. Etholer dau ysgrifenydd hefyd i'r gymdeithas ; un i gadw cyfrif o'r trysor, a'r llall yn ysgrifenydd gohebol. Dylai yr olaf fod yn llenor o ddsyg a chwaeth gywir. Bydded i bob llenor yn Nghymru, a phob gwir hoffwr llenoriaeth ei wlad, ddyfod yn aelod o'r gymdeithas, a chyfranu yn haelionus, yn ol ei sefyllfa, i'w thrysorfa. Anfoned pob un a ddymuno fod yn aelod, ei enw, ei gyfrodriad, a phob gohebiaeth a ddygo berthynas â'r sefydliad, ac â llenoriaeth Gymreig, i'r ysgrifenydd gohebol. Anfoner cylchlythyr yn dangos natur a dyben y gymdeithas, i holl foneddigion a goreugwyr y genedl, ac at bawb o'r fath yn y Deyrnas Gyfunol, y tybier eu bod yn achleswyr llenoriaeth Gymreig, i erfyn eu nawdd a'u cyfroddion.

Gwyddys mai yn enw llenoriaeth Gymreig y mae yr Eisteddfodau yn gallu codi y fath symiau mawrion ; a chredir yn ddiysgog nad ar y boneddigion sy'n cyfranu yr arian y mae y bai yn gorphwys, eu bod yn cael eu gwastraffu a'u camddefnyddio yn yr Eisteddfodau, ond mai wrth ddrysau pwyllgorau eisteddfodol yn unig y mae holl wastraff, a holl anffrwythlonder ac aneffeithioldeb yr Eisteddfodau, er coethi iaith a llenoriaeth Cymru,

yn sefyll. Mae'r boneddigion yn cyfranu eu harian er dyrchafu iaith a chenedl y Cymry, ac ni wyddant hwy fod neb addasach i drefnu yr arian, er lles y genedl, na'r rhai sy'n cynhyrfu am eisteddfodau, ac yn cymeryd y flaenoriaeth yn eu pwyllgorau; pan, mewn gwirionedd, mai yn y tafarnau y mae aml eisteddfod freiniol (?) wedi cael ei chynllunio, a hyny gan ddynionach hanner llawnion o ddiod feddwol, y sawl na fyddant yn gwybod nac yn malio mwy am lenoriaeth Gymreig, na pha gyfansoddiadau a dueddant i lesoli y genedl, na'r gwydrau cwrw a fyddant wrth eu min; ie, gellir olrhain rhai eisteddfodau breiniol, pur ddiweddar, i ryw dafarnwr cyfrwys a chraffolwg, mewn pentrefi distadl, anghysbell, a diorffordd, nad oedd dim oll yn eu golwg ond cael tipyn o adfywiad ar y fasnach feddwol oedd ar ogwydd yn y fath leoedd; a gwelwyd y cyfryw lynfasnachwyr annysgedig ac anwybodus, cyn hyn, yn brif arweinwyr pwyllgorau eisteddfodol! Gan hyny, pa ryfedd fod y fath eisteddfodau mor anuddiol, anghymreigiol, ac unochrog, ac yn wir mor llygredig? Dangoser pethau fel hyn yn deg, ynghyd â'r afresymoldeb o honynt, i'r boneddigion; a dangoser iddynt hefyd mai yn nwyllaw *llenorion*, bid siwr, y sawl a wyddant beth yw anghen llenyddol y Cymry, ac a fedrant ei gyfarfod â chynnyrchion priodol, y mae llenoriaeth y genedl i fod—dangoser y pethau hyn a'r cyffelyb i'r boneddigion, a diau y ceir nawdd parotaf ac eiddgaraf pob gwladgarwr o honynt i Gymdeithas, neu Eisteddfod Llenorion Cymru.

Gwedi penderfynu cael sefydliad gwir lenyddol o'r fath, byddai yn fuddiol i gynnifer o lenorion Cymru, ag a allont, gydymgyfarfod mor fuan ag y byddo dichonadwy mewn rhyw dref a farno y cyffredin o honynt yn fwyaf cyflêus, er ffurfio cynlluniau a rheolau i ddwyn amcanion y gymdeithas i weithrediad, i benderfynu ar ba gangenau o wybodaeth y mae y Cymry yn sefyll mewn mwyaf o anghen tracthodau; pa lwybr a fyddai yn fwyaf effeithiol i roi y cyfryw lyfrau yn nwyllaw pob Cymro;—i ystyried a allai y gymdeithas yn ebrwydd gymeryd cynnyrchion teilwng ei gwahanol aelodau dan ei nawdd ei hunan yn hollol, ynte mewn rhan;—i benodi argraffwr iddi ei hun, ac i drefnu llyfrwerthwyr yn mhob sir yn Nghymru—oll, bid siwr, yn aelodau o'r gymdeithas;—i ystyried yn mha leoedd, a pha mor fynych y byddai yn anghenrheidiol i gynnifer o'r aelodau ag a allont gydymgyfarfod;—i gytuno a fyddai gan yr *holl aelodau* bleidlais yn nghymeradwyad y cyfansoddiadau a gymerai y gymdeithas dan ei nawdd, ynte a ymddiriedid hyny i *bwyllgor etholedig* gan yr holl aelodau; ar fyr, i gydymgyngori er gwneyd pob peth a dueddo i *gyfoethogi a choethi iaith a llenoriaeth Cymru*.

Tybir bod yr anghenrheidrwydd am y fath gymdeithas yn Nghymru, a'r buddredion a ddeilliant trwyddi i'r genedl Gymreig ac i'w llenorion, yn rhy amlwg i ofyn unrhyw eglurhad. Yn awr, lenorion Cymreig awengar, cyfodweh, ac ymafwch yn eich gorchwyl, fel gwŷr; ymohebwch â'ch gilydd drwy Gymru benbaladr ynghylch y gymdeithas tan sylw, a pherffeithiwch y cynllun, neu ffurfiwch un gwell, a rhoddwch ef mewn gweithrediad yn ddianod. Peidiwch a dysgwyl wrth eich gilydd yn unig, gan sefyll eich hunan ar hyd y dydd yn segur, i edrych ar y naill y llall: ystyriwch mai eich gwaith chwi, bob un, ydyw coethi iaith a llenoriaeth Cymru, a bod y genedl yn dysgwyl wrthych; gan hyny, gweithiwch allan eich gallu llenorol tra bo galwad am dano, a diau y caiff eich llafur ei dderbyn yn ol ei deilyngdod, ac y bydd eich enwau yn barchus gan eich cydwladwyr "tra môr tra Brython."

CYFNEWIDWYR HYMNAU.

Yr oedd blaenor y canu mewn un man yn America, ryw amser yn ol, yn ddyn oedd yn meddu barn uchel iawn am ei alluoedd ei hun. Nid fel hyn y mae pawb o flaenoriaid y canu; ond pa fodd bynag, dyma oedd ansawdd meddwl y brawd hwn. Yr oedd efe a'i gyfeillion un tro yn bwrriadu dwyn allan dôn newydd ar y geiriau hyny o eiddo Watts,

“ Ond boed fy nghalon i mewn hwyl,
Fel telyn Dafydd ar yr *yl.”

Mawrion a phwysig oedd y darpariadau ar gyfer yr amgylchiad. Yr oeddynt wedi penderfynu llanw pawb a ga'i y fraint o wrandaw â syndod, a gwneuthur iddynt eu hunain enwau oesol. Ond yr oedd crybwylliad am y delyn yn ngeiriau Watts yn taraw blaenor y canu fel yn rhy henaidd, ac anghydweddol â sefyllfa bresennol y gelfyddyd gerddorawl. Ar ol hir fyfyrddod, llwyddodd o'r diwedd i ddiwygio y pennill er perffaith foddlonrwydd iddo ei hun a'i gydgerddorion; ac aeth i gynnyg y gwelliant i'r hen weinidog, yr hwn oedd wr call a chraffus. “ Y mae genyf fi,” meddai, “ wrthwynebiad diysgog yn erbyn y geiriau yn y wedd sydd arnynt. Mae yn amlwg nad oedd Watts yn deall dim am offerynau cerdd.” “ Pa fodd y dymunech chwi eu bod?” gofynai y gweinidog. “ Wel, syr,” atebai y cantor, “ mae yn ymddangos i mi y byddent yn llawer godidocach fel y canlyn:—

Ond boed fy nghalon i'r pryd hyn,
Fel Dafydd gynt â'i *violin*.”

Teimlai y gweinidog ryw gynhyrifiadau tufewinol cryfion i chwerthin yn ngwyneb y cantor; ond ymattaliodd. Yna mor fuan ag y medrodd gael ei hun yn alluog i siarad, dywedodd ei fod ef yn tueddu i feddwl fod yn ddichonadwy gwneuthur y gwelliant hwn drachefn yn fwy diwygiedig; a gofynodd oni fyddai yn well darllen y geiriau fel hyn:—

“ Ond sed fy nghalon, diddle, diddle,
Fel Dafydd bach yn canu'r *fiddle*.”

Ni fuasai yr hanesyn hwn yn werth ei adrodd, oni b'ai ei fod yn anghraifft o'r cyfnewidiadau a wneir yn gyffredin gan rai a dybiant eu hunain yn ddoethach na'r beirdd mwyaf awenyddol; ond anfynech y dangosant ddim ond eu hanfedrusrwydd eu hunain. Peth peryglus iawn yw ceisio diwygio cynnyrchion athrylith. Nid yw gwybodaeth a dysgeidiaeth yn addasu dyn at y gorchwyl hwn. Ni fu neb yn Mrydain yn fwy dysgedig na Bentley. Yr oedd hefyd yn meddu cryfder synwyr a chyflymder meddwl tuhwnt i gyffredin. Yr oedd bron yn anffaeledig yn ei fedrusrwydd i wahaniaethu rhwng y gwir a'r gau yn ysgrifeniadau yr hen awdwyr. Pan gyfodai llu o wrthwynebwyr i'w erbyn, nid oeddynt ond fel gwybed o'i amgylch. Ac eto, nid oedd y dyn mawr hwn yn ddim amgen na burguniwr pan aeth i geisio diwygio barddoniaeth Milton. Ni fu gwell bardd yn yr oes hon na Wordsworth; ac ni fu gwell beirniad mewn unrhyw oes na Jeffrey. Er hyny, yr oedd y beirniad yn gwawdio

y bardd; a bu y ddau farw yn ddiweddar heb ddeall eu gilydd. Cyn y gellir deall barddoniaeth, rhaid i ni ddyfod mewn tymher ddysgyblaidd, ostyngedig, i yfed o ysbryd y bardd. Rhaid i ni gymeryd ein codi ganddo uwchlaw rheolau ffurfiol, i edrych ar y gwrthdrysychau o'r lle ag yntau, a than ddyylanwad yr un teimlad. Y mae bardd, mewn awr o gynhyrfiad hapus, yn alluog i gyflawni gorchwyl na fedr yr holl fyd ei ddiwygio, na gwneyd ei gyffelyb.

Na feddylier ein bod am gyhoeddi cosbedigaeth drom o herwydd rhyw gyfnewidiadau bychain, diniwed; megys, byrhau ambell linell er mwyn ei chael i ateb i'r mesur; neu roddi gair Cymraeg dealladwy yn lle gair Seisnigaidd. Clywsom yn ddiweddar am hen gristion didwyll yn cwyno yn enbyd fod y wir athrawiaeth bron myned o'r golwg. "Y mae pregethwyr y dyddiau hyn," meddai, "yn son llawer iawn am weithredu ffydd. Y maent am i ni weithredu'r cwbl: ond gair yr hen bobl oedd *actio* ffydd." Nid ydym ni yn llawn mor eiddigeddus a hyn yn erbyn pob math o gyfnewidiadau. Ond os eir i gynnyg newid, dylid bod yn gynnil a gochelgar dros ben. Fel y dywed Wordsworth am ddail y coed:—

"Yn dyner cwrdd, mae ysbryd yn y dail."

Ac ar bob cyfrif na feddylier am newid yr ystyr. Na thyner oddiwrth, ac na chwanager at, yr un o feddylddrychau y bardd. Pa hawl sy genym i newid gwaith y prydyddion mwy nag awdwyr eraill? Neu pa hawl sydd gan neb i gyhoeddi ei feddyliau ei hun yn gymysg â meddyliau Williams Pantycelyn, heb un hysbysiad pa le mae y naill yn diweddu a'r llall yn dechreu? Pan welwn gymysgwaith fel hyn, byddwn yn teimlo tuedd i ddywedyd wrth yr awdur fel y dywedodd hen bregethwr didderbynwyneb wrth ryw wreigan, yr hon nid oedd mor lanwaith ag y buasai dymunol, "Pan ddelwyf fi yma y tro nesaf, wraig dda, a fyddwch chwi gystal a rhoddi yr ymenyn ar un ddysgl, a'r blew ar ddysgl arall?" Pe cyhoeddai rhywun draethawd o waith Dr. Chalmers neu Dr. Harris, yn gymysg blith-dra-phlith â'i waith ei hun, edrychid ar y weithred fel digywilydd-dra erchyll; ond y mae pawb yn ystyried barddoniaeth grefyddol fel yspail i'w ddefnyddio yn y dull a'r modd y gwelont hwy yn dda. Y mae rhyw achos i hyn, fel i bob effaith arall. Beth all yr achos hwnw fod nis gwyddom; ond yn unig fod y cyfansoddiadau hyn yn cael eu bwriadu i wasanaeth crefyddol, a bod dynion yn dueddol i feddwl fod rhywfath o ddyben crefyddol yn ddigon o fantell i guddio pob anghyfiawnder.

Pe buasai y cyfnewidiadau hyn yn ddiwygiadau mewn gwirionedd, buasai rhyw reswm i'w roddi drostynt. Ond er i ni weled ugeiniau o emynau wedi myned dan y driniaeth hon, gallwn dystio yn ddibetrus fod naw o bob deg, a mwy na hyny, wedi eu newid er gwaeth ac nid er gwell. Bydd y meddwl newydd bron bob amser yn waelach na'r un gwreiddiol, ac weithiau bydd yn hollol ddisynwyr. Heb fyned i chwilio am anghreiffitiau i'r llyfrau hyny yn y rhai y gorfodir yr hen Williams i ganu yn groes i'r hyn oedd yn arfer gredau pan yn y byd, neu lle y mae ei feddyliau ar-dderchog ef wedi eu cuddio yn y fath fodd fel, pe codai oddiwrth y meirw, y byddai yn rhy anhawdd iddo adnabod ei waith ei hun, ni a gymerwn rai o'r cyfnewidiadau sydd fwyaf hysbys i ddarllenwyr y "Traethodydd," a'r rhai a gyfrifir gan lawer fel diwygiadau diammheuol. Dyma hen bennill anwyl o waith Williams:—

1850.]

“ Mae dy air yn abl farwain
 Trwy'r anialwch mawr ymlaen,
 Mae e'n golofn oleu eglur,
 Weithiau o niwl ac weithiau o dân :
 Mae'n ddi-ble, ynddo 'fe
 Fwy na'r ddaear, fwy na'r ne'.”

Nid ydym am ddadleu yn erbyn “ Dy air sydd ddigon i fy arwain ” yn y llinell gyntaf, er mwyn gochelyd y gair Seisnigaidd *abl*. Nid yw hyn nac yma nac acw. Ond yr ydym yn gwrthdystio â'n holl galon yn erbyn y cyfnewidiad a wnaed yn Ngogledd Cymru ar y llinellau olaf. Digon hawdd i bawb ddeall mai ystyr y gair “ ddi-ble, ” yw diwrthddadl, peth heb un *plea* yn ei erbyn. A dyma linell ysblenydd,

“ Fwy na'r ddaear, fwy na'r ne'.”

Nid rhyfedd fod hen bobl y Doheudir yn myned i'r awel wrth ganu y fath linell a hon. Ai tyrod fod y Gogleddwyr yn barnu fod y bardd yn y fan yma yn codi gormod ar y gair? Oni ddywed yr ysgrythyr fod Duw wedi mawrhau ei air uwchlaw ei enw oll? Ac onid yw Crist, cynnwys mawr y gair, yn fwy na'r nef i gyd? Ond beth bynag a achosodd y cyfnewidiad, fel y canlyn y cenir yn gyffredin yn Ngogledd Cymru :—

“ Dy air sydd ddigon i fy arwain
 Trwy'r anialwch maith ymlaen ;
 Mae yn golofn oleu eglur,
 Weithiau 'n niwl ac weithiau 'n dân ;
 Llusern yw, oleu wiw,
 Oleu'n deg holl deulu Duw.”

Pan ddefnyddir dwy gyffelybiaeth i ddangos yr un gwrthddrych, dylai yr olaf gryfhau y ffaenaf, ac ychwanegu at gynnwysiad y meddylddrych : ond yma, ar ol arwain y meddwl at y golofn fawreddus yn yr anialwch, dybenir y pennill gyda llusern deuluaidd. Cymhariaeth addas ac ysgrythyrol yw llusern ; ond yn y cysylltiad y mae yr anmhrifodoldeb. Dywedir fod y gair yn “ golofn oleu eglur ; ” ac nid hyn yn unig, ond hefyd yn “ llusern oleu wiw. ” Dyma un o'r anghreiffitiau goreu a welsom erioed o'r *bathos*, neu *the art of sinking*. Ar ol ein codi i entrych awyr, i syllu ar ogoniant y golofn oedd yn arwain yr Israeliaid, gollyngir ni i lawr bendramwnwgl i edrych ar llusern. Nid oes genym ond gobeithio yr esgusodir ni, os ydym yn analluog i weled goleuni y llusern, a ninnau newydd ddyfod o lewyrch tanbeidiol y golofn.

Mewn pennill arall o waith Williams mae y llinellau a ganlyn :—

“ O llefara addfwyn Iesu,
 Mae dy eiriau fel y gwin ;
 Oll yn dwyn i mewn dangnefedd,
 Ag sydd o anfeidrol rin.”

Yr ydym yn methu dychymygu pa wrthwynebiad a allai fod gan neb i'r llinellau prydferth hyn. Y maent oll yn gysylltiedig â'u gilydd, ac yn ymddibynu ar eu gilydd, fel na ellir tynu allan yr un gair, na'i symud o'i le, heb niweidio y cwbl. Ar ol son fod geiriau Iesu fel y gwin, dywedir eu bod oll yn dwyn i mewn i'r enaid dangnefedd, yr hwn dangnefedd sydd o anfeidrol rin. Ond gwelir hwynt yn fynych wedi eu murnio yn y wedd ganlynol :—

“ O llefara addfwyn Iesu,
 Mae dy eiriau fel y gwin ;

Oll o mewn yn dwyn tangnefedd,
Ag sydd o anfeidrol rin."

Yma mae y cysylltiad wedi ei ddattod, a'r holl feddyliau yn chwalu oddi wrth eu gilydd. Dywedir fod yr oll o rywbeth o mewn yn dwyn tangnefedd. Ond yr oll o ba beth? Rhaid mai y meddwl ydyw, os oes yma feddwl hefyd, fod yr oll o'r enaid yn dwyn tangnefedd. Ond dwyn tangnefedd i bwy? Mae yn debyg mai dwyn tangnefedd iddo ei hun. Ond pa gysylltiad sydd rhwng hyn a'r llinellau blaenorol? Nid yn unig y maent yn anghysylltiadol; ond y maent yn gwrthdaraw yn erbyn eu gilydd. Gwneir erfyniad am i Iesu lefaru; ac fel rheswm dros hyny, dywedir fod ei eiriau fel y gwin. Ond yn nesaf, yr ydym yn cael fod oll o mewn yn dangnefeddus eisoes. Os felly, pa raid i Iesu lefaru? Onid yw yn amlwg, ddarllenrydd, fod yr hen Williams yn gwybod beth oedd ganddo mewn llaw, yn well na'i ddiwygwyr? Yn y Casgliad diweddaf gan y Parch. Roger Edwards, mae yn dda genym weled y geiriau hyn wedi eu hadferu i'w ffurf gyntefig.

Mae pawb yn gydnabyddus â'r hen bennill hwnw, "Mi gana' am waed yr Oen;" ac y maent yn cofio ei fod yn diweddu fel y canlyn:—

"Ond dyma'm sail i am y wlad,
Y cariad bery byth."

Ond clywsom y llinellau olaf yn cael eu hadrodd gan rai fel hyn:—

"Fy unig sail i am lanhad
Yw'r cariad bery byth."

Nid ydym yn ystyried fod y cyfnewidiad hwn yn gamwedd pwysig: er hyny, nis gallwn lai na meddwl mai "gwell yw yr hen." Tebyg mai y dyben wrth roddi y gair "glanhad" yn lle "gwlad" yw ei gael i ateb yn well i'r crybwylliad blaenorol am "galon ddu," a'r "meddyg da." Ond a oes dim lle i feddwl fod yma raddau bychain o *tautology*, neu ddywedyd yr un peth drosodd drachefn? Oblegid mae y prydydd wedi adrodd o'r blaen nad oes ganddo yn ngwyneb calon ddu ond Iesu'r meddyg da. Ond y mae y ddwy linell olaf yn ychwanegu at y meddylddrych, ac yn taffu goleu newydd dros y cwbl. Y maent yn dangos fod y pennill yn iaith teithiwr blinedig. Ar ol canu am waed yr Oen, a Iesu y meddyg da, y mae yn cael ei anadl, ac yn gallu edrych yn ol ar daith yr anialwch, ac ymlaen tua gwlad yr addewid. Wrth edrych yn ol y mae yn galaru oblegid ei galon ddu, a'i throion chwerwon chwith; ond wrth edrych ymlaen, mae er hyny yn gobeithio cyrhaedd y wlad; a'i sail am hyny yw'r cariad a bery byth.

Cymerwn olwg yn nesaf ar yr hen bennill hwnw—

"E wy'n gweled bob dydd,
Mai gwerthfawr yw fydd,
Pan elwy i borth aneu fy angor a fydd:
Mwy gwerthfawr im' yw
Na chyfoeth Peri;
Mor ddiogel i'm cynnal ddydd dial ein Duw."

Beth allasai fod gan neb yn erbyn y pennill hwn? Mae yn eglur y dylid ystyried y geiriau "Mor ddiogel," nid fel cymhariaeth, ond fel amlygiad o ryfeddod neu lawenydd. A oes rhywbeth anysrythyrol mewn dywedyd

fod ffydd yn cynnal yr enaid? Ond fel y canlyn y cenir yn gyffredin yn y Gogledd:—

“Ei gwrthdrys a'm cynnal ddydd dial ein Duw.”

Nid yn unig y mae y cyfnewidiad hwn yn afreidiol; ond y mae yn tori y llinyn sydd yn rhedeg trwy yr holl linellau, ag sydd yn eu cydio wrth eu gilydd. Y mae yn taflu meddwl yr addolydd o'i le; ac yn cael yr un effaith arno a phe dywedid wrtho ar ganol canu, “Mae yn wir fod ffydd yn angor, ond gwylia rhag tybied mai ffydd a'th gynnal.” Ac fel hyn y mae ysbryd addoli yn cael ei gollu, a beirniadaeth gecrus yn dyfod yn ei le. Yn nghasgliad Mr. Morris Davies mae y llinellau hyn fel y dylent fod.

Dyma bennill arall nad oes achos na modd ei wella:—

“Boed dyoddefiadau pur y groes
I laesu 'm cur a'm gwae;
Gruddfanau dyfnion angen loes,
I'm rhoddi i lawenhau.”

Ond fel y canlyn y clywir y ddwy linell gyntaf yn gyffredin:—

“Boed dyoddefiadau pur y groes,
Fel olew i'm iachau.”

Cymbellir ni i ofyn yn gyntaf, Pa raid oedd i *geisio* newid y pennill hwn? Paham na chwasai lonydd i fyw mewn heddwch? Beth allasai gynhyrfu neb i dori un o'i aelodau ymaith mor ddirugaredd? Mae yn wir nad yw “gwae” a “lawenhau” ddim yn odliad perffaith; ond arferir rhai cyffelyb gan y beirdd manylaf, oddieithr pan rwymant eu hunain â llyffetheiriau y mesurau caethion. Fe allai mai nid gwrthwynebiad i'r hen bennill a barodd iddynt ei newid, yn gymaint ag ysfa afywodraethus i wneyd prawf o'u medrusrwydd eu hunain. Os oedd y llinell wreiddiol yn dda, nis gallent hwy gredu na fedrent hwy gyfansoddi ei gwell. Ond gadewch i ni edrych a yw y llinell newydd yn well mewn gwirionedd. Gwelir fod y bardd wedi bwriadu cyferbyniad bywiog rhwng y llinell gyntaf a'r ail, ac yn yr un modd rhwng y drydedd a'r bedwaredd. Sylwedd ei weddi ydyw, ar fod dyoddefiadau y groes yn laesu ei ddyoddefiadau ef, a gruddfanau angen loes yn symud ei ruddfanau ef. Er maint yw y cur a'r gwae y mae efe ei hun ynddynt, y mae yn gwybod y llaesid y cwbl yn y fan pe cai olwg ffyddiog ar y cur a'r gwae yr aeth Crist trwyddynt. Ond y mae y cyferbyniad hwn wedi diflanu o'r golwg yn y cyfnewidiad; ac y mae yn ymddangos i ni fod hyn yn goll dirfawr. Dilynir y dull newydd yn y casgliad a wnaed gan y Methodistiaid yn y Deheudir.

Yn nghasgliad y Deheudir nid oes llawer o gyfnewidiadau yn cyffwrdd âg *ystyr* yr hen emynau; ac yn y rhai hyn gan mwyaf nid yw y gwahan-iaeth yn fawr. Ond i'r graddau y mae yr ystyr wedi ei newid, mor bell a hyn y mae yr emynau yn y cyffredin wedi eu gwaethygu ganddynt hwythau. Heblaw yr un a nodwyd uchod, cymerer yr anghraifft a ganlyn:—

“Plana'r egwyddorion hyn
Yn fy enaid bob yr un,
Ag sydd megys peraroglau
Yn dy natur di dy hun;
Blodau hyfryd,
Fo'n dysgleirio da'r a ne'.”

Yn lle “dysgleirio” y maent hwy yn darllen “aroglu.” Gall hwn ymddangos ar yr olwg gyntaf yn wir welliant; ond erbyn craffu, mae yn

amlwg fod y meddylddrych gwreiddiol yn gryfach ac yn fwy barddonol. Ar ganol ysgrifenu y pwt hwn o draethawd yn mis hyfrydawl Mai, nid rhaid i ni ond myned allan i'r meusydd i gael profion digonol fod y blodau yn taenu *dysgleirdeb* dros yr holl greadigaeth. Yr oedd yr hen Williams yn meddu llygad i weled anian, a glewder hefyd i gydfyned âg anian.

Gwelir ein bod wedi dewis y casgliadau yn y rhai y gwnaed lleiaf o gyfnewidiadau. Buasai yn hawdd iawn i ni gael lliaws o anghreiffiau gwaeth mewn casgliadau eraill; ond buasai ein gwaith yn ceisio profi gwrthuni y rhai hyny yn ddirmyg ar synwyr ein darlennyddion. Ein dyben oedd dangos nas gellir newid cymaint a'r *nymryn lleiaf* o feddwl bardd heb fod mewn perygl o wneyd mwy o ddrwg nag o dda. O ganlyniad cymerasom yr anghreiffiau oedd yn fwyaf tebyg i ddiwygiadau. Dyledus hefyd yw hysbysu yn y modd mwyaf eglur nad ydym mewn un gradd yn beio awdwyr y Casgliadau diweddaf a gyhoeddwyd yn y Gogledd. Yr oedd yr hafog wedi ei wneyd ar yr hen Hymnau cyn eu geni hwy. Yr oedd y wlad wedi cynnefino â'r hen bennillion yn eu hagwedd ddirywiedig; a'r unig gyfnewidiad a wnaethant hwy oedd eu hadferu mor agos i'w dull cyntefig ag y medrent farnu fod yn ddoeth ac yn ddichonadwy. Gwnawd gwelliant dirfawr gan Mr. Morris Davies i ddechreu: ac aeth Mr. Roger Edwards ymlaen drachefn yn yr un cyfeiriad. Y mae ein cyfeillion yn Liverpool, yn eu Casgliad hwy, wedi dychwelyd ar unwaith at yr argraffiadau cyntefig, ac wedi ysgubo ymaith bob rhith o gyfnewidiad. Os yw y rheol a osodasant hwy iddynt eu hunain yn rhy gaeth, mae yn rhaid addef eu bod yn cyfeiliorni i'r ochr fwyaf diberygl. O'n rhan ein hunain, fel y dywedasom yn barod, nid ydym yn teimlo awydd cryf i gollfarnu pob amcan i wneyd yr iaith yn burach a destlusach. Nid yw yr hen argraffiadau cyntaf a gyhoeddwyd yn y Deheudir yn hollol unfurf, fel y gwelir wrth gymharu yr anghreiffiau canlynol o ddau o honnynt:—

"Rho i mi weld mae ti yw'm Hedd,
A llwyr ddfyrru ar dy Wedd;
A chym'ryd Gair dy Enau gid,
Yn unig blesser yn y Byd.

Gad i mi gael dy Ysbryd cun,
Yr hwn sydd ynot ti dy Hun;
Fel byddo dy holl gyfraith lym,
Yn felus ac yn hyfryd im'.

'Does le mi wela i rannu Mryd
Un amser rhyngot ti a'r byd
Cariadau eraill 'thalent ddim,
Dy hun cai fod yn briod im'.

Datguddia i'r annuwiol ryw,
Na fedda i gyfaill ond fy Nuw;
O cod fi o'r Pydewau i'r lan,
A gwna fi'n gadarn pan bwy'n wan.

Rho i mi wel'd mai ti yw'm hedd,
A llwyr ddfyrru ar dy wedd;
A chym'ryd d'eiriau gwerthfawr drud,
Yn unig bleser yn y byd.

Gad i mi gael dy Ysbryd pur
Yn gyfaill yn yr anial dir;
Fel byddo dy holl gyfraith lym,
Yn felus ac yn hyfryd im'.

Does le, mi wela, i rannu mryd,
Un amser rhyngot ti a'r byd;
Cariadau eraill aeth yn ddim,
Dy hun cai fod yn briod im'.

O cod fi o'r pydewau i'r lan,
A gwna fi'n gadarn pan bwy'n wan;
A dangos i'r annuwiol ryw,
Na fedda i gyfaill ond fy Nuw."

Cymerwyd y golofn gyntaf o hen argraffiad a gyhoeddwyd gan Williams ei hun; a'r ail o'r argraffiad cyflawn o'r holl Hymnau, a gyhoeddwyd gan ei fab, y Parch. John Williams, yn y flwyddyn 1811. Yn yr argraffiad olaf hwn y mae ychydig wallau wedi dianc mewn rhai manau; er hyny, diammhau mai hwn a ddylai fod yn safon i ni, gan fod Mr. John Williams yn ofalus i roddi yr holl Hymnau fel y gadawsid hwy gan ei dad. Ac nis

gwyddom pa fodd i derfynu ein sylwadau yn well na thrwy ddyfynu ei eiriau ef yn y rhagymadrodd. "Ar ddeisyfiad amrywiol o gyfeillion crefyddol, ac ar ddymuniad Assosiassiwn y Methodistiaid Calfinaidd, cynnulledig yn y Deheudir, mi a anturiais gymeryd y gorchwyl mewn llaw o osod allan mewn argraffiad newydd, yr holl Hymnau o waith fy nhad, y diweddar Barchedig W. Williams, o Bantycelyn, y rhai a gyfansoddodd efe yn y iaith Gymraeg. Y mae llawer o honynt o bryd i bryd, er mwyn masnach neu elw, mae'n debygol, wedi eu mabwysiadu gan eraill, a llawer hefyd wedi eu priodoli ganddynt i'r dyben o giuro, neu guddio eu cymmysgedd eu humain. Y mae cymmaint o honynt, gan rai Calfiniaid ac Arminiaid (pa rai na wyddent ddim am natur Barddoniaeth), wedi eu cyfnewid, eu anharddu, eu cylchdroi, a'u dirdynu, fel ag nas gall yr oes nesaf ddeall pa un yw gwaith priodol yr awdwr, neu y cyn-ysgrifen. Ac am eu bod wedi eu hanffurfio a'u hanferthu o ran Prydyddiaeth, gan amryw hurtun penglogaidd ac aneallus yn mhlith y Calfinistiaid, ac wedi eu gŵyrdroi i gyhoeddi athrawiaeth llwyr groes gan rai Arminiaid, mi a benderfynais i brintio'r holl Hymnau a gyfansoddodd yr awdwr, fel ag y cyhoeddodd efe hwynt ei hun, mewn amrywiol ddull, ac ar amrywiol amserau; dan obeithio a thaer ymbil ar i'r Arglwydd i'w bendithio eto i filoedd, fel y gwnaeth yn mlaen llaw."

ADRODDIAD DIRPRWYWYR IECHYD AR GLADDFEYDD.

[*Report on a General Scheme for Extramural Sepulture.* Presented to both Houses of Parliament by Command of Her Majesty. 1850.]

DRWED Thomas Carlyle, mai oes gweithrediad, ac nid oes barddoniaeth, yw ein hoes ni; ac y mae yr Adroddiad sydd ger ein bron yn peri i ni adgoffio ei sylw. Mae y Gladdfa wedi bod yn destun llawer o farddoniaeth o bryd i bryd; darlennasom lawer "Myfyrdod mewn Mynwent;" ac, yn wir, y mae trigle y marw yn ysgol dda i'r byw. Eithr nid barddoniaeth yw yr Adroddiad hwn ar Gladdfeydd, ond ffeithiau sobr am niweidiau claddu mewn trefi, ynghyd â chynllun am gladdfeydd maesdrefol, yn gyn- taf i Lundain, ac wedi hyny i'r trefi yn gyffredinol. Llawarwyddir yr Adroddiad gan Iarll Carlisle, Arglwydd Ashley, Mr. Chadwick, a Dr. Southwood Smith, Prif Ddirprwywr Iechyd (*General Board of Health*), ac y mae wedi ei ddyddio, Chwefror 15eg, 1850. Maent yn profi fod yr arferiad o gladdu mewn trefi yn effeithio yn ddrwg, yn laf, ar iechyd y bobl, ac yn 2il, ar y gweddeidd-dra a'r difrifwch sydd yn ofynol i gladdigaeth.

Am y tri chan' mlynedd cyntaf yn mysg y prif Gristionogion, ni chan- iatëid claddu oddi fewn dinasoedd; nac mewn eglwysi, meddir, am rai oesoedd ar ol hyny. Ond fel y daeth tywyllwch ofergoelledd i ymledu, aed i edrych ar y lleoedd a gyfrifid yn feddau y merthyron fel daear sanct- aidd. Yr oedd raid adeiladu eglwys ar fedd y merthyr, ac yno y cleddid

eraill a ennillasant iddynt eu hunain enw am eu sancteiddrwydd. Erbyn hyn, yr oedd yn barchedigaeth nid bychan i un gael ei gladdu yn ymyl yr esgyrn cysegredig. A chan fod arian, bob amser, yn ateb i bob peth, aeth yr offeiriadon i werthu yr anrhydedd hwn i'r uchaf ei geiniog. Bob yn dipyn, gorlanwyd gwaelodion yr eglwysi, ac felly y dechreuwyd meddwl am fynwentydd. Amgylchid teiau y meirwon yn fuan gan anneddu prysur dynion byw; ac yn y modd yma, trwy fod poblogaeth a marwoldeb yn cynnyddu, yr oedd gweddillion marwedig cenedlaeth ar ol cenedlaeth yn cael eu hystorio ar eu gilydd oddifewn i derfynau cyfyng y fynwent. Yn nhrefi mawrion ein teyrnas, lle mae y trigolion mor aml, y mae cladd-edigaethau yn y mynwentau sydd wrth yr eglwysi yn wreiddiau ffrwyth-lawm i glefydau a marwolaethau, fel y profir tuhwnt i bob dadl yn yr Adroddiad hwn.

Bernir mai anniogel i'r byw ydyw claddu mwy na 136 o gyrff mewn un erw o dir; ond yn amryw o fynwentau Llundain, cleddir dros ddwy fil, ac mewn rhai, dros dair mil o gyrff mewn un erw (*acre*). Nid rhyfedd, gan hyny, fod cymaint ag 16,000 o bersonau wedi cael eu lladd y llynedd, gan yr haint, yn y brifddinas yn unig. Pan ofynwyd i'r meddyg enwog, Mr. Aston Key, ychydig cyn ei farwolaeth, pa fodd yr ymaflodd y geri dinystriol ynddo, efe a atebodd, "Y fynwent acw a wnaeth hyn," gan gyfeirio at yr hon oedd yn ei gymydogoeth. Dr. Milroy a ddywedai am fynwent St. Clement Danes, Heol Portugal:—"Dydd Mawrth diweddaf, yr 28ain o Awst, yr oedd yr ager ffaidd yn ddychrynllyd o annyoddefol, pan yr oedd bedd ddofn wedi ei chloddio tua chanol y fynwent. Yr oedd esgyrn lawer wedi eu dadgladdu; Mr. Smith a gafodd allan trwy archwiliad dyfal o honynt, fod gweddillion deg, o leiaf, o wahanol ysgerbydau wedi cael eu tafu i fyny. Yr oedd un neu ddau o'r penglogau yn ymddangos fel rhai a gladdesid yn lled ddiweddar mewn cymhariaeth. Yr oedd y drygsawr ar yr achlysur hwn mor fawr, fel yr oedd hyd yn nod rhingyll (*beadle*) y plwyf yn cyfaddef ei fod yn ddrwg iawn. Nis gallasid agor yr un ffenestr oedd yn gwynebu y fynwent, er cymaint oedd gwres y dydd. Bu raid i rai o'r trigiannwyr adael eu tai am amser; yr oedd personau oedd yn myned ar hyd heol Portugal yn dal eu ffroenau; gwarchadwr oedd yn sefyll wrth ddrws Ysbytty Coleg y Brenin, a syrthiodd i gyfogiad; ac un o feddygon y sefydliad hwnw, yr hwn a nesaodd at y bedd agored, a orchfygwyd gan bensyndod, ac a gwmpasai i lawr pe na chynnaliesid ef gan foneddwr arall." Rhoddir hanesion mor, ie a mwy, erchyll yn yr Adroddiad hwn, am amryw gladdfeydd yn y brifddinas, yn gystal ag am gladdfeydd yn Liverpool, Manchester, a Sheffield, a rhai lleoedd yn Scotland. Ac nid yw Cymru yn diane yn ddisylw yn yr Adroddiad, fel y cawn ddangos yn ebrwydd.

Y drefn a gynnygir er gwelliant yw penodi Dirprwywyr (*Commissioners* cyflogedig fyth a hefyd), i ddwyn y cyfnewidiadau anghenrheidiol i weithrediad; a dechreuir gyda Llundain. Dygir cyfraith i mewn i rwystro claddu yn yr eglwysi, ac o fewn terfynau y brifddinas, "oddigerth mewn amgylchiadau neillduol dan drwydded,"—i ddarpar claddfeydd cyhoeddus mewn pellder cyfaddas o'r brifddinas, lle bydd darn o'r tir yn gysegredig, ac arno eglwys, a'r darn arall yn anghysegregatedig, gyda chapel—dim ond un corff i gael ei gladdu mewn un bedd. Y mae amryw bethau eraill yn gynwysedig yn yr *Act* hon nad oes eisieu eu crybwyll yma. Yr ydym yn

deall fod ysgrif ar hyn wedi cael ei dwyn i mewn eisoes i Dy y Cyffredin ; nis gwyddom eto beth fydd ei thynged ; bydd grym y llywodraeth, pa fodd bynag, o'i phlaid. Nis gallwn lai na chanfod fod pleidgarwch i offeriaid yr Eglwys Sefydledig yn cael ei arddangos ynddi. Trefnir fod iawn yn cael ei dalu i'r gweinidogion eglwysyddol am eu colled o arian claddu, ac y mae hwnw i bara, nid am oes y gweinidogion presennol, ond i'w holnywyr byth ; ac felly trethir y bobl yn hyn yma eto i dalu at gynnalïaeth barhäus y gwyr eglwysig. Mae y Dirprwywyr yn cydnabod iddynt gael cynnorthwy amryw offeriaid yn eu hymchwiliadau a'u cynlluniau ; ac yr ydym yn eu credu. Mawr yw y cyffro a wneir yn awr gan y dosbarth Puseyaidd o Eglwys Loegr nghylch athrawiaethau gwahaniaethol eu Heglwys ; haerant fod penderfyniad Cyfeisteddfod Barnol y Cyfrin-gynghor yn achos Gorham ac Esgob Exeter, yn gadael ei phrif athrawiaethau yn anmhenodol a phenagored : ond mae yn amlwg i bawb, fod yr hen athrawiaeth o "edrych ar ol y gyflog" yn aros ganddynt yn ei lle, yn sylfaenol ac yn ddilwgr.

Bellach, awn at yr hyn a ddywedir am Gymru. Dywedir fel y canlyn :—

"Am ansawdd claddfeydd yn Nghymru, cybelled ag y chwiliwyd iddynt, gellir ffurfio rhyw amgyffred oddiwrth y detholranau canlynol o Adroddiadau Mr. Bowie :—

"MYNWENT CASTELLNEDD, SIR FORGANWG.—Wedi ei llanw i ormodedd ; y ddaear o liw du, yn seimlyd (*greasy*) i'r cyffyrddiad, yn arwyddo pydredd, ac yn aroglï yn echrydus. Mae y Cymry yn hoff o fynu edrych drachefn a thrachefn ar gyrff eu perthynasau trancedig yn yr amrywiol raddau o'u dadgyfansoddiad. Maent yn myned i'r fath ormodedd gyda hyn, fel y gwnant weithiau gloddio i fyny gyrff a gladdesid yn ddiweddar, ac y gosodant yr eirch wrth ochr y bedd hyd nes y gallant ddodi islaw iddynt eirch y rhai a gladdwyd yn ddiweddarach fyth. Mae yr arogl ar y cyfryw achlysuron yn arswydus, fel y profais fy hun yn fynych ; ond nid oedd y rhai a fyddent o'm hamgylch yn ymddangos yn deimladol o hono : yn wir, ychydig o frodorion y Dywysogaeth ag y cyfarfyddais i â hwynt oedd yn rhoddi yr un prawf o'u bod yn feddiannol ar y teimlad o aroglïad. Fel rheol gyffredinol, mae hyd yn nod personau o ddygiad i fyny mewn sefyllfa o hollol anwybodaeth am ddylanwad niweidiol goferoedd oddiwrth gladdfeydd. Yma mi a gefais y periglor yn zelog dros ddiwygiadau er iechyd gwladol ; ond nis gallaswn ei berswadio fod un perygl i'w ofni oddiwrth gyflwr gorlawn ei fynwent. Yr oedd yn ymddangos nad oedd ganddo un grediniaeth yn y ffaith y gallai nwyon peryglus dreiddio trwy y ddaear sy'n gorchuddio corff, a dianc allan ar y wyneb. Y foment y ceisiais ei gael i ymrestru yn yr achos o attaliad gorlanwad ychwanegol yn y fynwent, oerodd ei wresogrydd dros welliadau er iechyd. Y syniad y gallai corff ar ol ei gladdu niweidio y byw—nid ymddengys fod hyn erioed wedi cael lle yn ei feddwl.

"MYNWENT CADOCSTON, GERLLAW CASTELLNEDD.—Ni wn i pa fodd yn amgen i ddesgrifio cyflwr y fynwent hon na thrwy ddyweyd ei bod yn wironeddol a thrwyadl ffaithd. Mae yr arogl oddiwrthi yn annyoddefol. Yr oeddwn yn ei ganfod yn mhob un o'r tai cymydogol yr ymwelais â hwynt ; ac yn mhob un o'r teiau hyn yr oedd y cholera neu waedlif llym wedi bod. Un prydawn, yr oedd y drygsawr hwn wedi llenwi fy ngwddf fel i'm gwneyd agos yn glaf ; ac ar yr un prydawn, fel yr wyf yn credu, cafodd meddyg a'i foneddiges, yn unig wrth basio y fynwent, eu taraw â theimlad o oerder, llesmeiriad, ac afiechyd, ac erbyn cyrhaedd adref, yn mhen yr awr, yr oeddynt yn glaf iawn. Eto, er hyn oll, er gwaethaf y marwolaethau lliosog a gymerasant le yn y gymydogoeth, er gwaethaf fy ngwrthdystiadau difrifol, ac er gwaethaf gorchymyn Bwrdd Cyffredinol yr Iechyd, mae claddedigaethau yn myned ymlaen yn ddirwystyr yn y gladdfa hon,

ac y mae yr awdurdod gwladol hyd yma wedi methu rhoi terfyn ar hyn. Dywedodd y curad wrthyl, fod fy ymdrechïadau i gau y fynwent wedi gosod fy mywyd fy hun mewn perygl; ac yr oedd tân-ddryllïau, ar awr hwyrol o'r nos, yn cael eu tânio yn fynych yn agos i'm preswylfa; ond efe ar yr un amser a ddaed-guddïodd i mi wir achos y gwrthwynebrwydd, trwy sylwi y byddai i'r cladded-igaethau, os na ddeuent i Cadocston, fyned i Gastellnedd, yr hyn a fyddai yn gollod i'r ficer, yr hwn oedd wedi myned i'r Cyfandir, a gadael y gofal arno ef, pan y torodd y cholera allan.

"HEN FYNWENT MERTHYR-TYDFIL.—Mae hon yn dal lle oddeutu 60 troedfedd o hyd a 30 o led, wedi ei chylchynu gan deïau; yn sefyll ar yr ochr orllewinol i'r Heol Fawr, yn agos i ganolbarth y dref; wedi ei llwyr lanw â chyrrff, gan iddi fod am lawer o flyneddau y brif, os nad yr unig gladdfa. Mae gweddïllion dynol, darnau o eirch, &c., yma yn cael eu gwasgar o amgylch yn afradus, neu eu crugio yn bentyrau ar eu gilydd. Fy arghoeddiad ydyw, fod y fynwent hon yn gweithredu yn niweidiol i iechyd y rhai sydd yn byw yn ei chymydog-aeth, ac y mae yn sicr mai dyma un o'r manau lleol yr oedd y cholera yn dra ffyrnig.

"MYNWENT BETHESDA, MERTHYR-TYDFIL.—Claddfa fechan yn perthyn i gynnulleidfa o Annibynwyr Cymreig. Galwyd fy sylw at y gladdfa hon oddiwrth fod amryw yn cael eu taraw a'u lladd gan y cholera mewn wyth o gabanau a elwir *Bethesda-square*, oll mewn ystâd erchyll o fudreddi. Mae y fynwent yn sefyll uwchlaw llyfel yr ysgwâr yma, ac y mae ei hunan wedi ei huwchbenu, yn enwedig ar y tueddau deheuol a dwyreiniol, gan bentwr mawr o ysgarthion a defnyddïau braenllyd eraill. Y mae ffynnon yn yr ysgwâr yma, neu dwll yn hytrach, yn cynnwys dwfr budr, yr hwn o anghenheidrwydd sydd yn dyfod, mewn rhan, o'r fynwent; ac yr oedd y bobl druain a ddaeth dan fy sylw yn defnyddio yn awyddus y dwfr hwn pan y gallesid ei gael. Mewn lle y mae cymaint o achosion afiechyd yn unedig, mae yn anhawdd sicrhau am ddylanwad penodol un achos neillduol; ond fy marn i ydyw, fod ansawdd y fynwent yn cyfranu yn helaeth at afiachusrwydd anghyffredin y fangre hon. Nid yw llycheden byth ymron yn absennol oddiyma: dywedodd meddyg plwyfol wrthyl fod ychydig amser yn ol gynnifer a dau ar bymtheg yn glaf o luceden adwythig mewn un tŷ yn ymyl y fynwent, ac yr oedd y cholera yn ffynu yma fe allai gyda mwy o gynddeiriogrwydd nag yn un parth arall.

"MYNWENT Y TABERNACL, sydd hefyd yn bur llawn; y mae wedi ei chylchynu â theïau. Yr oedd y cholera yn ffynu yn helaeth yn y gymydog-aeth hon. Ymddengys fod pump o leoedd claddu ar lan yr afon Taf, y goferion o ba rai sydd yn cynnorthwyo i wenwyno y ffrwd, yr hon sydd eisoes wedi ei duo gan garthion a budreddi wrth fyned trwy y gweithfeydd heyrn. Nid oes yr un o gladdfeydd Merthyr na ddylid ei chau i fyny, neu ei gosod dan reolaeth.

"Y mae mynwent ar gôpa tir dyrchafedig, yn mhen heolan gyfyng, ddrwg ei chyffwr, ar yr ochr chwith i'r ffordd yn Dowlais, nid ymhell oddiwrth drigfa Syr John Guest. Mae y fynwent, yr hon sydd wedi ei gorlenwi â gweddïllion dynol, yn cael ei hollol amgylchynu gan dai, yn mhob un o ba rai y bu y cholera. Mi lwyddais i gael cau y fynwent hon: ond yn ystod absennoldeb amserol goruchwylwr Syr John Guest, a'r eiddod fy hun, agorwyd hi drachefn i gladdu ynddi, ac y mae claddedigaethau eto yn myned ymlaen ynddi, mewn beiddiad i bob awdurdod.

"Am fynwentau Abertawe, er eu bod yn llawer rhy lawnion, a rhai o honynt yn sawru yn dra ffaidd, nid ydynt cynddrwg mewn un ystyr a mynwentau Cadocston, Merthyr, neu Ddowlais. Abertawe, y dref lanaf a welais i eto yn Nghymru, a ddyoddefodd leiaf oddiwrth y cholera. Mi allaf ddywedyd hyn yn chwanelog, fel ffrwyth fy ymchwiliad yn Nghymru, mai lle bynag yr oedd llucheden neu y geri yn heintus, fy mod yn cael yr afiechyd yn ymsefydlu gerllaw mynwent."

Dyna yr oll a ddywedir yn yr Adroddiad hwn am y Dywysogaeth.

Ni wyddom ni nemor yn bresennol am y lleoedd a nodir yma ; ond gall-
em feddwl fod y mynwentau crybwylledig, yn nghanol y gweithfeydd
heiyrn mawrion, lle mae cymaint o bobl iselradd yn trigo, yn eithriadau
oddiwrth gladdfeydd Cymru yn gyffredinol. Ac am waeledd a budreiddi
y teiau yn y cyfryw leoedd, fel y cyfeirir gan yr Ymwelydd Seisonig, tra
yr ydym yn awyddus i'r eithaf am argymhell glanweithdra ar bob dosbarth
o'n cydwladwyr, nis gallwn lai na dywedyd fod llawer, os nid y rhan fwyaf
o'r bai, yn gorphwys ar berchenogion y gweithfeydd a'r teiau. Mae y
gweithwyr tlodion yn aberthu goleu dydd, ac awyr iachus, ac yn disgyn
i'r dyfnder tanddaearol, ac yno yn peryglu eu bywydau, er mwyn cyfoeth-
ogi eu meistriaid ; a'r peth lleiaf a allent hwythau wneuthur yw gofalu
am anneddau clyd a chyflëus i'r gweithwyr, yn lle eu gosod mewn
hofelau bychain, truenus, a gwneyd iddynt dalu ardrethion uchel am
leoedd nas gall iechyd, glanweithdra, na gweddeidd-dra gyfanneddu
ynddynt.

Mae yn debyg fod ein darllenwyr wedi sylwi ar yr hyn a ddywedir
mewn cysylltiad â'r adroddiad am fynwent Castellnedd, am y Cymry fel
cenedl ; sef eu bod yn arfer edrych drachefn a thrachefn i mewn i eirch
eu perthynasau claddedig, i weled eu cyrff yn eu gwahanol raddau o ddad-
gyfansoddiad. Dyma wybodaeth newydd i ni ; a newydd, yn ddiâu, i holl
Gymru. Camdystiolaeth noeth ydyw. Cymerodd Mr. Bowie ei dwyllo
ei hun, neu y mae y gŵr am dwyllo eraill. Gwyddom yn lled dda am
Ogledd Cymru, ac ni a ymholasom â chyfeillion cyfarwydd o'r Deheudir, a
rhai o honynt o Sir Forganwg ; ac y mae pawb sydd wedi clywed yr hyn
a ddywed yr Ymwelydd yma, yn cyd-dystio, Nid oes dim o'r fath beth yn
ein gwlad ni. Beth bynag a welodd efe wrth archwilio mynwentau a
chymdeithasu â thorwyr beddau, ni wŷr y Cymry fel cenedl ddim am yr
hyn a ddynoda efe fel eu hoff arfer. A oedd efe yn cenfigenu wrth yr
enw hynod a ennillodd y *Commissioners* a fu trwy ein gwlad o'i flaen, am
warthruddo y Cymry yn gyffredinol, ac felly yn awyddus am gyrhaeddyd
yr unrhyw anrhydedd a hwythau ? Ai tybied yr ydoedd ei fod yn gweini
boddineb i'r rhai a'u hanfonasant wrth ddywedyd yn *flippant* na chyfar-
fyddodd ond âg yehydig o frodorion y Dywysogaeth yn dangos eu bod yn
meddu ar y teimlad o arogliaid ? Tybygem fod y Bowie hwn, fel llawer
ysgoegyn swyddol o'i flaen, wedi ymchwyddo o herwydd ei dipyn dir-
prwyaeth, a myned i feddwl ei fod yn berchen deall anfesurool uwchlaw
amgyffrediad pob Cymro, ac felly y gallasai anturio ein sarhau yn rhydd ac
yn rhwydd. Ei orchwyl oedd hysbysu ansawdd y mynwentau, ac nis gellir
ei feio am hyny ; ond dyma sydd yn ddigrif—ei fod, pan yn byr-ymweled
âg un o gyrau eithaf y Dywysogaeth, yn myned i gollfarnu y Cymry yn
gyffredinol, a hyny oddiar chwedl neu ddychymyg eithaf disail, a'r coll-
farniad hwnw, erbyn hyn, wedi ei hysbysu i'r holl fyd ! A oes dim modd
i'n llywodraethwyr gael dynion o synwyr cyffredin i'w hanfon ar ddir-
prwyaeth i Gymru ?

Wedi myned o'i ffordd i'n cernodio fel cenedl, mae yr Ymwelwr Dir-
prwyol yna yn disgyn ar *berson* Castellnedd, ac ar ficer a churad Cadoc-
son, ac yn awgrymu mai eu hariangarwch hwy yw yr achos o annhrefn
drygsawrus eu mynwentau. Wele, boed rhyngddynt hwy âg ef yn hyn ;
hyderwn y gallant brofi yn angen, ac y ceir allan hefyd, ond chwilio, nad
oedd ergydion y "tân-ddrylliau," yr hyn oedd yn peri i Mr. Bowie ofni

cael ei ferthyru o herwydd ei aidd dros ddiwygiad mynwentol, ddim ond trawst hogiau dyhir yn chwareu gyda *crackers*.

Mae yr hyn a fynegir am lawer o fynwentau y briffddinas, ac am y tai o'u cwmpas, yn fwy erehyll na dim a adrodda Mr. Bowie am yr eiddo Merthyr a'r cyffiniau; ond nid oes yno, bid siwr, ddim gogan yn cael ei daflu o'r herwydd ar y Saeson fel cenedl. Yn wir, dim ond darllen yr adroddiadau a geir tudal. 52, 53, 94, 106, a lleoedd eraill o'r *Report* sydd ger ein bron, ac fe welir fod y werin yn Nghymru gan' mlynedd mewn gweddeidd-dra oflaen yr unrhyw ddsbarth yn mysg y Saeson. Addefwn fod yn perthyn i'r Cymry lawer o waeleddau y dylent ddiwygio oddiwrthynt, ac o'u blaen lawer o rinweddu y dylent ymestyn atynt; ac un o'n gorchwylion yw nodi iddynt y naill a'r llall. Ond nid oes eisieu cyfranu addysg ar draul cyfiawnder. Dyweder yr *holl* wir; ond na ddyweder dim *ond* y gwir.

DOLENAU Y GADWEN.

YN ein herthygl ddiweddaf, cafodd ein darllenywyr olwg ar y darn cyntaf o'r gadwen hon—y darn cyntaf, a'r goreu o lawer—y rhai “da,” ond nid *da iawn*, a'r rhai a seliasant eu crefydd â'u gwaed. Y mae darn arall yn awr yn dyfod i'n golwg o archesgobion a phatriarchiaid, y rhai y cawsom gryn drafferth i'w pasio fel rhai gweddol; ac eto nid ydynt yn *dârrog iawn*, “fel na ellir eu bwyta rhag eu dryced.” Y mae y darnau hyn o ddolenau yn dair ar ddeg ar hugain, ac yn cyrhaedd dros agos i dri chant o flyneddau.

1. Marcus, o.c. 336, Rhufeiniad, yr hwn a fynodd i Gredo Nicene gael ei ganu, ac a roddodd y gochl i Esgob Hostia, a'r hon a fu orfod i esgobion eraill dalu yn ddrud am dani, pan fynent ei chael.¹ Yr oedd y gochl hon i fod o wlan, nid sidan, nac unrhyw ystwff arall, i arwyddo croen y ddafad

¹ Y mae Howel yn ei “*View of the Pontificate*,” tudal 370, yn rhoddi yr hanes canlynol am dani:—“Y mae y gochl o sylw neillduol, neu arwyddlun o uchafaeath y pab; canys trwy ei rhinwedd hi yr hōna yr holl batriarchiaid a'r esgobion dinasol en bod yn dal perthynas â Rhufain, ac hebddi nid ydynt i gysegro, llywyddu cymansa, na gweinyddu y dyledswyddau pabaidd. Y mae hanes byr am lys Rhufain, ynghyd â'i swyddogaethau a'i swyddogion, wedi ei ysgrifenu yn Italaeg, a'i gyfieithu i'r Saesneg gan Mr. H. Cogan, a'i argraffu gan Henry Herringman, o.c. 1654, yn yr hwn y rhoddir hanes traddodiadol am y gochl (*tudal.* 141). Dywelir yno fod arferiad y gochl yn hen iawn, wedi cael ei dechreuad gan y Pab Linus, canlyniedydd uniongyrchol St. Pedr, a'i rhoddi gan Dduw i esgobion Rhufain fel rhagorfraint o allu neillduol a phenodol. ‘Y mae y gofal o wneyd a chadw y cochlan,’ meddai yr un awdur, ‘yn perthyn i'r is-ddiaconiaid apostolaidd, y rhai a'u gwnant o wlan gwyn a phur, yn y dull hwn:—Y mae mynachesau mynachdy St. Anne yn offrymu bob blwyddyn ddau oen gwyn ar allor yr eglwys hono, ar ddydd gŵyl St. Anne, o wlan y rhai y gwneir y cochlan, ac yn ei roddi i'r is-ddiaconiaid, y rhai a'i cludant i eglwys Sant Pedr, a chan ganoniaid hono y rhōir hwynt ar gyrff yr apostolion, St. Paul a St. Pedr, o dan yr allor fawr, ac wedi eu gwyllo am un noswaith, yn ol y ddedod, cymerir hwynt oddiyno, ac fe'u rhōir yn ol i'r is-ddiaconiaid. Y mae eu lluniad yn gyfrgrwn neu gylchog, fel ag i gylchynu yr ysgwyddau, a llabed yn crogi i lawr y tu blaen a'r tu ol, ac ar bob ysgwydd.

golledig, yr hon a ddsygodd ein Iachawdwr (*Luc xv. 4*) i'r bugail da ei dwyn adref o'r anialwch ar ei ysgwyddau ei hun. Ei gydwladwr

2. Julius, o.c. 336, a gafodd hwy amser i wneyd mwy. Yn ei amser ef y daeth Athanasius i Rufain, ac y croesawyd ef yn dirion ganddo; lle, er rhoddi boddhad o berthynas i athrawiaeth y Drindod, y gwnaeth y credo

Pan y rhôir y gochl i ryw un, adroddir ffurf, o ba un y mae y geiriau hyn yn rhan:— 'Er anrhydedd yr Hollalluog Dduw, a'r fendigedig Forwyn Fair, a'r apostollon sanctaidd, Pedr a Phaul, a hefyd ein tad sanctaidd, y pab, a'r eglwys sanctaidd, yr ydym ni yn rhoddi y gochl hon, yr hon a gymerwyd oddiar gorff y bendigedig Pedr, yn yr hon y mae cyflawnder y swydd babyddol, ynghyd â'r cyfenwau o *archesgob*,' &c.

Dyna yr hanes a roddir gan y Rhufeiniad hwn. Y mae Howel yn gwrthddadlu ac yn gwrthbrofi yr hynafiaeth uchod ag y mae efe yn ei briodoli i'r arferiad. Credir, pafodd bynag, fod ein hawdur yn ei chlyrchu lawn ddigon pell; a dywed Platina, yn hanes bywyd Marc,—“Gan ymroddi i ofalu am grefydd, efe a ordeiniodd y gallai Esgob Hosta, gwaith yr hwn yw cysegru Esgob Rhufain, ddefnyddio y gochl.”—“*Riccu's Life of the Popes*,” tudal. 373. Iddynt dalu yn ddrud am dani sydd amlwg lawn; “Canys,” meddai Howel, (“*Pontificate* : tudal. 373) “y mae y rhai sydd yn ei derbyn yn arfer cyttuno â'r is-ddiaconiaid, y rhai a dderbyniant gan yr esgobion hyn a hyn y cant, weithiau fwy ac weithiau lai, yn ol y gwerth y *threthiad yr eglwys*.” Felly, yn ol eu cynllun hwy, na all yr un esgob gysegru, llywyddu cymanfa, neu gyflawni unrhyw weithred esgobawl, cyn iddynt gymeryd eu cochl (a'r hon na ellir ei chael heb y pris), nid oes ganddynt *deitl* i'w hurddasau, ac o ganlyniad, raid fod yn euog o Simoniaeth. Teimlwyd hyn yn dreth fawr ar logellau yr offeiriaid, ac yn orthwrw ar gydwybodau y rhai yr oedd eu barn wedi ei huniawni; canys yn ystod pabiaeth Leo III, yn yr wythfed ganrif, “protestiodd esgobion ac offeiriaid Lloegr yn erbyn yr anghenheidrwydd o fod i'w hesgob dinasol hwy dreulio ei lafur i deithio i Rufain er mwyn cael y gochl, na'i arian i'w phrynu, pan y mae rhai o gofrestrau bore yr eglwys yn profi na dderbyniodd rhai archesgobion mo'ni o gwbl, ac na phrynodd neb hi wrth bris. Dedwydd amser, meddent, yn yr hwn na wnaeth yr esgobaeth apostolaidd ei hun yn agored i'r gwarth a dafodd St. Pedr ar Simon, ‘Bydded dy arian gyda thi i ddystryw.’”—“*Blunt's History of the Reformation* :” tudal 51.

Gofynid i bob archesgob wrth dderbyn y gochl dyngu ufudd-dod i'r pab, yn yr ymadroddion canlynol:—“Myfi N., Esgob L., o'r awr hon allan, a fyddaf fyddlawn ac ufudd i fendigedig St. Pedr, ac i eglwys sanctaidd ac apostolaidd Rhufain, ac i'm harglwydd N., y pab. Ni byddaf mewn un cynghorfa, na rhoi cynnorthwy, trwy fy nghydsyniad na'm gweithred, i'r hyn y niweidir yr un o honynt, nac i'r hyn y galler siarad yn ddrwg am danynt. Y cynghor a roddant hwy i mi, naill ai ganddynt eu hunain, neu trwy genadau, neu trwy eu llythyrau, yn awgrymiadol neu benodol, ni fynegef i neb er eu rhwystro. Mi a fyldaf gynnorthwywr i gadw a chynnal pabaeth Rhufain, a hawliau St. Pedr (fel y cadwer fy urdd innau), yn erbyn pawb. Felly cynnorthwyed Duw a'r efengylau sanctaidd hyn fi.”—“*Fox's Acts and Monuments of the Church* :” llyfr ii., tudal. 259, argraffiad 1684.

“Darfu i Archesgobion Canterbury a York, o amser Augustine a Paulinus, i lawr hyd deyrnasiad Harri VIII. (yspaid o agos naw can' mlynedd), oddieithr wyth o archesgobion York, rhwng Paulinus ac Egbert, dderbyn cochl o Rufain, am y rhai y talasant bris afresymol. Y gochl hon, yr hon oedd yn wisg o wlan oen rhagorol, ac wedi ei haddurno yn gywrain, a wisg gan Archesgob Canterbury pan y byddai yn gweinyddu. Y hi eto yw cwnsallt (*arms*) bonedd archesgobaeth Canterbury. Bwriadwyd hi i fod yn arwydd o awhurdod archesgobawl; ond mewn gwirionedd *arwydd o gaethwasiaeth i esgobaeth Rhufain* a fu.”—“*Johnson's Clergyman's Vade Mecum*,” llyfr i., tudal. 41, pedwerydd argraffiad. Dywed Blunt, yn ei “*History of the Reformation*,” ddarfod i Cranmer dynu yn ol rhag derbyn esgobaeth Canterbury, ar gyfrif y rhwystr cydwydd a goleddai, o berthynas i lw ufudd-dod i'r pab, yr hyn a ofynid oddiwrth archesgob ar ei ddyrchafiad. Hyd yn hyn yr oedd uchafiaeth y pab wedi ei gydnabod, ac er fod y peth wedi ei ddwyn tan sylw ddwy flynedd o'r blaen, a hyd yn nod y *teitl* o ben goruchaf yr eglwys, ac offeiriad Lloegr, wedi ei roddi i Harri, trwy ymgynghorfa o dan yr Archesgob Warham, yn 1530, gwnaed ef yn hwyrfrydig, ac ni orphenwyd yn ebrwydd. Yma gwelir fod Cranmer mewn dyryswch. Er hyny, efe a gymerodd y llw o dan brotestiaeth cyhoeddus blaenorol, wedi ei gyfnewid fel y canlyn:—Nad

sydd yn y Litani, ac a gymeradwywyd gan Julius a'i offeiriaid, a'i roddi ymhlith y cofrestrau; oddiyno fe'i cymerwyd ac a'i cyhoeddwyd, i'w dderbyn gan yr eglwys yn gyffredinol. Trwy ei ofal ef yr ordeiniwyd fod i gofrestwyr gael eu hapwyntio i gofrestru amgylchiadau hynotaf yr eglwys. Ond achwyna Platina eu bod mor anllythyrenog yn ei amser ef fel mai prin y medrent ysgrifenu eu henwau eu hunain yn Lladin; ¹ wedi eu codi i'r lleoedd hyny oddiwrth grefftwriaethau cyffredin.—*Ciaconius*.

3. *Liberius*, o.c. 352, Rhufeiniad, yr hwn a'i dilynodd ef, oedd mor gyson, fel mai naill ai trwy ofn neu awyddfryd y rhoes ei law wrth

oedd efe yn addef, awdurdod y pab, ddim pellach nag y cytunai â phenderfynol air Duw; ac y byddai yn gyfreithlawn iddo ef lefaru yn ei erbyn unrhyw bryd, a gwrthwynebu ei gyfeiliornadau, pan y byddai achos. Bu y gonestwydd o hyn yn destun dadl mynych; a rhaid addef ei fod yn arddangos rhyw arwyddion o feddwl wedi prin ddianc rhag cyfrwysedd yr athrawiaethau pabaidd." Ond gosodwyd ef mewn amgylchiadau cyfyng; ac os na ellir cyfiawnhau ei ymddygiad yn llawn, gellir dyweyd llawer iawn i'w eagnodi. Gofynid iddo, yn wir, "i dyngu ffyddlondeb i ddau feistr, ac nid mewn dau beth gwahanol; i'r pab, y byddai ffyddlawn iddo, o awr ei gysegriad a derbyniad ei gochl;—i'r brenin, y byddai iddo ymadael yn hollol â phob cyfammodau, addunedau, swyddau, a throedd, yr oedd yn eu meddiannu, neu a feddiannai eto, megys oddiwrth y pab, trwy rinwedd ei swydd esgobawl, pa le, ac yn mha fodd bynag y gallai y cyfryw fod yn attalfa i ewyllys, urddas, awdurdod, ac elw ei fawrhydi; ac y byddai yn gywir a ffyddlawn iddo ef a'i etifeddon, a byw a marw gydag ef yn erbyn pawb. Yr oedd yn greulondeb i ddyn gael ei dafu ar flaenau unrhyw un o'r cyrn hyn, ac ni ddylesid dirgymhell neb iddo; ac er y gall fod yn beth esmwyth i edrychyd o draw ffyrio yn philosophaidd ar loesau y dyoddefydd, bydd i ryw gydymdeimlad gael ei ddangos gan bob calon resynol, os dygwydd iddo ddynoethi ei wendid wrth geisio ymryddhau oddiwrth y cyrn." Dyna esiampl o'r anhawderau â pha rai yr oedd gan flaenoriaid y diwygiad i ymryson, a'r rhai a gyfodasant allan o'r llw o ufudd-dod i allu tramor, o'r hwn ymostyngiaeth a chaethwasaeth yr oedd y *gochl* yn arwydd *gwaledig*. Y fath yw yr anhawderau i'r hwn y dygwyd hwy gan yr hyn a eilw Dr. Hook yn "gyfeiliornadau amgylchiadol" ei frodyr Rhufeinig, i'r hwn y syrthiasant hwy trwy eu bod yn "llai gofalus nag ydym ni yn awr pa athrawiaeth sydd wedi ei dadguddio;" ac oddiwrth y caethwasaeth hwn y gwaredodd y Diwygiad yr eglwys protestanaidd—caethwasaeth anfeidrol waeth na'r un y gwaredwyd yr Israeliaid oddiwrtho gan Moses, ac a ddygwyd oddiamgylch gan amlygiadau agos mor hynod o'r gallu a'r daioni dwyfol; ac eto, yn lle sefyll yn y rhyddid hwn, y mae ein Huchel-eglwyswyr fel pe baent yn hiraethu am Rufain, gan ei galw yn "gartref sanctaidd," &c., fel yr oedd yr Israeliaid am yr Aipht, ac yn gymaint am yr uchafiaeth a'r awdurdod a hōnir ac a arferir gan "y Mam feidd-dra," ag yr oeddynt hwy am wynwyn, garlleg, a chrochanau cig yr Aipht.

Y rhai a ddymunant hysbysiaeth pellach ar bwnc y gochl, a allent ei gael yn "*Pontificate*" Howel: tudal. 370—376. Gallent hefyd gyfarfod â rhai sylwadau ar y pwnc o ddechreuad tebygol yr arferiad o roddi y gochl, a rhai pethau eraill cywraïn o berthynas iddi, yn Esboniad Dr. A. Clarke ar l *Bren.*, tua diwedd y xix pennod.

¹ Y mae cywirdeb y sylw hwn yn amlwg iawn, canys y mae y dyrswch a'r gwrth-ddywediadau sydd agos trwy eu holl gofrestrau yn amlwg; y mae genym ddigon o brawfiadau o hyn yn "Llyfr y Pabau," "yr hwn sy'n traethu am fywydau esgobion Rhufain, ac a dybir gan rai iddo gael ei ysgrifenu gan y Pab Damasus, er nad yw yr esbonydd yn dywedyd mai gwaith y Pab Damasus ydyw, ond ei fod wedi ei glytio i fyny o waith dau awdur gwahanol (*Labbe*: tudal. 63; *Binnius*: tudal. 19). Pa goel oddiwrth ddyeithriaid a all llyfr, yr hwn y mae ei awdurdod yn cael ei ammheu gan ei amddiffynwyr, ei gael, barned y neb a fyno. Eto y mae y llyfr hwn, er ei waled, yn pasio gan y pabyddion fel un gwirioneddol, a'r rhai, yn eu hesboniadau, a'u hystyriant fel gwir hanes. Dyma y ffynnon o ba un y tarddodd yr holl flug-epistolau, flug-arfaethau, a'r dychymyngion gwarthau, o ba rai y ceisiodd agos holl dduwinyddion yr eglwys hono brofi eu hathrawiaethau a'u hymarferion, gan ddisgyn o fabandod Cristionogrwydd i'r dyddiau hyn, mewn olyniant eglur a didor, fel ag yr oedd cred ac arferion y tadau boreusaf.

Ariaeth, a chondemnio Athanasius. Hyrddiwyd Ffelix i'w le, yr hwn a brofodd yn fuddugoliaethwr; ond adgofiodd Liberius ei hun drachefn, ac adfeddiannodd ei sedd, yn yr hon y bu farw yn gyffeswr, gan ei gadael i

4. Ffelix II., o.c. 356, ei gyd-ddinesydd, yr hwn a ymostyngodd i gyd-gymuno â'r Ariaid, er nad oedd yn un o'r cyfryw ei hun; ond wedi hyny

Yr eisiamp ganlynol o gangymeriad gwrthun a wnaed gan y cofrestwyr sydd, dyb-twn, yn eithaf digon i argyhoeddi y darlennydd nad oes cred yn y byd i'w roddi ar y cofrostrau a gadwant; er eisiamp, y maent yn priodoli epistol i Clement, yn yr hwn y gosodir allan fod St. Pedr yn ei gyfarch ef fel hyn yn ngwydd y gynulleidfa, ar ei waith yn ei benodi ef i fod yn ganlyniedydd iddo yn esgobaeth Rhufain:—"Sylwch, fy mrodyr, fy mod yn ordeinio y Clement hwn i fod yn esgob i chwi, ac i'r hwn yn unig yr wyf fi yn rhoddi fy awdurdod i bregethu ac athrawiaethu: a phan daffodd Clement ei hun wrth draed St. Pedr, ac mewn gwyleidd-dra yn gwrthod yr anrhyddodd o'r gador, fod St. Pedr wedi ei erfodi yn anhyblyg. Ond yn awr, a all hyn fod, pan y mae y rhan fwyaf o ysgrifenywyr yn rhoddi Linus a Cletus o flaen Clement? Pwysoed y rheswm hwn gyda llawer o Babyddion, fel y gwrthodasant yr epistol; ac y mae Cusonus yn ei '*De Concordantia Catholica*,' yn tystio yn benderfynol 'fod eu hanghysondeb yn eu bradychu hwy.' " Drachefn, y mae ymadrodd arall, yn yr hwn y gosodir St. Pedr allan yn cyfarch Clement fel hyn:—"Yr wyf yn deisyf arnat, O Clement, ger bron pawb sydd yma yn bresennol, fod i ti, wedi i mi dalu dyled ddiweddf natur, ysgrifenu at ein brawd Iago.' Ond yr oedd Iago wedi marw saith mlynedd o flaen St. Pedr, fel yr ymddengys oddiwrth Josephus ac Eusebius. Unwaith eto, All epistol Clement, esgob eglwys Rhufain, at Iago, esgob Jerusalem; ond fel y sylwyd, bu Iago farw saith mlynedd o flaen Pedr, ac o ganlyniad, cyn i Clement gael ei wneyd yn esgob."—*Howel*: tudal. 7.

Ni phoonwn y darlennydd ond âg un prawf ychwaneg o ddiolalwch ac analluogrwydd y cofrestwyr annysgedig hyn. "Nis gallent gyttuno o berthynas i Pius ac Anicetus, pa un oedd y cyntaf; yr hyn sy'n profi yn eglur can llefed gofal a ddangoswyd am eu holyniad, ac o ganlyniad, mor ansicr y rhaid ei fod. Y mae Bellarmine yn darnodi epistolau y Pab Pius, i brofi yr uchafiaeth babaidd, ac eto yn dywedyd gyda sicrhad anghymharol, 'na feiddiai sicrhau fod yr epistolau hyny yn awdurdod ddiama-mheul.' Gan hyny, mor warthus yw dyfynu ffugiaeth, er amddiffyn pwne mor awnly ag yw yr uchafiaeth."—*Howel on the Pontificate*: tudal. 14.

Gellid sylhelaethu ar y prawf hwn o ddiolalwch, analluogrwydd, neu gamddarlun- iadau gwirfoddol golygwyr "Llyfr y Pabau" faint a syner, yn wir, dyben Howel yn ei "*View of the Pontificate*," oedd dangos y cyfeiliornadau a'r camddywediadau y mae yn ei gynnwys, ac hefyd mai cruglwyth o ynydrwydd, anghysonderau, a gwrthddy- wediadau, yn y rhai na roddir coel gan neb, ydyw; ac y mae wedi llenwi llyfr wythplyg, o fwy na phum cant o dudalenau, i wneyd hyn.

Dywedodd Richard Baxter dduwiol, "Na ddangosodd neb hyd y dydd hwn y fath olyniant, er prawf o'i weinidogaeth; ac nis gall ein holl daerni lwyddo i gael gan y Pabyddion ddangos i ni y fath brawf. [Ac erbyn heddyw y mae rhywrai eraill yn dadlu trosto.] Y mae yn beth amhosibl i neb byw yn awr, i brofi ordeiniad rheol- aidd ei holl ragflaenorion hyd ddyddiau yr apostolion. Pa fodd y gellwch chwi dywedyd nad cymeryd arno ei fod wedi ei ordeinio a wnaeth yr hwn a'ch ordeiniodd chwi, neu o leiaf ei fod wedi ei ordeinio gan un arall wedi ei ordeinio o'i flaen ef? neu fod rhagflaenydd hwnw wedi ei ordeinio? Y mae yn hollol amhosibl i ni wybod y fath beth—nid oes genym eglurhadau i'w brofi."—"*Disputations*:" tudal. 169.

"Os yw y dywededig olyniant didor yn anghenrheidiol i fedolath ein gweinidogaeth, ein heglwysi, neu ein hordeiniadau, yna y mae yn ofynol i bawb a brofant wirion- eddolrwydd ein gweinidogaeth, ein heglwysi, neu ein hordeiniadau, brofi hefyd ein dywededig olyniant. Ond nid yw hyn wir am na allai neb ei brofi. Naill y mae yn briodol ein bod yn alluog i brofi gwirionedd ein gweinidogaeth, ein heglwysi, a'n gweinyddiadau, neu nad yw. Os nad yw, paham y geill ein gwrthwynebwyr arnom i wneyd? Os yw, yna nid oes gan neb yn holl eglwysi Ewrop, ar eu sail hwy, ddim prawf; gan hyny, ni ddylent hŏni gweinidogaeth, eglwysi, nac ordinhadau; ond rhaid i ni oll droi yn ymchwilwyr heddyw, ac yn infideliad yfory."—"*Disputations*:" tudal. 175.

Y diweddar Barch. Richard Watson a sylwa yn briodol, "Am y rhestr a ddangosir yn gwahanol eglwysi, er dyddiau yr apostolion, gan rai ysgrifenywyr, y mae o ffugiaethau a dyfeisiadau amserau diweddar."

efe a ddiswyddwyd ganddynt, mewn ymderfysg. Efe a wnaeth *ail*¹ sism Liberius, ac oblegid hyny y mae rhai yn ei adael allan o gofrestr y pabau.

5. Damasus, o.c. 367, Ysbaeniad, yr hwn y bu yn galed arno gael ei le, oblegid ei fod yn cael ei wrthwynebu, yn benaf gan Desicinus, yr hwn a etholwyd gan y blaidd wrthwynebol. Wedi llawer o ymryson, a llawer o dywallt gwaed, ennillodd Damasus y gader. Yr oedd ef yn gyfaill mawr i St. Jerome, yr hwn, yn ol Ciaconius, a wnaed yn gardinal, yn gyntaf ganddo ef, wrth y cyfenwad o St. Anastatius, ac wedi hyny, cyfenwyd ef yn St. Lawrence. Ymddengys i Jerome, ar gais y pab hwn, ddiwygio y cyfieithiad Lladinaidd cyffredin, y *Vulgate*, yn fawr. Ordeiniodd fod i'r rhai a roddent eu harian allan ar lŵg, y rhai na thalent ddegwm, gael eu cyhuddo; efe a benodd *Gloria Patria*, &c.—Gogoniant i'r Tad, &c.—i fod yn niwedd pob Salm. Y mae rhai yn dyweyd mai efe ydoedd awdur “Llyfr y Pabau,” yn cynnwys hanes bywyd y pabau. Ond hyn sydd sicr, fod glythineb yr offeiriad yn fawr iawn yn y dyddiau hyn, yr hyn a roddodd achlysur i ymherawdwr paganaidd ddyweyd yn gellweirus, “Gwnewch fi yn bab, a mi a droaf yn gristion.”

6. Siricius, o.c. 385, Rhufeiniad, a'i dilynodd, yr hwn a wnaeth lai o ddaioni. Efe a ddiarddelodd y rhai a briodasant ddwywaith, a derbyniodd fynachod i urddau sanctaidd. Gwnaeth y tybiau a goleddodd am deil-yngdod gwryfodod, iddo erlid Jovinian yn greulawn. Yn ei amser ef—

¹ Gwelsom fod yr “Olyniant Apostolaidd” yn methu mewn prawf hanesiol, yr hyn sydd anheggorol anghenrheidiol i'w sefydlu; a gallwn yn awr droi ein sylw at y sismau a gymerodd le, ar wahanol amserau, yn llinell yr esgobion—y toriadau yn nghydiadau dolenu a gadwen, ar hyd y rhai y ceisair eu holrhain. Y mae y rhai hyn yn lliosog; ac yn doriad a rhwygiad mor hollol ag y gall prawf hanesiol ei wneyd. Wrth siamau yr ydym yn deall, fod dau neu fwy o'r ficeriaid anffaeledig hyn i Dduw, yn hawlio yr uchafiaeth, ac yn gweinyddu yr un hawliau swyddol er yr awurdodd hono—y naill yn mellidithio y llall “â chloch, llyfr, a chanwyll.” Nis gellir cyfrif y rhai hyn oll, canys nid yw yr ysgrifenyddwyr pabaidd eu hunain yn cytuno ar y pwnc. Cyfrifa Onuphrius bedwar ar hugain o sismau, neu doriadau yn y gadwen cyn ei amser ef, eraill yn cyfrif rhai fwy a rhai lai. Digon a fydd i ni droi sylw y darlennydd at rai o honynt.

Y cyntaf, yn ol Platina, a gymerodd le rhwng Cornelius a Novatus, “yr hwn a gyhuddodd Cornelius o heresi, oblegid iddo dderbyn, ar eu hedifeirwch, y rhai hyny a syrthiasant i eilunaddoliaeth.” Parhaodd y Novatiaid, am hir amser, i ddewis pab eu hunain, hyd yn nod i amser Celestine, yspaid o agos ddau can' mlynedd; felly yr holl amser hwn, yr oedd dau anffaeledigion yn ymryson yn erbyn ac yn mellidithio eu gilydd. Rhoddodd Liberius, tua'r 355, ei law wrth Ariaeth, ac efe a ddiswyddwyd am hyny, a rhoddwyd Felix yn ei le ef; ond wedi hyny, efe a roddwyd yn ol gan yr ymherawdwr, a diswyddwyd Felix; “ar yr hyn,” meddai Platina, “y cyfododd y fath erledigaeth orwyllt, fel y cafodd yr henuriaid a'r offeiriad eraill eu llofruddio mewn llawer o loeodd, hyd yn nod yn eu heglwysai.” (*Ricaut*: tudal. 58). Damasus, yr hwn a ddewiswyd i'r babaeth yn y flwyddyn 367, “a wrthwynebwyd yn fuan gan Ursicinus, diacon, pleidwyr yr hwn a gyfarfuasant mewn eglwys, lle hefyd yr ymgynullodd cyfeillion Damasus, a chariwyd yr ymryson, nid trwy bleidlais, ond trwy rym arfau, a lladdwyd llawer o ddynion o bob tu, hyd yn nod yn yr eglwys” (*Ricaut*: tudal. 68). “Yn y flwyddyn 419,” meddai Ricaut, “cyfododd terfysg mawr yn mysg yr offeiriad, canys er fod Boniface wedi ei ddewis yn esgob mewn un eglwys yn y ddinas, gan un blaidd, eto dewiswyd Eulalius, a gosodwyd ef i fyny yn ei erbyn, gan blaidd wrthwynebol, mewn lle arall; wedi i hyn gael ei wneyd yn wybodus i Honorius, efe a alltudiodd y ddau o'r ddinas. Ond yn mhen oddeutu saith mis wed'yn, efe a alwodd Boniface yn ol, ac a'i cadarnhaodd yn yr urddas babaidd.”

Y sism, neu y toriad nesaf a gawn yn y gadwen, a gymerodd le rhwng Symachus a Lawrence, am yr hyn y mae Ricaut, yn ei gyfieithiad o “Fywyd y Pabau,” gan Platina,

ond nid ganddo ef, eithr gan yr ymherawdwr da, Theodosian, y dinystrwyd teml Seraphis, yn yr Aipht, ac y drylliwyd y ddelw.

7. Anastatius, o.c. 398, oedd o'i dylwyth ei hun, a cherddodd yr un llwybr. Yr oedd yn ofalus i gadw i lawr gyfeiliornadau Origen : efe a ddechreuodd yr arferiad o sefyll tra y darllenid yr efengylau. Nid oedd gweithredoedd

8. Innocent, o.c. 402, yr Albaniad, yn llawer mwy hynod, er ei fod yn elyn mawr i'r Morganiaid; yn ei amser ef yr yspeiliodd Alaric Rufain; ond yr oedd Innocent yn pryd hyny yn Ravenna. Ymddengys fod ganddo ryw law yn y gynnadledd fawr a gynnaliwyd yn Carthage, rhwng yr un-iawngred a'r Donatiaid; am yr hon y crybwyllir gan Papirius Masonius, yn Binnius, y Groegwr.

9. Zosimus, o.c. 417, a wnaeth rywbeth hefyd yn y ffordd hono; efe a ddygodd ganwyllau cŵyr i'r eglwys, a gwaharddodd i offeiriaid gyrchu i ddiottai a thafarndai. Efe a roddodd ei le i

10. Boniface, o.c. 479, Rhufeiniad, mab i Jocundus, offeiriad. Efe a ddewiswyd mewn annhrefn, gan iddo gael ei wrthwynebu yn gyfrwys gan Eulalius, y diacon, yr hyn a wnaeth y *trydydd* sism, meddai Onuphrius. Sonia Beda, yn ei gasgliadau, am lyfr gwyrthiau, ond nid oes cofrestrriad am yr un o honynt yn awr.

11. Celestine, o.c. 423, Campaniad, a gymerodd ei dro ar ei ol ef. Canmolir ef yn fawr am anfon Germanus a Lupus yma i Frydain, Pelagius i Scotland, a Patrick i'r Iwerddon, i ddiwreiddio heresi y Morganiaid.

yn rhoddi yr hanes canlynol:—"Tra yr oedd un blaid o'r offeiriaid yn dewis Symachus, yn eglwys Sant Ioan, yn y Lateran, yr oedd plaid arall o honynt yn y St. Mary yn dewis un Lawrence, ar yr hyn yr oedd senedd a phobl Rhufain wedi ymrano yn ddwyblaid. Gan fod y ddadl wedi cyfodi i'r fath uchder, galwyd ymgynghorfa yn Ravenna, trwy gydsyniad y ddwyblaid, i wneyd heddychiad, lle y cafodd yr holl amgylchiad ei ddaedleu yn mhresenoldeb Theodorice, yr hwn, o'r diwedd, a benderfynodd o du Symachus, gan ei gadarnhau yn y gader babyddol. Yn mhen tua phedair blynedd wedi'n ymdrechoddi rhai offeiriaid roddi Lawrence drachefn yn ei le ef, am yr hyn yr anafodhaodd Theodorice mor fawr, fel y diswyddodd y ddau, ac anfonodd am Pedr, Esgob Altino, i gymeryd y gader; ond galwodd Symachus gymanfa, a thrwy bleidlais gyffredinol, a allodd alltudio Lawrence a Phedr, ar yr hyn y cyfododd y fath afonyddwch yn y ddinas, fel y lladdwyd lliaws o offeiriaid a phobl, yn mhob parth, fel na ddiangodd hyd yn nod gwyrifon y mynachlogydd; ac ni buasai y lladdfa yn diweddu ar hyn, oni buasai i Faustus, y *consul*, o resyndod tros yr offeiriaid, gyfodi mewn arfau, i chwatu yr ymrysonwyr." (tudal. 84.)

Cymerodd sismau eraill le rhwng Boniface ii. a Dioscorus, yn y flwyddyn 536; rhwng Silverius a Vigilius yn y flwyddyn 536; a lliosogwyd y sismau hyn, fel ag y cyfrifodd Onuphrius bedwar ar hugain cyu ei amser ef; hyny yw, fe fu pedwar ar hugain o *doriadau* yn y gadwen ddidor; neu mewn geiriau eraill, bedair ar hugain o ddolenau drylllog yn nghadwen yr ordeiniad rhwng yr apostolion a'i ddydd ef. "Yr oedd un blaid," meddai Moheim, "yn ethol Damasus, tra yr oedd yr un wrthwynebol yn ethol Ursicinus, diacon o eglwys wag. Darfu i'r etholiad dwbl hwn achosi cyfodiad i fath o ryfel gwladol yn y ddinas, yr hyn a ddygwyd ymlaen gyda'r barbar-eidd-dra eithaf—y lladdiadau creulonaf ac anrhaith. Diweddodd yr ymryson annynol hwn yn nuddygoliaeth Damasus, ond y mae yn ammhenaeth a oedd ei achos ef yn gyflawnach na'r eiddo Ursicinus. Ymddengys nad oedd gan yr un o'r ddau yr egwyddorion hyny a gyfansoddant gristion, llai o lawer y rhinwedd hwnw a ddylai hynodi esgob Cristionogol." Pa fodd y mae pobl y gadwen yn penderfynu y cwestiwn—yr "ammheuath" hwn! Dylen fod yn alluog i brofi, yn yr ymrysonau hyn rhwng dau wrthwyneydd am y babaeth, mai yr un a lwyddodd i gyrhaedd a chadw y gader oedd yr un a'r hawl gyflawnaf iddi. Pa fodd y profant fod gan Symachus well *title* i'r babaeth na Lawrence! etholwyd pob un o honynt gan eu priodol bleidian, a'r

12. Sixtus iii., o.c. 492, Rhufeiniad, yr hwn a ddilynodd; ni wnaeth gystal gorchwyl. Cyhuddir ef o buteindra gan ryw Basus, ond penderfynwyd y pwnc mewn cymanfa er gwarth i Basus. Yr oedd yn fawr am adeiladu, trwy yr hwn y cafodd y gair o gyfoethogi yr eglwys. Ar gais yr ymherodres Eudoxia, efe a wnaeth ddydd gŵyl i gader St. Pedr. Ond ni allasai hyn oll gadw Genserig rhag anrheithio Rhufain.

13. Leo, o.c. 440, y Tuscaniad, a lwyddodd yn well, nid yn unig gyda Genserig, ond hefyd gydag Atyla, yr hwn a'i perswadiodd ef rhag anrheithio Rhufain, yr hon oedd yn awr yn gorwedd wrth ei drugaredd. Y mae hyn yn cael ei briodoli i gynnorthwy gwyrthiol St. Pedr a St. Paul, yr hyn a ddychrynodd yr henuriaid tra yr oedd Leo yn llefaru wrthynt. Dyma yr amser y dygwyddodd y daeargryn dychrynlyd a wnaeth lawer o ddin-

ymherawdwr yn y diwedd a benderfynodd o du Symachus, yr hwn wedi hyny a ddiswyddodd y ddau, gan geisio gosod l'edr ar yr orsedd. Os gan yr ymherawdwr yr oedd penderfynu pwy fyddai pen anfaeledig yr eglwys, Pedr oedd y pab cyfreithlawn. Dyma lle y daeth pobl yr olyniant i ddyrswch diddaturus, canys oddieithr iddynt allu profi fod yr holl babau wedi eu dewis yn gyfreithlawn, y mae eu hachos wedi ei goli: canys os aeth y pabau allan o'r gadwen, byddai yn anmbosibl iddynt hwy roddi eraill ynddi.

Y mae amgylchiad Formosus yn werth sylwi arno yma. "Efe," meddai Platina, "a anathemeiddiwyd gan Ioan ix., oblegid iddo, rhag ei ofn, adael yr esgobaeth, a ffoi i Ffrainc, o ba le y nacaodd ddychwelyd pan alwyd arno i ddyfod yn ol; ond pan, wedi hyny, y dychwelodd i Rufain, cymerwyd oddiaro ei holl waddolau eglwysig, a gwnaed ef yn ddirmygus yn llëygwr. Meddylia rhai mai y rheswm pahan yr erlidiwyd ef felly, oedd, oblegid iddo fod yn blaid, os nad yn brif flaenor plaid, a roddodd Ioan yn ngharchar; pa fodd bynag, cythryblwyd Formosus gan y driniaeth galed hon, fel y tyngodd na ddychwelai byth yn ol i Rufain, nac i'w esgobaeth. Ond, darfu i Martin, canlyniwydd Ioan, ei ryddhau oddiwrth y llw hwn, a'i roi yn ol i'w wlad, a'i urddas flaenorol, o'r lle, nid hir wed'yn, y daeth i'r babaeth, yn fwy trwy *bribe*, nag oblegid dim daioni ag oedd ynddo, gan fod pobl lawer yn gwrthwynebu ei etholiaid.

"Stephan vi., yr hwn oedd Rufeinwr, ac esgob Anagni, a erlidodd goffadwriaeth Formosus gymaint, fel y dilëodd ei benderfyniadau, ac y dyddymodd bob peth a wnaethai ef, er y dywedir mai Formosus gynt a roddodd esgobaeth Anagni iddo ef. Efe a orchymynodd i'w gorff gael ei lusgo allan o'r bedd, ei ddyosgo o'i wisg babyddol, a rhoi gwisg dyn cyffredin am dano, ac yna ei gladdu ymhlith dynion cyffredin, wedi yn gyntaf dori ymaith y ddau fys hyny i'r llaw ddeheu a ddefayddir yn gyffredin gan yr offeiriad wrth gysegru, ac a'u tafodd hwynt i'r Tiber, oblegid iddo, meddai efe, yn groes i'w lw, ddychwelyd yn ol i Rufain, ac ymarferyd y swydd sanctaidd, oddiwrth yr hyn yr oedd y pab Ioan wedi ei ddiswyddo ef yn gyfreithlawn. Achosodd hyn ddadl fawr, ac esiampl ddrwg iawn, canys darfu i'r pabau dilynol ei gwneyd agos yn arfer gyson, i dori a dyddymu gweithredoedd eu rhagflaenoriaid." (*tudal.* 175.)

Sergius iii., hefyd, a hollol ddyddymodd yr oll a wnaethai Formosus o'r blaen, yn gymaint ag y bu raid i offeiriad a ordeiniwyd ganddo, gymeryd eu hailordeinio ganddo ef. Nid oedd yn foddllawn chwaith ar hyny o ddiarhydedd ar y pab marw, ond efe a lusgodd ei gelain o'r bedd, a dorodd ei ben fel pe buasai yn fyw, ac yna a'i tafodd i'r Tiber, fel un annheilwag o'r anrhydedd o gladdedigaeth ddynol." (*tudal.* 178.)

Formosus, ordeiniad yr hwn a ddyddymwyd fel yna gan ddau o'i olynnyddion anfaeledig, a ordeiniodd Phlegmund, archesgob Canterbury; ni chafodd ef erioed ei ailordeinio, ac efe a ordeiniodd y rhan fwyaf o esgobion Lloegr am chwe' blynedd ar hugain. Oeh! ffe! o'r olyniant—dyna fel y mae y dolenau yn cydio!

"Benedict ix., a ddiswyddwyd gan y Rhufeiniad," meddai Platina; "gwalech ddog diles oedd efe. Codasant Ioan, esgob Sabina, i fyny yn ei le, wrth yrenw Sylvester iii., yr hwn a dröwyd allan yn mhen naw niwrnod a deugain, ac adferwyd Benedict; ond efe, gan weled ei hun mewn perygl drachefn o gael ei ddiswyddo, a roes y gader i fyny o hono ei hun i Ioan, archesgob St. John, yn Mhorth Latin, yr hwn wedi hyny a alwyd Gregory vi., er yr haera rhai mai ei gwerthu iddo a wnaeth efe." (*tudal.* 199.)

asoedd yn garneddau, wrth ganu y Trisagium newydd, yr hwn a ddysgodd bachgenyn gan angelion, wedi ei gyfodi i fyny i'r awyr, sef y "*Sante Deus*," &c. Y mae rhai gwyrthiau yn cael eu priodoli i'r pab hwn. Y mae ei weithiau wedi eu casglu yn un llyfr gan ganoniaid rheolaidd St. Martin, yn Louvain, sef ugain o homiliau, a chant o epistolau, y rhai a geir yn "Llyfrfa y Tadau:" dosb. v., tudal. 789.

14. Hilarus, o.c. 461, o Sardinia, yn ol Onuphrius, nis gallai lwyddo cymaint gyda Odoacer a'i Heruli, ag a ddarfu Leo gydag Atyla a'i Huniaid, canys anrheithiwyd Rhufain gan eu ruthoriadau. Y mae dau beth i sylwi arnynt yn amser y dyn hwn,—diwygiad y *cycle*, neu y prif yn y calendar, gan Victorinus, o Aquitane, a dygiad i mewn y Litani (yr hon a arferir hyd heddyw) gan Mancitus Claudius, o Vienna, am attal barnedigaethau

"Tra yr oedd Benedict yn gwerthu y babaeth i Ioan, esgob Sabina, yr oedd plaidd arall," meddai Platina, "yn ethol Rhufeiniad, mab i ryw Lawrence, yr hwn a alwyd Sylvester III. Yr oedd y babaeth wedi dyfod i'r fath gyflwr yn awr, fel mai y mwyafrwyddus, ac a roddai fwyaf am dani (nid y mwyafrwyddus a ddsygedig), a fyddai yn sicr o gael y swydd uchel hon. Gwnaed Sylvester yn bab, nid gan goleg o gardinaliaid, canys buasai hyn yn rhyweth goddefol, ond trwy Simoniaeth hollol, yn ol fel y dywed rhai, ac a ddiswyddwyd yn fuan yn eithaf cyfiawn, gan iddo fyned i mewn fel lleidr neu yseuillwr, nid trwy borth, ond trwy y drws cefn." (tudal. 200.)

"Ond yr Ymherawdwr Harri II., gan glywed am y camymddygiadau hyn," meddai Platina, ymbhellach, "a aeth i'r Eidal gyda byddin fawr, ac wedi galw ymgynghorfa, a barodd i Benedict IX., Sylvester III., a Gregory VI., oll gael eu diswyddo, fel cynnifer o anghenfilod truenus, a chreu Syndegerus, esgob Bamberg, yn bab, wrth yr enw Clement II., yn fwy trwy ei awdurdod a'i orchymyn ef, na thrwy gydsyniad y cynghor; efe a wnaeth i'r Rhufeiniad gymeryd llw, yn ol y ffurf a wnaethai ef, i beidio ymyr-aeth yn etholiad yr un pab, oddieithr trwy orchymyn oddiwrtho ef; canys gwel i yr ymherawdwr fod pethau yn dyfod i'r fath uchder o lygredigaeth, fel y gallai unrhyw greadur pleidiol a hyf, na mor isel bynag, gyrrhaedd yr urddas hwnw, trwy brynu pleidlais yr etholwyr, yr hyn na ddylai gael ei roddi, ond trwy Ysbryd Duw, i'r rhai hyn a ragorant mewn dysg a bywyd sanctaidd. Ond mor gynted ag yr aeth ef ymaith (meddai rhai) dyna y Rhufeiniad yn cynllunio i wenwyno y pab, oblegid iddo gael ei wneyd felly heb eu cydsyniad hwy, yn y nawfed flwyddyn o'i babaeth; a dywedir ymbhellach, ddarfod i'r cymysgiad gwenwynig gael ei barotöi ar ei fedr gan Stephan, yr hwn a'i dilynodd wrth yr enw Amasus, gan ruthro i'r gader babyddol trwy orthrech, heb gydsyniad yr offeiriad na'r bobl. Y fath wraidd dwfn oedd yr arferiad llygredig hon wedi ei chymeryd, fel y gallasai unrhyw genaw beiddgar ymgyrrhaedd i gader St. Pedr. Ond ymddialodd y Duw cyfiawn ar y fath ddifyrwrch, fel y byddai yn esiampl i'r lleill, y rhai a geisient gael, trwy uchelgals a Simoniaeth, yr hyn a ddyllasai fod yn wobwr rhinwedd; canys efe a fu farw yn y nawfed flwyddyn ar hugain o'i babaeth." (tudal. 201.)

Ond pa beth a ddywedwn am y siam—y toriad mawr a gymerodd le yn y gadwen ar yr achlysur o symudiad y llys o Rufain i Avignon, lle y cafodd ei gynnal o'r flwyddyn 1305 i 1375, yr hyn a arweiniodd olyniant i ddwy gyfres gadwenog o ddolenau—o benau anffaelledig—un yn byw yn Rhufain, ac yn gweinyddu holl swydd y babaeth, a'r llall yn Avignon; y naill yn melldithio y llall, ac yn gwadu awdurdod ei weithredoedd swyddogol, y rhai, meddai ein hawdur, "y maent yn hwyrfrydig i glywed am danynt." Y cardinaliaid Ffrancaidd, y rhai a fynent gael y llys yn ol i Avignon, a ddewisasant bab o'u cenedl eu hunain, yr hwn a enwasant yn Clement VII., a hwynt, y rhai a fynent barhau arosiad y llys yn Rhufain, a ddewisasant Neapoliad, yr hwn a alwasant Urban VI. Yr oedd y Ffrancod a'r Ysppaeniad yn cefnogi Clement, tra yr oedd y Saeson, Dutchiaid, Italiaid, ac eraill, yn ymlwyn wrth Urban. "Aeth yr ymrafael mor uchel," meddai ein hawdur, "fel yr anrheithiwyd Rhufain ei hun yn druenus gan Clement, a'i ymlyawyr. Yr oedd teirw un pab yn rhoio yn erbyn teirw y llall, ac ymranodd Cristionogaeth yn ddwy blaid." Dilynwyd Urban gan Boniface, a Chlement gan Benedict XIII.; dilynwyd Boniface gan Innocent VII., ac yntau gan Gregory XII., ond ar yr amsod y byddai iddo, er mwyn heddwch yr eglwys, roddi ei swydd i fyny pan elwid

trymion Duw, a deisyf ei drugaredd. Dywedir mai Hilarus a arfaethodd na ddylai gweinidog briodi neb ond gwyrif, wrth yr hyn yr ymddengys y gallai gweinidogion briodi.

15. Simplicius, o.c. 467, Tiburtiniad, a ymyrodd â llawer iawn o bethau. Efe a adeiladodd balasau, cymerodd arno lywodraethiad yr eglwys yn Ravenna, ac a arfaethodd na byddai i neb o'r offeiriad ddal bywioliaeth o dan lëygwr. Wrth addurno Eglwys St. Andrew, yn Rhufain, dywedir, ymhlith pethau eraill, fod ganddo y llinellau deisyfol hyn :—

“ Ffoadur duwiol, tyr'd, cei ddysgeidiaeth,
I brynu y nef o bob amheuaeth.”

16. Felix III., o.c. 483, mab i offeiriad Rhufeinig, yr hwn nad oedd mor aflonydd yn Rhufain, er iddo wrthwynebu cynnygiad yr ymherawdwr Groegaidd Zeno, o wneyd undeb rhwng yr eglwysi dwyreiniol a gorllewinol, yr hyn a greodd gryn derfysg.

17. Gelasius, o.c. 491. Yr oedd ef yn fab i esgob Affricanaidd, ac a enwogodd ei hun trwy drefnu canonau yr ysgrythyrau, a thafu allan lyfrau ffugiol, oedd o'r blaen yn cael eu hystyried yn ganonaidd. Tybiai Bellarmine a Baronius, fod y traethodyn sydd ar ei enw, o berthynas i ddwy natur Crist, yn erbyn Eutychus, wedi ei ysgrifenu gan Gelasius Cycizemy, ac nid gan Gelasius y pab, pe amgen na buasai byth yn cyfiawnhau Eusebius, yr hwn ar achos arall a geryddodd, oblegid ei Ariaeth, nac yn llefaru yn erbyn trawsylweddiadau. Llawer islaw i hwn y cyrhaeddodd

18. Anastatius II., o.c. 497, Rhufeiniad, yr hwn a gafodd ei le ef; er hyny, efe a feiddiodd esgymuno Anastatius yr ymherawdwr Groegaidd, fel y mynega Platina, am bleidio Acacius yr heretic, yr hwn y darfu iddo ef wedi hyny ei bleidio, a chydgyrddo â Phonitius, nes o'r diwedd y bu farw mewn modd tebyg i'r hyn y cyfarfyddodd Arius â'i angeu.

19. Symmachus, o.c. 499, Syriad, a'i dilynodd, ond yn nghanol gwrthwynebiad mawr oddiwrth un Lawrence, yr hyn a barhaodd lawer o flyneddau. Hwn y mae Onuphrius yn ei gyfrif y *pechoerydd* sism, ond y *pummed* meddai Ciaconius. Ni wnaed dim neillduol ganddo ef, oddieithr y cymerodd ofal fod i enaid ystyfnig rhyw Paschinus gael ei gosbi yn dda mewn purdan wedi ei farwolaeth, fel y dysg Gregory yn ei “*Morals*.” llyfr iv., pen. 40.

20. Hormisdas, o.c. 514, o Campania, yr hwn a gafodd y cyfenwad

arno i wneyd hyny. Ond dygwyd ymlaen lawer o dwyll rhyngddo ef a Benedict XIII.; a galwodd y Cardinaliaid ymgynghorfa yn Pisa, a'r canlyniad fu eu gollwng hwy ymaith ill dau, a rhoddi Alecsander v. yn y gader, yr hwn a ddilynwyd gan Ioan XXIII., gan yr hwn y galwyd ynghyd ymgynghorfa Constance, yn 1414, gan yr hon y di-swyddwyd yntau, “am amryw ysgelerderau annyoddefol;” a chadarnhawyd diswyddiad Gregory XII., a Chlement VII., gan ymgynghorfa Pisa, ac yna dewiswyd Martin V.; ac fel yna terfynodd y sism hwn, wedi parhau tros ddeugain mlynedd.

Yn awr, gan na allasai fod dau ben anffaelidig cyfreithlawn i'r eglwys, rhaid fod un o honynt yn drawsfeddiannwr; a Gregory XII., yr hwn a ddiswyddwyd yn ymgynghorfa Pisa, yr hwn ddiswyddiad a gadarnhawyd gan ymgynghorfa Constance, a'r hwn, oblegid hyny, a ellir tybio nad oedd ganddo ddim *title* da i'r lle, oedd y pab a gysegrodd Chichley, archesgob cyntaf Canterbury, a'r hwn a weinyddodd y swydd archesgobawl am naw ar hugain o flyneddau, ac a ordeiniodd arche-gobion, esgobion, ac offeiriad, yn ystod yr amser hwnw, ac yntau ei hun wedi ei ordeinio gan drawsfeddiannwr i ordeiniad sanctaidd yn unig; canys nid oedd Gregory yn bab, a chan hyny nid oedd ganddo hawl na gallu i roi ordeiniad; ac y mae hyn ar unwaith yn gwneyd y fath dorriad yn y gadwen fel na ellir cael dolen i gydio offeiriad Eglwys Loegr â hi.

gyntaf gan yr Ymherawdwr Justine. Er hyny, mynodd ef esgymuno yr Ymherawdwr Anastatius, oblegid y daliai mai ei waith ef oedd *gorchymyn*, ac nid *cefnogi*, cwcyllau i esgobion.

21. Ioan I., o.c. 523, Tuscaniad, a ddilynodd, oedd yn ddysgedicach a gwell. Gan i Theodoric, brenin yr Eidal, fod yn achos marwolaeth y dysgedig Boethius, a'r doeth Symmachus; felly wedi iddo anfon Ioan at Justine, yr ymherawdwr dwyreiniol, i eiriol tros yr Ariaid, (yr hyn er, hyny ni wnaeth, eithr yn unig ysgrifenu at esgobion yr Eidal i sefyll dros y gwirionedd), ar ei ddychweliad yn ol anfonodd y brenin ef i Ravenna, lle y bu farw o newyn, mewn carchar drewllyd. Dywedir rhai pethau dyeithr am dano ef, megys pan ddarfu iddo farchogaeth ar farch rhyw foneddwr i Corinth, na chaniatâi i neb fyth wed'yn ei farchogaeth, er ei fod yn anifel llonydd o'r blaen; iddo adferu ei olwg i ddyn dall, wrth borth Caercystenyn; ac iddo gael ei weled wedi ei farwolaeth, gan feudwy, gyda Symmachus ei gydymaith, eill dau yn taflu enaid y gorthrymwr Theodoric, yr Ariad, i Lipari, i'w boenydio. Er hyny, ni ddarfu i dynged galed Ioan attal

22. Ffelix iv., o.c. 526, y Samniad, rhag anturio i'w le ef; ond nid oedd ganddo ddigon o zel i roi ei hun yn agored i lawer o berygl. Er hyny, efe a esgymunodd y patriarch o Gaercystenyn ddigon pell oddiwrtho; a chartref efe a wahanodd y gangell oddiwrth yr eglwys, a gorchymyn fod i'r eneniad olaf gael ei weinyddu ar ddynion wrth farw. Yr oedd Benedict, tad mynachiaeth, Priscan, y gramadegwr, a Denise Fychan, gwneuthurwr yr *epact* er cael dydd y Pasg, yn byw, meddant, yn amser y dyn hwn.

23. Boniface II., o.c. 530, Rhufeiniad, oedd ei olynwr, ond gyda llawer o 'stŵr, gan iddo gael ei wrthwynebu yn gryf gan Dioscorus, yr hwn a fu farw yn fuan mewn ymryson; ac felly yr iachawyd y *chweched* sism. Efe a geisiodd arfaethu fod i bob pab gael dewis ei olynnydd; ond gwrthwynebwyd ef gymaint gan yr offeiriaid fel y gorfodwyd ef i alw yn ol ei arfaeth ei hun.

24. Ioan II., o.c. 531., ei gydwladwr, a ddaeth, nid trwy ei ddewisiad ef. Cyfenwyd ef yn *Mercury* oblegid ei barabledd. Danfonwyd cenadaeth ato, gyd âg anrhegion oddiwrth yr Ymherawdwr Justinian, am gondemnio patriarch Caercystenyn, sef Anthemius, yr Ariad. Efe a ysgrifennodd epistol o berthynas i gydraddoliaeth y Tad a'r Mab, yr hwn a ganmolir yn fawr. Ei olynwr oedd ei gydwladwr,

25. Agapetus, o.c. 534, mab i gardinal. Efe a anfonwyd gan Theodosius, brenin y Gothiaid, i heddychu yr Ymherawdwr Justinian, yr hwn oedd wedi tramgwyddo yn fawr oblegid marwolaeth yr ardderchog a'r ddysgedig frenines Amalasuanta; pan ddaeth, cafodd Anthemius, y patriarch Eutychaidd, ei symud, a gosodwyd Menna yn ei le ef. Y mae cyffes ffydd ar gael a gymhellwyd gan yr Agapetus hwn i Justinian, ac hefyd draethodyn o'i eiddo i'r ymherawdwr, yn cynnwys cyfarwyddiadau da ar lywodraeth. Bu farw yn Nghaercystenyn, ond dygwyd ef i Rufain i'w gladdu.

26. Silverus, o.c. 536, Campaniad, a gafodd y gader nesaf. Mab oedd ef i'r pab Hormisda, a rhywbeth mwy na chardinal. Ymddygwyd yn galed tuag ato gan Theodora, yr ymherodres, ac Annonia, gwraig Balisarius, oblegid na chydsyniai i ddiswyddo Menna, ac adferu Anthemius, yr

Eutychiad, hoffddyn yr ymherodres. Oblegid ei ommeddiad, diswyddwyd ef ei hun, ar yr esgus ddarfod iddo ymddwyn yn anghyfiawn tuag at y Gothiaid, y rhai y pryd hyny a warchaeasant y ddinas, a,

27. Vigilius, o.c. 538, yr hwn a weithiodd tano, a osodwyd yn ei le, a'r hyn a wnaeth y *seithfed* sism. Ond ychydig o gysur a gafodd o'i ddyrchafiad anghyfiawn; canys cyhuddwyd ef gan yr orwyllt Theodora o dori addewid, ac efe a gyrchwyd i Gaercystenyn, ac yna rhoddwyd cortyn am ei wddf, a llusgwyd ef ar hyd yr heolydd, ac wed'yn fe'i halltudiwyd oddi-yno; a phan ddychwelodd yn ol bu farw—yr hyn a gliriodd y ffordd i

28. Pelagius, o.c. 556, Rhufeiniad, i gymeryd ei le ef. Yn ei amser ef y gwarchaeodd Totylus ar Rufain, ac a'i hennillodd. Ond er hyn oll o gyflafan, yr oedd y pab yn gwingo am hawlio yr uchafiaeth—nid oddiwrth ganonau y cynghorfâau, neu yr ordinhadau apostolaidd, ond oddiwrth Grist ei hun. Dywedir i Totylus leddfu peth trwy ei eiriolaeth ef.

29. Ioan iii., o.c. 559, ei gyd-ddinesydd, a gafodd well derbynriad gan Narsete, yr eunuch, yr hwn a drodd y Gothiaid allan, gan gadarnhau Ioan yn y gader. Y mae arfaethiad o'i eiddo sy'n gwahardd pob offeiriad i gael y cyfnwad o brif offeiriad, neu bab cyffredinol.

30. Benedict, o.c. 574, Rhufeiniad eto, a'i dilynodd, ac a syrthiodd yn yr amser yr oedd y Lombardiaid yn goresgyn holl Eidal, a'r gofid oblegid hyny a'i dygodd i'w ddiwedd.

31. Pelagius II., o.c. 597, a ganlynodd, yr hwn, gan ei fod yn Rhufeiniad, a wnaed yn bab pan oedd y Lombardiaid yn gwarchae ar y ddinas, heb gydsyniad yr Ymherawdwr Tiberius, oblegid yr hyn efe a anfonodd Gregory i Gaercystenyn, i wneyd ymddyheiriad. A'r

32. Gregory, o.c. 590, hwn, Rhufeiniad, a ddaeth nesaf; yr hwn a alwyd Gregory Fawr, yn gystal ar gyfrif y materion anghyffredinol a gyflawnwyd ganddo, a'i ddysg mawr; er mai yn anewyllysgar y cymerodd arno y babaeth, gan alw ei hun yn "Was gweision Duw." Efe a anfonodd Augustine i Loegr, yr hwn a ledanodd Gristionogaeth ymhlith y Sacsoniaid Dwyreiniol, y rhan fwyaf o ba rai oeddynt baganiaid. Ond yr oedd gan y Brytaniaid saith o esgobion ac archesgobion pan y daeth ef trosodd. Efe a drosglwyddodd yr esgobaeth archesgobyddol o Lundain i Canterbury; efe hefyd a wrthwynebodd yn erwin yr hawl o esgob cyffredinol, yn erbyn Ioan o Gaercystenyn; efe a ddechreuodd ddichell wladysdol â Mauritius, yr hwn a'i cefnogodd ef, ac a ddangosodd ormod o ffafraeth i Phocas, yr hwn a'i lladdodd. Dywedir iddo attal y pla trwy ddwyn delw y Wryf Fendigedig mewn gorymdaith, a pheri i'r angel dinystriol roddi ei gleddyf heibio; hefyd, ddarfod iddo waredu enaid Trajan o uffern â'i weddiâu; a dechreu yr arferiad o *gosber canwyllau*, a chwanegu pedwar diwrnod at y Grawys; hefyd, dyddymu ei arfaeth yn erbyn priodasau offeiriadol, pan welodd benglogau saith mil o fabanod mewn pysgodlyn. Ystyrir ef gan rai yr olaf o'r pabau da, a'r cyntaf o'r pabau drwg, ac yn cael ei arwyddo trwy yr angel yn ehedeg rhwng y nefoedd a'r ddaear. Gwnaeth lawer o benderfyniadau coelgrefyddol sydd eto yn aros yn eu lle, ond ni roddwyd mewn ymarferiad llawn erioed y rhai da a benododd; canys efe a gwynai am yr offeiriad, fod y byd yn llawn o honynt, ond eto mai ychydig iawn o weithwyr oedd yn nghynauaf yr Arglwydd. "Yr ydym yn cymeryd arnom y swydd, ond cyflawned a fynd hi; ac yr wyf fi yn meddwl nas gellir dangos mwy o ddianrhydedd i Dduw na'r hyn a

oddefir mewn offeiriad; canys y mae wedi dyfod yn awr mor ddrwg a hyny, fel y gwnant wawd o'r neb sy'n byw yn ostyngedig a chyson, ac yn rhodio yn well na hwy eu hunain." Y mae ei weithiau wedi eu cyhoeddi yn un llyfr, mewn amryw argraffiadau, yn cynnwys pump ar hugain o lyfrau ar Job, esboniad ar y saith Salm o edifeirwch, dwy ar hugain o homiliau ar y Caniadau, deugain ar Ezeziel, a rhai ar yr efengylau, anerchiadau gweinidogaethol ar y Breninoedd cyntaf, ac atebion i ddeuddeg holiad a roddwyd gan Augustine o Canterbury, deuddeg llyfr o epistolau, a phedwar llyfr o ymddyddanion i'r frenines Theolinda, i'w ohadarnhau, a dychrynu ei gwr â dychryniadau y byd arall. Yr holl weithiau hyn o'i eiddo y mynai

33. Sabinian, o.c. 604, ei olynwr, eu llosgi, pe cawsai ei ewyllys. Ond, sicrhaodd Pedr, y diacon, ar ei lŵ, iddo ef yn fynych weled colomen yn sisial yn ei glust pan oedd yn ysgrifenu. Cynnyddodd yr ymrafael hwn rhwng Gregory a Sabinian, oblegid yr arferai Gregory roddi *ŷd* yn haelionus i'r tlodion, ond gwnai Sabinian iddynt dalu am dano; ar hyny cyfododd cryn siarad am dano, ac yn ei erbyn, ac yntau, i'w gyfiawnhau ei hun, a gyhuddodd Gregory o wastraffu cyllid yr eglwys yn anofalus, i ennill clod iddo ei hun, a mynu gwneyd y fath warthruddiadau i niweidio y marw, nes i Gregory (creded y neb a allo ef) ymddangos iddo, a'i guro ar ei ben, o'r hyn y bu farw, ac felly diwedda yr archesgobion a'r patriarchiaid gweddol a da.

Cawsom gryn waith i allu gwneyd y rhai cyntaf, yn archesgobion *symol*; ond mwy i wneyd y rhai olaf yn batriarchiaid da: ond, bellach, y maent yn gwaethygu yn amlwg, canys nid oes gwell enw i'w roi ar y darn nesaf o'r gadwen na *Nimrodiaid gormesol*. Y maent yn *ddeunau ar hugain* o ddolenau, yn cyrhaeddyd tros tua dau gant a hanner o flyneddau, yn y drefn ganlynol:—

1. Boniface III., o.c. 606, Rhufeiniad. Cafodd y dyn hwn ei uchafiaeth gan Phocos, lleiddiad puteinllyd, yr hwn a laddodd ei feistr, yr Ymherawdwr Mauritius, yn y modd mwyaf barbaraid. Wedi cael yr uchafiaeth babyddol felly, yr hyn y pwysir cymaint arno hyd y dydd hwn, dechreuodd yr enw "pab" gael ei gysylltu â Rhufain, yr hwn o'r blaen a roddid i esgobion eraill; a dechreuwyd arfer y dull awdurdodol, "Yr ydym yn ewyllysio ac yn gorchymyn," yn lle "Yr ydym yn deisyf arnoch, frodyr." Arweiniodd hyn i'r ymchwil, fel y mae Platina yn addef, "Beth yw gwerth esgobaeth?" nid pa gyfleusdra sydd yno i ennill eneidiau? Efe oedd yn dechreu teyrnasiad y bwystfil (*Dad.* xiii). Ond ni bu y gormeswr hwn flwyddyn yn ei swydd cyn y bu orfod iddo, trwy farwolaeth, ymadael â'i holl rodes, i

2. Boniface IV., o.c. 607, Eidaliad arall, yr hwn a roes gystal gwyneb ar bethau a'i ragflaenorydd. Efe a droes y Pantheon a wnaeth mam Cybil, a'r pagodau paganaidd, yn demlau i'r Fendigedig Wryf a'r merthyron, gan gadw yno *wyl* yr holl saint; troes *dŷ* ei dad yn fynachdy, ac a'i gwaddolodd â chyllidau, i dewychu rhai mynachod y gallai efe wneyd defnydd o honynt. Ond, yn nghanol ei liosog ymdrechion, y mae yn gadael ei sedd a'i amgylchiadau i'w olynnydd,

3. Deus-dedit, neu Theodorus, o.c. 615, Rhufeiniad eto. Efe a ordeiniodd na byddai i dadau a mamau bedydd briodi. Dywedir iddo iachau un gwahanglwyfus â chusan; eto yr oedd y fath wahanglwyf yn ffynu yn ei

amser ef ag oedd yn anurddo dynion gymaint fel na allesid eu hadnabod. Y pryd hyn, yr annuwiol Cosroes, o Persia, wedi cael, fel y tybiai, groes Crist, a'i gosododd ei hun yn y canol, hono ar y deheu, a cheiliog ar yr aswy, mewn dirmyg o'r Drindod, am yr hyn y talodd wed'yn.

4. Boniface v., o.c. 618, a ddaeth i fewn yn lle y dyn yna, yr hwn oedd o'r un wlad. Ni wnaeth efe ddim o werth sylw; yn unig efe a freintiolodd lofruddion a chysegr-ladron, gan dystio na chaent eu llusgo allan i ddyoddef trwy law cyfiawnder. Ei gydwladwr,

5. Honorius, o.c. 626, a'i dilynodd ef. Ceryddwyd y pab hwn gan drydedd ymgynghorfa Caercystenyn, am fod yn Monotheliad; ond y mae Onuphrius, Ciaconius, Bellarmine, a Boronius, gydag amryw eraill ar y tu hwnw, yn ceisio ei ryddhau. Efe a wisgodd gader St. Pedr â gwisg Jupiter Copitolinus, a sefydlodd ŵyl dyrchafiad y groes; gan adael

6. Severinus, o.c. 639, Rhufeiniad, i wneyd llai, oddiar yr hwn y cymerodd Isacius, goruchwyliwr yr Eidal, ymaith y trysor Lateraidd, i dalu i'w filwyr, am yr hyn ni feiddiai Severinus ei anathemeiddio; canys nid oedd y pabau eto ond creaduriaid y goruchwylwyr gwladol. Felly yr oedd

7. Ioan iv., o.c. 614, Dalmatiaid, yr hwn â'r gweddill o drysor yr eglwys a brynodd ryddid rhai ffoedigion—ei gydwladwyr. Bu ef yn ymdrafferthus iawn ynghylch cadw y Pasg, a throsglwyddiad esgyrn y merthyron. Efe a ysgrifonodd i Frydain yn erbyn heresi Morgan; yn ebrwydd, dan ei drwyn, darfu i Rotharis, o Lombardy, roddi dau esgob ar yr un esgobaeth, un yn Gatholiciad, a'r llall yn Ariad.

8. Theodore, o.c. 642, Groegwr, a ddilynodd, yr hwn oedd yn fab i esgob Jerusalem. Efe a ddiswyddodd Pwrthus, patriarch Caercystenyn, am heresi yr Acephaliaid, yr hwn oedd yn dra thebyg i heresi y Monotheliad.

9. Martin i., o.c. 649, Idaliad, a ddaeth ar ei ol ef, a ymroddodd i dlysu yr eglwys, apwyntio dyddiau gwyliau, peri i'r offeiriaid eillio eu penau, a chadw eu hunain yn sengl. Am fod yn rhy flaenllym i ddiswyddo Paul, patriarch Caercystenyn, efe a gyrchwyd i'r lle hwnw gan Cystenyn, ac a alltudiwyd i Patmos, lle y bu farw. Y mae Bellarmine yn ceisio clirio y pab hwn yn erbyn rhai o awgrymiadau y Magdeburgeniaid.

10. Eugenius i., o.c. 654, y Rhufeiniad, a'i dilynodd ef, oedd yn llai gweithredgar, ond efe a lwyddodd yn well. Eto, mynai efe fod gan yr esgobion garcharau i'w hofferiaid, y rhai oeddynt mor hyfion ar y pab ei hun, fel, pan y derbyniodd "ei sancteiddrwydd" lythyrau hereticaidd oddiwrth batriarch Caercystenyn, y bygythiasant yr attalient hwy ef rhag dywedyd *mass*, os na losgai efe hwynt.

11. Vitalian, o.c. 665, ei gydwladwr, a ddilynodd mewn amser mwy trallodus. Y pryd hyn, daeth Cystenyn, yr ymherawdwr Groegaidd, i Rufain, ac wedi talu peth moesgarwch serehus, a'i hyspeiliodd, yn neillduol o'i phortreadau heirdd a'i cherffdelwau drudion. Esgymunwyd Maurus, archesgob Ravenna, gan y pab, ond efe a'i hadferodd yn ol drachefn. Anfonwyd Theodore, Groegiad, ac Adrian, Affricaniad, i Loegr ganddo, i ddwyn y gwasanaeth Lladinaid i arferiad, gan ei bod y flwyddyn 666, am yr hyn y mae y gair *Lateinos*, ac *Ekklesia Italika*, yn rhoddi deongliad, meddai cyfrifiaeth Bale. Yr oedd mynachyddiaeth mewn bri mawr yn nyddiau y pab hwn.

12. Theodatus, o.c. 669, ei gydwladwr, a'i dilynodd ef, yr hwn gynt a

fu yn fynach, ac yn y babaeth. Ychydig a wnaeth heblaw adgyweirio mynachlog Erasmus, yn mynydd Celius, i'r hon y perthynai ef. Efe a arfaethodd na chai Maurus, archesgob Ravenna, gladdedigaeth Gristionogol, oblegid y gwrthodai ymostwng i esgobaeth Rhufain. Bu daeargrynfâu, planedau, ac ystormydd yn ei amser ef, nes oedd dynion yn synu.

13. Donus, o.c. 676, Rhufeiniad, a'i dilynodd ef; yr hwn a lwyddodd gyda Theodore, archesgob Ravenna, i ddarostwng ei hun a'i eglwys iddo ef, oblegid i'w offeiriad nacâu talu iddo barch dyledus. Gwnaeth borth St. Pedr yn baradwys. Yn ei ddyddiau ef y cafodd enaid brenin Ffrainc, yr hwn oedd ar ymyl Lippari, ac ar gael ei daflu i mewn gan y diafol, ei gipio yn egniol gan St. Martin, St. Dennis, a St. Maurice, y rhai a anrhyeddodd ef yn ei fywyd; ac Idelfonsus, yr Yspaeniad, am amddiffyn dihalogrwydd y Wryf Fendigedig, yn erbyn rhai o hereticiaid y dyddiau hyny, a wobrwyyd ganddi hi â *chôt* newydd am ei lafur.

14. Agatho I., o.c. 678, mynach o Sicily, a ddilynodd, ac a orchymynodd fod i orchymynion y pabau gael eu eadw mor llawn a'r eiddo yr apostolion. Efe a anfonodd un Ioan, abad o St. Martin, i Loegr, i wella cerddoriaeth yr eglwys, a threfniadau Pabaidd eraill. Danfonwyd dau Ioan—Ioan, esgob Portua, a Ioan, diacon o Rufain—i chweched gynghorfa Caercystenyn, yn erbyn y Monothelitiaid, lle y darllenodd Ioan o Portua *mass* yn Lladin, yr hyn a foddhaodd y Groegiaid. Bu farw o'r pla, gan adael ei le i

15. Leo II., o.c. 683, Siciliad, yr hwn oedd ddyn galluog mewn Groeg, yn gystal a Lladin, ac yn gerddor rhagorol. Efe a gadarnhaodd benderfyniad y chweched gymanfa o berthynas i'r *mass*; ac i attal priodasau yr offeiriad gorllewinol, efe a ddygodd i mewn yr arfer o gusanu y *pax*.¹ Trwy gynnorthwy yr Ymherawdwr Justinian, efe a ddarostyngodd esgobaeth Ravenna i gader Rhufain, ac a dynodd allan lygiaid yr archesgob oedd yn sefyll yn ei erbyn. Gwnaed hyn oll mewn deng mis. Yna,

16. Benedict II., o.c. 684, Rhufeiniad, a ddaeth yn eilydd iddo ef, yn bab hefyd; ond deng mis y bu yntau, yn ystod yr hyn y daeth ef yn gyntaf un i gael ei alw yn Ficer Crist, a chael caniatâd gan Cystenyn i'r offeiriad gael ethol pab heb ganiatâd y rhaglafiaid na'r ymherawdwr. Yr oedd hyn yn fwy nag a wnaed gan ei ganlynyddydd,

17. Ioan V., o.c. 685, am yr hwn nid ydys yn gwybod dim, heblaw iddo gael ei gysegru gan dri esgob, sef Esgob Asia, Esgob Portua, ac Esgob Valaterne, yr hyn a wnaed yr un modd am oesoedd wed'yn. Dywedir iddo ysgrifenu llyfr o berthynas i'r gochl archesgobaidd.

18. Conon I., o.c. 687, Thraciad, a ddaeth nesaf, yr hwn a ddewiswyd mewn terfysg mawr, gan fod y dinasyddion dros un Pedr, archesgob, a'r milwyr dros Theodore, offeiriad. Efe a glafychodd yn fuan wedi ei etholiad; efallai, meddai Bale, trwy ryw ddracht afiachus. Addefir ddarfod i un Pascal, archesgob, roddi swm mawr o arian i John Platina, rhaglaw Ravenna (un o chwe' tywysogion Idal), i fod yn bab ar ei ol ef; ond ni chymerodd y brâd le, ac felly collwyd y cwbl. Anfonwyd St. Killain, y Scotiad, gyda rhywrai eraill, i Germani, gan y dyn hwn, lle y merthyrwyd hwynt. Ni bu yn bab un flwyddyn, canys yn mhen un mis ar ddeg, efe a adawodd y lle i

¹ Croes fechan i'w chusanu, yn lle y cusan sanctaidd a orchymynir :an Paul.

19. Sergius I., o.c. 688, Syriad, yr hwn a'i cafodd, er gwrthwynebiad mawr Pascal a Theodore, cydymgeiswyr â Conon o'r blaen, y rhai, trwy ddevisiad Sergius, gyda llawer o'u pleidwyr, a yrwyd o feddiant palas y Lateran. Oblegid nacáu ymostwng i ganoniaid Trullo, efe a alwyd i Gaercystenyn, gan yr Ymherawdwr Justinian; ond cipiodd yr Italiaid ef ymaith, a gorfodwyd cenadwr yr ymherawdwr i guddio ei hun o dân wely y pab. Can lleied o beth, y pryd hyny, a fuasai yn ddigon, o dan gochl crefydd, i wrthwynebu yr awdurdod! Ammheuwyd y pab yn gryf, o odineb; a chyhuddwyd ef o hono gan Archesgob Canterbury.

20. Ioan VI., o.c. 702, Groegwr, a roddwyd yn ei le, ond a dröwyd o'i le yn fuan, fel y dywed Premontstratensis; ac a ail roddwyd gan Sergius. Ond y mae eraill yn myned ymlaen yma gydag olyniant reolaidd, gan wneyd fod yr Ioan hwn yn un hynod am borthi y tlodion, mewn newyn mawr, a rhyddhau caethion â thrysorau yr eglwys. Dywed rhai iddo farw yn ferthyr; ond ni ddywedir paham, na chan bwy. Ei gydwladwr o'r un enw,

21. Ioan VII., o.c. 705, a'i dilynodd, yr hwn nad oedd nodedig am ddim ond adeiladu rhai eglwysi, a chodi ac addurno delwau. Ei fab, fel yr ymddengys fod Ciaconius yn ei wneyd,

22. Sisinus, o.c. 708, a ddaeth ar ei ol ef, er nad heb lawer o wrthwynebiad oddiwrth un Dioscorus. Ni allasai y dyn hwn, gan y gymalwst yn ei draed a'i ddwyllaw, wneyd llawer, heblaw iddo adael darpariaeth tuag at adgyweirio muriau y ddinas a'r temlau. Yr ydys yn meddwl i Dioscorus ei anfon ymaith, o fewn tair wythnos, trwy wenwyn.

23. Cystenyn I., o.c. 708, Syriad, a'i dilynodd ef. Y dyn gweithgar hwn oedd y cyntaf a ganiataodd i Justinian II. gusanu ei droed ef. Efe yn benderfynol a wrthwynebodd i Ioan, patriarch Caercystenyn, hacio delwau; ac ni oddfai i arlun yr ymherawdwr fod yn ei bresennoldeb. Tybir mai trwyddo ef y cynhyrfwyd Anthenus i wrthryfela, ac iddo dynu llygaid Philipicus. Cysylltodd eglwys Ticene â'i esgobaeth ei hun, yr hon oedd o'r blaen yn perthyn i Milan. Yn ei amser ef y cafodd Kinred ac Offa, dau o'r mân-freninoedd Sacsonaidd, eu perswadio i adael eu galwedigaethau, a myned yn fynachod.

24. Gregory II., o.c. 716, Rhufeiniad, a ddaeth yn eilydd iddo ef, ac a aeth hyd yn nod tuhwnt iddo yntau mewn zel amddiffynol i ddelwau. Efe a esgymunodd Leo Isaurus, yr ymherawdwr Groegaidd, am sefyll yn ei erbyn, ac a alltudiodd Germana, patriarch Caercystenyn, a Demascene, yr hwn a ddadleuodd drostynt. Efe a anfonodd ein cydwladwr Boniface, i bregethu i'r Germaniaid, ymhlith y rhai o'r diwedd y dyoddefodd ferthyrdod. Efe a wnaeth i Luitprand, brenin yr Idal, gadarnhau rhyw roddion o eiddo ei ragflaenor, Arithpert, gan wneyd agos i holl dalaethau yr Idal ac Yspain i encilio oddiwrth eu hymherawdwr, a rhwymo eu hunain, trwy lw, i ufuddhau iddo ef. Ac felly y darfu i'r ymherawdwr yn y dwyrain—o wrthwynebiad i ddelwau—golli eu hawdurdod yn y gorllewin, trwy ddichell y tad sanctaidd hwn.

25. Gregory III., o.c. 731, Syriad, yr hwn y gellir dyweyd iddo—yn yr ymrafael waedlyd hon ynghylch delwau—nid eilio eithr *tridio* ei ragflaenoriaid; canys darfu iddo yntau hefyd esgymuno yr Ymherawdwr Leo Isaurus, gyru y Groegiaid allan o'r Idal, trwy y Lombardiaid, ac yna y Lombardiaid trwy y Ffrancod, o dan arweiniad Charles Martel, yr hwn, y

pryd hyny, a hynododd ei hun yn ei wrthwynebiad i'r Saraceniaid. Efe a waharddodd i ddynion fwyta cig ceffylau, ac a ysgrifonodd at Boniface, i Germani, fod yn rhaid i'r offeiriaid eillio eu penau, a gweddio, a rhoi aberth tros y meirw yn y *masses*. Ond,

26. Zachary I., o.c. 742, Groegwr, nid yn unig a esgymunodd, ond a ddiswyddodd Childeric, brenin Ffrainc (Duw a wŷyr trwy ba hawl), a chyd â'r un llaw uchel, a drôdd ymaith Lachis neu Rachis, brenin Lombardi, a Carloman, o Ffrainc, o'u gorseddau, i fod yn fynachod. Dywed y Pab-yddion mai ar eu cais hwy eu hunain y gwnaed; ond dylasai eu hesgobion ddyysgu gwell pethau iddynt. Dywedir i'r pab hwn gyfieithu "Ymddyddanion" Gregory i Roeg. Efe hefyd a gondemniodd Virgilius, esgob, am ddyysgu fod gwrthdroediaid. Dywedir i un, Stephen, gael ei ethol yn ei le, ond iddo farw cyn cael ei gysegru.

27. Stephen II., o.c. 752, Rhufeiniad, oedd wrth law, a lamodd i'w le ef. Efe a berswadiodd Pepin, brenin Ffrainc, i ddyfod i'r Idal, a gyru allan Aristulphus, o Lombardi, yr hon a roddodd i'r pab am ei ryddhau ef oddiwrth ei rwymedigaeth i'w benadur, Childeric; ac i eilio Childeric drachefn, ac i wneyd ei waith yn iawn, efe a'i tafodd i fynachlog. Am y llwyddiant hwn, efe oedd y cyntaf a gariwyd ar ysgwyddau dynion. Efe a olynwyd gan ei frawd,

28. Paul I., o.c. 757, ond nid heb wrthwynebiad oddiwrth un Theophylact. Efe a esgymunodd Cystenyn Copronimus, yr ymherawdwr Groegaidd, oblegid hen ymrafael y delwau. Daeth gwaed o ystlys delw Crist, a bigwyd mewn cynddaredd gan yr Iuddewon, yr hwn a iachâi bob afiechyd (oddieithr gwrthnysigrwydd i'w gredu), ac felly a ddychwelodd lawer o honynt. Yr oedd yn talu anrhydedd mawr i St. Petronel, yr hon oedd yn ferch i St. Pedr.

29. Stephen III., o.c. 767, Siciliad, gyda llawer o anhawsder a gafodd y lle; canys bu Cystenyn, brawd Desiderus, brenin Lombardi, i mewn am fwyddyn gyfan, ond efe a daflwyd allan, oblegid mai llëygwr yn unig ydoedd. Collodd un Phylip y swydd, wedi ei ddewis, am nad oedd ganddo fodd i'w hamddiffyn. Efe a ddechreuodd yr arferiad o addoli ac offrymu aroglarth i ddelwau; a darostyngodd Milan i'w esgobaeth, yr hon a syrthiodd i ran

30. Adrian I., o.c. 772, Rhufeiniad, cefnogwr mawr delwau, mewn amddiffyniad i ba rai yr ysgrifonodd lyfr. Efe a wnaeth blentyn amddifad Bertha, gweddw Carloman, yr hwn oedd yn gyfiawn etifedd Ffrainc, yn gaethwas. Gwobrwywyd ef am hyn gan Charles Fawr, yr hwn a gadarnhaodd rodd ei dad i esgobaeth Rhufain, ac a chwangodd ati dduciaethau Spoleto a Benevent: yr hyn, gyda'u gilydd, a elwir ganddynt yn rhodd Cystenyn.

31. Leo III., o.c. 772, Rhufeiniad, a'i dilynodd, yr hwn, fel ei ragflaenor, Adrian, trwy ymwthio i ffafr Charles Fawr, a andwyodd Disidorius, o Lombardi, a dyddymodd y dalaeth hòno, yr hon a safodd yn Idal ddau can' mlynedd. Hefyd, ar ei fynediad i mewn, er mwyn tynu ffafr y brenin buddygoliaethus, rhoddodd agoriadau pyrth Rhufain wrth ei draed; yr hyn a gymerwyd mor chwith gan y Rhufeiniaid, fel, pan gawsant ef wrtho ei hunan allan, a'i llusgasant ef oddiar ei farch, ac a'i fflangellasant ef fel onaf. Y mae Viorellus, ar awdurdod Ciaconius, yn dadleu yn gadarn, ddarfod i'w lygaid gael eu tynu allan yn y cythrwll hwnw, a'i dafod ei

thynu allan; ond iddo gael ei adferu yn fuan trwy wyrth. Mor fuan ag y clywodd Charles am y camdriniaeth hwn, efe a ddaeth i Rufain, i unioni pethau. Glanhaodd y pab ei hun oddiwrth yr holl bethau a gyfrifid yn ei erbyn, ar ei lw: y bobl yn llefain nad oedd yr esgobaeth apostolaidd i gael ei barnu gan neb; felly rhyddhawyd y pab. Am ei drafferth, cyhoeddwyd Charles yn ymherawdwr, oblegid fod pobl y dwyrain yn rhy bell i wasanaethu amcan y pab. Cymerodd yr ymherawdwr newydd lw i amddiffyn, cefnogi, ac ufuddhau i Eglwys Rhufain. Cadarnhëir rhyw wyrthiau gan y pab, y dywedid eu gwneyd trwy waed croes yn Mantua.

32. Stephen IV., o.c. 816, Rhufeiniad, a gafodd y lle, ond nid trwy etholiad yr ymherawdwr, fel yr addawyd i Charles, gan ei ragflaenoriaid, Adrian a Leo, ond trwy ddewisiad eu hofferiaid eu hunain. I wneyd ymddyheiriad am hyn, efe a dalodd ymweliad personol â Lewis, ymherawdwr Ffrainc, a thrwy ryw foesgarwch, yn coroni yr ymherawdwr a'i wraig wrth y cyfenwau Augustus ac Augusta, efe a glytiodd yr amgylehiad i fyny. Yna efe a ddychwelodd i Rufain, gan arfaethu mai hawlfraint yr offeiriad a fyddai dewis pab, ond nid i'w gysegru, oddieithr yn mhresenoldeb negesydd yr ymherawdwr. Cystal y medrai y dynion hyn chwareu eu rhan i dwyllo eu cyfeillion goreu, ac i weithio eu hamcanion eu hunain. Yr un modd, heb bleidlais yr ymherawdwr, y cafodd ei gydwlwadwr

33. Paschal I., o.c. 817, ei ddewis, yr hwn a wnaeth esgus mor ddi-chellgar i'r ymherawdwr Lewis, fel y cafodd, nid yn unig ollyngdod o'i hawl i ddewis y pabau, ond hefyd rhoddiad helaethach o diroedd a chyllidau i Eglwys Rhufain, nag a ganiatäwyd gan neb o'i ragflaenoriaid. Ammheuid yn gryf iddo beri llofruddio llawer o wÿr mawrion yn yr ymryson a ddilynodd, y rhai a safent o blaid yr ymherawdwr yn ei erbyn ef; ond yr oedd ei lw yn ddigon i'w lanhau, oddiwrth yr hwn y gallai gael ei ryddhau wrth ei ewyllys. Efe a ddilynwyd gan

34. Eugenius II., o.c. 824. Trwy anhawsder y cafodd ef y gader, oblegid y gwrthwynebiad a wnaed iddo gan un Zinzimus. Canmolir Eugenius yn fawr am ei haelioni i'r tlawd. Yn ei amser ef y darfu i Michael, yr ymherawdwr dwyreiniol, anfon at Lewis, yr ymherawdwr gorllewinol, i wybod ei feddwl o berthynas i luniau. Cyfeiriodd Lewis y pwnc i ystyriaeth Eugenius: beth oedd ei benderfyniad ef nid oes grybwylliad. Dywed rhai y cynnaliwyd cynnadledd o berthynas iddo, yn, neu yn nghyffiniau Paris, ac i Eugenius gael ei ladd gan y Rhufeiniaid. Y mae eraill yn gwadu, ac yn dyweyd iddo farw mewn heddwch, gan adael

35. Valentine I., o.c. 827, ei gyd-ddinesydd, yn olynnydd iddo: dyn o beithiau rhy dda i gadw y lle yn hir.

"Ni wnaed ond ei ddangos—ni chaffal ef aros,
Tynghedfen a'i cipiodd ef ymaith yn ddiôs,"

ys dywed Ciaconius am dano. Felly, yn mhen deugain niwrnod, efe a adawodd yr agoriadau i

36. Gregory IV., o.c. 828, ei gyd-ddinesydd, yr hwn na fynai eu derbyn heb gydsyniad yr ymherawdwr. Efe a aeth i Ffrainc, i benderfynu yr ymrafael rhwng yr ymherawdwr a'i feibion gwrthryfelgar; ond bu yn aflwyddiannus. Yr oedd rhodres yr offeiriad yn y dyddiau hyn yn annyoddefol; yn erbyn y rhai y cynnaliwyd cymanfa yn Aquisgrave: a

dywed Platina, wrth grybwyll am dano, "Och! Dduw, O! Lewis, na buasit yn fyw yn ein hamser ni!"

37. Sergius II., o.c. 844, Rhufeiniad eto, a ddaeth nesaf. Trwyn-hŵch y gelwid ef o'r blaen, ond pan ddaeth yn bab, efe a newidiodd ei enw. Canlynodd llawer o'i olynwyr ei esiampl yn hyny. Cadarnhawyd ei etholiad gan yr Ymherawdwr Lotharius, mab yr hwn, Lewis, a goronodd ef wedi hyny yn Rhufain.

38. Leo IV., o.c. 847, mynach Rhufeinig, yr hwn sy'n diweddu y trydydd gradd hwn o babau. Canmolir ef fel adeiladydd mawr, yr hwn a amgylchodd y Vatican â mur, a ail-brydferthodd Gastell St. Angelo, ac a wnaeth lawer o bethau cyffelyb. Brawychwyd y Saraceniaid o'r Idal, trwy ei groesau, ei fendithion, a'i felldithion yn bywiogi y milwyr. Ammhêuir ef o greu brâd, i drosi y sedd ymherodrol o Ffrainc i'r Groegiaid drachefn; ond efe a gliriodd ei hun oddiwrth hyny trwy ei lw. Dywedir iddo, trwy ei weddïau, yru ymaith fad felen o Gapel St. Lucie, a chaniatöodd i Ethelwold adael ei fynachlog, a theyrnasu yn Lloegr, am yr hyn y caniatöodd y brenin mynachaid i'w "sancteiddrwydd" gael ceiniogau Pedr bob blwyddyn. A dyma holl waith y clampiau esgobion hyn, wedi iddynt gynyddu ac ymchwyrddo gydâg uchafiaeth a rhoddion. Yn yr ystod hwn, yr ydym yn cael pabau yn esgymuno eu cyd-babau, a phatriarchiaid yn diorseddu ac yn mynachu breninoedd, yn gwneyd ac yn twyllo ymherawdwr, ac yn dâl i fyny ddelwau er eu gwaethaf. Dyma y pryd, tua'r flwyddyn 666 (rhif y bwystfil yn y Dadguddiad) y darfu i'r tadleiddiad Phocas ladd ei feistr Mauritius—y darfu i Boniface, prynwr uchafiaeth y dyhiryn hwnw â Simoniaeth, a Mahomet, y twyllwr mawr, dori allan gyda'u gilydd, y rhai yn fuan a ddilynwyd gan y Saraceniaid, er difrod i holl Cristionogaeth, am yr hyn y gallai dysgedigion yr amserau hyny—Isodorus, yr hybarch Bede, ac eraill—alaru, ond nid gwrthsefyll.

Ar ol y fath gadwen o ormesiaid, nid yw ryfedd i'r fath Sodomiaid moethus ddyfod—lle y gwelwn, fel y dywedasom o'r dechreu, fod pob darn o'r gadwen hon yn myned waeth-waeth. Y mae y darn hwn yn cynnwys deugain o ddolenau, ac yn cyrhaedd dros dymmor o agos i ddau can' mlynedd, ac yn cydio yn eu gilydd, meddai y Pabyddion—er mai anhawdd iawn y gallwyd, os gallwyd hefyd, eu rhoddi wrth eu gilydd ryw-fodd; ac wrth i ni geisio codi y darn i weled a ydynt yn cydio, y maent weithiau yn syrthio ac yn chwalu oddiwrth eu gilydd, ond eu bod, neu y dylent fod yn cydio—ddolen mewn dolen yn y drefn ganlynol:—

1. Ioan VIII., o.c. 855, a adnabyddir yn well wrth yr enw Joan, neu Siwan, lodesig o Mentz, yn Germani, yr hon a ddiangodd ymaith gyda mynach Seisonig o Fulda, mewn dillad dyn, ac a efrydodd gyd âg ef yn Athen, nes y bu ef farw yno. Oddiyno daeth yr herlod hon i Rufain, ac oedd mor ddysgedig fel yr ymwrthiodd ymlaen, ac y cyfodwyd hi i gader Pedr, wedi marwolaeth Leo; lle, am ddwy flynedd a hanner, y gweinyddodd y *mass*, ac a roes orchymynion, a ryddhaodd Lewis, yr ymherawdwr, oddiwrth ei lw i Aldigises, a goronodd Charles Foel, a gymerodd i fyny y ddadl rhwng y ddau Hincmars, a sefydlodd y dysgedig Photius yn mhatriarchiaeth Caercysteyn, ac a ysgrifennodd lythyr dysgedig at dywysog Moravia; ac nid oedd dim yn eisieu nac yn ddiffygiol ynddi i wneyd pab rhagorol, ond y rhyw. Y gwall hwn a ganfuwyd ynddi ar ei gwaith yn myned o'r Lateran, rhwng Colossus a St. Clements, lle, heb

gynnorthwy bydwaig, y rhyddhawyd hi ar rywbeth, a'i bywyd hefyd; oblegid hyn darfu i'w holyniad roddi attalfa ar y modd anlwcus hwnw, a chymeryd rhyw rag-ocheliadau eraill, i attal cabledau wedi hyny. Y mae hanes Meistres Siwan yn cael ei wadu yn haerllug gan Onuphrius, Bellarmine, Baronius, ac eraill; ond y mae genym, o leiaf, *hanner cant* o'u hysgrifenywyr eu hunain yn eu herbryn.¹

2. Benedict III., o.c. 857, Rhufeiniad, yr hwn a ddewiswyd yn ei lle hi, ac a wnaeth gynhwrf mawr; ond nid heb roi sicrwydd boddhaol yn nwyllaw y diaconiaid ei fod o'r rhyw wrywaidd. Gwrthsafwyd ef, meddai Ciaconius, gan un Anastasius, ond yn ofer. Gwnaeth ymddangosiad o ostyngeddwydd mawr; a chan hyny, ni fynai gael ei gladdu oddifewn, ond oddiallan i hiniog eglwys St. Pedr.

3. Nicholas I., o.c. 858, a alwyd Nicholas Fawr, Rhufeiniad, a wnaeth gynhwrf mawr; diswyddodd Ioan o Ravenna, am nad ymostyngai iddo ef; ac ymgoegodd â Michael, ymherawdwr Caercystenyn, o berthynas i Photius, y patriarch, ac a ysgrifennodd epistol ato, yr hwn a ganmolir yn fawr. Un Anastasius, y llyfrgellydd, oedd yn ysgrifenu "Bucheddau y Pabau;" ond ar ei ol ef, hyd amser Clement II, rhyw William, llyfrgellydd arall, yr hwn a gyfenwn Damasus, fu wrth y gorchwyl hwnw. Y mae Onuphrius, Platina, a Ciaconius, yn achwyn yn fawr oblegid esgeulusdra y cofnodwyr, a'r dryswch sydd yn "Mucheddau y Pabau," er fod eu holyniant cadwynog yn cael ei wneyd fel yn hollol brofedig. Yr oedd ef yn wrthwynebwr mawr i briodasau yr offeiriaid, ond gwrthwynebwyd ef yn egniol gan epistol Huldriek, esgob Germanaidd.

¹ Y mae Platina yn ei "Hanes Bywydau y Pabau," (Ioan VIII), yn rhoddi yr hanes canlynol am yr amgylchiad:—"Ioan, o deulu Seisonig, ond a anwyd yn Mentz, y dywedir iddo ddyfod i'r babaeth trwy ddichell ddrwg; canys trwy ddirgelu ei hunan fel dyn, tra mai dynes ydoedd, yr aeth, pan yn ieuanc gyda'i charwr, yr hwn oedd yn ddyn dysgedig, i Athen; ac a wnaeth y fath gynnydd mewn dysgeidiaeth o dan yr athrawon yno, fel pan ddaeth i Rufain, na chyfarfyddai â nemawr yn gyfartal iddi, llai o lawer tuhwnt iddi, hyd yn nod mewn gwymbodaeth o'r ysgrhythrau; a thrwy ei darlenniadau dysgedig a deallus, a'i hymresymiaidau, y cyrhaeddodd y fath barch ac awdurdod, fel ar farwolaeth Leo, meddai Martin, y cafodd trwy gydysniad cyffredinol ei dewis yn bab yn ei le ef. Ond wedi hyny, hi a ganiataodd i un o'r gweision gyd-orwedd â hi, a phrofodd yn feichiog. Cuddiodd ei bol mawr am beth amser, hyd nes yr oedd ryw ddiwrnod yn myned i eglwys y Lateran, rhwng chwerau Colosaidd a St. Clement's; daeth ei gwewyr arni, a bu farw ar y fan hono, wedi eistedd ddwy flynedd, un mis a phedwar diwrnod; a chladdwyd hi heb ddim rhwyg." (*Ricaul's Trans.* tudal. 165)

Sylwa Mosheim, "Gall fod yn briodol roddi yma amgylchiad a rwystrodd yr olyniant arganmoleidig, o esgobion rheolaidd yn esgobaeth Rhufain, o'i sefydliad cyntaf hyd yr amser presennol. Rhwng pabaeth Leo IV., yr hwn a fu farw yn y flwyddyn 855, a'r eiddo Benedict III., darfu i ryw ddynes (yr hon a fedrodd ddirgelu ei rhyw am gryn amser), trwy ddysg, athrylith, a chyfrwysdra, wneyd ei ffordd yn rhydd i'r gader babyddol, a llywodraethu yr eglwys oddentu dwy flynedd. Y mae y swyddog hynod hon yn cael ei hadnabod hyd yn awr wrth y cyfenwad o Bab Siwan. Yr oedd yr amgylchiad hwn yn cael ei gredu yn gyffredin yn ystod y pum can' mlynedd dyfodol, a lllaws mawr o ysgrifenywyr yn dwyn tystiolaeth o'i wirionedd; ac nid oedd yn cael ei wadu cyn y Diwygiad gan neb. Ond yn y ganrif ddiweddaf, darfu i lawer o ddynion o gyrhaeddiadau enwog roddi eu holl athrylith a'u dyfais ar waith i ddi-nystrio crediniaeth yn yr hanes. Rhwng y ddwyblaid hyny, oedd yn myned bob un o honynt i'r eithafodd pellaf, tybiai y gellir hwylio yn ddiogel, gan gymeryd llwybr canol. Ganiatëir fod llawer o chwedlau dychymygod wedi eu cydwau â'r hanes; ar yr un pryd credent fod gormod o sail i'w gwadu yn hollol. Ac yn wir, wrth gymeryd golwg dawel ar yr holl amgylchiad, nid yw yn debyg, mewn modd yn y byd, fod

4. Adrian II., o.c. 868, Rhufeiniad eto, a ddaeth nesaf. Darfu i negeswyr yr ymherawdwr wrthwynebu ei etholiad, oblegid iddo gael ei ddewis heb gydsyniad eu meistyr; ond gostegwyd hwy trwy yr ateb, fod dyn teilwng wedi ei ddewis, ac felly rhaid iddynt fod yn foddllawn. Efe a wnaeth ymdrechiau mawrion i ddwyn y Bulgariaid dan ei awdurdod; ond er yr ymddangosai ar y cyntaf ei fod yn llwyddo, methodd gario ei bwynt yn y diwedd. Efe a ddiswyddodd yn greulawn y dysgedig Photius, o Gaereystenyn, ac a fynodd Ignatius yn ol i'w le, trwy wythfed cymanfa Caereystenyn. Daeth yr Ymherawdwr Lotharius i Rufain i dderbyn gollyngdod ganddo, yr hyn yr ymfrostir yn fawr ynddo; fel hefyd y brasluniad cyfreithiau a roddodd i deyrnas Arragon. Ar ol Adrian, y mae Onuphrius, Ciaconius, Bellarmine, ac eraill, yn enwi Ioan VIII (gan gyfrif y pab Siwan yn neb). Ond Platina, un hynach na hwy, a enwa

5. Ioan IX., o.c. 873, Rhufeiniad hefyd. Efe a goronodd dri o ymherawdwyr, Charles foel, Charles dew, a Lewis gecianwr; ac am bleidio y diweddaf yn ormodol, efe a garcharwyd gan y Rhufeiniaid; ond efe a ddiangodd i Ffrainc, ac a gynnaliodd ymgynghorfa yn Trecais; wedi hyny, efe a ddychwelodd i Rufain, ac a yrodd y Saraceniaid allan o'r Eidal a Sicily, ac a ysgrifennodd, fel y tybia rhai, bedwar llyfr o Fywyd Gregory Fawr.

6. Martin II., o.c. 883, Ffrancwr, a gymerodd ei le ef; yr hwn y mae Ciaconius ac eraill, yn groes i Platina, yn ei alw Marinus I.; cystal y maent yn cytuno yn eu henwau a'u cyfrifon! Dywed Platina, mai trwy ystrwb ddrwg y cafodd y babaeth. Ychwanega Ball mai consuriwr oedd Palumbus, ei dad. Y mae Fasciculus Temporum yn cwyno yn fawr oblegid drygioni y dyddiau hyny.

7. Adrian III., o.c. 884, Rhufeiniad, yr hwn a ddaeth ar ei ol, a'i gwnaeth yn waeth. Efe a arfaethodd na byddai gan yr ymherawdwr ddim i'w wneyd yn etholiad y pabau. Yr oedd gan y Rhufeiniaid hyder mawr ynddo oblegid ei benderfynolrwydd; ond symudodd angeu ef yn fuan, a

8. Stephen V., o.c. 885, Rhufeiniad, a gymerodd ei le ef. Y mae

amgylchiad a gredid yn ei wiredd, a hyny yn gyffredinol, ac y tystiolaethid gan llaws, yn ystod y pum canrif nesaf i amseriad yr amgylchiad, fod heb ryw sail iddo." (*Ecclesiastical History*:" talfyredig gan Wesley: llyfr ii., tudal. 19.)

Y mae yr Homili ar gyfer y Sulgwyn (dosb. ii.) yn llefaru am dani, ac yn tystio "I'r Pab Ioan, y buten, roddi genedigaeth yn y brif-heol, wrth fyned yn ddiifrifol, mewn gorymdaith." Ac y mae Esgob Jewell, yn ei "Ddiffyniad," yn gofyn, "Ai pur a sanctaidd ydoedd pob peth yn Rhufain, pan oedd Ioanes, gwraig gymedrolach o oedran nag o fuchedd, yn bab Rhufain, ac yn cymeryd arni fod yn ben ar yr eglwys; ac ar ol iddi chwareu'r buten ddwy flynedd yn yr eisteddfa sanctaidd, o'r diwedd, wrth fyned mewn *procession* o amgylch y dref, yn ngwydd y cardinaliaid a'r esgobion, hi a esgorodd ar blantyn, ar ganol yr heol, yn ngolwg pawb." ("Diffyniad:" trydydd argraffiad Cymreig, tudal. 58).

Y mae yr hanes hwn yn cael ei gofnodi gan Platina, yr hwn a ysgrifennodd "Fucheddau y Pabau," yr hwn a wnaed yn dalfyrwr (*abbreviator*) apostolaidd, o dan y Pab Pius II., ac yn llyfrgellydd y Vatican, gan y Pab Sixtus IV., yn y hymnhegded ganrif. Gan hyny, yr oedd ef wedi cael ei roddi yn llygad y ffynnon am hysbysiaeth gywir. Yr oedd ef yn babydd anhyblyg, a chan hyny yn rhydd oddiwrth bob rhagfarn yn erbyn y grefydd babaid. Yr oedd ef wedi ei benodi i'r swydd hon gan y pab; gan hyny nid oedd ef o dan dim demtasiwn i ffugio yr hanes ei hunan, gyda golwg ar dwyllo eraill, diraddio yr eglwys, na thramgwyddo ei feistrïad. Nid ellir credu hyn; ac nid ellir credu chwaith y gallasai dwyllo ei hunan, wrth ystyried yr amser yr oedd yn byw, a'r sefyllfa yr oedd yn ei lenwi. Gan hyny, nid yw ryfedd fod yr hanes yn cael ei gredu yn gyffredinol, am gynnifer o ganrifau; ie, na amheuoedd neb mo hono hyd amser y Diwygiad.

Onuphrius, Ciaconius, a Bellarmine, yn ei alw Stephen vi., gan anhoffi cyfrifaeth Platina. Ni wnaeth efe ddim o werth sylw, oddieithr ddarfod iddo ddirymu puredigaeth godineb, a swynyddiaeth, trwy fyned tros gwlltyrau poethion, a thafu y neb a dybid i'r dwfr. Yna,

9. Formosus, o.c. 891, esgob Portua, a adfeddiannodd y gader, ond nid heb wrthwynebiad mawr oddiwrth Sergius, y diacon. Ystyrid y dyn hwn yn euog o garchariad Ioan, ei ragflaenor; mewn canlyniad i'r hyn y diangodd i Rufain, ac y daeth yn llëygwr; ond rhoddodd y pab Martin ollyngdod iddo am arian, a'i roi yn iawn drachefn; trwy yr hon weithred o ras y cymhwyswyd ef i fod yn bab. Yr unig beth a wnaeth o werth sylw oedd adlywio eglwys St. Pedr.

10. Boniface vi., o.c. 896, Tuscaniad, a wnaeth lai; canys tair wythnos yn unig y cafodd ef y lle.

11. Stephen vi., o.c. 896, Rhufeiniad, yr hwn, yn yr un flwyddyn y meddiannodd ef y sedd, a hynodd ei hun trwy gyfodi corff Formosus, ei ragflaenor (i'r hwn y bu rwymedig), ei ddadwisgo o'i wisgoedd pabaidd, ei wisgo yn amwisg llëygwr, tori ymaith ddau fŷs cysegru ei law ddeheu, a'u tafu i'r Tiber. Ond dyddymwyd ei arfaethau, a chondemniwyd ei weithrediadau, gan

12. Romanus i., o.c. 897, ei olynwr, yr hyn oedd y cyfan a wnaeth efe, ac hefyd yr holl waith a wnaeth ei olynnydd yntau, a'i gydwladwr

13. Theodorus ii., o.c. 897, yn yr ugain diwrnod y cadwodd y gader, yr hwn y mae Platina yn clochdar yn ei erbyn. Y mae Bellarmine yn gadael y ddau hyn yn ymrysonwyr; ac yn nesaf at Stephen, yn rhoddi

14. John x., o.c. 898, Rhufeiniad eto, yr hwn oedd yn fwy haerllug dros Formosus nag oedd y ddau o'r blaen yn ei erbyn. Ond safwyd yn ei erbyn gan y bobl; am yr hyn efe a aeth i Ravenna, ac yno a ddyddymodd weithrediadau Stephen, a chadarnhaodd rai Formosus. Dim gwell nid oedd

15. Benedict iv., o.c. 905, Rhufeiniad, yr hwn a'i dilynodd. Yma hefyd y mae Platina yn dywedyd, "Fod cyfoeth wedi gwneyd yr eglwys yn anllad, ac nad oedd attalfa ar ddrygioni."

16. Leo v., o.c. 907, ei gydwladwr, a'i cafodd yn rhy wir felly; canys efe, cyn ei fod prin wedi cynhesu yn ei le, a dafwyd allan gan

17. Christopher i., o.c. 907, Rhufeiniad; er y dywed Platina ei fod mor iselradd, na wyddid un o ba wlad ydoedd. Darfu i'r Lucifer hwn, yn hytrach na Christopher, (meddai Ciaconius), wthio ei ragflaenor i fynachlog, lle y bu farw o doriad calon. Ond

18. Sergius iii., o.c. 910, Rhufeiniad eto, a gafodd dalu iddo yn ei ryw ei hun; canys darfu i Marozias, eithaf puten, ei gariad, ei gau yntau mewn mynachlog, yn mhen saith mis; ac yn mhen ychydig wedi hyny, mewn carchar caethach, lle y diweddodd ei ddyddiau yn druenus. Yntau a droes ei ddygasedd yn erbyn Formosus farw; canys rhaid oedd ei gael i fyny unwaith eto, ac yna tori ei ben ef, a thori i ffordd y tri bŷs a adawyd o'i law ddeheu, a'u tafu i'r Tiber, ac ailordeinio yr holl offeiriad a wnaed ganddo. Dywed Platina, i ryw bysgodwyr gael ei hen ysgerbwd, a'i gladdu yn eglwys St. Pedr; pryd y darfu i ddelwau y saint ei addoli. "Ddelwau tiron," meddai Prideaux, "cystal i chwi addoli, a chael eich addoli!" Wedi hyn, canmolir

19. Anastatius, o.c. 911, Rhufeiniad, am na wnaeth, mewn byr amser, na drwg na da. Ychwaith ni wnaeth

20. Laudo, o.c. 913, ei gydwladwr, yr hwn na newidiodd ei enw. Dywed Peter Praemonstratensis ei fod yn dad i

21. Ioan XI., o.c. 914, ei olynnydd. Ond dywed Platina mai mab ordderch ydoedd i'r pab Sergius; nid oedd ganddo *deitl* i'r babaeth y naill ffordd na'r llall. Yr oedd ganddo ysbryd milwraidd, a bu fuddugoliaethus yn erbyn y Saraceniaid; ond ni allasai hyn ei ryddhau ef oddiwrth fradwriaethau teuluaid. Canys trwy ystryw Meistres Marozias. efe a gymerwyd ac a fygwyd rhwng clustogau; ac ni ddarfu i St. Pedr a St. Paul, y rhai, meddent, a ymladdasant gydag ef yn erbyn y Saraceniaid, ei gadw rhag y fath farwolaeth esmwyth. Ceisiwyd am beth amser anwesu Ioan Marozias, etifedd tybiadol, trwy y pab Sergius, i mewn, ond nis gallasai gadw ei le, gan iddo gael ei wthio allan gan

22. Leo VI., o.c. 928, yr hwn na wnaeth ddim nodedig, yn ystod ei saith mis o deyrnasiad. Un cyffelyb oedd ei gydwladwr,

23. Stephen VII., o.c. 928, yr hwn na wnaeth ond prin dangos ei hun; ac wedi ystod dwy flynedd, a adawodd y lle i'r hwn oedd yn dyheu am dano drachefn.

24. Ioan XII., o.c. 930, y ceiliog ymladdgar hwnw o frid y pab Sergius a Marozias, yr hwn a roes belen i Leo a Stephen, oedd yn sefyll ar ei ffordd. Yr oedd yr anllad-ddyn hwn, a'i fam Marozias, yn rheoli yr holl haid. Ond nis gallai Marozias fod yn llonydd, canys hi a briododd, wedi marw Guido; ei gwr, a hyny heb ganiatâd, â Hugh, brenin yr Eidal, brawd ei gwr cyntaf, yr hwn oedd yn Burgundiad. Ar hyn cyfododd ymrafael rhwng ei gwr newydd a'i mab Albericus, am beidio dal y cawg yn wastad i ewythr ei dad-yn-nghyfraith, pan y golchai ei ddwyllaw. Cynnnyddodd hyn i'r fath gynddaredd, fel y bu raid i'r brenin Hugh ymadael â'r frenines Marozias, a Rhufain, a gadael y bobl dda yno fel y cafodd hwynt. Diystyrodd Ioan a'i fam y cwbl am beth amser, ond o'r diwedd rhoedd ffordd i

25. Leo VII., o.c. 935, yr hwn oedd yn ddyn diog iawn, ac ni wnaeth ddim teilwng o ganmoliaeth. Yn ei amser ef, meddai Luitprand, yr oedd Bozon, esgob Placentia, Theobald o Milan, ac esgob enwog arall—oll yn fastarddiad y brenin Hugh, a enwyd uchod, o'i dair breninesau, Bezola, Rosa, a Stephana, y rhai a alwai efe Venus, Júnio, a Lemalo. Onid oedd y rhai hyn yn haid o esgobion gobeithiol, i wneyd lles i'r eglwys, yn yr amserau drwg hyny? er hyny,

26. Stephan VIII., o.c. 939, Germaniad, a anturiodd gymeryd y babaeth; ond heddwch bach iawn a gafodd, canys darfu i blaid, a godwyd, tybir, gan Albericus, mab *Madam* Marozias, ei drin mor arw fel na feiddiai ddangos ei wyneb allan, oblegid y clwyfau â pha rai yr oeddynt wedi ei anffurfio; ac attaliodd hyn ef rhag gwneyd dim arbenigol. A chan lleied a hyny a wnaed gan y Rhufeiniaid a ddaeth ar ei ol ef.

27. Martin III., o.c. 942, yr hwn y mae Bellarmine a Ciaconius yn ei alw, Martin II.; ond yr ydym ni yn dilyn Platina, yr hwn oedd yn hynach na hwynt. Efe a wnaeth beth mewn ffordd o adgyweirio eglwysi, a phorthi y tlodion. Oddeutu y pryd hyn y darganfuwyd yr anghymeradwy gapelwr *Madam* Guella, gwraig ardalydd Barengarius, trwy gyfarthiad ci, yn myned i wely y foneddiges hono, lle y daliwyd ef, ac y trinwyd ef yn greulawn, meddai Luitprand. Cynddeiriogodd hyny Barengarius, ac a achosodd iddo drin y mynachod a'r offeiriad gyda chreulondeb mawr. Achlysuodd hyn i

28. Agapelus II., o.c. 946, Rhufeiniad, i alw ato Otho, o Germani, i'w ddarostwng, ac felly gwneyd trosglwyddiad i'r linach Germanaidd. Ond,

29. Ioan XIII., o.c. 955, mab Albericus, oedd yn fwy gweithgar. Trwy fygythion a llwgr-wobrwyon ei dad, a Marozias, ei fam, efe a adfeddiannodd ei hen le; ond nis gallasai ei gadw. Y mae Bale yn rhoddi hanes dychrynlyd am dano, allan o waith Luitprand; canys dywed ei fod wedi ymroddi i bob drygioni, anudoniaeth, a chysegr-ladrad; ddarod iddo, er mwyn pleidio Otho Fawr, ddiaelodi llawer o gardinaliaid, trwy dynu eu llygaid, tori eu dwylaw, a'u haeru amryw ffyrdd eraill. Efe a wnaeth ddiaconiaid yn ei ystablau, yn nghanol ei feirch; efe a wnaeth fechgyn yn esgobion; treisiodd Raynera, gweddw, gorderchwraig ei dad, ac Anna, un arall, a'i nith; tynodd lygaid ei dad sanctaidd Benedict; torodd ffenestri yn y nos; rhoddodd dŷ ar dân; yfodd iechyd y diafol; a mynai ddyweyd *mass* a heb gymuno. Am hyn, ac ystranciau annyoddefol eraill, y diswyddwyd ef mewn ymgynghorfa, gan Otho; a rhoddwyd Leo VIII. yn ei le. Ond wedi i Otho droi ei gefn, rhoddwyd ef yno drachefn trwy ystryw ei gariadau a'i gyfeillion. Gan yr anllad-ddyn hwn y darfu i St. Dunstan, o Frydain, brynu, am swm mawr o arian, waharddiad i'r offeiriaid briodi, yr hyn a fu yn achos o gynhwrf nid bychan y pryd hyny. O'r diwedd, efe a ddaliwyd ar y weithred o odineb gan ddyn penderfynol iawn, pan y cafodd ei glwyfo, yr hyn a brofodd yn farwol iddo yn mhen wyth niwrnod. Gwthiodd ei gyfeillion yn ei le

30. Benedict v., o.c. 964, dinesydd o Rufain; ond pan ddychwelodd Otho, yr ymherawdwr, efe a ddydymodd yr etholiad, a chymerodd Benedict gyd âg ef i Germani, lle y bu farw mewn alltudiaeth, ac a sefydlodd

31. Leo VIII., o.c. 965, ei gyd-ddinesydd, yn ei le ef; ac i dalu yn ol y gymwynas hōno, efe a goronodd Otho yn ymherawdwr, a ad-dychwelodd iddo yr hawl o ddewis pabau, am yr hyn y cafodd anrheg Cystenyn, neu yn hytrach Pirins a Charles Fawr, ei sicrhau i'r babaeth; am hyny geilw Ciaconius ef yn wrth-bab. Gellid tybied ei fod yn rhy onest i gael ei gynnorthwyo yn fawr, nac i lywodraethu yn hir.

32. Ioan XIV., o.c. 965, esgob Narvia, yr hwn oedd, meddai rhai, yn fab i Ioan XII, a lamodd i'w le; yn erbyn yr hwn y darfu i'r Rhufeiniad ymosod a'i garcharu. Rhyddhawyd ef gan Otho, yr ymherawdwr; a thraddododd Pedr, eu blaenor, llywodraethwr y ddinas, i'w ddwylaw ef, yr hwn a'i rhoddodd i'r farwolaeth fwyaf gwaradwyddus. Yn ei amser ef y dechreuwyd bedyddio clychau, a rhoddi enwau arnynt. Caletach oedd tynged ei gydwladwr a'i olynwr

33. Benedict VI., o.c. 972, canys carcharwyd ef yn nghastell Angelo, gan Cynthius, dinesydd galluog o Rufain, oblegid rhyw ystranciau a ehwareuodd, lle y gwnaed pen arno yntau yn fuan, rhag iddo gwyno a dwyn Cæsar i fyny arnynt, fel y gwnaeth eraill. "Gellid gweled," meddai Platina, "ei fod yn haeddu ei drin felly; canys ni chafodd y rhai a wnaeth hyny eu galw i gyfrif am dano." Hyn a wnaeth i

34. Donus II., o.c. 972, a ddilynodd, Rhufeiniad, fod yn fwy gochelgar. Dymunai y Poloniaid gael coroni eu brenin, ond ni lwyddasant; oblegid, fel y tybid, iddynt ddyfod yn wglaw. Y mae Bale, Platina, ac eraill, yn achwyn llawer ar ddyrswch hanesion yr amserau hyn. "*Vide Seculum Infelix*," meddai Bellarmine—"Sylwer ar oes annedwydd, yn yr hon na
1850.]

cheir yr un ysgrifenydd na chynghorfa enwog. Y pabau yn ychydig eu gofâl am y lles cyffredin; ac eto," meddai efe, "dygwyddodd yn dda, trwy ragluniaeth Duw, na tharddodd dim heresi newydd i fyny:" ac nid hawdd y gallasai, oblegid ychydig o grefydd oedd ar droed y pryd hyny, heblaw coelgrefydd a heresiau. Yn y dyddiau hyn, trwy foddion uniongyrchol, yr ymgribynnodd i mewn

35. Boniface VII., o.c. 974, a gyfenwid Franco; ond eododd y dinasyddion yn ei erbyn, ac efe a yspeiliodd ddodrefn a thrysor yr eglwys, ac a ffôd i Gaercystenyn. Ioan xv. a roddwyd yn ei le; ond efe a ddychwelodd yn ol ac a'i *prynodd* ef allan, ac felly a adfeddiannodd ei le drachefn; ond bu farw yn fuan o'r parlys mud. Dywed Baronius, ei fod "yn fwy o leidr, llofrudd, a bradwr ei wlad, na phab." Dangosodd ei arferiad ei fod yn gyfryw i

36. Ioan xv., o.c. 974, Lombardiad, yr hwn, wedi ei wneyd yn bab, ar ffôdigaeth Boniface i Caercystenyn, ar ei ddychweliad yn ol, a garcharwyd ganddo; a chymerwyd ei fywyd oddiarno, trwy newyn a drewdod y lle, medd rhai, ond dywed eraill, mai Ferarius, tad Boniface, a wnaeth y weithred. Yn nesaf ar ei ol ef, daeth

37. Benedict VII., o.c. 975, yn ol Bale a Bellarmine; ond y mae yn cael ei roddi o'i flaen gan Platina a Ciaconius. Efe a goronodd Otho, gyd â'i wraig, Theophania, yn eglwys y Lateran, a throes allan Gilbert, y coasuriwr, o archesgobaeth Rheims.

38. Ioan xvi., o.c. 985, Rhufeiniad, mab i Leo, offeiriad, wedi ei genedlu mewn priodas. Yr oedd yn ddyn â'i holl fryd ar gyfoethogi ei hun a'i berthynasau, o herwydd paham y casëd ef gan yr offeiriad.

39. Ioan xvii., o.c. 995, yr hwn a ganmolir fel ysgolâig mawr. Efe a gyfarfyddodd â llawer o wrthwynebiad oddiwrth Crescentius, y swyddog Rhufeinaidd, fel y bu gorfod iddo adael Rhufain, ac ymlechu yn Hetruria. Ond Crescentius, yn ofni y dygai efe Otho, yr ymherawdwr, yn ei erbyn, a aeth ac a ymostyngodd, fel y dychwelodd Ioan yn ol, a bu pob peth yn heddychol. Yn nesaf, cymerwyd y lle gan gâr i'r ymherawdwr, un Bruno, Germaniad, wrth yr enw

40. Gregory v., o.c. 996. Cyfododd Crescentius, swyddog y ddinas, yn erbyn hwn hefyd, gan ei yru o Rufain, a rhoddi Ioan, Groegwr, ar ei sedd ef. Ond dychwelodd Gregory yn ol, a thrwy fyddinoedd yr ymherawdwr, a ostegodd ei elynion, ac a'u rhoddodd i farwolaeth waradwyddus. Wedi hyny, efe a benododd saith o etholwyr, i ddewis yr ymherawdwrwr Germanaidd; yr hwn gyfansoddiad a sierhâwyd gan yr ymherawdwr oedd y pryd hyny, Otho. Y mae Bale a Platina yn cyfrif hwn yn wrth-bab, ac yn rhoddi Ioan yn rhifedi y pabau, fel Ioan xviii.; ond y mae Ciaconius a Bellarmine, gyda mwy o reswm, yn ei adael allan. Dyna oedd y llywodraeth a'r llygredigaethau oedd yn cael eu dwyn ymlaen o dan deyrnasiad ac awdurdod y buten fawr a'i hofferynau. Ychydig o ddaioni a ellid ei ddyagwyl yn y fath amser llygredig. Y fath falohder anghristiaidd oedd yn y pab Cystenyn, yn caniatâu i Justinian gusanu ei draed ef! Y fath awdurdod anmhriodol i ryddhau deiliaid oddiwrth eu llwon o ufudd-dod i'w penaethiaid gwladol. A ellir meddwl am fynyd fod y pab Siwan yn ddolen yn y gadwen; ac eto, gwelsom ei fod: i.e. basdarddiad, llwgrwobrwywr, ac atheistiaid, yn cael eu cydnabod yn ficeriaid Crist ac olynwyr St. Pedr! Gwelsom mai trwy nerth arian y rhoddwyd rhai dolenau wrth eu gilydd, a'r arian hyny wedi eu lladrata o drysorau yr eglwys.

Rhaid i ni adael ar y darnau hyn yn bresennol. Rhaid i ni gyfaddef mai prin iawn y daliasant wrth eu gilydd, tra y buom yn eu harchwilio—yn wir, yr oeddyr yn ofni nas gallem eu cadw rhywfodd wrth eu gilydd, i wneyd darn cadwenog o honynt, i'w dangos i'n darllenwyr: ofnem yn fynych gyffwrdd âg ambell i ddolen, gan mor freulyd a chanerllyd yr ymddangosai; ac nid oedd genym ond ei gadael yn llonydd fel y cawsom hi—weithiau gan Bale a Bellarmine, ac weithiau gan Platina a Ciaconius, a phryd arall gan Bale a Platina, a'r tro nesaf gan Bellarmine a Ciaconius. Yr ydym yn awr yn gadael y darnau yna—wedi eu gosod fel yna yn ymyl eu gilydd. Ni ddywedwn eu bod yn cydio yn eu gilydd: ond wedi y cwbl, dyna y fath yw y gadwen, yr hon y sonir cymaint am dani, ac yr ymfrostir cymaint ynddi, gan ein Puseyaid a'n Uchel-eglwyswyr; ac yn eu gwneyd i ffroeni ar bawb eraill, a gwrthod priodi a chladdu ond y rhai a fedyddiwyd gan rai, meddant hwy, sy'n barhad o "Ddolenau y Gadwen" Rufeinig hon.

CADWEDIGAETH YR YSGRYTHYRAU.

Y TESTAMENT NEWYDD.

Ar yr olwg gyntaf, gellid tybied ei bod yn llawer haws dyfod i benderfyniad am gadwedigaeth ysgrythyrau y Testament Newydd na'r Hen; oblegid mae y llyfrau a'u cyfansoddant ef yn llawer diweddarach cyfansoddiadau. Ac y mae genym ysgrifeniadau eraill yn cyrhaedd yn ol mor belled a'r amser y cafodd llyfrau y Testament Newydd eu cyhoeddi, ac y cawsant dderbyniad cyffredinol fel llyfrau ysbrydoledig. Ond gyda golwg ar y rhan fwyaf o lyfrau yr Hen Destament, nid oes genym ddim o'r cyffelyb yn cyrhaedd o fewn canrifau i'r amser yr ysgrifenydwyd hwynt. Ac felly, fe ddichon ymddangos, fod llawer mwy o anhawsdra ar ffordd penderfynu cadwedigaeth yr Hen Destament na'r Newydd; ond erbyn myned i chwilio a chraffu yn fanylach ar y pwnc, buan ein hargyhoeddir fod yr anhawder yn llawer mwy, mewn gwirionedd, yn achos yr olaf na'r blaenaf.

Y rhesymau dros hyn ydynt, Yn gyntaf, yr ydoedd llyfrau yr Hen Destament wedi eu casglu ynghyd a'u penderfynu gan Ezra, yr hwn oedd ŵr ysbrydoledig; ond yr ydoedd ysbrydolïaeth gwedi pallu yn yr eglwys Gristionogol cyn dyfod i benderfyniad cyffredinol ar lyfrau y Testament Newydd. Yn ail, derbyniodd llyfrau yr Hen Destament gadarnhad Crist a'i apostolion; ond, ymddengys fod yr apostolion oll wedi meirw cyn penderfynu ar lyfrau y Testament Newydd. Yn drydydd, nid oedd nifer y llyfrau apocryphaidd perthynol i'r Hen Destament ond ychydig o nifer, a hawdd eu gwahaniaethu, mewn cymhariaeth; ond y mae llyfrau apocryphaidd y Testament Newydd yn lliosog iawn; a rhai o honynt yn meddu llawer gwell seiliau i'r hawl o gael eu rhestru ymhlith y llyfrau a'i cyfansoddant na dim o'r cyfryw y büwyd yn ceisio dadleu dros eu derbyniad i blith llyfrau yr Hen Destament. Mae rhai dysgedigion diweddar wedi bod yn dadleu dros dderbyniad i fwy na phedwar ugain o gyfansoddiadau, y rhai a gauri allan o hono yn bresennol. Tra yr ydoedd cydsyniad lled gyffredinol

o barth i awdurdod y rhan fwyaf o lyfrau y Testament Newydd ymblith y Cristionogion boreuol, eto yr ydoedd rhai yn ammheŷus am Epistol Iago, ail Epistol Pedr, yr ail a'r trydydd i Ioan, yr Epistol at yr Hebreaid, a'r Dadguddiad. Yr ydoedd duwinyddion cyfrifol iawn yn y canrifau diweddaraf yn ammheŷus ynghylch rhai o honynt. Bu Luther am dymmor yn gwrthod Epistol Iago. Yr ydoedd Erasmus, Calfin, Cajetan, a Cristenius, yn petruso o barth i awdurdod llyfr y Dadguddiad; a gwrthodid ef yn llwyr gan Michaelis, ac nid oedd ef yn ffafriol ychwaith i Efengylau Marc a Luc, a'r Actau, am nad oedd yr ysgrifenyddwyr o nifer yr apostolion. Gwedi talu sylw i'r pethau yna a'u cyffelyb, ymddengys yr anhawsderau yn llawer mwy yn achos y Testament Newydd, nag yn achos yr Hen Testament.

I ddyfod i benderfyniad am neillduad llyfrau y Testament Newydd fel ysgrifeniadau yr apostolion, oddiw'rth bob ysgrifeniadau eraill yr un amserau, neu y rhai a ddaethant yn fuan ar eu hol, a'u trosglwyddiad yn ddilwgr i waered hyd yma, rhaid apelio at hanesyddiaeth ddilys, a cheisio oddiyno pa lyfrau a dderbynid, fel gwir ysgrifeniadau yr apostolion, gan yr eglwys gyntefig a'r tadau boreuaf. Ysgrifeniadau prophwydi, a rhai wedi bod o tan eu harolygiaeth hwy, a ystyrid yn deilwng o le ymblith llyfrau yr Hen Testament gan yr eglwys Iuddewig; felly hefyd ysgrifeniadau yr apostolion, ac o leiaf rhai wedi bod o tan eu harolygiaeth, a ystyrid yn deilwng o'u rhestru gyda llyfrau y Testament Newydd gan yr eglwys Gristionogol. Mae yn wir nad ydoedd Marc a Luc o nifer yr apostolion, ond cawn eu bod yn gymdeithion i ddau o'r rhai mwyaf cyfrifol yn eu plith, sef Paul a Phedr (*Act. xiii. 5, a 1 Pedr v. 13*); ac nid yw mewn un modd yn annhebygol, i'r hyn a ysgrifenyddwyd ganddynt fel hanes Iesu Grist gael ei adolygu a'i gymeradwyo gan y ddau apostol hyny, cyn iddo fyned i ddwyllaw eraill—mae yn annaturiol tybied yn amgen. Ac heblaw hyny, nid yw yr hyn a ysgrifenyddwyd gan y ddau efengylwr hyn yn ddim amgen nag adroddiad syml o ffeithiau hanesyddol, y rhai a glywsent, mae yn debyg, gan yr apostolion a fu yn llygad-dystion o honynt; ac nid athrawiaethau uchel, a dadguddiedigaethau dwyfol, y rhai y buasai yn rhaid eu cael o fyd arall.

Ac yn awr, cydoeswyr yr apostolion, a'r rhai a ddaethant yn uniongyrchol ar eu hol, oedd y rhai cymhwysaf i farnu a phenderfynu pa rai oeddynt eu hysgrifeniadau, ac a oedd y cyfansoddiadau oedd yn dwyn eu henwau yn eiddo gwirioneddol iddynt. Atynt hwy, gan hyny, y rhaid myned, fel tystion cymhwys yn y mater. Ac os ceir cydsyniad ymblith yr ysgrifenyddwyr a'r tadau boreuaf o barth i ba lyfrau a dderbynid gan y Cristionogion cyntefig fel cyfansoddiadau yr apostolion, mae yn rhaid derbyn hyny fel prawf penderfynol ac anwrthwynebol; oblegid y mae yn annichonadwy tybied y gallasant hwy gael eu twylllo yn y fath achos. O bob prawf mewn pwnc o'r natur yma, mae hwn o'r math lleiaf darostyngedig i fethiant. Dywed y dysgedig Huet, "fod pob llyfr yn awdurol, a gyfrifid felly gan y rhai oeddynt yn byw agosaf at yr amser yn mha un yr ysgrifenyddwyd ef, a chan yr oesoedd olynol o hyny ymlaen." Ac y mae rhesymoldeb a sicrwydd y rheol uchod yn ychwanegu yn ddirfawr pan ei cymhwysir at lyfrau y Testament Newydd—llyfrau ag yr oedd eu hawdwyr, y rhan fwyaf o honynt, yn hŏni eu bod o tan ddwyfol ysbrydoliaeth—llyfrau y rhoddid y fath fri arnynt mewn canlyniad i hyny, ac y teimlid y dyddor-

deb mwyaf ynddynt gan gannoedd o'r rhai ag oedd yn oesi agosaf at eu hawdwyr. Yr oeddynt yn cael eu cyfarwyddo at gymdeithasau lliosog, yn cael eu darllen yn gyhoeddus yn eu cynnulliadau, a'u cydnabod ganddynt fel gwir ysgrifeniadau apostolion Iesu Grist. Mae genym dystiolaeth ddi-fwlch yr oesoedd, oddiyno i waered hyd yma, i apelio ati ar hyn, heb yr un sail i dybied y radd leiaf o dwyll na hoced ynddi, mewn un modd. Fel yma, gallwn dderbyn llyfrau y Testament Newydd fel gwir gyfansoddiadau Matthew, Marc, Luc, Ioan, Paul, &c., ar sail yr un rheswm ag y derbyn-iwn ysgrifeniadau Homer, Socrates, Pliny, Julius Cæsar, ac eraill o hen awdwyr arlenyddol; a'r rheswm hwnw yn llawer cryfach hefyd. Nid oedd yr hen gyfansoddiadau arlenyddol enwocaf ag sydd ar gael heddyw wedi eu cyfarwyddo ond at bersonau unigol, a'r mwyafrif o'honynt heb eu cyfarwyddo at, nac i ofal neb; ac nid oes genym un sail i gasglu eu bod yn cael eu darllen mewn un modd yn gyhoeddus ychwaith—ond i'r gwrthwyneb, nad oeddynt yn adnabyddus ond i ryw ychydig bersonau yn mhob gwlad.

Mae genym seiliau i gredu fod y Testament Newydd, yn lled fuan ar ol ei ysgrifenu, yn adnabyddus, ac yn cael ei ddarllen dros dair dosran o bedair o'r byd, pryd ag yr ydoedd y rhan fwyaf o lawer o'r awdwyr cyffredin yn cael eu cyfyngu o fewn cylch eu gwlad a'u hiaith gysefin. Ni gawn ei fod yn cael cyfeirio ato, a'i ddyfynu hefyd, gan olyniad difwlch o ysgrifenywyr o'r oes apostolaidd i lawr hyd yn bresennol; a hyny, nid yn unig gan rai oedd yn ffafriol, ond gan rai oedd yn eynion iddo hefyd. Mae hyn yn beth nas gellir ei gadarnhau am yr un o weithiau yr hen awduron arlenyddol. Gellir casglu hefyd ddarfod i gyfieithiadau o hono gael eu gwneyd mor foreu a diwedd y ganrif gyntaf neu ddechreu yr ail, y rhai a ddaethant yn dra lliosog yn mhen canrif neu ddwy ar ol hyny. Yn ganlynol i'r cyfnod olaf a nodwyd, yr ydoedd yn beth anmhosibl ffugio ysgrifeniadau newyddion yn eu lle, na llygru yr hen rai, oni bai fod yn bosibl i ni dybio y gallesid cael gan ddynion o wahanol genedlaethau, ieithoedd, a syniadau, gydsynio am unwaith, boed a fyddo, i weithredu twyll ar holl oesoedd a chenedlaethau dyfodol y byd; yr hyn beth sydd yn anmhosibl. Mae y rheswm a'r prawf hwn yn gyfryw, fel os beiddiwn yn ei wyneb amheu awduraeth a phurdeb yr ysgrythyrau, gallwn gyda mil mwy o briodoldeb ymrwrthod â holl ysgrifeniadau eraill y byd fel rhai fugiol; gallwn ymrwrthod â phob prawf a thystiolaeth hanesyddol ar unwaith, fel pethau anheilwng o'r ymddiried lleiaf ynddynt.

Y rheol uchod a ddilynwyd gan y Cristionogion boreuol, sef gan Irenius, Tertulian, Eusebius, Cyril, a chan Augustine, ac eraill, i benderfynu pa lyfrau oeddynt yn perthyn i ysgrythyrau y Testament Newydd. Chwiliasant i hanes yr eglwys yn yr oesoedd blaenorol, i gael sierwydd oddiyno pa rai a dderbynid fel ysgrifeniadau yr apostolion gan Gristionogion yr oesoedd hyny.

Pa bryd y penderfynwyd canon y Testament Newydd, a thrwy ba awdurdod? ydynt gwestiynau a ofynwyd yn fynych, fel pe na buasai y gwahanol lyfrau a'i gyfansoddant o unrhyw awdurdod nes eu hawdurdodi gan ryw gynghor eglwysig, neu fynegiad cyhoeddus o'farn y tadau Cristionogol, fel pe buasai hyny yn ymddibynu ar eu casgliad at eu gilydd yn un gyfrol. Ond yn gymaint a'u bod yn ysgrifeniadau apostolion Crist, i ba rai yr oedd efe ei hun wedi addaw Ysbryd y gwirionedd i'w tywys i

bob gwirionedd, rhaid eu bod o gyflawn awdurdod er y dydd cyntaf eu cyhoeddwyd; ac nid yw eu hawl i le yn y gyfrol sanctaidd yn tarddu oddi-wrth awdurdod na barn unrhyw eglwys na chymanfa, ond oddiar eu bod wedi eu rhoddi gan ysbrydoliaeth Duw. A'r dyben o apelio at dystiolaethau hanesyddol gyda golwg arnynt ydyw i brofi eu bod yn wir waith y rhai y mae eu henwau wrthynt.

Ni fuasai o unrhyw wahaniseth mewn perthynas i'w hawdurdod, pe na buasent erioed wedi eu casglu yn un gyfrol—pe buasent wedi eu gadael yn y ffurf wahanedig yn mha un y daethant o ddwyllaw eu hysgrifenwyr. Nia gallwn fod yn sicr ddarfod iddynt gael eu rhwymo, neu eu cydio yn fath ar un gyfrol yn foreu iawn; y tebygolrwydd cryfaf ydyw, mor bell ag y mae genym broffion, eu bod yn fwyaf cyffredin yn ddwy gyfrol yn y canrifau cyntaf; gelwid un yr "*Efengyl*," a'r llall yr "*Apostolion*." Ymddengys ddarfod i rai o'r hen ysgrifyfrau hynaf ag sydd wedi eu cadw gael eu trefnu yn y ffurf hon. Mynych y cyfeiria y tadau at ysgrythyrau y Testament Newydd o dan yr enwau uchod. Rhaid fod llawer o amser wedi myned heibio er eu cyhoeddiad cyntaf, cyn iddynt gael eu casglu oll at eu gilydd. Diammhau y byddai i'r eglwysi hyny ag oedd agosaf at y fan lle y cyhoeddiad y llyfrau hyn, feddiannu copiau o honynt yn gynt nag eglwysi pellenig; oblegid cymerai llawer o amser y pryd hwnw i anfon o eglwysi pell at y rhai oedd yn meddu y cynysgrifau, ac i ysgrifenu copiau ffyddlawn o honynt, yr hyn oedd yn achosi eu casgliad at eu gilydd i fod am dymmor yn anghyflawn.

Am yr un rheswm hefyd nid yw yn debygol i'r eglwysi ddyfod i feddiant o'r llyfrau lleiaf mor foreu a chyffredinol a'r llyfrau helaethaf. Byddai pryder y Cristionogion i feddiannu y rhai olaf yn peri iddynt fod yn fwy ymdrechgar i gael copiau o honynt mor fuan ag y gallent, pryd, fe allai, nad oedd y rhai lleiaf yn cael cymaint o son am danynt, nac o ymdrech i'w meddiannu. Mae yn amlwg, feddylid, nad oedd y llyfrau hyn yn cael eu cyfyngu yn hir o fewn cylch yr eglwysi at ba rai yr oeddynt wedi eu hanfon ar y cyntaf gan yr apostolion; oblegid ni a gawn mor foreu a'r amser yr oedd Pedr yn ysgrifenu ei ail epistol, fod epistolau Paul yn daenedig i raddau, mwy neu lai, yn nwyllaw Cristionogion y pryd hwnw, ac yn cael eu rhestru ymhlith yr "*ysgrythyrau eraill*" (2 *Pedr* iii. 14, 15). Ymddengys yn debygol hefyd fod rhai, o leiaf, o'r efengylau yn adnabyddus, ac yn cael cyfeirio atynt gan yr apostolion eraill. Nid yw yr ymadrodd, "cans teilwng i'r gweithiwr ei gyflog," yr hwa a ddefnyddid gan Paul yn ei epistol cyntaf at Timotheus (v. 18) fel un adnabyddus, yn dygwyddo yn un man ond yn efengyl Luc (x. 7); oddiwrth yr hyn y gellir barnu fod yr efengyl hono yn adnabyddus pan yr ydoedd Paul yn ysgrifenu. A thebygol ydyw fod Iago hefyd yn cyfeirio at efengyl Matthew (xxii. 39) pan y dywed yn ei epistol (ii. 8), "Os cyflawni yr ydych y gyfraith freninol, yn ol yr ysgrythyr, Car dy gymydog fel ti dy hun." Ond nis gallwn ddysgwyl cymaint o gyfeiriadau gan y naill o ysgrifenwyr y Testament Newydd at y llall, ag a geir yn ysgrythyrau yr Hen Destament, pan ystyrion i'r oll o hono gael ei ysgrifenu o fewn cylch deugain mlynedd, neu ychydig yn rhagor. Ac heblaw hyny, mae y dyfyniadau helaeth a mynych o honynt a wneir gan yr ysgrifenwyr Cristionogol agosaf at yr apostolion o ran amser, ac amryw o honynt yn gydoeswyr mewn rhan iddynt, a'r rhai hyny yn byw mewn gwahanol wledydd, yn profi yn eglur fod y llyfrau

hyn mewn ymfyniad mawr, ac yn cael eu lledanu yn dra chyflym er y pryd eu cyhoeddwyd gyntaf.

Mae yn anhawdd i ni, sydd wedi ymgynneffno cymaint â'r llyfrau yma o'n mebyd, amgyffred y dyddordeb dwys a deimlid gan Gristionogion y ganrif gyntaf yn ysgrifeniadau yr apostolion. Nis gallwn ni ddirnadu pa mor awyddus y gallasai y rhai hyny fod na chawsant erioed y cyfleusdra i weled Paul ei hun, na'i wrandaw yn pregethu, ond a glywsant am ei dröedigaeth hynod, a'i ddoniau, a'i lafur rhyfeddol—pa mor awyddus y byddent i weled a darllen ei ysgrifeniadau ysbrydoledig. A dichon na fyddai y rhai hyny a gawsant y fraint o'i glywed yn pregethu Iesu Grist, a hwnw wedi ei groeshoelio, yn ddim llai eu dymuniad i gael darllen ei epistolau hefyd. Mae yn ddigon naturiol i farnu, ac y mae genym dystiolaeth un o'r efengylwyr hefyd (*Luc* i. 1), fod rhyw fath o ysgrifeniadau, yn cynnwys hanes pregethau a gwyrthiau Iesu Grist, wedi eu lledanu o'r blaen, gan rywrai; ac os felly, pa mor ddyddorawl y gallasai fod i'r Cristionogion boreuol gael y pethau hyny "a gredid yn eu plith oddiwrth rai ag oeddynt eu hunain o'r dechreuad yn gweled ac yn weinidogion y gair?" O ganlyniad, mae yn ddiammhau y byddai pob eglwys o Gristionogion yn sychedig am feddu cymaint ag oedd i'w cael o ysgrifeniadau yr apostolion. A chan y gwyddent hwy eu bod yn gyfausoddiadau dynion sanctaidd Duw, o dan gynhyrriad yr Ysbryd Glan, nid oedd arnynt anghen am yr un prawf arall i'w hawdurdodiad. Yr oll ag oedd yn eisieu, oedd cael sicrwydd o'u bod mewn gwirionedd yn ysgrifeniadau yr apostolion. Gallwn o'ddiwrth hyn ganfod y pwys mawr oedd yn perthyn i ryw bethau yn epistolau Paul, a allai ymddangos i ni yn bethau bychain iawn—megys, "Yr wyf fi, Tertius, yr hwn a ysgrifenedd yr epistol hwn, yn eich anereh," "Yr anereh â'm llaw i Paul fy hun, yr hyn sydd arwydd yn mhob epistol," "Felly yr ydwyf yn ya ysgrifenu yn mhob epistol," "Gwelwch cyhyd y llythyr a ysgrifenis atoch â'm llaw fy hun." Byddai Paul yn gyffredin yn defnyddio ysgrifwas; ond fel y byddai i'r eglwysi yr ysgrifenis atynt gael sicrwydd o awduraeth ei llythyr, byddai bob amser yn ysgrifenu yr anerechiad â'i law ei hun. Y cyfryw oedd y gofal a ddangosid am sicrwydd awduraeth yr ysgrythyrâu ar eu cyhoeddiad cyntaf. Yr un rheswm sydd hefyd am ei fan-ylwch ef, a'r apostolion eraill, mewn rhoddi enwau a chymeriadau y rhai yr ymddiriedid y llythyrâu iddynt i'w dwyn at yr eglwysi; a byddent bob amser yn eu cyflwyno i ofal personau o gymeriad uchel yn yr eglwys i'w cludo.

Mewn perthynas i gynysgrifau yr apostolion, diau ddygwydd iddynt hwy yr un dynged ag a ddygwyddodd i filoedd o rai henafaidc eraill diw-eddarach na hwy. Mae yn annichonadwy cael gafael heddyw ar gynysgrif yr un llyfr can hyned a'r Testament Newydd, oddieithr ddarfod iddo gael ei gadw mewn rhyw fodd anghyffredin, megys y rhai hyny yn adfeilion Herculeaneum, y rhai a gladdwyd yn nynystr y lle yn y flwyddyn o.c. 79, ac a fuant yno yn guddiedig am lawer iawn o ganrifau. Ac wrth ystyr-ied y cyfnewidiadau a'r erledigaethau yr aeth yr eglwys Gristionogol trwyddynt, nid oedd yn bosibl braidd eu cadw trwy ddim llai na gwyrrth. Ac hefyd, gellid meddwl fod y Cristionogion boreuol yn cael eu cymeryd i fyny yn gymaint gan ogoniant gwirioneddau yr efengyl, fel nad oeddynt yn gofalu llawer am y papyr a'r inc—y cyfryngau trwy ba rai eu trosglwyddwyd gyntaf iddynt. Yr oedd ganddynt bethau o'r fath bws a dyddordeb

a phethau mor newydd iddynt o flaen eu meddyliau, fel nad oedd ganddynt na hamdden na thuedd at ddim tebyg i feirniadaeth fanylaidd y dyddiau presennol. Dichon nad oeddynt hwy yn rhoddi cymaint pris ar gynysgrifau y llyfrau sanctaidd ag a roddid arnynt gan feirniaid oesoedd diweddarach; ond yr ystyrient eiliadau cywir a ffyddlawn o honynt mor werthfawr a hwythau. Pe buasent wedi eu cadw, diammhau y buasai miloedd o'r rhai a alwent eu hunain yn Gristionogion yn eu haddoli heddyw, fel Israel y sarff bres gynt. Ond er na ddywedir ond ail i ddim gan yr ysgrifenywyr boreuaf am y rhai hyn, mae genym dystiolaeth Tertulian, yr hwn oedd yn blodeuo tua diwedd yr ail ganrif, fod *llythyrau awdurol* yr apostolion i'w gweled i'r neb a gymerai y drafferth o fyned at yr eglwysi hyny at ba rai yr anfonwyd hwy ganddynt. Ond y mae graddau o ammhaueth yn bod pa un a oedd ef yn golygu wrth y rhai hyn rywbeth amgen nag eiliadau o honynt, ai ynte yr ysgrifau gwreiddiol eu hunain. Yr olaf, fe allai, ydyw y mwyaf tebygol, yn gymaint a bod gan yr holl eglwysi yn gyffredinol eiliadau o honynt yr amser hwn.

Ond er fod y cynysgrifau wedi myned ar ddifancoll, mae digon o brofion eraill o'r fath gryfaf dros awduraeth yr ysgrythyrau. O blith y rhesymau hyny a ystyrir yn gyffredin gan y beirniaid yn seiliau digonol i ammheu awduraeth unrhyw gyfansoddiad llenyddol, nodwn y rhai canlynol, gan ddangos ar yr un pryd nad oes yr un o honynt yn gymhwysiadwy at lyfrau y Testament Newydd:—1. Mae sail i ammheu awduraeth llyfr pan yr ydoedd ammheueth yn bod yn ei gylch ar ei ymddangosiad cyntaf. Ond nis gellir profi fod neb wedi bod yn ammheu awduraeth ysgrifeniadau yr apostolion ar eu hymddangosiad cyntaf. 2. Pan y byddo profion o fod cyfeillion a chydabod agosaf yr hwn a hōna yr awduraeth, y rhai oeddynt yn meddu y manteision goreu i benderfynu y pwnc, yn gwadu ei hawl ef iddo. Nid oes yr un prawf ar gael fod neb o gydoeswyr yr apostolion yn gwadu nad hwy oedd awdwyr y llyfrau a briodolir iddynt. 3. Pan y byddo amser maith wedi myned heibio ar ol y dygwyddo marwolaeth yr awdur, yn mha un yr ydoedd y gwaith yn anadnabyddus, a hyny pryd y buasai yn anhosibl iddo lai na chael son am dano, a'i ddyfynu hefyd, pe buasai yn bod o gwbl yn ystod y cyfnod hwnw. Nid aeth dim amser heibio ar ol dygwyddo marwolaeth yr apostolion, yn yr hwn yr ydoedd eu hysgrifeniadau hwy yn anadnabyddus; ond i'r gwrthwyneb, maent yn cael son am danynt a'u dyfynu gan amryw o awduron oedd yn gydoeswyr â hwynt. 4. Pan y byddo yr arddull (*style*) yn amrywio oddiwrth ysgrifeniadau eraill yr awdur, os byddant i'w cael, neu oddiwrth yr hyn a ddysgwylyd yn naturiol iddi fod yn ol ei amgylchiadau. Mae arddull ysgrifenywyr y Testament Newydd yn hollol yr hyn a ddysgwylyd iddi fod; nid Groeg pur, ond Groeg Iuddewaidd. 5. Pan y byddo y llyfr yn hanesu am amgylchiadau a ddygwyddasant yn ddiweddarach na'r pryd yr ydoedd yr hwn a hōna yr awduraeth yn byw. Ond nid yw y Testament Newydd yn rhoddi hanes am ddim y gelli' profi mai ar ol marwolaeth yr awdwyr y dygwyddodd.

Ymddengys oddiwrth natur yr achos a'r amgylchiad ei fod yn nesaf peth i anhosiblirwydd, os nad yn hollol felly, i ffugio ysgrifeniadau y Testament Newydd. Obligid y mae yn annichonadwy sefydlu ysgrifeniadau ffugiol fel rhai gonest mewn unrhyw wlad yn yr hon y bydd dynion galluog o ran cymhwysder i ganfod y ffugiant, ac yn dueddol hefyd, oddiar y seiliau

lleiaf, i'w drwgdybio. Yr ydoedd yr Iuddewon y gelynyion poethaf i Gristionogaeth o bawb; yr oeddynt wedi rhoddi ei sylfaenydd i farwolaeth; yr oeddynt wedi erlid ei ddysgyblion gyda'r creulondeb mwyaf, a cheisio llwyr ddyfetha y grefydd newydd yn ei chychwyniad. Ac yn awr, pe buasai yr ysgrifeniadau hyn yn ffugiol, onid buan y canfyddasai yr Iuddew hyny?—pwy mor gymhwys i wneyd? a phwy yn fwy parod i ddynoethi y twyll pe buasai yn ei gael? Mae yn anmhosibl cael yr un anghraifft yn holl hanes oesoedd y byd, ddarfod i ychydig o bersonau ffugio hanesyddiaeth, a darbwyllo y byd i'w dderbyn fel un awdurol a dilys, a hyny yn ngwyneb gwrthdystiad cenedl gyfan o rai ag oeddynt yn meddu y manteision goreu i benderfynu yn ei gyloch. A fuasai trigolion Palestina yn derbyn ysgrifeniadau yr efengylwyr, oddieithr fod ganddynt broffion digonol fod y cyfryw un a Iesu o Nazareth wedi bod yn eu plith, a chyflawni y pethau a briodolir iddo gan yr ysgrifenywyr hyny? Hyn a wnaeth cannoedd o honynt. Neu, a fuasai eglwysi Rhufain a Corinth yn derbyn yr epistolau a anfonwyd atynt yn enw Paul, oni b'ai eu bod yn ffugbod i sicrydd am y cyfryw apostol, a'i fod wedi bod yn pregethu yn eu plith? Tybier fod rhyw dwyllwr yn ffugio ac yn taenu epistolau yn enw Paul, neu un o'r apostolion eraill; a yw yn debygol y caent eu derbyn yn ddiwrthwynebiad ac unfrydol gan yr holl eglwysi Cristionogol yn nhri chwarter y byd? Yr un peth a fyddai ceisio gwadu awduraeth y llyfrau hyn, a dilysrwydd y ffeithiau a gynnwysant, ag a fyddai ceisio profi nad yw hanes y Diwygiad Protestanaidd ond ffugchwedlau a ddyfeisiwyd rywbryd o'r unfed ganrif ar bymtheg i waered; ac na ddygwyddodd yr un chwyldroad yn Brydain yn y ganrif ganlynol, ac yn Ffrainc yn niwedd y ganrif ddiweddaf, a dechreu yr un bresennol, a hyny yn ngwyneb y cyfrolau, diddiwedd braidd, a ysgrifenydd arnynt o hyny hyd yn awr. Yr un peth, meddwn, fyddai ceisio haeru mai ffugchwedlau noethion oedd hanes y cynhyrffiadau a fu yn ysgwyd y rhan fwyaf o deyrnasoedd Ewrop yn 1848, yn ngwyneb y miloedd colofnau a argraffwyd mewn perthynas iddynt o hyny hyd heddyw.

Yn awr, ni a ddeuwn yn fwy uniongyrchol at y profion sydd i'w cael dros gadwedigaeth y llyfrau hyn, sef y profion hyny a geir oddiwrth hen ysgrifenywyr; y rhai yn eu hysgrifeniadau a grybwyllasant am danynt, a ddyfynasant o honynt, neu a gyfeirasant atynt, mewn rhyw fodd neu gilydd. Maent wedi cael eu dyfynu neu gyfeirio atynt gan awduron Cristionogol ac eraill hefyd, y rhai y gellid eu holrhain yn ol yn un gadwen ddifwlch, o'r oes bresennol hyd yr oes apostolaidd. Dywed Dr. Paley, am y math hwn o brawf, "ei fod y mwyaf diammheüus, y lleiaf darostyngedig i dwyll; ac nid ydy yn cael ei wanychu gan feithder amser." Rhydd yr anghraifft ganlynol o hono;—"Mae Esgob Burnet, yn 'Hanes ei Amserau ei hun,' wedi rhoddi i mewn amryw ddyfyniadau o hanesyddiaeth Arglwydd Clarendon. Mae un o'r cyfryw ddyfyniadau yn brawf o fod hanesyddiaeth Arglwydd Clarendon yn bod pryd yr oedd Burnet yn ysgrifenu; ei fod wedi cael ei ddarllen gan Burnet, ei dderbyn gan Burnet fel gwaith Arglwydd Clarendon; ac hefyd fod Burnet yn ei ystyried fel hanes dilys o'r amgylchiadau y crybwyllia am danynt: a bydd yn brawf o'r pethau hyn yn mhen mil o flyneddau rhaglawn, cyhyd ag y pery y llyfr mewn bod." Dengys yr anghraifft yna ar unwaith, natur a grym y prawf a gymhwysir gan amddiffynwyr Cristionogaeth, at yr ysgrythyrau.

Er y gellid olrhain y prawf hwn, fel y sylwyd, trwy restr ddifwlch o

ysgrifenwyr, o'r oes apostolaidd i waered hyd yma, neu yn y gwrthwyneb, o'r amser presennol i fyny hyd at yr apostolion, nid oes anghurheid-rwydd am ddechreu na dybenu yn nes atom na'r bedwaredd ganrif; oblegid ar ol i'r llyfrau hyn gael eu trosglwyddo yn ddiogel hyd y cyfnod hwnw, nid oes modd i'r prawf fethu gyda hwynt oddiyno hyd yma, oddiwrth liosogrwydd yr awduron Cristionogol, a'r dyfyniadau lliosog a wneir ganddynt o'r Testament Newydd.

I. O ddechreu y drydedd hyd ddiwedd y bedwaredd ganrif, ni a gawn gynnifer a thair ar ddeg o lechresau (*catalogues*) o lyfrau y Testament Newydd, gan wahanol awdwyr a chymanfaoedd; a'r rhai hyny oll, gyd âg ychydig iawn o eithriadau, yn cynnwys yr un llyfrau ag a dderbynyr genym ni yn bresennol. Enwn hwynt mor fyred ag y medrwn, gan fyned yn eu gwrthol o'r diweddarafifyny at y boreuaf o'honynt. 1. Yr un a benderfynwyd gan bedwar a deugain o esgobion cynnulledig yn Nghymanfa Carthage yn 397. Mae hwn yr un yn hollol a'r eiddom ni. 2. Cawn un gan Augustine, o Hippo yn Affrica, dair blynedd yn gynt. Yr un peth a'r eiddom ni. 3. Ynghylch pedair blynedd yn gynt drachefn, gan Ruffin, henadur Ac-wilegium. Yr un peth eto a'r eiddom ni. 4. Yn yr un flwyddyn a'r olaf, yr awdur yn anadnabyddus. Mae hwn eto yn debygol o fod yn cytuno yn berffaith â'r eiddom ni; canys er nad yw yr awdur yn nodi y llyfrau wrth eu henwau; eto mae yn eu disgrifio mor eglur, fel y gellir caufod nad yw yn gadael yr un o'r llyfrau, a gynnwys y Testament Newydd yn bresennol, allan. 5. Awn wyth mlynedd yn ol eto, ni a gawn gan un Jerome, yr hwn a gyffeithodd yr holl Fibl i'r Lladin. Yr un a'r eiddom ni, oddieithr ei fod ef yn llefaru braidd yn amheüus o barthed i'r Epistol at yr Hebreaid, oddiar ammheuaeth am ei awduraeth. Ond mewn rhanau eraill o'i ysgrifeniadau, dengys ei fod yn ei dderbyn fel llyfr o awdurdod, yn gystal a'r lleill. 6. Awn yn ol ddwy flynedd eto, a chawn un gan Philastrius, esgob Bressia yn yr Idal. Mae hwn eto yn cynnwys yr un llyfrau a'r eiddom ni, oddieithr nad yw yn cyfrif ond tri ar ddeg o epistolau Paul, gan adael allan mae yn debyg, yr un at yr Hebreaid, a'r Dadguddiad hefyd. Ond mewn rhanau eraill o'i waith, mae yntau yn cydnabod y ddau lyfr hyn fel rhai awdurdodedig. 7. Awn yn ol bum mlynedd ymhellach eto, a chawn un gan Gregory Nazianzen, esgob Caercystenyn, mewn cerdd ar yr ysgrythyrau awdurol a dilys. Mae ef yn gadael allan y Dadguddiad. 8. Awn yn ol bum mlynedd drachefn, a chawn un gan Epiphanius, esgob Salamis, yn Cyprus. Mae hwn yr un a'r eiddom ni. 9. Awn yn ol chwe' blynedd eto, a chawn un gan gymanfa Laodicea. Yr un a'r eiddom ni, oddieithr y gadewir allan y Dadguddiad. Cafodd penderfyniadau y gymanfa hon eu derbyn yn fuan wedi hyn gan yr eglwysi yn gyffredinol; ac yn eu plith y llechres uchod o lyfrau y Testament Newydd. Fel hyn ni a gawn fod cydsyniad cyffredinol yn mhob parth o'r byd lle yr ydoedd Cristionogaeth wedi cyrhaedd, o barth i'r llyfrau hyn, gydag un eithriad, sef y Dadguddiad; a hyny mor foreu a chanol y bedwaredd ganrif. 10. Awn yn ol ddeng mlynedd ar hugain eto, a chawn un gan Cyril, esgob Jerusalem. Gadewir allan y Dadguddiad o honi. 11. Awn yn ol bum mlynedd ar hugain eto, a chawn un gan Athanasius, esgob Alexandria. Yr un a'r eiddom ni. 12. Yn yr un flwyddyn ni gawn un gan Eusebius, yr hanesydd eglwysig. Mae hon yn cynnwys yr holl lyfrau sydd genym ni; ond dywed fod epistolau Iago, Judas, 2 Pedr, 2 Ioan, a'r 3 Ioan, yn cael eu hamheu gan

rai ; ond eu bod yn fwyaf cyffredin yn cael eu derbyn. Ac am Lyfr y Dadguddiad, dywed fod rhai yn ei wrthod ac eraill yn ei dderbyn ; ond geysd ef ei hun ef ymhlith y rhai sydd i'w derbyn heb un ammheuaeth. 13. Awn yn ol eto gant a phump o flyneddau, a chawn un gan Origen, henadur o Alexandria. Mae ef yn gadael allan epistolau Iago, a Judas o'i lechres ; ond dywedir ei fod mewn rhanau eraill o'i waith yn cydrabod y rhai hyn hefyd fel rhan o ysgrythyrau y Testament Newydd. Ac yr ydym erbyn hyn, fel y gellir gweled, ond cyfrif y blyneddau yr aethom drostynt, wedi myned i fyny o ddiwedd y bedwaredd ganrif i'r flwyddyn 210. Yr oedd Origen yn blodeuo o fewn ychydig iawn gyda chan' mlynedd i amser yr apostol Ioan.

Yn awr, ni a ganfyddwn, oddiwrth y llechresau uchod, fod awdwyr y rhan fwyaf o honynt yn cytuno am y llyfrau a dderbynid fel rhai awdurol ac ysbrydoledig ; tra mae y ffaith o fod y gweddill yn gwahaniaethu mewn perthynas i rai o honynt, yn dangos fod awduraeth a dilysrwydd y llyfrau hyn yn wrthddrychau gofal ac ymchwiliad ymhlith y Cristionogion yr amser hyny. A lle byddai seiliau i ddim ammheuaeth, yr oeddynt hwythau yn ammheu, ac nid eu derbyn heb brofion o'u cywirdeb. Ac y mae yr amgylchiad hwn yn ychwanegu yn ddifawr at rym y dystiolaeth a roddant i'r rhai hyny a dderbynid heb ammheuaeth ganddynt. O'r tair ar ddeg a nodwyd, mae saith o honynt yn cynnwys yn hollol yr un llyfrau ag a dderbyniir yn bresennol. Nid yw y gwahaniaeth mewn tair o'r lleill ond llyfr y Dadguddiad yn unig ; ac mewn perthynas i ddwy o'r gweddill, gellir profi fod y llyfrau a adewir allan o honynt, neu a nodir fel rhai amhëus, yn cael eu derbyn fel rhai awdurol a dilys gan y rhai a roddant y llechresau eu hunain. Gwelwn oddiwrth hyn fod llyfrau y Testament Newydd wedi eu neillduo mor llwyr, oddiwrth bob llyfrau eraill, a chael eu derbyn mor gyffredinol fel rhai awdurol a dilys yn y drydedd a'r bedwaredd ganrif ag ydynt heddyw. Ynglŷn â hyn, sylwer hefyd fod y llechresau a gynnwysant y detholiad yna wedi eu gwneuthur gan y dynion dysgedicaf, duwiolaf, a mwyaf cyfrifol o fewn yr eglwys yn eu hoes ; a bod y rhai hyny yn byw mewn rhanau gwahanol a phellenig o'r byd ; megys yn Jerusalem, Caisarea, Carthage, a Hippo yn Affrica, Caercysteny, Cyprus, Alecsandria, yn Itali ac Asia Leiaf. Ac fel hyn, ni gawn fod y cydsyniad yma yn gyffredinol ymhlith y Cristionogion unionged ; yn mhob parth o'r byd lle yr oeddynt.

Mewn perthynas i Lyfr y Dadguddiad, dylid sylwi mai y rheswm paham yr ydoedd yn cael ei gau allan o gynnifer o'r llechresau hyn, ydoedd dirgelwch ei gynnwysiad, a'r camddefnydd a wneid o'i biophydoliaethau tywyll, trwy eu cymeryd yn rhy lythyrenol gan y Milflw yddiaid. Bernid mai nid buddiol oedd ei ddarllen yn gyhoeddus yn yr eglwysi. A dyben penaf ffurfiad y llechresau hyn oedd, nodi allan y llyfrau ydoedd i'r bobl eu darllen yn eu cynnulliadau ; a chan nad oeddynt yn ewyllysio iddynt ddarllen llyfr ag oedd mor dywyll iddynt a'r Dadguddiad, gadewid ef allan o'r llechres gan amryw.

II. Heblaw y llechresau yna, ni gawn hefyd gan awduuron y pedwar canrif cyntaf, gyflawnder mawr o ddyfyniadau o'r llyfrau a hyn. Mae yr awduuron a ddyfynasant o honynt yn rhy liosog i'w henw i yma, nac i wneuthur sylw ar eu dyfyniadau. Maent yn cyrhaedd yn ol yn llinell gyson a diwlechl hyd at ddyddiau yr apostolion. Ac ar y pen draw i'r llinell hon, yn

nesaf at yr apostolion, ni gawn y rhai a elwir y tadau apostolaidd, sef y rhai ag oeddynt yn cydoesi â hwy. Y rhai hyn oeddynt bump, sef Barnabas cydymaith Paul, (*Act.* xiii. 2, 3, 46, 47; a *1 Cor.* ix. 6), yr hwn hefyd a elwir yn apostol gan Luc, (*Act.* xiv. 14); Clement, esgob Rhufain, a chydweithiwr Paul, (*Phil* iv. 3); Hermas, yr hwn y sonia Paul am dano yn ei epistol at y Rhufeiniaid, *pen.* xvi. 14; Ignatius, yr hwn oedd esgob yn Antioch, yn y flwyddyn 70; a Polycarp, yr hwn oedd ddydsybl i Ioan. Mae mwy neu lai o ysgrifeniadau y rhai hyn oll, wedi dyfod i waered atom ni; a rhai o honynt yn gyfansoddiadau lled helaeth, ac y maent yn llawn iawn o ddyfyniadau o wahanol ranau y Testament Newydd—nid yw rhai o honynt yn ddim amgen na dyfyniadau o hono, yn gwbl. Mae y dyfyniadau a wneir o hono gan ysgrifenywyr y bedair ganrif cyntaf mor gyflawn, fel y barna rhai, pe byddai y llyfrau gwreiddiol wedi myned ar goll, y gellid eu wneyd i fyny yn gyflawn o ysgrifeniadau yr hen awduron hyn.

Yn awr pa fodd y gellir cyfrif dros fod y llyfrau hyn, a'r rhai hyn yn unig, yn cael eu dyfynu, ac apelio atynt fel awdurdod, fel ysgrythyrau sanctaidd, yn Asia, yn Affrica, ac yn Ewrop? Nid oes ond un o ddwy ffordd i roddi cyfrif am dano; naill ai nid oeddynt hwy yn gwybod am ddim llyfrau eraill yn hawlio bod o ddwyfol awdurdod, neu os oeddynt yn gwybod am rai, nid oeddynt hwy yn eu hystyried yn ogyfuwch a'r rhai a ddyfynir ganddynt. Cymerwn yr un a fynom o'r ddwy ochr yna, yr un ydyw y casgliad, sef mai y llyfrau a ddyfynir ganddynt hwy, a'r rhai hyny yn unig, ydyw y llyfrau sydd yn perthyn mewn gwirionedd i gyfrol y Testament Newydd. Er anghraifft, mae epistol cyntaf Pedr yn perthyn iddi, hyny yw, mae ef yn awdurol a dilys; oblegid y mae yn cael ei ddyfynu beunydd, fel y cyfryw, gan yr ysgrifenywyr Cristionogol hynaf yn mhob parth o'r byd; ond nid ydyw y llyfrau a elwir Dadguddiad Pedr, Efengyl Pedr, ac Actau Pedr yn perthyn iddi; oblegid ni chawn fod neb o honynt yn apelio atynt fel awdurdod mewn dim.

III. Prawf arall eto o ddiogelwch cadwedigaeth y llyfrau hyn a geir oddiwrth y ffaith o'u bod yn arferol o gael eu darllen a'u hesbonio yn gyhoeddus, fel ysgrythyrau sanctaidd, yn yr holl eglwysi Cristionogol, a hyny er yn foreu iawn. Dywed Justin Ferthyr, yr hwn oedd yn blodeuo yn nechreu yr ail ganrif, ei bod yn arferiad gwneyd hyn yn ei amser ef. Yr oedd hyn o fewn deg a thriugain neu bedwar ugain mlynedd ar ol i rai o'r llyfrau hyn gael eu hysgrifenu. Ceir yr un dystiolaeth gan Tertulian a Cyprian, ac eraill yn ddiweddarach, am yr arferiad yn eu hamserau hwythau. Ac nid yw yn annhebygol nad oedd hyn mewn arferiad gyda hwynt mor foreu a dyddiau yr apostolion. Mae Paul yn son am ddarllen yr epistolau yn yr eglwysi, fel peth arferedig (*Col.* iv. 16).

IV. Gwnaed cyfieithiadau o'r llyfrau hyn hefyd i ieithoedd eraill yn dra boreu. Er fod yr iaith Roeg, yn yr hon yr ysgrifenyd hwynt, yn adnabyddus gyffredinol trwy agos bob parth o'r ymherodraeth Rufeinig, pan oedd yr apostolion yn ysgrifenu, nid hir y bu cyn i Gristionogaeth ymlledan i wledydd lle nad oedd y werin yn gyffredinol yn gydnabyddus â hi, nac âg un iaith arall heblaw eu hiaith frodorol eu hunain. Tra yr ydoedd y ddawn o lefaru â thafodau yn aros, nid oedd yr anhawsder i wneuthur yr efengyl yn adnabyddus i bob cenedl yn cael ei deimlo yn gymaint. Ond pan ballodd y ddawn ryfedd hono, daeth anghenrheidrwydd am gyfieithiadau o'r ysgrythyrau i iaith y bobl lle bynag yr elai Cristionogaeth. Ac mor bell ag y gellir casglu oddiwrth natur yr anglych-

iadau, ymddengys yn dra thebygol i gyfieithiadau gael eu gwneyd yn fuan iawn ar ol marwolaeth yr apostolion, os nad oeddid wedi dechreu cyn hyny. Nid yw yn debygol y cawsai y Cristionogion lliosog yn Syria, Mesopotamia, a pharthau yr Idal, fod yn hir heb gael cyfieithiad o'r llyfrau rhyfedd hyn, fel y gallent ddarllen am fawrion weithredoedd Duw yn eu hiaith gysefin eu hunain. Gwyddom i sicrwydd fod cyfieithiad Lladinaidd o honynt gwedi bod gymaint mewn arferiad cyn dechreu y bummed ganrif, fel ag i lygru mor bell ag i gymhell Jerome i wneuthur cyfieithiad newydd o honynt. Er nad oes dim ar gael yn bresennol o'r hen gyfieithiad hwnw, oddieithr rhyw ddarnau ammheüus, y mae profion eglur o'i fod yn cynnwys yr un llyfrau ag a roddwyd i mewn gan Jerome yn yr un newydd, yr hwn a elwir y *Vulgate*.

Ond bernir mai yr hen gyfieithiad Syriaidd, a elwir y Peschito, sydd yn dwyn y prawf cryfaf i awduraeth a phurdeb y llyfrau a gynnwysir ynddo o'r un. Mae hwn yn meddu hawl i hynafiaeth uchel iawn; ac mae seiliau i farnu mai efe ydyw y cyfieithiad cyntaf oll a wnaed o'r Testament Newydd. Mae Michaelis o'r farn fod Melito, yr hwn a ysgrifennodd tua'r flwyddyn 170, yn tystiolaethu fod cyfieithiad Syriaidd o'r Bibl yn bod yn ei amser ef. A dywed Jerome ei fod yn cael ei ddarllen yn yr eglwys yn ei amser yntau. Mae yr amgylchiad o fod ail epistol Pedr, trydydd epistol Ioan, epistol Judas, a'r Dadguddiad, y rhai, fel y nodwyd o'r blaen, oedd yn cael eu hammheu gan amryw yn oesoedd boreuaf yr eglwys, yn eisieu yuddo, yn myned ymhell i brofi ei fod wedi cael ei wneuthur yn lled foreu—cyn penderfynu yn unfryd pa lyfrau oedd i'w derbyn. Mae yr amgylchiad yna, a'i ddarlleniadau hefyd, y rhai nid ydynt yn cyfateb i'r un dosbarth penodol o ysgriflyfrau ag sydd ar gael, yn arwain i'r penderfyniad, ddarfod iddo gael ei wneyd yn flaenorol i'r amser y dechreuwyd beirniadu yn fanwl mewn perthynas i awduraeth a thestun yr ysgrythyrau sanctaidd. Mae y Cristionogion Syriaidd gwedi bod yn dal trwy yr oesoedd, ddarfod iddo gael ei wneyd gan Thaddeus yr apostol. Ond, heb ganiatäu y peth olaf, bernir gan lawer, ac ystyried pob peth, y gellir yn ddigon rhesymol ei briodoli i ddiwedd y ganrif gyntaf. Gellir profi yn eglur ddarfod iddo gael ei wneyd o'r Groeg—y testun gwreiddiol; a hyny, mae'n bosibl, cyn i'r oll o ysgrifeniadau yr apostolion ddyfod i wybyddiaeth gyffredinol, neu, o leiaf, cyn iddynt gael eu casglu at eu gilydd yn un neu ragor o gyfrolau; oblegid dywedir nad oes dim llai nag o dri i bum cant o eiriau Groegaidd gwedi eu rhoddi i mewn ynddo yn eu crynswth.

V. Ysgrifenydd esboniadau, mewn rhyw ffurf neu gilydd, ar wahanol ranau y Testament Newydd hefyd, yn y canrifau cyntaf; yr hyn sydd yn brawf arall o'r sylw a delid iddynt o'r dechreu, ac felly yn dangos yr annhosiblwydd oedd i fethiant gyda golwg ar eu hawduraeth. Ysgrifenydd "Cysondeb y Pedair Efengyl," gan Tatian, yr hwn oedd yn blodeuo tua'r flwyddyn 170. Yn 194, ysgrifennodd Clement o Alessandria egluradau byrion ar amryw o lyfrau yr Hen Destament a'r Newydd. Ac yn nechreu y drydedd ganrif, ysgrifennodd Origen esboniadau, neu homiliau, ar y rhan fwyaf o lyfrau y Testament Newydd; ac ar y llyfrau sydd yn perthyn iddo yn bresennol yn unig yr ysgrifennodd. Heb son am lawer o rai eraill a ysgrifenasant egluradaeth ar y llyfrau hyn, yn yr ail a'r drydedd ganrif, yn y bedwaredd ganrif, ni gawn restr o bedwar ar ddeg o wŷr dysgedig a chyfrifol, y rhai a dreuliasant eu hamser a'u llafur i ysgrifenu

eghuradaeth, mewn rhyw ffurf neu gilydd, ar yr ysgrythyrau. Ac y mae, naill ai eu gweithiau eu hunain, neu enwau yr oll o honynt, gwedi eu trosglwyddo i waered i ni. Nid oes modd cael yr un prawf cryfach o'r bri a roddid ar y llyfrau hyn gan y cyn-Gristionogion, a chan y dynion dysgedicaf yn eu plith, na'r llafur a gymerent i geisio eu deall a'u gwneyd yn ddealladwy i eraill.

Gwedi ceisio dwyn ymlaen fel yna rai o'r profion dros gywirdeb awdur-aeth ysgrythyrau y Testament Newydd, y mae yn aros eto mewn rhan i'w dwyn ymlaen, brofion mwy uniongyrchol o'u bod wedi eu cadw yn ddi-lwgr—heb dynu oddiwrthynt, rhoddi atynt, neu eu cyfnewid mewn dim o bwys o'r hyn oeddynt yn wreiddiol. Er fod y profion a nodwyd yn barod o blaid y blaenaf, yn myned ymhell i brofi yr olaf hefyd, eto, fe allai mai buddiol fyddai cymhwyso y rhai hyn yn fwy uniongyrchol eto, ynghyd â nodi rhai eraill.

Yn I. Gellir profi cadwraeth bur ysgrythyrau y Testament Newydd oddiwrth yr hyn a gynnwysant yn bresennol. Oblegid, ni a gawn oddiwrth ysgrifeniadau yr awduron Cristionogol boreuaf, mai yr un ffeithiau, a'r un athrawiaethau, oedd yn cael eu derbyn yn gyffredinol gan Gristionogion y gyntaf, yr ail, a'r drydedd ganrif, ag a dderbynyr eto gan Gristionogion y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ar sail tystiolaeth y Testament Newydd.

II. Buasai llygriad cyffredinol o'r llyfrau hyn yn beth anhosibl; ac nid oes cymaint a'r awgrymiad lleiaf am ymgais wedi cael ei wneyd, gan neb, at y fath lygriad, yn holl ddalenau hanesyddiaeth eglwysig na chyffredin. Nid oedd modd iddynt gael eu llygru yn oes eu hawdwyr, ac yr ydoedd copïau o honynt gwedi eu lledanu trwy yr holl eglwysi Cristionogol braidd drwy yr holl fyd adnabyddus cyn eu marwolaeth hwy. Cyn pen ugain mlynedd ar ol y Pentecost mawr, yn Jerusalem, yr ydoedd eglwysi gwedi eu sefydlu yn y prifddinasoedd, trwy holl daleithiau yr ymherodraeth Rufeinig; ac yn yr holl eglwysi hyn, fel y profwyd uchod, yr ydoedd llyfrau y Testament Newydd, yn enwedig yr Efengylau, yn cael eu darllen yn eu haddoliadau cyhoeddus, megys ag yr ydoedd ysgrifeniadau Moses a'r prophwydi yn cael eu darllen yn synagogau yr Iuddewon, cyn a chwedi hyny. Ac nid hyny yn unig, ond hefyd oddiar y parch a deimlid gan y Cristionogion tuag at ysgrifeniadau yr apostolion, mae yn dra thebygol eu bod yn meddiant llawer o deuluoedd a phersonau unigol hefyd. Ac yn awr, cyn y gellid effeithio unrhyw gyfnewidiaeth cyffredinol a phwysig yn y llyfrau hyn ag oedd gwedi cael eu lledanu mor helaeth, a hyny yn oes yr awdwyr, yr ydoedd yn rhaid i'r holl Gristionogion yn mhob gwlad, a phob eglwys, gydsynio a'u gilydd i'w wneyd. Ond mae hyna yn anhosibl i'w dybio am fynydd. A phe buasai i ryw eglwys, neu ddosbarth o Gristionogion, yn rhywle, ymgais am ei wneyd, yr oedd digon o gopïau o honynt yn nwyllaw eraill, i'w cynnorthwyo i ganfod y ddichell, a'i chondemnio. Ac yn y ganrif gyntaf, yr oedd llawer yn fyw hefyd ag oeddynt wedi bod yn dystion o'r ffeithiau a grybwyllir ynddynt, fel nad oedd yn bosibl ei wneyd o fewn y cyfnod hwnnw.

Cyn pen hir ar ol marwolaeth yr apostolion, darfu i'r Cristionogion a ddysgwyd ganddynt hwy, a'u hollynwyr uniongyrchol, ymwasgaru i bob parth braidd o'r byd adnabyddus, gan gario gyda hwynt gopïau o ysgrifeniadau yr apostolion; oddiwrth ba rai yr adysgrifenyd ac y lliosogwyd copïau eraill, fel yr ydoedd y Cristionogion yn amlhau a'r achos yn galw.

Yn fuan iawn ar ol ymadawiad yr apostolion, ni a gawn i'r Cristionogion ymwahanu yn bleidiau, o ran eu barnau ar amrywiol bynciau. Ac yn wir, yr ydoedd y lefain hwn wedi dechreu ymweithio yn yr eglwysai cyn eu hymadawiad, fel y cawn awgrymiadau yn fynych yn eu hepistolau o fod ymbleidiau yn eu plith. Y pynciau dadleugar hynaf yn eu plith oeddynt, awdurdod y sefydliad luddewig, dechreuad pechod, a natur Crist. Ond pa ddadleuon bynag a gyfodai rhwng y Cristionogion oddifeewn i'r eglwys, a rhyngddynt â hereticiaid oddiallan, at yr un ysgrythyrau yr apeliai y naill blaid a'r llall yn eu dadleuon poethlyd ar bob pwnc o athrawiaeth. Felly yr ydoedd yn anmhosibl i'r un blaid, pe yr ewyllysiai, wneuthur unrhyw gyfnewidiad o bwys yn yr ysgrythyrau yr apellient atynt fel awdurdod, heb i hyny gael ei ganfod gan y blaid wrthwynebol, a'i gyhoeddi ganddi. Yr un peth a ellir ei ddyweyd hefyd mewn perthynas i'r holl ddadleuon rhwng Cristionogion y canrifau cyntaf a gelynyion Cristionogaeth. Buasai Celsus, Porphyry, Julian, ac eraill o elynion y grefydd hon, y rhai oeddynt ddynion craff a dysgedig, yn sicr o gymeryd mantais ar hyny, a dannedd i'r Cristionogion, pe buasant yn euog o gyfnewid eu hysgrythyrau at eu mympwy eu hunain. Mae yn beth tra gwybyddus, i ymraniad ddechreu ymweithio yn y bedwaredd ganrif, rhwng yr eglwysai dwyreiniol a gorllewinol, yr hwn a aeth rhagddo ar gynnnydd hyd tua chanol y nawfed ganrif, pryd yr ymwahanasant yn llwyr: ac y maent yn parhau felly hyd heddyw. O ganlyniad, pe buasai i'r eglwys ddwyreiniol gyfnewid eu holl ysgriflyfrau o'r ysgrythyrau rywbryd, o ddechreu yr ymraniad yna allan, buasai yr ysgriflyfrau yn y gorllewin yn eu gwrthdystio heddyw. Ond y ffaith yw, fod ysgriflyfrau y dwyrain a'r gorllewin yn cyfateb mor berffaith fel nad ydynt yn gwahaniaethu mewn dim o bwys.

III. Prawf arall o'u bod gwedi eu cadw yn bur oddiwrth unrhyw lygriad o bwys, ydyw cydgordiad yr holl hen ysgriflyfrau â'u gilydd. Nid oes dim llai na thri chant a hanner o ysgriflyfrau o'r Testament Newydd ar gael heddyw, yr hyn sydd lawer iawn mwy nag a geir o'r un awdur cyffredin, pa mor gymeradwy bynag y byddo. Mae yn wir nad yw y rhai hyn oll yn gyflawn—y rhan fwyaf o honynt a gynnwysant y pedair efengyl yn unig, eraill y pedair efengyl, yr Actau, a'r epistolau, a rhai o honynt y Dadguddiad. Maent gwedi eu hysgrifenu mewn gwahanol barthau o'r byd, ac mewn gwahanol ieithoedd. Nid yw yn hawdd penderfynu oedran llawer o honynt; ond bernir yn lled benderfynol fod amryw o honynt i'w priodoli i'r chweched ganrif. Yn awr, yr hyn sydd yn brawf anwrthwynebol o burdeb yr ysgrythyrau yn eu treiglaid i lawr trwy yr oesoedd hyd yma, ydyw fod yr holl ysgriflyfrau hyn, o'r bymthegfed ganrif—pryd y dyfeisiwyd y gelfyddyd o brintio—yn ol hyd at y rhai hynaf o honynt, yn hollol gytuno yn mhob peth o bwys. Fe allai nas gallwn roddi anghraifft mwy dyddorawl o'r cyfatebrwydd sydd rhwng gwahanol ysgriflyfrau, a chyfieithiadau o'r ysgrythyrau, â'u gilydd, na'r hyn a gymerodd le rhwng Dr. Buchanan a rhai o'r Cristionogion Syriaidd yn India, yn 1806.

Yn y flwyddyn hon, ymwelodd Buchanan â thua hanner cant o eglwysai Syriaidd, mewn rhan fynyddig o India. Yr oedd y Cristionogion hyn mewn lle anghysbell iawn, ac heb nemawr o drafnidiaeth na chyfeillgarwch rhyngddynt a neb. Cynnygiodd ar anfon copi awdurdodedig o'r ysgrythyrau, yn yr iaith Falayaidd, i bob un o'u heglwysai, ar y telerau y

byddai iddynt hwythau eu lliosogi a'u lledanu ymhlith y bobl. Cydsyniasant yn dra diolchgar. Ac i ddangos iddo pa mor awyddus oeddynt i gael y Bibl yn yr iaith hõno, dywedodd un henuriad o'r enw Thomas, neu Didymus, ei fod wedi cyfieithu efengyl Matthew ei hun i'r iaith hõno, er mantais ei blant, a bod amryw o deuluoedd eraill yn ei fenthyca ganddo, ac yn ei hoffi yn fawr. "Ond," meddai yr hen offeiriad, "pa fodd y gallwn ni wybod fod eich copi awdurdodedig chwi o'r ysgrythyrau yn gyfieithiad cywir o'n Bibl ni? Nis gallwn ni wahaniaethu oddiwrth hwnw—gwir lyfr Duw ydyw, heb ddim llygriad—y llyfr a arferid gan y Cristionogion gynt yn Antioch. Nis gwyddom ni pa gyfieithiad sydd genych chwi yn y gorllewin; ond gwir Fibl Antioch yw yr un sydd gwedi bod genym ni, yn mynyddoedd Malabar, er's pedwar cant ar ddeg o flyneddau, neu fwy. Ond, pa fodd," meddai yr hen offeiriad eilwaith, "y cawn ni wybod a ydyw eich Bibl chwi yr un peth ag ef?" "Mae genyf fi yma," meddai Dr. Buchanan, "Fibl Syriaidd gorllewinol, yr hwn y gellwch chwi ei ddarllen eich hunan; ac y mae genyf Fibl Seisnig, yr hwn a gyfieithaf i chwi. Bydded i ryw gyfran o'r ysgrythyr, a ddewiser ar antur, gael ei chymharu yn fanwl. Gellwch chwi gymharu yr holl Fibl wrth eich plaser eto." "Troisant ddalenau fy Mibl gyda syndod," meddai y Dr.—"nid oeddynt erioed gwedi gweled copi printiedig o'r Bibl Syriaidd o'r blaen. Cynnygiasant ar fod y drydedd bennod o Matthew i gael ei chymharu yn feirniadol, bob yn air, yn yr un Syriaidd dwyreiniol, yr un Syriaidd gorllewinol, ac yn yr un Seisnig. Nodwyd allan y bennod hõno, ar gais Didymus, yr hwn oedd â'i gyfieithiad Malayaidd ei hun yn ei law ar y pryd. Eisteddasant i lawr i'r ymchwiliad gyda difrifwech mawr. Deliais innau Destament Groeg yn fy llaw, a chynnygias fod meddwl y copi Groeg i gael ei egluro yn gyntaf, yn gymaint ag mai yn yr iaith Roeg y cafodd y Testament Newydd ei roddi ar y cyntaf i'r byd." Yn y fan hon yr oeddynt hwy am ddadleu â Dr. Buchanan ar deilyngdod cymhar-iaethol yr ysgrythyrau Groeg a Syriaidd. Ond, gan nad oedd ef yn dewis dilyn y ddaidl hõno ymhell, "cynnygias," meddai, "ar fod i Jona (yr hen offeiriad) i ddarllen eu cyfieithiad Syriaidd hwy yn gyntaf, fel safon â pha un y cymharem y lleill. Yna dechreuasom, a buan yr aethom dros y bennod. Yr oedd Jona gwedi ei foddloni fod y Bibl Seisnig yn gyfieithiad ffyddlawn a chywir. Ac mewn perthynas i'r cyfieithiad Syriaidd gorllewinol, yr ydoedd yn cyfateb, agos air yn air, i'r un dwyreiniol. Cyfieithiad Malayaidd Didymus yn unig oedd yn feius."

"Yr ydoedd," fel y dywed Dr. Buchanan, "yn olygfa ddyddorawl, gweled yr hen Fibl Seisnig, yn cael ei ddwyn ger bron brawdlys o'r Cristionogion dysymh hyn, ar fryniau Malabar." Yr oeddynt hwy yn hõni eu bod wedi cael yr efengyl oddiwrth yr apostolion eu hunain. Yr hyn sydd yn dra thebygol ydyw, ddarfod i'w hysgrythyrau gael eu trosi i waered ar wahan oddiwrth bob cyfieithiadau ac ysgrifysfrau eraill, o'r canrifau cyntaf, os nad o ddyddiau yr apostolion. Yr ydoedd y cyfieithiad Syriaidd yn hollol anadnabyddus yn Ewrop hyd y ddeuddegfed ganrif. Ac eto, maent yn cytuno â'r eiddom ni yn mhob peth o bwys. Mae yn wir fod yn yr holl ysgrifysfrau a nodwyd wahanol ddarlleniadau; ond nid ydynt ond pethau lled ddibwys, agos oll O'r deng mil ar hugain o wahanol ddarllen-

! Gwel "*Buchanan's Memoir*," a'i "*Christian Researches*."

iadau a gasglwyd o honynt, gan Dr. Mills, a'r can' mil a hanner a geir yn argraffiad Griesbach, ni cheir eu bod yn ymyraeth âg un pwnc o athrawiaeth. Nid ydynt amgen na gwahaniaeth argraffyddol bron i gyd, a gwallau, y rhai yr oedd bron yn amhosibl iddynt, er pob gofal a manylwch, lai na diane trwy law yr ysgrifenywyr.

IV. Y prawf olaf a nodwn ar hyn ydyw, y cytundeb a geir rhwng yr holl ddyfyniadau o'r ysgrythyrau yn ngweithiau awduron y tair canrif cyntaf—a rhai gwedi hyny hefyd—â'r hyn ydyw yr adranau hyny yn ein Biblau ni. Yr ydym wedi sylwi yn barod ar liosogrwydd y dyfyniadau hyn yn ysgrifeniadau y canrifau cyntaf. Bernir na fyddai yn ormod dyweyd, pe y cesglid ynghyd yr holl ysgrifeniadau hynafaidd eraill ag sydd ar gael yn Ewrop heddyw, na byddent yn un crynswth yn meddu dim cymhariaeth i'r hyn a ellid gasglu o ddyfyniadau yn unig a geir o'r Testament Newydd ei hunan. Ac y mae y rhai hyn oll, er fod llawer o honynt gwedi eu gwneyd oddiar y cof, yn cyfateb yn hollol, o ran sylwedd, i'r gyfrol wreiddiol o ba un eu cymerwyd.

GWEDDILLION BARDDONOL DEWI WYN.

Y CRISTION YN MARW.

WEL, ffarwel, frodyr, ffyddlon rai,
Sy'n gwel'd fy nghystudd prudd bob rhai,
O dŷ fy Nhad daeth galwad gu,
Im' adael y daearol dŷ.

Yr lawn gorphenol drwy wir ffydd,
Yn eilirio 'r fynwes euog sydd;
Mae 'r fron yn dawel;—hyfryd yw,
Mae rhydd gydwybod gyda Duw!

Gwan yn y gwythi ydyw 'r gwaed,
Ac oeri trwyddynt y mae 'r traed;
Torwyns 'r llygaid, try yn llym,
A'r anadl yn byrhau heb rym.

Mi welaf mewn gogoniant mawr,
Engylion wrth fy ngwely 'n awr;
Yn dysgwylgyd â hyfryd hoen,
Im' ado 'r babell lawn o boen.

Edrychant, gwenant, arna'i 'n gu,
Tra bwy' rhwng dwylaw angu du;
Ac yna 'm dygant ger bron Duw,
I blith ysbrydion o bob rhyw,

Yr angel, cerub, seraph, sant,
I chwareu 'r delyn ar aur dant,

A'n caniad newydd hynod ni,
Fydd am farwolaeth *Calvari*.

Mi welaf borth y nefawl bau,
I mi 'n agored;—neb i'w gau,
A gorseddffainc ryfeddol fawr,
A'r Oen yn eiriol arni 'n awr.

Mi welaf fryniau 'r nefol fro,
Myfi a'u dringaf ar fyr dro;
Lle clywaf ber ganiadau 'r nef,
Oll yn cydseinio iddo Ef.

Byr ysgafn gystudd sydd dan ser,
Yn dal anwyllion deulu Ner,
Er hyn 'r wy'n chwennych d'weyd i chwi,
Fod marw 'n elw mawr i mi.

Fy noniau a'm synwyrâu 'n awr,
Ysgydwir gan ddoluriau i lawr;
Ond anian dduwiol, reddfol ras,
Yn f' enaid glŷn drwy angu glas.

Chwychwi hebryngwch fy nghorff brau,
I'r beddrod gwlyb i bydru 'n glau:
Fy enaid si i fynwes Duw,
I blith nefolion byth i fyw.

PENARGLWYDDIANTHOL RAD RAS.—CYFFIRIETHIAD.

PAHAM mae pechod o un rhyw

Yn mysg gwaith Duw goruchaf!

Drwy 'r sanctaidd ddeddf i'w erbyn ddaeth; I gwblhau 'r gair am Grist, ac Oh!

PAHAM yr aeth i'r eithaf!

1850.]

PAHAM er breintiau o bob rhyw

Gadawai Duw 'r Iuddewon.

Croesoheilio 'u Brenin tirion!

Y genedl hon pam torwyd hi,
A'n himpio ni, genedloedd !
Gwrthodir unnau yr un wedd
Am yr un camwedd cyhoedd.

Hyn oll, fel gorfoleddai gras,
Lle 'r ydoedd teyrnas pechod ;
Ac fel yn rhagor yr amlhái
Ac y dyagleiriai 'n hynod ;

Er maeddu balchder pawb o'r byd
A'u gyru 'n nghyd i g'wilydd ;
Fel byddai 'r etholedig had
Dan rywmau i rad Wareddydd,

Ac fel eu hadelledid hwy
Yn dŷ Dduw drwy fyfdd fywiol :
Dyrchafu dwyfol ras y Ner,
Pan ddamaier yr hunanol.

O ddyfnder golud mawr di drai
Ei farnau a'i wybodaeth !
C mor anolrheinadwy yw
Doethineb Duw a'i arfaeth !

Pa ryw greadur all neshau
At gamrau 'r Duw ofnadwy ?
Mae ei fwriadau y'mhob man
A'i ffyrdd yn anchwiliadwy.

Pwy wybu 'rïoed o ddynol ryw
Fedyiliau 'r Duw goruchel ?
Pwy fu gynghorwr Duw ei hun
Cyn creu na dyn nac angel ?

O hono Ef, a thrwyddo Ef,
(Ac iddo Ef y gweddant)
Y mae pob peth ; byth iddo bo
Yr enw a'r gogoniaant.

ALLEIRIAD O'R L. SALM.¹

GOSODIYMYN enfyn Ior, o eirian oror nef,
I ddeffro pawb ryw ddydd, galluog fydd y llef ;
Meib dynion yn mhob dull, a gynnull oll i gyd ;
Yn feirwon ac yn fyw, o bob rhyw le a byd ;
Ni watwor neb trwy 'r nos, ei hir ymaros mwy,
Daeth, wele 'r dydd ; ei danlyd gledid
Ni chwag mewn hedd yn hwy.

Can's wele 'r Barnydd mawr, yn d'od i lawr o'i lys,
Daw 'r lluoedd o dri lle i'r frawdle hon ar frys ;
Daw 'r nef a'n daear ni, ac uffern ddifri' ddwys,
I gael gan Iesu 'n awr, eu barnu drwy fawr bwys ;
Daw engyl anwyl lu, i gasglu 'r saint i gyd,
A'u dwyn i Salem dan ei sel,
O Babel fawr y byd.

Fy ngwir gyfammod fyth, dan sel yn ddilith sai',
(Trwy waed yr aberth drud), a'r byd gan fadden 'r bai,
A hwn gan ymryddhau, o'r rhwymau yma rhed,
Sef pob Iuddewaidd wr, pob Groegwr, pawb a gred.
"Gosodwch yn dorfeydd, ar orseddfeydd dros fyth,
Holl fabwysiadol blant fy hedd,
Mewn rhyfedd wledd ddi-lyth."

Myfi eu Duw a'u Tad, a'u rhad Iachawdwr hwy,
Yr hwn a'u dwg yn rhydd, yn ddoeth en Barnydd wy',
Cyhoeddwch y farn hon, condemnïad digllon dwys,
Mae dial wedi d'od, am bechod trwm ei bwys ;
Dos, gablwr cas o'm gŵydd, annedwydd adyn noeth ;
A'r hen ragrithiwr balch ynghyd,
Mewn penyd i dŷn poeth.

Nid am na laddwyd rhif, o'r anifeiliaid ryw,
Y mae 'r ddu farn, ddi-feth ; meddiannaf bobpeth byw,
Llwyr ofer a di-rin, yw trin heb gariad rhwydd,
Aberthau aml y byd, bob pryd i gyd i'm gŵydd ;
Fy eiddo 'r gwyllt a'r gŵar, sydd ar y ddaear ddwys,
Y maes a'r goedwig fawr i gyd,
A'r byd sydd fawr ei bwys.

Os bu'm mewn newyn llym, yn ceisio dim ai'm caed ;
Neu os sychedais i, a yfais wedi waed ?
Ai 'n foddllawn y gwnaf fi, pan blygi lin o'm blaen ?

¹ Canwyd hon, a'r emynau a anfonwyd, cyn bod Dewi yn ugain mlwydd o oed.

Mae 'th ffug a'th drydar ffol, gwag drychiol im' fel draen,
Dim tegwch gwiw ar g'oedd, mewn gwisgoedd mwya'u gwerth,
I'm llygaid, na gweuedig aur,
Na 'r meini dysglaer merth.

Abertha foliant fyth, yn ddilyth iawn i Dduw,
Tâl d' addunedau 'n deg, heb attreg i'th Ior byw,
A galw ar f' enw 'n fwy, mewn gofwy trwm neu gur,
Gwaredaf pan f'o gri, dy berson di yn bur.
Y neb a gerdd heb goll, fy neddfau oll yn lawn,
A wél fy iachawdwriaeth fawr,
Oludog werthfawr lawn.

DIFFFRYN CLWYD (CYFIRIETHIAD O'R SEISONEG).¹

Henffych y clodfawr Ddyffryn Clwyd, diareb wyt i'r beirdd ;
Eu pŕ awenydd gwawdrydd gynt i ti y gwanynt geirdd :
Prif chwedl haneswyr, rheithwyr rhwydd, yw d' odidawgrwydd di,
Gogoniant Prydain firain ferth, fro brydferth fawr ei bri ;
Deifr Clwyd lliw 'r glain, yn firain fal y grisial ar y gro,
Ac ednaint pŕ, eu cler wawd clau, ar frigau llwyni 'r fro ;
D' arfordir, dy weirglodd-dir glas, tir bras y nant a'r bryn,
A'th gysgawd wŷdd sy'n gwneyd dy wawr yn glodfawr iawn y glyn ;
Mynyddau mawrion, clydion clau, uwch bryniau gwyech eu bri,
Dan wenu 'n cyd-olygu i lawr, ar degwch dy wawr di.
Mudsyna pob dyeithrol lwg, i d' olwg pan y dŕl,
Bendigaid iawn ar diriawn dŕ' y'th eilw pawb a'th wel :
Ond er cwblhau d' ogoniant gwiw, deg urddas, Duw & gair
I'th drin yn hardd fel gardd i gyd, drwy 'i Ysbryd a'i wir air.
Trwy 'r bywiol had mewn tyfiad hardd, y tardd y ffrwythau ŕer,
Cynnyrchion Eden geinwen gu i'w gwel'd o bob-tu 'n ber.
Un nefaw! ddyffryn (gynllun) gwell, er cymhell euro cerdd
Eriodd ni bu, lle nabu neb, ar wyneb daear werdd.

OFN MARWOLAETH.

MAE marwolaeth yn destun perthynol i bawb, ac yn un amserol ar bob tymmor. Nid ydyw son am dano byth yn beth allan o le. Dyma bwnc sydd yn syrthio tan ein sylw personol ; ni a glywwn ac a welwn fod pawb yn meirw. Cyfoethogion a thlodion, breninoedd a gwerinos, philosophyddion a ffyliaid, cyfiawnton ac anghyfiawnton—ni a wyddom y dygir hwy oll i farwolaeth, i'r tŷ rhagderfynedig i bob dyn byw. Mae rhai yn myned i'r tŷ hwnw yn gynt, ac eraill yn aros yn hwy ; ond y mae pob dynsawd yn dyfod am lety yno yn y diwedd. Gall yr awyr y byddom yn ei hanadlu, yr ymborth a fwytawn, y gorchwylion a wneir genym, gwynt, dŕr, tân, dynion, anifeiliaid, a myrdd o wrthddrychau eraill, fod i ni yn weinidogion marwolaeth. Mae angu wedi derbyn awdurddoddiad oddiwrth orseddfaino Arglwydd y lluoedd ; ac fel swyddog y Goruchaf, gall alw ar y creadur a

¹Nid oedd Dewi ond "treio 'i law" pan y canodd i Ddyffryn Clwyd—dim ond ei daro ei lawr ar ryw "glwt o bapyr," a'i adael am byth, heb fwrriadu i neb ei weled. Pa fardd mewn oedran gwr a ddyry gystal cynghanedd heddyw ? Y mae 'r ysgrifenydd mor hoff o'r deryn lleiaf, ag yw 'r cybydd am yr aur, neu'r hynafiaethydd am weddillion Pompeii a Ninife.—E.O.

fyno i'w helpio i afaelyd yn y troseddwr. Mae y ddedfryd i farw wedi pasio ar ei berson, ac nid oes wybod pa fynydd y daw y dienyddwr i ymallyd ynddo. "Gosodwyd i ddynion farw unwaith;" ac nid yw yr oll drosodd gyda hyna, eithr ein cychwyniad ydyw i fuchedd anghyfnewidiol o wynfyd neu o wae. "Ac wedi hyny bod barn." Gan mai fel hyna y mae yr achos yn sefyll rhyngom a marwolaeth, nid rhyfedd ydyw fod ofn marwolaeth yn beth tra phriodol i ni, yn enwedig ar amserau, ac iddo wneuthur i ni deimlo yn anghysurus lawer pryd. Ceisiwn yn awr olrhain achosion ac ansoddau yr ofn hwn, a chyfeirio at feddyginiaeth ar ei gyfer.

Gallwn edrych ar ofn marwolaeth, yn gyntaf, fel y mae yn deimlad naturiol, cysylltiedig â dynoliaeth yn gyffredinol. Yn yr ystyr hwn, mae yn beth diniwed a difeius. Tybygem ni fod ofn marwolaeth mor naturiol i ddynolryw ag ydyw newyn, syched, blinder, a chwsg. Un o'r egwyddorion a blannwyd ddyfnaf yn ein natur, yw cariad at fywyd; ac y mae yr egwyddor hon yn rhwym o'n gwneuthur yn wrthwynebol i farwolaeth, dan ba ffurf bynag y byddo. Yn wir, y mae ar greaduriaid afresymol, o'r cawrfil mawr hyd yr abwydyn bach, ofn marw: ymdrechant yn fawr am fywyd, gochelant ddynesiad angeu, a threngant o'u hanfodd. Mae ofn marw ynddynt hwy yn rhyw dueddiad dall; nid oes ganddynt fodd i feddwl dim am angeu: ond mewn dyn, mae yn gysylltiol â barn a rheswm, ac yn cael ei gynnyddu a'i gryfhau gan sylw, ystyriaeth, a chydwybod. Yr oedd y dadguddiad a roes Duw o athrawiaethau a dyledswyddau crefydd i ddydd mewn diniweidrwydd, yn cyfeirio at yr egwyddor hon fel oefnogiad iddo. "O bren gwybodaeth da a drwg, na fwyta o hono; oblegid yn y dydd y hwyti o hono, gan farw y byddi farw." Yr oedd ofn marw, gan hyny, wedi ei osod yn natur Adda ac Efa yn Mharadwys; canys ni buasai y geiriau hyn yn fygythiad iddynt, oni buasai eu bod yn edrych ar farwolaeth yn beth anhyfryd, drwg, a brawychus. Ac yn mhob goruchwyliaeth olynol ar grefydd, gelwir am ufudd-dod i ewyllys Duw oddiar yr un egwyddor. "Galw yr wyf yn dyst i'th erbyn heddyw y nefoedd a'r ddaear," medd Moses wrth Israel, "roddi o honof o'th flaen di einioes ac angeu." "Paham y byddwch feirw?" oedd apeliad y prophwydi at genedl wrthnysig. Ac y mae y teimlad hwn o ofn marwolaeth yn dilyn pobl dduwiol megys eraill; nis gallant hwy garu angeu fel angeu. Dyma fel y dywed Paul am dano ei hun a'i frodyr sanctaidd: "Ninnau hefyd, y rhai ym yn y babell hon ydym yn ocheneidio yn llwythog;" sef ocheneidio tan lwythau eu trallodau am ddiogelwch a gogoniant y tŷ tragywyddol yn y nefoedd. "Yn yr hyn," sef yn yr hyn ocheneidiau am yr orphwysfa nefol, "nid ydym yn chwenyoch ein dyosog ond ein harwisgo." Nid ydym yn caru dyosog y wisg gorfforol, eithr dewisem yn hytrach gael ein harwisgo; ni a ddewisem gael harddwisg gogoniant dros ein gwisg ddaearol, yn hytrach na thynu hon ymaith. Ac os dyna deimlad hen gristionogion ysbrydoledig a chewri mewn crefydd, nid rhyfedd fod cristionogion cyffredin yr oesoedd yn teimlo yn gyffelyb.

Mae gan ymarferiad llëol ddyllanwad mawr arnom. Wedi hir arfer â rhywle, bydd yn chwith genym ymadael oddiyno. Er mai anialdir llwm yw y ddaear i'r enaid a gafodd olwg trwy ffydd ar wlad well, eto rhaid cyfaddef fod rhai llanerchau hyfryd i'w cael arni. Oes, y mae yma rai palmwydd a ffynnonau dyfroedd sydd yn peri i'r pererin nefol hoffi gwer-

syllu wrthynt. Mae yma drugareddau gwerthfawr, ac ordinhadau daionus, a chyfeillion tirion, a llawer peth difyr, y bydd yn chwith iawn i'r corff eu gadael am annedd oer y bedd. Ac y mae meddwl am loesau y dattodiad, am y cyfeillion a'r perthynasau wylofus o gwmpas y gwely, am y dyhëu am anadl, y chwys oer, y ffarwel diweddaf â'r byd hwn, yr anadliad olaf, y corff gwelw difwyd yn ei arch, a'r enaid noeth yn myd ofnadwy yr ysbrydion—mae meddwl am y pethau hyn yn ystyriaeth ffin i'n natur ni, ië, er iddi fod yn feddiannol ar ras y bywyd. Cyhyd ag y bydd angeu yn angeu, mae yn rhwym o fod yn elyn natur; ac nid yw gras yn dysgu i neb deimlo yn annaturiol. Gellir cyffelybu y teimlad hwn i'r eiddo gwraig yn Nghymru, yr hon y mae ei phriod wedi myned dros y môr i'r America, ac yn anfon adref ei fod yn gwneuthur yn dda yno, ac wedi parotï trigfa cysurus i'w deulu, a bod arno yn awr eisieu iddi hi a'r plant ddyfod yno i fyw ato. Mae awydd y wraig yn fawr am fyned at ei phriod; ond y mae meddwl am Fôr mawr y Werydd, sydd i'w groesi, yn peri iasau o frawychdod iddi. Ië, er i'w phriod ddyfod i'w chyrchu, nid all ei gymdeithas ef wneyd iddi garu y fordaith fel y cyfryw. Ond nid yw hyny yn peri iddi ammheu dim am ei chariad at ei gwr, nac am ei dymuniad calonog i fyw yn arosol gydâg ef. Felly am y cristion; mae Anwylyd ei enaid wedi meddiannu paradwys Duw, a pharotï lle iddo ef yno; ac y mae yr Iesu yn ewyllysio gweled ei holl gyfeillion yn cyfranogi o'i ddedwyddwch ef. "Y Tad, y rhai a roddaist i mi, yr wyf yn ewyllysio lle yr wyf fi fod o honyt hwythau hefyd gyda myfi, fel y gwelont fy ngogoniant." Ai nid yw calon y credadyn yn dychlamu wrth y fath newydd da? Onid oes rhyw gyffrôad o'i fewn yn dywedyd, "Af fel y gwelwyf Ef! Tyred, fy Anwylyd, a chymer fi atat dy hun!" Ond, eto, mae yma ryw gilio draw wrth feddwl am y fordaith, er mai i ogoniant y mae ei lestr yn rhwym. Mae cofio am yr hen Iorddonen yn peri llesmair i'w natur, er mai at ei gyfaill goreu y bydd ei dŵr yn ei arwain. Wele, griston, paid a'rh guro dy hun âg ammheuson o herwydd hyn. Nid yw anhoffder o farwolaeth fel marwolaeth yn un prawf o ddiffyg gras.

Ond er nad yw gras yn dirymu natur, y mae er hyny i lywyddu natur. Dylai y teimlad ymostwng i reolaeth ffydd, nes y byddo yr ofn marw fel marw yn cael ei orchfygu gan hiraeth am nefoedd tuhwnt i farw. Dysger ni gan hyny i rodio wrth ffydd, ac nid wrth olwg.

Edrychwn, yn ail, ar ofn marwolaeth fel teimlad euog, cysylltiedig â chyflwr annuwiol. Ac y mae yr ofn euog yma yn llawer mwy brawychus ac annyoddefol na'r ofn naturiol. Fel drwgweithredwr yn ofni cael ei ddal i'w brofi am ei fywyd, felly y mae y pechadur yn ofni angeu; mae yn gweled "uffern yn canlyn gydâg ef." Dyma sydd yn fynych yn melltenu o flaen llygaid y dyn annuwiol, nes diflasu ei holl lawenydd. Fe allai ei fod ef yn aml yn edrych fel y dyn llawenaf yn y byd; ond pum mynyd o feddwl difrifol am angeu a barn sydd yn ddigon i beri iddo, megys Belsassar yn nghanol ei wledd, newid ei liw, a churo ei liniau ynghyd. Nis gall yr annychedig fod yn dawel heb gadw angeu draw o'i feddwl; ac felly mae â'i holl egni yn ei rwystro rhag dyfod i mewn, neu yn ei gil-gwthio ymaith ar ol dyfod. Yr oedd Catherine, ymherodres Rwsia, yn gwahardd i gladdedigaethau basio yr heol oedd yn agos i'w phalas, rhag pruddglwyfo ei meddwl; ac yr oedd un o hen freninoedd Ffrainc yn gorchymyn na chrybwyllid byth am farwolaeth yn ei glyw ef. Ah! rhaid

mai tawelwch tlawd yw hwnw na allo fod i mewn yn y meddwl heb i angeu fod allan o'r meddwl. Bydded i ni fynu y meddwl hwnw a all gynnwys marwolaeth a thangnefedd o'i fewn ar unwaith. Dyma yr ofn drwg sydd yn aflonyddu y rhagrithiwr yn nhŷ Dduw. Yn nghanol ei holl grefydd ymddangosiadus, a'i hunan-fodddhâd, mae meddwl am farw yn ei wneyd yn wir druenus "er elwa o hono," oblegid y mae yn gweled y bydd raid iddo yno ymddangos ger bron Duw y peth ydyw. O Arglwydd, caffer puredd ynom ger dy fron di!

Os yw yr ofn hwn mor chwerw a phoenus pan yr edrychir ar angeu o hirbell, beth ydyw pan fyddo angeu ei hunan yn ymafyd yn y pechadur? Edrychwch i wely angeu pechadur wedi ei ddeffro. Pan ddeallo ei fod yn marw, O! yr arswyd a'r dychrynfeydd sydd yn syrthio arno! Mae yn ei weled ei hunan yn myned i ŵydd Duw yn anmharod, nes mae ei galon yn darfod o'i fewn. Hwyrach yr ymdrech ef eto am ryw obaith breulyd, fel dyn ar foddï yn crafangu am hesg neu welltacob neu ryw beth a fyddo o fewn ei gyrhaedd. O, medd efe, gall y meddyg fethu, er fod ei wedd a'i ymddygiad yn dywedyd ei fod yn edrych ar fy achos yn ddiobaith; mae ceraint yn dueddol i fyned yn fwy dychrynedig nag y mae rhaid iddynt; ac yr wyf lawer gwell heddyw na doe; fel hyn, mi a ddeuaf i fyni eto, ac a fucheddaf yn edifeiriol mwyach. Ond y mae marwolaeth yn ennill arno; a dyma ef o'r diwedd yn cael ei hesg yn dipiau: mae ei holl obaith yn cywilyddio ac yn pallu. Mae yn ei weled ei hun yn myned i dragywyddoldeb, tra mae ei gydwybod ar y pryd yn dywedyd wrtho nad oes dim heddwch rhyngddo a Duw, dim undeb rhyngddo a Christ, ac y bydd ef yn ddiaros bellach wedi syrthio i ddwyllaw Barnwr pawb heb Gyfryngwr! Pwy all ddarlunio teimladau y cyfryw un yn y fath amgylchiad? Clywsom am rai, wedi byw yn rhyfygus ac anghrediniol, yn dolefaïn yn awr marwolaeth, Ow, ow! y gair tragywyddoldeb sy'n enoi fy nghalon! O! mi a roddwn fydoedd am fynyd o amser! O! f'enaïd yn myned i ŵydd Duw wedi cellwair â'i drugaredd! O! na allai fy nghorff tlawd fyw, neu O! na chai fy enaid euog farw! Ah! yr oedd yno ryw ing anfesurol pan y gwisgid ef a'r fath ymadroddion torcalonus. Na ato Duw i ni wybod yn brofiadol pa beth ydyw!

Ond yr ydym yn cydnabod nad yw pawb sydd mewn cyflwr annuwiol yn cael eu blino gymaint gan yr ofn hwn. Mae anwybodaeth, anystyriaeth, anghrediniaeth, a rhyfyg, yn cadw llaweroedd yn hollol ddiotal, fel dyn dall yn rhodio yn ddigyffro ar ymyl y dorlan ddofn, heb wybod dim am ei berygl. Mae lluoedd aneirif yn ein gwlad wedi eu sŷo i gysgu yn drwm gan ysgydwadu chwant y cnawd, chwant y llygad, neu falchder y bywyd; ac y mae cwsg yn cymeryd ymaith ofn, er nad yw yn rhoddi dim diogelwch. Gwelwyd rhai yn y cwsg hwn yn meirw yn esmwyth, gan freuddwydio am y nefoedd, nes yr oeddynt yn uffern yn agor eu llygaid. Eithr mae y lliaws o wrandawyr y gair yn rhy brofiadol o flinder ofn marwolaeth. Dyma sydd, fel rhyw bryf gwenwynig o'u mewn, yn enoi eu hysbrydoedd ar amserau, nes na bo iddynt ddyddanwch oddiwrth dim daerol. Dymunem wasgu ar y cyfryw, na bo iddynt geisio lladd y pryf eu hunain, ond dyfod at Iesu, yr hwn a ddiehon yn gwbl iachâu. Gall Ysbryd Duw weithio ar yr ofn euog yma, i gynhyrfu pechadur i ymfyn am gyfiawnder Adda yr ail. Pe gofynid i lawer sant enwog, pa fodd y dechreuwyd y gwaith da ynddo, fe atebai mai ofn marw yn annuwiol oedd y peth cyntaf

a effeithiodd yn ddirifol arno. Dylem ddioloh am bob cyffrôd a'n gyro adref o'r wlad bell. Pwy hynag a fynai gael ei waredu rhag yr ofn marw sydd yn deimlad o arswyd cosbedigaeth, ffôd at Fab Duw. "Y sawl a wrandawo arnaf fi," medd y Gwarddwr, "a gaiff aros yn ddiogel, ac a gaiff onyddwch oddiwrth ofn drwg." Gwrandâwn ar Iesu, ac ni a gawn heddwch â Duw y farn.

Cymerwn olwg ar ofn marwolaeth, yn drydydd, fel teimlad llwfrhaol sydd yn gysylltiedig â gwendid ffydd mewn duwiolion. Nid yw dynion duwiol yn teimlo yr un fath bob amser; maent weithiau yn gadarn yn y ffydd, ac weithiau yn cael eu llethu gan ofn a dychryn. Yr un gŵr ag a glywyd yn gwaeddi yn siriol pan wedi ei amgylchynu gan elynion, "Nid ofnaf beth a wnel dyn i mi," ac yn canu yn llawen mewn rhagolwg ar anghy, "Iâ, pe rhodiwn ar hyd glyn cysgod anghy, nid ofnwn niwed," a glywyd wedi hyny yn dywedyd mewn trallod, pan yr oedd ei fab ei hun wedi codi yn annaturiol a chreulawn yn ei erbyn, "Ofn anghy a syrthiodd arnaf." Ac y mae iddo lawer brawd a chwaer yn y dyddiau hyn, y rhai, er eu bod mewn cyflwr diogel yn eu perthynas â gorsedd Duw, ydynt yn aml yn llewygu wrth feddwl am farw. Mae yr hwn sydd yn ddiogel o ffydd, yr un sydd yn gorfoleddu yn Nuw ei iachawdwriaeth, yn gallu edrych ar anghy gyda mwy o hiraeth nag o ofn. Ond nid felly yr hwn sydd o ychydig ffydd. Mae ef yn aros gyda gradd rhy isel o dduwioldeb; mae yn dysgwyl am nefoedd mewn byd arall, ond heb sugno iddo ei hun y nefoedd sydd i'w chael yn y byd hwn; ac felly mae yn fynych yn myned dan gaethiwd drwy ofn marwolaeth. Yr ydym, gan hyny, am ymddyddan yn rhydd â'r gweiniaid yn Sïon, i edrych a allwn ni ddyweyd rhyw eiriau wrthynt a fyddo yn foddion i'w calonogi erbyn yr elont i rodio glyn cysgod anghy.

Tyred, gristion diffygiol, ymysgwyd o'rh lwfrdra; cyfod i ymaflyd yn enw dy Dduw, fel y gallot ddywedyd, nid yn unig, Nid ofnaf beth a wnel enawd i mi; ond, Nid ofnaf beth a wnel anghy i mi. Mae y gras sydd yn Nghrist Iesu yn goleuo holl dywyllwch anghy, fel na raid i ti frawychu wrth nesu ato.

Ai ofn sydd arnat rhag poenau marwolaeth, rhag y loesion a'r pangfeydd sydd yn aml ynglŷn â'r amgylchiad? Hwyrach y cei di waeddi yn ngwyneb marwolaeth fel llawer cristion o dy flaen, Beth? ai dyma anghy! ai dyma anghy! nid ydyw agos mor boenus ag y dychymygais y byddai; yr oedd ei ofn yn llawer mwy dychrynlyd nag ef ei hunan. Neu, os bydd ei boenau yn llymion, nis gallant fod yn hirfaith; ac y mae y baradwys draw yn werth myned iddi pe byddai raid dyoddef marwolaeth ddengwaith i'w ehyrhaeddyd. Ac y mae dy Dad nefol wedi addaw mai "megys dy ddyddiau y bydd dy nerth." Felly y mae am ddyddiau dy fywyd, ac felly y bydd am ddydd dy farwolaeth. Nid oes arnat eisieu ond gras i fyw mewn bywyd; cei ras i farw pan ddelo marw. Rhodio y tir yr wyt yr awrthon; bydd yn ddigon buan i ti weled y cwch pan ddelot at yr afon. Trefn Duw yw cyfranu "gras yn gymhorth cyfamserol."

A wyt ti yn ofni y mynediad i mewn i fyd dyeithr, anhysbys, ac anweledig? Cofia fod llawer iawn o'rh hen gyfeillion yno eisoes; dy hen gymdeithion mewn cystuddiau ac mewn addoliadau; maent oddiar fryniau Caersalem yn dysgwyl am danat tithau, ac yn ddiammhau hwy a roddant i ti groesawiad cynhes pan ddelot i'w mysg. Iâ, mae Brenin y gogoniant wedi parotfi trigfan yn benodol i ti yno, ac efe a enfyn ei angelion

f'th gyrchu; ac wedi myned i fewn i'r wlad ddedwydd, ti a fyddi mor gartrefol yno yn ebrwydd fel yr addefi yn rhwydd na buost ti erioed gartref o ran dy enaid nes dyfod yno.

Ai ofn chwithdod yr ymadawiad sydd arnat? Ni wnai ond gadael y gwaeth i fwynhau y gwell. Os rhaid i ti adael ychydig o gyfeillion daearol amherffaith, ti a gei yn eu lle loned nefoedd o gyfeillion perffaith. Os rhaid yw i ti ymadael â'r addoldai a'r ordinhadau, lle y cefaiist ynddynt lawer o fudd a hyfrydwch, ti a fwynhei yr Arglwydd Dduw Hollalluog a'r Oen yn deml dragywyddol i ti. Os rhaid i ti adael dy hen Fibl ar ol, yr hwn sydd yn awr yn felusach i'th ysbryd na mel i'th safn, ti a gei y cyfan a addewir ynddo, ac a weli y cyfan a ddesgrifir ynddo. Ac fe fydd hyny yn ennill mawr. Yn lle y *map*, ti a gei yr etifeddiaeth ei hunan; yn lle y darlun, ti a gei weled dy Anwylyd fel y mae; yn lle y llusern, ti a gei oleuni yr haul. Ac ni fachluda dy haul mwyach, o herwydd yr Arglwydd fydd i ti yn oleuni tragywyddol, a dyddiau dy alar a ddarfyddant.

Ai pryder sydd arnat ynghylch dy deulu ar dy ol? ai ofn y byddant hwy mewn trallod ac eisieu wedi i ti orphwyso oddiwrth dy lafur? Gwybydd fod pob rhyddid ac annogaeth i ti drosglwyddo y gofal am danynt i Dad yr amddifaid a Barnwr y gweddwon. Mae y Duwdod holl-gyfoethog yn addaw myned yn warcheidwad ac ymddiriedolwr iddynt. Angora ar y gair hwnw, "Gâd dy amddifaid;" gâd hwy i mi, medd Duw, "a mi a'u cadwaf hwynt yn fyw, ac ymddirieded dy weddwon ynof fi."

Ai dy gael dy hun yr wyt wedi myned i sefyllfa adfeiliedig o ran dy grefydd, wedi myned yn ormod i ysbryd y byd, ac i fyw yn rhy bell oddiwrth dy Arglwydd, ac felly yn ofni yn gyfiawn i Dduw guddio ei wyneb oddiwrthyt yn angu, a'th adael i ymdaraw dan dy ddwyllaw wrth y mynyddoedd tywyll? Mae yn ddios fod llawer plentyn i Dduw wedi cyfarfod âg angu yn y cyfryw agwedd: er ei fod yn marw yn gadwedig, nid oedd yn marw yn gysurus, a hyny, fe allai, am ryw anwiredd a wyddai efe. Ond mae y nos heb dy orddiwes di eto; rhêd at y drugareddfa cyn iddi fyned yn hwyr. Bydded genyt ffydd yn Nuw; "o herwydd y mae trugaredd gyda yr Arglwydd, ac aml ymwarded gydag ef." Myn derfynu y cyfrif, mewn edifeirwch a maddeuant, cyn i'r swyddog dy ddal. Os wyt wedi halogi dy wisg wrth orwedd yn mysg y crochanau, a myned yn frycheulyd yn y byd, dos yn ddioed at ffynnon y dyfroedd byw. Nac anghofia yr hen eiriau bendigaid, "A gwaed Iesu Grist ei Fab Ef sydd yn ein glanhau ni oddiwrth bob pechod." Caffed angu di wrth y ffynnon hon, ac ni chywilyddi pan y delo.

Neu ynte, ai ammheuaeth am dy gyflwr a'th fater rhyngot a Duw sy'n peri i ti ofni? ai petruso yr wyt rhag ofn mai lamp heb olew, ac adeilad heb sylfaen sydd genyt, ac y derfydd am dy grefydd yn nghyfyng ddydd marwolaeth? Os felly, pa fodd yr wyt yn gallu aros yn yr ammheuaeth yna? Mae iachawdwriaeth dy enaid, dy gadwedigaeth am dragywyddoldeb, yn achos rhy fawr i ti eistedd yn eamwyth tra yn ansicr yn ei gylch? Cerdda rhagot; mae tir gwell i'w gael. Ac hyd nes y delot i oleuni am dy fater, ie, tuag at iddi ddyfod yn oleuni ar unwaith arnat, y cynghor goreu a fedrwn ni ei roddi yn fyr, ydyw,—Taff dy hunan bob dydd a nos ar drugaredd Duw yn Nghrist, ac ymarfer dy hun i gadw cydwybod ddirwystr tuag at Dduw a dynion yn wastadol. Rho dy hunan, fel yr wyt, yn feunyddiol iddo Ef, yr hwn a osododd Duw yn lawn; ac

felly ti a fyddi yn ddiogel am dragywyddoldeb. A gwybydd: os wyt yn cael hyfrydwch calon yn moddion gras, ac eangiad ysbryd, weithiau, mewn gweddi ddirgel, dyna i ti amnaid fod a fynd Duw â thi fel un o'i rai anwyl. Os oes rhywbeth a fynit ti â gras Duw yn awr, y mae a fynd yntau, mewn tosturiaethau, â'th enaid di byth. Dilyn di yr Arglwydd o galon onest, ac ni thry efe mohonot dros y drws yn y diwedd. Gwraig dduwiol a ddywedai ar ei gwely angeu, "Mae ofn bod yn ol yn fy mltho ar amserau yn awr yn fwy nag y bu erioed; ond mi fyddaf yn dywedyd wrthyf fy hun, ac wrth ddiacol, Wel, mae ystafelloedd fy nhŷ, ac mae conglau yr ardd yn dystion i mi roddi fy hun ganwaith i'r Gwardedwr, ac ni chlywais sôn erioed iddo wrthod neb felly yn y diwedd. Do yn wir, mi fum ar fy ngliniau yn rhoi fy hunan iddo lawer gwaith ar hyd fy oes grefyddol, ac nid oes genyf yn awr wrth farw ond anturio ar ei air, 'Yr hwn a ddél ataf fi, nis bwriaf ef allan ddim.'" Ai ni wna yr un gair y tro i tithau, ein cyfaill ofnog? O, gwna: rho dy obaith i fachu wrth air yr Iesu, ac fe fydd i ti yn ddiogel ac yn sier yn ymchwydd yr Iorddonen. Llefwn am i Lân Ysbryd yr addewid faeddu ein hanghrediniaeth ac ychwanegu ein ffydd.

Gallasem nodi achosion eraill i'r ofn marwolaeth; ond oddiar ba achosion bynag y mae yn codi mewn eneidiau uniawn, mae yn amlwg y byddai yr ymarferiad bywiog o ffydd yn feddyginiaeth yn mhob achos. Y gyfrinach am effeithioldeb gwir ffydd, ydyw, ei bod hi yn ehedeg o bob man at Gyfringwr y Testament Newydd; yn mhob ystorn, mae ffydd yn eistedd dan gysgod Craig yr oesoedd. Nid yw ffydd byth yn edrych ar farwolaeth heb edrych hefyd ar yr Adgyfodiad a'r Bywyd; mae hi yn troi oddi-wrth angeu at yr Hwn a aeth yn angeu i angeu, ac yn edrych trwy fedd ar y Gŵr a aeth yn dranc i'r bedd. Yr oedd cariad Iesu at ei eglwys yn gryfach nag angeu; gwynebodd ar angeu yn ei holl rym mellithiol er mwyn teulu y ffydd, ac a'i gwnaeth yn ddigolyn iddynt, ac fe berarogloedd bridd y bedd â'i gorff sanctaidd ei hun. Bu ef farw mewn ing er mwyn i ni gael marw mewn tangnefedd. "Gan fod y plant yn gyfranogion o gig a gwaed, yntau hefyd yr un modd a fu gyfranog o'r un pethau; fel trwy farwolaeth y dinystriai ef yr hwn oedd â nerth marwolaeth ganddo; ac y gwaredai hwynt, y rhai trwy ofn marwolaeth oeddynt dros eu holl fywyd dan gaethiwed." Trwy aberth mawr y groes, mae angeu wedi dyfod yn un o'r pethau sydd ar lawr yn nodrefneb (*inventory*) eiddo y ffyddloniaid. "Ai y byd, ai bywyd, ai angeu—mae pob peth yn eiddoch chwi." Golwg hyfryd ar angeu yw edrych arno yn llaw yr Iesu yn gwnein i'r saint. Mae ei ofn yn diflanu yn yr olwg hon. Cawn hanes fod y dysgyblion, pan yr oedd eu Harglwydd yn dyfod atynt gan rodio ar y môr, yn gwaeddi, mewn ofn, Drychiolaeth ydyw; ysbryd sydd yna! Ond dywedodd yr Iesu yn ddiattreg, "Myfi yw, nac ofnwch." Gall cristion weled angeu yn nesu ato fel rhyw ddrychiolaeth digon arswydus; ond clustymwrandawed yn astud, ac efe a glyw yr Iesu yn dywedyd, Nac ofna; myfi sydd yn dyfod trwy angeu i'th gymeryd ataf fy hun. Caiff yna gefnu am byth ar bechod a phoen, a bod yn wastadol gyda yr Arglwydd.

Mae yr ystyriaethau a nodwyd yn dangos yn eglur werthfawrogrwydd ffydd fywiol yn Nghrist, a'r dymunoldeb i'r ffydd hono fod mewn gweithrediad cynnyddol. Dau beth sydd yn eisieu ar bechadur tuag at farw mewn tangnefedd; ei berson mewn undeb â Mab Duw, a'i ysbryd mewn

cymundeb âg ef. Anwyl ddarllenlydd, dy weddi ddydd a nos a fyddo, "Ac y'm cair ynddo Ef!" Mae marwolaeth yn ymyl; yr wyt yn byw ar gyffiniau tragwyddoldeb; dim ond methu anadlu, a dyna di wedi syrthio yno; yr ydwyf mor agos i wlad yr ysbrydion, fel y mae yn bosibl i ti dirio i mewn iddi cyn yr awr nesaf. Ac a fedri di fyw yn dawel heb gymmod âg Arglwydd y wlad hono? Yn mhob man, a chyda phob peth, y mae angeu o flaen dy wyneb. Cefaiſt dy eni i farw; tyfaist i fyny i farw; yr wyt yn teithio, yn gweithio, yn bwyta ac yfed, i'th gario ymlaen i farw; yr wyt yn deffro bob bore i farw. Ac fe fydd marw i ti yn godiad neu yn gwmp digyffelyb, yn elw neu yn golled annhraethadwy. Ystyria dy ddiwedd, a dos at Grist am ddigonolrwydd i'w gyfarfod. "Marw yn yr Arglwydd" sydd beth i'w ddymuno, ac nid i'w ofni.

"Pan fo dyfroedd oer marwolaeth
O fy amgylch yn crynbi,
Pwy a ddeil fy mhen i fyny?
Pwy a wna i'm hofnau ffoi?
Neb ond Iesu!
Gwenaf yno yn ei law."

ISRAEL YN SINAI.

Draw ymhell yn y dwyrain, yn hen wlad Arabia,
Mewn hynod fôr-yngs cawn hyfryd olygfa
Ar gadwen ardderchog o enwog fynyddau,
I'r uchel wybrenydd yn estyn eu penau:
Eu creigiau aruthrol, a'u herchyll doriadau,
A barant o'u hamgylch ddystawrwydd fel angau!
Mor anial a noethion a gwyllt yr edrychant!
Gwylltflod a llyisiau o'u penau a giliant!
Eu golwg, er hyny, sydd hynod fawreddus;
Cynhyrfant holl enaid y doeth a'r deallus—
Y rhai'n ydynt Horeb y sanctaidd oraclau,
A'r penaf o'honynt yw hen fynydd Sinai.

Wel tyred, fy awen, rhedwn i'w penau,
I weled eithafon eu maith ryfeddodau;
Gwel acw, o'n blaenau, y Môr Coch yn lluchio
Ei donau mynyddol, fel meddwyn yn siglo:
Gwel draw Pihahiroth, a'r enwog Baalsephon,
Yn sefyll fel cawri yn derfyn i'r eigion;
Gwel hefyd anialwch ac anghyfannedd-dra,
Fel cefnfor eangfaith, cydrhyngddynt ag yma.
Draw, ha! pa beth welaf yn nghŵr y mynyddoedd,
Mewn eithaf anialdir? Byddinoedd! byddinoedd!
A'u dirfawr rifedi y dyffryn orchuddiant;
Mor gadarn a gwrol, a hardd, y corychant!
Edrychant yn ÷ofn fel byddin fawreddog,
A threfnus wersyllant yn lluoedd banerog.

Pwy ydynt? b'le daethant? O! fyddin fawr hynod!
 Eu rhyfedd helyntion ddymunwn gael gwybod;
 Dystawrwydd! dystawrwydd! draw clywaf daranau!
 Mellt hefyd a welaf o gylch mynydd Sinai!
 Ust, wele! mae cwmwl a niwl yn ymdaenu
 Cydrhyngom â'r fyddin, a mwg yn dyrchafu!
 O erchyll daranau!—y maent yn dynesu!
 Mae Sinai yn fflamio! mae'r ddaear yn crynu!
 Taranau! taranau! O drystfawr daranau!
 Mae'r ddaear yn danllwyth! ac anian yn ddrylliau!
 O ryfedd ystorom! gan arswyd 'r wy'n crynu;
 Mae'r byd yn diweddu!—'R wyf finnau 'n llewygu!

* * * * *

Canfyddwn, 'n ol deffro, ryw hyfryd dawelwch,
 A'r lluoedd yn gorphwys mewn mawr ddiogelwch,
 Ac wrth imi edrych yn fanwl o'm deutu,
 Canfyddwn ryw genad nefolaidd yn nesu;
 Edrychai mor dirion, anturiais lefaru,
 Gan ofyn yn wylaidd, "Pwy draw sy'n gwersyllu?"
 Atebai yn hynaws, "Wel, gwrando'u helyntion;
 Y fyddin fawr acw ynt bobl hynodion.
 Y cadarn Jehofah sydd wedi eu hethol
 I fod iddo ei hunan yn bobl neillduol.
 O ganol dyddyndra â'i air Ef a'u galwodd;
 Pan oeddynt yn weiniaid ei law Ef a'u noddodd.
 O Ganaan y newyn i Aipht y llawnderau
 Efe a'u harweiniodd, er pob anhawserau.
 Pan fynai yr Aiphtiaid yn dost eu gorthrymu
 Fe fynai Duw Israel drachefn eu gwaredu;
 A'i law fe darawodd yr Aiphtiaid gormesol
 Am iddynt orthrymu plant Israel, ei bobol;
 Do, tafodd yr Aiphtiaid i ganol yr eigion,
 Ond trwyddo arweiniodd ei etholedigion:
 A dygodd hwy yma, er llid eu gelynon,
 Er pob anhawserau, er myrdd o beryglon.
 Nid oes iddynt frenin ond Duw yn teyrnasu,
 A'i ffyddlawn was Moses sydd dano'n llywyddu.
 Y dyddiau diweddaf, eu Brenin a addawai
 Roi deddfau breninol i Moses ar Sinai:
 Cyn iddo ef ddisgyn y mynydd a fygai,
 Gan arswyd y Duwdod fel aethnen y crynai.
 Ond pan y disgynodd y mwg aeth yn fflamiau!
 Dirgrynodd y ddaear gan fellt a tharanau.
 Er maint yr ystorom aeth Moses i'r mynydd,
 Gan hollol hyderu ar allu 'r Penllywydd.
 O ganol tywyllwch Jehofa gyhoeddodd
 Ei ddeddfau mor uchel—pob calon ddychrynodd:
 Nid gwagedd a phlantos yn unig a ofnent,
 Ond glewion wroniaid gan arswyd a grynent.
 Er hyny ca'dd Israel ar Sinai drysorau

Mwy gwerthfawr na Chanaan—godidog iawn ddeddfau ;
 Y deddfau a ddygant i'w gafael ddedwyddwch,
 Y deddfau a hyrddant o'u blaen y tywyllwch ;
 Y deddfau a brofant yn fendith i ddyinion ;
 Y deddfau rhagoraf at bob rhyw achosion ;
 Y deddfau a ddaliant ymchwiliad anffyddiwr ;
 Y deddfau a brofant mai Duw oedd eu rhoddwr."
 Ar hyny, yn sydyn, y genad a giliodd,
 A mi i fyfyrto fy hunan a adawodd.
 Dechreuais ryfeddu, do, sefais mewn syndod,
 Pan glywais *fod Sinai yn orsedd i'r DUWDOD!*
 Ar oi i ddychymyg lwyr golli ei gallu,
 Mewn meddiant o'm rheswm dechreuais lefaru ;—
 "Mor hawddgar dy bebyll, O Israel odidog!
 A ffafrau Jehofa yr wyt yn gyfoethog :
 Dy nerth, dy gadernid, a'th harddwch yw'th Frenin ;
 Pa frenin cyffelyb sy'n llywydd un fyddin ?
 O Frenin mawreddus! pob calon a grynai
 Pan ddaeth i gyhoeddi ei gyfraith ar Sinai.
 Os felly 'r arswydai 'r fath gedyrn galonau
 Pan roddes ar fynydd gyhoeddiad o'i ddeddfau,
 Pa beth fydd yr arswyd, O beth fydd yr ofnau,
 Pan ddelo i gosbi o herwydd troseddau ?
 Gan wneuthur y cwmwl yn gerbyd a gorsedd
 Fe fynai i'w gyfraith gael perffaith anrhydedd.
 Pan ddelo 'r dydd hwnw, gan wir wres angerddol
 Ymdodda 'r defnyddiau. A'r chwalfa ddinystriol
 A bair i oer ddychryn ymledu drwy 'r bydoedd!
 Llwy'r losgir y ddaear! ysgydwir y nefoedd!"

MR. JOHNES, SYR THOMAS PHILLIPS, A'R
 "QUARTERLY REVIEW."

UN o brif elfenau llwyddiant pob cenedl mewn ystyr anianyddol neu fasnachol, gwladol neu grefyddol, yw fod cymdeithas a thrafnidaeth rwydd rhwng y genedl hono a chenedloedd eraill. Y mae pob peth yn llygru wrth ei gau a'i gadw ar ei ben ei hun. Anfantais fawr i ddosbarth o ddyinion yw treulio eu hoes yn anwybodus am arferion a syniadau pawb ond yr eiddynt hwy eu hunain. Nis gellir barnu un gwrthddrych yn gywir heb edrych arno o wahanol sefyllfaoedd, a chymharu y gwahanol olygiadau â'u gilydd. Y diffyg o hyn yw un achos o'r holl ragfarnau cyfyng, unochrog, sydd yn Nghymru yn y dyddiau presennol. Ond os yw dynolryw yn y cyfryw amgylchiadau yn analluog i wybod dim yn iawn, y maent ar yr un pryd yn dueddol i feddwl eu bod yn gwybod y cwbl. Y mae eu hunanoldeb bob amser yn cyfateb i'w hanwybodaeth.

Y mae hyn i'w weled yn feunyddiol yn mysg y Cymry wrth sylwi ar eu cyhoeddiadau cyfnodol, ac ar eu hymddyddanion personol. Credo llawer o honynt ydyw, mai Cymru yw y wlad enwocaf ar wyneb y ddaear, mai y blaid y maent hwy mewn cysylltiad â hi yw y bobl enwocaf yn Nghymru, ac mai hwy eu hunain yw y dynion enwocaf sydd yn perthyn i'r blaid hðno. Dyma swm a sylwedd eu cyffes ffydd, pa un a fydd y gyffes hðno yn argraffedig ai peidio. Er eu bod hwy a'u plaid fe allai mor fychain, fel nas gellir eu canfod ychydig filltiroedd o bellder heb gymhorth ysbien-ddrych, eto dyma eu bydd bach hwynt, ac nid ydynt erioed wedi dychymygu nad yw y mynyddoedd o'u hamgylch yn cyffwrdd â'r ffurfafen, ac yn terfynu y greadigaeth.

Ond heblaw fod y dyeithrwrch hwn i bob golygiadau gwahanol oddiwrth yr eiddom ein hunain yn meithrin rhagfarn a hunanoldeb, y mae cynnefino â hen arferion yn peri ein bod yn amharod i weled ein gwaeleddau ein hunain, er eu bod yn amlwg i bobl eraill, ac er y buasent yn amlwg i ninnau oni b'ai ein bod wedi byw o hyd yn eu canol. Y mae arferiad yn myned mewn amser yn drech na natur ei hun. "Yr aderyn a facer yn uffern," meddai yr hen Gymry, "yn uffern y myn drigaw." Darllenasom yn ddiweddar am ddyn oedd yn arfer gweithio mewn *gashouse*, ei fod wedi ei alw ryw ddiwrnod i drwsio y bibell oedd yn trosglwyddo y *gas* yn maelfa yr apothecari. Aeth y teulu at eu boreufwyd, gan ei adael ef yno gyda'i orchwyl. Ond yn fuan, dyma ryw arogl tra anhwyfryd yn treiddio i bob congl o'r tŷ. Rheddodd yr apothecari i chwilio beth oedd yr achos; dywedodd gŵr y *gas* wrtho yn bur ddigynhwrf am beidio dychrynu mewn un modd, nad oedd dim perygl; ond fod arogl y cyfferiau yn annyoddefol iddo ef, a'i fod wedi gollwng allan ychydig o'r *gas* i buro yr awyr. Y mae lle i ofni fod rhai o'r Cymry yn rhy debyg. Dywedwch a fynoch yn erbyn arferion llygredig y genedl, neu yn erbyn gwaeleddau y blaid hðno y maent hwy yn perthyn iddi, gwrandawant y cwbl gyda gwên anghrediniol, os nad gyda digder bygythiol. Dyma yr arferion a welsant hwy er yn blant. Yn eu canol y maent wedi byw, ac yn eu canol y maent yn dewis marw.

Nid oes neb yn teimlo mwy o anwylddeb at Gymru na ni ein hunain. Cymru yw gwlad ein hynafiaid; ac yn ei llwch hi y dymunem fod ein llwch ninnau yn gorphwys hyd foreu yr adgyfodiad. Gwerthfawrocach yn ein golwg yw creigiau llwydion Cymru na pherlau yr India. Ond nid trwy weniethio iddi yr ydym yn hoffi dangos ein cariad tuag ati. Yr ydym yn caru cymaint arni nes ymfoddloni i oddef gwg, a chael ein cyrif yn elynion, os bydd raid, am ddywedyd y gwir; gan hyderu ein bod yn gwneuthur hyn, nid mewn ysbryd trahâus, ond gyda gostyngedd-rwydd a chydymdeimlad. A'r gwir ydyw, er mor anghysurus ei adrodd, nad yw Cymru, o'i chymharu â gwledydd eraill, yn sefyll mor uchel ag y myn rhai i ni gredu ei bod. Bu ein tadau yn llafurus ac yn dra llwyddiannus yn eu tymmor: ond ni ddylid meddwl eu bod hwy wedi gwneyd y cwbl. Gwaith mawr a rhyfeddol a gyflawnwyd trwyddynt; ond er cymaint a wnawd, y mae llawer yn aros eto heb ei wneuthur. Nid rhaid i neb fod yn segur o eisieu lle i weithio. Er fod ein haddoldai yn lliosog, a'r pregethu yn rymus, y mae llawer o arferion anghrefyddol ac anfoesol yn ffynu yn ein plith. Mewn rhai ystyriaethau—cofier nad ydym yn dywedyd yn *mab* ystyr, na thebyg—ond mewn *rhai* ystyriaethau, y mae

yn rhaid addef fod y Cymry wedi'r cwbl yn is na chenedloedd eraill. Er eu bod yn rhagori mewn moesoldeb cyffredinol, y mae ganddynt ryw *ychydig* o arferion gwael, y rhai ni oddefid yn mysg y Saeson, na'r Ysgotiaid, nac hyd yn nod yn mysg y Gwyddelod: ac oni b'ai ein bod wedi cynnefino â hwynt, nis gallasem feddwl am danynt heb deimlad dwys; ac nis gallasem orphwys nes eu hysgubo ymaith yn hollol o'r tir. Cawn enwi rhai o honynt, fel profion o wirionedd yr hyn a ddywedwyd. Yn gyntaf, A oes rhyw genedl arall yn dangos cymaint o ddirmyg ar addoliad cyhoeddus? Pe medrai y Cymro dafu ei hun allan o hono ei hun am un Sabboth, ac edrych gyda theimladau Seisnigaidd ar ei gydwladwyr yn eu haddoliadau, byddai yn fuan wedi ei orlenwi â syndod. Byddai yn naturiol iddo feddwl ei fod wedi disgyn i ganol pobl anwareiddiedig. Ond heb son am y Saeson coethedig, edryched y Cymro ar ymddygiad parchus y Pabydd Gwyddelig, a chywilyddied oblegid anfoesoldeb ei gyd-genedl. Beth all fod yn fwy anfoesol na'r arferiad o fyned allan cyn diwedd yr addoliad? Dyma y dirmyg mwyaf noeth ar addoliad Duw yn cael ei ddangos yn gyhoeddus bob Sabboth mewn cannoedd o gynulleidfaedd yn Nghymru. Ac os dywedwn y gwir ar hyn eto, y mae yr Ymneilldŵyr yn llawer gwaeth na'r Eglwys Sefydledig, a'r Methodistiaid yn waeth na'r un blaid arall o Ymneilldŵyr.

Yn ail, meddyliwn am dull y bobl ieuainc mewn llawer parth o Gymru yn dwyn ymlaen eu cyfeillach rag-briodasol. Nid ydym yn credu fod merched Cymru yn fwy anniwair na merched y Saeson. Y mae dywedyd hyny yn gabldraeth ar ein gwlad; ac nis gall neb o wir fwriad fod yn euog o hono, ond y rhai y mae eu casineb at grefydd yr Ymneilldŵyr yn gryfach na'u cariad at wirionedd. Os ydynt am ddiwygio y wlad, paham yr arweiniant feddyliau y bobl oddiwrth y gwir achos, i ddadleu ynghylch drygdedd Ymneillduaeth? Dyma arferiad anfoesol, yr hon yw gwreiddyn y drwg, yr hon a addefir gan bawb, a'r hon ni chlywir am ei chyflyb mewn un rhan arall o'r byd. Yn erbyn hon y dylid milwrio. Y mae anniweirdeb yn Lloegr, a phob gwlad arall: ond merched ieuainc wedi eu magu yn y fath amddifadrwydd o bob gwylder, ac wedi dibrisio eu hunain i'r fath raddau, nes y maent yn gollwng y meibion i mewn i'w tai, a gwaeth na hyny mewn rhai manau, *a hyn oll yn arfer gwlad*—dyma beth na cheir ef ond yn Nghymru. Y mae yn syndod i ni na b'ai pob ysgrif-enwr yn ysgrifenu yn erbyn yr arferiad hon, a phob pregethwr yn pregethu yn ei herbyn, a phob penteulu yn cynghori ei deulu yn ei herbyn, nes ei hymlid o'r wlad. Ar y pen hwn, y mae yn rhaid i ni ddywedyd mai y Methodistiaid sydd wedi gwneyd fwyaf, a bod pleidiau eraill, ar rai achlysuron, wedi dangos tuedd i wawdio eu hymdrechiadau. Ond nid oes un blaid wedi gwneyd yr hyn a ddylai; a'r prawf o hyny ydyw, fod yr arferiad eto yn aros. Pe buasai cymaint ag un o enwadau crefyddol Cymru wedi gwneyd ei ddyledswydd, buasai yr hen arferiad ffiائد hon wedi diflanu.

Yn drydydd, A fu neu a oes rhyw genedl arall yn ymddwyn mor annheilwng tuag at weinidogion yr efengyl? Mae yn wir eu bod wedi dyoddef mwy o erledigaeth llawer gwaith oddiwrth elynion crefydd: ond son yr ydym yn awr am ymddygiadau proffeswyr Cristionogaeth at eu gweinidogion hwy eu hunain. Ac yma y mae yn ofidus genym, ar ol codi y Methodistiaid mor uchel, ein bod yn gorfod eu tynu i lawr mor fuan.

Ond gan ein bod wedi penderfynu dyweyd y gwir wrth ddechreu yr ysgrif hon, mae yn rhaid i ni ddadgan ein barn gydwbybodol mai y Methodistiaid sydd fwyaf euog yn y bai hwn. Oni buasai eu bod wedi cynnefino â'r arferiad, nis gallasant lai na'i ffeiddio. Nid fel hyn yr oedd crigionogion tlodion yn amser yr apostolion; oblegid yr oedd yr apostolion, oddieithr Paul, yn cael eu cynnal gan yr eglwysi; ac yr oedd Paul ei hun yn derbyn cynnalieath oddiwrthyt oddieithr mewn rhyw amgylchiadau neillduol. Nid fel hyn y mae un blaid grefyddol yn Lloegr, Ysgotland, na'r America. Ac nid fel hyn y mae hyd yn nod y Pabyddion carpiog, newynllyd, yn yr Iwerddon. I bob dyn diduedd, sydd yn gwybod ychydig am hanes y byd, un o'r pethau rhyfeddaf a glywodd am dano erioed yw, fod nifer mawr o bobl yn ffurfio eu hunain yn gorff crefyddol, heb feddwl am y ddyledsdydd ysgrythyrol o alluogi y rhai sydd yn pregethu yr efengyl i fyw wrth yr efengyl.

Y mae pob un o'r penau hyn yn haeddu traethawd hirfaith; ond dywedwyd digon i ddangos fel y mae anwybodaeth a chynnefindra yn peri i ddynion fyw yn nghanol y gwaeledd a'r annhrefn mwyaf heb ystyried. Gwyddom y bydd llawer yn ddig wrthym am eu hafonyddu yn eu cysgadrwydd. Ond a ydyw ein tystiolaethau yn wir? Ai ynte nid ydynt? Os ydynt, hwy a wnant les fel meddyginiaeth, er eu bod yn chwero i'r archwaeth. Dylai y Cymry feddwl bellach am wrandaw ar rywbeth heblaw canmoliaeth ddiiddiwedd. Y mae yn bryd iddynt ddarfod â rhyw *fabieidd-dra* o'r fath yma. Os ydynt wedi cynnefino gormod â'r hen arferion i weled eu gwrthuni, bydded iddynt wrandaw ar rai sydd wedi cael mantais i wybod pa fodd y mae cenedloedd eraill yn gweithredu. Ac yma nis gallwn lai na mynegu ein hargyhoeddiad y dylasai Adroddiadau yr Ymwelwyr gael mwy o wrandawiad nag a gawsant. Digon naturiol a gweddus oedd troi yn ol y cam-ddesgrifiadau a gynnwysent; ond yn yr eiddigedd i wrthbrofi y celwydd, bŵwyd yn rhy ddisylw o'r gwirionedd oedd ynddynt. Ac os yw hyn yn anwadadwy mewn perthynas i'r Ymwelwyr, y mae Mr. Johnes, a Syr Thomas Phillips, ac awdur yr erthygl ar Fethodistiaeth yn y "*Quarterly Review*," ar lawer golygiad, yn haeddu mwy o sylw. Y mae eu hysgrifeniadau yn dangos eu bod yn fwy cydnabyddus â hanes y Dywysogaeth, yn meddu mwy o serch at ei thrigolion, yn deall teithi y genedl yn well, a'u bod oll, yn enwedig Mr. Johnes a Syr Thomas Phillips, yn alluog i ffurfio barn gywirach a thecach am ansawdd foisol a chrefyddol ein gwlad.

Mr. Johnes ydyw un o farnwyr y Llysoedd Sirol. Ysgrifonodd ei draethawd ar "Achosion Ymneillduaeth yn Nghymru"¹ pan yn ddyn ieuanc; ac y mae genym sail i gredu, pe cyhoeddid argraffiad eto, yr hyn gobeithiwn a wneir yn fuan, y newidid ychydig ar rai ymadroddion. Ond hyd yn nod fel y mae, nid oes ynddo ddim a ddichon fod yn achos cyfiawn o dramgwydd i'r Ymneilldŵwr mwyaf gwresog. Y mae yn dechreu gyda'r hen Ymneilldŵwr, Wroth, Vavasor Powell, a Lewis Rees; yna mae yn myned ymlaen at y diwygiad Methodistaidd, yr hwn a olrheinir at Ficer Prichard, a Griffith Jones. Cawn hanes Howel Harris, Rowlands o Langeitho, Williams, Bantycelyn, Peter Williams, a Charles o'r Bala, am

¹ "An Essay on the Causes which have produced Dissent from the Established Church, in the Principality of Wales; to which the Royal Medal was awarded at an Eisteddfod of the London Cambrian Institution, held in May, 1831."

y rhai ni buasai neb yn medru llefaru yn fwy parchus. Yn yr ail bennod, ymdrinir âg achosion Ymneillduaeth yn Nghymru, yr hwn a briodolir yn gyntaf i ddiffyg cydymdeimlad yn yr offeiriad â theimladau ac archwaeth y bobl; ac yn ail, i'w hesgeulusdod o iaith y bobl. Ac olrheinir y ddau achos yma at esgobion Seisnigaidd. Yn y drydedd bennod, rhoddir golwg gymhariaethol ar yr hen esgobion Cymreig a'u holynwyr Seisnigaidd. Yn y ddwy bennod nesaf, dangosir fel y mae yr esgobion a'r llywodraeth wedi camddefnyddio cyllidau yr Eglwys Sefydledig yn Nghymru. Nid ydym yn cofio i ni erioed ddarllen darn o hanesiaeth yn cynnwys profion o anghyflawnder, a thrais, a gorthrymder mwy ysgeler nag a geir yn y llyfr hwn. Oni buasai fod y Cymry yn fwy *mulaidd* na phobl eraill, ni fuasent yn goddef y fath gamwedd. Cymerer un allan o lawer. Un o esgobion Llanelwy a gyflawnai y ddyledsdydd o ofalu am ei deulu fel y canlyn:—rhoddodd i'w fab, y Parch. C. S. Luxmoore, dŷ yn perthyn i ddeoniaeth Llanelwy, 40*p.*—Henllan, 1,500*p.*—Llanelwy, 426*p.*—Llanefydd, 300*p.*—Llanfair-talhaiarn, 220*p.*—Darowain, 120*p.*—Cangelloriaeth, 400*p.*—Degymau eraill yn esgobaeth Llanelwy, 600*p.*—Cradley, yn esgobaeth Hereford, 1,200*p.*—Bromyard, yn yr un esgobaeth, 500*p.*—Prebendiaeth Hereford, 1,400. Dealler mai symiau blyneddol yw y rhai hyn. Nis gallodd yr esgob fod yn llawn mor haelionus i'w feibion eraill; ond nid oedd ganddynt hwythau achos i gwyno. Y Parch. J. M. Luxmoore, brawd y rhagddywededig Barchedig C. A. Luxmoore, a dderbyniodd Marchwiall, 720*p.*—Llanarmon-yn-ial, 500*p.*—Prebendiaeth Meifod, 60*p.*—Morton (tir wedi ei bwrcasu âg arian y Frenines Anne), 800*p.*—Whitford, 1000*p.* Ond heb fanlyu ymhellach, digon yw dywedyd fod Mr. Johnes yn cyfrif fod yr esgob Seisnigaidd oedd yn Llanelwy, pan oedd efe yn ysgrifenu ei lyfr, ynghyd â pherthynasau Seisnigaidd yr esgobion blaenorol, yn derbyn mwy na'r hanner o gynnyrch yr holl esgobaeth. Pa ryfedd fod y Cymry wedi troi yn Ymneilldŵyr?

Gwelir mai ar gyllidau yr Eglwys Sefydledig y mae Mr. Johnes yn sylwi gan mwyaf, a rhaid addef ei fod yn eu dynoethi yn nerthol a diarded. Mewn gair, efe oedd rhagredegrw a phrif achosydd y cynhwrf presennol ynghylch esgobion Cymreig, a diwygiadau eraill. Er hyn, mewn rhai manau y mae yn cyffwrdd yn yr un ysbryd diragfarn â beiau yr Ymneilldŵyr. Y mae yr hyn a ddywed am gyflwr annysgedig y nifer mwyaf o bregethwyr y Methodistiaid ar ol amser yr hen Ddiwygwyr cyntaf yn wir bob gair. Pe buasai y Methodistiaid wedi gwneuthur eu dyledsdydd ar y mater hwn mewn pryd, buasai golwg arall ar Gymru erbyn heddyw. Meddyliem hefyd nad yw y dyfyniad a ganlyn yn anheilwng o sylw:—

“Yr oedd y Methodistiaid cyntaf yn apelio at y galon a'r serchidau; yr oeddylt yn uno cynghorion ymarferol âg athrawiaeth Gristionogol; yr oeddylt yn efelychu y dull apostolaidd o bregethu. Os gallwn farnu am y pren oddiwrth ei ffrwyth, am y Methodistiaid cyntaf oddiwrth fucheddau eu dysgyblion, nid oedd dim ynddo a fusai yn debyg o ddwyn dianrhydedd ar Eglwys Loegr. Ond y mae eu dilynwyr yn rhy dueddol i gario egwyddorion eu hynafiaid i eithafion. Eu pregethau yn rhy fynych nid ydynt yn ddim amgen nag areithiau ar brif athrawiaethau yr efengyl, heb un cymhwysiad ymarferol o'r gwirionedd. Fel hyn y mae yr athrawiaeth sydd yn fwyaf addas i ddarostwng balchder y galon ddynol, yn myned yn fyfnonell anghariad yn lle addfwynder.”

Nid ydym yn dysgwyl y bydd pawb o'n darllenwyr yn cydfyned yn hollol â'r dyfyniad hwn; ond byddai yn dda iddynt ystyried a yw

pregethwyr yr oes hon yn gymaint o *ddifrif* a'r hen ddiwygwyr, ac a ydynt yn ganlynol mor awyddus, nid i ddangos eu hunain, ond i wneyd lles i'w gwrandawr. Y mae Mr. Johnes yn myned ymlaen i sylwi ar y tebygolrwydd rhwng yr effaith a welir dan bregethiad yr Ymneillduwyr Cymreig a'r hyn a gynnrychir gan y darluniadau a'r gorwychedder yn yr addoliad pabaidd; yr un teimlad grymus am ychydig amser, yn cael ei ddilyn gan wrthdarawiad a gwanychdod. Nid yw y gymhariaeth hon yn berffaith gywir: ac heblaw hyny, y mae yn gwrthdaraw yr hyn a ddywedodd yr awdur o'r blaen am yr hen Fethodistiaid cyntaf. Ond ni ddymunem, er hyny, i'r sylw gael ei droi heibio yn ddiystyr. Mae yn ddiagramheuol fod lliaws o'r Cymry yn gosod teimladau amserol yn lle cysondeb bywyd duwiol. Yr hyn a gyfrifir ganddynt yn fendith yn moddion gras yw teimlad cysurus, neu gynhyrriad cryf ar y pryd, heb ymofyn a ydyw y pregethau yn effeithio yn ddaionus ar yr holl ymarweddiad.

Y mae gormod o wir hefyd yn yr hyn a ddywedir yn y traethawd hwn am y rhwygiadau mynych yn eglwysi yr Ymneillduwyr. Ond nis medrwn weled fod hyn yn profi nad yw yr hawl i ddewis swyddogion eglwysig yn perthyn i aelodau yr eglwys, mwy nag y mae y terfysgoedd a'r annhrefn sydd yn cydfyned âg etholiadau seneddol yn rheswm yn erbyn rhyddid gwladol. Yr unig feddyginiaeth rhag y drwg hwn yw mwy o grefydd yn yr eglwysi. Nid yw y rheolau a'r trefniadau mwyaf ysgrythyrol yn ddigon i ddiogelu heddwch, os bydd ysbryd y bobl wedi myned yn anghrefyddol. Dylid bod yn ochelgar rhag meithrin yr ysbryd hwn trwy ddwyn ger bron yr eglwysi faterion bychain, dibwys, a fyddo yn tueddu i ennyn dadleuaeth a checræath. Os na chedwir eu meddyliau yn barhaus gyda gwirioneddau mawrion yr efengyl, pa beth sydd i'w ddysgwyl ond rhwygiadau?

Pe buasai ein gofod yn caniatâu, buasai yn dda genym ddilyn Mr. Johnes ymhellach. Ond rhaid i ni ei adael ar hyn. Gwnaeth wasanaeth i'w genedl trwy ysgrifenu ei draethawd; ac nis gall wneuthur yn well rhaglawn na thrwy fyned rhagddo ar hyd yr un llwybr. Yr ydym yn ddiolchgar iddo am ei ymdrechion yn ddiweddar yn mhlaid yr Hungariaid gorthrymedig; ond gobeithiwn na fydd iddo er dim anghofio gwlad ei enedigaeth.

Yr ydym yn troi yn awr at y gyfrol hardd a helaeth o waith Syr Thomas Phillips.¹ Efe yw y boneddwr a enwogodd ei hun, amryw flyneddau yn ol, trwy ei wroldeb yn gwrthsefyll ymosodiad y Siartiaid yn Cas'newydd-ar-wysg. Er y pryd hwnw y mae wedi ymroddi, nid yn aflwyddiannus, i efrydu y gyfraith. Nid yw ei lyfr yn cynnwys cymaint a'r eiddo Mr. Johnes o feirniadaeth ar waeleddau yr Eglwys Sefydledig a'r Ymneillduwyr. Cynhyrfwyd ef i ddechreu ysgrifenu oddiar fwriad i wrthbrofi camddarluniadau yr Ymwelwyr bythgofadwy; yr hyn a wneir ganddo yn foneddigaidd, ac ar yr un pryd yn y modd mwyaf effeithiol. Ond yn lle aros ar hyn, y mae yn cymeryd golwg gyflawn ar bob peth y gellir meddwl am dano ag sydd yn dwyn cysylltiad â'i destun: ac nis gwyddom pa le y ceir crynoded mwy trefnus o bob hysbysrwydd hanesiol ac ystad-

¹ "Wales: the Language, Social condition, Moral character, and Religious opinions of the people, considered in their relation to Education." By Sir Thomas Phillips. London. 1849.

egol mewn perthynas i Gymru. Mae yn amlwg mai ffloineb fyddai i ni feddwl am roddi adolygiad manwl ar lyfr o'r fath yma : nid oes genym gan hyny ond gwneuthur ychydig sylwadau ar-rai o'r prif faterion.

O eigion calon y rhodddwn ein cydsyniad i bob gair a ddywedir gan Syr Thomas Phillips am yr anghenrheidrwydd o addysgu bechgyn Cymru yn yr iaith Gymraeg. Pe caniatëid mai buddiol fyddai difodi hen iaith ardderchog y Cymry, nid yw hyn yn cyffwrdd dim â'r pwnc. Y gofyniad yw, Pa un yw y llwybr goreu i geisio addysgu cenedl, ai mewn iaith ddealladwy ai mewn iaith annealladwy? Pe b'ai gwrthwynebwyr y Gymraeg yn alluog i gyfranu doniau gwyrthiol, ac yn medru gwneyd holl blant y Cymry yn Saeson ar unwaith; pe b'ai holl feibion a merched Gwalia, ar ol myned i'r gwely yn Gymry ryw brydnawngwaith hyfryd yn yr haf presennol, yn deffro boreu dranoeth yn Saeson pur, o Fon i Fynwy, yna byddai y ddadl ar ben. Byddai y Gymraeg o hyny allan yn iaith y dysgedigion, a phob darn o lyfr Cymraeg wedi ei anfarwoli. Ond yn y cyfapser ai gadael y Cymry yn eu hanwybodaeth yw ein dyledswydd? Mae yn debyg mai darfod a wna yr iaith yn raddol, er prophwydoliaeth Taliesin, ac er yr holl gynhwrf eisteddfodawl. Nid yw wiw ymladd yn erbyn Rhag-luniaeth. Doethineb crefyddwyr Cymru fyddai ymarotöi ar gyfer yr amgylchiad trwy godi addoldai Seisonig yn brydlawn yn y prif drefydd. Ond nid mewn un dydd yr adeiladwyd Rhufain, ac nid mewn un dydd, na blwyddyn, na chant o flyneddau, y gwneir y Cymry yn Saeson. Gan hyny rhodder pob manteision gwybodaeth iddynt, mewn ysgolion a llyfrau, yn iaith eu gwlad. Y gwirionedd ydyw, mai y ffordd rwyddaf i ddysgu Saesneg iddynt yw trwy eu cynnysgaethu âg archwaeth at wybodaeth yn yr iaith Gymraeg.

Byddai yn annaturiol iawn i ni beidio cytuno â Syr Thomas Phillips yn ei olygiadau am alluoedd a chynneddfau y Cymry. Dywedwyd yn "*Blackwood's Magazine*," ychydig amser yn ol, mai ofer yw ceisio gan Gymro wneyd brys gydag unrhyw orchwyl. Ar yr olwg gyntaf, gallid meddwl fod rhyw sail i'r dywediad. Digon arafaid, a thrymaid, a llebanaid yw yr olwg ar lawer un o'n cydwladwyr yn llusgo ei heglau ar ei ol wrth ganlyn y defaid i'r mynydd, neu y ceffylau i gyrcu glo. O'r ochr arall, mae yn eglur fod y Cymry ar rai achlysuron, yn enwedig yn eu cyfiawniadau crefyddol, yn fwy bywiog na'r Saeson. Pa fodd y mae cysoni y ddwy ffaith â'u gilydd? Y mae yn ymddangos i ni nad oes yma un gradd o ddirgelwch; ond fod yr holl ddyrswch yn cyfodi oddiwrth gymharu y Cymry a'r Saeson mewn gwahanol amgylchiadau. Nid yw yn deg i ni ddysgwyl yr un bywiogrwydd mewn Cymro gwledig ag mewn Sais sydd wedi arfer byw yn nghanol helyntion masnachol y trefydd. Nid oedd dim yn synu James Hogg yn fwy pan aeth i fyny o Ettrick i Lundain, na gweled mor gyflym yr oedd y Llundainwyr yn cerdded yr heol-ydd : ond nid oedd hyn yn profi fod y Saeson yn fwy bywiog na'r Ysgotiaid. Edrycher ar y Sais gwledig yn yr un a fyner o siroedd Lloegr, a gwelir yn fuan ei fod yn llawer mwy asynaid na'r Cymro. Ond wedi y cwbl, yr ydym yn methu ymadael â'r meddwl fod rhyw ddiffyg cyffredinol yn perthyn i'r holl deulu Celtaidd, sef diffyg penderfyniad a dyfalbarhâd. Yn hyn y mae John Bull yn rhagori. Y mae mwy o gyflymder y Groegiaid yn y Cymry, a mwy o ddyfalwch anhyblyg y Rhufeiniaid yn y Saeson. Ond yn y diwedd dyfalwch sydd yn trechu.

Testun y bedwaredd bennod yw "nodweddiad moesol" y Dywysogaeth; ac yma y mae yr awdur yn dwyn ymlaen ei holl adgyfnerthoedd i roddi atebiad mwy neillduol i Adroddiadau yr Ymwelwyr. Y mae dau dueddiad gwrthwynebol yn ein meddwl gyda golwg ar yr Adroddiadau hyn. Ar un llaw, dymunem eu defnyddio fel moddion i gynhyrfu ein cydgenedl i filwrio yn fwy ymdrechgar yn erbyn y drygau sydd yn dwyn gwaradwydd ar ein cymeriad. Hyn yw ein teimlad mwyaf cyffredin. Ond ar y llaw arall, wrth ddarllen eto y cyhuddiadau erchyll a ddygwyd yn ein herbyn gan yr Ymwelwyr, fel y maent wedi eu difynu yn y bennod hon, prin y medrwn ymattal heb roddi iddynt yn ysgegiad ychwanegol. Ond gan ein bod wedi traethu ein barn am dannt yn y "Traethodydd" fwy nag unwaith o'r blaen, gadawn y gŕ anhyfryd yn llonydd am y tro hwn. Yn y ddwy bennod nesaf ceir golygiad cryno ar hanesiaeth yr Ymneillduwyr a'r Eglwys Sefydledig yn Nghymru. Os nad ydym yn camsynied, y mae rhifedi yr Ymneillduwyr yn llawer mwy nag a dybia yr awdur. Y mae efe yn cyfrif rhifedi yr aelodau gyda'r holl bleidiau Ymneillduol yn 166,606, a'r gwrandawyr cyffredin oddeutu 300,000; ac felly nid yw yr holl wrandawyr ond un o bob pedwar o'r holl boblogaeth. Y mae cyfrif y cymunwyr yn ddigon cywir am a wyddom ni: ond nid yw rhifedi y cymunwyr yn gyffredin yn agos i hanner y gynulleidfa, heb son fod rhai yn aros i warchod gartref yn y rhan fwyaf o deuluoedd bob Sabboth. Pa fodd bynag, nid oes ynwm un awydd i weled yr Ymneillduwyr yn ymfrostio yn eu rhifedi: mwy dewisol genym yw eu symbylu i fod yn fwy gweithgar.

Cwynir yn un o'r pennodau hyn fod y Methodistiaid wedi ymbelláu yn fwy na'u tadau oddiwrth yr Eglwys Sefydledig. Nid ydym yn profesu ein hunain yn esbonwyr ar gynghorion a dybenion y corff hwnw o grefyddwyr: ond nid ydym yn deall eu bod wedi ymdrin â'r mater mewn cymanfa chwarterol, na chyfarfod misol. Y maent, hyd y gwyddom ni, yn gadael cyflawn ryddid i'w haelodau synied fel y mynont am undeb yr Eglwys a'r wladwriaeth. Ac os oes personau unigol yn eu plith yn dangos mwy o elyniaeth yn erbyn yr Eglwys Sefydledig na'r hen bobl, mae yn debyg yr amddiffynant eu hunain trwy fenthycu yr hen ofyniad, "Pwy a ddechreuodd yr ymrafael?" Yr oedd y Methodistiaid yn bur dawel, nes y taenwyd papyrâu am flyneddau gan yr Eglwyswyr yn eu trin hwy yn chwerverach nag un blaid arall: ac y mae yn wirionedd dyls nad oes dim wedi cryfhau mwy ar yr ysbryd ymneillduol yn Nghymru nag ysgrifeniadau yr Eglwyswyr eu hunain. Er hyny gobeithiwn na fydd y Methodistiaid yn ddisylw o'r cynghor. Nid ydym mewn un modd yn dymuno iddynt wadu eu hegwyddorion; ond dylent gosio ar yr un pryd mai ennill eu cyd-ddynion at Grist a ddylai fod eu prif orchwyl. Y mae yn anghenrheidiol gwylio yn barhaus rhag i lywod-ddysg dynu y meddwl oddiwrth bethau mwy pwysig. A phe cyrhaeddem ein hamcan, pe dattodid yr undeb rhwng yr Eglwys a'r wladwriaeth, nid yw hyny *ymddo ei hun* yn werth ymladd llawer drosto. Edrycher i-Ffrainc, a'r Canton de Vaud, a rhai o Unol Daleithiau yr America, pa faint gwell yw eu cyflwr hwy na chyflwr y wlad hon? Cofier o hyd mai yr efengyl yw i'r prif beiriant i wneyd trefn ar y byd, ac mai i'r graddau y medrwn lwyddo i gael trigolion y deyrnas yn ddynion da, i'r graddau hyny y byddwn yn offerynol i ddarostwng pob anghyflawnder, yn wladol ac yn eglwysig. Wrth ddywedyd hyn yr ydym mor bell oddiwrth dastu dirmyg ar yr Ymneillduwyr, fel y dymunem eu gweled yn fwy goleuedig

a chydwybodol, a'u hegwyddorion yn gorphwys ar sylfaen ddyfnach a chadarnach na dybenion gwladwriaethol.

Yn y bennod ar Addysg, ceir hanes manwl am yr ysgolion dyddiol a sefydlwyd yn Nghymru, yn yr hen amseroedd yn gystal ag yn yr oes hon. Rhaid i'n darllenwyr oddef i ni ddyweyd y gwir ar hyn eto : a'r gwir ydyw, mai yr Eglwys Sefydledig a wnaeth fwyaf o blaid addysg, ac mai y Methodistiaid hyd yn ddiweddar a wnaeth leiaf. Dylem wneyd eithriad gyda golwg ar addysg grefyddol yn yr Ysgolion Sabbothol ; oblegid, yn yr ystyr yma, diau mai y Methodistiaid fu yn fwyaf llafurus. Ond pe buasent yn talu mwy o sylw i ysgolion dyddiol, ni fuasai anghen i roddi cymaint o amser yr Ysgol Sabbothol i ddysgu darllen a sillebu ; a buasai yr addysg Sabbothol i'r graddau hyny yn fwy crefyddol ac effeithiol. Gwnaeth Mr. Charles o'r Bala ei ran yn hyn, fel yn mhob gwaith da arall. Yr oedd ganddo ef amryw athrawon dyddiol dan ei ofal mewn gwahanol fanau. A phe buasai y Methodistiaid yn ei gefnogi fel y dylasant, ac yn cario ei gynlluniau i weithrediad, ni fuasai agwedd mor flodeuog ar lawer o hen arferion anfoesol y mae cymaint o achos gofidio o'u herwydd.

Yn y bennod hon hefyd, coffeir gyda pharch, ac nid gyda mwy o barch nag sydd yn ddyledus, am ymdrechion Thomas Gouge, a Griffith Jones, Llanddowror. Dyma ddau o brif gymwynaswyr y Cymry. Ond y mae pob un o honynt yn haeddu ysgrif helaeth iddo ei hun ; ac am hyny nid awn ar hyn o bryd i ddechreu ar eu hanes. Gellid dywedyd yr un peth am lawer o enwogion eraill y sonir am danynt gan Syr Thomas Phillips : ac o ganlyniad mae yn hawdd i'r darlennydd weled mai nid gwaith yw ei lyfr ef i'w adolygu mewn un erthygl ; ond yn hytrach, un i'w gymeryd fel defnydd cyfres o erthyglau. Nid oes genym gan hyny ond ei adael, heb geisio sylwi ar yr holl faterion a gynnwysir ynddo, gan gydnabod nad yw wedi derbyn dim tebyg i gyflawnder oddiar ein llaw.

Mewn rhan arall o'r rhifyn hwn, beirniadwyd ychydig ar yr erthygl a ymddangosodd yn ddiweddar yn y "*Quarterly Review*," ar "Fethodistiaeth yn Nghymru : " ac nid ydym yn gweled achos i alw yn ol un gair a ddywedwyd yno mewn perthynas i ysbrydiaeth y sylwadau a wnaed yn y "*Quarterly*" ar yr hen batriarch o Langeitho. Ni fu erioed ymddygiad mwy anfoneddigaidd. Pe buasai y cyhuddiad yn wirionedd, dylasai yr ysgrifenydd gofio fod angeu, yr un fath a chariad, ac hyd yn nod lle na byddo cariad, yn cuddio lliaws o bechodau. Ond y mae genym seiliau diammheuol i greu fod yr adroddiad yn anghywir. Gallwn sicrhau iddo hefyd am Robert Jones, Rhoslan, ei fod yn ddyn seliad, ac yn un o'r rhai mwyaf gofalus am eirwiredd. Ond wedi'r cwbl, y mae cyflawnder yn ein rhwymo i ddywedyd am yr awdur hwn eto, ei fod yn ddyn o ddawn, ac ar y cyfan yn lled ddiragfarn. Y mae ynddo debygolrwydd mawr i'r diweddar Robert Southey, yn ei ddull o feddwl, yn gystal a'i ddull o ysgrifenu. Y mae yn y modd mwyaf diarbed yn dynoethi beiau yr Eglwys Sefydledig, a'r offeiriad mwyaf doniol. Y mae yn dwyn yr un cyhuddiad yn erbyn Ifan Brydydd Hir, a Goronwy Owain, ag a ddygir ganddo yn erbyn Rowlands. Y mae hefyd wedi rhoddi canmoliaeth wresog i amryw o'r Diwygwyr Methodistaidd. Ni fuasai neb yn dymuno ysgrifenu yn fwy parchus am Williams, Pant-y-celyn, Charles o'r Bala, a John Elias. Oddi-eithr y crybwylliad am Rowlands, ac ychydig froddegau eraill, y mae ei ysgrif y peth a allesid ddysgwyl oddiwrth Uchel-eglwyswr cydwybodol a charedig. Nid ydym yn cofio fod y "*Quarterly Review*," prif gyhoedd-

iad y Toriaid a'r Uchel-eglwyswyr, wedi rhoddi cymaint o ganmoliaeth erioed o'r blaen i un blaid o Ymneillduwyr.

Ond y mae ganddo un haeriad arall, yr hwn ni ddylai gael ei adael yn ddisylw; sef fod gweinidogion yr Ymneillduwyr dan anfantais i ddywedyd yn erbyn pechodau eu gwrandawyr, ac yn analluog i weinyddu dysgyblaeth yn fyddllawn, gan eu bod yn ymddibynu ar yr eglwysi am eu bywioliaeth. Gwelir yr un peth yn llyfrau Mr. Johnes a Syr Thomas Phillips; a chymernw'n y cyfle i roddi atebiad byr i'r tri ar unwaith.¹ Ynfydrwydd fyddai dadleu na ddichon i weinidog yr efengyl gyda'r Ymneillduwyr fod mewn profedigaeth o'r natur yma ar rai achlysuron. Ond pa le y ceir unrhyw sefyllfa heb ei phrofedigaethau? Onid ydyw ewyllys da a chyfeillgarwch, yn enwedig oddiwrth foneddigion, yn gymaint o fagl, os nad yn fwy felly, i ddnyn o feddwl coethedig, ag ydyw petrusder ynghylch cynnaliaeth? Ac onid yw llawer o weinidogion yr Eglwys Sefydledig mor ymddibynol ar eu huwchafiaid ag ydyw gweinidogion yr Ymneillduwyr ar eu heglwysi? Ond yn hytrach na thafu y cyhuddiad yn ol yn rhy ysgafn, gadewch i ni edrych arno yn bwyllog, a'i chwilio yn ddiuedd yn ngoleuni ffeithiau a rheswm. Yn gyntaf, dyger ef at faen-prawf y ffeithiau sydd yn wybyddus i bawb. A ydyw gweinidogion yr Eglwys Sefydledig yn dywedyd yn llymach yn erbyn pechodau eu gwrandawyr, ac yn gweinyddu dysgyblaeth burach, na gweinidogion yr Ymneillduwyr? Onid yw yr Ymneillduwyr yn cael eu beio am fod yn rhy fanwl ac yn rhy gyfyng? Ac onid yw y naill gyhuddiad yn gwrthbrofi y llall? Ond yn ail, os cymerwn reswm yn rheol i farnu, onid yw yn amlwg mai trwy ddywedyd y gwirionedd yn onest, a gweithredu yn union tuag at bawb, y mae gweinidog yr efengyl yn fwyaf tebyg o ennill parch a dylanwad parhaus mewn cymydogiaeth? A phe dygwyddai i ddiluw cyffredinol o amryfusedd ddyfod dros yr holl ardal, yr hyn nis gall fod ond anfynych, eto bydd cywirdeb y gweinidog yn sicrhau iddo dderbyniad croesawgar mewn lle arall.

Y mae awdur yr erthygl hon yn ein galw yn daer i ddychwelyd i fynwes yr Eglwys Sefydledig. Yr ydym yn derbyn y gwahoddiad yn yr un ysbryd ag y mae yntau yn ei roddi. Er ein bod dan anghenheidrwydd i dybied fod genym ni seiliau cryfach i'w alw ef a'i frodyr i ymuno â'r Ymneillduwyr, y mae yn hawdd i ni gredu fod ganddo resymau boddlonol i'w feddwl ei hun dros lle y mae, a'i fod yn barnu yn gydwybodol mai dyledswydd pawb yw cofseidio ei egwyddorion. Nid ydym yn rhyfeddu fod Eglwys Loegr yn sefyll mor uchel yn ei fryd. Y mae genym barch mawr ein hunain i rai o'i threfniadau, ac i lawer o'i gweinidogion. Y mae amryw o'i gweddiau yn ymddangos i ni mor agos at berffeithrwydd a dim a gyfansoddwyd erioed gan ddynion heb fod dan gyfarwyddyd ysbrydoliaeth ddwyfol: ac y mae yn rhaid i ni gyfaddef hefyd fod rhyw swyn i'n teimladau yn agwedd barchus yr addolwyr o fewn ei muriau. A dywedwn ymhellach ein bod mor awyddus am undeb a'r ysgrifenydd hwn ei hun. Ond pa fodd y mae cyrhaedd yr amcan hwn? Nid ydym

¹Y mae ysgrifenydd arall, yr hwn nid yw yn werth sylwi arno, oddieithr mewn nodiad ar waelod y ddalen, wedi dwyn yr un cyhuddiad yn erbyn y Methodistiaid yn benodol—un Downes, awdur y "*Welsh Decameron*." Mewn llythyr a ysgrifennodd i "*Blackwood's Magazine*," yn amser terfysg Rebecca, y mae yn dywedyd fod y Methodistiaid Calffaidd yn pleidio y terfysgwyr; ac fel prawf o hyny y mae yn rhoddi dyfyniadau helaeth allan o'r "Diwygiwr!"

yn gofyn i'r Eglwyswyr ymadael â'u hegwyddorion; ac ni ddylent hwythau ddysgwyl hyny oddiwrthym ninnau. Pan yn caniatäu y gallant hwy fod yn Eglwyswyr cydwobodol, dymunem iddynt ystyried fod y fath beth yn ddichonadwy ag Ymneillduwyr cydwobodol—dynion a wrthodent holl fanteision yr Eglwys Sefydledig, *er eu cynnyg iddynt*. Fe allai mai nid y rhai hyn yn fynych yw y rhai mwyaf eu dadwrdd: ond y maent wedi bod, ac y maent yn bod eto. Nid awn i ymofyn yn awr pa ochr sydd yn iawn. Y ffordd rwyddaf i ni ddyfod i benderfyniad ar hyn, yw trwy ymgymysgu mwy â'n gilydd, fel y caffom gyfleusdra i ddeall ein gilydd yn well. Os yw egwyddor yn rhwystro y naill i fyned drosodd yn llwyr at y llall, nid oes un egwyddor yn ein rhwystro i garu ein gilydd, ac i gydweithredu er lles cyffredinol ein cyd-ddynion. Pahan na ddaw yr holl Eglwyswyr ymlaen yn fwy calonog i bleidio Cymdeithas y Biblau? Dyma gymdeithas, yr hon nid yw yn cynnyg yr un gradd o fantais i'r Ymneilldŵr mwy nag i'r Eglwyswr. Y mae yr Eglwyswr yn hōni mai ei farn ef sydd agosaf i'r Bibl, a'r Ymneilldŵr yr un modd am ei farn yntau. Onid doethineb pob un gan hyny yw llafurio i daenu y Bibl pur, hyd yn nod pe na byddai dim yn ei olwg ond ennill pawb i'r un syniadau ag ef ei hun? Ond tebyg ydyw, y ciliai dybenion pleidgar o'r fath yma yn raddol, ac y llyncid hwy i fyny mewn teimladau mwy Cristionogol. Pe cydweithredem fwy, ni a adnabyddem ein gilydd yn well, ac ni a welem mai lled gyffelyb yw y natur ddynol yn mhawb, ac nad oes gwahaniaeth hanfodol rhwng gweithrediadau Ysbyrd Duw, y tufewn, a'r tuallan i'r Eglwys Sefydledig.

Caniatäer i ni alw sylw eto at un amcan arall, yr hwn sydd yn deilwng o gydweithrediad pawb, ac yn yr hwn y gallem oll ymuno heb wneuthur cam â'n hegwyddorion; sef yw hyny, un ysgol gyffredinol i'r Cymry, i roddi addysg drwyadl mewn ieithyddiaeth, rhifyddiaeth, ac athroniaeth, fel y byddo y Cymro yn meddu cystal manteision a'r Sais i gyrhaedd y grisiau uchaf mewn enwogrwydd a defnyddioldeb. Y mae sibrwd am hyn wedi bod er's rhai blyneddau. Gwyddom fod un cyfarfod wedi ei gynnal ar yr achos. Y mae y wlad yn addfed i dderbyn y cynnygiad. Pe b'ai un neu ychwaneg o bob plaid grefyddol yn cyduno i alw holl wladgarwyr Cymru at eu gilydd, i gydymgyngori, ac i ddechreu gweithredu, symudid y rhwystrau yn dra buan. Nis gwyddom am un achos paham na allai yr Eglwyswyr a'r Ymneillduwyr ymuno â'u gilydd yn y gwaith hwn. Nid yw yr ieithoedd a'r gwyddorion yn perthyn i'r naill blaid mwy na'r llall. Gallai yr Eglwys Sefydledig a phob enwad Ymneillduol roddi darlithoedd mewn duwinyddiaeth, ar wahan, i'r rhai a ddewisent eu gwrandaw; ond heb orfodi neb i broffesu nac i ddysgu dim yn groes i'w farn grefyddol ei hun. Dyma y cynnygiad: ac nid ydym yn credu nad oes digon o wladgarwch yn Nghymru i'w ddwyn i weithrediad. Un peth sydd yn ddiammheul—y mae yr amcan yn werth ymdrechu i'w gyrhaedd; ac y mae mor ddiammheul a hyny y cyrhaeddir ef os ymdrechir.

Y rhwystr mwyaf ar ffordd llwyddiant y cynllun hwn, fel pob un arall a fyddo yn amcanu at les y Dywysogaeth, yw ysbryd plaid. Yr hyn sydd eisieu yw mwy o awydd yn ein dynion blaenaf, arweinyddion y genedl, i wneyd daioni cyffredinol i'r wlad, ac nid i'w cyfundebau eu hunain yn unig; mwy o gariad at Gristionogion fel Cristionogion, ac at ddynion fel dynion; a phawb yn cydymdrechu i godi meibion a merched Cymru mewn gwybodaeth a moesoldeb, os nad mewn sefyllfa fydol, i fod yn dywysogion ac yn dywysogesau yn yr holl dir.

BETH A DDAW O'R AMAETHWYR?

Is, beth a ddaw o'r Amaethwyr? Dyna ofyniad y gofynion yn y dyddiau hyn. Ac y mae gofyniad neu ddau arall ynglŷn wrth ei gwt yn annatodol; megys, Beth a ddaw o'r masnachwyr? a pha beth a ddaw o'r trefdiannwyr? Er bychaned y mae llawer yn edrych ar yr amaethwr, y mae yr olaf yn hollol, a'r cyntaf i fesur helaeth, yn ymddibynu am eu lwyddiant ar ei lwyddiant ef.

Ond pwy a etyb yr ymfyniad pwysig? O ba le y ceir y doethawr dyfnddysg a rhyfeddol i gyfarwyddo ei ddad-ddyrysiad o'r benbleth a'r aflwydd sydd wedi gorddiwes y ffarmwr anffodiog? O! o Eisteddfod Rhuddlan, bid siwr. Onid yw y gwladgarwyr zelog, pa rai sydd yn llywodraethu achosion Eisteddfod Rhuddlan, wedi cynnyg gwobr o bum punt ar hugain am y traethawd goreu ar amaethyddiaeth ucheldir, a phum punt ar hugain am y traethawd goreu ar amaethyddiaeth yr iseldir, a'r traethodau i fod yn Gymraeg neu yn Saesoneg? Yn awr, nid rhaid i'r amaethwyr ond aros mewn amynedd nes y delo amser yr eisteddfod urddasol hon i ben, ac i'r beirniaid anweledig, yr *incognitos* mawreddig, traethu eu penderfyniad, pa un yw y traethawd goreu, ac i gyfeisteddfod gweithiol ddwyn y traethawd buddugol allan o'r wasg, ac hefyd, os dygwydda fod y traethawd hwnw yn yr iaith Saesoneg, i'r amaethwr uniaith ymhellach feddiannu ei hun mewn amynedd, nes y byddo wedi dysgu digon o Saesoneg i'w ddarllen; yna, yna fe gaiff oleuni ar ei helyntion, a diangfa o'i gyfyngderau, a buddugoliaeth ar y byd! Ai ê fe? gwyn fyd na byddai felly.

Ond i ddyweyd y gwir, nid oes genym ond ychydig ffydd yn y fath ddaioni i ddeilliaw o'r pwynt hwnw. Nid ydym yn gweled fod y mater wedi ei ddodi i lawr fel gwobr-destun gyda'r fath fanylwrwydd a chyfeiriad at amgylchiadau presennol, ag i roddi lle i ddysgwyl am ddim mwr hynod o bwrpasol. "Traethawd goreu ar Amaethyddiaeth;" beth yw hyn? Casgliad o sylwadau ar wahanol diroedd, cnydau, anifeiliaid, gwrteithiau, trafnidiau; ar ddysbyddiad (*drainio*), a gwthio, a llosgi, a dyfru, &c.; atolwg pa faint gwell fydd yr amaethwr er hyn yn amgylchiadau presennol y wlad hon? Y mae ardreth ei dyddyn wedi ei benu, a bwrw i bris y gwenith fod yn dair punt y chwarter, a bwrw hefyd iddo yntau ffarmio yn y dull goreu, a chodi y cnydau trymaf sydd alluadwy. Ond os yw pris y gwenith yn gorphwys yn ddwy bunt y chwarter, a wnaiff y traethawd ar y gelfyddyd o ffarmio wneyd y diffyg i fyny? Nid ydym am ddirmygu ymdrechion i chwaneu gwybodaeth amaethyddol, nac heb wybod fod llawer iawn o anghen am hyny; ond yr ydym yn meddwl mai nid yn y gelfyddyd o amaethu y mae gwendid mwyaf yr amaethwr yn y wlad hon yn y dyddiau hyn, eithr yn ei berthynas â threfniadau llywodraethol a chymdeithasol ei wlad. Yn awr, nid ydym ni am ysgrifenu ar y testun hwn, nac un testun arall i Eisteddfod Rhuddlan; canys nis gwyddom pwy fydd y beirniaid. A chan nad oes neb arall wedi rhoi un amnaid pa fodd y dysgwylid trin y pwne hwn, fe allai y gall yr ymgeiswyr gael amnaid neu ddau oddiwrth y sylwadau a ganlyn.

Pa beth a ddaw o'r amaethwyr? Y mae yn argoeli fel pe byddai raid i bawb o honom yn y wlad hon fyned tua'r gwaethaf yn fuan, oni ddaw

rhyw ymwared hynod. Ond y mae yn eglur mai yr amaethwyr sydd i fyned yn gyntaf. Ynhw, y cewri corffol, sydd i fod yn fyddingloddwyr (*pioneers*) tua dystryw. Gan hyny, y mae yn dra chymhwys i drafod eu helynt, ac ymofyn am bob cynnorthwy iddynt. Ac nid oes dim amser i gollu. O, mældai y mawrion, rhaid iddynt drin yn well; ac hefyd, os na ddaw pethau i'w lle yn ol, ac os na chawn ni brisiau da eto, yna yn mhen tipyn, ni a ostyngwn ein rhenti. Iê, ond attolwg pa fodd y mae yr amaethwr i fyw i aros i'r driniaeth well yma ddechreu cynnyrchu mwy, ac i'r prisiau mawr ddyfod yn ol? neu pa faint o'i eiddo a raid iddo ei gollu wrth aros? Yn wir, yr ydym yn teimlo tros yr amaethwyr hefyd; y maent yn dyweyd mai prawfgais (*experiment*) yw masnach rydd; ac y mae pawb yn cael lles mawr wrth y prawf, a'r amaethwr yn unig golled fawr. Pa reswm fod un math o bobl yn unig yn cael eu dirwasgu, er mwyn gwneyd treial er lles y cyfan? Byddwn yn gwrido dros anghyfiawnder y tir-feddiannwyr, yn enwedig y rhai a bleidient gynt ddyddymiad Deddfau yr Yd. Dylasant mewn cysondeb ostwng eu hardrethi yn ddioced, o'r hyn lleiaf tra y byddo y prawfgais ar droed, neu yn hytrach, tra y byddo pethau mewn ystad o symudiad neu gyfnewidiad trwyadl, a phethau heb lwyr ymgyfartalu. Ac os daw prisiau a phethau yn well eto, ni chwyna yr amaethwyr ddim am godi dipyn ar y rhenti yn ol. Ond y mae oedi cyfartalu y rhent a'r prisiau am flwyddyn yn anghyfiawnder ac yn ormes am flwyddyn.

Ond gan na wrendy yr uchelwyr ar reswm fel hyn, ysywaeth, ni a'i gadawn am enyd. Pa beth a ddywedwn wrth yr amaethwyr? Ni a ddywedwn wrthynt yn gyntaf ac yn benaf, Peidiwch byth a gweddio am gael Deddfau yr Yd yn ol. Mae anghyfiawnder gwreiddiol yn rhwym wrth y rhai hyny; ac am hyny, pe caech adferiad o honynt am enyd, fe ddychwelai dinystr arnynt yn fuan eto, mwy ofnadwy a disymwth; fe allai, er galan-asdra mwy i chwi neu eich plant. Nagê, gadawn hwynt yn ngwlad anghof mwy, rhag melldith Duw, yr hwn sydd yn nhŷ yr anghyfiawn; ac er y gall fod yn lled galed am dro dan gyfnewidiad goruchwyliaeth fel hon, eto, y mae yn ddiau y bydd bendith y Nef yn fuan yn dilyn dychweliad at uniondeb yn ein deddfau gwladol.

Ni bu erioed amser fel yr un presennol ar amaethyddiaeth ein gwlad; prisiau pob math o gynnyrch y tyddyn yn isel; yd, ac enllyn, a da byw, oll, yn isel ar yr un pryd, ac yn debyg o barhau felly. Pa beth a alluoga yr amaethydd i fyw ar hyn? Dim ond dau beth; chwanegu ei gynnyrch a lleihau ei draul; codi cynydau a thynu i lawr gostau. Rhaid i'r amaethwyr drin yn well. Ni oddef ein hamdden presennol i ni fanylu ar welliant celfyddydol amaethyddiaeth; ac yn wir, nid ydym yn meddwl mai dyna yw y prif ddiffyg, sef diffyg gwybodaeth i amaethu; eithr diffyg moddion sydd ar lawer. Y mae diffyg gwybodaeth, neu ddiffyg gofal mawr, ymhlith amaethwyr Cymru, a Lloegr hefyd o ran hyny. Y mae y newyddiadur galluog—y "*Times*"—wedi anfon allan ddyinion i edrych i mewn i ansawdd amaethyddiaeth yn Lloegr, ac y maent yn argraffu eu hadroddion o bryd i bryd. Yr ydym yn gweled oddiwrth y rhai hyny, nad yw y Saeson yn mharthau tufewnol y wlad, nemawr o flaen y Cymry o ran doethineb a threfnusrwydd amaethyddol. Y mae llawer o'u tyddynod hwythau, a'r beudai yn afler ac anniddos, a'r tomenydd gwrtaithe ar ochrau buarthau, yn y lle mwyaf cyflêus i'r haul sugno i fyny, ac i'r gwlaw olechi i lawr eu holl adnoddau rhinweddol; a'r da byw yn cael eu rhynu; a'r tir yd ei dra-yru,

ac felly ymlaen. Ond diffyg moddion cyfartal sydd ar lawer, ie, ar y rhan fwyaf o amaethwyr. Yr ydym yn credu mai prin wyth o bob deg o amaethwyr ein gwlad sydd yn meddu moddion arianol digonol i wneyd perffaith gyfiawnder â'u tyddynod. Er mwyn trin yn well, ni a annogem ein hamaethwyr i grynhoi eu moddion. Nid chwanelu "maes at faes," ond chwanelu moddion at faes, neu lleihau y maes at y moddion. Y mae deg erw gyda deugain punt i'w ystocio a'i drin, yn sicr o ateb yn ddengwaith gwell nag ugain erw gydag ugain punt o foddion i'w drin. Bron na ddywedem mai gwell a fyddai i dyddynwyr o eiddo bychan beidio cymeryd cymaint o dir ag a wnai yn anghenrheidiol talu cyflogau. Y mae hi yn awr i'r cyfryw yn llythrenol,

"Yr hwn wrth yr aradr a fyno ffynu,
Rhaid iddo ei hunan ddal neu yru."

Gwyn fyd nad ellid planu mwy o ysbryd anturiaethus yn ein hamaethwyr. Y mae y masnachwr yn fywiog ac yn llygadog, yn teithio yma a thraw i chwilio am y lle goreu i brynu nwyddau a'r lle goreu i'w gwerthu. Felly i raddau y gallai y tyddynwr lesáu ei hun. Nid boddloni i fodoli fel llysieuyn yn ei unfan, heb wybod am ddim ond ei dyddyn a'r farchnad nesaf ato, ond ymofyn o ba le y ceir yr had a'r da byw goreu, ac a oes gwrtaith i'w brynu yn well neu ratach nag y gall ef ei wneyd gartref, a pha gnyddau sydd fwyaf marchnadol, a chyffelyb hysbysiadau. Nid oes modd rhoddi rheolau perffaith yn yr holl bethau hyn; ond dyn bywiog a wel ac drefna yn ol ei amgylchiadau ei hun. Ac y mae manteision mawrion iawn i'r ysbryd masnachol hwn mewn amaethwyr, rhagor a fu; canys y mae y ffyrdd heiyrn wedi dwyn marchnadoedd pellaf a goreu y wlad yn agos hyd yn nod i Gymru; a gall y tyddynwr gael o bell neu gludo i bell y nwyddau sydd ganddo i'w gwerthu. Gallai, o herwydd hyn, fod yn well i lawer amaethwr brynu llawer o wrtaith celfyddydol; a gallai fod yn well iddo ddefnyddio ei yd i besgi anifeiliaid i'w hanfon i'r farchnad oreu na gwerthu ei yd yn y farchnad nesaf; a gallai y byddai yn well iddo dyfu cnydau gleision, a'u hanfon i farchnadoedd mawrion na thyfu yd. Ymgenied yr amaethwr i ymgyfaddasu i, ac i fanteisio ar ei gyfleusderau newyddion, ac nid i lynu yn ddiysgog wrth yr hen ddull er ystalm, "fel y gwelodd ei dad yn gwneyd," yn unig.

Rhaid i amaethwyr leihau eu treuliadau hefyd i gyfarfod â'r amserau hyn. Nid ydym yn meddwl yn wir y gall amaethwyr Cymru, yn y cyffredin, leihau llawer ar eu costau personol: y maent, at eu gilydd, yn byw yn ddigon caled. Galleml feddwl y gallai cyflogau ddyfod ychydig i lawr fel y daw pob anghenrheidiau bywyd yn gymaint rhatach. Mewn un sir yn nghanol Lloegr, ni a welsom fod yr amaethwyr wedi ymgynghreirio ynghyd i dynu i lawr brisiau y gôf, a'r cyfrwywr, a'r crydd, a'r saer, oddeutu un rhan o dair; ac yn wir, rhaid i ni addef nad oeddyd yn gwled dim yn annheg yn eu gwaith.

Fe gytuna holl amaethwyr y wlad â'r sylw nesaf, sef, Mae yn rhaid i'r rhenti ddyfod i lawr. Rhaid: ond os yw ein hamaethwyr am i hyny gymeryd lle yn fuan, rhaid iddynt hwy ddysgu llawer iawn mwy o annibyniaeth meddwl ac o gydweithrediad unol â'u gilydd. O! y fath fwgan yw meistri tir i'r ffermwyr! O! y fath rai anwrol, gwan-galon, yw yr amaethwyr yn gyffredin o flaen yr uchelwyr! Ni a wyddom am dyrfa o

amaethwyr, oll o dan yr un meist'r tir, pa rai a ymgyfarfuasant ynghyd ychydig amser yn ol, i ystyried pa beth a wnaent er mwyn gwneuthur cais am gael gostwng ychydig ar eu rhenti. Fe benderfynasant anfon erfyniad ysgrifenedig at y gŵr mawr, ac i roddi eu henwau oll wrtho. Ysgrifenydd yr erfyniad. Yr oedd yn gosod allan eu bod oll mewn dygn brofedigaeth, ac nad allent yn hir gyfarfod â'r gofynion arnynt os na chyfnewidid eu hamgylchiadau; fod prisiau pob cynnyrch amaethyddol yn un rhan o dair is nag yr oeddynt pan gymerasant eu fiermydd; ac hefyd eu treuliadau, mewn trethi, &c., yn un rhan o dair mwy nag yr oeddynt y pryd hwnw; eu bod gan hyn yn barchus yn erfyn arno i ostwng ychydig ar eu rhenti; ac os deuai amserau yn well, y byddent yn eithaf boddlawn iddo eu codi eil-waith. Wedi darllen yr ysgrif a'i chymeradwyo, aed ynghyd â'r gwaith o'i thanysgrifio; ond yma fe gododd anhawsder mawr. Oeh o fi, nid oedd yr un o'r holl dyddynwyr heinig hyn yn ddigon gwrol i roddi *ei enw i lawr yn gyntaf*, rhag ofn i'r meist'r tir feddwl mai efe oedd blaenor y gwrthryfelwyr. Ar ol hir drafod, fe ddyfeisiwyd llwybr tra chywraint i fyned trwy y cyfyngder mawr hwn. Dyna oedd—iddynt dansgrifio eu henwau yn "*round robin*," neu yn gylech crwn, o dan yr ysgrif, yna nis gallai y meist'r tir ddyweyd pa un oedd y cyntaf na'r olaf i danysgrifio. Wele, wedi myned trwy y cyfan i foddlondeb fel hyna, aethant ynghyd i balas y gŵr boneddig. Anfonasant yr erfyniad i mewn, ac arosasant yn y cyntedd nesaf allan i ddysgwyl atebiad. Cawsant aros yma oddeutu tair awr heb un genadwri atynt. O'r diwedd, hwy a ymwrolasant i anfon cenad i ofyn i'r gŵr mawr a oedd dim ateb; a chawsant eu gwysio i'w bresenoldeb. Ymosododd arnynt yn aruthrol am iddynt danysgrifio ar gylech felly; bron nad oedd fel yn tybied eu bod am drin rhyw ddewiniaeth arno, ac nid oedd yn deall eu cabalistiaeth. Yna ymosododd ar un gŵr ag yr oedd ei dyddyn yn dygwydd bod wedi ei osod yn lled resymol—yn is yn ol yr herwydd na neb o'r lleill; tywalltodd ei ddialedd yn ffrwd ar y truan hwnw; ac yn y diwedd, gollyngwyd yr holl gymdeithion ymaith heb fawr o gysur. Aethant adref yn lled ddigalon, â'u cynffonau rhwng eu traed. Ond dalier sylw; fe atebodd y tro y dyben; pwyllodd ac ystyriodd y meist'r tir, ac aeth yn ebrwydd yn bur barod i wneyd pob cyfleusderau i'w denantiaid; ac yn y diwrnod rhent nesaf, fe ostyngodd eu rhent ddeg punt y cant, a rhai fwy na hyn.

Pe gellid dysgu amaethwyr i gydweithredu, buan y caent gyflawnder. Os na wnai cyderfyn beri i'r tir-feddiannydd wrandaw ar eu cais, yr ydym yn tybied pe byddai i'r holl dir-ddeiliaid roi rhybudd ymadael ar yr un dydd, y dygai hynny ef i bwynt. O'r hyn lleiaf, byddai mwy o annibyniaeth a chydgordiad yn help mawr i amaethwyr yn y mater hwn. Nid oes dim achos rhoddi mwy na'i wir werth am dir mwy nag am ryw nwydd arall. Ac os byddai i ambell un golli ei dyddyn, byddai yn well i dyddynwyr glybio â'u gilydd i gynnal y fath un am flwyddyn neu ddwy, na bod ymrhyon, wrth yr ugain, am dyddyn a elo yn wag. Mae yn rhaid cael trethi i lawr. Yr ydym yn gwaeddi am dynu costau y deyrnas i lawr trwy y senedd, ac yn gadael llawer o wastraff yn ein siroedd a'n plwyfydd ein hunain, heb edrych iddo nac ymdrechu yn ei erbyn. Fe ddylai yr amaethwyr fynychu y *vestry* yn y dyddiau celyd hyn, ac edrych am gadw treth y tlodion, a'r dreth-eglwys, a threth y ffordd fawr, a threth cwnstabiliaid o fewn terfynau cynnaldeb. A diolch i fasnach rydd, fe geir help y gwŷr

mawr i hyn yn awr. Mae y meistr am helpio y tenant i dynu y dreth i lawr er mwyn cael cadw y rhent i fyny dipyn. Mewn ambell i gyfarfod plwyfol yn y dyddiau rhyfedd hyn, fe geir gweled Uchel-eglwysydd ac Uchel-ymneilldŵr wedi cyduno i dynu y trethi i lawr—toriaid a radicaliaid wedi cydgyfarfod, ac oll yn ddiwygwyr, neu yn gynnwylwyr beth bynag. "*Bravo, Free Trade.*" Peidied yr amaethwyr a gadael i bob math o ddynion gael eu gosod yn *guardians* yn Mwrdd yr Undeb. Y mae llogellau y gwahanol blwyfydd yn yr Undeb i raddau helaeth iawn dan lywyddiaeth y gwŷr hyn. Ond cael gwarcheidwad gofalus a deallus, y mae yn hynod os na ddaw trethi y tlodion i lawr i ganlyn prisiau bwydydd. Na phleidleisied yr amaethwyr byth am ŵr i lanw y swydd hon nad oes ganddynt berffaith ymddiried ynddo. Treuliadau sirol ydynt bwysau sydd yn llai o tan ddylanwad uniongyrchol yr amaethwyr eu hunain. Y mae y costau hyn dan lywyddiad yr ustusiaid heddwch; ac y mae yn ymddangos i ni yn beth annheg. Gan fod yr ustusiaid hyn yn gwario arian y trigolion yn gyffredin, paham na cheid eu dewis hwythau trwy etholiad yr un fath a seneddwyr, gwarchodwyr y tlodion, &c.? Ond gan mai fel hyn y mae, nid oes dim i'w wneyd ond gwylio yn fanwl ar eu gweithrediadau, a'u trafod a'u beirniadu yn ddibaid. Y mae un gobraith i'r amaethydd yma: gan fod llawer o'r ustusiaid hyn yn dir-feddiannwyr, fe allai yr arbedant bob gwastraff bellach er mwyn ysgafnhau eu tenantiaid, a rhag ofn cyffwrdd â'r ardreth yn y pen draw. Y mae costau cyffredin y llywodraeth yn rhwym o gael eu lleihau, ac y mae i'r amaethwyr lais arbenig yn hyn. Rhaid i bob segur-swyddau ddiflanu. Pa reswm fod cannoedd o ffermwyr yn talu yn ddrud *am gael llafurio*, ac ugeiniau yn cael tâl mawr am ddiogi? Y naill yn methu byw er llafurio yn galed, ac o'i brinder yn gorfod cynnal y llall i fyw yn foethus heb lafurio dim! A chwareu teg i'r tir-feddiannwyr; yr ydym yn methu gweled pa achos iddynt hwy gael cwtogi eu cyllid o herwydd cyfnewidiad cyfreithiau y wlad, heb i gyllidau o bob natur gael eu cyfartalu. Os bydd prisiau anghenrheidiau bywyd yn un rhan o bedair is nag y buont, y mae pymtheg swllt yn myned mor bell ag yr âi punt o'r blaen. Os rhaid i'r tir-feddiannydd roddi i fyny bum' punt ar hugain y cant o'i rent blyneddol, paham nad allai yr arian-feddiannydd roi i fyny bum' punt ar hugain y cant o'i lôg, a phaham nad allai pob swyddog yn y deyrnas, o wŷr y llys i wŷr y *poor-house*, roddi i fyny bum' punt ar hugain y cant o'u cyflogau? Dyna y ffordd mewn gwlad Gristionogol, "cyd-ddyoddef;" ond yn wir, ni byddai dyoddef fel yna; byddai pob peth fel o'r blaen, a gwell hefyd. Yn awr, amaethwyr, edrychwch at eich pleidleisiau; nac arweinier chwi fel anifeiliaid i'r etholiad seneddol; mynwech ddewis dynion a fyddo yn deall masnach ac amgylechiadau y wlad, ac yn ddynion gonest i'w gweinyddu. Pa achos ofni meistr tir mwy? Ni waeth i chwi gael eich troi o'r tyddyn ar unwaith, na myned o hono bob yn fodfedd trwy waethygu yn eich amgylechiadau bob blwyddyn.

"Ond yr hen ddegwm yna," meddai rhyw amaethwr cydwybodol, "beth wneir i hwnw?" Wel, y mae yn bur debyg fod hwnw wedi ei ddedfrydu. "Yr hwnw y mae y duwiau am ei ddinystrio," meddai yr hen Rufeiniaid, "yn gyntaf hwy a'u hynfyntant." Y mae y degwm wedi myned yn ynfyd o annheg ar ol y cyfnewidiad arno. Pa reswm talu degwm ar yd yn ol prisiau blyneddau drudion Deddfau yr Yd, dan brisiau isel marchnad

rydd? Gwir y daw hyn i'w lle yn mhen blyneddau, ond gan fod gris anghyffredin mewn prisiau yn y symudiad o'r naill drefn i'r llall, onid tég a fuasai gris anghyffredin yn mhrisiau y degwm i gyfartalu i hyny? Ac os defnyddir y tir i wneyd ffordd haiarn, neu i adeiladu arno, rhaid talu degwm am hwnw, heb dyfu gronyn; canys y mae y degwm wedi ei gyfnewid yn ddogndal sefydlog! Nid oes galwad arnom yn y lle hwn i ymyraeth â dadl y degwm; ond pe caniatëid mai annichonadwy ar hyn o bryd fyddai ei ddyddymu yn hollol, byddai llawer amaethwr mewn tymher led foddllawn pe gwneid dim ond adferu y degwm i'w ddyben cyntefig. Cafodd ei fwriadu ar y cyntaf, a'i neillduo gan ei hen sylfaenwyr, i adeiladu a chynnal eglwysi—i gynnal yr offeiriad gweithgar—ac i gynnorthwyo y tlodion. Wele, adferer y degwm i'w hen drefn, a dyna gam da tuag at ddwyn pethau i'w lle yn mysg yr amaethwyr. Cyfiawnder ac nid trugaredd a ofynir genym.

Gan hwyll, amaethwyr Cymru, ni ddaeth y diwedd eto. Os oes genych foddion i sefyll ychydig flyneddau eto, ac os ydych yn foddllawn i aberthu rhywfaint er mwyn aros yn eich gwlad, meddiennwch eich hunain mewn amynedd. Fe ddaw eto haul ar fryn. Ond os nad ellwch, ar ol bwrw y draul, sefyll y prawf, wele, y mae tir lawer heb ei feddiannu yn yr America draw: tir dirent, didreth, diddegwm, ac yn ymlenwi bob blwyddyn o gymdeithas Gymreig ac efengyl Gymreig. Y mae ar ein tiffeddiannwyr ofn America. Y maent, ni a wyddom, yn dirion iawn wrth ambell i dirdeiliad sydd â pherthynasau iddo wedi myned dros Fôr y Werydd. Y mae masnach rydd, a'r America, fel Baalsephon a Pihahiroth, yn gwasgu ar yr uchelwyr o bob tu, a'r Aiphtiaid—nagê, nid yr Aiphtiaid—ond yr Iuddewon arianog o'r tu ol iddynt; fe ä y segur-swyddau a'r gormesau eraill a nodwyd, i'r môr yn ddilyn; ac y mae rhai yn ofni yr ä y bendefigaeth i'w canlyn oni ollyngant eu gafael yn fuan ynddynt. Ond ein gobaith ni ydyw, y cânt ddoethineb i weled y perygl mewn pryd, ac y gwelir gwreng a boneddig eto yn cydgyfarfod ac yn cydfyw yn Mhrydain mewn llawnder a heddwch.

NODIADAU AR LYFRAU.

Commentaries on the Epistle of Paul the Apostle to the Romans. By JOHN CALVIN. Translated and edited by the Rev. JOHN OWEN, Vicar of Thrussington, Leicestershire. Edinburgh: printed for the Calvin Translation Society. 1849.

BETH bynag yw barnau ein gwahanol ddarllenwyr am olygiadau duwinyddol Calfin, os ydynt yn ddynion diragfarn, ac os ydynt yn grdnabyddus â'i ysgrifeniadau, mae yn rhaid iddynt addef ei fod ef yn un o dywysogion yr esbonwyr. Dyma dystiolaeth unfrydol y gwyr dysgedicaf yn Lloegr, ac America, ac ar y Cyfandir. Un peth sydd yn ei hynodi yw ei onestrwydd. Nid yw un amser yn gwyrdroi yr ysgrythyr i bleidio ei gyfundraeth ef ei hun. Ei amcan parhaus yw cael allan feddwl llythrenol a naturiol pob adnod. Y mae yn gommedd cymeryd mantais o lawer ymadrodd a ddefnyddir gan eraill i bleidio Calfiniaeth. Y mae yn cyfarfod pob anhawdsder yn deg, ac yn ei egluro yn ddiwyll. Nid yw yn gadael yr ystyr er mwyn dilyn rhyw hudlewyn. Mae y nodweddiad "*judicious*" mor briodol iddo ef ag i Hooker, yr hyn sydd fwy nag a ellir ei

ddywyed am lawer o'i ganlynwyr. Byddai yn lles mawr i Galfnistiaid Cymru pe darlennen fwy ar ysgrifeniadau Calfin.

Y gyfrol hon a gyfieithwyd o'r Lladin gan ein cydwladwr, y Parch. John Owen; yr hwn sydd hefyd wedi ychwanegu nodiadau lliosog ar waelod y ddalen. Mae y nodiadau hyn yn dangos llafur mawr, dysgeidiaeth helaeth, a chwaeth goethedig. Ceir ynddynt gyflawnder cyfrdo o feirniadaeth wedi ei gasglu o waith yr holl esbonwyr hen a diweddar. Mae yn amlwg fod Mr. Owen wedi yfed yn helaeth o ysbyrd y duwinydd enwog o'r un enw; a'i fod wedi cymdeithasu llawer â'r awdwr goreu yn mysg yr hen Ddiwygwyr.

Mae y "*Calvin Translation Society*" erbyn hyn wedi cyhoeddi wyth ar hugain o gyfrolau o waith Diwygiwr Genefa. Ni fu erioed lyfrau rhatach, ac nid yn fynych y ceir argraffwaith mwy ysplenydd. Beth yw yr achos na b'ai Calfnistiaid Cymru yn rhoddi mwy o gefnogaeth i'r anturiaeth? Pe byddai yr eglwysi yn cyfiwyno y llyfrau hyn yn anrheg i'w pregethwyr, ni fyddai y gost yn ddim mwy nag a dreulir ar lawer addoldy mewn addurniadau afreidiol. Ond credu yr ydym mai nid anmharoddrwydd yw yr achos. Nid yw yr eglwysi yn gyffredin yn gwybod am un llwybr hyrwydd tuag at eu cael. Nid oes dim yn eisieu ond i ryw ddyd cyfrifol yn mhob sir ymaflyd yn y gorchwyl.

Yr Eosig; sef Casgliad bychan o Ganiadau crefyddol, moesol, ac ysgrythyrol, wedi eu cyfansoddi ar gyfer amryw o'r hen Dônau Cymreig, at wasanaeth Ieuencyd y Dywysogaeth. Gan JOHN RHYS JONES, Aelod o'r Athrofa Gymreig, Llanymddyfri.

NID oes dim yn rhoddi i ni fwy o foddhad, na gweled dynion ieuainc athrylithgar yn cyfiwyno eu doniau a'u dysg i buro archwaeth y Cymry mewn llenyddiaeth a moesoldeb; tra na byddont yn amddifaid o'r gostyngeiddrwydd a'r gwyllder sydd yn gweddu iddynt. Yn hytrach na'u dirmygu, yr ydym yn teimlo serch mawr tuag atynt; a dichon ein bod, weithiau, oddiar awydd i'w cefnogi, wedi rhoddi mwy o ganmoliaeth i rai o honynt nag a haeddent. Ond gwell genym gyfeiliorni yr ochr hono, na bod yn euog o labyddio gobeithion y galon ieuanc. O'r dosbarth hwn, ac yn bendifaddeu o blith yr efrydwr sydd yn y gwahanol ysgolion, yr ydym yn dysgwyl am olynwyr i'r enwogion a fu yn offerynol i godi Cymru i'r agwedd sydd arni; a hyderwn yn gryf fod rhai o honynt yn Athrofa Llanymddyfri. Y teimladau hyn a barent i ni edrych yn siriol ar yr "Eosig" pan ddaeth i ymweled â ni ryw foreu yn ein llyfrgell. Yr oedd ei golwg llednais a dirodres yn creu tueddgarwch o'i phlaid yn y fan. Y geiriau "Eosig, sef Casgliad bychan," a'n hargyhoeddent nad oedd am hōni mwy o deilyngdod nag oedd yn perthyn iddi. Ac wrth wrandaw ar ei llais ni chawsom ein siomi. Dyben yr awdur yw yspeilio yr Aiphtiaid, trwy ddwyn yr hen dōnau Cymreig o feddiant y meddwon a'r masweddwyr, i fod yn wasanaethgar i grefydd a moesoldeb. Y mae wedi cymeryd un ar bymtheg o honynt, ac wedi cyfansoddi pennillion crefyddol i ateb i'r gerddoriaeth. Wrth ystyried oedran yr awdur, y maent oll yn hynod ddestlus: a gobeithiwn nad ydynt ond ernes o lawer cyfansoddiad mwy awenyddol eto a dderbynir oddiwrtho mewn amser dyfodol.

A gawn ni roddi awgrym i'r gwladgarwyr dirwestol sydd mor effro gyda'r canu mewn rhai manau, y byddai yn dda pe desnyddient fwy ar yr hen dōnau Cymreig? Ein dymuniad am eu llwyddiant sydd yn peri i ni ddywedyd hyn. Y mae ein heiddigedd dros foesoldeb y genedl yn ein rhwymo i gymeradwyo egwyddorion dirwest: ac nis gwyddom am foddion mwy effeithiol i gynnorthwyo y diwygiad dirwestol, na throï y canu o'i blaid, os gwneir hynny mewn ysbyrd crefyddol. Ond nid yw y *canu gwyllt* yn naturiol i'r Cymry; ac nid hwn ychwaith yw y goreu mewn un wlad arall. Y tōnau mwyaf mwynaid a syml sydd yn cyrhaedd y galon; yn enwedig pan genir hwynt yn yr hen ddull toddedig Cymreigaidd: a hwn yw y canu a hoffir ac a arferir gan y rhai sydd fwyaf campus yn y gelfyddyd gerddorawl.

Education for the Welsh. In letters to William Williams, Esq. (late M.P. for Coventry), and the Most Honorable the Marquis of Lansdowne, Lord President of Her Majesty's Council. By E. GIBBON SALISBURY. London: Arthur Hall and Co., 25, Paternoster Row.

YSGRIFENWYD y llythrau uchod yn nghanol gwres y ddadl fawr ar Addysgiaeth yn Nghymru. Maent yn cynnwys profion eglur a diymwad o alluoedd meddyliol a chyfansoddawl yr awdur, ac y maent wedi cael eu gwisgo mewn iaith rymus a detholedig. Profant hefyd nad oedd, ac nad oes ar eu hysgrifenydd ddim y mesur lleiaf o ofn dweyd ei feddwl am, ac wrth ei gydwladwyr.

Nid ein dyben wrth alw sylw at y llythrau uchod ydyw cyhoeddi ein cymeradwyaeth na'n hanghymeradwyaeth o'u cynnwysiad, nac yn wir feirniadu arnynt mewn un modd; ond yn hytrach osod ger bron ein darllenwyr ychydig o hanes Mr. Salisbury ei hun, gan y meddyliwn y gweinydda hyny yn llawn crystal a dim arall fel swmbwl i drigolion y Dywysogaeth i roddi ysgol dda i'w plant.

Yr ydym am osod o flaen pobl y Dywysogaeth, o bryd i bryd, anghreiffiau o gynnyrchion addysgiaeth, gan y tybiwn yr atebant well dyben er cyrhaedd y nod y cyrchwn ato na hanner cant o draethodau.

Yn ol yr hanes ag ydym wedi gael am Mr. Salisbury, ymddengys ei fod yr hynaf o deulu lliosog o fechgyn, ac iddo gael ei ddwyn i fyny yn Bagillt, yn swydd Fflint. Derbyniodd yn ei ienenctid addysg fasnachol go dda, ac ar ol gweini mewn siop a gedwid gan ewythr iddo, symudodd pan oddeutu ugain oed, ac o gylch y flwyddyn 1840, i Liverpool, lle cafodd sefyllfa mewn cyfrifdy (*counting-house*) cyfaill iddo. Ar ol aros rhyw gymaint o amser yn y sefyllfa hon, dyrchafwyd ef i un uwch a mwy ei gwobr mewn lle arall yn y dref. Fel dyn a'i "lygaid yn ei ben" edrychodd o'i gwmpas, a gwnaeth ddefnydd da a diwyd o'r cyfleusderau dyddiol oedd ganddo i gyrhaedd gwybodaeth ymarferol o egwyddorion ac arferiadau masnachaeth, yn gystal ag i ffurfio cydnabyddiaeth personol â marsiantwyr a masnachwyr Liverpool. Cynnyrchodd hyn eilwaith ddyrchafiad, a chymerwyd ef i arolygu a dwyn ymlaen orchwyllion masnachol un o'r anturiaethwyr mwyaf yn y deyrnas, yr hwn sydd yn bresennol yn aelod seneddol dros un o fwrdeisdrefi swydd Stafford. Trwy y boneddig uchod, daeth yn adnabyddus â S. C. Hall, Ysw., golygydd yr "*Art Union Journal*," cylchrediad yr hwn sydd yn llawer o floedd yn y deyrnas gyfunol, ac yn Unol Daleithiau America. Mae Mr. Salisbury yn bresennol yn un o ran-feddiannwyr y cyhoeddiad uchod, ac y mae newydd fyned i'r Deml fel cyfraith-fyfyriwr (*law-student*), a'i fwrriad ydyw parotöi ei hun er bod yn bleidiwr (*barrister at law*).

Oblegid y manteision mae Mr. Salisbury ei hun wedi ac yn fwynhau fel ffwrwthau addysg; y mae efe mor awyddus am i'w gydwladwyr gael addysg sylweddol a da; ac oblegid y creda nas gallant ei chyrrhaedd heb gymhorth oddiallan, y mae am i'r llywodraeth estyn y cymhorth hwnw. Felly y barna Mr. Salisbury, ac felly y cyhoedda ei farn. Mae ganddo gyflawn hawl i gyhoeddi y dyb mae wedi ffurfio, a chystal hawl a hyny gan ein darllenwyr i gyduno â'r dyb hōno, neu i wahaniaethu oddiwrthi.

Mae yn dda genym nad ydyw Mr. Salisbury, fel llawer o'r Cymry, am anghofio ei wlad a'i genedl wedi croesi Clawdd Offa. Credu yr ydym y dylai y Cymry ag sydd yn trigo yn Lloegr deimlo llawer mwy nag y maent dros eu gwlad, ac y gallent, pe dewisent, wneuthur llawer mwy drosti. Yr ydym yn diolch i Mr. Salisbury am amlygiad o'i ewyllys da i'w genedl, er mewn ffordd nad ydyw gymeradwy gan niferi lliosog o'n cydwladwyr.

Bedd Gwŷr Duw. Darlith a draddodwyd yn Eglwys Abergwili, dydd Mercher y 17eg o Hydref, 1849, ar yr achlysur o godi gwyddfaen coffadwriaeth, am y Gwŷr Barchedig Dad yn Nwv, Richard Davies, D.D. Esgob Tŷ Ddewi. Gan J. JONES, A.M. (Tegid).

Pa un ai y Pabyddion ai y Cymry sydd agosaf i'w lle. Os ydynt hwy yn talu parch gormodol i'r Tadau, hwyrach y gellid cael rhesymau cryfion i brofi nad yw eu hymddygiad hwy yn llawer gwaeth na'r dirmyg cyffredin a ddangosir yn

Nghymru i goffadwriaeth y dynion goreu a godwyd yn ein gwlad. Un o honynt oedd yr Esgob Davies. Efe a gyfieithodd amryw lyfrau o'r Testament Newydd a gyhoeddwyd yn 1667, gan William Salesbury; ac efe a ysgrifennodd yr Anerchiad penigamp at y Cymry yn ei ddechreu. Rhoddwyd ei weddillion marwol i orphwys yn Abergwili, yn eglwys y plwyf, yn unol â'i ddymuniaid yn ei lythyr cymun. Ond ar ei feddrawd nid oes ond llechfaen gyffredin â'i enw ef arni, a dim ond ei enw, ynghyd â'r flwyddyn y claddesid ef, sef 1681. Ond yn yr Hydref diweddaf, gosodwyd gwyddfaen o faen marmor gwynlliw drudfawr uwch ben ei fedd, er coffadwriaeth barchus am dano, gan y Dr. Thirlwall, esgob Tyddewi: a dewiswyd Tegid i bregethu ar yr achlysur. Nid hawdd fuasai cael neb mwy cyfaddas. Y mae enw Tegid yn gysylltiedig anwahanol â llenyddiaeth y Cymry; ac nid yw y llyfr bychan hwn yn debyg o leihau dim ar ei glod. Bedd gwr Duw! Mynych y cymarwyd gwaelach pwnc yn destun pregeth; ac mor fynych a hyny y cyfansoddwyd gwaelach pregeth ar uwch destun.

Yr ydym yn rhoddi un dyfyniad fel anghraifft o'r llyfr, ac fel darn dyddorol o hanesiaeth:—

“Henfych well, gan hyny, i'r diwrnod¹ hwnw yn yr hwn y cyhoeddwyd y Testament Newydd y waith gyntaf yn Gymraeg.

Ac am y Testament Newydd hwnw, adroddaf yma ychydig hanes. Adwaenir y Testament yn gyffredin trwy y wlad wrth yr enw “*Testament William Salesbury*,” a'r rheswm paham y gelwir ef felly ydyw, oblegid mai efe, William Salesbury, a gyfieithodd y rhan fwyaf o hono. Y rhanau ni chyfieithwyd ganddo ef a gyfieithwyd gan yr Esgob Richard Davies; a Thomas Huett, Prifgantawr Eglwys Gadeiriol Tŷ Dewi. Y rhanau a gyfieithwyd gan yr Esgob ydynt Epistol *cyntaf* yr Apostol Paul at Timotheus, —yr Epistol at yr Hebreaid,—Epistol Iago yr Apostol. Y rhan a gyfieithwyd gan Thomas Huett, ydyw y Datguddiad.

Megys yn rhagymadrawdd i'r Testament, y mae llythyr at y Cymry o ysgrifeniad yr Esgob Davies. A'r llythyr da a chynnwysafwr hwn a fu yn brintiedig lawer gwaith, er pan yr argraffwyd ef gyntaf. Ac yn nghorff y bregeth hon, oblegid ei ragoroldeb hanesawl ac athrawiaethawl, caf dynu eich sylw ato fwy noc unwaith.

Dau wr o wlad *Gwynedd*, neu Ogledd Cymru, oedd yr Esgob, a William Salesbury; a chymmydigion hefyd oeddent, yn byw yn lled agos i'w gilydd o barth eu lleoedd genedigawl. Dau Gymro oeddent yn caru gweithiaw; rhai oeddent na fynent fod yn segur; ac er eu clod gellir dywedyd, mai dau Gymro hefyd oeddent yn ymdrechu yn unfryd, ac yn cydlafuriaw yn brysur, er taenu crefydd gair *Duw* yn mysg eu cydwladwyr, y rhai oeddent weithion yn gaethion yn ngefynau Pabyddiaeth. Yr un galon a'r un enaid a feddent, a'r un dymuniad hefyd, o barth gwneuthur daioni i'r Cymry; a chredu yr wyf mai dynion oeddent a godwyd gan *Dduw* i fod o fendith i'r wlad. Mae eu henwau hyd heddyw, megys enaint gwerthfawr, yn perarogli yr holl dir, mál y gellir dywedyd mewn cyfeiriad at y ddau, y bydd cof am danynt tra Chymro yn Gymro, a chrefydd bur yn Nghymru. Canys trwy eu dyageidiaeth hwynt, a'u llafur hwynt, y cawsom ni y Testament Newydd yn ein iaith.

Mae yn ofynawl i mi yma ddywedyd, er mai y Testament hwn yw y Testament Newydd cyntaf yn argraffedig yn ein iaith, mai nid hwn; a chyda llawenydd calon yr wyf yn dywedyd, mai nid hwn oedd y cyfieithiad cyntaf o'r Testament Newydd i'r Gymraeg. Yr oedd gan y Cymry, oesoedd lawer cyn geni William Salesbury, a'r Esgob Davies, yr Ysgrhythrau Santaidd yn eu hiaith eu hunain; er, efallai, nid yr oll o honynt yn un llyfr, eto rhanau helaeth o honynt ar wahan. Dywed yr Esgob yn ei llythyr ddarod iddo ef, pan yn fachgen, weled yn nhŷ ewythr iddo Bum Llyfr Moses yn Gymraeg.”

Meddyginiaeth y Nef rhag Melldith Llafur; neu fanteision tymmorol y Sabboth yn ei berthynas â'r Dosbarth Gweithiol. Gan JOHN ALLAN QUINTON.

Wedi ei gyfieithu i'r Gymraeg gan Weithiwr Cyffredin. Liverpool: Elias Jones. *Perl y Dyddiau: neu fanteision Sabboth i'r Dosbeirth Gweithiol.* Gan Ferch i Lafurwr. Gyda Brasddarluniau o Ffynyd yr *Awdures*. Cyflwynedig trwy ganatad penodol i'r *Frenines*. Llundain: Partridge ac Oakey.

Y MAE yn hysbys i'n holl ddarllenwyr, mae yn debyg, am yr achlysur o ysgrifenu y traethodau uchod. Tua diwedd y flwyddyn 1847, y boneddwr enwog

¹ Hydref 7fed, 1667.

hwnw am ei deimlad crïstionogol, a'i haelloni crefyddol, John Henderson, Ysw., Glasgow, a gynnygiodd wobrwyon o 25p., 15p., a 10p. Yr un am y tri traethawd goreu ar fanteision tymmorol y Sabboth i lafurwyr a gweithwyr, wedi eu hysgrifenu gan rai o fysg y dosbarthiadau gweithiol eu hunain. Yn mhen ychydig fisoedd, derbyniwyd cymaint a 1045 o Draethodau, oll wedi eu hysgrifenu gan weithwyr cyffredin. Rhoddwyd y prif wobr i John A. Quinton, cyssodydd yn Ipswich, ac aelod a phregethwr cynnorthwyol gyda'r Annibynwyr. Yn awr, wels ei draethawd arobryn ef wedi cael ei gyfieithu i'r Gymraeg gan "Weithiwr Cyffredin." Mae yn draethawd campus iawn, ac yn anrhydedd i'w awdur; arddangosir ynddo feddwl cryf, archwaeth ddiwylliedig, ac ymchwil llafurus; ac, fel y dywedodd yr "*Edinburgh Witness*," mae yn gyfryw ag y gallai unrhyw ysgrifenydd mewn unrhyw oes fod yn falch o hono. Trinir ynddo fanteision y Sabboth mewn amrywiol ystyriaethau, trwy y rhai y profir yn y modd amlycaf, ddoethineb a daioni ei drefniad fel diwrnod dedwydd y tlawd a'r iselradd. Mae y cyfieithiad, ar y cyfan, yn un destlus a dealladwy; mae braidd yn rhy lthyrenol; tybygem mai dyma lafurwaith cyntaf y "gweithiwr cyffredin" yn y ffordd hon. Cymered galon; ymröed ati i astudio yn y modd manylaf briod-ddulliau y Gymraeg a'r Saesoneg; ac yr ydym yn hyderus y daw i wneuthur mwy eto. Yr ydym yn cydnabod yn wir mai gwaith anhawdd oedd cyfieithu y traethawd ennillol hwn. Mae ei iaith yn hedegog, fe allai yn ormod felly; math o farddoniaeth mewn rhyddiaith ydyw. Buasai yn taraw yn well ar glustiau y werinos pe buasai yn fwy syml. Ond hwyrach fod tipyn o gymhendod yn anwahanol oddiwrth fechgyn yr argraffwasg. Pa fodd bynag, dymunem i'n darllenwyr feddu a darllen y traethawd hwn, yr hwn a'u henfyn yn uniongyrchol i fendithio Duw, ac i anwylu y Sabboth.

: "Perl y Dyddiau" sydd hynod fel cyfansoddiad "merch i lafurwr." Gan nas gellid, yn ol y rheolau gwreiddiol, osod ei thraethawd yn mysg y gystadleuaeth grybwylliedig, a bod y fath deilyngdod yn ei gyfansoddiad, cyhoeddwyd ef gan y beirniaid yn annibynol ar y traethodau gwobrweddig. Y mae y llyfryn wedi myned trwy filoedd lawer o argraffiadau yn Saesoneg, pum mil ar hugain, os ydym yn iawn-goffio; ac y mae wedi medru ei ffordd hyd at fwrdd ein grasusaf frenines. Mae yr hanes a ddyry yr awdures am dani ei hun yn dra tharawiadol ac addysgiadol, yn cynnwys gwersi da i rieni a phlant; ac y mae hi yn trin ei phwnc gyda medr a deheudra doethawr mewn duwinyddiaeth. Dyma y cyhoeddwy'r parchus yn Llundain yn awr wedi dwyn allan y traethawd i'r Cymry; ac yr ydym yn gobeithio y gwerthfawrogir ef gan ein cenedl. Mae wedi ei wneyd i fyny yn hardd; ond ofni yr ydym yr edrychir gan rai ar y pris yn rhy fawr am lyfryn mor fychan, er ei fod yn rhatach o lawer yn Gymraeg nag yn Saesoneg. Dylai llyfrau a mcaner i'r dosbarthiadau gweithiol fod yn ddengar o ran eu rhadlonedd. Y mae yn awr yn oes y llyfrau rhad; ac nid yw y Cymry heb wybod hyny.

Y TRAETHODYDD.

THOMAS FOULKES.

Y MAE cofiaint yr hen bererinion a aethant o'r blaen yn adfywiadol iawn i deimladau y rhai sydd ar eu hol. Trwy gymharu eu llwybr garw hwy â'r llwybr esmwyth sydd gan bererinion yr oes hon, yr ydys yn cael achos i ddiolch fod ein coelbrenau ni wedi syrthio mewn lleoedd mor hyfryd. Yn nghofiaint y saint a aethant o'r blaen, yr ydym yn cael hanes bywiol eglwys Dduw, ac yn cael ein cludo yn ol i'w hamserau, a'n trosglwyddo i'r oes hono; ac o ran ein teimladau, fel pe byddem yn byw dwy oes ar unwaith. Bu llawer o dadau—er nad oeddynt yn gyhoeddus iawn—o ddoniau, athrylith, na dysgeidiaeth, eto yn enwog yn y cylch yr oeddynt yn troi; ac am y rhai y mae coffadwriaethau parchus ar gof a chadw gan yr ychydig sydd weddilledig o'u cofiaint. Ymhlith eraill, clywsom lawer o sôn gan y rhai sydd yn awr yn oedranus, am yr hen dad y mae ei enw ar ben uchaf y dalenau hyn, yr hyn a wnaeth i ni holi yn fanylach a theimlo awydd i gasglu cymaint a allem o berthynas iddo. Yr oeddem hefyd wedi gweled crybwylladau led fynych am dano ar hyd cyhoeddiadau y ddau gorff Methodistaidd yn Nghymru; a thrwy gasglu y cwbl ynghyd, tybiasom y gallesid cyfansoddi cofiant led reolaidd a chyson, ag a fyddai hefyd yn ddyddorol i nifer mawr o ddarllenwyr y "Traethodydd." Gyda hyna o sylwadau arweiniol, ni a syrthiwn yn ebrwydd ar ein testun.

Thomas Foulkes,¹ gynt o'r Bala, ond yn ddiweddar o Fachynlleth, a anwyd yn y flwyddyn 1731, yn mhlwyf Llandrillo-yn-Edeirnion, yr hwn sydd yn gorwedd yn nghesail y mynyddoedd rhwng Corwen a'r Bala, ar y tu deheu i afon Dyfrdwy, yn sir Feirionydd. Ei rieni oeddynt amaethwyr yn y plwyf hwnw. Wrth edrych yn ol i'r amser hwnw, tua chant a phedair blynedd ar bymtheg yn ol, rhaid penderfynu ar unwaith nad oedd dyffryn Edeirnion a glanau y Dyfrdwy yn hynod am fanteision gwybodaeth gyffredin na chrefyddol; er y rhaid cyfaddef ei bod rywbeth yn well nag y buasai. Yn nechreuad teyrnasiad Elisabeth, nid oedd yr un offeiriad yn pregethu yn esgobaeth Bangor, a dim ond tri yn esgobaeth Llanelwy rhwng ei arglwyddiaeth yr esgob.² Ond wedi hyny, cododd yn yr Eglwys

¹ Nid oes odid yr un enw ag y mae cymaint amrywiaeth yn y modd o'i sillibu a hwn—Foulks, Foulkes, Faulk, Faulkes, Fouc, Fowc, Fouk, Fowk, Fouke, Fauke, a Fauque: ond yr ydys yma yn mabwysiadu y modd y byddai ef ei hun yn ei sillibu—F-o-u-l-k-e-s. Ymddengys mai Normanaidd yw ei wreiddioliaeth, ac iddynt ddyfod trosodd yma gyda y Gorchfygwr.

² "Strype's Annals," darnodedig yn y "Presbyterian Review," Ebrill, 1842.

Sefydledig rai dynion o gryn enwogrwydd, ac ystyried yr oes yr oeddent yn byw; a bendithiwyd glanau y Dyfrdwy a llethrau Berwyn â rhai o honynt, megys, Edward Samuel, person Bettws-gwerfil-goch, Robert Wynn, ficer Gwyddelwern, Robert Lloyd, ficer y Waen, a Rowland Fychan, Ysw., o Gaergai—y rhai a daenasat oleuni y diwygiad trwy gyhoeddi amryw lyfrau buddiol; a diammhau fod y llyfrau hyny yn lled aml ar hyd y cymydogoethau yr amser hwnw, mor aml beth bynag a'r bobl a allasai eu darllen. Yr oedd hefyd aelodau perthynol i hen eglwys ymneillduol Gwrecsam, yn ymdanu ar hyd y cymydogoethau, y rhai a elwid Cradociaid, neu Cradocs, oddiwrth Mr. Walter Cradoc, yr hwn a fuasai yn un o weinidogion cyntaf yr eglwys hono; ond yr oeddynt yn agored i erlidigaethau gwarthus gan bob math. Yr oedd rhai o honynt yn cyfarfod yn ddirgel-aidd tua'r Bala, fel cangen-eglwys. Nid oedd y Methodistiaid eto wedi tori allan. Yr oedd Mr. Wesley a Mr. Whitfield yn Rhydychain, Mr. Howel Harries yn yr Ysgol Ramadegol, a Mr. Daniel Rowland yn yr Athrofa neu Ysgol Rad Ramadegol Henffordd; y ddau gyntaf tan ddeg ar hugain oed, a'r ddau olaf yn fechgyn tan ddeunaw oed. Yr oedd yr olwyn fawr anweledig fel pe buasai ar roi rhyw dro rhyfedd. Yr oedd y dynion a ddefnyddiodd Duw i droi y byd â'i wyneb i waered wedi eu geni unwaith o leiaf, a mwy na hyny—yn yr ysgolion, yn parotol mewn bwriad i weinidogaethu o fewn muriau y llanau; a Duw yn gadael iddynt: ac ar yr un pryd yn bwriadu defnyddio eu dysg a'u doniau i helaethach dyben, ac i ddwyn oddiamgylch ei amcan mawr yn well er llesoli y byd a'r eglwys.

Nid ydym yn gwybod i Thomas Foulkes gael dim manteision dysgeidiaeth yn ei ieuentid, oddieithr fe allai i allu darllen ac ysgrifenu ychydig, yr hyn yn wir a ystyrid ymhell wedi hyny yn llawn gymaint ag a dybiai amaethwyr yn briodol ganiatau i'w plant. Pan oedd oddeutu tair ar hugain oed, efe a anturiodd oddicartref i gymydogoethau Caerlleon, Tarvin, a Neston, pentrefi o fewn ychydig filltiroedd i'r ddinas hono. Efe a ymunodd â'r gymdeithas Wesleyaidd yn y lle olaf. Dywedai mai dan weinidogaeth Mr. Wesley y cafodd ei argyhoeddi o ddrygedd ei gyfiwr wrth natur, a'i anghen am Waredwr. Yr oedd hyny tua'r flwyddyn 1754 neu 1755, pan oedd ef tua phump ar hugain oed; ond methasom gael allan pa le, gan na bu Mr. Wesley yn nes i Gaerlleon na Manchester, Warrington, a Liverpool yn y blyneddau hyny, cybelled ag y gallwn gael allan oddiwrth ei deithlyfrau (*journals*). Yn dra manteisiol iddo, gan nad oedd ond ychydig yn y wlad y pryd hyny yn deall clwyf meddwl argyhoeddedig, daeth i adnabyddiaeth â gŵr ieuanc, mab i amaethwr, yn Upton, pentref yn sir Gaerlleon, o'r enw Robert Roberts, yr hwn oedd yn gwybod rhywbeth am grefydd, a'r hwn a fu wedi hyny tua deugain mlynedd yn weinidog llafurus yn nghyfundeb Mr. Wesley. Dyoddefodd lawer o erlidigaethau, a bu farw yn fuddygoliaethus ddwy neu dair blynedd o flaen Mr. Foulkes.¹ Yr oedd Mr. Foulkes y pryd hyny yn hollol anwybodus am y cyfiwr yn mha un yr ydoedd trwy bechod, ynghyd â ffordd iachawdwr iaeth trwy Grist. Cymerodd Mr. Roberts ofal mawr am ei lwyddiant ysbrydol; a chofeidiad bob cyfleusdra i egluro iddo wirioneddau mawrion yr efengyl; a llwyddodd i'w ddwyn i swm yr efengyl yn nghapel *Octagon*, Caerlleon; yn mha un, yn ol ei dystiolaeth ef ei hun, yn Mehefin, 1756, "y'm cymmod-

¹ *Atmore's "Methodist Memorial."*

wyd â gwir heddwch trwy Iesu Grist, fy anwyl Waredwr." Yr oedd cyn hyn yn cael ei drallodi yn fawr gan ammheuon ac ofnau; ac ar yr un pryd ofer ydoedd yr ymdrech ar ei dir ei hun, ac yn ngrym braich o gnawd. Aml y clybŵyd ef yn dywedyd y pryd hyn, "Yr oedd credu yn yr Arglwydd Iesu Grist mor anhawdd ag a fuasai i mi symud un o fryniau fy mro enedigol; ond wedi taer a gwresog weddio ar Dduw pob gras, galluogwyd fi, trwy ddwyfol ras, i roddi fy holl ymddiried ynddo ef, yr hwn sydd yn gweithio mewn dyn 'ewyllysio a gweithredu o'i ewyllys da ef.'" Dywedai wed'yn, fod "credu mor hawdd ag anadlu." Mynych yr adroddai y rhanau hyny o air yr Arglwydd a fu yn offerynol i weithredu mor nerthol a hyn ar ei feddwl.¹

Wedi bod felly am ryw hyd o amser yn Lloegr, efe a feddylodd am droi tua gwlad ei enedigaeth; ac, er ei fod wedi ymuno â phobl Mr. Wesley, efe a welodd yn briodol ymwasgu at yr ychydig grefyddwyr oedd yn y Bala, yn neillduol y Methodistiaid Calffaidd. Yr oedd ymuno â hwy yn llawer mwy cydunol â'i deimladau crefyddol yn y dyddiau hyny nag â'r hen Ymneilldwywr oedd yno. Yr oeddynt yn cael eu galw yn Fethodistiaid. Yr oedd eu gweinidogion a'u pregethwyr yn deithiol, yr oedd ganddynt eu cymdeithasau crefyddol i ymdrin â phrofiadau ysbrydol, ac yr oeddynt hefyd yn profesu rhyw ymlyniad wrth yr Eglwys Sefydledig, ac yn derbyn yr ordinhad o Swper yr Arglwydd o law ei gweinidogion ordeiniedig hi yn unig. Wedi iddo ymwasgu fel hyn â'r dysgybllion, efe a briododd ferch i un o honyant, o'r enw Griffith Siôn, yr hwn oedd gynghorwr yn eu plith. Cawsant un mab, yr hwn a elwid Thomas. Bu ei wraig farw yn fuan, a gadawyd ef yn weddw, gyda gofal y plentyn hwn. Arosodd am enyd gyda'i dadynghyfraith, ar yr hwn yr achwynai iddo ymddwyn yn lled galed tuag ato, trwy godi tâl uchel iawn am gadw y bachgen, fel nad oedd ganddo pan ymadawodd âg ef, a boddloni ei ofynion, ond deg swllt wedi ei adael. Bu y bachgen farw yn ei fabandod. Y pryd hyn, dechreuodd fasnachu mân nwyddau, er mai prin oedd ei foddion i ddechreu. Yr oedd y pryd hyny, wraig weddw, o'r enw Mrs. Jane Jones, gyda'i merch Sarah—yr hon ferch a fu wedi hyny yn briod â'r diweddar Barch. Mr. Charles—yn cadw maelfa yn y Bala, ac mewn sefyllfa led gysurus. Meddylodd yntau, fel "tad y ffyddloniaid," am "gymeryd eilwaith wraig," a disgynodd ei ddewisriad ar y gristionoges ragorol hono; a phriodwyd hwy. Yr oedd hono yn briodas ddedwydd iawn; canys yr oedd hi yn un hyrod mewn duwioldeb. Gwelsom ddarn o farwnad am dani, yn dadgan fod yr Arglwydd yn ei benthio yn rhyfedd yn ei ragluniaeth—ei bod yn nodedig o dosturiol wrth dlodion—y byddai hi ac yntau yn arferol o fyned gyda'u gilydd i weddio i ryw dŷ gwag oedd ar y meusydd gerllaw. Pan ofynodd ei merch, Mrs. Charles, iddi, ar ei gwely angeu, am y gobaith oedd ganddi, atebai, fod ganddi gydwybod dawel trwy waed yr Oen, ac mai ynddo ef yr oedd ei gobaith hi am fywyd. Bu farw y 25ain neu y 26ain o Hydref, 1785, ddwy flynedd ar ol priodi ei merch â Mr. Charles.

Yr oedd Mr. Foulkes hefyd yn hoff iawn o'i lysferch Sarah. Arferai ysgrifenu ati, pan y byddai oddicartref, ac ymddwyn tuag ati yn mhob modd fel pe buasai yn ferch naturiol iddo ef ei hun. Wedi iddi hi briodi â Mr. Charles, a chladdu ei mam, bu ef fyw gyda hwynt am beth amser,

¹ "Eugrawn Wesleyaidd," 1829: tudal. 364.

ac yna rhoddodd y fasnach iddynt hwy yn hollol, ac enciliodd i fyw ar yr hyn a gynnilasai, yr hyn a ystyriai yn eithaf digon, gyda chynnilddeb, i fyw ac i gyfranau yn helaeth i aughenion crefyddol a thlodion, yn ol ei dueddiad. Yr oedd wedi arfer darllen llyfrau y ddau Wesley a Whitfield yn yr iaith Seisoneg, pan oedd yn Lloegr, a theimlai awydd i'w gydwladwyr fwynhau yr un fraint. Felly, yr amser yr oedd ef yn y Bala, cyhoeddwyd dwy bregeth o eiddo Mr. Charles Wesley, un ar "Deffro di, yr hwn wyt yn cysgu," &c.; a'r llall, "Bydd barod Israel i gyfarfod â'th Dduw." Dyma y pryd hefyd (1759) y cyhoeddwyd "Prif Physygwriaeth yr oesoedd gynt," gan y Parch. J. Wesley, wedi ei gyfieithu gan yr hen batriarch John Evans; ac hefyd "Rheolau a Threfniadau yr Unol Gymdeithasau, a sefydlwyd yn Llundain, Bristol, a lleoedd eraill," ac a argraffwyd yn y Bala, gan John Rowland, 1761. Y rhai hyn a gyfansoddwyd gan J. a C. Wesley, ac ydynt eto yn rheolau aelodaeth y Wesleyaid. Rhoddwyd y llyfrau hyn allan heb enwau eu hawdwyr; a diau ei fod y pryd hyny yn ymddygiad tra doeth yn yr hen bererinion, Thomas Foulkes, a John Evans; canys rhaid cofio mai Calffiniaid oedd hen grefyddwyr y Bala, a hwythau ill dau, Mr. Foulkes o leiaf, wedi bod yn eistedd o dan weinidogaeth y Wesleyaid; ac ni fynent greu rhagfarn dianghenrhaid, trwy roddi enwau awduron y llyfrau a gyhoeddent, rhag i'r enwau—yr hyn oedd yn fwy y pryd hyny nag yn awr—eu hattal i dderbyn y lleshad a allent ei gael oddiwrth y cyfryw lyfrau nad oeddynt yn ymyraeth â phynciau dadleuol.

Yr oedd Mr. Foulkes byth er ei dröedigaeth yn lletya parch diragrith i goffadwriaeth Mr. Wesley, a chafodd y fraint o gael cydnabyddiaeth ber-sonol âg ef, yn gystal ag yn ohebiaethol. Pan oedd yn y Bala, ymddengys iddo anfon llythyr at Mr. Wesley, yn cynnwys ei deimladau crefyddol, a'i gysylltiad cymdeithasol yn y Bala, gan ofyn cynghor, a pha lyfrau a gymhellai iddo eu darllen er ei adeiladaeth; ac yn ol ei arfer yn anfon hefyd *note* am ryw swm o arian yn elusen i ryw frawd tlawd yn Nghrist. Yr oedd Mr. Wesley y dyddiau hyny yn y *Conference* yn Bristol, ac oddiyno efe a ysgrifennodd at Mr. Foulkes, yn cydnabod y rhodd i Dafydd, fel y geilw y brawd tlawd, ac yn cynnwys y sylwadau crefyddol a welai yn briodol, yn y geiriau hyn:—

Bristol, Awst 13, 1774.

FY ANWYL FRAWD,—Gogoniant y Methodistiaid o'r dechreuad oedd peidio ag ymryson â neb am eu credöau. Gwyddom nad yw teyrnas Dduw fwyd a diod, nac opiniynau o unrhyw fath. Yr hyn sydd arnom anghen am dano yw y meddwl, yr hwn ydoedd yn Nghrist, yn ein dysgu i rodio megys y rhodiodd yntau. Ond nis gellir cyrhaedd hyn heb fywyd o hunanymwadiad parhaus a chyffredinol. Mae perygl mawr o rwystro hyn. Os nad oes crigionogion bywiol o'ch amgylch, diammhau fod y cyfryw yn Nghaerlleon; pa fodd bynag y mae yn y Bala, nis gwn. Y llyfrau goreu i un yn eich amgylchiad chwi, fyddai "Galwedigaeth ddirifrol," Mr. Law, ynghyd â'i "Draethawd ar Berffeithrwydd Crigionogol," sef y rhai hyny a dal fyrais i er's amryw flyneddau yn ol. Yr wyf yn ddiolchgar i chwi am y *note* yn eich llythyr. Mae Dafydd yn dlawd; ond y mae yn cynnyddu mewn gras. Bydded i ni sicrhau y mater mawr rhyngom â Duw. Ydwyf, eich serchog frawd,

JOHN WESLEY.

Y mae yn anmhosibl i ni yn bresennol, oni buasai fod llythyr Mr. Foulkes at Mr. Wesley genym, farnu priodoldeb y cyfarwyddiadau y mae Mr. Wesley yn eu rhoddi iddo, a'r llyfrau y mae yn ei annog i'w darllen. Y

mae yn wir i Mr. Wesley ei hun gael llawer o fudd yn nechreu ei yrfa grefyddol oddiwrth waith Mr. Law; ond yr oedd hyny cyn iddo adnabod yn ei enaid "ffordd Duw mewn gwirionedd." Y mae hyd yn nod Wesleyaid eu hunain, megys Mr. Watson,¹ ac eraill, yn condemnio ysgrifeniadau Mr. Law, fel arweinyddion cyfeiliornus i ddyd "heb adnabod cyfiawnder Duw;" ond yn eithaf priodol i gristion wedi adnabod ei gyfiawnhad trwy ffydd yn yr Iesu. Ceisio gosod ei gyfiawnder ei hun yr oedd Wesley pan yr oedd yn cymeryd yr ysgrifenydd hwnw yn rheol—ceisio myned at bren y bywyd heb ddangos modd i fyned heibio i'r cleddyfau tanlyd. Gall fod rheolau Mr. Law yn rhai da i *gristion*—*gwir* gristion; ond nid i gristion o fewn ychydig, neu un yn ymdrechu myned trwy y porth cyfyng. Yn awr, rhaid i ni wybod yn mha sefyllfa y darluniai Mr. Foulkes ei brofiad ei hun, cyn y gallom benderfynu priodoldeb neu anmhriddoldeb y cyfarwyddiadau a rydd Wesley iddo, pa un ai fel pechadur argyhoeddedig yn ymdrechu, ai fel credadyn wedi "dyfod trwodd o farwolaeth i fywyd:" os y cyntaf, yr oeddynt yn llyfrau anmhriddol; ond os yr olaf, gallasant fod yn dra phriodol ac adeiladol.

Wedi bod yn weddw yr ail dro oddeutu dwy flynedd, meddyliodd nad allasai fod yn gysurus iawn felly, ac am hyny efe a feddyliodd eto ymofyn am "ymgeledd gymhwys." Yr oedd merch fedydd iddo yn aelod o'r gymdeithas yn y Bala, ac o deulu oedd yn barchus iawn o'r diwygwyr Methodistiaidd Seisonig, Wesley a Whitfield, sef Lydia, merch Simon Lloyd, Ysw., Plas-yndref, Bala. Yr oedd ei mam yn ferch i Mr. Bowen, o'r Tyddyn, ger Llanidloes, lle yr arferai Mr. John Wesley alw, a chael ei groesawu, pan ddeuai y ffordd hono. O dan amseriad, Awst 9, 1764, efe a ddywed yn ei deithlyfrau, "Am chwech yn y prydawn, pregethais yn Tyddyn, a'r bore canlynol yn Llanidloes, ac yn yr hwyr yn y Fynachlog" (Abbey-cwm-hir). Teulu Howel Harries, fel eu gelwid, oeddynt hwy. Yr oedd ei chefnwr hi, o'r Tyddyn, a'i brawd, y diweddar awdur enwog, y Parch. Simon Lloyd, o'r Bala, wedi cael eu dwyn i fyny yn Ysgol Fyrddiol (y pryd hyny) Mr. Wesley, yn Kingswood, ac yno, mewn diwygiad crefyddol a dorodd allan ymhlith y plant, yr argyhoeddwyd ef, fel y tystiodd ef ei hun wrth gyfaill yn 1827. "A ddarllenasoch chwi erioed ddyddlyfr Mr. Wesley?" Wedi ateb cadarnhaol, gofynodd eilwaith, "A ydych yn cofio fod yno hanes am ddiwygiad mawr ymhlith y plant a'r morwynion yn ysgol Kingswood un tro, pryd yr oedd Bobby Hindmarsh, Jacky Brown, a Simon Lloyd gyda'u gilydd yn gweddio?" Ar ol ateb cadarnhaol, aeth ymlaen, gan hysbysu, "Wel, y fi ydoedd y Lloyd hwnw, a chyda fi y dechreuodd y diwygiad. Yr oeddwn wedi gweled fy anghen am Waredwr, a byddwn yn myned i ystafell o'r neilldu i weddio Duw. Dygwyddodd i un o'r bechgyn fy ngweled, yr hwn a ofynnodd i mi i ba le yr oeddwn yn myned. Ni allaswn ddywedyd celwydd wrtho, ac felly dywedais fy mod yn myned i weddio am drugaredd. Yna gofynodd a gai ef ddyfod gyda mi, ac efe a ddaeth; ac wedi hyny un arall, ac arall, nes y daeth pawb yn yr ysgol, y morwynion ac oll, oddieithr un, i wasgfa am eu cyflwr. Buom yn blant lled dda yno am oddeutu blwyddyn, ac yna aeth rhai o honom i arfer y ddiareb hono sydd yn eich plith chwi [y Wesleyaid] hyd heddyw, 'Mi a gollais

¹ *Rev. R. Watson's works*: cyf. v. tudal. 14; a cyf. vii. tudal. 419. Pumbed argraffiad.

gariad Duw.' Wedi i mi adael ysgol Kingswood, a myned i'r Eglwys Sefydledig, newidiais fy marn; a dygwyddodd wedi hyny, fy mod yn yr un ystafell a John Wesley, yn Bristol, ac ni chymerodd arno fy ngweled."¹

Wel, chwæer i'r gŵr dysgedig uchod oedd Mrs. Foulkes, a chyn belled ag yr oedd oed i'w ystyried, buasai rhai yn ei galw yn briodas led anghymharol, os nad yn taeru mai hyny a gyfansoddai wir briodas anghymharol, canys yr oedd ef yn un ar bymtheg a deugain mlwydd oed, a hithau yn naw ar hugain, ac felly saith ar hugain o flyneddau ieuengach nag ef. Ond yr oedd y prif elfen a gyfansoddai ieuo cymharus, yn ol yr apostol, yn bodoli—"yn yr Arglwydd." Pethau eraill a gyfansoddent ieuo cymharus yn ngolwg y byd diallunedig; ond duwionolion yr oes hono a ystyriant yn wahanol, ac a arswydent gyfeillachu, gyda golwg ar beth mor bwysig, a neb heb eu bod wedi rhoddi eu hunain yn gyntaf i'r Arglwydd. Cawsant wyth o blant. Gan ei fod wedi rhoddi ei fasnach i fyny i'w lysferch a Mr. Charles, bu am beth amser yn byw mewn neillduedd, ac yn ystyried fod ganddo ddigon wedi ei gynnulo i fyw arnynt; ond gan ei fod yn gweled ei deulu yn debyg o fyned yn lliosog, ac heb ewyllysio drygu sefyllfa Mr. a Mrs. Charles, trwy godi masnach yn y Bala, yn eu hymyl, efe a symudodd i Fachynlleth, lle yr ailymaflodd mewn galwedigaeth fasnachol helaeth gyda llwyddiant mawr. Fel yn y Bala, felly yma hefyd, efe a ymunodd â'r Methodistiaid Calfinaidd, fel pobl ei fabwysiad, a chyd â'r rhai y pregethai. Pan ddaeth ef gyntaf i Fachynlleth, yr oedd yr ychydig Fethodistiaid yn tlodion a dirmygus, ac heb gapel i addoli ynddo: ond wedi ei ddyfodiad ef, newidiodd agwedd pethau. Yr oedd ei sefyllfa barchus ef, ei gymeriad diargyhoedd, ei onestrwydd masnachol, a'i fawr haelionusrwydd, yn creu parch a gwrandawriad iddo ef na allasai neb arall ei gael. Cafwyd hefyd yn fuan le i adeiladu capel yn heol Maengwyn, a chododd y pelerinion eu penau goruwch gwarth. Yn awr, meiddient fyned ar hyd yr heol i'w cyfarfodydd crefyddol, yn lle myned megys ar encil, y tu cefn i'r dref, i Aherhosan a'r Glasbwill, fel yr arferent wneyd y blyneddau cyn hyny.

Yr oedd ei ffyddlondeb yn ddiarebol. Ni byddai tywydd, pa mor erwin bynag a fyddai i groesi mynyddau Cymru, yn foddion i'w luddias i gyflawni ei ymrwymadau yn achos y Gwardedwr. Pregethai yn mhob man y caffai gyfleusdra—ffermdai, bwthdai bychain ar ochrau y mynyddoedd, a chyttiroedd, ysguboriau, ac yn aml iawn allan yn yr awyr agored. Codai yn foreu, o bedwar i bump yn yr haf, ac o bump i chwech yn y gauaf, yn enwedig ar foreuau Suliau, pan y byddai ganddo i fyned i gyhoeddiad lawer o filltiroedd, a chymerai fara a chaws yn ei logell yn fynych pan y byddai yn myned i leoedd tlodion. Anfynych yr elai nos Sadwrn, "rhag pwyso," meddai, "ar y pethau tlodion." Nid oedd ei ddawn pregethu ond bychan—math o gynghorwr oedd ef. Soniai agos yn mhob pregeth am y merthyron, gan enwi Latimer a Ridley, ac wylai yn hidl mor gynted ag y crybwyllai am eu henwau. Nid oedd dim dadleugar yn ei bregethau. Ei brif destunau ydoedd oruchel, eto syml, athrawiaethau gras—ystyriai fod sefyll ar bynciau dadleuol, ar y cyfan, yn anfuiddiol. Gwelsom, trwy garedigrwydd ei ferch, Mrs. John Jones, Machynlleth, ysgrifyfr o'i bregethau, yn cynnwys nifer helaeth o destunau, a thua tudalen o adnodau

¹ "Eurgrawn Wesleyaidd," Gorph. 1835: tudal. 200.

cysylltiedig â phob testun, ar ba rai y gwnai ychydig sylwadau wrth fyned ymlaen, heb amcanu profi unrhyw bwne neillduol, ond fel anerchiadau at gydwybodau a theimladau ei wrandawyr. Yr ydoedd yn hollol ddiragfarn, yn serchog a gwresog; ac fel y dywed Paul am dano ei hun y gallasai yntau ddywededyd wrth ei wrandawyr, iddo eu “rhybuddio nos a dydd â dagrau lawer.” Byddai hefyd ddylanwad anghyffredinol weithiau yn dilyn ei weinidogaeth, megys mewn cymdeithasfa yn sir Fon. “Cafodd pob un o honom,” medd yr hanesydd, sef John Evans, o'r Bala, “gymhorth neillduol wrth lefaru, yn enwedig Thomas Foulkes, yr hwn a lefarodd gyda hwyl a melusder nefol, ar y geiriau yn *Gen.* xl. 9, 10. Rhagddywedodd yn hyf y byddai cynnulliad pobloedd at yr Iesu, yr hyn sydd yn cael ei gyflawni yn y wlad o hyny hyd yn hyn.”¹ Byddai ei deithiau Sabbothol weithiau yn gylch oddeutu deugain neu driugain milltir, a phregethai dair neu bedair o weithiau mewn pob math o leoedd, fel y cai dderbnyiad, a derbynid ef yn lled oer mewn llawer lle; a lle y byddai croesawriad, gwael ac isel a fyddai y lluniaeth; yn wir, nid oedd ein hen dadau yn gofalu am y groesaw a'r lluniaeth, pe buasant hebddo trwy y dydd, os caent lonydd heb eu herlid a'u baeddu. Ar ol ei deithiau ar y Sabboth felly, dychwelai adref yn hwyr; a byddai dranoeth i fyny yn ddiwyd gyda'i fasnach, mor foreud a neb yn y dref. Ni wiriwyd geiriau Solomon mewn neb erioed yn gyflawnach nag ynddo ef, mewn mwy nag un ffordd, “Enaid y diwyd a wneir yn fras.”

Ynghylch y flwyddyn 1800, milwr duwiol, yr hwn hefyd oedd bregethwr cynnorthwyol perthynol i'r Methodistiaid Wesleyaidd, ar ei ffordd o'r neu i'r Iwerddon, yr hwn a ryddhäwyd oddiwrth y fyddin, a ddaeth trwy Fachynlleth. Ar ei fynediad i'r tollborth, gofynodd a ydoedd pobl grefyddol yn y dref? Cyfarwyddwyd ef at Mr. Foulkes, yr hwn a'i derbyniodd gyda chariad a lletygarwch crïstion. Ar gais Mr. Foulkes, pregethodd y milwr dranoeth yn nghapel y Maengwyn, i gynnifer a allesid gael a ddeallent beth Saesoneg, ac er dirfawr adloniad i feddwl ein patriarch haelfrydig; ac yr oedd ei weddïau tra y bu yn ei dŷ yn felus a hyfryd. Cofiai Mrs. Foulkes hefyd am danynt tra y bu byw, ac yr oedd yn eu hystyried yn llawer mwy na thaledigaeth am unrhyw diriondeb a weinyddwyd tuag ato. Aeth Mr. Foulkes i'w hebrwng dranoeth, a rhoddodd swm mawr o arian yn ei law, yn ol ei arferiad mynych. Ymddengys i'r hen filwr adrodd wedi myned i Loegr, ei holl hanes yn Machynlleth, ac ysgrifenydd llythyr gan y *Conference* Wesleyaidd, i gynnig anfon gweinidog i ddechreu achos iddynt yn y lle, gan farnu y byddai y cynnygiad yn dderbnyiol a chymeradwy ganddo ef. Yr oedd ef hefyd wedi bod yn ffair Caerlleon y flwyddyn cyn hyny, ac ar y Sabboth elai yn ol ei arfer i'r capel Wesleyaidd, ac yr oedd yno gariad-wledd, cyfarfod crefyddol o fath neillduol i bobl Mr. Wesley. Yn hwnw, mynai y cyfeillion iddo adrodd ei brofiad; ond gwell oedd ganddo ef wrandaw ar eraill. Yr oedd anfon cenadon cartrefol Cymreig wedi dyfod dan ystyriaeth y *Conference* y flwyddyn hono, pryd y dechreuwyd yn nghymydogathaau Gwrecsam, Rhuthyn, a Dinbych. Yr oedd Mr. Foulkes, er hyny, wedi gwneyd ei gartref bellach yn dra dedwydd gyda y Methodistiaid Calfinaidd Cymreig. Clywyd ef unwaith yn dyweyd ei brofiad crefyddol ar hyn—“Yr ydwyf yn

¹ “Drysorfa :” llyfr ii., tudal. 578.

bendithio Duw am gael lle yn ei dŷ, a chyda'r bobl yr wyf yn eu plith; a dymunwn gael fy nghynnal hyd y diwedd gyda hwynt, a bod fy mhiant ar fy ol yn cartrefu gyda'r un bobl;" ac yn hyn, yn sier, y mae ei ddymuniad wedi ei gwblhau, canys nid ydym yn deall i neb o'i blant na'i wŷrion ymuno â neb arall, oddieithr y bu ei fab Thomas, pan yn yr ysgol yn Nghaerlleon, yn cyfarfod beth amser yn y gymdeithas Wesleyaidd, a dywedai wrtho, fod yn dda ganddo glywed hyny,¹ ac un o'i wŷrion yn weinidog efengylaidd a ffyddlaw yn yr Eglwys Sefydledig.² Heblaw hyny, Methodistiaid Calffinaidd rhwyddgalon, a hynod ddiragfarn yw yr holl genedl. Rhoddodd y cynnygiad hwnw o eiddo y *Conference* Mr. Foulkes mewn anesmwythder mawr—yr ydoedd mewn cyfyngder meddwl, fel na wyddai pa lwybr i'w gymeryd. Ei barch at Mr. Wesley ydoedd yn pwyso ar un llaw; pan ar y llaw arall yr oedd yn ofni yn fawr rhag bod yn foddion i ddwyn oddiamgylch ysbryd pleidiol, ac aſonyddu heddwch ei deulu a'r eglwys, & pha un yr ydoedd y pryd hyny yn ymunedig, ac wedi gwneyd ei gartref, heb feddwl y deuai fyth brofedigaeth o'r fath i'w gyfarfod. Wedi taenu yr achos ger bron yr Arglwydd, penderfynodd mai y llwybr doethaf, yn wyneb amgylchiadau mor ddryus, ydoedd ei adael i drefniad rhagluniaeth, a chan hyny ni wnaeth un math o atebiad i'r llythyr. Ni chlywodd ddim mwy am dano hyd o fewn wythnos i'w farwolaeth, pryd y galwodd dau o'r cenadau Wesleyaidd Cymreig, a benodasid gan y *Conference* i ddechreu yr achos yn Nghymru—y Parch. Owen Davies, a'r Parch. John Hughes—heibio iddo, gan hysbysu iddo pwy oeddynt wrth eu henwau, a dywedyd, "Yr ydym yn tybied, syr, y gwyddoch rywbeth am danom ni." Atebodd yntau gyda gwên, "Ni wn i ddim da am danoch; deuwch i mewn, foneddigion." Ni raid chwanegu iddynt gael eu derbyn ganddo gyda serchiadau a charedigrwydd efengylaidd. Y boreu dranoeth (dydd Sadwrn) pregethodd y ddau ŵr dweithr am ddeg o'r gloch, yn nghapel y Methodistiaid Calffinaidd yn heol y Maengwyn. Pregethodd Mr. Davies oddiar *Phil.* i. 21; "Canys byw i mi yw Crist, a marw sydd elw;" a chyn dybenu yr addoliad cymerwyd Mr. Foulkes yn glaf; aeth adref yn mraich Mrs. Foulkes, a bu farw y Sadwrn canlynol.

Yr oedd yn ddyfal iawn mewn gweddi. Anfynych yr elai Mrs. F., neu un o'r morwynion, i'w lyfrgell, na byddai efe yn ymdrechu â Duw mewn ymbiliau. Yr ydoedd ei ymarweddiad yn mhob amgylchiad a pherthynas yn dangos ei fod yn feddiannol ar yr holl addurniadau hyny a orchymynir eu gwisgo gan y criston yn y Testament Newydd. Yr oedd ei ddull yn gofyn bendith ar y bwyd yn argraffadol iawn i bawb a'i gwelai. Nid "â'i ben yn ei blyf," yn brysio dyweyd rhywbeth na allai neb wrth y bwrdd ddeall pa beth a ddywedai efe; ond efe a godai yn syth, gan edrych tua'r nef, a lledu ei ddwyllaw uwch ben yr ymborth, mewn modd mor ddifrifol, fel y tynai sylw pawb a fyddai yn bresennol, a phawb yn cyfranogi o'r ymborth fel pe disgynai iddynt o'r nef yn uniongyrchol mewn canlyniad i'w weddi ef. Yr oedd ef yn ystyried pob peth fel eiddo yr Hollalluog—mai "eiddo yr Arglwydd y ddaear a'i chyflawnder," ac yn ei gydnabod fel y cyfryw. Yr oedd rywbryd yn cydrodio gyda hen frawd o'r enw

¹ "I like to hear that you go to Mr Wesley's society." Machynlleth, Feb. 19th, 1801.

² Y mae un o'i wŷrion wedi cysegru ei fywyd i lafurio fel pregethwr ymhlith y Methodistiaid Calffinaidd.

Dafydd Humphrey, Abercoris, yn sir Feirionydd, gan sylwi ar ysgythrog greigiau y gymydoggaeth hono, "I ba beth," eb efe wrth ei gyfaill, "y gwnaeth yr Arglwydd y creigiau hyllion hyn?" "Na wn i," ebe y llall, "i ddim am a wn i, ond yn lle i eifr a gwningod." "O! nage," ebe yntau, "coffrau Duw ydynt—y mae yma drysorau, ac fe allai y gwelwch chwi eu hagog hwy;" ac felly fu. Nid oedd chwarel y pryd hyny yn Nghoris nac Aberllyfneini; ond yn mhen rhai blyneddau wed'yn caniatodd Duw yn ei ragluniaeth i'r coffrau hyny gael eu hagog, ac o'r coffrau hyny y mae cannoedd heddyw yn cael eu cynnaluaeth gan ragluniaeth fawr y nef. Anturiaethau ffodus oedd y cwbl gan eraill, ond coffrau Duw yn cael eu hagog yr ystyriai efe hwy.

Bu fyw a marw yn ddysgybl ffyddlawn i Grist. Yr oedd uniondeb ei gymeriad a'i gywirdeb manylaidd yn ei holl drafodiaeth masnachol yn ddiarebol. Yr oedd yn meddu deall da yn holl nwyddau ei fasnach. Nid oedd yn amleiriog wrth brynu a gwerthu—anaml oedd ei eiriau—dim yn ofer—dim ond a fyddai yn wir anghenrheidiol. Wrth brynu, os byddai yr ammodau, ac ansawdd yr eiddo yn cytuno â'i olygiadau ef ar bethau, ni cheisiai fyth ostyngiad o'r pris a ofynid gyntaf, gan farnu fod eraill fel yntau (o herwydd wrth yr un rheol y gwerthai). Yr ydoedd mor adnabyddus yn hyny, fel y byddai masnachwyr a arferent ddyfod i ffeiriâu Caerleon a Gwrecsam, ar ei nesâd atynt, yn dywedyd wrth eu gilydd, "Yn awr, rhaid i ni ofyn y pris isaf i Mr. Foulkes." Yr oedd gan bobl ymddiried braidd di ben draw ynddo; yr oedd ei air fel *bond*. Byddai llawer o fân amaethwyr yn dyfod â'u hychydig arian a allent eu hebgor iddo ef i'w cadw erbyn diwrnod anghen—efe oedd eu *bank* cynnilo yn y dyddiau hyny; a phan ddeuent i'w ceisio, dywedai, "Wel, y mae arnaf fi eto rywbeth i chwi." "Nac oes, nac oes, Mr. Foulkes, nid oes arnoch ddim ychwaneg," dywedent hwythau. "Oes," dywedai yntau, yn glo ar y taeru hyfryd, "oes, y mae arnaf lôg i chwi, canys mi gefais *use* eich arian;" a thalai yn llawn bob amser.

Er y perohid ef yn gyffredin gan elynion crefydd, o herwydd ei fuchedd sanctaidd, ei ymarweddiad digoll, a'i helaeth elusengarwch, eto bu weithiau mewn perygl am ei fywyd, yn enwedig un tro ger Dolgellau. Yr oedd y Methodistiaid yn y Bala wedi cymeryd tŷ dan ammodrwym (*lease*), a elwir Pant y cra, tua milltir o dref Dolgellau, i bregethu ynddo. Byddai Mr. Foulkes yn myned yno ar ei dro, fel eraill o bregethwyr a chynghorwyr o'r Bala. Ar ddydd Sabboth yr oedd wedi addaw myned yno i bregethu, taenodd y son am dano ar led; pan ddaeth yr amser, ymgasglodd pobl y wlad a'r dref yno, gan fwgwth, os deuai ef yno, y lladdent ef, ac y claddent ef yn y pwll mawnog gerllaw. Pan glywodd rhai o'r cyfeillion am fwriad y dorf fileinig, aethant i gyfarfod Mr. Foulkes, ac a'i hattaliasant rhag myned yno. Yr erlidwyr, wedi cael eu siomi felly, a ruthrasant ar y tŷ, a thynasant ddarn o hono i lawr; ond wedi hyny hwy a'i hadgylweiriasant drachefn, rhag gafael cyfraith.¹ Diammhau, oni buasai i ragluniaeth fawr y nef gadw ei fywyd, y buasai wedi syrthio yn aberth i'w cyn-ddaredd y tro hwnw; ac yn eu siomiant, nid oedd i'w wneyd ond gollwng eu llid ar yr hen dŷ.

Yr oedd ei haelioni agos yn ddiderfyn. Gwyddys am lawer; ond bydd

¹ "Drysorfa:" llyfr ii., tudal. 137, 138.

mwy yn cael eu dadguddio o'r croniclau fry nag a gafwyd allan erioed yma. Wrth fyned allan o'r tŷ i'w gyhoeddiadau, cymerai gydag ef logell-aid o geiniogau i'w rhanu i dlodion, ac i blant am beidio chwareu ar y Sabbath. Cymerai dlodion o'r heol, a welai yn wael eu gwisgoedd, i'w dŷ, i'w dilladu â'r hyn a welai yn anghenrheidiol arnynt; ac weithiau y cyfan oll o'r pen i'r traed. Deuai rhyw dlawd i ymofyn am laeth enwyn—"Ferched, a oes genych enwyn i'w roddi i'r wraig dlawd hon?" a glywid yn fynych trwy gil y drws, rhwng y *shop* a'r tŷ. "Nac oes, meist'r," atebent hwythau, os felly fyddai, "yr ydym heb gorddi." "Wel, oni fuoch yn godro heddyw? rhowch beth o hwnw iddi." Rhoddai yn flyneddol, ar ddiwrnod penodol, werth o ddeugain i ddeg a deugain o bunnoedd, mewn gwlanen a brethyn bras. Yn wir, ni bydd gwybodaeth am faint ei roddion hyd y dydd y dygir pob gweithred i'r amlwg; ond cyfrifir fod ei holl elusenu yn llawn gan' punt yn flyneddol. Yr oedd Mrs. Foulkes hithau hefyd yn haelionus; ond yr oedd hi yn deall y natur ddynol yn llawer gwell nag ef. Ymofynai hi am wrthddrychau teilwng; ond efe, yn niddichellrwydd ei galon, a gredai ddarluniad pob un o hono ei hun. Deuai rhai ato dan gochl perthynas grefyddol, gan ddadleu hawl elusen ar y tir hwnw. "Cofiwch am danaf finnau tua'r Nadolig yma, da Mr. Foulkes bach," meddai hen wrach o Dre'r ddôl. "Pwy ydych chiwi, yr hen wraig?" ebe yntau. "Yr wyf yn un o honoch chi, Mr. Foulkes," oedd yr ateb. "Un o honom ni, un o honom, yr hen wraig, a ydych chiwi yn un o deulu y fydd, dywedwch?" meddai yntau. Nid oedd bod "o honoch chiwi," o honom ni, neu o rywun arall, yn ddim ganddo ef, ond bod yn wir gristion. Yr oedd ef, o ran ei ysbryd rhydd, yn rhwymyn y Cynghrair Efynglyaidd hanner can' mlynedd cyn iddo darddu allan. Yr oedd cyflawnder ysbryd y cynghrair hwnw yn preswyllo yn gorfforol ynddo ef. Yr oedd yn hyny lawn hanner can' mlynedd o flaen ei oes. Yr oedd pob ystryw yn cael ei arferyd hefyd i dynu ar ei gydymdeimlad a'i dosturi. Gallasech feddwl mai ysgolorion o Ysgol y Carpiaw, o gymydogeath y *rag's fair*, ydoedd holl dlodion tref Machynlleth tua'r amser y gwyddid y byddai Mr. Foulkes yn myned i ranu gwisgoedd—pob un yn gwisgo am y gwaelaif, i greu gresyndod, ac yntau, druan diddichell, yn cyfranu â llaw ddiarbed, heb chwilio dim i'w gwir sefyllfa; a dygwyddai yn aml mai nid y mwyaf anghenus a gaffai fwyaf, eithr y mwyaf haerllug, digywilydd, a thwyllodrus. Yr oedd un-waith yn pregethu yn y Ganllwyd, ac yr oedd cenaw diog, lysti, a iach, yn y gymydogeath, o'r enw Howel Ifan, os y'm yn iawn gofio. Yr oedd Howel yn gwybod am elusenu Mr. Foulkes, ac aeth i'r oedfa yn y carpiaw gwaelaif ag oedd ganddo, ac a osododd ei hun gerllaw y llwybr, fel y byddai yn sicr o dynu sylw Mr. F. wrth fyned heibio; a llwyddodd. "Beth yw yr achos fod eich dillad chiwi mor garpiog?" gofynai Mr. Foulkes iddo. "Yr wyf yn arferol o gael rhyw ffitiau, Mr. Foulkes," ebe yntau, "ac yn y ffitiau hyny byddaf yn dryllio fy nillad yn chwilfriw, fel y gwelwch." Yr oedd hyn yn ddigon, er ei fod yn gelwydd noeth bob gair; effeithiodd ar ei deimladau elusengar ef, a dacw y llaw i'r llogell, gan estyn iddo ddarn o arian. Gwnaeth lawer elusen annheilwng fel yna, yn niniweid-rwydd ei galon, gyda miloedd gwir deilwng. Yr oedd yn well ganddo ef ei fod wedi rhoddi i rai yn annheilwng, na methu cyrhaedd gwir eisieu. Er ei holl roddion, "yr oedd ei gyfoeth," meddai Mr. R. Jones, yn ei "Ddrych yr amseroedd," "yn cynnyddu yn feunyddiol, m. gys y dywed y

gwr doeth, 'Rhyw un a wasgar ei dda, ac fe chwanegir iddo; a rhyw un arall a arbed fwy nag a weddai, ac a syrth i dlodi.'

Yr oedd yn hoff iawn—yn orhoff o'r hen ddiwygwyr Methodistaidd, yn enwedig Mr. Wesley. Yr oedd ganddo ei bortread yn ei ystafell wely. Bob amser efe ei hun a arweinai y pregethwyr i fyny i'r gwely, ac wrth fyned heibio trôai i'w ystafell ei hun, i ddangos iddynt ddarlun Mr. Wesley. Yr oedd ganddo yno arlun dychymygol o hono, yn cael ei gymeryd i'r nef gan angelion. Tadaï sylw ar yr arluniau, gan eu henwi o un i un, "a dyma Mr. Wesley—dano ef y cefais fy argyhoeddi;" a mawr y boddlonid ef yn y neb a roddai air da i Mr. Wesley. Ond byddai ambell i hen Gymro, naill ai oddiar anwybodaeth neu ragfarn, neu fe allai rhyw fesur o bob un o'r ddau, yr hyn a allasai fod yn hawdd y pryd hyny, yn rhoi gollyngdod i eiriau anffafriol, yr hyn a'i blinai yntau yn fawr. Dywedir iddo wahardd un hen frawd rhag dyfod byth i'w dŷ am roddi barn galed ar ei dad yn yr efengyl. Yr oedd unwaith yn cyfarwyddo y diweddar Barch. John Jones, o Edeyrn, i'w wely, yr hwn oedd yn nodedig am ei ffraethineb, a pharod-rwydd ei atebion sych a chraslyd. Fel arfer, aeth âg ef i'w ystafell-wely ei hun, i ddangos lluniau yr hen bregethwyr, gan eu henwi o un i un, "a dyma Mr. John Wesley," meddai, gan edrych arno yn barchus, a chwanegai, "Beth dybiech chwi, John Jones, oedd eu meddwl wrth ei dynu fel hyn—yn cael ei ddwyn ganddynt (yr angelion) yn ei wisgoedd?" "O," meddai hwnw, yn lled draws, yn ol ei arfer, "welwch chwi, ond dangos mai cryn waith gafodd angelion i lusgo John Wesley i'r nefoedd rywsut yn ei ddillad." Syrthiodd ei wynebpryd, a digiodd yn fawr am yr ateb hwnw. Yn fuan wed'yn, daeth yno gyfaill ag oedd yn deall yn well sut yr oedd y gwynt yn chwythu; pa un a oedd wedi clywed am anffawd Mr. Jones, nis gwyddom. Aeth â hwnw tua'r ystafell-wely, a throes fel arfer i'w ystafell ei hun, "a dyma Mr. Wesley, beth debygech am dano?" "O, dyn da, duwiol, llafurus, oedd Mr. Wesley," oedd yr ateb boddhaol. "Beth debygech," chwanegai, "oedd eu meddwl yn ei dynu fel hyn—yn cael ei godi yn ei *own* offeiriadol i'r nefoedd?" "Mi a feddylw'n, Mr. Foulkes, mai dangos y mae ei fod yn myned yno yn ei swydd." "Ydych chwi yn meddwl hyny?" eb efe, gan siriol, â'i lygaid yn llenwi. "O! ie, dyn rhagorol oedd Mr. Wesley." Wrth ganu nos da'wch i hwnw, dywedir iddo roddi iddo lwmp o *gini* pen rhaw.

Y pryd hyny, ychydig oedd crefyddwyr yn ei ddeall o dymherau eu gilydd, a chryn ragfarn yn cael ei goleddu yn mynwesau Cristionogion o'r naill blaidd tuag at y llall. Nid oedd ryfedd yn y byd, er llarieiddied oedd yntau, y caffai ei feddwl efengylaidd ei friwo gan rai geiriau a syniadau a dybiau yn rhy anfrawdol at y rhai y teimlai ef wresogrwydd tuag atynt. Dywedir iddo unwaith nacâu cydswpera â'r hen batriarch o'r Tŵr gwŷn, Mr. David Morris, oblegid rhyw sylwadau a wnaethai yn y gymdeithas. "Paham na ddaw dy feistr yma? Beth a wnaethom ni iddo?" ebai Mr. Morris, wrth un o'r morwynion oedd yn gwasanaethu ar swper. "Ni wn i beth a wnaethoch iddo," oedd ateb y lodes. "Yr ydych wedi taro yn drwm ar ei ddolur—ddaw o ddim atoch chwi heno, rwyf yn meddwl." "Hen ŵr da yw e; ond garw fel y digiws e," oedd terfyn yr ymddyddan.

Nid ydys yn gwybod y byddai fyth yn dadleu ar bynciau athrawiaethol; ac o bosibl na wyddai neb beth oedd ei dybiau, oddieithr Mr. Charles o'r Bala, i'r hwn y mae genym le i gredu yr agorai ei feddwl yn rhwyddach

nag i neb arall. Diammhau y gellir penderfynu nad oedd yn *ultra*; eithr gŵr yn ceisio cerdded tua chanol y llwybr. Pan oedd pregethwr ieuanc o gymydogeaeth Machynlleth, gŵr o deulu cyfrifol, yn dechreu "taro maes" yn ei yrfa grefyddol, yr oedd yn danllyd o zelog; ac, fel pobl ieuainc yn gyffredin, yn dueddol i redeg ymhell yn ei sylwadau dadleuol—yn tybied, gan mai Calfiniaeth oedd y wir athrawiaeth, y dylid dangos hyny bob amser, yn mhob pregeth, ac ar bob achlysur—gan mai melus yw mel, goraf po fwyaf o hono. Yr oedd y brawd ieuanc unwaith yn dechreu yr oedfa o flaen Mr. Foulkes, yn Llanwrin, trwy ddarllen pennod, a gwneyd rhai sylwadau arni wrth fyned ymlaen. Mr. Foulkes, wrth ei wrandaw, a dybiai, tybygem, ei fod yn myned lawn mdr bell a therfyn eithaf ei "gyffes ffydd," os nad beth tros yr ymylau hefyd—beth bynag, cybelled ag y tybiai opiniynau cymedrol Mr. Foulkes y dylasai fyned; a phan gyfododd yntau, rhoddodd iddo gilgwrthiad esmwyth, trwy roddi i'w canu y geiriau canlynol:—

"Deddfoldeb ydyw mammaeth,
Hen anghrediniaeth cas;
Hawdd yw rhyfygu gormod,
Ar y cyfammod gras:
Mae llwybr cul sy'n arwain,
Mor fanwl, ac mor fain,
Fel odef anweledig,
Yn rhedeg rhwng y rhain."

Yr oedd—fel pob crision dyngarol arall—yn teimlo yn awyddus am lwyddiant yr ymdrech er dyddymu y gaethfasnach. Tua hanner can' mlynedd yn ol, yr oedd y pwnc yn dechreu creu cryn sylw; a llawer yn penderfynu ymwrthod yn llwyr oddiwrth siwgr; oblegid ei fod yn cael ei gynnyrchu trwy lafur caethion. Yr oedd Mr. Foulkes yn hynod o hoffus o feluser yn ei dē—llwyaid fawr yn nghwpanau bychain yr oes hōno a'i gwngai yn felus iawn yn wir: ond y pryd hyny, er cymaint oedd yr hunanymwadiad, efe a aeth yn ddirwestwr oddiwrtho am beth amser, ac annogai bawb yn y tŷ i wneyd yr un modd. Tybiodd ei fod wedi llwyddo i berswadio y morwynion; "a da merched bach i," meddai efe, ryw ddiwrnod, "y mae yn dda genyf eich bod yn rhoddi y siwgr heibio, er mwyn y trueiniaid duon sydd mewn caethiwed." "A ydych chi wedi rhoddi y siwgr heibio yn wir?" ebai Mrs. Foulkes—"y mae eich meistr yn tybied eich bod; a mawr y mae yn eich canmol." "Na choelia fi," ebai Peggy, "pa flas sydd ar dē heb siwgr, meistr?" gan ddadguddio y cwpan siwgr a guddiasai o dan ei harffedog i dwyllo ei meistr llednais. Mor ddiniwed a diddichell ydoedd! "Ni feddwl ddrwg" ydoedd arwydd-air ymarferol ei holl ysbryd.

Dywedir na roddodd gyfraith ar neb erioed am arian, er fod rhai ugeiniau yn ddyledus iddo gan bobl ddiegwyddor a dynent oddiwrtho heb olwg na meddwl am dalu. Yr oedd yn gwerthu llawer yn gyfanwerth i fân-siopwyr pentrefi y wlad oddiamgylch, ac yr oedd yn cael colledion trymion ar law rhai o'r rhai hyn. Yr oedd un o'r cwsmeriaid hyn, yn Narowen, wedi rhedeg i'w lyfrau yn lled bell. Cwynai ryw dro oblegid hwnw. "Pa'm na rowch chi gyfraith arno, meistr," llefai un o'i forwynion oedd yn clywed. "Na wnaif mo hyny chwaith—ni roddais i gyfraith ar neb erioed, er nad yw yn debyg y caf ddim gan y bobl yna?" "A

rowch hwynt i mi, os medra'i eu cael?" meddai yr eneth, yn lled ddigrifol. "Cei, yn wir, y ngeneth fach, os medri eu cael." "O, mi rof fi gyfraith arnynt," meddai hithau. "Na chel, yn wir; ond os medri di eu cael trwy deg, ti a'u cei," oedd ei sylw diweddol ar hyna. Er y byddai cnafiaid felly yn haeddu cyfraith, ac nid oes ond y cyrtiau sirol a'u meddyginiaetha, gwel oedd ganddo eff dyoddef y golled, rhag, gan dynnerwch ei deimlad, y gwnei gam â neb.

Wedi i Mr. Foulkes ddyfod i'r Bala, cafodd fod y blaid o Gristionogion a'r rhai yr oedd ganddo i ymgyfeillachu, rywbeth yn wahanol yn eu dull o osod allan eu profiadau o freintiau a dylanwadau crefydd ar y meddwl, i'r hyn a arferai glywed gan bobl Mr. Wesley yn Nghaerlleon. Y pwnc mewn gwahaniaeth ydoedd "ffydd a sicrwydd." I egluro hyn, y mae yn briodol dywedyd, fod y ddau gorff Methodistaidd, yn dâl fod sicrwydd yn gyrrhaeddadwy, ac yn rhagorfraint y dylai pob cristion ymgyrhaedd am ei meddu. Y Methodistiaid Wesleyaidd a ddaliant—os nad ydym yn camgymeryd—fod sicrwydd o ffaf Duw yn fraint gyffredin pob plentyn Duw, ac y gallai pob dyn ei meddu. Y Methodistiaid Calfinaidd, hwythau hefyd, a ddaliant fod hon yn fraint plant Duw, ac y dylai pob dyn ymdrechu am ei meddu; ond mai braint arbenigol y cristion llafurus ac uchel mewn gras yw gallu dywedyd, "Mi a wn i bwy y credais"—er y dylai pob un fyw yn y llafur am ei meddu, mai ychydig, mewn cymhariaeth, yw y rhai sy'n ei chyrrhaedd. O dan ystyriaeth o'r gwahaniaeth yna, y mae aelodau y Methodistiaid Wesleyaidd yn cael eu cefnogi i siarad yn hyf, eglur, a dibetrus, yn eu rhestrgyfarfodydd wythnosol, am eu sicrwydd o ffaf Duw; ond y Methodistiaid Calfinaidd yn cael eu gwylio rhag rhyfygu, yr hyn a beir iddynt siarad yn betrusol ac ofnus, gan gael eu dysgu fod yn sicrach ofni na rhyfygu. Yr ydym yn tybio ein bod yn gosod y gwahaniaeth hwn yn ei oleu priodol. Y mae y naill a'r llall yn teimlo yr un teimladau ysbrydol, ond bod y naill yn cael ei arferyd i adrodd ei deimladau yn rhyddach a hyfach na'r llall. Ystyriaeth, mae yn debyg, o'r gwahaniaeth hwn a sylwai Mr. Foulkes, oedd rhwng aelodau y ddau gyfundeb yn adrodd eu profiadau crefyddol, ac hefyd ei fod wedi darllen rhywbeth yn yr "Homiliau" a betrusai ei feddwl, a wnaeth iddo, tua'r flwyddyn 1733, ofyn barn Mr. Charles, yr hwn a ddyry iddo yr ateb cymedrol a ganlyn:—

"Wrth chwilio 'Llyfr yr Homiliau,' yr wyf yn cael fod dau ddarnodiad, rywbeth yn wahanol, yn cael ei roi o ffydd achubol. Un yw yr hon a grybwyllwch chwi; ac yn dygwydd unwaith yn unig. Y mae y llall yn cael son am dani lawer gwaith, ac yn cael ei gosod allan yn yr ymadroddion canlynol.—'Ffydd Gristionogol, iawn, a gwirioneddol, yw, nid yn unig credu fod yr ysgrythyrau sanctaidd, a'r holl erthyglau dywededig, yn wir; ond hefyd meddu ymddiried sicr a hyder yn addewidion trugarog Duw, i gael ein hachub rhag damnedigaeth dragywyddol, trwy Grist: oddiwrth yr hyn y canlyn, calon gariadon i ufuddhau i'w orchymynion.'—Homili ar Iachawdwriaeth: rhan iii.

"Drachefn, yn fwy neillduol, 'Nid cred gyffredin o erthyglau ein ffydd yw (y ffydd) hon, yn unig, ond y mae hefyd yn wir ymddiried a hyder yn nhrugaredd Duw, trwy ein Harglwydd Iesu Grist, a gobaith diysgog o gael pob peth da o law Duw.'—Homili ar Ffydd: rhan i.

"Yr ydym yn cael darnodiad cyffelyb o ffydd mewn llyfr rhagorol a gyhoeddwyd yn y flwyddyn 1540, yn union cyn gwawr y diwygiad, a elwir 'Ysgoleigddod anghenrheidiol y dyn Cristionogol.' Y mae y darnodiad a roddir yno fel y canlyn:—'Y mae ffydd yn arwyddo hyder sicr a gobaith o gael beth bynag a

addawodd Duw er mwyn Crist, ac yn cael eu dilyn â chariad calonog at Dduw, ac uffudd-dod i'w orchymynion.' Yr ydym yn fynych yn cael darnodiant o ffydd i'r un pwrpas yn ysgrifeniadau y diwygwyr duwiol; ac ar y cyfan yr wyf yn meddwl na chenfydd dyn o feddwl tawel ond ychydig le i ymrafaelio â hwy.

Yr ymadroddion a grybwyllwch chwi yw y rhai hyn. Mi a adysgrifenas y cwbl o hono, fel y galloch weled y cysylltiad:—'Ffydd Gristionogol iawn a gwirioneddol yw, nid yn unig credu fod yr ysgrhythrau sanctaidd, a'r holl erthyglau dywededig o'n ffydd, yn wir; ond hefyd, fod yn meddu ymddiried sicr a hyder yn addewidion trugarog Duw i gael ein hachub rhag damnedigaeth dragywyddol drwy Grist; o'r hyn y deilliaw calon i'w garu a chadw ei orchymynion. A'r wir ffydd Gristionogol hon, nid oes yr un cythraul yn ei meddu, na chwaith yr un dyn, yr hwn yn mhroffes allanol ei enau a dderbyn y sacramentau yn allanol, mewn cyrchu i'r Eglwys, ac mewn pob ymddangosiadau allanol eraill a ymddengys fod yn gristion, ac eto ei fywyd a'i weithredoedd yn profi yn y gwrthwyneb. Canys pa fodd y gall fod gan ddyn y ffydd wirioneddol hon—yr ymddiried sicr, a'r hyder hwn yn Nuw, fod ei bechodau wedi eu maddeu trwy haeddiant Crist, a'i fod wedi ei gymmodi â Duw, ac yn etifedd teyrnas nefoedd trwy Grist, pan y mae yn byw yn annuwiol, ac yn gwadu Crist yn ei weithredoedd? Yn sicr, ni all yr un dyn annuwiol feddu y ffydd a'r ymddiried hwn yn Nuw.

Yn 'Erthyglau Lambeth,' y mae y pwnc hwn yn cael ei godi yn uwch eto, a'i osod allan mewn ymadroddion cryfach. Yr erthyglau hyn—naw mewn rhifedi—a gyhoeddwyd yn y flwyddyn 1595—oddeutu saith mlynedd cyn marwolaeth y frenines Elisabeth. Ar yr hwn amser, yr oedd ein duwinyddion yn yr Eglwys wedi colli pob *cymedroldeb* mewn egwyddorion athrawiaethol, yr hwn oedd môr nodedig yn addurno ein diwygwyr mawr a duwiol. Ar yr un pryd yr oedd y rhai a feiddiant wahaniaethu oddiwrthynt mewn perygl mawr o deimlo grym dystrywiol eu hysbryd erlidigaethus. Yr oedd y rhai ag oedd ganddynt y gallu yn cario pethau i'r uchder eithaf, ac yn benderfynol i wneyd i bawb, os yn bosibl, i greu fel hwy. Y mae yr erthygl yr wyf yn cyfeirio ati (y 6ed) yn dywyed fel hyn:—'Y mae gan ddyn wedi ei gyfiawnhau *lawn* sicrwydd diamheul o faddeuant o'i bechodau, a'r iachawdwriaeth dragywyddol trwy Grist.'

Heb wneyd dim sylwadau ar y darnodiadau hyn, mi a egluraf, mewn cân lleied o eiriau ag sydd bosibl, fy ngolygiadau *fy hun* ar ffydd gyfiawnhaol. Yr wyf yn ei wneyd, oblegid fy mod yn caru pob rhyddid a phlaender wrth egluro fy nhybiau; trwy yr hyn yr wyf yn fynych yn cael y fantais o fy niwygio gan farn well a phrofiad hwy rhai eraill. Y mae arnom oll eisieu goleuni yn fynych, ac yr wyf fi wedi cael y plaender hwn, trwy Dduw, yn foddion grasol o wybodaeth i mi mewn gwirioneddau achubol a chyfarwyddiadau doeth.

Gan hyny, tybiwyf mai ffydd achubol yw, iaf, Perswadiad llawn o holl ddigonolrwydd cyfiawnder ac iawn Crist, wedi ei weithio gan Ysbryd Duw yn nghalon pechadur, wedi ei sylfaenu ar dystiolaeth eglur gair Duw:—a chydag ef, 2il, trwy yr un Ysbryd, gydsyniad ac ymroddiad y galon iddo, gan *ymddarostwng* i gyfiawnder Duw, a gollwng ei *afael o bob peth arall*. Tybiwyf nas gellir chwaneu dim at hyn, heb ddryllio natur ffydd; yr hyn yw, myned allan o honom ein hunain, ymwrthod â'n cyfiawnderau ein hunain, a'n derbyn gan Dduw o'i drugaredd ef yn *unig*. Am yr un rheswm yr wyf yn meddwl y dywed yr apostol:—'O ffydd y mae, fel y byddai yn ol gras.' Nis gallai fod o ras unrhyw ffordd arall, ond trwy *ffydd*. Ac os chwanegwch ddim at yr hyn a ddywedir am ffydd, gyfiawnhaol, nid ymddangosai ei bod o ras. Os chwanegwch *sicrwydd* ati, gwnai hwn—yn gymaint a'i fod yn rhywbeth *ynom ni*—wneyd i ni edrych yno am gymeradwyaeth: tra y mae ffydd, fel ei darluniwyd, yn edrych *allan* o honom ein hunain, yn hollol ar Grist, am gymeradwyaeth; ac felly mae cyfiawnhad yn ymddangos ei fod yn *ras* yn barhaus. Ac yr wyf yn dymuno sylwi ymbhellach, fod gan y credadyn, wedi yr ymroddiad *cyntaf* hwn, yr un ffydd gyfiawnhaol bob amser. Felly, pe tybiem am amser yn ei fywyd dyfodol, yn yr hwn na sylfaenai ei dderbyniad gyda Duw yn union yn y ffordd hon, hyny yw,

amser pan y bydd heb y perswadiad llawn hwn o alluogrwydd a boddhad Crist ynddo, chwi a'i cydnabyddwch yn ebrwydd *heb fod yn gredadyn*. O ganlyniad, fel ar y cyntaf, felly y dylem yn barhaus ddwyn gyda ni deimlad o'n holl anghyfiawnder ein hunain, a llawn berswadiad o ddiagonolrwydd Crist, a'n hymostyngiad iddo am ffafur Duw.

Am *sicrwydd*, nid oes gan hynny gymaint i'w wneyd â digonolrwydd a grasusau Crist, megys pa un a *ydym ni*, neu *nad ydym* yn meddu rhan yn ei haeddiant hollddigonol; neu mewn geiriau eraill, pa un a *oes*, neu *nad oes* genym ffydd gyfiawnhaol. Yn awr, yr wyf yn meddwl nad yw ffydd i'w hadnabod yr un ffordd arall ond trwy ei ffrwythau a'i heffeithiau. Ffrwyth uniongyrchol ffydd yw *cariad*. Y maent wedi eu huno ynghyd; a hyny nid *unwaith*, ond *bob amser*. Nis gall chwaith fod dim cariad dwyfol ond sy'n tarddu o'r ffydd hon. 'Yr ydym ni yn caru Duw, oblegid iddo ef yn gyntaf ein caru ni.' Yr wyf yn deall cariad yn ystyr helaeth y gair, fel *cydymffurfriad* yr enaid â Duw, yr hyn sydd yn dilyn yn ebrwydd y weithred o gredu yn gyfiawnhaol, fel y mae y dyn yn cael ei sancteiddio 'trwy ffydd yn Nghrist.' Fel y cynnydda ffydd, y mae ein cydymffurfriad â Duw yn cynnyddu yn gyfatebol, a ffrwythau yr Ysbryd yn helaeth ddangos eu hunain o'n mewn. Ac y mae yr effeithiau cynnyddol hyny o ffydd yn rhoddi i ni *sicrwydd cynnyddol* o'n bod yn wir gredinwyr, neu yn wir gristionogion. Yn ol fy nhyb bresennol i, y mae pob drychfeddwl arall o'n sicrwydd yn tueddi i newynu a thrallodi yr enaid, neu yn arwain i ryddid y cnawd. A'r rheswm paham y mae llawer yn drallodus, anghysurus, ac anffrwythlawn, holl ddyddiau eu bywyd, yw, mewn rhan, yr wyf yn credu yn ddiysgog, oblegid nad ydynt yn ceisio 'bywyd a heddwch' yn ffordd ysgrythyrol Duw, trwy fod o 'feddylfryd ysbrydol,' a thrwy 'farweiddio gweithredoedd y corff trwy yr Ysbryd.'

Y maent yn byw mewn difrwch dan lywodraeth *diogi ysbrydol*, yn dysgwyl na wyddant beth—rhyw gynhyrriad anghyffredinol, yr hwn na addawodd Duw erioed yn y *dull* y maent hwy yn dysgwyl. Deallwch fi yn dda, nid wyf yn meddwl wrth yr hyn a ddywedais, nad yw Duw weithiau yn tori i mewn ar yr enaid, mewn modd anarferol, ac yn llenwi y credadyn â 'llawenydd annhraethadwy a gogoneddus,' ac yn rhoddi iddo, os goddefir i mi lefaru felly, *sicrwydd amgyffrediadol uniongyrchol* o fod ei bechodau wedi eu maddieu, a bod Crist a'i hollddigonolrwydd anfeidrol yn eiddo iddo.¹ Ond nid yw hyn i'w ddysgwyl yn gyffredin, ac i ymddibynu arno; canys yr ydym i 'rodio wrth ffydd, ac nid wrth olwg.' Y Betheliam a'r Penueliam hyn, er eu bod i'w dymuno yn fwy na phob peth, a roddir yn amsynych yn aml, ond i ryw bersonau tra rhagorol, wedi eu bwriadu a'u haddasu i waith anghyffredinol. Y fath, er esiampl, a Mr. Whitfield a Mr. Wesley, y rhai yr ymddengys wrth eu llythyrau a'u dyddyfrau, eu bod yn byw gyda thywyniad haul gwastadol oddifewn, gan eu bod yn agored i'r fath ystormydd a thymhestloedd geirwon gwastadol oddiallan, na allasant heb hyny fod yn alluog i ddal danynt.

Am y graddau o gysuron yr ydym i'w mwynhau ar daith ein pererindod, dylai hyny gael ei adael i Drefnwr doeth a phenarglwyddiaethol pob peth. Ein gorchwyl ni, a'n diwydrwydd, a'n gofal mwyaf, a ddylai fod 'marweiddio gweithredoedd y corff trwy yr Ysbryd.' Os ydym yn sanctaidd nis gallwn fod yn annedwydd. Ac heb sancteiddrwydd, nis gall hyd yn nod Duw ei hun (gyda pharch y dyweder) ein gwneyd yn ddedwydd. Yr wyf yn bresennol yn credu yn ddiysgog, fod ein sicrwydd ffydd, a'n heddwch meddwl, yn gyfartal i'n sancteiddrwydd a phurdeb ein calonau a'n bucheddau. Y mae arnaf gywil-ydd nad wyf yn cyrchu yn fwy difrifol at yr hyn sydd mor anfeidrol werthfawr,

¹ Wedi i Mr. Robert Roberts, gynt o Glynog, bregethu unwaith yn nghapel y Bala ar drueni yr annuwiol, aeth Mr. Charles ato, gan estyn ei law iddo, a dywedid, "Wel, Robin bach (felly y dywedir), y mae yn dda genyf heno nad wyf yn un o'r annuwiolion hyny." "A ydych yn gwybod hyny, Mr. Charles?" gofynai Roberts. "Ydwyf yn burion, Robin bach," oedd yr ateb.

ac i'w gael mor rhad. Yr wyf yn gobethlo y gallaf, trwy ras, ddyweyd yn gywir fy mod yn ei daer ddymuno, yn fwy na dim arall y gall Duw ei roddi i mi. Pa anrhydedd, pa ogoniant tra ysplenydd y gall ein hawydd uchaf ei ddymuno yn uwch na'r rhagorffaint o ddywyn delw Duw ar ein heneidiau, i 'fod yn debyg iddo?' Geiriau bendedigedig yw y rhai hyn y o eiddo St. Ioan, 'y byddwn gyffelyb iddo.' Bydded i'r Arglwydd da gael ei fawrhau byth am *sicr* obaith o'r ogoniant hwn. Nefoedd wedi dechreu ar y ddaear yw y radd leiaf o hono.

Cynnorthwywch fi, anwyl syr, â'ch gweddiau, fel y bo i mi gyrchu mwy ymlaen, a'm galluogi i fyw yn fwy i ogoniant fy Meistr dwyfol. Nis gellwch wneyd mwy o garedigrwydd i mi. Yr wyf yn sicr nad oes dim yn werth byw erddo yn y byd hwn, ond i fod yn llafurus tros Dduw. A phan na allaf wneyd hyny ond i ryw radd fach, mi a ddymunaf yn ddefosiynol wybod y cwbl mewn byd arall, lle y caf 'ei weled fel y mae,' a (meddwl cysurus) 'bod yn debyg iddo.'¹

Nis gallwn wybod pa foddlonrwydd a roddodd llythyr yr efengyllydd duwiol hwn ar feddwl Mr. Foulkes; ond hyn a wyddom, fod gan y naill feddwl uchel am rasusau y llall—Mr. Charles feddwl uchel am ras a gostyngedd-rwydd Mr. Foulkes, a Mr. Foulkes feddwl uchel am ras a gwybodaeth Mr. Charles. Pan y byddai Mr. Charles yn ysgrifenu at Mrs. Charles cyn eu priodi, byddai bob amser yn cofio at Mr. Foulkes.

Yr oedd yn nodedig o ofalus am iachawdwriaeth ei blant. Pan y byddent yn yr ysgol ymhell oddicartref, efe a ysgrifennai atynt yn fynych, gan eu hannog bob amser i ofalu am yr "un peth anghenrheidiol." Rhoddwyd lliaws o'r epistolau hyny yn ein llaw gan ei ferch, Mrs. Jones. Ni a roddwn un o honynt yma er dangos o ba ysbryd yr oeddynt; canys yr un fath oeddynt oll, gydag ychydig wahaniaeth o amgylchiadau teuluaid.

"FY ANWYLAF TOMMY—Gobeithio y bydd i'r ychydig linellau hyn eich cael mewn iechyd, ac yn ddedwydd, fel y maent yn ein gadael ni oll oddieithr fy hunan. A ydych chiwi yn ddirifol, fy anwyl Tommy? A ydych chiwi yn meddwl am yr 'un peth anghenrheidiol?' A ydych chiwi yn teimlo dymuniad i garu Duw, a chadw ei orchymynion? Nis gellwch fod yn ddynd dedwydd, heb fod yn ddynd da; ond os byddwch yn ddynd da, bydd 'dy heddwch fel yr afon, a'th gyflawnder fel tónau y mor.' *Essay* xlviii. 18. Ac yr wyf yn meddwl, os ymdrechwch i ddyysgu yr hyn sydd anghenrheidiol i chiwi i'w ddyysgu yn y ysgol, y gwyddoch y byddai yn dda genym dy gael adref; a gwyddoch mor gostus ydyw i ni eich cadw ill dau mewn ysgol. Wyf, anwylaf Tommy, dy gariadus dad,

"Machynlleth, Gorph. 28ain, 1801."

"THOS. FOULKES."

Y mae yn bryd i ni bellach dynu at ddiwedd y crision rhagorol hwn—wedi darlunio ei fywyd, i ddarlunio ei farwolaeth, i edrych a ydynt yn cyfateb i'w gilydd. Dywedaso iddo gael ei gymeryd yn glaf yn y capel, pan oedd gweinidogion cenadol Cymreig y Wesleyaid wedi dyfod y tro cyntaf ar eu neges genadol i Fachynlleth. Wedi darfod yr oedfa, aeth y gweinidogion i'w weled, pan y dywedodd Mr. Davies—un o honynt—wrtho, wrth ei weled mor salw, "Yr wyf yn gobethio na ddaethym yma i bregethu pregethu eich claddedigaeth." "Gobeithio na ddaethoch," ebai Mr. Foulkes; "ond mi a allaf ddywedyd yn bendant, mai 'byw i mi yw

¹ Nis gwyddom pa un ai yn Saesoneg, ai ynte yn Gymraeg yr ysgrifennodd Mr. Charles y llythyr hwn yn wreiddiol; ond yn Saesoneg y cawsom ni ef—yn nghofiant Saesoneg Mr. Charles, gan y Parch. Mr. Morgan, Syston. Os cyfieithiad o'r un gwreiddiol yn Gymraeg yw hwnw, y mae yr eiddom ni yn gyfieithiad o gyfieithiad, ac felly, fe allai, yn fwy tywyll na phe cawsom ef o law ei awdar yn ddi-gyfieithiad. Y mae rhyw adgof genym ei weled rywbryd mewn hen "Drysorfa;" ond methasom a chael gafael arno pan oedd arnom ei eisieu.

Crist, a marw sydd elw ;” yr hyn oedd testun y bregeth y clywsai ddarn o honi.

Yr oedd Mrs. Foulkes yn serchus, a dibaid yn ei gofal am dano nos a dydd, tra parhaodd ei gystudd, ac yn awyddus iawn am wyhodaeth sier o sefyllfa ei feddwl cyn ei farwolaeth. Un noswaith, gofynnodd un o'i forwynion ffyddlawn, yr hon a eisteddai i fyny gydag ef trwy yr wythnos y parhaodd ei gystudd, a gai hi ei gynnorthwyo i newid ei agwedd orweddol yn y gwely ; i'r hyn yr atebodd gyda llawer iawn o dawelwch, “ Nid oes fater yn mha agwedd y byddo fy nghorff—y mae fy ngobaith yn eglur, yn gadarn !” Y rhai hyn ydoedd y geiriau olaf a lefarodd. Yna penliniodd Mrs. Foulkes yn ymyl y gwely, a'i meddwl yn llawn o gysur, wrth glywed ei dystiolaeth siriol. Yr oedd hi wedi cael mynych brawf o'r blaen, yn ystod y pedair blynedd ar ddeg y buont yn briod, ddarfod iddo rodio gyda Duw mewn gwirionedd. Bu farw, Sadwrn, Mai 15fed, 1802, yn 71 oed, mewn cyflawn obaith am fwynhad o anllygredigaeth a bywyd tragwyddol ; ac ni bu mwy o alar mewn tref na gwlad nag ar ei ol ef.

O ran ei faint corfforol, yr oedd yn ddyn canolig o daldra, ac o drwch cyfatebol, a pheth crymiad yn ei war. Ei wisgiad oedd côt unfrest, syth, o frethyn du neu las, a het â chanddi dair cwale, rywbeth tebyg yn ei ymddangosiad i eglwyswr parchus.

Nid anghofiodd Mr. Foulkes, yn ei ewyllys ddiweddaf, y rhai hyny yr oedd ei barch gymaint tuag atynt yn ei fywyd. Rhoddodd yn ei ewyllys y swm o un swllt ar bymtheg ar hugain yn ffyneddol at achos y Wesleyaid yn Nghaerlleon, pa rai a dalwyd yn ffyddlawn a rheolaidd am rai blyneddau, yr hyn oedd ei gyfraniad rheolaidd—yn gwneyd chwe' cheiniog yn wythnosol, a hanner coron yn chwarterol. Byddai bob ffair yn galw gyda y gweinidog yn Nghaer, pwy bynag fyddai, ac yn talu ei gyfraniadau uchod yn rheolaidd. Wrth weled fod talu blyneddol felly yn lled drafferthus, gwnaed cytundeb heddychol a'r teulu i dalu deugain punt o arian ar unwaith, y rhai a dalwyd gan ei fab, J. Foulkes, Ysw., i oruchwyliwr cymdeithas y Wesleyaid Seisoneg yn Nghaerlleon, sef Mr. Bowers.

Yr oedd ei gladdedigaeth yn gyhoeddus a chyffredinol. Pregethodd Mr. John Evans, o'r Bala, y noson o'r blaen ; a'r Parch. Mr. Charles, o'r Bala, o flaen y tŷ boreu dranoeth, am ddeg o'r gloch, oddiar *Math. xxv. 23* ; “ Ei Arglwydd a ddywedodd wrtho, Da was da a ffyddlawn, buost ffyddlawn ar ychydig, mi a'th osodaf ar lawer, dos i mewn i lawenydd dy Arglwydd.” Wedi y bregeth, cydgordaith alarus (yr hon ydoedd yn dra lliosog) a ddilynodd ei ran farwol, a chanwyd y Salm ganlynol wrth y bedd :—

“ Daw dydd i'r cyflawn dranoeth teg,
Daw iddo chwaneg estyn ;
Daw iddo o'r bedd godiad i fyw,
Deheulaw Duw a'i derbyn.”

Fel hyn y gorphenodd gyrfa y cristion hawddgar, defnyddiol, ac unilawn hwn ; am yr hwn y gellir dywedyd yn eithaf iaith y geiriau hyny yn y bedwaredd bennod ar ddeg o'r efengyl yn ol yr efengylwr *Marc*, a'r wythfed adnod ; “ Yr hyn a allodd hwn efe a'i gwnaeth.”

Cyfansoddwyd marwnad iddo gan un, Evan James, Llanfachreth, ac argraffwyd hi yn Nolgellau, ynghyd â marwnad i'r Parch. George Griffith, 1850.]

hen bregethwr Methodistaidd, ac hefyd ychydig hymnau. Am Mr. Foulkes, dywedir :—

“Dilladu y rhai noethion,
A wnaeth e'n ethol iawn ;
A phorthi y lleill mewn cyni,
A'u llenwi hwynt yn llawn :
Mae'n chwith i rai am dano,
Sydd heddyw'n cario cur,
Gwrandawe fe'u gruddfane,
Yn fore wrth ei fur ;
Anhawdd cael cymar iddo,
'R wy'n coelio heb un cam ;
'Roedd ganddo drugarowgrwydd,
Yn rhwydd fel Abraham.”

MASNACH A'I LLWYDDIANT.

Y MAE yn ddiammheuol fod masnach yn un o brif elfenau gwareiddiad, ac yn deilwng o sylw pawb sydd yn caru llwyddiant a chysur y gymdeithas ddynol ; ac felly yn haeddu sylw, fe allai, am unwaith yn y “Traethodydd.” Y mae amryw bethau yn hanfodol i lwyddiant a chysur dynoliaeth mewn ystyr gymdeithasol, megys llênnyddiaeth, masnach, rhyddid, ac yn benaf, crefydd—sef gwir grefydd. Mewn ystyr dymmorol, nid yw y naill o'r rhai hyn ddim yn ddigon heb y llall, ac nid yw y naill byth yn ffynu yn iawn ond gyda y llall : y maent yn gyffredin yn canlyn ac ynglŷn â'u gilydd. Gwelwyd y tri pheth cyntaf, a'u cymdeithion, yn ffynu i raddau helaeth mewn rhai gwledydd paganaidd ; ond o ddiffyg yr olaf, sef crefydd, ni chwasant nerth i barhau am nempwr o amser, na hamdden erioed i gyrhaedd cyflawn addfedrwydd. Ffrwythau surion sydd wedi bod hyd yma ar ddynoliaeth gyda golwg ar y byd yn gyffredinol, a hyny o ddiffyg bod dan lewyrchiadau bywiol Haul y Cyfiawnder. Lle byddo gwir grefydd yn ffynu, gellir dysgwyl i bob peth da arall ffynu gyda hi ; ac fel byddo hi yn adfeilio, yn gyffredin y mae pethau eraill yn adfeilio hefyd. Y mae yn wirionedd amlwg mai pan oedd crefydd yn fwyaf ei bywyd a'i grym yn Brydain yr esgynodd y wlad i'r gradd uchaf o lwyddiant masnachol a rhyddid, yn gystal ag mewn llênnyddiaeth—cawsom llênnyddiaeth yn amser ein diwygiadau crefyddol a seneddol na chwasm erioed o'i fath. Cawsom y meddyliau mwyaf galluog ac annibynol yn yr amserau hyn. Hawdd iawn fyddai cyfeirio at genedloedd lliosog yn ngwahanol barthau y byd, y rhai sydd yn aros eto yn mro a chysgod angeu, yn mhob ystyr, o ddiffyg y pethau a enwyd : rhai nad ydynt yn meddwl un amser am ymestyn ymlaen at amserau gwell i ddyfod, ond yn hytrach yn troi yn ol at ryw baradwys draw, a gollasant er's amser maith. Nid felly Brydain a'i chymydogion : yr ydym ni yn hiraethu am amserau gwell i ddyfod, ac yn brysio ymlaen at eu dyfodiad, gan arfer pob moddion i'w cyrhaedd. Ond am fasnach yr ydym yn myned i son yn bresennol ; ac nid un o'r pethau lleiaf yw dylanwad daionus masnach ar ddynolryw mewn ystyr gymdeithasol, heblaw ei bod yn diwallu anghenrheidiau, ac yn ychwanegu at gyfleusderau bywyd.

Y mae hi yn un peth yn cysylltu dynion a chenedloedd â'u gilydd, tra y mae ar yr un pryd yn sicrhau rhyddid ac annibyniaeth meddwl i bawb fel eu gilydd. Gall y masnachwr ddyweyd, *Ni fynaf*, pan nad all yr areddwas (*serf*) ddyweyd ond, *Ni feiddiaf*. Gwelwn gan hyn y fod i fasnach uwch dyben na diwallu anghenrheidiau bywyd, a gwneyd arian; i.e., gallwn ddyweyd ei bod yn wir anghenrheidiol tuag at sicrhau moesoldeb a llwyddiant cymdeithasol.

Ar ddiwydrwydd a masnach yn unig y mae y rhan liosocaf o ddynion yn ymddibynu am eu bywioliaeth. Wedi eu gwrthio gan y mawrion o feddiannu tiroedd i'r trefydd, nid oes gan filiynau o ddynion ddim mwy i wneyd ond edrych am ryw alwedigaeth neu fasnach i ennill eu bara wrthi, ac ar eu glewder â'u dyfais, ynghyd a'u llafur beunyddiol, y mae y lliaws yn byw. Po fwyaf eu maint fyddo y ffermydd, y mae yn debyg mai lleiaf o ddwyawl, mewn cymhariaeth, sydd eisieu i'w trin: nid oes gan hynny ddim gobaith i'r nifer liosocaf o'r bobl, ond oddiwrth ddiwydrwydd celfyddydol a masnach. Nis gallwn weled chwaith fod un perygl, ar y cyfan, i lwyddiant amaethyddiaeth oddiwrth lwyddiant masnach, ond yn hytrach fod llwyddiant y naill yn ymddibynu llawer ar lwyddiant y llall.

Wrth ystyried y pethau hyn, yr ydym yn edrych ymlaen at yr Arddangosiad (*Exhibition*), sydd i fod y flwyddyn nesaf yn Llundain, gyda dyddordeb mawr. Bydd gweled newyddau masnachol o bob gwlad wedi cael eu dwyn ynghyd mewn cydymgais am ragoriaeth dyfais a gwaith, yn sicr o roddi cynhyrriad newydd i lafur a masnach drwy y byd, yn gystal a rhoddi cyfleusdra i ddynion elwa ar fanteision eu gilydd. Ac fel y crybwyllwyd eisoes, bydd hyn yn sicr o dynhau rhwymau heddweh a chydgoriad rhwng cenedloedd â'u gilydd, drwy eu goleuo am eu hymddibyniad y naill ar y llall, a'r lles sydd o feithrin teimladau heddychol ac ewyllys da tuag at eu gilydd.

Ond cyn myned ymlaen ymhellach gyda hyn, dymunem alw sylw at un peth neillduol ag oedd i'w ganfod yn y terfysgoedd diweddar a fu yn Ffrainc ac ar y Cyfandir—sef yr ysbryd sosialaidd, neu gydfeddiannol, fel y gelwir ef, a'i ddylanwad ar gelfyddyd a masnach.

Yr oedd y chwyldroadau diweddar, a fu yn ysgwyd bron holl wledydd Ewrop, yn ysgogiad o natur gymdeithasol, efallai, yn hytrach na gwladwriaethol. Mewn un golygiad, yr oedd yn effeithio ar sefydliadau cyhoeddus; mewn golygiad arall, yr oedd yn ymhel â chysylltiadau dirgelaidd meddiannau, diwydrwydd, llafur, a chyfflog. Yn awr, y mae gwleidiadaeth (*political economy*) yn dangos i ni fod y cysylltiadau hyn yn cael eu sefydlu mor ddiysgog gan hanfodaeth cymdeithas, ag y mae cysylltiadau defnydd yn cael eu penderfynu gan hanfodaeth y bydysawd. Nid oedd Adam Smith ond darganfyddwr—nid dyfeisiwr. Ni wnaeth y gwleidiadydd erioed ddyfeisio deddfau, mwy na seryddwyr. Yn mhob un o'r gwybodaethau hyn, yr oedd y deddfau yn cael eu casglu wrth sylwi ar ffeithiau nad oedd gan y sylwedydd un dylanwad na llywodraeth yn y byd arnynt. Y mae deddf sugndyniad yn bod erioed o ddechreuad y greadigaeth, ac ni chafodd darganfyddiad Newton un dylanwad yn y byd ar y ffaith o'i bodolaeth. Yr oedd deddf *demand* a *supply* yn bod er ffurfiad cyntaf cymdeithas, ac nid oedd y ffaith o'u bodolaeth ddim yn myned dan un cyfnewidiad pan ddadguddiwyd hi gan Adam Smith. Ni a allwn gan hynny ragfynegu beth fydd canlyniadau pob anwastadrwydd, terfysgoedd, a thros-

eddiadau o wyddoniaeth drafnidol gyda'r un sclerwydd, os nid mor fanwl, ag y gallwn ragddangos effeithiau terfysgoedd ar ddeddfau gwyddoniaeth anianyddol; ac fel y rhagddywedwyd gan ddynion o sylw, felly yn gymhwys y bu ar y Cyfandir yn ddiweddar. Y peth peryglus y cyfeiriwn ato ag oedd yn hynodi y chwyldroadau diweddar oedd, yr ymosodiad trahaus ar egwyddorion mwyaf profedig a sefydlog gwyddoniaeth drafnidol; megys cais am ychwaneg o gyflog am lai o waith. Yn Paris a manau eraill, yr oeddynt wedi myned mor bell a mynu cynnalïaeth dda heb weithio dim. Y mae gwleidiadaeth yn dysgu i ni fod cyflogau yn cael eu rheoleiddio gan ddeddfau naturiol, annibynol hollol ar ewyllys y meistr a'r gweithiwr. Y mae yr egwyddor o gydfeddiannaeth (*communism*) yn dra chymeradwy a defodol yn awr ar y Cyfandir, ac wedi bod felly i raddau hefyd yn Lloegr. Y mae y cydfeddiannwyr yn cynnyg dangos ffordd i godi cyflogau yn ol ewyllys y gweithiwr: ni wiw iddynt ddyweyd mai eu hymgais yw rheoleiddio y cyflogau; nid oes un gweithiwr yn foddolawn i gredu ei bod yn rheolaidd i ostwng ei gyflog.

Hawdd yw dangos fflineb yr ymgais hon. Nis gellir talu cyflogau ond o ennill, ac y mae yr ennill yn ymddibynu ar y gwerthiant; ond y mae y gwerthiant yn ymddibynu eilwaith ar ewyllys y prynwyr. Nid oes un ddeddf a all orfodi dyn i brynu nwyddau am bris uwch nag a fyddo yn cyfarfod â'i amgylchiadau ef. Felly, os gorfodir y cyflogau i fod yn uwch eu graddau na graddau yr ennill, rhaid i'r mashachwr mewn hunan-amddiffyniad roddi heibio ei fasnach o gwbl; byddai y gweithiwr wedi lladd yr ŵydd ag oedd yn dodwy yr ŵyau euraidd, ac ar unwaith wedi tafu ei hun allan o waith. Felly y bu yn mhob man y profwyd y fath drefn.

Ond y mae un ffurf arall ar gydfeddiannaeth, teilwng o sylw; yr ymgais i gydraddoli telerau llafurwaith; wrth yr hyn y deallir, talu pob gweithiwr yr un fath, neu yn agos felly, heb unrhyw olwg ar lawder, deall, a gallu y gweithiwr. Y mae Louis Blanc wedi bod yn gosod hyn allan yn ei gyhoeddiadau brawdol, yn mha rai mae yn ceisio darbwyllo y rhai sydd yn cael cyflogau uchel mewn gweithfaoedd celfyddydol ac addurniadol, mai fflineb yw iddynt feddwl eu bod hwy yn well allan na gweithwyr eraill. Canlyniad naturiol hyn a fyddai bwrw heibio ar unwaith bob gweithfaoedd yn cynnwys darpariadau drudfawr, neu eu hanfon lle y ceir y pris goreu am danynt, ynghyd â pheri i'r celfyddwr goreu deimlo ei fod yn nôd eiddigedd i'r rhai sydd islaw iddo, a'i anfon lle y caiff chwarae teg, a phris iawn am ei waith.

Y mae cydfeddiannaeth yn wrthwynebol hefyd i beiriannaeth. Y mae mwy o'r gwrthwynebiad hwn fe allai yn Ffrainc nag sydd yn un man. Y mae y camgymeriad hwn wedi ei symud i raddau helaeth o Loegr. Nid yw yn hawdd, y mae'n wir, canfod ar y cyntaf fod gwneuthuriad rhadlawn yn gymaint o fantais i'r gwneuthurwr ag ydyw i'r prynwr; y mae dynion wedi arfer meddwl fod pris uchel yn wastad yn gysylltiedig âg ennill uchel, ond y maent yn anghofio fod pob codiad yn y pris yn lleihau nifer y rhai a allant brynu; a bod pob lleihad yn y prynu yn rhwym o beri lleihad yn y gwneuthuriad.

Yn mhob modd y mae y Cydfeddiannwyr yn codi eu llef yn erbyn yr egwyddor o gydymgais (*competition*); y maent yn taeru ei bod yn groes i natur fod y rhedfa yn eiddo y cyflym; y mae hyn yn groes i'w hegwydder hwy. Ond yr ydym ni yn meddwl yn wahanol, ac yn cyfrif mai i gyd-

ymgais yr ydym yn ddyledus am y cwbl sydd ragorol mewn llênnyddiaeth, gwyddoreg, a chelfyddyd. Pe b'ai Eastlake neu Landseer yn cael ond yr un bris am eu gwaith a'r dwbiwr sydd yn gwneyd arwyddlun y dafarn, pa le y byddai un cymhelliad, na gwobr deilwng wed'yn i lafur a lludded athrylith goethedig? Heb wobr deilwng ni cheir byth waith teilwng. Yr unig wir ryddid a chyfiawnder â phawb, gan hyny, yw talu i bob un yn ol ei weithred. Ond y mae rhywbeth tra swynol yn addewidion y Cydfeddiannwyr; ac nid rhyfedd fod cynnifer o'r dosbarth difeddwl wedi bod yn eu pleidio. Eithr gellir cyrhaedd cydraddoldeb mewn dwy ffordd—trwy dynu eraill i lawr at yr iselradd, yr hyn yw egwyddor y Cydfeddiannwyr, neu ynte, trwy lafur a theilyngdod, gyfodi i sefyllfa ein gwell, yr hon yw egwyddor cydymgais. Y gyntaf fe allai yw yr hawddaf; ond tra y byddo yn niwed i eraill, nid yw yn ein gwneyd ninnau ddim gwell nag oeddem o'r blaen; y mae yr olaf yn araf, ond y mae pob cam yn y blaen yn welliant ar ein cyflwr. Y mae yr egwyddor gydymgeisiol gan hyny mor bell o fod yn niweidiol i'r crefftwr a'i bod yn unig obaith iddo am wellâu ei sefyllfa; oblegid pan fyddo cydymgais wedi darfod, y mae pob sefyllfa yn rhwym o sefyll yn yr un man am byth.

Hen athrawiaeth dwyllodrus yw yr eiddo Louis Blanc a'i gyfeillion; a dylid ei dynoethi, oblegid ei thuedd yw attal llwyddiant ar lafurwaith a masnach, yn gystal a dinystrio pob trefn ar gymdeithas. Y mae yn gwaelodi ar y dyb fod y meist'r a'r meddiannydd, yn ol y drefn bresennol ar bethau, yn derbyn mwy na'u rhan o'r ennill ar weithfaoedd, a'u bod felly mewn anghyfiawnder yn lleihau y drysorfa o ba un y mae y llafurwr i gael ei dalu. Y maent ymhellach yn taeru mai y cyfoethogion a'u meistradoedd sydd wedi dyfeisio y drefn bresennol ar bethau er elw iddynt eu hunain a gormes ar y llafurwr tlawd, a bod yn bosibl ei newid am drefn well—am drefn i sicrhau cyfraniad cywirach ar yr elw i lafurwyr. Y mae rhyw ddiwygiad felly yn bwnc teilwng o ystyriaeth; y mae llawer o bethau i'w canfod yn sefyllfa y dosbarth gweithiol yr hoffai pob dyngarwr weled eu symud, a llawer o ddaioni i'w ddymuno iddynt. Ond nid y cwestiwn yw, pa un a oes drygau i'w symud a daioni i'w ddymuno; ond pa un ai ar y drefn bresennol y mae y bai neu beidio.

Ffynnonell arall o ba un y tardda llawer o'r dyryswech sydd yn amgylchu yr ymfyniad hwn yw, fod dynion yn ymfoddloni ar brofi (fel y tybiant) fod cyfnewidiad yn ddymunol, yn lle ymfodyn pa un a yw y fath gyfnewidiad yn *bosibl* neu beidio. Fel y dywedir am ryw dywysoges yn Ffrainc, wedi clywed am drueni y tlodion o eisieu bara, iddi gynnyg ar fod iddynt gael eu porthi â *phlum-cake*. Gallai hyny fod yn ddigon *dymunol*, ond ni feddylodd hi erioed druan pa un a oedd hyny yn *bosibl* neu beidio. Byddai yn fendith i ddynolryw, ac yn achos o lwyddiant a thangnefedd nid bychan i wladwriaeth, pe b'ai dynion, cyn dangos anfoddlonrwydd am fod eu dymuniadau heb eu cyflawni, yn edrych yn gyntaf pa un a fyddai hyny yn *bosibl* neu beidio.

Ond nid oes un cyfeiliornad mor gyffredin ac mor ddrwg yn aml yn ei ganlyniadau, na'r haerid haerllug fod pethau fel y maent yn rhwym o fod yn annheg, pan mewn gwirionedd, ond edrych arnynt yn ddiudedd, y gwelir yn amgen. "Y mae y masnachwr yn gyfoethog, a'r gweithiwr yn dlawd: a ddichon dim fod mor annheg a hyn?" meddai Louis Blanc. Eithr hyd oni ellir profi fod cyfoeth y naill yn achos o dlodi y llall, nid oes

dim mwy o annhegwoch yn y peth nag sydd mewn bod y naill ddyn yn gryfach na'r llall o gorrffolaeth. Nid oes dim yn fwy ynfyd, dybyggen, na'r syniad fod holl ennill y masnachwr yn cael ei dynu o ennill y gweithiwr; a chrediniaeth fod colled y naill yn wastad yn rhwym o fod yn ennill i'r llall. Dyma y sail ar ba un y mae dynion yn achwyn ar sefyllfa dda y meddiannydd a'r masnachwr yn aml; tybiant pan fo un dyn yn colli fod yn rhaid i'r llall ennill, a phan y byddo i un ennill fod yn rhaid i'r llall golli. Fe ddichon colled gymeryd lle heb un ennill cyferbyniol. Os bydd Dafydd yn colli noswaith o gysgu o herwydd poen yn ei ben, ni ennillai neb arall fwy o gwsg drwy hyny. Fe ddichon ennill fod heb un golled. O herwydd i John godi yn foreu heddyw, ennillodd awr yn rhagor at ei ddiwrnod, ond ni chollodd hyny, ar a wyddom ni, neb arall o un fynyd o amser. Os bydd un dyn yn cynnyddu mewn glewder celfyddydol, nid oes dim achos fod neb arall yn colli dim o'u gallu a'u medr hwythau fel canlyniad i hyny.

Gan hyny, os yw elw y meddiannydd yn fwy nag elw y gweithiwr, fel yr haera y Cydfeddiannwyr a'u rhywogaeth, nid yw yn canlyn o anghenrheidrwydd fod yr elw hwnw yn deilliaw o golled y gweithiwr; ac os nad yw yn deilliaw o'i golled ef, ni ddylai yntau achwyn ar ei feistr. Dywed y Cydfeddiannwyr fod y meistr yn cymeryd mantais ar dlodi y gweithiwr i ostwng ei gyflog hyd y gallo. Caniatäer hyny—gall y gweithiwr wneyd yr un peth; os ceisia y naill gymaint a allo o lafur am ei arian, ceisia y llall gymaint a allo o arian am ei lafur. Bydd y ddau yn ymgais am wneyd y fargen oreu a allont; hyny yw, y mae pob un yn sicr o gymeryd mantais hyd y gallo ar anghen y llall. Os ceisir penodi swm benodol o gyflog i'r gweithiwr, a dim llai, y mae yn eithaf rhesymol hefyd penodi swm o du y meistr, a dim mwy. Os gwna llywodraeth neu ryw allu arall ymyraeth rhyngddynt, nis gall mewn un modd sefydlu y naill heb sefydlu y llall. A sefydler y fath drefn a hono, a dyna ddiwedd ar unwaith am bob gobaith i'r gweithiwr wella ei sefyllfa yn y byd; y mae yn cael ei rwympo i dderbyn swm benodol a sefydler yn ol cyfartaliad a gymerir o'r lliaws gweithwyr, yn ol pa un ni chaiff y goreu ond yr un gyfran a'r diog a'r difedr.

Nid yw yn anhawdd dangos mai yr egwyddor o gydymgeisiad yw yr unig egwyddor ar ba un y gallwn ddysgwyl gwelliant mewn nwyddau masnachol; ond yr ydym wedi gweled fod rhai am suddo y cwestiwn o gelfyddyd yn yr ymofyniad pa beth sydd oreu er lles y gweithiwr yn y golygiad iselaf ar bethau. Ond yr ydym yn foddolawn i gymeryd y tir hwn hefyd, a dangos fod yr egwyddor gydymgeisiol yn ddeddf naturiol i ddyndolryw, nas gellir ei throeddu mwy nag y gall dyn neidio dros y graig heb dori ei wddf. Y mae pob gwneuthurwr hefyd yn brynwr; ac nis gall ef gael yr un ddeddf i orfodi eraill i roddi pris uchel iddo ef heb ar yr un pryd ganiatau hyny o fantais i eraill tuag ato yntau. Ië, yn wir, y rhan amlaf o lawer, byddai yn fwy o niwed i'r gweithiwr nag i'r meistr fod ei gyflog wedi ei sefydlu; oblegid gall y meistr, pan welo ei fod yn golledwr yn ei fasnach, attal ei law, a chadw ei arian i'w defnyddio ryw ffordd arall, pan na all y gweithiwr mor hawdd droi ei law at ddim arall ond a ddysgodd ac a arferodd äg ef o'r blaen. Ni byddai achos am i'r meistr golli ond ychydig, ond byddai darford am elw y gweithiwr yn llwyr ar unwaith. Hynod yw fod y gwäfr hyny a ddywedant fod eisieu rhoddi attalfa ar yr hyn a alwant yn ormes y meddiannwyr, yn methu gweled fod yr hyn a

alwant yn ormes yn hanfodol i feddiant, yr un modd ag y mae goleuni yn hanfodol i godiad yr haul. Oni all dyn sydd ganddo ugain punt yn ei logell wneyd dau cymaint â hwy a'r hwn nid oes ganddo ond deg : ac yn enw pob rheswm, pa ormes sydd yn hyny ?

Drachefn, nid oes ond rhan fechan gan y llafurwr wedi'r cwbl yn y gwaith, mewn cymhariaeth i gostau y meddiannydd—yr hwn sydd yn anfon yn gyntaf am y defnydd (cotwm neu beth bynag a fo) o wledydd pell, yn adeiladu melinau a pheiriannau, aros am ei arian oddiwrth y gwaith, manteision ac anfanteision y gwerthu, &c. Y cwbl o'r ennill ag sydd ddyledus i'r gweithiwr yw yr ennill a berthyn i'w waith ef ei hun : ni byddai gyfiawn iddo gyfranogi o ennill y meistr yn ei gylch yntau. Yr ydys yn gorfod gwerthu y nwyddau weithiau hefyd am bris rhy isel i dalu am y defnydd i'w gwneyd, ond y mae yn debyg na charai y gweithiwr gyfranogi o'r golled hono.

Ynfydrwydd yw meddwl fod meddiannau yn wrthwynebol i lafurwaith —y modd i geisio y defnyddiau a chodi masnach sydd yn rhoddi gwaith i'r llafurwr—a pho fwyaf yr ennill ar y fasnach a'r peiriannau, mwyaf i gyd fydd o ymroddi i'r fasnach, a mwyaf o alw am ddwyllaw, ac uchaf i gyd fydd pris y gwaith. Pan y byddo dau ddyn yn ymofyn am un meistr, bydd llafur yn isel ei bris ; pan fyddo dau feistr yn ymofyn yr un gweithiwr, uchaf i gyd fydd y pris. Dyma ganlyniadau trefn naturiol masnach a chelfyddyd. A pha le sydd i'w newid am drefn arall, nis gwyddom.

Pa fodd y gall y llywodraeth hefyd ddiwygio dim ar bethau, nis gwyddom, trwy gymeryd eu cyfrifoldeb a'u gwaith oddiar ddynion yn bersonol, a gwneyd yr hyn y byddai yn well i ddynion wneyd drostynt eu hunain ? ac o ba le y mae y llywodraeth i gael arian ond oddiwrth y bobl mewn trethi ?

Dyma yr hyn er hyny a gynnigiwyd ei wneyd yn Paris yn ddiweddar ; a gŵyr pawb am y canlyniadau—dyrswch a cholledion ; a phawb a allent droi eu meddiannau yn arian yn dianc oddiyno. "Ac nid yw y diwedd eto," fe allai. Er y dichon i'r wlad hon deimlo oddiwrth yr effeithiau hyn yn niweidiol am dymmor, bydd ar ennill yn y diwedd ; oblegid caiff yr arian a rodded allan mewn masnach yn Ffrainc eu defnyddio yma, ac ni bydd yno gymaint o fodd i adgyflenwi drachefn y diffyg a achoswyd gan y cyfnewidiadau diweddar, felly bydd i Loegr fwy o fantais ar farchnadoedd y byd. Bydd Ffrainc yn rhy wan i ddâl i fyny gydymdrechiad â ni. Rhyfedd na welai dynion rywbryd ffolineb ymyraeth annaturiol â deddfau sefydlog natur, neu â deddfau yr Anfeidrol Ddoeth ei hun. Cafwyd llawer prawf ar yr egwyddorion sosialaidd bellach, a gwelwyd fod y canlyniadau bob amser yn ddrwg. A rhyfedd yw gweled ambell ymresymwr da fel Mr. John Mill yn cefnogi y fath ffolineb a hyn, ac yn ceisio dangos y byddai troi yn ol at drefniadaeth farbaraidd yn gynydd mewn gwareiddiad—trefniadaeth ag sydd yn taro yn burion i'r Indiaid a'r barbariaid, a chardotwyr. Yr ydym yn edrych am gynydd a llwyddiant oddiwrth yr unig achos ag y dengys profiad a hanesiaeth i ni sydd yn cynnyrchu llwyddiant personol a chenedlaethol—sef, dawn yn lle dylni. Y peth sydd eisieu yw dyrchafu y celfyddydwr yn fwy mewn dawn a dysg a chwaeth, fel y gallont fod yn fwy tebyg o ran mantais i'r meddiannwyr eu hunain. Un o'r ffirwythau goreu ar yr egwyddor gydymgeisiol yw ei bod yn rhoddi y cymhelliad cryfaf i ddiwylliant—sef, hunan-les. Os

oes drygau yn bod o feddiannau helaeth, cyfoder i fyny allu gwrthgyferbyniol iddo yn y celfyddydwr; nerther y gwan, ond na wanhâer y cryf. Y mae dosbarth lliosog a gwerthfawr iawn o ddynion yn bod ag sydd yn cynnwys eu holl gyfoeth mewn cylch bychan, pan osodont eu hetiau ar eu penau. Ni feiddia neb eu galw yn *labourers*, nac yn ddynion cyffredin, oblegid yn eu mysg y mae rhai o'r dynion galluocaf, mwyaf doniol a defnyddiol. Ac y mae y dynion hyn yn llanw i fyny yn raddol y pellter sydd rhwng yr arianog a'r tlawd. Lle mae meddiannau mewn arian yn lleihau, y mae meddiannau mewn dawn, deall, celfyddyd, a moes yn dechreu, ac yn cyrhaedd i waered at ddiogi, aawybodaeth, a thlodi. Ac felly y mae yn rhaid iddi fod nes y byddo dynolryw wedi eu cyfnewid o'r peth ydynt yn bresennol i fod yn rhywbeth na welwyd eto. Onid felly y mŷn pob dyn yn ei bwyll iddi fod hefyd? Os ca y gweithwyr eu gwaith a'u cyflogau eu hunain, ni waeth ganddynt beth fyddo gwaith a chyflog eraill: y mae yn ddigon ganddynt hwy ofalu am eu materion eu hunain, heb ymddyrysu gyd âg achosion eraill.

Ond os edrychwn yn fanwl i'r gyfundraeth hon a'i chanlyniadau, cawn weled gwedd hylig yr hen fwystfil *physical force* ynddi yn amlwg iawn—yr hen ysbryd siartaidd o hyd. Gallu bwystflaidd (pa fodd y galwn ef) sydd yma yn rhyfela yn erbyn teyrnasiad y meddwl; a hwn fydd, fe allai, am dymor eto yn myned â rhan go fawr o'r yspail yn ngwledydd Ewrop tra byddo cyfnewidiadau yn myned ymlaen. Nid oes gan egwyddor y Cydfeddiannwyr (a dyweyd yn onest) un parch yn y byd i feddwl mwy na chorff: yr un peth yn eu golwg yw pob llafur; neu yn hytrach, y mae yn haws ganddynt gydnabod yr olaf, oblegid y mae hwnw yn amlwg i'w weled a'i deimlo. Nid mor hawdd yw gan lawer gydnabod elfenau meddyliol yn ngorchwylyon y byd. Nis gall y dosbarth anwybodus, yn enwedig, iawn brisio llafur a lludded y meddwl; ac am hyny, bloeddiant yn erbyn y rhai sydd yn derbyn cyflogau uchel am y gwaith ysgafnaf yn eu tyb hwy. Nis gwyddant fawr am boen a llafur blin y pen am flyneddau meithion i gyrhaedd gwybodaeth a synwyr. Tybiant mai gwaith bychan ac ysgafn yw tynu y cynllun, ond mai y gwaith mawr yw ei weithio allan â'r dwylaw. Tybiant mai bywyd esmwyth yw yr eiddo y meistr wrth rodio yn ol ac ymlaen i'w gweled hwy yn gweithio, &c., heb ystyried y gofal a'r gofid aml sydd yn myned drwy ei feddwl yntau. Ond fel y crybwyllwyd eisoes, darfyddai pob diwylliant meddyliol, a phob parch i gynnyrchion y meddwl yn y fan, pe cai y drefn hon ei ffordd. Nid oes un lle i'r celfau addurniadol o gwbl yn nghyfundraeth Louis Blanc na John Mill. Ni waeth beth fo dawn, dysg, athrylith, na chwaeth neb. "Cymwynwyr coed a thynwyr dwfr yw pawb ganddynt," pa un bynag fyddo ai gweithio â'i feddwl neu â'i fysedd. Ond mewn gwirionedd, yr un yn union yw llwydd y meistr a lles y gweithiwr, pa un bynag ai gweithiwr yn yr ystyr iselaf a fyddo neu ynte yn yr ystyr uchaf. Oblegid y mae ei allu yntau i weithio yn feddiant personol iddo, ac yn gofyn yr un amddiffyant a'r meddiant mewn arian, neu fwy yn wir, o herwydd gellir yn hawdd symud arian mewn amser terfysglyd, ond ni all y gweithiwr gael un farchnad y pryd hyny i'w eiddo ef.

Ni buasem yn aros cyhyd gyda'r gyfundraeth a'r egwyddor gyfeiliornus hon a ymddangosodd yn y chwyldroadau diweddar, oni b'ai ei bod yn ymosod yn haerllug ar lwyddiant celfyddyd a masnach, yn enwedig y

celfau addurniadol; a bod rhy fach, fe allai, o ddynoethi wedi bod arni yn y newyddiaduron a'r cyhoeddiadau. Nid yw y Cydfeddianwyr yn gweled ond y dyn allanol; y maent am ddilëu ei anghenrheidiau meddyliol a moesol o fodolaeth: ond oddiwrth y rhai hyn y deillia pob galwad am wrthddrychau hardd, prydferth, a chywrain. Pangymerer oddiwrth ddyn ei bersonoliaeth, ni bydd un cymhelliad wed'yn i gelfyddyd addurniadol na breiniol, mwy nag i fasnach yn y gwrthddrychau a enwyd. Y maent wedi dechreu gweled hyn yn barod yn Ffrainc, a thueddu yn ol at yr hen ddull eto.

Yn awr, wrth ystyried arwyddion yr amserau, a sefyllfa bresennol y byd—sefyllfa draws-symudol fel y gallwn ei galw—nid oes dim yr rhoddi mwy o hyfrydwch i ni na gweled y Tywysog Albert yn blaenori mewn awydd ac ymdrech i roddi cynhyrfaid newydd i fasnach a chelfyddyd—cymhelliadau i heddwach ac ewyllys da—i undeb a chydweithrediad; a hyny, nid trwy geisio tynu i lawr bob dosbarth i gydraddoldeb annaturiol y Cydfeddianwyr, ond trwy gymhelliadau grymus a theimlad anrhydeddus yr egwyddor gydymgeisiol. Ar yr egwyddor gydymgeisiol, fel y dywedwyd o'r blaen, yr ydym yn seilio ein dysgwyliad am bob cynnydd a llwyddiant; ac yr ydym yn croesawu yn llawen bob mantais a chefnogaeth a roddir i'r egwyddor hon i ddadblygu ei hun. Y mae y Tywysog Albert yn dra adnabyddus fel un sydd yn cefnogi pob daioni, ac yn sylwi yn fanwl ar arwyddion yr amserau i achub pob cyfseusdra a gaffo i wasanaethu ei genedlaeth. Iddo ef yr ydym yn ddyledus am yr arddangosfa sydd i fod yn Llundain y flwyddyn nesaf, yr hon sydd ar gynllun éang a grymus—dim llai na chydymgais cyffredinol i'r holl fyd. Fe allai y dylai Lloegr gael ychydig rhagor o seibiant i ddysgu ei gwerau barotoawl yn dda ar ei thir ei hun yn gyntaf, cyn dyfod allan i gyfarfod ág eraill; oblegid y mae ganddynt hwy lawer o fanteision arnom ni, am eu bod wedi hir ddiwyllio eu hunain mewn cynlluniau gweithfaol. Ar ei chwaeth goethedig y mae Ffrainc yn dibynu am ei llwyddiant masnachol. Yr oedd yn myned â'r blaen yn y farchnad, ac yn dwyn elw arianol yn ol bob amser: ni byddai gan Ffrainc un gobaith am lwyddo hebddo. Nid oes ond ychydig flyneddau er pan mae Lloegr wedi dyfod i weled hyn, ac i wneyd ymdrech cyfatebol mewn sefydlu Ysgolion Cynlluniol (*Schools of Design*) yn mhob cwr o'r wlad. Ond os gwna prif wneuthurwyr a masnachwyr y wlad ddefiro ati yn brydlawn, nid oes achos i ofni na allwn gyfarfod â dweithriad yn ddigon anrhydeddus. Pe gwelwm nwyddau goreu Manchester, Birmingham, swydd Stafford, Nottingham, a manau eraill, wedi eu dwyn ynghyd, nid ofnem lawer eu cystadlu â rhai goreu y Cyfandir.

Fe allai ein bod ni hefyd mewn rhyw gymaint o fantais arnynt hwy yn bresennol, am fod y terfysgoedd diweddar wedi chwalu grym ac attal gweithrediad celfyddyd a masnach gyda hwy i raddau, trwy wneyd eu masnachwyr yn llywiawdwyr a'u gweithwyr yn filwyr. Pa fodd bynag am hyny, y mae yr amcan yn dda, ac yn sicr o wneyd gwasanaeth mawr yn gyffredinol. Caiff pawb ryw fanteision o weled gwaith eu gilydd, tra byddont yn cael cyfseusdra o'r fath oreu i wneyd eu nwyddau yn hysbys; a cheir gweled y naill yn rhagori mewn un peth, a'r llall mewn rhywbeth arall.

Y mae y cenedloedd cymydogaelhol i ni yn teimlo eisoes ein bod am gydweithredu â hwynt yn mhob peth a wir duedda at leshau dynoliaeth,

megys gydag egwyddorion heddwch a rhyddfasnach—a hwythau yn barod i gydweithredu â ninnau: felly hefyd y bydd yr ysgogiad hwn yn dra effeithiol i ddwyn ymlaen a chynnyddu y teimlad o frawdgarwch cyffredinol trwy yr holl fyd. Nid breuddwyd diflanedig yw y syniad am undeb cyffredinol y frawdoliaeth ddynol fel un teulu, ond peth ag y mae dynion sanctaidd y Bibl wedi prophwydo am dano dan gynhyrifiadau yr Ysbryd Glan, a pheth ag y mae llawer o arwyddion presennol yr amserau yn argoel ei fod yn agosau; ac ni a gymerwn y moddion a arferir y dyddiau hyn i feithrin y peth yn un arwydd arbenig o'i ddyfodiad. "Llawer a gynniweiriant," medd y prophwyd, "a gwybodaeth a amlhêir." Y mae y byd yn myned oleuach oleuach, a'r cenedloedd yn dechreu gweled fod eu perthynas â'u gilydd yn rhy agos, a'u dibyniaeth ar eu gilydd, a'u tynged gyffredinol y fath, fel na allant mwy edrych ar eu gilydd fel gelynyion, ond fel brodyr.

AGWEDD FOESOL A CHREFYDDOL CYMRU YN NECHREUAD Y DIWYGIAD METHODISTAIDD.

MAE cyfodiad a chynnydd Methodistiaeth yn Nghymru, erbyn hyn, yn cael ei ystyried yn gyfnod o bwys yn hanesiaeth ein cenedl. Ni ellir gwadu na effeithiwyd trwy hyn gyfnewidiad môr drwyadl yn agwedd grefyddol a moesol trigolion ein gwlad, fel mai prin y gellid tybied mai yr un bobl ydynt, wrth gymharu yr hyn ydynt yn bresennol â'r hyn a ddarllenwn am danynt chwech ugain mlynedd yn ol. Mae lliaws o hen arferion llygredig ac ofer wedi diflanu o'n plith, a sefydliadau gwir werthfawr wedi eu dwyn i mewn yn eu lle; a'r cyfnewidiad amlwg hwn a ddygwyd o amgylch, dan fendith Duw, trwy lafur diwyd ac egniol, ac ymroddiad dyfal y rhai a gyfodwyd gan Dduw i gymeryd rhan yn y gwaith. Yn lle yr hen chwaraëddiaethau a gynnelid gynt ar Ddydd yr Arglwydd, mae corff y bobl yn bresennol yn ymgynnull i addoli Duw, ac yn treulio ei ddydd mewn gwasanaeth sanctaidd. Yn lle cyrchu i dafarndai i ddiota a brwysgo, chwareu cardiau neu ddisiau, mae y gwerin bobl i'w cael yn yr Ysgolion Sabbothol, gyda'u Biblau a'u llyfrau egwyddorion, lle eu dysgir i adnabod meddwl Duw yn ei air, ac i rodio wrth real y gwirionedd. Yn lle caniadau maswedd a cherddi gwageddol, â pha rai y byddid yn ymddifyru gynt, mae miloedd yn awr yn ymhyfrydu yn nghaniadau Sion, "gan lefaru wrth eu gilydd mewn salmau a hymnau ac odlau ysbrydol; gan ganu a phyncio yn eu calon i'r Arglwydd." Cynnulliadau eglwysig, cyfarfodydd gweddi, ac egwyddori, ydynt erbyn heddyw wedi cymeryd lle yr hen nosweithiau llawen. Diflanodd y gwylmabsantau, i rodli lle i gymanfaoedd mawrion a phoblogaidd i bregethu yr efengyl, y rhai a fuant yn dra bendithiol i daenu gwybodaeth grefyddol yn y wlad.

Meddyliwn am fynydd beth raid fod sefyllfa ein gwlad o ran crefydd a moesoldeb, pryd yr ydoedd yn amddifad o foddion gwybodaeth, ond yr ychydig a ddarperid yn y llanau plwyfol, lle yr ydoedd, ran amlaf o lawer,

“un fath bobl ac offeiriad,” y naill mor lygredig a'r llall. Mor soddedig mewn anwybodaeth y rhaid bod y genedl, pan nad oedd prin un o gant yn alluog i ddarllen!—pryd yr oedd plwyfi cyfain heb neb ynddynt a fedrai ar lyfr, ond y person a'r clochydd, a'r rhai hyny yn fynych yn feddwon, ac yn blaenori yn y campau halogedig ar ddydd yr Arglwydd. Nid rhyfedd gan hyny fod Cymru yn yr oes hòno yn ddiareb am ei thywyllwch moesol, hyd yn nod ymhlith trigolion America. Dr. Cotton Mather, awdur y llyfr a elwir, “*Essays to do Good*,” sef, “Ymdrechïadau i wneuthur Daioni,” a ddywed fel hyn:—“Mae yn alarus gweled yr anwybodaeth a'r drygioni sydd eto yn aros, hyd yn nod mewn llawer parth o'r llywodraethau Prydeinaidd—yn Nghymru, yn Ucheldiroedd yr Alban, ac yn yr Iwerddon. A yw y *Gougiad* oll wedi marw? Y mae rhith fugeiliaid yn y byd, y rhai ni fyddant byth yn alluog i ateb ger bron Mab Duw, am osod can lleied at eu calon amgylchiadau alaethus cynnifer o ddyinion, y rhai y gallasant hwy, oni buasai eu hesgeulusdra gwaradwyddus, fod wedi eu dwyn i fwy o adnabyddiaeth o'r unig Iachawdwr.”—“*Essays to do Good*,” tudal. 156. Yr oedd yr awdur enwog hwn yn byw yn America, a bu farw yn 1728.¹

Ond er fod tystiolaethau dilys a chredadwy mai dyna oedd agwedd gyffredinol ein gwlad yn yr yspaid crybwylledig, e feiddia rhai yn y dyddïau hyn, naill ai oddiar anwybodaeth, neu ynte o falais yn erbyn y gwirionedd, sibrdw yn nghlust yr anwyliadwrus, a dadlew weithiau yn fwy hyf, nad oedd pethau cynddrwg y pryd hyny ag y mae rhai ysgrifenwyr yn eu gosod allan. Gwelsom rai yn ddiweddar yn ceisio bwrw ammheuaeth am eirwiredd “Drych yr Amseroedd,” yn mherthynas i'r darluniad a roddir yn y llyfr hwnw o gyflwr crefyddol ein gwlad yn flaenorol i gyfodiad y Methodistiaid.² Y rheswm golygus dros y fath ammheuaeth, “yw y ffaith, hysbys,” meddai yr ysgrifenydd, “i'r holl fyd, sef, nifer liosog y llyfrau defosiynol a gyhoeddid yn y cyfamser; ffaith nas gallasai gymeryd lle, pe buasai yr hyn a ddywedir yn “Nrych yr Amseroedd” yn wirionedd; ffaith nas gellir ei gwanhau mewn ymresymiad ond trwy ffaith gyferbyniol o gyffelyb bwys.”

Yn anffodus i'r gwrthddadleuwyr hyn, mae y ffaith gyferbyniol wrth law; mae copïau o'r llyfrau defosiynol hyny eto ar gael, fel y gellir profi yr athrawiaeth a gynnwysent, a chasglu oddiwrthynt beth oedd tuedd yr oes mewn pethau crefyddol, a natur yr addysg a gyfrenid i'r bobl gan eu blaenoriaid. Hawdd fyddai dangos mai prin iawn oedd llyfrau da, o naw

¹ Mae y cynnygiad canlynol “i fywiogi a rheoleiddio Cyfarfodydd Neillduedig pobl grefyddol, i ymarferiad o grefydd,” allan o'r llyfr uchod, yn deilwng o sylw; ac fe allai na chafodd ei roddi mewn gweithrediad mewn un wlad i'r fath fanylrydd ag yn Nghymru:—“Mae yn bur sicr pan fyddo y cyfryw gyfarfodydd neillduol yn cael eu cynnal a'u dwyn ymlaen yn dda, fod y cristionogion a fyddo yn eu gwneyd i fyny yn gyffelyb i gynnifer o “farwor yr allor,” yn cadw y naill y llall yn fyw, ac yn foddion i gynnal Cristionogaeth fywiol yn y gymydogiaeth. Y cyfryw gymdeithasau a fuant offerynuau cryfion a chymeradwy i ddal i fyny rym duwioldeb. Mae dirywiad amlwg ar grefydd yn cydfyned âg esgeuluso y cyfryw gymdeithasau: i'r graddau a cawsant eu rhoddi heibio a'u gadael yn ddisylw, y bu leiaf cynnydd ar dduwioldeb.” “*Essays to do Good*,” tudal. 69.

² Gwel “Drych yr Amseroedd,” tudal. 40—49: argraffiad cyntaf. Ceir yma ddarluniad alaethus, ond cywir a ffyddlawn, o agwedd ein gwlad cyn i'r efengyl lwyddo y modd ei gwelir y dyddïau hyn.

efengylaidd yn y dyddiau hyny, a bod eu darllenwyr yn llawer prinach; ond pe caniatëid eu bod yn lliosog, os gellir profi fod syniadau o duedd niweidiol mewn pethau hanfodol i grefydd yn cael eu dysgu ynddynt, mae grym y ffaith yn diflanu ar unwaith. Nid oes brinder llyfrau defosiynol yn y gwledydd Pabaidd, ond a feiddia neb ddywedyd fod gwir grefydd yn ffynu yn y cyfryw wledydd?

Ein hamcan ar hyn o bryd yw dangos fod yr addysg a weinyddid gan yr Eglwyswyr, yn yr yspaid hwn, yn ddiffygiol, ac mewn pethau o'r pwys mwyaf yn gyfeiliornus, ac felly yn hollol aneffeithiol er moesoli ac efengyl-eiddio trigolion ein gwlad; ond yn hytrach bod eu dylanwad yn eu suo yn y trymgwsg marwol yr oeddynt yn gorwedd ynddo. Hyn a wnawn trwy ddwyn profion allan o lyfrau crefyddol a gyhoeddid yn y blyneddau hyny. Nid ydym yn dywedyd fod y cwbl a gyhoeddid o'r natur yma; addefwn fod rhai eithradau canmoladwy. Mae traethodau Thomas Gouge a Stephen Hughes, "Canwyl y Cymry," "Hanes y Ffydd," ac amryw eraill, yn cynnwys athrawiaeth iachus. Ond Anghydfurfwyr oeddynt fwyaf llafurus i daenu y nifer amlaf o'r llyfrau hyn; a diau iddynt fod yn dra gwasanaethgar i grefydd, ac er lleshad i laweroedd, yn yr yspaid tywyll hwnw. Am amser maith yn flaenorol i ddechreuad Methodistiaeth, a gwedi hyny hefyd, yr oedd hyny o lyfrau a roid allan gan offeiriad o duedd dra gwahanol. Ysgrifeniadau y Parch. Griffith Jones ydynt ymron yr unig eithrad; a bu y rhai hyny, ynghyd â'r Ysgolion Rhad, ymhlith y parotoadau mwyaf i ddwyn y diwygiad o amgylch, ac yn dra magwriaethol iddo. Ond dyfernid ef yn *Fethodist* gan amryw o'i frodyr offeiriadol, er môr wyladwrus ydoedd rhag rhoddi tramgwydd.

Awn heibio ar hyn o dro i'r llyfrau cyntaf a roddwyd allan ar ol y Diwygiad Protestanaidd; megys, "Llyfr y Resolusion," [Dyhewyd y Cristion], gan Dr. J. Davies; "Yr Ymarfer o Dduwioledeb,"¹ gan Dr. Bayly; "Holl Ddyledswydd Dyn;" "Ystyriaethau o Gyflwr Dyn;" ac amryw eraill o gyffelyb ddefnydd, y rhai, er eu bod yn traethu yn helaeth a manwl ar amryw o ddyledswyddau crefydd, ac yn erbyn pechodau a drwgfuchedd, ydynt yn cadw o'r neilldu yn ormodol, os nad o'r golwg yn hollol, yr hyn sydd am fywyd pechadur, sef y modd y mae "Duw yn Nghrist yn cymmodi y byd âg ef ei hun, heb gyfrif iddynt eu pechodau." Nid ydynt yn rhoddi lle digon amlwg i'r athrawiaeth am golledigaeth dyn trwy bechod; na digon o bwys ar lawn y Cyfryngwr, a gwaith yr Ysbryd, yn ei gadwedigaeth. Maent megys yn goruwchadeiladu cyn gosod y sylfaen. Eu diffyg penaf sydd o natur nacïol, ac nid am nemor ddim a geir ynddynt y gellir dywedyd ei fod yn gyfeiliornus iawn. Ni a gymerwn ein profion gan hyn o lyfrau diweddarach nag amryw o'r rhai a enwyd, wrth ba rai y gallwn weled fod athrawiaeth yr eglwys yn dirywio er amser yr Arch-eseob Laud, oddiwrth yr hyn ydoedd yn amser y Diwygiad Protestanaidd.²

¹ Gwel y "Traethodydd" am Hydref, 1848, tudal. 409, lle y rhoddwyd adolygiad helaeth ar y llyfr hwn.

² "Anfucheddol iawn yn gyffredinol oedd yr athrawon, a thywyll a diffwrth oedd eu hathrawiaethau; ac nid oedd un arwydd fod y gwynt nerthol a'r tân sanctaidd yn gweithredu drwyddynt. Swm a sylwedd yr athrawiaeth gan mwyaf oedd hyn: fod dyn yn cael ei ail-eni wrth ei fedyddio; a bod yn rhaid i bawb edifarhu a gwellhau ei fuchedd, a dyfod yn fynych i'r eglwys a'r eymun: bod yn rhaid i bawb wneyd ei oreu, ac y byddai i haeddiant Crist wneuthur i fyny yr hyn a fyddai yn

Mae y dyfynladau canlynol yn ddangosiad o synladau cyfeillornus mewn crefydd a ddysgid yn yr oes hono, yn gymysgedig â gwirioneddau ysgrhythrol, oddiwrth ba rai yr oeddynt yn dra effeithiol i gamarwain y werin anwybodus:—

“Pan rybuddier fod Swper yr Arglwydd i'w finistrio, ymrowch yn ddirifol na esceuloso m'ono. Oblegid i Iesu Grist orchymmyn i ni, gadw yn y modd hyn Goffadwriaeth o'i Farwolaeth ef. Ac oblegid mai hwn yw'r unig Gysur i Bechaduriaid,” &c.

“Ond rhaid i chwi fyfyrto pa sut i dderbyn y Sacrament hwn yn deilwng, &c. Ac yna dwys ystyriwch yn eich Calon; 1. A ydych mewn Gwirionedd yn deisyf, ac a wnech eich goreu tuag at, waredu'ch Enaid. 2. A ydych yn gwbl ymroi i ochelyd gwneuthur dim a'f och Cydwybod, neu Air Duw yn ei warafun. *

* * Weithian, os dyna Dueddiad eich Calon, yna yn Enw Duw ewch i'r Sacrament. Ond cofiwch graffu'n ddyfal ar yr hyn a ddyweder neu a wneler yno, ac efe a ddysg hynny eich Dyledswydd i chwi, ac a'ch cymmorth i fod yn ddwywol. * * * Pan ddywedoch, nad ŷch yn rhyfygu dyfod at Fwrdd yr Arglwydd, gan ymddiried yn eich Cyfiawnder eich hun, ond yn anrhaethol Drugaredd Dduw; dywedwch hyn yn ddwys ystyriol, ac fe wna 'ch mawr Ostyngieddrwydd ddiwygio llawer o'ch Gwendidau a'ch Amherffeithrwydd.” Gwel “Eglur a Byrr Hyfforddiadau a Gweddïau, &c. Gan y Gwir Barchedig Dad yn Nuw Thomas, Arglwydd Esgob *Manaw*.” tudal. 166—169.²

“H. A ordeiniodd Crist ond Dau Sacrament yn unig; megis yn gyffredinol yn angenrhaid i Iachawdwriaeth?

“A. Ni ordeiniodd efe yr un ychwaneg; ac mae rhai'n yn llawn ddigon i'n harwain i Gyfammod a Ffafor gyd-a Duw, ac i'n cadw ynddynt.

Cansys trwy Fedydd y'n derbynir i Eglwys Crist, ac y trosglwyddir Addewidion yr Efengyl i ni. A Swpper yr Arglwydd yw'r Sefydledig Fodd i'n hadgymodi a Duw, pan, trwy Wendid neu Brofedigaethau, y syrthiom oddiwrtho.” “Egwyddorion y Grefydd Gristionogol,” &c. gan yr un: tudal. 125.

“H. F'eill ynteu'r Annysgedig, os bydd ganddo Feddwl da, ac yn gwneuthur ei oreu, fod yn Gymmunwr teilwng? A. Geill yn ddiammen. *Eto*, 136.

Mae llawer yn bwriadu gwellhau eu Buchedd, eithr yn methu ymroi i wneuthur hynny mewn pryd, ac yn rhy gyffredin yn tynnu Dyddïau, hyd onid elo yn rhŷ hŵyr iddynt i ddisgwyl Llës oddiwrth eu Bwriad.” *Eto*, 137.

Mae rhai o'r syniadau uchod yn cyd-daraw yn o gyson â'r athrawiaeth Babaid, megys y canfyddir wrth y dyfyniadau canlynol o hen lyfr gweddïau Pabaidd a roed allan yn Gymraeg yn y flwyddyn 1670, gan ryw J. H., ac a gyflwynir ganddo “At fy anwyl Frodyr a Chwirydd a'm Ceraint eraill ffyddlon yn-Gwent a Brecheinoc.” Yn tudal. 57, traetha fel hyn:—

“Ni âd gostyngieddrwydd y dyn cyfion iddo brisio neu wneuthur dim cyfrif o'i weithredoedd da ei hŷn, gan ei fod ef yn cydnabod nad oes na dolur mor

ddiffygiol; ac mai ar law dyn ei hun yr oedd dewis neu wrthod gras a gogoniant. Cyfrifid cystudd corfforol yn foddion digonol (os nad yn deilyngdod), i addasu dynion i deyrnas nef. Hyn, ynghyd â llawer o bethau cyffelyb, oedd gynt (os nad eto gan lawer), megys rheolau anffaelledig i'r gwrandawyr, wrth ddilyn pa rai (meddynt) y caent etifeddu teyrnas nefoedd.

Ond ai yr un egwyddorion oedd gan y gwrandawyr a chan eu hathrawon? Pa fodd y gellid dysgwyl yn amgenach? ‘Digon i'r dysgybl fod fel ei athraw.’ Os dygwyddid weithiau sôn am enaid, ‘Wele, (meddent,) os da y gwnawn, da y cawn,’ &c.—“Drych yr Amseroedd.” tudal. 47, 48.

¹ Cyfieithwyd y llyfr hwn o waith Esgob Manaw gan Eglwyswr o swydd Gaernarfon. Mae y Rhagymadrodd iddo wedi ei ddyddio, “Lleyn: Mai y Cyntaf, 1752.” Cafodd ei argraffu yn y Mwythig. Hysbysir i ni iddo gael ei ysgrifenu ar y cyntaf, a “llyfr gyntaf a argraphwyd erioed” ydoedd, ‘ym Manawseg neu Jaith Fanaw,’ hono yw *Manaw*.

gaeth, na chlefyd mor ddirfawr, na phoen mor greulon, nad ydyw'r pechod maddeuol lleiaf yn ei haeddu i gyd, fel y mae y Theologiaeth oll yn dyscu i ni. * * * Pa gyfiownaf a sancteiddiaf y fo pobl Dduw, mynychach y dymunant hwy gael rhyddhaad o'i pechodau trwy'r Absolutiwn Sacrafennawl. Oblegid er eu bod hwy yn gwybod y gall gweithredoedd da ddileu pob pechod maddeuol: etto o ran nad ydynt (fel y dywedais) yn prasio dim am eu gweithredoedd da euhun (o'r rhai er hynny y gwnant hwy wmbredd beunydd,) hwy a dymunant gyffeau yn fynych."

Un o'r llyfrau a daenid yn fwyaf gan yr Eglwyswyr gynt, ac a ddarllenid fynychaf gan y rhai mwyaf defosiynol yn eu plith, ydoedd, "Patrwn y Gwir-Gristion, neu Ddilyniad Iesu Grist." Gwaith Pabydd o'r enw Thomas á Kempis oedd y llyfr hwn, wedi ei gyfieithu "gan H. O., Gwennydog, ym Mon, Esq." Yn llythyr "y cyfieithydd at y Cymro mwynlan," rhoddir i ni yr hysbysiaeth canlynol am y llyfr a'r awdur:—

"Mae ymddadlu ac ymryson mawr rhwng y rhai dyscedig, pwy fu awdur y llyfr tra rhagorol yma. Rhai a fynnant mae [mai] *Thomas á Kempis*, Canon Regular, a gwr tra duwiol o wlad *Geldria*, yn stâd *Holland*, y oedd yn byw yn y flwyddyn 1440, a'i gwnaeth ef. Rhai eraill a ddywedant, mai'r dyscedig *Ioan Gerson*, cangellwr Paris, y fy fyw 'n y flwyddyn 1420, a'i cyfansoddodd. Rhai eraill a daerant, mai *Ioan Gerson*, abad sanctaid yn byw yn gwlad *Germania*, ambell gant o flynyddoedd o flaen y ddau eraill, oedd y gwir awdur. Ac mae pob plaid o honnynt yn dwyn rhesymmau credadwy, teg a gweddol, i brofi eu neilltuol hopidiwnau. Ond o'm rhan i, petawn i'n deilwng i ddangos fy meddwl ymmysg dyseidwyr mawrion, mi a ddywedwn yn hy, os rhyw ddyw a'i gwnaeth ef, mai *Thomas á Kempis* oedd y gwr. A hyny a wnawn o herwydd y rhesymau eglur y mae *Heribertus Rosneydus*, Holandwr, gwedi eu gosod ar lawr."¹

Dyna syniad uchel y cyfieithydd am lyfr y "Dilyniad," fel ei gelwid; nid rhyfedd gan hyny fod y werin anwybodus yn ei ystyried fel math o swyn i'w diogelu rhag pob rhyw ddyrgau, a hyny yn fwy wrth ei fod yn cael ei argymhell iddynt fel "llyfr ysprydol tra rhagorol—yn llawn o nefolion ddyseidiaeth rhyfeddol," ynghyd â'r fath annogaethau a'r rhai canlynol i'w ddefnyddio:—

"Arfer dithau, y Cymro mwynlan, yn ddyfal y llyfr euraid yma, a thi a elli gael wmbreth o broffit ysprydol oddiwrtho. Os dolur neu afiechyd corph a fo'n dy flino, ti a gai ddigon o gysur yn hwn. Os colledion bydol, angharedigrwydd ceraint, malais cymmydogion, gwrthwyneb meistri, &c. y byddant yn molestu dy feddwl, nid rhaid i ti ond darllain peth yn hwn, ac yn yman ti a gai esmwythder calon a llonyddwch. Os bydd temtasiwnau balchder, afliendid cnawdol, glothineb, diogi, digofaint, &c. yn pwyso yn dost arnat, agor y llyfr yma wrth ddamwain, a thi a gai yno gymmellion digonol i'th tynnu oddiwrth y cyfryw bechodau, ac i'th wthio rhagot, i amgoffeidiu rhinweddau gwrthwyneb. Pa drallodau bynnag corph neu enaid y fo'n gwasgu arnat, ti a elli gael yn y llyfr hwn ddigon o gynhor, comfordd, a rhwymedi i'w herbyn, o'r hyn lleiaf i'w hysgafnau hwynt, ac i gael mwy lles wrth eu dioddef."

Ni fu, dybygem, un llyfr dynol erioed yn fwy ei fri, "yn gymaint a'i fod yn ddodren wastadol" gan y rhai defosiynol gynt, "ac megys anhepcoer yn eu teiau, a'u cellau, a'u pocedau hwynt."

Er yr addefwn fod y llyfr hwn yn cynnwys amryw gyngorion da a

¹ Argraffwyd y llyfr hwn amryw weithiau. Mae wyneb-ddalen un argraffiad fel hyn: "Patrwn y Gwir Gristion, neu ddilyniad Iesu Grist," &c. "Wedi ei droi yn Gymraeg gan W. M. A. B. Argraffwyd yn Nghaerlleon, gan W. Cooke. 1723." Yr un yw a'r cyfieithiad cyffredin, ond fod y *paragraph* hwn o'r Rhagymadrodd wedi ei adael allan, ac ychydig linellau mwy cytunol & synwyr cyffredin wedi eu doddi yn ei le.

buddiol, mewn ymadroddion destlus, cryno, a chynnwysfawr, ac er y gwyddom fod cyfieithiadau cymeradwy o hono yn yr iaith Seisonig, a'i fod wedi derbyn arganmoliaeth gan dduwinyddion Protestanaidd enwog ac efengylaidd, eto yr ydym yn ystyried y cyfieithiad Cymraeg, ar y cyfan, yn blentynaidd ac ofergoelus, ac o duedd i feithrin syniadau tra chyfeiliornus mewn crefydd, llawn o ddefosiwn ddall a ffurfioldeb cnawdol. Y pigion canlynol ydynt yn cynnwys golygiadau anghywir am natur sacrament y cymun, a pharock coelgrefyddus i'r swydd offeiriadol. Allan o'r "Pedwerydd Llyfr." Swpper yr Arglwydd yw'r testun.

"Beth am gymaint o bobl fydd yn cerdded o fan bwy gilydd i gael golwg ar *weddillion seintiau!* Mor ddifyr ganddynt gael cyfrif o'u gweithredoedd, a chraflu ar harddwch eu heglwysi! Mor barchedig y rhoddant gusan i ryw hen asgrwn a fo gwedi ei rwymo mewn gwisg o aur neu sidan! Ond, O fy Nuw, Creawdwr y byd, ac Arglwydd angylion, pa beth sy mor sanctaidd ac addoladwy a'th bresennoldeb anweledig di ar yr allor? Drwg anwydau sydd yn fynych yn tynnu dynion i edrych ar ryfeddodau, ac (heb wir edifeirwch) ni byddant ronyn gwell o'u plegyd; ond yr wyt ti, O Iesu, mewn modd dirgel, yn bresennol yn y *sacrament*, yr wyt yn berffaith ac yn gyfan, yn wir Dduw ac yn wir ddyn. * * * Mor felus a grasulol, ac eto mor anchwiliadwy ydyw'r ffordd yr wyt ti yn dy gyfranu dy hun yn y cymmyn bendigedig! * * * Nid yw'r wledd nefol hon yn rhoddi yn unig ras a chryfder i'r enaid, ond y mae hefyd yn bywiogi ac yn ysprydoli'r corph. Ond er maint yw rhinwedd y sacrament, trwm iawn yw ystyried mor oerodd a difatter ydym am ei dderbyn; etto gwybyddwn nad oes iachawdwriaeth hebdo. * * * Ond mawr ynte fod cymmaint yn esceuluso cyfranu o'r fath wledd fendigedig, yr hon sydd yn peri mawr lawenydd yn y nef, ac yn cadw yr holl ddaear rhag aflwydd a distryw. * * * Yr wyf fi yn wir deimladwy o'm gwendid a'm methiantrwydd; mi wn yn dda y syrthiwn i drwm gwsg, ac o'r diwedd i farwol-aeth, oni bae fod gweddi a chyffes yn deffroi fy enaid, a Swpper yr Arglwydd yn ei buro ac yn ei gadw rhag angeu. Nid oes dim ond y cymmyn sanctaidd a ddichon dynnu dyn allan o'i anwiredd, a'i gadarnhau mewn daioni. Er nad wyf addas bob tro i dderbyn y cymmyn, etto ar amseroedd uchel, mi wna fy agoreu i'm cymmhwysu fy hun i gyfrannu o hono, er mwyn cadarnhau fy enaid mewn daioni. Y mae'r *sacrament* fendigedig yn iechyd i'r corph a'r enaid; y mae yn iachau pob dolur ysbrydol, &c. * * * Gwybydd hefyd, mai nid rhinwedd dyn, ond trugaredd Duw, sydd yn rhoddi awdurdod i'r offeiriad i gyssegru'r bara, ac wrth hyn yn ei wneyd yn ymborth nefol, ac yn rhoddi cenad i ddynion i gyfranu o hono. Mae'r dirgelwch hwn yn dangos mor barchedig yw swydd offeiriad, gan nad oes gan yr angylion mo fath ragorol awdurdod; canys ni ddichon neb, ond y sawl a urddwyd yn gyfreithlon, gyssegru corph Crist. Swydd yr offeiriad yw datean y geiriau a ordeiniodd Crist, ond Duw hollalluog sydd yn rhoddi'r nerth, ac yn cyflawni'r arwydd yma o drugaredd. * * * Ond os offeiriad wyt, mae'n ddyledus arnat gyflawni'r gwasanaeth hwn drwy fawr barch a dyledus ofn: cofia pwy yr wyt yn ei wasanaethu, cofia'r braint a'r urddas a dderbyniaist wrth arddodiad dwylo'r esgob. Ti a wnaethpwyd yn offeiriad ac yn oruchwylwr y Duw goruchaf, &c. Mae'r offeiriad pan fo yn yr eglwys a'i wenwise am dano, yn sefyll ac yn gwasanaethu yn lle yr arch-offeiriad mawr, *Crist Iesu*. Y mae yn gweddio drosto ei hun a thros yr holl gynulleidfa; y mae yn eiriol am faddeuant iddo ei hun ac i'r holl bobl. Cyfryngwr ydyw rhwng Duw a'r pechadur; ac ni ddylai mo'r diffygio, hyd oni chaffo drugaredd a maddeuant. Ond pan el at yr allor i gyssegru ac i roddi y *sacrament*, dyna'r amser y mae yn anrhydeddu Duw, yn llawenhau'r angylion, yn adailadu yr eglwys, yn cyssuro'r cystuddiedig, yn nerthu'r gweiniaid, ac yn ei wneyd ei hun yn gyfranog o bob dedwyddwch. * * * Mor uchel ac anrhydeddus yw swydd yr offeiriad, yr hwn a ordeiniwyd gan Dduw i gyssegru Arglwydd y

gogoniant, i fendithlo ac i rannu'r bara, ac i roddi i bob gwas da ei wala o luniaeth nefoli! Mor lân y dylai'r dwylo, mor ddiniwaid y gwefusau, mor sanctaidd y corph, a pherffaith y galon, lle mae awdwr pob purdeb mor arferol yn prewyllo," &c. &c.

Natur yr addysg a gyfrenid gan Eglwyswyr ein gwlad, yn y cyfnod dan sylw, a'i bod yn uniongyrchol yn arwain i ddeddfoldeb a hyder gnawdol ar haeddiant gweithredoedd da, a ymddengys ymhellach oddiwrt h y detholion canlynol allan o lyfr a elwir "Angenhaid a Mawrlles Buchedd Grefyddol," pa un a argraffwyd amryw weithiau, ac a ddisbarthid gan rai Eglwyswyr ymhlith eu plwyfolion. Prif fanau y llyfr sy fel hyn: tudal. 3:—

"I. Nid oes dim gwir Happuswydd i'w gael yn y bywyd hwn, ond wrth fyw grefyddol."

Mae hwn yn osodiad cywir a da, ond sylwer ar y ddau nesaf:—

"II. Megys mai crefydd yw yr unig beth a ddichon ein gwneyd yn ddedwydd, tra bo'm byw; felly nid oes dim ond Buchedd dda a eill roi i ni y gronyn lleiaf o Gysur pan elem i farw.

III. Duwioldeb ddiragrith a bair i ni nid yn unig fyw'n happus, a marw'n gysurus; ond y peth syf floedd o weithiau y tu hwnt i hyny, a'n gobrwya'n ddiammau â Dedwyddwch amorphen yn y byd a ddaw."

Odid na ddywed ambell un nad oes yn hyn ddim yn anghytun â'r gwirionedd. Erfyniwn ar y cyfryw sylwi ar y modd y mae yr awdur yn egluro ei feddwl ymhellach ar y trydydd pen: tudal. 26:—

"Gan fod manteision eraill yn perthyn i Fuchedd Dda, sy'n rhagori llawer-ocedd ar y cwbl a henwyd o'r blaen, gan ei bod hi yn cymmhwysio dynion, trwy haeddediaethau *Crist Iesu*, i gael Rhan o *Etibfeddiaeth anllygredig, a dshalogedig, a ddiystfannedig*: Mi a geisaf ddangos, yn ddiwedda' man, y caiff pob Dyn, a wnel ei oreu er byw yn dduwiol ac yn gydwbodol, dderbyn Dedwyddwch Tragywyddol yn Daledigaeth mewn Bywyd sydd i ddyfod."

A rhag na bo hyn yn ddigonol i ddangos tuedd yr athrawiaeth, ystyrier yr eglurhad a ganlyn, tudal. 38:—

"Fo ryngodd bodd i Dduw, o'i anfeidrol Ddaioni, wneuthur Cyfammod grasusaf o Drugaredd â Dynol Ryw, trwy Gyfryngiad ei Fab ei hun: A'r peth a addawyd o'i Du fo, sef Maddeuant Pechodau, sydd bob amser yn barod i'w wneud yn dda, oni fetha genym Ni wneud ein Rhan, sef gwir-edifarhau a gwellhau ein Bucheddau. Ein Hiachawdwr a wnaeth gyflawn, berffaith, a digonol Aberth, Ofrwm, ac Iawn dros Bechodau yr holl Fyd: Fe ddioddefodd Farwolaeth greulawn a gwaradwyddus y Groes er ein mwyn Ni, a thrwy ei Angau a'i Ddiodeffaint a brynodd i ni y fendith hon, sef yw hyny, y derbynir gwir Edifeirwch ac Ufudd-dod diragrith yn lle Diniweidrwydd. Ond heb y fath Edifeirwch ac Ufudd-dod ni dderbynir mo'nom ar Ammod yn y byd. Ni thâl yr Aberth a offrymodd efe ar y Groes, er maint ei Werth, ni thâl o ddim i Ni, oni ymrôwn yn ol cyffelybiaeth ei Angau a'i Gyfodiad ef, i farw i Bechod, ac i gyfodi drachefn i Newydd-deb Buchedd. Nid oes dim ond Buchedd dda a ynnill i ni Ran o Ewyllys da a Chariad Duw; ac, heb ei gariad ef, truanaf o'r holl greaduriaid ydym. Gwell f'asai i ni fod heb ein geni, na thynnu Casineb Duw ar ein Pennau trwy ddilyn Drygioni. Gofalwn gan hyny yn benna' dim am ynnill a ohadw ei Ewyllys da Ef, yr hwn ydyw Ffynnon ein holl Gysur a'n Mwyniant yn y Bywyd yma, a Sylfaen ein holl Obaiha a'n Dysgwiliad yn y Nesaf."

Mewn llyfrin a elwir "Myfyrdodau Bucheddol ar y pedwar Peth diweddaf; sef, Angau, Barn, Nef, ac Uffern," gan Iohn Morgan, M.A., cawn, yn

yr anerchiad blaenddodol iddo "at Blwyfolion Llanfyllin yn Str Drefaldwyn," ymadrodd fel hyn:—

"Pe dwys ystyrient y byddant oll farw ar fyrder, ac y derbyniant yn y byd nesaf, yn ol eu Haeddiant yn hwn, anrhaethol Ddedwyddwch neu dragwyddol Drueni, hwy fyddent fyw 'n gyfattedbol i'r fath ystyriaeth."

Ac mewn mán arall:—

"Ond na thwyllwn monom ein hunain; fel y mae'r Nef yn Ddedwyddwch mwya', felly mae yn anhawsa i'w feddiannu. Mae Coronau; ond mae'n rhaid eu Hynnill. Mae Gwobr; ond mae'n rhaid ei Haeddu." Tudal. 13.¹

Addefwn fod yn y ddau draethodyn a enwyd lawer o ystyriaethau pwysig, cyngorion buddiol, ac amryw ffurf-weddïau tra phriodol; eto, mae y gwirionedd yn fynych wedi ei gymysgu â chyfeiliornad, a'i dywyllu â geiriadaeth ammhëus, fel y mae yr addysg a gynnwysant yn beryglus i rai na bo ganddynt synwyr wedi ymarfer i ddosbarthu drwg a da, ac yn tueddu i arwain yr anwybodus i hyder siomedig am fywyd tragwyddol ar bwys teilyngdod ei gyflawniadau ei hunan. Mae yn eglur hefyd, ond cymharu y detholion uchod âg Erthyglau yr Eglwys (yn neillduol yr xi. xii. xiii) ac â Llyfr yr Homiliau, eu bod yn gwrthdaraw athrawiaeth y Diwygiad Protestanaidd yn y pwnc pwysfawr o gyflawnhad trwy ffydd.

Mae yr un wythien bwdr yn rhedeg drwy y pennillion canlynol, a ysgrifenyd yn y flwyddyn 1736, gan y Parch. Edward Samuel, Llangar, gwr dysgedig, ac un a wnaeth rai cymwynasau i'w genedl trwy ei ysgrifeniadau.² Fel hyn y dywed efe:—

"Iechyd, rhwydd-deb, a boddlondeb,
A chymmedroldeb sydd
Yn llawn ddigon i bob Cristion,
O bur hoffeiddlon ffydd;
Gadael gormod o gybydd-dod,
A byw 'n gymmedrol, ddwyfol ddefod,
Sydd ammod hynod hawdd:
Eluseni, hwylus ddoniol,
Diwyd fwriad edifeiriol,
A gyrhaedd nefol nawdd.
Pan ddelo angau, o'i drigfannau,
I droi eneidiau neb,
Gwell fydd rhinweddau glân galonau
I'r siwrnai nag aur Siëb †
Y rhai'n yw addas wisg briodas,
I'r dragwyddol, ddoniol ddinas,
Llawn urddas a'u gwellha;
Lle ceir mawredd, a gorfoledd,
Hir barhad a rhad anrhydedd,
A gwledd ddi-ddiwedd, dda."

[+Sheba.]

"Blodeugerdd Cymru:" tudal. 370.

Mae yn rhy anhawdd peidio gweled fod gweithredoedd da yma, fel yn

¹ Argraffwyd y llyfr hwn yn gyntaf yn 1714. Mae yn ei ddiwedd amryw ganiadau, a marwnad i Mr. Edward Llwyd, ceidwad y *Museum* yn *Rhydychen*. Argraffwyd e wedi hyn yn gydfurf âg "Angenrhaid a Mawrilles Buchedd Grefyddol,"—"yn Llyndain: Ac ar werth yno gan S. Birl, tan Lyn y Bibl ar Bêl yn yr Heol a elwir, *Ave-Mary-Lane*. MDCCLV."

² Efe a gyfieithodd *Grotius* ar "Wirionedd y Grefydd Gristionogol;" "Athrawiaeth yr Eglwys," gan Peter Nourse, D.D.; "Holl Ddyledswydd Dyn," &c.

y dyfyniadau blaenorol, yn cael eu hystyried yn haeddedigol. Dyma yn wir ydoedd y prif rwystr ar ffordd derbynaiad yr efengyl yn yr amserau hyn, fel y mae penrhyddid a dibrisdod o ddyledswyddau crefydd yn ein dyddiau ni. Mae yr eithafion peryglus hyn yn cydgyfarfod; y naill fel y llall yn ddinystriol i weithredoedd da. Os ar ei weithredoedd da y bydd dyn yn hyderu am ei dderbynaiad gyda Duw, gallwn fod yn lled ddibetrus na fydd gan y cyfryw un ddim rhyw amledd o honynt: nid yw yr agwedd hon ar y meddwl yn fanteisiol i gynnyrchu gweithredoedd da, gan ei bod yn effaith golygiadau gau ac arwynebol ar ysbrydolrwydd deddf Duw a gras yr efengyl; dweithrwech meddwl i'r naill fel y llall. Oddiar yr egwyddor gamsyniol hon y mae dynion yn cael eu harwain i ystyried crynswth eu gweithredoedd da megys yn gynnwysedig o fuffuriau, defodau, a thraddodiadau dynol, gweithredoedd dros ben a orchymynwyd, a hudoliaethau cyffelyb; gan arfer manylrwydd a diwydrwydd mawr yn nghyflawniad y pethau hyn, ac ar yr un pryd yn biw mewn esgeulusdra o briodol ddyledswyddau crefydd, ac mewn ymarferiad o bechodau gwaradwyddus ac ysgeler. Yn y modd hwn y mae penboethni gwyllt-grefyddol yn fynych yn cydfyned â buchcheddiad tra llygredig, ac yn faeth a chryfhad i wyniau gwarthus, a nwydau mwyaf afreolus y natur ddynol. Mae profion dilys o hyn i'w cael yn hanesion eglwysi a chyfundebau llygredig ac erlidgar, megys yr Eglwys Babaid, Uchel-eglwyswyr, Puseyaid Lloegr, &c. Yr oedd yr egwyddorion hyn yn cyd-ddwyn yn burion â hen "Lyfr y Chwareuon," tra yr oedd y rhai a ddalient yr un egwyddorion a'r Methodistiaid yn dyoddef pob camdriniaeth yn hytrach na halogi eu cydwybodau.

Er prawf ychwanegol o addysg ddiffygiol a chyfeiliornus yr Eglwyswyr yn yr amser hwn, gosodwn o flaen y darlennydd y pigion canlynol o lyfr a gyhoeddwyd gan yr hen "Gymdeithas er Helaethu Gwybodaeth Gristionogol," ac a argraffwyd yn Llundain yn 1765, dan yr enw "Annerch difrifol a charedig at y bobl a elwir Methodistiaid," pa un, y mae yn debygol, a daenid yn rhad gan rai Eglwyswyr ymhlith eu plwyfolion.

"Fy mwriad," medd yr awdur, "yw, eich tynnu chwi oddiwrth athrawiaeth ac ymarferion y *Methodistiaid*, ac oddiwrth wrando ar y cyfryw ddsygawdwy, ag, fel yr wyf yn credu, a'ch camarweiniodd hyd yn hyn. Nid fel pe baem yn ceisio genych fod yn llai eich gofal a'ch diwydrwydd yn eich dyledswydd; yn llai eich gostyngeddwrwydd neu 'n llai eich cariad. Coeliwch fi, camwedd mawr yw taeru, fod dim athrawiaethau neu ddyledswyddau anghenrheidiol o'r grefydd gristionogol yn cael esgeuloso eu hannog a'u dysgu yn ein heglwysi ni. Twyllwyd chwi yn ddirfawr, os dywedwyd wrthych ein bod ni yn gorphwys yn y ffurf oddi-allan neu'r blisgyn o grefydd, a'n bod yn ddeithriaid i Rym duwioldeb, neu 'n bod yn esgeuloso ei annog fel y mae yn haeddu. * * * Ni raid i chwi ofni na chewch chwi glywed yn ein heglwysi ni bob peth *perthynasol i fywyd a duwioldeb*. Nid rhaid i chwi fyned i un lle arall am addysg anghenrheidiol, a chynghorion i fushedd dduwiol a rhinweddol."

Yn ddilynol i'r amddiffyniad hwn, mae yr awdur yn myned ymlaen i egluro y pynciau mewn dadl, ac yn dechreu gydag "adenedigaeth," yr hyn yr oeddid yn eu cyhuddo nad oeddynt yn ei ddysgu yn ddigonol.

"*Ad-enedigaeth* a dybiwyd gan rai difnyddion ei bod o ddeufath, *Bedyddiol* ac *Ysrydol*. Y cyntaf yw y rhan oddifevn o Sacrament *Bedydd*, y peth a arwyddocceir wrtho, hyn yw, cyfnewidiad cyflwr, aillderbynaiad i ffactor Duw, a rhagorfreintiau 'r Efengyl. Ac amlwg yw mai hyn yw meddwl ysgrythyrol y

gair, yr hwn yr oedd y prif dadau, a'n heglwys ninnau yn ei dderbyn. Y llall yw, dychweliad y galon oddi wrth ei llygredigaeth naturiol neu arferol at gariad ac ofn yr Hollalluog Dduw, a dymuniad ac ymegniad diragrith i ddilyn yn mhob peth ei ddoeth a'i sanctaidd orchymynion ef." Tudal. 7—10.

"Nid yw ryfedd i'n heglwyswyr ni esgeuluso pregethu anghenrhaid *Ad-enedigaeth bedyddiol*. Mae'r anghysondeb o hwn yn eglur ar y golwg cyntaf. Ein cynulleidfaeodd ni ydynt rai wedi eu bedyddio eisoes: a byddai mor anrhesymmol gyngori y rhai hyn i gael eu hail-eni yn yr ystyr yma, ag a fyddai i gael eu hailfydyddio. Fe a dderbyniwyd yr *Ad-enedigaeth* yma eisoes, ac nid ellir mo'i haillderbyn.

Ond a ddarfu iddynt annog yn ddigonol y llall, yr *Ad-enedigaeth ysprydol*? Nid arferasant oll, ond odid, y gair pennodol hwn; a hyny oherwydd y gallant dybio, yn dra union, nad oedd y gair yn cael ei gyfaddasu yn gywir yn y fan yma. Eithr a gadd y peth ei hunan, sef sylwedd yr athrawiaeth, ei esgeuluso? * * *

Na thwybiwch ein bod ni ffordd yn y byd yn dueddol i ymddadlau ynghylch geiriau, mae'n rhaid arfer y rhai hyn yn wastadol yn eu hystyr priodol, arferol ac eglur, onidè hwy a fyddant yn ddiammeu yn achos o gamsynniad. Ac am "*Ad-enedigaeth*," mae'n sicr genym, nad arferir mo'no ond yn anaml, neu braidd un amser, yn yr Ysgrhythr, 'Sgrifeniadau yr hen dadau, a gwasanaeth ein heglwys ni, i arwyddocâu dim arall, ond y cyfnewid mewn Bedydd. Ac er bod dynion drygionus yn eu gwneuthur eu hunain yn annheilwng o'r garennwyd o blant i Dduw, ac yn fforfettio y rhagorfraint a'r fantais wynfydedig o'r titl hwn; etto ar ol Bedydd ni elwir arnynt yn unlle i gael eu *geni o newydd*, neu eu *hadieni* drachefn. * * * Pa fodd bynnag o's gwna eich dysgawdwr ychydig gyfaddasu y gair *Ad-enedigaeth* i arwyddocâu dychweliad a gwellad pechadur wedi Bedydd, ni raid iddynt, nid allant hwy yn gyfiawn, mor achwyn ar ein heglwyswyr ni am fod heb gredu, neu esgeuluso maentumio, y llwyr anghenrhaid o hyn; yr hyn, y mae'n rhaid i chi wybod, y maent hwy yn wastadol yn ei annog ar eu gwrandawr." Tudal. 10—12.

Y pwnc nesaf a ddygir ymlaen yn y llyfryn hwn yw "Cyfiawnhad trwy ffydd yn unig," lle mae yr awdur yn dadlau yn dŷn "fod *gweithredoedd da yn ammodau o'n cyfiawnhad*." Yn y modd hyn y mae yn egluro ei fater:—

"Nid yw'r gair *ammod* yn arwyddocâu dim haeddedigaeth, yn tybied dim ychwaneg na'r anghenrhaid o *weithredoedd da*; dim ychwaneg na'n bod ni heb allu cael maddeuant a'n derbyn heb eu cyflawni hwynt: neu o leiaf heb lawnfriadu yn ddiragrith, ac yn awyddus i'w cyflawni hwynt fel y caffom allu a chyffusdra. * * * Dichon fod ammodau dilynol i'r caniattâd cyntaf o unrhyw achos neu ffafur, ac etto yn anghenrheidiol i'w barhau neu i'w ddiogelu ef. Ac ni ellwch farnu chwaith oddi wrth hyn, nad oes dim *gweithredoedd da* yn myned o flaen Cyfiawnhad. * * * Gellir addef—fod y *gweithredoedd da odâi mevon*, megys edifeirwch, amynedd, gobaith, cariad, a llawer eraill, yn ammodau sy'n myned o flaen ein *Cyfiawnhad*." Tudal. 22—25.

"Fel y mae Duw yn gwleed calon dyn, pa brud bynnag y gwelo ef gyfnewidiad wedi ei weithio ynddi, a'r pechadur yn ddiragrith yn llawn friadu, trwy ras ei Lân Yspryd ef, ymadael a'i ffyrdd drygionus, a dilyn buchedd newydd o dduwidoldeb a rhinwedd dda, geill ef weled yn dda ei gyfiawnhau, hynny yw, ei bardwynu a'i dderbyn ef i'w ffafur; er nad ellir tybied fod y dyn etto wedi cyflawni dim o'i lawn friadau, ie na bôd ychwaith yn sicr o'i burdeb ei hunan. A rhaid cyfaddef fod cyflwr y cyfryw un yn ddiogel, pe cymmerid ef o'r byd, cyn iddo gael cyffusdra i'w cyflawni hwynt. Gan y buasai *gweithredoedd da* yn tarddu allan o'r cyfryw wir a bywiol ffydd; y cyfryw *weithredoedd* ag sydd fwyaf *boddlon a chymmeradwy* gan Dduw yng Nghrist; a'r unrhyw rai a *ordeiniodd* Duw erioed i *ddynion* rodio *ynddynt*. Y cyfryw oedd cyflwr y lleidr ar y

groes; a phawb eraill a drofsant at Grist'nogrwydd, y rhai a allant farw yn fuan wedi Bedydd. Ie hyn yw 'r cwbl a allwn ni ei ddywedyd mewn ffafwr i edifeirwch gwely anegu. Eithr ni bydd hyn chwaith ddim gwrthddyweddiad yn erbyn y pwnc y bum i yn ceisio eich addysgu ynddo. Llauer o fwriadau da a dybier yma hefyd yn anghenrheidiol o'r blaen. Ystyriwch yn wir a difrifol, pa beth a arwyddoecceir wrth y cyfnewid calon yma. Ai nid cariad ac ofn Duw, cystudd calon ac edifeirwch perffaith, a gweddïau am faddeuant, a hollawl ym-rôad i fyw yn well? Ac os na ofynir dim ychwaneg y pryd hynny tuag at *Cyfiawnhad*, yr achos yw am nad ellid yn y cyfryw gyflwr gyflawni dim ychwaneg. Canys dyledswyddau eraill, ped fuasai y pryd hynny bossibl eu cyflawni hwynt, a fuasant yr un modd yn ammodau." Tudal. 25, 26.

"Synniad arall yw, megis y mae *Cyfiawnhad* yn ddiammeu yn dechreu yn y Bedydd, yr hwn a wasanaethir yn ein heglwys ni yn fwyaf arferol i rai bychain; am hynny rhaid i bob *gweithredoedd da* fod yn ddilynol iddo: neu am rai mewn oedran a synwyr, fod yn rhaid i bob *gweithredoedd da*, y rhai ydynt yn briodol yn weithredoedd Crist'nogol, fod ar ol Bedydd, hynny yw, wedi i gyflwr *Cyfiawnhad* ddechreu." Tudal. 27.

"Ac yn wir byddai 'n hawdd dangos, fod ein *Refformwyr* ni yn eu 'sgrifeniadau eraill yn addef yr anghenrheid o *weithredoedd da*, yn yr un ystyr ag yr ydym ni yn ymryson am danynt. A'r rhai sy 'n eu gwrthod *megis ammodau*, nid ydynt yn wir, ddilynwyr ein Difinyddion rhagorol ni, ond yn hytrach *Oucen, Jacob, Shepherd, Bunyan*, ac eraill o'r cyfryw radd a thuedd." Tudal. 28.

Wrth y dyfyniadau uchod fe welir fod y pynciau o gyfiawnhad a sancteiddhad yn cael eu cymysgu, y naill yn cael ei roddi am y llall; bod uffudd-dod ac iawn y Cyfryngwr fel defnydd ein cyfiawnhad yn cael eu doddi o'r neilldu; a bod sancteiddhad yn cael ei osod allan fel gwreiddyn ein cyfiawnhad, ac nid fel ffrwyth ac effaith o hono. Yr hyn y mae y fath addysg yn arwain iddo a welir ymhellach yn yr hyn a ddywed yr awdur "Am Weithrediadau yr Yspryd Glân," y mater y mae yn traethu arno yn nesaf. Tudal. 29.

"Am y pwngc yma hefyd," meddai, "fe'ch twyllwyd chwi yn dost ac f' allai 'n angheuol. Os gwnaed i chwi goelio, na ddsygr yn ein heglwys ni angenrheid cymmorth a chydysyniad y Person bendigedig yma, gwnaed ammarch mawr iawn i chwi a ninnau. Eithr yr ydym ni yn addef, nad allwn mor myned cymhellled ag yr aeth eich dysgawdwy'r chwi yn hyn.

Os ydych yn ddiragrith yn deisyfu dysgu a gwneuthur ewyllys Duw; os ydych yn ei wir garu, ei ofni, ac yn ei ufyddhau; gellwch wybod yn hysbys, eich bod mewn cyflwr o ras a ffafwr, fod eich pechodau wedi ei maddeu, ac y cewch o'r diwedd eich cyfiawnhau a'ch gwobrwyo yn dragywyddol ganddo ef, dan ammod y parhewch yn gwneuthur felly holl ddyddïau eich einioes. * * * Na oddefwch gan hynny eich twyllo ddim yn hwy yn y pethau hyn. Gellwch gredu eich bod wedi eich *ad-eni o newydd* yn eich Bedydd, a gellwch wybod eich bod wedi eich *cyfiawnhau*, neu eich derbyn i drugaredd a ffafwr, a bod gennyh hawl i happusrwydd dragywyddol; nid yn unig am eich bod wedi eich bedyddio, ond am eich bod yn byw mewn cyflawniad cywir o'ch dyledswydd, ac mewn cwblhad pur a gostyngedig o ammodau y cyfammod crist'nogol; ac wrth hyn hefyd y gellwch wybod i Dduw roddi i chwi ei Ysbryd, heb yr hwn nid allech wneuthur dim o'r pethau hyn. Os dyma'ch cyflwr, gellwch fod yn gyssurus, gael heddwch yn eich meddwl, a llawenyachu mewn gobaith o ogoniant Duw, yr hwn yr ydych fel hyn yn ei garu. Eithr o's meddwl arall sydd ynoch, na fydded i ddim teimladau neu gynnyrfiadau synniol eich hudo i gau ddiogelwch; neu fyth eich temtio i dybied eich bod wedi *derbyn yr Ysbryd*, eich bod wedi eich cyfiawnhau, neu eich bod yn *caru* Duw. Cofiwch, mai *cadw ei orchymynion ef*, a wnaeth yr ysgrythyr yn nôd hynod a didwyll ein bod yn ei garu ef." Tudal. 34, 35.

Addefwn y cynnwysir yma lawer o wirionedd, a hwnw o'r pwys mwyaf, a dderbynid bob amser yn groesawgar, ac a amddiffynid yn wresog gan y Methodistiaid, sef, fod gweithredoedd da yn ffrwythau ffydd, ac yn brawf o honi; ond yr hyn y cwynwn rhagddo yw hyn, fod yma rywbeth mwy na'r gair yn cael ei ddysgu, a'i fod yn cael ei gymysgu â'r hyn sydd gyfeilliornus a niweidiol. Hyn sydd yn gwneuthur yr addysg yn beryglus, fod yr hyn sydd yn gamsyniol yn gwrthweithio yr hyn sydd uniawn a da, fel y mae yn myned yn ddiëffaith. Mae pwyso ar ein bedydd neu ar ein cyflawniadau daionus, yn lle ar aberth ac iawn ein Prynwr, am dderbyniad gyda Duw, yn sicr o droi allan yn ddinystriol i weithredoedd da; yn ymdddwyn ar ddeddfoldeb, a hwnw drachefn yn esgor ar benrhyddid. Cawn ddangos rhagllaw, drwy dystiolaethau diammheuol, y dylanwad niweidiol oedd y cyfryw addysg ac egwyddorion yn ei gael ar y wlad yn gyffredin.¹

Terfynwn ein hymchwiliad dan y pen hwn âg un dyfyniad ychwanegol allan o'r un awdur, yn rhoddi cyfrif am gynnydd Methodistiaeth yn y wlad; a chan fod y dystiolaeth hon yn dyfod oddiwrth y blaidd wrthwynebol, dichon y bydd yn gynnorthwy i ffurfio barn gywir am y Diwygiad Methodistiaidd, a'r offerynau trwy ba rai ei dygwyd ymlaen. Cofiw'n fod yr awdur yn cymeryd mantais ar bob peth ag a allai er eu darostwng yn meddyliau ei ddarllenwyr, ac yn barod i gyfrif iddynt bob llygreddigaeth a chyfeilliornad oedd yn ymwithio i mewn i'w plith, yn erbyn pa rai yr oeddynt yn ymdrechu yn egniol a gochelgar er eu cau allan, yr hyn hefyd y galluogwyd hwynt trwy ras i'w wneuthur yn effeithiol.² Wedi tynu allan y brychau a'r meflau hyn, hynod leied sydd i'w ddywedyd am danynt ond sydd yn ffafriol iddynt, ac i'r achos da yr oeddynt yn ymdrechu yn ei blaidd. Sylwer hefyd fod y dystiolaeth hon wedi ei hysgrifenu a'i chyhoeddi yn mhen deng mlynedd ar hugain ar ol dechreuad cyntaf y Methodistiaid. Yn awr, gwranda'n beth a ddywed y cyhoeddwr parchedig:—

“Gadewch i mi ddwyn ar gôf i chwi gynnydd crefydd y *Methodistiaid* er eu hymddangosiad cyntaf. Hyn yn ddiau a ddylai eich annog i gilio yn ol mewn pryd. Pa fodd y mae'ch dysgawdwr wedi newid oddi wrth yr hyn oeddynt yn broffesu ar y cyntaf? Ymddygiad tra gofalus a threfnus; Parch gwedus i reolau ein heglwys ni, oedd yr hyn yr oeddynt y pryd hyny yn chwennych bod yn hynod am dano: ac yna llawer o wŷr da oeddynt yn dwyn wyneb iddynt, ac yn tybied yn dda o honynt. A phe buasent yn parhau i'w hymddwng eu hunain felly, ni allasai un gwr difrifol feio arnynt. Yr oeddid y pryd hyny yn caniattau iddynt ein pulpyt a'n heglwys ar bob achos. Ond nid hir y cadwasant o fewn y terfynau hyn. Yr yspryd hwn o ostyngeddwrwydd a pharch i drefn a gwedd-eidd-dra a'u gadawodd hwynt yn fuan. Wrth gael o honynt eu mawrygu a'u dilyn, hwy a aethant yn feilchion ac uchel. Wedi hyn hwy a aethant rhagddynt yn ddigêl i ogannu a dirmygu eu brodyr. Achwynion cyffredinol a gyhoeddwyd yn erbyn ein Heglwyswyr ni, fel pe buasent yn esgeuluso dysgu yn gywir y grefydd grist'nogol. O'r diwedd, gorfu ar y rhai'n nacau iddynt eu Heglwys, oni byddent fodlon gael o'u pobl eu rhwystro ag athrawiaeth ddyrys a pheryglus. Hyn a agorodd eu safnau etto yn fwy rhwth, ac a wnaeth iddynt fod yn fwy bloeddffawr a thanbaid yn eu hachwynion a'u drwg absen. Gwnaethant hefyd hawl tra disail a rhyfygus i *gyfraniadau* ac *hyfforddiadau* duwiol; y cyfryw ag

¹ Gallasem liosogi ein dyfyniadau ar y pen hwn yn llawer iawn helaethach; ond mae hyn, dybygem, yn llawn digon. Mewn rhifyn dyfodol amcanwn gyflawni yr hyn a addawyd uchod.

² Gwel Hanes, &c. o flaen y “Cyffes Ffydd:” tudal. 10.

nad allai dim cynnorthwyon cyffredin Yspryd Duw, na'r galwad cynnefin i'r weinidogaeth eu cyfiawrhâu. Pa fodd bynag, ni roddwyd mo'n ynt i fyny ar frys. Amryw o bethau a 'sgrifenydd i'w hail-ynnill hwynt. Rhai o'n Heglwyswyr pennaf ac enwocaf a ddangosasant eu Hamryfusedd trwy bob addfwynder a Llarieidd-dra. Pa ffrwyth a ddygodd hyn oll? Atebion crâs a choegyld; mwy o chwerwedd; ymfroast mwy rhyfygus; drwg absen mwy anghariadus. O'r diwedd, torrasant allan eto i afreolaeth gwaeth. Gan fod ein Heglwysi erbyn hyn, ac am yr achosion yma, yn gyffredinol yn cael eu nacau iddynt, hwy a drawsfeddianasant bulpyt neu ddaud heb gennad: ac o'r diwedd heb yn waethaf i'r gyfraith a ymarferasant eu gweinidogaeth mewn meusydd a mynyddoedd, a manau anghyfreithlawn eraill. Hwy a roisant heibio hefyd, ac a newidiasant Wasanaeth yr Eglwys wrth eu meddyliau eu hunain, ac a arferasant weddïau difyfyf o'u gwaith eu hunain yng nghyhoedd addoliad Duw: ac yn hyn y parhausant, yngwrthwyneb i roddiad eu dwylaw wrth Lyfr *Gweddï Gyffredin*, pan gawsant urddau, drwy'r hyn yr ymrwymasant yn y modd mwya cyhoedd a difrifol "i arferu y ffurf a osodwyd yn yr unrhyw Lyfr mewn Gweddï bublic, a gweinidogaeth y Sacramentau, ac nid arall."

Pan ryfugasant fyned cym mhelled â hyn, nid rhyfedd iddynt gymmeryd rhyddid i gondemnio y llyfrau rhagorol hyny, *Holl Ddyledswoydd Dyn*, a gwaith Arch-Esgob *Tillotson*;¹ nac iddynt wed'yn syrthio o'r naill amryfusedd i'r llall, ac ymwahanu yn eu plith eu hunain yn y pynciau mwya pwysfawr, megis yn wir y gwnaethant. Rhai o honyt wedi hyny a redasant o amgylch y wlad, gan ddysgu a chynghori, heb nac urddau nac awdurdod, dysgeidiaeth na gwybodaeth, gan rwystro meddyliau pobl druain anwybodus, dda eu Bwriad; gan yrru rhai i anobaith, eraill i ryfyg, a llawer i wallgof. Rhai wrth hyn a fwrwyd i holl ddyrysi opiniynau *Calvin*; ereill a arweinwyd ymaith gan opiniynau afreolus mât h a'r bobl y sy yn eu galw eu hunain *Morafiaid*." Tudal. 42, &c.

Mae yn amlwg oddiwrth eu hanes, ac y mae yn cytuno yn dda â'r hyn a ddywedir yn y dyfyniad uchod, nad oedd gan y Methodistiaid, ar eu tarawiad cyntaf allan, un amcan mewn golwg namyn cael adfywiad ar grefydd ysbrydol, a dyhëwyd gwir gristionogol, yn yr Eglwys, a'i dwyn yn ol at athrawiaeth y Diwygiad Protestanaidd, oddiwrth yr hyn yr oedd wedi ymadael i raddau pell iawn. Bu eu hymdrechiadau canmoladwy yn hyn, a'u ffyddlondeb i argyhoeddi y bugeiliaid eglwysig diofal, yn achlysur i gyffröi cenfigen y rhai hyny, ac i dynu arnynt wë eu huchafiaid, yr hyn a dorodd allan yn erlidigaeth dost yn eu herbyn, fel y gorfu i amryw adael eu sefyllfaoedd eglwysig, rhai o ddewisiad, eraill drwy gael eu bwrw allan; ac am nas gallent edrych yn ddfater ar y cyffredinolrwydd o'u cydwladwyr yn methu o eisieu gwybodaeth, heb neb yn tosturio wrthynt, penderfynasant, heb ymgynghori â chig a gwaed, i droi allan i'r prif-ffyrdd a'r caeau, i alw a chymhell pechaduriaid i ddyfod i wledd yr efengyl, gan farnu yn rheitiach ufuddhau i Dduw nag i ddynion, a bod achub eneidiau o

¹ Mae yn ddigon hysbys nad oedd y tadau Methodistiaid yn cymeradwyo y llyfrau hyn a'u cyffelyb, nac yn cefnogi y darlenniad o honyt; ac felly seth y derbyniad iddynt yn llai, fel nad ail-argraffwyd nemor un o honyt wedi i athrawiaethau y Diwygiad wreiddio, yn y wlad. Ond er iddynt ddinystrio poblogrwydd y llyfrau hyn, ymdrechasant yn ddyfal a chanmoladwy i roddi i'r bobl bethau gwel yn eu lle; megys "Y Bibl teuluaid," gyda sylwadau ar bob pennod, gan y Parch. Peter Williams; Hymnau, gan W. Williams; Pregethau, gan Rowlands, Llangetho; y "Geiriadur Ysgrhythrol," gan Thomas Charles, A.B., Bala; Gwaith Gurnal, &c. &c. Ymdrech- iadau y Parch. Thomas Charles gydag ysgolion Cymreig, *dyddiol a Sabbothol*, a'r llwyddiant mawr a fu ar y gwaith, a arweiniodd i sefydliad y Gymdeithas Fibleidd, trwy ba un y mae y Biblau wedi eu lliosogi yn ein plith yn y fath helaethrwydd, nes bod yn gyffelyb i fanna wedi ei wlawio o'r nefoedd, mewn cymharïaeth i'r hyn ydoedd o'r blaen.

annhraethol fwy pwys na chadw at ddefodau a threfniadau dynol. Cawsant seliau i'w gweinidogaeth trwy fod eneidiau lawer yn cael eu hennill trwyddynt i dderbyn ffydd yr efengyl; calonogwyd hwy i fyned ymlaen wrth weled nad oedd eu llafur yn ofer yn yr Arglwydd; a chawsant eu cadarnhau a'u chwaneu fwyfwy.

Ond eu gwrthwynebwyr, er y gallent edrych ar halogi dydd yr Arglwydd yn ddigon didrallod, a chyd-ddwyn â meddwdod, anniweirdeb, trais, ac anghyfiawnder, heb ymdrechu nemawr yn eu herbyn, a ystyrient bregethu mewn lleoedd anghysegregedig, a chan genadwr heb urddau esgobawl, yn bechod anferth a rhyfugus. Cadw at ffurfiau allanol ac urddas eglwysig oedd eu pwnc hwy, deled a ddeuai o eneidiau gwrthfawr oeddynt yn prysuro i'w colledigaeth, heb fawr neb yn gosod hyny at eu calon.

Nid ym am gelu nad oedd rhai ymhlith Eglwyswyr rheolaidd yn weinidogion duwiol, gwir ymdrechgar i wneuthur daioni, er na throisant allan i bregethu yn deithiol, eto nid oeddynt ond anaml, a chylch eu gweithrediaidau yn gyfyngedig i'w plwyfau eu hunain; a phan eu symudid i leoedd eraill, neu o'r byd gan angeu, dilynid hwy ran fynychaf gan Eglwyswyr bydol, hollol ddifater am iachawdwriaeth y bobl; ac o ganlyniad, diflanai effeithiau eu gweinidogaeth yn fuan ond fel y byddai y gwaith da yn cael ei ddwyn ymlaen gan y Methodistiaid, yn y meusydd agored, ar ochrau y ffyrdd, mewn tai anedd, neu mewn ysguboriau, yn ol y cyfleusdra a gaent. A'r rhai fyddent wedi eu defiro am eu cyflwr, a äent i ymofyn ymgeledd i'w heneidiau i ba le bynag y gallent ei gael. Gwnaent yn ol cynghor y Ficer:—

“Oni bydd un bregeth ddurſing
Yn y plwyf lle be'ch yn taring,
Dos i maes i'r plwyf lle byddo,
Na ad un Sabboth heb ei gwrando.”

Cafwyd hefyd amryw ymhlith yr hen Ymneilldŵyr yn barod a siriol i roddi help llaw i'r Diwygiad, ac i ymgeleddu y dychweledigion ieuaine, a thrwy hyny yr oeddynt yn derbyn adnewyddiad iddynt eu hunain ag oedd ymron megys bywyd o feirw.

Nis gallwn roi heibio ein hysgrifell y tro hwn heb grybwyll un ystyr-iaeth yn ychwaneg. Yr ydym yn gweled mai trwy lafur egniol, ac er gwaethaf rhwystrau ac anfanteision anghyffredin, y dygwyd ein gwlad i'r agwedd grefyddol a welir arni yn ein dyddiau ni. Gochelwn feddwl fod y gwaith ar ben. Na; y mae tir lawer eto heb ei feddiannu. Mae llawer o weddillion hen arferion llygredig eto yn aros, y bydd yn waith oes o lafur i'w carthu o'n mysg. Mae anwybodaeth dirfawr, ac anfoesoldeb gwarthus, eto yn ffynu yn y tir; a'r eglwysi, mae lle i ofni, heb deimlo fel y dylent o herwydd hyny. Geill yr eglwysi Henaduriaethol yn Nghymru ddywedyd fel Sion gynt, “Yr Arglwydd a wnaeth i ni bethau mawrion, am hyny yr ydym yn llawen;” ond yn ddiâu dylent “lawerhau mewn dychryn,” rhag colli symlrwydd yr efengyl yn nghanol y rhwysg a'r rhodres, yr ymchwydd a'r ymfrost, gyda phethau eraill; rhag eu darostwng gan benrhyddid, ac i “benwyni ymdaenu trostynt heb yn wybod iddynt.” Mae ysbrydiaeth yn awr ar led yn y byd, yn gweithio yn brysur, ac ni widdys pa niweid a wna yn rhith a than gysgod pethau da, megys rhinwedd, rhyddid, addysg, athroniaeth, a'r cyffelyb.¹

¹ Nid ydym yn dywedyd yn erbyn y pethau daionus hyn mewn modd yn y byd, ond yn erbyn y camddefnyddiad o honynt, i ddwyn i mewn bethau niweidiol i gref-

Mae Satan eto yn medru ymrithio yn angel goleuni, a dyna un o'i ddichellion i rwystro a dyfetha pob gwaith da. Amlwg yw mai nid heb ymrôad llwyr benderfynol y mae yn ddichonadwy i ni gadw y tir a ennillwyd. Nid oes dim ond tywalltiad helaeth o'r Ysbryd Glân ar ein cynulleidfaoedd, a bair gynnydd ar wir grefydd yn ein plith, ac a'n ceidw rhag dirywriad. Ond pe deuai'r "gelyn i mewn fel afon, Ysbryd yr Arglwydd a'i hymlid ef ymaith."

GREDDF, DEALL, A RHESWM.

Y MAE amryw yn cwyno os na cheir yn mhob rhifyn o'r "Traethodydd" un ysgrif o leiaf i'r dosbarth meddylgar. Dichon fod rhai yn rhestru eu hunain yn y dosbarth hwn, heb fod ganddynt hawl neillduol i'r anrhydedd: ond er hyny y mae genym seiliau i gredu fod rhifedi nid bychan o'n darllenwyr wedi dysgu meddwl o ddifrif. Mewn cilfachau anghysbell yr ydym yn cyfarfod weithiau â dynion ieuaine ymofyngar, rhai o honynt yn Gymry uniaith, yn alluog i drafod y materion mwyaf dyrys a fu erioed dan sylw athronwyr. Ymlaen yr elont, ac yn fwy lliosog y byddont, yw dymuniad ein calon: ac er mwyn eu cefnogi, yr ydym am y tro hwn yn cynnyg iddynt y gofyniad a ganlyn: *Beth yw y gwahaniaeth rhwng dyn ac anifel?*

Ar ryw olwg, gellid tybied fod yr anifel yn meddu pob cynneddf sydd yn perthyn i ddynoliaeth. Ond y mae yn amlwg i bob dyn *meddylgar* fod y gwahaniaeth yn anfesurrol; ac mai mawredd y gwahaniaeth yw yr achos fod yr yehydig debygolrwydd a welir ar rai achlysuron yn creu cymaint o syndod. Os yw rhai creaduriaid direswm yn dynwared gweithredoedd dynol, felly hefyd y mae peirianwaith: ie, y mae llawer peiriant yn gwneyd gwaith cywreiniach nag y medr dyn nac anifel ei gyflawni. Er hyny, mor bell y dylem fod oddiwrth gymharu dyn â pheiriant, fel y mae yn rhaid i bawb addef fod hyd yn nod yr anifel yn tra-ragori ar bob peirianwaith. Ond beth bynag yw y pellder rhwng y peiriant a'r anifel, y mae y pellder rhwng yr anifel a'r dyn yn fwy fyrdd o weithiau. Cymerwch y gweithredoedd mwyaf dysyml a chyffredin—cynneu tân, er anghraiff, neu ei gadw ar ol ei gynneu, dyma gelfyddyd nad oes un creadur direswm wedi ei chyrrhaedd. Pan adewir tân mewn awyr agored yn agos at epaod, mae y creaduriaid hyny yn hoff iawn o ddyfod yno i ymdwymno; ond nid ydynt yn meddu digon o synwyr i roddi coed ar y tân i'w gadw rhag diffoddi. Un o'r pethau cyntaf a ddysgir gan blant, yw newid teganau â'u gilydd; ond y mae egwyddorion hawddaf trafniadaeth uwchlaw dirnadaeth creaduriaid direswm. Ni welwyd dau o honynt erioed

ydd a moesoldeb. Clywsom am rai yn bwgwth gweinidogion da, am eu ffyddlondeb yn rhybuddio yr eglwysi o'u perygl yn hyn, y collent eu poblogrwydd os kent ymlaen felly. Na, na, nid yw hyny yn debyg; ond pe byddai, yn eithafion yr anialwch, meddwn ni, y byddo y poblogrwydd hwnw y rhaid gweneieithio i ynyfyrwydd, rhyfyg, ac anystyriaeth, er mwyn ei gadw i fyny!

yn newid nwyddau mewn modd cyfeillgar â'u gilydd. Y mae llewyrchiad gwanaf rheswm mewn plentyn uwchlaw cyrhaedd yr anifel. Mae yn eglur, gan hyny, fod gwahaniaeth yn bod, a'r gwahaniaeth hwnw yn hanfodol. Ond beth yw y gwahaniaeth hwnw? Beth yw y gallu rhesymol sydd yn hynodi dyn uwchlaw creaduriaid direswm?

Yn un peth, y mae creadur direswm mewn rhyw ystyr yn deall gwrth-ddrychau; ond y mae dyn yn deall deddfau. Wrth son am ddeall gwrth-ddrychau, ein meddwl ydyw, fod creaduriaid direswm yn deall priodoliaethau gwrthddrychau mor bell ag y maent yn effeithio ar y corff. Mae yn wir mai trwy yr effeithiau hyn y mae dyn yn derbyn ei syniadau: er hyny, nid yw efe yn aros ar hyn; ond y mae yn myned rhagddo at y deddfau anweledig sydd yn llywodraethu y cwbl. Mae y wenynen yn deall pa ddefnyddiau sydd addas i ffurfio ei chelloedd, a pha fodd i drefnu y defnyddiau hyny yn y modd perffeithiaf; ond nid oddiar wybodaeth o ddeddfau Rhif a Mesur y mae hi yn gweithredu. Er fod ei holl gelloedd yn chweonglog, nid oes ganddi yr amgyffrediad lleiaf am y ddeddf hōno sydd yn peri mai celloedd chweonglog yw y rhai cymhwysaf. Os yw creaduriaid direswm yn deall y llythyrenau yn nghyfrol y greadigaeth, ac yn gallu rhoddi y llythyrenau hyny wrth eu gilydd yn lled gywir i gyfansoddi rhai geiriau, nid oes ganddynt un syniad am y meddwl sydd yn y geiriau hyny. Y mae gwahaniaeth dirfawr rhwng y gweithwyr cyffredin, a'r Pen saer celfydd, yr hwn a ddyfeisiodd yr adeilad, yr hwn sydd yn deall y rheswm am bob rhan o'r gwaith, ac yn gweled deddf y cwbl: ond mwy na hyn yw y gwahaniaeth rhwng creadur direswm a chreadur rhesymol. Y synwyrâu sydd yn trosglwyddo y defnyddiau i'r adeilad; a'r deall sydd yn gosod y defnyddiau hyny yn eu lleoedd priodol. Mor bell a hyn y mae creaduriaid direswm yn cyrhaedd. Y maent yn gweithredu yn ol rheolau penodol: ond gan nad oes ganddynt reswm i ddeall y rheolau hyny, a'u dewis, a'u cymbwysu, y mae cylch eu gweithrediadau yn sefydlog, ac nid oes gynnydd yn perthyn iddynt. Ond dyn yw yr archadeiladydd. Y mae efe yn arglwydd ar ddeddfau anian. Er nas gall eu dirymu na'u newid, y mae yn medru eu dirnad, a'u llywodraethu, a'u defnyddio fel y myno i wasanaethu ei ddybenion ei hun: ac o ganlyniad, y mae cylch ei weithrediadau ef mewn cymhariaeth yn ddiderfyn.

Ac os yw yr anifel yn analluog i ddeall deddfau y byd naturiol, llawer llai y dichon iddo ymgyrhaedd at wirioneddau ysbrydol, hanfodol, a thragywyddol. Dyma fyd arall annhraethol uwch na'r byd naturiol. Dyma fyd y ddeddf foesol, byd cyfiawnder ac anghyfiawnder, byd sancteiddrwydd a phechod, byd cyfrifoldeb ac anghyfnewidioldeb. Mae yn wir fod llawer o ddynion yn ddyeithr iawn i'r byd hwn. Y maent wedi rhoddi eu bryd a'u sylw mōr llwyr ar wrthddrychau y byd bach, fel y maent yn methu gweled y byd mawr. A dyma yr achos eu bod yn diystyru rheswm, ac yn gosod dyn ar yr un tir a'r anifel. Ond os credwn fod dyn yn perthyn i'r byd mawr ysbrydol, lle mae gwirionedd pur yn teyrnasu ymhell uwchlaw cyfnwidiau y fuchedd hon, mae yn rhaid fod ganddo allu naturiol i ymwneyd â'r byd hwnw, ac i ddeall ei ddeddfau; a'r gallu hwn ydyw rheswm.

Dyma gynneddf nad oes lle iddi yn nghyfundraeth Dr. Brown na Dr. Payne. Yn ol eu disgrifiad hwy, nid yw dyn ond anifel, ychydig uwch mewn graddau nag anifeiliaid eraill, ac nid yw dyn ac anifel ond peir-

iannau lled gywrair i weithio allan *suggestions ac emotions*. Er mwyn argyhoeddi ieuencyd Cymru fod rhywbeth uwch yn bod nag a gynnwysir yn ysgrifeniadau yr awduron hyn, rhoddwn ger eu bron ddyfyniad maith o Coleridge, wedi ei gyfieithu gan wr ieuanc sydd yn perthyn, ni a dybwn, i'r *dosbarth meddylgar*.

AR Y GWAHANIAETH MEWN RHYW RHWNG RHESWM A'R DEALL.

RHESWM yw gallu argyhoeddiadau cyffredinol ac anghenrheidiol, ffynnon a sylwedd gwirioneddau uwchlaw synwyr, ac yn meddu eu prawf yddynt eu hunain. Ei bresennoledb a nodir bob amser gan anghenrheidrwydd y gosodiad a gadarnhêir : mae yr anghenrheidrwydd hwn yn ammodol pan gymhwysir gwirionedd rheswm at ffeithiau profiad, neu at reolau ac arwireddau y deall; ond yn annibynol, pan fydd y pwnc ei hun yn gynnyrch neu esill rheswm. Oddiyma cyfyd gwahaniaeth mewn rheswm ei hun, deilliiedig o'r dull gwahanol o'i gymhwyso, ac o'r gwrthdrysychau at ba rai ei cyfeirir : yn ol fel yr ystyriom un ac yr un rodd, naill ai fel sail egwyddorion ffurfiol, neu fel gwreiddyn meddyldrysychau. O'i ystyried yn wahaniaethol mewn cyfeiriad at wirionedd ffurfiol neu ddansoddol (*abstract*), y rheswm meddyliadol neu fyfyrger yw; ond mewn cyfeiriad at wirionedd gweithredol neu foesol (*moral*), fel ffynnon meddyldrysychau a goleuni y gydwybod, yr ydym yn ei alw yn rheswm ymarferol. Pa bryd bynag y bydd i ewyllys y dyn, yr ewyllys neillduol, trwy hunan-ddarostyngiad i'r goleuni cyffredinol hwn, ddyfod yn ewyllys rheswm, y mae y dyn yn ailenedig : ac yna rheswm yw ysbryd y dyn ailenedig, trwy yr hyn y mae y dynsawd yn alluog i gynnal cymundeb bywiol â'r Ysbryd Dwyfol. Ac yn hyn y mae dirgelwch y Prynedigaeth yn gynnwysedig, fod hyn wedi ei wneyd yn ddichonadwy i ni. Felly hefyd y mae yn ysgrifenedig, "Y dyn cyntaf Adda a wnaed yn enaid bym, yr Adda diweddaf yn Ysbryd yn bywhau." I *Cor. xv. 45*. Ni raid i ni ond cymharu y rhanau yn ysgrifeniadau yr apostolion Paul ac Ioan, ynghylch yr Ysbryd a rhoddion ysbrydol, gyda y rhai yn Niarebion ac yn Noethineb Solomon mewn perthynas i reswm, i'n hargyhoeddi fod y termau yn gyfystyr.¹ Yn y cymeriad mwyaf cynnwysfawr a phriodol hwn o'r gair, y mae rheswm yn dra-rhagorol ysbrydol, ac yn ysbryd, sef ein hysbryd, trwy ddyliwiad yr un gras ag sydd yn rhoddi i ni hawl i ddywedyd, Ein Tad!

Ar y llaw arall, barnau y deall ydynt rwym yn unig mewn perthynas i wrthdrysychau ein synwryau, y rhai yr ydym yn eu hadfyfyrion dan ffurfiâu y deall. Fel ei iawn-ddarnoda Leighton, "y gallu ag sydd yn barnu yn ol synwyr ydyw." O herwydd hyn yr ydym yn ychwanegu yr attodair *dynol* heb ormodeiriad : ac yn llefaru am ddeall dynol ar wahan i eiddo bodau uwch neu is na dyn. Ond nid oes, yn yr ystyr hwn, ddim rheswm dynol. Nid oes ac nis gall fod ond un rheswm, un ac yr un; sef y goleuni ag sydd yn goleuo deall neillduol pob dyn, ac fel hyn yn ei wneyd yn ddeall rhesymol, yn ymadrodd rheswm—dim ond un, eto yn llawer : y mae yn myned trwy yr holl ddeall, a chan aros ynddo ei hun, y mae yn adgenedlu yr holl alluoedd eraill. Mae yr un ysgrifenydd yn ei alw hefyd yn ddylanwad oddiwrth Ogoniant yr Hollalluog, am fod hyn yn un o enwau y Messiah, fel y *Logos*, neu y Gair Mabod cyd-dragywyddol. Ac y mae deryn o eiddo Heraclitus yn dra nodedig am ei gyd-darawiad, fel y sylwais yn barod mewn lle arall :—"I ymadroddi yn rhesymol mae yn gweddu i ni dynu nerth o'r hyn sy gyffredin i bob dyn : canys yr holl ddeallidwriaethau dynol a faethir gan yr un Gair Dwyfol."

Dywedais fod anifeiliaid yn cyfranogi o ddealltwriaeth. Os gwâd neb hyn, y mae ffordd rwydd i benderfynu y ddaol. Darlened yn ofalus ddiwy gyfrol fechan o eiddo Hüber ar wenyf a morgrug (yn neillduol yr olaf), ac "Arweiniad i Ddrysychflyddiaeth," gan Kirby a Spence : a rhaid i'r naill neu'r llall o ddau beth ganlyn. Naill ai bydd iddo newid ei farn fel un anghytunol â'r ffeithiau;

¹ Gwel Doethineb Solomon : pen. xxii. xxiii. xxvii.—Cyf.

neu, rhaid iddo wadu y ffeithiau; yr hyn beth nis gallaf dybio y bydd iddo ei wneyd, yn gymaint ag y byddai y gwadiad yr un peth a haeru yr hyn nad yw yn llai fol nag o ansyber, sef fod Hüber, a'r amrywiol nateryddwyr enwog, Ffrenciaidd, Saesonaidd, Swisaidd, Almaenaidd, ac Italaidd, gan ba rai y mynych adroddwyd ac y cadarnhäwyd sylwadau a phroffion Hüber, oll wedi cydfwriadu i dwyllo y byd gyda rhes o gelywyddau a gau-chwedlau. Ni welaf fi un ffordd, o leiaf, trwy yr hon y gall ddyfod allan o'r dyryswch hwn, heblaw trwy neidio dros reolau ac argaeau derbyniedig pob arholiad cyfreithlawn, a naill ai traws-ddodi i'r gair, Deall, y darnodiad a briodolwyd eisoes i Reswm, neu ddarnodi deall *mewn rhyw* trwy y perffeithiau neillduol ac ychwanegol a gasglodd y deall dynol oddiwrth ei gydhanfodiad â rheswm ac ewylls rydd yn yr un dynsawd neillduol; mewn geiriau amlycach, oddiwrth ei fod yn cael ei arferu gan greadur hunan-adnabyddus a chyfrifol. Ac, wedi y cwbl, byddai gan bleidiwr gosodiad Harrington hawl i ofyn iddo, wrth ba enw arall y mynai efe ddynodi y gallu yn yr anghreiffiau y cyfeiriwyd atynt? Os nad deall yw, pa beth ydyw?

Ni theimlais mewn un parth blaenorol o'r gyfrol hon y fath bryder am feddu ystyriaeth amyneddgar. Canys nid wyf yn petruso dadgan, mai ar fy llwyddiant yn sefydlu cadernid a phwysfawredd y gwahaniaeth rhwng Rheswm a'r Deall, y gorphwys fy ngobeithion am ddwyn y darlennydd ymlaen gyda mi trwy yr oll ag sydd i ganlyn. Dim ond i'r efrdydd weled yn eglur ac amgyffred yr amrywiaeth yn y pethau eu hunain, a buddioldeb gwahaniaethad a phriodoliad cyfatebol y geiriau a ddilyna o hono ei hun. Tro yn ol am fynyd at y gosodiad,¹ ac wedi ail ddarllen y wahanran gyntaf o'r sylwad hwn arno, ystyria y ddau hanesyn canlynol fel yr eglurhad. Nid wyf yn dyweyd prawf: canys yr wyf yn cymeryd y rhai hyn allan o liaws o ffeithiau cydradd mewn hynodrwydd i'r unig ddyben o osod fy meddwl allan o bob ammheuaeth.

I. Dododd Hüber ddeuddeg o weny y meirch dan gloch-wydryn, gyda mēlgell o nghylch deg o fân-gelloedd sidan môr anghyfartal mewn uchder, fel nad oedd dionch iddi sefyll yn sad. I wella hyn, aeth dau neu dri o'r gwenyn ar y fēlgell, ymestynasant dros ei hymyl, ac â'u penau i lawr sichasant eu traed blaen ar y bwrdd ar ba un y safai y fēlgell, ac felly â'u traed ol cadwent y fēlgell rhag syrthio. Wedi blino o'r rhai hyn, eraill a gymerent eu lleoedd. Yn y sefyllfa wasgedig a phoenus hon, gwenyn dadludedig yn cynnorthwyo eu cymdeithion ar brydiau, a phob un yn gweithio yn ei dro, y cynnaliodd y trychfilod bychain cariadus hyn eu mēlgell am yn agos i dri diwrnod: erbyn diwedd y cyfamser yr oeddylnt wedi parotol digon o gwyr i adeiladu colofnau âg o. Ond wedi i'r colofnau hyn yn ddamweiniol fyned o'u lle, y gwenyn a gyrchent dra-chefn at yr un ddyfais, hyd oni thosturiodd Hüber wrth eu cyflwr caled, &c.

II. "Yn bresennol darluniau weithrediadau morgrugyn unigol a wyliais yn ddigon maith i foddioni fy chwilgarwch.

Un diwrnod gwlawog, sylwais ar lafurwr yn cloddio y ddaear gerllaw yr adwy a roddai fynedfa i'r mordwyn. Cyfëai yn bentwr yr amrywiol gilycnyion a grafa i fyny, a ffurfiai hwynt yn beleni bychain, pa rai a ddodai yma ac acw ar y nyth. Dychwelai yn wastad i'r un lle, ac ymddangosai fod ganddo amcan mewn golwg, canys llafuriai gydag awyddfryd a dyfalwch. Sylwais ar gwys ysgafn, wedi ei chafnio yn y ddaear mewn uniawn-linell, yn gosod allan gynllun llwybr neu rodfa. Y llafurwr, holl symudiadau pa un a ddeuent dan fy sylwadaeth ddi-gyfrwng, a'i dyfnhâi ac a'i lledai, ac a lanhâi ei hymylon: a gwelais o'r diwedd, yn yr hyn nis gellid fy nhwyllo, fod ganddo yr amcan o sefydlu dyfodfa ag oedd i arwain o un o'r esgynfâau i'r ystafelloedd tân-ddaearol. Y llwybr hwn, pa un oedd o gylch dwy neu dair modfedd o hyd, ac a ffurfiwyd gan forgrugyn unig, oedd wedi ei agoryd oddifyny a'i ymylu ar bob tu gan attegwaith o ddaear; ei gneuedd mewn ffurf o chwaeth oedd o'r trefnusrwydd perffeithiaf, canys ni adawodd yr adeiladydd un temyg yn ormod. Yr oedd gwaith y morgrugyn hwn môr hynod ganlyniadol a dealedig, fel yr oeddwn yn gallu dyfalu braidd hyd

¹ Gwel, Attodiad n.

sicrwydd beth fyddai ei orchwyl nesaf, a pha gilcyn yr oedd am ei symud. Wrth ochr agorad lle y terfynai y llwybr hwn, yr oedd ail agorad i ba un yr oedd yn anghenrheidiol cyrhaedd trwy ryw ffordd. Ymrwymodd yr un morgrugyn yn, a chwblaodd y gorchwyl hwn ei hunan. Cwysodd allan lwybr agored arall, cyfochrog â'r cyntaf, gan adael rhwng pob un fur bychan oddeutu pedwaran modfedd (*quarter of an inch*) o uchder. Y morgrug ag sydd yn gosod sylfaen mur, ystafell, neu rodfa, o herwydd gweithio ar wahan, ydynt yn awr a phryd arall yn achosi diffyg cyttarawiad yn rhanau yr unrhyw neu wahanol wrthddrychau. Nid anfynych y dygwyyd y cyfryw anghreiffiau, ond nid ydynt mewn un modd yn eu dyrysau hwynt. Mae yr hyn a ganlyn yn profi fod y gweithiwr, pan ddarganfu ei wall, yn gwybod pa fodd i'w ddiwygio. Cyfodasid mur i'r dyben o gynnal nenfwd bwäog, eto yn anorphen, a ddaiai allan o fur yr ystafell gyferbyniol. Ni ddarfuasai i'r gweithiwr oedd yn dechreu ei adeiladu gyfodi yn ddigon uchel y canolfur cyferbyniol ar ba un yr oedd i bwysu. Pe buasid yn canlyn ar y cynllun gwreiddiol, buasai yn rhaid iddo yn ddifeth gyfarfod y mur tua hanner ei uchder, yr hyn beth oedd anghenrheidiol ei ochelyd. Yr ansawdd hyn ar bethau a gymerent hawl gref ar fy ystyriaeth, pan oedd un o'r morgrug yn dyfod i'r fân, ac yn ymweled â'r gweithiau, gwelid ei fod wedi ei gynhyrfu gan yr anhawsdra a ymddangosai; ond rhaffaenai hyn yn ebrwydd, trwy dynu i lawr y nenfwd, a chodi y mur ar ba un y pwysai. Yna, yn fy ngwydd, adeiladodd nenfwd newydd gyda darnau yr un blaenorol."—"Hanesiaeth Naturiol Morgrug," gan Hüber: tudal. 38—41.

Haerwyf yn bresennol, nad yw y gallu a amlygir yn y gweithredoedd a droddwyd uchod yn gwahaniaethu *mewn rhyw* oddiwrt ddeall, a'i fod yn gwahaniaethu felly oddiwrt reswm. Yr hyn a ddeallwyf wrth y blaenaf, o'i ystyried yn anianyddol, a ddangosir rhaglawn. Yn y lle hwn, yr wyf yn cymeryd y deall fel yr hanfoda mewn dynion, ac mewn cyfeiriad neillduol at ei swyddau *meddyliadol*; ac yn yr ystyr hwn o'r gair yr wyf i brofi yr anghenheidrwydd o'i wrth-wahaniaethu oddiwrt reswm.

Gan ragosod ynte, y dywedir am dda neu ychwaneg o ddeiliaid, a fyddont yn meddu yr un nodwedduo hanfodol, eu bod yn syrthio dan yr un darnodiad cyffredinol, yr wyf yn ei osod i lawr fel gwirionedd hunan-amlygol—y mae, mewn gwirionedd, yn osodiad unfodol—mai pa ddeiliad bynag a syrthiant dan un ac yr un darnodiad cyffredinol ydynt o un ac yr un rhyw: yn ganlynol, rhaid fod yr hyn *nad* yw yn syrthio dan y darnodiad hwn yn gwahaniaethu mewn rhyw oddiwrt bob un *sydd* yn syrthio dano. Diau fod gwahaniaeth mewn gradd yn tybied unfodaeth mewn rhyw; ac y mae gwahaniaeth mewn rhyw yn cau allan eglurdeb oddiwrt wahaniaeth gradd. *Nis gellir cymharu allrywiaid, nac am hyny eu gwahaniaethu.* Diffyg ystyriaeth i'r rheol hon a achosodd y twyllresymau lliosog a gynnwyswyd gan Aristotle dan y pen o *μετάβασις εἰς ἄλλο γένος*, h. y. trosiad i allryw; neu y camgymhwysiad i x o'r hyn a wir haerasid am A, ac a allasai fod yn wir am x, pe na buasai yn gwahaniaethu oddiwrt A ond yn unig yn ei gradd. Mae y twyllresymiad yn gynnwysedig mewn esgeuluso nodi yr hyn heb ei nodi a dybir ei fod heb hanfodi; a lle mae y dystawrwydd ynghylch y gwahaniaeth mewn rhyw yr un peth a haeru mai mewn gradd yn unig y mae y gwahaniaeth. Ond mae y twyll yn neillduol wrthun, lle byddo y deiliad allrywiog, wedi iddo yn lladronaidd fel hyn lithro i fewn, yn anghymhwys yn ei natur ei hun i'w raddio: y cyfryw, er anghraiff, â sicrwydd neu gylcholorwydd, yn gyferbyniedig â nerth neu faintioli.

I gddarhuno y nodiadau hyn at ein hamcan presennol, nid oes i ni ond yn unig ddarlunio Deall a Rheswm, pob un wrth ei ansoddion nodweddol. Y cymhariad a ddengys y gwahaniaeth.

DEALL.

1. Deall sydd wibiog.
2. Y Deall yn ei holl farnau a gyfeiria at ryw allu arall fel ei awdurdod eithaf.

RHESWM.

1. Rheswm sydd sefydlog.
2. Y Rheswm yn ei holl benderfyniadau a *apelía* ato ei hun fel sail a *sylwedd* eu gwirionedd (*Heb.* vi. 13).

3. Deall yw y gallu i adfeddylid.

3. Rheswm i fyfyrion. Diau fod Rheswm yn llawer nes i Synwyr nag i ddeall: y mae Rheswm (medd ein henwog Hooker) yn ddrych cywir o wirionedd, yn welediad tufewnol, yn meddu cyffelyb berthynas i'r meddyl- iol neu ysbrydol ag a fedd Synwyr i'r defnyddiol neu ymddangosol.

Y canlyniad yw, nad yw y naill yn syrthio dan ddarnodiad y llall. Y maent yn gwahaniaethu *mewn rhyw*: a phe buasai fy amcan wedi ei gyfyngu at sefydlu y ffaith hon, buasai y colofnau blaenorol yn afreidioli pob arholiad pellach. Ond y mae yn wastad mewn golwg genyf les neillduol fy narllenywyr ieuainc, gallu meddyliol pa rai sydd i'w amaethu, yn gystal ag y mae eu hadfyfyrion neillduol i'w galw allan a'u gwylid. Yn awr, mae y prif hap o fod iddynt feddwl yn gywir ar destunau crefyddol, a chyrrhaedd myfyrdod am wirioneddau ysbrydol o gwbl, yn gorphwys ar eu tryweliad i natur yr anghyfartalwch hwn yn fwy eto nag ar eu hargyhoeddiad o'i hanfodaeth. Yn awr, gan hyn, yr wyf yn dyfod ymlaen i wneyd dattodiad cryno o'r Deall, yn eglurhad ar y darnodion a roddwyd eisoes.

Y Deall ynte, o'i ystyried yn hollol fel peiriant gwybodaeth ddynol, yw y gallu â pha un yr ydym yn adfyfyrion ac yn cyffredinol. Cymerer, er anghraifft, unrhyw wrthddrych yn cynnwys amryw ranau, tŷ, neu bentwr o dai: ac os myfyrrir arno fel cyfanswm, *h. y.*, fel llawer yn cyfansoddi un, mae yn ffurfio yr hyn, yn ol iaith gelfyddydol meddyldraith, a elwir yn gwbl-argraffiad. Yn mysg amrywiol ranau cyfansoddol hwn, yr ydym yn cyfeirio ein hystyriaeth yn benodol at y cyfryw ag ydym yn cofio ddarfod i ni sylwi arnynt mewn cwbl-argraffion eraill. Yna, drwy weithred wirfoddol, yr ydym yn attal ein hystyriaeth oddiwrth yr holl weddill i adfyfyrion yn unig ar y rhai hyn; a'r rhai hyn ydym yn ddefnyddio rhagllaw fel nodau neu goelion cyffredin (*common characters*), trwy rinwedd pa rai y cyfeirir y gwahanol wrthddrychau at un ac yr un bath.¹ Fel hyn, yr holl weithrediad a ellir ei ddwyn yn ol i dair gweithred, oll yn dibynu ar, ac yn tybied argraffiad blaenorol ar y synwyr: yn gyntaf, cymhwysiad ein hystyriaeth; yn ail, (ac mewn trefn i barhau y gyntaf) dansoddiad (neillduad, *abstraction*), neu attaliad gwirfoddol o'n hystyriaeth; ac yn drydydd, cyffredinoliad. A'r rhai hyn ydynt swyddau priodol y Deall: a'r gallu i wneyd felly yw yr hyn a feddylw'n, pan ddywedwn ein bod yn meddu deall, neu ein bod wedi ein creu gyda'r gallu neu gynneddf o ddeallwriaeth.²

¹ Yn ol fel y talwn fwy neu lai o sylw i'r gwahaniaethau, mae y bath, yn ganlynol, yn dyfod yn fwy neu lai cynnwysfawr. Oddiyna cyfyd yr anghenrheidrwydd am i'r naturyddwr cyfundraethol adranu y bathau i raddau, rhestrau, teuluoedd, &c.: yr holl ba rai, er hyn, a ymddatodant i'r arbwylllebydd pur (*mere logician*) i'r ddirnadaeth am *ryw a bath, h. y.*, y cynnwysaol a'r cynnwysedig.

² Mae yn eglur fod y drwydded swydd yn cynnwys y weithred o gymharu y naill wrthddrych â'r llall. Mae y weithred o gymharu yn tybied yn y gallu cymhariadol ryw ffurfiau cynnwynol, *h. y.* moddau o feddwl neu adfyfyrion nas gellir eu priodoli i'r gwrthddrychau y meddylir arnynt, ond rhagderfyndig gan gyfansoddiad a pheirian- waith y deall ei hunan. A than ryw un neu gilydd o'r ffurfiau hyn, rhaid i debygiaethau a gwahaniaethau fod yn argraffedig yno mewn trefn i fod yn amgyffredadwy, ac oddiallan gan hyn mewn trefn i fod yn gymharadwy. Nid yw y synwyr yn cymharu, dim ond darparu defnyddiau i gymharu.

Pe na byddai felly, pa fodd y buasai y gymhariaeth gyntaf yn ddiogonadwy? Cynnwysai y gwrthuni o fesur peth wrtho ei hun. Ond os meddylw'n ar ryw un peth, hyd ein troed ein hun, neu hyd ein llaw a'n braich o gymal y penelin, mae yn amlwg y rhaid i ni mewn trefn i wneyd hyn feddu amgyffred am fesur. Yn awr, yr amgyffredion blaenorol a mwyaf cyffredinol hyn ydynt yr hyn a feddylir wrth ffurfiau cyfan- soddol neu elfenol y deall: yr ydym yn eu galw yn gyfansoddol am mai nid eu hennill a wneir gan y deall, ond eu bod yn arwyddedig yn ei gyfansoddiad. Mor resymol y

Yn awr, pan fyddo i rywun lefaru wrthym am ryw wrthddrych neu ymddangosiad neillduol a'i gyfeirio drwy gymhorth rhyw nodwedd cyffredin at ddosbarth adnabyddus (yr hyn a wna trwy ei enwi), dywedwn ein bod yn deall; *h. y.*, yr ydym yn deall ei eiriau. Enw peth, yn ystyr gwreiddiol y gair enw (*nomen, νομινον, το intelligibile, id quod intelligitur*, yr hyn a ddeallir), a ddynoda yr hyn a ddeallir mewn ymddangosiad, yr hyn a osodwn (neu a barwn iddo sefyll) *dano*,¹ fel ammod ei wir hanfodaeth, ac yn brawf nad damwain ydyw o eiddo y synwyrâu, neu feddylfryd y dyn, nad drychiolaeth neu ledrith, *h. y.*, ymddangosiad a *dim* ond ymddangosiad. (Gwel *Gen.* ii. 19, 20, ac yn *Salm* xx. 1, ac mewn llawer o fanau eraill o'r Bibl, unfodaeth, *nomen* (enw), a *numen, h. y.*, gallu a phresennoldeb anwladwy, *nomen substantivum* (enw sylweddol) pob gwrthddrych gwirioneddol, a sail ei wir hanfodaeth, yn annibynol ar weithredion synwyr yn y canfyddwr). Mewn cyffelyb fodd, mewn olyniad cysylltiedig o enwau, fel y mae y llefarydd yn myned o'r naill i'r llall, dywedwn ein bod yn deall ei ymadrodd neu ymddyddan, *discourse, discursio, intellectus, discursus*, ei fynediad o'r naill beth i'r llall. Fel hyn, mewn pob anghraifft, geiriau, enwau, neu os lluniau, eto lluniau a arferir fel geiriau neu enwau, ydynt unig ddeiliaid y deall. Nid ydym mewn un anghraifft yn deall peth ynddo ei hun; dim ond yr enw at ba un ei cyfeirir. Weithiau, mae yn wir, pan adelwir amrywiol ddosbeirith ynghyd, yr ydym yn unfodi y geiriau â'r gwrthddrych—er mai trwy hyfoesedd priod-ddull yn hytrach nag mewn manylrwydd priodol iaith. Fel hyn, gallwn ddyweyd ein bod yn *deall* enfys, pan yn adalw yn olynol yr amrywiol enwau am yr amrywiol fathau o liwiau, gwyddom eu bod i'w cymhwysu at un ac yr un ymddangosiad (*phenomenon*), yn wahanol a chydanfodol ar unwaith; ond ni ddywedem hyn hyd yn nod mewn siarad cyffredin am liw unig. Ni ddywedai neb ei fod yn deall coch neu las. Y mae yn *gwelod* y lliw, ac fe'i gwelsai o'r blaen mewn nifer mawr ac amrywiaeth o wrthddrychau, ac y mae yn deall y *gair* coch, fel yn cyfeirio ei ddychymyg neu gof at ei brofiad casgliadol hwn.

Os yw hyn felly, a dilys yw mai felly y mae—os swyddau priodol y deall yw cyffredinolol yr hysbysion a dderbynir oddi wrth y synwyrâu mewn trefn i gyfan-

gellid dyweyd i glych ennill canolbwynt ac amgylchedd ag i'r deall ennill ei furfiau neu foddau cynnwynol hyn o amgyffred. Hyn yw y peth a feddyliai Leibnitz, pan i ddiareb y Dargrwydriaid (*Peripatetics*, neu ddygybllion Aristotle), *Nihil in intellectu quod non prius in sensu*—nid oes dim yn y deall na fu o'r blaen yn y synwyrâu, neu nid oes dim yn amgyffrededig na fu o'r blaen yn ganfyddedig, yr atebodd, *præter intellectum ipsum*—oddiethr y deall ei hun.

Ac yma caniatâer i ni nodi am unwaith oll: pwy bynag a fynai feddwl i ddim dyben, pwy bynag sydd yn ddifrifol yn ei erlyniad am hunan-wybodaeth, ac am un o'r prif foddolion i hyn, tryweliad i ystyr y geiriau a ddefnyddia, a'r amrywiol ystyron a drosglwyddir yn briodol neu amhrifodol drwy un ac yr un gair, yn ol fel ei arferir yn yr ysgolion neu y farchnad—yn ol fel yr arwyddir *rhyw* neu *radd* uchel (er anghraifft, gwrea, pwys, a'r cyffelyb, fel eu harferir yn wyddorol o'u cymharu â'r geiriau mewn arfer gyffredin), pwy bynag, meddaf, sydd o ddifrif yn gosod hyn fel ei amcan, rhaid iddo orchfygu ei wrthynbiad i goegyngolêigddod, a'i ofn cael ei wawdio fel coegyngolêig, cybelled ac i beidio cweryla â gair neu eiriad trwsgl, hyd oni fyddo yn gwbl sicr y byddai i rywun arall mwy cynnëfin nid yn unig osod allan y gwir ystyr gyda chyfartal eglurder, ond y byddai mor debyg o dynu sylw at yr ystyr hwn yn unig. Mae iaith arferol athronydd mewn ymddyddan neu ysgrifeniadau cyffredin, o'i chymharu â'r iaith a ddefnyddia mewn ymresymiad manol, fel y mae ei oriarw mewn cymhariseth i'r amseriadyr (*chronometer*) yn ei arsyllfa. Gesyd y flaenaf wrth awrlais y dref, neu hyd yn nod, fe allai, wrth y *Dutch clock* yn ei gegin; nid am y cred ei fod yn gywir, ond am fod ei gymydogion a'i gogydd yn myned wrtho. I roddi i'r darlennydd gyfleusdra i arfer yr amynedd a'r gofal a gymeradwyir yma, yr wyf yn dychwelyd at y geiriad "amgyffredion mwyaf cyffredinol," a sylwer, yn mhriodoldeb caeth a manwl iaith dylaswn ddyweyd cyffredinoawl neu cyffredinaol (yn cyffredinolol) yn hytrach na chyffredinol, a gweithredion amgyffredol yn hytrach nag amgyffredion.

¹ Y gair Seisoneg am ddeall ydyw *understand*; o *under*, dân, a *stand*, sefyll: felly *understand* yw sefyll dân, sef i gynnal peth.—Cyr.

soddi enwau : cyfeirio hysbysion neillduol, *h. y.*, argraffiadau neu syniadau, at eu priodol enwau ; ac, yn y gwrthwyneb, enwau at eu dosbarth neu ryw gyfatebol o hysbysion—yna mae yn canlyn o anghenheidrwydd fod y Deall yn cael ei ddarnodi yn gywir a manwl yn ngeiriau Leighton a Kant, gallu yn barnu yn ol synwyr.

Yn awr, pa un a wnawn wrth ddarnodi y Rheswm meddyliadol neu fyfyrgar (*h. y.*, y rheswm o'i ystyried yn ddansoddol fel gallu meddyliol), ai ei alw yn "ffynnon egwyddorion anghenheidiol a chyffredinol, yn ol pa rai y cadarnheir neu y gwadir hysbysion y synwyr;" ai ynte ei ddarlunio fel "y gallu trwy ba un ein galluogir i dynu casgliadau cyffredinol ac anghenheidiol oddiwrth ymddangosiadau neillduol a damweiniol;" mae yn gyfartal eglur fod y ddau ddar-

¹ Cymerwch eglurhad cynnefin. Mae fy ngolwg a'm teimlad yn trosglwyddo i mi ryw argraffiad, at ba un mae fy neall yn cymhwyso ei gyn-amgyffredion (*conceptus antecedentes et generalissimi*, amgyffredion blaenorol a mwyaf cyffredinol) am faintioli a pherthynas, ac fel hyn yn ei gyfeirio at ddosbarth ac enw cyrrf trionglog—ni a'i tybiwn yn haiarn rhaw fawn. Mae yn cymharu yr ochrau, ac yn cael fod unrhyw ddau o'u mesur fel un yn fwy na'r trydydd ; ac yn ol deddf y dychymyg cyfyd tybiaeth fod yr un cyfartalwch yn hanfodi mewn pob corff arall o'r un dull (*h. y.*, trionglog a chyfochrog). Wedi hyn, cyfeiriwyd y synwyr yn olynol at nifer o gyrrf trionglog yn meddu ochrau anghyfartal, a chafwyd yn y rhai hyn hefyd yr un cyfartalwch heb un eithriad, hyd onid yw o'r diwedd yn dyfod yn ffaith brofedig, fod y ddau ochr ynghyd mewn pob trionglog a welwyd hyd yma, yn fwy na'r trydydd ; ac ni hanfoda un sail neu gyfatebiaeth er blaenbrofi eithriad i reol wedi ei chyffredinoli oddiwrth nifer mor ddirfawr o anghreiffitiau neillduol. Cybelled ac nid pellach y gallai y deall ein dwyn : a chybelled a hyn y mae "y gallu yn barnu yn ol synwyr" yn tywys llawer o'r isfudol, os nid yn yr un anghreiffitiau, eto mewn rhai cyfatebol a llawn cyfartal.

Mae y rheswm yn diswyddo yr holl weithrediad, ac ar yr amgyffrediad cyntaf a gyflwynir gan y deall mewn canlyniad i'r olwg gyntaf o ddull trionglog, o ba fath bynag y gallai ddygwyddo bod, mae yn cadarnhau gyda dilystrwydd anfwyhaol, gyda sicrwydd perfffaith, y bydd ac y rhaid fod unrhyw ddwy linell amgeuol mewn pob trionglog dichonadwy yn fwy na'r drydedd. Yn fyr, mae deall yn ei ffurf uchaf o brofiad yn aros yn gymeaur â hysbystion profiadol y synwyr oddiwrth ba rai ei chyffredinilir. Mae rheswm, ar y llaw arall, naill ai yn rhagderfynu profiad, neu yn ymelwa o brofiad gorphenol i'w afreidioli yn yr holl amser dyfodol ; ac yn cadarnhau gwirioneddau nad allai synwyr eu canfod, nac ymchwiliad eu gwirio, na phrofiad eu cadarnhau.

Ie, hyn yw prawf-faen a nodwydd gwirionedd a gadarnheir felly, ei fod yn ei ffurf priodol ei hun yn annirnadwy. Canys swydd y deall yw dirnad neu amgyffred, yr hyn a ellir arfer yn unig ar destunau islaw iddo. Ac eto rhaid i bob gwirionedd ag sydd i'w osod fel gwrthddrych adfyriad, ac i'w wneyd yn fynegadwy, gael ei ddwyn i ffurfiau y deall. Ac yma y mae genym ail brawf-faen ac arwydd o wirionedd a gadarnheir felly, sef nas gall ddyfod allan o gynnelwau y deall on yn unig yn rhith dau amgyffrediad gwrthddywedol, pob un o ba rai sydd wir mewn rhan, ac y mae cysylltiad y ddau amgyffrediad yn dyfod yn gynnychiolydd neu fynegiad (esboniad) o wirionedd tu hwnt i amgyffred ac anfyneadwy. Anghreiffitiau : "Cyn bod (neu cyn yr oedd) Abraham yr wyf fi,"—Daw sydd gylch, yr hwn y mae ei ganolbwynt yn mhob man, ac heb amgylchedd mewn un man. Mae yr ensaid oll yn mhob rhan.

Os ymddengys hyn yn ffolineb, ffolineb yw nad all neb ei ddyegu oddiwrth arall, ond un (pe byddai hyn yn ddichonadwy) a allaswn ddyegu oddiwrth Plato, Kepler, a Bacon ; oddiwrth Luther, Hooker, Pascal, Leibnitz, a Fenelon. Ond yn y wahanran olaf hon, gwelaf ddarod i mi yn ddilarybod gamu dros fy amcan, yn ol pa un yr oeddwn i gymeryd rheswm fel gallu meddyliol yn unig. Eto hwyd yn nod fel y cyfryw, a chyd y'r holl anfantais o ddansoddiad celfyddydol ac awdurol, gwnaed yn eglur :—1. Fod arweliad neu welediad digyfrwng, canlynedig gan argyhoeddiad o anghenheidrwydd a chyffredinolrwydd y gwirionedd a welir felly heb fod yn ddeilliiedig o'r synwyr, yr hwn arweliad, pan ei ddeonglir gan synwyr pur, a ymddyg y wyddawr o wyddoriaeth, a phan gymhwysir at wrthddrychau uwch synwryol neu ysbrydol sydd beiriant duwin-yddiaeth ac athroniaeth.—2. Fod hefyd allu adfyriol a gwbiog, neu ddirnadaeth cyfryngol, yr hwn, o'i gymeryd wrtho ei hun, ac heb fod dan ddylanwad y blaenaf, a ddibyna ar y synwyr am y defnyddiau ar ba rai ei harferir, ac a gynnwysir o fewn cylch y synwyr. A'r gallu hwn ydyw, yr hwn wrth gyffredinoli hysbysion y syn-

nodiad yn gwahaniaethu yn eu nodweddau hanfodol, ac yn ganlyniol fod y deiliaid yn gwahaniaethu mewn *rhyw*.

Dibyniad y deall ar arddangosiadau y synwyrâu, a'r olafiaeth canlynol iddynt, fel yn gyferbynidig âg annibyniaeth a blaenafiaeth rheswm, a anghreiffir yn nodedig yn y gyfundraeth Ptolemaidd—y cynnyrch gwir aruthrol a'r ymfrost uchaf hyny o eiddo y gallu yn barnu yn ol y synwyrâu—o'i chymharu â'r un Newtonaidd, fel ffrwyth gallu uwch eto, yn trefnu, yn cywiro, ac yn dilëu arddangosiadau y synwyrâu yn ol ei ddeddfau cynnwynol, a'i feddylddrychau elfenol ei hun.

AM REDDF MEWN CYSTYLLTIAD A'R DEALL.

Mae yn eglur nad yw darnodiad rhyw neu ddoarbarth yn ddarnodiad cyfaddas ond yn unig o fath isaf y rhyw hwnw: canys pob bath uwch a wahaniaethir oddiwrth yr is gan ryw nodwedd ychwanegol, tra na chynnwys y darnodiad cyffredinol ond yn unig y nodweddau cyffredin i'r holl fathau. O ganlyniad, yr isaf yn unig a ddesgrifia. Yn awr, gwahaniaethwyf ryw o alluoedd dan yr enw gallu cyfaddasol, ac yr wyf yn rhoddi fel ei ddarnodiad rhywiol—y gallu o ddedthol a chyfaddasu moddion i ddybenion agos; ac fel anghraiff o'r bath isaf o'r rhyw hwn, cymeraf gylla llyndys. Gofynwyf im' fy hun, dan ba eiriau y gallaf gyffredinoli gweithrediad y peiriant hwn; a gwelwyf ei fod yn dedthol ac yn cyfaddasu moddion priodol (*h. y.*, y rhan gydweddol o'r cydgasgliad llysieuol) i'r dyben agos, *h. y.*, tyfiad neu adffrwythiad corff y trychfilynn. Yr ydym yn galw hwn yn allu bywydol, neu briodoledd fywydol y cylla; a chan mai hwn yw y bath isaf, y mae ei ddarnodiad yr un a darnodiad y rhyw.

Wele, oddiwrth allu y cylla yr mwyd yn fyned at y gallu a ymagnir gan yr holl anifel. Yr wyf yn ei olrhain yn crwydro o fân i fân, ac o blinigyn i blinigyn,

wyrâu a gyfansodda brofiad synwrol, ac a gynnyrcha arwireddau neu reolau a allant ddyfod yn fwyfwy âng, ond nas gallant byth gael eu codi i wirioneddau cyffredinol, neu genedlu ymwybyddiaeth o sicrwydd hollol; er y gallant fod yn ddigonol i ddilëu pob amheuseth. (Heb olygu dadguddiad, cymerwch ein cyndad yn y ddegfed a deugain, neu y ganfed fiwydd o'i hanfodaeth. Mae yn debyg y buasai ei brofiad yn ei ryddhau o bob amheuseth, fel y suddai yr haul yn y terfnygylch, y byddai iddo ailymddangos y bore nesaf. Ond cymharwch yr ansawdd hwn a'r sicrwydd â'r un a gawsai yr yn dyn o'r 47fed gosodiad o Euclid, a thwydd ddarfod iddo ef fel Pythagoras ddarganfod y prawf). Yn awr, ai buddiol, gofynaf, neu gydffurfiol â deddfau a dybenion iaith, yw galw dau ddeiliaid morgwbl anghymharus wrth un ac yr un enw? Neu, pan yn meddu dau enw yn ein hiaith, a alwem ni bob un o'r ddau ddeiliaid gwahanol wrth y ddau—*h. y.*, wrth y naill enw neu'r llall, fel yr hyfforddai mympwy! Os na wnaem, yna gan ein bod yn meddu y ddau air, rheswm a deall (*reason and understanding*) (fel yn wir pa iaith dyn diwylliedig nas medd?)—pa beth a'n lluddiai rhag priodoli y blaenaf i allu gwahaniaethol dynoliaeth? Ni raid i ni ond yn unig cyferbynu yr hamedigion o'r ddau derm (er anghraiff, "A a B ydynt ill dwy yn fodau rhesymol; ond nid oes dim cymhariaeth rhyngddynt mewn pwynt o ddealltwriaeth," neu, "Mae hi yn wastad yn barnu yn rhesymol, er nad yn wraig o ddeall mawr") i weled nas gallwn wrthdroi y drefn—*h. y.*, galw y rhodd uchaf yn ddeall, a'r isaf yn rheswm. Pa beth a'n lluddiai? gofynwn. Ow! mae yr hyn a'n lluddiodd—yr achos o'r cymysgedd hwn yn y termau—ei hun yn rhy eglur; sef diffyg ystyriaeth o'r gwahaniaeth pwyelig yn y pethau, ac yn gyffredin, o'r ddyledswydd a'r arferiad a gymeradwyir yn y pummed¹ gosodiad arweinoli o'r gyfrol hon. Ond yr achos o hyn, ac o'i holl effeithian ac isachosion gresynus, gau-athrawiaeth, dallineb calon, a dirmyg o'r gair, a eglurir oreu gan yr apostol athronaidd: nid oedd gymeradwy ganddynt gadw Duw yn eu gwybod-aeth (*Rhuf.* i. 28), ac er nas gallent ddiffod y goleuni sydd yn goleuo pob dyn, a'r hwn sydd yn llewyrchu yn y tywyllwch; eto am nad allai y tywyllwch amgyffred y goleuni, gwrthodasant ddwyn tystiolaeth iddo ac addoli, yn lle y caddng ffurfiol, yr hwn a godasai y goleuni o'r ddaear (*h. y.*, o'r natur anifeilaidd a greddf yn unig), a'r hwn y darfuasai i'r goleuni hwnw yn unig ei wneyd yn weladwy, *h. y.*, trwy ychwanegu at y reddf anifeilaidd yr egwyddor o ymwybyddiaeth.

Gwel Attodiad c.

hyd onid yw yn cael y llysieuyn priodol; a thrachefn ar y llysieuyn detholedig hwn, yr wyf yn sylwi arno yn chwilio allan ac yn sefydlu ar y parth o'r planigyn, rhisgl, deilen, neu flodyn, cyfaddas i'w feithriniaeth: neu [pe buasai yr anifel wedi ymgymeryd â ffurf eilir (clöen byw)] i gadwad ei wyau, a chynulliad y nythaid dyfodol. Yma gwelaf allu i ddedhol a chyfaddasu moddion i ddybenion agos yn ol amgylchiadau: a'r bath uwch hwn o allu cyfaddasol ydym yn alw greddf.

Yn olaf, yr wyf yn adfyfrio ar y feithiau a arddwyd ac a ddesgrifiwyd yn y detholion blaenorol o Hüber, ac yn canfod gallu i ddedhol a chyfaddasu moddion priodol i ddybenion agos, yn ol amgylchiadau amrywiog. A pha beth y galwn y bath uwch eto hwn? Yr ydym yn enwi y blaenaf—greddf: rhaid i ni alw hwn yn ddealldwriaeth greddfol.

Yma y mae genym dri gallu o'r un rhyw; bywyd, greddf, a dealldwriaeth greddfol: y nodweddau hanfodol ag ydynt yn darnodi y rhyw yn hanfodi yn gyfar- taul yn mhob un o'r tri. Ond yn ychwanegol at y rhai hyn, yr wyf yn cael un nodwedd arall cyffredin i'r uchaf a'r isaf; sef fod y dybenion oll yn eglur ragder- fynedig gan beirianwaith neillduol yr anifeiliaid; ac er y gall fod yn annghon canfod unrhyw ddbyniad digyfrwng cyffelyb yn yr holl weithrediadau, eto gan fod y gweithrediadau yn derfynedig gan y dybenion, y mae y canlyniad yn gyf- artal: ac mae y gweithrediadau a'r dybenion oll mewn cyfeiriad anghenrheidiol at gynulliad a pharhad yr anifel neillduol neu yr eppil. Y mae detholiad, ond nid dewisiad; a chwynychiad yn hytrach nag ewyllys. Gwybodaeth alluadwy o beth, neu ddymuniaid am gael y peth hwn yn arddangosol gan feddwl cyfatebol gwahanol, nid ydyw yn yr anifel yn ddigonol i wneyd y peth yn wrthddrych neu yn sail dyben. Yr wyf yn dethol ac yn cyfaddasu y moddion priodol er gwa- hanu caredd oddiwrth graig, yr hon nad wyf yn gallu nac yn dymuno ei defn- yddio yn fwyd, cysgod, neu addurn: am fy mod, fe allai, yn dymuno mesur onglau ei chrisialau gwreiddiol, neu fe allai, am ddim gwell rheswm na'r anhaw- dra ymddangosol i ryddhau y gareg—am y byddo o ewyllysiad rhesymol—ac fel hyn yn gwneyd cymhellai o absenoldeb pob cymhellai, a rheswm o'r ewyllys or- fodol i weithredu heb un rheswm.

Yn awr, pa beth yw y casgliad oddiwrth y rhagosodion hyn? Hyn, mae yn eglur:—os tybiaf am y gallu cyfaddasol yn ei fath uchaf, neu ffurf o ddealldw- riaeth greddfol, ei fod yn cydhanfodi â rheswm, ewyllys rydd, ac ymwybyddiaeth, y mae yn y fân yn dyfod yn ddeall: mewn geiriau eraill, fod y deall yn gwahan- iaethu oddiwrth y ffurf ardderchocaf o reddf, ond nid ynddo ei hun, neu yn ei gynneddfau hanfodol ei hun, ond mewn canlyniad i'w gydhanfodaeth â gallu- oedd llawer uwch o ryw gwahanol mewn un ac yr un deiliad. Greddf mewn anifel rhesymol, cyfrifol, ac ymwybyddol, ydyw Deall.

Y cyfryw wyf fi yn ddeall ydyw y golygiad a'r dëongliad cywir o reddf; ac yn gadarnhad i'w wirionedd, dymunwn i'm darllenwyr, o fysg yr amrywiol anghreiff- iau gwarantedig ar gof, yn unig adalw rhyw un o weithrediadau nodedig cwn er diogelu bywydau eu perchenogion, ac hyd yn nod er dial eu marwolaethau. Yn yr anghreiffiau hyn y mae genym drydydd bath o'r gallu cyfaddasol mewn cysylltiad â dyben ymddangosiadol foesol—â dyben yn ystyr priodol y gair. Yma cydhanfoda y gallu cyfaddasol ag amcan ymddangosiadol wirfodol, ac nid yw y gweithrediad yn ymddangos nac yn rhagderfynedig gan beirianwaith yr anifel, nac mewn unrhyw gyfeiriad uniongyrch at ei gadwraeth ei hun, nac at barhad ei ryw. Mae yn unedig â chyffelybrwydd ffugiol o ddiolchgarwch, ffyddlondeb, a chariad anhunanol. Nid yn unig yr ydym yn prisiao y milyn ffyddlawn; yr ydym yn gosod gwerth arno. Yr wyf yn addef fod hwn yn ddargynnygiad (*problem*) na feddaf un dattodiad o hono i'w gyflwyno. Ni phetrusodd un o'r doethaf o ddynion anysbyrdoledig ddadgan y ci yn ddirgel- wch mawr, ar gyfrif y godywyn hwn o natur foesol yn anghysylltiedig â'r am- lygiad lleiaf o Reswm, yn mha un bynag o'r ddau ystyr y deonglwn y gair—pa un ai fel y rheswm ymarferol, *h. y.*, y gallu i osod dyben eithaf, terfynadwyath yr ewyllys trwy feddyddrychau; ai ynta fel y rheswm gwyyddorol, *h. y.*, y gallu i gasglu wirioneddau cyffredinol ac anghenrheidiol oddiwrth ymddangosiadau

neillduol a damweiniol. Ond mewn holiad ynghylch perchenogaeth Rheswm, y mae absenoldeb o bob prawf yn gydwerth â phrawf i'r gwrthwyneb. Nid ydyw, er hyny, mewn un modd yn gyfartal eglur i mi, nas gall y ci feddu ar gyfatebiad geiriau, y rhai, fel y dangosais mewn lle arall, ydynt wrthddrychau priodol y "gallu, yn barnu yn ol synwyr."

Ond i ddychwelyd at fy amcan: archaf i'r darllenydd adfyfrio ar ryw un ffaith o'r rhyw hwn, pa un ai dygwyddol yn ei ymchwiliad ei hun, ai detholedig o amrywiol chwedlau y ci a gedwir yn ysgrifeniadau milhaneswyr. Gan hyny, hyderus ofynaf ei farn, pa un a ydyw yn ei allu beidio ystyried y gallu a amlygir yn y gweithrediadau hyn fel yr un mewn rhyw a'r Deall, pa faint bynag is mewn gradd. Neu pe dewisai yn hytrach hyd yn nod yn yr anghreiffitiau hyn ei alw yn reddf, a hyn mewn *gwrthwahan*iaeth i'r Deall, yr wyf yn galw arno i nodi allan y terfyn rhwng y ddau—y cyfwng neu wahanfur ag sydd yn rhanu neu wahanu y naill oddiwrth y llall. Os geill, bydd wedi gwneyd peth na fu neb o'i flaen yn alluog i'w wneyd, er i lawer o ddyinion, a dnyion enwog hefyd, gynnyg yn galed arno: a bydd fy nadfynegiad i yn mysg cofarwyddion blaenaf ei lwyddiant. Os nad eill, rhaid i mi gasglu ei fod yn cael ei attal gan ofn y canlyniadau, trwy dybied fod rhyw niwed yn deillio i grefydd a moesoldeb oddiwrth y dyb hon; ac ymgystraf yn y gobaith y bydd iddo yn niweddbarth y gwaith hwn gael profion o dueddiad uniongyrchol i'r gwrthwyneb. Mae y golygiad hwn am y Deall, fel yn gwahaniaethu mewn gradd oddiwrth reddf, ac mewn rhyw oddiwrth Reswm, nid yn unig yn ddiiniwed yn ei ddylanwadau galluadwy ar y nodwedd crefyddol, ond y mae yn rhagbarotoad anheggor er symud y rhwystrau mwyaf arswydol i grediniaeth ddeallus o athrawiaethau neillduol yr efengyl, o erthyglau nodweddol y ffydd Gristionogol, â pha rai y mae amddiffynwyr y gwirionedd yn Nghrist i ymladd; calon ddrwg anghrediniaeth yn unig eithrad.

ATTODIAD A.

Crynodeb o gynllun yr ymresymiad i brofi y gwahaniaeth mewn rhyw rhwng y Rheswm a'r Deall.

Y gosodiad i'w brofi ydyw y gwahaniaeth mewn rhyw rhwng y Deall a'r Rheswm.

Yr egwyddor, ar ba un y gorphwys y prawf, ydyw: deiliaid, y rhai a ofynant ddarnodion cyffredinol hanfodol wahaniaethol, ydynt yn gwahaniaethu mewn rhyw ac nid mewn gradd yn unig. Canys gwahaniaeth mewn gradd a ffurfia sail darnodion neillduol, ond nid rhai rhywiol neu gyffredinol.

Yn awr, Rheswm a ystyrir yn ei berthynas â'r ewyllys a bod moesol, pryd ei gelwir y Rheswm Ymarferol¹—A: neu yn berthynol i'r galluoedd dealltwriaethol a gwyddorol, pan ei gelwir yn Rheswm Damcanol neu fyfyrgar—a. Mewn trefn gan hyny i'w gymharu â'r Rheswm, rhaid i'r Deall yr un modd gael ei wahan-iaethu i y deall fel egwyddor o weithrediad, yn yr hon berthynas yr wyf yn ei alw y gallu cyfaddasol, neu y fedr o ddethol a chyfaddasu moddion a chyfrwng dybenion agos—B: ac y deall, fel modd a medr o feddyliaeth, pan ei gelwir yn adfyfyriad—b. Yn ganlyniol, yr wyf yn rhoddi y darnodion cyffredinol o'r pedwar hyn: *h. y.*, yr wyf yn disgrifio pob un ar wahan wrth ei nodweddau hanfodol: ac yr wyf yn cael fod darnodiad A yn gwahaniaethu mewn cyfanryw oddiwrth un B, a darnodiad a oddiwrth un b.

Yn awr, deiliaid a fyddont yn gofyn darnodion hanfodol wahaniaethol ydynt eu hunain yn gwahaniaethu mewn rhyw. Ond y mae Deall a Rheswm yn gofyn

¹ Y Rheswm Ymarferol yn unig yw rheswm yn yr ystyr llawn a sylweddol. Rheswm ydyw yn ei gylch ei hun o berffaith ryddid; fel fflynonn meddylddrychau, pa feddylddrychau, yn eu troad at yr ewyllys gyfrifol, a ddeuant yn ddybenion eithaf. Ar y llaw arall, rheswm damcanol, fel sail y cyffredinol a'r annibynol mewn pob casgliad arbwyllebol, sydd yn hytrach yn oleuni rheswm yn y deall, ac a adwaenir yn gyfryw wrth ei gyferbyniad â'r damweiniaeth a'r neillduolrwydd a nodweddant holl gynnyrchion priodol a chynhenid y deall.

darnodion hanfodol wahaniaethol. Gan hyny y mae Deall a Rheswm yn gwahaniaethu mewn rhyw.

ATTODIAD B.

Y gosodiad canlynol o eiddo Leighton, at yr hwn y cyfeirir yn nhudalen 430, a gymerodd Coleridge fel achlysur i'r holl sylwadau blaenorol, ynghyd âg amryw eraill na welais yn fuddiol eu cyfieithu, am nad ydynt yn cyfeirio mór uniongyrchol at y pwnc y crefft am eglurhad arno. Y gosodiad sydd fel y canlyn :—
 “ Mae ffydd nid yn unig yn dyrchafu yr enaid uwchlaw synwyr a phethau synwryol, ond uwchlaw Rheswm ei hun. Fel y mae Rheswm yn cywiro y gwallau a allai Synwyr achlysuro, felly mae ffydd oruwchnaturiol yn cywiro gwallau Rheswm naturiol yn barnu yn ol synwyr.”

[Dywed Coleridge mai wrth Reswm, yn y gosodiad uchod, y golyga Leighton y Deall dynol.—CYF.]

ATTODIAD C.

Y pummed gosodiad arweiniol, &c.

Fel y mae pren ffrwythau yn werthfawrocach nag unrhyw un o'i ffrwythau unigol, neu hyd yn nod na'i holl ffrwythau am un tymmor, felly gwrthddrych ardderchocaf adfyfyriad yw y Meddwl ei hun, â'r hwn yr ydym yn adfyfyrio.

Ac fel y blodau, mae ffrwythau gwyrddion ac addfedion eurafallen yn brydfertach i edrych arnynt, pan ar y pren, ac i'w gweled fel yn un âg ef, na'r un ffrwythau wedi eu gwahanu ac i'w gweled yn olynol, ar ol eu cludo i wlad arall a hinsawdd gwahanol; felly y mae gydag amrywiol wrthddrychau adfyfyriad, pan eu hystyrier yn benaf mewn cyfeiriad at y gallu adfyfyriol, ac fel rhan a chyfran o'r un. Nid oes un gwrthddrych, pa mor werthfawr bynag y gall ein nwydau ei osod allan, nad yw yn dyfod yn ddyeithr i ni mor fuan ag y byddo yn hollol ddigysylltiad â'n bywyd dealldwrol, moesol, ac ysbrydol. I fod yn eiddoim ni, rhaid ei gyfeirio at y meddwl, naill ai fel cymhellai, neu ganlyniad, neu âdwyddiad.

Y CYFIEITHYDD AT Y DARLLENYDD.

NID oes genyf i'w ddyweyd am y cyfieithiad, heblaw ei fod mor gywir ag y gallais ei wneyd mewn brys-oriau hwyr a boreu oer a byrion. Fe allai y gallesid ei wneyd yn ystwythach o dipyn mewn rhai manau; ond fe allai hefyd y buasai raid i hyny fod ar draul amwyso y synwyr, a “gwallas in' golli synwyr.” Pe gwrandawem ar ambell i goegyn penboeth a hunandybus yn sylgyngan ei salw gynghor, byddai yn rhaid i nirwymo ein synwyr er mwyn seiniau. Ond mwy dewisol genyf fi ydyw cael yr ystyr yn ddiawmys, eglur, serch iddo fod mewn clamp o ymadrodd lled anystwyth. Hwyrach y buasai rhai yn defnyddio *un o'r unrhyw*, wrth gyfieithu y traethodau blaenorol, yn lle “*un ac yr un*,” am fod y blaenaf yn fwy hysain. Ond y gwir yw na wna *unrhyw* osod allan ystyr “*yr un*,” h. y., yr hyn a feddyliwn pan ddywedwn mewn siarad cyffredin “ein bod wedi clywed *yr un* geiriau o'r blaen,” “fod rhyw un wedi adrodd *yr un* peth drosodd a throsoedd,” “*yr un un* a wnaeth y ddau,” &c.—mwy nag y gwna *unrhywiaeth* osod allan ystyr *unfodaeth*; oblegid nid yw *unfodaeth* ac *yr un* onid *yr un* geiriau, oddieithr fod yr olaf yn cyfeirio at wrthddrych neillduol, tra mae y blaenaf o ystyr mwy cyffredinol a dansodol. Ond y mae yn eglur nad yw *unrhywiaeth o'r un* ystyr ag *unfodaeth*; canys i ffurfio y naill ni raid ond cael gwrthddrychau o'r un rhyw; ond y mae y llall, a'i gymeryd yn ei ystyr eangaf, yn gofyn na byddo ynddynt un gradd o wahaniaeth hanfodol.

Fe allai, cyn terfynu, y byddai yn well rhoddi ychydig o eglurhad ar rai geiriau go ansathredig a ddefnyddiwyd genyf.

Allryw, rhyw arall neu wahanol.
 Arbwylllebydd, rhesymegwr, rhesymegydd.

Arwiredd, gosodiad a ddirnadir ar yr olwg gyntaf.

Cynnwysol, yr hyn a gynnwys.

Cynnwysedig, yr hyn a gynnwysir.

Deiliad, a ddeil neu a gynnal ryw ffurf neu briodoledd.

Esill, ffrwyth, cynnyrch; eppil, hiliogaeth.

Godywyn, llewyrch gwan.

Gwirionedd moesol neu weithredol, gwirionedd am ffaith neu weithred gyflawnedig.

Gwirionedd ffurfiol neu ddansoddol, un am egwyddor heb ei gymhwyso at unrhyw ffaith.

Meddyliol, yn perthynu i'r meddwl.

Meddyliadol, yn perthynu i *weithrediad* y meddwl.

Tryweliad, gwelediad drwy; dirnadaeth trwyadl o beth.

CYFREITHIAU LLOEGR YN ACHOS CYMRU.

Un diffyg cyffredin yn y llyfrau sydd yn traethu ar Hanes Cymru ydyw, eu bod yn talu rhy fach o sylw i'r cyfreithiau a wnaed yn senedd Lloegr gyda golwg ar ein hynafiaid. Er mwyn cyflenwi y diffyg hwn, yr ydym wedi myned i ychydig o drafferth i chwilio, a chasglu at eu gilydd yr hen gyfreithiau sydd yn dwyn perthynas â Chymru; a rhoddwn yma gynnwysiad yr holl rai pwysicaf mewn cyn lleied cwmpas ag a fyddo dichonadwy.

Harri iv., blwyddyn 2, o.c. 1400.¹ Pen. xii. Na fyddo Cymry i fod yn ddinaswyr na bwrdeisiaid mewn dinasoedd na bwrdeisdrefi, nac yn swyddogion mewn unrhyw ddinas na thref, ac na fyddo iddynt gario arfau.

Pen xix. Na fyddo i un Sais gael ei gollfarnu ar gyhuddiad Cymro yn Nghymru, ond yn unig gan ustusiaid Seisnig neu fwrdeisiaid Seisnig.

Pen. xx. Na fyddo i un Cymro brynu tir yn Lloegr, nac ychwaith mewn trefydd Seisnig yn Nghymru.

Harri iv., blwyddyn 4, o.c. 1402. Pen. xxvi. Nad yw Sais i gael ei gyhuddo gan Gymro yn Nghymru.

Pen. xxvii. I rwystro difrodwyr a chrwydriaid yn Nghymru.

Pen. xxx. Nad yw ymborth nac arfau i gael eu cario i Gymru.

Pen. xxxi. Nad oes un Cymro i gael tŷ amddiffynedig.

Pen. xxxii. Nad oes un Cymro i fod yn swyddog.

Pen. xxxiii. Fod y castelli a'r trefydd amgauedig i gael eu cadw gan Saeson.

Pen. xxxiv. Nad oes un Sais a briodo Gymraes i gael unrhyw swyddogaeth yn Nghymru.

Harri iv., blwyddyn 9, o.c. 1407. Pen. iii. Rhaid i bob troseddwr a fyddo yn haeddu marwolaeth yn Neheudir Cymru gael ei gymeryd, neu ynte rhaid i'r wlad wrneyd iawn am y trosedd.

Harri v., blwyddyn 1, o.c. 1413. Pen. vi. Nad oes i neb o'r Cymry ddial ar y Saeson hyny a erlidiasant eu cyfeillion hwy yn y gwrthryfel diweddar.

¹ Sef, yr ail flwyddyn o'i deyrnasiad, oed Crist, 1400.

Harri v., blwyddyn 2, o.c. 1414. Pen. v. Os bydd i Gymro gymeryd Sais, a'i gadw mewn dalfa hyd nes talo am ei ryddhad, ac os na fydd iddo ymddangos ger bron yr ustusiaid, ar ol derbyn rhybudd, i roddi cyfrif am hyny, mae yn rhaid ymddwyn tuag ato fel herwr (*outlaw*), ac y mae yr ustusiaid i hysbysu hyny i swyddogion yr arglwyddiaeth lle byddo y Cymro yn byw, y rhai a'i daliant, ac a'i cosbant fel y mae y gyfraith yn gofyn.

Harri vi., blwyddyn 9, o.c. 1430. Pen. iii. Fod pob barn a wnaethpwyd yn erbyn "Owen Glendor," yr hwn a brofwyd yn euog o deyrnfradwriaeth, i sefyll mewn grym, pa gamsyniad bynag a pha ddiffyg bynag a fyddo ynddynt: ond nad yw hyn i rwystro etifedion Owen i fwynhau y tiroedd sydd yn disgyn iddynt trwy etifeddiaeth.

Harri vi., blwyddyn 20, o.c. 1442. Pen. iii. Nas gall Cymro gymeryd Sais, neu unrhyw nwyddau o eiddo Sais, a'i gario ymaith i Gymru, heb fod yn euog o deyrnfradwriaeth.

Harri vi., blwyddyn 20, o.c. 1442. Pen. viii. Os bydd i neb gymeryd nwyddau i Gymru, a'u dwyn wedi hyny i Loegr heb dalu y dreth, y mae i sforffetio y cwbl.

Harri vi., blwyddyn 23, o.c. 1444.¹ Pen. iv. Os bydd i Gymro fod yn euog o deyrnfradwriaeth, neu ryw drosedd arall yn haeddu marwolaeth, a dianc i sir Henffordd, mae yn rhaid ei ddal a'i garcharu: a phwy bynag na chynnorthwo i'w ddal, y mae hwnw i sforffetio ei holl eiddo.

Harri vi., blwyddyn 25, o.c. 1447. Gwnaed deddf y flwyddyn hon yn St. Edmunds-bury i gadarnhau yr holl gyfreithiau yn erbyn y Cymry. Penderfynwyd hefyd fod pob rhodd o farchnad neu ffair i Gymro i gael ei dilëu; a bod holl gaethweision (*villaines*) y brenin yn Ngogledd Cymru i gael eu gorfodi i gyflawni eu gwaith arferol.

Harri viii., blwyddyn 26, o.c. 1534. Pen. iv. Yn gymaint a bod rheithwyr yn Nghymru yn cymeryd eu hudo gan gyfeillion a pherthynasau drwgweithredwyr i ryddhau y drwgweithredwyr hyny ar gam, penderfynir fod swyddog i gael ei benodi i rwystro y rheithwyr i ymddyddan ag unrhyw berson neu bersonau, ac i gadw oddiwrthynt bob ymborth a diod, a thân, a goleu canwyll. Ac os bydd i'r cyfryw reithwyr ryddhau drwgweithredwr, neu os bydd iddynt fwyta neu yfed, neu ymddyddan â neb, y maent i gael eu dwyn o flaen yr Arglwydd Raglaw a'r lleill o gynghor y gororau (*the Lord President and other of the councill of the marches*) y rhai a gosbant y rheithwyr hyny fel y barnont yn anghenrheidiol.

Pen. vi. "Yn gymaint a bod pobl Cymru a'r gororau, heb ofni cyfreithiau daionus ac iachus y deyrnas hon, wedi parhau am hir amser yn y cyflawniad o amrywiol a lliosog ladradau, lladdiadau, gwrthryfeloedd, llosgi tai, ac eraill weithredoedd drygionus ac adgas," penderfynir fod pawb a phob un sydd yn preswyllo yn Nghymru i ymddangos o bryd i bryd, ar ol rhybudd priodol, o flaen yr ustus neu ryw swyddog arall mewn unrhyw frawdlys a ddewisio y cyfryw swyddog.

Ac yn gymaint a bod y swyddogion yn arglwyddiaethu gororau Cymru yn arfer codi taliadau anghyflawn oddiar ddeiliaid y brenin, a'u carcharu am achosion bychain a dibwys, os profa neb er boddlonrwydd i gynghor y

¹ Ceir blwyddyn o wahaniseth weithiau wrth gymharu gwahanol flyneddau y teyrnasiad a'r blyneddau o oed Crist; oblegid nad oedd y teyrnasiad yn dechreu yn Ionawr.

gororau ei fod wedi ei gangarcharu, mae yn rhaid i'r swyddog a fu yn euog o hyny dalu i'r carcharor chwe' swllt ac wyth geiniog am bob diwrnod y bu yn ngharchar, a dirwy i'r brenin heblaw hyny.

Nid oes un arf rhyfel i gael ei dwyn i un llys, na thref, nac eglwys, na ffair, na marchnad, nac un cynnulliad arall yn Nghymru.

Nid oes neb yn Nghymru, heb drwydded oddiwrth Ddirprwywyr y Brenin, † gasglu "Commorth,"¹ neu gyfraniadau cyffelyb, dan yr esgus o briodas, neu fod eu plant "yn dywedyd neu ganu yr offeren am y tro cyntaf, neu efengylau yr offeiriaid," neu un achos arall; ac nid oes neb i wneyd chwaraëyddiaeth o redeg, codymu, neidio, neu ryw chwaraëyddiaeth arall (oddiethr saethu), dan boen un flwyddyn o garchar. Ac nid oes neb i dafu dim i un llys yn Nghymru dan yr enw "Arthel," i rwystro a therfysgu y llys, dan boen un flwyddyn o garchar.

Fod pob lladdiadau, a lladradau a gyflawnir yn sir Feirionydd i gael eu profi yn sir Gaernarfon neu sir Fon, o flaen ustusiaid y brenin am Ogledd Cymru, trwy farn rheithwyr o drigolion sir Gaernarfon neu sir Fon.

Pen. xi. Pwy bynag o drigolion Cymru neu y gororau a fyddo yn euog o guro neu niweidio neb o drigolion siroedd Gloucester, Amwythig, neu Henffordd, a gaiff ddyoddef blwyddyn o garchar.

Pen. xii. Gan fod offeiriad i gael ei ryddhau, er iddo fod yn euog o isfradwriaeth, llofruddiaeth, neu lradrad, os bydd iddo ymrwymo ei hun am ddeugain punt, a dau feichiau i ymrwymo drosto am ugain punt bob un, a'r ymrwymadau hyn i gael eu cymeryd ger bron dau ustus heddwch, un o ba rai i fod o'r *quorum*; ac yn gymaint nad oes ustusiaid heddwch nac o'r *quorum* yn Nghymru, penderfynir fod y cyfryw offeiriad, a dau feichiau drosto, i fyned dan yr ymrwymadau rhagddywededig yn y sir nesaf lle y byddo dau ustus heddwch, un o ba rai i fod o'r *quorum*.

Harri VIII., blwyddyn 27, O.C. 1535. Pen. v. Deddf yw hon i wneyd ustusiaid heddwch yn Nghaerlleon a Chymru.

Fod yr Arglwydd Ganghellwr, neu Arglwydd Geidwad y Sel Fawr, i feddu awdurdod i enwi a phenodi ustusiaid heddwch, ustusiaid y *quorum*, ac ustusiaid i ryddhau y carcharau, yn siroedd Caerlleon, Fflint, Mon, Caernarfon, Meirionydd, Aberteifi, Caerfyrddin, Penfro, a Morganwg.

Fod yr holl ddirwyon, &c., a godir gan y cyfryw ustusiaid yn siroedd Caerlleon a Fflint i gael eu talu i'r trysorlys yn Nghaerlleon.

Yr holl ddirwyon, &c., yn siroedd Mon, Caernarfon, a Meirionydd, i'w talu i'r trysorlys yn Nghaernarfon.

Yr holl ddirwyon, &c., yn siroedd Caerfyrddin ac Aberteifi, i'w talu i'r trysorlys yn Nghaerfyrddin.

Yr holl ddirwyon, &c., yn sir Benfro, i'w talu i'r trysorlys yn Penfro.

Yr holl ddirwyon, &c., yn sir Forganwg, i'w talu i'r trysorlys yn Nghaerdydd.

Pen. vii. Mae yn ymddangos oddiwrth y ddeddf hon fod gan y brenin ac arglwyddi y gororau nifer mawr o goedwigoedd (*forests*) yn Nghymru; a bod ceidwaid y coedwigoedd hyny yn orthrymwyr tost. Byddai y prif geidwaid yn rhoddi tocynau i'w cyfeillion, ac i eraill a ymfoddlonent i'w prynu; ac os gwelid rhyw un heb y tocynau hyn yn myned i unrhyw goedwig ymheftach na phedair troedfedd ar hugain oddiwrth y ffordd

¹ Felly yn y Saesoneg.

flwr, cymerent oddiarno yr holl arian a fyddai ganddo ar y pryd : ac hefyd, byddai yn rhaid iddo golli darn o'i law os na thalai ddirwy ych-waegol. Ac os dygwyddai i anifeiliaid grwydro i'r coedwigoedd, cymerid hwy gan y ceidwaid yn feddiant iddynt hwy eu hunain, ac ni chafwyd perchonogion na thâl na chyfrif am danynt.

Ond penderfynir yn y ddeddf hon, fod rhyddid o hyny allan i holl ddelliaid, y brenin fyned lle y mynont trwy y coedwigoedd, ar draed neu ar feirch; a bod pawb a godd arian oddiarnynt am hyny i'w cyfrif fel yspeilwyr pen ffordd. Ac hefyd, fod yr anifeiliaid i'w dychwelyd, os bydd y perchonogion yn foddolawn i roddi pris rhesymol am eu porfa tra fuont dan ofal y ceidwaid; neu os gwrthoda y ceidwaid, fod yn rhaid iddynt roddi eu gwerth ddwywaith am danynt.

Pen. xxvi. Er fod Cymru wedi ei darostwng, ac wedi ei huno â Lloegr yn nheyrnasiad Iorwerth I., eto nid oedd unfurfiath yn nghyfreithiau y ddwy wlad nes y gwnaed y ddeddf hon yn y seithfed flwyddyn ar hugain o deyrnasiad Harri VIII. Ac yn gymaint a'i bod yn ddeddf môr arbenig, diau y dylem roddi golwg led gyflawn ar ei chynnysiad.¹

¹ Dichon y byddai yn foddlonrwydd gan lawer weled rhyw gymaint o'r ddeddf hon yn ei flurf wreiddiol : gan hyny, adysgrifwn y rhan gyntaf o honi, heb newid dim ar yr orgraff, o hen argraffiad yn y flwyddyn 1636 :—

"Albeit the Dominion, Principality, and countrey of Wales justly and righteously is, and ever hath bene incorporated, annexed, united, and subject to, and under the temporall Crown of this Realme, as a very member and joint of the same, whereof the K. most royall Majesty of meere droit, and very right, is very head, King, Lord and Ruler. Yet notwithstanding, because that in the same countrey, principality, and dominion, divers rights, usages, lawes and customes be farre discrepant from the lawes and customes of this Realme, and also because that the people of the same dominion have, and doe daily use a speech nothing like, ne consonant to the naturall mother tongue used within this Realme, some rude, and ignorant people have made distinction, and diversity betwene the kings subjects of this realme, and his subjects of the said dominion and principality of Wales, whereby great discord, variance, debate, division, murmur, and sedition hath growne betwene his said subjects. His highnes therefore of a singular zeale, love and favour that he beareth towards his subjects of his said dominion of Wales, minding and intending to reduce them to the perfect order, notice, and knowledge of his lawes of this his Realme, and utterly to extirpe all and singular the sinester usages, and customes differing from the same, and to bring his said subjects of this his Realme, and of his said dominion of Wales to an amiable concord and unity, hath by deliberat advice, consent, and agreement of the Lords Spirituall and Temporall, and the Commons in this present Parliament assembled, and by the authority of the same, ordained, enacted, and established, That his said countrey or dominion of Wales shal be, stand, and continue for ever from henceforth incorporated, united and annexed to, and with this his Realme of England. And that all and singular person and persons, borne and to be borne in the said principality, county [countrey], or dominion of Wales, shall have, enjoy, and inherit all, and singular freedomes, liberties, rights, priviledges, and lawes within this Realme and other the kings dominions, as other the kings subjects naturally borne within the same, have, enjoy, and inherit.

And that all and singular person and persons inheritable to any manors, lands, tenements, reversions, services, or other hereditaments, which shall discend after the feast of All-Saints next coming, within the said principality, countrey, or dominion of Wales, or within any particular Lordship, part, or parcell of the said countrey or dominion of Wales, shall for ever from and after the said feast of All-Saints inherit and be inheritable to the same manors, lands, tenements, rents, reversions, and hereditaments after the English tenour [tenure] without division, or partition, and after the forme of the lawes of this Realme of England, and not after any tenure, ne after the forme of any Welsh lawes or customes. And that the lawes, ordinances, and statutes of this Realme of England for ever, and none other lawes, ordinances, ne statutes from

Mae yn dechreu trwy goffâu fod Cymru wedi bod erioed yn gorfforedig, unedig, a darostyngedig, i geron Lloegr, fel aelod a chymal o'r un : ond eto, o herwydd fod ynddi arferion, defodau, a chyfreithiau tra gwahanol i ddefodau a chyfreithiau Lloegr, ac o herwydd fod yr trigolion yn siarad iaith annhebyg iawn i iaith y Saeson, y mae rhyw ddynionan wybodus yn gwneyd gwahaniaeth rhwng deiliaid y brenin yn Lloegr a'i ddeiliaid yn Nghymru, yr hyn sydd yn peri dirfawr ymryson ac ymraniad. Gan hynny, y mae ei Uchelder, oddiar ei neillduol ddyhëwyd, cariad, a ffafr tuag at y Cymry, trwy gynghor a chydwelediad y senedd, yn ordeinio ac yn sefydlu, fod Cymru am byth o hyn allan yn un â Lloegr ; a bod pawb a anwyd neu a enir yn y dywysogaeth hono i fwynhau ac etifeddu pob rhyddid, hawl, braint, a chyfraith, yn Lloegr a thiriogaethau eraill y brenin, yr un modd a'r Saeson.

Fod etifeddiaethau yn Nghymru, yn lle cael eu rhanu yn ol yr hen arfer Gymreig, yn disgya yn unig ac yn gwbl yn ol trefn cyfreithiau Lloegr. Ac mai cyfreithiau a threfniadau Lloegr yn unig sydd i gael eu harfer a'u gweinyddu yn Nghymru.

Gan fod amryw arglwyddiaethau yn gorwedd rhwng siroedd Lloegr a siroedd Cymru, heb fod yn perthyn i'r un o honynt, a bod troseddwy'r yn ffoi o'r naill arglwyddiaeth i'r llall, ac felly yn diano heb eu cosbi, ac yn gymaint a bod yr arglwyddiaethau hyn yn awr gan mwyaf yn meddiant y brenin, penderfynir fod amrywiol o'r arglwyddiaethau hyn i gael eu huno âg amrywiol siroedd yn Lloegr neu yn Nghymru, a bod y gweddill o'r arglwyddiaethau crybwylledig o fewn tywysogaeth Cymru i gael eu rhanu yn wahanol siroedd ; hynny yw, sir Fynwy, sir Frycheiniog, sir Faesyfed, sir Drefaldwyn, sir Ddinbych.

Fod Monmouth,¹ Chepstow, Matherne, Llanmihangel, Magour, Goldecliffe, Newport, Wenllonge, Llanwerne, Caerlion, Uske, Treleck, Tintern, Skynfret, Gronsmon, Witecastell, Reglan, Calicote, Biston, Abergevenny, Penrose, Grenefeld Maghen, a Hochuyslade, ynghyd â'r tiroedd, &c. perthynol iddynt, i'w cymeryd a'u hystyried fel rhanau o sir Fynwy. Fod Monmouth i'w chymeryd fel tref y sir. A bod y siryddion i gadw eu llys yn Monmouth a Newport bob yn ail. Fod pob achos cyfreithiol i gael ei

and after the said feast of All-Saints next coming, shall be had, used, practised, and executed in the said country, or dominion of Wales, and every part thereof, in like manner, forme and order, as they be and shall be had, used, practised and executed in this Realme : and in such like manner and forme, as hereafter by this Act, shall be further established, and ordained : any Act, statute, usage, custome, president, libertie, privilege, or other thing, had, made, used, granted, or suffered to the contrary in any wise notwithstanding."

Y penderfyniad gyda golwg ar yr iaith Gymraeg sydd fel y canlyn :—

"And be it enacted by the authority aforesaid, that all Justices, Commissioners, Sherifes, Coroners, Eschetors, Stewards, and their Lieutenants, and all other officers and ministers of the Law shall proclaime, and keepe the Sessions, Courts, Hundreds, Leets, Sherifes Courts, and all other Courts, in the English tongue : and all oathes of officers, Juries, and enquests and all other affidavits, verdicts, and wages of law, to be given and done in the English tongue. And also that from henceforth no person or persons that use the Welsh speech, or language, shall have or enjoy any manner (of) office or fees within this Realme of England, Wales, or other the kings dominion, upon paine of forfeiting the same offices or fees, unless he or they use and exercise the speech, or language English."

¹ Gadewir yr holl enwau yn eu gwng Seisnig, ac yn yr orgraff wreiddiol : ac os cyfaddew'n y cwbl, nid ydym yn medru gwybod pa loedd a feddylir wrth rai o honynt.

brofi gan Ustusiaid y Brenin yn sir Fynwy yn yr un ffurf a threfn ag yn Lloegr; a bod trigolion sir Fynwy yn rhwym o rododi ufudd-dod i gyfreithiau Lloegr, &c.

Fod Breknoke, Crekhowell, Tretowre, Penkelly, Talgarth Seisnig, Talgarth Gymreig, Dyans, yr Haye, Clynebogh, Broyulles, Canterselly, Lando, Blaynllinby, Estrodew, Buelthe, a Lingros, ynghyd â'r tiroedd perthynol iddynt, i'w cymeryd fel rhanau o sir Frycheiniog: mai Breknoke yw tref y sir, ac mai ynddi hi y cynnelir y llysoedd sirol.

Fod New Radnor, Clitherman, Clualles, Bonghred, Glasebery, Clawdistre, Mihelles Church, Meleneth, Blewagh, Knighton, Norton, Preston, Commorhuder, Rayder, Gwethronyon, a Stanage, ynghyd â'u tiroedd, yn rhanau o sir Faesyfed. Fod New Radnor yn dref y sir, a bod y llysoedd i'w cynnal bob yn ail yn New Radnor a Rother gowy.¹

Fod Mountgomery, Kedewenkery, Cawrsland, Arustely, Keviliock, Doythur, Powesland, Clunesland, Balealey, Tempester, ac Alcestre, ynghyd a'u tiroedd, yn rhanau o sir Drefaldwyn. Fod Mountgomery yn dref y sir; a'r llysoedd i'w cynnal bob yn ail yn Mountgomery a Maghenleth.

Fod Denbighland, Ruthin, Saint Tasse, Kynllethowen, Bromfilde, Yale, Chirke, Molesdale, a Hopesdale, yn rhanau o sir Ddinbych: fod Denbigh yn dref y sir, a'r llysoedd i'w cynnal bob yn ail yn Denbigh a Wrixham.

Gan fod y siroedd uchod mor bell o Lundain, fod trysorlys i'r brenin yn nghastell Brekenoke, ac un arall yn nhref a chastell Denbigh, &c.

Fod cyfiawnder i'w weinyddu yn y siroedd crybwylledig yn ol cyfreithiau Lloegr, ac yn ol y cyfryw ddefodau Cymreig ag a ganiatêir gan y brenin a'i gynghor, ac yn yr un ffurf a threfn ag y gweinyddir cyfiawnder i ddeiliaid y brenin yn nhair sir Gogledd Cymru.

Ar ol penodi y lleoedd yn y goror sydd i'w cysylltu efo siroedd Lloegr, enwir amryw drefydd a phlwyfydd fel rhanau o siroedd Morganwg, Caerfyrddin, Penfro, ac Aberteifi; a threfnir fod cyfiawnder i'w weinyddu yn y siroedd hyn drachefn yn yr un ffurf a thair sir Gogledd Cymru.

Trefnir hefyd fod "arglwyddiaethau, trefydd, a phlwyfydd Mouthway" yn perthyn i sir Feirionydd.

Fod pob achos yn y llysoedd gwladol i gael ei drafod yn yr iaith Seisnig, fod pob llwon i'w cymeryd yn yr iaith hono, ac nad oes neb a fyddo yn siarad Cymraeg i gael unrhyw swydd yn Lloegr, na Chymru, nag un rhan arall o diriogaeth y brenin, os na fydd yn arferyd yr iaith Seisnig.

Fod dirprwywyr i'w penodi i ranu holl siroedd Cymru yn gantrefi.

Fod dirprwywyr hefyd i chwilio i mewn i holl gyfreithiau a defodau y Cymry, ac i wneyd adroddiad i'r brenin a'i gynghor, y rhai sydd i benderfynu pa rai o'r cyfryw gyfreithiau a defodau sydd o hyn allan i'w goddef a'u caniatâu.

Fod dau aelod o'r senedd i gael eu hethol dros sir Fynwy, ac un dros y dref—un aelod dros bob sir arall—ac un hefyd dros bob tref y sir, ond sir Feirionydd.

Trefnir hefyd, fel eithriad, nad yw y ddeddf hon yn effeithio ar raniad y tiroedd rhwng etifeddion gwryw, lle mae hyny yn arferedig er cyn cof yn ol defod y wlad.

Harri VIII., blwyddyn 33, o. c. 1541. Pen. xiii. Fod Hope, Assaph, Hawarden, Molesdale, Mereford, ac Oseley yn perthyn i sir Fflint.

¹ Ai Rhaiadr Wy a feddylir wrth yr enw digrif hwn? Os felly, beth yw y "Rayder" cyn hyn?

Harri VIII., blwyddyn 34—35, o.c. 1542—43. Pen. xxvi. Dyben y ddeddf hon yw hwylyso gweithrediad y ddeddf flaenorol ynghylch gweinyddu cyflawnder yn Nghymru yn ol cyfreithiau Lloegr.

Penderfynir, fod Cymru i gynnwys deuddeg o siroedd, o ba rai y mae wyth yn siroedd er yr hen amser, sef Morganwg, Caerfyrddin, Penfro, Aberteifi, Ffiint, Caernarfon, Mon, a Meirionydd. At y rhai hyn ychwanegwyd pedair gan y ddeddf flaenorol, sef Maesyfed, Brycheiniog, Trefaldwyn, a Dinbych.

Fod Rhaglaw a Chynggor (*President and Council*) i fod yn Nghymru, y rhai ydynt i feddu awdurdod i farnu ar bob achos a ddygir ger eu bron trwy orchymyn y brenin.

Brawdlysoedd i gael eu cadw yn mhob sir ddwy waith yn y flwyddyn.

Ustus Caer i gadw brawdlysoedd yn sir Ddinbych, Ffiint, a Threfaldwyn, ac i gael dim am hyny ond ei hen gyflog o gan' punt yn y flwyddyn.

Ustus Gogledd Cymru i gadw brawdlysoedd yn sir Gaernarfon, Meirionydd, a Mon, ac i dderbyn cyflog o hanner can' punt yn y flwyddyn.

Fod rhyw berson dysgedig yn nghyfreithiau Lloegr i'w benodi yn ustus am siroedd Maesyfed, Brycheiniog, a Morganwg, ac i gael cyflog o hanner can' punt yn y flwyddyn.

Un arall dysgedig yn nghyfreithiau Lloegr i'w benodi yn ustus am siroedd Caerfyrddin, Penfro, ac Aberteifi, ac i gael cyflog o hanner can' punt yn y flwyddyn.

Fod y llysoedd dywededig i'w cadw am chwe' diwrnod yn mhob sir, fel y mae yn arferedig yn nhair sir Gogledd Cymru.

Yna rhoddir rheolau manwl am y pedair sel wreiddiol, a'r pedair sel gyfreithiol, pwy sydd i'w cadw, ac ar ba achlysuron y maent i'w harferyd: ac hefyd am y swyddogion, o'r sirydd i lawr hyd at y ceisbwl.

Trefnir fod Abertannad i berthyn i sir yr Amwythig, yn lle i sir Feirionydd; fod Haverfordwest i barhau yn swydd ar ei phen ei hun, ac i anfon aelod i'r senedd; a bod llysoedd sir Faesyfed i'w cadw yn Presten, yn lle Rother gowy, bob yn ail a New Radnor.

Fod William Webbe, neu ei gynrychiolwyr, yn meddu awdurdod i selio pob brethynau a wneir yn sir Fynwy a deuddeg sir Cymru; ac i dderbyn am bob darn o gotwm, pedair llath ar hugain ac isod, un ddimai; ac am bob darn uwchlaw pedair llath ar hugain, un geiniog; ac am bob brethyn llydan, un geiniog; am bob darn o kersey, deunaw llath ac uchod, un geiniog; ac am bob darn o kersey dan ddeunaw llath, un ddimai. Ond nid yw i ymyryd â dim brethynau a wneir gan bersonau yn eu tai eu hunain i wasanaeth y teulu.

Nad oes neb i brynu un math o anifel ond yn unig mewn marchnad neu ffair, oddieithr iddo allu dwyn ymlaen dystion digonol o enw y person gan yr hwn y prynodd yr anifel, ynghyd â'r lle a'r amser.

Mae y ddeddf hon hefyd yn dilëu yr eithriad yn y ddeddf flaenorol o barth trosglwyddiad tiroedd, ac yn trefnu eu bod i ddisgyn yn ol cyfreithiau Lloegr, ac nid i gael eu rhanu rhwng yr etifeddion gwryw, yn ol defod *gavelkind*, fel yr oedd yn arferedig o'r blaen mewn amryw ranau o Gymru.¹

Harri VIII., blwyddyn 35, o.c. 1543. Pen. xi. Mae yn ymddangos fod pob aelod o'r senedd dros unrhyw sir yn cael, yn amser Harri yr Wythfed,

¹ Yn Saesneg fel hyn:—

"Item, that all manors, lands, tenements, messuages, and other hereditaments, and

bedwar swllt yn y dydd o gyflog; a phob aelod dros unrhyw dref yn cael o leiaf ddau swllt yn y dydd. Ac mae y ddeddf hon yn trefnu fod trigolion Cymru i dalu yn ol y r un rheol i'w cynnrychiolwyr.

Elizabeth, blwyddyn 8^o, o.c. 1562. Pen. xxviii. Esgobion Hereford, Tyddewi, Llanelwly, Ban gor, a Llandaf, i ofalu fod yr holl Fibl, yn cyndd a'r Hen, ynghyd a'r "Llyfr Gweddi Cyffredin," a gweinyddiad y sacramentau, i gael eu cyfieithu i'r iaith Frytanaidd neu Gymraeg; ac ar ol i'r cyfleithiad hwn gael ei edrych a'i chwilio ganddynt hwy, fod nifer digonol i gael eu printio, fel y byddo un o bob un yn mhob eglwys gadeiriol, eglwys galegaidd, eglwys blwyfol, a *chapel of ease*, yn yr holl fanau o fewn yr esgobaethau dywededig lle yr arferir yr iaith Gymraeg, cyn y dydd cyntaf o Fawrth, 1566. Ac o hyny allan, fod yr holl wasanaeth i'w arfer yn yr iaith Frytanaidd neu Gymraeg yn y manau hyny gan y curadiaid a'r gweinidogion. Am ba lyfrau, wedi eu printio felly, y mae y plwyfolion i dalu yr hanner, a'r person a'r ficer (*the parson and vicar*) i dalu yr hanner arall; y person benodi gan yr esgobion dywededig, neu gan dri o honynt o leiaf. Ac os esgeulusir cyflawni y pethau hyn gan yr esgobion dywededig neu eu hysbryd hynolwyr, y mae pob un o honynt i fforffetio i'r frenines y swm o ddeuga in punt.

Elizabeth, blwyddyn 8^o, o.c. 1565. Pen. vii. Yn gymaint a bod yn nhref yr Amwythig gymleithas neu frawdoliaeth o *drapers*, wedi eu corffori yn gyfreithlawn, y rhai ydynt, trwy ddilyn yr alwedigaeth o brynu a gwerthu y brethynau Cymreig a elwir yn gyffredin "*cottons, friezes, and plaines*," wedi bod yn alluog nid yn unig i fyw wrth hyny, ond hefyd trwy gydgyfraniad i ddarparu tai ac anghenrheidiau eraill i bobl dlodion yn nhref yr Amwythig, y rhai a gynnelir ganddynt trwy roddion wythnosol, ac hefyd trwy yr un alwedigaeth i roddi gwaith i fwy na chwe' chant o bersonau; ac yn gymaint a bod eraill, oddiar ysbryd ariangar, yn cymeryd i fyny yr un alwedigaeth, heb fod yn perthyn i'r frawdoliaeth uchod; penderfynir fod y fraint o brynu a gwerthu brethynau Cymreig yn nhref yr Amwythig yn cael ei chyfyngu i frawdoliaeth y *drapers*.

Elizabeth, blwyddyn 14^o, o.c. 1571. Pen. xii. Mae yn amlwg oddiwrth y ddeddf flaenorol fod y Cymry yn yr amseroedd hyny yn enwog am eu brethynau. Ennillodd y *drapers* yn yr Amwythig iddynt eu hunain y fraint am rai blyneddau i'w prynu a'u hailwerthu. Ond gwelwyd fod hyn yn tlodi y dref, ac yn peri colled i lawer o bobl dlodion yn siroedd Trefaldwyn, Dinbych, a Meirionnydd, ac yn nhref "Oswester," a'r rhan fwyaf o'r gwledydd oddiamg ych. O ganlyniad, pasiwyd y ddeddf hon i ddy-

all rights, and titles to the same, in any of the said shires of Wales descended to any manner of person or persons with the feast of Saint John Baptist, in the xxxiii yeere of our said sovereigne Lords reign, or that hereafter shall descend, bee taken, enjoyed, used, and holden as Englich tenure to all intents according to the common lawes of this Realme of England, and not to be partable among heires males, after the custome of Gavelkinde, as heretofore in divers parts of Wales hath been used and accustomed. And that the same law from and after the said feast of S. John Baptist, in the said xxxiii yeere, be used, taken and exercised in the said county of Monmouth, and in all such Lordships, and other places, as by vertue of the said Act, made in the said xxvii yeere, or by any other Act or Acts, made or to be made, were and shall be annexed, united, or knit, to any of the shires of Salop, Hereford, Gloucester, or other shires: any lawes, usages, or customes heretofore had or used to the contrary thereof notwithstanding.

ddymu yr un flaenorol, ac i roddi rhyddid i baw rhob o drigolion yr Amwythig i brynu a gwerthu brethynau Cymreig.

Elizabeth, blwyddyn 18, o. c. 1575. Pen. viii. Yn gymaint a bod Cymru, trwy iawn weinyddiad cyflawnder, wedi ei dwyn yn ufudd i gyfreithiau ei Mawrhydi, ac wedi myned yn dra phoblog a diwylliedig, a bod yr achosion a ddygir yno ger bron y llysoedd yn rhy amrywiol a phwysig i un ustus; penderfynir, fod y frenines yn meddwl awdurdod i benodi dau neu ychwaneg o ustusiaid i siroedd Caerleon, Flint, Dinbych, a Threfaldwyn; dau neu ychwaneg i Ogledd Cymru (*North Wales*), hyny yw, siroedd Mon, Caernarfon, a Meirionydd; dau neu ychwaneg i siroedd Mecsycfed, Morganwg, a Brycheiniog; a dau neu ychwaneg i siroedd Aberteifi, Caerfyrddin, a Phenfro, a thref a swydd Hwlfordd.

Iago I., blwyddyn 21. Pen. xxviii. Yn y ddeddf hon dyddymir y deddfau gorthrymus oedd wedi eu gwneuthur yn erbyn y Cymry yn nheyrnasiad Harri y Pedwerydd.

Dyma ni wedi myned dros y rhai penaf o hen gyfreithiau seneddol Lloegr ag sydd yn dwyn perthynas â Chymru. Er amser Harri yr Wythfed ac Elizabeth, y mae Cymru yn un â Lloegr, nid mewn enw yn unig, fel yr oedd o'r blaen er amser Iorwerth y Cyntaf, a Statut Rhuddlan, ond yn mwynhau yr un gyfreithiau, ac yn cyfranogi o'i llwyddiant. Ac nis gall hyn lai na bod yn destun llawenydd i bob Cymr o sydd yn caru lles ei wlad. Beth ychwaneg a allesid ddymuno? Pe meddylliem fod Owen Glyndwr gynt wedi llwyddo i orchfygu Lloegr, ac wedi cael yr holl deyrnas i'w feddiant ef a'i olynwyr, pa fantais sylweddol a f'usai cenedl y Cymry yn fwynhau uwchlaw yr hyn sydd ganddi yn bresennol? Nid oes gan y Sais un ffrainc yn amgen i'r Cymro; ac ni ddylai y Cymro ddysgwyl un ffrainc yn amgen i'r Sais. Y mae genym berffaith ryddid i ddilyn yr alwedigaeth a ddewisom, i gyfanneddu yn y fan a fynom, ac i brynu y tiroedd goreu yn yr holl deyrnas. Ac os yw y Saeson yn meddiannu rhai swyddau yn Nghymru, y mae y swyddau uchaf yn Lloegr yr agored i ninnau; ac nid oes un rhwystr ar ein ffordd i'w cyrhaedd ond ei ta diffirwythdra ein hunain. Ein dyledswydd, gan hyny, yn lle cwyno ar ol y rhai amserau, y rhai sydd wedi myned heibio am byth, yw penderfynu y gw'nawn ein rhan fel deiliaid gogyfuwch i'r un llywodraeth, gan ystyried fod holl fawredd a gogoniant Prydain Fawr, a phob rhagorffaint o'i mewn, yn perthyn i ni yr un modd ag i'r Saeson.

Y NESTORIAID.¹

WRTH sylwi ar ddarganfyddiadau Mr. Layard yn: *Ninifeh a'i hamgylch-
oedd*, addawsom roddi hanes pellach am y Nestoriaid, sef cymundeb o

¹ Eu henw priodol ydyr yr "Eglwys Galdeaid" ac y mae yn amgylchiad anffodus fod y Protestaniaid wedi mabwysiadu yr enw a roddir ar yr eglwys hon gan Eglwys Rhufain, mewn ffordd o ddirmyg arnynt. Geilw Mr. Layard hwynt y "Caldeaid," gan eu bod hwy yn wastad yn ymwrthod â'r titl "Nestoriaid." Ebedjesus, un o'r Caldeaid a yagrifenodd yn y bedwaredd ganrif ar ddeg, a ddywed, "Nid yw y Dwyreiniwyr wedi cyfnewid y gwirionedd; ond megys ag y derbyniasant ef oddiwrth yr apostolion, felly y maent wedi ei dal yn ddi-gyfnawid. Am hyny gelwir hwynt yn Nestoriaid heb reswm, ac yn niweidiol. *Nestorius a'u dilynnodd hwy, ac nid hwy Nestorius.*"

Gristionogion yr aethai Mr. Layard i ymweled â hwynt; ac ymdrechyn yn awr i gyflawni ein haddeu id. Y mae y taleithiau y preswylia y Nestoriaid ynddynt, yn gorwedd mewn rhan o fewn terfynau ymherodraeth Persia, ac mewn rhan yn yr ardal sydd yn terfynu rhwng yr ymherodraeth hono ag ymhero draeth Twrci. Mae y rhan sydd yn Persia yn wastadedd bras a phoblogaidd iawn, yn cyrhaedd o fynyddoedd Kurdistan hyd llyn Oroomiah. Yn ol tystiolaethau pawb a ymwelsant â'r lle, y mae yn diriogaeth hynod o ba ydferth, yn oddeutu deugain milltir o hyd ac ugain o led—afonydd ffirwytl iawn a ddolentan drwyddi ar bob llaw—rhestrau o fynyddoedd tywyll, â'u penau yn orchuddiedig gan eira parhaus a'i hamgylchant—mae tri chant a deg ar hugain o bentrefi yn wasgaredig ar hyd ei hwyneb—ac yn ei cham ol fe ymddyrohafa pinaclau temlau dinas boblogaidd o Fahometaniaid. Eithr y mae y dalaeth arall yn un hollol wahanol—y mynyddoedd ynddi y dynt hynod o wyllt a serth, yn ymddyrohafu yma ac acw i ddeng mil o dro edfeddi o uchder, ac y mae uchder un o honynt yn fwy na thri chant ar ddeg o droedfeddi. Eu cribau y rhai ydynt hynod serth a phinaclaid, y dynt wedi eu gorchuddio gan eira oesol; ac wrth edrych oddiar eu llechweddi, y mae y llygad yn crwydro weithiau dros fylchau dyfnion a thywyll, br yd arall, craffant i lawr i gymoedd bugeilaidd culion, a thro arall gwelant ddyffrnoedd prydferth, y rhai a gyferbynant yn hynod â'r uchelderau gwylltion sydd yn eu hamgylchu. At breswylwyr yr ardaloedd olaf hyn y cyfeirir yn benaf yn yr hyn a ganlyn; oblegid hwynt-hwy yw y gwrthddrychau sydd yn meddu mwyaf o ddyddordeb i'r Cristion ysgrythyrol; caelwasant i raddau mawr eu purdeb a'u symlwydd cyntefig; tra y mae Nestoriaid y gwastadedd, trwy eu bod yn fwy agored i ymweliadau estroniaid, wedi syrthio yn ysglyfaeth i Eglwys ofergoelus Rhufain. Ond cafodd Rhtufain cryn waith cyn llwyddo yn hyn. "Trwy gyfres o dwyllau," meddai Mr. Layard, "cafodd y cêlgenadau Pabaid feddiant o lawer o'r ysgrifdystiau a gyfansoddent ditl y Patriarch Caldeaid, ac a roddai iddo hawl i gael ei gydnabod a'i amddiffyn fel pen yr Eglwys Galdeaid gan yr awdurdodau Tyraidd. Cyfundrefn o erlidigaeth a thrais, y rhai prin y cœlid am danynt, a orfodasant i Galdeaid y gwastadedd i ymwrthod â'u ffydd, ac i uno âg l'eglwys Rufain. * * * Er hyn, yr oedd y cyfnwidiad yn fwy mewn enw nag mewn gwirionedd; ac hyd y dydd hwn y mae y bobl yn dâl eu hen ffurfiau a'u seremoniau, eu gŵyliau, a'u hamseryddiaeth, a'u hen iaith yn eu gweddiau a'u llyfrau sanctaidd. Y maent hyd yn nod yn awr mewn ymyrson âg Eglwys Rhufain, am gadwraeth yr olion olaf hyn o'u hiliogaeth a'u ffydd." Y mae y pethau hyn wedi creu cryn oerfelgarwch rhwng preswylwyr y mynyddoedd a rhai y gwastadedd, ac wedi gwneuthur y mynyddwyr yn eiddigeddus a drwgdybus o hawb a ddeuant i ymweled â hwynt. "Wrth i mi agosau at eu diogelfeydd mynyddig," meddai y Dr. Grant,¹ "eu holiad cyntaf ydoedd i wybod a oeddwn i yn '*Catoleek*,' gan hysbysu na adawent i'r 'bleiddiaid hyn mewn crwyn defaid' ddyfod i'w gwlad. Hyd yn hyn, y maent wedi attal cêlgenadau Rhufain rhag dyfod i'w mynyddoedd. Ond y mae y rhai olaf hyn yn edrych gydag awyddfryd at y maes dyddorawl hwn; a thra y maent yn èangu eu llafur yn y dwyrain, ni arbedir yr un ymdrech i ledanu eu dylanwad ymhlith y llwythau mynyddig."

¹ "The Nestorians." By Asahel Grant, M.D. Murray, London. 1844.

Ond er fod Rhufain fel hyn wedi bod â'i llygaid ar y brif eglwys hon er' talm, nid oes fawr dros ugain mlynedd er parhau y mae sylw y Protestaniaid wedi cael ei roddi arni. Y teithiwr diffino, a'r oenadwr llafurus hwnnw, y Dr. Wolff, ydoedd y cyntaf i alw sylw Cristionogion Prydain ac America ati. Cafodd amryw ymddyddanion â rhai o'i haelodau, a derbyniodd lawer o hysbysiadau yn eu cylch oddiwrth y Major Monteith, yr hwn a gyfarfu âg ef yn Tabriz, lle y bu yn preswylu am beth amser. Yn ngwanwyn 1831, ymwelodd Mrd. Smith a Dwight â'r fan, o dan nawdd y Bwrdd Americanaidd o Ddirprwywyr dros Genaf laethau Tramor. Yn 1835, aeth y Dr. Grant (y gwr y cyfeiriasom ato o'r blaen) yno, fel meddyg i'r genadaeth; ond bu farw yn 1844.

Yr oedd athrawiaethau Cristionogaeth wedi treiddio i'r taleithiau Assyriaidd yn gynnar iawn; fe allai eu bod wedi cael eu dwyn yno gan rai a'u cawsant o lygad y ffynnon. Ymneilld uasant o gymundeb Patriarch Antioch yn o.c. 485, yn fuan ar ol marwolaeth Nestorius, yr hwn ei hunan ydoedd Esgob Caercystenyn yn o.c. 428, ac a fu farw o.c. 451. Ganwyd ef yn Germanicia (Marash yn awr), a chafodd ei addysgiaeth yn ysgol enwog Tarsus, ac oddiyno efe a aeth yn bresbyter i Antioch. Er na fu efe ei hunan erioed yn Assyria, eto ym ei ymdrech yn erbyn St. Cyril, Patriarch Alexandria, yr oedd yn cael ei gynnorthwyo gan fwy na thriugain o esgobion dwyreiniol, y rhai a ddaethant gydag Ioan o Antioch i'r trydydd Cyngor Cyffredinol a alwyd yn Ephesus, yn o.c. 431. Esgob llywyddol y Caldeaid ydyw Patriarch mawr y Dwyrain, olynwr Arch-esgobion Seleucia a Ctesiphon; y mae yn cael ei alw y Catholicos, ac ystyrir ef fel pen y corff, pa le bynag y mae yn wasgaredig.

"Hyd gwmp y deyrnach Sassaniaidd, a sefydlid yr uchafiaeth Arabaidd yn y taleithiau i'r dwyrain i'r Tigris, yr oedd y Caldeaid yn cael weithiau eu hamddiffyn ac weithiau eu herlid; ac yr oedd eu cyflwr yn ymddibynu yn benaf yn ol fel y byddai cadernid yr ymherodraethau Persiaidd a Byzantiaidd. Er hyn yr oedd eu daliadau yn cael eu cydnabod fel rhai yr Eglwys Ddwyreiniol, a derbyniodd eu penaeth yn gynnar iawn, y titl o 'Patriarch y Dwyrain.' Llafuriasant yn ddifino i ledanu eu hathrawiaethau dros gyfandir Asia; a haerir fod un o frennoedd Persia ymhlith eu dysgyblion. O Persia, lle y sefydlwyd esgobaethau Caldeaid yn gynnar iawn, hwy a ledanasant i'r dwyrain; a Cosmos Indicopleustes, yr hwn a ymwelodd âg Asia yn gynnar yn y chwechfed ganrif, a ddywed fod ganddynt esgobion, merthyron, ac offeiriaid, yn India, Arabia Felix, a Socatra; ymhlith y Bactriaid, yr Huniaid, a'r Persaniaid, y Mediaid, a'r Elamitiaid; a bod eu prif esgobion wedi treiddio hyd yn nod i China, mor gynnar a'r bummed ganrif.

Y mae yr argraff hynod a welwyd yn See-gan-foo, gan y cenadau Jesuitaidd, yn 1625, yn rhoddi llawer o hybysiaeth am gyflwr yr Eglwys Galdeaid yn China o o.c. 620 i o.c. 781. Mwynhaodd y Caldeaid yn yr amser hwnnw, gyda dau eithriad, y flafr ymherodrol, ac yr oedd eu hathrawiaethau yn cael eu pregethu o flaen y llys, a thrwy yr ymherodraeth. Ymddengys fod yr argraff hon, gwiriedd pa un a ammheuwyd cyhyd, wedi cael ei chydabod yn gyffredinol yn awr, yn cynnwys esboniad o gred y sect, ac o'u daliadau neillduol a'u seremoniau, hanes byr am gynydd Cristionogaeth yn China, ynghyd âg enwau y cenadau a bregethasant yr efengyl yn y wlad hono. * * *
Cyfieithasid llyfrau meddygon a philosophyddion Groeg yn foreu i'r Caldaeg. Ennynasant holgarwch y Calphiaid, y rhai oeddynt y pryd hyn yn noddwyr a chefnogwyr dysgeidiaeth; a thrwy eu gorchymyn hwy cawsant eu cyfieithu i'r Arabaeg gan y Nestoriaid Caldeaid. Ymhlith y llyfrau a ymddiriedwyd gan y Caliph Al Mamoun, yr ydym yn cael hanes am rai Aristotle a Galen; ac eraill yn yr ieithoedd Groeg, Persiaeg, Caldaeg, a'r Aiphtag. Anfonodd hefyd Nes-

toriaid dysgedig i Syria, Armenia, a'r Aipht, i gasglu yagrifyfrau, ac i gael cyn-northwy y dynion mwyaf dysgedig. Pan ofynwyd iddo gan Fahomedan eiddig-eddus dros ei grefydd, pa fodd y gallai ymddiried i Gristion y gwaith o gyfieithu unrhyw lyfr, dywedir iddo ateb, 'Os ymddiriedaf iddo ofal fy nghorff, yn yr hwn y mae fy enaid a'm hysbryd yn preswyllo, paham nad allwn ymddiried iddo eiriau dyn, yr hwn nas adwaenwn, yn enwedig gan eu bod yn dwyn perthynas â phynciau nad oes dim cyfeiriad ynddynt at ein ffydd ni, na'i ffydd yntau?'

Nid oedd y patriarch Caldeaid yn ansyniol o allu cynnyddol y breninoedd Tataraid, hiliogaeth pa rai wedi hyny a ddymchwelasant orseddfainc y Caliphiaid, ac a anrheithiasant holl Asia o'r bron. Yr oedd y cenadau Caldeaid wedi treiddio i Tatars yn foreu iawn, ac o'r chweched ganrif hyd amser goresgyniad Baghdad gan Hulaku Khan, yn nghanol y drydedd ar ddeg, yr oeddynt wedi cael dylanwad mawr ar lwythau Turkistan. Ymfrostedd hyd yn nod yn nhröed-igaeth mwy nag un brenin Tataraid at Gristionogaeth, ymhlith pa rai yr oedd yr-enwog Prester, neu Presbyter John. * * Nid yw yn ymddangos fod y cenadau Caldeaid wedi cael yr un llwyddiant yn wastad ag a gawsant gyda Prester John. Os gwrthododd breninoedd Tataraid eraill i gofeidio y grefydd Gristionogol, y mae er hyny dystiolaeth i brofi fod gwragedd a phlant llawer o honnynt ymhlith y dychweledigion. Ymhlith y rhai a brïodasant wragedd Cristionogol, gellir enwi yr hynod Ginghis Khan, pedwar plentyn yr hwn, mae yn debygol, a ddygwyd i fyny yn ffydd eu mam. Preswyliai archesgob y ganghen Dataraid, yn Meru neu Mero. Yr oedd y ddinas hon, a gawsai ei hadeiladu ar adfeilion Margiana Alexandria, y goresgynwr Macedonaidd, yn sefyll ar ymylau deheu-orllewinol y gwastad-diroedd éang sydd yn ymestyn i'r dwyrain hyd derfynau China; ac a ffurfiai, yn nydd ei llwyddiant, y brif orsaf rhwng Persia a Bokhara, Balkh, Samarcand, a dinasoedd Transoxiana. Cyfanneddwyd y gwastadeddau hyn wedi hyny gan lwythau Tataraid crwydrol; y llioscaf o ba rai oeddynt yn adnabyddus i'r haneswyr Cristionogol boreuol, megys y Kerëaid. Golygid penaeith y llwyth hwn fel penadur y dalaeth éang hono."

Ar ol amryw gyfnewidiadau, symudodd Patriarch y Dwyrain o Baghdad i Mosul, ac wedi hyny, er mwyn mwy o ddiogelwch, gwnaeth ei drigfa yn mynachdy St. Hormisdas, yn agos i Al kosh, lle yr oedd yn preswyllo pan yr oedd Assemani yn ysgrifenu ei hanes; y pryd hwnw yr oedd y patriarch yn llywodraethu ar bump ar hugain o archesgobion, a mwy na dau cant o esgobion. Gyda chwymp y Khalifiaid fe adfeilliodd awdurdod y patriarch Caldeaid yn y dwyrain hefyd. Dyoddefasant lawer o erlidigaethau dan y penaduriaid Tataraid; ond i'r Timur didrugaredd y priodolir yn benaf eu lleihad nes nad oeddynt ond ychydig o grwydriaid yn nhaleithiau Assyria. Ymddengys iddo eu dilyn â ffyrnigrwydd didosturi, gan roddi i'r cleddyf bawb oedd yn analluog i ddianc i noddfeydd mynyddig Kurdistan. Yr oedd y rhai a ffoisant y pryd hyny am nodded i uchelderau a dyffrnoedd eiryawl Kurdistan, yn hiliogaeth yr hen Assyriaid, ac yn weddillion un o'r llwythau Cristionogol boreuaf. Ar ol y flwyddyn 1413 nid yw y coffadwriaethau Caldeaid yn cynnwys ond ychydig grybwylliad am eu heglwys allan o derfynau Kurdistan.

Wedi dwyn hanes yr Eglwys Galdeaid i lawr fel hyn, y mae yn awr yn bryd i ni ddywedyd ychydig am ei hathrawiaethau a'i threfniadau eglwysig. Y mae Mr. Perkins,¹ tad y genadaeth a anfonwyd o America i'w cynnorth-wo, a'r hwn sydd wedi cael gwell manteision i ddyfod yn gydnabyddus â'u hamgylchiadau na nemawr neb arall, yn dwyn tystiolaeth gymeradwyol iawn i'w daliadau a'u defodau.

¹ "A residence of Eight Years in Persia among the Nestorian Christians." By the Rev. Justin Perkins. Andover, 1843.

“Y mae cred grefyddol, ac arferion y Nestoriaid,” meddai, “yn llawer mwy syml ac ysgrhythrol na rhai yr eglwysi dwyreiniol eraill. Y mae ganddynt yr adgasrwydd mwyaf at bob eilun-addoliaeth, clustgyfaddefiad, athrawiaeth y purdan, a llawer o egwyddorion ac arferion llygredig yr Eglwysi Groegaidd, Rhufeinaidd, ac Armenaidd, tra y coledant y parch mwyaf i'r ysgrhythrau sanctaidd, ac mewn egwyddor o leiaf, y maent yn eu dyrchafu yn llawer uwchlaw pob traddodiadau dynol. Y mae eu daliadau athrawiaethol, cybelled ag yr wyf fi wedi eu dysgu, yn cael eu dadgan yn berffaith eglur a chywir. Ar y pwnc pwysig o Dduwdod Crist, mewn perthynas i'r hwn y mae y cyhuddiad o heresi wedi cael ei ddwyn mór ffyrnig yn eu herbyn gan y Pabyddion a sectau dwyreiniol eraill, y mae eu ffydd yn unionged ac ysgrhythrol.”

Wrth grybwyll am eu daliadau crefyddol, fe ddywed Mr. Layard :—

“Y mae y proffes o ffydd a fabwysiadwyd gan dadau yr eglwys, ac a adroddir eto ddwywaith yn y dydd gan y Caldeaid, yn gwahaniaethu oddiwrth gredo Nicea. Yr wyf yn ei roddi yn gyfan, gan ei fod yn ddyddorol a phwysig. Yn eu llyfrau, gelwir ef ‘Y Credo a gyfansoddwyd gan dri chant a thri ar bymtheg o Dadau Sanctaidd, y rhai oeddynt yn gynnulledig yn Nice, dinas o Bithynia, yn amser y brenin Cystenyn y Duwiol, ar gyfrif Arius, yr anffyddiwr mellidgedig.’

‘Yr ydym yn credu yn un Duw, Tad Hollalluog, Creawdwr pob peth sydd weledig ac anweledig.

‘Ac un Arglwydd Iesu Grist, Mab Duw, yr unig-genedledig gan ei Dad cyn yr holl fydoedd; yr Hwn ni chrewyd; gwir Dduw o wir Dduw, o'r un hanfod a'r Tad, gan ddwylaw yr hwn y gwnaed y bydoedd, ac y crewyd pob peth; yr Hwn, erom ni ddynton, ac er ein hiachawdwriaeth, a ddisgynodd o'r nefoedd, ac a gnawdiwyd trwy yr Ysbryd Glân, a ddaeth yn ddyn, a gaed ac a anwyd o Fair Forwyn, ac a ddyoddefodd ac a groeshoeliwyd yn nyddiau Pontius Pilatus, a fu farw ac a gladdwyd, ac a gyfodwyd y trydydd dydd yn ôl yr ysgrhythrau, ac a esgynodd i'r nefoedd, ac y mae yn eistedd ar ddeheuulaw ei Dad, ac sydd i ddyfod drachefn i farnu y byw a'r meirw.

‘Ac yr ydym yn credu mewn un Ysbryd Glân, Ysbryd y gwirionedd; yr Hwn a ddeilliodd o'r Tad—yr Ysbryd sydd yn rhoddi goleuni.

‘Ac mewn un Eglwys Llan a chyffredinol.

‘Addefwn un bedydd er maddeuant pechodau, adgyfodiad y corff, a'r bywyd tragywyddol.’

Fe ganfyddir nad oes dim yn y credo hwn i awdurdodi y cyhuddiad haerllug o heresi a ddygid yn erbyn y Caldeaid gan y gelynydd; ac y mae yn eithaf amlwg, nid yn unig oddiwrth yr ysgrif-dyst hon, ond oddiwrth ysgrifeniadau Nestorius ei hunan, a thadau boreuaf yr Eglwys Ddwyreiniol, fod llawer mwy wedi cael ei wneuthur o'r pwnc mewn dadl nag yr oedd ei bwysigrwydd yn ei haeddu. Ond pa fodd bynag y dichon hyn fod, fe ddylid cofio mai o'r heresi sylfaenol hon yn unig mae y Pabydd yn cyhuddo y Caldeaid. Ni wedir nad ydynt mewn pethau eraill wedi cadw i raddau mawr, ac yn eu holl bardeb, athrawiaethau a ffurfiau y brif eglwys. Y mae Moenheim, amhleidgarwch yr hwn nid oes braidd le i'w amheuo, yn dywedyd fel hyn am danynt :—‘Y mae yn anrhydedd parhâol i'r seet Nestoraidd, mai hwynt-hwy, o'r holl gymdeithasau Cristionogol a sefydlwyd yn y dwyrain, sydd wedi cadw eu hunain fwyaf rhydd oddiwrth yr ofergoelion dirifedi sydd wedi gwneuthur eu ffordd i'r Eglwysi Groegaidd a Lladinaidd.’ Y mae, gan hynny, yn beth dyddorol iawn i Brotestant i wybod yn mha bethau y maent yn gwahaniaethu oddiwrth sectau Cristionogol eraill, a pha beth mewn gwirionedd ydyw eu cred a'u defodau.

Gwrthodant roddi i'r Forwyn y titlau hyny, a'r gorbarch hwnw, ag oeddynt yn achos gwreiddiol i'r rhan fwyaf o ofergoelion a llygredigaethau yr eglwysi Rhufeinaidd a Dwyreiniol.

Gwadant athrawiaeth y purdan; ac y maent yn eithaf gwrthwynebol, nid yn unig i addoliad eilunod, eithr hyd yn nod i'w harddangosiad.

Ceir llun y groes yn eu heglwysi, ac y maent yn arferol o wneuthur yr arwydd o honi, yn gyffelyb i Gristionogion eraill yn y dwyrain. Nid yw y seremoni hon,

pa fodd bynag, yn cael ei chyfrif fel peth hanfodol, eithr yn hytrach fel nod o Gristionogaeth, ac fel arwydd o frawdoliaeth yn eu plith eu hunain, gan eu bod ar wasgar ymhlith dynion o fydd elynol iddynt.

Yn ngwrthodiad yr athrawiaeth o draws-sylweddiad, y maent yn cytuno â'r eglwys ddiwygiedig; er fod rhai o'u hysgrifenywyr boreuaf wedi trin y pwnc yn y cyfryw fodd fel ag i dywys i'r dybiaeth o'u bod yn cydnabod y gwir bresennoldeb. Y mae unrhyw gydnabyddiaeth o'r fath, pa fodd bynag, yn hollol groes i'w profes bresennol, ac i'r haeriadau a glywais ar fwy nag un achlysur oddiwrth eu patriarch a'u hofferiaid.

Mae y bara a'r gwin yn cael ei gyfranau ymhlith y cymunwyr, a goddefir i ber-sonau o bob oedran gyfranogi o'r elfenau cysegredig. Caniatêir i Gristionog- ion o bob enwad gyfranogi o'r sacrament bendigaidd, tra y goddefir i'r Caldeaid gymuno mewn unrhyw Eglwys Gristionogol arall.

Mewn perthynas i nifer a natur eu sacramentau, y mae eu llyfrau yn llawn o wrthwynebiadau, ac nid oedd yr hysbysiadau a dderbynias oddiwrth y patriarch a gwahanol offeriaid yn fwy cyson. Crybwyllir am *sauk* yn wastad gan yr ysgrifenywyr Caldeaid boreuaf, a delir hyn yn draddodiadol hyd heddyw; ond beth ydyw y rhai hyn mewn gwirionedd, nid oes neb yn ymddangos fel pe baent yn gwybod. Y mae confirmasiwn yn cydfyned â bedydd, fel yn yr Eglwys Armen-aid, pryd y mae y *meiron*, neu olew cysegredig, yn cael ei arfer; trwy osod dyferyn ar dalcen y plentyn. Ymddengys fod y confirmasiwn, neu y cysegriad hwn, wedi tarddu oddiar roddi yr eneniad olaf (*extreme unction*) i blentyn, rhag y byddai farw yn fuan wedi trochiad. Trwy anwybodaeth ynghylch ei darddiad, daeth y sacrament hwn i'w ystyried fel rhan hanfodol o fedydd; ond ni ymddengys fod eneniad na chlustgyffesiad fel yn cael eu cydnabod yn sacramentau ymhlith y Caldeaid. Y mae clustgyffesiad, yr hon unwaith a arferid fel sacrament, yn awr wedi syrthio i ddiarferiad.

Y mae amhheuaeth hefyd yn bod, pa un a ydyw priodas yn sacrament. Yn nyddiau boreuol yr Eglwys Galdeaid, yr oedd y graddau o gydwaedoliaeth a chyfathrach, yn y rhai y gwaherddid cydbriodasau, yn lliosog a dyrys. Cyfrifa Ebedjesus ddau a thriugain; ond y mae y cyfreithiau ar y pwnc hwn wedi eu llacáu yn fawr, os cawsant erioed eu cadw yn fanwl iawn. Mae y patriarch yn meddu yr awdurdod o gyhoeddi ysgariad; ac efe yw yr unig farnwr o ddigonol- rwydd y seiliau i wneuthur hyny.

Goddefir i'r pum gradd isaf o offeriaid, yn cynnwys yr archddiacon,¹ i briodi. Yn oesoedd boreuol yr eglwys, yr oedd yr un fraint yn cael ei hestyn i'r esgob a'r archesgob, ac hyd yn nod i'r patriarch.

Y mae ordeiniad yn sacrament. Ni arferir olew ond yn ordeiniad y patriarch. Ar achlysuron eraill, traddodir gweddïau uwch ben yr ymgeiswyr, gyd âg arddod- iad dwylaw, a chydag eilliad gymaint o'r gwallt oddiar goryn y pen ag a godo oddi- wrtho pan afaelir ynddo â'r llaw. Y mae yr oedran ieuanc yn yr hwn y mae yr offeriaid, gan gyfrif esgobion, offeriaid, a diaconiaid, yn cael eu hordeinio, wedi bod er's talm yn achos o anair i'r Eglwys Galdeaid; yr hon yn hyn sydd yn gwahaniaethu, nid yn unig oddiwrth yr holl eglwysi dwyreiniol eraill, ond y mae yn gweithredu hefyd yn hollol groes i'w chyfreithiau ei hunan.

Ymprydïau y Caldeaid ydynt dra lliosog, a chedwir hwynt yn fanwl iawn; ni fwytêir hyd yn nod bysgod. Y mae 152 o ddyddïau yn y flwyddyn yn y rhai y gorchymynir ymattal oddiwrth gig; ac er fy mod i, pan yr oeddwn yn cario ymlaen fy nghloddiadau, yn aml wedi cael gollyngdod oddiwrth hyny i'r gweith- wyr, gan y patriarch, ni ymddangosasant erioed fel yn dueddol i gymeryd mantais o hono. Y mae eu gwledd-wylïau yn cael eu cadw gyd â'r un manyldra. Ar y Sabboth nid oes yr un Caldead yn myned ar daith, nac yn cyflawni un math o orchwyl. Y mae eu gwledd-wylïau a'u dyddïau ympryd yn dechreu ar fachlud haul, ac yn diwedd ar fachlud haul dranoeth.

¹ Cyfrifa yr Eglwys Galdeaid wyth radd o offeriaid. 1. Y patriarch, neu y pen. 2. Yr archesgob. 3. Yr esgob. 4. Yr archddiacon. 5. Yr offeriad. 6. Y diacon. 7. Yr is-ddiacon. 8. Y darllenydd.

Dewisir y patriarch bob amser, os nid o anghenheidrwydd, o leiaf trwy gyd-syniad cyffredinol, o'r un teulu. Y mae yn ofynol i'r fam ymattal oddiwrth gig a phob math o ymborth anifeilaidd, am rai misoedd cyn genedigaeith plentyn fyddo wedi ei fwriadu i'rswydd uchel o fod yn ben ar yr Eglwys Galdeaid. Nid yw y patriarch ei hunan byth yn profi cig. Llysiau a llaeth a gyfansoddant ei unig ymborth. Dylid ei gysegru gan dri archesgob, ac y mae yn wastad yn derbyn yr enw Shamoun, neu Simon; tra y mae ei gydymgeisiwr, patriarch y Caldeaid Pabyddol, yn wastad yn cymeryd yr enw Usuf, neu Joseph. * * *

Gwelir oddiwrth y sylwadau rhagflaenol fod rhai nodau hynod o gyffelybiaeth rhwng y Cristionogion Caldeaid, ac aelodau yr Eglwys Brotestanaidd. Mae y cytuniadau hyn yn fwy pwysig, ac yn fwy haeddiannol o sylw, yn gymaint a'u bod yn cadarnhau llawer o athrawiaethau y grefydd Ddiwygiedig, ac yn eu cysylltu hwy â rhai y Brif Eglwys. Am yr athrawiaeth neillduol sydd wedi dwyn y cyhuddiad o heresi yn erbyn yr Eglwys Galdeaid—hyd yn nod pe caniatëid hyn yn ei helaethder mwyaf—ni ellir ei chyhuddo ond fel o dderbyn peth newydd. Y mae eu hanwybodaeth o ofergoelion Eglwys Rhufain, ynghyd â'u defodau a'u seremonïau mwy syml hwy, yn ein galluogi ni i'w holrhain hwy yn eglur i brif ffurf o Gristionogaeth a dderbyniasant cyn ei llygriad. Yn neillduedig yn ayffrynoedd pellenig Kurdistan, ac wedi eu tori ymaith o bob cymdeithas â chymundebau Cristionogol, y maent wedi cadw, bron yn ei phurdeb gwreiddiol, eu hen fydd. Dichon fod llygredigaethau wedi ymlusgo i fewn, a dichon fod anwybodaeth yn arwain i esgeulusiad o athrawiaethau a seremonïau; ond ar y cwbl, y mae yn destun o syndod fod y Caldeaid, ar ol treigladd o agos i ddwy ganrif ar bymtheg, yn bod yr hyn ydynt. Nid oes dim sectau yn y dwyrain, nac ychydig yn y gorllewin, a allant ymfrostio yn y fath burdeb yn eu fydd, neu o'r fath symlrwydd yn eu dull o addoliad.

Y mae Protestaniaid yr America, er's cryn amser, wedi cymeryd dyddordeb mawr yn y Caldeaid. Y mae eu cenadau wedi agor ysgolion yn ac oddiamgylch Oroomiah. Sefydlwyd argraffwasg, ac y mae amryw lyfrau, yn gystal a'r ysgrthyrau, wedi cael eu dosbarthu eisoes yn iaith gyffredin y trigolion, a'u hargraffu mewn llythyrenau neillduol iddynt hwy eu hunain. Mae eu llafur, yr wyf yn credu, wedi bod yn llwyddiannus. Er eu bod yn aelodau o'r Eglwys Annibynol, profesant beidio âg ymyraeth â chyfundrefn eglwysig y Caldeaid, gan gydnabod, fe ddywedir wrthyf fi, mai Esogyddiaeth ydyw y ffurf eglwysig fwyaf addas i seot wedi ei gosod yn yr amgylchiad y mae y Caldeaid ynddo."

Yr oeddym wedi bwriadu rhoddi hanes am y cigyddio erchyll fu ar y bobl syml a diniweid hyn ychydig flyneddau yn ol, pan y lladdwyd miloedd o honynt; ond gan na ellir gwneuthur hyn yn iawn, heb ar yr un pryd roddi hanes am yr achosion a arweiniasant i'r fath gyflafan, rhaid i ni ymattal rhag fyned i ormod meithder. Cyflawnder yw dywedyd, na wnaethant ddim yn haeddu y fath ymweliad gwaedlyd, ac y mae yn warth oesol i holl deyrnasoedd Cred am oddef i'r cyfryw gymeryd lle.

Fel hyn y darlunia Dr. Grant un o'u hesgobion, a dull y Caldeaid o dreulio Sabbath:—

"Yr oedd yr esgob, yr hwn sydd ŵr hynod o batriarchaidd, gyda barf wen laes, yn groesawu iawn, a chymerodd fi i'w eglwys hybarch—adeilad hen iawn, a wnaed trwy fwyhau ogof naturiol, drwy adeiladu muriau ffurfion yn wyneb y graig serth. Safai ymhell i fyny ar ochr y mynydd, ac yr ydoedd o'i mewn môr dywyllled a hanner nos. Yr hen esgob dichlyn a gymerodd fy llaw ac a'm harweiniodd at groes ddiaddurn o gareg oedd yn gorwedd ar yr allor, gan dybied y dadganwn fy mharch neu fy nheimpladau defosiynol trwy ei gwasgu hi at fy ngwefusau. Rhaid i mi gyfaddef fod rhyw beth hynod o gyffrôs yn y mynegiad allanol syml hwn, fel ei harferir gan y Nestoriaid, y rhai ni chymysg-ant âg ef ddim o eilun-addoliad na defodau llygredig yr Eglwys Rhufeinaidd. Oni ddichon fod camarferiad y fath arwyddion gan addolwyr yr Eglwys Ruf-

einaidd wedi ein gyru ni, y Protestaniaid, i'r eithafion gwrthgyferbyniol, pan yr ydym yn llwyr gondemnio cofarwydd syml y groes? Cysga yr hen esgob yn ei eglwys unigol, fel y gallo fod yn barod at ei ddefosiynau yn y boreu cyn dydd.

Hydref 20. Subboth. Tarawyd ystylen deneu yn gyffym â gordden, i alw y pentrefwyr i'r Eglwys ar godiad haul. Yr oedd pob un wrth ddyfod i fewn i'r Eglwys yn tynu ei esgidiau ac yn tystio ei bareh i gysegr Duw trwy gusanu pyst y drws neu y rhiniog, ac yn myned ymlaen i gusanu llyfrau yr Efyngylwyr oedd yn gorwedd ar yr allor, wedi hyny y groes, ac yn olaf law ei athraw crefyddol.

Yr oedd yr Eglwys, yn gyffelyb i bob un a welais yn y mynyddoedd, yn adeilad sylweddol iawn, ac iddo nen bwaog, a gallasai sefyll am oesoedd. Yr oedd rhai eraill a welais wedi sefyll am fwy na phedair canrif ar ddeg, yn ol eu hen haneslyfrau. Am y drws cul yr hwn ni allai neb fyned drwyddo heb grymu llawer, rhoddwyd yr esboniad arferol am dano, "Cyfyng yw y porth," &c.—gwirionedd a ddymunent ei ddwyn i'w cof pan yn myned i mewn i'r cysegr. Yr oedd y gweddiâu a'r canu neu y côrganu i gyd yn yr hen Syriaeg, ac yn hollol annealladwy i'r bobl gyffredin; ond darlennodd un o'r offeiriaid gyfran o'r Efyngylwyr, ac a roddodd gyfieithiad o hono i'r Syriaeg gyffredin a siaredir gan y Nestoriaid; a hyn a gyfansoddodd y pregethu; weithiau y mae esboniadau yn cael eu rhoddi gyd â'r darlenniad, neu adroddir ffug-chwedl, o ba rai y mae ganddynt liaws.

Yr oedd yn achlysur sacramentaidd, a chysegrwyd y bara a'r gwin yn y cysegr, neu 'le sanctaidd' yr eglwys, ac yna dygwyd ef allan gan offeiriad nren ddiacaon, tra yr elai pob aelod o'r eglwys, y naill ar ol y llall, ac a gyfranogai o ddarn bychan o fara o law yr offeiriad, yr hwn a ddaliai napeyn rhag i ddim o'r briwsion syrthio i'r llawr, tra y rhoddai y tamaid yn ngenau y cymunwr; wedi hyny yfai o'r gwin, yr hwn a ddelid gyda gofal mawr gan y diacon, fel na byddai i ddyferyn gollu. Ond nid oedd yma ddim o'r eilun-addoliad hwnw o aberth yr offeren sydd môr nodwedus i'r rhan fwyaf o'r Pabyddion, ac eglwysi dwyreiniol eraill. I'r gwrthwyneb, yr oedd yma symrlwydd ysgrhythyrol o'r bron, yn nghyflawniad yr ordinad ddirifiddwys hon.

Yr offeiriad, oedd wedi gweini yn y gweddiâu ac addysgiad y bobl, a gyfranogodd gyntaf o'r elfenau cysegredig, yna gwahoddodd finnau i gyfranogi o honynt. Hyd yn hyn nid oeddwn wedi cyfranogi o'r ordinad hon gyd â'r Nestoriaid; ond buasai gommedd dan yr amgylchiadau presennol yn gwnenthur gymaint anghyflawnder â fy nheimpladau fy hun ag a fuasai â'r eiddyn hwythau. Dros lawer o fisoedd, nid oeddwn wedi cael y fraint o ddyfod at fwrdd yr Arglwydd. Yr oedd yr Arglwydd yn ei drugaredd wedi fy nghadw trwy lawer o beryglon, a'm dwyn i blith pobl a dderbyniasent yr efyngyl gan yr apostolion a dysgyblion agosaf ein Hiachawdwr; ac wedi cadw yr athrawiaethau gyda graddau mawr o burdeb; ac er fod yno dystiolaeth offidus am ddiffyg mawr o fywyd ysbrydol, yr oeddwn yn cael fy nghalonogi i obeithio fod rhai gwreichion o wir grefydd yn parhau eto i losgi ar yr allorau hyn. Nis gallwn lai na'i hystyried fel cangen o wir eglwys Crist; ac er eu bod wedi syrthio i gaddug anwybodaeth, ofergoeledd, a syrthni ysbrydol, eto nid oedd yn farw. Er hyny yr oedd llawer o ddyddordeb dwfn a bywiol yn eu nodweddiad a'u hamgylchiadau; yr oedd fy nghalon yn cael ei thynu allan tuag atynt mewn serch gwresog, ac anaml y coffais gariad angeu Crist dan amgylchiadau dwysach a mwy dyddorol nag y gwnaethum ymhlith y prif Gristionogion hyn yn mynyddoedd gwylltion Assyria.

Yr oedd dystawrwydd a gweddeidd-dra ymddygiad mawr yn y gynnulleidfia, ac ymadawodd pawb heb drwt na chynhwrf. Wrth fyned allan, derbyniodd pob un wrth y drws, *ddalen* deneu iawn o fara wedi ei phlygu ynghyd, ac yn cynnwys tamaid o gig. Dyma 'gariad wledd' prif Gristionogion y ganrif gyntaf a'r ail.

Wedi hyny aeth amryw o'r bobl i dŷ goruchwyliwr yr eglwys, a chyfranog-

asant o bryd mwy sylweddol, ond un syml; gan ymadael yn mhen ychydig i'w tai, neu i alw gyd â'u cyfeillion agosaf. Cedwid y diwrnod gyda llawer mwy o weddeidd-dra nag a welais ymhlith Cristionogion eraill yn y dwyrain. Yr oedd tawelwch cyffredinol trwy y pentref, y cyfryw ar na welais ond mewn ychydig o leoedd mewn gwledydd eraill mwy eu breintiau. Nid oedd dim llawenydd trystfawr, dim sylw ar faterion bydol, ac nid oedd y gymdeithas ymhlith y bobl yn ddim mwy nag a arferid yn yr hen Eglwys Hebraidd. Dywedir eu bod gynt yn edrych gyd â'r fath barch ar y Sabboth, fel y rhoddent bobl i farwolaeth am deithio ar y diwrnod sanctaidd hwnw."

Llawer o wahanol farnau sydd yn bod o barth tarddiad y Caldeaid hyn. Y mae Dr. Grant ac eraill yn gryf o'r farn, mai hiliogaeth y deg llwyth a gariwyd ymaith yn y caethgludiad cyntaf ydynt, tra y mae Dr. Layard ac eraill o'r farn mai hiliogaeth y prif Assyriaid ydynt. Dywed Dr. Grant fod y traddodiad yn cael ei gredu yn gyffredinol gan y Nestoriaid trwy Assyria a Media, mai dyma yr hyn ydynt, a bod yr elyniaeth sydd yn bod rhyngddynt hwy a'r Iuddewon eraill yn rhwystr i gredu mai peth ydyw hwn a ddyfeisiwyd ganddynt hwy eu hunain. Ychwanega, fod yr Iuddewon sydd yn eu plith yn cydnabod y berthynas, a bod prif Rabbi yr Iuddewon yn haeru fod y Nestoriaid wedi gwrthgilio oddiwrth y ffydd Iuddewig yn nyddiau Crist a'i apostolion. Dadleua ddarfod i Tiglath Pileser un dwyn hwy ymaith i Hulah, Habor, Hara, a Gozan; a bod Shalmaneser wedi eu dwyn i'r un lleoedd, ac i "ddinasoedd y Mediaid;" ac er eu bod wedi cael eu symud gan wahanol fuddygoliaethwyr, eu bod wedi cael eu planu fel trefedigaethwyr yn yr un manau; a chan fod Media mewn cyfwr o wrthryfel yn amser caethgludiad y Deg Llwyth, barna ef y peth yn an-nhebygol y buasai breinin Assyria yn planu y bobl a gariasai ymaith, ymhell yn Media. Gan hyny y dylem edrych am breswylfa y caethion yn rhywle ar gyffiniau Assyria, ac o ganlyniad mai Halah ydyw Chalah Genesis (x. 11, 12), yr hwn sydd daith diwrnod i'r gogledd-orllewin o Ninifeh.

Yr oedd rhan canolbarthol Assyria yn cael ei galw gynt Adiabene (neu y wlad oddeutu yr afon Zab). Yn Adiabene, y mae heddyw (1840) agos i gan' mil o Nestoriaid, tra na ellir cael ond gweddill fechan iawn o Iuddewon yn eu plith. Yr ochr arall i'r afon Habor, y mae yr holl wlad o'r bron, o Adiabene a Halah, yn cael ei chyfanneddu gan y Nestoriaid, tra nad oes i'r Iuddewon mewn enw yn Media ac Assyria ond ugain mil o eneidiau. Ni feddyliai neb byth mai yr ugain mil yma ydyw yr holl weddill sydd yn bod o'r Deg Llwyth. Drachefn, os addefir fod y Deg Llwyth wedi eu dwyn i Assyria, nid oes genym ni yr un dystiolaeth ddarfod iddynt byth wedi hyny gael eu symud oddiyno. Ni ddychwelasant fel corff o bobl, er y gallai rhai dynion unigol o honynt ddychwelyd, ac fel y dychwelodd gweddill llwyth Judah, gan y dywedir yn benodol wrthym am y deng mil a deugain a ddychwelasant, mai rhai oeddynt o'r rhai hyny a ddygasai Nebuchodonosor i Babilon (*Esra* ii. 1).

Yr oedd y Deg Llwyth yn ngwlad eu caethiwd yn y ganrif gyntaf o'r cyfnod Cristionogol. Dywed Josephus (*Ant.* x. xv. p. 5), "Nid oes ond dau lwyth yn Asia ac Ewrop yn ddarostyngedig i'r Rhufeiniaid, tra y mae y Deg Llwyth yn awr tuhwnt i'r Euphrates, ac ni ellir eu cyfrif;" ac y mae araeth Agrippa, a adroddir gan yr un hanesydd, yr hon a friadwyd i attal yr Iuddewon rhag myned i ryfel â'r Rhufeiniaid, yn dangos yr un peth. Drachefn, yr oeddynt yn yr un wlad yn y bummed ganrif o'n cyfnod ni. Obligid y mae Jerome, yr hwn a gafodd gydgyrmydd am ugain

mlynedd âg Iuddewon Palestina, yn dywedyd yn ei "Esboniad ar Hosea," "Hyd y dydd heddyw y mae y Deg Llwyth yn ddarostyngedig i frein y Persiaid, ac ni ryddhäwyd eu caethiwed erioed." O'r pryd hwnw hyd yn awr nid ydym yn clywed dim ychwaneg am danynt; ac y mae agos yn beth anghredadwy y buasai unrhyw fudiad mawr wedi cymeryd lle heb i ryw sylw gael ei wneuthur o hynny, mewn rhyw un o'r lliaws hanesyddiaethau sydd wedi cael eu cyfansoddi er y pryd hynny. Gwir iaith y bobl bresennol, Iuddewon yn gystal a Nestoriaid, ydyw y Syriaeg, ac y mae yn debygol eu bod yn gydnabyddus â hi hyd yn nod cyn y caethiwed. Y mae yn wir fod Cristionogion eraill, heblaw y Nestoriaid, yn defnyddio fuffweddïâu Syriaeg, ond yn eu plith hwy ac Iuddewon Assyria a Media y mae y Syriaeg yn gyfaith (*living language*). Heblaw y profion hyn, dywed Dr. Grant, eu bod yn cadw llawer o ddefodau Moses, megys aberthau, addunedau, blaenffrwyth a degymau, cadwraeth y Sabbôth, parch i'r cysegr, gwleddwyliau, ac ymprydïâu, &c. Mae y fath debygol-iaeth hefyd rhyngddynt a'r Iuddewon o ran ffurf eu hwynebau, fel y mae y brodorion, y rhai a arferant y gwahaniaeth rhwng y naill lwyth a'r llall o bobl yn ol llun eu hwynebau yn aml yn methu gwybod y gwahaniaeth rhwng Nestoriad ac Iuddew; y mae eu henwau, eu llwythau, eu llywodraeth, a'u harferion cymdeithasol a theuluaidd hefyd, yn hollol gyffelyb i rai yr Iuddewon.

Dyma ddwy neu dair o'r ffeithiau hynotaf y mae Dr. Grant yn eu dwyn ymlaen dan y pen olaf hwn:—

"Yr oedd addunedau neu addewidion difrifol i Dduw, i gyflawni rhywbeth er ei ogoniant, neu fel arwydd o ddiolchgarwch am ei ffafr, yn bethau cyffredin iawn dan yr Hen Destament (*Barn. xi.; Num. xxx.*). Ond nid oes gorchymyn yn y byd yn y Testament Newydd am eu cyflawni. Cesglir oddiwrth hyn fod *addunedau* yn fwy perthynol i'r gyfraith seremonïol nag i'r Testament Newydd. Yr oedd rhai o'r addunedau a wneid gan yr Iuddewon, yn rhai mor neillduol, fel nas gallasem ddysgwyl eu cael ymhlith neb pobl eraill. Y cyfryw ydoedd adduned Hannah, trwy yr hon yr ydoedd Samuel cyn ei eni yn cael ei neillduo i'r Arglwydd (1 *Sam. i. 11*). Eithr ymhlith y Nestoriaid, nid yw y cyfryw addunedau wedi eu gwneuthur dan gyffelyb amgylchiadau yn beth anghyffredin yn y byd. Gweddïant ar Dduw am iddo ganiatáu iddynt y fendith, yr hon (fel ymhlith yr Iuddewon) sydd yn gorwedd agosaf at eu calonau o bob un arall, ac addawant yn ddifrifol i neillduo y plentyn i wasanaeth yr Arglwydd dros holl ddyddïâu ei fywyd. Os mab fydd, addawant ei addysgu i'r Eglwys, fel y byddo iddo wasanaethu Duw yn ei deml; os merch, i roddi ei chynnysgaeth priodasol i'r Arglwydd, neu weithiau (fel y bu rhai yn y mynyddoedd), neillduant hi i anwyddïaeth a gwasanaeth yr Eglwys. Pan y byddo yr adduned fel hyn, gellir rhoddi y cynnysgaeth priodasol fel pris ei phrynedigaeth, os na bydd hi yn cytuno âg ammodau yr adduned.

Yr oedd yr offeiriad mwyaf dealldwrus oedd yn ngwasanaeth y genadaeth hon (yr offeiriad Dunka), wedi ei neillduo i wasanaeth ei Dduw gan ei fam, yr hon, yn gyffelyb i Hannah, a ofynodd i'r Arglwydd am dano dan adduned ddifrifol. Yn Ziyâry, gwelais offeiriad ag oedd wedi byw am flyneddau dan adduned Nazareaid, yn gadael i'w wallt a'i farf dyfu, yn byw ar yr ymborth gwaelaf, yn ymgadw oddiwrth halogedigaeth seremonïol, a pheth bynag arall a waherddir dan yr adduned hon. Nestoriad ieuanc, yr hwn a aeth gyda mi yn ddiweddar, a addunedodd, os dychwelai mewn diogelwch, y rhoddai anrheg o ryw gymaint o berarogl at wasanaeth yr Eglwys yn Orooniah, ac anrheg gydwerth i eglwys arall yn agos i bentref ei uredigaeth. Addunedodd mam gŵr ieuanc ar yr un pryd, os dychwelai ei mab yn ddiogel, yr aberthai ddafad, ac y

rhanai hi rhwng trigolion y pentref. Er y gallasai fod cyfeiriad neillduol at y tlawd yn yr offwrn, bwriadwyd darn i bob tŷ yn y pentref, oddentu pedwar ugain mewn nifer, tra y parotōwyd anifel arall fel gwledd i'w cyfeillion agosaf, fel yn hanes y mab afraidlawn. Tra y mae addunedau yn cael eu gwneuthur ar lawer ac amrafael achosion, y mae y cyflawniad o honynt yn cael ei wneuthur yn bwnc crefyddol."

Y mae eu henwau personol hefyd mor Iuddewaidd ag ydyw ffurf eu hwynebaw; allan o bump a deugain o aelodau yr ysgol genadol Americanaidd, yr oedd dim llai na deuddeg ar hugain o'r enwau Iuddewaidd a geir yn y Bibl.

"Y dŷalydd gwaed ymhlith y Nestoriaid annibynol, ydyw gweinidog cyfiawnder am droseddau marwol, fel yr oedd ymhlith yr Hebraeid. Y mae gweinyddiad y goeb hon (*Gen. xi. 6*), a orchymynwyd yn erbyn y dyn-leiddiad, yn di-gyn ar y brawd neu y perthynas agosaf i'r hwn y cymerwyd ymaith ei fywyd. Os na byddai iddo ladd y dyn euog, ystyrid ef fel yn 'waradwyddus' (*Jahn's Archaeology*). Dyma yn union fel y mae pethau yn bod ymhlith y llwythau Assyriaidd o Nestoriaid y dydd hwn. Y mae ystaen annileadwy yn nodi cymeriad y dyn na ddialo farwolaeth perthynas; ac mor gref ydyw grym yr hen arferiad hon, fel y mae hyd yn nod orchymynion yr efengyl wedi methu eu dileu."

Wrth roddi hanes am eu harferion teuluaid, crybwylla am y rhai canlynol:—

"Y mae lletygarwch i ddyeithr, yn enwedig i un o'u pobl eu hunain, yn hollol mor brifoesol ag ydyw yr anerchiad a'r hwn y derbyniant ef. Y mae ei holl anghenion yn cael eu cyflenwi yn union; dygir dwfr i olchi ei draed, darperir ymborth yn ddioedi, a gosodir ef o'i flaen, a gwneir pob darpariaeth er ei gysuro a'i ddiluddedu. Nid yw yn myned o dŷ i dŷ; ond wedi cael derbyniant tan un gronglwyd byddai yn anghyfiawnder â'i westŷwr tirion pe byddai iddo ei adael a myned i dŷ arall yn yr un pentref. Anercha y tylwyth ar ei ddyfodiad, mae ei dangnefedd yn gorphwys arno: ac ymadawa gyda bendith. Yr wyf yn barnu na welais erioed ddangosiadau o letygarwch yn y fath ddull prifoesol ag a ddangosir gan y Nestoriaid Cristionogol. Ac nid yw eu tiriondeb cyffredinol tuag at y tlawd a'r cystuddiedig yn llai hynod; ni bydd neb yn cael eu troi ymaith yn waglaw, a bydd y rhai sydd yn meddu y moddion, yn dodi cyfran o'r neilldu i'r tlawd, ac yn darparu llety ac ymborth iddynt am fisoedd.

Mae eu gwleddoedd yn y gwir ddull Hebraidd. Gwahoddir y gwahoddedigion gan was, yr hwn yn aml a anfonir oddiamgylch yr ail waith pan fyddo y wledd yn barod. Gosodir pob un i eistedd gan feistr y wledd yn ol ei radd; gwahoddir y mwyafr anrhydeddus i ddyfod i fyny yn uwch, tra y mae eraill yn rhoddi lle iddo; llywodraethwr y wledd sydd yn llywyddu—anfonir y gwpan gymdeithasol oddiamgylch; bydd pob un yn rhoddi ei law yn y ddyagl, ac y mae un weithiau yn gwlychu tamaid ac yn ei roddi i arall (arwydd o diriondeb neillduol). Eisteddant ar garpedau, neu ar lawr, gan bwyso ymlaen, a bwyta eu hymborth yn y dull mwyafr prifoesol.

Yn eu gwyliau llawen, bydd ganddynt beroriaeth a dawnisiau; yno mae y nabl a'r dympau, telyn Dafydd, a llais cân. Cadwant eu newydd-loerau, eu Sabbothau, a'u huchelwyliau. Wrth alaru, taflant yn aml lwch ar eu penau, rhwygant eu dillad, ac eisteddant yn y lludw, neu ânt at y bedd i wylu yno.

Yn eu gwiagoedd, y mae cydffurfad hynod rhyngddynt a'r Iuddewon o'u hamgylch; a thra y mae eu lwynau wedi eu gwregysu, y mae ffion yn eu llaw, a sandalau am eu traed.

Y mae eu galwedigaethau yr un a rhai y cynoesoedd. Gwelwn y merched yn dyfod yn feunyddiol i dynu dwfr, gyd â'u hystenau ar eu hysgwyddau, yn lloffa gwenith yn y meusydd yn amser y cynhauaf, neu yn debyg i Rahel yn gwyllo preiddiau eu tadau, tra mae y wraig rinweddol yn ceisio gwlan, ac yn gweithio â'i llaw yn ewyllysgar. Mae yn rhoddi ei llaw ar y werthyd, ac â'i llaw

yn dal y cogail. Gwelir merched yn malu wrth felin, neu yn pwyo gwenith mewn mortar i'w ysgaru oddiwrth yr eisin, neu yn corddi laeth (nid hufen), neu yn casglu glaswellt, "yr hwn sydd heddyw, ac yfory a defir i'r ffwrn," neu yn gwneuthur costrelau o grwyn neu ledr i ddal y gwin fyddo wedi ei fathru yn y gwinwryf. Y mae y gwinllanoedd, y lloriau dyrnu, y nithiad gwenith, tra mae yr ūs yn cael ei chwalu gan y gwynt, yr offerynau dyrnu danneddog, y medi a bloecdiadau y cynauaf, y troi afonydd o ddyfroedd i ffirwythloni eu meusydd, y planu helyg a choedydd eraill wrth y ffrydiau dyfroedd, yr eryd, y llety mewn gardd cucumerau, eu bwyd a'u diod, ac amser eu prydiau, eu hanifeiliaid teulu-aidd, eu cychod gwenyn a'u corlanau, eu tai a'u difyrwll, eu rhodio a'u cysgu ar benau tai, a llawer o arferion a defodau neillduol eraill, yr un mor gyffredin i'r hen Israellaidd ag i'r Nestoriaid presennol.

Ymhlith yr Iuddewon, bydd tad tylwyth yn ceisio gwragedd i'w feibion, a gwŷr i'w ferched. Os byddai gan fab ddewisiad o ryw un neillduol i fod yn wraig iddo, bydd yn gofyn i'w dad ei cheisio hi gan ei thad *hithau*. Ond ni allai y tad roddi y ferch mewn priodas heb gydsyniad ei brodyr. Dyma yn union y rheolau a gedwir ymhlith y Nestoriaid y dydd heddyw. Nid oes yr un dyn ieuanc yn meddwl gwneuthur cyfammod priodasol drosto ei hun. Os bydd y tad wedi marw, mae y mab hynaf yn cymeryd lle y tad. Pan fyddo y briodasferch fwr-iadol yn byw ymhell o ffordd, bydd y mater yn cael ei ymddiried weithiau i ryw was ffyddlawn neu oruchwyliwr, fel y gwnaethpwyd gan Abraham mewn perthynas i Isaac ei fab. Eglurwyd y dygwyddiad hwn yn hynod yn hanes priodas a gymerodd le ychydig amser yn ol ymhlith y Nestoriaid yn y mynyddoedd. Yn wir, yr oedd y fath gyd-ddygwyddiadau hynod, o ran enwau ac amgylchiadau, fel yr ymddangosai yn debyg i weithredu drosodd drachefn y rhan fwyaf dyddorol hono o'r hanesyddiaeth sanctaidd.

Y *patriarch* Nestoraidd, *Abraham* (oblegid dyna ei wir enw, nid yw yr enw Shimoom neu Simeon ond ei enw swyddogol), yr hwn oedd yn lle tad i'w frawd ieuengaf, *Isaac*, yn dymuno cael gwraig i'w faethfab, ac anfonodd ei oruchwyliwr mwyaf ymddiriedus i ran bell o'r wlad i gaffael un o blith ei bobl ei hun. Cymerodd y gwas gydag ef wisgoedd a thlysau i ddarpar-gwraig Isaac, ac anrhegion i'w pherthynasau agosaf hi. Ni bu yn ddim llai llwyddiannus na gwas ei gyfenwydd gynt, yr hen batriarch Abraham. Ond er i mi ddyfod yn gydnabyddus â'r holl bleidiau yn yr achos, rhaid i mi adael i ddychymyg y darllynydd i lenwi i fynd rai o'r amgylchiadau yn yr hanes. Yn unig bydded iddo ddiodi *mulod* yn lle *camelod* (y rhai na arferir yn y wlad fynyddig hon), a gallaf gyfeirio at ddiwedd y bedwaredd bennod ar hugain o *Genesis* am y rhan arall o'r hanes. Dygwyd y ferch i dŷ y patriarch diweddar hwn, 'ac Isaac a'i cymerodd, a hi a aeth yn wraig iddo, ac efe a'i hoffodd hi.'

Wedi i'r cyfammod priodasol, neu yn hytrach y cynnysgaeth gael ei benderfynu, y mae y pleidiau yn cael eu dyweddio, pryd y mae y ferch yn dyfod yn wraig ddyweddol i'w gwr. Ond nid yw yn arferol hyd oni byddo yspaid o ddeg neu ddeuddeg mis, ac yn aml hyd oni byddo amryw flyneddau wedi myned heibio, fod i'r briodas gael ei chwblhau yn gyflawn. Er hyny, y mae y weithred o ddyweddïad, neu ymgysiammodiad, yn beth mwy na chytundeb ffurfiol. Ystyrir y peth fel defod ddirifol, ac er nad oes dim cyweithas rhwng y priodfab a'r briodferch, ddim cymaint a chydymddyddaniad rhyngddynt; er hyny y maent yn cael eu hystyried, a llefarir am danynt megys gwr a gwraig. Ni allai y gwr roddi ymaith ei wraig y byddo wedi ei dyweddio am achos yn y byd, heb roddi iddi lythyr ysgar; a byddai i unrhyw anffyddlondeb ar ran y wraig gael ei gosbi gyda'r un toester a phe buasant wedi priodi yn weithredol. Cedwir y dyweddïad gyda'r un defodau crefyddol o'r bron a phe buasai briodas. Darperir gwledd yn nhŷ tad y briodferch, a chyda phob ffurholder dyladwy, cysegir y fodrwy gan yr esgob, neu yr offeiriad, a chyflwynir hi gan y gwr ieuanc i'w ddarpar-wraig drwy ryw hynafwraig synwryol a fyddo yn meddu hyder yr hollbleidiau. Os derbynir y fodrwy gan y ferch, hi a'i dodda ar ei bys, ac o hyny allan y mae hi yn wraig ddyweddol iddo. Ar yr un pryd y mae y gwr dyweddol yn talu swm o arian a

mesur o jđ (*Hosea* iii. 2), gwenith, rice, neu haidd, yr hwn a ellir ei ystyried fel pridwerth. Nid yw byth yn arian yn unig, ond arian a lluniaeth y mae yn ei dalu; a hyn yn wastad pan fyddo y pleidiau yn cael eu dyweddio. Mae y pridwerth, neu y taliad cyntaf hwn yn wastad ar wahan oddiwrth yr anrheg a roddir amser y briodas.

Y mae y cydffurfiad hwn o arferiad y Nestoriaid ág un yr hen Israeliaid yn cael ei wneuthur yn eglur iawn trwy gyfeirio at y drydedd bennod o *Hosea*; cyfran o'r gyfrol sanctaidd ag oedd yn dywyll hyd yn hyn, ond a eglurir yn amlwg yn awr. Yn ystod yr amser o brawf, o'r dyweddïad hyd y briodas, bydd y wraig ddyweddïol yn derbyn nawdd ac ymborth ar brydiau oddiwrth ei gwr dyweddïol, pa mor bell bynag y dichon fod amser cyflawniad y briodas."

Er nad yw y dyfyniadau hyn ond ychydig o'r llawer iawn a ddug Dr. Grant er cadarnhau ei osodiad, barnwn fod hyn yna yn llawn ddigon er dangos i'r darlennydd ei ddull o geisio profi ei bwnc.

O'r tu arall, y mae Mr. Ainsworth yn dadleu, pe caniatëid fod yr holl bethau hyn yn hollol fel y mae Dr. Grant yn dadleu eu bod, er hyny, nad yw yr hawl i fod yn hiliogaeth y deg llwyth ddim mor gryfed o blaid y Nestoriaid, ag ydyw o blaid yr Iuddewon sydd yn parhau i gyfanneddu y wlad wastad sydd ar lanau y Tigris a'r Euphrates uchaf; tra ar yr un pryd y mae llawer o'r ffeithiau yr ymddibyna Dr. Grant arnynt yn colli llawer o'u cadernid ymddangosiadol pan y chwilir yn fanwl iddynt. Mewn perthynas i'r hyn a ddywed efe o fod yr Iuddewon yn addef mai yr un hynafiaid sydd i'r Nestoriaid ag iddynt hwy eu hunain, dywed Mr. Ainsworth fod hyn yn hollol groes i'w brofiad ef ei hun, ac i'r traddodiad a ddywedir sydd yn bod ymhlith y Caldeaid o barth hyny. Y mae yn eithaf gwir nad yw yn anghenrheidiol i dybied fod y deg llwyth wedi ymgymysgu a chael eu colli ymhlith y cenedloedd lle y preswylent; ond y mae yn gwestiwn arall, pa fodd y gallwn ni, heb y dystiolaeth fwyaf penderfynol, ddystrywio un genedl er mwyn gwneuthur lle i un arall; oblegid os Iuddewon ydyw y Caldeaid presennol, pa le mae yr hen Galdeaid, a pha beth a ddaeth o honynt hwy? Yr oeddylt yn fwy grymus, ac yn llawer lliosocach na'r Iuddewon a gacthgludwyd ganddynt; cedwir eu hanes hyd heddyw yn y wlad hòno; ond er hyny, er mwyn cynnal tyb Dr. Grant, rhaid i ni amddifadu y preswylwyr henach o'u gwladgarwch a'u hanfodiad, i roddi lle i boblogaeth o garcharorion, y rhai sydd nid yn unig wedi cymeriad meddiant o'u tiroedd, ond hefyd o'u henw a'u hiaith. Drachefn, dywed Mr. Ainsworth nad yw Dr. Grant ddim wedi bod yn fwy ffodus yn y rhan ddaeryddol o'i ymresymiad; oblegid er mwyn sefydlu ei ymresymiad, y mae yn gorfod cymeryd yn ganiataol mai yr un fan ydyw Kurdistan ag Assyria. Drachefn, y mae Dr. Grant yn gorfod unoli Halah a Calah *Genesis* â'r Hatarah presennol; ond y mae Rennel wedi dangos mai Holwah yw y lle tebycaf, ac nid Hatarah, yr hwn sydd bentref tlawd yn perthyn i'r Yezidis, nad oes ynddo nac adeilad na chareg naddedig yn dynodi dim olion o hynafiaeth. Tystia hanesyddiaeth Iuddewig fod rhan o'r llwythau caethiwol yn preswyllo llawer o ganrifau yn Adiabene, yr hon, fel talaeth Rhufeinaidd, oedd bob amser yn dwyn perthynas â gwastadedd Guagamela neu Arbela, ac ni fu un amser yn cyfyngu ar Zabdiene, llawer llai ar y mynyddoedd.

Y mae cyflawniad defodau gan y Caldeaid, y rhai y tybir eu bod yn perthyn yn neillduol i'r Iuddewon, yn cael ei ddwyn ymlaen i brofi eu llinach; ond er hyny, er profi hyn, rhaid dangos hefyd nad oes dim o'r defodau hyn o darddiad paganaidd, neu nad ydynt i'w cael yn bresennol

mewn gwledydd ac ymhlith cenedloedd eraill nad ydynt yn Fahometaniaid na Christionogion. Y mae cyflwyniad blaenffrwyth yn beth cyffredin trwy y dwyrain, ac os nad yw parchedigaeth i demlau yn bod yn gymaint mewn manau eraill ag y mae ymhlith y Caldeaid, eto y mae temlau yn cael eu parchu yn fawr, a'u gwylied yn fanwl rhag cael eu halogi mewn lleoedd eraill yn y dwyrain. Cedwir y Pasg i raddau mwy neu lai, yn gystal ag ymprydiau a gŵyliau eraill, mewn modd anuniongyrchol gan y rhan fwyaf o Eglwysi Cristionogol; tra, os yw cydnabyddiaeth o unrhyw gyfraith, defod, neu orchymyn a osodir yn yr Hen Destament, ac na ddilêwyd mo hono yn y Newydd, yn rheswm trwy yr hwn yr ydys i olrhain tarddiad Hebraidd unrhyw lwyth o bobl, y mae yn eglur y gellir cael y cyfryw bethau bron yn mhob sefydliad, yr hwn, er ei fod yn Gristionogol o ran ei nodweddiad, sydd er hyn yn cydnabod awdurdod yr Hen Destament; ac nid yw yn beth rhyfedd fod y Caldeaid, y rhai a ddeillient gynt o wlad Terah ac Abraham, yn cael eu hynodi trwy enwau a ddygant i'w meddwl eu mawr hynafiaeth, ac amgylchiadau ym ymfrostant ynddynt o rau eu bonedd a'u crefydd. Ond y peth rhyfeddaf o'r cwbl ydyw, os bu y Caldeaid erioed yn Iuddewon, eu bod hwy i gyd o'r bron yn awr yn Gristionogion, a hyny yn ol pob ymddangosiad er yn foreu iawn; oblegid, a chaniatáu fod hyn wedi ei brophwydo, y mae y fath ddychweliad o gyfran o genedl yn groes i bob peth a fu neu ag y sydd yn awr mewn bod. Yr oedd Iuddewon y gaethglud gan mwyaf ymhell o'r wlad lle y pregethodd ac y bu farw ein Hiachawdwr; yr oedd llwythau Adiabene, Assyria, Parthia, ac Armenia, y rhai oeddynt wrth-ddrychau llafur apostolion a thadau yr eglwys, St. Thomas, St. Matthew, St. Thaddeus, ac eraill, yn frodorion y gwledydd hyny: pe dychweliad yr Iuddewon yn unig, oedd yn trigo yn y gwledydd hyny, fuasai dyben eu cenadaeth, galleid meddwl fod rhyw goffadwriaeth o'u llafur i'w gael yno; ond ar y llaw arall, yr ydym yn gwybod fod St. Thomas wedi pregethu yr efengyl i'r Mediaid, y Parthiaid, y Persiaid, a'r Indiaid, ond nid oes dim ond tystiolaeth Eusebius tros i ni farnu mai yr Iuddewon yn unig a dychwelwyd ar y cyntaf o blith yr holl genedloedd hyny.

Wele ni yn awr wedi rhoddi y rhesymau a ddygir ymlaen gan y ddwy blaid ynghylch haniad yr Eglwys Galdeaid hon; a rhyfyg fyddai i ni gymeryd arnom y gwaith o benderfynu rhyngddynt. Hyn sydd sicr, ac i'w ganfod yn eglur, fod llawer mwy nag a feddyliasom ni erioed, yn y geiriau hyny o eiddo ein Hiachawdwr, pan y dywedodd, "y daw rhai o'r dwyrain, ac o'r gorllewin, ac o'r gogledd, ac o'r deheu, ac a eisteddant yn nheyrnas Dduw;" a bod argoelion nad oes ond ychydig bachigyn eto, a'r Hwn sydd yn dyfod a ddaw ac nid oeda," ac "yn y dydd hwnw yr udgenir âg udgorn mawr; yna y daw rhai ar ddarfod am danynt yn nhir Assyria, ac a addolant yn y mnydd sanctaidd yn Jerusalem."

DOLENAU Y GADWEN.

CAPODD ein darllenwyr olwg ar ddarnau helaeth o'r "Gadwen"—yn ol fel y mae yr ysgrifenyddwr pabaidd eu hunain yn taeru y dylent fod ynghyd, y naill ddolen ar ol y llall; er y rhaid cyfaddef "nad yw eu tystiolaeth hwy felly yn gyson" chwaith; ond gwnaethom ein goreu i'w casglu at eu gilydd, fel y maent yn cytuno ar y cyfan. Cofier mai y darn diweddaf oedd "Sodomiaid Moethus." Wedi i foethau gyrhaedd ei llawn ddymuniad, ymsoddodd yn fuan iawn i swyngyfaredd. Gan hyny, na ryfedder, os, ar ol "Sodomiaid Moethus," y daw "Swyngyfareddwyr Aiphthaid" i gymeryd eu lle. Y mae y darn hwn yn cynnwys deugain dolen, am yr yspaid o ddau cant a deugain o flyneddau, yn y drefn ganlynol:—

1. Sylvester II., o.c. 999, Ffrancwr, a ddygwyd i fyny yn mynachlog Floriack, lle yr oedd dewiniaeth y pryd hyny yn cael ei hystyried yn rhan ragorol o ddysg. I berffeithio ei ddehurwydd yn y gelfyddyd hon, efe a hudodd Saraceniad allan o'i lyfr dewiniaeth, trwy offeryniolaeth ei ferch. Yna efe a werthodd ei hun i'r diafol, ar yr ammod y gwnai ei ddwyn yn ol drachefn i Ffrainc, a rhoddi iddo ddyrchafiaethau. Pan ddychwelodd yn ol i Ffrainc, daeth yn hynod mewn dysg; ac ymlith eraill oedd ganddo fel ysgolorion enwog yn y gelfyddyd ddu, yr oedd Theophycalt, Lawrence, Mafiltane, Brazutus, a John Gratian. Trwy y rhai hyn a moddion eraill, y daeth yn gyntaf yn esgob Rheims, yna yn archesgob Ravenna, yna yn bab. Tra yr oedd ar y sedd hono, yr oedd yn celu, ond trwy yr holl amser yn dirgel ymarfer, ei ddirgeledigaethau diaflaidd. Efe a ymfynodd unwaith â'r orael Delphaid, pa hyd y byddai byw, a'r ateb a roddwyd oedd, mai hyd oni ddywedai *mass* yn Jerusalem. Gwnaeth hyn ef yn hyderus iawn y cai hir ddyddiau; ond efe a dwyllwyd trwy ddaueiriogrwydd y diafol, yr hwn a'i cipiodd ymaith tra yn dyweyd *mass* yn eglwys St. Cross, yn un o sefydliadau y Grawys, yr hon a elwid weithiau yn Jerusalem, ac am yr hyn ni feddylidod ef yn flaenorol. Dywedir iddo edifarhau; ac i ddangos ei eirwiredd, efe a ddymunodd fod i'w ddwyllaw, ei dafod, a'i aelodau eraill, â pha rai y digiodd Dduw, gael eu tori ymaith, ac yna eu rhoddi mewn cludfa, yr hyn a wnaed; a darfu i'r anifeiliaid, o honynt eu hunain, eu tynu hwynt i eglwys y Lateran, lle y mae ef yn gorwedd; a thrwy drwst ei esgyrn yn y bedd, efe a ragfynegodd farwolaeth ei ganlyniedydd. Dyna yr hen hanesion a gofrestrir am dano. Y mae Onuphrius, Ciaconius, Bellarmine, a phabyddion diweddar eraill, yn gwrthod hyn oll fel ffughanes: am yr hyn, er hyny, nid oes ganddynt neb i'w beio ond eu blaenafaid eu hunain. Ei amddiffynwyr a ddywedent y cyfrifid ef yn ddewin, oblegid ei fod yn seryddwr enwog, yr hyn oedd yn beth anghyffredin yn yr amserau tywyll hyny. Wedi ychydig mwy na phedair blynedd, daeth

2. John, o.c. 1003, a elwid Siccus, meddai Blond, yr hwn y mae y rhai sydd yn gadael allan y pab Siwan, a John y Groegwr, cydymdynydd â Gregory V., allan o'r gadwen, yn ei gyfrif yr XVII. yn unig; ond y mae y rhai sydd yn eu rhoi hwynt ill dau yn ddolenau i mewn, yn dyweyd mai y XIX. ydoedd. Yr ydym ni yn cymeryd *meistres* Siwan i mewn, ac yn

peidio cyfrif John, yn gwneyd hwn yn John XVIII. Dywed Benno am dano, ei fod wedi ymroi i ddewiniaeth, fel ei ragflaenor. Cymerodd oddiar y bobl yr hawl o ethol y pab, ar y sail mai rhai i gael eu dysgu yw y bobl, ac nid i'w dilyn. Efe a benododd Wyl-yr-holl-saint, ar freuddwydion Odolo ac ymddyddanion Gregory. Meddylir mai ei wenwyno a gafodd, fel y byddai i un cystal ag ef ei hun,

3. John XIX., o.c. 1003, a elwid Psanus, allu cymeryd ei le ef. Dywed Benno, fod yr holl babau, o amser Sylvester II., i Hildebrand, neu Gregory VII., a chymeryd y ddau hyn hefyd, yn ddewiniaid gorcheiniol. Ychydig a wnaed gan y pab hwn, heblaw cyfodi eneidiau, fel y dywedent, i beri i bobl gredu yn athrawiaeth y purdan, a'r anghenheidrwydd am gynnorthwy offeiriad.

4. Sergius IV., o.c. 1009, Rhufeiniad, yr hwn y dywedir am dano mai dyn diniwed a llawen ydoedd. Dywed Ciaconius, mai efe a sefydlodd saith etholwyr Germani; ond nid yw hyny debygol.

5. Benedict VIII., o.c. 1012, Tuscaniad, a ddilynodd; yr hwn y dywedir ei weled wedi ei farwolaeth, ar farch du, ac yn cyfaddef ei fod yn cael ei boenydio yn fawr; ac yn deisyf ar yr esgob, i'r hwn yr ymddangosodd, i gael gan Odolo o Cluniark weddio drosto, a dywedyd wrth

6. John XX., o.c. 1024, am gymeryd trysor, yr hwn a ganfu ef yn guddiedig mewn lle neillduol, a'i ranu i'r tlodion, er lles ei enaid ef. Yr oedd y John hwn, a Benedict VIII. hefyd, yn feibion i esgob Portua. Gobeithio mai mewn piodas y ganwyd hwynt. Eu nai,

7. Benedict IX., o.c. 1034, a gadwodd y gader yn y teulu. Theophylact y gelwid ef o'r blaen, ac yr oedd yn gydysgolor â Lawrence, a John Gratian, y dewiniaid, y rhai a wnaeth efe yn gardinaliaid. Yr oeddynt yn arfer crwydro yn y coed, yn gweddio ar gythreuliaid, ac yn swyno merched i ddyfod ar eu hol. Darfu i Lawrence, un o'r haid, ddyweyd wrth y bobl fod aderyn y tŷ wedi dwyn newydd iddynt fod trysor yn barod iddynt, trwy ddadymchweliad cludfa. Anfonwyd Pedr o Hungari, gan y pab hwn, i roddi ymaith Harri III. o fod yn olynwr ei dad yn yr ymherodraeth. Ond rhoddwyd Pedr i lawr yn fuan trwy wroldeb Harri; a dyehrynwyd Benedict mor fawr, fel y gwerthodd y babaeth i John Gratian, ei gydymaith, am y swm o bymtheg cant o bunnau. Ond rhwng bargaen Gratian a'r babaeth, neidiodd i mewn

8. Sylvester III., o.c. 1044, Rhufeiniad, ac esgob Sebina, mab i Lawrence y consuriwr. Gwnaed hyn tra yr oedd Benedict yn fyw, yr hwn yn gyflym a adfeddiannodd ei sedd drachefn, gan gau Sylvester allan, a phenodi un Oashimere, mynach, yn frenin y Poloniaid. Y mae rhai yn gadael allan y pab hwn yn hollol, oblegid iddo gael ei wthio i ffordd gan Benedict; oddiwrth yr hwn y derbyniodd John Gratian, Italiad, yr agoriadau, o dan yr enw

9. Gregory VI., o.c. 1045; felly yr oedd yma dri o babau ar yr un amser; sef Benedict, Sylvester, a Gregory, yr hyn y mae Ciaconius yn ei alw yn ugeinfed sism, neu doriad yn y gadwen, ond y pedwerydd ar ddeg ydoedd, meddai Bellarmine. Yr oedd Benedict yn y Lateran, Sylvester yn St. Pedr, a Gregory yn St. Mary. Ond daeth yr ymherawdwr i gadw heddwch rhyngddynt, ac i yru Benedict i gymeryd ei draed; anfonodd Sylvester adref i'w esgobaeth, ac alludiodd Gregory i Germani, gyda'i ysgolor Hildebrand; ac a roddodd yn y gader,

10. Clement II., o.c. 1047, esgob Bemberg, yr hwn oedd y pedwerydd pab yn awr yn fyw. Efe, trwy awdurdod cymanfa, a wnaeth i'r Rhufeiniaid wneyd llw o ymwrthodiad o'u hawl i ethol y pabau. Ond colynodd hyn hwynt gymaint, fel pan ymadawodd yr ymherawdwr, y gwenwynasant y pab. Brazutus oedd y cydymgeisydd; ond

11. Damasus II., o.c. 1048, Bavariad, a lwyddodd i gael y lle; yr hwn, wedi ei gadw dair wythnos a dau ddiwrnod, a'i colodd, trwy ddyylanwad Brazutus. Ond anfonodd yr ymherawdwr Bruno, esgob Germanaidd, i lenwi ei le ef; yr hwn a gymerodd yr enw

12. Leo IX., o.c. 1049. Fel ag yr oedd yn myned i Rufain o Germani, yn ei wisgoedd swyddol, syrthiodd i gyfeillach Hildebrand, yr hwn a'i perswadiodd, druan, i ddyosg ei wisgoedd, gan ymwrthod â'i etholiad gan yr ymherawdwr, a cheisio etholiad newydd gan offeiriaid Rhufain. Felly y gwnaeth, a gwnaed Hildebrand yn gardinal, yr hwn oedd yn cael trefnu pob peth fel y mynai ei hun. Efe a'gynnaliodd ymgynghorfa yn Versailles, yn erbyn Beringarius; ond yn fuan wedi hyny, cafodd fynedfa gan Brazutus, gan adael ei sedd i'w gydwladwr,

13. Victor II., o.c. 1055, yr hwn a dderbyniwyd gan y Rhufeiniaid, yn fwy rhag ofn yr ymherawdwr, nag o serch tuag ato. Anfonwyd cardinal Hildebrand i Germani, i benodi Harri ieuanc yn etifedd i'r ymherodraeth. Ar ei ddychweliad, darfu i Brazutus, âg un o'i belenau, roi Victor o'r neilldu, a Sorayner hefyd.

14. Stephen IX., o.c. 1057. Gwthiwyd ef i'r gader heb gydsyniad yr ymherawdwr. Efe a ddarostyngodd Milan i'r esgobaeth Rufeinig; a gynnaliodd ymgynghorfa yn Rhufain yn erbyn yr offeiriaid priodasol, a'r rhai a gymerent fywioliaethau gan lëygwyr. I ddiwygio y pethau hyn, yr anfonwyd Hildebrand, fel negesydd, i Burgundy, i lleoedd eraill; ond darfu i Brazutus, gerllaw cartref, anfon Stephen ar hyd ffordd ei holl dadau. Yna un Mincius, Campaniad, a lamodd i mewn o dan yr enw

15. Benedict X., o.c. 1057. Ond, gan iddo gael ei benodi heb gydsyniad Hildebrand, ac yn ei absenoldeb, cynnalwyd ymgynghorfa yn Sutrinum, yn yr hon y diswyddwyd Benedict, ac y rhoddwyd Gerard, esgob Florence, cydymaith Hildebrand, yn y gader, wrth y cyfenwad o

16. Nicholas II., o.c. 1059. Benedict, wedi ei ddiswyddo felly, a fu farw mewn alludiaeth, ac nid yw rhai yn ei gyfrif ymhlith y pabau. Ymdrechodd Nicholas i sicrhau i'r cardinaliaid yr hawl o ethol y pabau, a llwyddo gyda Beringarius i alw yn ol ei dybiau yn erbyn traws-sylweddiad. Medrodd Hildebrand gael archddiaconiaeth Rhufain gan y pab; ac yna, daeth Brazutus â'i gwpan, ac a yrodd Nicholas at ei farnwr. Gallasem feddwl mai Hildebrand a lwyddai nesaf; ond

17. Alexander II., o.c. 1061, Milanesiad, a ddygwyddodd gael ei ddewis. Cyfodwyd Cadolus, esgob Portua, i fyny yn ei erbyn ef, a daeth i Rufain ddwy waith gyda byddin, ond efe a gilgwithiwyd yn ol bob tro. Cwynai yr ymherawdwr fod Alexander wedi ei ethol heb ei ganiatâd ef. Taerai Hildebrand yn galed nad oedd gan yr ymherawdwr ddim hawl yn etholiad y pabau. Yr oedd Alexander yn hytrach yn pleidio hawl yr ymherawdwr, ond efe a gurwyd gan Hildebrand, yna a garcharwyd, ac o'r diwedd a wenwynwyd. Yn awr daeth Hildebrand, yr Hetruriad, i mewn, o dan y cyfenw,

18. Gregory VII., o.c. 1075, heb ei ethol gan neb, yr ymherawdwr na'r

offeiriad, ond yn hollol trwy ei offerynoliaeth ei hun. Yr oedd efe wedi rhoi Brazutus ar waith i wenwyno rhyw chwech neu saith o babau, cyn y gallai gyrhaedd y babaeth ei hun. Arferai wneyd i'r bobl gredu y gallai ysgwyd tân allan o'i lewys, y rhai ar hyny a floeddient, "Pedr yr apostol a ddewisodd Hildebrand i fod yn bab." Efe a benderfynodd fod yn erbyn yr ymherawdwr, a gosododd fradwriaeth, fel, pan elai i weddio i St. Mair, yn mryn Adventine, fod i ddrygddyn dreiglo maen o'r nen, a churo ei ymenydd ef allan; ond dygwyddodd mai y gweithredydd ei hun a fu y lladdedig. Efe a esgymunodd yr ymherawdwr, ac a anfonodd goron i Rodolphus, duc Suavia, i beri iddo wrthryfela yn erbyn ei feistr; ond methodd yn ei amcan: ac felly hefyd Horman, *Count* Lucelburgh, yr hwn a geisiodd nesaf am fywyd yr ymherawdwr, trwy roi gwraig i dafu careg ato, pan oedd yn gwarchae rhyw gastell yn Germani. O'r diwedd, efe a gafodd y fath fantais ar yr ymherawdwr fel y cafodd ganddo ddyfod ato i'w gastell yn Canusium, gyda'r ymherodres a'u mab, yn droednoeth, yn oerni y gauaf; ac efe a'u cadwodd yno yn dysgwyl ac yn ymptydio am dri diwrnod cyn y caniatâi wrandawriad iddynt; a'r hyn a gaed yn y diwedd trwy eiriolaeth *Madam* Matilda, gwenieithwraig y pab, neu ferch St. Pedr, fel y galwent hwy hi, yr hon a adawodd ei gwr i fyw gyda'r "tad sanctaidd" hwn. Efe a gondemniodd opiniynau Berengarius yn erbyn y presennoldeb corfforol yn y sacrament, ynghyd â phriodasau offeiriad; a seintiolodd Liberius, yr Ariad, ac a gyflawnodd y creulondeb a fynai yn erbyn mab i wraig weddw, troed yr hwn a dorodd ef ymaith. Ond o'r diwedd, daliodd dialedd yntau; canys efe a ddiswyddwyd mewn ymgynghorfa yn Brixia, a bu farw yn druenus mewn alludiaeth. Y mae y Pabyddion er hyny yn ei ganmawl. Ceisiwyd rhoddi un Clement i fyny yn ei le yn ei fywyd, ond

19. Victor III., o.c. 1086, Italiad, a lwyddodd, yr hwn a dafwyd i mewn gan Matilda, a'r hwn, oblegid hyny, a amddiffynodd holl weithrediadau Gregory, ei ragflaenor. Er hyny, ni pharhaodd hyn yn hir, canys efe a wenwynwyd gan ei is-ddiacon, yn nghwpan y cymun. Mynach o Cluny,

20. Urban II., o.c. 1088, Hetruriad, a gymerodd ei le ef, yr hwn oedd wedi eu harwyddo âg arwydd y groes, i adfeddiannu y Tir Sanctaidd allan o feddiant yr anffyddwyr, o dan lywyddiaeth Godfrey Bulloigne. Er hyny, darfu i John, dinesydd o Rufain, beri iddo, o'r diwedd, guddio ei ben yn nhŷ Pedr Leo, lle y rhoddodd i fyny ei ysbryd anesmwyth.

21. Paschal II., o.c. 1099, un arall o gywion Hildebrand, a ddaeth yn ei le ef. Efe a esgymunodd Harri IV., ac a gefnogodd ei fab, Harri V., i'w erlid i farwolaeth; ac yna a nacodd iddo gladdedigaeth Gristionogol am bum mlynedd. Ac ni chytunodd ronyn gwell â Harri V.; canys efe a wadodd ei hawl o roddi esgobion yn eu lleoedd, a rhagorffreintiau eraill; am yr hyn y cymerodd yr ymherawdwr afael ynddo; ond efe a ryddhaodd ei hun trwy lŵ difrifol, i beidio gwrthsefyll yr hawl ymherodrol mwy. Ond mor gynted ag y troes yr ymherawdwr ei gefn, a gadael yr Eidd, gwnaeth "ei sancteiddrwydd" ei lŵ yn anudon, ac a esgymunodd y pab

mor ddirifol ag yr esgymunodd y tad o'r blaen. Efe a groesawodd Anselm, archesgob gwrthryfelgar Canterbury, ac a'i oesnogodd yn erbyn ei frenin, Harri I., ond cadwodd y teyrn hwnw ef ddigon pell oddiwrtho. Gwaharddwyd priodasau yr offeiriaid eto gan yr ysgolor hwn i Hildebrand. Gwnaeth hefyd lawer iawn o gardinaliaid. Dywed Ciaconius ddarfod i Albert a Theodoric osod i fyny wrth-bab yn ei erbyn. Ond

22. Galasius II., o.c. 1118, a gafodd y ffawd o gael y lle, ond nid heb lawer o wrthwynebiad gan Cincius Frangepanium, yr hwn a ymosododd ar y cynnulliad, a gurodd y cardinaliaid, ac a dynodd y pab newydd oddiar ei farch, hyd oni ddaeth y bobl i'w achub o'i ddwyllaw, a gwneyd i Frangepanium ymostwng. Yna daeth Harri yr ymherawdwr arno, gan roddi Maurice Bardine ar y sedd yn ei erbyn, wrth y cyfenw o Gregory VIII., fel y bu orfod iddo ffoi i Ffrainc, lle y bu farw yn fuan o'r eisgliwyf (*pleurisy*), wedi iddo yn gyntaf esgymuno yr ymherawdwr, a rhyddhau y temlwy'r oddiwrth eu rhwymedigaeth i batriarch Jerusalem. Ond ni allai Bardine, etholedig yr ymherawdwr, gadw y lle.

23. Calixtus II., o.c. 1119, Burguniad, a ddaeth iddo. Efe a barhaodd yr esgymundod yn erbyn yr ymherawdwr, mewn ymgynghorfa a gynnalwyd yn Germani; gwnaeth i'r ymherawdwr ymostwng iddo, ac yna a roddodd olyngdod iddo. Efe a gamdriniodd Bardine, pab yr ymherawdwr Gregory, yr hwn a roddodd ef ar gamel, â'i wyneb at ei gynffon, ac yna a'i heilliodd, ac a'i tafodd i fynachlog.

24. Honorius II., 1124, Idaliad, a ddaeth nesaf, ond nid heb wrthwynebiad mawr oddiwrth ddau eraill, y rhai a gyfodwyd i fyny yn ei erbyn ef. Dywed Platina wrthym, i un Arnulphus, yr hwn, meddai Bale, oedd yn Sais, gael ei ferthyru yr amser yma yn Rhufain, am bregethu yn erbyn rhodres a gorwagedd yr offeiriaid. Ei gydwladwr

25. Innocent II., o.c. 1130, a ddaeth i mewn yn ei le ef; yr hwn a wrthwynebwyd gan wrth-bab, a elwid Anacletus, yr hwn a gefnogid gan Roger, brenin Sicily, yr hwn a wnaeth i'r pab hwn ddianc i Germani a Ffrainc, i osod ei hun yn iawn. Darfu i'r ymherawdwr Lotharius ei roddi ar ei orsedd trwy fyddin arfog. Ond mynodd Roger, brenin Sicily, godwm arall âg ef, ac a'i carcharodd ef a'i gardinaliaid, nes iddo ei gydnabod ef yn frenin y ddwy Sicili, yr hyn a wnaed, ac felly ystyriwyd Sicili yn rhoddiad St. Pedr. Ei olynwr, Tuscaniad,

26. Celestine II., o.c. 1143, wedi ei roddi i mewn gan Cōnrade, yr ymherawdwr, a eisteddodd amser mor fŷr fel nad oes dim i'w ddywedyd am dano. Nid llawer hwy yr arosodd

27. Lucius II., o.c. 1144, Bononiad; canys pan aeth oddiamgylch i ddileu swydd o bendeigaeth, ac ymosod ar y brif ddinas â milwyr, efe a lofruddiwyd â meini gan y dinasyddion, fel y bu farw yn fuan, a chymerwyd ei le ef gan

28. Eugenius III., o.c. 1145, brodor o Pisan, ac ysgolor i St. Bernard. Yr oedd Eugenius yn eithaf awyddus i helaethu ei awdurdod; ni fynai ganiatau i'r Rhufeiniaid gael dewis eu seneddwy'r eu hunain, na'r pendefigion yr un hawlfraint. Darfu i hyn gynddeiriogi y bobl gymaint yn ei erbyn fel y bu gorfod iddo adael Rhufain a ffoi i Ffrainc, lle y bu am beth amser, nes i bethau ymheddychu.

29. Anastatus IV., o.c. 1153, Rhufeiniad, a gymerodd ei le ef, ond ni wnaeth ddim o werth ei gofnodi, heb law rhoi cwpan gymun fawr i eglwys y Lateran, tra y gwenwynwyd William, archesgob Caerefroc.

30. Adrian IV., o.c. 1154, Sais, a'i dilynodd ef, enw yr hwn o'r blaen oedd Nicholas Breakspear. Efe a ymrafaeliodd â Frederic yr ymherawdwr am beidio dal ei wrthaf yn iawn, fel marchwas medrus, ac wedi hyny efe a'i hesgymunodd am hōni ei hawliau, ac ysgrifenu ei enw o flaen y pabau. Efe, ymhellach, gyda'i gardinaliaid, a fradfwriadodd i andwyo yr ymherawdwr, ac a anfonodd rhyw ddyhiryn i'w wanu, ac un arall i'w wenwyno; ond tra yr oedd efe fel hyn yn ceisio am fywyd yr ymherawdwr, efe a dagwyd gan wibedyn, a aeth i'w wddf. Dilynwyd ef gan

31. Alexander III., o.c. 1159, Hetruriad, yr hwn a wrthwynebodd ei benadur yn y modd mwyaf bradwriaethus. Cafodd ei ethol yn nghanol gwrthwynebiad mawr, gan fod Victor, Paschal, Calixtus, ac Innocent—oll yn honi hawl i'r lle. Daeth yr ymherawdwr i Papia i ostegu y cythrwfl, ac anfonodd am Alexander i'w gyfarfod; ond efe, yn lle ufuddhau i'r wŷs, a esgymunodd yr ymherawdwr a'i wrthwynebwyr ei hun, a thrwy gynnorthwy brenin Ffrainc, a'i bwrs ei hun, efe a sefydlodd ei hun yn Rhufain. Daeth yr ymherawdwr gyda byddin i gilgwthio ei haerllugrwydd; ond darfu i Flactman, esgob Brixia, trwy gymhelliad effeithiol, ei droi oddiwrth y pab yn erbyn y Saraceniaid. Yn yr ymosodiad hwn, bu yn llwyddiannus; a phan ddychwelodd yn ol cafodd wybod y tro cyntaf am fradwriaeth y pab, yr hwn a anfonasai ei bortread i'r Sultan, fel na fethai osod magl i'w elyn. Yn y modd hyny a daliwyd ef a'i gapelwr, tra yr oedd-ynt wedi myned i ymdrochi mewn afon yn Armenia, a dygwyd hwy ger bron y Sultan, wedi eu hadnabod trwy y portread. Ymddygodd y Sultan yn foneddigaidd tuag ato, ac a'i diogelodd ar ei ffordd adref, can belled a Brixia. Darfu i dywysogion yr ymherodraeth gyduno i ddiâl am y fradwriaeth hon; a diangodd y pab i Venice, lle y noddwyd ef gan y duc Sebastian. Anfonwyd Otho, mab yr ymherawdwr, gyda byddin i warchae arno, a gorchymyn na ymladdai hyd nes y cyrhaeddai ei dad yno; ond efe, trwy droseddu y cyfarwyddiadau a roed iddo, a orchfygwyd, ac a gymerwyd yn garcharor. Bu orfod i'r tad tîrion, er gwaredu ei fab, ymostwng, yn eglwys St. Marc, yn Venice, ger bron y pab, yr hwn, gan roddi ei droed ar ei wddf, a lefarodd eirian y Salmydd, "Ar y llew a'r asp y cerddi," &c. Poenwyd Harri II., brenin Lloegr, yn fawr iawn gan y pab hwn, oblegid marwolaeth Thomas à Becket, o Canterbury, yr hwn a wnaethpwyd gan y pab yn St. Thomas, am wrthsefyll ei frenin cyfreithlawn; ac ar i'r brenin ymostwng i fflangelliad greulawn, efe a ganiataodd iddo ef a'i etifeddion y titl o "Frenin Lloegr." "Am hyny," meddai Platina, "rhaid i holl freninoedd Lloegr gydnabod y pab yn dir-arglwydd arnynt." Yn amser y pab balch hwn y safodd y Waldensiaid dros y gwirionedd, ac y cynnyddasant yn nghanol erlidigaeth fawr. Cadwodd ef y lle dros un mlynedd ar hugain.

32. Lucius III., o.c. 1181, ei gydwladwr, a'i rhoddes hi i fyny yn fuan. Yr oedd Rhufain, pan oedd yn cael ei ethol gan y cardinaliaid, wedi cynyddeiirigi gymaint, fel yr anmharchasant ei holl bleidwyr, gan eu rhoi ar fulod, a'u gwynebau wedi eu duo.

33. Urban III., o.c. 1185, Milanesiad. Efe a gynhyrfodd y Cristionogion i wrthwynebu Saladin fuddygoliaethus; ac yr oedd arno eisieu esgymuno yr ymherawdwr, oblegid iddo ei wrthwynebu ef yn ei gynlluniau; ond efe a attaliwyd gan farwolaeth: felly hefyd

34. Gregory VIII., o.c. 1188, Apuliad, ei ganlynyddydd, yr hwn oedd yn

ymdrechgar iawn yn yr un gorchwyl, o rod-di y Cristionogion yn erbyn y Saraceniaid, fel y gallai y pabau gael yr holl lywodraeth yn eu habsennoldeb. Efe a geisiodd uno y Pisaniaid a'r Geneoseniaid, ymhlith y rhai y tybir y cafodd ei wenwyno.

35. Clement III., o.c. 1188, Rhufeiniad, yr hwn a'i dilynodd ef, a lwyddodd yn well yn ei wrthwynebiad i'r Saraceniaid. Canys ar ei gais ef y darfu i Frederic yr ymherawdwr, Philip o Ffrainc, a Richard o Loegr, gymeryd y gorchwyl arnynt eu hunain; ond ychydig a wnaethant. Efe a esgymunodd y Daniaid am bleidio priodas yr offeiriad, ond a gymmododd y gwahaniaeth o berthynas i uchafiaeth, oedd rhwng dinasyddion Rhufain a'r offeiriad, trwy ganiatâu eu hawl i'r senedd-wyr a'r pendeigion; yr hon ddadl oedd wedi parhau er amser Innocent II. i'r Clement III., hwn—yspaid o fwy na hanner can' mlynedd.

36. Celestine III., o.c. 1191, Rhufeiniad, yr hwn a ddaeth ar ei ol ef. Er ei fod yn hen ddyn, yr oedd mor zelog dros y rhyfel sanctaidd hwn ag oedd ei ragflaenyddion. Pan ddaeth Harri VI. gyd â'i ymherodres i Rufain i'w coroni ganddo, efe a osododd y goron, nid â'i ddwyllaw, ond â'i draed, a chan ei chicio hi ymaith drachefn, efe a ddywedodd, "Y mae genyf fi allu i wneyd, ac i ddadwneyd ymherawdwr." Un dyhir iawn oedd y Celestine hwn, ac yr oedd ei olynwr

37. Innocent III., o.c. 1198, Campaniad, yn bob peth ond arwyddocâd ei enw. Efe a gynnaliodd gynghorfa fawr Lateran, o dan y *ffug* o adfeddiannu Jerusalem, ond mewn gwirionedd er diswyddo yr ymherawdwr, am gadw yn ei feddiant, fel y taerai ef, rai o hawliau yr Eglwys. Ganddo ef y sefydlwyd dirgel gyffesiad, ac y cymerwyd y gwpan oddiwrth y llëygyddion. Pan gafodd Philip yr ymherawdwr ei ddewis heb ei gydsyniad, efe a ardstyiodd, "Naill ai mi a'i digoronaf ef, neu efe a'm digorona i." Ar hyny efe a gyfododd Otho yn ei erbyn, yr hwn a'i lladdodd. Efe a ddiswyddodd John, brenin Lloegr, ac a gadwodd y deyrnas heb frenin am yspaid chwe' blynedd. Pan roddwyd ef yn ei le yn ol gan Pendulph, negesydd y pab, efe a'i dirwyodd ef i wyth mil o farciau, yn flyneddol, am daliad o'r hyn i'r pab yr oedd yn dâl y deyrnas ar ardreth. Ar ei ol ef y daeth

38. Honorius III., o.c. 1216, Rhufeiniad, yr hwn oedd yn awyddus iawn am feddiannu y Tir Sanctaidd. Efe a goronodd Frederic II., ymherawdwr Germani, ac a'i cynhyrfodd yn erbyn Otho XIV.; ac eto, efe a'i tafodd ymaith wedi hyny, am ofyn ei hawliau. Efe a fu farw, gan adael yn ei le

39. Gregory IX., o.c. 1227, Campaniad. Efe a esgymunodd Frederic, yr ymherawdwr, yr hwn a anfonasai ef i adfeddiannu y Tir Sanctaidd, fel y gallai ef gael Apulia a Lombardi oddiarno, yn ei absennoldeb. Trwy lawer o drafferth, ac yn ddrud iawn, y cafodd yr ymherawdwr ollyngdod.

40. Celestine IV., o.c. 1241. Ymron ar ei fynediad ef i'w swydd, derbyniodd ryw gymysgedd a anmharodd ei gylla, ac a'i hanfonodd at ei ragflaenyddion. Gwnaed yr un modd â Robert Summaton, neu Sommerleit, Sais, oblegid iddo gael ei gynnyg yn bab. Bu y lle yn wag am un wythnos ar hugain, nes i'r ymherawdwr, ar ddeisyfiad Baldwin, yr ymherawdwr dwyreiniol, a Raymond o Toulouse, ryddhau y cardinaliaid a garcharasai ef, a chaniatâu iddynt gael etholiad.

Yn yr yspaid hwn yr ydym yn cael, heblaw llu o gonsurwyr a gwen-

wynwyr, haid o wrthryfelwyr dieffig, yn camddefnyddio crefydd i liwio eu bwriadau drygionus. Dyoddefniadau y Waldensiaid oeddynt uwchlaw dirnadaeth.

Oddiwrth y swyngyfareddwyr Aiphtaidd yr ydym yn cael darn arall o'r gadwen—cynddrwg a hwythau, y rhai y gellir eu galw yn ddolenau o DDINYSTRWYR GWANCUS, y rhai a gadarnhasant eu plaid trwy lu o fynachod *Janisaraidd*, ag oedd yn difa pob peth o'u blaen am yspaid o ddau cant a hanner o flyneddau—yn cymeryd i mewn un a deugain o ddolenau. Y gyntaf o'r rhai hyn oedd

1. Innocent iv., o.c. 1243. Efe a gyhoeddodd y *pedwerydd* esgymundod yn erbyn yr Ymherawdwr Frederic, yr hwn a fuasai ei gyfaill goreu; cynnaliodd yngyghorfa yn Lyons, ac a'i diswyddodd ef, gan osod Harri o Thuring yn ei le, ac ar ei ol William o Holland, a llu mawr o filwyr y groes, y rhai a nododd y pab allan fel ei fwystflod ei hun. Ond tafodd yr ymherawdwr ei goron i lawr, gan amddiffyn ei hun yn wrol, nes o'r diwedd iddo gael ei wenwyno trwy awgrymiad y pab, a'i fogi gan ei fab ordderch, Manfred. Y pab hwn oedd unig gefnogwr y locustiaid begeraidd hyny, y Dominiciaid, y Carmelïaid, a'r Augustiniaid. Cynnygiodd werthu teyrnas Sicili i Harri III. am bris rhesymol, yr hyn a allasai yn hawdd, gan mai nid ei eiddo ef ydoedd. Efe a ymrafaeliodd â Robert Grostead, Esgob Lincoln, yr hwn a'i gwrthwynebodd yn ffyrnig, ac a heriodd ei esgymundod. Ei olynnydd ydoedd

2. Alexander iv., o.c. 1254. Yr oedd efe yn hollol dros Apulia, ac a esgymunodd Manfred. Defnyddiodd yr arian a gasglwyd i adfeddiannu y Tir Sanctaidd, i gyflawni ei ddybenion ei hun. Efe a lwgr-wobrwywyd i wneyd Richard, iarll Cernyw, brawd Harri III., yn frenin Germani.

3. Urbane iv., o.c. 1261, a ddilynodd, yr hwn a fuasai o'r blaen yn batriarch Jerusalem. Efe a barhaodd i wrthwynebu Manfred o Sicili, marwolaeth yr hwn a gwblhaodd trwy Charles, ei frawd, brenin Ffrainc. Gwrthwynebodd y Rhufeiniaid i eithaf ei allu, oblegid iddynt benodi ynad heddwch newydd yn eu plith, a elwid Bandases, i'r hwn y rhoesant allu ar fywyd a marwolaeth.

4. Clement iv., o.c. 1265, Ffrancwr, a ddaeth nesaf, yr hwn oedd ganddo o'r blaen wraig a thri o blant. Efe a drosodd Naples i'r Ffrancod, ac a anfonodd Octobonus i Loegr, i gymeryd cyfrif o werth cyllidau yr Eglwys. Ond yn nghanol terfysg ymhlith y cardinaliaid, efe a wsiwyd gan angu ei roddi ei gyfrif i Dduw.

5. Gregory x., o.c. 1271, Lombardiad, a wthiwyd i'w le ef. Efe a wnaeth Beneventure yn gardinal, a Phedr de Terentesia yn gardinal Hostia. Efe a goronodd Radulphus o Acespurg yn ymherawdwr, yr hwn a omeddai fyned i Rufain i gymeryd meddiant o honi. Pedr de Terentesia a'i dilynodd ef, wrth y cyfenwad o

6. Innocent v., o.c. 1276, Burgundiad, y pab cyntaf o'r mynachod cardodawl. Efe a ymdrechodd i gael heddwch rhwng pob plaid, ond bu farw cyn gallu cwblhau dim.

7. Adrian v., o.c. 1276, a ganlynodd, yr hwn a elwid o'r blaen Octobonus. Bu ef farw cyn cael ei gysegru, trwy gwmp tŷ newydd, medd rhai; ond dywed eraill mai hyny oedd diwedd

8. John xxi., o.c. 1277, meddyg Portugaidd. Dywed Platina mai dyn gwag ydoedd.

1850.]

9. Nicholas III., o.c. 1277, Rhufeiniad. Efe a gauodd faes i fagu ysgyfarnogod er difyrwech i'w sancteiddrwydd. Yr oedd yn wancus am swyddau i'w geraint.

10. Martin IV., o.c. 1281, Ffrancwr, a'i dilynodd, yr hwn a esgymunodd Pedr o Arragon, ond ni wnaeth efe sylw o hono, eithr cadarnhaodd ei hun trwy Paleologus. Cadwodd buteinwraig ei flaenorydd, Nicholas. Parhâwyd esgymundod Pedr o Arragon gan

11. Honorius IV., o.c. 1285, Rhufeiniad, yr hwn ni wnaeth fawr ychwaneg na chadarnhau y mynach-urdd Augustinaidd, a pheri i'r Carmeliaid gwynion gael eu galw yn frodyr ein Harglwyddes Mair Forwyn. Er hyny, ni wnaed cymaint a hyna gan

12. Nicholas IV., o.c. 1288, Ffranciaid Italaidd, yr hwn a fu farw, meddai rhai, o dŵr calon, wrth weled yr eglwys a'r wladwriaeth yn y fath annhrefn anfeddyginiaethol. Wedi i'r cardinaliaid fod yn ymrafaelio am ddwy flynedd, hwy a ddewisasant

13. Celestine V., o.c. 1294, Italiad, meudwy. Efe a ymosododd yn benderfynol ar ddiwygio yr eglwys, ond a rwystrywdd gan rywun a gymerai arno fod yn angel, a'r hwn a lefarodd wrtho trwy dwll yn y mur, gan ddywedyd, "Celestine! Celestine! Dyro dy gader i fyny, canys y mae tuhwnt i'th alluoedd," a throes ef yn feudwy yn ol. Ond ni chadwodd hyn ei fywyd rhag eiddigedd

14. Boniface VIII., o.c. 1294, Campaniad, yr hwn a'i twyllodd, fel ag i beri iddo gael ei garcharu, ac yna ei ddystrywio. Dywedir am hwn, iddo fyned i mewn fel llwynog, teyrnasu fel llew, a marw fel ei. Dygodd i mewn y Jubili Iuddewig; a mynodd ddwyn dau gleddyf o'i flaen, ac ymddangosodd yn gyhoeddus mewn gwisgoedd ymherodrol, yn gystal a gwisgoedd Pabyddol, i arddangos fod ganddo ef awdurdod ar ddau gleddyf yn yr eglwys, allan o ba un nid oes iachawdwriaeth. Efe a arferodd greu-londeb mawr yn erbyn llaweroedd, trwy yr hyn y dygodd arno ei hun farw-olaeth warthus oddiar ddwyllaw y rhai gynt a alltudiasid ganddo. Pab llawer iawn gwell oedd

15. Benedict XI., o.c. 1303, fychan, Lombardiad, mab i fugail. Efe a roddodd ollyngdod i frenin Ffrainc; a esgymunodd lofruddion ei ragflaenor Boniface, ac a ymdrechodd i dawelu pob ymrafael; ond o'r diwedd efe a wenwynwyd.

16. Benedict V., o.c. 1305, Ffrancwr, a'i dilynodd ef, yr hwn a drosglwyddodd y llys i Avignon, lle y bu am saith mlynedd, tra yr oedd Rhufain yr holl amser hyny yn cael ei llywodraethu gan is-gardinaliaid. Cafodd Harri, o Lutzenburge, yr ymherawdwr, ei wenwyno yn afrllad y cymun, gan un Bernard, mynach; a'r pab yn ebrwydd a faddeuodd iddo, ac a'i hannogodd i ddianc, fel y gallai achub ei fywyd. Bu farw y pab hwn; ac yn mhen dwy flynedd daeth

17. John XXII., o.c. 1316, yn olynnydd iddo ef. Efe a seintiodd Thomas Aquinas, a Thomas o Henffordd (Hereford); ac a flingodd esgob yn fyw, ac wedi hyny a'i llosgodd, am iddo ei dramgwyddo. Yr oedd yn credu fod yr enaid yn marw gyda'r corff, am yr hyn y condemnwyd ef gan Gynghorfa Caerystenydd. Efe a fu fyw hwyaf o'r pabau, ac a fu farw gyfoethocaf.

18. Benedict XII., Ffrancwr eto, a ddaeth ar ei ol ef; ac ar y cyntaf efe a wrthwynebodd Lewis, yr ymherawdwr; ond wedi hyny,

pan syrthiodd allan â brenin Ffrainc, efe a gymerodd blaid yr ymherawdwr. Efe a ddiwygiodd ryw annhrefniadau oedd yn mysy g mynachod ; ac a brynodd, â swm mawr o arian, chwaer i Francis Petacu, gan ei brawd Gerard.

19. Clement VI., o.c. 1342, ei gydwladwr, a brofodd yn fwy haerllug na'i ragflaenor. I'r dyben i leihau awdurdod yr ymherawdwr, efe a greodd is-ficeriaid i reoli yr ymherodraeth, yr hyn a gynhyrfodd yr ymherawdwr i sefydlu ficeriaid eraill cyffelyb i reoli yr eglwys. Darfu i hyn, a phethau eraill, dramgwyddo Clement gymaint, fel y nacaodd ymhedlychu â'r ymherawdwr ar unrhyw ammodau, ond iddo roddi ei hun, a phob peth a feddai, iddo ef. I gael heddwch, ac attal tywallt gwaed, darfu i'r ymherawdwr gydsynio : tra yr oedd tywysogion yr ymherodraeth yn ewyno yn erbyn ammodau gorthrymus y pab. Efe a ddiswyddodd Archesgob Mentz, am ddim ond siarad o blaid yr ymherawdwr. Tybir iddo fynu gwenwyno yr ymherawdwr yn ei lid. Cafodd ei sancteiddrwydd ei yru ymaith trwy ryw chŵydd gwŷn, wedi iddo orthrymu cyhyd.

20. Innocent VI., o.c. 1352, cyfreithiwr, yr hwn a alluogwyd i gael arian trwy fod yn galed yn ei dŷ. Mab i Sais, er iddo gael ei eni yn Ffrainc.

21. Urbane v., o.c. 1363, a ddaeth nesaf. Yr oedd ef yn ymlynwr mawr wrth y rhagorfreintiau Pabaidd, a rhodres ac awdurdod y babaeth. Efe a wenwynwyd yn Marseilles, fel y tybir.

22. Gregory XI., o.c. 1373, a ddaeth ar ei ol. Efe a adawodd Avignon, a chyda deuddeg o longau rhyfel, efe a ddychwelodd i Rufain, o.c. 1376, wedi i lys y babaeth fod yn Avignon am ddeng mlynedd a thriugain. Pan ddychwelodd, efe a adfeddiannodd, trwy nerth y cleddyf, yr hyn a gollasid, ac a adgyweiriodd y dinystr a achlysurwyd trwy absenoldeb y pabau o'r blaen.

23. Urbane VI., o.c. 1378, Neapolitiad tlawd, yr hwn a wrthwynebodd ddychwelyd y llys i Ffrainc drachefn, yr hyn a achlysurodd i blaid o gardinaliaid Ffrancaeg ddewis Clement VII. yn ei erbyn. Bu hyn yn ddechreuad sism a barhaodd agos ddeugain mlynedd. Ar y dechreu yr oedd yn mawr bleidio Charles, brenin Naples, fel y gallai gael dyrchafiad i'w nai drygionus, Francis Batillus; ond buan y trôed ei gyfeillgarwech yn gasineb, a chafodd Batillus, wedi marwolaeth ei ewythr, ei ddyosg o'r cwbl a gasglodd ynghyd. Efe a benododd Jubili, i'r dyben o gasglu arian, ac a wnaeth bedwar ar ddeg a deugain o gardinaliaid, i'w alluogi ef i ymrson yn erbyn ei wrthwynebydd.

24. Clement VII., o.c. 1389, Ffrancwr, o deulu pendefigaidd. Efe a gynnorthwywyd gan y Ffrancod â'r Hispaeniaid, megys ag yr oedd y Saeson, Dutsiaid, Italiaid, ac eraill, o'r blaen yn cynnorthwyo Urbane. Yr oedd yr ymrafael wedi myned mor uchel, fel yr yspeiliwyd Rhufain ei hun yn druenus gan Clement a'i ymlynwyr. Y mae Platina yn gadael Clement allan fel traws-oresgynwr, ac yn rhoddi, ar ol Urbane,

25. Boniface IX., o.c. 1398, Neapolitiad, yr hwn a wnaed yn cardinal gan Urbane. Prin yr oedd yn ddeg ar hugain oed pan wnaed ef yn bab; ac yr oedd mor anwybodus fel na allasai ddeall y pynciau a ddadlleid o'i flaen. Ond efe oedd y bargeniwr goreu am werthu bywioliaethau eglwysig a fu erioed yn y gader babyddol. Gallai y neb a fynai gael dyrchafiad am arian.

26. Benedict XIII., o.c. 1400, Hispaeniad (a elwid Pedr de Luna), yr

hwn nad yw yn cael ei enwi gan y Rhufeiniaid ymhlith y pabau, oblegid iddo ddilyn Clement VII. yn y sism. Efe a gymerodd lw, ar ei etholiad, i roi ei le i fyny, os tybiai y cardinaliaid hyny yn briodol; ond pan geiswyd ganddo ei rhoddi i fyny, efe a ymryddhaodd o'i lw yn esmwyth.

27. Innocent VII., o.c. 1404, Italiad, a etholwyd yn lle Boniface IX. Etholwyd ef yn yr Eidal; ond syrthiodd allan â dinasyddion Rhufain, oblegid i'w nai, Lewis, gigyddio rhai o honynt; a bu orfod iddo ffoi o Rufain gydag anhawader mawr. Ond wedi i bethau dawelu ychydig, efe a ddychwelodd yn ol, ac a wnaeth rifedi o gardinaliaid. Yn ei le ef, dewisodd y cardinaliaid

28. Gregory XII., o.c. 1406, Venetiad, ar yr ammod y byddai raid iddo roddi ei le i fyny, os byddai heddwch yr Eglwys yn gofyn hyny. Oblegid ei dwyll, rhoddwyd ef ymaith, a rhoddwyd yn ei le

29. Alexander V., o.c. 1409, Cretiad. Efe a ddiswyddodd Ladislaus, brenin Naples ac Apulia; a thrwy ei ysgrif-awdurdod, efe a gadarnhaodd bum archoll St. Francis i gael eu cyfrif yn erthygl o fydd. Darfu i St. Eustace ei wenwyno, a chymeryd ei le, yn hytrach na chael ei ddewis, wrth yr enw

30. John XXIII., o.c. 1410, Neapolitiad. Galwyd ymgynghorfa yn Constance, 1414, gan yr hon y cafodd y pab hwn ei ddiswyddo, am lawer o ddrygau; a

31. Martin V., o.c. 1417, Rhufeiniad, a roddwyd gan y cynghor yn ei le ef. Hwn a gondeinniodd John Wickliffe, ac a losgodd John Huss, a Jerome o Prague, ei ddilynwyr. Efe a roes Thomas Walde ar waith i ysgrifenu yn erbyn Wickliffe; a gadawodd i gymeryd ei le

32. Eugenius IV., o.c. 1431, Venetiad, yr hwn a syrthiodd allan â'r Rhufeiniaid ar ei fynediad cyntaf i mewn yno, a bu orfod iddo ffoi i Pisa yn ddirgel. Diswyddwyd ef gan gynghorfa Basil, gan roddi Amadeus, duc o Savoy, yn ei le ef, yr hwn a ddaethai yn feudwy. Ei enw yn y babaeth oedd

33. Felix V., o.c. 1439: dyn o well egwyddor na llawer o'i ragflaenoriaid. Er mwyn heddwch yr Eglwys, yn mhen deng mlynedd, efe a adawodd y babaeth, gan ymfoddloni ar gardinaliaeth. Daeth i'r gader yn ei le ef

34. Nicholas V., o.c. 1447, o Genoa. Efe a adeiladodd y Vatican, ac yr oedd yn bleidiwr dysgeidiaeth.

35. Calixtus III., o.c. 1455, Hispaeniad, a'i canlynodd. Efe a anfonodd John Capistran a Robert Lucy, ac eraill, i arfer dichellion i gynhyrfu y Cristionogion yn erbyn y Tyrciaid.

36. Pius II., o.c. 1458, Etruriad, a'i dilynodd ef, yr hwn a elwid o'r blaen, Eneas Sylvius. Arferai ddywedyd fod priodas yn well i'r offeiriad na gweddwdod. Rhoddodd dramgwydd mawr i lawer yn Germani trwy droi Archesgob Cologne o'i swydd.

37. Paul II., o.c. 1464, Venetiad. Efe a ordeiniodd mai ysgariad a fyddai lliw gwisgoedd y cardinaliaid.

38. Sixtus IV., o.c. 1471, Leiguriad. Y pab hwn a adeiladodd butein-dŷ yn Rhufain, yr hwn a ddygodd elw i'w sancteiddrwydd o ddwy fil o *ducats* yn flyneddol. Mynai alw holl ysgolëigion y brifathrofa yn hereticiaid. Ei olynwr oedd

39. Innocent VIII., o.c. 1484, Genoesiad, hurtyn dwl anwybodus, a feddwai yn nghanol yr amgylchiadau pwysicaf. Ar ei ol ef, daeth Roderic Borgia, a alwyd

40. Alexander VI., o.c. 1491, yr hwn a bentyrodd bob golud ar ei fastardiaid; a gymerodd arian gan Bajazet, y Tyrciad, am roi ei frawd Gemes, oddiar y ffordd, yr hwn oedd wedi tafu ei hun ar drugaredd y pab. Cafodd ei wenwyno â'r un gwpan ag a ddarparasai ef i'w gardinaliaid a wahoddasid ganddo.

41. Pius III., o.c. 1503, Etruriad, a esgynodd i'r orsedd sanctaidd trwy lawer o wrthwynebiad gan ymgeisydd arall o'r enw Valentine Borgia. Bu farw yn mhen ychydig ddyddiau wedi ei etholiad.

Wedi i'r fath ddinystrowr gwancus lenwi i fyny ddirgelwch eu hanwired, daeth ar eu hol FABILONIAID ANFEDDYGINIAETHOL, yn gwneyd deugain dolen eto, am yspaid o tua dau cant a hanner o flyneddau. "Nyni a iachasom Babilon, ond nid aeth hi yn iach: gadewch hi, ac awn bawb i'w wlad: canys ei barn a gyrhaedd i'r nefoedd, ac a ddyrchafwyd hyd yr wybrau;" *Jer.* li. 9. "A'r dynion eraill, y rhai ni laddwyd gan y plâuau hyn, ni edifarhasant oddiwrth eu llofruddiaeth, nac oddiwrth eu cyfareddion, nac oddiwrth eu casineb, nac oddiwrth eu lladrad;" *Dad.* ix. 20, 21—fel y mae yn amlwg oddiwrth a ganlyn:—

1. Julius II., o.c. 1503, Genoesiad, nai i Sixtus IV., os nad ei fab. Darfu i'w waith yn tori ei lw, trwy beidio galw cynghorfa, fel y tyngodd y gwnai, gynhyrfu rhai cardinaliaid i ymgyfarfod yn Pisa, i'w ddiswyddo; ond efe a amddiffynodd ei hun, trwy alw cynghorfa wrthwynebol i gyfarfod yn y Lateran. Efe a esgymunodd Lewis o Ffrainc; ond heriodd y brenin ef, ac a fathiodd arian âg arnynt y darlleniad hwn, "Mi a ddystrywiau Babilon." Ar ol y bugail ymladdgar hwn, daeth y digrifol

2. Leo X., o.c. 1512. Mab oedd ef i Duc Florence. Nid oedd yn gofalu dim am grefydd, yr hon a alwai yn ddyfais ennillfawr. Yn nghynghorfa y Lateran, a gynnaliwyd gan Leo, galwyd ef gan ei bleidwyr yn "Llew o Iwyth Judah," i'r hwn y rhoddwyd pob awdurdod yn y nefoedd a'r ddaear, a'r hwn y rhaid i'r holl freninoedd ei anrhydeddu. Parotwyd y ffordd i'r diwygiad trwy Luther, yn moethau Leo, yr hwn oedd arno eisieu arian i waddoli ei chwaer Magdalen, i'r hyn y dyfeisiodd y maddeuant-lythyrau, y rhai a anfonodd i Germani. Ymrafaeliodd y mynachod o berthynas pwy a gai elw y gwerthiad. Gwrthwynebodd Luther hwynt, gan gael ei gefnogi gan dywysogion a dysgedigion, y rhai oeddynt wedi blino ar orthrymder y pab.

3. Adrian VI., o.c. 1521, gwladwr isel. Bellach yr oedd Lutheriaeth yn dechreu lledanu, a'r Tyrciaid yn nesau i'w diriogaeth. Effeithiodd hyn ar ei feddwl, a bu farw yn yr ail flwyddyn o'i babaeth.

4. Clement VII., o.c. 1523, Florentiniad, a nai neu fab i Leo X. Trwy syrthio allan âg Ymherawdwr Ffrainc, goresgynwyd Rhufain gan Dduc Bourbon, a chymerwyd y pab ei hun, a'i gardinaliaid, yn garcharorion. Trwy wrthwynebu Harri VIII., a'i dwyllo yn ei ysgariad oddiwrth wraig ei frawd, Catherine, efe a golodd ei uchafiaeth yma yn Lloegr.

5. Paul III., o.c. 1534, Rhufeiniad, yr hwn a wnaeth ei chwaer yn buten i Alexander VI., fel y gallasai ef gael ei wneyd yn gardinal. Adroddir yr hanesion duaf am halogedigaeth echrys y pab hwn.

6. Julius III., o.c. 1550, yr hwn a ddewiswyd yn nghanol ymryson mawr. Dywedai y pab hwn fod ganddo ef fwy o achos i ddigio am na chawsai ei bastai oer o gig paun, nag oedd gan Dduw i dafu Adda o baradwys, am fwyta afal. Efe a ddilynwyd gan

7. *Marcelus ii.*, o.c. 1555, Etruriad. Yr oedd yn casáu y Lutheriaid yn fwy na'r Tyrciaid, ac a berswadiodd Charles v., a Ferdinand, i roi eu wynebau yn fwy yn eu herbyn hwy nag yn erbyn y Mahometaniaid. Ond tri diwrnod y bu yn y babaeth, a Neapolitiad,

8. *Paul iv.*, o.c. 1555, a ddaeth yn ddolen nesaf. Efe a gefnogodd y Jesuitiaid a'r Chwil-lys, yr hwn oedd erbyn hyn, yn ol cyfrif Verger, wedi dystrywio *cant a hanner o filoedd o bersonau*, o dan yr esgus o grefydd. Yn mhen pedwar mis, gwthiwyd, gan blaid o Yspañiaid, un o deulu *Medicis i'w le ef.*

9. *Pius iv.*, o.c. 1560. Ni wnai y frenines Elizabeth ganiatáu i'w genadau roddi eu traed ar dir Lloegr; ond llwyddasant yn well wedi hyny. Bygythiwyd ei hesgymuno hi, ond rhwystriwyd gwneyd hyny gan ryw amgylchiadau eraill. Tybia cyfeillion penaf y pab hwn iddo fyrhau ei oes trwy anghymedroldeb mewn bwyta ac yfed.

10. *Pius v.*, o.c. 1566, Lombardiad. Yr oedd yn wrthwynebwyr mawr i'r Tyrciaid, ond yn chwareu y Twrc ei hunan ymhlith y tywysogion Cristionogol. Yr oedd ganddo law yn marwolaeth y tywysog Charles o Hispaen, ac yn niswyddiad tad ein brenin Iago, ac yn y rhan fwyaf o'r teyrnfradau yn erbyn y frenines Elizabeth. Ei air arferol ef oedd, "Nid oes cadw ffydd a hereticiaid." Y Bononiad,

11. *Gregory xiii.*, o.c. 1572, a ddilynodd, dan aden ac annogaeth yr hwn y dygwyd ymlaen y fath gigydd-dra yn Paris yn erbyn y Protestaniaid, yr hyn wedi hyny a ddathlwyd yn Rhufain gyda buddygoliaeth gyhoeddus. Yn nesaf, daeth

12. *Sixtus v.*, o.c. 1580, yr hwn a esgymunodd Harri iii. o Ffrainc, am beidio poeni y Protestaniaid, fel y mynai ef iddo wneyd; a phan y cigyddiwyd Harri gan fynach creulawn o'r enw James Clement, gyda chyllell wenwynig, canmolodd ei sancteiddrwydd y weithred, gan ei chymharu i waith y greadigaeth a'r cnawdoliad!

13. *Urban vii.*, o.c. 1590. Cadwodd hwn y gader bythefnos, ac yna a'i gadawodd i

14. *Gregory xiv.*, o.c. 1590, o Milan. Efe a dreuliodd drysorau yr Eglwys yn y rhyfeloedd â Ffrainc. Bu farw cyn iddo fod un flwyddyn yn y babaeth. Ni allai

15. *Innocent ix.*, o.c. 1591, Bononiad, ei dâl cyhyd a hyny. Cadwodd

16. *Clement viii.*, o.c. 1592, Florentiad, y lle yn hwy, a gwnaeth fwy o ddrygau. Ni chai Harri o Navarre ddim lonydd heb droi yn babydd, neu adael ei deyrnas; ac ni fu lonydd ar hyny, ond mynwyd, trwy gais y Jesuitiaid, ei weled wedi ei ladd. Ei gydwladwr,

17. *Leo xi.*, o.c. 1605, a ddaeth yn ei le. Ond cyn i saith niwrnod bedair gwaith fyned heibio, darfu i dwymyn boeth, neu rywbeth arall, ei ddwyn ymaith.

18. *Paul v.*, o.c. 1605, Italiad. Gwaharddodd i'r deiliaid gymeryd llw o ufudd-dod i'r brenin Iago.

19. *Gregory xv.*, o.c. 1621, o Bononia. Efe a gynhyrfodd y Ffrancod yn erbyn y Protestaniaid.

20. *Urbane viii.*, o.c. 1623. Aeth pedwar ar hugain o gardinaliaid yn glaf yn ei etholiad, a chollodd deg o honynt eu bywyd, ynghyd âg amryw eraill.

21. *Innocent x.*, o.c. 1644, Rhufeiniad, enw yr hwn oedd John Baptist

Pamphylis, a ddilynodd Urban VIII., ac yr oedd yn ddeuddeg a thriugain mlwydd oed pan ddaeth i'r babaeth. Efe a gondemniodd bum cynnygiad Jansenius, ac a erlidiodd deulu y Barberiaid yn fawr.

22. Alexander VII., o.c. 1655, a ddaeth ar ei ol. Ei enw gwreiddiol oedd Fabio Chigi. Dywedir mai pab rhyddfrydig iawn oedd hwn, a'i fod yn dra phleidiol i'r Protestaniaid, yn gefnogwr dysgeidiaeth, ac yn ysgol-âig da ei hunan. Bu farw yn 1667.

23. Clement IX., o.c. 1667, a ddilynodd. Un o deulu pendefigaidd yn Tuscany ydoedd ef. Bu farw yn 1669, oblegid colli Canada, meddent.

24. Clement X., o.c. 1670, a ganlynodd. Gwnaed ef yn gardinal gan Clement IX., a dywedir iddo ddyweyd wrtho y byddai yn ddilynwr iddo ef. Bu yn y gader chwe' blynedd, a bu farw yn yr oed mawr o chwech a phedwar ugain. Yr oedd holl waith y swydd yn cael ei gyflawni gan ei nai, ac am hyny, dywedid, "fod dau bab—un mewn gwirionedd, a'r llall mewn enw."

25. Innocent XI., o.c. 1676, a esgynodd yr orsedd babaidd. Bu ganddo ymryson maith â Lewis XIV. o Ffrainc, o berthynas i'r hawl o roddi byw-oliaethau a thiroedd yr eglwys, yr hyn a hawlid gan y penadur hwnw: attaliwyd y ddadl rhag rhygyiad cyhoeddus. Effeithiodd y pab hwn gytundeb rhwng Germani, Poland, a Venice, yn erbyn y Tyrciaid; a bu farw yn 1689.

26. Alexander VIII., o.c. 1689, a ddilynodd am ddwy flynedd.

27. Innocent XII., o.c. 1691, Neapolitiaid, o deulu pendefigaidd. Efe a ddyddymodd Nepotiaeth, neu y parch mawr a delid i neiant y pabau. Bu farw yn y flwyddyn 1700, yn chwech a phedwar ugain mlwydd oed. Dilynwyd ef gan

28. Clement XI., o.c. 1700, genedigol yn Pesaro. Aflonyddwyd ef gan y dadleuon rhwng y Jesuitiaid a'r Janseniaid; i roddi terfyn ar yr hyn efe a anfonodd allan, yn 1705, ei gyhoeddiad yn erbyn y pum gosodiad: ac un arall yn 1713 yn erbyn esboniad Quesnel ar y Testament Newydd. Bu farw yn 1721, yn ddeuddeg a thriugain mlwydd oed.

29. Innocent XIII., o.c. 1721. Rhufeiniad oedd efe, a'r wythfed o'i deulu a etholwyd yn bab. Bu farw yn 1724.

30. Benedict XIII., o.c. 1724, a ddewiswyd nesaf. Ganwyd ef yn Rhufain, yn 1649, o deulu enwog. Y flwyddyn ar ol ei etholiad i'r babaeth, efe a alwodd gynghorfa yn Rhufain, lle y cadarnhawyd y cyhoeddiad yn erbyn esboniad Quesnel. Bu farw yn 1730.

31. Clement XII., o.c. 1730, a ddilynodd, ac a fu farw yn 1740, yn wyth a phedwar ugain mlwydd oed.

32. Benedict XIV., o.c. 1740, a ddaeth ar ei ol ef. Ganwyd ef yn Bologne, yn 1675, o deulu pendefigaidd y Lambertiniaid. Ar farwolaeth Clement XII, bu hir ymgynghori ar ddewisiad olynwr. Lambertini, i'r dyben i'w lloni, a ddywedodd wrthynt, "Paham yr ydych yn treulio eich amser yn dadleu ac ymgynghori? os oes arnoch chwi eisieu *sant*, etholwch Gotti; os *gwladlyddwr*, dewiswch Aldrovandus; os *cydymaith dyddan*, cymerwch fi." Darfu i'r araeth ddigrifol hon eu boddhau mor fawr fel yr etholasant ef rhag blaen. Yr oedd ef yn gefnogwr dysgeidiaeth, ac yn ddyn o dymherau naturiol cymedrol. Bu farw yn 1758.

33. Clement XIII., o.c. 1758, a ddilynodd. Ganed ef yn Venice, yn 1693, a gwnaed ef yn gardinal yn 1737, gan Clement XII. Bu farw yn

ddisfyfd yn 1769, wedi llenwi y gader un mlynedd ar ddeg; a dilynwyd ef gan

34. Clement XIV., o.c. 1769. Ei enw gwreiddiol oedd John Vincent Antonio Ganganelli, ac oedd yn fab i feddyg yn St. Arcangelo, ger Remini, lle y ganwyd ef yn 1705. Yr oedd dewisiad olynwr i'r pab y pryd hyn yn waith anhawdd iawn; canys yr oedd yr holl freninoedd pabaidd yn barod i dori oddiwrth Eglwys Rhufain, os na roddid y Jesuitiaid i lawr. Gwyddid fod Ganganelli yn eu herbyn, ac am hyny y dewiswyd ef. Yr oedd, meddent, lawer o rinweddau da ynddo. Bu farw yn 1775, nid gydag amheuaeth cryf iddo gael ei wenwyno. Dilynwyd ef yn y babaeth gan

35. Pius VI., o.c. 1775. Ei enw oedd Angelo Breschi. Etholwyd ef pan oedd yn ddau ar bymtheg a deugain mlwydd oed. Darfu i'r amserau blinion yr oedd yn byw ynddynt ei ddwyn i gryn ofid. Effeithiodd y chwyldroad Ffrengig yn fawr ar y babaeth. Goresgynwyd yr Idal gan Buonaparte yn 1796: diorseddwyd y pab ei hun, ac anfonwyd ef ymaith o le i le fel drwgweithredwr; dinystriwyd adeiladau crefyddol, ac yspeiliwyd pob peth eglwysig o werth. Bu farw yn Venice, Awst 29, 1799, a chladdwyd ef mewn modd cyffredin.

36. Pius VII., o.c. 1800, neu Gregory Barnabas Chiarimonti, canlyniedydd y diweddaf, a anwyd yn Cesena, yn 1740. Cafodd hwn ei ethol oblegid iddo, pan yn gardinal, wthio ei hun i ffafr Buonaparte. Efe a goronodd Napoleon yn Paris; ond nacaodd gyflawni yr un swydd i Louis XVIII. Ond er y tiriondeb a ddangosodd i Buonaparte, cymerodd hwnw afael ynddo yn 1809, ac a'i carcharodd yn Fontainebleau, lle y bu hyd gwmp ei orthrymwr yn 1814, pryd y dychwelodd i Rufain, gan adfeddiannu ei awdurdod. Bu farw yn 1823, a dilynwyd ef yn y babaeth gan y cardinal Annibella Della Genga, yr hwn a fabwysiadodd y ffug enw

37. Leo XII., o.c. 1823. Ganwyd ef yn Genoa yn 1760. Dangosodd ei zel dros y babaeth, trwy y tarw gwyllt a anfonodd yn erbyn y Cymdeithasau Biblaidd, a phenodiad Jubili yn 1825. Bu farw yn Chwefror, 1829, a daeth cardinal Castiglioni ar ei ol ef, wrth yr enw.

38. Pius VIII., o.c. 1829. Ganwyd ef yn Cingolia yn 1761. Un flwyddyn y bu ar orsedd y babaeth. Cyfrifir llawer o rinweddau eglwysig ynddo.

39. Gregory XVI., o.c. 1831, a gymerodd feddiant o'r uchafiaeth. Ganwyd ef Medi 18fed, 1765. Ei enw gwreiddiol oedd Mauro Capellari. Yr oedd ef yn elyn mawr i bob gwellhad a diwygiad mewn gwybodaeth, masnach, yn gystal a chrefydd. Cyhoeddodd Jubili yn 1844, yr hyn a gafodd effaith ddrwg iawn ar fasnach Rhufain. Anfonodd gylechlythyr at yr holl archesgobion, ac esgobion, yn galw eu sylw at yr ymdrechadau a wneid gan amryw gymdeithasau Biblaidd, i ddwyn oddiamgylch ymneillduaeth grefyddol yn yr Ital. Ynddo ef yr oedd dawn yn cael ei gamddefnyddio, mawredd yn cael ei iselu, a dynoliaeth ei sarhau. Bu farw Mehefin 1af, 1846, yn bedwar ugain ac un mlwydd oed, wedi bod yn llywodraethu Eglwys Rhufain am bymtheng mlynedd; ac a ddilynwyd gan

40. Pius IX., o.c. 1846, yr hwn a anwyd yn 1791. Darfu i'w ddyrchafiad ef i'r sedd pabaidd roi gobeithiau i'r byd am gryn ddiwygiad yn Rhufain, ac ymddangosodd yn tueddu tuag at hyny, ond nid oedd yn ddiffuant yn ei broffes o blaid rhyddid; a diangodd "ei sancteiddrwydd," fel y gwyr pawb, rhag ei blant ei hun; a da cael nodedd dros y terfynau, o dan

aden y Neapolitiaid. Anfonodd yntau o'i ymguddfa ei *deirw* allan i ruo yn erbyn y cymdeithasau Biblau, a'r Cynghrair Efengylaidd. Y mae yn awr, er yn ochelgar, wedi anturio i blith ei blant; a gwialen-fedw Gweriniaid Ffrainc yn ysgwyd uwch eu penau i'w cadw mewn ofn.

Dyna ni o'r diwedd wedi dadrys yr holl gadwen, o ddolen i ddolen. "Yr oedd sylfaenwyr neu blawwyr Eglwys Loegr," meddai ficer Leeds, "yn Frutaniaid a Sacsoniaid, yn esgobion wedi eu hordeinio gan esgobion eraill, yn hollol fel y mae yn bresennol; *cafodd y rhes ei chadw yn ofalus a rhagluniaethol o'r dechreuad*. A'r esgobion a'u hordeiniodd hwy a ordeiniwyd gan esgobion eraill, ac felly yn ol i'r apostolion, y rhai a ordeiniodd yr esgob cyntaf, a hwythau eu hunain wedi eu hordeinio gan Grist. *Dyma yw yr hyn a elwir yn athrawiaeth yr olyniant apostolaidd*; yr hon sydd yn athrawiaeth o bwysigrwydd mawr. Canys oddieithr i weinidogion yr efengyl gael eu hanfon gan Grist, pa hawl sydd ganddynt i weithredu yn ei enw? Pe byddai i ni fyned trwy wlad dramor, gallem fod yn berffaith alluog i weithredu dros frenines Lloegr; ond a wnai rhyw benadur tramor ein derbyn fel y cyfryw, heb i ni ddangos ein tyst-lythyrau? Gall fod llawer cyfreithiwr mor *fedrus* i gyflawni dyledswyddau yr Arglwydd Ganghellydd ag yw yr Arglwydd Ganghellydd ei hun; ond a all ef *weithredu* fel Arglwydd Ganghellydd, heb iddo yn gyntaf dderbyn awurdodod gan ei benadur. Ac felly o berthynas i grefydd. Pa hawl sydd gan neb i gymeryd arno ei hun i weithredu fel cenadwr Duw, oddieithr i Dduw ei awdurdodi i hyny? Gall fod yn ddyn athrylithgar, a galluog yn yr ysgrythyrau; ond nid oes ganddo awdurdod i lefaru yn enw Duw, nes i Dduw roddi yr awurdod hono iddo. 'Pa fodd,' meddai St. Paul, 'y pregethant, *h. y.* yn gyfreithlawn, 'onis danfonir hwynt,' *h. y.* gan Dduw. 'Nid oes neb yn cymeryd yr anrhydedd hwn arno, ond a alwyd gan Dduw.' Na, hyd yn nod Crist, meddai yr apostol, 'nis gogoneddodd ei hun i fod yn archoffeiriad; ond yr hwn a ddywedodd wrtho, Ti yw fy Mab, myfi heddyw a'th genedlais di.' Ni ddarfu hyd yn nod iddo *ef* gymeryd arno y swydd weinidogaethol, nes iddo gael ei allanol apwyntio iddi."¹ Drachefn, dywed yr athraw hwn, "Ein dyledswydd eglur yw traethu ac amddiffyn yn zelog yr athrawiaethau neillduol hyny, y rhai *erioed a ddynodasant*, ac sydd eto yn *parhau i ddynodi*, y gwahaniaeth rhwng eglwys Crist yn cael gweini iddi dan arolygiaeth prif fugeiliaid neu esgobion, y rhai yn rheolaidd a ddilynasant yr apostolion, ragor y sectau hyny o Gristionogaeth y rhai sydd o dan athrawon hunan-apwyntiedig."²

"Yn ol fel yr ydym ni yn deall yr athrawiaeth o olyniant didor," meddai golygwr y '*Methodist Magazine*,'³ "y mae yn dysgu, laf, Na all neb ond esgob ar esgobaeth, ar wahan oddiwrth henadur, ac wedi ei ddyrchafu mewn *gradd* goruwch iddo, roi derbyniad i'r weinidogaeth Gristionogol. Ac yn 2il, Fod rhyw weithrediadau gweinidogaethol yn ordeiniedig anghenrheidiol er iachawdwriaeth, megys gweinyddiad y sacramentau, fel cyfryngau apwyntiedig, a moddion gras, a gollyngdod offeiriadol, na all gael ei gyflawni ond yn unig gan weinidogion wedi eu derbyn a'u hawdurdodi felly." Dyna yn sicr yw golygiad Dr. Hook ar y pwnc. "Y mae y rhai sy'n dal yr athrawiaeth hon yn dal hefyd mai cymundeb â'r gweinid-

¹ "*Hear the Church*." Y pymthegfed argraffiad. Tudal. 7, 8.

² Tudal. 12.

³ Cyf. lxiii. tudal. 724.

ogion hyn yw cymundeb a'r eglwys, a thrwyddynt hwy a'u gweithrediadau gweinidogaethol—yr hyn na all neb ond hwy ei weithredu—gymundeb â Duw." Y maent yn *cymeryd arnynt* y gellir yn hawdd wneyd allan yr olyniant hwn—fod rhestr dolenau yn gadwen gyddiedig o ordeiniadigion, o'r apostolion hyd yr amser presennol, "wedi ei chadw yn ofalus a rhagluniaethol." "Fel yr anfonwyd Crist gan y Tad," meddai Dr. Hook, "felly yr anfonodd yntau yr apostolion; fel y danfonwyd yr apostolion gan Grist, felly yr anfonasant hwythau y rhes gyntaf o esgobion; ac fel y danfonwyd y rhes gyntaf o esgobion gan yr apostolion, felly yr anfonwyd yr ail res ganddynt hwythau; yr ail y *drydedd*, ac felly i lawr i'n hesgobion presennol ni, y rhai a allant olrhain fel hyn eu disgyniad ysbrydol oddiwrth St. Pedr a St. Paul, a phrofi eu *hawdurdod dduwfol* i lywodraethu yr eglwysi, dros y rhai y maent yn *ganonaidd* wedi eu hapwyntio i lywyddu. Fel yr apostolion, y mae ganddynt *hawl* i apwyntio gweinidogion is-raddol odditanynt; ac felly, dywed Pabyddion y peth a fynont, gall offeiriad Lloegr sefydlu eu *hawl trwy awdurdodiad oddiwrth Grist i weini meun pethau sanctaidd*." Yn ol cynllun y Doctor, anfonodd Crist Paul, anfonodd Paul Timotheus, anfonodd Timotheus A, anfonodd A, B, anfonodd B C, anfonodd C, D, ac felly ymlaen i'r amser presennol. Felly nid oes awdurdod gan D i bregethu yr efengyl, a gweinyddu y sacramentau, oni all olrhain ei ddisgyniad ysbrydol trwy C, B, A, i Timotheus, Paul, Crist, a Duw y Tad. Yn awr, yr ydym yn gwadu yr athrawiaeth hon yn benderfynol. "Ni all neb," meddai Baxter, "y dydd hwn brofi y fath ddisgyniad a'r fath awdurdod i'w weinidogaeth."¹ Ni a roddwn hēr i Dr. Hook, neu unrhyw un o'r olynnyddion, i ddangos dolenau cadwynog felly o esgobion, trwy y rhai y gallent hwy gael y fath awdurdod. Dangosodd Dr. Barrow, un o frodyr offeiriadol Dr. Hook, na fu Pedr erioed yn esgob yn Rhufain. Profodd Dr. Pearson, esgob dysgedig a duwiol yn Eglwys Loegr, fod Linus, yr hwn a roddir gyntaf ar ol Pedr, yn y rhan fwyaf o'r cadwynau, wedi marw cyn i'r apostol hwnw ddyoddef merthyrdod. Pwy oedd esgob cyntaf Rhufain, nis gellir ei sicrhau; nis gellir gwneyd i dystiolaethau y tadau—at y rhai y cyfeirir i brofi y pwnc hwn—i gytuno â'u gilydd. Tystia Archesgob Wake, "na all un dyn sicrhau pa bryd y cymerodd Clement ei ofal yn Eglwys Rhufain, nac wrth bwy i'w gydio ef—mai y cwbl a allwn wneyd yw dyfalu oreu y gallom."² "Ni a ddangosasom," fel y dywed ein hawdur, "nad oes sicrwydd i'w gael, a bod yr olyniant yn methu yn y dechreu, fel y mae Esgob Stillingfleet, Whitby, a'r diwygwyr yn gyffredinol, yn y wlad hon a'r gwledydd tramor, yn caniatáu. Y mae genym brawf ar y pwnc hwn, "fesur da dwysedig, wedi ei ysgwyd, ac yn colli drosodd" (*Luc* vi. 38); a haeru yr athrawiaeth mor bendant, ac edrych ar bob gweinidogion eraill yn ddirmygus, gan eu galw yn "lëgyddion," "athrawon diawdurdod," "ymwthwyr i'r swydd weinidogaethol," yn unig oblegid na ordeiniwyd hwy yn esgobawl; pan y mae yn amlwg, oddiwrth fendith Duw ar eu llafur, ei fod ef yn eu cefnogi—sy'n ddull o ymddywyl, teilwng o'r cilgwrthiad adgasaf, deued o'r lle y delo, pa un bynag ai oddiwrth *falchder*, *rhaefarn*, neu *amwybodaeth*; oblegid ei fod yn tueddu i aflonyddu heddwch yr eglwys, i greu sismau, i aflonyddu meddylliau llawer o bobl dduwiol, yn gystal yn ag *allan* o'r Eglwys Sefydledig, a gwanhau

¹ "*Disputations.*" Tudal. 169—175, &c.

² Tudal. 144.

dylanwad Cristionogaeth ar y byd, a pheri i elynion-crefydd orfoleddu, a dywedyd, "Aha! aha! daeth fel y dymunasom;" ac nid dyweyd fel y dywedid gynt, "Gwelwch fel y mae y Cristionogion hyn yn caru eu gilydd," ond "gwelwch fel y mae y gweinidogion hyn yn iselu eu gilydd."

Ond y mae sism yn y babaeth yn dinystrio y gadwen ar unwaith; canys bu, fel y gwelsom, yn ol Onuphrius, gymaint a phedwar ar hugain o sismau neu rwygiadau yn ei ddydd ef; neu, fe fu, bedair ar hugain o weithiau, ddau neu fwy o babau, yn hōni bod yn benau anffaeledig yr eglwys, a phob un yn hawlio yr unig a'r hollol awdurdod i ordeinio gweinidogion, a chyhoeddi ordeiniadau a gweithredoedd eglwysig y llall yn ddiwerth ac ofer; a gwelsom hefyd mai peth cyffredin iawn oedd i un o'r anffaeledigion hyn ddyddymu gweithrediadau ei ragflaenydd, fel y bu, er esiampl, gyda Stephen, ac eraill, o berthynas i ordeiniadau Formosus. Cyhoeddwyd y rhai hyn oll yn ofer a diwerth; ac eto Formosus a ordeiniodd Phlegmund, archesgob Canterbury, yr hwn a ordeiniodd y rhan fwyaf o esgobion Lloegr, am lawer o flyneddau. Llauer o'r pabau hyny, y rhai a gawsant y gader babyddol, ac a weiniasant eu swyddau, a dröwyd allan wedi hyny gan ymherawd-wyr, neu gynghorau, gan eu cyhoeddi yn ymwithwyr direol. Y mae hanes y terfysgiadau hyn yn llenwi cyfrolau unplyg, ac yn ei gwneyd yn hollol anhosibl i olrhain y disgyniad trwy y pabau; a dangosasom nad yw yn bosibl gwneyd cadwen trwy unrhyw fodd arall. Yn wir, cafodd y gofrestr ei chadw yn y modd esgeulusaf, fel y mae y cofrestwyr, megys Platina ac Onuphrius, yn addef. Yn wir, ychydig iawn o bwys oedd yn cael ei roddi ar yr "Olyniant Apostolaidd," am lawer o ganrifau; "canys," meddai Mosheim, "nid oedd yr un o'r esgobion yn cydnabod iddynt dderbyn eu hawdurdod oddiwrth esgob Rhufain, neu iddynt gael eu creu yn esgobion *trwy ffafr yr orsedd babaidd*. Yn y gwrthwyneb, y maent oll yn dâl eu bod yn genadau Iesu Grist, a'u bod wedi derbyn eu hawdurdod ganddo ef."¹ Dyma y tir ar ba un y mae y Testament Newydd yn rhoddi yr awdurdod weinidogaethol; yma y darfu y diwygwyr cartrefol a thramor ei gosod; ac yma y mae Eglwys Loegr yn ei roddi; canys y mae yn gofyn yn ei gwasanaeth ordeiniadol, fod i'r ymgeisydd am urddau sanctaidd broffesu ei fod wedi ei "gymhell yn fewnol gan yr Ysbryd Glân" i gymeryd arno swydd y weinidogaeth Gristionogol; felly yn addef yr *anghenrheidrwydd* am allwad ddwyfol. Ac wedi cael tystiolaeth tri henadur, ei fod, am y tair blynedd diweddaf, wedi "byw yn dduwiol, sobr, a gonest," a'i fod yn iach yn ffydd yr eglwys, y mae yn rhoddi iddo awdurdod i gyflawni swydd y weinidogaeth Gristionogol yn ei chymundeb—nid oblegid fod yr ordeinwyr wedi cael eu hawdurdod mewn cadwen ddidor o ddolenau gweinidogaethol o'r apostolion, ond oblegid eu bod wedi cael boddlonrwydd, neu y dylent, cybelled ag y gall dyn gael boddlonrwydd am ddyn, fod Pen mawr yr Eglwys, Arglwydd y cynauaf, wedi ymddiried iddo oruchwyliaeth yr efengyl: "Canys," meddai Archesgob Potter, "y mae *doniau a chymhwys-derau* swyddogion yr eglwys, yn mhob man trwy y Testament Newydd, yn cael eu gwahaniaethu oddiwrth eu *commisiwn*, a'u darlunio fel *cymhwys-derau blaenorol* iddo, yn neillduol gan y gofynir llawer o gymhwysderau mewn esgobion a henaduriaid, a rhoddi prawf eglur o honynt, ac wedi hyny dyagwyl am y commisiwn cyn y rhyfygont lywodraethu yr eglwys." Oddi-

¹ "Ecclesiastical History." Llyfr i, tudal. 170, 4ydd cant.

wrth hyn, y mae yn ganlyniad amlwg, nas gall y rhai hyny sydd yn hollol ddiffygiol o'r doniau a'r cymhwysderau a ofynir gan Dduw i'w haddasu i'r swyddau hyn, fod yn addas i dderbyn awdurdod i lywodraethu yr eglwys; ac nas gall efe, yr hwn a apwyntiodd y doniau a'r cymhwysderau blaenorol hyny, a phrawf diammheul o honynt i flaenori yr awdurdod, roddi yr awdurdod i neb i roddi y swydd lle y byddo y cymhwysderau yn eisieu."¹ Y mae hyn yn ein dwyn i olygiad arall ar y pwnc hwn, golygiad yr hwn, pe gallai Dr. Hook a'i gyfeillion, y Puseyaid a'r Uchel-eglwyswyr, ddwyn eu rhestr yn ddidor, a fyddai yn niweidiol i'w hachos—y diffyg hollol o'r hyn a eilw Dr. Potter yn "gymhwysderau rhagflaenol." Gallwn anturio rhoddi teilyngdod y pwnc mewn dadl rhwng pobl y gadwen a gweinidogion eraill ar hyn. Tybiwch am fynydd y gellir profi, y gellid dangos yr holl gadwen—dolen yn gafaelyd mewn dolen—heb un toriad na gollyngiad ynddi, o'r dechreu i'r diwedd; hyd yn nod felly, cyfodai holiad dyrus, A ydyw yr olyniant wedi ei gyd-ddolenu fel hyn yn ol yr *awdurdod wreiddiol*? A thybier am fynydd (er nad ydys yn ei ganiatáu), mai esgobyddiaeth daleithiol yw y ffurf apostolaidd o lywodraeth eglwysig—bydded i ni ymofyn, canys dyma y pwnc mawr—a fu yr holl ordeiniadau yn y cyfwng yn ol yr *awdurdodiad* neu y *commisiwn cyntaf*; a ydyw y gallu a roddir i'r esgobion yn ddiammod, ac yn ddilyffethair gan ryw gymhwysderau gofynol yn y personau a apwyntir, neu ai rhyw gymeriadau neillduol sy'n gymhwys i gael eu penodi i'r weinidogaeth? A oes hawl gan yr esgob i apwyntio rhyw ddyn a ddewiso efe, heb olwg ar gymeriad, gallu meddyliol, cymhwysderau dysgeidiol, gwybodaeth am Gristionogaeth, na phrofiad o'i dylanwad sancteiddiol? mewn gair, a ydyw ei awdurdod yn berffaith a diammodol, neu a ydyw yn gyfyngedig, ac i'w reoli yn ol ei gymeriad, neu fel y dywed yr Archesgob Potter, "cymhwysderau rhagflaenol!" Dywed Dr. Hook, "Gall ein hesgobion presennol olrhain eu disgyniad oddiwrth St. Pedr neu St. Paul, a phrofi eu *hawdurdod ddwyfol* i lywodraethu yr eglwysi dros y rhai y maent wedi eu penodi yn *ganonaidd* i lywyddu."

Trown eto i'r tystiolaethau sanctaidd, er gweled natur y commisiwn hwnw a roddwyd gan yr apostolion i'w dilynnyddion uniongyrchol, o berthynas i apwyntiad y rhai hyny ag oedd i ddyfod ar eu hol hwy yn nghyflawniad y weinidogaeth Gristionogol, ac edrych a oedd yno ddim gwaharddiadau yn cael eu rhoddi iddynt o berthynas i gymeriad moesol a chrefyddol, a'u cymhwysderau meddyliol a moesol; neu a oes ganddynt ryddid i ordeinio, heb olwg ar yr hyn a eilw Archesgob Potter yn "gymhwysderau blaenorol," neu a oes ganddynt hwy a'u "holynwyr esgobawl," fel y geilw Dr. Hook hwy, awdurdod "*ex opere operato* i wneyd unrhyw ddyn—na waeth beth a fyddo ei gymeriad na'i ddawn—yn weinidog Iesu Grist, mor berffaith ag y gall apwyntiad yn unig ei wneyd." Yn awr, oddieithr i'r gosodiad olaf hwn gael ei gadarnhau, ni ellir gwneyd allan athrawiaeth yr olyniant. Gan hyny, "at y gyfraith ac at y dystiolaeth;" canys cafwyd allan, tuhwnt i wrthbrawf, fod llawer o'r rhai hyny—trwy y rhai y rhaid olrhain y gadwen, gyda y rhai mwyaf anwybodus, hereticaidd, a llygredig o bawb—"yr anghenfilod mwyaf dychrynlyd mewn natur."

Dysgodd ein Harglwydd bendigedig i'w ddysgybllion i wneyd eu deisyfiadau ato ef am gyflenwad o weinidogion i'w eglwys, yn y gorchymym

¹"*Methodist Magazine.*" Cyf. lxxii., tudal. 724.

cofiadwy hwnw, "Attolwgwech, gan hyny, ar Arglwydd y cynauaf i anfon gweithwyr i'w gynauaf;" *Math* ix. 38; *Luc* x. 2: ac y mae Eglwys Loegr yn cydnabod yn y modd mwyaf penderfynol awdurdod Crist i apwyntio gweinidogion, trwy ofyn fod i'r rhai a ymgeisiant am ordeiniad, broffesu eu bod yn cael eu cynhyrfu yn fewnol gan yr Ysbryd Glân i gymeryd arnynt y weinidogaeth Gristionogol. Ond pa fodd y mae i'r eglwys eu profi hwynt? Wrth y rheolau canlynol, 1 *Tim.* iii. 2—10; 2 *Tim.* ii. 2; *Tit.* i. 5—10. Rhaid i'r dynion hyny a gynhyrfwyd gan yr Ysbryd Glân i ddymuno y swydd weinidogaethol, roddi *prawf* eu bod yn cael eu cynhyrfu felly, trwy eu cydymffurfiad â'r rheolau canlynol:—Profesu eu bod yn cael eu cynhyrfu felly, a rhoddi y prawfiadau hyn, oedd yn cael ei gydnabod gan yr eglwys fel safon cymeriad gwir weinidogion Crist, i'w hanfon allan i lafurio i'w winllan; ond os na atebent i'r darluniad hwn, yr oeddynt i gael eu gwrthod, ar y dybiaeth eu bod yn eu twyllo eu hunain, trwy feddwl fod ganddynt alwad ddwyfol, pan mewn gwirionedd nad oedd ganddynt; neu eu bod yn dymuno twyllo eraill, trwy broffesu meddu yr hyn y gwyddent nad oedd ganddynt; yn ol y naill achos neu y llall nid oeddynt addas i'r weinidogaeth.

Eglur a phenderfynol yw canonau y Testament Newydd o berthynas i apwyntiad gweinidogion; ac o'r rhai hyn y cyfododd lliaws mawr o geinoreolau, y rhai a wnaed mewn gwahanol amserau gan wahanol gynghorau er rheoli amgylchiadau eglwysig; ychydig o ba rai a ellir eu darnodi, a alluoga y darlennydd i ffurfio ei farn ei hun o berthynas i ganoneiddrwydd apwyntiad rhagflaenyddion ein huchel-eglwyswyr.

Nid oes braidd ddiwedd ar y canonau a wnaed yn erbyn Simoniaeth. Y mae y canonau apostolaidd, fel eu gelwir, er nad o awdurdod apostolaidd, eto o hynafiaeth uchel iawn, ac ydynt mewn bri mawr gan bobl y dolenau—y maent hwy yn arfaethu: "Os unrhyw esgob, offeiriad, neu ddiacôn, a feddianna ei urddas trwy arian, bydded iddo ef, a'r hwn a'i hordeiniodd ef, gael eu diswyddo, a'u tori ymaith o gymundeb yn hollol, fel y cafodd Simon Magus gan Pedr:" (Canon 22). Yn o.c. 451, darfu i gynghor Chalcedon arfaethu: "Os unrhyw esgob a ordeinia am arian, a gwneyd marchnadyddiaeth o ras anwerthadwy, na fydded iddo ef a ordeiniwyd fod fyth yn well o'i ordeiniad." Cynghor Caereystenyn, a gynnalwyd yn o.c. 683 (Can. 22), a ordeiniodd: "Fod iddynt hwy a ordeiniwyd am arian gael eu diswyddo, a'r esgob a'u hordeiniodd hwynt." Arfaethwyd canonau cyffelyb gan Gynghorfa Placentia, yn o.c. 1095, a chan ail Gynghorfa Lateran. Y mae deugeinfed canon Eglwys Loegr yn galw Simoniaeth yn "bechod adgas," ac yn gofyn i bob un gymeryd ei lw na chyflawnodd efe ef.

Gwnaed llawer o ganonau er diwygio yr offeiriad, ac i iachau y drygau gwarthus oedd yn ffynu ymhlith pob gradd o honynt hwy. "Gwaherddid i'r esgobion ordeinio na chefnogi y rhai a fyddent anwybodus o'r Lladin. Gorchymynid fod i'r Ysgrhythrau gael eu darllen bob dydd wrth fyrddau yr esgobion eu hunain; a gwaherddid i'r offeiriad yn gyffredin i wisgo yn foneddigaidd mewn sidan a sandalau gwynion, &c., na gwisgo galarwisgoedd. Gorchymynid iddynt hefyd beidio chwareu disiau nac ymladd ornestau; a phwy bynag o honynt a fyddent feirw o'r clwyfau a gawsent mewn ornest, a gleddid heb wasanaeth eglwysig. Ffurfiwyd canonau eraill yn erbyn priodasau perthynasol, gortherchiaeth eglwysig, a chwareu *inter-*

lutians mewn eglwysi," &c.¹ "Y mae rhai o'r canonau," meddai Dr. Townley,² "yn cyfeirio at droseddau y rhai a arferid yn gyndyn warthus o lygr-edig—rhy anweddus yn eu natur i'w darlunio i lygaid y cyhoedd, ac â'r rhai nis gallwn dduo ein dalenau. Bydd i'r canlynol, a ddeholwyd o *actas* yr amrywiol gymanfaeodd Seisonig, roddi i'r darlennydd olwg weddol gywir ar anwybodaeth a drygioni yr offeiriaid, yn yr amser a elwir yr oesoedd tywyll.

"Arfaethwyd mewn cymanfa a gynnaliwyd yn Westminster, gan Anselm, o.c. 1102, yn ol y nawfed Canon, 'Nad yw offeiriaid i fyned i gyfarfodydd yfed.' Yn ol canon y seithfed ar hugain, 'Nad oes i neb arfer y fasnach ddrygionus a arferwyd hyd yn hyn yn Lloegr, o werthu dynion fel anifeiliaid.' Mewn cymanfa a gynnaliwyd yn Llundain, o.c. 1175, yr hon a alwyd ynghyd gan Archesgob Richards, gwnaed canon yn arfaethu, 'Na fyddai i neb, yn ymddangos fel offeiriaid, wisgo neu ddwyn arfau, ond gwneyd eu gosodiad a'u gwisgiadau, i fod yn gyfaddasol i'w profies; neu gael eu dianrhydeddu fel dianrhydeddwyr y canonau a'r awdurdod eglwysig.'"

Rhydd y dosranau uchod i'r darlennydd ddrychfeddwl weddol gywir o'r canonau, apostolaidd ac eglwysig, a ofynid eu cadw wrth benodi dynion i'r weinidogaeth Gristionogol. Dywed Dr. Hook: "Gall yr esgobion presennol olrhain eu hawdurdod i bregethu ac i lywodraethu yr eglwys, trwy yr holl gyfrwng-esgobion, gan y rhai y cawsant hwy eu hordeinio yn ganonaidd; ac mewn canlyniad i'r ordeiniad canonaidd a gafwyd felly, y mae ganddynt awdurdod i lywodraethu yr eglwys—ac wrth hyn y maent i'w hadnabod fel y wir eglwys, oddiwrth y sectau hyny, y rhai sy'n bodoli dan athrawon hunain-apwyntiedig." Yn awr, ni a roddasom restr o fwy na dau cant a deugain o babau, rhwng yr apostolion a'r diwygiad. Pa sawl un o'honynt a ordeiniwyd yn ganonaidd?—yn ol y canon cyntaf, sy'n gofyn i esgob fod yn ddiargyhoedd—neu yr ail, sydd yn gofyn ei fod yn ŵr un wraig—neu y pedwerydd, sydd yn gofyn ei fod yn athrawaidd—neu y nawfed, sydd yn gofyn iddo beidio bod yn gybyddlyd—neu y trydydd ar ddeg, sydd yn gofyn na bo yn newyddian yn y ffydd? Gallen fyned trwy yr holl ganonau o un i un, ysgrythyrol ac eglwysig; a pha ganon sydd, ar na thorwyd ugeiniau o weithiau gan ragflaenoriaid y doctor? canys dywed yr Homili, wedi enwi drygau, simoniaeth, anwybodaeth, ac ariangarwch y pabau, mai "y fath, gan mwyaf, oedd holl babau Rhufain." Yn wir, yr oedd ordeiniadau y pabau hyn mor anghanonaidd, megys y profwyd o'r blaen, fel y gofynai y diwygwyr i'r offeiriaid pabaid a ddeuent drosodd i'r eglwys ddiwygiedig, i gael eu hordeinio, "oblegid mai gwrthgilwyr ac aelodau anghrist oedd y rhai a'u hordeiniodd hwy." Sonier, yn wir, am ordeiniad canonaidd esgobion presennol Eglwys Loegr, ar egwyddorion y pabyddion, a gwŷr y dolenau! gallech can gystal adeiladu pont i'r lleuad, a, naill ai profi olyniant didor, neu gyfiawnhau y diwygiad, na hyd yn nod ei amddiffyn ar egwyddorion gwŷr yr olyniant; canys os yw ein Pusey-aid a'n huchel-eglwyswyr yn iawn, y mae yr Homiliau, ac yr oedd y diwygwyr oll, yn gyfeiliornus.

"Y mae yn wiredd neillduol," meddai y Parch. Richard Watson,³ "fod y rhai a gydnabyddwyd gyntaf yn esgobion yn y rhan ogleddol o Loegr,

¹ "Townley Illus." Cyf. ii., tudal. 148.

² Cyf. i., tudal. 140.

³ Tudal. 409.

ac a fuant yn offerynol i ddwyn Cristionogaeth yno, wedi, nid yn unig eu dwyn i fyny yn Iona, ond wedi derbyn eu holl awdurdod gan gynghorfa o hynafiaid a henaduriaid, yn yr ynys hono; canys ni a ddysgw'n oddiwrth y 'Croniel Sacsonaidd,' 'bod yno *abbad*, ond DIM ESGOB.' Dyma fel yr oedd yr amgylchiad o berthynas i Cormac, esgob y Northumbriaid, yn gystal ag Aidan, Finan, a Colman, y rhai a ddilynasant y naill y llall yn y genadaeth hon. Y mae yn eglur oddiwrth dystiolaeth Bede, mai trwy offerynoliaeth y cenadon Ysgotaidd, neu y rhai a ddysgwyd ac a ordeiniwyd ganddynt hwy, y cafodd, nid yn unig y Northumbriaid, ond hefyd yr Angles Canolbarthig, y Merciaid, a'r Sacsoniaid Dwyreiniol, yr holl ffordd i afon Tafwys, *h.y.* trigolion y rhan fwyaf o lawer o Loegr, eu troi at Gristionogaeth; ac am beth amser a gydnabyddasant ymostyngiad i lywodraeth eglwysig yr Ysgotiaid. Colodd y rhai diweddaf eu dylanwad, yn unig oblegid i'w cenadaw ddeuwis yn hytrach roddi i fyny eu gofal, nag ymostwng i ddylanwad cynnyddol Eglwys Rhufain, i'r hon yr oedd Sacsoniaid y Gorllewin a Ghent wedi ymostwng."

Dywed Dr. Doddrige, yn ei "Ddarlithiau,"¹ "Cymerodd Mr. Jones, arno brofi yn helaeth, nas gellir olrhain ordeiniad ein hesgobion Seisgoni ni i Eglwys Rhufain, fel eu dechreuad; fod olynwyr Awstin fynach, yr hwn a ddaeth drosodd yma yn 596, agos wedi hollol ddarfod erbyn y flwyddyn 668; a bod y rhan fwyaf o lawer o'r esgobion o ordeiniad Ysgotaidd, gan Aidan a Finan, y rhai a ddaethant allan o fynachlog Columbanus yn Culdee, ac heb fod yn amgen na henaduriaid; ond a wnaed yn esgobion gan dywysogion y genedl Ogleddol, pan ddychwelwyd hwynt ganddynt, *h.y.* rhoisant iddynt awdurdod ar yr offeiriad, a chymeryd eraill yn esgobion o blith eu dychweledigion. Felly y mae gwadu cyfreithlonrwydd ordeiniad henaduriaethol yn siglo esgobaeth Lloegr hyd ei sylfaen."

Beth sydd yn dyfod bellach o haeriad cawr y Puseyaid a'n huchel-eglwyswyr: "Fod sylfaenwyr neu blanwyr Eglwys Loegr, yn Frutaniaid a Sacsoniaid, yn esgobion wedi eu hordeinio gan esgobion eraill? Tra yr ymddengys mai henaduriaid Ysgotaidd oeddynt; felly wrth geisio llywio yn glir oddiwrth yr olyniant trwy y pabau, cafodd yr awdur dysgedig ei olyniant trwy henaduriaid. Y mae cyfundrefn yr olyniant yn rywbeth tebyg i long St. Paul, "yn syrthio i le deufor-gyfarfod;" *Act. xxvii. 41*: ac ni all lai na myned "yn ddrylliau gan nerth y tonau"—ordeiniadau henaduriaethol, anghanonaidd, amhrofedig, a phabaidd; a goreu pa gyntaf i'r rhai a hwyliasant ynddi ddianc o honi i dir sych yr ordeiniad a ofynir gan yr ysgrythyrau a'u heglwys eu hunain. Bydd y llong yn sier o ddryllio; ond nid yw hyny o nemawr ganlyniad, os dianc y dwylaw oll i dir yn ddiangol.

Y mae yr hanes ganlynol am ddechreuad tebygol esgobyddiaeth mor reymol, ac mor debyg i fod yn wir, fel y mae yn hyfrydwch mawr genym ei roddi o flaen ein darllenwyr. Y mae o eiddo ysgrif yr ysgrifenydd galluog hwnw, Dr. Stillingfleet, lle, yn ei waith y cyfeiriwyd ato mor fynych eisoes, y gall y darlennydd gael yr hysbysiad helaethaf ar y pwnc mewn dadl. Dywed yr esgob fel hyn:² "Pan gymerwyd yr apostolion o'r ffordd, ac i'r prif awdurdod gael ei gadael yn nwyllaw yr henaduriaid, y rhai a feddiannent allu gogyfuwch yn eu plith eu hunain, yn enwedig gan fod

¹ "Townley's Illus." Tudal. 197.

² "Irenicum." Tudal. 281—282.

llawer o honynt mewn un ddinas, yr hyn a roes achlysur i lawer o sismau, mewn rhan trwy gydfard yr henuriaid, y naill yn erbyn y llall; ac mewn rhan trwy ogwyddiad y bobl, gyda rhai yn erbyn y lleill; ac mewn rhan hefyd trwy arferiad rhy gyffredin o'r awdurdod i ordeinio mewn henaduriaid, trwy yr hyn y galluogid hwy i gynnyddu eu plaid eu hunain, a thrwy hyn barhaus sismau yn yr Eglwys. Ar hyn, pan ddarfu i'r rhai mwyaf syml a doeth ystyried y fath gamwri oedd yn cael ei wneyd; a chan ddilyn yr awdurdod i ordeinio yn amhleidiol, ac hefyd, gadw yn eu meddwl ragoroldeb y ffurf o lywodraeth yr eglwys dan yr apostolion, a'r rhai a anfonwyd ganddynt hwy, ac i attal sismau rhagllaw, a rhwygiadau yn eu plith eu hunain, hwy a gytunasant yn unfrydol i ddewis un o'u rhifedi eu hunain, yr hwn oedd gymhwysaf i drin y fath ymddiried mawr, a rhoddi yr ymarferiad o'r hawl o ordeinio a llywodraethu iddo ef; eto, yn y cyfryw fodd, fel na weithreda ddim o bwys heb gydsyniad â chydalais yr henuriaid, y rhai oeddent yn barhaus i fod megys gwŷr o gynghor i'r esgob. Yr wyf yn cymeryd mai hyn *yo gwir a chyfiawn hanes dechreuad esgobyddiaeth yn y brif eglwys, yn ol Jerome.*"

Ac nid llythyren farw chwaith oedd cyfreithlonrwydd ordeiniad henaduriaethol ymhlith y diwygwyr, canys yr oeddent hwy yn gwneyd yn gystal a dyweyd, trwy i weinidogion henaduriaethol feddiannu pulpudau yr Eglwys Sefydledig, a gweinyddu wrth ei hallorau. Ni chafodd Whittingham, deon Durham, yr un ordeiniad amgen na phleidlais yr holl gynulleidfa yn Geneva; a phan ymwelodd Sandys, archesgob Caerefrog, â Durham, gyda golwg ar ddiswyddo y deon, gan nad oedd, tybiai ef, ond llëygwr, dangosodd y deon ei dystlythrau, a chyfododd yr arglwydd lywydd i fyny, a dywedodd nad allai ef o gydwybod ei ddiswyddo oblegid hyny yn unig, "Canys," meddai efe, "cymerir ef yn ddrwg gan yr holl ddyinion duwiol a dysgedig, gartref ac ar led—ein bod yn caniatâu i offeiriaid pabaidd yr offeren i ddyfod i'n gweinidogaeth, ac yn gwrthod y gweinidogion a wnaed gan yr eglwys ddiwygiedig;" ar hyn, gosodwyd y weithred *sine die*.¹

Dywed yr un awdur, ddarford i'r Archesgob Grindall roi trwydded i Mr. John Morrison, duwinydd Ysgotaidd, yr hwn na chafodd ond ordeiniad henaduriaethol yn unig—yn y geiriau canlynol; "Yn gymaint ag i chwi, y dywededig John Morrison, oddeutu pum mlynedd yn ol, yn nhref Garrett, yn sir Lothian, yn nheyrnas Scotland, gael eich derbyn a'ch ordeinio i urddau sanctaidd, trwy arddodiad dwylaw, yn ol ffurf ganmoladwy a hawliau Eglwys Ddiwygiedig Scotland; a thra y mae cynulleidfa sir Lothian hño yn gydffurfiol â'r ffydd uniawngred, a'r wir grefydd, sydd yn awr yn cael ei derbyn yma yn nheyrnas Loegr, ac yn sefydledig trwy awdurdod gyhoeddus, yr ydym ni, gan hyny, cybelled ag y mae yn ein gallu, a thrwy hawl y gallwn, gymeradwyo a chadarnhau y ffurf o ordeiniad a'r fywioliaeth a gawsoch chwi, yn y cyfryw ddull a nodwyd, gan roddi i chwi drwydded a swydd, gyda chydsyniad a gorchymyn penodedig y Gwŷr Barchedig Dad yn Nghrist, Arglwydd Edmund, trwy Ragluniaeth Duw, Archesgob Canterbury, i fod yn brawf, y gellwch chwi, trwy y cyfryw urddau a gymerasoch, feddu hawl i weini swyddau sanctaidd, gweinyddu y sacramentau, &c., mewn unrhyw le cyfiës, yn, a thrwy holl archesgobaeth Canterbury."

Esgob Carlton a ddywed hefyd; "Y mae yr hawl i ordeinio, yn ol pob

¹ "Neal's History of the Puritans." llyfr i., tudal. 1.

ysgrifenydd a allaf fi weled, hyd yn nod yn ol o Eglwys Rhufain ei hun, yn cael ei ddeall ei fod yn uniongyrchol oddiwrth Grist, wedi ei roddi i'r holl esgobion a'r offeiriad fel eu gilydd, yn eu cysegriad."¹ Dadleua Dr. Field yn erbyn Bellarmine ar yr un tir. Byddai yn waith diddiwedd darnodi yr holl awduron sydd yn siarad i'r un pwrpas.²

Dyna y fath oedd athrawiaeth ac arferiad Eglwys Loegr hyd Ionawr 12, 1588, pan yr haerodd Bancroft fod esgobion Lloegr yn urdd wahanol oddiwrth offeiriad, ac yn meddu uchafiaeth arnynt, *jure divino*, ac yn uniongyrchol oddiwrth Dduw. "Ni chodwyd yr athrawiaeth hon erioed o'r blaen yn Lloegr; yr oedd yn newydd a dyeithr i Buritaniaid ac Eglwyswyr. Tybid bob amser cyn hyn, mai sefydliad dynol yn unig oedd fod urdd yr esgobion yn wahanol oddiwrth, ac yn uwch na henaduriaid. Dy-chrynodd llywodraethwyr oblegid y dybiaeth fod esgobion yn derbyn eu hawl oddiwrth Dduw, ac nid oddiwrth yr ynadon, fel peth yn taro ar yr athrawiaeth o uchafiaeth y frenines.³ Ond daeth yr athrawiaeth newydd i flas yn fuan gan yr offeiriad; a tharddodd i fyny yr ynfyrwydd ynghylch olyniaeth esgobaethol."

Dyma oedd tyb Esgob Jewell, Falk, Field, Esgob Downham, Esgob Bancroft, Esgob Morton, Esgob Andrews, ac eraill—nad oedd esgobyddiaeth i'w amddiffyn ar yr egwyddor o *jure divino*, ond ar gyfleusder y ffurf hono o lywodraeth i sefyllfa a chyflwr yr eglwys, tuag amser y diwygiad. Y golygiadau hyn a gymerwyd gan y gymanfa ddetholedig o dduwinyddion, a alwyd ynghyd gan y brenin Edward, yn 1547, i ddadleu ar sefydliadau pethau, yn ol gair Duw a'r brif eglwys; eisteddodd y rhai hyn yn nghastell Windsor; lle, wedi hir, dysgedig, doeth, ac amyneddgar ymgynghori, y darfu iddynt o'r diwedd gyduno â'r drefn unfurf; yn sier, nid oblegid nad oeddynt yn ystyried eu hunain wrth eu rhyddid i fabwysiadu un arall; nid eu bod yn ei hystyried yr unig ffurf oedd gyfreithlawu i unrhyw eglwys ei fabwysiadu, neu na allai un eglwys fod yn wir eglwys ond y cyfryw a gynllunid yn ol y drefn hon, neu nad oedd cymundeb i'w ddal âg unrhyw eglwysi a fabwysiadai wahanol ffurf o lywodraeth, canys "yr ydys yn gweled, yn ol tystiolaeth Cranmer, yr hwn oedd y prif offeryn yn ein diwygiad, nad oedd ef yn dal esgobyddiaeth fel urdd gwahanol oddiwrth henaduriaeth trwy hawl ddwyfol, eithr yn unig fel cyfansoddiad doeth o eiddo swyddog gwladol, er llywodraethu yr eglwys yn well."⁴

Yn wir, ar yr egwyddorion hyn yn unig y gallesid amddiffyn y diwygiad. Nid yw yn rhyfug ynom haeru, nas gellid fyth ei wneyd ar egwyddorion y Puseyaid a'n huchel-eglwyswyr—gwŷr y gadwen; nid oes digon o Brotestaniaeth yn eu cyfundraeth hwy i'w chynnal mewn bod, llawer llai i roddi bod iddi. Boed i ni dybied am fynyd fod eu hathrawiaethau hwy yn cael eu dal gan Cranmer, Latimer, Ridley, ac eraill oedd yn cymeryd y blaen yn y gwaith mawr hwnw; tybier ddarvoud i'r dynion defosiônol hyn fyned oddiamgylch i bregethu ysbrydoliaeth yr esgobion Pabaidd a'r offeiriad; eu bod yn "wirioneddol trwy ddisgyniad," ddolen yn nolen; ac felly iddynt fyndu nad allai neb fod yn wir weinidogion Crist, ar nad allent olrhain eu hawdurdod oddiwrthynt hwy; nad allai neb gyrhaedd iachawdriaeth nad oeddynt dan arweiniad gweinidogion ag oedd yn ddolenau yn

¹ "Treat. on Juris." Tudal. 7.

² "Isaac." Tudal. 71.

³ "Neal's History." llyfr i. pen. 7.

⁴ "Irenicum." Tudal. 386—393.

y gadwen ; na fwriadasant hwy erioed ymadael âg Eglwys Rhufain, gan nad oedd gan neb ond yr offeiriadaeth Babaid awdurdod i bregethu yr efengyl ; mai hwy oeddynt olynwyr cyfreithlawn yr apostolion, ond fod wyneb Eglwys Rhufain wedi pardduo ychydig, a'u bod hwy yn dymuno ei olchi ; fod yr adeilad anrhydeddus, mewn ystod blyneddau, wedi casglu peth "llwch, a rhyw anffurfiadau," yr hwn y dymument hwy ei symud ; ond nad oeddynt hwy yn bwriadu cyffwrdd â dim o bwys, eithr, "fod i'r eglwys aros yr un wedi ei diwygio, ag oedd o'r blaen ; yn union fel dyn wedi golchi ei wyneb, yn aros yr un ag oedd o'r blaen." Pe cymerasai y diwygwyr y golygiadau hyn, buasai raid eu bod yn hurtiaid a gwallgofiaid i ddyoddef y fath wrthwynebiad ag a wnaethant, ac aberthu anrhydedd, esmwythder, elw, rhyddid, a bywyd ei hun, i gwblhau y *dim pwyysig* o olchi gwyneb yr Eglwys sanctaidd Rufeinig, "cartref sanctaidd Crist." Iê, rhaid fod euog-rwydd mawr yn ymlwyn wrthynt am wneyd y fath gynhwrf a wnaethant. Os yw gwŷr y gadwen yn iawn, y mae y diwygiad yn beth cyfeiliornus hollol ; a'r diwygwyr, yn lle bod yn llesolwyr eu cenedl, ac offerynau anrhydeddus yn llaw Duw, yn sismaticiaid, yn derfysgwyr heddwch y wladwriaeth, yn elynion dynolryw, ac yn elynion i Dduw ; mewn gair, yr oeddynt yn bob peth ag y gosodir hwy allan gan rai o'r dolenau, hyd yn nod yn eglwys y diwygwyr eu hunain.

Ond os "anghris" oedd Eglwys Rhufain, fel y tystir ei bod, "mam pob ffeidd-dra"—os oedd ei hoffeiriaid yn "olynwyr Lusifer, yn hytrach na Pheidr"—os oedd hi yn "eglwys eilun-addolgar, yr hon a dwyllodd y cenedl-oedd dros hir amser," yna yr oedd y diwygwyr yn iawn, fel y gwelsoem eu bod, wrth gysylltu y pab â "phechod, marwolaeth, a'r diafol," a'i farnu fel "mab y golledigaeth ;" a'r eglwys, ar yr hon y profesai fod yn ben anffael-edig, fel y "buten aflanaf a ffeiddiaf a welsom erioed ;" wrth rybuddio y bobl o'u perygl o barhau mewn cysylltad â'r fath gymundeb gwrthgiledig, a galw arnynt yn iaith yr ysgrhythrau sanctaidd hyny, y rhai a gadwodd hi oddiwrth y bobl am gynnifer o oesoedd, "Deuwch allan o honi hi, fy mhobl, fel na byddoch gydgyfranogion o'i phechodau hi, ac na dderbynioch o'i phlâau hi;" *Diar.* xviii. 4. Trwy brotestio yn ddiogel fel hyn yn erbyn, a dadguddio cyfeiliornadau a llygredigaethau ffaidd Eglwys Rhufain, y darfu i'r diwygwyr gynhyrfu lliid gwladwriaethau caethiwus a deillion, a sefydlu y diwygiad gogoneddus mewn cynnifer o wledydd ; a thrwy gyson *brotestio* yn erbyn y llygredigaethau hyn yn unig y gellir ei gynnal mewn bod.

Yn awr, pwy bynag a ddarlleno yr erthyglau hyn, raid, dybiwn, ddyfod i'r casgliadau terfynol hyn :—

1. Fod yr athrawiaeth o olyniant apostolaidd yn methu mewn prawf hanesiol.

2. Fod anwybodaeth, heresiaeth, simoniaeth, a drygioni gwarthus rhifedi mawr o'r pabau a'r esgobion, trwy y rhai yn unig y gellir ei olrhain, yn gwneyd eu penodiad i'w swyddau mor anysgrhythrol ac anghanonaidd, fel mai pe gellid gwneyd allan gadwen ddigoll a chywir ddifalc, ddifwlch yn disgyn o'r apostolion i lawr i'r amser presennol, na chyfeai unrhyw awdurdod yn y byd. Gan hyny, yr oedd y diwygwyr yn berffaith gyfiawnhaol yn gofyn i'r offeiriad Pabaid, ddyfod trosodd i'r eglwys ddiwygiedig, a chymeryd eu hail-ordeinio, ar y tir nad oedd eu hordeiniad cyntaf, "trwy awdurdod y pab, o ddim lles :—" "canya," meddai Calvin, "y mae yn sier nad

oes neb, ag oedd yn offeiriad Pabaidd, a ellir eu hystyried yn weinidogion Cristionogol, oddieithr iddynt yn gyntaf ymwrthod âg offeiriadaeth Pabyddiaeth, i'r hon y dyrchafwyd hwynt, i wneyd ac offrymu Crist fel aberth yn y *mass*, yr hyn sydd yn fath o gabledd i'w ffeiddio yn mhob modd galluadwy."¹

3. Fod cydraddoliaeth esgobion a henaduriaid yn y brif eglwys—yr hyn a ganiatëir gan ein holl ddiwygwyr, ac ymwrthodiad cyffredinol o hawl ddwyfol esgobyddiaeth, yn farwol i'r olyniant.

Gellid dwyn rhesymau eraill, pe byddai yn anghenrheidiol; megys y gwahanol ddulliau o ethol y pabau; y diffyg o gymhwysderau offeiriadol, gan mai llëygwyr yn unig oedd rai o honynt, &c.: ond gan i ni eisoes daro y gelain deirgwaith, y mae y darlennydd, gobeithir, yn eithaf parod i rod-di ei law wrth yr ardstiad canlynol o eiddo y Parch. John Wesley, yr hwn nad yw hynotach am ei herfeidd-der na'i wirionedd: "Mi a wn mai dychymyg yw athrawiaeth yr olyniant apostolaidd, na allodd neb erioed, ac na eill neb byth ei phrofi."

Y REGIUM DONUM.

PE dywedem mai ystyr y ddau air *Regium Donum* yw *Rhodd Freninol*, ni byddai y dosbarth hwnw o'n darllenwyr a ddichon fod heb wybodaeth hel-aethach yn eu cylch na hyny nemawr nes i ddeall eu harwyddocâd; gan hyny, y mae yn anghenrheidiol i ni wrth ddwyn y pwnc hwn i sylw, rod-di eglurhad ar ei hanes a'i natur: ac i'r dyben hwnw, y mae genym o'n blaen dystiolaeth y Dr. Thomas Rees ger bron Pwyllgor Neillduedig i wneuthur ymchwiliad ynghylch yr arian a bleidleisir gan y senedd o dan yr enw *Amyrwion (Miscellaneous Estimates)*, rhan o ba rai yw y *Regium Donum*. Rhoddwn gyfieithiad rhwydd o dystiolaeth Dr. Rees, fel y gallo y darlennydd gael golwg gyflawn ar holl amgylchiadau y rhodd hon. Hwyrach y dylem ddyweyd yn y dechreu, mai arian ydynt a bleidleisir, gan y senedd yn bresennol, tuag at gynnorthwyo gweinidogion Ymneillduol a ddichon fod mewn anghen. Y mae dros 37,000*p.* yn cael eu pleidleisio yn flyneddol, fel *Regium Donum*, gan y senedd i Bresbyteriaid yr Iwerddon, ond nid ydym yn bwriadu ar hyn o bryd, namyn crybwyll fod y fath rodd yn cael ei chaniatáu. Cyfyngwn ein sylwadau at y rhodd a bleidleisir i weinidogion Ymneillduol Lloegr a Chymru. A ganlyn yw tystiolaeth Dr. Rees am ei hanes:—

"Trwy eich dwylaw chwi y cyfrenir y *Regium Donum* i weinidogion ymneillduol Protestanaidd, onid e?—Yr wyf yn meddu yr anrhydedd o fod wedi fy mhenodi yn dderbynydd y rhodd seneddol o'r trysorlys.

Er's pa faint o amser yr ydych chwi yn y swydd hono?—Bum yn ddo-barthwr am ddeng mlynedd ar hugain; yr wyf wedi fy mhenodi yn dderbynydd o'r trysorlys er's o wyth i ddeng mlynedd: nis gallaf gofio yn fanwl pa bryd y derbyniais y swydd gan Arglwydd Melbourne.

¹ "Calvin's Epist." Gwel Powell; tudal. 135.

A fyddai y swm a gyfrenid bob amser yr un faint?—Byddai, o 1,600*p.* i 1,700*p.*: telir hwynt yn ddau dal hanner-blyneddol.

Yr ydych chiw mae'n debyg yn hysbys o natur a hanes y rhodd hon; a wnewch chiw adrodd i'r pwyllgor pa fodd y dechreuodd?—Hanes y rhodd yn fy yw hyn: yn nheyrnasiad Sior y Cyntaf, o herwydd sefyllfa isel Ymneilldŵyr a dyoddefiadau amryw o weinidogion Ymneillduol, cafwyd gan y brenin ganiatáu rhodd o 500*p.* er eu cynnorthwyo; telid y 500*p.* hyn yn hanner-blyneddol. Rhoddid hwynt i nifer penodol o weinidogion mwyaf enwog Ymneilldŵyr Protestanaidd dau enwad, Henaduriaethwyr ac Annibynwyr. Felly y parhaodd yn rhodd freninol am gryn nifer o flyneddau, a thelid hi yn y ffurf hono yn rheolaidd hyd esgyniad Sior y Trydydd i'r orsedd. Gwnaed rhyw gyfnewidiadau y pryd hyny yn nghyllidau treftadol y goron, a chaniatâwyd traul y goron (*civil list*), ond yr oedd y taliad hwn yn cael ei wneyd o'r gôd neillduol (*private purse*), fel o'r blaen. Ond oddiar ryw drefniadau newyddion a wnaed gyda golwg ar draul y goron yn y flwyddyn 1804, nid oeddynt mwyach yn cael eu talu o draul y goron, ond darperid hwynt trwy bleidlais seneddol. Trefnid yn nechreu pob teyrnasiad na byddai iddynt gael eu cymeryd o draul y goron; ond eu darparu trwy bleidlais seneddol, fel ag y maent wedi dyfod yn rhodd seneddol yn lle yn rhodd freninol."

Y mae yn anghenrheidiol i'r darlennydd ddeall fod cyllid y goron yn cael ei wneyd i fyny mewn rhan o feddiannau ag oedd yn perthyn iddi, ac mewn rhan o drethiad ar rhyw nwyfau penodol. Yr oedd hyn ar y cyntaf yn cynnwys holl gyllid y deyrnas, o'r hyn y telid holl draul y llywodraeth,¹ ac yr oeddynt hefyd yn hollol dan reolaeth y neb a eisteddai ar yr orsedd. Yn amser William III., ac oddiyno i waered hyd Sior III., yr oeddynt yn cael eu penodi gan weithred seneddol yn feddiant—*h.y.*, yn feddiant cyhoeddus, o ba rai y telid traul y llywodraeth—i'r rhai a eisteddent ar yr orsedd, a'r weithred hono yn cael ei hadnewyddu yn nechreu pob teyrnasiad.² Ni bu y cyllidau hyn erioed yn meddiant Sior III., ond, fel y dywed Dr. Rees, caniatâwyd traul y goron (*civil list*) trwy bleidlais seneddol, pa un oedd yn cynnwys traul y teulu breninol, ac amryw dalion eraill, yn lle yr hyn a elwid "Cyllidau Treftadol y Goron" (*Hereditary Revenues of the Crown*). O draul y goron hefyd y telid y *Regium Donum*. Ond yn y flwyddyn 1804, cymerwyd hyn, ynghyd â rhyw dalion eraill, o draul y goron, a darperid hwynt yn flyneddol, fel y nodwyd uchod, trwy bleidlais seneddol, er fod yr un enw yn para arni yn barhaus.

Y mae yr eglurhad a ddyry gwahanol ysgrifenydd ar hanes dechreuol y rhodd hon yn anghytuno. Dywed Dr. Rees, a'r rhai sydd yn bleidiol iddi, oddiar dystiolaeth Dr. Calamy, yr hwn oedd un o'i dosbarthwyr cyntaf, ei bod wedi tarddu oddiar wir ewylllys da Sior I. Ceir yr hanes a ganlyn mewn trathodyn o eiddo Dr. Rees ar "*Hanes y Regium Donum*."

"Y cynnyg cyntaf am dani a wnaed gan Mr. Daniel Burgess, yr hwn oedd wedi bod am ryw yspaid yn ysgrifenydd Tywysoges Cymru. Efe, o'i ben ei hun, o ewylllys da i'r rhai hyn ag yr oedd wedi derbyn ei addysg yn ei mysg, a grybwyllodd am rywbeth o'r fath wrth Arglwydd Is-iarll Townsend, yr hwn a gydunodd yn union, ac wedi hyny ymddyddanodd â'i frawd Walpole, a chyd-syniodd yntau hefyd. Pau y erybwyllwyd wrth y brenin yr oedd yn bur harod, ac yn fuan gorchymynodd dalu 500*p.* o'r trysorlys at wasanaeth gweddwon tlodion gweinidogion Ymneillduol. Yn mhen rhyw yspaid wedi hyn, oddiar ymfyniad i'r dyben hwnw, gorchymynodd dalu 500*p.* bob hanner blwyddyn, er

¹ "*Reply of the Committee of the British Anti-State Church Association to Dr. Pyc Smyth*." Tudal. 7.

² *Ido*: tudal. 13.

cynnorthwyo naill ai eu gweinidogion neu eu gweddwon ag oedd mewn eisieu help, neu i'w defnyddio yn y llwybr y tybiai y cyfranwyr yn fwyaf buddiol iddynt." Tudal. 4.

Dyma eglurhad Dr. Edmund Calamy, yr hyn a ystyria Dr. Rees fel yr unig hanes awdurdodedig. Ond y mae ochr arall i'r ddalen yn cynnwys esboniad y rhai a wrthwynebant y rhodd. Ymddengys fod rhai gwŷr dysgedig a pharchus yn sefyll yn ei herbyn o'r dechreuad. Yn yr un traethodyn, ceir yr eglurhad canlynol, wedi ei ddyfynu gan Dr. Rees o draethodyn a ysgrifenyddyd, fel y tybir, gan Dr. Henry Mayo, yr hwn oedd weinidog Annibynol yn Llundain, ac yn athraw yn ngholeg Homerton :—

“Yr oedd Syr Robert Walpole y pryd hyny yn ganghellydd y trysorlys—gwladweinydd, a adnabyddai yn rhy dda, er gwir llesiant y wladwriaeth, y nwydau sydd fwyaf tueddol i lywodraethu y galon, ac i'r hwn ni bu neb yn gyffelyb am gymhwysu aur. Trwy hyn, troai yn feunyddiol ei elynion yn gyfeillion, ac a swynodd y rhai mwyaf tanlyd am ryddid, gweinidogion Ymneillduol fel eraill, yn y fath fodd ag i'w cymmodi â hudwobrau, ac hyd yn nod i hoffi llyffetheiriaid, ac i lawenyachu ynddynt. Yr oedd wedi sylwi y naill flwyddyn ar ol y llall ar yr effeithiau rhyfeddol yr oedd gwenau mainc y trysorlys yn ei gael ar bob gradd o ddynion; ac wrth weled fod yr Ymneilldŵyr Protestanaidd, ar ol cael eu gadael o'r neilldu am flyneddau, yn ymsymud ymlaen o ddirif am ryddhad o'u caethiwed, cymerodd ychydig o'u gweinidogion o'r neilldu, y rhai yr oedd yn tybied eu bod yn meddu mwyaf o ddylanwad yn mysu eu brodyr, ac a atebai ei ddybenion oreu. Ymddangosodd yn eu presenoldeb o dan hug cyfeillgarwch a difrifoldeb, canmolodd eu galluoedd rhagorol, sicrhaodd iddynt ei fod yn hynod o bleidiol i'r Ymneilldŵyr Protestanaidd, ac yn dymuno eu lleshad; yn teimlo o herwydd tloedi a bychander cyflogau llawer o'u gweinidogion drwy y deyrnas, a bod unrhyw ddeddfau yn sefyll ar ffordd eu rhyddid. Gorchfygwyd y boneddwy'r parchedig (fel eu hollynwyr yn y dyddiau hyn) gan ei ymostyngiad, ei hyawdledd, a'i ddaioni. Yna hysbysodd ei barodrwydd i'w gwasanaethu yn mhob modd, hyd yn nod yn y senedd, i ddyddymu y deddfau creulawn oedd yn eu herbyn; ond yr oedd yn amser pur anghyfadwas y flwyddyn hono, 1723. ‘Cynghorai ef, y cyfaill goreu a feddent, na byddai iddynt geisio hyny yr eisteddiad hwnw; os gwnaeth, y niweidient eu hachos yn fawr, os na ddyrsid ef yn hollol; ond y byddai ei adael o'r neilldu y pryd hwnw yn debyg o rwyddhau y ffordd i'w lwyddiant mewn amser dyfodol. Byddai ei adael o'r neilldu gydag ymostyngiad yn bur debyg o beri iddo lwyddo, tra y byddai ei ddwyn ymlaen heb un ystyriaeth o'r amgylchiadau, neu yn groes i gynghorion y dynion mwyaf deallus, a'u pleidwyr mwyaf galluog, yn beryglus ac yn ddiarnhydedd i'w hachos.’ Y mae iaith gwŷr y llys a'u hofferynau yr un, y naill genedlaeth ar ol y llall.” Tudal. 17.

Yna y mae yn dangos, i'r dyben i beri fod yr ymresymiad hwn yn effeithiol, ei fod wedi dwyn pum' cant o bunnau allan o'r trysorlys, i'w defnyddio er cysur gweddwon gweinidogion Ymneillduol; ac yn mhen rhyw yspaid drachefn, gorchymynodd dalu pum' cant eraill yn hanner-blyneddol i'r naw gweinidog hyny, i'w cymhwysu i unrhyw ddybenion y tybiai y cyfranwyr yn briodol.

Dyma y golygiad a rydd Dr. Mayo ar y rhodd hon. Ac y mae yn ymddangos—er hwyrach fod Dr. Mayo yn arfer rhai ymadroddion pur gryfion—nad oedd cynhelliadau Syr Robert y rhai puraf; oblegid pan aeth cynurychiolwyr ato ynghylch y Brawf Weithred (*Test Act*), dywedai, “fod y cais yn anmhriodol, ac nad oedd yr amser eto wedi dyfod.” “Yr ydych wedi rhoddi yr atebiad hwn mor fynych, Syr Robert,” meddai Dr. Chandler, “fel yr wyf yn hyderu y goddefwch i mi ofyn pa bryd y daw yr amser?”

I hyn yr atebai y gweinidog, "Os ydych yn gofyn ateb penderfynol, rhoddaf ef mewn un gair—*byth*."¹

Cadarnhêir y syniadau uchod gan un, Mr. Richard Richards, yr hwn oedd yntau yn Ymneilldŵwr zelog; a dywed ymhellach mai amddiffyniad y gweinidogion hyny, y rhai y llwyddodd Syr Robert Walpole i gael ganddynt dderbyn yr arian i'w rhanu, dros eu hymddygiad, yw yr hyn a ganlyn, yr hyn a ddyfynir o'r traethodyn y cyferaiwyd ato eisoes:—

"Y rhesymau goreu a roddid i mi (a'r rhai hyny yn rhai pur weiniaid) gan un o'r gweinidogion hyn (Dr. Harris), yr hwn yn mhob ystyr arall oedd yn ddyrcharchus, dygedig, a gonest, sef fod llawer o weinidogion yn eu mysg ag oedd mewn anghen cynnorthwy, y gwnai gyfranwyr yr arian yn fwy parchus, ac o ganlyniad, yn alluog i fod yn fwy defnyddiol; ac os byddai iddynt hwy wrthod yr arian, y byddai iddynt fyned i ddwyllaw dynion mwy anghymhwys, y rhai a allai wneyd camddefnydd o honynt. Ac amneidiodd, pe buasai y brawf-weithred yn cael ei dyddymu, ac i'r Ymneilldŵwyr gael eu rhoddi mewn lleoedd, y gallai eu gwneyd yn fwy diofal yn eu dull o fyw, ac yn fwy ansefydlog yn eu hegwyddorion, a thrwy hyny wanhau achos Ymneillduaeth." Tudal. 84.

Yn wir, gweiniaid iawn ydynt, meddwn ninnau—ond rhaid i ni adael ei hanes. Tueddid ni i ymhelaethu fel hyn am nad ydym yn gwybod i ni weled dim erioed yn Gymraeg ar y pwnc, ac fel y byddai i'n darllenwyr gael mantais i weled y ddwy ochr. Y mae y naill a'r llall yn cynnwys yr un ffeithiau; a pha bethau bynag oedd y cymhelliadau a barodd iddi gael ei rhoddi ar y cyntaf, y mae y cyfiawnder a'r priodoldeb o'i chaniatáu yn aros yr un. Nid yw yn berffaith amlwg pa fodd y mae gwahaniaeth rhwng gwaith Sior i. yn gorchymyn rhodd o'i feddiannau fel brenin i'r Ymneilldŵwyr, na phe buasai ef yn gyntaf yn gorchymyn i ddegwm gael ei godi at wasanaeth yr Eglwyswyr; oblegid yr oedd yr holl feddiannau ag oedd yn perthyn i'r goron yn cael eu hystyried yn feddiant swyddol, ac nid personol; canyis os diswyddid un brenin, ac i un arall gael ei ddewis yn ei le, yr oedd yr holl eiddo yn cael ei ystyried yn feddiant i'r olaf. Ond a chaniatáu fod gwahaniaeth rhwng y naill a'r llall ar y cyntaf, y mae y *Regium Donum* erbyn hyn yn cael ei thalu o gyllid cyffredinol y llywodraeth; ac nid oes un rheswm, dybygem ni, yn erbyn trethu yr Ymneilldŵwyr i gynnal yr Eglwys Wladol, nad oes yr un grym ynddo yn erbyn trethu yr Eglwyswyr i gynnal Ymneillduaeth. Er ein bod ni yn hollol wrthwynebol i'r naill yn gystal a'r llall, eto, rhaid i ni gyfaddef nas gallwn lai nag edrych ar weinidogion Eglwys Loegr yn fyrdd mwy anrhydeddus wrth dderbyn y degwm, na'r rhai hyny o'r Ymneilldŵwyr sydd yn derbyn y rhodd seneddol hon; oblegid nid yw y naill ond ymddwyn yn unol â'r egwyddorion a broffesant, tra y mae y lleill yn ymddwyn yn hollol groes iddynt: y mae y cyntaf yn derbyn eu tâl yn gyhoeddus fel mater o gyfiawnder, yn gydnabyddiaeth am eu hamser a'u llafur—mewn enw beth bynag—tra y mae yr olaf yn cael ei dalu yn ddirgel fel elusen.

Yn awr yr ydym yn troi at yr Adroddiad am hysbysrwydd pa fodd y dosberthir y rhodd.

"A wnewch chwi roddi eglurhad i'r pwyllgor pa fodd y mae y rhodd hon yn cael ei dosbarthu?—Yn rhinwedd fy ngosodiad, yr wyf fi yn derbyn yr hollswm o'r trysorlys; yr wyf wedi galw ataf wyth o weinidogion, tri o bob enwad, y cyfan yn naw. Y mae tri o Henaduriaethwyr, tri o Annibynwyr, tri o Fedyddwyr.

¹ "Cooke's History of Party." Cyf. ii. tudal. 371.

Rhenir yr holl swm yn gyfartal rhwng y naw hyny, oddieithr ychydig a gedwir i gyfarfod â rhyw draulion, fel y mae y tri enwad yn y modd yma yn cael darparu ar eu cyfer oddiar y dybiaeth mai gweinidogion y gwahanol enwadau a fyddai fwyaf manteisiol i wybod i bwy i gyfranu y rhodd elusenol hon."

Dealled y darlennydd mai wrth Henaduriaethwyr y meddylir yr Undodiaid. A chofied y rhai sydd yn derbyn y rhodd, mai derbyn *elusen* y maent, yn nghyfrif y senedd sydd yn ei phleidleisio, a'r rhai sydd yn ei dosbarthu. Mewn egwyddor, gwaddol ydyw, ond dywedir mai elusen ydyw, er mwyn cael rhywbeth tebyg i esgus dros y dirgelwch a berthyn iddi.

"Yr ydych yn cyfranu i dri o bob un o'r enwadau hyny?—Yr wyf yn rhoddi i bob un o'r personau hyny un ran o naw o'r arian, i gael eu cyfranu fel y barnont yn oreu, i weinidogion Ymneillduol Protestanaidd o'u henwad eu hunain, neu ryw enwad arall; oblegid, er eu bod yn cyfranu i'w henwad neillduol eu hunain, eto, nid ydynt yn cyfyngu eu cyfraniadau i hwnw yn unig; y mae y rhan fwyaf o'r arian a fyddo yn fy nwyllaw i yn cael eu rhoddi i bersonau nad ydynt yn perthynu i'r Henaduriaethwyr.

Pan y rhenir y swm yn naw rhan, y mae eu llywodraethiad yn hollol yn nwyllaw naw o bersonau?—Y maent at eu rhyddid yn gwbl pa fodd i gyfranu y rhan a fyddo yn eu dwyllaw hwy eu hunain.

A ydynt yn adrodd i chwi i bwy y maent yn cyfranu yr arian?—Mewn trefn i ddarparu eu bod yn cael eu dosbarthu yn deg, fel na byddo i'r un personau dderbyn gan wahanol gyfranwyr, yr ydym yn cynnal cyfarfod bob blwyddyn, yn yr hwn y dangosa pob un lechres o'u cyfraniadau; ac edrychir dros y cyfrifon, ac arwyddir hwy.

Edrychir drostynt gan bwy?—Ganddynt hwy eu hunain; y naw sydd yn eu cyfranu; penodir dau neu dri o honynt i hyny. Nid ydynt yn edrych dros eu cyfrifon eu hunain, ond edrychir cyfrifon y naill gan y llall, a chymherir hwynt yn fanwl: gwneir hyn yn flyneddol.

A ydyw y naw gyfranwr wedi eu penodi mewn rhyw gyfarfod cyffredinol gan y tri enwad?—Na, nid oes un math o gysylltiad rhyngddynt â chorff yr enwadau; penodir hwynt ganddynt eu hunain: pan y byddo cyfranwr yn eisieu, dewisir un i lenwi ei le gan y rhai a fyddo yn aros.

Trwy hunan-etholiad?—Trwy hunan-etholiad."

Y mae braidd yn sŷn genym fod rhai o'r gwŷr parchus ag y mae eu henwau yn adnabyddus i ni, yn sefyll fel ymddriedolwyr neu gyfranwyr y rhodd hon. Dyma naw o bersonau wedi eu dewis y naill gan y llall, heb gael eu hawdurdodi gan yr enwadau y perthynant iddynt, yn derbyn yn agos i 1,700*p.* oddiar fwrdd trysorlys y llywodraeth, i'w cyfranu fel y barno pob un o honynt yn ddoethaf i weinidogion perthynol i'w gwahanol enwadau, na ŵyr neb, o leiaf, nad ydynt hwy yn dewis hysbysu, nac yn rhwym o hysbysu i neb, pwy yw y personau a'u derbyniant; nad oes neb yn eu galw i gyfrif, nac yn edrych dros eu llyfrau, ond hwy eu hunain; a phan y bu cais am hyny yn y senedd, gwnaeth Dr. Rees ei oreu na byddai i hyny gymeryd lle, a llwyddodd. Ni fynem i neb feddwl ein bod yn amhheu gonestrwydd y cyfranwyr, ac nad ydynt yn gweithredu yn eithaf cydwybodol; ond y mae y dirgelwch sydd yn perthyn i'r oruchwyliaeth yn peri nad yw eu sefyllfa yn un anrhydeddus o lawer.

Eto:—

"Pa faint yw cyfartaledd y swm a delir i bob un?—Ni thelir un amser ychwaneg na 5*p.*, oddieithr mewn rhyw amgylchiadau neillduol o gyfyngder; yn bur fynych y mae yn llai na hyny. Y mae genyf yn fy llaw Adroddiad i Dŷ y Cyffredin, yn narpariad yr hwn y cymerasom gryn drafferth, gyda golwg ar ryw enwadau yn neillduol; oblegid dywedid fod gan ryw enwadau penodol

wrthwynebiad i'w derbyn; ar y cyfrif hwn, tybiasom y byddai yn ddymunol gwneuthur ymchwiliad manwl i sefyllfa y cyfraniadau. Cymerasom y tair blynedd diweddfaf, a gwelem fod 166 o roddion wedi eu cyfranu i weinidogion yr Henaduriaethwyr, 443 i weinidogion yr Annibynwyr, a 461 i weinidogion y Bedyddwyr, y cyfan yn gwneyd 1070 o roddion; allan o ba rai, ni chyfranwyd ond 166 yn unig i weinidogion Henaduriaethol.

Yr ydych yn dwyfed fod ychwaneg yn cael ei roddi weithiau ar gyfrif amgylchiadau y rhai a'i derbyniant?—Y mae y dygwyddiadau hyny yn bur anfynych; ni ddygwyddodd ond dwywaith yn unig, yn yspaid y deng mlynedd ar hugain y bwm i mewn cysylltiad â'r ymddiried: mewn canlyniad i gyfyngder mawr gweinidogion parchus, ac o gymeriad uchel yn mysg eu brodyr, daeth eu hachos o'n blaenau, a rhoddasom iddynt 10*p.*, neu rywbeth yn debyg.

Ai oddiar yr egwyddor yna y caniatêir y rhoddion, cyfyngder amgylchiadau y personau a'u derbyniant; neu a ydyw y cyfraniadau yn cael eu rheoleiddio gydag ystyriaeth o nifer eu cynulleidfaoedd, a swm eu cyflogau?—Y mae yn ymddibynu ar yr ystyriaeth o'u cyflogau, a'r cyfrif a wneir o'u gwasanaeth a'u cymeriad yn yr enwad y perthynant iddo.

A ydynt yn parhau i dderbyn y tâl yn flyneddol, ar ol i'w henwau gael eu rhoddi unwaith ar y llechres?—Nid ydynt yn hawlwrwyr blyneddol; y mae yr ymddiriedolwyr wedi bod yn ofalus bob amser i wlyio na byddai iddynt gael eu hystyried yn dalion blyneddol parhaus. Y mae i rai cyfranwyr gysylltiadau pur eang, ac o ganlyniad, y mae yr ymfyniadau yn dra lliosog, ac y mae yn rheol gan y rhai hyny, na byddo iddynt gyfranu i'r un rhai ddwywaith mewn deunaw mis, nac un amser o dan flwyddyn, oddieithr mewn anghof neu o ddamwain.

Yn ymarferol, nid yw yn flwydd-dâl?—Yr wyf yn tybied mai prin y gellir ei hystyried felly. Os bydd amgylchiadau y derbynydd yn parhau yr un, a'i werth a'i anghenion yr un, ac os na bydd achosion rhai mwy teilwng o flaen yr ymddiriedolwyr, cyfranant i'r un rhai flwyddyn ar ol blwyddyn; ond y mae yn ymddibynu cryn lawer ar nifer yr ymfyniadau, ac amgylchiadau y rhai a ymddengys iddynt yn fwyaf teilwng.

Y mae cymeriad y derbynydd, ynghyd â'r cytundeb sydd rhyngddo a'i gynulleidfa, yn cael eu hystyried, onid ydynt?—Ydynt, y mae eu cyflogau yn cael eu hystyried, oblegid caniatêir y rhodd i gynnorthwyo y rhai hyny nad yw eu moddion i gynnal eu hunain ond ychydig, a'r rhai y mae yn anghenrheidiol iddynt gadw i fyny ryw ymddangosiad penodol ar gyfrif ei swydd.

A oes rhyw gyflog penodol ag sydd yn cau allan ymgeiswyr?—Nac oes; nid ydym yn gwneuthur un ymholiad o'r fath hyny: yr ydym yn derbyn tystiolaeth y personau eu hunain, neu yr eiddo eu cyfeillion, am eu hanghenion. Yr ydym yn tybied y dichon i weinidog a allai fod yn derbyn 100*p.* yn y flwyddyn, fod yn fwy o wrthddrych elusen nag eraill a allai fod yn derbyn llai.

A oes llawer o ymfyn am yr arian hyn?—Llawer iawn; y mae genym lawer iawn mwy o ymfyniadau nag a allwn gyfarfod: yr ydym yn bur fynych, er ein gofid, yn gorfod attal cynnorthwy, gan na bydd genym foddion.

“A wnaethoch chi erioed gais i'r Trysorlys am ychwanegiad?—Naddo, ni wnaethom un ymfyniad felly; yr argraff ar fy meddwl i, ar ol cymeryd cryn lawer o drafferth i wneuthur ymchwiliad i weithrediad yr ymddiried, yw, fod y swm yn hytraoch wedi ei leihau yn raddol, oblegid yr wyf yn credu nad oedd ar y cyntaf yn llai na 2,000*p.* yn y flwyddyn. Dros lawer o flyneddau, telid cryn swm yn y trysorlys, wrth dderbyn yr arian; y mae y talion hyny wedi peidio yn y blyneddau diweddfaf, trwy ryw drefniad o eiddo y llywodraeth; ac yn awr, nid yw y lleihad ond 5*p.*, neu ryw ychydig felly. Hyn sydd yn peri nad yw y rhodd yn union swm; ond tybiai y cyfranwyr na byddai yn ddymunol dwyn yr achos o'i chwaneigad i sylw y llywodraeth, ond gadael iddynt wneuthur fel yr ewyllsiant, gan fod rhywrai o'r dechreuad yn gwrthwynebu y rhodd.

A oes esiamplau fod rhai ag oedd wedi bod yn ei derbyn unwaith, yn ei gwrthod yn wirfoddol?—Y mae rhai wedi tynu yn ol; ond yr wyf yn credu fod yr esiamplau hyny yn dra anfynych, os gellir canfod neb wedi tynu yn ol oddiar

unrhyw wrthwynebiad personol i'r rhodd. Y mae rhai personau wedi tynu yn ol fel hyn: y mae yn hysbys i aelodau anrhydeddus y Pwyllgor, fod rhai personau yn mysg yr Ymneilldŵyr wedi cadw cryn drwest yn erbyn y rhodd; yr oedd rhai o'r personau hyny yn ymddriedolwyr rhoddion Ymneillduol, y rhai sydd o gryn bwys i rai o'r gweinidogion hyny; a rhoddid ar ddeall iddynt, os parhaent i dderbyn y rhodd seneddol, na dderbynient ddim o'r trysorfeydd hyny; ond y tynid ymaith eu henwau. Y mae esiamplau o rai yn ei gwrthod, ond wrth wneyd hyny, dywedent, mai eu rhesymau oedd, eu bod yn rhoddi tramgwydd i'r enwadau y perthynent iddynt, neu yr amddifedid hwy o ryw ragorfreintiau penodol wrth wneyd hyny. Ni chyfarfyddais i fy hun âg un esiampl lle y gwrthodwyd y rhodd oddiar unrhyw gymhelliad arall. Ymadawodd un gwr rhagorol o'r Bedyddwyr, oddiwrth y cyfranwyr yn ddiweddar, yr hwn a enwaf, Dr. Cox; ond tystiai yn eglur, wrth roddi ei ymddiried i fyny, nad oedd ef yn tynu yn ol, oblegid ei fod yn wrthwynebol mewn egwyddor i'r rhodd seneddol, ond oblegid nas gallasai ei gysylltiad â'r ymddiried hwnnw, fod yn gyson â dyledswyddau swydd arall, ag oedd ar fedr ei derbyn—ysgrifenydd i Gynghrair y Dadgysylltiad; y mae wedi dyweyd hyny yn eglur mewn llythyr sydd yn fy meddiant: ni thynodd ef yn ol oddiar unrhyw wrthwynebiad mewn egwyddor i'r rhodd ei hun.

A ydyw y cyfranwyr yn derbyn unrhyw dal?—Dim oll; nid oes unrhyw draul yn ngweinyddiad yr ymddiried, oddieithr ychydig pan y byddom yn cyfarfod. Cynnelir tri chyfarfod yn y flwyddyn, dau hanner-blyneddol, pan y byddwyf fi yn derbyn yr arian o'r Trysorlys, i dderbyn eu cyfran genyf fi; a'r trydydd cyfarfod i edrych dros y cyfrifon, pryd y bydd y naill yn edrych dros gyfrifon y llall yn ofalus.

Dywedasoch fod rhyw leihad bychan yn cael ei wneyd yn y Trysorlys: i ba ddyben y mae hwnnw?—Y mae diffyg o 5p., am yr hyn nis gallaf fi roddi cyfrif; pa un a oes eto ryw dal, nis gallaf ddyweyd, ond yr wyf yn tybied nad oes. Yr wyf fi yn derbyn o'r Trysorlys, yr holl swm a hysbysir i mi yn llythyr yr ysgrifenydd, fel yr hyn a bleidleiswyd.

Ac yr ydych yn eu rhanu, fel y dywedasoch, rhwng eich cyd-gyfranwyr?—Yr wyf yn eu rhanu rhwng fy nghyd-gyfranwyr.

A ydych chiwi un amser yn derbyn unrhyw wrthwynebiad oddiwrth gynnullid-faoedd y personau hyny i dderbyniad y taliad?—Nac ydym.

A all fod y cynnullid-faoedd yn meddu gwybodaeth am y rhodd?—Nid oes un ammheuaeth nad yw yr rhan liosocaf yn gwybod.

A gafodd llechres o'r derbynwyr erioed ei chyflwyno i'r senedd?—Naddo, erioed; ond gwnaed cynnygiad yn Nhy y Cyffredin am adroddiad yr ymddiriedolwyr, ac enwau y derbynwyr; ond pan y rhoddwyd rhybudd am y cynnygiad, tybiais yn deg i mi, yn y sefyllfa yr oeddwn yn meddu yr anrhydedd o fod ynddi, i ymohebu â'r Trysorlys ar y pwnc: ystyrir, bob amser, y dylid cadw yr elusen yn hollol ddirgel, gyda golwg ar y personau a'i derbynai; oblegid, byddai yn ofid i feddyliau dynion parchus, wneuthur yn hysbys eu bod yn derbyn cymhorth elusenol; ac o ran tynerwch, dangosais i'r Trysorlys yr anghyfleusdra, ac mewn gwirionedd y byddai yn dor-ymddiried â'r personau hyny, os gelwid arnom i roddi eu henwau; nid oes genym un gwrthwynebiad i'w rhoddi, yn ddirgel, i'r Trysorlys, ond yr oeddyn yn gwybod yn eithaf da, mai un dyben yn ngolwg y rhai a gynhyrfodd i ddwyn y cynnygiad ymlaen, oedd gwneuthur y personau sydd yn derbyn y rhodd yn hysbys fel Ymneilldŵyr anghyson. Mewn canlyniad i'r hysbysrwydd hwnnw i'r Trysorlys, tynwyd y rhan hono o'r cynnygiad yn ol.

Nid oes dim dirgelwch yn y cyfraniad, a barai i'r cynnullid-faoedd fod yn anhysbys o hono, ai oes?—Nac oes, dim.

A ydyw y Trysorlys yn edrych dros y cyfrifon, ar ol iddynt gael eu harolygu genych chiwi?—Nac ydyw; ond darfu i ni, lawer gwaith, gynnyg ein llyfrau i'r Trysorlys i'w harchwilio; y maent yn barod bob amser i'w cyflwyno, pan y galwer am danynt.

A siarad yn ymarferol, yr ydych yn meddwl fod y cynnullid-faoedd yn hysbys o dderbyniad y taliad hwn gan eu gweinidogion?—Gallwn dybied hyny, braidd

am bob un; y maent yn eu hystyried, mewn rhyw fesur, fel yn gynnorthwy iddynt hwy, mewn darparu ar gyfer eu gweinidogion. Nid oes un adroddiad yn cael ei wneuthur iddynt, nis gallant ei glywed ond yn ddamweiniol.

Ac ni dderbyniassoch oddiwrth neb o honynt ddeisebau neu lythyrâu yn ei wrthwynebu?—Naddo, oddiwrth yr un.

Ac yr ydych wedi derbyn ymofyniadau am y rhoddion oddiwrth y gweinidogion eu hunain?—Braidid y gallaf eu cyfrif; y mae fy myrddau wedi eu llwytho â llythyrâu, a'r rhai hyn yn bur daerion, yn cynnwys ymofyniadau o'r fath, a hynny oddiwrth weinidogion o'r enwadau ag sydd yn dra gwrthwynebol i'r rhodd.

Dyn a ystyrio! Ai tybed nad yw Dr. Rees, yn y dystiolaeth uchod, yn gosod yr Ymneilldŵyr allan yn fwy newynllyd ar y cyfan nag ydynt? Ai tybed nad allem feddwl oddiwrth rai brawddegau ei fod yntau yn teimlo hynny? Y mae yn anhawdd genym dybied nad oedd yn gwybod fod yr Annibynwyr a'r Bedyddwyr yn Lloegr yn eu cymanfaoedd wedi gwrthdystio fwy nag unwaith yn erbyn y rhodd. Dywed ef yn ei dystiolaeth mai rhyw bersonau yn perthyn i'r enwadau hyn sydd yn eu gwrthwynebu, tra y mae yn rhoddi ar ddeall nad yw y mwyafrif felly, o leiaf nas gellir golygu eu bod fel corff yn erbyn. Yn awr, wrth i ni edrych ar y penderfyniadau a basiwyd "yn unfrydol" yn y cymanfaoedd hynny, gallem dybied fod y dystiolaeth uchod yn hollol groes i'r modd y mae pethau yn sefyll mewn gwirionedd; sef, fod corff yr enwadau yn ei gwrthwynebu yn benderfynol, ond fod rhyw bersonau—oddeutu tri chant a hanner—yn ei derbyn, er mawr ofid i'w brodyr. O'r ochr arall drachefn, pa beth yw y casgliad naturiol oddiwrth yr adroddiad uchod? Onid rhywbeth yn debyg i hynny?—Fod Dr. Rees a'i gyd-gyfranwyr, wrth glywed "fod gan ryw enwadau penodol wrthwynebiad i dderbyn y rhodd," wedi "cymeryd cryn drafferth i wneuthur ymchwiliad manwl i sefyllfa y cyfraniadau," ac wedi cael allan nad oedd neb wedi ei gwrthod oddiar unrhyw wrthwynebiad personol iddi mewn egwyddor," a chael lle i dybied fod yr eglwysai ag y mae eu gweinidogion yn dderbynwyr o honi "braidd bob un yn hysbys" o hynny, a'u bod yn "ei hystyried yn gynnorthwy iddynt mewn darparu ar gyfer eu gweinidogion,"—wrth weled bod eu "byrddau wedi eu llwytho" â pheth afrifed o "lythyrâu pur daerion oddiwrth weinidogion o'r enwadau hynny ag sydd yn dra gwrthwynebol i'r rhodd" yn ymofyn am yr elusen; wedi ystyried a chymharu y pethau hyn â'u gilydd, yn canfod nad oedd mewn gwirionedd un gwrthwynebiad cyffredinol iddi, er bod "rhyw bersonau yn cadw cryn drwst" yn ei chylech; ond fod yn ddigon amlwg beth oedd yr achos o ymyraeth y rhai hynny, ac nad oedd y penderfyniadau a basiwyd *yn unfrydol* yn eu cymanfaoedd ddim i roddi rhyw lawer o bwys arnynt; mai hwy (y cyfranwyr) a wyddai oreu sut yr oedd pethau yn sefyll; a thrwy hynny y gellid hysbysu y llywodraeth fod eu helusen yn rhoddi boddlonrwydd cyffredinol i'r Ymneilldŵyr. Nid ydym yn hōni fod hyn yn wir eglurhad ar y pwnc, a byddai yn ddrwg iawn genym orfod ei gredu fel gwirionedd; ond wrth ystyried fod y rhodd yn cael ei chyfranu mor ddirgelaidd, a bod Dr. Rees a'i gyd-gyfranwyr yn hysbys o'r holl ddirgelwch, nis gallwn weled nad dyma yr unig gasgliad tēg a ellir ei wneyd, er ei fod yn wrthun dros ben. Pan y bu cynnygiad yn ddiweddar o flaen y senedd i'w dyddymu, dywedai Arglwydd John Russell, oddiar y dystiolaeth uchod, mai "prin y gellir dywedyd fod rhodd ag sydd yn cael ei dosbarthu gan ryw weinidogion Ymneillduol, ac yn cael ei derbyn gan dri chant eraill, yn groes i egwyddorion yr Ymneilldŵyr."

Y mae yn bur amhheus genym a ydyw "braidd bob un" o'r eglwysi ag y mae eu gweinidogion yn derbyn y rhodd, yn gwybod hyny. Tybia llawer nad oes nemawr un o honynt yn hysbys; ie, dywedai Mr. Bright yn ddiweddar yn Nhŷ y Cyffredin fod llawer o'r gweinidogion eu hunain yn berffaith anhysbys mai rhodd seneddol ydyw.

Gellid tybied fod Dr. Rees, ac Arglwydd John Russell ar ol cael ei oleuo gan ei dystiolaeth, yn meddu ar ryw dysterwch anarferol at yr Ymneilldŵyr. Nid ydynt yn dewis gwneuthur enwau y derbynwyr yn hysbys, rhag i hyny fod yn friw i'w teimladau, a rhag y byddai i eraill mwy cyson â'u hegwyddorion edrych arnynt gyda dirmyg. Y peth tebycaf i reswm a ddygir ymlaen ganddynt dros gelu yr enwau ydyw, mai fel elusen yr ystyrir hi; ond pahan y gwneir gwahaniaeth yn y *rhodd elusenol hon* ragor pob elusen gyhoeddus arall. Y mae enw pob tlawd sydd yn derbyn elusen blwyfol yn cael ei hysbysu yn Mwrdd y Gwarcheidwaid; ac y mae pawb eraill sydd yn derbyn rhoddion seneddol—y rhai a ennillasant iddynt eu hunain enw mewn celfyddyd, neu ar faes llênnyddiaeth—yn cael eu cyhoeddi, a'r swm a delir iddynt. Nid yw enwau y rhai a dderbyniant y *Regium Donum* yn yr Iwerddon ychwaith yn guddiedig. Hwyrach, o ran hyny, fod yr un rhesymau ag oedd yn cymhell ei chyfranwyr cyntaf yn tueddu meddyliau y rhai presennol i ymgymeryd â'i dosbarthiad; ond nid yw y dylanwad y maent yn ei gael ar, a'r parch a dderbyniant oddiwrth, ryw ddosbarth o ddynion diegwyddor ag sydd yn ei derbyn, ond llai na dim mewn cymhariaeth i'r gofid y maent yn ei achosi i'r rhan liosocaf o'u brodyr mwy cydwybodol sydd yn ei gwrthwynebu. Yn ol dim sydd wedi ymddangos eto, y mae ein senedd-wyr yn benderfynol o'i phleidleisio, gan nad pa mor anghyson yw eu rhesymau. Dywedai Arglwydd John Russell yn y ddadl y cyfeiriwyd ati eisoes, "nas gallai gydsynio i wneuthur enwau y derbynwyr yn hysbys, oblegid trwy hyny yr edrychid ar eu henwau gyda dirmyg dros yr holl deyrnas." Gan bwy tybed? Gan yr Ymneilldŵyr? Nage; oblegid dywedai hefyd, mai "prin y gellir dywedyd ei bod yn groes i egwyddorion yr Ymneilldŵyr." Gan yr Eglwyswyr ynte? Na choeliwn ni, oblegid y maent hwy yn y cyffredin fel yntau yn hoffi cael hyn fel fflangell i guro yr Ymneilldŵyr ag sydd yn gwrthwynebu yr egwyddor orfodol mewn crefydd. Dywedai "ei fod yn deall yn eithaf da, y gallai fod rhai nad ydynt yn dymuno gweled neb o weinidogion yr efengyl yn derbyn tâl gan y llywodraeth, yn teimlo fod y rhodd hon yn myned yn erbyn eu dadl, ac y gallent, gan hyny, fod yn dymuno iddi gael ei hattal; ond nis gallai ef gydsynio i amddifadu tri chant o weinidogion Ymneilldŵol Protestanaidd o swm o arian ag yr oeddynt wedi bod am yspaid morfaith yn arferol o'u derbyn, er mwyn rhoddi grym ychwanegol yn y ddadl hono." Pur onest yn wir, Lord John. Y mae y frawddeg yn hynod ddidramgwydd i Eglwyswyr, ond o'r braidd y gallwn goelio ei bod yn disgyn mor esmwyth ar feddyliau Ymneilldŵyr. Pa fodd bynag, dyma ydyw y dirgelwch—nid gofal am deimladau gweinidogion tlodion yr Ymneilldŵyr yw y pwnc, ond gofal am eu teimladau eu hunain. Y mae hyn ganddynt wrth gefn i'w dafu i wynebau y rhai a wrthwynebant gysylltiad yr Eglwys â'r Wladwriaeth. Nid gofal rhag yr edliwir i'r rhai a'i dderbyniant eu bod yn anghyson â'u hegwyddorion, ydyw y gwir achos o'u hanfoddlonrwydd i hysbysu enwau y cyfryw, ond rhag ofn trwy hyny y byddai iddynt ei gwrthod, ac o

ganlyniad, na byddai gan yr Eglwyswyr i'w edliw i'r Ymneilldŵyr eu bod yn anghyson â'u hegwyddorion.

Heblaw hyny hefyd, pa reswm sydd mewn gosod gweinidogion yr Ymneilldŵyr, fel y cyfryw, i fyw ar elusen, mwy na gweinidogion yr Eglwys Wladol? Edrychai yr olaf ar hyny gyda dirmyg; ac mewn gwirionedd, nid yw ymddygiad y llywodraeth yn nghyfraniad y swm bychan o ddau cant ar bymtheg i'r blaenaf yn ddim amgen na dirmyg arnynt, tra y mae y degwm yn unig yn cyrhaedd wyth miliwn o bunnau. Os oes cyflawnder yn y cyfraniad o gwbl, dylai roddi llawer ychwaneg; ond os nad oes, ni ddylai roddi dim i'r naill na'r llall.

Yn bresennol, ni a roddwn o flaen y darlennydd y gweddill o'r dystiolaeth, yr hyn sydd yn cyfeirio at Gymru; ac fel y mae gwaetha'r modd, y mae ein gwlad ni yn ddyfnach yn y camwedd na neb arall.

"Pa mor isel ydyw cyflogau rhai o'r gweinidogion Ymneillduol Cymreig?—Y mae yn ddrwg genyf ddyweyd, y maent yn bur isel; gallwn dybied y byddai eu cyfartaledd yn gryn dipyn o dan 50p.

Ac y mae llawer o honynt yn is na hyny, oes?—Oes.

A ellwch chwí ddyweyd pa faint yw cyfartaledd cyflogau gweinidogion Ymneillduol Lloegr?—Yr wyf yn cofio pan oedd genyf fi feddwl fy hunan am fod yn weinidog, i Dr. Abraham Rees, yr hwn oedd yn weinidog o gymeriad uchel, ddywedyd wrthyf, mai yr hyn a allwn ddysgwyl fyddai o 60p. i 80p., neu fe allai 100p. yn y flwyddyn. Yr wyf yn tybied yr ystyrid 100p. yn y flwyddyn yn swm mawr i'r corff.

A ellir cymhwyso hyn at bob enwad?—At y tri enwad. Y mae un peth y dymunwn ei hysbysu gyda golwg ar y cyfrifon, ei fod wedi dyfod yn ymofyniad, pan y gosodwyd treth ar eiddo, pa un a fyddai y rhodd hon yn agored i'r dreth hono. Cefais fy holi o flaen dirprwywyr y trysorlys ar y pwnc; yr oedd yn ymddangos i mi fod hyn yn cael ei roddi fel elusen, ac yn yr ystyr hon yn rhydd; ond yr hyn yr holwyd fi yn fanwl yn ei gylch oedd swm cyflogau y rhai oedd yn derbyn y rhodd. Yr oeddwn yn tybied y gallwn ddyweyd yn ddbetrus nad oedd neb ag oedd yn ei derbyn yn cael 150p. yn y flwyddyn; oddiar yr eglurhad hwn, telid yr arian heb dynu y dreth allan o honynt.

Yr ydych yn dyweyd am y gweinidogion Cymreig eu bod yn derbyn cymaint llai nag eraill; a ydyw y rhan fwyaf o'r arian yn cael eu talu i weinidogion yn Nghymru?—Y mae cryn lawer o honynt yn myned i Gymru. Ar y cyfan yr wyf yn tybied fod y nifer fwyaf o'r derbynwyr yn Gymry; ond nis gallaf gofio yn fanwl.

Nid ydych yn ystyried eich hunain yn rhwym i gyfranu rhywbeth yn gyfartal rhwng gwahanol barthau Brydain Fawr?—Nac ydym: prin y byddai yn gyfiawn gwneyd hyny. Y mae Cymru yn wlad nodedig am ei Hymneillduaeth, oddiar y modd a arferwyd o dan deyrnasiad Elizabeth i ddirgymhell llyfr y gwasanaeth yn yr iaith Seisonig ar genedl nad oedd yn deall gair o honi. Yr oedd Ymneillduaeth wedi ei greu i raddau helaeth cyn darganfod y drwg.

A ydyw y dosbarthiad yn cael ei gyfyngu i Loegr a Chymru, neu ynte a ydyw yn cyrhaedd i'r ynysoedd?—Nid aeth dim i'r ynysoedd; ystyriem hi bob amser yn gyfyngedig i Loegr a Chymru; dynodid hi fel rhodd i Loegr a Chymru, a darfu i ninnau ei chyfyngu iddynt.

A wnaethoch chwí un rhodd i Ynys Manaw?—Ni bu un ymofyniad oddiyno; ond ystyriem hi tuallan i'r cylch."

Yna ymofynir â Dr. Rees ynghylch ei wybodaeth o *Regium Donum* yr Iwerddon, hanes pa un a ddyry. Yna eir ymlaen:—

"Ai hyn yw yr unig swm o arian a dderbynrir gan Ymneilldŵyr Protestanaidd Lloegr?—Yr wyf yn meddwl mai é.

A siarad yn gyffredinol, yr wyf yn dëall oddiwrth eich tystiolaeth fod yr arian hyn yn rhoddi cryn foddlonrwydd?—Ydynt, yr wyf yn meddwl foddlonrwydd mawr iawn; yr wyf yn sicr yr ystyrid eu hattal yn drychineb mawr—y mae genyf reswm i feddwl felly oddiar yr ymfofyniadau taerion sydd yn dyfod i'm llaw yn barhaus.

Oddiar eich profiad, yr ydych yn ystyried yr ymfofyniadau mor llfiosog ag i ddangos nad oes dim gwrthwynebiad yn y clerigwyr Ymneillduol i'w derbyn?—Yn hollol felly; yr wyf wedi derbyn llawer iawn o lythrau ar y pwnc, yn gosod allan ofnau y personau hyny rhag y byddai i'r rhodd gael ei hattal."

Wel! Wel! dyma hi yn y pen. Na sonier mwyach am Gymdeithas y Dadgysylltiad yn Nghymru na Lloegr na Llanrwst. "Gosodwn ben arnom, a dychwelwn i'r Aipht." Yr oeddym ni yn meddwl nad oedd neb mor ddiysgog yn egwyddorion Ymneillduaeth a'r Cymry; ond yn lle hyny, yn ol tystiolaeth Dr. Rees, y mae yn tybied fod y nifer fwyaf o'r derbynwyr yn Gymry. Yn awr, os yw y dystiolaeth uchod yn gywir—a phwy a wyddai yn well na'r dosbarthwyr—y mae oddeutu cant a deunaw a thriugain yn y Dywysogaeth yn ei derbyn, wrth i ni gymeryd y cyfartaledd am dair blynedd yn fil a deg a thriugain (1,070); a bod yr hanner yn dyfod i Gymru. Yn ol y "*Protestant Dissenters' Almanack*" am y flwyddyn 1848—yr un flwyddyn ag yr oedd Dr. Rees yn rhoddi ei dystiolaeth—yr oedd nifer gweinidogion yr Annibynwyr yn Nghymru yn 310, y Bedyddwyr yn 200, a'r Presbyteriaid neu yr Undodiaid yn 26—y cyfan yn 536. Oddiwrth hyn, yr ydym yn canfod fod yn agos i un o bob tri o weinidogion yr enwadau uchod yn derbyn y *Regium Donum*. Nid yw y dystiolaeth yn dyweyd fod neb o weinidogion yr un enwad arall yn ei derbyn. Nis gallwn lai na gwrido wrth ddodi y cyfrif hwn i lawr; ond pa beth a wneir? dylai y ffeithiau hyn ein cyffroi i wneuthur ymosodiad o ddirif yn ei erbyn trwy ryw lwybr neu gilydd. Nid ydym yn cofio i ni glywed am, a methasom, er holi, a chael gwybod fod un penderfyniad yn ei herbyn wedi ei basio mewn cymanfaeodd yn Nghymru. Y mae genym o'n blaen amryw o benderfyniadau yr enwadau hyn yn Lloegr yn ei chondemnio. Ond nid ydym yn gallu gwled pa les a allai penderfyniadau fel hyn wneyd yn y diwedd; oblegid pwy a gred eu bod o ddirif? Dywedai ein prif weinidog yn y senedd, er i hyn gael ei hysbysu iddo, "mai prin y gellid dyweyd fod y rhodd yn groes i egwyddorion Ymneilldŵyr." Dylid cymeryd rhyw lwybr i wneuthur yn hysbys i'r eglwysi fod y fath rodd mewn bod, ac i gael gwybod a ydyw yr eglwysi hyny ag y mae eu gweinidogion yn ei derbyn barod i'w hamddiffyn. Dymunol fyddai cael gwybod pwy yw y pechaduriaid, oblegid cam â'r cyfiawn yw ei gollfarnu gyda'r troseddwr.

Yn wir, nis gallem lai na synu ac eiddigeddu, wrth ddarllen y dystiolaeth uchod yn ei pherthynas â Chymru, fod neb o'i gweinidogion mor ddigydwytbod a bradychu eu hegwyddorion, ac ymwerthu i dynu arnynt eu hunain a'r enwadau y perthynent iddynt y fath ddianrhydedd. Llechant hwy eu hunain, oddieithr ambell un yma ac acw, yn nghysgod y dirgelwch a berthyna i'w chyfraniad; a thrwy hyny y mae y cyhuddiad yn disgyn yn erbyn corff yr enwadau y perthynant iddynt, a than y cyhuddiad y byddant, hyd oni threfner rhyw lwybr i'w ddwyn i'r goleu, ac i symud yr achos trwy ymysgwyd oddiwrth yr hyn y cyhuddir hwy o'i blegid. Am ddim a wŷr y nifer liosocaf, gall y rhai hyny ag sydd yn bleidwyr mwyaf gwresog i Gymdeithas y Dadgysylltiad, ac yn codi eu llef uchaf yn erbyn yr Eglwys Wladol, fod yn dderbynwyr cyson o'r *Regium Donum*. Iê, o herwydd y

dirgelwch a berthyn iddi, gallai llawer a fyddai yn y cymanfaeoddd yn gwrthdystio yn ei herbryn, fod yn dderbynwyr o honi; oblegid gan eu bod yn ddyinion digon diegwyddor i'w derbyn, ni byddai dim ymddiried na chodent eu dwylaw yn eithaf digywilydd i'w cholffarnu, fel na byddai iddynt gael eu hammheu gan eu brodyr. Yr ydym ymhell oddiwrth fwrriadu dyweyd dim yn galed i archolli teimlad un dyn cydwybodol; ond pwy all brofi nad fel hyn y mae pethau yn bod yw y pwnc? nid nynt, ac nid neb arall yn Nghymru. Ymddengys i ni fod ei derbynwyr yn pechu yn fwy anfaddeuol o lawer yn erbyn eu brodyr, na phe buasai holl amgylchiadau y rhodd yn cael eu hysbysu; oblegid yn ol sefyllfa bresennol pethau, y mae yr unrhyw gyfrifoldeb yn cael ei osod yn erbyn y cyfiawn fel y pechadur. Dylai Ymneilldŵyr Cymru yn bendifaddeu—y rhai sydd yn lân oddiwrth y diofryd-beth—drefnu rhyw lwybr i wneuthur hyny yn hysbys; oblegid pa fudd yw i ni ganmawl yr egwyddor wirfoddol a gwrthwynebu yr orfodol, tra fyddom yn cael ein cyhuddo o letya yr hyn sydd yn hollol groes i'n hegwyddorion? Ni wna ein gwrthwynebwyr ond chwerrthin am ein penau, a ninnau heb nerth i sefyll yn eu hwynebau.

Drachefn, dywedai Mr. Kershaw, yn y senedd, oddeutu dwy flynedd yn ol, wrth areithio yn erbyn y rhodd hon, “fod hyd yn nod Ymneilldŵyr Cymru, y rhai y dywedir eu bod yn derbyn rhan bur helaeth o honi, a'r rhai ydynt glodion mewn cymhariaeth, yn cyfranu mwy na'r holl swm a dderbynir ganddynt oddiwrth y llywodraeth at Gymerdeithas Genadol Llundain yn unig.” Y mae rhyw ysfa anghymedrol arnom ni y Cymry am drin meusydd rhai eraill a gadael yr eiddom ein hunain. Nid oes dim yn fwy anghyson na chasglu a chyfranu cannoedd o bunnau bob blwyddyn i'w hanfon i wledydd eraill, a gadael gweinidogion yn ein gwlad ein hunain mewn lleoedd gweiniaid i fyw mewn eisieu—ymrwystro gyda negeseuau y bywyd hwn, neu droi at y llywodraeth wladol am help. Y mae hyn mor groes i reswm, fel nad oes eisieu ond ei grybwyll i ganfod ei afresymoldeb. Y mae yn eithaf gweddus fod i'r eglwysi, “y rhai ydynt gryfion, gynnal gwendid y rhai gweiniaid.” Rhaid cyfaddef fod anhawsderau i wneyd hyny i foddlonrwydd; oblegid tybier fod gweinidog ychydig yn ol i'r apostolion penaf, o ran ei gymhwysderau gweinidogaethol, fod Rhagluniaeth wedi bod yn haelionus iddo fel na byddai yn gyfyng arno pe na derbynai ddim oddiwrth y weinidogaeth, ac eto ei fod yn cael y cyfryw gydnabyddiaeth am ei lafur ag y gallai teulu canolig fyw arno yn weddol olygus yn y cyfryw ardal gyda chynnildeb, prin y gellid meddwl fod gan y fath un ryw hawl gadarn iawn ar garedigrwydd eglwysi cryfach, yn wyneb sefyllfa bresennol yr achos crefyddol. Er hyny, adwaenom rai mewn amgylchiadau tebyg i hyn, yn derbyn y *Regium Donum*; o leiaf, y mae pobl yn dyweyd hyny. Ni byddai cysuron y boneddigion hyn nemawr helaethach, dybygid, er cael o bedair i bum punt yn y flwyddyn, a hyny ar draul bradychu eu hegwyddorion, a bod yn achos tramgwydd i'w brodyr. Hwyrach, o ran hyny, eu bod hwy eu hunain yn ystyried fod “eu cymeriad a'u gwerth fel gweinidogion” y fath ag sydd yn teilyngu ychwaneg nag a dderbyniant gan yr eglwysi y maent yn gweinidogaethu iddynt, ac mai ar hyny y dylid edrych. Y mae hyny yn dygwydd bod weithiau, fe ddichon; ac nid ydym yn meddwl nad oes llawer o eglwysi nad ydynt yn ymdrechu, yn ol eu gallu, i wobrwyo eu gweinidogion yn ol eu teilyngdod a'u llafur; eto, byddai yn ddymunol i amynedd gael ei pherffiaith waith gyda y brodyr hyn. Fel y daw

y wlad yn oleuach, fe ddaw pethau i drefn bob yn dipyn, a phawb i gael ei le ei hun. O'r ochr arall, lle y mae yn neu ychwaneg o eglwysi yn cytuno â'u gilydd i ddewis rhywun a gaffont i gymeryd eu gofal, heb ymohebu dim â'u mam eglwys, neu fe allai yn groes i'w hewyllys, er na byddo ganddynt fodd i'w gynnal, ac yn y diwedd heb allu neu heb geisio cyflawni eu hammodau âg ef, yn ei adael mewn eisieu,—y mae yntau yn cael gan ryw gyfaill, os na bydd yn alluog ei hunan, i ymohebu â rhai o ddosbarthwyr y rhodd seneddol hon, am gardod, ac felly yn cael cyfran o'r *elusen*. Am y cyntaf, gadawn i'r darlennydd dynu y casgliad a fyfno oddiwrth yr ymddygiad; ac am yr olaf, dywedwn, nad yw yn rhesymol dysgwyl i eglwysi cryfion gyfranau at gynnal pob un a dybio ei hunan yn addas i fod yn weinidog, neu y tybio rhai dynion yn gymhwys ei ordeinio. Dymunem i'n darlennyddion ddeall, mai ein hunig ancen wrth grybwyll y pethau hyn, ydyw dangos fod anfaiteision i eglwysi lliosog a chyfoethog gynnorthwyo y rhai sydd mewn anghen help. Ar yr un pryd, hwyrach y dylai fod mwy o gyd-ddealldwriaeth rhwng gwahanol eglwysi a'u gilydd ar y pen hwn. Pa fodd bynag, dylem fel Ymneilldŵyr edrych ar ein bod yn byw yn onest gartref, ac yn gwneuthur cyfiawnder â'n gweinidogion ein hunain, cyn estyn terfynau ein haelioni i feusydd eraill.

Y mae yn wirionedd nas gellir ei amnheu, fod yr "Arglwydd wedi ordeinio i'r rhai sydd yn pregethu yr efengyl fyw wrth yr efengyl;" ar yr un pryd, y mae yn llawer mwy anrhydeddus i ddyn, os na bydd ei gymhwysderau gweinidogaethol yn gyfryw ag a'i codo i sylw, fel ag i gael galwad gan eglwys neu eglwysi a ddichon ei gynnal yn hollol, i weithio â'i ddwyllaw er helaethu ei gysuron, na throi at y llywodraeth wladol am help. Wrth wneyd y cyntaf, nid yw yn aberthu un egwyddor; ond wrth dderbyn y *Regium Donum*, y mae yn gweithredu yn hollol groes i'w egwyddorion fel Ymneilldŵr. Ac y mae yn ddirgelwch i ni pa fodd y gall neb o'i derbynwyr, yn gyson â hwy eu hunain, wrthwynebu yr egwyddor orfodol mewn crefydd. Nis gallant. Y maent yn gwerthu eu rhyddid am *bum' punt* yn y flwyddyn. Y mae hyn yn o fychan hefyd, am ryddid. *Liber inops servo dicitur felicior.*

YR AMAETHWR A'R GORUCHWYLIWR.

PETH melus iawn gan y natur ddynol yw awdurdod, pa un bynag ai llawer ai ychydig a fyddo. Yn enwedig, os cyfodir dyn o gyflwr o iselder, ac yn dra disymwth, i sefyllfa o awdurdod, mae yn bur debyg, heb i'w galon fod wedi ei chryfhau yn anghyffredin â gras, yr effeithia y dyrchafiad hwnw yn swynol ar ei feddwl, ac y tŷr allan yn fynych yn drahausder yn ei ymddygiad. Pan osodir "gweision ar feirch," odid na welir hwy "yn gyru yn ynfyd," gan roddi llawn waith i'r chwip a'r yspardyn. Y mae dynion mewn uchafiaeth benthycol, neu ddirprwyol, yn gyffredin, yn anhawddach nesu atynt na dynion sy'n meddu uchafiaeth gwirioneddol a chynenid.

Mae tywysogion yn haws eu trin na chrachfoneddigion; ac y mae meistr-iaid tiroedd i'w gwled yn fynych yn fwy gostyngedig na'u goruchwylwyr. Ni a wyddom, yn wir, am oruchwylwyr hynaws ac iselfrydig; ond anaml ydynt mewn cymhariaeth. Gyda thai a thiroedd, a chyda gweithfaoedd, mae haerllugrwydd a thrawsfalchedd goruchwylwyr, neu stiwardiaid, fel y dywedir mewn siarad cyffredin, wedi myned yn ddiarebol. Ac nid i'n hoes ni yn unig y mae hyn yn perthynu; ond yr oedd yr hen oesoedd yn gruddfan oblegid gormes goruchwylwyr. Yr oedd ein Iachawdwr yn desgrifio rhyw oruchwylwr teuluaid "yn curo y gweision a'r morwynion, ac yn bwyta, ac yfed, a meddwi." Hen rigwm a ddadgenid gan ein taid, ydoedd—

"Och am stiwardiaid, rai c&w, tordyn,
 Sy fil gwaeth na'u meistri, yn gwthio ac ymestyn:
 Y nhw ydyw 'r sirs i'w dyrchafu hyd s&w,
 Os myner byw 'n dynyr dany'n."

Un o'r tylwyth ffoenuchel hyn oedd James Powell, goruchwylwr Nanney Morgan, Ysw., o'r Glyn —, yn Ngogledd Cymru. Mab ydoedd James i Harri Powell, yr hwn am lawer o flyneddau a fu yn gweini y swydd o arolygwr y tlodion yn nhref Llan—. Yr oedd pwysigrwydd mawr yn perthyn i Harri yn ei ddydd, canys yr oedd swydd *overseer* yn y dyddiau hyn yn un o ddylanwad nid bychan. Yr oedd efe, ynghyd â rhyw ddau neu dri o swyddwyr eraill, yn cael gwneyd â'r plwyf fel y mynent; a gwae i'r tlawd a ddywedai air yn eu herbryn. Cryf yw effeithioldeb esiampl, ac yn enwedig esiampl rhieni. Cynffoni i uchafiaid, a sarhau isafiaid,—dyna a welodd James o'r dechreuad yn nh&w ei dad, a dyna fel yr hwyliodd yntau ei gerddediad ar ei ol. Dygwyd ef i fyny yn yr Ysgol Rad; ac yn mhen amser, aeth yn ysgrifenydd i gyfreithiwr yn y dref. Y mae, o bosibl, y fath beth a thwrna gonest i'w gael yn y byd; ie, ac yn Nghymru: ond nid felly oedd y meistr oedd gan James. Ni byddai un achos yn rhy ddrwg ganddo i'w gymeryd, os byddai gobaith iddo am arian oddiwrtho; yr oedd ganddo ddyhirod wrth law i dyngu drosto yr hyn a ddymunai; ac efe a ennillodd gyfoeth mawr ar draul cynhenau ynyfydion. Yr oedd James yn yfed ei ddysg yn odiaeth yn yr ysgol hon; dysgodd yma gamwri ac annhrugarogrwydd yn dra medrus. Ymadawodd â'r cyfreithiwr, ac a aeth yn gynnorthwywr i dirfesurydd. Yn mhen amser, llwyddodd i gael y swydd ddywededig o fod yn oruchwylwr i Mr. Nanney Morgan; ac yn y swydd hon, daeth yn fuan yn wrthddrych casineb ac ofn i'r holl denantiaid.

Yr oedd Mr. Morgan yn w'r boneddig digon diniwed, fel y dywedir, o'i ran ei hun; nid oedd yn hoffi ymddwyn yn dostlym tuag at neb; ond yr oedd yn caru hunan-esmwythyd o flaen pob peth; yr oedd pob ymdrech, meddai efe, yn ei ladd; ac yr oedd ei fywyd wedi myned, o radd i radd, i ateb desgrifiad y prydydd:—

"Dyma i gyd—bwytai ac yfal,
 Ac a gysgai ar ei gefn;
 Yna fe fwytai ac yfal,
 Ac a gysgai'n drwm drachefn."

Yr oedd wedi claddu ei holl deulu ond un mab; collodd ei wraig a phedwar o'i blant; a chan ei fod yn ddyeithr i gysuron gwir grefydd, nid oedd ganddo ddim i'w wneyd, yn ei dristwch am danynt hwy, ond ymroi i win

lawer i geisio anghofio ei ofid. Aeth yn ddyeithr i'r byd o'i amgylch; anfynych y gwelid ef allan o'i balas; ac yno, yn lle bywyd Duw—yn wir, yn lle bywyd dyn—yr oedd wedi ei ddullnewidio ei hun i fywyd anifel. Yr oedd hyn yn fanteisiol iawn i oruchwylwr o dueddfryd James Powell: nid oedd Mr. Morgan yn rhoi dim traferth iddo gyda'i gyfrifon; ond yr oedd yn ei oruchwyliaeth yn cael gwneuthur a dywedyd yn ol ei ewyllys. Yr etifedd, Mr. Watkin Morgan, fel y galleid dysgwyl, a adawyd i gael ei rwysg ei hun; nid oedd gan ei dad ewyllys na gallu i'w lywodraethu yn ddoeth a'i addysgu yn dda; ac yr oedd Powell yn gweled mai ei fantais bersonol ef oedd gadael i'r gwr ieuanc gael pobpeth yn ol ei feddwl. Dylem ddywedyd fod gan Meistr Watkin synwyr naturiol cryf; ac yr oedd yn un hynaws a chymwynasgar o ran tymher; ond yr oedd ei gyflwr anllywodraethus yn anurddo y cyfan; canys fel y dywedai yr hen fardd Aneurin yn y chweched ganrif—

“Un fath a llong ar gefnfor,
Heb raff, heb hwyl, heb angor,
Ydyw ieuanc heb gynghor.”

Gyda fod Mr. Watkin Morgan wedi dyfod i'w oed, pan y dysgwyliaid y tirddeiliaid iddo gymeryd rhan weithredol yn llywodraethiad yr ystâd, efe a fynai fyned i'r fyddin, ac nid oedd dim a wnai y tro ganddo ond cael swyddogaeth mewn catrawd oedd ar fyned allan i'r India Ddwyreiniol. Yr oedd ei dad, wrth gwrs, yn hollol anfoddlawn i hyny: nid oedd ganddo yn awr ond ei fab Watkin; ac os trengai efe, fe elai hen etifeddiaeth ei dadau ymaith o'r olyniad uniongyrchol, yr hyn a fyddai yn drychineb annhraethadwy; ac felly Mr. Nanney Morgan a ymysgydwodd am enyd o'i ddideimladrwydd arferol, ac a lwyr waharddodd i'w fab ymuno â'r filwriaeth. Ond yr oedd y gwr ieuanc yn benderfynol am ei bwynt, ac nid oedd wedi arfer cael ei groesi, o herwydd “ei dad nid anfoddlonasai ef” erioed o'r blaen, “gan ddywedyd, Paham y gwnaethost fel hyn?” Yn ffodus i'w amcan, cafodd ei gefnogi gan Powell y goruchwylwr, yr hwn a ddadleuodd yn effeithiol gyda'r hen wr boneddig am i'w fab gael myned yn ol ewyllys ei galon i'r India bell. Dywedai fod yn ddrwg dros ben ganddo feddwl am ymadawiad Mr. Morgan, ieuaf, ond gan ei fod wedi doddi ei fryd ar ymweled âg India, mai gwell oedd ceisio boddloni am dymmor; nid oedd un ysgol well i foneddwr ieuanc na'r fyddin; ac yr oedd y ffordd i'r India wedi ei byrhau yn fawr, diolch i egni anturiaethus yr Isgadben Waghorn; ac fe geid gweled Mr. Watkin Morgan yn dychwael oddiyno heb fod yn hir, wedi ei berffeithio fel gwr boneddig, ac wedi ennill digon o gyfoeth i brynu etifeddiaeth fawr yn ychwanegol at yr eiddo ei hun. Y cyfryw oedd rhesymau Powell ger bron Mr. Morgan, henaf; ond y gwir ydoedd mai mwy dymunol gan y goruchwylwr oedd absennoldeb na phresennoldeb ei feistr ieuanc. Gwyddai fod ganddo ddyfanwad ar y tad, ond nid oedd mor sier am ei ddyfanwad ar y mab synwryolach na'i riant; ac yn yr India, fe fyddai yn ddigon pell oddiwrtho. O dipyn i beth, cafwyd cydsyniad yr hen yswain anwrol; ac ymaith â'r yswain ieuanc difeddwl o wlad ei dadau i'w daith faith, yn llon ei ysbryd, ac yn uchel ei galon, gyda gwŷr ieuanc eraill oedd mor ddfeddwl ag yntau.

Yr oedd Powell erbyn hyn yn teyrnasu gyda llaw gref ar yr amaethwyr, mawrion a bychain, oedd yn dâl tir dan Mr. Morgan. Nid oedd y meistr.

ond meist'r mewn enw; y goruchwylwr oedd y meist'r mewn gwirionedd. Yr oedd yn orthrynydd creulawn dan y lliw o weithredu yn ffyddlawn i'w ymddiried: digon oedd iddo ef edrych ar ol *interest* ei feistr, ac edryched y tenantiaid ar ol yr eiddynt hwythau. Ond mynych y ceir y goruchwylwr sydd yn galed tuag at y deiliaid yn anghyfiawn at y meist'r; ac yr oedd llaweroedd yn dywedyd yn ddystaw mai un felly oedd Powell. Yr oedd yn dyfod yn wr mawr ar unwaith, yn prynu cyfranau helaeth mewn banciau a sefydliadau cydfeddiannol eraill; ac yr oedd rhai o'i berthynasau i'w gwelod wedi myned mewn byr amser o ddim i lawer. Yr oedd syniad pobl am hyn yn gyffelyb i'r eiddo llanc, i'r hwn y cyfrifid gwall synwyr, am foch y melinydd. "Beth sydd genyt ti i'w ddywedyd, Wil wirion?" ebai melinydd sarug ryw ddiwrnod wrth y llanc ar y ffordd fawr. "Mi ddywedaf," ebe yntau, "y gwn i rywbeth, ac na wn i mo rywbeth." "Beth yw y rhywbeth a wyddost?" "Mi wn fod moch y melinydd yn dewach na moch eraill." "A pheth na wyddost?" "Ni wn i ddim yd a blawd pwy sydd yn eu pesgi." Felly fe wyddai pawb fod James Powell a'i berthynasau yn gwella yn gyflym yn y byd, ond nid oeddynt mor wybodus mewn pwnc arall,—arian pwy oedd yn eu cyfoethogi. Ond os na roddid parch calon i Mr. Powell, y stiward, yr oedd raid talu iddo barch ymddangosiad. Yr oedd yn hawdd i'r rhai oll yr oedd a wnelent ág ef weled mai dyn balch a hunanol i'r eithaf ydoedd; ac fel pawb o'r cyfryw, fe yfai weniath fel llaeth. Pan y byddai ar rywun o'r newydd eisieu tyddyn neu gaeau, neu ar amaethwr eisieu gwelliant ar adeiladau, gwyyddid mai trwy anfon arhegion gwerthfawr i'r goruchwylwr y byddid debycaf o'u caffael. Ac fel hyn yr oedd yn cael, yn mysg pethau eraill, ymron yr holl win a'r gwirod oedd yn ei seiler yn hynod radlawn. Ni wyddai ddim am wneuthur trugaredd i denant anfodus; efe a'i blingai yn ddiarbed os na fedrai ddyfod ymlaen gyda'r fyrlling eithaf. Ac os byddai un o'r deiliaid amaethyddol yn ymddangos yn llwyddo, ac yn gallu byw yn lled gysurus, buan y cymerid mantais ar ei ddiwydrwydd a'i iawn-drefniad, ac y codid ar ei rent. Gwnaeth ddaioni, pa fodd bynag, i rai, trwy fod yn offeryn i'w hanfon i'r America. Ei ormes a achlysuroid iddynt feddwl am ymfudo dros Fôr y Werydd; ac y maent yno yn awr yn diolch am annibyniaeth eu sefyllfa, canys y maent yn byw ar eu tiroedd eu hunain, heb fod gan un ysgoegyn o oruchwylwr air i'w ddywedyd wrthynt.

Yn mysg tirddeiliaid Mr. Morgan, un o'r rhai penaf oedd Owen Rhydderch, o'r Bryn-rhŷg. Yr oedd cenedl y Rhydderchiaid wedi byw yn y Bryn-rhŷg, o dad i fab, er ys oesoedd; ac yr oedd yno hen ddodrefn derw, mor hen, fel y dangosai amseriad y fwyddyn arnynt, a'r pryd "yr oedd Bess yn teyrnasu." Yr oedd Owen Rhydderch yn amaethwr gonest a rhwyddgalon, yn Gymro o'r hen ffasiwn, yn ddynd moesol ei fuchedd, ac yn un o'r gwŷr parchusaf a mwyaf dylanwadol yn ei blwyf. Yr oedd ei wraig yn aelod eglwysig yn Nghapel C—, ac yn fenyw wir grefyddol; byddai yntau yn myned gyda hi yno i'r oedfaon cyhoeddus; ac yr oedd yn hael iawn yn ei gyfraniadau yn mhob casgliad a wneid yn y gynulleidfa, ac, yn wir, at bob achos da a roddid ger ei fron. Yr oedd ei fab hynaf, Owen, wedi priodi, ac yn amaethwr llwyddiannus yn mhlwyf H—; yr oedd ei fab arall, Richard, gydag ef gartref: hwynt-hwy, ynghyd â'i ferch, Ann, yr hon oedd blentyn ei henaint, ac iddo fel canwyll ei lygad, oeddynt yn gwneyd i fyny ei holl blant. Dygwyd Ann i fyny yn yr ysgolion

goreu oedd yn ei chymydogoeth: ac i orphen ei dysg, anfonwyd hi i west-ysgol (yr hyn o'i gyfieithu i'r Saesoneg yw *boarding-school*) yn hen ddinas enwog Caerlleon Gawr. Yr oedd yn ferch ieuanc brydferth ei gwedd, cyflym ei deall, addfwyn ei hysbryd, diwyd ei llaw, gweddus ei moes, a hoffus ei hymddyddan a'i holl ymddygiad. Cymhwys y gellid dywedyd am dani,—

“Nid ydoedd rhagrith dan ei bron,
Pan ymddangosai 'n fwyn;
Balm ydoedd ei lleferydd llon,
A'i gwên oedd siriol swyn.”

Cafodd Powell, y goruchwyliwr, aml gyfleusdra i sylwi ar Ann Rhydderch, ac nis gallai lai na barnu fod ynddi fwy o ragoriaethau nag yn y cyffredin o'r ystlen deg; a dechreuodd feddwl o ddifrif y gallai hi wneyd purion gwraig iddo. Tybiodd ei fod wedi gosod ei serch arni, sef càn belled ag y gallai ymserchu mewn rhywbeth neu rywun heblaw efe ei hun; o herwydd James Powell oedd gwrthddrych mawr cariad a chanmoliaeth James Powell. Bu mewn cryn bryder a hunangynghoriad cyn penderfynu ymostwng i gynnyg ei hun i Miss Rhydderch; canys, yn ei farn ef, ymostyngiad mawr ynddo ydoedd. Nid ydoedd hi ond merch i amaethwr, ac nis gellid dysgwyl gwaddol helaeth gyda hi, ac nid oedd ammheuaeth ganddo nas gallasai gwr o'i ddylanwad a'i sefyllfa ef gael yn gymhares brîodasol fenyw uwch ei gradd a mwy ei chynnysgaeth na merch y Bryn-rhÿg, pe y meddylasai am hyny. Ond yr oedd yn wiu ganddo ei hanrhydeddu hi a'i theulu; ac yr oeddynt hwy, bid siwr, yn rhwym o werthfawrogi yr anrhydedd. Gwir ei fod ef yn hynach na hi o bymtheng mlynedd ac uchod; ond nid oedd hyny ond rhoi i'w ddarpar-gwraig fwy o fraint—cael yn brîod ddyd profedig, wedi dyfod i'w lawn synwyr, ac yn gwybod yn dda am y byd yn ei helyntion a'i orchwylion, ac nid rhyw las-lanc penysgafn na wyddid beth a ddeuai o hono. Wel, pan gafodd amser cyfaddas, rhoes ei benderfyniad mewn gweithrediad; ymddyddanodd â'r ferch ieuanc; ac er ei syndod a'i siomedigaeth anaele—hi a'i gwrthododd ef yn hollol, a hyny mewn modd pur ddiseremoni. Nid oedd yr hyn a wyddai hi am ei gymeriad yn rhoddi iddi un cymhelliad i wrandaw ar ei gais; ac heblaw hyny, yr oedd ganddi reswm arall, a'r rheswm mwyaf i ddodi nacâd iddo: yr oedd hi eisoes yn gohebu yn gyfeillgar â gwr ieuanc, ac ni chymerasai yr holl fyd am ymddwyn yn anffyddlawd tuag ato. Enw yr hwn a ffafriwyd â'i serch a'i hyder oedd Robert Pritchard, mab y Fron-werdd, yr hwn dyddyn oedd oddeutu dwy filltir o'r Bryn-rhÿg. Yr oeddynt yn gydnabyddus â'u gilydd er yn blant, ac wedi dechreu cyfeillachu yn garwriaethol trwy fodd ac ewyllys da rhieni y naill a'r llall. Dewisai Robert faelwriaeth o flaen amaethyddiaeth; rhymwyd ef yn brentis mewn masnachdÿ yn Nh—; ac wedi dyfod yn rhydd, aeth i Lundain, ac yr oedd efe yn awr wedi cael lle da gydag un o farsiantwyr penaf y brifddinas. Byddai yn dyfod bob blwyddyn i ymweled â bro ei enedig-aeth; canys yr oedd atnyfaen nerthol yn y Bryn-rhÿg, yn gystal ag yn y Fron-werdd, yn ei ddenu tua thref.

Yr oedd Powell yn ystyried ei fod wedi cael ei sarhau yn gywilyddus yn ei wrthodiad gan Ann Rhydderch; ac wedi iddo ddeall am ei gydymgeisiwr mwy llwyddiannus, yr oedd yn golygu ei fod wedi cael anfri mwy fyth: hogyn o *shopwr* yn cael ei ddewis ganddi o flaen y *steward* galluog!

Clywodd fod Owen Rhydderch yn canmawl dewisiad ei ferch, a'i fod wedi dywedyd yn rhywle y buasai yn well ganddo Twm ei hwsmon yn fab-ynghyfraith na James Powell. Llanwyd ef â chynddaredd, a phenderfynodd ddial hyd yr eithaf. Yr oedd rhent digon uchel ar y Bryn-rhŷg eisoes, yn ol tystiolaeth pawb a wyddai am y tir; ond cododd Powell ar y rhent; ac yn mhob modd, dangosodd bob brynti ag a fedrai tuag at yr hen amaethwr.

Yn fuan wedi hyn, er profedigaeth dost i feddwl Miss Rhydderch, hwyliodd Robert Fritchard ar fordaith, dros ei feistr, can belled a Calcutta. Yr oedd rhyw farsiantdwy'r yno oedd mewn trafodaeth eang âg ef yn Llundain wedi myned i beth dyryswech, ac yr oedd y marsiantdwr yn barnu yn anghenrheidiol anfon rhywun o fedr ac ymddiried i chwilio i'r achos. Disgynodd y dewisiad ar ein cyfaill, Robert; oblegaf yr oedd efe wedi ei brofi ei hun yn wr diesgeulus yn ei orchwyl; ac felly, fel gwas ffyddlawn, fe anturiodd dros y tonau i wynebu India'r Dwyrain; gan feddwl, os dychwelai mewn diogelwch, am briodi yn ebrwydd ar ol hyny.

Tua'r amser hwn, yr oedd etholiad marchog dros y sir, i'w chynrychioli yn y senedd, yn cymeryd lle. Ac yr oedd Powell yn brysur iawn yn y mater hwn. Yr oedd dau ymgeisydd am yr anrhydedd, y rhai a alwn ni, er mwyn ymddyethro, yn Syr Arthur Llwyd, o'r Plas-hên, a Mr. Dudley, o'r Castell-brith. Yr oedd Syr Arthur yn Gymro o waed coch cyfan, wedi disgyn oddiwrth yr hen Dywysogion Cymreig; ac yr oedd yn wladgarwr diffuant, ac yn rhyddfrydig o ran ei egwyddorion gwladol; byddai yn caniatáu yn rhwydd i'r holl enwadau Protestanaidd gael cyfodi capeli ac ysgoldai ar ei dir. Mr. Dudley oedd Sais, wedi priodi etifeddes y Castell-brith; ac yr oedd yn Dori dallbleidiol ac yn Buseiad haerllug. Oddeutu dwy flynedd cyn yr etholiad, yr oedd ef wedi bwgwith troi tenant iddo o'i dyddyn, am ei fod yn cynnwys cyfarfodydd i weddio ac i bregethu yn ei tŷ; a phan yr ysgrifenydd ato gan wr synwryol ynghylch hyny, efe a atebodd ei fod yn credu yn gydwybodol mai yr Eglwys Wladol oedd unig siannel bendith ddwyfol, a'i fod yn gwneyd trugaredd â'i dirdeiliaid trwy osod pob rhwystr ag a fedrai ar eu ffordd i fyned i unlle allan o le y fendith. Mewn etholiadau blaenorol, yr oedd tenantiaid Mr. Nanney Morgan yn cael pleidleisio fel y mynent, heb fod dim dylanwad o'r eiddo ef yn cael ei arfer arnynt. Ond y tro hwn, yr oedd Powell yn gweithio â'i holl egni (nid am ddim, tybygid), o ochr Mr. Dudley, gan arfer enw ei feistr i orfodi y deiliaid i roddi eu pleidleisiau iddo.

Yr oedd amryw o'r tenantiaid, rhai o honynt yn Ymneilldŵy'r profsedig, yn ymostwng yn ddiiddig i'r ddedfryd etholiadol hon. "Mae yn llawer gwell genym ni," meddynt, "Syr Arthur Llwyd, a'i egwyddorion; ond nid oes help am dani; gall pobl fawrion fforddio ymryson â'u gilydd mewn *politics*; eithr nid yw hyn o werth i ni anturio ein hamgylchiadau o'r herwydd: na; ni wiw i'r llestr pridd daraw yn erbyn y llestr pres." Ac â rhyw wagreswm o'r fath yna, ceisient ddystewi y gydwybod, os oedd cydwybod ganddynt hefyd, er mwyn pleidleisio dros Mr. Dudley. Ond nid gwr o'r fath ystwyf ystwyth oedd Owen Rhydderch, o'r Bryn-rhŷg. "Mr. Morgan," medd efe, "a biau fy nhir, ac yr wyf yn talu llawn werth, a llawer mwy, am y defnydd o hono; ond myfi biau fy mhleidlais, ac mi a'i rhoddaf fel y gwelaf yn oreu. Beth? rhoi fy *vote* i ddyn erlidgar a hanner-Pabydd fel Mr. Dudley? Na roddaf byth." "Chwi a gewch

weled mai gwell yw i chwi ildio i wneyd fel yr wyf yn ceisio genych," meddai Powell. "O'r goreu," atebai yr hen amaethwr cywir; "yr wyf yn cofio yr hen air, 'Gwna fel y dylit, a doed fel y delo.'" Ceisiwyd ganddo wedi hyn, gan na roddai ei bleidlais dros Mr. Dudley, ymatal rhag ei rhoddi dros Syr Arthur chwaith. "Na; gan fod genyf bleidlais," ebe fe, "mi a'i rhoddaf yn ol fy nghydwbybod. Syr Arthur *for ever!*" Yr oedd trwy hyn yn cyflawni mesur ei anwiredd yn ngolwg y *steward* dialgar, yr hwn a anfonodd ato ar fyrder rybudd o *ejectment*.

Ar y cyntaf, nid oedd Rhydderch yn meddwl fod pwys mawr yn y rhybudd; darbwylid ef gan ei gyfeillion nad oedd Powell yn bwriadu ond ei ddychrynu; nad oedd bosibl y tröid tenant da allan o'i fferm, a hwnw yn hen denant, a'i dad a'i deidiau wedi bod yno o'i flaen, am ddim ond pleidleisio yn ol ei farn mewn etholiad sirol. Yr oedd Mr. Morgan hefyd wedi ei ddangos ei hun bob amser yn gyfeillgar iawn i Owen Rhydderch, ac yn hoff o hono; yr oeddynt tua'r un oedran, ac wedi cydchwareu llawer pan yn blant; ac yr oedd yr hen amaethwr yn barnu ond iddo fyned yn bersonol at ei feistr tir i'r palas, na byddai achos iddo ofni cael ei droi o'r Bryn-rhÿg. Ond yr oedd Powell wedi rhoddi ei fryd ar ddiad arno: yr oedd y meddwl am ei wrthodiad gan Miss Rhydderch yn cancro yn ei fynwes, ac yn gosod ei hunangariad mewn poenau; ac yr oedd gwaith yr hen ŵr yn nacáu ymostwng iddo yn amgylchiad yr etholiad, wedi doddi ei uchafiaeth mewn perygl yn ngwydd y byd. Yr oedd y naill a'r llall o'r pechodau hyn yn anfaddeuol gan y goruchwylwr ffroenuchel; ac felly yr oedd yn benderfynol am ddiadi y rhybudd mewn grym. Am Mr. Morgan, pan aeth Owen Rhydderch ato i'r Glyn, cafodd ef ar y pryd mewn cyflwr tramedd; yr oedd yn wylo fel plentyn wrth weled ei hen gyfoed, a'r dyn goreu o'i denantiaid, fel y galwai ef; ond yr oedd, ysywaeth, yn gwbl analluog i amgyffred dim a ddywedid wrtho. Aeth Owen Rhydderch yno eilwaith; ond y tro hwn, nid oedd fodd iddo gael myned i olwg ei feistr. Yr oedd Powell wedi cael gwybod am ei ddyfodiad blaenorol, ac wedi rhoddi siars ar y gwasanaethwyr, os deuai drachefn, ar iddynt beidio ar un cyfrif ei adael i fyned at Mr. Morgan, ond iddynt wneuthur rhyw esgus am y gomeddiad; ac yr oedd gair Powell yn gyfraith yn y palas. Cyn hir, clywid fod amryw wedi bod gyda'r goruchwylwr yn ceisio am y Bryn-rhÿg iddynt eu hunain, a rhai o honynt yn gymydogion, ac yn eu proffesu eu hunain yn gyfeillgar iawn i Owen Rhydderch a'i deulu. Dyna pa fath rai yw dynolryw!

Erbyn hyn yr oedd pryder nid bychan wedi dâl teulu y Bryn-rhÿg: i ba le yr äent? Gwir fod gormod o rent o lawer ar y fferm; ond trwy fod ein hen gyfaill yn dda arno, neu yn bur gefnog, ys dywed y Gogleddwyr, ac felly yn meddu yn wastad geiniog wrth law i wneyd y fargen oreu, yr oedd efe yn gallu gwneuthur yn well yn y Bryn-rhÿg na'r rhan fwyaf o'i gymydogion mewn tyddynod rhatach. Yr oedd Richard ei fab hefyd yn amaethwr dan gamp; nid oedd gwell triniwr nag ef yn holl blwyf; nid oedd un tir diffrwyth na ddygid dan ei law ef yn gynnyrchiol; ac er y byddai yr hen ŵr weithiau yn grwgnach am fod ei fab yn cydffurfio gormod â'r bobl sydd yn ffarmio wrth lyfrau, fel y dywedai, ac yn rhy dueddol i ymarfer â newydd-ddulliau, eto wedi i bethau ddyfod oddiamgylch yn deg, mynych y gorfodid ef i ddywedyd, yr hyn a wnai dan hanner chwerthin, "Yn ddiogel, fachgen, er ei fod yn beth gwaradwydd i ni, yr hen bobl,

mae arnaf ofn mai tydi sydd yn dy le." Yr oedd ystyriaeth gryfach eto yn gafaelyd yn y teimlad, ac yn ei rwympo yn y modd tynaf wrth amaeth-dŷ y Bryn-rhŷg: "Dyma hen drigfan ein teulu: yma y ganwyd fy nhad, a'i dadau yntau o'i flaen, ac oddiyma y cludwyd hwy i'r bedd; yma yr anadlais innau gyntaf, ac yma yr oeddwn yn dymuno cael tynu fy anadl olaf; ac yn fy oedrap i, mae yn drueni fod yn rhaid i mi feddwl am un symudiad ond myned ar ol fy nhadau i orphwys yn mhridd y fynwent."

Clywodd Syr Arthur Llwyd am brofedigaeth yr etholwr gonest, ac yn dra hynaws anfonodd ato i ddywedyd am dyddyn da oedd yn rhydd dano ef; ond yr oedd hwnw tua deugain milltir o'r Bryn-rhŷg; ac nid oedd Owen Rhydderch yn gallu ymuniawni i feddwl am fudo i le mor ddyceithr. Mynai Richard iddynt fyned i Unol Daleithiau yr America, yn ol esiampl llawer o'u cydnabod; ond yr oedd gwaeledd iechyd ei fam, a dymuniad difrif ei dad i gael ei gladdu yn meddrod ei dadau, yn rhwystrau ar unwaith i'r ymdaith hirfaith hono. Meddylasant am gymeryd tŷ yn y dref gyfagos, i aros yno, hyd oni chaent dyddyn cymhwys yn rhywle o fewn cylch eu hen ardal; canys nid ydoedd rhyddfasnach wedi dyfod i deyrnasu eto, a'r pryd hyn yr oedd cael fferm i un mewn anghenrhaid am dani yn beth lled anhawdd.

Nid ar eu penau eu hunain y mae profedigaethau yn dyfod yn gyffredin; pan ddelo un cystudd, fe geir yn fynych fod un arall yn cydgerdded âg ef; ac mae "y cymylau yn dychwelyd ar ol y gwlaw." Felly y caed gan bobl y Bryn-rhŷg. Tra yr oeddnt mewn penbleth ynghylch newidiad eu trigias, daeth angeu i mewn, ac a wnaeth dŷ o waith llaw yn afreidiol i un o'u nifer. Ymddifadwyd Owen Rhydderch o'r wraig oreu, fel y dywedai ef ei hun, a sangodd wadn esgid erioed. Yr oedd hi yn wael ei hiechyd, fel y nodwyd, er ys amser; a hi a aeth i Gymdeithasfa ———; a'r mynediad hwnw a fu yn achlysur o'i marwolaeth. Yr oedd yr hin wedi bod yn llaith, a hithau, wrth sefyll yn y cae lle yr oedd yn pregethu, a gafodd anwyd trwm, yr hwn a drôdd yn ddarfodedigaeth cyflym. Bu farw fel cristion, gan deimlo ei thraed ar Graig yr oesoedd, a mwynhau y tangnefedd yr hwn sydd uwchlaw pob deall. Pan yr oedd ei phriod a'i phlant yn cydwlyo o'i hamgylch, yr oedd hi mewn pwyll yn gallu dywedyd,

"Mae, mae
Yr amser hyfryd yn nesáu,
Pan gaffo f' enaid ei ryddhau,
O'm tŷ o glai fyn'd tua 'm gwlad:
Nid yma mae 'ngorphwysta i,
Mae hono fry yn nhŷ fy Nhad."

"Mae yno," meddai hi, "lawer o drigfanau. Oes! ac heb un *steward* blin i'n hafonyddu yn yr un o honynt."

Yr oedd yr amser bellach yn nesu i Owen Rhydderch, gyda'i fab a'i ferch, ymadael o'r Bryn-rhŷg. Er nad oedd sicrhad penodol fod y fferm wedi ei gosod i neb arall, nid oedd ammheuaeth ganddynt nad hynby a wneid yn fuan; a phenodasant ddiwrnodau i arwerthu y cynnyrch, y da byw, a llawer o'r dodrefn. Ond "Nid eiddo dyn ei ffordd, ac nid ar law gwr a rodio y mae llywodraethu ei gerddediad." Yr oedd yr arwerthiant i ddechreu ar ddydd Iau; ond daeth ymwelwr annysgwyladwy i'r Bryn-rhŷg y prydnewn dydd Mawrth blaenorol, cenadwriaeth dda yr hwn a barodd i'r arwerthiant beidio cymeryd lle o gwbl. Nid oedd neb ar y

ddaear yr oedd yn gystal gan Ann Rhydderch ei weled a'r ymwelwr hwnw. Robert Pritchard ydoedd, newydd ddychwelyd o'r India Ddwyreiniol. Pan y daeth i'r tŷ, yr oedd yr hen wr yn eistedd yn yr hen gader ddwyfraich wrth y tân, â'i law chwith dan ochr ei ben, a'i lygaid yn edrych yn bruddaidd tua'r llawr, a'i bibell ysmocio yn cael ei dâl yn ei law ddeheu wedi ei llanw â defnydd mwg, ond yr oedd efe fel pe buasai heb ddigon o galon i'w thanio. Yr oedd ei wedd megys yn dywedyd, "Yr hen aelwyd anwyl! buom yn gymdeithion ffyddlawn i'n gilydd hyd yma; ond rhaid i mi bellach ffarwelio â thi am byth! Yn nesaf at y loes a gefais wrth gollu fy anwyl wraig, yr wyf yn teimlo gorfod cefnu arnat ti!"

Ond dyma swm traed ar y llawr; efe a edrychodd, ac a neidiodd i fyny yn ddoed, gan ddywedyd, "Beth! ai Robert Pritchard sydd yma yn wir? Y mae yn dda genyf eich gweled! pa bryd y daethoch adref?"

"Heddyw y bore," meddai Robert; ac ychwanegodd yn siriol, "Pwy a fuasai yn meddwl fod yn rhaid i mi ddyfod o'r India hyd yma i ddwyn newydd da i chwi? Codwch eich calon, Owen Rhydderch anwyl; chwi a fyddwch yma eto yn gorphen eich dyddiau; nid oes un *steward* yn Nghymru a all eich troi o'r Bryn-rhŷg. Daeth Mr. Watkin Morgan adref gyda mi; ac fe wŷr am yr holl helynt a basiodd; ac yn awr y mae pob- peth o'ch ochr; diolch i Lywydd nef a llawr."

Nid hawdd yw desgrifio effeithiau cysurlawn yr ymweliad a'r hysbysiad hwn. Gwnaethai yr olygfa sydd yn awr ger gŵydd ein meddwl destun da i arluniedydd. Yr hen amaethwr yn ei freichgader yn pwffio mwg tybacco mewn egni godidog, tra yr oedd dagrau o lawenydd yn treiglo dros ei ruddiau: Robert Pritchard yn wr ieuanc prydferth, ei wedd braidd yn heulfelyn, yn eistedd o'i flaen, ac yn adrodd hanes ei deithiau a'i ddychweliad: cawr o hen gi yn edrych yn myw ei lygaid, ac yn ysgwyd ei gynffon yn groesawus arno: a rhyw ferch ieuanc deg yn ymddangos yn hanner-yswil, ac ar yr un pryd yn methu cadw ei llonder o'i llygaid; hðno wedi dwyn ynghyd y llestri *china* goreu, yn myned i barotôti têt, tra nad ydyw yn colli cymaint a gair a ddywedir gan y dyn ieuanc.

Yr oedd Robert Pritchard wedi bod yn llwyddiannus yn ei neges fasnachol i India; ac ar ei ddychweliad yn ol, cyfarfuasai â Mr. Watkin Morgan, yr hwn oedd wedi ei ddyrchafu i radd cadben yn y fyddin, yn yr un llong yn dyfod adref. Pe buasai dau frodor o Holland, er mor sychlyd a digyfeillach yw naturiaeth yr Isellmyr, yn cyfarfod â'u gilydd yn y fath amgylchiad, diau na buasai y cwrdd yn un anserchog; ond dau Gymro o'r un ardal yn cyfarfod ar "fôr yr India,"—rhaid fod gwaed y naill a'r llall yn berwi mewn sirioldeb a chyfeillgarwch. "Wrth eich gweled diwi, Robert," meddai y Cadben, "yr wyf yn fy ngweled fy hun megys pe bawn eisoes wedi cyrhaedd cartref."

Adroddasant eu helyntion i'w gilydd; ac yr oedd adroddiadau Cadben Morgan am ei hynt filwrol yn rhyfedd a chynhyrfiol. Nid oedd wedi cael y fyddin yn feithrinfa segurddod a difyrwch, fel y dysgwyliasai ar y cyntaf. Gydag iddo gyrhaedd yr India, yr oedd yr ymruson â llwythau rhyfelgar Affghanistan wedi dechreu, a gorfu iddo yntau gymeryd rhan yn yr ymdrech. Croesodd yr Indus, a chyrrhaeddodd Cabul, prifddinas Affghanistan, yr hon a gymerwyd gan y lluoedd Brytanaidd. Dychwelodd oddi-yno yn swyddog yn myddindorf (*brigade*) Syr Robert Sale; yr oedd gyda y rhyfelwr gwrol hwnw yn nhref Jellalabad, lle buont yn warebuedig a

oddeutu pum mis gan fyddin fawr Akhbar Khan. Yr oedd newyn yn hylldremu arnynt, a'u defnyddiau rhyfel (*ammunition*) ymron wedi llwyr ddarfod, pan y ddaeth byddin y Cadfridog Pollock i'w cynnorthwyo, ac yr éangwyd arnynt. Ond nis gallwn yma olrhain yr holl hanes; digon yw dywedyd i Cadben Morgan ennill enw da iddo ei hun am ei galendid milwraidd yr holl yspaid y bu gyda y fyddin yn yr India—iddo gael ei waredu yn wyrthiol saith neu wyth o weithiau o safn marwolaeth—a'i fod yn dychiwel i wlad ei enedigaeth yn ddyn doethach a llawer mwy ystyriol na phan yr aethai allan o honi. Yr oedd yn penderfynu aros bellach yn nghyfanneddle heddychol Cymru, er cysur i'w dad tra y byddai, ac er daioni, hyd y gallai, i'w wlad yn gyffredinol, ac i'w dirdeiliaid ei hun yn neillduol.

Daethant i dir Lloegr yn ddiogel; ac wedi aros am rai dyddiau yn Llundain, daeth y ddau gydymaith gyda eu gilydd i'w cymydogoeth enedigol. Teithiasant trwy y nos, a chyrrhaeddasant eu cartrefleoedd yn y bore. Effeithiodd dychweliad ei fab ar Mr. Nanney Morgan megys bywyd o feirw; daeth i weled fod ganddo rywbeth bellach yn werth byw yn sobr er ei fwyn.

Pan gyrhaeddodd Robert Pritchard i'r Fron-werdd, adroddodd ei deulu wrtho yn fuan pa fodd yr oedd pethau yn sefyll gyda ei gyfeillion yn y Bryn-rhŷg, gyda holl ymddygiadau Powell tuag atynt. Gwelodd nad oedd amser i'w gollu; aeth yn ol yn ebrwydd at Cadben Morgan, ac a ddywedodd y cwbl wrtho, gan erfyn arno wrthweithio malais y goruchwylwr yn erbyn Owen Rhydderch a'i deulu.

"Robert," meddai y Cadben, "pe gofynasech i mi am hanner fy etifeddiaeth, ni buasai yn anhawdd genyf eich gommedd; pa faint mwy eich cais rhesymol yn hyn o fater? Na: ni chaff yr hen Rhydderch mo'i droi o'i dyddyn i foddio James Powell, na neb arall."

Ymofynodd â'i dad ynghylch y peth hyn; ond yr oedd yr hen foneddwr mor ddiniwed a'r oen yn yr achos. "Yr oedd James Powell," eb efe, "yn cael trefnu pob peth fel y gwelai yn oreu; ond ni ddarfu i mi erioed feddwl y buasai efe yn cymeryd hyfdra i ymddwyn fel hyn at hen denant fel Owen Rhydderch. Yn awr, fy mab, mae yr holl lywodraethiad o hyn allan i fod wrth eich ewyllys chwi."

"Ewch yn awr i'r Bryn-rhŷg, a gwnewch eu meddyliau yn dawel," meddai y Cadben wrth Pritchard; "a deuwech yma y prydawn yfory, a chyda eich help, ni a fynwn chwilio rhai o lyfrau y boneddwr, Powell. Anfonaf ato i ddyfod â'i gyfrifon yma y boreu yfory. Mae yn ymddangos ei fod wedi cael ei ffordd ei hun yn rhy hir."

Hwyliodd Robert Pritchard ei gamrau yn ddiymaros tua'r Bryn-rhŷg, ac a draddododd ei genadwriaeth gymeradwy, megys yr hysbyswyd eisoes. Ond os llawen oedd y cyfarfod rhyngddo ef a theulu y Bryn-rhŷg, nid mor ddifyr i James Powell oedd ei gyfarfyddiad ef â'r Cadben Morgan. Pan wasgwyd arno am ei draha tuag at Owen Rhydderch, nid oedd yn gallu ond mwngial esgusion gweinion, y rhai nid oeddynt yn tycio ond i gyffroi digofaint y Cadben yn fwy yn ei erbyn. Trodd ymaith o'r palas yn bur benisel, o herwydd yr oedd yn anobeithio gallu cadw ei oruchwyliaeth am nemor amser yn hwy.

Gwnaed dyfalechwiliad i'w gyfrifon, a chafwyd profion digonol o anghywirdeb a thwyll ynddynt. Yr oedd wedi rhoddi i lawr y derbyniadau yn llai, a'r taliadau yn fwy nag yr oeddynt; ac yr oedd wedi camattal cyflog

y gweithwyr, a chyflawni llawer o eraill anghyfiawnderau. Nid oedd y ddau Forgan yn ewyllysio ei roddi yn ngafael y gyfraith, ond gollyngasant ef ymaith yn ei warth, gan erchi iddo fyned i rywle yn ddigon pell oddiwrthynt hwy a'u tenantiaid; ac yn wir, da ganddo ef ei hunan oedd cael dianc yn lladradaidd ymaith, oblegid yr oedd pawb bellach yn ei hwito fel ffeidd-beth esgymun. Yr oedd wedi gwneyd llogell drom iddo ei hun gydag arian Mr. Morgan; ac efe a aeth â'i fammon anghyfiawn gydag ef i Lundain. Y newydd cyntaf a glywodd ei hen gydnabod am dano ydoedd, ei fod yn *stock-broker* (soddbwriad, medd Caerfallwch), ac wedi ennill mil-oedd o bunnau iddo ei hun yn yr haphwareu gorphwyllog a fu trwy y deyrnas gyda phob math o reilffyrdd, dychymyglol neu sylweddol. Yr ail newydd a gyrhaeddodd am dano ydoedd, ei fod wedi cael ei esgymuno o'r *Stock-exchange* (soddnwidfa, meddwn, wrth Gymro beirniadol), o herwydd twyll a hoced, ac wedi colli ei holl arian trwy fargenion anffodus. A'r newydd diweddfaf a glywyd yn ei gylch, ydyw, ei fod yn awr yn cael tameraid o fara oddiwrth weinyddu fel bwmbeili i rai o dwrneiod iselaf y brif-ddinas.

Robert Pritchard ac Anne Rhydderch a gysylltwyd ynghyd mewn glân briodas yn fuan; ac y mae efe wedi cael rhan yn nhrasnidaeth ei feistr, ac ni synem ddim os gwelir ef cyn diwedd ei oes yn "llondeg faer Llundain." Dewiswyd Richard Rhydderch yn oruchwyliwr yn lle James Powell; ac y mae Richard mewn gwirionedd yn "oruchwyliwr ffyddlaw a phwyllog," yn gyfiawn i'w feistr, yn ddaionus i'r tenantiaid, ac yn wir barchus gan bawb. Y mae yn para i fyw gyda ei dad, yr hwn sydd weithian mewn henaint teg, yn batriarch cymeradwy yn mysg lliaws ei gydnabod. Mae Mr. Morgan, henaf, wedi marw er ys rhai blyneddau bellach; ac y mae ei fab yn cael ei gyfrif yn un o'r boneddigion mwyaf gwladgarol a syberw sydd yn Nghymru. Mae wedi cyfarfod yn haelionus â'i denantiaid ar gyfer dyddymiad Deddfau yr Yd, ac y mae yn arddangos gofal dibaid am eu cysur a'u dedwyddwch.

Nid oes eisieu, dybygem, i ni wneuthur dim casgliadau neu gymhwysiaidau oddiwrth yr hanes blaenorol; y mae yr ystori yn cario ei haddysg ynddi ei hun. Os gwel rhywun wers yma iddo ef, attolygwn arno ei chymeryd yn dawel, ei dysgu yn drwyadl, a'i defnyddio yn ffyddlaw.

NODIADAU AR LYFRAU.

A Biographical Dictionary of Eminent Welshmen, from the earliest times to the present; with a Supplement, containing a Catalogue, methodically arranged, of all the books printed in the Welsh Language, or otherwise connected with the History and Literature of Wales. By the REV. ROBERT WILLIAMS, M.A. Ch. Ch., Oxon., Perp. Curate of Llangadwaladr, Denbighshire.

ANFANTAIS fawr y Cymry ydyw, fod eu cylch mor fychan: ac er hyny, fel pe na byddai modd ei lenwi er lleied ydyw, mae yn rhaid iddynt ei ranu i liaws o fân gylchoedd, y rhai ydynt mor ddyeithr i'w gilydd a phe byddai lled y ddaear rhyngddynt. Y mae cylch gwladol Cymru yn cynnwys cryn ddwsin o gylchoedd llênnyddol. Nid yw fawr lai na phechod yn nghyfrif y naill enwad i roddi cefn-

ogaeth i'r llyfrau a gyhoeddir gan enwad arall. Os darllenir eu misolion, ceir gwelid yn fuan na fu un dyn mawr erioed y tu allan i'w byd bach hwy. Y mae hyn yn fantais i ddynion bychain; oblegid mewn byd bychan gall corachod gael eu cyfrif yn gewri; ond i ddynion gwir sawr, y rhai a fedrant sefyll ar eu traed yn eu nerth eu hunain, y mae pob ategion o'r fath hyn yn rhwystrau. A gresyn am y cyfryw na chaent yr holl Dywysogaeth o leiaf yn faes eu llafur, ac na b'ai eu holl gydwladwyr yn parchu eu coffadwriaeth.

Y mae Mr. Williams, modd bynag, yn y gwaith hwn, wedi ymddyrchafu uwchlaw teimladau pleidgar. Nid pobl ei blaid ef ei hun yn unig sydd yma; ond enwogion y genedl o bob plaid. Ac hyd y medrasom ni ganfod, y mae eu hanes wedi ei ysgrifenu mewn ysbryd diragfarn, yn gystal ag mewn arddull syml ac ysgolëigaidd. Mewn gair, yr ydym yn edrych ar hwn fel un o'r llyfrau goreu a gyhoeddwyd er's talm mewn cysylltiad â llënyddiaeth y Cymry.

Addysg Chambers i'r Bobl (Chambers' Information for the People). O'r argraffiad Seisoneg diweddaf.

PRIF ragoriaeth y Cymry yw eu crefyddolrwydd; a gobeithiwn na welir y nod-weddiad hwn byth wedi ei golli. Os credwn fod byd ar ol hwn, a'r byd hwnw o dragywyddol barhad, y mae rheswm ei hun yn ein dysgu y dylai crefydd gael y lle blaenaf. Ac hyd yn nod gyda golwg ar y fuchedd bresennol, nid oes newawr o sail gan genedl na phersonau unigol i ddysgwyl llwyddiant, ond i'r graddau y byddont yn cael eu llywodraethau gan egwyddorion y Bibl. Yr ydym yn llawenhaus, gan hyny, ac yn ymfrostio, wrth feddwl mai llyfrau crefyddol yw y rhai mwyaf poblogaidd yn Nghymru. Er hyny, y mae perygl rhag i'n llënyddiaeth fyned yn rhy fynachaidd. Nid llawer a ennillodd y tylwyth hyny iddynt eu huain, a llai a wnaethant o les i eraill, y rhai a ymneillduent gynt yn hollol oddiwrth y byd er mwyn cysegru eu hunain i fyfyrnodau crefyddol. Y ffordd oreu yw cymeryd crefydd gyda ni i ymdrin â phob achos tymmorol, a dwyn y cwbl yn ol drachefn i fod yn wasanaethgar i deyrnas y Gwaredwr. Felly mewn llënyddiaeth, dylem ddarllen pob llyfr mewn ysbryd crefyddol, a chyflwyno ein holl wybodaeth i wasanaeth y cysegr. Pe b'ai y Cymry yn llafurio mwy i eangu eu golygiadau mewn gwybodaeth gyffredinol, gallent fod yn fwy defnyddiol nag ydynt fel Cristionogion. Ac yn awr, trwy anturiaeth cyhoeddwr gwladgarol y llyfr hwn, dyma bob maintais yn gyrraeddadwy i'r Cymro uniath. Os bydd yn methu deall "Addysg Chambers," y mae yn rhaid iddo benderfynu ei fod yn analluog i ddysgu elfenau cyntaf gwybodaeth. Ofer yw beio y cyfeithwyr. Y maent hwy wedi cyflawni eu gorchwyl yn ddoeth a medrus. Nid ydym yn deall eu bod wedi ffurfio geiriau newyddion, pan nad oedd hyny yn anheborol: ac y mae yn dda genym glywed y rhoddir eglurhad helaeth yn niwedd y gwaith ar y geiriau mwyaf ansathredig.

Y Mab Afradlaun; sef Myfyrdodau barddonol ar Luc xv. 11—32. Gan y Parch. DAVID JONES, Caernarfon.

NID oes achos ofni na fydd y llyfr hwn yn dra phoblogaidd. Y mae ynddo fesur nid bychan o dân awenyddol y bardd o Bant-y-celyn: ac os yw yr awdlur mewn ychydig fanau fel yr hen Williams ei hun, yn rhy esgeulus ynghylch yr iaith, eto bai bychan ydyw hwn mewn cymhariaeth i'r rhagoriaethau sydd yn llenwi y gân. Yn mhob rhan o honi y mae gwir enaid barddoniaeth yn dyfod i'r golwg.

Dywedai un gwr nad oedd waeth ganddo ef pwy gai yr anrhydedd o wneyd cyfreithiau i'r bobl, os cai ef wneyd eu caniadau. Y mae rheswm yn y dywediad; oblegid y mae caniadau yn llawer mwy effeithiol na chyfreithiau. Ac nis gallwn feddwl am ddim a atebai well dyben na rhoddi y llyfr hwn yn nwyllaw holl ieuentyd Cymru. Ei gynnwysiad sydd fel y canlyn:—Y Mab yn ymgaledu yn erbyn addysg a chydwybod—y Mab yn ymadael â'i Dad—Ymdrechion

llwyddiannus y Tad yn achos ei Fab—Dygiad yr Afradlon i gyfyngder—Y Mab yn dychwelyd at ei Dad.

Elfenau Cerddoriaeth. Gan y Parch. JOHN MILLS. *Wedi ei helaethu a'i ddiwygio, at yr hwn yr ychwanegwyd Attodiad ar Ganiadaeth:* gan JOHN WILLIAMS, awdur y "Cannhrodydd Cymreig." Yr ail argraffiad. T. Gee, Dinbych.

Elfenau Gallofyddiaeth (The Elements of Mechanics). Gyda Darluniau. T. Gee, Dinbych.

Y DDAU lyfr yma a berthynant i gyfres o draethodau Cymreig ar elfenau y gwyddorion a'r celfyddydau, y rhai y mae Mr. Gee er ys talm o amser yn eu paratōi i'r wasg, ac yn bwriadu eu cyhoeddi yn ddioced. Am y cyntaf, y mae enwau yr awdwyr yn ddigon o ganmoliaeth. Meddyliem nad oes modd gwneyd elfenau cerddoriaeth yn fwy dealladwy. Y llall sydd gyfieithiad o'r argraffiad diweddfaf o "*Joyce's Scientific Dialogues.*" Y mae wedi ei ysgrifenu mewn ffordd o ymddyddan rhwng tad a'i blant, yr hyn sydd yn rhoddi mantais i egluro holl egwyddorion gallofyddiaeth yn y modd mwyaf dysyml. Bydd ei ddarllen, ac ymdrechu i'w ddeall, yn ymarferiad difyr i lawer teulu ar nosweithiau hirion y gauaf: a phwy a wŷr na fydd yn foddion i roddi cynhyrriad dechreuol i ambell feddwl ieuanc, ac i godi rhyw Watt neu Stephenson o blith cenedl y Cymry?

"*It never rains but it pours,*" meddai'r Sais. Dyma "Addysg Chambers" yn cael ei gyhoeddi yn Pwllheli, a chyfres o draethodau ar bob cangen o wybodaeth yn dyfod allan yn Dinbych. Cyhoeddwyd hefyd amryw lyfrau buddiol o gyffelyb amcan yn ddiweddar yn Nghaerfyrddin. Ac yn ychwanegol at hyn i gyd, dyma gymdeithas newydd i'r perwyl hwn wedi ei sefydlu yn Llundain. Gobeithiwn y deuant i ryw gyd-ddealltwriaeth, fel na byddont yn rhwystri i'w gilydd. Ac yma, mae yn iawn i ni gymeryd y cyfle hwn i grybwyll ddarfod i ni dderbyn llythyr oddiwrth Mr. John James (*Ioan Meirion*), yn cyfeirio at yr ysgrif ar "Afesoldeb yr Eisteddfodau," yn y rhifyn diweddfaf o'r "Traethodydd," ac yn hysbyeu fod y gymdeithas uchod yn ateb i'r cynnygiad am gymdeithas newydd yn yr ysgrif hono. Dywed Mr. James hefyd y bwriedir i'r gymdeithas fod yn hollol amhleidgar. Nid oes ynom y duedd leiaf i'w anghredu. Mae yr amcan yn ymddangos i ni yn wladgarol; ac o eigion calon y dymunwn ei lwyddiant.

Gweithiau Barddonawl y diweddar David Richards, Ysw., o Glanymorfa, gerllaw Towy, Meirion, a adwuenir yn gyffredin wrth ei enw barddonol Dafydd Ionawr. R. O. Rees, Dolgellau.

UN o'r hysbysiadau mwyaf derbynol a ddaeth dan ein sylw yn ddiweddar yw yr un a roddwyd gan Mr. R. O. Rees o Ddolgellau, ei fod ef yn bwriadu cyhoeddi holl waith barddonol Dafydd Ionawr. Nid oes ond ychydig, feddyliem, yn feddiannol ar holl gywyddau y bardd hybarch hwn; ac i'r rhai hynny sydd yn eu meddu eisoes yn yr hen argraffiad, y mae yr argraffiad hwn yn werth ei brynu, gan ei fod yn cynnwys ynghylch *pedair mil* o linellau newyddion, y rhai ydynt, gan mwyaf, yn ychwanegiadau at brif waith yr awdur, "Cywydd y Drindod."

Am deilyngdod Dafydd Ionawr, nid oes eisieu gwell tystiolaeth na geiriau y diweddar Barch. Walter Davies yn niwedd ei adolygiad ar "Cywydd y Diluw" yn y cyflyfr cyntaf o'r "Gwyllydd." "Yma y terfynwn ein dyfyniadau o'r cywydd gorchestawll hwn; a'n barn ydyw na ddichon i undyn, oni bydd anghred, ei ddarllen yn ystyriol heb gael yn ei enaid deimladau pwysig—o ofn, o barch, ac o gariad at yr 'Arglwydd Dduw mawr ac ofnadwy, ceidwad cyfammod a thrugared i'r rhai a'i carant, ac i'r rhai a gadwant ei orchymynion.' Ein parch i awdur 'Cywydd y Drindod,' a 'Chywydd y Mil Blynnyddoedd,' a barodd i ni fod morfaith yn ein hadolygiad o'r cywydd diweddfaf hwn o waith yr un awdur; a dywyndd genym weled fod henaint yn mennu can lleied ar gryfder ei feddyliu."

Mewn perthynas i'r argraffiad hwn, gadawn y cyhoeddwr i lefaru drosto ei hun; ac y mae yn ddigon galluog i wneyd hynny, fel y gwelir yn yr anerchiad a ganlyn oddiwrtho ef at ei gydwladwyr.

"I ddydd o duedd athronyddol, ychydig o byncian a ellid gael mwy cywraic ac addygiadol na 'Chymru a'i Beirdd.' Pe gwnai ymchwiliad manwl i'r pwne hwn, tybiwn y deuai i'r penderfyniad hynod mai cenedl y Cymry ydoedd y fwyaf barddonol, ac eto y fwyaf esgeulus o'i beirdd, o unrhyw genedl ar gofrestrau hanesyddiaeth—iddi fagu mwy o wir feibion yr awen, mewn cymhariaeth i'w rhif, nag un genedl arall; ac eto, yn wahanol i bob cenedl wareiddiedig, hen a diweddar, nid oes ganddi un bardd CENEDLAETHOL! dim un bardd ag y mae ei waith yn adnabyddus i gorff y genedl yn gyffredinol. Gŵyr y rhai sydd yn hyddysg yn hanes barddoniaeth Gymreig, y fath ardderchog lu o feirdd a gynnyrchodd Cymru o ddyddiau TALIESYN hyd yr hybarch ROBERT AB GWILYM Ddu yn ein dyddiau ein hunain, beirdd ag y mae cynnyrchion eu hawen yn llawn mor gydrwyliol & chalon a chwaeth y Cymro ag eiddo y bardd mwyaf clodfawr y gall y byd llenyddol ymfrostio ynddo: ond, 'Ein tadau, pa le y maent hwy!' Y mae hyd yn nod eu henwau yn anadnabyddus i'r cyffredin o'u cenedl eu hunain, ac anaml y cyfarfyddir & chynnyrchion gorchestol eu hawen ond fel hynafiaethau meirwon yn llyfngelloedd eu prif lenyddwyr. A berthasaent eu henogrydd ar allor gwladgarwch. Pe buasent yn llai gwladgarol yn eu hiaith s'u testunau, yr oedd ganddynt alluoedd digonol i wneyd eu tynged yn dra gwahanol i'r hyn ydyw. Un o'r rhai mwyaf nodedig ymhlith y rhai diweddar o'r awenyddion anffodus hyn ydyw DAFFOD IONAWR, gweithiau a choffadwriaeth yr hwn yr ydym ni yn awr yn ymdrechu eu cadw rhag suddo, fel lliaws o rai rhagorol Cymru o'i faen, i lynclyn tragwyddol ebarogiant. Bu farw yn Nolgellau yn 1827, wedi cysegru enaid gorlawn o'r 'tân barddonawl' am ystod oes hir gyda brwdfrydedd bron digyffelyb at unig wrthddrych ei fywyd a'i ymfrydiad—Barddoniaeth Griddonogol Gymreig; a phan ystyriom uchelder a phwyfgyrwydd ei destunau, haelfrydigrwydd ei ysbryd, purdeb ac arddunedd digyffelyb ei farddoniaeth, ynghyd â'i ymgysgriad hollol i ddyrchafu chwaeth grefyddol a llenyddol ei wlad, efallai nad oes un bardd, hen na diweddar, mor deilwng o warogaeth cyffredinol pob graddau o'i gydwladwyr a'r prif-fardd DAFFOD IONAWR. Ymrysonai prif feirniaid a dysgedigion yr oes yn eu caemoliaeth iddo ar ymddangosiad cyntaf ei amrywiol Weithiau; ond o herwydd rhyw goeg-dybiau annhringar sydd yn fynech yn cydfyned â'r gradd uchaf o'r ddawn awenyddol, a dull tra anghelydd o gyhoeddi y Gweithiau, ni chwasaent ond lleddeniad bychan, ac y maent yn awr yn dra anaml ac yn anadnabyddus i ond ychydig o'r oes hon o ddarllenwyr. Derbyniasom gymeradwyaeth gwirfoddol a gwrosog lliaws o brif lenyddwyr y Dywysogaeth, perthynol i'r Eglwys Sefydledig ac i'r gwahanol enwadau ymneillduol, i'n hanturiaeth o gyhoeddi a rhoddi lleddeniad helaeth i Weithiau y bardd anghymharol hwn, fel chwaniad ambrisiadwy at lenyddiaeth Gymreig. Yr oedd Mr. RICHARDS yn aelod cydwytbodol o'r Eglwys Sefydledig; ond yr oedd hefyd yn fardd gwir genedlaethol—pob llinell a gyfansoddodd erioed yn anadlu ysbryd pur, heddychlon, a boneddigaidd y ddoethineb sydd oddiuchod. Fel hyn gall yr Eglwyswr a'r Ymneillduwr, yr Ysgolaig â'r chwaeth mwyaf coethedig, yn gystal a'r darllenydd mwyaf anllythyrenog, eistedd yn ddiogel wrth ei draed, a dysgwyl addysg, hyfrydwch, a lesâd. Yr oedd Mr. RICHARDS yn ysgolaig rhagorol; ac eto y mae yn ffaith nodedig, i ni chwilio yn ofer am gymaint ag un llinell o farddoniaeth o'i gyfansoddiad mewn unrhyw iaith ond yn ei hoff famiaith ei hun, ac am un llinell Gymreig nad oedd yn ol rheolau manyliaf y mesurau caethlion, yr unig fath o farddoniaeth a oddefai efe ei galw yn *Farddoniaeth Gymreig*.—Yr ydym yn awr yn galw yn daer ar ein cydwladwyr i ddyfod yn mlaen i'n cynnorthwyo yn yr ymgais presennol i ddyrchafu y bardd talentog hwn i'r lle uchel hwn ag y mae mor gyfiawn yn ei haeddu yn nheini enwogrwydd cenedl y Cymry. Dygir ef ger bron y genedl y tro nesaf gan y dysgedig Mr. MORRIS WILLIAMS, bardd o'r un ysgol wir Gymreig ag ef ei hunan, a gwarcheidwad tra chymhwys i'w nodweddiad barddonol. Am danom ein hunain, yr ydym wedi penderfynu nad arbedwn na thraul na thrafferth i wneyd y gyfrol yn mhob modd yn *deilwng* o'r derbyniad cyffredinol yr ydym yn naturiol yn bryderus am iddi gael; oblegid huy yn unig a wna yr antariaeth yn ddigolled i ni, gan fod pris y gyfrol mor anarferol (efallai y dylasem ddweyd mor afreymol) o isel, prin y drydedd ran o bris yr argraffiadau cyntaf o'r gwahanol Weithiau, heblaw y chwaniadau helaeth a dyddorol a gynnwysa yr argraffiad hwn, fel y gwelir yn yr hysbysiad uchod. Y dydd cyntaf o Ragfyr nesaf, penderfynir tynged yr anturiaeth hon; ac, mae yn dra thebygol, tynged ddaearol coffadwriaeth '*Ionawr mawr Meirion*.'"

DIWEDD LLYFR VI.

DINBYCH: ARGRAFFWYD GAN THOMAS GEE.

1
2
3
4
5
6
7
8
9
10
11
12
13
14
15
16
17
18
19
20
21
22
23
24
25
26
27
28
29
30
31
32
33
34
35
36
37
38
39
40
41
42
43
44
45
46
47
48
49
50
51
52
53
54
55
56
57
58
59
60
61
62
63
64
65
66
67
68
69
70
71
72
73
74
75
76
77
78
79
80
81
82
83
84
85
86
87
88
89
90
91
92
93
94
95
96
97
98
99
100





